



This is a digital copy of a book that was preserved for generations on library shelves before it was carefully scanned by Google as part of a project to make the world's books discoverable online.

It has survived long enough for the copyright to expire and the book to enter the public domain. A public domain book is one that was never subject to copyright or whose legal copyright term has expired. Whether a book is in the public domain may vary country to country. Public domain books are our gateways to the past, representing a wealth of history, culture and knowledge that's often difficult to discover.

Marks, notations and other marginalia present in the original volume will appear in this file - a reminder of this book's long journey from the publisher to a library and finally to you.

Usage guidelines

Google is proud to partner with libraries to digitize public domain materials and make them widely accessible. Public domain books belong to the public and we are merely their custodians. Nevertheless, this work is expensive, so in order to keep providing this resource, we have taken steps to prevent abuse by commercial parties, including placing technical restrictions on automated querying.

We also ask that you:

- + *Make non-commercial use of the files* We designed Google Book Search for use by individuals, and we request that you use these files for personal, non-commercial purposes.
- + *Refrain from automated querying* Do not send automated queries of any sort to Google's system: If you are conducting research on machine translation, optical character recognition or other areas where access to a large amount of text is helpful, please contact us. We encourage the use of public domain materials for these purposes and may be able to help.
- + *Maintain attribution* The Google "watermark" you see on each file is essential for informing people about this project and helping them find additional materials through Google Book Search. Please do not remove it.
- + *Keep it legal* Whatever your use, remember that you are responsible for ensuring that what you are doing is legal. Do not assume that just because we believe a book is in the public domain for users in the United States, that the work is also in the public domain for users in other countries. Whether a book is still in copyright varies from country to country, and we can't offer guidance on whether any specific use of any specific book is allowed. Please do not assume that a book's appearance in Google Book Search means it can be used in any manner anywhere in the world. Copyright infringement liability can be quite severe.

About Google Book Search

Google's mission is to organize the world's information and to make it universally accessible and useful. Google Book Search helps readers discover the world's books while helping authors and publishers reach new audiences. You can search through the full text of this book on the web at <http://books.google.com/>

coll 142.00




Harvard College Library



FROM THE BEQUEST OF

THOMAS WREN WARD

TREASURER OF HARVARD COLLEGE
1830-1842









Y TRAETHODYDD.


AM Y FLWYDDYN 1892.

LLYFR XLV^{VII}II.

CAERNARFON: D. W. DAVIES & CO.

MDCCCXCI.

Celt 142.50



Ward fund

215-7
6-14

CYNHWYSIAD.

IONAWR.

	Tu dal.
Diffyniad Aristides	5
Yr Epistol at y Galatiaid. Gan y Parch. Abel J. Parry	17
Jiwbili y Tonic Sol-ffa. Gan Eleazer Roberts... ..	27
Deon Llanelwy a "Rhesymau dros Ddadsefydliad yng Nghymru." Gan y Parch. Evan Jones	42
Trefnidedd Gwladol y Deon a Dadwaddoliad. Gan y Parch. W. O. Jones, B.A.	57
Cristionogaeth Bersonol. Gan y Profesor Llewelyn I. Evans, D.D.	62
Y Prifathraw D. Charles Davies, M.A. Gan John T. Job	73
Nodiadau Llenyddol	76

MAWRTH.

Anwariaeth yn Esbonio Gwareiddiad. Gan y Parch. William James, B.A.	85
Yr Epistol at y Galatiaid. Gan y Parch. Abel J. Parry	98
Gerwindeb. Gan Gwladgarwr	107
Ymweliad & Llydaw, &c. Gan Robert Rowland	111
Y Profeswr Llewelyn I. Evans, D.D., a'r Ddadl ar Ysbrydoliaeth. Gan y Parch. Daniel Rowlands, M.A.	117
Addysgiaeth Amaethyddol yng Ngogledd Cymru. Gan y Profesor J. J. Dobbie, M.A., D.Sc.	131
Y Parch. William Griffith, Disgwylyfa Gan y Parch. G. Tecwyn Parry	140
Rheswm a Datguddiad. Gan E. O. Davies, B.Sc.	144
Dos, ac na phecha mwysach. Gan Nathan Wyn	151
Hen Gerddi y Cymry. Gan Myrddin Fardd	152
Nodiadau Llenyddol	159

MAY.

Y Parch. Daniel Rowland, Llangeitho. Gan y Parch. D. Worthington, Rheithor Llangeitho	165
Y Profeswr Edward Caird ar Athroniaeth Kant. Gan y Parch. Joseph Roberts	172
Geiriau Cymraeg William Salesbury a William Morgan yn y Llythyr at y Galatiaid. 1567, 1588. Gan y Profesor Hugh Williams, M.A.	182
Charles Haddon Spurgeon. Gan y Parch. H. Cernyw Williams	190
Ymweliad â Llydaw, &c. Gan Robert Rowland	204
Trem ar yr Ysgol Sabothol. Gan y Parch. J. Owen Jones, B.A.	212
Rhai o Beryglon Presennol y Genedl Gymreig. Gan y Parch. O. L. Roberts	221
Pa fath Eglwyswr oedd John Wesley? Gan y Parch. William Hugh Evans	231
Nodiadau Llenyddol	241

GORFFENNAF.

Tu dal.


Nodweddion Gwers iawn. Gan Miss E. P. Hughes, Prifathrawes Coleg yr Athrawesau, Caergrawnt	245
Sefyllfa Foesol Cymru. Gan Faer Caernarfon	256
Codiad yr Haul. Gan H. Isgaer Lewis	260
Athanasius. Gan y Parch Richard Hughes, B.A.	262
Y Brifysgol i Gymru. Gan yr Athraw W. Lewis Jones, M.A.	273
Rheithor Llangeitho a'r Parch. Daniel Rowland. Gan y Parch. John Evans	280
Deddfwriaeth Ataliol yn yr Unol Dalaethau. Gan y Parch. Daniel Rowlands, M.A.	291
Y Graig sydd Uwch. Gan J. Gruffydd Hughes	304
Amddiffyniad yr Eglwys. Gan y Parch. J. Machreth Rees	305
Nodiadau Llenyddol	317

MEDI.

Adnebydd dy Hun. Gan y Parch. J. J. Roberts, Forthmadog	325
Yr Epistol at y Galatiaid. Gan y Parch. Abel J. Parry	332
Y Lleuad. Gan y Parch. John Jones, F.R.H.S.	342
Melchisedec o Salem. Gan y Parch. H. Barrow Williams	348
Adgofion am Morgan Jones, Llundain. Gan Mynorydd	352
Gallu y Pulpud. Anerchiad a draddodwyd yng Nghyfarfod Blynnyddol Athrofa Dduwinyddol y Bala, Gorffennaf 7fed, 1892. Gan y Parch. Alexander Maclaren, D.D.	358
Yr "Euthyphron," neu Beth yw Duwioldeb? Un o Ymddiddanion Plato. Gan y Parch. William Glynn, B.A.	363
Yr Ynadon a Dirwest. Gan William George	376
Yr Ysgol Haf ym Mansfield, Rhydychain. Gan y Parch. J. Puleston Jones, M.A.	382
"Yr Iesu a dawodd." Gan R. Mon Williams	390
Dau Lythyr o ciddo y Parch. William Roberts, Amlwch	396
Nodiadau Llenyddol	398

TACHWEDD.

Gweddi a Bywyd o Dduwioldeb. Gan yr Hybarch Archddiacon Howell, B.D., F.S.A.,	405
Yr Epistol at y Galatiaid. Gan y Parch. Abel J. Parry	411
Eglwys Fyw. Anerchiad a draddodwyd o Gadair Undeb Cynulleidfaol Lloegr a Chymru, yn Bradford, Hydref 11eg., 1892. Gan y Parch. E. Herber Evans, D.D.	421
Rhyddid y Rhyw Fenywaidd. Gan Mrs. M. Oliver Jones	437
Yr Apostol Paul: Ei Brofiad a'i Athrawiaeth. Gan y Parch. John Hughes, D.D.	447
Hen Gerddi y Cymry. Gan Myrddin Fardd	459
Ymson uwch Bodd. Gan Isallt	464
Yr Ysgol Haf ym Mansfield, Rhydychain. Gan y Parch. J. Puleston Jones, M.A.	465
Nodiadau Llenyddol	474



TRAETHODYDD.

IONAWR, 1892

CYNHWYSLAD.

	T. n. n.
Diffyniad Aristides.....	5
Yr Epistol at y Galatïaid. Gan y Parch. ABEL J. PARRY.....	17
Jiweili y Tonic Sol-fa. Gan ELEAZER ROBERTS.....	27
Hysus Llanelwly a "Rhesymau dros Ddaifeffylliad yag Nghymru." Gan y Parch. EVAN JONES.....	42
Tedfudedd Gwleidi y Deun a Dalwaddoliad. Gan y Parch. W. O. JONES, B.A.....	57
Cyhoeddiogaeth Beowulf. Gan y Proffeswr LLWELYN I. EVANS, D.D.....	62
Y Prifathraw D. Charles Davies, M.A. Gan JOHN T. J.B.....	73
Nodiadau Llennyddol.....	70

CYHOEDDID Y RHIFYN NESAF MAWRTH Y 1af, 1892.

PRIS SWLLT.

CAERNARFON:

ARGRAFFWYD A CHYHOEDDWDYD GAN D. W. DAVIES & CO.

GWOBRWYON DIWEDDARAF: y Brif Wobr yn Paris, Melbourne, a Barcelona, Bathodau Aur, a Thystysgrifau yn mhob lle yr arddangoswyd af.

Needham's

DISGLAER

FEL

DRYCH.



Polishing

Paste

Medda symrial agos i ganrif fe' diardpariaeth oren at lanbau PRES. COPR TIN BRITANNIA METAL, PLATINOID, &c. Gellir ei se yn mhob m a mew Potiau 6s. a 1s., neu Flychau 2g. a 1c.

DYFEISWYR A GWNEUTHURWYR,

JOSEPH PICKERING AND SONS, SHEFFIELD.

"NID OES GWELL BWYD YN BOD."—*London Medical Record.*

Wedi ei Goginio yn barod—nid oes eisieu ei ferwi na'i ystraen:o.—Gellir ei wneyd mewn mynyd.

Allen & Hanburys' **Infants' Food**

Bwyd Llesol wedi ei gyfaddasu i organau treuliol Zabanod a Phlant Ieuainc, yn cynwys pobpeth angenrheidiol i ffurfio cnawd caled ac esgryn

BIRD'S CUSTARD POWDER

Cyflenwa foethusfwyd dyddiol—Blasusfwyd mewn amrywiaeth diderfyn—Y dysgleidiau goreu o'r Custard goreu

HEB WYAU!

Y TRAETHODYDD.

DIFFYNIAD ARISTIDES.

Texts and Studies: Contributions to Biblical and Patristic Literature.
Edited by J. ARMITAGE ROBINSON, M.A., Fellow of Christ's College, Cambridge. *Vol. I., No. 1. The Apology of Aristides.* Edited by J. RENDEL HARRIS, M.A., with an Appendix by J. ARMITAGE ROBINSON, M.A. Cambridge: University Press.

DYMA gaffaeliad gwerthfawr a thra dyddorol arall a wnaed yn ddiweddar ymysg trysorau y dyddiau gynt sydd yn guddiedig yn yr hen lyfrgell-oedd. Yn 1884 cyhoeddasom yn y TRAETHODYDD gyfieithiad Cymraeg o "Athrawiaeth y Deuddeg Apostol," o ddechreu yr Ail Ganrif, a ddarganfyddasid yn Llyfrgell y Bedd Sanctaidd yng Nghaerystenyf, ac oedd y pryd hynny newydd ei gyhoeddi gan yr Archesgob Bryennios, o Nicomedia. Ac yn awr dyma y Proffeswr Rendel Harris o'r America wedi cael yn Llyfrgell St. Catharine, ar Fynydd Sinai, gopi o Apologia neu Ddiffyniad Aristides i'r Grefydd Gristionogol, a gyflwynwyd ganddo i'r Ymerawdwr Hadrian mor fore â'r flwyddyn 125. Dyma yr ail Ddiffyniad a wnaed—ysgrifenasid y cyntaf ychydig yn flaenorol gan Quadratus, ac nid ydyw hwnnw eto wedi ei ddarganfod. Ni wyddid am y naill na'r llall ond a grybwyllid gan Eusebius. Dywedai efe ym Mhedwerydd Llyfr ei Hanes Eglwysig, pan yn son am ddechreu yr ail ganrif:— "Wedi i Trajan deyrnasu am bedair blynedd ar bymtheg a hanner, daeth Aelius Adrian yn ddilynydd iddo yn yr Ymerodraeth. Iddo ef cyflwynodd Quadratus draethawd yn cynnwys Diffyniad o'n crefydd, am fod rhai dynion drygionus wedi ceisio trallodi y Cristionogion. Mae y gwaith eto yn llaw llawer iawn o'r brodyr, fel hefyd yn yr eiddom ninnau, ac yn rhoddi prawf digonol o ddeall y gwr, ac o'i uniongrededd Apostolaidd. Dengys efe ei hun yr amser cynnar yr oedd efe yn byw yn y geiriau hyn: 'Ond yr oedd gweithredoedd ein Hiachawdwr bob amser yn bresennol, canys yr oeddynt yn wirioneddol; y rhai a iachawyd a'r rhai a gyfodwyd o feirw, y rhai a welwyd nid yn unig pan iachawyd a phan gyfodwyd hwynt, ond oeddynt hefyd bob amser yn bresennol; ac nid yn unig pan oedd ein Hiachawdwr ar y ddaear, ond hefyd ar ol ei farwolaeth yr oeddynt yn fyw am gryn amser, fel yr oedd rhai o honynt yn fyw ie hyd ein hamser ni.' Y fath, ynte, oedd Quadratus. Aristides, hefyd, credadyn difrifol, ymroddedig i'n crefydd, a adawodd, fel Quadratus, Ddiffyniad o'r Ffydd, wedi ei gyfeirio at Adrian. Mae ei waith wedi ei gadw, ie hyd y dydd hwn, gan lawer iawn." Yr oedd Eusebius yn byw gant a hanner o flynyddoedd ar ol Aristides; ac heblaw y llyfrau oedd ganddo yn ei feddiant ei hun, gallasai yn hawdd wled Diffyniadau Quadratus ac Aristides yn y llyfrgell fawr a sefydlasai Origen yn Cesarea, lle yr oedd Eusebius yn esgob, hanner can mlynedd cyn ei eni ef, yr hon lyfrgell erbyn y bedwaredd ganrif a

gynhwysai 30,000 o gyfrolau. Ond gan fod gwaith Aristides wedi bod yn guddiedig am lawer mwy na mil o flynyddoedd, ac Eusebius yn awdwr y siaredir mwy yn ei gylch nag a ddarlennir arno, nid rhyfedd fod Aristides a'i Ddiffyniad mor ddieithr i'r byd.

Yr oedd y darganfyddiad y cyfeiriwn ato wedi ei ragflaenu i fesur beth amser yn ol trwy waith rhai Armeniaid dysgedig o'r fynuachlog Lazarist yn Venice yn cyhoeddi cyfieithiad Armenaeg o'r penodau cyntaf o'r Diffyniad, y buasant mor ffodus a dod o hyd iddo. Ni dderbyniwyd y dernyn hwnnw ond gyda chrya betruster, er y teimlir erbyn hyn fod gwerth neillduol ynddo. Ond y mae caffaeliad y Proffeswr Harris o ddyddordeb tra mawr. "Y mae ein cyfraniad ni i'r pwnc," meddai, "yn gynwysedig o gyfieithiad Syriaeg o'r oll, neu yn sylweddol o'r oll, o'r Diffyniad colledig. Buom mor hapus a darganfod y testun hwn mewn cyfrol o ddarnau Syriaeg a gadwyd yn llyfrgell mynachlog St. Catharine ar Fynydd Sinai, yn ystod ymweliad hyfryd a wnaethom â'r unigeddau a'r taweledau mawreddog hynny yng ngwanwyn 1889. Mae ein copi wedi dioddef peth yn nhraigl amser oddiwrth fynych adysgrifennu, ac yn galw weithiau am law y cyweirydd beirniadol. Y mae iaith a meddwl yr ysgrifennydd, fodd bynnag, mor syml a chlr fel y mae terfynau camgymeriad lawer yn llai nag a fuasant mewn gwaith o gyfansoddiad mwy cymhlethog; mae y brawddegau annealladwy, sydd yn lliosogi mewn cyfieithiad gymaint yn fwy cyflym nag yn adysgrifeniad gwaith gwreiddiol, yma bron yn gwbl o'r golwg. Yn wir y mae yr ysgrifennydd yn fwy o blentyn nag o athronydd; plentyn wedi ei hyfforddi mewn credo a'i ddisgyblu yn dda mewn moeseg, ac nid athrawiaethwr yn amddiffyn cyfundrefn newydd, neu ddelw-ddrlyllydd yn dinystrio un hen. Ond mae y symledd yma mewn ymdriniaeth, mor bell o fod yn wendid, fel y mae yn fynych yn chwaneu yn fawr at ddwystr naturiol y testun, ac yn rhoddi i'r gwaith le wrth ochr ysgrifennu Cristionogol goreu ei oes."

Ond pan oedd y Proffeswr Harris yn dwyn ei gyfieithiad o'r Syriaeg trwy y wasg, anfonodd broflenni o hono i Mr. Armitage Robinson, M.A., golygydd y gyfres yma o *Texts and Studies*, yr hwn oedd yn Vienna yn chwilota ymysg hen ysgriflyfrau am rywbeth oedd arno eisieu; a thra un diwrnod yn digwydd darllen rhannau o gyfieithiad Lladin o "Fywyd Barlaam a Josaphat," a briodolir i'r unfed ganrif ar ddeg, ac a gysylltir ag enw St. Ioan o Damascus, daeth ar draws y geiriau: "Myfi, O frenin, trwy ragluniaeth Duw a ddaethum i'r byd; a chan ystyried y nefoedd a'r ddaear, y môr a'r haul a'r lleuad, ac felly ymlaen, mi a ryfeddais at eu trefn." Yn fuan yr ydoedd yn darllen yr un peth yn yr iaith Roeg, yn argraffiad Migne o weithiau Ioan o Damascus. Mewn canlyniad, yr ydoedd yn disgwyl gydag awyddfryd am ei ddychwelid i Gaergrawnt, fel y gallai gymharu yr hyn a gawsai yn yr araeth yn "Barlaam a Josaphat" drachefn gyda'r profienni o Ddiffyniad Aristides; ac wedi gwneyd hynny, fe gaed eu bod yn sylweddol yr un. Rhamant grefyddol ydyw "Barlaam a Josaphat," y bu ar un adeg ddarllen mawr arni. Ei sylwedd ydyw fod brenin Dwyreiniol, o'r enw Abenner, yn erlid y Cristionogion, ac yn enwedig y mynachod, y rhai a alltudiaid o India. Yr oedd yn ddi-blant; ond o'r diwedd ganwyd y tywysog ieuanc, Josaphat, a'r serddewiniaid a ragfynegent iddo fawredd neillduol. Dywedent, fodd bynnag, y byddai yn Gristion. Ond penderfynai ei dad rwystro hynny. Cauodd ef mewn palas ardderchog, ni chaniatâi ond i

weinyddion ieuainc a phrydferth ddyfod yn agos ato, a gwaharddai grybwyll wrtho am ofid, afiechyd, a marwolaeth, ac uwchlaw y cwbl, am Gristionogaeth. Wedi dyfod i oedran, gofynodd i'w dad roddi rhyddid iddo. Caniatawyd ei ddeisyfiad, gan yr ymddanghosai y byddai ei fywyd heb hynny dan gwmwl, ac y gallai hynny arwain iddo dderbyn y ffydd waharddedig. Wedi myned allan gwelai ddynion dan anfodion,— yn gloffion, deillion, ac adfeiliedig gan henaint; ac o ddeall felly drueni dynolryw, yr oedd ei lawenydd mewn einioes yn cilio. Y pryd hynny cafodd mynach o'r diffaethwch, o'r enw Barlaam, ei ddwyfol rybuddio o sefyllfa y tywysog, a daeth ato fel masnachwr, a chafodd gennad i ddangos iddo berl tra gwerthfawr. Mewn maith ymddiddan, cafodd gyfleustra i ddangos iddo wagedd y byd a'r gobaith Cristionogol am y byd a ddaw. Mewn amser, bedyddiwyd y tywysog, a chiliodd Barlaam drachefn i'r diffaethwch. Yr oedd y brenin, gan ddigofaint ar y naill law a chariad at ei fab ar y llaw arall, mewn dirfawr brofedigaeth. Ond cynghorwr cyfrwys a gynhygiodd gynllun, sef fod i hen wr o'r enw Nachor, tra thebyg i Barlaam, ac yn fedrus ar actio, amddiffyn Cristionogaeth mewn dadl gyhoeddus, ac i wneyd araeht sâl, y gellid yn hawdd ei dadymchwel gan y rheithegwyr; a disgwyliod y byddai i'r tywysog roddi i fyny ei ffydd newydd. Pan ddaeth y diwrnod daeth Nachor ymlaen, fel Barlaam, i wneyd ei waith. Llefarai Josaphat wrtho mewn geiriau cryfion, gan grybwyll yr anhawsterau a deimlai oddiwrth ei addysgiaeth, a'i fygwth os nad allai eu clirio. Ond y fath, medd yr awdwr, oedd rhagluniaeth Duw fel, er ei ddyfod fel Balaam gynt, i fellidithio, iddo derfynu trwy fendithio & bendithion lawer. "Amneidiodd ar y dorf i fod yn ddistaw, ac agorodd ei enau, ac fel asyn Balaam llefarodd yr hyn ni fwriadasai lefaru, ac efe a ddywedodd wrth y brenin; Myfi, O frenin, trwy ragluniaeth Duw a ddaethum i'r byd," &c., ac aeth dros Ddiffyniad Aristides. Effaith hynny, medd yr ystori, fu i Nachor ei hun, a'r brenin, a'r bobl gael eu troi i'r ffydd Gristionogol, ac i Josaphat, yr hwn mewn amser a ddilynodd ei dad, roddi ei deyrnas i fyny ac ymneillduo i dreulio ei ddyddiau gyda Barlaam yn y diffaethwch.

Nid ydyw y Diffyniad yn "Barlaam a Josaphat" ond tua hannér hyd yr hyn ydyw yn y Syriaeg. Ymddengys yn grynhoad celfydd o Roeg gwreiddiol Aristides, yr hwn sydd ar goll, os nad yw yn guddiedig yn yr hen lyfrgelloedd; a gellid meddwl fod y cyfieithiadau Syriaeg ac Armenaeg wedi eu gwneyd, yn ol dull yr hen amseroedd, gan gymeryd cryn ryddid gyda'r testun y cyfieithid o hono. Mae yn amlwg mai y Syriaeg ydyw y copi cyflawnaf sydd gennym o'r Diffyniad. Fe'i hargreffir yn y gyfrol sydd o'n blaen yn y Syriaeg fel y caed ef ar fynydd Sinai, gyda chyfieithiad i'r Saesneg gan y Profeswr Harris; ac yn y Groeg fel y ceir ef yn Barlaam a Josaphat; a cheir cyfieithiad i'r Saesneg hefyd o'r rhannau a gaed yn yr Armenaeg. Ceir hefyd nodiadau dysgedig gan y ddau olygydd, ymha rai y nodir yr amrywiadau dyddorol a geir yn y gwahanol gopiau sydd wedi ein cyrraedd o'r Diffyniad, y cyfeiriadau a wneir ynddo at wahanol rannau o'r Testament Newydd ac ysgrifeniadau boreuach, ynghyda'r awgrymiadau a geir ynddo am ffurf yr ymadroddion iachus mewn credôau a ddysgid yn yr Eglwys foreuol. Barna y ddau olygydd mai nid i Aelius Hadrian y cyflwynwyd y gwaith, ond i'w olynnydd, Antontinus Pius, er bod Dr. Stokes yn dyfynnu o Fywyd Hadrian gan Spartianus yn yr *Augustan Histories*, lle y dywedir i Hadrian fynd i Athen, yn y flwyddyn 125, i gael ei hyfforddi yn y

dirgelion Eleusiniaidd. Teitl y gwaith yn ol y Syriaeg ydyw, "Diffyniad a wnaed gan Aristides yr Athronydd o flaen Hadrian y Brenin, ynghylch addoliad yr Hollalluog Dduw." Ond fe'i dilynr gan un arall, "At Ce-ar Titus Hadrianus Antoninus, Urddasol a Hynaws, oddiwrth Marcianus Aristides, athronydd o Athen." Yr oedd Antoninus Pius wedi mabwysiadu enw ei ragflaenydd. Fe geir *rescript* neu archiad oddiwrth y gwr hwn yn gorchymyn i'r Cristionogion gael eu goddef. Nid yw yn bosibl gwybod i ba raddau y gallai fod Diffyniadau Quadratus ac Aristides wedi effeithio i ddwyn hynny oddi-amgylch. Ond mae yn debyg, fel y sylwa Neander, fod dylanwad mwy wedi cael ei gynhyrchu ar ymerawdwr oedd yn caru cyfiawnder a threfn, gan ddatganiadau Serenius Granianus, rhaglaw Asia Leiaf, yr hwn a achwynai ar ymosodiadau afreolus y werin ar y Cristionogion.

Y mae cryn lawer o gaffaeliadau wedi eu gwneyd mewn amseroedd diweddar o weithiau gwerthfawr a dyddorol a grybwyllir gan Eusebius, ond nad oeddynt yn adnabyddus. Felly Epistol Cyntaf Clement o Rufain, yn amser Charles I.; felly Epistolau St. Ignatius, a gyhoeddwyd dan olygiad Archesgob Ussher; ac felly y Diatessaron, neu Gysondeb yr Efengylau gan Tatian, bodolaeth yr hwn a amheuyd yn fawr, ond y cafwyd hen gopi o hono yn Armenia ugain mlynedd yn ol. Yr un modd rhyw ddeuddeng mlynedd ar hugain yn ol, fe darawodd Tischendorf—ac yn yr un fan ag y caed y gwaith hwn o eiddo Aristides, sef llyfrgell mynachlog St. Catharine—ar y *Codex Sinaiticus*, copi Mynydd Sinai o'r Ysgrhythrau Sanctaidd, yr hwn ydyw un o'r rhai hynaf a gwerthfawrocaf mewn bod. Yn debyg hefyd, Athrawiaeth y Deuddeg Apostol, a grybwyllasom o'r blaen, ac amryw hen ysgrifeniadau ereill. Ac y mae y gwaith hwn o eiddo Aristides,—nad oes unrhyw amheuaeth, mwy nag am y lleill, gyda golwg ar ei ddilyrwydd,—yn dra gwerthfawr. Y mae yn dyfod atom yn dyst byw o chwarter cyntaf yr Ail Ganrif, ac y mae a ddywed mewn perffaith gydgord â'r hyn a gawn gan y tystion ereill. Mae y byd paganaidd ganddo yn nyfnder oferedd, afendid, a thrueni. Mae hyd yn oed y Groegiaid, "am eu bod," chwedl yntau, "yn ddoethach na'r Barbariaid, wedi cyfeiliorni yn fwy na'r Barbariaid;" yn galw ar dduwiau nad allant eu hachub eu hunain, llawer llai eu hachub hwynt; duwiau yr oedd eu buchedd mor ysgeler fel nad allai eu deddfau hwy eu hunain lai na'u huchel gondemnio, ac yr oedd y chwedlau yn eu cylch o angenrheidrwydd yn andwyo yr holl boblogaeth. O'r ochr arall, fe ddeugys fywyd ac ymdrech y Cristionogion y fath fel yr oeddynt hwy ymhlith y bobloedd dywyll a thruenus "yn disgleirio megis goleuadau yn y byd, yn cynnal gair y bywyd." Ac fel y mae rhagoriaethau y gwaith yn brofion dilyc o ddwyfoldeb ein crefydd sanctaidd, felly hefyd y mae ei ddiffygion yn cadarnhau yn y modd mwyaf diamheuol awdurdod ddwyfol y Testament Newydd. Fe wnaed ymdrechion cywrain ac egniol i brofi nad ydyw ei lyfrau ond cynhyrchion rhywrai, na ŵyr neb pwy, o'r Ail Ganrif. Ond yr ydym yn y gwaith hwn, ynghyda'r ysgrifeniadau ereill sydd yn ein dwylaw, yn gweled beth oedd gallu yr Ail Ganrif ar gynhyrchu, i.e. yn ei blynyddoedd cyntaf a goreu; ac nid oes dim sydd ar unwaith yn ein taro yn fwy na'r anfesurol bellder sydd rhyngddynt a'r llyfrau canonaidd—mewn urddas, ac ysbyrdolrwydd, a nerth. Adroddasom wrth gyfiwyno i'n darllenwyr Athrawiaeth y Deuddeg Apostol yr ystori am Dewi Wyn yn canmol un diwrnod yn ddireswm Beallwyr Nicander, a phan ofynnodd ei gyfaill iddo pam yr

ydoedd yn ei ganmol gymaint, ei ateb ydoedd, Ei fod yn sicr yn dda ragorol, pe na buasai a'n ddim ond fel yr ydoedd yn dangos mor anfeidrol well oedd Salmau Cân Edmund Prys. Felly yn sicr am ysgryfiadau goreu yr Ail Ganrif a'r ysgrythyrau canonaid!

Ond ni chadwn di mwy, ddarlennydd hynaws, oddiwrth y "Diffyniad a wnaed gan Aristides yr Athronydd o flaen Hadrian y Brenin, ynghylch addoliad yr Hollalluog Dduw."

I. Myfi, O frenin, trwy ras Duw a ddaethum i'r byd; ac wedi edrych ar y nefoedd a'r ddaear a'r moroedd, a gwelod yr haul a'r gweddill o'r greadigaeth drefnus, mi a ryfeddais at drefn y byd; ac mi ddeallais fod y byd ac oll sydd ynddo yn cael ei symud gan ysgogiad un arall, a deallais mai yr hwn sydd yn eu hysgogi ydyw Duw, yr hwn sydd o'r golwg ynddynt, ac yn guddiedig oddiwrthynt. Ac y mae hyn yn wybyddus ddiog, fod yr hwn sydd yn ysgogi yn fwy galluog na'r hyn a ysgogir. Ac am i mi ymchwilio ynghylch yr ysgogydd yma ar bopeth, pa fodd y mae yn bodoli—cansys y mae hyn yn eglur i mi, oblegid y mae efe yn anamgyffredadwy yn ei natur—ac am i mi ymddadleu ynghylch sefydlogrwydd ei lywodraeth fel ag i'w lawn amgyffred, nid ydyw yn fuddiol i mi; cansys nid oes neb yn abl i'w ddeall yn berffaith. Ond yr wyf yn dweyd am ysgogydd y byd, ei fod yn Dduw yr oll, yr hwn a wnaeth yr oll er mwyn dyn; ac y mae yn eglur i mi fod hyn yn briodol, Fod i un ofni Duw, a pheiddio goffdio dyn.

Yn awr yr wyf yn dweyd nad ydyw Duw wedi ei genhedlu, na'i wneuthur. Mae ei natur yn sefydlog, heb ddechreu a heb ddiwedd; anfarwol, cyflawn, ac anamgyffredadwy. Ac wrth ddweyd ei fod yn gyflawn, yr wyf yn meddwl hyn; nad oes dim diffyg ynddo, ac na saif mewn angen o ddim, ond y saif popeth mewn angen o hono ef. Ac wrth ddweyd ei fod heb ddechreu, yr wyf yn meddwl hyn: fod popeth y mae iddo ddechreu ac iddo ddiwedd hefyd; ac y mae yr hyn y mae iddo ddiwedd yn ddatodadwy. Nid oes iddo ef enw; oblegid y mae popeth y mae iddo enw mewn cysylltiad â'r creedig. Nid oes iddo gyfelybrwydd, na chyfansoddiad aelodau; cansys y mae yr hwn y mae hyn iddo wedi ei gysylltu â phethau sydd wedi eu gwneyd. Nid ydyw yn wryw, ac nid ydyw yn fenyw. Nid ydyw y nefoedd yn ei gynnwys; ond mae y nefoedd a'r oll a welir, ac ni welir, yn gynwysedig ynddo. Gwrthwynebydd nid oes iddo; cansys nid oes neb sydd alluocach nag efe; llid a digofaint nid oes iddo, oblegid nid oes dim a all sefyll yn ei erbyn. Amryfusedd ac anghof nid ydyw yn ei natur, cansys y mae efe yn gwbl yn ddoethineb a deall, ac ynddo ef y bodola yr oll a fodola. Ni ofynna aberth na diod-offrwm, na dim a'r a welir; ni ofynna am ddim gan neb, ond gofynna pawb ganddo ef.

II. Wedi llefaru o honom gan hynny wrthynt am Dduw, cyn belled ag yr oedd ein meddwl yn alluog i draethu am dano, ni a ddeuwn yn awr at hiliogaeth dynion, fel y gallom wybod pwy o honynt sydd yn dal unrhyw ran o'r gwirionedd hwnnw a lefarasom am dano ef, a phwy o honynt sydd wedi cyfeillorni oddiwrthdo.

Mae hyn yn eglur i chwi, O frenin, fod pedair hiliogaeth o ddynion yn y byd hwn; Barbariaid a Groegiaid, Iuddewon a Christianogion.

Yn awr y mae'r Barbariaid yn olrhain tarddiad hiliogaeth eu crefydd o Kronos a Rhea a'r gweddill o'r duwiau; ond y Groegiaid o Helenus, yr hwn y dywedir ei fod o Zeus; ac o Helenus y ganwyd Acolus a Xythus, a'r gweddill o'r teulu o Inachus a Phoroneus, ac yn olaf oll o Danaus yr Aifftiad, ac o Cadmus ac o Dionysus.

Ymhellach, cyfrifa yr Iuddewon darddiad eu hiliogaeth o Abraham, yr hwn a genchdlodd Isaac, o'r hwn y ganwyd Jacob, yr hwn a genhedlodd ddeuddeg o feibion, y rhai a symudasant o Syria ac a drigasant yn yr Aifft, ac yno a alwyd yn hiliogaeth yr Hebraeid gan eu deddfroddwr, ond o'r diwedd galwyd hwynt yn Iuddewon.

Ond y mae y Cristionogion yn cyfrif dechreuad eu crefydd o Iesu Grist, yr hwn a elwir yn Fab y Goruchaf: ac fe ddywedir ddarford i Dduw ddyfod i wared o'r nef, ac o forwyn iddo ymgymeryd ac ymwisgo â chnawd, ac yn merch dyn fe drigodd Mab Duw. Fe ddygir hyn o'r Efyngyl honno yr hon ychydig amser yn ol a leferid yn eu plith fel yn cael ei phregethu; yn yr hon os darl'ennwch

chwithau, chwi ddeallwch y gallu sydd arni. Yr Iesu hwn, ynte, a anwyd o lwyth yr Hebraeid; ac yr oedd iddo ddeuddeg o ddisgyblion, fel y byddai i oruchwyliaeth nellidduol o'i eiddo gael ei chyflawni. Fe'i gwánwyd gan yr Iuddewon; ac fe fu farw, ac fe'i claddwyd: a dywedant iddo wedi tri diwrnod gyfodi, ac esgyn i'r nefoedd; ac yna y deuddeg disgybl hyn a aethant allan i barthau adnabyddus y byd, ac a ddysgasant am ei fawredd ei gyda phob gostyng-eiddrwydd a phwyll; ac ar y cyfrif yma y mae y rhai sydd heddyw yn credu yn y pregethu yma, yn cael eu galw yn Gristionogion, y rhai sydd dra adnabyddus. Y mae gan hynny bedair hiliogaeth o ddynolryw, fel y dywedais o'r blaen, Barbariaid a Groegiaid, Iuddewon a Christionogion.

I Dduw ynte gwasanaetha gwynt, ac i angylion tân; ond i ddeoniaid dwfr, ac i ddynton daear.

III. Dechreuwn gan hynny, gyda'r Barbariaid, ac yn raddol awn ymlaen at y gweddill o'r bobloedd, fel y gallom ddeall pwy o honynt sydd yn dal y llythrennedd am Dduw, a phwy sydd mewn cyfeiliornad.

Y Barbariaid, ynte, gan nad oeddynt yn amgyffred Duw, a gyfeiliornasant gyda'r elfennau; a dechreuasant wasanaethu pethau crëdig yn lle eu Creawdwr, ac o herwydd hyn gwnaethant eilunod, a chauasant hwynt mewn temlau; ac wele, y maent yn eu haddoli ac yn eu gwyllo gyda gofal mawr, fel na ladratïer eu duwiau gan ysbeillwyr. Ac nid ydyw y Barbariaid wedi deall y rhaid i beth bynnag sydd yn gwylio, fod yn fwy na'r hyn a wylir; ac y rhaid i beth bynnag sydd yn creu, fod yn fwy na pheth bynnag a grëir: ac os ydyw eu duwiau gan hynny yn rhy weiniaid i'w hachub eu hunain, pa fodd y gallant estyn achubiaeth i ddynolryw? Mae y Barbariaid gan hynny wedi cyfeiliorni â chyfeiliornad mawr wrth addoli delwau meirwon na wnant iddynt leshad. Ac yr wyf fi, O frenin, yn synnu at eu hathronwyr, fel y maent hwythau hefyd wedi cyfeiliorni, ac yn galw yn dduwiau yr eiluned hynny a wnaed er anrhydedd i'r elfennau; ac nid ydyw y doethion wedi deall fod yr elfennau hynny eu hunain yn llygradwy ac i ymddatod; oblegid os oes rhan fechan o'r elfen yn ymddatod ac yn llygru, y mae oll yn ymddatod ac yn llygru. Os ydyw yr elfennau hyn, gan hynny, yn ymddatod ac yn llygru, a than orfod i fod yn ddarostyngedig i un arall galetach na hwy eu hunain, ac nad ydynt yn eu natur yn dduwiau, pa fodd y gallant alw yn dduwiau yr eiluned hynny a wneir er eu hanrhydedd? Mawr gan hynny yw yr amryfusedd a ddug eu hathronwyr ar y rhai sydd yn eu dilyn.

IV. Trown ynte, O frenin, at yr elfennau eu hunain, fel y gallom ddangos gyda golwg arnynt nad ydynt dduwiau, ond wedi eu creu, yn llygradwy a chyfnewidiol, yr hyn sydd yn gyffelyb i ddynt. Ond y mae Duw yn anlygradwy a digyfnawid ac anweledig; tra yn gweled, yn trol, ac yn cyfnawid pob peth.

Mae y rhal, gan hynny, a dybiant am y ddaear mai Duw ydyw, eisoes wedi cyfeiliorni, gan ei bod yn cael ei chloddio, a phlannu ynddi, a'i phalu; a chan ei bod yn derbyn halogedigaeth carthion dynion a bwystfildod ac anifeiliaid; a chan ei bod weithiau yn dyfod yr hyn nad ydyw o wasanaeth; oblegid os lloegir hi, y mae yn dyfod yn farw, ac o glai crasedig ni thardda dim. A thrachefn, os ceagrir dwfr arni, y mae yn llygredig gyda'i ffrwythau; ac wele, fe'i seithr gan ddynion ac anifeiliaid, a derbynia mhuredig gwaed y lladdedigion; ac fe'i cloddir ac fe'i llenwir â'r meirwon, a daw yn ystorfa cyrff: ac nid all y natur barchedig a bendigaidd ac anlygredig honno dderbyn dim o'r pethau hyn. Ac oddiwrth hyn yr ydym wedi cael nad ydyw y ddaear yn Dduw, ond yn greadur Duw.

V. Ac yn gyffelyb eto, y mae y rhai hynny yn cyfeiliorni a dybiant am ddwfr mai Duw ydyw. Oblegid y mae dwfr wedi ei greu at wasanaeth dyn, ac mewn llawer ffordd y mae yn cael ei wneyd yn ddarostyngedig iddo. Canys y mae yn newid, ac yn derbyn budreddi, ac yn cael ei lygru, ac yn colli ei natur ei hun pan yn cael ei goginio gyda llawer o bethau, ac yn derbyn lliwiau nad ydynt eiddo iddo ei hun; y mae hefyd yn cael ei galedu gan yr oerni, ac yn cael ei gymysgu a'i uno â charthion dynion ac anifeiliaid, ac â gwaed y lladdedigion; ac fe'i gorfodir gan weithwyr, trwy orfodaeth rhigolau, i reddeg a chael ei gymeryd yn groes i'w ewyllis ei hun, a dyfod i erddi a manau ereill, fel ag i lanhau a chario allan holl fudreddi dynion, a golchi ymaith bob halogrwydd, a chyflenwi o hono ei hunan eisieu dyn. Gan hynny mae yn amhosbi fod dwfr yn Dduw, ond y mae yn waith Duw ac yn rhan o'r byd.

Felly hefyd y maent hwy wedi cyfeiliorni nid yohydig a dybiasant am dân na Duw ydyw; canys y mae yntau wedi ei greu at anghenraid dynion; ac mewn llawer ffordd y mae yn cael ei wneyd yn ddarostyngedig iddynt; yng ngwasan-aeth ymborth, ac ym mharotodad addurniadau, a phethau ereill, am ba rai y mae eich mawrhydi yn gwybod; tra mewn llawer ffordd y mae yn cael ei ddiiffodd a'i ddiystrio.

A thrachefn, y rhai a dybiasant am chwythad gwyntoedd mai Duw ydyw, y maent hwythau hefyd wedi cyfeiliorni. Ac y mae hyn yn amlwg i ni, fod y gwyntoedd hyn yn ddarostyngedig i un arall, gan fod eu chwythad weithiau yn cael ei gynhyddu, ac weithiau ei leihau ac yn peidio, yn ol gorchymyn yr hwn sydd yn eu llywodraethu; gan eu bod, er mwyn dyn, wedi eu creu gan Dduw, fel y gallont gyflenwi anghenion coed a ffrwythau a hadau, ac y gallont yrru llongau ar y môr, y llongau sydd yn dwyn i ddynion y pethau sydd yn anghenrheidiol arnynt, o le y maent i'w cael i le nad ydynt i'w cael, a chyflenwi gwahanol rannau y byd. A chan fod y gwynt yma weithiau yn cael ei gynhyddu ac weithiau ei leihau, y mae un lle ymha un y gwna les, ac un arall lle y gwna niwed, yn ol amnau yr hwn a'i llywodraetha. Ac y mae hyd yn oed dynion yn abl, trwy offer tra adnabyddus, i'w ddal a'i orfodi, fel y gallo gyflenwi yr anghenion a fynnant ganddo. A throsto ei hun nid oes ganddo allu o gwbl. Am y rhesymau hyn nid yw yn bosibl fod gwyntoedd i'w galw yn dduwiau, ond yn waith Duw.

VI. Felly hefyd y maent hwy wedi cyfeiliorni, a dybiasant am yr haul ei fod yn Dduw. Canys wele, ni a'i gwelwn, mai trwy orfodaeth un arall y mae yn cael ei symud a'i droi ac yn rhedeg ei yrfa. Ac y mae yn myned rhagddo o radd i radd, yn codi ac yn machlud bob dydd, fel y gallo gynhesu egin planhigion a phrysgwydd, a dwyn allan i'r awyr a gymysgir ag ef, bob llysiuyn sydd ar y ddaear. Ac mewn cyfrifiad y mae i'r haul ran gyda'r gweddill o'r sêr yn ei yrfa; ac er ei fod yn un yn ei natur, y mae wedi ei gymysgu â llawer o rannau, yn ol mantais anghenion dynion; a hynny nid yw ol ei ewyllys ei hun, ond ewyllys yr hwn a'i llywodraetha. Gan hynny nid ydyw yn bosibl i'r haul fod yn Dduw, ond yn waith Duw: ac yn gyffelyb hefyd y lleuad a'r sêr.

VII. Ond y mae y rhai a dybiasant am ddynion o'r hen amseroedd, fod rhai o honnynt yn dduwiau, wedi cyfeiliorni yn fawr; fel yr wyt ti, O frenin, yn gwybod fod dyn yn gynwysedig o'r pedair elfen, ac o enaid ac ysbryd; ac am hynny y mae ie yn cael ei alw yn fyd, ac ar wahân oddiwrth unrhyw un o'r rhannau hyn nid yw yn bodoli. Y mae iddo ddechreu a diwedd, ac y mae yn cael ei eni ac yn dioddef llygredigaeth. Ond nid oes i Dduw, fel y dywedais, ddim o hyn yn ei natur, ond y mae efe yn anwneuthuredig ac yn anlygredig. Am y rheswm yma, gan hynny, mae yn amhosibl i ni ddangos fel Duw un sydd yn ddyn wrth natur, i'r hwn weithiau, tra yn edrych am lawenydd, y mae gofid yn digwydd, a thra yn disgwyl chwerthin, y mae wylu yn dyfod arno; un sydd yn nwydwyllt ac eiddig, yn genfigenlyd ac anfoddog, heb son am y gweddill diffygion ereill; y mae mewn llawer ffordd wedi ei lygru yn fwy na'r elfennau, neu hyd yn oed yr anifeiliaid.

A chan hynny, O frenin, mae yn iawn i ni ddeall cyfeiliornad y Barbariaid, ac eu bod, tra heb ymchwilio mewn perthynas i'r gwir Dduw, wedi syrthio ym-aith oddiwrth y gwirionedd, ac wedi myned ar ol dymuniad eu calon eu hun wrth addoli elfennau darostyngedig i ymddatodiad, a dclwau meirwon; ac o herwydd eu cyfeiliornad, nid ydynt yn canfod pwy ydyw y gwir Dduw.

VIII. Trown yn awr at y Groegiaid fel y gwypom pa farn sydd ganddynt hwy am y gwir Dduw.

Mae y Groegiaid ynte, am eu bod yn ddoethach na'r Barbariaid, wedi cyfeiliorni ie yn fwy na'r Barbariaid, trwy ddwyn i mewn llawer o dduwiau gwneuthuredig; a rhai o honnynt y maent wedi ddangos fel yn wryw a rhai fel yn fenyw; ac yn y fath fodd fel y ceid fod rhai o'u duwiau yn odinebwyr a llofruddion, yn ciddigus a chemfigenilyd, yn ddiglon a nwydwyllt, yn dadeiddiaid, yn ladron ac ysbell-wyr. A dywedant fod rhai o honnynt yn gloff ac anafus; a rhai yn ddeiniaid, a rhai yn gwbl wallgof; a rhai o honnynt a chwarent delynau; a rhai a gryw-arent hyd fynyddoedd; a rhai o honnynt a fuont feirw; a rhai a darawyd â mellen, a rhai a ddarostyngwyd i ddynion, a rhai a aethant ymaith er ffô, a rhai a ladratawyd gan ddynion; ac wele, am rai o honnynt fe wylwyd ac fe alarwyd

gan ddynion; a rhai, meddant, a aethant i wared i Hades; a rhai a glwyfwyd yn dost, a rhai a gyfnewidwyd i gyffelybiaeth anifeiliaid, fel y gallent odinebu gyda merched marwol; a rhai o honynt a waradwyddwyd am gysgu gyda gwrywod; a rhai o honynt, meddant, a fuont yn brîd gyda'u mamau a'u chwiriwyd a'u merched; a dywedant am eu duwiau, iddynt odinebu gyda merched dynion, a ganwyd o honynt hiliogaeth neillduol oeddynt eu hunain yn farwol. A dywedant am rai o'u duwiesau, eu bod yn ymryson ynghylch tagwch, ac yn dyfod i farn ger bron dynion. Mae y Groegiaid, gan hynny, O frenin, wedi dwyn ymlaen yr hyn sydd ddrygionus, gwrthun a ffol, gyda golwg ar eu duwiau a'u duwiesau, wrth alw y fath rai yn dduwiau nad ydynt dduwiau: ac mewn canlyniad, y mae dynion wedi cymeryd achlysur i odinebu a phuteinio, ac i ysbeilio a gwneyd popeth sydd ddrwg ac atgas a fflaidd. Oblegid os ydyw y rhai a elwir yn dduwiau iddynt wedi gwneyd yr holl bethau a enwyd, pa faint mwy y gwna dynion hwynt, aydd yn credu yn y rhai a'u gwnaethant? Ac oddiwrth ddrygioni y cyfeillionad hwn, wele, fe ddiwyddodd i ddynion ryfeloedd mynych, a newyn tost, a chaethiwd chwerw, a dirfawr dlodi; ac wele, y maent yn eu dioddef, ac y mae yr holl bethau hyn yn dyfod iddynt am yr achos yma yn unig. A phan y maent yn eu dioddef, nid ydynt yn canfod yn eu cydwybod mai am eu cyfeillionad y mae y pethau hyn yn digwydd iddynt.

IX. Deuwn yn awr at hanes y duwiau o'r eiddynt, fel y gallom brofi yn gywir yr holl bethau ydym eisoes wedi ddweyd.

O flaen popeth arall, y mae y Groegiaid yn dwyn ymlaen fel duw, Kronos, a ddehonglir Chiun; ac y mae gwasanaethwyr y duw hwn yn aberthu plant iddo, a rhai o honynt a loegant tra eto yn fyw. Am dano ef dywedant iddo gymeryd Rhea yn wraig, ac o honi fe genhedlodd lawer o feibion; o'r hon y cenedlodd Dios hefyd, a elwir Zeus; ac yn y diwedd fe aeth yn wallgof, a rhag ofn oracl a fynegasid iddo, dechreuodd fwyta ei blant. A dygwyd Zeus ymaith oddiwrtho, ac nis gwybu; ac o'r diwedd rhwymodd Zeus ef, a thorodd ymaith ef ddirgelion a thaflodd hwynt i'r môr, o'r lle, fel y dywedant yn y chwedl, y ganwyd Aphrodite, a elwir Asters; ac efe a fwrïodd Kronos yn rhwym i dywyllwch. Mawr gan hynny ydyw y cyfeillionad a'r gwaradwydd a ddygodd y Groegiaid i mewn gyda golwg ar ben eu duwiau, wrth ddweyd yr holl bethau hyn am dano, O frenin. Nid yw yn bosibl i Dduw gael ei rwymo neu dorri ei aelodau: os yn amgen, y mae yn anffawr fawr.

Ar ol Kronos y maent yn dwyn i mewn dduw arall, Zeus; a dywedant am hwn iddo dderbyn y llywodraeth a dyfod yn frenin y duwiau; a dywedant am dano iddo gael ei gyfnewid i anifeiliaid a phopeth arall, fel y gallai odinebu gyda merched marwol, a chodi iddo ei hun blant o honynt. Un tro dywedant iddo gael ei gyfnewid i darw, o herwydd ei nwyd am Ewropa a Phasiphae; a thrachefn fe'i cyfnewidwyd i gyffelybiaeth aur, o herwydd ei nwyd am Danae; ac i alarch, trwy ei nwyd am Leda; ac i ddyn, trwy ei nwyd am Antiope; ac i fellten, o herwydd ei nwyd am y Llenad. O'r rhai hyn fe genhedlodd lawer o blant: canys dywedant iddo o Antiope, genhedlu Zethus ac Amphion; ac o'r Llenad, Dionysus; o Alcmene, Heracles; ac o Leto, Apolo ac Artemis; ac o Danae, Persus; ac o Leda, Castor a Polydeuces a Helene; ac o Muemomyne cenedlodd naw o ferched, y rhai a alwodd yn Awenau; ac o Ewropa, Minos a Rhadamanthus a Sarpedon. Ond yn olaf oll, fe'i cyfnewidwyd i gyffelybiaeth eryr, o herwydd ei nwyd am Ganymede y bugail.

Oherwydd y chwedlau hyn, O frenin, y mae mawr ddrwg wedi disgyn ar yr hil ddynol y dydd hwn, gan eu bod yn efelychu eu duwiau ac yn godinebu ac yn ymhalgi gyda'u mamau a'u chwiriwyd, ac wrth gysgu gyda gwrywod; ac y mae rhai o honynt wedi meiddio lladd, ie, eu tadau eu hunain. Oblegid os ydyw efe, y dywedir ei fod yn ben ac yn frenin eu duwiau, wedi gwneyd y pethau hyn, pa faint mwy y bydd i'w wasanaethwyr ei efelychu? A mawr ydyw y gwallgofrwydd a ddygodd y Groegiaid i'w hanes gyda golwg arno; oblegid nid ydyw yn bosibl i Dduw odinebu a phuteinio, neu gynnyg cyagu gyda gwrywod, neu fod yn dadleiddiad. Os yn amgen, y mae yn llawer gwaeth na demon dinystril.

X. A thrachefn y maent yn dwyn i mewn dduw arall, Hephaestus; a dywedant am dano ef ei fod yn gloff, ac yn gwiago cap am ei ben, ac yn dal yn ei law efall a morthwyl; ac yn gweithio mewn pres, fel y gallo oddiwrth hynny ennill ei gynhaliaeth angeurheidiol. A ydyw y duw hwn, gan hynny, gymaint

mewn angen? Y mae yn amhosibl i Dduw fod yn anghenus neu gloff: os amgen y mae yn wan lawu.

A thrachefn y maent yn dwyn i mewn dduw arall ac yn ei alw Hermes; a dywedant ei fod ef yn lleidr, yn caru cybydd-dod ac yn chwennych enillion, ac yn swynwr, ac yn anafus, ac yn gampwr, ac yn ddehonglydd geiriau. Ond y mae yn amhosibl i Dduw fod yn swynwr, neu gybyddlyd, neu anafus, neu yn chwennych dim nad yw eiddo, neu yn gampwr: ac os ceir ei fod yn amgen, nid yw yn dda i ddim.

Ac ar ei ol ef dygant i mewn dduw arall, Asclepius; a dywedant ei fod yn feddyg, a'i fod yn paratoi meddyginiaeth a rhwymynau, fel y gallo gyfarfod ei angen cynhaliath. A yw y duw yma gan hynny mewn angen? O'r diwedd fe'i tarawyd â mellten gan Zeus, o herwydd Tyndarius y Lacedemoniad, ac felly bu farw. Os oedd Asclepius gan hynny yn Dduw, a phan darawyd ef â mellten yn analluog i'w helpu ei hun, pa fodd yr ydoedd yn abl i helpu ereill? Ac y mae yn amhosibl i'r natur Ddiwyfol fod mewn angen, neu gael ei tharo â mellten.

A thrachefn y maent yn dwyn i mewn dduw arall ac yn ei alw Ares, a dywedant ei fod yn rhyfelwr ac yn eiddigus, ac yn chwennych defaid a phethau na pherthynant iddo, ac yn ennill meddiannau trwy ei arfau; ac am dano ef dywedant iddo o'r diwedd odinebu gydag Aphrodite, a chael ei rwygo gan fachgeunyn, Eros, a chan Hephaestus, gwr Aphrodite. Ond y mae yn amhosibl i Dduw fod yn rhyfelwr neu yn garcharor neu yn odinebwr.

A thrachefn dywedant am Dionysus ei fod yntau yn dduw, yr hwn sydd yn cadw gwleddoedd yn y nos ac yn dysgu meddwod, ac yn cymeryd ymaith ferched na pherthynant iddo; ac o'r diwedd, dywedant iddo fyned yn wallgof a gadael ei weinyddesau a diano i'r anialwch; ac yn ei wallgofrwydd hwn iddo fwyta seirff; ac o'r diwedd fe'i lladdwyd gan Titan. Os oedd Dionysus gan hynny yn Dduw, ac os ydoedd pan laddwyd ef yn analluog i'w helpu ei hun, pa fodd yr ydoedd yn abl i helpu ereill?

Heracles hefyd a dygant i mewn a dywedant am dano ei fod yn dduw, yn gashawr pethau atgas, yn deyrn ac yn rhyfelwr, ac yn lladd y drygionus; ac am dano dywedant iddo o'r diwedd fyned yn wallgof a lladd ei blant, a'i fwrw ei hun i'r tân a marw. Os oedd Heracles gan hynny yn Dduw, ac yn yr holl bethau hyn yn analluog i sefyll i fyny drosto ei hun, pa fodd yr oedd ereill yn gofyn am help ganddo? Ond y mae yn amhosibl i Dduw fod yn wallgof neu yn feddw neu yn llufrudd ei blant, neu gael ei ddinystrio trwy dân.

XI Ac ar ol hyn, dygant i mewn dduw arall, a galwant ef Apollo; a dywedant am dano ei fod yn eiddigus a chyfnewidiol; ac weithiau deil fwa a chawell, ac weithiau delyn a chyweirgorn; a dyr oraclau i ddynion, fel y gallo dderbyn gwobr ganddynt. A ydyw y duw hwn, gan hynny, mewn angen gwobr? Ond y mae yn warthus bod yr holl bethau hyn i'w cael mewn Duw.

Ac ar ei ol ef dygant i mewn Artemis, duwies, chwaer Apollo; a dywedant ei bod hi yn hela; dygai fwa a saethau, ac elai o amgylch hyd fynyddoedd gan arwain cwn, naill ai i hela carw neu faeddod gwyllt. Ond y mae yn warthus i forwyn fyned o amgylch ei hunan hyd fynyddoedd, a dilyn helwriaeth. Ac am hynny nid yw yn bosibl fod Artemis yn dduwies.

A dywedant am Aphrodite ei bod hi, bid siwr, yn dduwies; ac weithiau, bid siwr, preswylia gyda eu duwiau, ac weithiau godineba gyda dynion; ac weithiau y mae Ares iddi yn gariad, ac weithiau Adonis, yr hwn yw Tammuz; ac weithiau, bid siwr, y mae Aphrodite yn galaru ac yn wylo am farwolaeth Tammuz; a dywedant iddi fyned i wared i Hades fel y gallai ryddhau Adonis gan Persephone, yr hon oedd ferch Hades. Os oedd Aphrodite gan hynny yn dduwies, ac yn analluog i helpu ei chariad yn ei farwolaeth, pa fodd y gall helpu ereill? Ac y mae hyn yn beth amhosibl gwranddo arno, bod y natur Ddwyfol yn dyfod i wylo a galaru a godinebu.

A thrachefn dywedant am Tammuz ei fod yn dduw; ac y mae, bid siwr, yn heliwr ac yn odinebwr; a dywedant iddo gael ei ladd gan faedd gwyllt, ac nad oedd yn alluog i'w helpu ei hun. Ac os nad oedd yn alluog i helpu ei hun, pa fodd y gall gymeryd gofal yr hil ddynol? Y mae hyn yn amhosibl, fod Duw yn odinebwr neu yn heliwr, neu ei fod yn marw trwy drais.

A thrachefn dywedant am Rheia ei bod, bid siwr, yn fam eu duwiau; a dywedant am dani fod iddi ar un adeg gariad, Atys, a lawenychai mewn dynion llygradwy; ac o'r diwedd sefydlodd alarnadau, a gularai am ei chariad Atys.

Ac os nad oedd mam y duwiau yn alluog i helpu ei chariad a'i achub o farwolaeth, pa fodd y mae yn bosibl iddi helpu ereill? Y mae yn' warthus, ynte, bod duwies yn galaru ac yn wylu, a'i bod yn cael llawenydd gyda chreaduriaid llygradwy.

Drachefn dygant i mewn Kore, a dywedant ei bod yn dduwies, ac iddi gael ei chymeryd ymaith gan Pluto, ac nad oedd yn alluog i'w helpu ei hun. Ond os ydoedd yn dduwies, ac nad oedd yn alluog i'w helpu ei hun, pa fodd y mae yn alluog i helpu ereill? Oblegid y mae duwies a gymerir ymaith, yn hynod o wan.

Yr holl bethau hyn, ynte, O frenin, y mae y Groegiaid wedi ddwyn ymlaen am eu duwiau, ac y maent wedi eu dyfeisio a'u dweyd yn eu cyloch; am ba achos y mae dynion wedi cymeryd achlysur i wneyd pob peth drygionus ac amhur, ac felly y mae yr holl ddaear-wedi ei llygru.

XII. Yn awr y mae yr Aiffitiaid, am eu bod yn waeth ac yn fwy anwybodus na phob pobl ar y ddaear, wedi cyfeiliorni yn fwy na phawb. Oblegid nid oedd addoliad y Barbariaid a'r Groegiaid yn ddigon iddynt hwy, ond dygasant i mewn hefyd natur anifeiliaid, a dywedasant eu bod yn dduwiau; a hefyd am yr ymlusgiaid a geir ar y tir sych ac yn y dyfroedd, ac am blanhigion a llysiau, dywedasant fod rhai o honynt yn dduwiau; ac y maent wedi llygru ymhob gwallgofrwydd ac amhurdeb yn fwy na'r holl bobloedd sydd ar y ddaear. Canys o'r hen amseroedd gwaanaethent Isis; a dywedant ei bod, bid siwr, yn dduwies, yr hon yr oedd iddi briod, bid siwr, Osiris ei brawd; ond pan laddwyd Osiris gan ei frawd Typhon, dihangodd Isis gyda'i mab, Horus, i Byblos yn Syria, a bu yno am beth amser nes i'w mab dyfu; ond ymrysonodd efe â'i ewythr Typhon, a laddodd ef, ac yna dychwelodd Isis ac aeth o amgylch, gyda'i mab Horus, a cheisai gorff Osiris ei harglwydd, gan chwero alaru am ei farwolaeth. Ond os oedd Isis yn dduwies, ac nad oedd yn alluog i helpu Osiris, ei brawd a'i harglwydd, pa fodd y mae yn bcsibl y gall helpu ereill? Ond y mae yn amhosibl i'r natur Ddwyfol ofni a dianc, neu wylu a galaru. Os amgen y mae yn anffawd fawr.

Ond am Osiris, dywedant ei fod ef yn dduw, ac yn un daionus; ond lladdwyd ef gan Typhon, ac nid allai ei helpu ei hun; ac y mae yn amlwg nad ellir dweyd fod y fath un yn Ddwyfol.

A thrachefn dywedant am Typhon, ei frawd, ei fod ef yn dduw, yr hwn oedd yn frawdleiddiad, ac a gafodd ei ladd gan fab a gwraig ei frawd, am ei fod yn analluog i helpu ei hun. A pha fodd y gall un nad all ei helpu ei hun fod yn Dduw?

Yn awr, am fod yr Aiffitiaid yn fwy anwybodus na'r gweddill o'r bobloedd, nid oedd y duwiau hyn a'u cyffelyb yn ddigon iddynt, ond gosodasant hefyd enwau duwiau ar yr anifeiliaid y rhai sydd ddi-ensaid. Canys y mae rhai yn eu plith yn addoli defaid, ac ereill y llô; rhai y mochyn, ac ereill y pysgodyn; a rhai y crocodill, a'r hebog, a'r morfran, a'r barcut, a'r fwltur, a'r eryr, a'r frân; rhai o honynt a addolant y gath, ac ereill y pysgodyn Shibwta; rhai y ci, a rhai y sarff, a rhai yr aep, ac ereill y llew, ac ereill arleg, a yntwyn, a drain; ereill y llewpard, a'r cyffelyb.

Ac nid yw y trueniaid gwirion yn deall am y pethau hyn oll, nad ydynt ddim; tra bob dydd y maent yn edrych ar eu duwiau a fwyteir ac a ddinystir gan ddynion, ie, gan eu cymdeithion hwy eu hunain; ac y mae rhai o honynt yn cael eu lloegi, a rhai yn marw ac yn pydru ac yn dyfod yn ysbwriel; ac nid ydynt yn deall eu bod yn cael eu dinystrio mewn amryw ffyrdd.

Ac mewn canlyniad nid ydyw yr Aiffitiaid wedi deall nad ydyw y pethau hyn dduwiau, gan nad yw eu hachubiaeth o fewn eu gallu eu hunain; ac os ydynt rŷ weiniaid i'w cadw eu hunain, yna am achubiaeth eu haddolwyr, atolwg o ble y cant y gallu i'w helpu?

XIII. Mae yr Aiffitiaid gan hynny wedi cyfeiliorni â chyfeiliornad mawr, tu hwnt i bob pobloedd sydd ar wyneb y ddaear. Ond y mae yn fater o syndod, O frenin, am y Groegiaid, tra yn rhagori ar bob pobloedd yn eu moesau a'u rheswm, pa fodd y maent, fel yma, wedi myned ar gyfeiliorn ar ol eilunod melfron a delwau dideimlad; tra y gwelant eu duwiau yn cael eu lifio a'u caboli gan eu gwneuthurwyr, a'u cwtogi a'u torri a'u llosgi a'u ffurfio a'u trawsffurfio i bob gwedd ganddynt. A phan heneiddiant a methu gan feithder amser, ac y cant eu toddi a'u dryllio yn ddamau, pa fodd nad ydynt yn deall yn eu cyloch nad ydynt dduwiau? A'r rhai nad oes ganddynt allu i'w hachub eu hunain, pa fodd

y gallant ofalu am ddyinion? Ond y mae hyd yn oed y beirdd a'r athronwyr yn eu plith, mewn cyfeiliornad, wedi dwyn i mewn am danynt eu bod yn dduwiau, bethau fel y rhai hyn, a wneir er anrhydedd y Duw Hollalluog; ac mewn cyfeiliornad ceisiant eu gwneyd yn gyffelyb i Dduw, am yr hwn na welodd neb erioed i bwy y mae yn gyffelyb; ac ni ellir ei weled. Ac ynglyn a'r pethau hyn dygant i mewn am Dduwdod fel pe buasai ddiffyg wedi ei gael gydag ef; gan y dywedant ei fod yn derbyn aberth ac yn gofyn am fwyd-offrwm a diod-offrwm, a llofruddiaeth dnyion, a themlau. Ond nid ydyw efe yn anghenus, ac ni cheisir dim o'r pethau hyn ganddo ef; ac y mae yn amlwg fod dnyion mewn cyfeiliornad yn y pethau hynny a ddychmygant. Ond y mae eu beirdd a'u hathronwyr yn dwyn i mewn ac yn dweyd, fod natuw eu holl dduwiau yn un; ond nid ydynt wedi deall am Dduw ein Harglwydd, tra y mae yn un, ei fod efe hefyd yn yr oll. Y maent, gan hynny, mewn cyfeiliornad; oblegid os, tra y mae corff dyn yn llawer yn ei rannau, nad oes un aelod yn ofni ei gyd-aelod, ond tra y mae yn gorff cyfansawdd y mae yr oll mewn cyfartaledd i'r oll,—felly hefyd y mae i Dduw, sydd un yn ei natur, un hanfod sydd yn briodol iddo, ac y mae yn gyfartal yn ei natur a'i hanfod, ac nid oes arno ef ei ofni ei hun. Os ydyw natur duwiau gan hynny yn un, nid ydyw yn briodol i dduw erlid duw, na'i ladd, na gwneyd iddo yr hyn sydd ddrwg.

Os oedd duwiau, ynte, cael yn eu herlid a'u gwânau gan dduwiau, a rhai o honynt yn cael eu cymeryd ymaith a rhai eu taro gan fellt, y mae yn amlwg nad yw natur eu duwiau yn un; ac am hynny y mae yn amlwg, O frenin, mai cyfeiliornad yw hwnnw a ddamcanant ynghylch natur eu duwiau, a'u bod yn eu gosod mewn un natur. Os ydyw yn briodol gan hynny i ni edmygu duw sydd yn weledig ac ni wél, pa faint mwy y mae hyn yn deilwng o edmygedd—fod dyn yn credu mewn natur sydd yn anweledig ac yn gweledig popeth! A thrachefn os ydyw yn iawn i ddyw chwilio i weithiau celfyddydwr, pa faint mwy y mae yn iawn iddo foliannu yr hwn a wnaeth y celfyddydwr! Canys wele, tra y mae y Groegiaid wedi sefydlu deddfau, ni ddeallasant eu bod trwy eu deddfau yn condemnio eu duwiau; canys os ydyw eu deddfau yn gyflawn, y mae eu duwiau yn anghyflawn, y rhai a droeddasant wrth ladd y naill y llall, ymarfer hudoliaeth, godinebu, ysbeillio, lladrata, cysgu gyda gwrywod, ynghyd a'r gweddill o'u gweithredoedd. Ond os ydyw eu duwiau, wedi gwneyd yr holl bethau hyn, yn rhagorol, ac fel y disgrifiant hwy, yna y mae deddfau y Groegiaid yn anghyflawn, ac nid ydynt wedi eu gosod i lawr yn ol ewyllys eu duwiau. Ac yn hyn y mae yr holl fyd wedi cyfeiliorni.

Oblegid am hanesion eu duwiau, y mae rhai o honynt yn chwedlau, rhai yn naturiol, a rhai yn hymnau a chaniadau. Yr hymnau a'r caniadau, gan hynny, ydynt eiriau gwag a swn; ac am y pethau naturiol, os gwnaed hwy fel y dywedant, yna nid ydynt dduwiau, gan eu bod wedi gwneyd y pethau hyn a dioddef y pethau hyn; ac y mae y chwedlau oll yn eiriau masw, yn gwbl amddifad o rym.

XIV. Deuwn yn awr, O frenin, at hanes yr Iuddewon hefyd, a gadewch i ni weled pa fath farn oedd ganddynt hwy am Dduw. Fe ddywed yr Iuddewon ynte fod Duw yn un, Creawdwr pob peth a Hollalluog; ac nad ydyw yn briodol i ni addoli dim arall, ond y Duw hwn yn unig. Ac yn hyn y maent yn ymddangos yn llawer nes i'r gwirionedd na'r holl bobloedd, gan eu bod yn gwasanaethu Duw yn llawer mwy ac nid ei weithredoedd. Ac y maent yn efelychu Duw o herwydd y cariad sydd ganddynt at ddyw; canys y maent yn tostruo wrth y tlawd, ac yn rhyddhau y caeth, ac yn claddu y marw, ac yn gwneyd pethau cyffelyb i'r rhai hyn, pethau sydd gymeradwy gan Dduw ac sydd hefyd yn rhyngu bodd dnyion; pethau a dderbynasant oddiwrth eu tadau o'r dyddiau gynt. Eto y maent hwythau wedi myned ar gyfeiliorn oddiwrth wybodaeth gywir, a thybiant yn eu meddwl eu bod yn gwasanaethu Duw, ond yn nulliau eu gweithrediadau y mae eu gwasanaeth i angylion, ac nid i Dduw, gan eu bod yn cadw Sabothau, a lleusau newyddion, a phasg, a'r ymryd mawr, a'r ymryd a'r enwaediad, a glendid bwyddydd; a'r cyfryw bethau hyd yn oed felly ni chadwasant yn berffaith.

XV. Yn awr y mae y Cristionogion, O frenin, wrth fyned oddiamgylch a chwilio, wedi cael hyd i'r gwirionedd, ac fel yr ydym wedi deall oddiwrth eu bysgrifiadau, y maent yn nes i'r gwirionedd ac i wybodaeth fanol na'r gweddill o'r bobloedd. Canys y maent yn adnabod ac yn credu yn Nuw, yr hwn a wnaeth nef a deuar, yn yr hwn y mae pob peth, ac o'r hwn y mae pob peth; ac

nad oes ganddo yr un duw yn gydymaith iddo; oddiwrth yr hwn y derbyniasant y gorchmynion hynny a gerfiasant ar eu meddyliau, y rhai a gadwant yn y gobaith a'r disgwyliad am y byd a ddaw. Ac am hyn nid ydynt yn godinebu nac yn puteinio, nid ydynt yn dwyn camdystiolaeth, nid ydynt yn gwadu gwystl, nac yn chwennych yr hyn nad yw eiddo iddynt; anrhydeddant dad a mam; gwnant dda i'r rhai sydd gymdogion iddynt, a phan yn farnwyr barnant yn uniawn; ac ni addolant eilunod yn ffurf dyn; a pha beth bynnag a ewyllsiont beidio eu gwneuthur o ddyinion iddynt hwy, ni wnant tuag at neb; ac ni fwytant gig wedi ei aberthu i eilunod, canys y maent yn ddihalog; a'r rhai a'u gofiant a ddiiddanant ac a wnant yn gyfeillion iddynt; a gwnant dda i'w gelynon; a'u gwagedd, O frenin, ydynt forwynion pur, a'u merched yn wylaidd; ac ymgeidw eu dynion oddiwrth bob piodas anghyfreithlon ac oddiwrth bob amhuredd, mewn gobaith o'r daledigaeth a ddaw mewn byd arall; ac am eu gweision a'u llwyforwynion, a'u plant os bydd gan neb o honynt rai, perswadiant hwy i ddyfod yn Gristionogion o herwydd y cariad sydd ganddynt atynt; ac wedi iddynt ddyfod felly, galwant hwynt heb wahaniaeth eu brodyr; ni addolant dduwiau dieithr; a rhodiant mewn pob gostyngeddwrwydd a daioni, a chelwydd ni cheir yn eu plith; ac y maent yn caru y naill y llall; ac oddiwrth eu gweddwon ni throant ymaith eu gwynebaw; a gwaredant yr amddifad oddiwrth yr hwn a wna gam ag ef; a'r hwn sydd ganddo a ddyry i'r hwn nid oes ganddo, heb rwgnach; a phan welant y dieithr dygant ef i'w tai, a llawenychant drosto fel dros wir frawd; canys ni alwant yn frodyr y rhai sydd yn ol y cnawd, ond y rhai sydd yn yr ysbryd ac yn Nuw; a phan y mae un o'u tlodion yn myned ymaith o'r byd, a rhywun o honynt yn ei weled, darpara at ei gladdedigaeth yn ol ei allu; ac os clywent fod neb o'u nifer yng ngharchar neu yn cael ei orthrymu am enw eu Messia, y maent oll yn darpar at ei angenrheidiau, ac os ydyw yn bosibl ei ryddhau, rhyddhant ef.

Ac os oes yn eu plith ddyn sydd yn dlawd neu yn anghenus, a hwythau heb helaethrwydd o angenrheidiau, ymprydiant ddau neu dri diwrnod fel y gallont gyflenwi yr anghenus a'u hymborth angenrheidiol. A chadwant yn gydwybodol gorchmynion eu Messia. Y maent yn byw yn onest ac yn sobr, fel y gorchymynodd yr Arglwydd eu Duw iddynt. Bob boreu ac yn wastadol, o herwydd daioni Duw tuag atynt, y maent yn ei foliannu ac yn ei ganmol; ac am eu bywd ac am eu diod y maent yn rhoddi diolch iddo ef. Ac os bydd i un cyfiawn o'u nifer fyned ymaith o'r byd, llaweniant a diolchant i Dduw, a dilynant ei gorff, fel pe byddai yn symud o un lle i un arall; a phan enir plentyn i neb o honynt, moliantant Dduw, a thrachefn os digwydda farw yn ei fabandod, moliantant Dduw yn fawr, fel am un sydd wedi myned trwy y byd heb bechodau. A thrachefn os gwelant fod un o'u nifer wedi marw yn anwiredd ei bechodau, drosto ef wylant yn chwervw ac ochencidiant, fel am un sydd yn myned i gosbedigaeth. Y fath ydyw ordeiniad deddf y Cristionogion, O frenin, a'r fath ydyw eu buchedd.

XVI. Fel dynion yn adnabod Duw, gofynant ganddo ef ddeisyfiadau sydd yn briodol iddo ef roddi ac iddynt hwythan dderbyn; ac fel hyn y cyflawnant yrfa eu bywyd. Ac am eu bod yn cydnabod daioni Duw tuag atynt, wele, o'u herwydd hwynt, fe lifa allan y prydforthwch sydd yn y byd. Ac mewn gwirionedd y maent o nifer y rhai a gawsant y gwirionedd trwy fyned o amgylch a'i geisio; a chyn belled ag yr ydym ni wedi dimad, yr ydym yn deall mai hwy yn unig sydd yn agos i wybodaeth y gwirionedd.

Ond nid ydynt yn cyhoeddi y gweithredoedd da a wnant yng nghlustiau y lliaws, a gofalant na chaiff neb eu canfod, a chuddiant eu rhodd, fel un wedi cael trysor ac yn eu guddio. Ac ymdrechant i ddyfod yn gyfiawn fel rhai yn disgwyl gweled eu Messia, a derbyn ganddo ef yr addewidion a wnaed iddynt gyda gogoniant mawr.

Ond am eu dywediadau a'u hordeiniadau, O frenin, a gogoniant eu gwasanaeth, a'r disgwyliad am daledigaeth eu gwobrwy, yn ol gwaith pob un o honynt, a ddisgwyliant mewn byd arall, ti a eili wybod oddiwrth eu hysgrifeniadau. Mae yn ddigon i ni ein bod yn fyr wedi mynegi i'ch mawrhydi am fuchedd a gwirionedd y Cristionogion. Canys gwirioneddol fawr a rhyfedd yw eu dysgeidiaeth i'r hwn sydd foddlon i'w chwilio a'i ddeall. Ac mewn gwirionedd y mae y bobl hyn yn bobl newydd, ac y mae rhywbeth Dwyfol wedi ei gymysgu â hwynt. Cymerwch yn awr eu hysgrifeniadau a darlennwch ynddynt, ac wele, chwi a gewch mai nid

o honof fy hun y dygais y pethau hyn ymlaen; ac nad fel eu diffynydd y dywedais hwynt; ond fel y darllenis yn eu hysgrifiadau, y pethau hyn yr wyf yn ddiysgog yn gredu, a'r pethau hynny hefyd sydd i ddyfod. Ac am hynny fe'm gosodwyd dan anghenraid i oesod allan y gwirionedd i'r rhai a gymerant hyfrydwch ynddo, ac a geisiant y byd a ddaw.

Ac nid oes gennyf amheuaeth nad yw y byd yn sefyll o herwydd eiriolaeth y Cristionogion. Ond y mae y gweddill o'r bobloedd yn cael eu twyllo ac yn twyllo, yn ymdreiglo o flaen elfennau y byd, fel y mae golwg eu deall yn anfoddlon i fyned heibio iddynt; a phafalant megys yn y tywyllwch, am eu bod yn anfoddlon i wybod y gwirionedd, ac fel meddwon y maent yn honician ac yn gwthio y naill y llall, ac yn syrthio i lawr.

XVII. Cyn belled â hyn, O frenin, myfi sydd wedi llefaru. Oblegid am yr hyn sydd yn aros, fel y dywedwyd uchod, fe geir yn eu hysgrifiadau eiriau sydd yn anodd eu llefaru, neu i un ei hadrodd; pethau nid yn unig a ddywedir, ond mewn gwirionedd a wneir.

Mae y Groegiaid, gan hynny, O frenin, am eu bod yn ymarfer pethau arian, wrth gysgu gyda gwrywod, a chyda mam a chwæer a merch, yn troi gwaradwydd eu haflendid ar Cristionogion; ond y mae y Cristionogion yn onest a duwiol, a gosodir y gwirionedd o flaen eullygaid, ac y maent yn hirymarhous; ac am hynny tra y maent yn gwybod cyfeiliornad y Groegiaid ac yn cael eu cernodio ganddynt, y maent yn dal ac yn eu dioddef; ac yn fwy fyth, y maent yn tosturio wrthynt, fel pobl heb wybodaeth, ac ar eu rhan offrymant i fyny weddiau ar iddynt gael eu troi oddiwrth eu cyfeiliornad. A phan ddigwydda fod un o honynt yn troi, y mae yn cywilyddio ger bron y Cristionogion o'r gweithredoedd a wneid ganddo, a chyffesa i Dduw, gan ddywedyd, Mewn anwybodaeth y gwneis y pethau hyn; a glanhâ ei galon, a'i bechodau a faddeuir iddo, am iddo eu gwneyd mewn anwybodaeth o'r blaen, pan ydoedd yn cablu ac yn gwaradwyddo gwir wybodaeth y Cristionogion. A gwir fendigaid ydyw pobl y Cristionogion, yn fwy na dim pobl sydd ar wyneb y ddaear.

Goeteger yn awr dafodau y rhai sydd yn siarad oferedd, ac yn gorthrymu y Cristionogion, a bydded iddynt yn awr siarad gwirionedd. Canys y mae yn well bod iddynt addoli y gwir Dduw nag iddynt addoli swn heb ddeall; a gwirioneddol Ddwyfol yw yr hyn a leferir trwy enau y Cristionogion, ac y mae eu dysgeidiaeth yn borth goleuni. Neshaed gan hynny bawb ati, sydd heb adnabod Duw; a bydded iddynt dderbyn geiriau anllygredig, y rhai ydynt felly bob amser ac o dragwyddoldeb; bydded iddynt, gan hynny, ragflaenu y farn a ddaw trwy Iesu y Messiah ar holl hiliogaeth dynion.

Mae Diffyniad Aristides yr Athronydd ar ben.

YR EPISTOL AT Y GALATIAID.

I.

ARWYDDA yr enw Galatia fod y bobl a elwid felly yn hanu yn wreiddiol o'r tylwyth Celtaidd. Darfu i wiblwyrth o'r trâs hwn, dan arweiniad Brennus yn y drydedd ganrif cyn Crist, adael ei frodir wreiddiol, Gâl, Ffrainc brosenoll, gan ymwasgaru dros wledydd yr Eidal a Groeg. Yng nghwrs amser arweiniwyd mintai o honynt i ganolbarth Asia Leiaf, lle y sefydlassant yn derfynol, a galwyd y rhanbarth a feddiannwyd ganddynt yn Galatia. O'r diwedd dygwyd hwy, fel y rhelyw o'r gwledydd cylchynol, dan iau y Rhufeiniaid.

Cariwyd yr efengyl i'r parth hwn gan Paul pan ar ei ail daith genhadol (Act. xvi. 6). Oddiwrth gyfeiriadau yn y llythyr a anfonodd Paul atynt (iv. 13), ymddengys i rywfath o anhwylder corfforol luddias iddo fyned ymlaen ar ei daith, a'i orfodi i aros am ryw dymor yn Galatia. Nid

oedd Paul yn un i fod yn llonydd, hyd yn oed mewn llesgedd a nychdod; felly daliodd ar y cyfle a'r tiriondeb tostruriol tuag ato a ddanghoswyd gan y bobl, ac a alwsid allan gan ei nychdod,—beth bynnag ydoedd,—i gymell yr efengyl arnynt. Ymddengys fod derbyniad y Galatiaid o'r efengyl yn wresog tu hwnt i'r cyffredin. Y frwyth o hyn oll oedd ffurfiad eglwysi yn y prif drefi. Talodd yr apostol ail ymweliad â'r eglwysi hyn yng nghwrs ei drydedd daith genhadol (Act. xviii. 23). Ymddengys oddiwrth y cyfeiriad a wneir at waith yr Apostol ar yr achlysur hwn "yn cadarnhau yr holl ddisgyblion," fod arwyddion o'r gwrthgiliad a gyrhaeddodd y fath eithafion wedi hynny, yn cael eu canfod ganddo y pryd hwnnw. Wedi cadarnhau y disgyblion yn Galatia a Phrygia, aeth yr Apostol i Ephesus, lle yr arhosodd am dair blynedd. Oddiyno aeth i Macedonia, yna i Corinth, a thra yno, mae yn debyg, y derbyniodd hysbysrwydd a'i cythryblodd yn ddirfawr, fod eglwysi Galatia yn parhau i lithro yn boenus oddiwrth sylmrwydd yr Efengyl. Dan ddylanwad ei siomedigaeth chwerw, cynhyrfwyd ef i ysgrifennu atynt yn y fan y llythyr nodedig hwn. Dyga arwyddion amlwg o feddwl cythruddedig ac o deimladau cymysglyd. Y mae ei dôn yn chwerw-geryddol, a'i gyfeiriadau yn finog, eto yn gymysgedig â llawer o dynherwch tadol, ynghydag amlygiadau o syndod siomedig a phoenus at fuandra eu gwrthgiliad, a'i natur anesgusodol, gan ei wrth-gyferbynu â'r arwyddion o'r sel a'r cynhesrwydd nodedig a ddanghosent ar eu derbyniad cyntaf o'r efengyl.

Gwneir llawer gan esbonwyr, yn neillduol o'r trâs Seisnig, o wamalrwydd ac anwadalwch nodweddiadol natur Geltaidd y bobl hyn, er cyfrif am y cyfnwidiad buan a gymerodd le yn eu perthynas â'r Efengyl; a dygant y Cymry ymlaen fel esiampl o'r gwendid hwn yn y Celtaid. Yn ein bryd ni, fodd bynnag, y mae Dr. Roberts, Pontypridd, yn ei ragymadrodd i'w esboniad ar yr epistol hwn, wedi dangos yn ddi-wrthdro mor ddisail ydyw y cyhuddiad o anwadalwch yn ei berthynas â'r Cymry.

Hefyd nid oedd yr anwadalwch y cyhuddir y Galatiaid o hono yn beth hollol gyfyngedig iddynt hwy o'r holl genhedloedd y bu galw am i'r Apostol ysgrifennu atynt. Onid oedd yr Hebreaid yn amlygu yr un gwendid yn eu gwaith yn dychwelyd yn ol at Iuddewiaeth? A chyn belled a bod y gwamalrwydd hwn yn dangos ei hun mewn dibrisod o'r Apostol a chamddealltwriaeth o'r Efengyl, canfyddir ef yn y Corinthiaid i fesur a alwodd am fflangelliad yr un mor dost â'r hwn a weinyddiwyd ar y Galatiaid, fel y dengys y ddau lythyr a ddanfonwyd atynt. Addefwn, fodd bynnag, fod sydynrwydd y cyfnwidiad yn achos y Galatiaid, a'i wrthgyferbyniad i'r croesaw cynhesach na'r cyffredin a roisent i'r efengyl ar ei dyfodiad cyntaf i'w plith, yn gosod, yng nghyfrif yr Apostol, fwy o arbenigrwydd ar eu henciliad hwy nag ar eiddo y lleill. Hefyd canfyddir yr un anwadalwch i fesur dybryd yn rhai o eglwysi Asia, y rhai a gyhuddir gan Crist ei Hun o wrthgiliadau poenus. Amlwg yw nad oedd anwadalwch y Galatiaid, er ei wrthuni, yn sefyll ar ei ben ei hun. Nid ein hamcan mewn un wedd ydyw lleihau nodwedd ddybryd gwrthgiliad y Galatiaid, ond myntumio mai nid nodwedd arbenigol y natur Celtaidd ydyw y gwendid gwrthun o anwadalwch a gwamalrwydd.

Y mae materion y llythyr yn dri: Personol, Athrawiaethol, ac Ymarferol.

1. *Personol.* Yr oedd y gau athrawon, fel eu gelwir, y rhai a geisient Iuddeweiddio y Galatiaid, er cyrraedd eu hamcan yn fwy effeithiol yn ceisio, trwy bob ystryw, ddibrisio awdurdod apostolaidd Paul fel yr un fuasai yn dysgu yr Efengyl iddynt. Felly ei bwynt yn y ddwy bennod gyntaf ydyw sefydlu ei berthynas swyddogol ef ei hun â'r Efengyl, a phrofi nad oedd ei awdurdod yn y berthynas honno wedi ei chael ganddo yn ail law. Gellir sylwi fod ei ymresymiad yma yn ddiawmys a chadarn, yn amlygu craffder ymresymiadol arbennig.

2. *Athrawiaethol.* Cymer y ddostran hon o'r llythyr i fyny y penodau iii., iv., a rhan o'r v. Safbwynt yr ymresymiad yma ydyw, nad oedd yn ofynol iddynt hwy, fel cenhedloedd, gydymffurfio â'r gyfraith Iuddewig er mwyn dyfod yn ddeiliaid bendithion yr Efengyl. Gellir nodi fod safbwynt y llythyr hwn yn gwahaniaethu oddiwrth yr un at y Rhufeiniaid. Yn hwnnw dyna ydyw: fod gan y Cenhedloedd hawl cyfartal a'r Iuddewon i fendithion yr efengyl. Ond yn y llythyr hwn myntumir ychwaneg: *eu hawl i'r bendithion hynny heb iddynt ddyfod yn Iuddewon, neu gydymffurfio â'r ddeddf.* Dadl yr athrawon Iuddewig oedd, fod bendithion yr Efengyl yn ol yr addewid i blant Abraham, ac nad allent hwy fel Cenhedloedd fod yn blant i Abraham ond trwy gymeryd eu henwaedu. Caniatâ yr Apostol fod y fendith yn ol yr addewid i blant Abraham; ond ei bwynt ef ydyw, mai y ffordd i'r Cenhedloedd ddyfod yn blant i Abraham oedd dyfod yn eiddo Crist trwy ffydd. "Os eiddo Crist ydych, yna had Abraham ydych." Ac ar y tir hwn, fel pe dywedasai, yr ydych yn etifeddion yn ol yr addewid. Y mae cynllun ymresymiad yr Apostol ar y mater hwn yn fedrus ac argyhoeddiadol neillduol, fel y canfyddir pan y deurn i'w olrhain.

3. *Ymarferol.* Y mae dysgeidiaeth ymarferol y llythyr yn glir a digamsyniol i'r eithaf. Nid oes ynddo y gogwydd lleiaf at ddyfod i gytundeb cyfaddawd (*compromise*), ag arferion llygredig y byd eilunaddolgar. Gesyd ei droed i lawr yn gadarn yn y mater hwn, gan eu galw i berffeithio sancteiddrwydd yn ofn Duw. Yr oedd angen yn ddiau am i'r bobl hyn gael eu dysgu yn hollol glir yn egwyddorion moesoldeb uchaf yr Efengyl, er gwrthweithio y ddisgeidiaeth baganaidd lygredig yn yr hon y dygasid hwy i fyny. Ond mae yn ddiddadl fod eu gwyrriad oddiwrth ras yr Efengyl wedi bod yn achlysur i rwystro yn ddisfrifol eu cynnydd yn rhinweddau y bywyd newydd. Felly y mae yr Apostol yn gosod cryn bwys ar y gwirionedd ymarferol a gymhella arnynt.

Cyn ymaflyd yn y materion a drafodir ganddo gwna yr Apostol (i. 1—5) rai nodiadau rhagymadroddol.

Paul, apostol, nid o ddynion, na thrwy ddynt, eithr trwy Iesu Grist, a Duw Dad, yr hwn a'i cyfododd ef o feirw; A'r brodyr oll y rhai sydd gyda mi, at eglwysi Galatia:

Gras *fyddo* i chwi a heddwch oddiwrth Dduw Dad, a'n Harglwydd Iesu Grist:

Yr hwn a'i rhoddes ei hun dros ein pechodau, fel y'n gwaredai ni oddi wrth y byd drwg presennol, yn ol ewyllys Duw a'n Tad ni:

I'r hwn y byddo y gogoniant yn oes oesoedd. Amen.

Cynhwysa y rhagymadrodd hwn faterion arferol y cyfryw rannau o epistolau Paul. Y materion hyn ydynt yn 1. Yr Arwyddiad. 2. Y Cyflwyniad. 3. Y Bendithiad. 4. Y Folawd. Perthyna i ragymadroddion llythyr Paul un mater arall, yr hwn yma sydd yn cael ei adael allan, sef y *Llongyfarchiad*. Cawn egluro eto y rheswm, yn ein bryd ni,

paham y gadewir allan y llongyfarchiad yma. Er fod y rhagymadroddion hyn ymhob llythyr yn cynnwys yr un materion, eto nid ydynt yn cael eu gosod ger bron yn hollol yn yr un geiriau ac yn yr un dullwedd ymadrodd. Gwahaniaethant yn y pethau hyn yn ol amgylchiadau y bobl yr ysgrifennid atynt. Hefyd yn fynych cymerant eu lliw a'u tŷn oddiwrth y mater yr ymdrinir ag ef, a'r amcan mewn golwg. Rhydd hyn i bob rhagymadrodd, er ei debygrwydd i bob un arall, arbenigrwydd a nodwedd neillduol iddo ei hun. Y mae hyn yn neillduol wir am ragymadrodd y llythyr hwn. Medd, yn y pedwar pwynt a'i ffurfia, debygrwydd i bob un o'r lleill; ond y mae pob un o'r pwyntiau hyn wedi ei drwytho mor drwyadl gan ysbryd a thŷn y mater oedd yn llenwi meddwl yr ysgrifennydd ac i ffurfio trafodaeth y llythyr, fel y saif yn gwbl ar ei ben ei hun, gan ei wahaniaethu oddiwrth bob un arall.

Ni a gymerwn y gwahanol faterion i fyny bob yn un.

I. YR ARWYDDIAD. "Paul, apostol, nid o ddynton na thrwy ddynt, eithr trwy Iesu Grist, a Duw Dad, yr hwn a'i cyfododd ef o feirw."

Fe ganfyddir fod yr arwyddiad yn un cyflawn, ac mewn ieithwedd fwy na chyffredin o bwysleisiol. Cyfrifir am ei fanlyder a'i bwysleisiad gan yr amgylchiadau dan ba rai yr ysgrifennid y llythyr. Saif y llythyr hwn y pumed, yn ol trefn amseryddol, i'r Apostol ysgrifennu. Yr oedd y ddau lythyr at y Thessalonïaid, a'r ddau at y Corinthïaid, wedi eu hysgrifennu yn flaenorol iddo. Canfyddir nad ydyw yr arwyddiaid i'r llythyrau at y Thessalonïaid yn cynnwys ond yn unig enw yr ysgrifennydd, "Paul" yn syml, heb un gair ynghylch ei swydd a'i safle apostolaidd, &c. Nid ydyw y rheswm am hyn ymhell i'w geisio. Pan yr ysgrifennai at yr eglwys yn Thessalonica, nid oedd ei safle a'i awdurdod apostolaidd yn cael eu cwestiyno, o ganlyniad ni ofynnid rhagor pan yn arwyddo y llythyr na'i enw yn syml. Ond ni fuwyd yn hir wedi hynny cyn i'r athrawon Iuddewig lwyddo i dafu amheuaeth ynghylch cywirdeb ei ddysgeidiaeth, ac awgrymu amheuron parthed dilysrwydd ei safle apostolaidd. Pan yr oedd yn ysgrifennu ei lythyr at y Corinthïaid, yr oedd yr amheuron a'r ensyniadau hyn yn prysur ledaenu, yn dechreu tangloddio ei ddylanwad, ac yn gwrthweithio i fesur difrifol ei ddysgeidiaeth. O ganlyniad cawn ganddo, ynglyn â'r arwyddiad i'r llythyr hwnnw, ddatganiad difloesgni o'i safle swyddogol a'r ffynhonnell o honi:—"Paul, wedi ei alw i fod yn apostol trwy ewyllys Duw" (1 Cor. i. 1). Yr oedd y datganiad pwysleisiol hwn o'i alwedigaeth trwy ewyllys Duw i'r apostolaeth yn fwy gofynol yma, gan ei fod yn ysgrifennu atynt ar bynciau a materion a ofyntent awdurdod apostolaidd i'w dysgu, er sicrhau ymostyngiad iddynt. Ond erbyn adeg ysgrifeniad y llythyr hwn, cyrhaeddasai y ddadl ei phwynt eithaf. Daethai y gan athrawon, erbyn hyn, i siarad yn hyf yr hyn na feiddient ychydig cyn hynny ond ei sibrd yn ensyniadol. Nid yn unig awgryment amheuron ynghylch dilysrwydd ei apostolaeth, ord elent mor bell a dweyd mai apostol o wneuthuriad dynion ydoedd. Clwyfwyd rhai eglwysi yn anaele gan y ddadl hon; dinystriwyd eu heddwch, a darostyngwyd hwy i'r annibendod mwyaf anrheithiol. Dyma yn neillduol achos eglwysi Galatia. Yr amgylchiadau poenus hyn a achlysurasant i'r Apostol ysgrifennu y llythyr nodedig hwn. Felly naturiol a rhesymol oedd iddo wrth ei arwyddo â'i enw, gysylltu ag ef y datganiad mwyaf difloesg a phwysleisiol o'r safle swyddogol y safai ynddi, ynghyd a'i Dwyfol

darddiad. "Paul, apostol, nid o ddynion na thrwy ddyn, eithr trwy Iesu Grist, a Duw Dad, yr hun a'i cyfododd ef o feirw." Gwelir fod y datganiad yn ddeublyg,—*nacöol a chadarnhaol*.

Am ei wedd *nacöol*, dywed, "Nid o ddynion na thrwy ddyn." Yma gwada yn y modd mwyaf diamwys ddynol-darddiad ei apostolaeth. Gwada iddo ei derbyn o ddynion, iddi ddyfod iddo oddi wrth ddynion. Wrth "ddynion" yma y deallir yn ddiau yr Apostolion. Mae yn debyg mai un o'r pethau a ddywedid mewn ffordd o ddibrisodod ar ei safle apostolaidd oedd, ei fod wedi ei derbyn oddiwrth yr Apostolion, neu ei fod yn anfonedig oddiwrthynt, ac yn cyflawni ei waith yn eu hawdurdod hwy. Casglwn mai dyma oedd stad pethau oddiwrth y gofal neillduol a ddengys yr Apostol i brofi nad aethai efe i Jerusalem, ac na welsai neb o'r Apostolion am yr ysbaid o dair blynedd wedi ei argyhoeddiad. Felly y derbyniasai Mathias ei apostolaeth,—oddiwrth ddynion. Ac y mae fod Paul yn dangos cymaint o bryder i symud ymaith y dybiaeth ei fod ef wedi dyfod i'w apostolaeth trwy ffordd gyffelyb yn profi yn eglur, yn ein bryd ni, anghyfreithlondeb apwyntiad Mathias, ac nad ydoedd ond ymyriad anwarantiedig â hawlfraint Crist, i'r Hwn yn unig y perthynai y gwaith o ddewis ei Apostolion.

Eto gwada iddo ei derbyn *trwy ddyn*. Os ydyw y cyfeiriad pwysleisiol a wneir at yr Apostolion yn ei wneyd yn debygol mai hwy a olygai wrth y "dynion," felly tebygwn fod mynychdra ei gyfeiriadau at Pedr yn y paragraffau dilynol, yn ei wneyd yr un mor debygol mai efe a olygai wrth y "dyn," yn yr ymadrodd "na thrwy ddyn." Ymddengys fod yr Athrawon Iuddegwig yn ceisio darostwng Paul, nid yn unig trwy ddweyd ei fod wedi derbyn ei swydd gan yr Apostolion, ond hefyd ei fod wedi ei ddsygu gan Pedr. Hyn a wedir gan Paul, a'r profion a ddyga ymlaen yn y bennod hon, ynghyd a'r un ddilynol. Y maent yn ddau, *sef nas gwelodd Pedr am dair blynedd wedi ei argyhoeddiad* (adn. 18); ac hefyd yn hytrach na bod Pedr wedi ei ddsygu ef ei fod ef wedi bod yn dysgu Pedr (ii. 11—16).

Wedi iddo fel hyn, trwy ei wadiad pwysleisiol droi o'r neilldu y cyhuddiad o ddynol-darddiad, ei apostolaeth, â ymlaen gan haeru ei Dwyfol-darddiad:—"eithr trwy Iesu Grist, a Duw Dad, yr hwn a'i cyfododd ef o feirw."

Y mae y datganiad hwn eto yn ddeublyg: Iesu Grist, a Duw Dad. Tueddir ni i gredu fod yr ymadrodd, "trwy Iesu Grist, a Duw Dad," i'w gymeryd yn wrthosodol i'r ymadrodd, "o ddynion, a thrwy ddyn," yn y drefn wrthdroefogol, yn ol arferiad Paul. Hynny yw, mai amcan yr Apostol ydyw dweyd mai Iesu Grist, yn wrthgyferbyniol i ddyn, neu Pedr, fu yn ei ddsygu. Ceir y syniad hwn wedi ei draethu yn helaethach yn adn. 12. Ac mai Duw Dad, yn gyferbyniol i ddynion, neu'r Apostolion, a'i gosododd yn ei swydd. Ceir y syniad hwn eto wedi ei draethu yn helaethach yn adnodau 15, 16.

Ymhellach, ychwanega yr Apostol at ei grybwylliad am Dduw fel yr Hwn a'i galwodd i'r swydd, un datganiad pwysig arall, yr hwn sydd yn ei osod allan fel yr Hwn a godasai Grist o feirw: "A Duw Dad, yr hwn a'i cododd ef o feirw." Paham y gwna yr Apostol y datganiad hwn ynghylch Duw, pan yn ei grybwyll fel yr un a'i galwasai i'r apostolaeth? Diau mai ei amcan ydoedd argraffu ar feddyliau y Galatiaid bwysigrwydd annrhaethol ei apostolaeth,—yr apostolaeth a ddibrisient hwy gymaint. Y mae cyplysu ei alwedigaeth i'r swydd ac adgyfodiad

Iesu Grist o feirw, yn hynod o gymwys i gyfleu yr argraff hwn parthed ei phwysigrwydd.

1. Hunaniaetha y gallu a gyfododd Iesu o'r bedd a'r gallu a effeithiodd ei droedigaeth. Dengys nad oedd ei droedigaeth a'i alwedigaeth i'r weinidogaeth wedi eu dwyn oddiamgylch gan ddim llai gallu na'r hwn a effeithiodd y weithred ogoneddusaf yn holl hanes y Prynedigaeth. Adgyfodiad Iesu Grist o feirw ydyw yr esiampl odidocaf o allu Dwyfol a allai yr ysgrifenywyr ysbrydoledig ei choffhau dan yr oruchwyliaeth newydd. Pa bryd bynnag y byddai ysgrifenywyr yr Hen Destament mewn angen am esiampl nodedig o allu Duw fel Gwaredydd, cyfeirient yn uniongyrchol at waredigaeth Israel o'r Aifft. Dyma oedd ystordy mawr eu hengreiffitiau, pan fyddai eisieu argraffu yn ddwfn a digamsyniol y syniad o allu anfesurol ei fraich gref i achub. Ni finent byth yn cyfeirio ato ac yn clodfori y gorchestion o allu a arddanghosai yr amgylchiad. Yn union yn yr un wedd y mae ysgrifenywyr y Testament Newydd, ac yn neillduol Paul, yn coffhau adgyfodiad Crist fel yr engrafft odidocaf a mwyaf gogoneddus o fawr allu Duw. Pa bryd bynnag y byddai arno eisieu gosod argraff ar feddyliau Cristionogion o bwysigrwydd hanfodol y gallu a fuasai yn effeithio eu tröedigaeth, y mae bob amser yn nodi iddynt y ffaith ei fod yr un â'r gallu a gyfododd Grist o feirw. Cymharer dwy engrafft: Eph. i. 19, 20., Col. ii. 12. Eto ddwy ereill gan Pedr: i. 3, 21. Fel hyn y llwyddai yr Apostolion i roddi i'w darllenwyr syniad priodol am natur odiaethol ogoneddus y weithred o'u dychweliad.

Yn yr un wedd, ni debygem, y ceisiai Paul, drwy hunaniaethu yr Hwn a'i galwodd i'r apostolaeth a'r Hwn a adgyfododd Iesu o feirw, argraffu ar feddyliau y Galatiaid hyn y ffaith o odidowgrwydd ei apostolaeth.

2. Trwy gyplysu ei apostolaeth ag un o ffeithiau pwysicaf y Prynedigaeth, fe'i gesyd yng nghyfes gwirioneddau sylfaenol Cristionogaeth. Adgyfodiad Iesu Grist oedd gweithred ofrffennol Cristionogaeth fel trefn; mewn gair, ei choriadiad. Er hynny, ni phetrusa yr Apostol osod ei alwad i'r apostolaeth yn gyfochrog â'r weithred ogoneddus a pwysfawr hon; a thrwy hynny danghosa ei fod yn ei hystyried yn ddolen, ac yn ddolen hanfodol, anhepgor, yng nghadwen gwirioneddau yr Efyngyl; yn ei mesur, mor hanfodol ag adgyfodiad Pen Mawr yr Eglwys. Ac onid ydyw felly? Pa bwysigrwydd bynnag a berthyn i ffaith yr adgyfodiad, a berthyn wrth reswm i'r athrawiaeth a sylfeinir arni. Nid ydyw yr athrawiaeth ond y ffaith yn cael ei dangos yn ei pherthynas ag iachawdwriaeth dynion; ac onid ydym yn ddyledus am yr athrawiaeth i'r apostolaeth? Nis gallai y Galatiaid ddibrisio a dirmygu swydd mor bwysig ac urddasol heb fod yn enog o droseddu yn ddirfawr yn erbyn y gwirionedd. Y mae gogwydd yr oes bresennol i ddibrisio a bychanu Paul. Clywir yn fynych y cri, "Crist ac nid Paul," fel pe byddai Crist a Phaul yn gystadleuwyr, neu yn dysgu gwirioneddau gwrthwynebol. Diau nad ydyw y flaenoriaeth yr ymdrechir ei rhoddi i Grist ar draul dibrisio un o'i weision ffyddlonaf, yn warogaeth tebyg o fod yn dderbynol gan Grist ei Hunan. Tybed ei fod yn bosibl nad ydyw dyfarniad Paul o'i awdurdod apostolaidd ond hunan-dwyll, na'i argyhoeddiad ond cyfeiliornad? Onid ydyw ei holl fywyd yn dysgu y gwrthwynebol, ac yn tystiolaethu i'w ddilysrwydd? Y mae ei holl yrfa, holl gwrs ei fywyd dychweledig yn profi yn eglur fod ei argyhoeddiad a'i apostolaeth, yn

nesaf at fywyd adgyfodedig ei Feistr, y ffaith odidocaf ac aruchelaf yn hanes dealltwriaethol ac ysbrydol Cristionogaeth.

II. Y CYFLWYNIAD: "At eglwysi Galatia." Fe ganfyddir nad ydyw y cyflwyniad hwn yn cynnwys ond yn unig enw lleol yr eglwysi y cyfeiriwyd y llythyr atynt. Ac yn hyn saif y cyflwyniad hwn mewn cyferbyniad nodedig i gyflwyniad pob llythyr arall o'i eiddo. Ynglyn a chyflwyniad pob llythyr arall, y mae rhyw air o anwylddeb, rhyw ymadrodd yn arddangos tynherwch a chydymdeimlad, rhyw gyfeiriad yn dynodi barn uchel am danynt, ac am eu cynnydd mewn gras a duwioldeb. Nodwn fel engraffit, ei gyflwyniad yn ei lythyr at y Rhufeiniaid: "At bawb sydd yn Rhufain, yn anwyl gan Dduw, ac wedi eu galw i fod yn saint" (i. 7). Ceir peth tebyg i hwn ymhob un o'i lythyrau oddieithr hwn. Yn gydweiddol â'r absenoldeb yma o'r cyflwyniad o unrhyw ymadrodd tyner a chalonogol, y saif y ffaith o absenoldeb yr adran longyfarchiadol. Diau fod y ddau wedi eu gadael allan ar yr un egwyddor, neu ar gyfrif yr un achos. Sicr yw fod absenoldeb unrhyw ymadrodd tyner, unrhyw air o anwylddeb o'r cyflwyniad, yn ogystal ag absenoldeb yr adran longyfarchiadol arferol, yn berffaith gydgordiol ag ysbryd a thôn y llythyr trwyddo oll. Nodwedd y llythyr ydyw y beïol a'r condemniol. Y mae yn rhedeg trwyddo o'i ddechreu i'w ddiwedd yr ieithwedd fwyaf minlem, yn brathu fel y cledd. Sylwer ar yr ymadroddion agoriadol, i. 6—12; hefyd iii. 1—5; iv. 9—18, 21; v. 7. Ysgrifennodd Paul lythyrau at saith o eglwysi, ac ynglyn ag un o honynt yn unig y gorfodwyd ef i luddias geiriau o anwylddeb a chymeradwyaeth. Tra yr oedd ganddo lawer i'w anghymeradwyo ynddynt oll, yr oedd ganddo lawer i'w edmygu a'i ganmol. Un yn unig o'r saith a faelodd a'i gynysgaeddu â defnydd canmoliaeth. Y mae cyd-darawiad hynod yn hyn o beth rhwng llythyrau Paul ac eiddo yr Arglwydd Iesu at saith eglwys Asia. O'r rhai hynny hefyd, dim ond un a faelodd a chynysgaeddu moddion canmol i'r Alpha a'r Omega,—yr eglwys yn Laodicea. Dyma ddwy eglwys Gristionogol heb ddim ynddynt yn haeddiannol o un gair o ganmoliaeth. Ffaith ddifrifol neillduol. Dyma eglwysi i Grist, yn ymgyfenwi ar ei enw, eto yn ddiffygiol o'r egwyddorion hynny a allent yn unig ffurfio eu hawl i'r cyfryw deitl. Y mae y ffaith yn un arwyddocaol neillduol. Dengys y posibilrwydd i gymdeithas, yn galw ei hun ar enw Crist, fod heb un o'i mewn o gymeriad digon Cristionogol i waredu y cyfryw rhag bod yn gyfangwbl yn ffug a rhagrith. Ac o bob ffug a rhagrith, eglwys yn y sefyllfa honno ydyw y peth mwyaf esgymun ac atgas yn yr holl fyd. Y mae yma ffaith arall dra arwyddocaol a gwerth ein sylw parthed y ddwy eglwys hyn, sef gwahanol dir eu condemniad. Yr oedd diffyg eglwys Galatia yn athrawiaethol, tra yr oedd eiddo eglwys Laodicea yn brofiadol. Ni chyhuddir uniongredded eglwys Laodicea; gallasai ei syniadau athrawiaethol fod heb un ystaen o heresi o ran dim a ddywedir; ond gyda'i holl gywirdeb athrawiaethol, yr oedd yn ddiffygiol mewn bywyd ysbrydol. Ond yr oedd diffyg eglwys Galatia yn gorwedd mewn cyfeiriad arall,—ffaelasant hwy mewn ymliniad wrth y gwirionedd yn athrawiaethol. Dyma oedd baich eu gwrthgiliaid hwy; syrthiasent oddiwrth ras, neu oddiwrth athrawiaeth gras; fe'u "symudwyd" oddiwrth Grist. Felly diffygion

yr eglwysi hyn, Galatia a Laodicea, oeddynt, yn y naill heresi, ac yn y llall ffurfioldeb. Beth ydyw y casgliad sydd i'w dynnu, er gwers i ni, Gristionogion y dyddiau hyn? Oddiwrth eglwys Laodicea, dysgwn na wna yr uniongredded mwyaf dilwgr mo'r tro, heb fywyd ysbrydol a'i frwdfrydedd. Oddiwrth eglwysi Galatia, gellir casglu pa mor ddiffygiol ydyw y brwdfrydedd gwresocaf a'r bywyd dichlynaf heb ffyddlondeb i'r gwirionedd; na wna dichlynder bywyd, er ei werthfawroced, ddim esgusodi heresia *a dywyllant ras Crist*. Dau beth na all Duw mo'u gwneyd yn gyson â'i anrhydedd: rhoi bendithion bywyd ysbrydol i bersonau na feddant fywyd, fel y Laodiceaid; ac estyn bendithion gras i'r rhai a wrthodant drefniadau gras, fel y gwnai y Galatiaid. Yn y ddau achos hyn ceir condemnïad eglur, ar un llaw, o benrhyddid athrawiaethol; ac ar y llaw arall, o wagder ffurfioldeb.

III. Y BENDITHIAD: "Gras fyddo i chwi a heddwch oddiwrth Dduw Dad, a'n Harglwydd Iesu Grist; yr hwn a'i rhoddes ei hun dros ein pechodau, fel y'n gwaredai ni oddiwrth y byd drwg presennol, yn ol ewyllys Duw a'n Tad ni."

Cynnwysa y bendithiad ddau beth: y deisyfiad arferol; a datganiad eglurhaol.

Y Deisyfiad: "Gras fyddo i chwi a heddwch oddiwrth Dduw Dad, a'n Harglwydd Iesu Grist." Dymunir am ddwy fendith arbennig; gras, a heddwch. Digon yw dweyd am y ddau beth hyn, mai geiriau cyfarch y Groegwr a'r Iuddew oeddynt. Yn y gair *gras*, canola y Groegwr ei holl eisieu; ac yn y gair *heddwch*, canola yr Iuddew ei holl eisieu yntau. Cynrychiola y ddau air y pethau a gyfrifai y gwahanol bersonau hyn ddymunolaf i'w meddiannu, ac felly i'w deisyfu i'r sawl yr ewyllysient yn dda iddynt. Ond y mae yr Efengyl yn cyfuno y ddau gyfarchiad, ac yn dangos mai hi sydd yn alluog i sylweddoli deisyfiadau dymunolaf y Groegwr a'r Iuddew. Trwy ei gras, y mae wedi bendithio y byd â threfn i'w waredu oddiwrth ei drueni; a thrwy ei heddwch, neu ei thangnefedd, y mae yn gwneyd y brynedigaeth yn ffaith ym mhrofiad personol pob un a'i derbynïa. Nid digon gan yr Apostol, fodd bynnag, ddeisyf y bendithion goruchel hyn iddynt, heb hefyd awgrymu y ffynhonnell o honynt. Nid hwy eu hunain, ond "Duw Dad, a'r Arglwydd Iesu Grist." Cawn fod y ffynhonnell yn ddeublyg, Y mae Duw Dad, a'r Arglwydd Iesu Grist yn dal perthynasau, pob un, priodol iddo ei Hun, â'r bendithion hyn. Daw y bendithion o ras a heddwch oddiwrth y ddau, ond mewn ystyr wahanol; oddiwrth y Tad fel eu ffynhonnell gyfrannol; ac oddiwrth Iesu Grist fel eu cyfrwng haeddiannol. Felly y mae yr Apostol wrth ddeisyf y bendithion hyn i'r Galatiaid yn gorchuddio holl dir eu hangen; ac wrth eu deisyf iddynt trwy Dduw Dad, a'r Arglwydd Iesu Grist, yn gorchuddio holl dir eu ffynonelliad.

Ond fe geir ynglyn â'r Bendithiad hwn beth na ddigwydd ynglyn â'r Bendithiad perthynol i un arall o lythyrau Paul. Gwna Nodiad Eglurhaol parthed gwaith meichniol Crist. Wedi crybwyll enw Crist fel ffynhonnell y gras a'r heddwch a ddeisyfai iddynt, ychwanega y nodiad: "Yr hwn a'i rhoddes ei hun dros ein pechodau ni, fel y'n gwaredai ni oddiwrth y byd drwg presennol." Diben cyntaf yr Apostol, yn ddau, yn gwneyd y datganiad ychwanegol hwn, oedd cyfeirio eu sylw at sail haeddiannol y gras a ddeisyfai iddynt. Yr oedd amgylchiadau neillduol y bobl hyn yn eu perthynas â'r athrawiaeth a draethir yn y datganiad,

yn galw am y nodiad. Yr oeddynt wedi gwrthod, neu i ddefnyddio geiriau Paul, wedi "symud" oddiwrth Grist; am hynny, yr oedd yn ofynol iddo, tra yn dymuno iddynt fendithion neillduol, eu hadgoffa o'r unig dir ar yr hwn yr oedd y cyfryw fendithion yn bosibl iddynt,—mai unig ffynhonnell gras a heddwch i ddynion, ydyw Crist fel yr oedd yn iawn dros ein pechodau; yr athrawiaeth a wrthodasent hwy gyda'r fath brysurdeb anweddus.

Hefyd, y mae'r Apostol, gyda'i graffder a'i fedrusrwydd arferol, yn gosod o flaen y Galatiaid yr eglurhad hwn parthed ffynhonnell gras a heddwch mewn ffordd a gwedd fel ag i orchuddio holl dir eu gwrthgiliaid hwy. Y mae tri pheth yn cael eu haeru yn y geiriau:

1. Y ffaith fod Crist yn bech-aberth: "Yr hwn a'i rhoddes ei hun dros ein pechodau ni." Y mae yr ymadrodd yn amlwg yn un o ystyr ddirprwyol. Nis gallasai roi ei hun *dros bechod*, mewn unrhyw ystyr arall. Fel y sylwyd y mae yr Apostol yn y datganiad hwn yn ei wneyd yn ddigamsyniol eglur i'r Galatiaid ar ba dir y gallai ei weddi ef am ras a heddwch iddynt gael ei sylweddoli.

2. Haera amcan goruchwyliaethol i'r aberthiad hwn o hono ei Hun: "fel y gwaredai ni oddiwrth y byd drwg presenol." Beth all y frawddeg hon olygu? Yr eglurhad arferol ydyw ei bod yn golygu y byd yn ei dreialon, ei dentasiynau, a'i bechodau. Nid ydyw yr eglurhad hwn yn ein boddioni, am y rhesymau canlynol: (1). Nid ydyw yn wir. Nid ydyw Aberth Crist yn gwaredu oddiwrth dreialon a themtasiynau a thrallodion y byd, nac yn addaw gwneyd hynny. Erys credinwyr mor agored i'r rhai hyn wedi eu derbynaiad o Crist a chyn hynny. (2). Nid ydyw y syniad uchod yn cyfarfod ag achos y Galatiaid. Y mae yn naturiol casglu ei fod yn rhan o bwrpas yr Apostol i osod allan fuddioldeb marw Crist yn y wedd honno arno a gyfarfyddai â'r peth y teimlai y Galatiaid y rhwystr pennaf oddiwrtho. Nid treialon a themtasiynau y byd yn gymaint oedd y pethau a'u blinent. Yr oedd y Galatiaid wedi gwrthgilio oddiwrth yr Efengyl, ac wedi lithro i gaethiwed y grefydd Iuddewig. Cymar yr Apostol achlysur oddiwrth ei grybwylliad am farw Crist dros bechodau, y ychwanegu y ffaith hon, ei fod wedi gwneyd y grefydd honno yn ddirym a dianghenraid; mewn gair, gwnaethai aberth Crist y grefydd honno yn *beth drwg*, daethai i fod yn graig rhwystr, yn achlysur tramgwydd, ac i sefyll yn ddirifrol yn ffordd llwyddiant yr Efengyl; yn gymaint felly fel ag i gyfiawnhau ei galw "yn fyd drwg."

Fel prawf o gywirdeb y syniad hwn cynygiwn yr ystyriaethau canlynol:—

(1). Y mae y term "byd" yn cael ei ddefnyddio i ddynodi y gyfundrefn Iuddewig. Gwel yr esiamplau canlynol: 1 Cor. xi. 11; a Heb. ix. 26. Canfyddir priodoldeb y cyfryw enw arni pan ystyrir meddwl gwreiddiol y gair a gyfieithir uchod, ac yn Heb. ix. 26 "byd," ond a gyfieithir 1 Cor. x 11, yn fwy priodol, yn "oes." Golyga amser, cyfnod, ysbaid, terfynol neu annherfynol. Nid ydyw ei ddefnyddiad i ddynodi cwrs y byd ond ail beth.

(2). Hefyd y mae "y byd presenol," yn dra phriodol enw ar y grefydd Iuddewig mewn ffordd gyferbyniol i'r enw, "byd a ddaw," a roir i'r oruchwyliaeth efengylaidd. Fod yr olaf yn myned dan yr enw "y byd a ddaw," sydd amlwg oddiwrth Heb. ii. 5; v. 5. Os ydyw "byd a ddaw" yn briodol enw ar yr oruchwyliaeth efengylaidd, y mae

“byd presennol” yr un mor briodol enw ar yr oruchwyliaeth Iuddewig. Gelwid yr oruchwyliaeth Gristionogol yn fyd i ddyfod, am ei bod ar y pryd yng nghwrs ei sefydliad; tra y gelwid yr oruchwyliaeth Iuddewig yn fyd presennol, am ei bod yn hen sefydliad cydnabyddedig, er fod ei dymor wedi dirwyn i ben.

Ond efallai y dadleuir fod yr ymadrodd “byd *drwg*” yn anghymmwys enw ar oruchwyliaeth grefyddol o ddyfodol apwyntiad. Gwir fod y grefydd Iuddewig yn drefniant dwyfol; ond mor wir a hynny, trwy ymlyniad gwrthnysig y genedl wrthi, wedi dyfod yr Efengyl, ac ar draul gwrthod yr Efengyl, aethai yn ddrwg mawr. Aethai Pedr yn Satan, pan y safai rhwng Crist a chyflawniad o ewyllys Duw. Un o ddiabention y ddeddf, yn ol yr Apostol (iii. 24), oedd cario dynion at Grist fel y cariai y gwas gynt y plentyn i'r ysgol; ond pan y daethai yn hytrach i gario dynion oddiwrth Grist, fel yn achos y Galatiaid, yr ydoedd yn *ddrwg* digymysg.

Ymhellach, nid ydyw yr ymadrodd “byd *drwg*,” un radd yn gryfach nag ymadroddion ereill â pha rai y darlunir y grefydd Iuddewig pan y safai yn wrthwynebol i grefydd Crist. Cymharer yr engreiffitiau canlynol:—“Pa fodd yr ydych yn troi drachefn at yr egwyddorion lleog a thlodion?” (iv. 9). Eto, “Er mwyn yr hwn y'm colledwyd ym mhob peth, ac yr wyf yn eu cyfrif yn dom fel yr enillwyf Grist.” Mae yn werth ein sylw yn y fan yma, fod y llythyr hwn yn nodedig am ei ymadroddion cryfion. Yr oedd y mater yn un ag y teimlai yr Apostol yn gryf arno; am hynny llefarai yn gryf. Yng ngwyneb yr ymadroddion hyn, a'r tir o wrthwynebrwydd dygasog i'r Efengyl a gymerasai yr Iuddewon, nis gallwn feddwl fod yr enwad “byd *drwg*” yn un neillduol o galed am yr hen grefydd.

(3). Hefyd y mae yr ymadrodd, “fel y'n gwardai ni,” mewn perffaith gysondeb â'r modd y llefarai yr Apostol yn y llythyr hwn, a manau ereill, am y cyflwr o fod dan y ddeddf. Llefarai yn barhaus am dano fel cyflwr o gaethiwed beichus. Sylwer ar iii. 23, 25; iv. 2—9, 21—31; v. 1. Os oedd y ddeddf yn gyflwr mor boenus, yn iau mor orthrymus, y mae yn eithaf cyson disgrifio y rhyddhad oddiwrthi fel gwardigaeth oddiwrth ddrwg neu sefyllfa o orthrymder poenus. Ymadrodd cyfystyr â hwn ydyw iv. 5: “Fel y prynai y rhai oedd dan y ddeddf.”

Am y rhesymau hyn tybiwn fod yr ymadrodd “byd *drwg* presennol” yn golygu Iuddewiaeth, ac fod gwaredu oddiwrtho yn golygu dygiad dynion i ryddid syml yr Efengyl, oddiwrth drefniadau ag yr oedd y bobl yn griddfan dan eu pwysau. Felly yr ydym yn deall yr ymadrodd, “fel y'n gwardai oddiwrth y byd *drwg* presennol” fel yn meddu cyfeiriad at ddylanwad goruchwyliaethol marw iawnol Crist, yn fwy nag at ei ddylanwad moesol ar bersonau unigol.

3. Hefyd sylwer fod yr Apostol yn pwysleisio y ffaith fod y gwaith hwn a briodolir i farw Crist, “yn ol ewyllys Duw.” Yr oedd yn beth yn ol ewyllys Duw i'r ddeddf, oedd wedi dyfod yn beth *drwg*, gael ei diddymu. Mewn gair, yr oedd hynny yn drefniant doethineb Duw; felly yr oeddynt hwy wrth fyned yn Iuddewon, yn gosod eu hunain mewn gwrthwynebiad i'r ewyllys a'r bwriadau Dwyfol. Edrychai yr Iuddew ar ei grefydd fel peth Dwyfol; yr oedd dweyd wrtho, gan hynny, fod marw Crist yn ei dileu, yn fater nid bychan; yr oedd yn gwrthdaro ei syniadau anwylaf, ac yn cyffwrdd ag ef yn ei fan tynheraf.

Felly i'w gymodi â'r ystyriaeth, tystia yr Apostol fod y peth " yn ol ewyllys Duw;" ei fod yn gwblhad o'i gynllun Ef, cynllun wedi ei drefnu gan ei ddoethineb, a'i weithio allan yn ol gweithrediad nerth ei gadernid Ef.

Yr ydym yn gweled yng ngoleu y geiriau, dri gwirionedd am farw Crist: 1. Ei fod yn iawnol yn ei natur; 2. Ei fod yn waredigol yn ei effaith; ac 3. Ei fod yn Ddwyfol yn ei gynlluniad

IV. Y FOLAWD. "Pr Hwn y byddo y gogoniant yn oes oesoedd. Amen." Teimlai yr Apostol fod gwaith o natur yr hwn a brïodolir i Crist yn y Bendithiad, yn galw am ddatganiad uchel a digêl o ddiolchgarwch. Os ydyw ein hesboniad o'r geiriau "byd drwg presennol" yn gywir, y mae y Folawd yn ergyd uniongyrchol i Iuddewiaeth. Awgrymir fod gwaith Crist a'i un aberth anfeidrol, yr hyn a ddarlunir yn y geiriau, "rhoddi ei Hun dros ein pechodau ni," yn diddymu yr hen aberthau i gyd, yn adlewyrchu gogoniant tragwyddol i Dduw a gynlluniodd y cyfryw. Pa fodd, felly, y gallai y Galatiaid fyned oddiwrth yr Efengyl, at gyfundrefn ag y rhoddid y fath arbenigrwydd ar ei diddymiad, a'i fod yn galw am ddiolchgarwch gorfoleddus i Dduw?

Cefnawr.

ABEL J. PARRY.

JIWBILI Y TONIC SOL-FFA.

YR ydys, yn ystod y misoedd diweddar, wedi bod yn cynnal lliaws o gyfarfodydd, nid yn unig yn Lloegr, a manau ereill, ond yng Nghymru hefyd, er "dathlu" Jiwibili y Tonic Sol-ffa. Hwyrach, gan hynny, na fyddai yn beth annerbyniol gan ddarllenwyr y TRAETHODYDD gael ychydig o sylwadau ar ei dudalennau ar y gyfundrefn gerddorol hon, ac ar ei Jiwibili. Credwn y bydd galw sylw at yr hyn a wnaed trwy gyfrwng y Tonic Sol-ffa, nid yn unig yn fuddiol, ond hefyd i ryw fesur yn ddyddorol.

Nid ydym am fyned i mewn i hanes manylion dechreuad y gyfundrefn, tua haner can mlynedd yn ol yn Lloegr, pan berffeithiodd y diweddar John Curwen drefn Miss Glover, ac y galwodd sylw y wlad at fanteision y drefn honno; nac ychwaith am adrodd hanes y modd y galwyd sylw Cymru ati tua deng mlynedd ar hugain yn ol. Y mae hynny wedi ei wneyd ar dudalennau y TRAETHODYDD eisoes, o dan y pennau, "Y Tonic Sol-ffa yng Nghymru,"* a "John Curwen a'i waith."† Ni wnawn yn awr ond nodi rhai o brif egwyddorion y drefn honno o ddyegu canu, a chyfeirio hefyd at rai pethau yn hanes yr hanner can mlynedd o lafur gyda hi, ag a allent fod yn fuddiol i seilio ychydig o addysgiadau oddiwrthynt ar gyfer y dyfodol.

Fe w'yr pawb sydd wedi darllen hanes John Curwen, nad oedd pan ymgymherodd â'r gwaith o wella canu yr Ysgolion Sabothol yn Hull yn 1841, ond cerddor canholig iawn. Yn wir, cyn i'w sylw gael ei alw at nodiant Miss Glover, nid oedd yn alluog i ganu y dôn symlaf oddiwrth y nodiant arferedig, gyda dim sicrwydd. "Mor fuan," meddai, "ag yr oeddwn wedi dysgu cyfrwng arbennig, cefais, pan awn i geisio canu drachefn yr hyn oedd yn ymddangos yr un cyfrwng yn hollol, fod gwa-

* TRAETHODYDD, 1870, tudal. 51, &c. † TRAETHODYDD, 18·3, tudal. 350, &c.

hanaeth o hanner tŷn rhyngddo." Nis gallai, gan hynny, byth fod yn sicr ei fod yn canu yn iawn; ac y mae profiad y nifer fwyaf sydd wedi bod yn gwneyd yr un ymgais yn gyffelyb. Dyna ein profiad ni, pa fodd bynnag, pan yn dechreu dysgu.

Y mae yn ffaith addefedig mai ychydig, mewn cymhariaeth, sydd eto yn alluog i ddarllen y gerddoriaeth fwyaf syml. Er yr holl lafur gyda cherddoriaeth, trwy gyfrwng yr hen nodiant a'r newydd, y mae corff mawr y bobl yn analluog i ganu y don symlaf oddiwrth y nodau. Nid ydyw arwyddion yr hen nodiant, na'r newydd yn wir, yn cyfleu mwy o ystyr iddynt na phe gosodid dalen o Sanscrit neu o *Algebraic problems* o flaen y plentyn na ddysgodd ddalen ar lyfr. Fe fu amser pan oedd corff mawr pobl y wlad hon yn yr un cyflwr yn hollol gyda golwg ar ddarllen eu hiaith eu hunain. Er fod pawb yn gallu siarad, nid oedd ond ychydig yn gallu darllen. Ond y mae pethau yn bur wahanol yn y dyddiau hyn. Mae "pob merch tincer," chwedl yr hen Ficer, nid yn unig "gyda'r Saeson," yn "gallu darllen llyfrau mawrion," ond gyda ni yng Nghymru yn darllen eu "paderau" a'u Beiblau, a llyfrau ereill yn rhwydd ddigon.

Pan na fyddai y gallu i ddarllen cerddoriaeth yr un mor gyffredinol? Ai am fod darllen cerddoriaeth yn beth mwy anhawdd na darllen lyfr cyffredin? Nis gallwn gredu hynny. Mae a b c cerddoriaeth yn llawn mor, i.e., yn llawer mwy hawdd ei ddysgu na'r wyddor gyffredin. Mae ei llythyrennau yn llai eu nifer ac yn haws eu cynhyrchu. Pa gyfrif gan hynny a ellir ei roddi o'r ffaith a nodwyd?

Un peth yn ddiaw sydd yn rhoddi cyfrif am dani yw, nad oes ond ychydig yn gwneyd ymgais i ddysgu. Nid yw gwersi mewn canu yn rhan o addysg gyffredin ein hysgolion. Y mae yn *extra*, mae'n wir, mewn rhai ysgolion. Cyfrennir gwersi yn achlysurol mewn canu, ond anfynych y mae lafur cyson a rheolaidd yn cael ei gymeryd i ymgyfaryddo yn y gangen hon o wybodaeth. Ac y mae rhai yn tybied eu bod yn gallu canu tŷn os byddant wedi dysgu ei chwarcu ar ryw offeryn. Ond nid darllen cerddoriaeth y maent wrth wneyd hynny, ond cael yr offeryn i ganu y don yn eu lle.

O ddiffyg addysg fel hyn mewn cerddoriaeth pan yn ieuanc, y mae lliaws yn colli blas a medr at hynny, ac yna yn myned i dybied nad oes dim cerddoriaeth yn eu natur. Bod rhai yn meddu y ddawn yma mewn modd arbennig sydd wirionedd nad oes neb a geisia ei wadu; ond mai gan yr ychydig y mae y ddawn honno, ac nad oes gan y lliaws "glust" at ganu, sydd haerid nas gallwn ei dderbyn. Gwyddom fod plant bach ysgol y babanod yn gallu canu y tonau a ddsagir iddynt yn ddigon rhwydd. Y mae ganddynt "glust" at ganu, yn ddieithriad bron. Gwyddom hefyd fod corff mawr ein cynulleidfaoedd, wedi iddynt ddysgu tŷn trwy ei chlywed yn ddigon mynych, yn gallu ei chanu a'i mwynhau. Ond gan na fu dim, neu y nesaf peth i ddim hyd yn ddiweddar, o addysg yn cael ei chyfrannu yn ein hysgolion i'n plant yn y gelfyddyd o ddysgu darllen cerddoriaeth, nis gellid, wrth gwrs, ddisgwyl i'r lliaws allu gwneyd hynny. A pha ryfedd? Gadawer i fraich y plentyn cryfaf hongian yn ddiwaith wrth ei ystlys am flynyddau, a choir yn y diwedd na fydd dim north ynddi.

Gellir nodi peth arall sydd wedi tueddu i gynhyrchu y stad yma ar bethau, a hynny ydyw hyn:—Pan eid at y gorchwyl o ddysgu cerddoriaeth, nid dysgu darllen cerddoriaeth a wneid, ond dysgu yr hyn a elwid

yn Rammadeg y Wyddor. Tybid fod dysgu yr Erwydd, sefyllfa y nodau ar yr erwydd—yr allweddau, y llon-nodau, y lleddf-nodau, y cordiau, &c., yn gwneyd y tro yn lle dysgu darllen cerddoriaeth. Daeth llawer i ddeall athroniaeth yr “arwyddion a'r rhyfeddodau” dyrys hyn, heb, wedi y cyfan, allu canu y dôn symlaf ar yr olwg gyntaf.

Ond yr ydym yn credu mai y rheswm mawr fod cyn lleied yn gallu darllen cerddoriaeth ydoedd, fod y nodiant cerddorol arferedig yn un dianghenraid o anhawdd, ac felly nid oedd yn beth i'w synnu ato fod lliaws yn cilio draw heb ymgymeryd â'r gwaith o ddysgu, nac o addysgu. Gwirionedd mawr sylfaenol cerddoriaeth ydyw, fod yr holl adeilad yn sylfaenol ar y raddfa; fod y raddfa honno yn un hawdd a naturiol; a'i bod yr un ymhob cywair. Boed uchel neu isel, mai yr un oedd y raddfa. Er engrauft, caner yr Hen Ganfed mewn unrhyw gywair: os cenir y nodau yn gywir, yn eu cysylltiad â'r tonydd neu y cyweirnod, yr Hen Ganfed fydd y don. Yn awr ein cwyn yn erbyn yr Hen Nodiant yw, nad yw y gwirionedd hwn yn cael ei wneyd yn eglur ynddo, neu yn wir, fod y gwirionedd sylfaenol hwn yn cael ei guddio bron yn llwyr o'r golwg. Uchder neu isder y seiniau ydyw y peth mawr sydd yn cael ei ddwyn yn arbennig i sylw, tra nad ydyw hynny o un pwys o ran cywirdeb wrth ganu. Mae yr hyn sydd yn hanfodol bwysig, sef perthynas y gwahanol seiniau â'r tonydd, yn beth ag sydd yn gofyn dawn arbennig, a llawer o chwilio, i'w gael allan. Yr ydym yn credu, meddwn, mai dyma'r prif reswm dros fod cyn lleied yn teimlo un awydd i gyfrannu na derbyn addysg mewn darllen cerddoriaeth.

Symud y rhwystr hwn oddiar y ffordd, a dwyn nodiant mwy cyson â phrif wirionedd mawr cerddoriaeth a wnaeth John Curwen, pan gyflwynodd gyfundrefn Miss Glover mewn dull mwy perffeithiedig i sylw y byd. Gadawer i ni fanylu ychydig ar y gwirionedd mawr hwn. Y mae yn gorwedd wrth wraidd cerddoriaeth; a chadw hyn o flaen y llygad bob amser, sydd yn cyfansoddi prif rinwedd addysgol y nodiant newydd. Ond goddefer i ni hefyd adgofio y darlennydd mai nid dyma'r unig fantais ynglyn â'r *gyfundrefn*, er ei fod y peth pwysicaf ynglyn â'r *nodiant*. Yr oedd y diweddar John Curwen yn ddysgawdwr—yn *educationist*—o'r radd flaenaf. Darlennenr y llyfr a elwir “The Teachers' Manual,” llyfr a ddylai gael ei astudio yn fanwl gan bob athraw fyddo yn meddwl ffurfio dosbarth i ddysgu Sol-ffa, a cheir gweled hyn. Yn wir yr ydym yn credu y bydd unrhyw athraw fyddo yn awyddus i wybod sut i ddysgu un o'r gwyddorau yn y dull goreu, ar oi fantais trwy astudio y llyfr hwn yn fanwl. Y mae y modd i gyfrannu addysg i'r disgybl yn cael ei egluro ynddo yn y modd mwyaf clir sydd yn ddichonadwy, ac yr ydym yn gofido yn fawr na fuasai llyfr cyffelyb iddo wedi ei ysgrifennu ar gyfer athrawon ein Hysgolion Sabothol.

Ond i ddychwelyd. A B C cerddoriaeth, meddwn, ydyw y Raddfa. Pan yn gwrando ar ddernyn o gerddoriaeth yn cael ei ganu neu ei chwarae, ac yn sylwi ar y nifer o seiniau sydd yn taro ar y glust, o'r isaf hyd yr uchaf, mae yr anghyfarwydd yn barod i ofyn, Pa fodd, yn y byd mawr, y gallwn ddysgu dwyn y rhai hyn i unrhyw drefn, a'u gosod yn rheolaidd o flaen y meddwl, a dysgu eu hadnabod a'u taro wrth ein hewyllys? Ond erbyn chwilio, yr ydys yn cael fod yr holl gerddoriaeth yn cael ei gwneyd i fyny o nifer o seiniau arbennig; yn gymwys fel ag y mae pob gair, pa mor hir a chyfansawdd bynnag y bo, yn cael ei

wneyd i fyny o lythyrennau y wyddor. Nid yw y deryn mwyaf dyrys o gerddoriaeth ond cyflead neillduol mewn gwahanol sefyllfaoedd o saith sain arbennig. Y saith sain hyn sydd yn cyfansoddi yr hyn a elwir yn raddfa. Cyn y gellir cyfansoddi tòn, neu unrhyw ddarn o gerddoriaeth, rhaid sefydlu ar ryw un sain fel cyweirsain neu dônnydd; ac ar unwaith y mae chwech o seiniau ereill yn neidio megys i fod, ac yn hawlio eu lle priodol fel gwasanaethyddion i'r cyfryw dônnydd.

Llawer o bleser fuom yn ei gael pan yn dysgu cynulleidfaoedd, flynnyddau yn ol, yn y raddfa, wrth eu cael yn cynhyrchu y cyfryw raddfa mor naturiol. Nid oedd eisieu ond taro unrhyw sain, uchel neu isel, yn ol natur y lleisiau, a gofyn iddynt swnio tuag i fyny, heb ddweyd wrthynt pa mor uchel oeddent i fnyed, na cheid hwynt yn dringo y raddfa yn berffaith gywir. Yr oedd y plant lleiaf, na chlywsent air o son am y fath air a graddfa, yn gystal a'r dynion mewn oed, ag oeddent, y rhan fwyaf, yr un mor anwybodus am natur y raddfa, yn gallu ei dringo yr un mor gywir, ac yn swnio pob nodyn ynddi yn ei le, mor ddfifeth a chywir ag unrhyw berdoneg fu erioed; yn wir yn fwy cywir o ran hynny. Yr oedd Mr. Curwen yn hoffi edrych ar y raddfa hon, fel yn cael ei ffurfio yn unol â'r deddfau naturiol hynny a blannwyd yn ein natur gan Dduw ei hun. Ac yr oedd ganddo lawer i'w ddweyd dros ei olygiad. Dyma rydd-gyfieithiad o'i eiriau ar hyn:—

Mae y glust ddynol, trwy y byd, yn cael ei *boddhau* pan y mae y seiniau *hyn* yn gweini ar y tónydd hwnnw, ac yn cael ei *hanfodhau* pan y mae seiniau ereill. nad ydynt yn dal yr un berthynas â'r tónydd, ac heb sefyll yn yr un uchder perthynasol oddiwrtho, yn cael eu defnyddio yn eu lle. Ni fyddai y glust anniwylledig yn gallu gwybod yn gywir, *ymha le* yr oedd y diffyg yn yr amgylchiad olaf a nodwyd; ond byddai yn meddu ymwybyddiaeth poenus o'r ffaith, a gallai nodi y gwahaniaeth rhwng y cerddor cywir a'r un anghywir: rhwng yr un fyddai yn canu mewn *tune* a'r un fyddai allan o *dune*. Y trefniad hwn o chwech o seiniau o gwmpas tónydd, yw yr hyn a elwir yn raddfa. Gall fod yn uchel mewn un dôn, neu yn isel mewn un arall, ond y mae sefyllfa berthynasol y seiniau yn aros yn ddigyfnawid. Gall yr hyn a elwir yn "drawsgyweiriad" newid y tónydd ynghwrs y dôn, ond y mae y tónydd newydd yn rhcoli y nodau ereill sydd yn ei ddilyn fel yr oedd yr hen dônnydd. Nid yw pob eithriad ymdangosiadol ond yn profi y rheol. Yr un raddfa hon sydd yn sylfaen pob cerddoriaeth. Y mae rhai yn siarad am y raddfa hon fel pe byddai yn ddyfais ddynol; os felly pa fodd y mae fod pob cenedl yn ei defnyddio (os ydynt yn gerddorol o gwbl), neu yn meddu clustiau sydd ar unwaith yn ei chymeradwyo? Sut na fuasai y Chincâid, neu yr Indiaid, wedi dyfeisio rhyw raddfa arall? Y gwir yw y mae rhai cenedloedd yn gadael nodyn neu ddau *allan*, ond nid ydynt yn *cyfnewid* y lleill; a phan y gwneir ymchwilad manwl i'r cwestiwn, fe geir y gadewid y seiniau allan o herwydd neillduolrwydd eu hofferynau, ac nid o herwydd eu clustiau diffygiol hwy. Ac heblaw hynny, goddefer i mi ofyn, gan fyncd yn ol at yr hen Roegiaid, Pa fodd y gellir esbonio ein bod yn cael oddiwrth eu traethodau athronyddol fod y raddfa a ddefnyddid ganddynt hwy yr un hollol â'r eiddom ni? Oni allasai y bobl ddiwylliedig hynny "dyfeisio" rhywbeth gwell? Onid ydym yn iawn, gan hynny, wrth ei galw yw raddfa pob cenedl a phob oes, yn raddfa ag y mae clust ac enaid dyn wedi eu cyfaddasu iddi gan y Crewr oll ddoeth?

Pa un bynnag a greidir geiriau Curwen ai peidio ar y cwestiwn hwn, mae y ffaith yn aros mai dyma y raddfa sydd yn sylfaen pob cerddoriaeth yn ein mysg ni yn awr, ac mai y peth mawr ydyw dysgu y raddfa hon yn gywir. Ond gwneyd hyn, fe ellir darllen cerddoriaeth yn rhwydd. Pwysigrwydd y gwirionedd sylfaenol hwn sydd wedi peri i ni sefyll mor hir arno. Dealler gan hynny, mai ar y gwirionedd hwn y mae y nodiant newydd yn sylfaenedig. Gelwir y tónydd yn *doh*,—pam,

nid awn ar hyn o bryd i ymholi; ac y mae y seiniau ereill sydd yn ymfurfio o gylch y tonydd yn cael eu galw yn *ray, me, fah, soh, lah, te*. Dysgu y rhai hyn, yn ol cynllun rhagorol Mr. Curwen, a dysgu yr arwyddion sydd yn cael eu defnyddio i ddangos amser neu fydr cerddorol, ydyw yr oll sydd yn angenrheidiol i alluogi dyn i ddarllen cerddoriaeth. Nid oes dim mwy o anhawster nag sydd yn natur y peth ei hun. Cofier mai dysgu y *peth* a elwir cerddoriaeth a wneir gan y Sol-ffawyr yn gyntaf, ac *wedi hymny* yr arwyddion am y peth hwnnw.

Oad nid fy amcan i ydyw egluro athroniaeth y Tonic Sol-ffa gymaint. Dylid myned trwy gyfres o wersi, gan athraw cymwys, cyffelyb i'r rhai a roddwyd, dyweder, yn y cyfarfod mawr yn y Pavilion yng Nghaernarfon gan Mr. W. T. Samuel, ar adeg dathliad y Jiwibili yn mis Hydref diweddfaf, ac fel y gwneir, o ran hymny, gan bob athraw sydd wedi astudio llyfrau Mr. Curwen yn dda, er mwyn ymgydnabyddu â'r gyfundrefn. Ar yr un pryd, hwyrach mai nid annyddorol fyddai cyfeirio yn fyr at y gwrthwynebiad a gyfarfu y nodiant newydd yn y blynyddoedd cyntaf o'i hanes.


Anhawdd iawn ydyw pwyo meddylddrych newydd i ben "Sion Darw." Y mae yn geidwadol wrth natur. Yr anhawster yn y dechreu ydyw ei gael i dalu un math o sylw i wirionedd newydd a gynhygir i'w ystyriaeth. Ac ar ol llwyddo i gael ganddo edrych arno, rhaid iddo gael chwerrhin am ei ben am ryw dymor. Y cam nesaf ydyw ei wrthwynebu yn egniol, a'i alw yn bopeth sydd ddwrwg. Yn y diwedd, wedi methu ei ddinystrio, y mae yn dechreu rhwbio ei lygad ac ail edrych arno, ac y mae yn cydnabod fod rhywbeth yn y peth wedi'r cyfan; mewn gwirionedd, fod llawer o dda ynddo, ac mai buddiol fyddai ei gymeryd i fyny yn egniol; ac o ran hymny, nad yw y cyfan ond rhywbeth ag yr oodd efe—Sion—wedi bod yn ei feddwl a'i ddweyd o'r dechreu, pe buasai pobl ond yn gwrando arno.

Mae cyfundrefn y Tonic Sol-ffa wedi myned trwy yr holl driniaethau hyn; ac y mae bron wedi hollol gyrraedd y stad olaf o'r driniaeth a nodwyd. Daliodd Mr. Curwen, yn y blynyddoedd cyntaf, i weithio yn ei flaen, a chyflawni y fath chwyldroad yn y byd cerddorol, fel nad oedd modd dal yn hir i'w ddiystyru na'i wawdio. Yr oedd ganddo *wirionedd cerddorol* i'w bregethu, ac y mae bywyd mewn gwirionedd. Unwaith yr hauer ef yn y meddwl dynol, y mae yn egino ac yn tyfu, ac o'r diwedd y mae yn annichonadwy ei dagu; yn enwedig pan y mae yn cael ei hau yn barhaus, er yr oll a defir arno gyda'r amcan o'i ladd.

Yr ydym yn cofio yn dda fod yr *Educator*, organ y "Congregational Board of Education," wedi gwneyd ymosodiad egniol yn erbyn y gyfundrefn yn 1859. Fe wya'r rhai sydd wedi bod yn astudio y Tonic Sol-ffa, fod pwys mawr yn cael ei roi ar yr hyn a elwir yn "effaith feddyliol" seiniau y raddfa. Honna Mr. Curwen fod pob un o seiniau y raddfa, ar ol sefydlu y tonydd yn y meddwl, yn meddu ei chenadwri arbennig at y glusta'r galon ddynol; h.y., fod y *me, y soh, y lah, &c.*, yn meddu nodwedd neu gymeriad neillduol, a bod deall eu nodweddion, yn help i'w seinio yn gywir. Gwawdiai yr *Educator* hyn yn fawr, ac fel y rhan fwyaf o'r rhai sydd yn gwrthwynebu peth heb seiliau digonol, yr oedd yn rhaid iddo gamddarlunio y gwirionedd a honnid gan Mr. Curwen, ac erbyn hymny gan y Sol-ffawyr yn gyffredinol. Fel hyn y gesyd efe y gwirionedd a

honnid i lawr :—“ Byddai fod y meddwl yn *cofio doh, me, soh, a te,*” meddai, “ tra y byddai y llais yn taro y *fah,* yn fath o *cacophony* a fyddai yn annioddefol, *cacophony* yn wir o'r fath natur na fyddai yr un mwyaf brwdfrydig yn y gelfyddyd o wneyd cordiau, yn dymuno ei glywed fwy nag unwaith.” Wrth gwrs y mae darlennydd deallus y TRÆTHODYDD, heb eithriad, yn gwybod mai ystyr y gair *cacophony* ydyw drygssain, ac fe wel gan hynny nad oedd yr *Educator* ond siarad ynfydrwydd pan yn dweyd fod gwaith y meddwl yn *cofio sain y doh,* yn *seinio* yn anhyfryd pan yn taro un o seiniau ereill y raddfa. O ran hynny, y gwirionedd hwn am effaith feddyliol gwahanol seiniau y raddfa oedd yn taro y diweddar Mr. Stephen, Tanymarian, pan ddarlennodd y rhan gyntaf o'r Llawlyfr cyntaf a gyhoeddwyd i egluro y gyfundrefn yn yr iaith Gymraeg. Yr oedd “ yn methu ei gredu.” Mewn erthygl o'i eiddo yn y cyhoeddiad a olygai o dan yr enw *Great y Corau,* yn y rhifyn am Mai, 1863, y mae—mewn dull boneddigaidd a theg, rhaid addef—yn adolygu y Llawlyfr hwnnw, ac y mae yn “ gwadu y nodweddion yna i'r raddfa;” hynny ydyw, y mae yn gwadu fod i bob sain ei nodwedd arbennig, ar ol sefydlu y tonydd yn y meddwl. “ Gwyddom,” medd Mr. Stephen, “ na ddisgyna y trydydd neu y *me,* ar ein clust fel y pedwerydd neu yr eilfed; adwaenom bob sain o'r raddfa yn eu pellder perthynasol â'r raddfa, ond yr ydym ni yn hoffi gwadu fod ganddynt y nodweddion yna [sef y rhai a honnai Mr. Curwen] yn arbenigol ac yn annibynnol ar eu gilydd. Ni a fentwrn hysbysu y gallwn ganu pob sain o'r raddfa yn gref, yn obeithiol, yn sefydlog, yn dawel, &c., neu fel fyd a fynner. Ymddibynna hyn i raddau helaeth ar dymer a dylanwad y llais, ac ar deimladau a syniadau y meddwl, yn hytrach nag ar sefyllfa y sain yn y raddfa neu ei pherthynas â'r cyweirnod. Gellir canu y frawddeg yma yn yr un a fynner o'r nodweddion a nodwyd; o'r hyn lleiaf ny ni a gredwn hynny nes y cawn ein hargyhoeddi, os oes argyhoeddi arnom hefyd.”

Yna y mae Mr. Stephen yn rhoddi yr engrafft ganlynol i brofi ei bwnc :—



ac yn ychwanegu :—“ Saif yr alaw ar B trwy yr holl frawddeg, eithr newidia ei pherthynas, fel y newidia y cyweirnod. Ond credwn y gallwn gadw yr un nodwedd seiniol iddi trwy yr holl frawddeg.”

Ceisiwyd ateb yr wrthddadl uchod trwy y wasg ar y pryd fel y canlyn :—

Yr wyf wedi darllen y frawddeg uchod lawer gwaith gydag awydd cryf i'w deall, ond hyd yma wedi methu bod yn sicr fy mod wedi llwyddo. Os na ddisgyna y *me* ar eich clust fel y pedwerydd neu yr eilfed, y mae felly wahan-iaeth rhyngddynt. Ond *pa* wahaniaeth? Ai gwahaniaeth o ran nodwedd y seiniau? Os ie, dyna'r pwnc a wrthwynebir yn cael ei addef. “ Na, na,” mi dybiaf eich clywed yn dweyd, “ nid eu hadnabod yr ydwyf o herwydd eu nodweddion gwahanol, ond adwaenom bob sain o'r raddfa yn eu pellder perthynasol â'r raddfa.” Y mae yn wir ddrwg gennyf nas gallaf ddeall beth ydych yn

feddwl wrth "adnabod pob sain o'r raddfa yn eu pellder perthynasol â'r raddfa." . . . *Burnwyf* er hynny mai eich meddwl yw, mai yr unig wahaniaeth rhwng y trydydd a'r pedwerydd neu yr eilfed, yw, fod y trydydd hanner tôn yn is na'r blaenaf, a thôn gyfan yn uwch na'r olaf. Ond fel y mae yn drydydd y cyweirnod, nad oes iddo unrhyw nodwedd arbennig mwy nag sydd gan y pedwerydd neu yr eilfed, neu y chweched, neu y seithfed, o ran hynny. Ai dyna eich meddwl? Yn wir wrth ddarllen ymlaen, yr wyf yn dechreu teimlo yn lled sicr mai dyna yw eich meddwl. Dywedwch y gellir rhoddi y nodwedd "fyd a fyynnir i unrhyw un o seiniau y raddfa, yn ol tymer a dylanwad y llais, neu deimladau neu symudiadau y meddwl." Wel yr wyf yn addef eich gallu yn y llwybr hwn. Clywais chwi yn canu yr heu dôn anwyl, "Ar hyd y nos," fel y dôn ddawns ysgafnaf a gyfansoddwyd erioed; a'r funud nesaf gyda'r fath naws bruddaidd a dwys, nes tynnu deigryn i gongl fy llygad. Addefaf eich gallu yn y ffordd hon yn rhywdd. Ond y mae y pwnc hwn yn cael ei addef hefyd yn y Llawlyfr, lle y dywedir (tu dal. 15) fod nodwedd pob sain o'r raddfa yn cael ei newid rhyw gymaint o ran ei effaith ar y meddwl gan *gynghanedd*, *mydr*, a *chyflymdra*. Y cwestiwn yw, yn annibynnol ar "gynghanedd, mydr, a chyflymdra," ai nid oes gwahaniaeth rhwng nodwedd y—*dyweder*—*fed*, a'r *fydd*, neu y *Sed*, a'r *fed*, heblaw fod y naill yn uwch neu yn is na'r llall? Caner *d m s t—a d m s f—a d m s l—gyda'r un cyflymder*, a goslef llais, &c., y naill ar ol y llall, ac os parhewch i ddwyed nad oes gwahaniaeth hanfodol rhwng *te*, y *fah*, a'r *lah*, yn annibynnol ar eu pellder oddiwrth eu gilydd yn y raddfa, byddwch wedi fy synnu, a bydd yn rhaid i mi ddyfod i'r ponderfyniad fod cyfansoddiad eich meddwl yn dra gwahanol i'r eiddof fi.

Ond beth a ddywedaf am yr engraifft a roddwch o alaw yn parhau yn yr un swm, ac meddwch chwi, yn cadw yr un nodwedd feddyliol, er ei bod yn newid ei sefyllfa yn y raddfa? Wel, hyn a ddedaf, a byddwch gystal a sylwi ai nid wyf yn traethu synwyr:—

1. Y mae yn dra amheus genyf a ydyw y *me* (B) yn yr engraifft a nodwch, yn effeithio yr un modd ar y glust ymhob cord fel eu gilydd. Os dewisaf fi haeru i'r gwrthwyneb, nid oes ond y goreu i daeru am dani.

2. Prin y mae eich engraifft yn cyffwrdd â'r pwnc. Y mae i'r *me* effaith arbennig ar y glust, medd y Sol-ffawyr, ond y mae y cyfryw effaith yn cael ei newid i fesur gan gynghanedd, &c. Yr ydych chwithau yn rhoddi engraifft o'r *me* (B) yn cadw yr un cymeriad, er *gwaeathaf y gynghanedd*. Nid gwrthbrofi y *rheol*, mewn un modd, y mae eich engraifft, ond gwrthbrofi yr *eithriad* i'r rheol os ydyw yn gwrthbrofi rhywbeth hefyd.

3. Ond tybier fy mod yn addef fod y *me* (B) yn yr engraifft a roddwch yn cadw yr un nodwedd, er fod y gynghanedd yn newid ei sefyllfa perthynasol â'r cyweirnod; ni byddai hynny yn effeithio un gronyn ar y pwnc o effaith feddyliol gwahanol seiniau y raddfa. Pam? Wel, am nad yw y glust yn cael amser i deimlo unrhyw dōnydd neu gyweirnod noildduol. Dweyd yr ydym ni, ond i'r *glust glywed y tōnydd*, ac *ymsefydlu ynddo*, fod y seiniau ereill yn meddu cymeriad arbennig yn eu cyaylltiad ag ef, a bod deall hynny yn fantais fawr i ddysgu taraw y seiniau. Ond yn yr engraifft a roddwch chwi, nid ydych yn gadael i'r glust glywed y tōnydd, nac ymsefydlu dim ynddo; yr ydych yn ei newid bob cord. Pe cymerwn ni eich dull chwi o ddadlau, gallwn brofi nad oes dim gwahaniaeth rhwng y naill liw a'r llall (ac y mae llawer mwy o gyfatebiaeth rhwng athrawiaeth lliwiau ac athrawiaeth seiniau nag y mae llawer wedi meddwl). Gosoder nifer o liwiau gwahanol i basio heibio y llygad yn lled gyflym, a'r lliwiau hynny megys wedi eu *shadio* y naill i'r llall, "a mi a gredaf, hyd nes y caf fy argyhoeddi, os oes argyhoeddi arnaf hefyd," mai yr argraff ar y llygad fydd rhyw un lliw na wyddys yn iawn pa un a fydd. Ond ai teg fyddai dadlau o herwydd hynny, mai yr un lliw ydyw du a gwyn, neu las a choch? Rhowch amser i'r llygad sylu arnynt, ac os na fydd rhyw anhwylder arno, mi warantaf y cenfyddaf gwahaniaeth rhwng y naill liw a'r llall. Yn gymawys yr un modd y dywedaf am seiniau y raddfa. Pasier nifer o seiniau mewn gwahanol gyweirnodau yn gyflym heibio y glust, ac y mae yn anhawdd, os nad yn amhosibl, teimlo effaith pob un yn ei chysylltiad â'r cyweirnodau cyfnewidiol. Ond rhowch hamdden i'r glust ymsefydlu mewn cyweirnod—a dyna yr ydys yn ei wneyd wrth ddyegu effaith feddyliol gwahanol seiniau y raddfa i'r disgybl—ac yr wyf yn credu y teimla pawb bron fod gwahaniaeth o ran nodwedd rhwng gwahanol

seiniau y raddfa. Na yu wir, syr, y mae rhywbeth yn y pwnc o effaith feddyliol gwahanol seiniau y raddfa. Fel y sylwa golygydd y *Tonic Sol-fa Reporter*,— “This doctrine of mental effect of tones in key is no longer a crotchet of ours. It has been clearly perceived and firmly held by some tens of thousands of singers, and those who wish to overthrow it, must first take some decent care in studying it.”

Rhaid i ni erfyn maddeuant y darlennydd am wnoyd dyfyniad mor faith, ond hwyrach fod tipyn o ddyddordeb *hauesyddol* ynglŷn â'r modd yr oeddid yn ceisio dadleu un o bynciau y Tonic Sol-ffa tuag wyth mlynedd ar hugain yn ol yng Nghymru. Pa un ai dyma'r modd y dadleuid yn awr, nid af i benderfynu.

Yr oedd Mr. Stephen hefyd yn methu canfod ar y pryd, fod nodiant y Tonic Sol-ffa yn fwy *syml* na'r Hen Nodiant, a chredai nad oedd yr Hen Nodiant wedi cael chwareu teg, ac awgrymai fod dosbarthiadau i gael eu dwyn ymlaen gyda chyffelyb ddisgyblion ac o dan yr un aungylchiadau yn hollol, y naill i ddysgu Sol-ffa a'r llall i ddysgu yr Hen Nodiant, a dywedai, “Credwn yn ddiysgog mai yr hen drefn a enillai y llawryf!” Wrth gwrs, yr oedd y Sol-ffawyr yn barod iawn i wneyd y prawf, ac “yn credu y byddai dosbarth y Tonic Sol-ffa yn gallu canu tonau syml rhag blaen yn y nodiant newydd cyn y byddai y blaenaf wedi deall effaith y \sharp a'r \flat i gynhyrchu trawsddodiant.”

Y mae yn awr yn ddiigrifol meddwl fod neb yn coleddu y syniad nad oes manteision lawer yn perthyn i'r nodiant newydd fel maddion effeithiol i ddysgu darllen cerddoriaeth, pan gymherir yr hyn a welir fel effeithiau dosbarthiadau canu yn ol y gyfundrefn newydd, â'r ymdrechion o dan yr hen oruchwyliaeth i gyrracdd yr amcan hwnnw. Yn wir, y mae Mr. Stephen ei hunan mewn rhifyn arall o *Great y Corau* yn son am yr adgof oedd ganddo am ei benbleth pan yn ieuane wrth geisio dirnad “pa fodd i symud y *mi*,” a'r “fuddugoliaeth Wellingtonaidd” a enillasai “ar y leddf-nodau a'r llon-nodau pan y dealodd eu nerth a'u dylanwad i drawsddodi ac i gynhyrchu trawsgyweiriant.” Ac wrth gyfeirio at yr hen gerddorion coegddysgedig yn ei ddyddiau boreuol, dywedai eu “bod o dan angenrheidrwydd o gael hanner blwyddyn i ddysgu tón newydd at y Nadolig.” Yr ydym ninnau yn cofio yn dda am frawd yn hen gapel ———, yn Liverpool, yr hwn a ystyrir yn gerddor o'r radd uchaf. Siaradai yn ddiystyrlyd iawn am ———, yr hwn oedd yn profesus arwain cor. Yr ydym yn ei weled o flaen llygad ein meddwl yn awr, yn torsythu, ac yn dweyd yn oraclaidd na wyddai y brawd hwnnw ddim sut i wneyd y gwahaniaeth sain rhwng y “trydydd mwyaf a'r trydydd lleiaf.” Yr oeddem ni ar y pryd yn edrych arno gyda syndod, ac yn gofyn iddo roi engraffft o'r gwahaniaeth er egluro y dirgelwch mawr hwn. Yr ydym yn ei weled yn ein meddwl y funud yma, yn taflu ei ben ar y naill ochr, ac yn troi gwyn ei lygad i fyny, ac yn crebychu ei wefusau, ac yn canu *l, d*, ac yna *d m* (y *d* wrth gwrs ar yr un sain a'r *l*) ar y sillau clasurol *tom to*, a *ti to*; ac yna yn dweyd yn oraclaidd: “Na, nid oes mo hanner cantorion y capel yn deall y gwahaniaeth yna fy machgen gwyn i.”

Ond y mae y dyddiau hynny ar ben. Mae y plentyn lleiaf, ar ol bod ond ychydig o dan addysg yn y drefn newydd, yn gwneyd y *tom to*, a'r *ti to* yn berffaith gywir. Mae pob prawf cyhoeddus a roir ar rai wedi bod o dan addysg dda yn y drefn newydd, yn dangos tu hwnt i bob amheuaeth fod dysgu darllen cerddoriaeth syml yn *beth cymharol hawdd*.

Hwyrach y dylwn nodi hefyd fod mantais neillduol ynglyn a threfn Mr. Curwen o gyflwyno addysg gerddorol, yn gymaint ag nad yw yn blino y disgybl trwy ei orfodi i ddysgu dwy raddfa, sef y raddfa fwyaf a'r raddfa leiaf. Edrycha Curwen ar y gerddoriaeth yn y "raddfa" leiaf yn ddim amgen na cherddoriaeth mewn *modd* arall. Mewn geiriau ereill, nid yw y raddfa leiaf ond yr un â'r raddfa fwyaf, yn cael edrych arni mewn *modd* gwahanol. Ysgrifennir tonau yn y *modd lah*, ac yn y *modd ray*, a moddau ereill; ond y mae y raddfa yr un. Nid oes eisieu dysgu un newydd. Os bydd cerddorion yn dewis ysgrifennu tonau yn y modd *lah*, a gosod arbenigrwydd ar y *lah* trwy roi nod arweinïol i'r sain honno, sef *se*, ac wedi hynny gwneyd yn angenrheidiol godi y *fah*, rhag bod tŷn a hanner rhwng y *fa* a'r *se*, nid yw hynny ond gwneyd y rhan uchaf o'r modd *lah* yn efelychiad o'r rhan uchaf o'r raddfa naturiol o *soh* i *doh*; ac y mae y disgyblyn dod yn fuan i ddysgu taro y nodau hynny, ac felly i ganu tonau yn y cywair lleiaf yn gystal ag yn y cywair mwyaf heb ymdrafferthu i ail ddechreu dysgu graddfa newydd hollol. Gwyddom fod rhai yn ceisio dadleu y dylid edrych ar donau wedi eu hysgrifennu yn y cywair lleiaf fel rhai wedi eu hysgrifennu mewn graddfa arall, ac nid ydym am ddadleu â hwynt ar hyn o bryd. Mae Mr. Curwen yn ei *Musical Theory*, yn rhoi ei resymau dros ei gred, ac y mae yn gryn orchest eu dymchwelyd. Ond pa beth bynnag a ddyweder am athroniaeth y pwnc, y mae yn fantais fawr i'r disgybl fyddo yn ceisio dysgu *darllen* cerddoriaeth i beidio cael ei ddyrystu trwy ei orfodi i ddysgu *dwy* raddfa. Gwyddom fod y Sol-ffawyr yn cymeryd at y raddfa leiaf, neu yn hytrach at donau yn y *modd lah* mor naturiol a "dim fu erioed," ac yr ydym ni y Cymry, y rhai ydym mor hoff o'r tonau yn y modd *lah* a'r modd *ray*, yn llithro i'r moddau hynny mor rwydd ag y cymer yr hwyaden at y dwr.

Ond pan y collwn amser i edrych ar y mater fel hyn? Y ffordd oreu i benderfynu y cwestiwn o ragoriaeth cymariaethol y ddwy gyfundrefn ydyw edrych ar yr hyn y mae y ddwy wedi ei wneyd. "Wrth eu ffrwythau yr adnabyddwn hwynt." Yr oedd "yr hen Danymarian" yn awyddus i roddi prawf ar y ddwy gyfundrefn, ac yn credu, o'r cwsent yr un chwareu teg, mai yr Hen Nodiant "a enillai y llawryf." Faint fwy o chwareu teg nag ydoedd wedi ei gael a allai yr Hen Nodiant ei ddisgwyl, nid wyf yn gwybod. Yr oedd wedi cael yr holl *faes* iddo ei hun am fynyddoedd, ac eto nid oedd nifer y rhai a allent ddarllen y gerddoriaeth fwyaf syml ond ychydig iawn. Yr oedd cael un dyn mewn cymdogaeth a allai wneyd hynny yn rhyfeddod, ac yr oedd yntau fel y brawd a soniais am dano, er lleied oedd, yn ystyried ei hunan yn gawr mewn cerddoriaeth. Gwyddom fod cyfundrefn Hullah—cyfundrefn y *fixed doh*—wedi cychwyn yn dda, ac yn addaw gwneyd llawer. Gwyddom fod Hullah ei hunan wedi ei wneyd yn *Inspector of Training Schools* o dan y Llywodraeth, a'i fod yn elynol hollol i'r Tonic Sol-ffa, ac yr oedd ei holl ddylanwad swyddogol yn ei erbyn. Bu raid i bleidwyr y gyfundrefn newydd ymladd brwydrau celyd yn 1869 cyn y cawsant y Cyngor Addysg i osod llafur cerddorol yr ysgolion dyddiol yn y Nodiant Newydd ar yr un tir â'u llafur yn yr Hen Nodiant. Llwyddasant, pa fodd bynnag, ac felly fe osodwyd y ddau Nodiant, neu yn hytrach y ddwy gyfundrefn i gydymgais yn yr ysgolion dyddiol. Gadewch i ni weled sut y mae y ddwy wedi cynhyddu. Credwn nas gallwn ddangos cynnydd cymhariaethol y ddwy gyfundrefn yn

well na thrwy argraffu y darlunlen a ganlyn, yr hwn a gyhoeddwyd yn awr yn adeg y Jiwbili, o dan y teitl, "A ydyw Sol-ffa yn cynhyddu?"—

Mae y colofnau hyn yn dangos sefyllfaoedd perthynasol yn 1883 ac 1889 y cyfundrefnau o ddysgu canu yn Ysgolion Elfenol Lloegr, Ysgotland, a Chymru. Blwyddyn gyntaf y "New Code,"

1883, oedd y flwyddyn gyntaf ag y tafenwyd y ffigyrau yn Llyfrau Gleisicn Addysg yn y fath fodd ag y gellir eu cymharu a'r cyfrifon diweddaraf, sef y rhai a wnaed i fyny hyd Awst 1889. Mae y cynnydd dirfawr sydd wedi cymeryd lle mewn canu oddiwrth y nodau yn yr ysgolion a arolygir gan y Llywodraeth yn ystod y chwe blynedd hynny yn-dra boddhaol. Mae nifer y plant sydd wedi ennill grant y Llywodraeth yn y Tonic Sol-ffa wedi cynhyddu dros fwy na miliwn a hanner. Mae nifer y rhai a enillasant y grant isaf am ganu wrth y glust, wedi lleihau fwy nag un filiwn. Mae Sol-ffa wedi mwy na threblu ei chyfanrif. Chwe blynedd yn ol, yr oedd cynifer dair gwaith o blant yn canu oddiwrth y Tonic Sol-ffa ag oedd oddi wrth y cyfundrefnau ereill. Yn awr y mae chwech yn cymeryd Sol-ffa am bob un sydd yn cymeryd unrhyw gyfundrefn arall. Y mae plant yr Hen Nodiant, pa fodd bynnag, yn ychwanegu mewn rhif, os nad ydynt mewn cyfartaledd. Yn 1883 yr oedd pedwar yn canu wrth y glust am bob un oedd yn cymeryd Sol-ffa; ond yn awr nid yw y rhai sydd yn canu wrth y glust ond yn rhifo dwy ran o dair o'r Sol-ffawr. Y mae tua dwy filiwn a thri chwarter yn awr yn canu oddi wrth y nodau, o'u cymharu â llai na miliwn chwe blynedd yn ol. Mae yr holl blant oddigerth ychydig o filoedd yn awr yn dysgu canu oddi wrth y nodau, neu wrth y glust, ac y maent yn rhifo dros bedair miliwn.

CANU WRTH Y GLUST : 2,662,142 o Blant.

TONIC SOL-FA
691,979.

H.N.*
216,130.

1883.

H.N.*
380,366.

CANU WRTH Y GLUST : 1,450,240.

TONIC SOL-FFA
2,336,638.

1889.

* Mae H.N. yn cynnwys yr Hen Nodiant, y ddau nodiant, neu unrhyw gyfundrefn arall.

Ni raid i'r cyfeillion hynny sydd yn ymlynnu wrth yr Hen Nodiant deimlo yn eiddigeddus wrth gynnydd y Sol-ffa, oblegid fe welir oddiwrth y dafien uchod fod cynnydd wedi bod hefyd mewn gwybodaeth o'r Hen Nodiant, a chredwn fod hynny yn ddyledus i gynnydd mewn gwybod-aeth o'r Sol-ffa. Mae llawer, hyd yn oed o'r plant, ar ol dysgu Sol-ffa, yn teimlo mai peth cymharol hawdd ydyw dysgu yr Hen Nodiant; ac o'r rhai sydd mewn oed y mae yn ddiau fod y nifer cymhariaethol yn fwy. I'r Sol-ffaydd "y mae yr Hen Nodiant mor glir ag ydyw daear-yddiaeth gwledydd i'r teithiwr sydd wedi talu ymweliad â hwynt, neu fel y mae rhifyddiaeth yn help i ddeall algebra."

Am gynnydd Sol-ffa yng Nghymru, y mae pawb bellach sydd wedi troi yn ein mysg yn gwybod. Fel y dywedwyd, yr ydym wedi rhoddi hanes ei ddechreuad yn y TRAETHODYDD eisoes, ac nid gweddus ydyw i ni gyfeirio llawer at hynny. Mae y diweddar Mr. Curwen, mewn araeth yn 1875, ryw bedair blynedd ar ddeg ar ol i'r Cymry gymeryd y gyfundrefn i fyny, yn cyfeirio at y rhai fuont yn foddion i gychwyn a lledaenu y gyfundrefn, "a bellach," meddai, "nid oes un wlad mor bell ymlaen yng ngwaith y Tonic Sol-ffa ag ydyw Cymru." A dywedodd yr ysgrifennydd, Robert Griffith, yr hwn gyda llaw sydd wedi bod yn y swydd o ysgrifenydd y symudiad ers dros ddeugain mlynedd, a'r hwn sydd yn Gymro twymgalon,—dywedodd wrthym ychydig o wythnosau yn ol fod Cymru yn parhau ar y blaen gyda'r gyfundrefn fanteisiol hon. Yn wir y nodiant newydd ydyw y nodiant cyffredin. Gelwir yr Hen Nodiant yn *Established Notation* yn fynych; ond yn sicr nid yw yn nodiant sefydledig yng Nghymru mwy nag y mae Eglwys Loegr yn Eglwys Sefydledig. Tonic Sol-ffa ydyw y nodiant sefydledig yn y Dywysogaeth. Y mac gennym ni wyr yn ein mysg sydd wedi cyrraedd pinaclau uchel mewn cerddoriaeth, yn Ddatganwyr, yn Ddoctoriaid cerddorol, yn meddu yr A.C., sydd yn ddyledus am eu cychwyniad i gyfundrefn y Tonic Sol-ffa. Gwyddom hefyd nad oes un deryn braidd o gerddoriaeth yn cael ei gyhoeddi yng Nghymru nad yw hefyd yn cael ei gyhoeddi yn Sol-ffa. Gŵyr ein cyfansoddwyr, os ydynt am i'r bobl ganu eu darnau, fod yn rhaid iddynt eu rhoi yn y nodiant a ddeallant. Dywedai Mr. Samuel, yr hwn sydd yn L.G. ac yn M.C. o Goleg y Tonic Sol-ffa, yn Gymro twymgalon, ac yn Sol-ffaydd at y bôn, ac yn ddysgawdwr yn y gyfundrefn o'r radd flaenaf, mewn araeth a draddododd yn Llundain, fod o 150 i 180 o gymanfaeod canu yn cael eu cynnal yng Nghymru bob blwyddyn, ac nad oedd ond ychydig iawn iawn o'r tonan a genid yn cael eu hargraffu yn yr hen nodiant; fod tri o gyhoeddwyd, at y rhai yr ysgrifenasai, wedi dweyd eu bod wedi argrffau 130 o brograms mewn Sol-ffa, a dim ond tri yn y ddau nodiant. Buasai yn dda genym ddywoyd ychydig ar y Coleg Sol-ffa, ond rhaid ymatal. Mae ei hanes a'i ddylanwad daionus ar gerddoriaeth yn hysbys bellach i bob un sydd yn teimlo dyddordeb mewn canu.

Wel, wrth edrych yn ol fel yma ar y deng mlynedd a deugain hyn, onid oes genym hawl i gynnal ein Jiwbili? Crodwyf fod. Ac fe gafwyd Jiwbili rhagorol, nid yn unig yn Llundain, ond yn rhai o brif drefydd Lloegr, Ysgotland, a Chymru, ac yng ngwledydd pellenig y ddaear. Yr oeddem wedi meddwl rhoddi disgrifiad manwl o'r rhialtwech mawr yn Llundain yn arbennig, ond y mae ein hysgrif eisoes wedi myned yn feithach nag y bwriadem. Dechreuwyd gyda gwasanaeth yn St. Paul, a chafwyd

cyfarfodydd a chyngherddau o bob math am wythnos. Nid y lleiaf ei argraff ar y meddwl oedd ymweliad tua 300 o Sol-ffawyr eiddgar i ollwng deigr yn ar fedd Curwen, a'r adgofion cynnes oedd gan y rhai a siaradent uwch ben y bedd am gymeriad yr hwn a gladdesid yno. Yr oedd yn anlwg eu bod yn ei anwylo. Ac nid oes neb a gafodd y fraint o dreulio awr yng nghwmni Mr. Curwen nad oedd yn teimlo ei galon yn cynhesu tuag ato, a brwdfrydedd ei ysbryd gyda'r gyfundrefn newydd yn cael ei gyffroi yn adnewyddol.

Yr oedd y siarad yn y cynadleddau ac yn Exeter Hall yn rhagorol, a chydnabyddwyd Cymru yn deilwng am y modd yr oedd wedi gweithio gyda'r gyfundrefn. Cawson "Wyr Philistia" ein cydwladwr talentog, David Jenkins,—yntau yn Sol-ffaydd eiddgar,—mewn Cymraeg glân gloew, o dan arweiniad Mr. Samuel. "It was sung," medd yr adroddiad yn y *Musical Herald*, "by the male voices of the Swansea and District Tonic Sol-fa Choir, conducted by Mr. W. T. Samuel, and these full-voiced, refined-toned men received a hearty encore for their splendid example of a form of part singing, too seldom heard in London." Da iawn, onite? Cafwyd Rhan-gân, cyfansoddiad D. Emlyn Evans, yn Gymraeg hefyd, o dan arweiniad Mr. J. Watkins, a dywedir fod y Swansea Choir wedi rhoi "much pleasure by their finished rendering."

Nid y peth lleiaf dyddorol oedd yr hysbysrwydd a gafwyd yn y gwahanol gyfarfodydd o'r modd yr oedd y gyfundrefn yn ymledu yng ngwledydd pellennig y ddaear. Er engrafft, dywedai y Parch. J. Kuaggs, o Stratford, pan oedd efe yn Neheubarth Affrica ychydig o fisoedd yn ol, y cafodd fod Sol-ffa yn cael ei ddysgu yn yr holl orsafoedd cenhadol. Yr oedd y Caffariaid a'r Zuliaid yn ei ddysgu yn gyflym. Yn ysgol y merched yn Juandu, cafodd enethod duon, o 12 i 20 oed, yn canu oddiwrth nodiant y Tonic Sol-ffa. Danfonwyd rhybudd allan o'i ymweliad, a llanwyd y capel am hanner awr wedi pump yn y boreu, erbyn gwasanaeth oedd i ddechreu am saith. Clywch, Gymry! Canasant eu hemynnau yn eu hiaith eu hunain oddiwrth y Sol-ffa. A'r un modd yn Port Elizabeth.

Dywedodd y Barnwr Lushington, Q.C., yr hwn oedd yn gadeirydd yn Exeter Hall:—"Y mae Ysgotland yma, y mae Iwerddon yma, ac yr wyf yn bur siwr fod Cymru yma (cymeradwyaeth). Y mae Awstralia yma, y mae America yma." A chyn diwedd y cyfarfod cododd y Parch. George Allchin, a gwaeddodd, "Y mae Japan yma" (cymeradwyaeth), a dywedodd pan ddaeth ar yr esgynlawr ei fod yn naturiol wedi tynnu at y cor Cymreig, gan ei fod ugain mlynedd yn ol wedi canu mewn cor Cymreig yn Newport—er nad oedd yn deall yr iaith—ac yr oedd yn awr wedi dod 10,000 o filldroedd o ffordd i'r cyfarfod hwnnw ac i'r Cyngor Cynulleidfäol. Canodd anthem genedlaethol Japan, oedd wedi ei argraffu yn y nodiant newydd; yr oedd yn y *modd ray*. Gallwn ychwanegu hefyd fod y Cenhadwr Methodistaidd, Cymreig, Robert Evans, o Fryniau Cassia, yno hefyd. "Y mae Mr. Evans," medd y *Musical Herald*, "yn awr ar ymweliad am dymor â'r wlad hon, ac yr oedd yma fel cenad o Cassia. Yr oedd wedi llafurio yn galed am flynyddau lawer i wella canu cynulleidfäol ar y Bryniau, ac y mae wedi cyhoeddi Llawlyfr yn eu hiaith, ar gyfundrefn y Tonic Sol-ffa."

Buasai yn ddifyr gwneyd sylwadau ar y "dathliadau" yng Nghymru, ond rhaid dirwyn y cwbl i fywy, a therfynu gydag ychydig o sylwadau byrion.

1. Y mae Sol-ffa bellach, fel y dywed y Saeson, yn *great fact*. Ofer ceisio ei anwybyddu. Os ydys yn awddus i ddyysgu y bobl yn gyffredinol mewn cerddoriaeth, ac yn neillduol os ydys am eu dysgu i ddarllen cerddoriaeth, rhaid cymeryd trefn y Tonic Sol-ffa i mewn i'r cyfrif. Y drefn hon, fel y sylwai y *Quarterly Review* flynyddau yn ol, ydyw "the only popular method of teaching music worthy of the name." Arwyddair y gyfundrefn ydyw "Hawdd, Rhad, a Gwir." Mae fod y gyfundrefn yn un llawer haws na'r nodiant a elwir yn nodiant sefydledig, yn cael ei addef bellach yn gyffredinol. Bu amser ag yr honnid fod muntais fawr mewn gweled y nodau yn codi ac yn gostwng; dyna oedd un o ddadleuon Mr. Stephen; ond y mae profiad bellach wedi dangos fod y fantais dybiedig honno yn un dwyllodrus, gan nad oedd ar unwaith yn dangos *in fuit* i godi na gostwng. Am radlondeb cymhariaethol y nodiant newydd, nid oes dim amheuaeth. Am y fantais olaf, sef fod y gyfundrefn yn un wir—*true*—y mae eisieu pregethu tipyn eto cyn y gellir argyhoeddi rhywrai, sef y rhai hynny nad dydent wedi talu sylw iddi nac wedi ei deall. Mae y fantais hon, na fodd bynnag, mor ddi-amheuol â'r ddwy ereill. Mae yn gyfundrefn *wir* unol ag egwyddorion sylfaenol cerddoriaeth. Dyma sydd yn ei gwneyd yn un syml. Mae rhai yn tybied mai cyfundrefn ar gyfer plant yn unig ydyw. Ond dealler ei bod yn gyfundrefn athronyddol. Hwyrach y bydd defnyddio gair dysgedig fel hwn yn foddion i symud rhagfarn rhai poblach nas gallant gloddio trwy eiriau at bethau. Ydyw y mae Sol-ffa bellach yn *faith*.

2. Y mae y symudiad i addysgu Sol-ffa yn un pwysig fel cwestiwn o addysg. Sonir llawer yn y dyddiau hyn am addysgu a dyrchafu y werin. Mae'r *demos* yn derbyn parch ac addoliad pawb bron. Yn awr nid oes neb a wâd nad yw cerddoriaeth o'r iawn ryw yn foddion dyrchafiad. Ac y mae dysgu cerddoriaeth yn ol trefn y Sol-ffa yn apeliad uniongyrchol at y deall a'r teimladau ar yr un pryd. Un o resymau Paley i brofi fod Duw yn dda, ydyw ei fod wedi cysylltu pleser wrth ymarferiadau naturiol y corff a'r meddwl. Nid ydym yn gwybod am well engrafft o bleser wrth ddyysgu nag sydd i'w gael yn nosbarth disgyblion y Tonic Sol-ffa. Os cara'r darlennnydd gael prawf o hyn, taled ymweliad â dosbarth o'r fath, yn cael ei ddwyn ymlaen gan athraw cymwys. Edrycher ar yr hanner cant pobl icuaine yn llygadu ar yr athraw pan yn esbonio dirgelion y *Modulator*, yn dilyn ei egluriadau, yn canu yn galonnog oddiwrth y nodau ar y bwrdd du,—eu llygaid yn perlio wrth gadw amser yr arweinydd, a'u calonnau yn cydguro pan yn myned dros ddernyn cerddorol gyda'u gilydd. Ydyw, y mae dosbarth Tonic Sol-ffa ar lawn waith—*in full swing*—yn olygfa brydferth a hyfryd dros ben i bawb sydd yn teimlo dyddordeb yn addysgiant y lliaws. Yn y cyfryw ddosbarth gall y plant bach a'r canol oed, y meibion a'r merched, gyd-ddysgu a chyd-deimlo dylanwad yr hyn a addysgir.

3. Gellir gwneyd llawer iawn o les mewn ystyron ereill trwy ddyysgu canu yn ol y gyfundrefn hon. Fe wŷr y Cenhadon fod canu yn foddion i ddofi anwariaid gwledydd pell. Y mae yn foddion i ddofi anwariaid

Prydain hefyd. Byddai sefydlu dosbarth Tonic Sol-ffa yng nghanol *slums* ein trefydd, a'i gario ymlaen gan athraw—neu athrawes, ie, neu athrawes meddaf—fyddo yn gymwys at y gwaith, yn un o'r moddion mwyaf effeithiol i ennill sylw a chael dylanwad ar y plant o bob oed sydd yn cyfaneddu y cyfryw barthau. Yr oedd un brawd yn y Jiwbili yn Llundain yn dweyd y dylid priodi Sol-ffa a'r achos Dirwestol; ond dywedai brawd arall mai *bigamy* fyddai hynny, gan ei fod eisoes yn briod a'r Achos Cenhadol. Credwn fod amlwreiciaeth yn gyfreithlon yn yr achos hwn. Mae Sol-ffa yn foddlon priodi pob Cymdeithas dda, ac yn siwr o fyw yn heddychlawn gyda phob un o honynt, a'u cynnal yn anrhydeddus.

4. Y mae eisieu mwy o athrawon i ddysgu y gyfundrefn. Hyderwn mai ffrwyth y dathliadau y flwyddyn hon fydd creu awydd yn ein dynion ieuainc sydd yn meddu blas at, a rhyw gymaint o wybodaeth am gerddoriaeth, i gymhwyso eu hunain i fod yn athrawon. Nid digon ydyw medru arwain cor, i fod yn athraw da ar ddosbarth y Tonic Sol-ffa. Rhaid meddu dawn i gyfrannu addysg. Dysged ein cerddorion y gyfundrefn yn dda i ddechreu, ac wedi hynny bydded iddynt lafurio o o ddirif i wybod pa fodd i'w dysgu i ereill. Ac y mae o bwys mawr fod athrawon cerddorol yn ddynion da ymhob ystyr. Heb hyn fe ellir gwneyd drwg mawr. Dywedai Curwen pan gyhoeddwyd y llyfryn cyntaf yn Sol-ffa yn yr iaith Gymraeg, os syrthiai y gyfundrefn i ddwyllaw dynion "da a gweithgar," y gwnelai les dirfawr. Hyd yma y mae wedi gwneyd. Credwyf y gall yr oll o'i dysgawdwy'r yng Nghymru, a'r rhan fwyaf mi obeithiaf yn Lloegr ddweyd, "Ni lygrasom ni neb." Ein dymuniad yw ar fod tó eto o ddysgawdwy'r da a gweithgar yn codi mewn canlyniad i'r dathliadau yma, fyddont yn awyddus i droi ffrwd gref y Tonic Sol-ffa at wasanaeth pob ymgais i ddyrchafu a llesoli y bobl. Ond cofied y cyfryw fod eisieu dysg arnynt. Mae safon y gyfundrefn yn myned uwch uwch yn barhaus, ac y mae o bwys gweithio tuag i fyny, yn gystal a thuag i lawr. Eisieu mwy o *athrawon* cymwys sydd—dynion sydd yn fwy awyddus i gyfrannu addysg wirioncddol, nag i'w dangos eu hunain a'u cor ar "lwyfannau Eisteddfodol." Llai o ymddangos, a mwy o wir waith.

5. Cofier yn bennaf fod Sol-ffa yn allu cryf at wasanaethu y canu cynulleidfaol. I hyn y cychwynwyd y peth gyntaf gan Mr. Curwen, ac nid oes neb a w'yr y gwasanaeth y mae wedi bod i ganiadaeth grefyddol yng Nghymru yn y blynyddoedd diweddaf. Ond nid yw y gwasanaeth hwn ond dechreu eto. Onid dymunol fyddai fod corff mawr ein cynulleidfaeodd yn alluog i ganu y tonau—pob un yn ei lais priodol ei hun—nes gwneyd y gynulleidfa yn un cor mawr, fel y byddo'r moliant yn soniarus, ac yn taro tannau tynheraf calonnau pawb! A mwy na hynny, oni byddai y cyfryw foliant yn gymeradwy gan y Goruchaf? Rhaid i'r moliant fod yn *aberth* moliant, cyn y bydd yn gymeradwy. Rhaid iddo gostio rhyw gymaint i ni. Credwn fod cytraedd y nod hwn yn bosibl, a bod y moddion i hyn yn ein dwyllaw.

6. Chwi athrawon y Sol-ffa a'r rhai sydd yn lafurio gyda chanu, mawrhewch eich baint. Ymgodwch i deimlo urddas y gwaith sydd yn eich dwyllaw. Cyflawnwch oddiar y dibenion, ac i'r amcan uchaf. Ac os goddefir i mi, dymunwn ddweyd wrth ddysgawdwy'r crefydd yn gyffredinol, nac edrychwch ar y llafur gyda'r canu yn beth islaw eich sylw, ie, eich gofal hefyd. Meddai y *Quarterly Review*

amser yn ol wrth gyfeirio at gyfundrefn y Tonic Sol-ffa yn ei chysylltiad a chanu cynulleidfaoel: "Here is the instrument. It is for the church to make use of it and consecrate it to its highest uses."

Hoyleke.

ELEAZAR ROBERTS.

OL-YBORIF.—Ar ol derbyn prawflen o'r erthygl hon derbyniais lythyr oddi-wrth y cenhadwr, y Parch. Robert Evans, Shampoong, yn yr hwn y mae yn amgau y papur a ddarllenodd yn natllad y Jiwibili yn Llundain. Buasai yn dda gennyf ei gyfiwyno yma yn llawn, ond elai ein hysgrif yn rhy faith pe gwnelem hynny. Nis gallwn ond rhoddi crynhodeb byr o'r papur. Dywed fod y Sol-ffa bellach wedi ei osod ar sylfaen gadarn ym Mryniau Kassia a Jaintia. Ar y dechreu yr oedd y llafur i ddysgu y drefn newydd yn symud yn araf iawn. Nid oedd awdurdodau y Genhadaeth yn rhoddi dim cefnogaeth i'r gwaith, ac nid oedd digon o athrawon. Y mae yn rhoddi disgrifedig digrifol o'i ddoesbarth cyntaf i ddysgu Sol-ffa yn Shillong. Yr oedd y plant pan enwid y *soh* yn torri allan i chwerrthin yn adlywodraethus. Nid oedd modd cael trefn, unwaith y tarewid y *soh*. Y dirgelwch oedd mai *soh* oedd eu gair hwy am *ffroyth*. Edrychent ar eu gilydd ac ar yr athraw fel pe yn disgwyl cael eu gwobrwyo â ffrwythau am ganu. Gwisgodd yr argraff hwn ymaith, pa fodd bynnag, ymhen amser, a dysgodd y dosbarth yn lled dda. Y rhwystr mawr oedd diffyg llyfrau. Mae'n wir fod y brodor Cristionogol U Larsing,* wedi paratoi nifer o dudalennau yn y Sol-ffa, a bu y rhai hynny yn dra gwasanaethgar. Bu raid i Mr. Evans ysgrifennu y rhan fwyaf o'r gwersi a'r tonau pa fodd bynnag am amser maith, yr hyn oedd yn llafur mawr iawn.

Gan fod amgylchiadau yn gorfodi Mr. Evans i basio trwy lawer o orsafoedd cenhadol bob blydyddyn, cafodd gyfleustra i hau had Sol-ffa, ac yr oedd y bobl yn ei gymeryd i fyny fel pe yn eiddgar, a'r rhai a wyddent ychydig yn awyddus i wybod mwy, nes o'r diwedd y gwelwyd fod yn rhaid cael Llwllyfr bychan. Anturiodd Mr. Evans ar y gorchwyl o gyfansoddi y llyfr. Defnyddiodd yr hen "Lwllyfr Caniadaeth" a llyfrau ereill, a chyda chryn drafferth cyhoeddodd llyfr yn bychan o 70 o dudalennau yn cynnwys gwersi ar y gyfundrefn. Bu raid suddo swm go dda o arian yn y gwaith o gyhoeddi, mewn ffydd, y prynnid y llyfr, ac y digolledid ef. Cafodd dderbyniodd gwell na'r disgwyliad. Cefnogwyd ef gan yr Henaduriaeth, a phenodwyd Mr. Evans i dreulio rhai wythnosau ymhob gorsaf i ddysgu y gyfundrefn, ac yn y diwedd cymerodd Cyfarwyddwr y Genhadaeth y peth i fyny a chynhygiwyd gwobrar am fedruswydd yn y Sol-ffa.

Yng ngwanwyn 1892 y mae arholiad i fod trwy y Genhadaeth gan y Parch. J. Pengwern Jones, A.C., a bellach y mae y gyfundrefn yn cael ei dysgu yn furfiol yn yr ysgolion dyddiol, a Llwllyfr Mr. Evans yn cael ei ddefnyddio yn werylyfr. Y mae plant bach Kassia yn awr yn canu lliaws o'r hymnau bychan a genid fynyddau yn ol yng Nghymru, ac y mae pob lle i greu mai y Nodiant newydd fydd nodiant cerddorol y lliaws yn Kassia, fel yn y Dywysogaeth. Mae y genhadaeth yn dechreu meddi *soh** neu ffrwyth eu llafur.

Dywed Mr. Evans fod y Kassiaid yn bobl dra hoff o ganu, ac y mae llwyddiant anarferol yn dilyn llafur y dosbarthiadau, a llawer o'r disgyblion yn pasio yr arholiadau. Mae rhai brodorion wedi troi yn athrawon, ac y mae nid yn unig y plant, ond rhai mewn oed hefyd yn teimlo dyddordeb yn y gwaith. Dywedai un hen wreigan ei bod yn mwynhau y dosbarthiadau canu yn fawr, "gan ei bod yn teimlo yn agos iawn i'r nefoedd ynddynt, ac nid wyf," meddai, "yn gwybod am ddim a geidw y bobl ieuainc yn eu lle yn well na chanu."

Tertyna Mr. Evans ei ysgrif yn y geiriau canlynol:—"Y mae canu, a chanu yn ol y gyfundrefn hon wedi bod yn offeryn effithiol yn llaw Cristionogaeth i wrthweithio dylanwad Paganiaeth. Profir hyn gan y ffaith fod Cristionogaeth wedi llwyddo fwyaf yn y manau y mae y llafur hwn yn cael ei gario ymlaen. Bydded i hynny gymeryd lle ymhob pentref. Mae y sylfaen wedi ei gosod, a rhaid i ni fod yn seilog i oruwchadailadu. Fel y bydd y gwaith yn myned rhagdo, credwyf y denfyn Duw ddynion wedi eu cymhwyso i'w gario ymlaen i fwy o berffethrwydd a defnyddioldeb."—E. R.

* Gwelir cyfeiriad at y gwr hwn mewn nodiad i'r erthygl, "John Curwen a'i waith," TRAEFHODYDD, 1883; tu dal. 364.

DEON LLANELWY A "RHESYMAU DROS DDADGYSYLLTIAD YNG NGHYMRU."

YN lle aros i ateb yr hyn a ddywedais yn y *Geninen* am fis Hydref yn y rhifyn nesaf o'r un cyhoeddiad, dewisodd Deon Llanelwy, er mwyn ennill mantais o ddeufis iddo ei hun, a'm gosod innau mewn anfantais gyfatebol, encilio o'r maes hwnuw, a chymeryd ei safle ar faes y TRAETHODYDD. Ni fyynnwn gwyno dim am hyn: gwyddai y Deon ei hun yn well feallai pa un oreu iddo ai cilio ai peidio: yn unig gofynaf yn ostyngedig i ddarllenwyr y TRAETHODYDD ddarllen yr hyn a ddywedais yn y *Geninen*, gan ei gymharu yn ofalus â'r hyn a ddywed y Deon yn ei ysgrif ddiweddaf. Am y pethau a ddywedais yno nad yw y Deon wedi gweled yn dda eu cyffwrdd—ac y mae y rhan fwyaf o lawer o'm rhesymau felly—cymeraf yn ganiatïol eu bod yn aros. Ac am y pethau y mae wedi gweled yn dda gymeryd sylw o honynt, ceisiaf eu hatob yn deg a diduedd: a barned ein darllenwyr rhyngom.

Nid yw y Deon wedi gweled yn dda sylwi ar fy ysgrif i, fel y sylwais i ar ei ysgrif ef, yn rheolaidd o bwynt i bwynt; ond cymer i fyny y pwyntiau blith draphlith fel y digwyddent ddyfod i'w law. Y mae graddau o anfantais yn hyn wrth gymharu yr ysgrifau a'u gilydd: ond er mwyn eglurder, a chario yr ymresymiadu adref, credaf mai y goren i minnau fydd ei ddilyn yn ei drefn ei hun.

Y pwynt cyntaf y disgynir arno ydyw gosodiad Mr. Gladstone yn ystod y ddadl ar Ddadgysylltiad yn y Senedd fis Chwefror diweddaf, sef—

"FOD YMNEILLDUWYR CYMRU YN GYFYSTYB A PHOBL CYMRU."

YN fy sylw ar hyn yn y *Geninen* dywedais: "Wrth ddweyd mai cenedl o Ymneillduwyr yw y Cymry, nid yw hynny yn golygu fod pob un yn y wlad yn Ymneillduwr, mwy nag y mae dweyd mai cenedl y Cymry ydym yn profi fod pob un sydd yn byw yma yn Gymro. . . . Ar yr un pryd priodol fyddai dweyd mai cenedl o Ymneillduwyr ydyw y Cymry o herwydd fod corff mawr y genedl felly." "Addefa y Deon ei hun," meddwn, "fod hanner y boblogaeth felly; ond myn nad oes mwy na'i hanner." Na, meddai y Deon yn ei atebiad, "Nid wyf am iddo fy rhwymo wrth addefiad o'r fath, o herwydd fy mod yn unig yn cymeryd yn ganiatïol 'nad yw y nifer a roddir yn yr ystadegau yn llawer llai nag y dylent fod.'" Wrth ba beth, gan hynny, y mae y Deon yn barod i gymeryd ei *rwymo*? Yn y *Geninen* am Orffennaf (t.d. 143), ar ol myned trwy amryw gyfrifon, dywed fel hyn: "Gwelir mai 46 y cant o boblogaeth Cymru yw cyfanswm ymlynwyr y pedwar enwad yng Nghymru. Ychwaneger at hyn rhwng 3 neu 4 y cant, yn ol amcangyfrif Mr. Dillwyn am y Pabyddion a'r mân enwadau, a chanfyddir fod hanner poblogaeth Cymru na pherthynant i enwadau Ymneillduol." Felly, gan na fyn hyd yn oed y Deon fod mwy na hanner poblogaeth Cymru na pherthynant i enwadau Ymneillduol, cymerais yn ganiatïol ei fod—rhwng bodd ac anfodd—"heb gydnabod cywirdeb yr ystadegau hyn" ar y naill law, a "bod ganddo resymau a ystyria yn ddigonol dros gymeryd hyn yn ganiatïol" ar y llaw arall—ei fod,

meddaf, yn addef fod yr hanner arall ($46+4=50$) yn perthyn iddynt. Nid oes arnaf eisieu ei rwympio i ddim ond ei eiriau argraffedig ei hun. A dyma frawddeg eto o'i eiddo o'i ysgrif yn y *TRAEHTHODYDD* (t.d. 459): "Buddiol yw adgofio fy narllenywyr i mi brofi yn y *Geninen* y danghosir yn amlwg gan yr ystadegau Ymneillduol nad yw Ymneillduwyr Cymru ond hanner y boblogaeth." Y cwbl a ddywedais innau oedd ei fod yn addef eu bod yn hanner. Ar ba dir gonest, gan hynny, y dywed y Deon, yng ngwyneb ei eiriau ei hun, "Nid wyf am iddo fy rhwmpio wrth addefiad o'r fath?"

Dywed y Deon nad wyf fi yn codi gwrthddadl ar hyn. Gwir. Cymerais ei ystadegau ef, heb gydnabod eu cywirdeb na'u hanghywirdeb ar y pryd, a defnyddiais hwy i'm hamcan fy hun, trwy ddangos fod addef fod hanner Cymru yn Ymneillduol, ac nad yw yr Eglwys Wladol, hyd yn oed yn ol dadl y Deon, yn gwasanaethu ond i ran, yn ergyd marwol iddi fel Eglwys Wladol. "Oblegid," meddwn, "y mae yn ergyd marwol i grefydd wladol os gellir dangos nad yw yn gwasanaethu ond i ran, pa un bynnag ai bechan ai mawr, o'r wladwriaeth." Y mae y cyfaddefiad hwn o eiddo y Deon, mewn gwirionedd, yn gollfarn hollol ar ei achos, hyd yn oed o'i enau ei hun.

Ond nid yw hyn yn gydnabyddiaeth fy mod i yn derbyn ystadegau y Deon, mwy na'r Esgob, fel efengyl, oblegid ychwanegais: "Drwg gennyf fod cydnabyddiaeth hirfaith ag ystadegau gwyr Eglwysig wedi fy ngwneuthur yn anghredadyn hollol ynddynt; ac nad yw fy mhrofiad o ystadegau y Deon wedi gwella dim ar bethau." Gwahodda y Deon fi yn garedig i osod fy mys ar yr anghywirdeb lleiaf yn ei ddefnyddio ffigyrau. Gwnaf hynny cyn y diwedd gyda phleser; a phroffaf fy ngosodiad hyd y carn.

Yn awr, ynte, dealler yn glir, cyn myned ym mhellach, fod y Deon yn addef—fel y dywedais—iddo brofi, yn ol yr ystadegau Ymneillduol, "nad yw Ymneillduwyr Cymru ond hanner y boblogaeth." Dyna ei eiriau ef ei hun. Ond ychwanegai, "Gwyr pawb faint yw hanner. Nis gall neb brofi fod hanner yn gyfustr a chyfangorff." Na all yn ddiameu. Y cwestiwn yn awr ydyw, Pwy bia y gweddill? Pa nifer o'r gweddill hwn sydd yn perthyn i'r Eglwys Wladol? Yn bersonol, ychydig iawn o flas sydd gennyf fi ar yr ysfa afiachus ddiweddar o rifo'r bobl yn yr Eglwysi na'r Capeli. Un o'r plâau hynny ydyw sydd yn anwahanol gysylltiedig âg Eglwys Wladol. Er hynny, pan nad oes dim arall a wna y tro i ddarostwng anwybodaeth esgobaethwyr hyfion a honnant eu bod hwy yn rhan sylweddol o'r boblogaeth, rhaid ei wneyd. A rhyfedd y fath ffigiwr tlawd a thruenus ac andwyol y maent yn ei dorri. Yn Ffestiniog, mewn cyfarfod lle yr oedd Esgob Bangor yn y gadair, dywedwyd nad oedd ond un Eglwys, lle yr oedd yr Anghydfurfwyr wedi adeiladu deuddeg o Gapeli, gyda'r draul o leiaf o ddwy fil a hanner o bunnau yr un; ac nad oedd yn myned i'r Eglwys honno ond cyfartaledd o lai na 50, allan o boblogaeth o 10,000 o drigolion. Ym Mhwhllheli, pan gymerwyd cyfrifiad yn ddiweddar, cafwyd nad oedd ond 258 yn yr Eglwys y bore, tra yr oedd yn y Capeli Ymneillduol 959. Yn Ysgol Sul y Llan yr oedd 161, ac yn Ysgol Sul y Capeli 1177. Yn yr hwyr, nid oedd yn yr Eglwys Seisnig a Chymreig ond 265, tra yr oedd 1760 yn y Capeli. Yn yr Abermaw yr oedd 50 yn y gwasanaeth Cymraeg yn y bore, a 560 yn y Capeli; ac yn yr hwyr 129 yn yr Eglwys, tra yr oedd 922 yn y Capeli. Ac yn Liverpool, pan gymerwyd

ystadegau yn ddiweddar gan y *Daily Post*, er iddo adael tri o leiaf o Gapeli Methodistiaidd heb eu cyfrif, sef David Street, Holt Road, a Newsham Park—tri Chapel a chynulleidfaoedd lliosog ynddynt,—tra yr oedd 4541 yn y Capeli nid oedd yn y ddwy Eglwys Gymreig ond 71. Os nad yw poblogaeth Ymneillduol Cymru ond yr hanner, pa ran, yn ol yr ystadegau hyn, ydyw y boblogaeth Eglwysig?

“Gan nas gallai Mr. Jones,” meddai y Deon, “syfyd fy ngosodiad”—sef nad yw Ymneillduwyr Cymru ond hanner y boblogaeth,—“ceisia ddangos nad oes bwys yn y byd ynddo.” Fel y dywedais, ni cheisiais ddilyn y Deon yn ei drofeydd ystadegol llysywensidd. Derbyniais hwy am eu gwerth; a phe buaswn wedi dweyd nad oedd nemawr bwys yn y cwestiwn o rif, buaswn yn dweyd hynny yng nghwmni Esgob, os nad Deon, Llanelwy. Dyma eiriau yr Esgob yn y Gynhadledd yn Rhyl:—“Nid wyf yn ystyried yr ymresymiad ystadegol o'r pwysigrwydd mwyaf.” Ond wrth fy nghyhuddo i o ddweyd nad oes pwys yn y byd ynddo, rhaid fod y Deon yn tynnu ar ei ddychymyg; oblegid dywedais: “Pe ceisiaid rywbryd waddoli Ymneillduaeth, buasai yn angenrheidiol profi mai cenedl o Ymneillduwyr, heb neb yn ymneillduo oddiwrthynt, fuasai y Cymry.” Y mae profi—os profir hefyd—nad yw Ymneillduwyr Cymru ond hanner y boblogaeth, yn ddigon i'w rhwystro i gael eu gwaddoli ar draul yr hanner arall; felly, y mae y ffaith nad yw yr Eglwys Sefydledig ond dyrnaid o'r Cymry, tra y mae y cyfangorff o'r genedl yn sefyll y tu allan iddi, yn sicr yn ddadl gref iawn, yn fy marn i, dros ei dadgysylltiad a'i dadwaddoliad.

“Gwn,” meddai y Deon, “nad yw Mr. Jones yn enwog am ei barch i Mr. Gladstone.” Gwyr, yn ddiameu, fe ŵyr y Deon lawer iawn o bethau—ydynt ac nid ydynt. Rhyfyg ynof, feallai, felly, fyddai ei ameu ef am fy mharch i Mr. Gladstone. Hyn sydd wir: pe byddwn yn llai fy mharch i'r hen wron, byddwn yn llawer iawn mwy fy mharch gan urddasolion Eglwysig. Ar gyfer fy nifyg parch tybiedig i, cymer y Deon dysgedig yr hynafgwr profiadol o dan ei nawdd, gan ei gyflwyno yn ostyngedig i ni fel yr “ymresymwr mwyaf profiadol yn y deyrnas.” A pha beth a roddodd “ymresymwr mwyaf profiadol y deyrnas” yn frynt ei araeth yn y Senedd ar Ddadgysylltiad yng Nghymru? Hyn: “FOD YMNEILLDUWYR CYMRU YN GYFYSTYR A PHOBL CYMRU.” Pe byddai gan y Deon barch i “ymresymwr mwyaf profiadol y deyrnas,” fe'i credai. Ond a ydyw yn gwneyd hynny? Na; dyma ei eiriau y “Amryfusedd dybryd oedd yr hyn a ddywedodd Mr. Gladstone yn y Senedd.” Er ei fod yn “ymresymwr mwyaf profiadol y deyrnas,” cyhudda y Deon dysgedig a diymhongar yr hynafgwr urddasol o ddweyd yr hyn oedd yn “amryfusedd dybryd,” gan awgrymu fod “ymresymwr mwyaf profiadol y deyrnas” wedi boi yn ddigon ehud a dwl ag i gymeryd ei gamarwain yn ddiotal mewn mater o'r fath bwys gan rywrai “rhy selog a ffwdanllyd i gymeryd pwyll i wneyd *sum* syml mewn *addition* mewn pryd.” “Ond pa fodd bynnag y cymerodd yr amryfusedd le,” meddai y Deon, “amryfusedd dybryd ydoedd, a cheir medd o'i firwyth rhagllaw.” A ydyw yr hen wron ei hunan, “ymresymwr mwyaf profiadol y deyrnas,” tybed, yn credu yr un fath a'r hwn a fynnai fod yn athraw ac yn gyfarwyddwr iddo? A ydyw bellach, ar ol darllen ystadegau llafurfawr y Deon, wedi gweled mai mewn amryfusedd y dywedodd fod “Ymneillduwyr Cymru yn gyfystyr â phobl Cymru?” Gadewch i ni wel'd. Yn fuan ar ol y ddadl ar Ddad-

gysylltiad yn y Senedd, ysgrifennodd Esgob Llanelwy at Mr. Gladstone yn galw ei sylw at ystadegau y Deon, ac at y frawddeg neillduol yn ei araeth yr ydym yn awr yn sylwi arni, gyda'r bwriad, yn ddiameu, o gael ganddo ei chymedroli; ac wele atebiad Mr. Gladstone i'w lythyr, yr hwn a ddarlennodd yr Esgob yn y Gynhadledd yn Rhyll:—

13, Park Lane,

Mawrth 4, 1891.

Fy Anwyl Arglwydd Esgob,—

Yr wyf wedi pwyso mor ofalus ag y gallwn y frawddeg yn fy araeth ar yr Eglwys Gymreig yr ydych chi wedi ei herio, a rhaid i mi gydnabod NAD YDWYF YN BAROD I GILIO YN OL ODDIWRETHI, pan edrychir arni fel datganiad llydan ac eang o wirionedd sylweddol.

Yr oeddwn eisoes wedi tynnu llinell o wahaniaeth rhwng y "llïaws a'r ychydig," brawddeg sydd feallai yn llai oenfgenus na'r "dosbarthiadau a chorff y bobl" (*the classes and the masses*). Ymysg yr ychydig, yr wyf yn deall fod yr Eglwys yn lliosocach o lawer. Pe cymerwn amcangyfrif y "dosbarthiadau" fel 1·5 o'r boblogaeth, y mae cyfartaledd y cant yn dyfod (i'r cyfangorff neu y "bobl") yn 46·80 neu 55·100.

Ond y mae ychwanegiad nid bychan i'w wneyd ar gyfrif y cyrrf ereill heblaw y 4 prif gorff, llai ar eu pennau eu hunain, eto heb fod yn ddbwys yn y cyfansrif. Ac y mae yna ymyl (*margin*) o rai nad ydynt yn ymlynu wrth neb (*unattached*), culach yr wyf yn tybied yng Nghymru nag mewn rhai gwledydd ereill, eto ymhell o fod yn ddi bwys.

Oherwydd y cyntaf o'r cyfrifon a nodwyd, dylid ychwanegu at y nifer y cant o Anghydfurfwyr; ac ar yr ail gyfrif deuai i'r un peth trwy dynnu ymaith yr hyn sydd angenrheidiol oddiwrth yr *item* a pha un y mae yn cael ei chymharu.

Nis gallaf honni fy mod yn meddu gwybodaeth fanwl, neu fy mod yn llefaru oddiar awdardod bersonol ar y cwestiwn hwn a ddadleuir mor fawr, ac nid oeddwn yn gwnethur fy ngosodiad fel mater o sicrwydd. Nid yw ond syniad yn unig, ond syniad sydd yn ymddangos i mi heb fod ymhell oddiwrth y nod. A chymharu yr Eglwyswyr a'r Ymneillduwyr (yr wyf yn cynnwys i'r amcan presenol y nifer terfynol o Babyddion), nis gallaf wadu bodolaeth gorbwysedd niferol *pur* fawr a phwysig. Ni fydd i mi eich trafferthu â manylion, ond dymunaf aros, eich Arglwyddiaeth,

Eich parchus a ffyddlawn,

W. E. GLADSTONE.

Dyma eiriau Mr. Gladstone ei hunan, gydag ystadegau y Deon o'i flaen. Sonia y Deon fod "pawb yn awr yn deall mai amryfusedd dybryd oedd yr hyn a ddywedodd Mr. Gladstone yn y Senedd," sef "fod Ymneillduwyr Cymru yn gyfystyr â phobl Cymru." Ond ni fyn "ymresymwr mwyafr profiadol y deyrnas," gydag ystadegau y Deon ger ei fron, mo hynny. Gwrthoda yn bendant alw ei eiriau yn ol hyd yn oed ar gais Esgob, a chyfeiria atynt fel "datganiad llydan ac eang o wirionedd sylweddol." A faidd y Deon wadu hyn?

DWYRAIN A GORLLEWIN CYMRU.

"Ni cheisia y Parch. Evan Jones," meddai y Deon, "wadu yr hyn a ddywedais ynghylch gwendid Ymneillduaeth yn saith sir Dwyrain Cymru. Os edrych Mr. Jones dros yr ystadegau Ymneillduol, gwel na ddengys yr ystadegau fod nemawr mwy na'r drydedd ran o boblogaeth Dwyrain Cymru yn perthyn mewn modd yn y byd i'r pedwar enwad. Y mae mwy na dwy ran o dair o boblogaeth Cymru yn saith sir y Dwyrain, a thuag yno y mae dylifiad prysur pobloedd y blynyddoedd diweddfaf. Nis gellir dadleu o gwbl dros Ddadgysylltiad ymysg dwy ran o dair poblogaeth Cymru ar dir rhifedi yr Ymneillduwyr."

Y mae tri gau resymiad, o leiaf, yn y paragraff hwn, hyd yn oed a chymeryd fod ystadegau y Deon yn gywir, yr hyn nad wyf mewn un modd yn ei ganiatau. Yn gyntaf, edrycha ar wendid Ymneillduaeth fel yn gyfystyr a nerth yn yr Eglwys Wladol, yr hyn nid yw yn canlyn mewn un modd. Yn wir, y mae yn bur amheus gennyf am y siroedd hynny lle y myn y Deon nad yw Ymneillduaeth mor gryf, ai nid yno y mae yr Eglwys wannaf yng Nghymru,—dyweder siroedd Dinbych, Fflint, Maldwyn, Maesyfed, Brycheiniog, Mynwy, a Morganwg. Yn ail, myn y Deon fod cynnydd y boblogaeth yn y saith sir Ddwyreiniol fel eu gilydd, tra y gwyir nad yw y cynnydd mawr ond mewn dwy o honynt yn unig, sef Mynwy a Morganwg. A ydyw yn tybied mai er anfantais Ymneillduaeth a Dadgysylltiad y mae hyn? Oni wŷr mai i Forganwg yr â y dyrfa fawr, ac nad oes yno obaith i gymaint ag un dyn gael eistedd yn Aelod Seneddol dros unrhyw ran o honi—hyd yn oed y poblogaidd J. T. D. Llywelyn ei hun—oni fydd yn Ddadgysylltwr trwyadl? Ac y mae Mynwy—yr hen Went wladgarol—mor ddiogel i gydraddoldeb crefyddol ag ydyw Morganwg. Yn drydydd, tybia y Deon y dyldid, wrth gymeryd barn gwlad, gymeryd hefyd farn pob rhan o honi ar wahan. Fel ffaith anwadadwy, y mae Dadgysylltiad mor, os nad mwy diogel yn saith sir y Dwyrain ag ydyw yn chwe sir y Gorllewin. Ond tybier, er mwyn dadl, nad ydyw, a bod yno leiafrif yn y siroedd yn wrthwynebol iddo,—myn y Deon fod gan y lleiafrif hawl i rwystro i holl Gymru ei gael, fel y mae Ulster ar ffordd yr Iwerddon i gael *Home Rule*. Y fath athrawiaeth rffedd a chwyldroadol, yn enwedig i ddyfod oddiwirth un o'r urddasolion Eglwysig a gymerant arnynt fod mor deyrngarol. Gwir fod Ulster, fel darn o'r Iwerddon, yn bygwth gwrthryfela, oni chaiff ei ffordd ei hun? Ond *gwrthryfel* fyddai hynny. A ydyw y Deon yn barod i gyfiawnhau Ulster, pe pesid mesur o *Home Rule* i'r Iwerddon, yn gwrthod ymostwng iddo? Os ydyw, pa le y mae ei deyrngarwch? Ac os nad ydyw, i ba ddiben y cyfeiria ati? A pha le y mae "Ulster Dadgysylltwyr Cymru?" Ie, "Ulster Dadgysylltwyr Cymru!" Y mae yr ymadrodd peroriaethol hwn o eiddo y Deon diniwed yn ogleisiol o ramantus a dychmygol. A mwy na hynny, y mae "Ulster Dadgysylltwyr Cymru"—o dan gyfaredd ystadegol y Deon—"y rhan helaethaf a mwyaf cynhyddol o'r genedl!" Cyfeiria, mae yn amlwg, at Fynwy a Morganwg: a dychmyged unrhyw un a wŷr am y lleoedd hyn pa mor farddonol a gcrffwyllog y rhaid fod y dyn a anturia ddisgrifio y ddwy sir hyn—tŵr cadarnaf Ymneillduaeth—fel "Ulster Dadgysylltwyr Cymru!" Yr unig reswm dros hyn ydyw fod y Deon yn ysgrifennu ar gyfer y Saeson y myn eu cefnogaeth. Pe yr edrychai y Deon ar *sap* lliwiedig o Loegr sydd yn dangos ei gogwyddiadau gwleidyddol, cai fod rhai rhannau o honi wedi eu lliwio yn Geidwadol a rhannau ereill yn Rhyddfrydol. A fyn y Deon na ddylai Lloegr gael yr hyn y penderfyna y Senedd arno, am na byddai pob rhan o'r wlad yn gofyn yn gyfartal am dano? Pe felly, byddai heb gyfnwidiad byth. Ond nid felly y mae. Edrychir ar Loegr fel un, ac nid fel rhannau; a pha beth bynnag a ofyna Lloegr yn y cyfanswm, hynny a gaiff. Felly hefyd am Gymru. Ni fuasai neb ond dyn yn ymfrostio ei fod yn gyfarwydd mewn *Political Economy* yn ddigon ehad i geisio rhannu Cymru yn Ddwyrain a Gorllewin, hyd yn oed pe buasai Dwyrain Cymru yn llai parod i Ddadgysylltiad na'r Gorllewin. Ond y mae yn beth ffol ac

ynyd i'r eithaf pan y gwyr y neb sydd yn ei wneyd fod Dwyrain Cymru mor addfed i Ddadgysylltiad ag ydyw y Gorllewin, os nad yn wir yn fwy addfed.

BETH AM HANNER ARALL POBLOGAETH CYMRU?

"Y mae Eglwyswyr yn hollol barod i'r Llywodraeth ofyn i bob un yng Nghymru ai Eglwyswr ai Ymneillduwr ydyw. Ond ni fyn Mr. Jones a'i gyfeillion hyn," meddai y Deon. Na fynnant yn sicr; yn enwedig ar ol y dull bwnglerus y cymerodd y Ceidwadwyr y cyfrifiad diweddaf. "Gan nad oes mwy na hanner poblogaeth Cymru yn Ymneillduwr na Phabyddion, rhaid eu bod naill ai yn Eglwyswyr neu yn baganiaid." Y Deon sydd yn dweyd hyn; a rhag cael eu cyfrif yn baganiaid, gwell gan y bobl eu cyfrif yn Eglwyswyr. "*I don't go anywhere: put me down Church!*" Yr oeddwn i yn tybied fod y Deon uwchlaw pethau fel hyn. "Pa fodd y tywyllodd yr aur?" Na, nid yn erbyn cyfrifiad cywir a gonest y mae Ymneillduwr Cymru. Ond gwyddant fod y fath gyfrifiad i gael edrych arno fel peth a raid gario effaith fawr ar safle yr Eglwys a pharhad y Degwm. Gan y gwyr Eglwyswyr fod y gwaddol Eglwysig yn y cwestiwn, nid yw ond naturiol disgwyl iddynt wneuthur yr ymdrechion mwyaf penderfynol i chwyddo eu rhif yn y fath gyfrifiad. A pha beth a all rwystro i'w cyfeillion Eglwysig cyfoethog yn Lloegr ddyfod i lawr am noson i'w cynorthwyo, a rhoddi tocynau rhad i ereill, fel y gwneir i fyned ugeiniau o filldroedd i gyfarfodydd politicaidd? Nid oes gan yr Ymneillduwr ddim i'w ennill na'i gollu trwy y fath gyfrifiad; ond y mae gan Eglwyswyr lawer iawn, yr hyn a fyddai yn demtasiwn rhy gref i chwyddo y cyfrifiad â dynion heb ddwyn dim perthynas â Chymru mewn gwirionedd. Dyna un rheswm sydd gennym dros wrthod y fath gyfrifiad ag a gynhygia y Deon a'i blaid. Ond cyhuddiad anwireddus yw dweyd na fyynnwn gyfrifiad o gwbl. Paham nad ymfoddlonai y Deon i gymeryd cyfrif o'r rhai a arferant fynychu yr Eglwysi a'r Capeli? Wrth reswm byddai yn brofedigaeth ofnadwy i rai y byddai eu tamaid bara, fel y dywedais, yn ymddibynnu ar y rhif, i wneuthur pethau anweddaidd, fel y gwnaed gyda chyfrifiad Mr. Gee; ond byddai hyn yn decach na gofyn yn llechwraidd i bob un, llawer o honynt a'u tynged eu hunain a'u plant yn nwyllaw Eglwyswyr, i ddatgan eu bod yn Ymneillduwr.

ETHOLIADAU 1885 AO 1886.

Addefa y Deon fod 7 am bob l o aelodau Seneddol Cymru yn ffarf Dadgysylltiad: ac i bob diben ymarferol, dengys hyn fod yr ail reswm a ddygid dros Ddadgysylltiad yn dal ei dir, sef, fod

"CYMRU YN UNLLAIS DROS DDADGYSYLLTIAD."

Yn ateb i hyn dywed y Deon y dylid nid yn unig gymeryd rhif yr Aelodau Seneddol i ystyriaeth, ond hefyd nifer y pleidleiswyr; a dywed fod Mr. Gladstone yn rhoddi pwys mawr ar y dull a gymerodd ef i bwysio barn y Cymry ar Ddadgysylltiad. Ond y mae dull Mr. Gladstone yn gwbl wahanol i ddull y Deon: pwysa y Deon y pleidleisiau, pwysa Mr. Gladstone y bobl. Pa fodd, gan hynny, y gallaswn i rwgnach o herwydd i'r Deon ddilyn esiampl Mr. Gladstone, pan oedd yn ei dilyn? Edryched y Deon eto. "Ni fyn Mr. Jones," meddai, "fod nemawr o bwys mewn chwilio i farn gwerin Cymru trwy gyfrif

pleidleisiau etholwyr." Na, dycúmyg bywiog ac aflywodraethus y Deon ydyw hyn eto. Y cwbl a ddywedais i oedd, na feddylid dim am hynny yn y Senedd, pan yn cymeryd barn a wlad ar unrhyw fater. A dyna'r gwir: y mae pleidlais sydd yn cynrycholi mil, yn pwysu cymaint yn y Senedd a pleidlais sydd yn cynrychioli deng mil. "Holed Mr. Jones ei gyfaill Mr. Lloyd George, A.S., ac ereill, a chaiff ddeall fod bychander eu mwyafrif yn pwysu yn aml yn fwy ar feddwl amryw o'n haelodau Seneddol, yn y Senedd ac allan o honi, nag y mae ef yn ei dybied." Dichon i hynny fod. Ond nid yw ysgrifennu fel hyn, fel y gwyr y Deon yn dda, ddim yn ysgrifennu i'r pwrpas. Fel dedfryd yn y Senedd, y mae pleidlais aelod wedi ei ddychwelyd trwy fwyafrif bychan crystal ag un wedi ei ddychwelyd trwy fwyafrif mawr. A phan ddywedir fod mesur wedi ei gario trwy hyn a hyn o pleidleisiau, yr ystyr yw ei fod wedi ei gario trwy hynny o aelodau, ac nid trwy nifer y pleidleisiau a roddwyd dros yr aelodau hynny yn eu hetholiad. Y mae y Deon yn enwog am y drafferth a gymer i gymysgu a chymylu a chyfroddadu pethau: ond y mae rhai pethau, fel y goleuni, yn drech hyd yn oed na drysni'r Deon.

Y cwestiwn yn awr ydyw, A ydyw yn briodol myned y tu cefn i hyn, a rhifo y pleidleisawyr yn ogystal â'r aelodau? Y cwbl a ddywedais i ar hyn ydoedd ei fod "yn gwbl anadnabyddus ac anymarferol." Arweiniais y drofn hon yn uniongyrchol i ddau beth: 1. *Equal Electoral Districts*; h.y., fod holl etholwyr y deyrnas yn cael eu rhannu yn gyfartal i bob etholaeth; oblagid pe byddai mwy o etholwyr mewn un etholaeth ar gyfer pob aelod nag yn y llall, byddai gwerth pleidlais yn yr etholaeth leiaf yn fwy nag yn y fwyaf. 2. Gwneuthur yr Aelod Seneddol yn genad (*delegate*) ac nid yn gynrychiolwr, ac o dan rwyman, nid i farnu drosto ei hun, ond i apelio yn wastadol cyn rhoddi pob pleidlais at yr etholwyr am eu barn ar bob pwnc. A ydyw y Deon anturiaethus yn ddigon chwyldroadol i fyned i mewn am hyn? Hawdd iawn iddo dafu awgrymiadau isol, gwenwynig, ac annheilwng, trwy ddweyd, "Ni fyn Mr. Jones fod nomawr bwys mewn chwilio i farn gwerin Cymru trwy gyfrif pleidleisiau etholwyr." Yr wyf fi yn dal y pwys o hynny trwy roddi pwysau priodol ar farn y rhai sydd yn cynrychioli pleidleisiau gwerin Cymru. Ceisia y Deon, er mwyn codi rhyw fath o wrthddadl, ddirymu gwerth pleidleisiau gwerin Cymru trwy ffalio iddynt, mai ar eu pleidleisiau hwy eu hunain y mae y gwerth, ac nid ar y cynrychiolwyr a ddanfionant hwy i'r Senedd trwy eu pleidleisiau.

Ond gadewch i ni, er hynny, am dro, gymeryd y Deon ar ei dir ei hun. Y mae eto yn ymloddesta ar ystadegau. "Yn 1885," meddai yn y *Times*, "pleidleisiodd yng Nghymru oddeutu 120,000 dros Ddad-gysylltiad - p; dyna faen prawf yr etholiad - ac oddeutu 80,000 yn ei erbyn." Gofynais innau pa faint yr oedd y gair "oddeutu" yn y frawddeg hon yn ei gynnwys; ac atebodd y Deon trwy ddweyd mai y gwir nifer dros oedd 121,056, a'r nifer yn erbyn oedd 82,774. "Felly," meddai, "gwel Mr. Jones na charmarweiniais fy narllenwyr â'r gair 'oddeutu.'" Gadewch i ni weld, ynte. Y mae gan y Deon gymaint o hamdden a thuedd i drin ystadegau yn ystrwygar, ac y mae mor anhawdd ei ddilyn i gyfrifon preifat, fel y mae yn dda gennyf allu apelio am unwaith at gyfrifon swyddogol. Ac fel y gallo y darlennwyd fod mewn pob mantais i farnu drosto ei hun, yr wyf yn dymuno rhoddi y cyfrifon yn hollol fel y maent. Dyma hwy:—

Eisteddle.	Dychwelwyd gyda Gwrthwynebiad.		Diwrth- wyneb'd	
	C. *	Rh. Gl.	An.	Rh. Gl.
Môn	3462	4412
Brycheiniog	3282	3784
Aberteifi	3644	5967
Caerfyrddin (Dwyrain)	2122	4457
" (Gorllewin)	2940	4566
" (Dosbarth)	1381	2984
Caernarfon (Eivion)	2573	4535
" (Arfon)	2831	4562
" (Dosbarth)	1858	1923
Dinbych (Dwyrain)	3433	3831
" (Gorllewin)	2992	4586
" (Dosbarth)	1451	1761
Ffiint	3132	4758
" (Dosbarth)	1713	1835
Morgannwg (Caerdydd)	5429	5569
" (Dwyrain)	2086	4886
" (Gower)	2103	5550
" (Merthyr)	15,196
" (Canol)	8979
" (Rhouda)	2992	3859
" (Deheu)	3351	3945
" (Abertawe)	2529	3060
" (Dosbarth Abertawe)	8956
Meirionydd	2209	3784	1907	..
Maldwyn	3389	4044
" (Dosbarth)	1326	1409
Penfro	3733	4999
Penfro a Hwlfordd	2150	2415
Maesyfed	1813	1880
Mynwy (Dosbarth)	2922	2932
" (Gogledd)	3226	5693
" (Deheu)	4891	4293
" (Gorllewin)	1341	6730
	82,314	119,009		33,131
		1,907		
	82,314	120,916		

Yn awr, os sylwir ar y cyfrifon hyn, gwelir *nad oes gan y Deon gymaint ag un figiwr y gellir rhoddi ymddiried hollol ynddo.* Gwir nad yw y gwa-hapiaeth yn fawr (121,056 yn lle 120,916, ac 82,774 yn lle 82,314), ond y mae yn ddigon i ddangos diofalwch anegusodol mewn un sydd mor anfaeledig "ym mhedair rheol elfennol rhifyddiaeth." Wedi'r cwbl nid yw hyn ond brycheuyn yn ymyl y trawst arall o ddiffyg sydd yn y cyfrifon. Sylwr fel y mae wedi gadael allan, heb gymaint a gwnenthur unrhyw sylw yn y byd ei fod yn gwneyd hynny, dri lle,—Merthyr Tydfil, Canol Morganwg, a Dosbarth Abertawe—yn cynnwys 33,131 o ethol-wyr, y rhai a ddychwelasant dri aelod Rhyddfrydig, yn Ddadgysylltwyr hollol; ac y mae y tri lle hyn mor Rhyddfrydig fel na feiddiodd y Ceidwadwyr na'r Undebwyr ddyfod ag ymgeisydd i'r maes nac yn etholiad 1885 nac yn un 1886, ie, hyd yn oed ym Merthyr Tydfil, pan oedd dau Ryddfrydwr ar y maes, ac er fod y lle, fel y myn y Deon, yng nghanol "Ulster Dadgysylltwyr Cymru!" Yr oedd y Deon, yr wyf yn

*C. Ceidwadwr. Rh. Gl. Rhyddfrydwr Gladstonaid. An: Anibynnol.

addef, yn ddigon cyfrwys a deheuig i gyfrif yn unig y rhai a "bleid-leisiodd," ac felly, feallai, i geisio dianc trwy air: ond barned y darllennydd ai teg ynddo fel dadleuydd gonest ydoedd ceisio gwneuthur hynny, gan adael 33,131 heb wneuthur unrhyw sylw arnynt? Os nad ydyw hyn yn goginio ystadegau, beth sydd?

Yn awr deunw at etholiad 1886. Lled-gwyna y Deon fy mod wedi cymeryd y ffigyrau o Almanac 1891 yn lle 1887. Gwnaethum hynny yn unig am mai eleni y cymerodd y rhaniad le ar Ddadgysylltiad yng Nghymru, ac felly fy mod yn tybied mai cymeryd ffigyrau y flwyddyn hon a fyddai oreu. Cyhudda fi o gellwair â ffeithiau; ond y mae yn ddigon eglur erbyn hyn pwy sydd yn gwneuthur hynny. Gwinga y Deon yn enbyd gyda'r ystadegau hyn; ond ni wiw iddo: y mae fel y cadno yn ddiogel yn y ddalfa. Fel y gallo y darllennydd weled yn eglur pa fodd y saif pethau, yr wyf yn doddi yma eto ystadegau etholiad 1886, allau o Whitaker am 1891. Fel hyn y safant:—

Eisteddle.	Pleidleisiau.			
	Ceidwad-wyr.	Rhydd-frydwr	Undeb-wyr.	Dychwelwyd yn ddiwrthwynebiad
Môn	3421	3727
Arfon	2950	4072
Brycheiniog	10241
Caerdydd (Dosbarth)	...	5307	4965	...
Aberteffi	4252	4243	...
Caerfyrddin (Dosbarth)	...	2120	1897	...
" (Dwyrain)	9308
" (Gorllewin)	2533	4252
Caernarfon (Dosbarth)	1944	1964
Dinbych (Dosbarth)	1657	1446
" (Dwyrain)	3510	3536
" (Gorllewin)	9974
Eiflon	4244	1267	...
Ffint (Dosbarth)	1827	1403	...
" (Sir)	10249
Morganwg (Dwyrain)	10448
" (Canol)	10530
" (De)	...	3497	2177	...
" (Gower)	3358	3964
Meirionydd	4127	2860	...
Merthyr Tydfil (Dosbarth)	...	{ 7149
" (Dosbarth)	...	4956
" (Sir)	1251	1344
" (Sir)	3200	3799
Penfro a Hwlfordd	2305	2033
Penfro	3983	4099
Maesyfed	1910	1668
Rhondda	8363
Abertawe (Dosbarth)	9569
" (Tref)	1740	3040
Mynyw (Bwrdeisdrefl)	3033	2568
" (Gogledd)	2384	4688
" (De)	5230	2285
" (Gorllewin)	10629
	44,409	85,964	18,812	89,311
	...	89,311
	44,409	175,275	18,812	...

Gwelir fod y tri chyfanswm cyntaf (44,409, 85,964, a 18,812) yn hollol, ffigiwr am ffigiwr, fel yr oeddynt gennyf yn y *Geninen*. Ond yn lle 74,748 a 19,543=94,291 yn y golofn olaf, y ffigiwr yn awr ydyw 89,311, sef llai o 4,980. Digwyddodd y gwahaniaeth fel hyn: Yn y cyfrif o'r blaen dodais etholwyr Merthyr Tydfil (15,609) i mewn, ymysg y rhai a ddychwelwyd yn ddiwrthwynebiad, a gadewais Orlewin Mynwy (10,629) allan, yr hyn a wna i fyny y gwahaniaeth uchod o 4,980. Ni fynwn gelu dim, bydded o'm plaid neu yn fy erbyn.

Bellach deuw'n â'r Deon gonestgalon at y prawf. "Barna Mr. Jones," meddai, "ar fater Dadgysylltiad, nad yw ond teg cyfrif y Rhyddfrydwyr Gladstonaidd ac Undebol gyda'u gilydd." Ac felly yn hollol yr wyf yn barnu eto. Y ddau Undebwr Rhyddfrydol y cyfeiriwn atynt yn y geiriau uchod oeddynt Mr. Cornwallis West a Syr Hussey Vivian. Pleidleisiodd y ddau hyn dros Ddadgysylltiad, ac oherwydd hynny yr wyf yn ystyried yn hollol deg, ar y tir hwn, eu cyfrif ymysg y Rhyddfrydwyr Gladstonaidd. Felly rhodder nifer y Ceidwadwyr yn 44,409 a'r Rhyddfrydwyr Dadgysylltiol yn 85,964+89,311=175,275, a deuant yn agos iawn i 4 ymhen 1, fel y dywedais. Dywedais hefyd yn glir a digel, mai yr unig elfen o ansicrwydd yn y cyfrif hwn ydyw y seddau na chawsant eu hymhladd. Dywedais i hynny yn eglur: ond gwell gan y Deon, wrth son am ei "oddeutu 80,000 a 120,000" yn y cyfrif am 1885, oedd celu o'n gwydd, heb son fod y fath nifer yn bod, 33,131, sef, y pleidleisiau a roddwyd dros y rhai a ddychwelwyd yn ddiwrthwynebiad dros Ferthyr, Canol Morganwg, ac Abertawe.

Ond beth am y 18,812 o bleidleisiau a roddwyd dros Undebwyr yn y cyfrif uchod? Myn y Deon fy mod wedi eu cyfrif gyda'r 85,964 o bleidleisiau a roddwyd dros Ryddfrydwyr. Dim o'r fath beth. Y *gwirionedd syml ydyw, ni ddarfu i mi eu cyfrif o gubl*. Nid yw yr holl dwrff a wneir ar hyn yn ddim byd ond dychmygion gwyltllt a disail y Deon, y *North Wales Chronicle*, y *Gwalia*, a'r *Western Mail*. Yn sicr, dylai fod cywilydd ar ddyinion gonest ledaenu y fath anwireddau. Ni chyffyrddais â'r 18,812 a nodwyd. Ac hyd yn oed pe buaswn yn gwneyd, gan gymeryd y cwbl, fel y myn y Deon a'i dylwyth i mi wneyd, yr wyf yn credu fod yr Undebwyr hyn i gyd, oddieithr dau, sef Farren yn Eifion a Vaughan ym Meirionnydd, yn cynrychioli 4,217 o bleidleisiau, yn Ddadgysylltwyr. A'r hyn sydd yn rhyfeddach fyth gyda golwg ar y 18,812 hyn ydyw, tra y mae y Deon yn fy nghyhuddo i yn hollol anheg o'u cyfrif o'm tu, y mae efe ar y tu dalen nesaf o'r TRAEFHODYDD yn cymeryd y deunaw mil hyn yn daclus i'w ochr ei hun! Dyma gybolfa'r Deon. Dyna wneuthur ffair wagedd ar ystadegau: ac hyd nes y delo y Deon allan o'r camwri truenus hwn, rhaid iddo gymeryd ei le, bodd neu anfodd, gyda'r rhai sydd yn gwneuthur peth rhy debyg i ddwyn camdystiolaeth.

PENNOD YN HANES ADDYSG CYMRU.

Nis gallaf ddweyd mwy ar hyn na bod sylwadau y Deon mor ymddangosiadus a thwyllodrus ar y mater hwn ag ydynt ar yr ystadegau. Yn ei erthygl yn y *Geninen* sylwodd ar syniad y diweddar Mr. Henry Richard, "na ddylid derbyn arian o'r Llywodraeth at addysg." Gofynnais innau am y bennod a'r adnod. Nid oeddwn yn ameu y Deon ar hyn: ond yr oedd yn dda gennyf geisio ei binio at rywbeth. "Dyma hwy," meddai yntau, gan gyfeirio at rywbeth a ddywedodd Arglwydd

Aberdar ym Mountain Ash yn 1890, a rhywbeth a ddywedodd y *Profeswr Rhys* Nghaerdydd eleni, a rhyw erthygl arweiniol yn y *Tyst a'r Dydd* y tybia y Deon a ysgrifenyd gan Dr. John Thomas! Paham na fuasai yn syml a gwyneb-agored yn fy nghyfeirio at ryw beth ddywedodd Mr. Henry Richard ei hunan? Nid wyf yn ameu, dealler, nad yw yn dweyd yr hyn sydd wir yn y fan hon; ond yr wyf yn gofyn o'to—er mwyn tegwch a manylrwydd—am y bennod a'r adnod, ac nid dweyd rhywboth a ddywedodd rhywun yn rhywle. Nid wyf yn ameu ychwaith na fu golygiadau Mr. Richard yn cael eu cefnogi gan ychydig o wŷr dylanwadol ereill; ond nid yw dweyd fod corff y genedl o'r golygiadau hynny ddim ond dychymyg noeth y Deon ei hunan. Dywed mai “cyn sefydlu yr Ysgolion Brytanaidd, ac wrth y gwaith o'u cychwyn, y bu y syniad yn erbyn *grant* y Llywodraeth mewn rhwysg yng Nghymru.” Dyna yr hyn sydd arnaf eisieu i'r Deon ei brofi, ac nid ei haeru. Ac os ceisia wneyd hynny, carwn wybod ymbellach ganddo, pa fodd y gallasai Ymneillduwyr Cymru fod yn erbyn *grant* y Llywodraeth pryd nad oedd y Llywodraeth ei hun yn cynnyg yr un *grant*? Nid fy nghwestiwn i ydyw, pa faint o barch sydd ganddo i Mr. Henry Richard, Syr Hugh Owen, a'r Parch. John Phillips; ond pa beth ydyw y ffeithiau syml ar hyn? Yr wyf yn galw arno eu dwyn ymlaen. Yna oawn farnu pa un a ydyw Cymru wedi newid ei barn, fel y myn y Deon, ai nad ydyw. Ilyd hynny yr wyf yn gwadu yn hollol fod Cymru wedi newid ei barn ar y mater hwn.

GWADDOLI Y TIRFEDDIANWYR YN ERBYN EU HEWYLLYS.

Myn y Deon, pe Dadwaddolidd yr Eglwys, mai i'r tირfeddianwyr yr elai y budd, oni phosid deddf yn gyntaf nas gallent godi yn y rhent: ac felly, er oedi Dadgysylltiad, awgryma mai gwell fyddai i ni fyned i mewn i ddochreu am Fesur Tir, i atal y tირfeddianwyr i godi y rhent. A dywod:—“Ni cheisia Mr. Jones ateb fy ymresymiad o gwbl.” Y gwrlionodd yw nid ydyw y cwbl ond haerriad noeth y Deon, heb gymaint a cheisio profi dim; a hynny yn gyfangwbl er mwyn ceisio hudo y Cymry i fyned i mewn am Fesur Tir, er mwyn oedi dydd drwg Dadgysylltiad. Profed y Deon yn gyntaf mai i logellau y tირfeddianwyr y rhaid i'r Degwm fynod, a bydd yn hen ddigon buan ei ateb y pryd hwnnw. Yn y cyfamser ni a wasgwn am Ddadgysylltiad. “Yn lle ceisio fy ateb,” meddai, “cyhudda fi o alw amaethwyr Sir Fflint yn lladron, a chenedl y Cymry yn anfoesol.” Gofynaf finnau i'r Deon ymha lo? Yr wyf wedi darllen fy ysgrif yn y *Geninen* eilwaith a thrachefn: ond nid oes yno yr un cyhuddiad o'r fath, ond yn nychymyg toreithiog y Deon. Yna y mae yn rhoddi sebon meddal—o'r hwn y mae y Deon yn bur hoff o gadw stoc—i Mr. Gee, er iddo ddywedyd fod athrawiaethau Mr. Gee ar daliad y Degwm yn anfoesol. Drachefn dywed fy mod yn lluchio Harri VIII. i'w wyneb. Ond gŵyr darlennwyr fy ysgrif yn y *Geninen* nad oes ynddi o'r dechreu i'r diwedd yr un gair am Harri. “Crwydro oddiwrth y pwnc y mae Mr. Jones,” meddai, “wrth son am Harri.” Crwydro yn ddychrynlyd i rywle, yn ol ei arfer, y mae y Deon pan yn fy nghyhuddo o hynny, pan na soniais gymaint a gair am yr hen frenin. Rhaid mai breuddwydio yr ydoedd.

CYNNYDD YR EGLWYS YNG NGHYMRU.

Anhawdd ryfeddol ydyw cael gan y Deon, yn ei ffrwst a'i ddirisdod, roddi syniad ei wrthwynebydd i lawr yn deg a di-duedd. Yn y *Geninen*

am Orffennaf dywed: "Cyn penderfynu cefnogi Dadgysylltiad yr Eglwys yng Nghymru, gofyna y Sais ymarferol pa fodd, y mae yr Eglwys yng Nghymru yn gweithio yn awr o'i chymharu â'r Eglwys yn Lloegr." Yna â ymlaen i ddangos fel y mae yr Eglwys yng Nghymru gymaint yn fwy gweithgar a llwyddiannus na'r Eglwys yn Lloegr. Fy ateb iddo ar y mater hwn oedd hyn:—

Gwyddom yn dda am waith yr Eglwys yng Nghymru; ac yr ydym wedi dyfod i'r penderfyniad, braidd unfrydol, y dylid ei Dadgysylltu. Os ydyw yn waelach ac yn fwy diffrwyth na hyn o'r hanner, a mwy na hynny, yn Lloegr, onid yw hyn yn rheswn cryf paham y derbyniwyd y cyfeiriad a wnaeth yr Anrhydeddus Bernard Coleridge at Ddadgysylltiad yn Lloegr, yng nghyfarfod diwedddaf y Cyngrair Rhyddfrydig y llynedd, gyda'r fath lawenydd a brwdfrydedd? Yn wir y mae yn bur amheus erbyn hyn nad y cri mwyaf poblogaidd at yr Etholiad dyfodol yn Lloegr, yn ogystal a Chymru, Ysgotland, a'r Iwerddon, a fyddai Llywodraeth Gartrefol a Dadgysylltiad; a byddwn i, o'm rhan fy hun, yn foddllawn i gymeryd y canlyniadau hyd yn oed gyda golwg ar Ddadgysylltiad yng Nghymru.

Pa fodd yr etyb y Deon hyn? Dyma ei eiriau: "Os dyna y *tir goreu ganddo i sefyll arno*, gwaith ofer oedd iddo fyned i'r drafferth o geisio dangos y dylid Dadgysylltu yr Eglwys yng Nghymru ar wahan." Ni soniais i yr un gair am y "tir goreu": y cwbl a ddywedais i oedd y byddwn yn foddllawn i hynny, er nad oes arnaf, ar hyn o bryd, ddim awydd i gysylltu Dadgysylltiad yn Lloegr a Dadgysylltiad yng Nghymru. Yna cyfeiria y Deon at gynnydd y curadiaid yng Nghymru. Ni fynwn ddweyd dim i ddolurio teimladau y Deon fel ystadegydd; ond hyd nes y caf eglurhad ganddo ar y defnydd rhyfedd a diymddiried a wnaeth o'r ystadegau etholiadol, esgusodedd fi am beidio dweyd dim am gywirdeb y rhai hyn. Gofynais yn y *Geninen*, "Pa faint o'r rhai hyn," sef y clerigwyr, "sydd yn wrthgilwyr cyflogedig yn ymladd am hŷr?" Ac yr wyf yn ei ofyn eto. Pan y mae y Deon yn ceisio argyhoeddi y Saeson fod yr Eglwys yng Nghymru yn cynhyddu, y mae yr un mor deg i minnau ofyn, *pa fodd* y mae yn cynhyddu? Nid oes neb yng Nghymru na Lloegr yn ameu nad oes rhan o leiaf o'r cynnydd hwn i'w briodoli i'r fywoliaeth well y mae ei safle fel Eglwys Wladol yn ei gynnyg i'w gweinidogion, a'i bod yn defnyddio ei safle gymdeithasol fel moddion i ddenu dynion ieuainc drosodd oddiwrth yr enwadau crefyddol y cawsant eu magu ynddynt, er mwyn ymladd dros Eglwys Loegr a cheisio dinystrio crefydd eu tadau. Yr wyf yn dywedyd y pethau hyn oherwydd y pethau canlynol: 1. Pan y mae unrhyw un yn newid ei grefydd, disgwylir fod ganddo ryw reswm dros hynny. Pan y mae neb yn nowid o sefyllfa uwch i un is, yn cael ei golledu ym mhob peth, er y gallai ei fod yn cyfeiliorni, eto addefir y tebygolrwydd ei fod yn gwneuthur hynny yn gydwybodol, gan na fyddai neb yn foddllawn i ddiodeff am ddim. Ond pan y mae un yn newid o sefyllfa is i un uwch, neu i fod ar ben y ffordd i ddisgwyliadau uwch, anhawdd iawn ydyw iddo argyhoeddi neb ei fod wedi newid oddiar egwyddorion pur. Ni fynwn ddweyd nas gall fod: ond nid yw yn debyg. 2. Nid oes odid ysgolhaig na phregethwr yng Nghymru heddyw gyda'r Ymneillduwyr, na chwasant gynnyg gwella eu hamgylchiadau trwy fyned drosodd at Eglwys Loegr. 3. Ni fynwn fod yn farnwr ar argyhoeddiadau neb, ac y mae gormod o'r pab ynwyf, fel y dywed y Deon yn bur gariadus, i neb arglwyddiaethu ar fy argyhoeddiadau innau; ond onid yw hyn yn ffaith, ac nis gall neb ein rhwystro i farnu am dani fel y mynnom: Fod bron yr oll

o'r rhai sydd yn awr yn ymladd Ymneillduaeth yng Nghymru naill ai yn feibion neu yn wryon i Ymneillduwyr, ac wedi manteisio ar eu gwaith yn gadael Ymneillduaeth?

Y bluen a dyfodd ar aden yr eryr
Rold asgell i'r saeth a drywanodd ei fron.

A oes rhywun a gred, pe buasai anfanteision Ymneillduaeth gan yr Eglwys, a manteision bydol yr Eglwys gan Ymneillduaeth, nad Ymneillduwyr a fuasai y rhai hyn heddyw? Dichon y dywed y Deon fod hyn yn bur angharedig. Beth os ydyw yn wir? Drachefn, gofynais: "O ba le y ceir yr arian i dalu iddynt?" "Cred mai gan y Dirprwywyr Eglwysig," meddai y Deon. Nid felly yn hollol; awgrymais y gallai y Dirprwywyr Eglwysig wneuthur hynny. Ni faidd y Deon wadu nad yw y Dirprwywyr Eglwysig yn talu swm anferth o arian i Gymru yn flynyddol, ac nis gall wadu ychwaith fod cyfangorff yr arian hyn yn myned i'r clerigwyr. Dywed nad yw wrth hyn ond yn dychwelyd yr hyn a gaiff o Gymru. Gofynnaf finnau, A fyddent hwy yn gwneuthur hyn bob amser? Os na fyddent, paham y maent yn gwneuthur hynny yn awr? Pa swm hefyd a gyfrennir at gyflogau curadiaid gan Gymdeithasau Eglwysig Llundain? Nid yw arian y rhai hyn ddim yn llai eu gwerth na'r lleill at brynu a llwgr-wobrwo Cymru gyda digywilydd-dra teilwng o achos gwel. Pa faint sydd a fynno "punt y gynffon" mewn gwahanol ffurfiau â chynnydd yr Eglwys yng Nghymru? Diau, fel yr awgryma y Deon, cyn y bydd brwydr Dadgysylltiad drosodd, y dadleuir llawer o bethau, a phethau rhyfedd iawn hefyd.

PARDDUO CYMERIAD EGLWYSWYR.

Trwy gyferbyniad gwawdus, ceisiai y Deon iselheu cymeriad y Parch. Aaron Davies, Pontlotyn, fel gwr o ymddiried. Da gennyf fod blaen y wialen â'r hon y cyffyrddais yn dynwr ag ef wedi peri iddo yn chwim iawn alw hynny yn ol. Dichon y bydd yn fwy gofalus y tro nesaf. Addefa yn awr ei fod yn "Medddu llawer o edmygedd at amryw o elfennau cymeriad personol dihoced a charedig" Mr. Davies. Awgryma er hynny yn dra charedig nad yw yn *ddym*, na neb arall sydd yn ameu perffeithrwydd encilwyr oddiwrth Ymneillduaeth. Prin y gwyddwn i o'r blaen pa beth, ym marn y Deon, sydd yn gwneyd *dym*. Gyda'i dynherwech arferol, myn y Deon fy mod i yn "hau efrau"—yn ddiarwybod, bid sier,—ac yn "gwawdio defodau crefyddol," am i mi ddweyd gyda golwg ar y rhai a gonfirmir yn Eglwys Loegr: "Yr uraig beth y dymunwn i iddi wneyd ydyw rhoddi prawf o'i ffydd yn y rhai a gonfirmir ganddi trwy ymddibynnu arnynt am ei chynhaliacth. Hyd hynny, maddeued y Deon i mi am beidio rhoddi llawer o bwys ar y bechgynos a'r merchetos a gesglir o bob corlan a phob ffos er mwyn i'r Arglwydd Esgob ddodi ei ddwyllaw ar eu pen." Pan y mae Urddasolion Eglwysig yn rhoddi y fath bwys ar y rhai a gonfirmir fel prawf o gynnydd yr Eglwys, y mae yn hollol deg i ni, heb gael ein cyfrif yn euog o'r pechod arswydus o wawdio ordinhadau crefydd, fel y myn y Deon yn rhyfygus a chyfeiliornus ein bod, chwilio i mewn pwy yw y rhai a gonfirmir, a pha gymhellion a ddelir allan o flaen y rhai a ânt o dan y ddefod—yn unig er mwyn achub pen yr Eglwys neu gynorthwyo y person i gael bywoliacth well. Os myn Eglwyswyr i ordinhadau crefydd gael eu parchu, dylent fod yn ofalus yn gyntaf oll am eu parchu eu hunain. Mae'n hen bryd tynnu y gorchudd oddiar yr anfadwaith ofnadwy sydd yn sarhau crefydd yng Nghymru

dan yr enw Confirmasiwn. Nid wyf wrth hyn yn dymuno dweyd yr un gair isel am Gonffirmasiwn ei hun, yr hon sydd o bosibl yn arferiad dda ddigon. Ond y mae yr arfer bresennol o honi yng Nghymru yn waradwyddus ac yn gamarweiniol i'r eithaf; ac y mae yn hen bryd ei dynoethi. Oblegid mewn llawer o amgylchiadau adnabyddus nid yw o un gwahaniaeth gan Eglwyswyr ymha le y gallant gael gafael ar rywun—o'r plentyn i'r hynafgwyr pedwar ugain oed, na pha beth fydd eu buchedd cyn ac ar ol hynny—os gallant eu dwyn dan ddwyllaw yr Esgob, er mwyn clochdar fod yr Eglwys yn cynhyddu yng Nghymru, ac mai pechod ydyw ceisio ei Dadgysylltu. Meiddiaf ddweyd mai y Confirmasiwn—gyda'r dibenion yr arfer ef yn awr—ydyw y twyll, y rhagrith, a'r oferedd mwyaf yng Nghymru ar hyn o bryd. Ond ni fynwn ddweyd y gwyr yr Esgobion a lliaws o Eglwyswyr cydwybodol hyn.

APELIO AT Y SAESON.

Addefa y Deou hyn. Cyfaddefa ei fod yn ysgrifennu i'r *Times*. Efe a ddechrenodd ysgrifennu yno ar Foesoldeb Rhyfel y Degwm; ac yr wyf yn cofio yn dda yr argraff ryfeddol o anffafriol a allasai ei ysgrif roi ar feddyliau dieithriaid am gymeriad moesol ei gydwladwyr. A chaniatau fod amaethwyr bychain mewn rhai parthau o Gymru yn gwrthod talu degwm ond yn un o'r ffyrdd noillduol a ganiateid iddynt gan y gyfraith, pa raid oedd iddo ef ysgrifennu i'r *Times*, cyhoeddi yn Gath a mynegi yn heolydd Ascelon bethau ynglyn a Rhyfel y Degwm oeddynt yn adlewyrchu yn anffafriol ar ei gydgenedl, tra yr oedd y Barnwr Wills wedi cyhoeddi fod eu gweithrediadau yn hollol gyfreithlawn? Ond myn ef fod y *Times* wedi gadael lle i atebion iddo. Nid yw hyn yn cyfiawnhau dim ar ei waith ef yn ysgrifennu i ddechreu, os nad oedd arno eisieu codi rhagfarn yn erbyn ei bobl ei hun, a chydymdeimlad â'r rhai yr apeliant yn eu herbyn. Ond a chaniatau i rywrai gael lle i'w ateb ef, nid yw hynny yn profi na wrthodwyd lle i ereill; ie rhai na raid i'r Deon eu coeg-watwar trwy awgrymu fod eu llythyrâu yn fwy cyfaddas i le arall. "Nis gallaf ganfod," meddai, "paham y cwyna Mr. Jones gymaint oblegid ein bod yn gosod ein hochr ni i'r ddadl ger bron y Saeson." Y cwbl yr wyf fi yn ei ddweyd ydyw, fod Eglwyswyr Cymru yn apelio at y Saeson am barhau ar ysgwyddau eu cydwladwyr Sefydliad Eglwysig y mae mwyafrif mawr o'r Cymry wedi penderfynu cael gwaredigaeth ohono. Dyma ein cwyn: ac y mae cryn wahaniaeth rhwng rhai yn apelio at y Saeson am barhau y baich, a rhai yn apelio atynt am ei symud. Galw ar y Saeson i symud y gorthrwm yr ydym ni, yn ol dymuniad mwyafrif ein cydwladwyr; galw ar y Saeson i'w barhau, yn ol dymuniad y lleiafrif, yw gwaith y Deon; a gall dyn heb yr un llygad weled y gwahaniaeth sydd rhwng y ddeubeth hyn.

EGLWYSWYR LLOEGR A CHYMRU.

Gresyn na chymerasai y Deon ychydig o bwyll i ddarllen yr hyn a ysgrifennais, os oedd yn tybied yn werth ei ateb. Yn y *Geninen*, cymerais i fyny y dyfyniad canlynol o'i erthygl flaenorol: "Bydd yn rhaid i Ddadgysylltwyr gasglu digon o nerth i Ddadgysylltu yr Eglwys yn Lloegr cyn y gallant Ddadgysylltu yr Eglwys yng Nghymru. Y mae adfywiad yr Eglwys yng Nghymru wedi sierhau wrth ei chefn holl nerth yr Eglwys yn Lloegr." Ychwanegais innau: "Nid wyf yn credu hyn," sef y rhaid aros am Ddadgysylltiad yn Lloegr cyn cael Dadgysylltiad yng Nghymru, fel y dengys holl rediad y paragraff sydd yn

dilyn. Ond gwell gan y Deon da, sydd mor hoff o goginio ystadegau, o gyfeirio drachefn a thrachefn at fy nghoegni, o roddi geiriau yn fy ngenau na ddywedais mohonynt erioed, o ddannod i mi fy anwybodaeth, o ddweyd fy mod yn pardduo cymeriad Eglwyswyr, ac o wawdio ordinhadau crefydd,—gwell ganddo ef gymeryd darn o'r difyniad, sef y darn olaf, ac ysgrifennu homili ar undeb eglwysig, na cheisio ateb yr hyn a ddywedais. Ni fu erioed gysgod o amheuaeth yn fy meddwl y ceid Eglwyswyr Lloegr ysgwydd yn ysgwydd ag Eglwyswyr Cymru i barhau pob gorthrwm mewn byd ac Eglwys. Dyna eu harfer ar hyd yr oesoedd; dros hynny y maent wedi arfer bod,—ac y mae parhau y Degwm yn rhy fanteisiol iddynt i gollu yr un cyfle i gydymladd drosto. Er hyn oll y mae gan y Deon un frawddeg andwyol o ddirmygus ar Eglwyswyr Lloegr. A dyma hi: “Credaf mai colled fawr fyddai torri cysylltiad yr Eglwys yng Nghymru â'r Wladwriaeth; ond colled fwy fyddai—yn ol fy marn i—torri cysylltiad rhwng Esgobaethau Cymru ac Esgobaethau Lloegr.” Ni fynaswn er dim fod yn awdwr y fath frawddeg bicellog a hon. Awgryma y Deon, fel y gwelir, os Dadgysylltir yr Eglwys yng Nghymru, na fydd dim cysylltiad mwyach rhwng Esgobaethau Cymru ac Esgobaethau Lloegr. Er yr holl ymfrost am hynafiaeth yr Eglwys Gymraeg, yr olyniaeth apostolaidd sydd yn rhedeg rhwng y ddwy Eglwys, a'r cydymdeimlad mawr sydd rhyngddynt: wedi'r cwbl, yn ol y Deon, nid oes dim ond llinyn arian yn eu dal ynghyd, a phan dorrir hwnnw bydd y cysylltiad sydd rhwng Esgobaethau Cymru ac Esgobaethau Lloegr yn torri hefyd. Nid wyf fi fy hun yn credu mor ddrwg am y ddwy Eglwys â hyn: a phe byddwn, os eu cysylltiad â'r Wladwriaeth yn unig neu yn bennaf sydd yn eu dal ynghyd, goreu po gyntaf iddo gael ei dorri.

DADLEU AR DIB EGWYDDOR.

Nid wyf yn rhyfeddu dim fod y Deon aflonydd, gyda'i ystadegau diymddiried, wedi blino ar geisio amddiffyn cysylltiad yr Eglwys a'r Wladwriaeth yng Nghymru, lle y mae wedi profi ei hun, yn y cymhwysiad o hono, yn gyfundrefn mor ddrudfawr ac aneffeithiol, ac am “esgyn dros ennyd i dir egwyddorion eang,” i “dir uchel egwyddor foesol,” ac i geisio dangos “fod cysylltiad yr Eglwys a'r Wladwriaeth yn gaer i grefydd gwlad, ac yn gymorth gwerthfawr i'r Eglwys gyflawni yn addas ei chommisiwn Dwyfol.” Y mae ganddo ddigon o waith o'i flaen. Llauer o iechyd fyddo iddo i'w gyflawni. Gellir disgwyl lles mawr o hyn. Nid yn unig geill sylw at Gymru, lle y mae y cynhauf Dadgysylltiol eisoes yn addfed i'r cryman; ond cynorthwya hefyd i addfedu yr achos mewn manau ereill. Yn y cyfamser cymerer un ffaith. Yn ei araeth fawr yn y Rhyl, yr hon y daethai Archesgob Caergrawnt oddiar risiau Awstin Fynach yn bwrpasol i'w thraddodi, dywedai: “Am flynyddoedd yr oedd mesurau ger bron y Parlament, y rhai a wnaent symudiad ymaith unrhyw *scandals* [Eglwysig] gwirioneddol yn esmwyth a hawdd. Dro ar ol tro yr oedd y mesurau hyny wedi cael eu llesteirio, a'r sesiwn ddiweddar yr oeddynt o fewn ychydig oriau i basio, mewn ffurf a gymeradwyai ei hunan i gydwybodau dynion—hyd yn oed cydwybodau rhai nad oeddynt mewn un modd yn gyfeillgar i'r Eglwys,—pryd y cawsant drachefn eu rhwystro gan lai nag ugain o ddyinion gan mwyaf (gyda gofid yr oedd yn ei ddweyd) o'r Dywysogaeth, y rhai a ddatganent trwy eu llefarydd, yr hyn o'dd yn dyfod yn ymarferol i

hyn : y dylai yr Eglwys gael ei rhwystro i ddiwygio *scandals*, y rhai yr oedd yn eu ffeiddio, rhag eu bod yn fyr o faterion pan fyddai eisieu achwynion yn erbyn yr Eglwys." Druan o'r Archegob! Druan o Eglwys Loegr! Rhag cywilydd i'r llai nag ugain hynny, o'r Dywysogaeth yn bennaf, a rwystrent basio mesurau diwygiadol, rhag eu bod yn fyr o faterion pan fyddai eisieu achwynion yn erbyn yr Eglwys! A chan croesaw i'r Deon gweithgar, sydd heb fawr ddiin arall i'w wneyd, i brofi "fod cysylltiad yr Eglwys a'r Wladwriaeth," sydd yn gwneuthur peth fel hyn yn bosibl, "yn gaer i grefydd gwlad, ac yn gymorth gwerthfawr i'r Eglwys gyflawni yn addas ei chommisiwn Dwyfol!"

Caernarfon

EVAN JONES.

TREFNIDEDD GWLADOL Y DEON A DADWADDOLIAD.

DIGON tebyg mai nid llawer o ddarllenwyr y TRAETHODYDD sydd wedi cael manteision ac amser i astudio llawer ar y wyddor a elwir yn Saesneg *Political Economy*, ac yn Gymraeg *Trefnidedd Gwladol*. Hyd yma estrones ydyw y wyddor yng Nghymru; nid oes rhyw lawer mwy na'i henw ar gael yn ein hiaith, ac enw digon anhyllaw ydyw hwnnw. Ond ymddengys fod yn bryd i ni ddechreu meddwl rhywbeth am dani, neu ynte baratoi ein hunain i ddioddef cosbedigaeth drom am ein hesgeulustra. Yn y *Geninen* am Orffennaf, a thrachefn yn y TRAETHDDYDD diweddfaf, mae y Deon Owen, Llanelwy, wedi ei gwysio i wneyd gwasanaeth dros amddiffynwyr y degwm; a rhoddir lle i fi dybied fod y wyddor hon yn sicrhau tu hwnt i amheuaeth mai breuddwyd hollol amhosibl ydyw ein bwriad i droi y degwm at amcanion cenedlaethol. Dyma y gwir, o leiaf tra parhao Deddfau y Tir fel y maent. Dim gwahaniaeth, meddir, beth a wneir; i logellau y tîrfeddianwyr yr â y degwm os dygir ef oddiar yr Eglwys. Dywedir wrthym hefyd fod hwn yn "anhawster sydd eisoes wedi peri pryder nid bychan i Ddadgysylltwyr craff." Pwy ydyw y rhai hynny tybed? Paham na ddywedasant wrth rywun, heblaw Deon Owen, am y perygl yr oedd Cymru wedi syrthio mor agos iddo?

Cyn dechreu manylu ar sylwadau y Doen Owen, byddai yn eithaf priodol dweyd gair o hanes y wybodaeth uewydd hon sydd i amddiffyn buddiannau yr Eglwys. Ers degau o flynyddoedd bellach, y mae wedi ennill y cymeriad o fod y ddysgeidiaeth fwyaf pruddaidd ar wyneb y ddaear. Y mae llawer o'i gwirioneddau, os gwirioneddau hefyd, y pethau mwyaf digalon yn hanes y ddynoliaeth helbulus. Tybir gan yr ofergoelns mai o rai o gorsydd anobaith y blaned Sadwrn y tarddodd i ddechreu,—hen gartref oesol bob pruddglwyf; ac yn sicr y byddai yn drugaredd fawr i'n byd ni pe gellid ei halltudio hi a'i ffeithiau yn ol i'w hen gartref. Nid bob amser ychwaith y mae moesoldeb ei dysgeidiath uwchlaw amheuaeth. Cyhuddir hi yn fynych o glodfori a chymell hunanoldeb, ac ar y llaw arall o ddfirio pob cydymdeimlad a thynherwech calon. Yr efengyl a ddysgir ganddi o'r dechreu i'r diwedd ydyw—Gofaled pob dyn am ei lesiant ei hunan, beth bynnag ddaw o bobl ereill. Yn ol Carlyle, Kingsley, Ruskin a lluoedd ereill, rhyw ymgnawdoliad o hunanoldeb ydyw yr *economic man*, neu y dyn sydd yn gweithredu yn ol ei dysg-

ediaeth. Cymaint a hynyna am gymeriad amddiffynes newydd y degwm.

Nid ydym yn barod i gydnabod yn y radd leiaf bod honiadau y Deon Owen yn gywir o berthynas i ddsygeidiaeth *Political Economy*; ac os daw y darlennydd gyda ni hyd ddiwedd ein hysgrif, caiff fantais i farnu drosto ei hunan faint o gywirdeb sydd yn ei sylwadau. Ond pe caniateid am funud mai dysgeidiaeth Trefnidedd Gwladol yr oes hon, fel y dywed y Deon, ydyw, Nas gellir troi y degwm at achosion cenedlaethol heb yn gyntaf newid deddfau y tir, beth sydd yn dilyn? I ddechreu, rhaid cofio fod ei ddsygeidiaeth wedi ei phrofi ugeiniau o weithiau cyn hyn yn gyfeiliornus. Gwyddor ieuanc ydyw eto, bron yn dechreu ymbalfalu am ei deddfau. Mae'n wir y gelwir hi, fel rheol, yn un o'r gwyddorau; ond gwneir hynny yn fwy oddiar foesgarwch tuag at ei dysgawdwyr nag oddiar deilyngdod yn ei dysgeidiaeth. Cof gennym glywed y Profeswr Marshall, un o brif *Economists* yr oes hon, yn dweyd unwaith, Fod pob gwyddor yn myned trwy ddau gyfnod yn ei hanes; y cyntaf ydyw cyfnod y dadansoddi; yr ail, cyfnod y cyfansoddi: ac ychwanegai mai yn y cyntaf o'r ddau y mae *Political Economy* hyd yn hyn. Meddwl hyn ydyw, fod y wyddor hon yn gwneyd gwaith y gellir dibynnu arno tra yn dadfennu gwrthrychau ei hymchwiliad, ac yn eu hesbonio yn eu cyflwr presennol; ond y funud y dechreu cyfansoddi y dyfodol, fel y gwna yn nwyllaw y Deon Owen, neu mewn geiriau ereill, pan y ceisia broffwydo beth fyddai y canlyniadau pe y newidid rhai o'r elfennau presennol, y mae ar unwaith yn cerdded tir sigledig ac amheus.

Nid oes eisieu ond odrych ychydig dros hanes y gorfennol i weled gwirionedd y sylw hwn. Addefir yn gyffredin mai y gwaith ymarferol goreu a wnaed gan yr *economists* ydoedd cynhorthwyo i ddangos niweidiau hen Ddeddfau yr Yd, ac mewn canlyniad hefyd, i sefydlu Masnach Rydd. Ac eto, hyd yn oed y pryd hwnnw, dadleuai rhai ohonynt yn erbyn y mesurau hyn. Byth er hynny, fe fuasai yn anodd crybwyll un cwestiwn gwleidyddol o bwys ag yr oedd dysgawdwyr y wyddor yn gallu cytuno arno. Y rheol ydyw fod y rhan y fwyaf o honynt wedi gwrthwynebu holl welliantau yr hanner canrif ddiweddfaf. Faint o broffwydo sydd wedi bod, a hynny oddiar ddeddfau Trefnidedd Gwladol, y byddai y deddfau a wnaed i fyrhau oriau llafur, ac i ofalu am ieched y plant, y merched, a'r dynion sydd yn gweithio yn y *factories*, yn sicr o ddinystrio masnach y wlad? Dywedir eto gan lawer o honynt fod pob *strike*, ac undebau gweithwyr, y pethau mwyaf niweidiol i achos y gweithwyr eu hunain. At eu gilydd, y mae bygythion yr athrawon hyn wedi profi mor ddisail fel nas gellir disgwyl i neb ddychrynu llawer wrth glywed ychydig yn rhagor oddiwrthynt ar gwestiwn y Dadwaddoliad. Cyn y gellir dibynnu ar eu proffwydoliaethau, dylent, o leiaf, allu cytuno o berthynas i'r ffeithiau yn eu gwyddor. Er engraffit, pa un ai ffermydd mawrion, ai ynte ffermydd bychain, sydd yn talu oreu i'r wlad? Pa un ai dau, ai ynte un *standard* mewn arian, sydd yn fwyaf manteisiol i fasnach? Bydd yn ddigon buan iddynt ddechreu proffwydo ar ol ateb y cwestiynau hyn a'u cyffelyb. Yn wir, y mae deddfau cyntaf y wyddor yn cael eu hameu gan rai ohonynt hwy eu hunain. Gwada Carey, yr awdurdod uchaf yn yr America, Ddeddf y Rhent, ar yr hwn y saif y Deon Owen, ac y tybia mor byderus ei fod yn rhagweled y dyfodol oddiarni. Drachefn, gwada Henry George,—ac erbyn hyn y mae ganddo filiynau o ddisgyblion,—bron yr oll o ddsygeidiaeth *Politica*

Economy mewn perthynas i'r Tir, Rhent, a Threthi. Dengys y ffeithiau hyn mai ofer ydyw troi at y wyddor hon i chwilio am ateb terfynol i unrhyw gwestiwn gwleidyddol. Y gwirionedd ydyw, y mae pob un o'r *economists* yn wleidyddwr hefyd, ac nid ydyw ei *Political Economy*, i raddau mawr, ond ei syniadau gwleidyddol wedi eu trefnu a'u galw yn *Science*.

Ond er fod y gangen hon o wyddoniaeth mewn cyflwr amherffaith, eto y mae yn perthyn iddi rai syniadau a rhai deddfau sydd wedi eu diffinio a'u trefnu yn weddol glir; ac y mae y rhan fwyaf o'i hathrawon yn barod i'w derbyn fel yn brofedig. Yn yr ychydig sylwadau a wneir arni gan y Deon Owen yn y *Geninen*, cymysgir mewn modd anobeithiol rai o'r syniadau cyntaf hyn. Nis gwyddom pa un ai o fwriad ai ynte yn anfwriadol y gwnaed hynny; ond pa un bynag, cyn myned ymhellach, rhaid i ni geisio dadrys ychydig ar ei osodiadau.

Amcan ei ymresymiad ydyw ceisio profi, os na newidir Deddfau y Tir yn gyntaf, y bydd y degwm yn myned yn waddol i'r tîrfeddianwyr. Dyma gamrau y prawf:—(1). Gwneler a fynner gyda'r degwm, ar ol Dadwaddoli yr Eglwys bydd corff y gwaddol yn rhwym o fyned naill ai i leihau y trethi lleol presennol, neu ynte i rwystro iddynt godi yn y dyfodol. (2). Y tîr-feddianwyr, yn y pen draw, sydd yn talu yr oll o'r trethi lleol. (3). Y casgliad a dynnir oddiwrth y ddau osodiad, yng ngairiau y Deon ei hunan ydyw, "Os defnyddir y degwm i ysgafnhau y trethi lleol, neu rwystro iddynt godi, y tîrfeddianwyr yn unig, ac nid yr amaethwyr na'r genedl, a dderbynia yr holl les ariannol oddiwrth Ddadwaddoliad yr Eglwys."

'Ybier am funud fod yr ail-osodiad yn gywir, ac mai y tîrfeddianwyr sydd yn talu yr oll o'r trethi lleol. Yn awr, yn ol y Deon Owen, "Os na wastreffid y degwm ar oferedd hollol na wnelai les i neb, defnyddid ef ar ol dadwaddoliad at ryw amcanion y byddai raid talu am danynt hebddo o'r trethi lleol. Hynny yw, defnyddid y degwm naill ai i ostwng trethi y tîrfeddianwyr, neu ynte i rwystro iddynt godi rhagllaw." Yn y naill achos fel y llall, medd ef, "Gwaddolid y tîrfeddianwyr yn lle yr Eglwys." Sylwer ar y frawddeg mewn llythrennau italaidd, a gwelir fod Deon Llanelwy o'r farn mai gwaddoli y tîrfeddianwyr fyddai rhwystro i'w trethi godi yn y dyfodol. Os defnyddir y degwm at unrhyw amcan ag y gellid ei gyrraedd trwy roddi treth ychwanegol arnynt lwy, yna, meddai ef, eu gwaddoli ydyw peidio rhoddi y dreth honno arnynt. Er engraffft, dyweder fod y Cymry mewn angen am £300,000 yn flynyddol taug at berffeithio eu cyfundrefn o addysg, a'u bod yn bwriadu defnyddio y degwm i'r amcan hwnnw. "Peidiwch bod mor ffol," medd y Deon Owen, "oblegid fe ellwch roddi treth ychwanegol o £300,000 yn flynyddol ar y tîrfeddianwyr er cyrraedd yr amcan hwnnw. Os peidiwch a'u gorfodi i dalu y dreth, yna fe fydd hynny yn waddol iddynt o £300,000 yn y flwyddyn." Os oes ystyr o gwbl i ymresymiad fel hyn, y mae yn cynnwys fod gan y genedl hawl i drethu y tîrfeddianwyr yn ddiderfyn, os oes gennym amcan teilwng wrth wneyd hynny. Syniadau rhyfedd oddiwrth amddiffynnwr Eglwys y pendefigion! Yr ydym yn cydweled â'r Deon fod eu trethi presennol yn llawer rhy ysgafn, ond prin y mae ein radicaliaeth yn ddigon eofn i haeru y dylid eu gorfodi i dalu am bob peth y dymunem ei gael yn y dyfodol.

Ond i ddychwelyd yn ol at yr ail osodiad. Seiliau y Deon Owen dros haeru mai y tîrfeddianwyr sydd yn y pen draw yn talu yr oll

o'r trethi lleol ydyw, fod Mr. Gladstone wedi dangos yn y Senedd eleni mai hwy "yn y pen draw sydd yn talu trethi lleol ar *dir amaethyddol*," ac fod Mr. Goschen drwy ei ddistawrwydd wedi cydnabod gwirionedd hynny. I ddechreu, dylai y Deon Owen wybod mai nid y trethi lleol ar *dir amaethyddol* ydyw yr *oll* o'r trethi lleol. Pell iawn oddiwrth hynny. Pwy, er engraifft, sydd yn talu y trethi ar y tai? Os gall y Parchedig Ddeon, trwy ryw swyngyfaredd, brofi i foddlonrwydd mai rhyw dirfeddiannydd sydd "yn y pen draw" yn talu y trethi ar y ty hwn, bydd yn sirioldeb nid bychan i feddwl yr ysgrifennydd. Y mae rhyw gymaint o wirionedd yn y dywediad mai hwy "sydd yn talu y trethi ar *dir amaethyddol*;" ond cyn credu geiriau Mr. Gladstone a distawrwydd Mr. Goschen, byddai yn fuddiol cael y bennod a'r adnod, er mwyn gweled y cysylltiadau. Heblaw hynny, at *Political Economy* yr apeliodd y Deon i ddechreu, ac ofer yn awr ydyw troi at areithiau poethlyd arweinwyr politicaidd yng ngwres dadleuon Ty y Cyffredin. Yr awdurdodau sydd i benderfynu y ddadl rhyngom ydyw Adam Smith, Ricardo, J. S. Mill, ac ereill o'r awduron adnabyddus ar y wyddor. Yn ol y rhai hynny, nid y tîrfeddianwyr bob amser sydd yn talu y trethi ar *dir amaethyddol*. Os unwaith y trethir y tir yn drymach na nwyddau masnachol ereill, y canlyniad fydd i'r tir godi yn ei werth, ac nid gostwng; hynny yw, cyfyd rhenti y tir yn ol cyfartaledd y dreth. O ganlyniad nid y tîrfeddianwr fydd yn ei golled oherwydd y trethi uchel, ond rhywun arall sydd yn talu y trethi yn ol iddo yn y ffurf o rent.

Yr ydym yn awr ar *dir* i symio i fyny dwyll-honiadau yr ymresymiad drwyddo.

- (1) Nid yr un peth ydyw lleihau y trethi presennol ac atal y trethi i godi yn y dyfodol.
- (2) Nid y trethi ar *dir amaethyddol* ydyw yr *oll* o'r trethi lleol.
- (3) Nid y tîrfeddianwr bob amser sydd yn talu yr *oll* o'r trethi ar *dir amaethyddol*.

Os ceidw y Deon y ffethiau hyn yn glir o flaen ei feddwl, symudir ymaith yr anhawster o droi y degwm at amcanion cenedlaethol. Os oes rhyw achos cenedlaethol teilwng o'i waddoli, ac heb ddarpariaeth ar ei gyfer yn awr o'r trethi, rhodder y degwm at hwnnw ac nid â ceiniog o hono i logellau neb o'r tîrfeddianwyr.

Byddai yn ddyddorol gwybod pa mor bell y mae y Deon Owen yn credu yr hyn a ysgrifenna. Yn y *Geninen* a'r TRAETHODYDD, cymer arno brofi y bydd yr holl ddegwm, ar ol Dadwaddoliad yr Eglwys, yn myned yn feddiant i'r tîrfeddianwyr. Drachefn dywed fod "y tîrfeddianwyr, er eu clod, fel dosbarth, yn erbyn Dadwaddoliad." Os felly, pa rwystr fydd ar ffordd y tîrfeddianwyr i dalu y degwm yn ol i'r Eglwys fel rhoddion gwirfoddol? Byddai hwn yn drefniant boddhaol i bawb. I ddechreu, fe gyrhaeddai y dadgysylltwyr yr hyn a geisir ganddynt; ceid Dadwaddoliad yr Eglwys, a cheid rhodd y degwm at amcanion cenedlaethol. Mae'n wir, yn ol y Deon, y dychwelai y degwm yn ol ar hyd rhyw lwybrau cudd, i ddechreu, i logellau y tîrfeddianwyr, ac oddiyno drachefn i goffrau yr Eglwys. Ond pa wahaniaeth, gan y byddai y dadgysylltwyr yn eu diniweidrwydd wedi eu boddioni â'r ffug ddadwadloliad? Drachefn, dyma'r trefniant goreu ar les y tîrfeddianwyr, oblegid o hynny allan, caent y *credit* o dalu y degwm yn wirfoddol at gynnal yr Eglwys, a hynny heb golledu dim arnynt eu

hunain. Yn olaf, byddai yn fendith hefyd i'r Eglwys ei hunan, oblegid deuai yr holl ddegwm iddi fel o'r blaen, a deuai bellach gyda bendith rhoddion gwirfoddol arno, yn lle ei guro allan o bocedau dynion gyda morthwylion arwerthwyr a batonau heddegeidwaid. Mewn difrif, os ydyw yr Eglwyswyr yn credu yr athrawiaeth hon, i ba ddiben yr ymleddir dim yn ychwaneg. Gadewch i ni ar bob cyfrif uno ein rhengoedd a hawlio Dadwaddoliad fel y peth mwyaf manteisiol i bob plaid ac enwad yn y Dywysogaeth.

Ond y tebyg ydyw mai ychydig o ffydd sydd gan y dysgawdwr yn ei ddysgeidiaeth, ac mai ei gred ddirgelaidd ydyw, er gwaethaf ei *Political Economy*, y bydd y rhan fwyaf o'r degwm, os unwaith y dadwaddolir yr Eglwys, yn sicr o lynu yn rhywle cyn cyrraedd yn ol i'w hen gartref. Ofna y bydd rhan dda ohono, er mor anffafriol ydyw deddfau y tir, mewn perygl o aros yng ngwasanaeth y genedl, ac ofna y bydd y rhan fwyaf o'r gweddill, er mor ffafriol ydyw y tirseiddianwyr i'r Eglwys, yn debyg o lynu yn eu llogellau hwy. Gyda llaw, prawf du o'r sefyllfa gyfyng y mae achos yr Eglwys ynndo ydyw gweled un o'i harweinwyr yn sylfaenu ei ymresymiad o blaid parhad gwaddol y personiaid ar anghenion Cymru am well deddfau tir, ac ar y perygl a'r anghyfiawnder o waddoli y tirseiddianwyr. Gall dadleuon fel hyn dorri i'r ddwy ochr: y maent yn llawn mor debyg o ddefro awydd yn y tirseiddianwyr am ddadwaddoliad, ag ydynt o ladd awydd y dadgysylltwyr am dano. O berthynas i ddeddfau tir newyddion, gwyddom fod Cymru mewn angen mawr am danynt, ac os erys y Deon Owen nes cael cwestiwn y Dadgysylltiad o'r ffordd, byddwn yn ddiolchgar wedi hynny am bob cymorth oddiwrtho "i bennu y rhenti trwy ddeddf Seneddol." Y drol o flaen y ceffyl! Barchedig Syr, y mae y ceffyl yn ei le. Chwi sydd yn edrych o'r cyfeiriad chwithig. Chwip ar ei gefn, ond gwyliwch ei garnau.

Cyn rhoddi y pin o'r neilldu, byddai yn briodol crybwyll fod gan *Political Economy* air i'w ddweyd, nid ar bwnc y degwm yn unig, ond hefyd ar gysylltiad yr Eglwys a'r Wladwriaeth yn gyffredinol. Os llwydda y Deon Owen i dynnu sylw y dadgysylltwyr at y wyddor hon, bydd mewn perygl o ganfod cyn hir fod *Political Economy* mor ddinystriol i w achos ag ydyw *Mathematics* yr ystadegau. Rhoddwn ychydig o engreiffitiau allan o'r *Wealth of Nations* gan Adam Smith, yr hwn a ystyrir yn dad *Political Economy* yn y deyrnas hon. Ar ol sylwi fod dysgawdwr crefydd yn derbyn eu cyflogau, naill ai o roddion gwirfoddol eu gwrandawr neu ynte o waddol sydd yn dod iddynt yn ol deddf y wlad, dywed "fod eu hymroddiad, eu sêl, a'u gweithgarwch yn debyg o fod yn llawer mwy yn yr achos cyntaf a enwyd nag yn yr ail." Drachefn dywed fod gweinidogion Eglwys wedi ei gwaddoli yn dda, yn debyg o gollu eu dylanwad gyda'r bobl gyffredin, ac o ganlyniad pan yr ymosodir arnynt, "nid oes ganddynt ond galw ar y Llywodraeth wladol i erlid, dinystrio, ac ymlid allan eu gwrthwynebwyr fel aflonyddwyr ar heddwch y cyhoedd." Dyma ddyfyniad arall: "Mewn enwadau crefyddol bychain, y mae moesoldeb y bobl gyffredin bron bob amser wedi bod yn neillduol o reolaidd a gweddus; fel rheol yn llawer mwy felly nag yn yr Eglwys Sefydledig." Unwaith eto, dywed am weinidogion Eglwys Sefydledig, "Fod yn naturiol iddynt geisio cymeradwyo eu hunain i'r brenin a'i lys, ac i bendefigon a chyfoethogion y wlad, trwy ddylanwad y rhai y disgwyliant ddyrchafiad." Nid yw y rhai hyn ond

ychedig allan o lawer o ddyfyniadau ag y gellid yn hawdd eu rhoddi. Sylwer hefyd mai nid dywediadau ar antur ydynt, ond casgliadau ar ol ymresyniad maith ac ymchwiliad eang, yn ol deddfau *Political Economy*, a hynny gan yr athraw enwocaf a fagwyd erioed ym Mhrydain. Os ceidw y Deon Owen a'i gyfeillion at *Political Economy* eu hachos yn unig, bydd gennym well gobaith nag erioed am Dadgysylltiad a Dadwaddoliad buan.

Waenfawr.

W. O. JONES.

CRISTIONOGAETH BERSONOL :

Anerchiad ar ddechreu y Tymor presennol yn Athrofa Dduwinyddol Lane, Cincinnati.

GAN Y PROFFESWR LLEWELYN I. EVANS, D.D.

YN dra chryno, er nad, feallai, ymhob ystyr yn gwbl foddhaol, mi allwn ddweyd mai testun yr ymdriniaeth bresennol ydyw Cristionogaeth Bersonol. Fe allai y geiriad alw am air neu ddau er ei gyfiawnhau. A all Cristionogaeth fod yn unrhyw beth heblaw personol? Cristionogaeth amhersonol,—ai ni fyddai hynny mewn rhesymeg yn ei wrthddweyd ei hun? Gwir; ond yn affodus y mae ein meddyliaeth ymarferol eisoes yn llawn o wrthddywediadau, a'r unig ffordd yn fynych i gyfarfod y rhai hyn yn llywddiannus ydyw dal ar y gwireddau a'r ailadroddiadau ymaent hwy yn dywyllu neu yn wadu. Pan y mae Cristionogaeth yn dyfod yn gorff marw, y mae yn bryd i ni adgoffio fod y fath beth yn bod a Christionogaeth fyw. Pan y mae yn cael ei dyrchafu i ddrychfeddyliau breuddwydiol, y mae galw am i ni roddi pwys ar Gristionogaeth hanesyddol. Pan y mae yn dirywio i ffurfioldeb celfyddydol, y mae yn bryd ail gyhoeddi Cristionogaeth ysbrydol. Pan roddir gormod o arbenigrwydd ar ei helfennau dansoddol, amhersonol, ni a wnawn yn dda wrth ail gadarnhau, gyda phob difrifwch, y cyhoeddiad o Gristionogaeth Bersonol.

Personoliaeth—yr amlygiad cyffredinol uchaf a mwyaf o fodolaeth; Cristionogaeth—yr amlygiad neillduol uchaf a mwyaf o fodolaeth: personoliaeth—y math uchaf o sylweddolder; Cristionogaeth—y math uchaf o ansawdd: personoliaeth—yr hanfodoledd mwyaf dwyfol; Cristionogaeth—y datganiad mwyaf dwyfol: mae y gydberthynas fywiol rhwng y ddau hyn yn rhagluniaethu eu hymdoddiad y naill i'r llall. Personoliaeth ydyw ffaith gyntaf ac olaf Cristionogaeth; Cristionogaeth sydd yn sierhau i bersonoliaeth ei ystyr buraf ac ehangaf. Eu cyd-uniad ydyw syweddolder mwyaf goruchel bod a bywyd.

Gadewch i mi ofyn i chwi ystyried am funud gymaint a olygir wrth fod symudiadau dyfnaf a ffrwythlonaf meddwl a bywyd crefyddol a'u gwraidd yn y ddirnadaeth fwy bywiol o'r ffaith o bersonoliaeth, a'r hyn a gynhwysir ynddi. Nid oedd y Diwygiad Protestanaidd yn ddim llai nag ymgyfodiad personoliaeth fel nerth ysbrydol yn yr ymdrech i dafu ymaith bwysau marw peirianyddiaeth y canol oesoedd. Edrychwch ar fywyd a nerth y personolrwydd mewn ffurf a mater oedd yn egwyddorion y Diwygiad. Cymerwch egwyddor ffurf y Diwygiad—hawl barn bersonol yn nehongliad yr Ysgrhythyr,—ymha beth y gorwedda ei harwyddocâd?

Yn hyn: hi a wthiai o'r neilldu bob peiriannaeth a lesteiria yn dros-glywyddiad y Dwyfol Air i enaid newynog dyn. Gan wrthod llewyrchiadau celfyddydol nwy-weithiau eglwysig, hi a yfai ei goleuni ar unwaith o'r sêr tragwyddol. Neu cymerwch egwyddor mater Protestaniaeth, cyfiawnhad trwy ffydd; ymha le y gorwedd ei harwyddocâd? Yn hyn: hi a ysgubai ymaith bob trefniadaeth a gyfrnai, yn argyfwng mawr y bywyd ysbrydol, rhwng y bersonoliaeth ddwyfol a'r bersonoliaeth ddydol, gan ddwyn yr enaid trwy ffydd i gyffyrddiad uniongyrchol â Gwaredwr byw, anfeidrol.

Mae Puritaniaeth yr un modd yn wrthdystiad personoliaeth bur, wedi ei bywhau a'i hysbrydoli, yn erbyn ychwanegiadau mwy ambûr ac amheronol crefydd wedi ei materoli yn ol y synhwyrâu. Yr hyn sydd wrth wraidd ei honiad o symledd ydyw y dymuniad i ryddhau yr ysbryd fo wedi ei adnewyddu, oddiwrth bopeth a fyddai ar ffordd ac a lesteiriai ei rydd fynediad allan at Dduw, a'i lawn dderbyniad mewnol o Dduw.

Mewn Methodistiaeth drachefn, yr un modd yr eiddo Wesley a Whitfield, ni a welwn gyfodiad personoliaeth Cristionogol yn erbyn arferiadaeth wanychol, rubrigau marweiddiol ffurfioldeb wedi ei hysbyddu, malldod merwinol Eglwys oedd dan draed y byd. Mae Methodistiaeth felly yn llais yr ymwybodolrwydd Cristionogol pan y gwrthoda ddibynnu ar drefniadau allanol methiantus, yn ei honni ei hun yn erbyn ataliadau defodgyloch gwag a thraddodiad, ac yn ceisio ei osod ei hun drachefn mewn cymundeb â ffynonhellau cyntefig, personol, profiadau mwyaf dwfn, mwyaf cysegredg a pharhaus yr enaid.

Neu edrychwch drachefn ar yr ysbrydolrwydd y rhoddwyd cychwyniad iddo gan Schleirmacher, Neander, a Coleridge: beth a arwyddocâd? Yn ei hanfod mewnol, arwydda ymwrthodiad â ffugion, dansoddiadau, a thybiaethau coeg-honiadaeth grefyddol, neu beiriannaeth draddodiadol, nen haerdybiaeth ddamcanol, sydd wedi colli ei gafael ar sicrwydd cymundeb personol, uniongyrchol, rhwng y Duw byw a'i blant.

Mewn gair, y mae pob deffrôad crefyddol, neu gynnydd mewn dad-blygiad crefyddol, yn ei gymeradwyo ei hun fel symudiad oddiwrth Grefydd Pethau—ffurfiau, sefydliadau, cyfryngiadau allanol a mwy neu lai materol; oddiwrth grefydd geiriau, dansoddiadau, honiadau, traddodiadau, cysylltiadau ail law, at Grefydd Personoliaeth—crefydd sydd yn rhoddi eu llawn werth i'r pethau sydd yn gwneud i fyny y bywyd personol helaethaf, sydd yn bywhau i'r gweithrediad eithaf nerthoedd mewnol, llywodraethol ymwybodolrwydd,—crefydd o alluoedd byw, personol oddiallan, ac o ansoddau personol bywiol oddi mewn, yn y gydberthynas agosaf â'u gilydd, ac yn gweithredu y naill ar y llall dan ddeddfau cydlesiant uniongyrchol, aruchel, a dwyfol. Oddiwrth Grefydd Pethau at Grefydd Personoliaeth—yn y fan yna yr ydych yn cael nôd hanfodol pob cynnydd ysbrydol.

Yn wir, pan ddeuwch i feddwl am y peth, y mae pob cynnydd yn ei ddefinio ei hun fel dyrchafiad personoliaeth, goruchafiaeth ysbryd rhydd ar ei gylchyniadau amheronol. Cynnydd materol—onid dyna ydyw: *personoliaeth* yn ymddydd yn ac yn trin y *pethau* sydd o'i hamgylch, gan honni ei feistrolaeth arnynt, yn ei argraffu ei hun ar natur, gan drawsffurfio a chyfweddu pob amgylchiadau, elfennau, a nerthoedd materol, i'w amcanion a'i fywyd ei hun? Cynnydd gwyddorol—onid dyna ydyw: cael hyd i allwedd *meddwl* a *diben personol*, sydd yn datgloi dirgeledigathau y bydyeawd? Y mae

Gwyddor yn hela am Ddeddf; a pha beth yw Ddeddf ond datganiad o unfurfiaeth Meddwl ac Ewyllysiad Personol sydd yn gorwedd o dan holl ymddangosiadau newid a symudiad? Mae Natur fel yma yn adysgrif o weithrediadau personol, symudiadau y Meddwl Tragwyddol. Gadewch allan y Meddyliwr, beth yw gwerth y Meddwl? Yn wir, onid yw ei wirionedd fel meddwl, yn gystal â'i werth, yn ddyledus i'r Meddwl sydd y tu cefn iddo? Darganfyddiad gwirionedd, mewn gair, ydyw cael allan ffyrdd a gweithrediadau y Rheswm Goruchaf. Yma y gorwedd swyn pob darganfyddiad o'r fath; y mae yn dwyn meddwl sydd ym meddwl at Feddyliwr Anfeidrol. Ei lawenydd ydyw y llawenydd o gael meddwl, gyda Kepler, feddyliu Duw ar ei ol Ef. Mae Gwirionedd felly a'i ffynhonnell a'i nôd mewn personoliaeth.

Y mae Prydferthwch, hefyd, sydd yn ysgoi pob deffiniad, ond nad yw ei hawddgarwch yn ddim llai yn tystio ei uchafiaeth, yn dibynnu am ei allu a'i hudoliaeth ar ei ffynhonnell a'i ansawdd ysbrydol. Mae ei gydweiddiadau, ei gysonderau, ei rasau, ei serchusrwydd cyfrin, toddiadol, ei rinwedd perlesmeiriol a phur, oll â'u rheol yn yr Enaid Dwyfol, gyda yr Hwn y mae y breuddwydion tecaf, y cariad mwyaf pur a'r perlesmeiriau melusaf yn cael eu cartref tragwyddol.

Gadewch allan y gweithredydd personol, ac nid oes gennyhych ond crug llymrig o bethau, *rudis indigestaque moles*, pentwr crai ac annosbarthus, heb iddo na gwerth nac arwyddocâd. Ond dygwch yr oll i'w gydweiddiad priodol â phersonoliaeth; gosodwch fater yn ei le, meddwl yn ei le, Duw yn ei le, dyn yn ei le, a daw y tryblith yn greadigaeth, ac y mae anghydgord gronynnau yn dyfod yn gerddoriaeth y furfa-fennau.

The sequences of law

We learn through mind alone,
 'Tis only through the soul
 That aught we know is known;
 With equal voice she tells
 Of what we teach and see
 Within these bounds of life,
 And of a life to be:

Proclaiming One who brought us hither,
 And holds the keep of *Whence* and *Whither*.

Hyd nes y mae Meddwl yn ymddangos, nid oes gan Fater yr un ystori i'w hadrodd. Mae "cynnydd yn ddeddf bywyd," ac yn gweithio trwy fater at feddwl, trwy feddwl at Dduw—oll oddiwrth, trwy, i Dduw:

Himself the way that leads us Thither,
 The All-in All, the Whence and Whither.

Os ydyw pob cynnydd, ynte, yn ei ddiffinio ei hun fel dyrchafiad a goruchafiaeth personoliaeth, llawer mwy y mae hynny yn wir am Gristionogaeth, trwy yr hon yn unig y mae cynnydd ar y llinellau mwyaf ysbrydol a dwyfol yn bosibl i ddyn.

Mi a ddymunwn yn awr eich cael i olrain gyda mi linell y symudiad dwyfol hwn,—mor bell, o leiaf, ag i gipedrych ar rai o'r pentiroedd amlwg sydd yn nodi ei gwrs mawreddog. A gadewch i mi ofyn i chwi, ar y cychwyn, i beidio rhag-farnu y drafodaeth fel yn anymarferol neu ddiangenraid. Yr wyf fi yn camgymeryd yn fawr os nad ymddengys mai dirnadaeth fwy clir a bywiol o Gristionogaeth fel crefydd Personoliaeth, yn wrthgyferbyniol i Grefydd Pethau, ydyw yr un peth angen-

rheidiol yn awr i gywiro' ac ehangu ein syniad am ei chynnwys, ac i adfer i'n meddwl, ein byw, a'n profiad Cristionogol lawer o'r gallu sydd wedi myned ar goll.

Pe gofynnid inni: Beth ydyw yr hawl oruchaf a honna Cristionogaeth iddi ei hun?—ein hateb fyddai: Hi hawlia, yn gyntaf oll, ac yn bennaf oll, ei bod yn meddu ar ac yn datguddio y dirgelwch am iachawdwriaeth. Pe gofynnid: Ymha le y gorwedd yr angen am iachawdwriaeth?—ein hateb i hyn drachefn fyddai: Mewn pechod. A pheth yw pechod? Mae dirgelwch iachawdwriaeth yn cynnwys dirgelwch pechod; ac y mae dirgelwch pechod yn gorwedd mewn personoliaeth. Personoliaeth ydyw y gallu o fod yn amgen na pheth; y gallu o rydd ddewisiad, rhydd weithrediad, rhydd ddadblygiad. Nid oes gan yr hyn a alwn yn Beth, ddim o'r fath allu. Mae hanes hwnnw yn rhan o gyfres o achosiadau, o gyfnewidiadau angenrheidiol ar effeithian, a alwn yn Natur. Mae ei gwrs yn cael ei benderfynu yn hollol ac anocheladwy gan amgylchiadan y tu allan iddo ei hun. Nis gall fod yn amgen nag ydyw; nis gall wneyd yn amgen nag y gwna. Yn y fath hanes nis gall pechod fod; ond yn y fath hanes nis gall rhyddid fod ychwaith; ac yn absenoldeb rhyddid, y mae dadblygiadau uchaf bywyd, tyfiant, a gwynfydedigrwydd, yn amhosibl byth.

Fe ddywedodd y Profeswr Huxley: "Yr wyf yn sicrhau pe cytunai rhyw Allu mawr i wneyd i mi bob amser feddwl yr hyn sydd wir a gwneyd yr hyn sydd iawn, ar yr amod o gael fy nhroi i ryw fath o gloc a chael fy nirwyn i fyny bob bore cyn i mi godi o'm gwely, y byddai i mi ar unwaith syrthio i mewn â'r cynnyg. Yr unig ryddid yr wyf yn gofalu am dano yw y rhyddid i wneyd yn iawn; yr wyf yn barod i ymado â'r rhyddid i wneyd drwg ar y telerau isaf i'r neb a fyddo ei gymeryd oddi-wrthyf.* Mae y datganiad tarawiadol hwn, er maint ein hedmygedd o'i ddirifoldebmoesol, yn cynnwys elfennau ei wrthbrofiad ei hun. Pe gellid troi Mr. Huxley i gloc, fe beidiai y cwestiwn o feddwl yr hyn sydd wir a gwneyd yr hyn sydd iawn a bod yn gwestiwn iddo ef o gwbl. I beiriant nid oes, ac nid all fod y fath dermau a iawn neu wirionedd. I gloc y mae yn fater hollol ddibwys pa un a â yn iawn ai peidio. Pe byddai Mr. Huxley wedi ei wneyd i fyny o olwynion a gwrthlafnau cloc, ac yn cael ei ddirwyn bob bore, ni byddai ganddo y fath ddymuniad i wneyd yn iawn ag y mae mewn dull mor bwysig yn ei ddatgan. Ni byddai arno hyd yn oed eisieu bod yn gloc, na bod yn ddim arall, er mwyn myned yn iawn. Nid ydyw peiriant byth yn gwneyd yn iawn; nid oes arno byth eisieu hynny. Nid ydyw peth byth yn myned o'i le; nid ydyw yn gofalu am hynny. Mewn byd o bethau, peiriannau, achosiadau angenrheidiol, ni fyddai gwneyd yn iawn neu heb fod yn iawn yn fater i falio dim am dano; ni chydabyddid pechod, ac ni ellid cydnabod sancteiddrwydd. Mae rhyddid i wneyd yn iawn yn golygu rhyddid i wneyd heb fod yn iawn. Mae y gallu i fod yn dduwiol yn golygu y gallu i herio Duw; i drawsfeddiannu gorsedd Duw, i osod hunan yn lle Duw. Dyna bechod; ac y mae y gallu i gyflawni pechod yn un o briodoleddau anysgarol ac ofnadwy personoliaeth. A chosb ychwanegol ofnadwy y pechod yna ydyw colli urddas ymwybodol personoliaeth; y *paroddrwydd i ddyfod yn beth*, i roddi i fyny ryddid plentyn Duw, i ildio i achosiad haearnaid dylanwadau sydd yn cymell i ddrygioni, ac felly i gael ei gau i fyny yng

* Lay Sermons: -on Descartes' Discourse.

nghaethiwed llygredigaeth. "Pwy bynnag sydd yn gwneuthur pechod y mae efe yn gaethwas i bechod."

Dyma, hefyd, yw melldith materolaeth, ei bod, wedi dechreu trwy ddiddymu personoliaeth, yn diweddu trwy wneyd ymaith â phechod. Yr hyn a eilw duwinyddion yn bechod, haera nad ydyw ond un o fyrddiwn anfodion bododaeth, yn cael ei ddwyn oddiamgylch gan ddilyniadau ddblygiadol natur. Nid ydyw Cwmp Dyn yn ddim ond digwyddiad angenrheidiol cynnydd, tripiad tuag i fywyd. Gan nad oes gan faterolaeth felly le i bechod, nid oes ganddi ychwaith le i Gristionogaeth; ac y mae y bychaniad yma ar bechod a Christionogaeth, sylwch, yn myned law yn llaw â bychaniad personoliaeth. Oblegid na fydded i ni golli golwg ar y ffaith gosbawl fawr—at ba un y gwnaed cyfeiriad eisoes—fod pechod, fel y mae yn ei wreiddyn a'i hanfod yn rhoddiad i fywyd hawliau a swyddogaethau brenhinol personoliaeth, yn golygu darostyngiad parhaus dynoliaeth, ac yn cychwyn gweithredydd personol ar yrfa peth, gan arosod deddf angenrheidrwydd yn lle deddf rhyddid; yn dwyn y natur uwch mewn caethiwed i'r natur is; yn torri ymaith adenydd yr angel ac yn peri iddo ymlusgo yn llwybr y pryf.

Dyma, ysywaeth, y sefyllfa foesol sydd yn ein gwynebu mewn byd syrthiedig; sefyllfa mor anobeithiol ynddi ac o honi ei hun! Pa fodd y gall peth—peth, hefyd, trwy ddewisiad—ddyfod yn berson? Pa fodd y gall caethwas, wedi ei rwymo ganddo ef ei hun, gael ei wneyd yn rhydd? Pa fodd y gall y daearol wisgo yr Un Nefol? Dyma y broblem ar ba un y gwyneba Cristionogaeth. Beth ydyw amod cyntaf esboniad y broblem hon? Mae'n amlwg mai adferiad personoliaeth i'w hawl a'i lle ydyw; yr angel yn cymeryd drachefn yr adenydd â pha rai y gall ehedeg uwchlaw hudoliaethau ac atyniadau y bywyd naturiol, ac ymgodi i uchelder, ehangder, rhyddid, nerth, prydfertwch, a chyflawnder bywyd ym mhresenoldeb uniongyrehol Duw, ac mewn cyffyrddiad bywiol ag Ef.

A pha fodd y mae hyn i gael ei ddwyn oddiamgylch? Mae'n amlwg mai trwy ymriiad Gallu o'r tu hwnt i Fyd Pethau, trwy lifiad y Goruwchnaturiol i mewn i diriogaeth y Naturiol. Oblegid nid all Natur ryddhau oddiwrth natur. Nis gall bywyd Peth, neu fywyd sydd wedi dirywio i fywyd Peth, ymgodi i lawn uchder a mesur personoliaeth rydd a thebyg i Dduw. Rhaid i'r Bersonoliaeth Ddwyfol ddyfod i lawr, cyffwrdd â'r bywyd is, dirywiedig; ei chyfrannu ei hun i'r bywyd hwnnw; rhoddi iddo ei bywyd ei hunan. Mae Cristionogaeth fel yma,—yn allanol, yn gyfraniad i ddyn o'r Bywyd Personol Dwyfol; yn fewnol, yn dderbyniad gan ddyn o'r Bywyd Personol Dwyfol hwnnw; a chymeryd y ddau ynghyd, y mae yn adsefydliad mewn dyn o'i fywyd personol colledig a'i ddwyfoldeb. Fel y dywed Crist, yr afradlon ydyw "yn dyfod ato ei hun;" yr un a fwriwyd allan yn dyfod i sylweddoli y Fabolaeth Ddwyfol, a'r rhyddid â'r hwn "y mae y Mab yn ein rhyddhau." Ym mhriodiath grefyddol Pedr, dyfod "yn gyfranogion o'r Ddwyfol Anian" ydyw. Ym myr-eiriogrwydd bywiog Iago, "y berffaith gyfraith, cyfraith rhyddid" ydyw, "cyfraith frenhinol" cariad; brenhinol, fel nid yn unig y brenin ymysg cyfreithiau, ond cyfraith brenhinoedd, yn rhyddfrenio y rhai a ufuddhant iddi i sefyllfa a hawliau brenhindod. Yng nghyfriniaeth ddyrchafedig Ioan, preswyliad y Bywyd Dwyfol yn y fath gyflawnder a nerth ydyw fel y mae rhyddid hollol yn dyfod yn analluogrwydd i bechu. "Pob un a aned o Dduw, nid yw yn

gwenthur pechod ; oblegid y mae ei had ef yn aros ynddo ef, ac ni all efe bechu, am ei eni ef o Dduw." Ac yna y cewch atebiad Cristionogaeth i ddyhead Mr. Huxley am ryddid i wneyd yn iawn, nad aiff byth allan o'i le. Yn sylweddiaeth ddramäyddol eneideg Paul, y Saul-myfi ydyw yn marw i'r Paul-myfi, a'r Paul-myfi yn cael ei drawsffurfio i'r Crist-myfi. "Nid wyf mwyach yn byw, ond Crist sydd yn byw ynof fi ; a'r bywyd yr ydwyf yr awrhon yn ei fyw yn y cnawd, ei fyw yr ydwyf mewn ffydd, y ffydd yr hon sydd ym Mab Duw." "Byw i mi yw Crist."

Y mae Cristionogaeth fel yma yn rhagdybied fel ei gosodiad sylfaenol fod gwir fywyd dyn yn gynnwysedig mewn cymundeb & Duw. Duw ydyw cyflenwad ysbrydol dynoliaeth berffaith,—elfen, awyrgylch, cartref yr enaid.

God only is the creature's home,
Though rough and straight the road ;
Yet nothing less can satisfy
The love that longs for God.

Gwardigaeth dyn, gan hynny, ydyw adsefydliad y Cymundeb Dwyfol hwn ; Duw yn gwneyd ei gartref mewn dyn, dyn yn cael ei gartref yn Nuw. "Yr hwn sydd yn aros mewn cariad sydd yn aros yn Nuw, a Duw ynddo yntau." Y mae deffröad dynoliaeth yn neffröad yr ymwybodolrwydd o Dduw oddifewn. Gweled Duw, adnabod Duw, sylweddoli Duw, dyma amod cyntaf gweled, adnabod, sylweddoli fy ngwir fodolaeth.

Yn awr y mae hyn—gadewch i mi bwysleisio y syniad—yn weithrediad personol o'r dwyster mwyaf. Yn gyntaf, chwi welwch, y mae yn rhagdybied gweithrediad personol Duw yn ei wneyd ei Hun yn adnabyddus, yn ei sylweddoli ei Hun i mi.

'Tis rather God who seeks for us,
Than we who seek for Him.
God was not gone, but He so longed,
His sweetness to impart ;
He, too, was seeking for a home,
And found it in my heart.

Datguddiad Duw i'r enaid—beth ydyw? Peth, deffiniad, honiad, lyfr, cyfrwng amheronol? Amhosibl! Mewn unrhyw ddatguddiad o Dduw, y prif weithredydd, y gweithredydd mewnol, gwirioneddol, y gweithredydd heb yr hwn na fyddai pob amgylchiadolrwydd ond ffurf wag ddiystyr, ydyw Duw ei Hun. Rhodder Duw, ac nid yw popeth arall ond o ychydig bwys ; rhodder Duw, a phopeth arall a'i dilyna. Bydded Duw yno, ac fe lysg y berth acacia yn yr anialwch gyda disgleirder y Shecinah. Bydded Duw ynddo, ac fe ddywed siaradach plentyn fwy na rhesymeg archangel. Mae y datguddiad fel yma yn derbyn ei arwyddocâd gwreiddiol ac arbennig oddiwrth bersonoliaeth oruchaf y Gweithredydd Dwyfol.

Ond nid dyma'r cwbl. Mae y gweithrediad yn un o gydnewidioldeb byw a phersonol. Trwy y gydberthynas ddwyfol o nerth, y mae gweithrediad personol Duw yn myned drosodd i weithrediad personol ar ran dyn. "Os gallaf ymafyd yn y peth am yr hwn hefyd yr ymafwyd ynof." Cyn y gall y datguddiad mewn unrhyw ffordd fod yn wirioneddol a chyflawn, rhaid i'r derbyn personol gyfateb i'r cyfrannu personol. Po fwyaf o'r personoliaeth sydd yn y derbyn, helaethaf fydd y

datguddiad. Rhaid, chwi welwch, i hyn fod felly. Nis gall fod datguddiad o bersonoliaeth i beth. Nis gall fod datguddiad ysbrydol i ddealltwriaeth anysbyrdol; canys y mae pethau ysbrydol yn cael eu datguddio yn ysbrydol. Y meddyliau sydd yn gwibio trwy dragwyddoldeb, y teimladusrwydd sydd yn cael ymwared mewn dagrau, i.e. sydd yn fynych yn gorwedd yn rhy ddwfn i ddagrau, y darwelediad ysbrydol o sylweddoldeb ac angenrheidrwydd dwyfol, yr argyhoeddiadau moesol pa rai, fel aderyn Iau, a ddalian daranfolltau deddf dragwyddol, y dyhead nad ellir ei ladd am anfarwoldeb, yr ymhyfrydad mewn gwirionedd ac iawnder er eu mwyn eu hunain, y gallu i hunanaberthu o gariad pur, brwdfrydedd dynoliaeth, ysbrydoliaeth dwyfoldeb,—nid ydyw y pethau hyn oll yn cael dim sydd yn cyfateb iddynt islaw lefel personoliaeth, nac, yn wir, islaw lefel personoliaeth ysbrydol. Nis gall y datguddiad o'r bersonoliaeth oruchaf, oll-berffaith, a alwn yn Dduw, gael ei gyfleu oddieithr i'r rheswm, y gydwybod, yr ewyllys, y reddf o brydferthwch, y gallu i garu, y teimlad o'r anfeidrol, y rhagsyniad am dragwyddoldeb. Y mae yn dyfod yn ddatguddiad trwy yr apél a wna at y pethau dwyfol hyn sydd yn gwneyd i fyny ein bodolaeth, a'r ymateb a eilw allan oddiwrthyt. Duw yn ei ddatguddio ei Hun i mi—beth yw hynny? Duw ydyw yn ei gydberthynu ei Hun i'r rhan yma a'r rhan arall o'm bodolaeth, yn ymsymud ar y gynneddf hon, yn cymeryd y teimlad yna, yn nerthu y cyfryw gymhelliad, yn ei honni ei Hun yn y cyfryw fwrriad, yn goleuo meddwl yma, yn pereiddio profiad acw. Ond sylwch: y mae y gweithrediadau hyn, un ac oll, yn eiddof fi. Mae fy mhersonoliaeth yn ei fynegi ei hun ynddynt. Yr wyf fi ynddynt; y mae Duw hefyd ynddynt: a thrwyddynt yr wyf yn dysgu dehongli, sylweddoli, ac adnabod Duw. Ar wahan oddiwrthyt ni fyddai Duw ond gwagder; ar wahan oddiwrth Dduw ni fyddent hwythau ond cysgodion, dim ond posibilrwydd. Mae eu gweithrediad yn cael ei wneyd yn wirioneddol gan yr eiddo Ef. Ei ddyfodiad Ef i fy mywyd i sydd yn ei wneyd yn fywyd. Efe sydd yn gyrru ymaith hunllef y drygioni a fu; ei gyffyrddiad Ef sydd yn bywhau, yn cychwyn y rhedlifoedd bywiol, yn deffro y cymbellion i addoliad a gwasanaeth. Felly y dysga Paul: "Yr hyn a ellir ei wybod am Dduw sydd eglur ynddynt hwy, canys Duw a'i heglurodd iddynt." Hynny yw, y mae y datguddiad allanol a thumewnol yn amodi y naill y llall. Neu, fel y mae Jacobi yn gosod y peth: Mae cydsain y naill yn cael ei lafariad yn y llall; ac felly y mae y gair, datguddiad Duw, yn cael ei wneyd yn gyflawn. Mae y Duw nid adwaenir, yr Hwn gynt a wasanaethwn mewn anwybodaeth, os o gwbl, yn dyfod yn adnabyddus i mi. Y mae wedi dyfod yn sylweddoldeb; yr ydwyf wedi ei gael Ef. "Os gallent ymbalfalu am dano ef, a'i gael, er nad yw efe yn ddiau nepell oddiwrth bob un o honom." "Yn rhy ddiweddar," felly y tywallta Awstin ei enaid allan yn o'i gyfarchiadau rhyfeddol: "Yn rhy ddiweddar y cerais i Di, O Dydi Brydferthwch yr hen ddyddiau, eto Bythol Newydd! Yn rhy ddiweddar y cerais i Di! Ac wele, yr oeddit Ti i mewn a minnau allan, ac yno y chwiliais am danat Ti; wrthun myfi, yn rhuthro i ganol y ffurfiau teg hynny oeddit Ti wedi greu. Yr oeddit Ti gyda mi, ond nid oeddwn i gyda Thi. Yr oedd pethau yn fy nal ymbell oddiwrthyt Ti, y rhai, os nad oeddynt ynot Ti, nid oeddynt o gwbl. Ti a elwaist ac a waeddaist ac a dorraist fy myddardod. Ti a anadlaist berarogla, a thynnais innau anadl a dyheais am danat Ti. Archwaethais—ac yr ydwyf yn

newynnu ac yn sychedu. Cyffyrddaist a mi, a llosgais am Dy heddwch.* Ie, felly: Duw yn cyffwrdd â mi nes y mae fy mod ar dân ganddo Ef ei Hun. Duw ym meddwl ei Hun i fy meddyliau i; Duw yn ei garu ei Hun i fy nghariad i; Duw yn ei fyw ei Hun i fy mywyd i,—dyna ddatguddiad, dyna grefydd, dyna Gristionogaeth, dyna fywyd! “Gyda Thi y mae ffynnon bywyd; yn dy oleuni Di y gwelwn oleuni.” Yr hyn a welaf fel sylweddolrwydd goleu, diambenol, yr ydwyf yn ei weled yng ngoleuni Duw. Yn yr ymfrydiad yna o eiddo Duw, y goleugylch Dwyfol yna, yr ydwyf yn darweled, yn myfyrio, yn credu, yn addoli. Mae llewyrchiad Duw oll o'm hamgylch a thrwof; yn y llewyrchiad yna yr wyf yn gweled ac yn credu. Mae cynhesrwydd Duw oll o'm hamgylch ac o'm mewn; yn y cynhesrwydd yna yr wyf yn teimlo. Mae cariad Duw yn llifo dros fy mod; yn y cariad hwnnw yr ydwyf yn caru.

Mae ein gweithrediadau personol fel yma yn cyfateb i weithrediadau personol Duw. “Yr ydym ni yn caru am iddo Ef yn gyntaf ein caru ni.” Y mae ymwybodolrwydd Duw yn dyrchafu, yn dyfnhan, yn ehangu y teimlad o'n hymwybodolrwydd personol ni; ac yn yr ehangiad a'r dyrchafiad ar yr olaf, y mae Duw yn dyfod yn gredadwy, yn wybyddadwy, yn wirioneddol. Urddas personoliaeth mewn dyn, gwirioneddolrwydd personoliaeth yn Nuw—mae y naill yn amodi y llall. Ymhob datguddiad rhaid i Dduw gael ei ddehongli trwy yr enaid. Mae yr ymddatguddiad allanol o Dduw o angenrheidrwydd yn dyfod yn gyntaf; ond nis gall hwnnw ddyfod yn ddatguddiad cyflawn ond trwy ddehongliad a pherchenogiad tumewdol. Nid ydyw Duw yn dyfod yn rhan o honof fi ond trwy i mi gyfranogi o hono Ef.

Y mae Unweithiad a Chydweithiad—*Monergism and Synergism*—yr un mor wir, ac y mae y naill yn angenrheidiol i'r llall. Heb yr Unweithiad, sef yr Egni Dwyfol cyntaf, ni all fod Cydweithiad; hynny yw, ni all fod egni cydweithiol yn cyfateb ar ran y cydweithydd dynol. Heb gydweithiad, neu y cydweithydd dynol yn cydweithredu, ni chyrhaeddai yr unweithiad ei amcan, canys y mae i'e yr Egni Dwyfol, yn cael ei raddoli gan yr hyn y gweithia ynddo. Ni all yr Egni Dwyfol yn y prif gyrraedd mesur yr Egni Dwyfol yn Awstin, neu Luther, neu Wesley. Mwyaf y dyn, mwyaf y Duw oddifewn iddo; mwyaf y Duw oddifewn, mwyaf y dyn. Y mae anghytyb neu *baradox* ein Harglwydd, “Y dichon Duw o'r meini hyn gyfodi plant i Abraham,” yn wiunedd diwrthddadl, ond gwirionedd gormodiaith ydyw. Fel mater o ffaith, nid ydyw Duw byth yn codi pendefigaeth ysbrydol o feini marw. Ond fel y dengys Paul, y mae had Abraham yn cymeryd i mewn y rhai hynny, a'r rhai hynny yn unig ag ydynt o ffydd Abraham (Gal. iii. 7); a ffydd Abraham, fel y dengys yr un Apostol, ydyw yr amlygiad uchaf o nerth ysbrydol a welodd y byd erioed; y gweithrediad ardderchocaf sydd yn bosibl i bersonoliaeth feidrol. Trwy y gweithrediad yna, fel y dengys yr Apostol Iago hefyd (ii. 23), cyrhaeddodd Abraham yr urddas personol uchaf y gall dyn ymestyn ato. “Credodd Abraham i Dduw, . . . a chyfaill Duw y galwyd ef.”

Gwirionedd cyferbyniol a gawn yn y ddsgeidiaeth ysbrydoledig ein bod yn cyrraedd Gweledigaeth Duw trwy hunan-buredigaeth personol. “Dilynwch y sancteiddrwydd, heb yr hwn ni chaiff neb weled yr

* Confessions. Book X.

Arglwydd." "Gwyn fyd y rhai pur o galon, canys hwy a welant Dduw." A chymaint a gynhwysir yn y datganiad rhyfeddol hwnnw o eiddo ein Harglwydd: "A hyn yw y bywyd tragwyddol, iddynt dy adnabod Di, yr unig wir Dduw, a'r Hwn a anfonast Ti, Iesu Grist!" Sylwch ar y gair! Yr adnabyddiaeth uchaf sydd yn bosibl o Dduw, yr adnabyddiaeth o Dduw yn arbenigrwydd a gwirioneddolrwydd ei fod, ydyw bywyd; nid rhyw un gweithrediad o fywyd -nid bywyd dealltwriaethol yn unig, nid bywyd moesol yn unig, ond bywyd ei hunan yn ei lawnder cynhenid a hollol; bywyd tragwyddol, y perffeithrwydd, y mwyafswm o fywyd, bywyd ar ei uchaf, ei hwyaf, ei helaethaf, ei orew. Ond sylwch, ymbellach, ar y datganiad cyflawn! "Hyn yw y bywyd tragwyddol, adnabod Duw a'r Hwn a anfonodd Duw, sef Iesu Grist." Adnabod Duw, hynny yw, yn yr amlygiad eithaf o hono ei Hun, yn y corfforiad penodol, hanesyddol, personol o'i berffeithiau a'i fwiadau yn Iesu Grist.

Ac yma yr ydym yn taro ar galon Cristionogaeth fel Crefydd y Cnawdoliad. Fel y dywedwyd eisoes, nid yw Cristionogaeth yn arbennig yn Grefydd Pethau, yn grefydd dansoddiadau a daliadau, ond o Wirioneddolrwydd Personol. Y mae felly yn neillduol yn ei datguddiad o Dduw. Mewn Cristionogaeth y mae genym, os gallaf ddweyd felly, yr eithaf o'r Bersonoliaeth Ddwyfol. Mae Crefydd Natur yn rhoddi i ni, yn wir, Dduw personol; ond mae y gwirionedd hwn yn cael ei beryglu yn barhaus gan dueddiadau ein dynoliaeth bechadurus, gan anthropomorffiaeth neu ddynweddiant isel, pantheistiaeth amhenodol, materolaeth arw, amheuaeth arwynebol. Hyd yn oed mewn Iuddewaeth, fe gollir y Bersonoliaeth Ddwyfol mewn Deddfoldeb Ddwyfol. Mae y Ddeddf ei hun, trwy yr hon y mae Duw yn llefaru, yn dyfod rhwng y bobl a Duw. Wrth ddarllen Moses, y mae gorchudd ar eu calonnau. Ymhob man, mewn Paganiaeth ac mewn Iuddewaeth, y mae o hyd rywbeth yn eisieu i gadw y byd mewn cyffyrddiad â Duw. Rhaid i'r Goruchaf ddyfod yn is eto, yn nes at ddyn. Rhaid cael gweled wyneb-yn-wyneb y Dwyfol Ogoniant, rhaid cael teimlo galon-wrth-galon y Dwyfol Fywyd. Dyma y mae yr Efyngyl yn sicrhau i ni a gymerodd le yn y Cnawdoliad. Yng Nghrist tynnir ymaith y gorchudd. Efe yw yr olaf a'r mwyaf o'r Duw-ddatguddiadau. "Yr hwn a'm gwelodd i a welodd y Tad." "A Duw oedd y Gair . . . a'r Gair a wnaethpwyd yn gnawd, ac a babelodd yn ein plith ni." Yn y Logos Cnawdoledig mae y Bersonoliaeth Ddwyfol wedi dyfod yn sylweddolrwydd hanesyddol, gweladwy, clywadwy, teimladwy. "Yr hyn oedd o'r dechreuad, yr hyn a glywsom, yr hyn a welsom â'n llygaid, yr hyn a edrychasom arno ac a deimlodd ein dwylaw am Air y bywyd (a'r bywyd a ddatguddiwyd, ac ni a welsom ac ydym yn tystiolaethu, ac yn mynegi i chwi y bywyd, y bywyd tragwyddol, yr hwn oedd gyda'r Tad, ac a eglurhawyd i ni), yr hyn a welsom ac a glywsom yr ydym yn ei fynegi i chwi."

Crist ydyw yr atebiad ymarferol i anhawsterau a gwrthddywediadau ein huchaniaeth ddaearol yn ei damcaniaethau ynghylch y Bersonoliaeth Ddwyfol. Yng Nghrist yr ydym yn cael cymodiad gwirioneddol yr Anfeidrol â ffiniadau ymwybodolrwydd personol. Yng Nghrist fel personoliaeth hanesyddol, y mae y grêd mewn Duw personol yn peidio bod yn anghytyb resymegol anesboniadwy, ac yn dyfod yn sylweddolrwydd gorfoleddus a bywiocâol. Wrth ei draed Ef y mae ein Hamheuaeth yn syrthio i lawr mewn addoliad isel a sanctaidd, gan lefain allan, "Fy

Arglwydd a'm Duw!" Crist—pwy nis adlefa?—Crist ydyw corfforiad byw personol y Bod Goruchaf, y Bywyd mwyaf Perffaith. Ynddo Ef y mae Cyflawnder y Duwdod yn preswyllo yn gorfforol, ac ynddo Ef yr ydym ninnau wedi ein cyflawni. Allan o hono Ef y mae yn aros yr anfeidrol wagder, y tragwyddol anorffwys. "Fy nghalon a'm enwad y waeddant am y Duw byw." "O na wyddwn pa le y cawn Ef!" Felly y swnia cwynfan yr oesoedd, byrdwn athrist dynolryw.

Pa le y mae Duw?—cans rhaid i ddyn gael Duw. "Pa na byddai Duw fe fyddai yn angenrheidiol ei ddyfeisio." Ie, felly, Voltaire. Rhaid i feddwl gael Duw—Anfeidrol gyda'r Hwn nad oes Dudraw. Rhaid i addoliad gael Duw—Goruchaf na'r Hwn nad all bod Uwch. Rhaid i gydwybod gael Duw—Ewyllys Oruchaf, meistrolaeth hollol yr hon sydd ddeddf, y mae ei Hie yn fywyd a'i Nhage yn farwolaeth. Rhaid i gariad gael Duw—Perffeithrwydd cyflawn, am byth yn boddloni galluedd sydd yn ehangu, gobeithion sydd yn cynhyddn, ymestyniadau sydd o hyd yn myned yn uwch, gweithrediadau y bywyd tragwyddol sydd byth yn ehangu ac yn dyfnhau. O Dduw! Dduw! Dduw! Ple yr edrychwn am danat? Ple y cawn ni Di? Mae ein meddyliau yn dringo i'r ffurfafen: ple yr ydwyd Ti? Mae ein gweddïau yn esgyn i'r nefoedd; ple yr wyt Ti? Mae ein breuddwydion yn ymgodi goruwch yr anfeidroledau, ac yn ysgubo trwy dragwyddoldeb; ple yr wyt Ti? Mae ein damcaniaethau yn ymsuddo i heuliau tanllyd, dallol, goleuni; ple yr wyt Ti? Mae ein hanobaith yn ystormio y tywyllwch, ac yn tramwy ddyfnderoedd diarffordd dirgelwch; ple, O ple yr ydwyd Ti?

Ah! fy enaid, nid fel yma y cei afael ar Dduw, nid fel yma yr ai i mewn i'th orffwysfa. "Y mae y cyflawnder sydd o ffydd yn dywedyd fel hyn: Na ddywed yn dy galon, Pwy a esgyn i'r nef? Hynny yw, dwyn Crist i wared; neu pwy a ddisgyn i'r dyfnder? Hynny yw, dwyn Crist i fyny oddiwrth y meirw. Eithr pa beth a ddywed? Mae y gair yn agos atat, yn dy enau ac yn dy galon; hwn yw gair y ffydd yr hwn yr ydym ni yn ei bregethu." Gwaedda Phylip allan; "Arglwydd, dangos i ni y Tad, a digon yw i ni." Ateba yr Iesu: "A ydwyf gyhyd o amser gyda chwi, ac nid adnabuost fi Phylip? Y neb a'm gwelodd i, a welodd y Tad; a pha fodd yr wyt ti yn dywedyd, Dangos i ni y Tad? "A hwy a alwant ei enw Ef Emmanuel." Duw gyda ni! Duw yn ein canol ni! Duw ar y ddaear; ymysg dynion; ei Hunan yn ddyn; yn ymostwng i'r dyfnderoedd; yn ymgodi i'r uchelderau; yn dwyn beichiau dynoliaeth; yn cyfranogi o waeau'r byd; yn wylo dagran dynol; yn llewygu gan wendid y cnaud; yn tywallt allan waed dynol; eto yn dwyn i wendid ac euogrwydd a thrueni daear, yn dwyn i fywyd archolledig dyn ymostyngiad, cydymdeimlad, nerth, doethineb, cyflawnder, sancteiddrwydd, cariad ac Oll yr Anfeidrol Dduw! A hyn gen-nym, beth sydd arnom eisieu mwy? Os nad yw Duw yma, ple y cawn ni Ef? Crist! am yr Anfeidrol yma o ddoethineb, gallu, cyflawnder, cariad, ple y gall meddwl gael Tudraw iddo? Crist! ym mhresenoldeb y Goruchaf yma, ple mae yr Uwch a all geisio ein haddoliad? Crist! pa Feistr arall a all byth hawlio neu eunill ffyddlondeb yr enaid sydd yn gwisgo ei iau Ef? Crist! pa Berffeithrwydd llawnach, mwy, a all byth ddenu ein cariad oddiwrth Ei hawddgarwch anfeidrol? Crist! beth mwy all Duw fod i ni nag ydyw Crist? Ymha beth y gall Duw wneyd mwy i ni nag a wna Crist? Mae datganiad Crist yn esbonio am byth ddirgelwch personoliaeth, pa un bynnag ai yn Nuw ai mewn dyn. Mae Efe yn gosod

dyn mewn moddiant o Dduw. "Yr hwn y mae y Mab ganddo y mae y Tud ganddo." Mae Crist yn gosod dyn mewn moddiant o'r ddyroliaeth fwyaf Dwyfol. "Cynifer ag a'i derbyniasant Ef, iddynt hwy y rhoddodd Efe hawl i ddyfod yn feibion i Dduw."

Mae y Bywyd Dwyfol yn ei holl ffurfiau a'i amgylchiadau fel ymā yn canolbwyntio yng Nghrist, yn pelydru allan o hono Ef. Mae Crefydd yn cyrraedd ei hamlygiad uchaf yn y Bywyd Dwyfol-Ddynol hwn. Mae Cristionogaeth yn moddwl Crist. Mae Duwinyddiaeth yn yr Ysgrythyr yn gyntaf ac yn bonnaf yn Gristionogaeth. "Ni welodd neb Dduw eriood: Duw unig-anedig, yr Hwn sydd ym mynwes y Tad, hwnnw a'i hysbysodd Ef." Athrawiaeth Duw ydyw athrawiaeth—hynny yw, yn iaith yr Ysgrythyr, dysgeidiaeth, deongliadaeth Crist; nid daliad ynghylch Crist, ond dysgeidiaeth bersonol Crist ei Hun. Ac nid yw Cristionogaeth ddysgeidiaeth Crist yn unig, ond yr Oll o Grist. Nid, yr wyf yn dweyd eto, rhywbeth ynghylch Crist, ond y Crist Byw yn ei brofi ei Hun trwy ei bresenoldeb personol a'i waith personol yn y byd. Nid yw Cristionogaeth yn Beth,—daliad, cyfundrefn, gweithrediad, ond person; mae Cristionogaeth unwaith a thrachefn yn golygu Crist. Nid yw yr Eglwys yn Beth,—peiriant, neu drefniad; mae yr Eglwys yn golygu Crist, oblegid "ei Gyflawnder Ef" ydyw, "yr Hwn sydd yn cyflawni oll yn oll." Nid ydyw y Beibl yn Beth,—nid y llythren, y llyfr, ond yr Ysbryd; "a'r Arglwydd ydyw yr Ysbryd." Mae y Beibl yn golygu Crist. Bywyd y Gair Ysgrifenedig ydyw y Gair Personol byw. Mae y gwirionedd yn golygu Crist, yr oll o Grist. "A rannwyd Crist?" Ow! Paul, do. Yng Nghorinth? Iē, ac yn Antiochia ac Alexandria, yn Rhufain ac yn Geneva, yn y ganrif gyntaf ac yn y bedwaredd ar bynthege. Rhanasom y Crist Byw i arddangosiadau hanerog, daliadau hanner byw ynghylch Crist. Mae arnom eisien unwaith eto bersonoli ein gwirioneddau a'n crediniaethau, i gael yng Nghrist y y cnawdoliad tragwyddol, y personoliad byw o wirioneddau a sylweddau inawrion ein ffydd.

Y mae galwad ddifrifol am dduwinyddiaeth y bo Crist yn ganolbwynt ac yn fesur iddi. Yr wyf o galon yn ymuno yn yr alwad. Crist yn ganolbwynt; Crist hefyd fel amgylchedd, yn mesur a'i anfeidroldeb ei Hun bob gwirionedd sydd yn dyfod allan o'r canolbwynt. Nid oes yr un mesur llai na'r Crist-fesur yn ddigon i unrhyw ffaith neu wirionedd mewn Cristionogaeth. A ydym yn ymofyn ynghylch bwriad tragwyddol Duw. Gadewch i ni geisio y dehongliad a'r mesur yng Nghrist. Penarglwyddiaeth, etholedigaeth, arfaeth? Mae pob un yn aralleiriad o Grist. Beth bynnag a feddylia Crist y mae penarglwyddiaeth yn meddwl hynny. Lle bynnag y cyrhaedda Crist, y mae gras yn cyrraedd yno. Mor fawr ag a allai Crist fod, mor fawr ydyw bwriad gwaredigol Duw. Nid rhyw beirianwaith Ddwylol yn unig ydyw yr Iawn,—cyfweiddiad medrus ar bethau, neu fantoliad ar gyferthion. "EFE yw yr Iawn dros ein pechodau ni." CRIST yn yr adwy, Crist yn llanw y gagendor o'nadwy a wnaed trwy bechod, CRIST yn cyrraedd yr holl ffordd oddiwrth y troseddwr crynedig at yr Orseddfaine gyda'i tharanau tragwyddol. Nid yw Prynedigaeth yn ffurf yn unig, neu feddyginiaeth allan o feddygdy Dwyfol. Trwyddi oll, gallu personol Crist ydyw. Mesur Crist, ei bersonoliaeth, ei waith a'i fywyd personol,—dyna fesur y pryndegaeth. Efe sydd yn rhoddi ei lled a'i hyd a'i huchder a'i dyfnder. Pryndegaeth ydyw Crist. Efe yw yr Oll o honi. "Yr ydych chiwi o hono Ef yng

Nghrist Iesu, yr Hwn a wnaethpwyd i ni yn ddoethineb gan Dduw, a chyfiawnder, a sancteiddrwydd, a phrynedigaeth." Sylwch yn dda ar y geiriau: fe wnaed Crist yn Ddoethineb, ac fe wnaed Crist yn Gyfiawnder, ac fe wnaed Crist yn Sancteiddrwydd, ac fe wnaed Crist yn Brynedigaeth. Nid credo ydyw ein doethineb, ond Person; nid ansawdd yn unig ydyw ein cyfiawnder, ond Sylweddolrwydd Personol; nid gweithrediad amheronol ydyw ein Sancteiddrwydd, ond Bywyd Personol; nid trefniad goruwchnaturiol i gadw bywyd ydyw ein prynedigaeth, ond Duw Personol, yn gosod ei Hun yng ngwaith iachawdwriaeth. Mae ffurfiau, credôau, trefniadau, sefydliadau, pethau o ba natur bynnag,—yn burion yn eu lle, ond ailraddol ydyw y lle hwnnw. Crist yn gyntaf—fe ganlyna y lleill oll.

"Myfi yw y Ffordd, y Gwirionedd, a'r Bywyd." Frodyr, gan ein bod yn dechreu ar waith ein blwyddyn athrofaïol newydd, gadewch i ni gymeryd yr ymadrodd yma fel ein harwyddair. Gadewch i ni wneyd Crist ein Ffordd, ein llwybr ymhob llinell o ymchwiliad, y *chart* wrth ba un y penderfynwn bob cam, y dull trwy pa un yr ymdrechwn am bob nod, athroniaeth ein bywyd, ein dyledswydd, ein tynged. Gadewch i ni wneyd Crist ein Gwirionedd; Gwirionedd nid fel dansoddiad rheasmegol, ond fel Dwyfol Personoliad; y Gwirionedd sydd yn galon yr oll sydd wir, cnewyllyn pob uniondeb, sylwedd pob sylweddolrwydd,—yr hyn a welwn gyda llygad Crist, a brofwn wrth feddwl Crist, a wnawn yn rhan o honom ein hunain trwy Ysbryd Crist. Crist ymhob gwirionedd, nes y daw yn ddatguddiad o'r Gogoniant aunnhraethadwy! Bydded ein hamcan, nid i ddysgu ynghylch Crist, ond yn ol gair Paul, "i ddysgu Crist." Gwnawn Crist ein Bywyd; egwyddor a deddf ein byw; swm ein holl fodolaeth, ein perchenogaeth, ein gwneyd. Bydded yr oll o, trwy, yn, i Grist. Ein hymostyngiad i ereill, ein hymgysegriad i ddynoliaeth, bydded er ei fwyen Ef. Yr hyn a wnawn i ni ein hunain, bydded er Crist. Ceisiwch y wybodaeth lawnaf a manylaf—er Crist! Y diwylliad ehangaf—er Crist! Dadblygiad helaethaf a mwyaf nerthol eich galluedd a'ch cynheddfau—er Crist. Cristionogaeth personol wedi ei thrawsffurfio i'r personoliaeth Gristionogol fwyaf ardderchog—yr oll o'r mwyn Crist! "Deffro, di yr hwn wyt yn cysgu, a chyfod oddiwrtu y meirw, a Christ a lewyrcha arnat ti." O am y deffrod yna! Allan o'n holl dywyllwch a'n gwendid, ein fferdod a'n marwolder, i oleuni, cynhesrwydd, nerth a gogoniant y CRIST-LEWYRCHIAD gogoneddus yna! Bydded cael llewyrchu felly gyda Christ eich braint a'ch gwasanaeth goruchaf.

Y PRIFATHRAW D. CHARLES DAVIES, M.A.

FE aeth yn gynnwrf ymblith engyl Nef
Ar un o ddyddiau tywyll Gwalia wen,—
Y Sadwrn hwnnw. O'r "tu fewn i'r llen"
Prysur ymwibient gylch Ei Orsedd Ef!

Naill wrth y llall sibrydent oll yn syn,
A thrwst eu hedyn donnai awyr Duw:
Gofynnais innau—"Engyl, Pa beth yw?
Ai dathliad genedigaeth cerub gwyn?"

“Na,” meddent hwythau, “Enaid tanlli, mawr,
Sydd newydd gyrraedd yma atom ni
O Fryniau Cymru,—o’ch Hathrofa chwi,
A’i drem mor sanctaidd â goleuni’r wawr.

“Roedd twr o Gymry yn ei groesaw ef
O’r Afon ddofn,—cryf Dywysogion Duw :
Ac O’r llawenydd ar y Glannau gwiw,
Cwrdd hen gyfeillion yng ngoleuni’r Nef !

“Ei wedd oedd addfwyn,—eto yn llawn hoen,
A’i lygad gloew’n llawn o’r wawrddydd dlos :
Ac ar hyd llwybr gwyn—rhwng dwyfol rôs—
Aeth *ar ei union* at yr Addfwyn Oen.

“Nis clywsom ni’r ymddiddan rhyngddynt hwy,
Ond gwelsom wên yr IESU ! Gwelsom hyn,
Mai ‘disgybl anwyl’ oedd—a wnaed yn wyn
Wrth bwysio ar y Fynwes gafodd Glwy !

“Roedd megis hen ddinesydd yn y Wlad,
Pan laniodd yma. A chyfarwydd drem
Y dringai dyrau glân Jerusalem—
Hen dyrau Seion—tyrau GWIR ei Dad !

“Doedd gennym ni ond synnu ato’n wir,—
Mor dra chartrefol ar y tyrau hyn,
Fry Gyda Duw,—drwy’r Unigeddau gwyn
Yn gwrando miwsig y Distawrwydd pur !”

O engyl cain ! Da y dywedwch chwi !
Adwaenem ninnau wyneb gwron Duw :
Ein Dafydd Frenin oedd,—ein Hathraw gwiw,—
Gwag yw Trefecca heb ei wênau cu !

Ein “telyn” sydd yn “alar” byw o’i ol,
“Fel llais rhai’n wyllo” ar ol tyner Dad :
Ac ail i Rama drist yw Cymru fad—
Gwlad y proffwydi—wedi colli’i Saul.

Hawdd gellwch chwi, angylion, byncio Salm :
Blodeu Calfaria sy’n prydferthu’r Nef.
I ni, mae gofid dwys o’i farw ef—
Pwy a’n cysura ? Pwy rydd inni falm ?

Mae peraidd adgof gyda’i gwpan llawn
Yn gweini arnom,—henffych, ddafnau pur !
Ond *nid yw’r Athraw yma*, gyda’i glir
Welediad pell yn dweyd am Grist a’i Iawn !

Nis gallsem lai na’i garu, wynnaf sant !
Ei fwyn edrychiad oedd fel toriad dydd
O fyd Gwirionedd. Cadarn oedd mewn ffydd,
Ac eto’n syml fel myrtwydd yn y pant.

Tywalltwyd grâs ar ei wefusau ef,
A’i enw oedd “fel ennaint” yn ein plith :
Ei eiriau’n loew fel y bore wlith
Yn adlewyrchu pur Feddyliau’r Nef !

Ysbrydoledig ddyn! a "meddwl Crist"

Yn llond ei enaid, yn sancteiddio'i well;

Yn rym i'w fywyd; yn awchlymu'i gledd
I daro'r anwir i gywilydd trist!

Y cawr-athronydd Cristionogol, clir,

A phrif-feddyliwr Cymru! Syllu'n iach

Wna'i feddwl treiddiol i'r "anfeidrol fach,"

Gan dafu goleu ar fân-geinciau'r Gwir.

Ym myd Amheuaeth gwnai ddaeargryn mawr,—

Daeargryn digon cryf i ysgwyd byd

O hono'i hunan! Ei ddarlithiau drud

A siglant gyfundrefnau gweig i'r llawr.

Y coeth bregethwr, addfed, ynddo gaed;

Nid twrf, nid mell, ond dylif gwawr y Nef

Oedd ei bregethau; ddistaw-hyawdl lef,—

Fel *meddwl nebth* yn siarad—am y Gwaed!

Fe rodiai'n wastad "ganol llwybr barn,"

A thyfai meillion Nef yn ôl ei draed;

Arweinydd meddwl Cymru ynddo gaed,—

A i bur ddylanwad ddeil Oleuni'r Faru.

Ar *fod*, ac nid *ymddeugos*, rhoes ei fryd;

Ac ymorffwysai'i enaid mawr mewn gwaith;

Poen, peidio meddwl—dyna oedd ei iaith,—

Meddwl am Dduw a'i Ryfeddodau drud.

Ac yn ei *ddosbarth*,—oedd ddysgawdwr derch:

Ni welid gŵg ar ei wynepryd ef,

Ond gwên sancteiddiol, awdurdodol Nef

Yn dal ein sylw,—yn llwyr fynd a'n serch!

Y dosbarth *duwinyddol*,—O mor llawn

O nef a goleu oedd,—fe' mynydd can

Gan weddnewidiad! Yntau ar y ban

Yn arwain ein meddyliau at yr Iawn.

Ar *urddus* dyn, ar *fawredd* "llwch y llawr,"

Pwysleisiau'n aml; a dyna wers ei oes:

Dyn tlawd yn sefyll yng ngoleuni'r Groes,

A'i gân yn llanw'r Tragwyddolfyd Mawr!

Yn y Cymundeb Sanctaidd lawer tro,

Do, meddylasom buasai "cwmwl gwyn"

Yn ei gymeryd: tybiem bron pryd hyn

Mai'r IESU'i Hunan oedd o'r Nefol Fro!

Ein calon oer o'n mewn yn llosgi gaed

Yn swn ei eiriau grasol yn y cwrdd;

Chwenychem godi'n pepyll gylch y bwrdd

I fythol aros mwy dan Nawdd y Gwaed!

O Anwyl Athraw! Gogoneddaf Dduw

Mewn adgof pur am danat ti o hyd:

Dy fwyn gynghorion fel angylion clyd

A'm hamgylchynant, nes dod yna'i fyw!

Trefecca oedd dy bopeth ar y llaw
 Cyn it ymadael am y Wynfa fry :
Popeth Trefecca hefyd oedit ti,—
 Fe'th nosiem di yn ol â'n dagrau'n awr !

"Hyd oni chw'rddwn," farwel, Athraw mwyn !
 Ti fuost ini'n Dŵr, yn Frawd, yn Dad :
 Ac yna'n addfed disgyn wnest i wlad
 Y Mawr Berffeithrwydd a'r Tragwyddol Swyn !

Dwy aden fel Colomen gefaist ti ;
 O gopa Nebo hedaist at y Gwr
 Fu farw ar y Croesbren ! Hwnt i'r Dŵr,
 'Rwyf yn dy elfen gyda'r IESU eu !

O gadarn IOR ! Mae gweddi Cymru wen
 Yn engyn atat âg wylofus gri,—
 Cwmpodd y cedyrn—AROS GYDA NI :
 O ! llanw'r bwch Dy Hunan Mawr ! Amen.

Trefecca.

JOHN T. JOB.

NODIADAU LLENYDDOL.

The Doctrine of the Holy Spirit. The Ninth Series of the Cunningham Lectures. By GEORGE SMEATON, D.D., Professor of Exegetical Theology, New College, Edinburgh. Second Edition. T. & T. Clark. 9s.

CYFFIRIADOM mewn nodiad helaeth at y gwaith pwysig hwn ar ym-ddeughosiad yr argraffiad o hono yn y flwyddyn 1882 (TRAETHODYDD 1883, l.l. 249 252). Mae'n gysur meddwl fod galwad am ail argraffiad o waith ar fater mor fawr, gwaith sydd wedi talu i lawer mor dda am ei astudio, a gwaith y mae iddo, ni a hyderwn, lawer o wasanaeth gwerthfawr i'w wneuthur eto yn y byd. Nid ydyw y cyfnewidiadau a wnaed yn yr argraffiad presennol, er yn ei wneyd mewn rhai ystyriaethau yn fwy perffaith, ond cymariaethol ddbiwys. Mae y llyfr yn un gwir dda. Mae wedi ei drefnu yn dair rhan. Ceir y gyntaf yn Arweiniol, ac yn gosod allan athrawiaeth yr Hen Destament a'r Newydd ar bwnc mawr y Drindod. Mae yr ail ran yn rhoddi yr hyn a ddysgir yn y Gair am yr Ysbryd Glan, gan ymdrin yn gyflawn a meistrolgar ar ei bersonoliaeth a'i ddealliad, ar ei waith yn enciniad Crist, ar ei waith mewn cysylltiad â datguddiad ac ysbrydoliaeth, ar ei waith mewn adenedigaeth, arno fel Ysbryd sancteiddiad, ac ar ei waith yn yr Eglwys. Mae y drydedd ran yn rhoddi'r brof hanesyddol ar yr athrawiaeth am yr Ysbryd Glan o ddyddiau yr Apostolion hyd yn awr. Ymhob yn o'r arweddion yma i'r testun mawr, fe'gari llawer o ddarllenwyr y TRAETHODYDD ei crydu dan arweiniad gwr sydd wedi ei astudio mor dda a'i feddwl mor drwyadl. Mae y drem hanesyddol ar yr athrawiaeth yn ddyddorol iawn. Nid allai ar unrhyw adeg fod Eglwys i Grist heb yr Ysbryd Glan, ac y mae yn dra addysgiadol gweled yr olwg a gymerid arno, pa un bynnag ai yn ymarferol, fel y mae yn gyfrannydd a pherffeithydd y bywyd ysbrydol, ai yn ddamcaniaethol fel yr ymdrechid i ddeall a phenderfynu yr athrawiaeth mewn perthynas iddo. Mae llawer yn dueddol i edrych ar y pethau hyn yn dra di-ystyr, gan eu cymeryd yn unig fel geir-ddadleuon nad allent ond gadael pethau yn yr un fan. Ac yn sicr y mae ysbryd

cyndyn ddadleu wedi cael llawer o rwysg hyd yn oed gyda'r pethau mwyaf cysegredig. Ond i efrdydd meddylgar y mae yr ymbalfaliadau am y gwirionedd a ddanghosir yn y trafodaethau hyn yn llawn dyddordeb ac addysg. Pan y mae dynion o gymeriad pur ac o alluoedd mawrion yn cysegru eu blynyddoedd goreu i geisio cael allan beth a ddylid gredu gyda golwg ar y materion pwysicaf y mae yn bosibl i ni feddwl am danynt, y mae yn ormod i rai na chymerasant erioed hamdden hyd yn oed i dafu cipolwg ar faes eu llafur, edrych arnynt fel plantos yn bwhtman, ac mewn ton anffaeledig ddatgan yr hyn a farnant hwy yn wirionedd, gan ddisgwyl i bawb dderbyn eu geiriau fel lleferydd yr oracl. Mae efrdyiaeth onest o'r pethau mawrion fel y maent yn cael eu gosod ger bron yn y fath waith â hwn, yn ein dwyn i ymdeimlo a mawredd gwirionedd Duw ac a'n bychander distadl ein hunain, nes dyfod fel y bardd Llydawaidd i gydnabod ger bron y Dwyfol Fawrhydi Fod ei fôr Ef mor fawr, a'n cwch ninrau mor fychan,—ac am hynny i erfyn am ei amddiffyn a i arweiniad.

The Life, Teaching, and Words of the Lord Jesus Christ, arranged as a Continuous Narrative of the Four Gospels, according to the Revised Version. By GEORGE WYLD, M.D. Second Edition. London: Oxford University Press Warehouse. 2s.

CYFROL ddestlus a gwerthfawr, cyfaddas iawn i fod wrth law yn barhaus ac i'w darllen yn feunyddiol. Amcana at roddi hanes ein Gwardwr yn gyflawn o'r pedair Efengyl,—yn ol Cysondeb Dr. Robinson. Mae yr awdwr wedi cymeryd llawer o boen, yr hyn ydoedd iddo, mae'n ddiau, yn llafur cariad,—i osod ynghyd y ffeithiau a'r dywediadau mawrion fel y rhoddir hwynt gan yr Efengylwyr, a hynny fel ag i wneyd un adroddiad cyflawn o'r holl hanes, yr hwn a roddir yn eu geiriau hwy eu hunain, a chan gyfeirio yng ngwaelod y ddalen at yr Efengylau y dyfynnir o honynt. Nid ydyw dynion byth yn blino darllen ystori pob un o'r Pedwar, gan gymeryd i fyny y syniad y rhoddwyd i'r naill a'r llall ei gyrrhaeddyd am y Person Bendigedig. Y mae hefyd i efrydwy'r yn dra dyddorol i ddarllen y pedair Efengyl wedi eu cyfleu yn gytochrog, a gweled fel y mae y naill hanesydd yn cyfleiwï diffyg y llall, ac fel y gwahaniaethant oddiwrth eu gilydd tra yn gosod ger bron, bob un yn ei drefn ei hun, y "pethau a gredid yn ddiameu yn eu plith." Ond fe deimlir fod mantais neillduol o gael yr hanes fel yma fel un adroddiad, i'w ddarllen o'r dechreu i'r diwedd, ac felly i geisio ffurfio syniad cyflawn am fywyd yr Hwn a ddaeth i'r byd i "ddangos i ni y Tad," ac am eiriau yr Hwn "na lefarodd dyn erioed" yn debyg iddo, y geiriau sydd, yn anaf pob geiriau a swniwyd erioed yng nghlustiau dyn, "yn fywyd ac yn oleuni."

The Cambridge Bible for Schools and Colleges.—*The Epistles to the Thessalonians, with Introduction, Notes, and Map.* By the Rev. GEORGE G. FINDLAY, B.A., Professor of Biblical Languages in the Wesleyan College, Headingley. 2s.

The Book of Psalms, with Introduction and Notes. By the Rev. A. F. KIRKPATRICK, B.D., Fellow of Trinity College, Cambridge; Regius Professor of Hebrew. Book I. Psalms I.—XII. 3s.

MAE y ddwy gyfrol yma wedi eu paratoi ar yr un llinellau â'r cyfrolau ereill o'r gyfres dra gwerthfawr hon, y rhai yr ydym bellach wedi cael yr hyfrydwch, amryw weithiau, o alw sylw ein darlennwyr atynt. Fe fydd yn amheuthyn gan lawer o'n cydwladwyr weled fod y Dr. Perowne, Esgob Worcester, a golygydd dysgedig a galluog y *Cambridge Bible for Schools*, yn gofyn i Mr. Findlay, Profeswr mewn Coleg Wesleyaidd, ysgrifennu i'w gyfres ar yr *Epistolau at y Thessalonïaid*. Fe fuasai yn beth tra rhyfedd gweled unrhyw Esgob yng Nghymru yn ymgymeryd o gwbl â darpar llenyddiaeth Feblaidd i'r bobl, ac fe fuasai ond odid yn rhyfeddach

fyth ei weled yn gofyn am gydweithrediad Ymneillduwr. Yr oedd ein cymydog Dr. Rogers yn rhy halogedig i wasanaethu yr Eglwys am ei fod wedi chwareu yr organ mewn Capel Ymneillduol ym Mhont Menai, er fod hynny yn cael ei wneyd yn unig trwy raslawn ganiatad y bobl a arferent addoli ynddo, ac er mwyn cael modd i helpu ymlaen addysgiaeth dau o ddisgyblion y cerddor enwog ei hunan. A phan ddarfu i weinidog Wesleyaidd, tua'r un amser, ofyn i Esgob Caer ddyfod i lywyddu mewn cynhadledd genhadol, lle y cynrychiolid gwahanol ganghennau o Eglwys Crist, gan ddybed, yn niniweidrwydd ei galon, y buasai yn dda ganddo gael cydymddiddan â brodyr yn yr Arglwydd am amcan oedd mor gysegredig yn eu golwg oll,—fe ymgroesai y prelad ardderchog rhag y syniad o ddyfod yn agos at y fath rai. Mae Esgob Llanelwy ar ambell i funud yn ceisio ei ddisgyblu ei hun i feddwl fod yr Ymneillduwr yn frodyr, ac yn dweyd y dylai efe a'i gyfeillion ymostwng i edrych arnynt felly. "yn enwedig y Methodistiaid Calfinaidd;" ond ei nod ef, fel yr eiddo ei frawd o Fangor, ydyw ein llyncu, neu ddwyn oddiamgylch yr 'absorption' y maent yn ddigon hyderus i obeithio ei weled. "And besides, that would be the likeliest way to bring them back to the bosom of the Church." Ond rhwng yr Eglwys a'r "Sismaticiaid" y mae gagendor mawr. Mae Dr. Perowne, sut hynnag, yn gallu camu drosto! Ac y mae y Profeswr Findlay wrth gydsynio a'i gais caredig yn gwneyd ei waith yn rhagorol. Mae gwaith Mr. Kirkpatrick ar y *Salmau*, yr un ffunud, yn hynod o werthfawr,—yn cynnwys mewn cylch bychan ac mewn ffordd ddarllenadwy frwyth llawer o ymchwiliad a llawer o feddwl.

The Smaller Cambridge Bibles for Schools. Price 1s. each Volume
The Book of Joshua with Map, Introduction, and Notes. By JOHN SUTHERLAND BLACK, M.A.

The First Book of the Kings, with Map, Introduction, and Notes. By the Rev. J. RAWSON LUMLY, D.D., Norrisian Professor of Divinity, Fellow of St. Catharine's College.

The Second Book of the Kings, with Map, Introduction, and Notes. By the Rev. J. RAWSON LUMLY, D.D.

The Gospel according to St. John, with Map, Introduction, and Notes. By the Rev. A. PLUMMER, M.A., Master of University College, Durham.

PWY na lawenhai wrth weled gweithiau fel y rhai hyn yn cael eu paratoi gan wyr dysgedig a galluog ar gyfer ein Hysgolion, yn gosod o flaen ein plant y wybodaeth oreu, wedi ei chyffleu yn glir a dealladwy, gyda mapiau ardderchog, a phob cymorth iddynt i gael syniad cywir am y rhannau o'r Gair a fyddont yn ddarllen, ac hefyd i osod at eu calon eu gwersi mawrion? "Llawer a gyniweiriant, a gwybodaeth a umhâ."

Bible Class Primers. Edited by Professor SALMOND, D.D., Aberdeen. Price 6d. each, in cloth 8d.—*An Exposition of the Shorter Catechism, Part First. Containing the Summary of Christian Doctrine.* By the EDITOR.

The Life of David. By the Rev. PETER THOMSON, M.A., St. Fergus.

The Story of Jerusalem. By the Rev. HUGH CALLAN, M.A., Glasgow. Edinburgh: T. and T. CLARK.

LLYFRAU bychain destlus a hylaw, a hynod o gymwys i'w rhoddi yn nwyllaw y rhai icuainc.

The Welsh Review. Edited by ERNEST BOWEN ROWLANDS. No. 2.

MAE y cyhoeddiad hwn yn dechreu ei yrfa gyda llawer o ynni, ac yn dangos amcan da. Erthygl ragorol sydd gan W. T. Stead ynddo ar *The Issue in the Forest of Dean.* Dengys fod ymgeisiaeth Syr Charles Dilke

am gael ei ddychwelyd i'r Senedd tra y mae y fath gwmwl du yn aros ar ei gymeriad, ac yntau—er wedi tystio drachefn a thrachefn na feddyliai am fywyd cyhoeddus cyn iddo yn gyntaf ei glirio ei hun—heb wneyd unrhyw ymgais at hynny, yn beth y dylai cydwybod y deyrnas godi yn ei erbyn. Condemnia Stead yn ddi-floesgwi y sêl a ddanghosir o'i blaidd gan weinidogion Ymneillduol y Forest of Dean, gan ddangos ei bod yn cymharu yn dra anffafriol ag ymddygiadau yr offeiriaid Pabaidd yn achos Parnell, &c. Ceir dwy erthygl — *Yr Eisteddfod*. Mae y gyntaf gan Marchant Williams, yr hwn sydd yn gwneyd gwawd o'i holl honiadau, ac ar yr un pryd, gydag aidd goleuedig "eisteddfodwr," yn gwaeddi unwaith a thrachefn, *Byw byth y bo hi*. Mae yr ail gan David Davies, y daeth ei enw mor adnabyddus ynglyn â Deddf Cau ar y Saboth, a'r hwn ar y mater yma, a gymer olwg dra rhesymol, gan ddadleu, os ydyw yr Eisteddfod i barhau, y dylai fod dan lawer amgen llywodraethiad, a i chyfaddasu yn llawer gwell i amgylchiadau presennol ein cenedl. Ond yr ysgrif bwysicaf o lawer yn y Rhifyn hwn ydyw atebiad W. S. Caine i erthygl Arglwydd Caerfyrddin yn y Rhifyn o'r blaen: *The Drink Question and Legislation*. Mae hwn yn fater y teimla Cymru, yn neillduol, ddyddordeb dwfn ynddo, a da iawn fyddai fod yr olwg a roddir arno yma, gan wr o allu a chymeriad uchel Mr. Caine, yn wybyddus i lawer o'n cydwladwyr. Fe gofir mai Arglwydd Caerfyrddin, yr hwn sydd yn *gin*-ddistyllydd, a fu yn ddiog cofn yn Nhy y Cyffredin i gynnyggwrthodiad mesur Mr. Bowen Rowlands ar Ddewisiad Lleol i Gymru. Ni ddarfu iddo gyrraedd ei amcan yn y rhaniad y tro hwnnw, er i'r Llywodraeth, yr hon sydd yn teimlo mor garedig at bobl y fasnach feddwol, lwyddo i lesteirio trafodaeth bellach ar y mater. Ond teimlai y "lordling of a gin-distiller,"—fel y cwynai efe yn y Ty fod rhai o bobl Brixton yn ddigon difoes i'w alw adeg yr etholiad,—fod yn dra phwysig iddo wneyd y mater yma yn berffaith glir, ac er mwyn cau genau Mr. Bowen Rowlands am byth ysgrifennodd erthygl i gyhoeddiad newydd ei fab. Baich ei erthygl oedd profi nad allai unrhyw weithred seneddol helpu y rhai nad allant ofalu am danynt eu hunain gyda golwg ar ddiodydd meddwol. Ei ddau bwynt mawr oedd: 1. Fod pob ymdrech flaenorol wedi faelu yn Mhrydain Fawr. 2. Fod Ataliad—lleol neu gyffredinol—yn y gwledydd y rhoddwyd prawf arno, wedi troi allan mor anffoddhaol fel na ddylem geisio ei fabwysiadu yn y wlad hon.

Mae Mr. Caine yn ei ateb yn wych iawn, ac y mae yr arglwydd bychan, er ei holl *gin*, yn torri ffigiwr hynod o druanaid yn ei ddwyllaw. Ni ddadleua Caine am funud nad ydyw yr ymdrechion a wnaed yn y deyrnas hon i atal anghymedroldeb wedi bod hyd yma i fesur helaeth yn aflwydd-iannus; ond dalia nad yw yn anodd cael y rheswm am hynny yn y 170,000 o dai sydd yn cael eu cadw yn agored i werthu diodydd meddwol, y rhai sydd yn barhaus yn gwneyd cymaint i lanw ein gwlad â phob trueni. Dadleua arglwydd y *gin* dros y "bobl sofr a pharchus a hoffant swm cymbedrol o adfywiad alcoholaidd;" i.e., dros y rheiny yn unig y gallai neb yngan gair; ond pan y mae yn amlwg i bawb fod y nifer anferth o dafarnau sydd yn llanw ein gwlad, yn ei llanw hefyd a thlodi, anwylodaeth, anfoesoldeb, troseddau, gwallgofrwydd, a dinystr, nid ydyw yn ormod, yn sicr, i ni gael gallu i ddweyd wrth y bobl sofr a pharchus sydd mor hoff o "alcoholic refreshment," fod diogelwch cymdeithas,—os rhaid iddynt ei gael,—yn galw am iddynt ei fynnu rhyw ffordd arall. Mae dadl ei arglwyddiaeth o'r *gin*-ddistyllfa am fethiant pob atahadau blaenorol ar y fasnach,—y rhai ydynt wrth reswm wedi gadael ei siopau hi oll yn agored,—yn rheswm o'r fath gryfaf dros dreio un cynllun arall, a *chau y siopau hynny*,—yn enwedig lle y ceir mwyafrif mor fawr â dwy ran o dair o'r boblogaeth yn galw am hynny.

Am fethiant Mesurau Ataliol yn y gwledydd lle y gwnaed prawf arnynt, nid ydyw yn ymddangos fod gwr y *gin* wedi gwneyd unrhyw ymchwiliad personol i'r mater, na'i fod wedi gwneyd nemor ychwaneg na

darllen ychydig erthyglau gan ryw Gail Robinson ac Edward Johnson, a gyhoeddwyd ryw saith neu wyth mlynedd yn ol; ond ar bwys yr awdurdodau amheus hymny, rhuthra i'r casgliad, "lle y byddo cyfartaledd o'r bobl a'u bryd ar gael adfywiad alcoholaidd, a lle y byddo cyfartaledd llai a'u bryd ar feddwi, fod yn sicr na fydd i'r Ddeddf Ataliol fwyaf llem leddfu, ond feallai hyd yn oed dueddu i fwyhau y drwg. Y mac Mr. Caine, fodd bynnag, wedi bod ym Maine ei hunan, a dyma ei dystiolaeth:—"Yr oeddwn ym Maine ddeng mlynedd yn ol. Yr oedd y Consul Prydeinig ar y pryd, wedi gwneyd adroddiad ychydig cyn hynny fod y ddeddf ataliol yn Portland, i bob diben ymarferol, yn llythrenfarw. Gelwais gydag ef. Sicrhaodd fi y gallai fy nghymeryd i ddwsin o leoedd lle y gwerthid diod mewn cyflawnder. Dywedais yrawn gydag ef ar unwaith. Aethom. Cymerodd fi i'r hotel lle'r oeddwn i fy hun yn aros. Aethom i fyny trwy ddrws cefn, i lawr ryw risiau cerrig i fynedfa dywell mewn seler, ymhen draw yr hon y troisom i ystafell lle'r oedd bwr hir ac ansyber. Cerddodd y Counsel yn hyf i fyny, a galwodd am lasiad o lager beer. Dywedodd y dyn oedd wrth y bar yn barchus fod yn ddrwg ganddo nad allai ei roddi, am fod ei holl stoc wedi cael ei chymeryd y bore hwnnw, a dirwy drom wedi ei gosod arnynt. Dymunai y Consul arnaf fynd gydag ef i le arall; ond yr oeddwn i wedi cael fy moddloni. Yr oedd gwerthwyr diod wedi eu gyrru i'w tyllau fel llygod mawr, ac yr oedd yr awdurdodau wedi bod yn llwyddiannus i'w trapio."

Onid yn lle rhoddi ychwaneg o ffrwyth ei ymchwiliad ei hun, na thynnu dim ar y cyflawnder o brofion sydd yn ein cyrraedd yn barhaus o'r talaethau ataliol eu hunain, y mac Mr. Caine yn cyfeirio at Adroddiad a gyhoeddwyd dan awdurdod Arglwydd Salisbury, yr hwn yn sicr a ddylai gael ei dderbyn yn barchus gan bawb. Ei deitl ydyw, "*A Report on Liquor Traffic Legislation in the United States*, Foreign Office Publication. No. 71. 1888." Dyma yr adroddiad awdurdodedig a geir yn y llyfr gwerthfawr hwn am Maine:—"Y mac canlyniadau Ataliad yn Nhalaeth Maine yn cael edrych arnynt gan Atalwyr fel yn dra boddhaol, ac nid oes dim symudiad ymhlaid diddymu y ddeddf. Mae yr holl ddarlawdai a distylldai wedi eu cau; mae y fasnach mewn diodydd meddwol wedi ei darostwng i ugeinfed ran ei maintioli blaenorol. Mae tafarnau yn anwybyddus yn y trefydd lleiaf a'r pentrefydd. Dywedir fod 12,000,000 o ddoleri yn cael eu harbed yn flynyddol a fuasent yn cael eu gwario ar ddiod. Mae yr helaethiad ar fasnach y Dalaeth yn cael ei briodoli gan rai i Ataliad. Y mac, sut bynnag, eto yn amhosibl rhoddi y fasnach i lawr yn hollol yn y trefydd mwyaf." Yn Vermont ar ol pasio deddf ataliol 1852, "gydag ychydig iawn o eithriadau, ni all neb wneyd na gwerthu diodydd meddwol." Yn Kansas, "mae y ddeddf yn cael ei chario allan yn gyffredinol, ac yn gweithredu er mantais fawr." Yn Alabama, "mae y lles i'r boblogaeth wedi bod mor fawr fel y mac gwrthwynebwyr blaenorol y ddeddf wedi newid eu barn, ac yn awr yn cynorthwyo er ei chario allan. Dywedir fod troseddau yn llai o'r drydedd ran er pan y mac Ataliad mewn grym." Rhydd yr Adroddiad engreiffitiau lliosog yn dangos mor fynych y mac trefydd bychain ac ardaloedd gwledig yn atal y fasnach. Yn Virginia fe ddywedir, tra y leisiau yn y trefydd bychain a'r ardaloedd gwledig yn ffafr Ataliad. Yn Nhalaeth boblog Georgia, y mac pob sir yn fotio bob tair blynedd pa un a ffafr Ataliad." A dywedir fod y canlyniad yn y siroedd lle y mac "Trwydded Uchel" wedi cael rhoi prawf arni mewn rhai siroedd, ond gan nad oedd y canlyniadau yn foddhaol, rhoddwyd hynny heibio er mwyn Ataliad. Mae troseddiadau bron yn gymaint dair gwaith yn y siroedd lle y gwerthir diod feddwol ag yn y siroedd lle y mac Ataliad mewn

grym. Dywed Consul ei Mawrhydi yn Savannah: "Fe ddelir, er bod y cyllid wedi diod tef oddiwrth Ataliad yn y siroedd, fod agoriad antur-iaethau newyddion a llwyddiant cyffredin y bobl yn gyffredinol, yn arwain i'r grediniaeth y bydd i ychydig flynyddoedd dan y drefn bresennol o Ataliad, chwaneu at, yn hytrach na lleihau y cyllid. . . . Mae canlyniad y ddeddf we'i bod yn farn dra chyffredinol yn ffafr Ataliad." Dywed yr Adroddiad hefyd "fod llawer o siroedd yn Texas wedi cyhoeddi eu humain yn Ataliol, a thros ballder o 400 o filldroedd fod y wlad hon yn gwbl yn Ataliol." Ac yn Alabama y mae Ataliad we'i ei gymeryd i fyny fwy neu lai mewn mwy na hanner siroedd y Dalaeth. Dywed y Consul ym Mobile "fod dirfawr leihad ar droseddau i w weled yn y Dalaeth, yn enwedig ymhlith y bobl dduon," a phriodola hynny i'r ataliadau ar werthiant diodydd meddwol. Mae y llyfr yr ydym i ddiolch am dano i swyddfa Arglwydd Salisbury yn cynnwys llawer o ffeithiau tra dyddorol ereill y byddai yn werth i Arglwydd Caerfyrddin a'i gyfeillion, cyn anturio eto i gymeryd rhan yn nabl Dewisiad Lleol i Gymru, "eu gwranddo, eu darllain, eu chwilio, a'u dysgu, ac o'u mewn eu mwynhau." A dweyd y lleiaf, y mae y tystiolaethau pwysig sydd i'w cael yma yn y fath gyflawnder yn ffafr Ataliad, yn dangos y gallai fod yn werth i Gymru, gan ei bod yn dewis hynny, gael cyfleustra i roi prawf ar yr un drefn.

Yr Aberthau. Gan y Parch. OWEN EVANS, D.D., Llundain. Dolgellau: W. Hughes.

DA gennym gael cyfle i alw sylw ein darllenwyr at y gwaith hwn o eiddo Dr. Evans. Y mae wedi ei gyhoeddi yn 1889, er mai yn diweddgar y digwyddodd ein cyrraedd ni. Mae enw Dr. Evans yn ddiogon o warant am ymchwiliad llawn, barn addfed, ysbryd efengylaidd, ac ysgrifennu clir a deniadol. Ni a i hystyriem yn arwydd er daioni fod y gyfrol hon hefyd o'i eiddo yn cael eu darllen gan lawer gyda gofal ac astudrwydd. Rhydd olwg werthfawr mewn rhagarweiniad ar Ddwyfol Ordeiniad y Ddefod o Aberthu. Yna rhanna ei lyfr yn dair rhan: y gyntaf yn trin am Aberthau yr Oruchwyliaeth Batriarchaidd; yr ail am Aberthau yr Oruchwyliaeth Foesenaidd; y drydedd am Aberthau yr Oruchwyliaeth Efengylaidd. Mae y pethau hyn yn cael eu trafod ganddo mewn dull sydd yn cymeryd i fyny yn gyflawn ddysegeidiaeth y Beibl gyda golwg arnynt ac yn eu gosod ger bron mewn ffordd glir, a darllenadwy, ac addysgiadol.

Hanes Emynwyr Cymru. Gan y Parch. W. A. GRIFFITHS, Sketty, Abertawe. Caeruarfon: W. Gwenlyn Evans. 2s. 6c.

Y MAE llawer o'n darllenwyr yn cofio yn dda am erthyglau gwerthfawr y diweddgar Mr Morris Davies o Fangor ar *Emynyddiaeth*,—dwy ar bymtheg mewn nifer,—a ymddangosasant yn y TRAETHODYDD yn y blynyddoedd 1868—1874. Gresyn na chyhoeddidd hwynt gyda'u gilydd. Y maent yn gynnrych dirfawr ymchwiliad, gan wr oedd yn meddu y cymwysterau uchaf at y gwaith; ac y maent, mae yn ddiameu, o werth parhaus. Y mae awdwr y gwaith hwn hefyd wedi gwneyd gwasanaeth da i'w gyd-wladwyr trwy gasglu a chyhoeddi y crynhodeb a geir ynddo o Hanes Emynwyr Cymru. Y mae yn rhoddi penodau ar wahan i Emynwyr y gwahanol enwadau crefyddol. Galleid meddwl ei bod wedi mynd yn llawn digon pell ar y dydd i gymeryd cymaint o ofal, mewn gwaith o'r natur yma, am fod pob sect yn cael y rhan a ddigwydd iddi o'r da hwn; ac y mae y drefn yma wedi gwneyd y penodau yn dra anghyfartal mewn dyddordeb, gan fod gofal yr awdwr am enwi bron bawb a wnaeth rhyw gais at gyfansoddi pennill o hymn, wedi cyfyngu mwy nag a ddylasai ar ei ofod pan yn sôn am rai ag y mae eu hemynau wedi gwneyd iddynt eu hunain gartref parhaus ym mawl Cristionogion Cymru. Ac y mae rhoddi dim ond y llinell gyntaf o emynau a nodir fel geirouon eu hawdwyr, yn draanfodhaol, gan nad oes gan odid unrhyw ddarlennydd gyfleustra i'w

gwelod yn gyflawn, oddieithr pan di-gwybhaan fod wedi gweithio eu ffordd i'r eu-glybiau. Mewn llyfr o Hanes Emyrwyf Cymrae ni fawr yn afa-cymol digwyyl cael mwyhanu ychydig o'r holl gwaith emyru'n nad ydyw y darllenydd, feallai, wedi cael y cyfnewid i'w gwybhaethu i'u cyfnewidion. Mae yr awdwr yn lled-law i'w gwaith ar yr ym-furriadeth ar ym-furriadeth hon ddonu da, ac ar yr un pryd y cyfnewid i'w gwaith i amryfodolau cydd yn fwy an-guodol. Beia i'w gwaith ym-furriadeth a'i cyfnewid i'w gwaith yn cytuno mewn rhif. Er holl gwaith hon y mae arfer yn llawn gshawhanu hynny. Daw Hugh Jones, Mae gwaith dan y fflangell am wneyd "noddfa mewn clwyfau," yr y gwaith anfarwol. "Pa b' y gwaith fy noddfa dan y ne," er holl cymharu i'w gwaith—megys "To take arms against a sea of trouble" &c.—yr digwydd yn barhan yn chydolau uchaf barddoniaeth, ac fod Hugh Jones wedi i'w gwaith ei bennill a chymant o fywyd a theimlad fel na chanfyddai ond rhyw un o fyr-idiwn fod y gymbarneth yn gymysg o gwbl. Cwynir hefyd am ryw hen ystall yn cyhoeddi emyn Heber mewn llyfr y ceir dan wr parchus yn ystod ym ei rygymadrodd, ac yn son am "India's carnal sand,"—tra y thydd etc. ei hun fel llinell o emyn,

Dyma'r dydd roed i ni gopi adgyfodi-d Iesu mawr.

Mae ym m y "*trun water mark* (yn ol barn y Bedyddwyr)," a'r holl bennod ar "wawd emynau (*Parodies*)," yn gwbl islaw urddas gwaith o'r fath yma, ac yn "auwrodd i'w gopi gan farnwyr." Sonia am "yr iaith Gymreig," a'r "iaith Saesneg," ac fod un wedi "cyfieithu llawer o'r hoff emynau Gymreig i'r Saesneg;" a thrachefn sonir am "gynnydd y Saesneg;" fel ym m y gwaith hon rhwng Cymraeg a Chymreig, a'r dull o ysgrifennu i'w gwaith ein cymydogion, yn hollol annealladwy. Nis gwyr yn y byd pa un ni rhoddi y sillgoll a'i phen i fyny ynte a'i phen i lawr a wna, ac nid yn unfyrych ceir y ddwy wedd yn yr un linell, megys

Yn awr 'rwy'n gorphen hyn o waith.

Fenllut fod rhyw foddwl i'r frawddeg hon, er ein bod ni yn analluog i'w wneyd allan: "Dywedir yn nghofiant Pryse o Gwmllynfell, mai efe oedd awdwr y penllut, ond nis gall hyny fod yn iawn, gan nad oedd efe ond un ar ddeg oed pan genid yn y Gogledd."

Yn y dyfroedd tonog garw,
Mi welaf Iesu'n benaf gwr,

emyn Dafydd William, awdwr "Yn y dyfroedd mawr a'r tonau," &c. Ond dywed awdwr y llyfr: "'Mi deimla,' ac nid 'mi glywa' fuasai bethodol yn y llinell olaf." Pam yr oedd eiseu son am "mi deimla," na "mi glywa," pan yr oedd Dafydd William, gyda greddf gwir fardd, wedi dweyd "mi welaf?" Mae yr awdwr yn llawer rhy ddoniol yn disgrifio amgylchind cyfansoddi "Yn y dyfroedd mawr a'r tonau":—"Felly gorfu arno wneyd mawddle iddo ei hun mewn hen feudy oedd gerllaw, ar lan yr afon Llwehwr; a phan yn llechu yno, gan ddisgwyl fel y gwyliwr am y boreu, yn awn murmurawl yr afon, tra'r oedd ei thonau cynhyrfus trochionog a gorwyllt yn bwrlymu heibio iddo, syrthiodd arno ysbryd-iaeth yr awen mor gryf," &c. Mae llawer o bethau da, wrth resawm, yn y llyfr, a diimcu y darllennid ef gyda mawr ddyddordeb gan rai a owwlysiant wybod ychydig am y bobl ragorol sydd wedi gadael i ni, yn yr emynau bendigad a ganwn, gynhyrsgaeth o'r fath anfesurod werth; ond dylasai ar lawer cyfrif fod gryn lawer yn well.

Oriau yng Agwlad Hud a Lledrith. Gan y Parch. J. J. ROBERTS (*Iolo Caernarfon*), Porthmadog. Dolgellau: E. W. Evans. 1s.

MAE teitl llyfr Mr. Roberts mor ddieithr fel mai prin y gallai dyn ddyfalu beth i'w ddisgwyl oddiwrtho; ond erbyn ei agor, fe geir mai: detholion o'i

gyfansoddiadau barddonol a gynhwysa. Mae y diriogaeth a brofodd yn "wlad hud" iddo ef wedi ei gwneyd yn llawn o swyn i'w ddarlennydd hefyd; ac ni fydd yn rhyfedd os teimla fod y pethau a gyflwynir i'w sylw fel "lledrithion," mor bell o fod yn gysgodion diflanedig fel y maent yn ei alluogi i gymmal cymundeb agosach â'r pethau mwyaf y gall dyn feddwl am danynt neu deimlo yn eu cylch. Dywed yr awdwr fod y cynhyrchion y treuliodd arnynt fwyaf o feddwl ac amser hyd yn hyn yn eiddo i Bwyllgorau Eisteddfodau. Ar hyn y mae ewestiwn yr Iscariot yn deilwng o ystyriaeth: "I beth y bu y golled hon?" Bid sicr, y mae toraeth fawr o gyfansoddiadau a anfonir i'r cystadleuon nad oes unrhyw golled o'u bod yn guddiedig; y maent wedi ateb eu diben goreu fel rhan o'r ddisgyblaeth trwy ba un yr ymestynai eu hysgrifenwyr at hunan-ddiwylliad. Ond pan y mae pethau da cyfansoddwyr sydd wedi rhoddi, gwystlon i gymdeithas, y rhai y disgwylia llawer am eu mwynhau, yn cael eu cadw felly, y mae y golled yn sarhîd. Ond mae y darnau a geir yn y llyfr hwn yn dra gwerthfawr, a diameu y rhoddant i lawer foddhad dyrchafedig a phur. Ni fyddai ond ofer dyfynnu lle mae yr oll mor dda Ond dyma ddau bennill ar Fynyddoedd Cymru:

Aros wnant hwy byth yn ieuanc,
Er eu bod mor hen a'r byd;
Natur sydd yn cadw arnynt
Swyn ei chreudigol wrîd;
Engyl ar eu teithiau safant,
I ryfeddu cynaint rodd
Duw o hono Ef ei Hunan
Yn eu mawredd, wrth eu bodd.

Rhai estynant eu cyhyrog
Bennau i blith cynylau'r nef,
I fawrygu eu Creawdwr
Am y llen a'i orsedd Ef;
Ereill, gyda mwy o wylder
Syn edrychant oddi lawr,
Fel i ddarllen ei ogoniant
Ar ddalennau'r wybreu fawr.

Dernyn yn cynnwys llawer o feddwl coeth, cyrhaeddgar, ac awenyddol. ydyw "Prydferthwch ac Arddunedd." Tal ei ddarllen a'i astudio. Tra yn canu am y prydferth a'r arddunol, y mae y bardd wedi ymlanw o ysbryd y naill a'r llall, ac yn dangos ei fod yn cymdeithasu cymaint â'r pethau mawrion fel y maent yn datguddio eu cyfrinach iddo. Fe werthfawroga llawer a adwaenent Dad yr awdwr y penillion rhagorol trwy ba rai y mae teilwng Fab yn anrhydeddu coffadwriaeth Tad oedd yn un o rai rhagorol y ddaear.

Ereill soniant am ei allu—treiddiai ar ei aden gref
Drwy changder ysbrydoliaeth, megis eryr trwy y nef.
Cofiant am ei ddawn arllwysai arnynt wirioneddau byw;
Clywsant drwy ei lais crynedig, lawer gwaith heferydd Duw.
Dysgodd lawer cawr i deimlo dychrynteydd y byd a ddaw;
Ac i wynfyd gobnith dygodd lu o druan llawn o fraw.
Gennyf fi n.æ hawl i siarad am ei oddefgarwch llon—
Am y môr o gydymdeimlad pur ymchwyddai dan ei fron—
Am ymwadiad dwfn ei ysbryd—fel llafuriai dros ei ryw,
Fel maddeusi i elynion, fel dioddefai dros ei Dduw.

Wedi byw mor bur a ffyddlawn, mor natur'ol iddo ef
Ydoedd marw mewn tangnefedd—marw, trwy ehiolaeth gref,
Mewn goleuni pêr ddanghosai iddo nef a gor.edd wen,
Megis dydd o lu'n ymgolli mewn gogoniant yn y nen!

Etholiad Bwrdd Ysgol Cwm-y-ddwy-afon. Y Beibl yn yr Ysgolion Elfennol.
Treherbert: I. Jones.

YSGRIFENWYD y llyfr hwn er sicrhau etholiad rhai ar Fwrdd Ysgol Cwm-y-ddwy-afon, neu Ystradyfodwg, a fuasant yn bleidiol i'r Beibl gael ei ddarllen a'i ddysgu yn Ysgolion y Bwrdd. Da gennym ddeall i ddiiben uniongyrchol ei ysgrifeniad gael ei ateb yn etholiad y Bwrdd Ysgol hwnnw, ac fod yr ysgolion sydd dano yn ymgymeryd mor galonog â'r llafur yn y Llyfr da. Llawnhaem yn fawr weled yn ddiweddar fod arholiadau llwyddiannus wedi eu cael ynddynt, a bod tystysgrifau a gwobrwyon wedi cael eu rhoddi i'r rhai a ragorent yn yr arholiadau, fel yn yr ysgolion dan Fwrdd Llundain, a manau ereill. Mae y traethodyn wedi ei lunio mewn ffordd o Ymddiddan rhwng nifer o gymydogion a deimlent d'lyddordeb mawr yn yr etholiad yr o'e i'nynt i gymeryd rhan ynddo. Mae y gwabanol syniaid a'u goleddir ar y mater yn cael eu gosod gerbron yn berffaith deg gan y cyfeillion sydd yn cymeryd rhan yn yr Ymddiddan, ac nid ydyw yn ormoddweyd eu bod yn cael eu dadleu gyda llawer o fedr a dawn. Ond ergyd y cyfan ydyw, y dylai y Beibl, yn anad yr un llyfr, gael ei ddysgu, ac yn ysgolion Cymru, yn anad yr un wlad dan haul. Y rhyfeddod ydyw, yn wir, ei fod erioed wedi ei gau allan o'r un o honynt, pan y mae parch yr holl genedl iddo mor fawr. Ac y mae yn rhyfeddach fod hynny wedi ei wneyd, nid trwy wrthwynebiad ei elynion, ond trwy gariad ei gyfeillion, y rhai a deimlent ar y pryd mai cadarn oedd rhesymeg a threchaf, beth bynnag a ddelai o hawliau gwirionedd a chyfiawnder. Byddai cael gwrthwynebiad i addysg o'r fath ar ran neb o rieni Cymru, yn beth tra hynod; a da gennym weled fod yr rhai yr oedd culni eu haddysg enwadol yn gyrru ein cyfeillion i'r cithaf yma, yn awr yn dadleu yn unig dros addysg Feiblaidd. A ydym wrth hynny i ddeall eu bod bellach yn foddlon ar hynny, ac nad ydynt mwyach am gymeryd mantais ar eu cyfeustra o gael plant Ymneillduwyr dan eu haddysg yn yr ysgolion elfennol cyhoeddus, i geisio eu prosielyt o? Os felly, y mae asgwrn y gynnen wedi darfod am dano. Yr oeddynt ddrwg gennym weled ychydig ddyddiau yn ol fod Esgob presennol Bangor, wrth bregethu er cael casgliad at ysgolion yr Eglwys yn y plwyf, yn priodoli peidio darllen y Beibl mewn rhai o'n Bwrdd ysgolion i "gulni a dallbleidiaeth" yr Ymneillduwyr,—“their narrowness and bigotry.” Ni allasai neb syrthio i fwy o amryfusedd. Nid culni a dallbleidiaeth yr Ymneillduwyr oedd yr achos yn sicr; ond fe yrrwyd llawer o ddynion da i'r tir yma gan yr ymdrech benderfynol a wnelid gan Eglwyswyr trwy eu *National Schools*—a gamenwid felly—i fynnu wyn yr Ymneillduwyr i'w corlannau. Mae yn rhyfedd meddwl fod gwyr fel y Deon Cotton a'r Esgob Thirlwall, heb son am liaws y clerigwyr, yn teimlo yn gwbl dawel am degwch a phriodoldeb y fath ddull o weithredu. Gwelent ei fod yn anobeithiol cael Ymneillduwyr Cymru oedd mewn oed, i'r Eglwys; ond tybient y gellid, trwy yr ysgolion, obeithio am gael eu plant. Ac y mae lliaws eto yn fyw nad allant byth anghofio y driniaeth a gawsant yn eu blynyddoedd tyner o herwydd penderfyniad yr offeiriaid i wneyd Eglwyswyr o honynt,—yr hyn a'u gwnaeth, wrth reswm, yn Ymneillduwyr llawer cryfach nag a fuasant heb hynny. “Culni a dallbleidiaeth,” yn wir, a fu yn achlysur i nifer o'n Byrddau Ysgol benderfynu mai gwell oedd gochel dim byd tebyg i'r brofedigaeth a fuasai mor chwerau i lawer o'r rhai a eisteddent arnynt, er gorfod gwneyd addysgiaeth eu hysgolion yn fydol yn unig; ond—nid culni a dallbleidiaeth yr Ymneillduwyr! Erbyn hyn, fodd bynnag, y mae ein cyfeillion yn lled gyffredinol yn dyfod yn fwyfwy argyhoeddedig mai gwell troi yn ol at drefn dda yr hen Ysgolion Brytanaidd, a dysgu y Llyfr sanctaidd yn holl Ysgolion y Byrddau, gan adael y neillduolion enwadol i'r sefydliadau enwadol. A ydyw Eglwys Loegr yn foddlon i'w cyfarfod ar y tir yna? Os nad ydyw, na sonied mwy am “gulni a dallbleidiaeth.”

Allen & Hanburys'


Castor Oil

Tasteless. Pure. Active.
Sold everywhere at 6d., 1/1, 1/9 & 3/4.

Cymerir ef gan blant a rhai mewn oed heb yr anhawsder lleiaf, tra y mae ei effeithiau ar y corph yn ddiamheuol. Medda yr holl ragoriaethau a honir iddo.

—Lancet.

SIX GOLD MEDALS AWARDED.
New Zealand, 1882; Calcutta, 1884; London, 1885
New Orleans, 1885; Southern States, 1886.



NON-MERCURIAL.

For more than Half a Century this Powder has sustained an unrivalled reputation throughout the United Kingdom and Colonies as the BEST and SAFEST Article for Cleaning SILVER & ELECTRO-PLATE. Sold in Boxes, 1s., 2s. 6d., and 4s. 6d. each.

M.A.S.A.C.H.U. D.W.Y.R. POST

POSTAL SHOPPING

H. PEASE & C^{OS}

SUCCESSORS

LADIES

WRITE FOR PATTERNS
OF ALL THE LATEST NOVELTIES
IN DRESS MATERIALS
AT MILL PRICES

SPINNERS & MANUFACTURERS

The Mills
DARLINGTON

Anfoned y Bone iresau am Batrymau o'r Nwyddau Dr eses diweddaraf.

"Y mae mor ddiarchwaeth ag y mae yn bosibl i Cod Liver Oil fod."—Lancet.
"Nid oes archwaeth anhyfryd yn codi i'r genau ar ol ei lyncu."—Medical Press.

Allen & Hanburys'

"PERFECTED"

Cod Liver Oil

Gall y gwanaf ei gymeryd a'i dreulio. Dyma yr unig Oil nad yw ei archwaeth yn codi o'r stomog i'r genau. Ac am y rhesymau hyn, yr Oil yma yw y goreu a' uwyaaf effeithiol mewn arteriad.

Mewn blwch-botelau yn unig, am 1s. 4c., 2s. 6c., 4s. 9c., a 9s.
Ar werth yn mhob man.

DALIER SYLW.—Y mae ALLEN & HANBURY yn gwarantu purdeb ac ansawdd uchel eu Cod Liver Oil Perffeiethiedig: yr hwn a wneir mewn Zordd newydd ac arbenig o'r eiddynt eu hunain, a chyflwynir ef yn un. Songrychol o'u gweithfeydd hwy yn Langva a Kjerstadt, ar arfordir Norway.

BYNIN LIQUID MALT sydd nwydd gwerthfawr i'w ddefnyddio gyda Cod Liver Oil. Wedi ei grythau a'i wneyd yn nwydd lleol. Gwerthfawr at gynorthwyo trwm. Y mae hefyd yn bur ddefnyddiol mewn achosion o Ddarfordedigneth ac anhwylderau cnylyb. Mewn potell, 1s. 9c. yr un.

CADBURY'S COCOA

ABSOLUTELY PURE—THEREFORE THE BEST.
NO CHEMICALS USED.

"CADBURY'S COCOA has in a remarkable degree those natural elements of sustenance which give the system endurance and hardihood, building up muscle and bodily vigour, with a steady action that renders it a most acceptable and reliable beverage."—*Health.*

TO ALL WHO DRINK COCOA:—
"Cadbury's Cocoa contains, in a condensed and increased form, all the nourishing properties of the Cocoa bean. The most perfect of prepared Cocoas, of absolute purity, and always alike in quality."—
The Analyst.

"The name Cadbury on any packet of Cocoa or Chocolate is a guarantee of Purity."—*Medical Journal.*



Pear's
soap

TRAETHODYDD.

MAWRTH, 1892.

CYNHWY SIAD.

TU DAL.

Anwariaeth yn Esbectio Gwareiddiad. Gan y Parch. WILLIAM JAMES, B.A.	85
Yr Egiptol at y Galatiaid. Gan y Parch. ABEL J. PARRY.....	98
Gerwioch. Gan GWLADGAEWR	107
Ymweliad â Llydaw, &c. Gan ROBERT ROWLAND	111
F Proffeswr Llewelyn I. Evans, D.D., a'r Ddadr ar Ysbrydoliaeth. Gan y Parch. DANIEL ROWLANDS, M.A.	117
Addysgiath Amsethyddol yng Ngogledd Cymru. Gan J. J. DOBBIE, M.A., D.Sc.	131
Y Parch. William Griffith, Disgwylfa. Gan y Parch. G. TEOWYN PARRY	140
Rheswm a Datguddiad. Gan E. O. DAVIES, B.Sc.	144
Dok ac na phecha mwysch. Gan NATHAN WYN	151
Ben Gerddi y Cymry. Gan MYRDDIN FARD	152
Sodiadan Llonyddol	159

CYHOEDDIR Y RHIFYN NESAF MAI Y luf, 1892.

PRIS SWLLT.

CAERNARFON:

ARGRAFFWYD A CHYHOEDDWDYD GAN D. W. DAVIES & CO.

"NID OES GWELL BWYD YN BQD."—*London Medical Record.*

Dylid rhoddi cynnyg ar y Bwyd hwn yn lle bynnag y bydd lluniaeth arall wr Wedi ei Goginio yn barod—nid oes eisieu ei ferwi na'i ystraenio. Gellir ei wneyd me

Allen & Hanbur Infants' Food

Bwyd lleol wedi ei gyfaddasu i organau treulol Babanod a Phlant Ieuainc, yn cynwys pobpeth angenrheidiol i furrlo cnawd caled ac esgyrn. Y mae effeithiau rhyfeddol wedi dilyn ar ol cymeryd y Bwyd yma, yr hwn, ar ol ei gymeryd unwaith a gymerir o hyd. Tystiolaeth feddygol a phob cyfarwyddyd gyda phob blwch.

Pris 6c., 1s., 2s., 5s. a 10s. Ar werth yn mhob man.

BIRD'S CUSTARD POWDER

Cyflenwa foethusfwyd dyddiol—Blasusfwyd mewn amrywiaeth
diderfyn—Y dysgleidiau goreu o'r Custard goreu
HEB WYAU!

(↓)WOBROWYON DIWEDDARAF: Y Brif Wobr yn Paris, Melbourne, a Barcelona, Bathodau Aur, a Thystysgrifau yn mhob lle yr arddangoswyd ef.

Needham's DISGLAER
FEL DRYCH.
Polishing
Paste



Medda cymeriad agos i ganrif fel y ddarpariaeth oren at lanbau PRES, COPR, TIN, BRITANNIA METAL, PLATINOID, &c. Gellir ei gael yn mhob man mewn Potiau 6c. a 1s., neu Flychau 2g. a 1c.

Dyfeiwyr i Gwneuthurwyr,

JOSEPH PICKERING & SONS, SHEFFIELD.

LONDON OFFICE: ST. GEORGE'S HOUSE, EASTCHEAP, E.C.

Y TRAETHODYDD.

ANWARIAETH YN ESBONIO GWAREIDDIAD.

Ni fuasai ond gwireb o'r fath amlycaf i ddweyd mai dyn, yn y ddwy ran o'i fod, sef corff a meddwl, a'r rhai hynny hefyd yn gystal ar wahan ag yn eu hundeb â'u gilydd, yw y rhan hynotaf a rhyfeddaf o'r greadigaeth, mor bell ag y mae yn adnabyddus i ni. Mae y rhyfeddod yn cyrraedd ei bwynt uchaf, pa fodd bynnag, yn y rhan ysbrydol o'n natur; gan fod y meddwl dynol, pa un bynnag ai yn rhyfeddodau ei wneuthuriad ai ynte yn nirgelion ei weithrediadau, yn sefyll yn arbennig ar ei ben ei hun ac heb gyffelyb yn agos iddo yn unlle. Ar wahan oddiwrth ddatguddiad, y mae ei hanesiaeth naturiol yn ymgolli yn nhywyllwch caddugol a diderfyn yr amser a fu. "Ar wahan oddiwrth ddatguddiad," meddwn; ac y mae yn rhaid i ni gofio hefyd nad yw hyd yn oed datguddiad ei hun yn profesu olrhain hanes cyffredinol yr hil ddynol, nac mewn crefydd nac mewn gwareiddiad. Ond ni all fod llawer o amheuaeth am ddyn, fel y mae yn adnabyddus i ni heddyw yn y rhan fwyaf o barthau y byd, nad ydyw yn greadur tra gwahanol yr olwg arno yn awr i'r hyn oedd ei hynafiaid unwaith yn y cynfyd pell. Mae yn ddian ei fod wedi newid llawer yn ei ymddanghosiad allanol, er gwell neu er gwaeth, yn ol fel y mae ei gynnydd wedi bod ar i fyny mewn gwareiddiad a moes, neu ar i wared mewn anwariaeth ac anfoes. I gymeryd yr olwg flaenaf ar y gwahaniaeth: mae y gofal gwell, y feithriniaeth well, yr hyfforddiad gwell, a'r arferion gwell, y rhai y mae oesoedd meithion o wellhad yng nghyfansoddiad cymdeithas a rheolaeth ei defodau, ac yn yr hyn y mae coethder yn galw am dano a moesoldeb yn ei ganiatau,—wedi bod yn effeithiol i ddwyn oddiamgylch wellhad dirfawr hyd yn oed yn agwedd a sefyllfa yr hil yr ydym yn perthyn iddi o ran ei chyfansoddiad anianol. Ni ellir cyfyngu gwir goethder i'r meddwl yn unig; mae ei ddylanwadau mwynaid a threiddgar yn anorfod yn ymdaenu i raddau mwy neu lai dros y cyfansoddiad corfforol hefyd. Mae rhyw gymaint o hyn yn ganfyddadwy hyd yn oed yn ei weithrediadau presennol ar genhedloedd a gwledydd sydd ymhlith y rhai blaenaf mewn gwareiddiad. Mewn unrhyw wlad lle byddo pendefigaeth gyfyngedig wedi bod yn cael ei meithrin am genedlaethau meithion, fe gyfarfyddir o hyn yn ganfyddadwy hyd yn oed yn hawdd ei gwahaniaethu oddiwrth y gweddill ar gyfrif ymddanghosiad mwy pendefigaidd, fel canlyniad naturiol i ddylanwadau ffafriol yn ymestyn yn ddidor dros linell hir o achyddiaeth. Fe ddywedir ei bod yn cymeryd dwy, os nad tair oes i wneyd "bonheddwr," ac nid yw bonheddwr yn hollol yr un peth a phendefig. Ac os yw yn cymeryd tua chanrif i gynhyrchu y blaenaf, nid o dan hanner mil-fwyddiant, ni dybiem, y gellid cynhyrchu yr olaf. O'r hyn lleiaf, y

mae y ffaith yn ddiamheuol fod cynnydd mewn gwareiddiad, addysg, a choethder cyffredinol yn tueddu i ddwyn gydag ef gyfnewidiadau er gwell hyd yn oed yn ystad ac ymddanghosiad allanol plant dynion, ac yn gwneyd hynny hefyd lle na byddo dylanwadau gwrthwynebol yn codi oddiwrth ymgyfathrach rŷ gyfyng ac arferion niweidiol yn atal.

Mae y cyfnewidiad i'w weled yn fwy amlwg fyth, pa fodd bynnag, yn y meddwl ei hun, gan fod dyn wedi gwneyd mwy o gynnydd er gwell yn ysbrydol nag a wnaeth erioed yn anianol. Y mesur ar y gwahaniaeth, lawer tro, o leiaf, yw y gwahaniaeth rhwng sefyllfa feddyliol y llwythau anwar yn Affrica, Awstralia, a Gogledd America, ac eiddo cenhedloedd gwareiddiedig Ewrop heddyw. Yn wir, fe allai ei fod yn rhywbeth mwy fyth; canys fe allai fod i anwariaid mwyaf diraddiol ein dyddiau ni eu hanes o'r tu cefn iddynt, yn ystod yr hwn y bu gorfod iddynt ymladd eu ffordd allan neu i fyny o ddyfnderoedd is fyth. Nid yw hyn, mae yn wir, yn ddim ond cymharu un llwyth ag un arall fel yr ydym yn eu gweled heddyw; tra mai y cynllun mwyaf boddhaol a fuasai cymharu sefyllfa bresennol unrhyw genedl wareiddiedig & r eiddo hi ei hun tra yn ei chyflwr cyn-hanesiol o anwariaeth. Ond y mae hynny yn amlwg yn waith anhawdd os nid amhosibl; ac y mae yn rhaid i'r gymhariaeth ymhob achos orffwys yn bennaf ar gyfateb-iaeth.

Y mae dwy brif linell ar hyd pa rai y gellir gwneyd ymchwiliad mwy neu lai uniongyrchol, sef o gyfeiriad iaith ar y naill law, a chwedloniaeth ar y llaw arall. I edrych ar y gyntaf am ychydig: y mae iaith yn fynegiad o feddyliau, fel y mae meddyliau yn gynnyrch meddwl neu ei weithrediadau. Trwy gyfrwng iaith unrhyw bobl, chwi a ellwch ffurfio amcan go dda am eu sefyllfa feddyliol. Ond yn anfodus nid yw ieithoedd cyndadau anwaraidd neb o genhedloedd gwareiddiedig presennol y byd, os bu iddynt y cyfryw gyndadau, ar gael ac wrth law gennym i'w hastudio. Un gorchestwaith o eiddo ieitheg gymharol ddiweddar, pa fodd bynnag, yw y darganfyddiad o'r tebygolrwydd sydd yn weledig heddyw rhwng ieithoedd rhai nad oes, yng ngolwg y cyffredin, un math o berthynas rhyngddynt a'u gilydd, ac sydd yn cyfiawnhau yr ymchwilydd pan yn gwneyd dosbarthiad ar holl ieithoedd mawrion ac adnabyddus y byd i nifer bychan o dylwythau neu deuluoedd. Mae aelodau pob tylwyth unigol yn cael eu hadnabod a'u dal ynghyd megys gan fath o debygolrwydd teuluaid, pa mor bell bynnag oddiwrth eu gilydd o ran cyfnodau meithion o amser neu arwynebedd llydan o dtriogaethau y gall y rhai fu yn eu harfer, neu sydd yn awr yn gwneyd hynny, fod yn ysgaredig a gwasgaredig oddiwrth eu gilydd. O'r tylwythau ieithyddol hyn, yr un mwyaf dyddorol i ni, ac ar y cyfan y mwyaf pwysig ynddo ei hun, fe allai, yw yr un a elwir wrth yr enw *Aryan*, neu *Indo-European*, yr hwn deulu sydd yn ymestyn o'r India i'r gorllewin, fel ag i orchuddio bron yr oll o arwynebedd Ewrop, ac yn cynnwys felly amrywiaethau mor eithafol a'r hen Sanscrit hir drancedig, a'r canghennau Slavonaidd, Teutonaidd, a Cheltaidd. Mae yr ansoddair *Aryan*, neu Aryaidd, a gymhwysir at y teuluoedd amrywiol hyn, yn dyfod o'r sylweddair "*Aryaid*," wrth yr hwn y gelwir yr hen bobl cyntefig, y rhai y tybir eu bod yn trigiannu mewn amseroedd cyn-hanesiol yng nghanolbarth Asia fe allai, ac o'r rhai, fel eu cyff cyffredin, yr hanodd yr oll o'r teuluoedd crybwylledig.

Yn awr, y mae yr ieithoedd hyn, fel y maent yn adnabyddas i ysgolheigion heddyw, bid sicr, yn gwahaniaethu yn ddirfawr oddiwrth eu gilydd; ac eto, os chwilir i mewn iddynt yn fanwl, gan eu gosod, megys, o dan chwydd-wydr, fe geir eu bod yn arddangos math o gydberthynas sydd yn cyfeirio at dadogaeth sydd yn gyffredin iddynt oll. Ystyr yr hyn yw, eu bod yn flagur o un cyff, aelodau o un teulu, canghennau o un tafodiaith, yr hon yw eu mam hwynt oll. Mae tebygolrwydd yr amrywiol ganghennau i'w gilydd yn dra amryfal; ond un o'r rhai mwyaf dyddorol o bosibl yw yr un geiriol. Mae hwnnw drachefn yn ei ddangos ei hun naill ai yn y geiriau mwyaf syml, neu ynte mewn gwreiddiau cyntefig, o'r rhai y tarddodd geiriau o amrywiol ffurfiau yn y naill gangen a'r llall. O'r rhai blaenaf, yr esiampl fwyaf amlwg, fe allai, yw y rhifnodau. Yn y rhai mwyaf pellennig ac estronol o'r ieithoedd y cyfeiriwyd atynt, mae bysedd y llaw yn cael eu rhifo gyda seiniau sydd yn hanfodol yr un yn yr oll. *Un, unus, henos, cine, one, &c.*, yw y cyntaf; *dau, duo, zwei, two, &c.*, yw yr ail; ac yn gyffelyb gyda llawer o'r gweddill. Ac fel esiampl o'r dosbarth arall, gellir cymeryd yr hen wreiddair *âr*, yr hwn sydd yn Gymraeg pur fel y mae, ac yn ymddangos drachefn yn *aradr* y Cymro, *arable* y Saïs, *arod* y Groegwr, *arare* y Lladinwr, *arya* yr hen Hindw, ac yn ddigon hynod yn *Aryan* ei hun fel enw cyffredin ar y teulu Aryaidd o ieithoedd. Ystyr yr hen wreiddair yw tir llafur, neu dir wedi ei drin â'r aradr.

Yn awr *Arya* yn yr hen Sanscrit, fe ddywedir wrthym, yw yr enw wrth ba un yr arferai y bobl a lefarent yr iaith honno eu galw eu hunain; ac wrth weled fod y gwreiddyn *âr* ymhob un o ieithoedd ereill y teulu yn cynnwys cyfeiriad at y *ddaeear*, y *pridd*, neu y *tir*, ni all fod fawr o amheuaeth nad oes iddo yr un ystyr yma hefyd, ac nad meddwl *arya* yw, pobl y tir neu y ddaear aredig. Mewn gair, *Aryaidd* oedd pobl yn gweithio yr aradr; ac y mae y casgliad yn dyfod arnom yn anorod bron, fod y gair bychan *âr* yn rhan o eiriadaeth amaethyddol syml y bobl henafol a chyntefig o'r rhai yr hanodd yr oll o'r cenedloedd Aryaidd, yn orfucheddiad yn yr amrywiol ieithoedd cyfatebol o'r hen iaith drancedig, mam y cyfan; neu yn weddill diledryw a achubwyd o ddrylliad cyffredinol hen oesoedd y cynfyd. Yna mewn cych arall, sef yr un crefyddol, y mae gennym orfucheddiad cyffelyb mewn gair sydd mewn arferiad cyffredin o fewn terfynau pell i osod allan y Bod Dwyfol, sef *Duw* yn y Gymraeg, a *deus, theos, deus, dyaus*, mewn rhai o'r ieithoedd Aryaidd ereill.

Yn awr, perthynas hyn oll a'r mater mewn llaw yw hyn: mor bell ag y mae ystyr wreiddiol y geiriau hyn a'u cyffelyb wedi ei wneyd allan, yr ydys yn cael trwyddynt gipolwg megys ar feddwl neu ddull o feddwl y bobl bellennig a chynhanesiol a'u bathiodd, ac a'u harferodd ar y cyntaf. Er esiampl, ni a wyddom bellach, gan nad pa mor anwaraidd oeddynt, y gwyddai y bobloedd hynafol hyn rywbeth am amaethyddiaeth, eu bod yn arfer meddwl llawer a siarad llawer am dani, gan fel y mae yr enw am y gelyfddydd wedi ei drosglwyddo i lawr yr oesoedd ar hyd cynifer o gyfryngau cysylltiol, yn uniongyrchol megys o'u geneau. Ac yr ydym ymhellach yn gwybod y rhaid eu bod yn coledd rhyw fath o grefydd, yn gymaint a bod y gair mwyaf pwysig perthynol i'r mater mawr hwnnw wedi disgyn hyd atom yn yr un ffordd. Yr oedd cyndadau holl ganghennau y teulu Aryaidd o genhedloedd, gan hynny, yn ddiarnheul, yn llafurwyr y ddaear ac yn feithrinwyr crefydd, pa mor

anwar a barbaraidd bynnag oeddynt; canys y mae eu lleferydd yn eu cyhuddo hyd y dydd hwn.

Ond cyn myned ymhellach, fe ellir crybwyll fod y golygiad a enwyd ar ieithoedd, yn dal perthynas agos ac uniongyrchol â chwestiwn arall o ddyddordeb mawr, sef haniad dyn ei hun. Nid yw yn ei benderfynu, mae yn wir; ond trwy ei fod yn ddiarnhenol yn edrych yn y cyfeiriad o un iaith fel ffynhonnell ddechreuol yr holl ieithoedd, ni ellir peidio edrych arno fel tystiolaeth ddamweiniol ac anfwriadol, mor bell ag y mae yn myned, yn ffafr y cyfrif Beiblaidd am haniad yr holl genhedloedd o un pâr, y rhai eu hunain, yn gystal a'u disgynyddion uniongyrchol, a siaradent yn ddiau yr un iaith ar y dechreu; ac yna am gymysgiad yr ieithoedd a gwasgariad y cenedloedd ar wyneb y ddaear, yr hyn a ddilynodd. Os o un tafod y deilliodd pob tafodau, nid yw yn ymddangos yn ddim ond casgliad naturiol i ychwanegu mai o un gwaed y gwnaed pob cenedl o ddynion i breswyllo ar holl wyneb y ddaear.

Ond i ddychwelyd. Mae y cwestiwn yn codi yn naturiol, pa fodd, tybed, yr oedd awdwyr cyntaf y geiriau a grybwyllwyd, yn arfer edrych ar y gwrthrychau at y rhai yr oeddynt yn cyfeirio? Neu, gadewch i ni ofyn yn gyntaf oll, beth oedd yr hen Indiaid yn ei olygu pan yn eu galw eu hunain yn Aryaid, pobl y pridd, neu y ddaear? A phan yn galw eu prif dduw yn Zeus, beth oedd yr hen Roegiaid yn ei feddwl? a'r Rhufeiniaid, pan yn ei alw yn Jupiter? Ac os na allwn ddyfod o hyd i atebion yn y cyfnodau hyn, gadewch i ni apelio oddiwrth y llwythau disgynol hyn, y rhai na wnaethant ond copio y geiriau, at eu hynafiaid, y rhai eu hunain a'u bathiodd, a gofyn ymha oleuni ac ymha berthynas â hwy eu hunain yr oeddynt yn edrych ar y gwrthrychau hyn am y rhai yr oeddynt yn arfer meddwl ac yn ymddiddan cymaint, sef y ddaear a lafurient a'r duw neu y duwiau a addolent? Yn anffodus, y mae ein gwaith o ofyn yn ofer, o ran dim atebion uniongyrchol sydd i'w cael y naill dro mwy na'r llall; ond ar y pwynt yma y mae y llinell arall o ymchwiliad, sef, chwedloniaeth, yn dyfod yn gynhrcrthwy i ni.

Chwedlau, fel y mae yn hysbys, sydd ddosbarth o ystorïau neu draddodiadau cenedlaethol o berthynas i ddosbarth o fodau hynod o ryfedd a braidd amwys, mewn rhan yn hanesyddol, ac mewn rhan yn ddychmygol, mewn rhan yn ddynol, ac mewn rhan yn ddwyfol, ac weithiau mewn rhan yn un ac oll ar unwaith. Maent i'w cael agos ymhob gwlad, naill ai yn y ffurf o draddodiadau llafar, neu ynte mewn llenyddiaeth werinol neu arall, barddonol gan mwyaf. Mae hen lyfrau Cymraeg, megys y Mabinogion, yn llawn o honynt. Y rhai mwyaf adnabyddus yn gyffredinol mewn llenyddiaeth ddiweddar yw yr eiddo Groeg a Rhufain hynafol, y rhai sydd yn gorfforedig i raddau helaeth yn ysgrifeniadau clasurol y gwledydd hynny. Mae a wnelont mewn rhan â rhai o brif arwyr y genedl a'u hysbrydion diosgedig, ond yn fwy neillduol â brawdoliaeth amrywiol o dduwiau neu arwyr dwyfoledig. Mewn rhan fawr y mae y dorff amryliw yn fodau tra hynod o ran haniad, ffurf, a chymeriad; weithiau yn wrthun tu hwnt i ddychymyg yn eu genedig-aeth, ac yn anghenfilaidd hollol yn eu harferion. Mae yn anhawdd i ni ddyfalu pa fodd yr oedd unrhyw bobl ddeallus yn gallu credu yng ngwir fodolaeth y fath wrthrychau; ac y mae yn rhyfedd gennym feddwl i'r hanesion am danynt barhau i gael eu lleadaenu gyda phob sobrydd hyd yr adeg pryd yr oedd Groeg a Rhufain ar uchder eithaf eu gwareiddiad

a'u coethder. A'r cwestiwn yw, pa fodd i roi cyfrif am hyn? Gan fel y mae yr ystorïau eu hunain yn ein golwg ni yn rhai mor annaturiol ac mor wrthwyneb i'n syniadau am wirionedd, ac hyd yn oed am wedd-eidd-dra, yr anhawster yw rhoi cyfrif am eu tarddiad ac am eu cadwraeth. Ni a allwn fod yn bur sicr o'r dechreu, gan nad beth oedd yr achlysur o'u cyfodiad a'u lledaeniad, fod y chwedlau yn sylweddol yn cael eu credu ar y cyntaf, fel yr oeddynt yn wir yn cael eu credu mewn ffordd aneglur gan y lliaws i'r diwedd. Ond nid oes erbyn hyn un ffordd yn agored i ni allu eu holrhain yn uniongyrchol i'w ffynhonnell, yr hon sydd wedi ei chladdu allan o olwg ac allan o gyrraedd yn nhywyllwch yr oesoedd pell a fu.

Y peth agosaf i eglurhad a allwn ni ei ennill yw yr hyn a ddysgir trwy astudio sefyllfa feddyliol y rhai hynny o'r hil ddynol y gellir tybied eu bod yn awr mewn cyflwr cyffelyb i'r un yr oedd cyndadau y llwythau Aryaidd ynddo yr adeg yr ydym yn cyferio ati; hynny yw, sefyllfa feddyliol pobl sydd yn anwaraidd yn awr, megys o bosibl yr oedd yr Aryaidd cyntefig, i fesur mwy neu lai, cyn ac ar adeg eu gwasgariad. Ac wedi gwneyd hyn, yr ydym yn synnu wrth weled fod anwariaid y dyddiau diweddaf hyn,—dyweder yn Awstralia ac America Ogleddol,—yn coledd y fath syniadau ac yn cadw i fyny y cyfryw draddodiadau ag a allent yn hawdd, o dan amgylchiadau ffafriol, ddad-blygu i gyfundraethau o chwedloniaeth llawn mor eang a chymlethedig ag oedd y rhai Groegaidd, dyweder dair mil o flynyddoedd yn ol.

Yn awr, fe ddywedir wrthym gan y rhai sydd wedi astudio y mater, mai yr un wedd neillduol o amlwg ac arhosol ar yr hyn a ellir ei alw yn chwedloniaeth farbaraidd ddiweddar yw, ei bod yn troi o gwmpas dechreuad y bobl eu hunain fel ei chanolbwynt. Nid dechreuad dyn, neu y ddnoliaeth, fel yr ydym ni yn deall yr ymadrodd; canys nid yw y rhai yr ydym yn son am danynt erioed wedi bod yn abl i ymfflyd mewn drychfeddwl o'r fath hynny; ond dechreuad y frawdoliaeth fechan i'r hon y maent hwy eu hunain yn uniongyrchol yn perthyn. Gan mai y ffurf ar fywyd yn eu plith hwynt yw yr un lwythiol, yr unig undod am yr hwn y maent hwy yn gofalu yw y llwyth o'r hwn y maent hwy yn aelodau. Eu cwestiwn hwynt, fel eu hynafiaid o'u blaen, yn gystal yn wir, yn hanfodol, a chwestiwn mawr dyn ymlod eiddo o'i hanes, yw: O ba le y daethom? Ymha le y cawsom ein dechreuad? Allan o ba beth y tarddasom neu y tyfasom? Dyna oedd eu cwestiynau mawr, y rhai mwyaf yn ddiâu a allent eu gofyn; ac y mae yn dra dyddorol gwybod iddynt gael atebion iddynt, atebion a'u boddlonodd hwy, ac wrth y rhai y maent yn glynu yn dyn a chyda phob hyder yn barhaus. Fe allwn ni wenu yn waradwyddus arnynt, a dweyd eu bod yn hawdd eu boddloni. Ac y mae yn rhaid addef fod hynny yn wir, a'u bod hefyd yn ymfrostio eu bod wedi dyfod o leoedd tra digrifol, weithiau. Mewn gwirionedd y maent yn wastad yn disgyn o ryw rywogaeth o anifeiliaid neu lysiau, neu, ysgatfydd, o ryw wrthrych difywyd yn ymyl. Un llwyth a ddisgynodd o hwyaden, un arall o alarch, un arall o lisywen neu ryw bysgodyn neu fwystil; neu o ryw bren neu fanwydden; neu hyd yn oed o garreg. Ond beth bynnag ydyw, fe geir fod aelodau y llwyth yn edrych ar eu gwrthrych rhiannol gydag ofergoelled a pharchedig ofn, gan greu yn drwyadl fod yn bodoli rhyngddynt hwy eu hunain ag ef—eu *totem*, fel ei gelwir—berthynas agos a hollol neillduol, a'u bod yn sefyll tuag ato mewn sefyllfa o ddibyniad am bob daioni

mewn bywyd, ac hyd yn oed am fywyd ei hunan. Mae y llwyth hefyd yn myned wrth yr un enw a'i *dotem*, ac yn rhinwedd y rhwymyn hwn o undeb y mae yr holl aelodau yn eu hystyried eu hunain yn frodyr a chwiorydd, yn un gwaed a chnawd â'u gilydd.

Yn awr, y mae hyn yn ymddangos i ni, yn ddiau, yn ffordd hynod o drwsgl a barbaraid o edrych ar bethau; ac eto yr ydym yn rhwym o ganfod ynddo amcan gonest ar ran dyn anwyddonol,—yr amcan goreu sydd yn bosibl iddo ef,—i ateb y cwestiwn mawr fel y mae yn elfenol yn ymgynnyg iddo ef,—y cwestiwn â'r hwn y mae y gwyddonwyr galluocaf yn ein dyddiau ni, ac yn wir meddylwyr galluocaf y byd ymhob oes wedi bod yn ymladd eu hegni, sef Haniad neu Ddechreuad dyn. Nid yw y ddamcaniaeth mewn gwirionedd yn ddim amgen na math o Ddarwiniaeth anwaraidd, yn yr hon y mae y disgyniad, neu yn hytrach yr esgyniad, yn cymeryd lle, nid trwy raddiad araf a hirfaith, ond megys trwy fath o naid ddisymwth; nid trwy ddadblygiad ond megys trwy enedigaeth; tra y mae y rhiant neu y tadogaeth dechreuol yn y ddau yn weddol gydradd â'u gilydd, ac heb ryw lawer o le i ddewis rhyngddynt. Canys fe fyddai cystal gan ddyd, ysgatfydd, fod wedi disgyn o dwrci ag o fwci unrhyw ddiwrnod; oddieithr yn unig na chai ddim y pleser o wleda ar yr aderyn blasus hwnnw ddydd Nadolig byth mwy, oblegid y mae y *tolem*, bydded ef dwrci neu unrhyw beth arall, fel y dywedwyd eisoes, yn un na faidd yr un aelod o'r llwyth ei niweidio mewn un modd, llawer llai ei ladd a'i fwyta ar ddydd gwyl. Mae rhai o honom, beth bynnag, yn teimlo yn dda gennym allu credu mai nid dim mor ddirmygedig a gwydus a'r opa tadol yw y *tolem* y perthynwn iddo, ac ar y cyfrif—pe na bai dim arall—mai gwaith anhawdd i ni mwyach fyddai cadw y pumed gorchymyn ac “anrhydeddu” y fath dad! Ac eto y mae rhai yn ymddangos fel pe wedi hanu o leoedd is hyd yn oed na hyn. Gallai ambell un yn dda ddweyd wrth yr asyn, “fy mrawd wyt;” ac un arall, salwach fyth, annerch y sarff dorchog, gan ddwedyd, “fy mam wyt.” Ereill, pa fodd bynnag, a gawsant ddechreuad gwell na hyn, megys yr “oenig fechan” sydd i aml i dad plant yng Nghymru; nynt a adwaenom rai o “elephantiaid” hanesiaeth hefyd, a “llewod rhuadwy” cymdeithas. Ie, onid yw yr hanner oreu oddynolryw yn disgyn yn uniongyrch o'r angel? O'r hyn lleiaf balchder pennaf aml i feinwen landeg yng Nghymru a manau ereill, yw gwneyd i bawb a'i gwelo dybied “ei bod yn rhyw angyles;” tra nad yw yn gywilydd ganddi hithau gael ei galw weithiau, yn yr “iaith nesaf atom,” yn *pet lamb*, yn *little duck*, neu hyd yn oed yn *little duckie!* Mae hyn yn dangos nad yw y gwareiddiad Ewropeaidd ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, wedi'r cwbl, ddim wedi codi rhai o'r llwythau Aryaidd yn llwyr uwchlaw dulliau o feddwl sydd fel pe yn bradychu rhyw berthynas â *thotemiaeth*.

Mae y ffordd o osod allan bethau yn unol â'r gyfundraeth honno yn edrych yn ddigon digrifol i ni yn ddiameu. Ac eto y mae yn y golygiadau barbaraid hyn am berthynas dyn â'r gweddill o'r greadigaeth, a'n cyffelybiaethau mwy coeth ein hunain gyda golwg ar yr un peth, fesur o wirionedd sydd yn eu cyfansoddi yn rhyw bethau llawer amgen na defnyddiau cellwair. Nid am ddarfod i ddyd erioed ddisgyn o unrhyw anifail direswm, mewn gwirionedd, mwy na dynes o'r angylion; neu o leiaf, nid ydys yn adeiladu ar y golygiad hwnnw yn awr. Eithr ynddynt hwy y mae yn blanedig o'r dechreu yr elfennau goreu perthynol i bob peth o'u hamgylch, ac â'r hyn y maent wrth natur yn dal berthynas

megys callineb y naill rywogaeth, diniweidrwydd un arall, nerth un arall, doethineb un arall, amynedd y llall, tiriondeb hwnacw, ysbrydolrwydd a sancteiddrwydd y nesaf; yr oll mewn undeb â'u gilydd ac wedi eu dyrchafu i ystad o rinwedd a pherffeithrwydd llawer uwch, ond oll yr un pryd yn ddaroestyngegig i arglwyddiaeth lywodraethol rhywbeth anfeidrol uwch a rhagorach, sef y nefol a'r dwyfol: gogoniant y daearol wedi ei goroni â gogoniant y nefol, yr angylaidd â'r dwyfol. "A Duw hefyd a ddywedodd, gwnawn ddyn ar ein delw ni, wrth ein llun ein hunain: ac arglwyddiaethant ar bysg y môr, ac ar ehediad y nefoedd, ac ar yr anifail, ac ar yr holl ddaear, ac ar bob ymlusgiad a ymlusgo ar y ddaear."

Onid yr hyn sydd yn fwy at ein pwrpas presennol yw, ein bod yn cael yn y tybiau anaddefed hyn o eiddo anwariaid amseroedd diweddar beth a all wasanaethu fel math o allwedd i'w defnyddio at wneyd ein ffordd yn ol at ystyr ddechreuol, ond cuddiedig erbyn hyn, y tybiau o'r un dosbarth a osodwyd i fyny gan ein cyndadau ein hunain, tra eto, feallai, mewn sefyllfa nid annhebyg. Beth, ynte, oeddynt hwy yn ei feddwl, dyweder, pan yn cymeryd arnynt eu hunain enw oedd yn dal perthynas mor agos â'r *aradr*, yr enw *Aryaid*, neu yr *âr*-bobl? Os edrychir ar y mater yng ngoleuni yr hyn sydd yn awr o'n blaen, a sylwi fel y mae rhai llwythau mewn ystad isel o anwariaeth yn awr yn hawlio perthynas ddisgynol â physgod, adar, anifeiliaid, ac hyd yn oed planhigion a choedydd, os nid cerryg; nid yw y dybiaeth yn annatoriol am y daear-ddynion, yn y rhai yr ydym ni yn teimlo dyddordeb agosach, eu bod hwythau yn teimlo yn falch, fyrddiynau o flnyddoedd yn ol, o olrhain eu hachau yn ol i'r ddaear ei hun. Eu traddodiad feallai oedd, mai tyfu o'r pridd a wnaethai dynion ar y cyntaf, fel prennau; ond trwy ryw ffawd dda ddarford i bâr o honynt lwyddo i ryddhau eu gwreiddiau o'r pridd, ac wedi eu tynnu i lawr i ddau bob un, iddynt ddyfeisio neu gopio y gelfyddyd fawr o rodio ar ddwy goes, a pharhau i'w harfer byth er hynny. Os felly, eu *totem* hwy yn naturiol a fyddai y ddaear, eu duw fyddai y pridd o dan eu traed, yn unol â'r ffaith sicr mai eu tad-enw dewisol oedd *Aryaid*, neu *Ar*-bobl. Fe ddywedai llawer un fod y syniad yn un salw a diraddiol, ac yn eithaf gwir hefyd. Ac eto, os edrychir arno, fe welir fod yn gorwedd wita ei wreiddyn elfen o wirionedd yr ydym ni ein hunain yn gwneyd rhinwedd o dalu gwarogaeth iddo. Oblegid beth yw gwladgarwch, mewn gwirionedd, ond agweddiad arall o'r un peth? Yr ydym ni heddyw yn siarad gyda pharchedigaeth am y *ddaear* fel ein "mam;" yn son am ein cyd "*wlad*"-wyr; ac yn ddefosiydol yn bendithio y "*wlad*" a roddodd i ni "enedigaeth." Feallai y dywedir nad yw y rhai hyn yn ddim ond ffugyrau ymadrodd. Bydded felly; ond y mae yn rhaid i bob ffugyr fod yn ffugyr o rywbeth; ac ni a allwn fod yn bur sicr am yr hen droell-ymadroddion hyn, y rhai sydd mor anwyl gennym, ac sydd yn cyffwrdd mor dyner â theimladau mwyaf mewnol calon ac enaid pob un o honom, fod ynddynt fath o enaid o wirionedd a sylwedd sydd yn eu cyfiawnhau. Ac onid yr hen ddaear, yn wir, yw ein mam ni oll, mamaeth pawb o honom, rhiant eithaf pob peth byw a thyfol? Onid hi a roddodd i ni laeth ein mabandod i'w sugno, ac sydd yn para i roi i ni fara ein dyndod i'w fwyta? A beth yw cariad at wlad genedigaeth, onid teyrnged fabaidd o serch a diolchgarwch y mae pob un o feddwl iawn a da yn ei dychwelyd i'r fam a'i magodd mor dyner, a'i llwythodd âg adgoftion mor felus, ac a gyf-

lawnodd ei holl reidiau â dwylaw mor hael a chyfoethog? Ië, yn ddiweddaf, beth yw dyn ei hun, mewn ystyr wirioneddol iawn, ond plentyn y ddaear, hiliogaeth y pridd? “Yr Arglwydd Dduw a luniodd y dyn o bridd y ddaear.” “O'r pridd y'th gymerwyd: canys pridd wyt ti, ac i'r pridd y dychweli.”

Mae llawer golwg arall ymha rai y mae yn dra dyddorol cymharu hen drefn *totemiaeth* â'n gwareiddiad ni ein hunain. Er esiampl, lle byddo y gyfundraeth yn ffynnu, ni oddefir i neb o aelodau yr un *totem* briodi eu gilydd. Mae pawb o'r llwyth, fel y dywedwyd, yn myned wrth yr un enw, sef enw y *totem*, ac ni all un gwryw o'r enw hwnnw briodi benyw o'r un enw. Ac ni all dim fod yn fwy rheymol, yn ol eu syniadau hwynt. Canys yn rhinwedd eu perthynas gyffredin â'r *totem*, y maent oll yn frodyr a chworydd i'w gilydd. Fe ddywedir yn wir fod y syniad yn un mor fanwl a gorfodol mewn rhai amgylchiadau fel, os digwydd i un ei gael wedi troseddu yn erbyn y rheol, hyd yn oed o ran ei hysbryd, yr ymwelir âg ef â marwolaeth ddiatreg. Mae gwareiddieid wedi ymlid y dychrynydd hyn o fywyd cymdeithasol yn lled lwyg yn y gwledydd hyn; a da hynny ar y cyfan, yn ddiau. Ac eto ni a allwn gymeryd gwrs yma oddiwrth y modd y mae un o reddfau pennaf dynoliaeth, anrhydeddusaf ynddi ei hun, fel hyn yn ei honi ei hun yn ddiarnheul yn mywyd y barbariaid yr ydym yn son am danynt, a hynny er gwaethaf pob gwrthdroad arni, yn y cynhwysiad, i gyfarfod syniadau gwyrngam.

Neillduolrwydd arall perthynol i'r gyfundraeth yw, ei bod yn arwain i'r canlyniad o osod cymdeithas i orffwys ar y fenyw yn hytrach na'r gwryw fel ei sylfaen. Pen y teulu yw y wraig, yn hytrach na'r gwr. Ar briodas, nid y priodfab sydd yn cymeryd y briodferch i'w gartref, fel gyda ni, eithr y gwrthwyneb; ac hyd yn oed felly, nid yw y gwr ond prin yn ymuno o gwbl yn hollol â'i berthynasau newyddion, ac y mae ei safle yn eu mysg yn wastad yn fwy neu lai ansicr. Mae y plant yn perthyn i'r fam, ac yn cael eu galw ar ei henw hi a'i llwyth; tra y mae y tad, mewn gwirionedd, yn perthyn o hyd i'w hen lwyth. Ac mewn achos o ryfel rhwng y ddau lwyth, fe orfydd iddo ef fyned yn ol at ei frodyr *totemaid* i ymladd gyda hwynt â'i berthynasau yng nghyfraith. Mae sefyllfa “arglwyddi y greadigaeth” o dan amgylchiadau fel hyn, braidd yn ostyngol, mae yn rhaid addef. Ac eto yr ydym yma hefyd yn canfod egwyddor yn ei honni ei hun sydd wedi ei phrofi o'r pwys mwyaf yn hanes dynolryw, ac at yr hon y mae y gwareiddiad Ewropeaidd, ar ol ymadael oddiwrthi am ysbaid maith, drachefn yn dychwelyd yn gyffym, sef dylanwad priodol a chyfreithlawn merch mewn cymdeithas. Ac fe ellir ei osod i lawr fel rheol ddiethriad, nad yw diraddiad benyw erioed wedi helpio ymlaen wellhad a dyrchafiad yr hil ddynol, ond bob amser wedi bod yn atalfa ar eu ffordd.

Y mae eto olwg arall drachefn ar chwedloniaeth gyfoesol sydd ar unwaith yn ddyddorol ac yn addysgiadol, sef ei pherthynas debygol â'r hyn sydd yn annaturiol a gwrthun mewn chwedloniaeth hantsiol a chlasurol. Y gofyniad yw: I ba raddau yr ydys yn cael yn y flaenaf egwyddor sydd yn rhoi cyfrif am yr olaf? Ni a welsom fod yr argyhoeddiad yn ffynnu yn eang ymhllith llwythau anwar heddyw, eu bod hwy a natur neu wrthrychau naturiol, yn sefyll mewn perthynas agos â'u gilydd; perthynas mor agos yn wir fel y maent hwy a'u *totem* bron yr un peth a'u gilydd, ac yn agored i newid lleoedd â'u gilydd.

Ond y mae yn ddigon hysbys fod rhywbeth pur debyg i hyna i'w gael yn hen chwedlau Groeg a Rhufain hefyd, ond yn unig fod y cyfeiriad ynddynt hwy nid yn gymaint at y bobl eu hunain ag at eu duwiau, y rhai nid oeddynt, lawer o honynt, ar y dechreu, pa fodd bynnag, yn ddim angen nag arwyr dynol wedi eu dwyfoleiddio. Er esiampl: Gwener (*Venus*), a darddodd o'r môr; mae Diana yn ei newid ei hun i fod yn gath, neu yn arthes fe allai, yna yn seren; ac y mae hyd yn oed Zeus ei hun, Jupiter fawr, tad a brenin duwiau a dynion, weithiau yn cymeryd arno agwedd alarch, ac yn priodi gwrthrych difwyd; na'r hyn ni allai dim, bid sicr, fod yn fwy gwrthun. Ond yr ydym yn cael fod holl brif dduwiau a duwiesau Groeg yn cael eu cysylltu yn fwy neu lai agos â rhyw wrthrychau amlwg mewn natur, os nad yn cael eu hystyried yn un â hwynt: megys Apolo â'r haul, Scynthia â'r lleuad, Jupiter â'r wybr, Rhea â'r ddaear, Neptune â'r môr, &c. Yn awr, mae yn ddigon posibl nad oedd hyn yn ddim ond dadblygiad un cam ymhellach ar syniad yr anwariaid am eu perthynas hwynt â natur, o dan arweiniad cyfatebiaeth seiliedig ar sefyllfa dyn ei hunan. Yr oedd dyn, ymhell bell cyn toriad gwawr gwyddoniaeth, a iawn elwir felly, yn dyheu am wybod rhywbeth, nid yn unig am ei ddechreuad a'i fywyd ei hun, ond hefyd am yr eiddo natur a'i gwrthrychau o'i amgylch. Beth yw yr egwyddor ymarferol mewn natur? Beth sydd yn llywodraethu symudiadau, ymddygiadau a thynghedion y cyrff nefol? Dyna oedd ei gwestiynau mawrion ar adegau yn ei hanes ymhell cyn iddo erioed freuddwydio am atyniad, neu ddeddfau achos ac effaith, neu ddeddfau fferylliaeth, heb son am ddeddf fawr cyfnewidioldeb nerth. Mewn amgylchiadau fel hyn, ni allai dyn, bid sicr, ddyfod o hyd i atebion gwyddonol i'w ofynion. A beth oedd ganddo i'w wneyd? Yr unig beth a allai ei wneyd oedd yr hyn yr ydym ni ein hunain yn awr yn ei wneyd. I gyrraedd gwybodaeth newydd, anghenraid yw gwneyd defnydd o'r hen, ac ymresymu oddiworth yr hyn sydd wybyddus at yr hyn nad yw. Ac fe wyddai dyn yn lled dda pa fodd y safai pethau gydag ef, pa amcanion oedd yn ei ysgogi, a pha ddyllanwadau oedd yn penderfynu ei ymddygiadau. Mae plant dynion yn cael eu bod mewn deuolaeth rhyw; yr hyn sydd yn rheoli hanes a pharhad y rhywogaeth yw yr egwyddor o gyfathrach a theulu, gyda'r holl ddigwyddiadau cysylltiol â hwynt o enedigaeth, priodas, a marwolaeth. Ac onid y dybiaeth fwyaf naturiol, bron yr unig un bosibl iddo ef o dan yr amgylchiadau, oedd, fod y cyrff nefol hefyd yn ddarostyngedig i'r un neu y cyffelyb amodau? Mae yn rhaid eu bod hwythau hefyd yn bârau o wryw a benyw. Mae y wybyr a'r ddaear, neu Jupiter a Hera yn wr a gwraig; y dydd yn gwrthio ymlaen garwriaeth ddiatal â'r wawr, a dyna sydd yn rhoi cyfrif am fod yr olaf yn gwrido cymaint pan yn cael ei herlyn gan y blaenaf. Mae yr haul a'r lleuad hefyd, neu Apolo a Daphne neu Scynthia, yn bâr priodasol, y blaenaf yn wir, yn gymar digon anynad a dialgar, a'r olaf mor anfyddlawn yn ei chred wystledig ag ydyw o gyfnewidiol yn ei hymddangosiadau cylchaid. A'r un fath gyda'r gweddill o'r cyrff nefol a gwrthrychau naturiol ereill, yn y rhai yr oedd dynion yn teimlo dyddordeb neillduol. Trwy gyfrwng personoliaeth, yr hon a'i galluogai i osod ei ddelw ei hun megys arnynt oll, ac i dafu amodau ei fod ei hun allan megys i gyfansoddiad y cread o'i amgylch; felly o bosibl y daeth dyn i ddyfalu am gyfundraeth mor ddychmygol a barddonol â'r un sydd yn llanw nefoedd a daear â bodau sydd ganddynt bob un ei enaid, neu ei

ysbryd, neu ei ddwyfoldeb, a'r oll wedi eu trefnu yn frodoriaethau, a'u rhwymo ynghyd mewn cysylltiadau cymdeithasol a theuluaid, tebyg i'r eiddo ef ei hun; ac oll, ysywaeth, yn ddarostyngedig i nwydau iselaf y ddynoliaeth ar ei thir iselaf, a hyd yn oed i ffynigrwydd mwyaf mileinig y gwylltaf o'r gwylltflod. Ac megys y galwyd totemiaeth ychydig yn ol yn fath o Ddarwinaeth farbaraid, fe ellir yn awr, fe allai, alw y gyfundraeth chwedlonaidd sydd o'n blaen yn fath o ddynweddiant paganaid. Mae y naill a'r llall yn gynnyrch y parchedigaeth greddfoll sydd mewn dyn at natur, a'r parchedig ofn sydd yn codi ynddo pan yn sefyll ym mhresenoldeb ei mawrion ddirgeledigaethau.

Ond y peth mwyaf rhyfedd o'r cwbl yw fod neb, llawer llai y Groegiaid yn y tymor mwyaf palmaidd ac euraidd yn eu hanes, yn cymeryd bodau o fath y rhai a ddisgrifiwyd—mor wrthun ynddynt eu hunain ac mor farw i bob teimlad o'r hyn sydd yn iawn ac hyd yn oed yn weddus—yn dduwiau i'w haddoli, i aberthu iddynt, ac i'w hannerch mewn gweddi. Ebai un, gan ddywedyd am y Groegiaid: "Their poets had an instinctive aversion to everything excessive or monstrous, yet they would relate of their gods what would make the most savage of Red Indians creep and shudder;"—ystoriau megis y rhai am anafiad un, llofruddiaethau un arall, trosedd annaturiol a chanibaliaeth y trydydd, yr hwn a lyncodd ei blant ei hun, &c. Pa fodd y gellir rhoi cyfrif am hyn? Yr unig ateb o bosibl a ellir ei roi yw, fod y tybiau hyn am y dwyfol pan y'u gwnaed, y rhai goreu a allai eu hawdwyr eu gwneyd yn eu sefyllfa ar y pryd; yr oedd y duwiau mor dda a'u haddolwyr, nid yn well, mae yn sicr, nac yn llawer gwaeth, yn bur debyg. Ac er fod y Groegiaid yn y cyfamser wedi gwneyd cynnydd dirfawr mewn llawer ystyr, nid oeddynt wedi gwneyd cynnydd digonol yn eu cydnabyddiaeth â phethau dwyfol i'w galluogi i ymddyrchafu i safle llawer uwch gyda golwg arnynt. Canys wedi'r cwbl, yr oedd coethder Groeg, hyd yn oed pan ar y goreu, yn golygu y prydferth yn fwy na'r moesol, gan fod yn perthyn yn nes i gelfyddyd nag i ymddygiad, i'r hardd yn hytrach nag i'r da a'r sanctaidd. Ac y mae yn ffaith nodedig mai yr unig bobl yn flaenorol i'r cyfnod Cristionogol ag yr oedd eu Duw yn well—yn anfeidrol well—na hwy eu hunain, oedd yr Israeliaid; yn well, hynny yw, o ran mawrhydi personol, urddas, a rhagoriaeth moesol. Yr oedd eu hadnabyddiaeth hwy o hono ymhell o fod i fyny â'r gwirionedd llawn am dano; ond er hynny yr oedd JEHOFAH, fel yr addolid Ef ganddynt bob dydd, ymhell, yn anfesuro, ac yn anfeidrol, uwchlaw yr uchaf a'r goreu o "dduwiau y cenhedloedd." Sut yr oedd hynny? Yr unig ateb posibl, debygid, yw, i'r Arglwydd Dduw mewn gwirionedd lefaru wrth feibion Israel a'u patriarchiaid; iddo lefaru wrth Abraham, wrth Isaac, ac wrth Jacob, ac wedi hynny wrth Moses a'r proffwydi, gan ei wneyd ei Hun felly yn hysbys i'w bobl, ac ar yr un pryd wneuthur dros ddyn yr hyn y methodd y dyn ei hun ei wneyd—yr hyn ni allai byth mo'i wneyd, sef dwyn y gwir Dduwedd i'r goleuni. "A llefarodd yr Arglwydd wrth Moses, gan ddywedyd, Llefara wrth holl gynulleidfa meibion Israel, a dywed wrthynt, Byddwch sanctaidd: canys sanctaidd ydwyf fi, yr Arglwydd eich Duw chwi." Yn hollol wrthwyneb i'r drefn mewn duwinyddiaeth baganaidd, lle ni ddisgwylyr byth i'r duwiau fod yn well, a lle y maent yn aml yn waeth na'u haddolwyr; wele addolwyr Jehofah yn cael gorchymyn ganddo Ef ei Hun, fel eu cynllun a'u hesiampl berffaith o ragoriaeth moesol, i fod yn debyg iddo

Ef. Drachefn, "Duw a ddywedodd wrth Moses, YDWYF YR HWN YDWYF: dywedodd hefyd, Fel hyn yr adroddi wrth feibion Israel: YDWYF a'm hanfonodd atoch." A thrachefn gan fyned heibio o'i ffaen ef ar y mynydd sanctaidd, Jehofah a ymddiriedodd i'r deddfroddwr enwog am yr ymadraddion rhyfedd hyn: "JEHOFAH, JEHOFAH, y Duw trugarog a graslawn, hwyrfrydig i ddi, ac aml o drugaredd a gwirionedd; yr hwn sydd yn cadw trugaredd i filoedd, gan faddeu anwiredd, a chamwedd, a phechod, ac heb gyfrif yr anwir yn gyfiawn; yr hwn a ymwel âg anwiredd y tadau ar y plant, hyd y drydodd a'r bedwaredd genhedlaeth"—seiniau na ddaeth mo'u bath, o ran goruchder a mawrhydi, i galon nac i glust dyn erioed, oddieithr yn unig fel adsain eu datganiad uniongyrchol o enau Jehofah ei Hun. Ac eto dyma ni yn cael y gwir eiriau eu hunain, oesoedd a chenedlaethau cyn toriad gwawr Cristionogaeth, yn cyfoethogi ac yn addurno llenyddiaeth gyfyng un wlad fechan a dinod, ac yn cyfansoddi rhan o ddarlleniadau dyddiol ei thrigolion anenwog, y rhai nid oedd ganddynt i ymfrostio mewn un gyfundraeth o filosofïa i iawn enwir felly, nac un amaethiad neu goethder neillduol, o'u heiddo eu hunain. Yn wir, "o'r Arglwydd y mae hyn, a rhyfedd yw yn ein golwg ni."

Yr ydym ni, bid sicr, wedi colli pob cydymdeimlad â chwedloniaeth baganaidd yn ei hagweddau gwaethaf, ers llawer o amser; neu feallai y dylid dweyd na fu gan ein cyndadau, o fewn amseroedd hanesiol, o leiaf, ddim llawer os dim cydymdeimlad na chydnyddiaeth o'r fath â hi. Ac eto y mae yn rhaid addef fod darnau o'r hen syniadan wedi goroesi yn ein mysg hyd heddyw. Canys beth arall, os nad goroesiad ar yr hen syniad paganaidd am fath o gyngrair dirgel a chydfuantus rhwng dyn a galluoedd cudd natur, a ellir galw yr ofergoeldd ynghylch dewiniaeth a rheibiaeth, yr hon oedd mor dew yn ein mysg nid llawer o amser yn ol, ac nad yw, ysywaeth, wedi llwyr ddiflanu o'r tir eto. Pan oedd y "gelfyddyd ddu" yn ei llawn rym, yr oedd y grêd yn gyffredin y gallai y rheibwraig gymeryd arni unrhyw ffurf bron a fynnai. Yng nghof rhai sydd yn awr yn fyw, pe yr elai hen ysgyfarnog ar redeg trwy y buarth, ar adeg o ffaeldd ar ddyn neu anifail, fe elai y sisial o gwmpas yn ebrwydd mai rhyw hen wrâch o'r pentre cyfagos oedd yno yn myned o gwmpas i arfer ei galluoedd bryntion a diefflig.

Yr ydys yn canfod olion o'r un pethau mewn cylch arall drachefn, sef yr un crefyddol. Canys nid oes fawr o amheuaeth am aml i grediniaeth ac arferiad, ofergoelus yn ein golwg ni, o leiaf, perthynol i hen Eglwysi crêd, nad goroesiadau paganaidd ydynt. Fe greidir gan lawer yn ddiameu fod rhyw rinwedd dirgel mewn clodwyl yn llosgi ar yr "allor;" fod hen greiriau, cyd na byddont ond ysglodion obren, neu ddarnau o asgwrn neu gregyn, neu unrhyw beth arall, os o gysylltiadau acadgofion sanctaidd, yn dwyn ynddynt ddylanwad ysbrydol a dwyfol. Ac yn fwyaf rhyfeddol o'r cwbl, fe ddywedir fod y bara o'r ffwrn, neu yr afriladen oddiar y badell yn cael ei draws-sylweddu i wir gorff i Gwardwr trwy gyffyrddiad dewinol a geiriau rhinweddol yr offeiriad cysegredig. Maeysyniad ynddo ei hun yn un amhosibl ymhob modd; ac eto y mae pethau o'r fath yn cael eu credu yn ddibetrus heddyw gan filiynau o bobl wareiddiedig, ac yn eu plith llawer o ddynion gonest o'r ddysg a'r amaethiad uchaf. Beth bynnag am wir ystyr a gwerth y cyfryw bethau yn y lle a roddir iddynt ynglyn â gwasanaeth ac ordinhadau Cristionogol, am yr hyn nid ydym yn awr yn ymholi, mae yn ddyddorol sylwi fel y maent

yn cydgorio mor hollol â'r duedd sydd yn ffynnu mor gyffredinol ymhlith cenhedloedd anwar a hanner gwareiddiedig i ddwyfoli natur yn ei holl rannau, i weled Duw ymhob man,—yn y ffynnon, yn yr afon, yn y goeden, yn y graig, yn gystal ag yn yr awyr, y lleuad, yr haul, a'r ser. Mae y rhyfeddod hefyd, ar ei wyneb, ar y maes Cristionogol, yn edrych, nid yn llai, ond yn hytrach yn fwy nag ar yr un paganaidd. Ochr yn ochr â'r drychfeddwl am ddernyn o fara gwenith yn dyfod yn wir gnawd Mab y Dyn, gosodwch y syniad am dduw y pagan yn dyfod yn aderyn, neu ei dduwies yn dyfod yn rhywbeth pedwarcarnol; a pha le mae y gwahaniaeth, oddieithr yn unig mewn fod yr annhebygolrwydd, ie hyd yn oed yr amhosiblwrwydd yn y blaenaf yn annhraethol fwy nag yn yr olaf?

Mae golygiadau o'r fath yn cymeryd amser hir i farw; yn gymaint a bod hyd yn oed yr anhawterau eu hunain cysylltiedig â hwynt, unwaith y tybir eu bod wedi eu goresgyn, yn dyfod yn fath o gaerau o ddiogelwch o'n hamgylch byth wedi hynny. Nid ein lle ni ychwaith yw barnu a chondemnio yn haerllug y rhai sydd yn credu ynddynt, a hynny yn ddiau yn gydwobodol. Ac yn hyn fel, ymhob peth arall, y mae y gair ond odid yn wir: "Yn yr hyn yr wyt yn barnu arall, yr wyt yn dy gondemnio dy hun." Canys y mae gan y rhan fwyaf o honom ninnau ein mân ofergoelion, i'r rhai yr ydym yn gaeth ddiobaith. Yr ydym yn cofio am un o'r dynion mwyaf deallus a goleuedig a adwaenasom erioed, yr hwn y byddai gweled "*un fran ddu*" ben bore, yn ei wneyd yn boenus o annedwydd ar hyd y dydd! Ychydig fisoedd yn ol, yr oedd gwr, bonheddig yr olwg arno, a'r hwn oedd yn siarad yn synhwyrol ar fateriou cyffredin, wedi cymeryd ei le gydag ereill mewn cerbyd pedair olwyn i fyned i'r wlad. Gyda bod y ceffylau yn cychwyn, efe a waeddodd ar y gyrrwr am iddo aros, ac a neidiodd i lawr, i bob ymddanghosiad mewn dychryn mawr. Pan ofynwyd iddo am y rheswm, ei ateb oedd na chymerai ef ddim a welodd erioed am farchogaeth mewn cerbyd, nac eistedd wrth ford, na dim arall yn un o gwmpeni o *driarddeg*! A llawer o bethau ereill sydd a ellid eu henwi, megis helpio cymydog neu gymydoges â halen, ci yn udo ar brydnawn, a cheiliog yn canu ar y wyladwriaeth gyntaf,—am y rhai y mae llêd-grediniaeth yn meddyliau llawer o bosibl eto fod rhyw ddewiniaeth neu ffawd ynglyn â hwynt.

Ac y mae y cwestiwn pellach yn codi, a oes dim gwirionedd yn yr olwg hon ar bethau, ynte ai twyll yw y cwbl? A yw yn bosibl mai ar ddiddym y seiliwyd yr holl adeiladwaith enfawr a chymhlethedig hon ar y dechreu? Ac ai ar ddiddym y mae hi wedi bod yn pwyso ar hyd yr oesoedd? Nid yw yn rhesymol i ni gredu y fath beth. Dilys yw fod y barchedigaeth hir-barhaol yma ar ran dyn tuag at natur, er gwaethaf ei holl wrthdroadau, yn cychwyn oddiwrth ryw wirionedd cadarn. Beth yw y gwirionedd hwnnw? Nid oes amser yn awr, hyd yn oed pe bai gan un y gallu, i ateb y fath gwestiwn yn llawn. Ond fe ellir enwi unneu ddwy o linellau ar hyd pa rai y gorfyddai i'r ateb deithio, fe allai.

Ac yn gyntaf fe ddaw Mewnoldeb Duw mewn natur, fel ei gelwir. Nid yr un yw Duw â'i waith; ac eto y mae Efe yn ei weithredoedd. Chwi a ellwch edrych am dano yn y greadigaeth, gwrando am dano mewn natur. Ei dragwyddol allu Ef a'i Dduwdod a welir yn amlwg yn y pethau a wnaeth. Ei ogoniant Ef yw gogoniant y ffurfafen; a'i nerth Ef yw

nerth y bryniau. Mawrhyd y goedwig, ac arddunedd y mynyddoedd ydynt eiddo Ef. Ei lais Ef sydd yn nhwrf y daran, yn rhuad yr ystorm, ac yn ffyrnigrwydd y dymhestl; ac nid llai gwir yw fod ei lais Ef, distaw, main, yn y gwlith tîrion, yn y glaawell tyner, ac yn y blodeuyn cain. "Mor lliosog yw dy weithredoedd, O Arglwydd! gwnaethost hwynt oll mewn doethineb: llawn yw y ddaear o'th gyfoeth. Felly y mae y môr mawr, llydan."

Mae Duw yn llon'd pob lle,
Presenol ym mhob man.

Yna, y mae yr ysgrifenydd presenol o leiaf yn tueddu yn gryf i gredu, fod yr hen syniad Platonaid yn hanfodol gywir; sef, Fod mater, fdl un o'i amcanion, yn gwasanaethu i arddangos ysbryd, ac fod gwirioneddau a drychfeddyliau tragwyddol yn ymdrechu yn barhaus, fel pe mewn esgoreddfa, i'w corffori eu hunain trwy gyfrwng natur mewn ffurfiau gweledig. Mae y cyfryw ddrychfeddyliau eu hunain yn cael eu bod tragwyddol yn Nuw, eu tabernacliad amserol yn yr enaid dynol, a'u hadlewyrchiad dirprwyol yn y greadigaeth allanol. Yr anianol, gan hynny, sydd ddarlun o'r drychfeddyliol; y naturiol o'r ysbrydol. Dyn a natur a ddygant ddelw eu gilydd, yn gymaint a'u gwneuthur ill dau ar yr un cynllun; ac nid yw ond naturiol i ddyn, y modd y gallo ei adnabod a'i esbonio ei hun yn well, droi at natur, — ei wrth-ran megys, a dal cymundeb agos a chyfeillgar â hi. Yno y mae yn canfod y syniadau a'r drychfeddyliau y mae ganddo argyhoeddiad cynhennid o honynt ynddo ei hun, yn cael eu portreâu megys o flaen ei lygaid.

Yn awr, y mae yr olwg ddyblyg yma ar natur, — mewnioliad Duw trwyddi, a chorfforiad drychfeddyliau ynddi, — yn cynnyg i ni un ffordd hawdd a rhesymol i roi cyfrif am gyfodiad bore a lledaeniad eang a hirhoedlog chwedloniaeth, gyda'i holl ystoriau coel a'i thraddodiadau ofergoelus, a digon gwrthun yn aml. Ac nid chwedloniaeth yn unig ychwaith, ond barddoniaeth hefyd. O ran hynny, nid yw yr olaf yn ddim llawer mwy neu amgen na'r flaenaf wedi ei dofi megys, ei gwareiddio, ei choethi, a'i dyrchafu. Ac y mae y ffordd a enwyd o synied am natur yn hanfodol i farddoniaeth; ei henaid a'i bywyd ydyw. Cymerwech oddiwrth y bardd y rhyddid i bersonoli natur, i gymdeithasu â hi ar y telerau mwyaf agos a chyfeillgar, ac o ddal cymundeb â hi ar y tir uchaf o ddealltwriaeth y mae ef yn abl i sefyll arno, ac y mae ei alwedigaeth yn diflannu yn llwyr ar unwaith. Ac ni a allwn fod yn bur sier am y gwir fardd mai nid darllen ei ddrychfeddyliau i mewn i natur y mae, — un o'r syniadau mwyaf diflas os nad gwirion a all fod. Y mae ef yn myned yno am danynt ac yn eu cael yno, am y rheswm syml eu bod yno eisoes. Ei waith ef yw darllen y llyfr ysgrifenedig sydd yn agored o'i flaen; neu, os mynnwch chwi, darllen cynnwys cyfoethog ei natur ysbrydol ei hun trwy gynhorthwy y drych y mae natur anianol yn ei ddal i fyny o'i flaen.

Manchester.

WILLIAM JAMES.

YR EPISTOL AT Y GALATIAID.

II.

Pen. I. 6, &c.

YN adnod y 6ed ymeifl yr Apostol ym materion y llythyr, y materion yn herwydd pa rai y cynhyrfwyd ef i'w ysgrifennu. Dechreuwa trwy osod i lawr ddatganiad arweiniol o'r materion. Dyma ei arferiad yn ei holl lythyrau, o leiaf yn y rhai hynny sydd yn delio a gwirioneddau athrawiaethol. Ceir y mynegiad arweiniol yn yr achos hwn yn y paragraff, adnodaau 6—11.

Y mae yn rhyfedd gennyf eich symud mor fuan oddiwrth yr hwn a'ch galwodd i ras Crist, at efengyl arall, yr hon nid yw arall, ond bod rhai yn eich trallodi chwi, ac yn chwennych datroi efengyl Crist. Eithr pe byddai i ni, neu i angel o'r nef, efengyl i chwi amgen na'r hyn a efengylasom i chwi, bydded anathema. Megys y rhag-ddywedasom, felly yr ydwyf yr awrhon drachefn yn dywedyd, os efengyla neb i chwi amgen na'r hyn a dderbyniasoch, bydded anathema. Canys yr awrhon ai peri credu dynion yr wyf, ynte Duw? neu a ydwyf fi yn ceisio rhyngu bodd dynion? canys pe rhyngwn fodd dynion eto, ni byddwn was i Grist. Eithr yr ydwyf yn hysbysu i chwi, frodyr, am yr efengyl a bregethwyd gennyf fi nad yw hi ddynol.

Mae y geiriau hyn o ran eu tón a'u dull yn gymysgiad nodedig o'r ceryddol, y dwysfeiol, a'r hanesiol. Sylwer fodd bynnag eu bod yn cynnwys pump mater arbennig:—

1. Nodiad o wrthgiliad y Galatiaid. Adn. 6.
2. Disgrifiad o'r ffurf lygredig o grefydd y gwyrasent iddi. Adn. 7.
3. Gwrthdystiad cryf yn erbyn y cyhuddiad ei fod ef wedi newid ei farn parthed yr efengyl. Adn. 8, 9.
4. Gwadiad gwresog o bob ymddygiad gwasaid. Adn. 10.
5. Gwadiad o ddynol-darddiad ei weinidogaeth. Adn. 11.

Fel y crybwyllwyd, y mae yr amrywiol bwyntiau hyn yn cael eu cyfleu ger bron mewn gwahanol ffurfweddau ymadroddol. Mae y cyntaf er engraifft mewn ffurfwedd hanesiol-geryddol, oblegid datgan ffaith hanesiol y mae, ond mewn tón geryddol; mae yr ail mewn ffurfwedd osodiadol syml; mae y trydydd a'r pedwerydd yn gwisgo ffurfwedd dwysfeiol; ac y mae yr olaf mewn ffurfwedd sydd mewn rhan yn hanesiol ac mewn rhan yn osodiadol. Ond er yr holl amrywiaeth yn null eu cyflêad, amlwg yw oddiwrth gyfatebolrwydd eu gwirioneddau a chynhwysiad dilynol y llythyr fod yr Apostol ynddynt yn gwneyd mynegiad arweiniol eglur o amrywiol faterion ei lythyr.

Ceisiwn olrhain y gosodiadau hyn bob yn un cyn myned ar ol y materion y maent yn destynau iddynt.

1. Y gosodiad cyntaf—eu gwrthgiliad.

Y mae yn rhyfedd gennyf eich symud mor fuan oddiwrth yr hwn a'ch galwodd i ras Crist, at efengyl arall. Adn. 6.

Y mae y cyfieithiad diwygiedig yn newid yr ymadrodd "i ras Crist," am "yng ngras Crist." Penderfyna hyn ystyr "yr hwn a'ch galwodd;" hynny yw, ei fod yn golygu Paul ei hun, a'i fod yn datgan ei syndod gofidus at y cyfnewid yn eu teimladau tuagato ef a fuasai offerynnol yng ngras Crist i'w hargyhoeddi. Dadleuir gan y rhan liosocaf o esbonwyr mai Duw a olygir. Ond swnia yn chwithig i ddweyd fod Duw wedi eu galw yng ngras Crist. Buasai yn fwy naturiol, os Duw a olygid, i ddweyd ei fod wedi eu galw yn ei ras ei Hun, oblegid nid yng ngras Crist y gweithreda Duw tuagat ddyinion, ond yn ei ras ei hun, fel y ceir engraifft yn adn. 15. Cadarnheir ni yn y syniad mai efe ei hun a olygai Paul gan yr ystyriaethau canlynol:—

(1). Ni enwa neb. Pe golygasai Dduw, enwasai Ef, fel y gwna mewn mannau ereill pan yn priodoli galwedigaeth dynion iddo. Gwel 1 Thea. ii. 12; 2 Thea. ii. 14; 2 Tim. i. 9; Rhuf. viii. 30. Os efe ei hun a olygai, yr oedd yn naturiol iddo beidio ei enwi ei hun. Gomeddid iddo gan y gwyleidd-dra a'i nodweddai bob amser y gelwid arno i gyfeirio ato ei hun.

(2). Mae y dybiaeth mai efe ei hun a olygai yn gyson â'i arferiad o olrhain ei swydd a phob gweithrediad o honi i ras Crist. Gwel Rhuf. i. 5; Eph. iii. 8; 1 Cor. xv. 10.

(3). Mae y syniad mai yr Apostol ei hun a olygir yn gyson â'r arbenigrwydd a rydd efe i'r ffaith o'i offerynoliaeth ynglyn a'u hargyhoeddiad hwy, a'r ffaith o'u gwrthgiliad oddiwrtho yng ngwyneb hynny, fel ei gosodir allan ganddo yn iv. 13—19.

(4). Mae yn amlwg fod adn. 8 ym mhen. v. yn cyfeirio ato ef. Disgrifir ef yno fel "yr hwn a'u galwodd," yn gyfeybyniol i'r rhai oedd yn eu cynghori yn gamarweiniol.

2. Yn ei ail fynegiad arweiniol datgana yr Apostol ei farn am y tir i ba un y lllithiwyd hwy iddo drwy hudoliaeth y rhai a'u camarweiniasent.

At efengyl arall, yr hon nid yw arall, ond bod rhai yn eich trallodi chwi ac yn chwennych datroi efengyl Crist. Adn. 7.

Yma disgrifia y tir y syrthiasent iddo yn "efengyl arall," nid am fod dwy efengyl, oblegid y mae yn uniongyrchol yn galw ei enwad o'r peth hwnnw yn efengyl yn ol,—“yr hon nid yw arall;” nid yw efengyl o gwbl, nid yw ond ymgais i ddatroi efengyl Crist a'ch dwyn chwithau i drallod.

3. Yn ei drydydd mynegiad, gwrthdystia yr Apostol mewn dull cryf ac mewn iaith ddigamsyniol yn erbyn pob datroad o efengyl Crist gan neb pwy bynnag.

Cyfeiria yr Apostol ato ei hunan. Mae yn debyg ei fod yn y geiriau hyn, heblaw datgan pechadurusrwydd y bobl y cyfeiria atynt yn yr adnod flaenorol fel rhai yn datroi efengyl Crist, hefyd yn amcanu cyfarfod â'r cyhuddiad ei fod ef yn pregethu y pryd hwn athrawiaeth wahanol i'r hon a bregthasai o'r blaen. Fod y cyhuddiad hwn yn cael

ei ddwyn yn ei erbyn sydd amlwg oddiwrth v. 11. Ond yn y gwrthdystiad hwn cyhoedda ei hun, os yn euog o'r fath anghysondeb, yn felldigidig. Nid peth newydd oedd y gwrthdystiad hwn; awgryma yr ymadrodd "yr awrhon" ei fod o hyd yn ei dystio.

4. Y mae ei bedwerydd mynegiad arweiniol yn wrthdystiad cryf yn erbyn y cyhuddiad o waseidd-dra a ddygid yn ei erbyn.

Canys yr awrhon ai peri credu dynion yr wyf, ynte Duw? neu a ydyw fi yn ceisio rhyngu bodd dynion? Canys pe rhyngwn fodd dynion eto ni byddwn was i Grist. Adn. 10.

Nid yw y gair "canys," gyda pha un y cychwyna y mynegiad hwn, i'w ddeall yn yr ystyr o gysylltair achosol, ond yn yr ystyr o ddynodi symudiad ymlaen at fater newydd. Gwasanaetha y gair yn y wedd hon yn fynych. Y mater newydd a ddyga ger bron yma ydyw, fel y dywedwyd, gwadiad o waseidd-dra. Gwna hynny mewn dull neillduol, dull a awgryma ei fod ynddo yn cyfarfod a chyhuddiad a ddygid yn ei erbyn,—“Ai peri credu dynion yr wyf, ynte Duw?” Y gair goreu yn lle “credu” yn y fan yma fyddai “ffafr;” “Ai ceisio ffafr dynion yr wyf?” Y mae y frawddeg ddilynol yn esbonio mewn rhan ystyr hon: “Neu a ydyw fi yn ceisio rhyngu bodd dynion?” Mae yn amlwg fod ceisio ffafr, neu ryngu bodd dynion, yn gyferbyniol i ac yn anghyson â gwasanaethu Crist. Mae y dull gofyniadol ym mha un y gesyd y peth ger bron yn awgrymu gwadiad hollol o'r cyfryw waseidd-dra tuag at ddynion.

5. Mater ei fynegiad arweiniol nesaf ydyw, gwadiad o ddynol-darddiad ei weinidogaeth.

Eithr yr wyf yn hysbysu i chwilio i'w llyr, neu yr efengyl a bregethwyd gennyf fi, nad yw hi ddynol. Adn. 11.

Dyma ni wedi olrhain yr oll o'r hyn a ystyriwn yn fynegiadau arweiniol y llythyr. Y maent, fel y gwelir, yn bump: un parthed eu gwrthgiliad hwy; un parthed yr efengyl; a thri parthed ef ei hunan, sef hunan-amddiffyniad yng ngwyneb tri chyhuddiad o'u heiddo yn ei erbyn,—sef ei fod wedi newid ei farn; ei fod yn wasaidd ei ymddygiad; a'i fod wedi derbyn ei efengyl gan ddynion.

Trafodaeth bellach a helaethach o'r pwyntiau hyn ydyw y llythyr. Cymer hwy i fyny bob yn un, bwynt ar ol pwynt; ond gwna hynny yn y drefn wrthdrofegol, sef yr olaf ym mlaenaf. Dyma ei ddull cyffredin o drafod ei osodiadau. Gesyd hwy i lawr yn y drefn 1, 2, 3, 4, 5, yn ol fel y digwyddo y nifer fod, a chymer hwy i fyny drachefn yn y drefn 5, 4, 3, 2, 1. Y mae engreifftau o'r dull hwn yn tryfritho ei holl Epistolau. Fel y sylwyd, yr olaf o'r pump pwynt crybwylledig ydyw, ei wadiad o ddynol-darddiad ei weinidogaeth. Hwn gymer i fyny gyntaf a delia ag ef yn y paragraff a'i dilyna yn uniongyrchol, sef adnodau 12—24. Y pedwerydd pwynt ydyw ei wadiad o waseidd-dra. Trafodir hwn ganddo yn ail, ii., 1—17. Y trydydd pwynt ydyw ei wadiad o gyfnewidiad yn ei farn. Delia a'r mater hwn ii., 18—21. Yr ail bwynt ydyw, ei eglurhad o'r hyn a alwent hwy yn efengyl. Hwn a drafodir ganddo yn iii., iv., 1—10, 21—31. Ei osodiad cyntaf oll, sef am eu gwrthgiliad, a drafodir ganddo olaf, sef yn pen. v. Dodwn ei drefn ger bron yn y wedd ganlynol:—

<p>1.—Eu gwrthgilliad.</p>	<p>Y mae'n rhyfedd gennyf eich symud mor fuan oddiwrth yr hwn a'ch galwodd i ras Crist. (Adn. 6).</p>
<p>2.—Disgrifiad o'r ffurf lygredig o grefydd y gwyrasant iddi.</p>	<p>At efengyl arall, yr hon nid yw arall; ond bod rhai yn eich trallodi chwi ac yn chwenychdatrol efengyl Crist. (Adn. 7). Eithr pe byddai i ni neu i angel o'r nef efengylu i chwi amgen na'r hyn a efengylasom i chwi, bydded anathema. Megys rhagddywedasom, felly yr ydwyf yr awrhon drachefn yn dywedyd, os efengyla neb i chwi amgen na'r hyn a dderbyniasoch, bydded anathema. (Adn. 8, 9).</p>
<p>3.—Gwrthdystiad cryf yn erbyn y cyhuddiad ei fod ef wedi newid ei farn ar bethau yr efengyl.</p>	<p>Canys yr awrhon ai peri credu dynion yr wyf, ynte Duw i neu a ydwyf fi yn ceisio rhyngu bodd dynion i Canys pe rhyngwn fodd dynion eto, ni byddwn was i Grist. (Adn. 10).</p>
<p>4.—Gwadiad o bob ymddygiad gwas-aidd.</p>	<p>Eithr yr ydwyf yn hysbysu i chwi, frodyr, am yr efengyl a bregethwyd gennyf fi, nad yw hi ddynol. (Adn. 11).</p>
<p>5.—Gwadiad tarddiad dynol ei weinidogaeth.</p>	<p>Pen. I. Adn. 12—24.</p>
<p>5.—Gwadiad tarddiad dynol ei weinidogaeth.</p>	<p>Pen. II. Adn. 1—14. (15—17, nodiad eglurhaol).</p>
<p>4.—Gwadiad gwresog dynol darddiad ei weinidogaeth.</p>	<p>Pen. II. Adn. 18—21.</p>
<p>3.—Gwrthdystiad cryf yn erbyn y cyhuddiad ei fod ef wedi newid ei farn ar bethau yr efengyl.</p>	<p>Pen. III. Adn. 1—29. IV. Adn. 1—10; 21—31.</p>
<p>2.—Disgrifiad o'r ffurf lygredig o grefydd y gwyrasant iddi.</p>	<p>Pen. V. Adn. 1—12.</p>
<p>1.—Eu gwrthgilliad.</p>	

Cymerwn yr adrannau hyn bob yn un, a danghoswn fel y maent yn eglurhad o'r gosodiad crybwylledig. Dilynw'n, wrth reswm, drefn yr Apostol.

Gosodiad y pumed, nad oedd ei weinidogaeth o ddynol-darddiad.

Eithr yr ydwyf yn hysbysu i chwi, frodyr, am yr efengyl a bregethwyd gennyf fi, nad yw hi ddynol. Adn. 11.

Yn yr adran ddilynol hyd ddiwedd y bennod, profir y gosodiad hwn Gwna ddau haerid,—

1. Nacaol:

Canys nid gan ddynion y derbyniais i hi, nac y'm dysgwyd. Adn. 12.

2. Cadarnhaol:

Eithr trwy ddatguddiad Iesu Grist. Adn. 12.

Ymddengys fod grym y geiriau hyn yn y gyferbyniaeth sydd rhwng bod wedi ei ddysgu mewn peth, a chael datguddiad o beth. Y peth y pwysleisia yr Apostol arno yma yw ei fod wedi derbyn ei efengyl trwy drosglwyddiad uniongyrchol oddiwrth yr Arglwydd ei hun, ac nid trwy gyfrwng dynion; ei fod wedi ei chael nid yn ail law, ond drwy y llaw cyntaf.

Yn nesaf aiff ymlaen i ddangos paham nas gallai fod o ddynol-darddiad.

1. Nid oedd yn ddyfais bersonol o'i eiddo ei hun. Er prawf o hyn sylwa:—

Canys chwi a glywsoch fy ymarweddiad i gynt yn y grefydd Iuddewig, i mi allan o fesur erlid eglwys Dduw, a'i hanrheithio hi; ac i mi gynhyddu yn y grefydd Iuddewig yn fwy na'm cyfoedion yn fy nghenedl fy hun, gan fod yn fwy awyddus i draddodiadau fy nhadau. Adn. 13, 14.

Yr oedd ei waith yn erlid yr eglwys yn dangos fod holl ogwyddiad ei feddwl yn hollol wrthwynebol i'r efengyl, ac yr oedd y gogwyddiad

gwrth-Gristaidd hwn yn ffrwyth cymeriad hollol Iuddewig ei ddysgeidiaeth foreuol. Yr oedd hyn yn eglur brofi nas gallai ei weinidogaeth fod yn ddyfais, neu yn ddarganfyddiad o'i eiddo ei hun.

2. Nid oedd yn effaith dysgeidiaeth yr apostolion ereill. Ar y pen hwn dywed:—

Onid pan welodd Duw yn dda, yr hwn a'm neillduodd i o groth fy mam, ac a'm galwodd i trwy ei ras, i ddatguddio ei Fab ynof fi, fel y pregethwn ef ymhlith y cenhedloedd, yn y fan nid ymgynghorais a chig a gwaed. Adn. 15, 16.

Yr "ymgyngchori a chig a gwaed" oedd ymgynghori a'r apostolion, er cael ei oleuo ganddynt ym mhethau yr efengyl. Er prawf na wnaeth hynny, noda dair ffaith bwysig yn ei hanes.

1. Na ddarfu iddo fyned i Jerusalem wedi ei droedigaeth, ond i Arabia, y lle mwyaf annhebygol iddo gyfarfod & neb i'w ddysgu ym mhethau y grefydd newydd.

Ac nid aethum yn fy ol i Jerusalem at y rha! oedd o'm blaen i yn apostolion; ond mi a aethum i Arabia, a thrachefn y dybhweiais i Damascus. Adn. 17.

2. Ei fod wedi bod am dair blynedd cyn dychwelyd i Jerusalem, ac nas gwelodd efe y pryd hwnnw neb o'r apostolion ond Pedr ac Iago, ac na bu yn eu cymdeithas hwy ond am yr ysbaid byr o bymtheng niwrnod.

Yna ar ol tair blynedd y daethum yn fy ol i Jerusalem i ymweled & Phedr, ac yr arhosais gydag ef bymtheng niwrnod. Eithr neb arall o'r apostolion nis gwelais ond Iago brawd yr Arglwydd. A'r pethau yr wyf yn eu hysgrifennu stoch, wele, gerbron Duw, nad wyf yn dywedyd celwydd. Wedi hynny y daethum i wledydd Syria a Cilicia. Adn. 18—21.

3. A chyn lleied fu ei gyfathrach & Christionogion Judea fel nad oedd yn bersonol adnabyddus i neb o honynt. Ni wyddent am dano ond trwy hanes yn unig.

Ac yr oeddwn heb fy adnabod wrth fy wyneb yn eglwysi Judea, y rha! oedd yng Nghrist: ond yn unig hwy a glywsent fod yr hwn oedd gynt yn ein herlid ni, yr awrhon yn pregethu y ffydd, yr hon gynt a anrheithiasai. A hwy a ogoneddasant Dduw ynof fi. Adn. 22—24.

Dyma brofion yr Apostol na dderbyniasai yr efengyl a bregethasai i'r Galatiaid gan ddyinion, sef gan yr apostolion; a baich ei brawf ydyw na welodd mo honynt, ac felly na chafodd y cyfleustra na'r hamdden gofynol i'w derbyn ganddynt. A gallem dybio fod ei brawf hwn yn un hollol derfynol.

Cyn gadael y mater hwn i fyned at y nesaf, teimlwn y dylem alw sylw at fynegiad pwysleisiol yr Apostol o'i gymwysterau apostolaidd, a wna yn adn. y 15, 16.

Onid pan welodd Duw yn dda, yr hwn a'm neillduodd i o groth fy mam, ac a'm galwodd i trwy ei ras, i ddatguddio ei Fab ef ynof fi, fel y pregethwn ef ymhlith y cenhedloedd.

Yma nodi dri chymhwyster,—naturiol, ysbrydol, a goruwchnaturiol. Awgrymir ei gymwysterau naturiol yn ei neillduad o groth ei fam. Cynysgaeddwyd ef yn ei greadigaeth & chymwysterau cynheddfol pwrpasol at y gwaith goruchel o bregethu yr efengyl. Awgrymir ei gymhwyster ysbrydol yn ei alwad grasol gan Dduw. Golyga hyn ei droedigaeth ryfeddol; newidiad ei galon gan Ysbryd Duw. Awgrymir ei gymhwyster apostolaidd yn natguddiad Mab Duw ynddo. Golyga

y datgudliad hwn yn ddiar ei ysbrydoliaid—yn gyferbyniol i'r ensyniad ei fod wedi ei ddysgu yn yr efengyl gan ddynion. Yr oedd derbyniad Paul o'r ddysgeidiaeth efengylaidd yn oruwchnaturiol; felly yr ydoedd yn ddysgawdwr anffaeledig o honi i'r cenedloedd, fel pa beth bynnag a ddysgodd iddynt, o dro i dro, yr ydoedd yn ffrwyth datguddiad Dwyfol. Mor ddiamwys oedd datganiad yr Apostol parth dilysrwydd ffynhonnell ei apostolaeth. Mae y tri chymhwyster yma yn aros o hyd fel anhegion pregethwyr efengyl: cymwysterau naturiol, neu gynheddfau meddyliol; cymwysterau crefyddol, troedigaeth, galwad drwy ras; cymwysterau gwybodaethol—datguddiad o'r Mab. Tra yr oedd y wybodaeth hon yn dyfod i Paul oddiwrth Dduw trwy ysbrydoliaeth uniongyrchol, y mae yn dyfod i ni trwy ysbrydoliaeth anuniongyrchol, y gair ysbrydoledig. Yr ysgrythrau felly dynt ein datguddiad ni o'r Mab.

A ganlyn ydyw yr ymresymiad uchod wedi ei dafennu:—

- V.—**NAD OEDD EI WEINIDOGAETH O DDYFNOL-DARDDLIAD.**—
 Cadarnha y goeidiad hwn, Yn 1af—Yn Nacool.
 Yn 2il—Yn Gadarnhaol.
- Prwff nad oedd o ddyn. 1af—*Nad oedd yn ddyfais bersonol, oblegid eridiwr o honi oedd.* 2il—*Nad oedd yn effaith dyseidiaeth yr Apostolion ereill, oblegid nid ymgynghorodd a hwy.*
- Prwff nad ymgynghorodd a chig a gwaed (sef yr apostolion ereill.) 1af—*Nid oedd i Jerusalem wedi ei ddychweiliaid.* 2il—*Pan ddaeth i Jerusalem ym mhen tair blynedd, na welodd ond Peir ac Iago, a hynny ond am 15 niwrnod.*
- Sydd—*A chyn lleird fu ei gyfathrach i Christionion Judea fel nad oedd yn bersonol adnabyddus iddynt.*
- Eithr yr wyf yn hysbysu i chwi, frodyr, am yr efengyl a bregethwyd gennyf fi, nad yw hi ddyfnol. Canys nid gan ddyn y derbyniad i hi nac y'm dysgwyd. Eithr trwy ddatguddiad Iesu Crist. Canys chwla glywsoc'h fy ymarweddiad i gynt yn y grefydd Iuddewig, i mi allan o fesar erlid eglwys Dduw, a'i hanrheithio hi. Ac i mi gynnwddu yn y grefydd Iuddewig yn fwy na llawer o'm cyfoedion yn fy nghenedl fy hun, gan fod yn fwy awyddus i draddodiadau fy nhadau. Ond pan welodd Duw yn dda, yr hwn a'm neillduodd i o groth fy mam, so a'm galwodd i trwy ei ras, i ddatguddio ei Mab ynof fi, fel y pregethwn ef ymhlith y cenedloedd; yn y fan nid ymgynghorais a chig a gwaed. Ac nid aethum yn fy ol i Jerusalem at y rhaol oedd o'm blaen i yn apostolion, ond aethum i Arabia, a thrachefn y dychwelais i Damascus. Yna ar ol tair blynedd y daethum yn fy ol i Jerusalem i ymweled a Phedr; ac yr arhosais gydag ef bymtheg niwrnod eithr neb o'r apostolion ereill nis gwelais ond Iago brawd yr Atgiwydd. A'r pethau yr wyf yn eu hysgrifennu atoch wele, gerbron Duw, nid wyf yn dywedyd celwydd; wedi hynny y daethum i wledydd Syria a Cilicia. Ac yr oeddwn heb fy adnabod wrth fy ngwyneb yn eglwys Judea y rhaol oedd yng Nghrist; ond yn unig hwy a glyswant fod yr hwn oedd gynt yn ein herid ni, yr awrhon yn pregethu y fydd, yr hon gynt a anrheithiasu. A hwy a ogoneddasant Dduw ynof fi.

Cymerwn yn nesaf bedwerydd mynegiad arweiniol yr Apostol, sef ei wadiad o waseidd-dra.

Canys yr awrhon ai peru credu [ceisio ffafr] dynion yr wyf, ynte Duw? nen yute a ydyf fi yn ceisio rhyngu bodd dynion? canys pe rhyngwn fodd dynion eto, ni byddwn was Crist. Adn. 10.

Yna fel y nodwyd, gwadu y mae yr Apostol unrhyw waseidd-dra yn ei ymddygiad ynglyn a dynion. Daw ymlaen a'i brofion er dangos pa mor ddisail oedd y cyhuddiad hwn. Ceir y profion hyn mewn dau amgylchiad neillduol yn ei hanes, sef achlysur ei ail ymweliad i Jerusalem, a'i gerydd i Pedr yn Antiochia.

A ganlyn ydyw yr hyn a ddywed ar y mater cyntaf:—

Yna wedi peddar blynedd ar ddeg yr aethum drachefn i fyny i Jerusalem gyda Barnabas, gan gymeryd Titus hefyd gyda mi. Ac mi a aethum i

fyny yn ol datguddiad, ac a fynegais yr efengyl yr hon yr wyf yn ei phregethu ymhlith y cenhedloedd; ond o'r neilldu i'r rhai cyfrifol, rhag mewn un modd yr rhedeg yn ofer, neu ddarfod i mi redeg. (Eithr Titus, yr hwn oedd gyda mi, er ei fod yn Roegwr, ni chymhellwyd chwaith i enwaedu arno): A hynny o herwydd y gau frodyr a ddygasid i mewn, y rhai a ddaethant i mewn i ysbio ein rhyddid ni yr hon sydd gennym yng Nghrist Iesu, fel y'n caethiwent ni: I ba rai nid ymroisom trwy ddarostyngiad, naddo dros awr; fel yr arhosai gwirionedd yr efengyl gyda chwi. A chan y rhai a dybid eu bod yn rhywbeth (pa fath gynt oeddynt, nid yw ddim i mi; nid yw Duw yn derbyn wyneb dyn) canys y rhai cyfrifol ni chwaneegasant ddim i mi. Eithr yn y gwrthwyneb, pau welsant ddarfod ymddiried i mi am efengyl y dienwaediad, megys am efengyl yr enwaediad i Pedr: (Canys yr hwn oedd yn gweithredu yn nerthol yn Pedr i apostoliaeth yr enwaediad, a nerthol weithredodd ynof finau hefyd tuag at y cenhedloedd). A phan wybu Iago, a Cephas, ac Ioan, y rhai a dybid eu bod yn golofnau, y gras a roddwyd i mi, hwy a roddasant i mi ac i Barnabas ddeheu-ddwylaw cyrmeithas; fel yr elem ni at y cenhedloedd, a hwythau at yr enwaediad. Yn unig ar fod i ni gofio y tlodion, yr hyn hefyd y bum i ddiwyd i'w wneuthur. Pen ii. 1-10.

Ceir amgylchiad yr ymweliad hwn a Jerusalem, a'r hyn a arweiniodd iddo, wedi ei gofnodi yn Act. xv. Paham y defnyddia yr Apostol yr amgylchiad hwn er profi annibyniaeth ei ymddygiad fel Apostol a phregethwr yr efengyl, nis gwyddom, oddieithr fod y gau athrawon yn seilio eu cyhuddiad hwy o waseidd-dra ar ryw bethau a gymerasant le ynglyn â'r amgylchiad. Efallai eu bod yn dweyd mai i ryngu bodd rhyw blaid yn Antiochia yr aethai i Jerusalem; neu eu bod yn gwneyd allan fod ei ymddygiad yn Jerusalem yn y cyngor yn wasaidd, ac yn amcanedig i foddio yr apostolion. Gan nad beth am hynny, amlwg yw mai dyma ei amcan ef, troi yn ol y cyhuddiad o ymostyngiad gwasaid ynglyn a'i waith fel pregethwr. Mae yr ymadrodd, "i ba rai nid ymroisom, naddo dros awr" yn adn. 5ed, yn allwedd i amcan y paragraff. Geysd yr Apostol bwyslais ar bedwar o bethau yn yr amgylchiad, y rhai a wrth-brofant unrhyw gyhuddiad o waseidd-dra.

1. Noda ym mlaenaf oll, ei fod wedi ymgymeryd a'r daith yn ganlynol i ddatguddiad—

Ac mi a aethum i fyny yn ol datguddiad. Adn. 2.

Rhydd bwyslais ar y ffaith hon er dangos, mae yn debyg, mai nid yn ganlynol i unrhyw ddirwasgiad oddi allan y gorfuwyd iddo gymeryd y daith. Mae yn bosibl fod y rhai a'i cyhuddent o waseidd-dra yn dweyd ei fod wedi ymgymeryd â'r daith er rhyngu bodd plaid y cenhedloedd yn eglwys Antiochia; neu ynte er boddhau yr apostolion, trwy ymddanghosiad o ymgynghoriad a hwy, ac o ymddarostyngiad iddynt. Ond haera yr Apostol nad oedd ganddo ef ddewisiad yr y mater, fod ei fynediad i Jerusalem yn ol cymhelliaid a than gyfarwyddyd uwch na dim ynddo ef ei hun, nac oddiwrt h ddynion ereill, gan nad pwy na pheth oeddynt. Nid ydyw yr haeriad ei fod wedi myned i Jerusalem yn ol datguddiad yn gwrthdaro yr hyn a ddywedir yn Actau xv. 2, sef ei fod wedi ymgymeryd â'r daith yn ol apwyntiad eglwys Antiochia. Gallasai yr Apostol fod wedi derbyn y datguddiad yn ei gyfarwyddo i ymgymeryd â'r daith, ac fod yr eglwys, wedi iddi gael hysbysrwydd o'r cyfryw ddatguddiad, yn cydsynio, ac yn cyd-drefnu, ac yn apwyntio ei gymdeithion. Ceir peth cyffelyb i hyn yn Act. xiii. 3, 4. Yno ceir fod yr Ysbryd Glan yn galw, a'r eglwys yn apwyntio ac yn danfon yn ol ei gyfarwyddyd, ac mewn cydsyniad calonnog.

2. Noda hefyd fel prawf o'i anwaseidd-dra fod ei ymweliad a Jerusalem wedi ei achlysuero gan ei anibyniaeth ef ei hun—

Ac mi a aethum i fyny yn ol datguddiad, ac a fynegais iddynt yr efengyl, yr hon yr wyf yn ei phregethu ymhlith y cenhedloedd . . . hynny o herwydd y gau-frodyr a ddygasid i mewn, y rhai a ddaethant i mewn i ysbio ein rhyddid ni, yr hon sydd gennym yng Nghrist Iesu, fel y'n caethiwent ni: I ba rai nid ymroisom trwy ddaros-tyngiad, naddo dros awr. Adn. 2, 4, 5.

Yn y geiriau hyn awgryma mai ei omeddiad ef i blygu a thalu gwarogaeth i'r Athrawon Iuddewig a achlysuorodd ei ymweliad a Jerusalem. Dywedent hwy mai ei ymgais i foddio dynion, haera yntau mai ei wrthodiad i wneyd hynny a'i gyrodd yno.

3. Noda ymhellach fel prawf o'i anibyniaeth, na ddarfu y rhai cyfrifol, wedi iddo fynegi iddynt yr efengyl a bregethai ymhlith y cenhedloedd, ychwanegu dim; hynny yw, ni ddarfu i'r rhai a dybid eu bod yn golofnau y gwirionedd, awgrymu fod dim yn ddiffygiol yn ei genadwri (adn. 6). Hefyd rhydd bwyslais arbennig ar y ffaith ei fod wedi hysbysu ei genadwri yn gyfrinachol. Noda y ffaith hon, mae'n debyg, er dangos fod y brodyr wedi cael pob tegwch i lefaru wrtho yn hyf, os oedd ganddynt rywbeth i'w ddysgu iddo yn ychwanegol. Hefyd prawf nad oedd ganddynt ddim i'w ychwanegu at yr hyn a ddysgai oedd y ffaith na chymhellwyd mo Titus, er ei fod yn Roegwr, i gymeryd ei enwaedu.

4. Tystia ymhellach ddarfod i'r rhai cyfrifol hyn yn hytrach nag ychwanegu dim at ei ddysgeidiaeth, gydnabod ei gydraddoldeb mewn modd arbennig.

Eithr yn y gwrthwyneb, pan welsant ddarfod ymddiried i mi am efengyl y dienwaediad, megys am efengyl yr enwaediad i Pedr. (Canys yr hwn oedd yn gweithredu yn nerthol yn Pedr i apostoliaeth yr enwaediad, a nerthol weithredodd ynof finnau hefyd tuag at y cenhedloedd:) A phan wybu Iago, Cephas, ac Ioan, y rhai a dybid eu bod yn golofnau, y gras a roddwyd i mi, hwy a roddasant i mi ac i Barnabas ddeheu-ddwyllaw cymdeithas; fel yr elem ni at y cenhedloedd, a hwythau at yr enwaediad. Adn. 7-10.

Yma dadleua yr Apostol ddarfod i'r prif apostolion roi iddo ef yr un flaenoriaeth fel gweinidog y cenhedloedd, ag a roddid i Pedr fel gweinidog yr Iuddewon. Cymhellid hwy, fel y dengys, i roi y safle hon iddo trwy y ffaith o'i dderbyniad ef o gymhwyster neillduol oddiwrth yr un ffynhonnell ag y derbyniodd Pedr ei eiddo ef. Diau nad oedd yn y pethau hyn ddim yn wasaidd, nac yn arwyddo yn y mesur lleiaf awydd i ryngu bodd dynion.

Mae yn amlwg fod yr agwedd a wisga yr apostolion pennaf hyn tuag at Paul a'i ddysgeidiaeth yn wrthbrawf digamsyniol i'r syniad sydd yn ffynnu yn lled gyffredinol yn y dyddiau hyn ymhlith dosbarth neillduol o dduwinyddion, sef mai dadblygiad Paulaid yn unig ydyw yr athrawiaeth o gyfiawnder cyfrifedig trwy ffydd. Yma danghosir fod Pedr, Iago, ac Ioan,—colofnau eglwys Jerusalem,—yn cydnabod cywirdeb, ac yn cymeradwyo y cyfryw athrawiaeth fel ei dysgid gan Paul.

5. Yr amgylchiad nesaf a nodi yr Apostol fel prawf nad oedd yn ceisio rhyngu bodd dynion ydyw ei waith yn ceryddu Pedr.

A phan ddaeth Pedr i Antiochia, mi a'i gwrthwynebais yn ei wyneb, am ei fod i'w feio. . . . Eithr pan welais i nad oeddynt yn

iawn droddio at wirionedd yr efengyl, mi a ddywedais wrth Pedr yn eu gwydd hwy oll, Os wyt ti, a thi yn Iuddew, yn byw fel y cenhedloedd, ac nid fel yr Iuddewon, paham yr wyt ti yn cymhell y cenhedloedd i fyw yn Iuddewaid? Adn. 11, 14.

Cyfrifid Pedr yn un o'r colofnau, eto ni phetrusodd Paul a'i wrthwynebu a'i geryddu yn gyhoeddus pan ei cafodd yn gweithredu yn anghyson.

Sicr yw fod yr Apostol drwy yr engrheiffitiau hyn wedi troi yn ol yn effeithiol y cyhuddiad o waseidd-dra, ac wedi ateb yn ddiamwys ofyniadau adn. 10, sef ei bedwerydd mynegiad arweiniol.

Y mae geiriau ceryddol Paul wrth Pedr yn darfod uchod, ond cymer yr Apostol achlysur oddiwrthynt i wneyd nodiad pellach heb fod yn perthyn i'w ymresymiad neillduol ym, eto yn berio ar y mater cyffredinol. Sylw cromfachog ydyw.

Nyni, y rhai wrth naturiaeth ydym Iuddewon, ac nid o'r cenhedloedd yn bechaduriaid, yn gwybod nad ydys yn cyflawnhau dyn trwy weithredoedd y ddeddf, ond trwy ffydd Iesu Grist, ninnau hefyd a gredasom yng Nghrist Iesu, fel y'n cyflawnhaer trwy ffydd Crist, ac nid trwy weithredoedd y ddeddf; oblegid ni chyflawnheir un cnawd drwy weithredoedd y ddeddf. Ac os wrth geisio ein cyflawnhau yng Nghrist y'n caed ninnau yn bechaduriaid, a ydyw Crist am hynny yn weinidog pechod? Na ato Duw. Adn. 15—17.

Pwynt y geiriau hyn ydynt y tri pheth canlynol:—

1. Eu bod hwy, y rhai oeddynt Iuddewon ganedig, ac nid yn genhedloedd, wedi deall yr efengyl, ac wedi syrthio i mewn yn ewyllysgar a'i threfn, ei hegwyddor fawr o gyflawnhad drwy ffydd, adn. 15, 16.

2. Eu bod wrth hynny yn dyfod i'r un tir a'r cenhedloedd (y rhai a eilw efe yn bechaduriaid yn ol dull yr Iuddewon adn. 15); hynny yw, yr oeddynt yn rhinwedd y rhyddid a pha un y rhyddhaodd Crist hwy, yn tafu ymaith arferion caethiwus a beichus y ddeddf, neu yn ol adn. 14 yr oeddynt yn byw fel y cenhedloedd. Dyma yr hyn a wnaethai Pedr ar ei ddyfodiad cyntaf i Antiochia (adn. 12), a hynny yn gwbl gyfreithlon. Bai Pedr oedd peidio a sefyll at hynny yn barhaus.

3. Nad oedd y rhyddid hwn a ganlynai i'r Iuddew oddiwrth ddysgaidiaeth yr efengyl, yn gwneyd Crist, awdwr yr efengyl, yn weinidog pechod. Nid ydyw yn annhebygol fod y gau athrawon yn haeru fod y rhyddid hwn a roddai yr efengyl i'r Iuddewon yn *compromisio* cymeriad Crist, gan ei wneyd yn achlesydd pechod. Ymwareda yr Apostol rhag y fath gyhuddiad yn erbyn yr efengyl, a thyr allan gyda'i bwyslais arferol "Na ato Duw!" Wels yr ymresymiad uchod wedi ei dafennu:—

IV.—GWADA KI FOD YN EUOG O WASEIDD-DRA. { Canys yr awrhon ai peri credu (ceisio ffatr) dynion yr wyf, ynte Duw? neu a ydwyf fi yn ceisio rhyngu bodd dynion? Canys pe rhyngwa fodd dynion eto, ni byddwn was i Grist.

Deuamgychiad arbennig yn profi nad oedd yn waseidd. { Yna wedi pedair blynedd ar ddeg yr aethum drachefn i fyny i Jerusalem gyda Barnabas, gan gymeryd Titus hefyd gyda mi. Ac mi a aethum i fyny yn ol datguddiad, ac a fynegais iddynt yr efengyl yr hon yr wyf yn ei phregethu ymhlith y cenhedloedd, &c. (Adnod 3 sydd nodiad rhwng cromfachau).

(b) Achlysurwyd ei ymwelid gan ei annibyniaeth. { A hynny o herwydd y gau-frodry a ddygasid i mewn, y rhai a ddaethant i mewn i ysbio ein rhyddid ni yr hon sydd gennym yng Nghrist Iesu, fel y'n caethiwent ni. I be arai nid ymroisom trwy ddarostyngiad, naddo dros awr; fel yr arosai gwirionedd yr efengyl gyda chwi.

Nid ychwanegwyd dim at ei ddysegiadaeth.

A chan y rhai a dybid eu bod yn rhywbeth (pa fath oeddynt gynt nid yw ddim i mi, nid yw Duw yn derbyn wyneb dyn), canys y rhai cyfrifol ni ychwanegasant ddim i mi. Eithr yn y gwrthwyneb pan welsant ddarfod ymddiried i mi am efengyl y dienwaediad, megys am efengyl yr enwaediad i Pedr.

d) Cydnabyddwyd ei safle gyfartal ef ag eiddo Pedr.

(Canys yr hwn oedd yn gweithredu yn nerthol yn Pedr i apostolaeth yr enwaediad, a nerthol weithredoedd yno ffinau hefyd tuag at y cenhedloedd.) A phan wybu Iago, a Cephas, ac Ioan, y rhai a dybid eu bod yn golofnau, y gras a roddwyd i mi, hwy a roddasant i mi ac i Barnabas ddeheu-law cymdeithas; fel yr *elem* ni at y cenhedloedd, a hwythau at yr enwaediad. Yn unig ar fod i ni gofio y tlodion; yr hyn hefyd y bum i ddiwyd i'w wneuthur.

21. — Ei gerydd i Pedr ar achlysur ei ragrith yn Antiochia.

A phan ddaeth Pedr i Antiochia, mis i'gwrthwynebas yn ei wyneb, am ei fod i'w fefo. Oblegid cyn dyfod rhai oddiwrth Iago, efe a fwytaodd gyda'r cenhedloedd; ond wedi iddynt ddyfod, efe a giliodd, ac a neillduodd ei hun oddiwrthynt, gan ofni y rhai oedd o'r enwaediad. A'r Iuddewon crell a gyd-ragrithasant ag ef; yn gymaint ag y cygwyd Barnabas hefyd yw rheagrith hwynt, Eithr pan welsai i nad oeddynt yn lawn-droedio at wirionedd yr efengyl, mi a ddywedais wrth Pedr yn eu gwydd hwy oll, Os wyt ti, a thi yn Iuddew, yn byw fel y cenhedloedd, ac nid fel yr Iuddewon, paham yr wyt ti yn cymhell y cenhedloedd i fyw yn Iuddewald!

Nodiad eglurhaol yn cael ei achlysur gan ymddygiad Pedr.
1af.—Eu bod hwy y rhai oeddynt Iuddewon ganedig ac nid yn cenhedloedd, y rhai a elwid yn bechaduriaid, wedi deall yr efengyl, wedi ei derbyn, a syrthio i mewn yn ewyllsagar i'w threfti a' hegwyddor o gyflawnhad trwy fydd.

Nyni y rhai wrth naturiaeth ydym Iuddewon ac nid o'r cenhedloedd yn bechaduriaid, yn gwybod nad ydys yn cyflawnhau dyn trwy weithredoedd y ddeddf, ond trwy fydd Iesu Grist, ninnau hefyd a gredasom yng Nghrist Iesu fel y'n cyflawnhaer trwy fydd Crist, ac nid trwy weithredoedd y ddeddf, oblegid ni chyflawnhaer un cnawd trwy weithredoedd y ddeddf.

2il.—Eu bod trwy hynny yn dyfod i'r un tir a'r cenhedloedd, yn bechaduriaid; hynny yw, yr oeddynt yn rhinwedd y rhyddid a pha un y rhyddiaodd Crist hwy, yn tadu ymaith arferion caethiwed y ddeddf, neu yn ol adnod 14, yn byw yn ol y cenhedloedd.

Ac os wrth geisio ein cyflawnhau yng Nghrist y'n caed ninnau yn bechaduriaid,

3ydd.—Nad oedd arferiad o'r rhyddid hwn odu yr Iuddew yn rhinwedd dysegiadaeth yr efengyl yn gwnegydd Crist yn weinidog pechod.

A ydyw Crist am hynny yn weinidog pechod? Na ato Duw.

ABEL J. PARRY.

GERWINDEB.

Y MAE cenedl y Cymry yn hynod am ei hanghysonderau. Ymddengys weithiau fel pe byddai yn gwahanu pethau nas gellir eu gwahanu, ac yn cyfuno pethau nas gellir eu cyfuno. Pe bernid yr oll o honi wrth rannau helaeth o'r wlad a dosbarth lliosog o'r boblogaeth, temtid dyn i ddweyd—Dyma y genedl fwyaf crefyddol a'r fwyaf anfoesol; y fwyaf crefyddol a'r fwyaf anwaraidd. Nis gellir esbonio y dywediad yn llythyrennol. Gan nad oes y fath beth yn bosibl a chrefydd heb foesoldeb, na chrefydd heb wareiddiad, rhaid ei ddeall fel dull cryf o ddweyd fod proffes a rhyw ffurfiau o grefyddolder yn ffynnu ymysg y genedl, y

rhai ydynt allan o bob cyfartaledd âg ystad ei moesoldeb a'i gwareiddiad; neu, nad yw gwareiddiad a moesoldeb y genedl yn cyfateb o gwbl i'w sêl gydag ymarferiadau crefyddol. Ni phetrusa ein gelynyon roddi eu barn am Gymru, fel y maent wedi gwneyd mewn effaith ar fwy nag un achlysur, mewn dull cryf a chryno fel hyn:—"Dyma wlad y capelau a gwlad y celwyddau; gwlad yr Ysgolion Sabothol a gwlad y twyllo mewn masnach; gwlad y gwrando di-ddiwedd a'r moliannu a'r neidio, a gwlad—plant anghyfreithlon!"

Nis gall yr un Cymro gwladgarol, heb son am grefyddol, lai na theimlo ei ysbryd yn cael ei gynhyrfu ynddo wrth feddwl fod anwyl wlad ei dadau yn cael ei darlunio fel hyn hyd yn oed gan ei gelynyon,—gan y dosbarth ffol a chul hwnnw o'r Saeson sydd wedi ymlenwi o ragfarn yn erbyn Cymru a phopeth Cymreig, ac yn llawn o'r *self-conceit* sydd mor nodweddiadol o'r gwir Sais, yr hwn a bâr iddo dybied fod natur wedi ei ordeinio ef i fod yn ben y greadigaeth, ac mai lle naturiol y Cymro ydyw y pen cyferbyniol.

Rhaid i ni addef nad oes gennym amynedd i son am y dosbarth yna. Ond dylem gofio, wedi'r cwbl, mai nid rhai fel yna yn unig sydd yn edrych ar ein cenedl yn ateb, o ran sylwedd, i'r darluniad a roddwyd. Dyna yr olwg a gymer lliaws o Saeson crefyddol, deallgar, a diragfarn. Ac y mae yn hysbys fod meibion goreu y genedl ei hunan yn gorfod addef gyda galar fod y darluniad yn rhy wir.

Yn lle rhoddi enwad drwg ar ein cyhuddwyr, moli ein hiaith a'n gwlad, ymfawrygu mewn hunan-foddhad, ac "ymweneitho i ni ein hunain yn ein golwg ein hunain," mwy doeth a buddiol i ni a fyddai edrych y mater yn ei wyneb yn onest a phwylllog. Doethineb yw dysgu oddiwrth elyn. "Ymfrostio yn ddiaw nid yw fuddiol i ni." Mwy buddiol yw i ni ddyblu ein hegri i lanbau ein gwlad oddiwrth y drygau alaethus hyn, a'i dwyn hyd yn oed i ddisgleirio yn y rhinweddau cyferbyniol.

Heblaw moesoldeb, yr ydym, o genedl mor grefyddol, yn dra diffygiol mewn gwareiddiad. Gwir ein bod ers peth amser bellach wedi rhoddi heibio fyw yn y coedwigoedd, ymborthi ar wreiddiau, a lliwio ein cnawd. Ond y mae llawer o le i ddringo cyn y cyrhaeddwn fel cenedl risiau uchaf gwareiddiad. Dywed Matthew Arnold nad yw ein crefydd yn diwyllio digon arnom—nid fel Cymry yn awr, ond y Saeson a holl drigolion yr ynysoedd Prydeinig,—fod y diwylliad a effeithia Cristionogaeth arnom yn un diffygiol, yn ymwneyd a rhan o'r natur yn unig. Gwaedda Apostol yr Efengyl hon am ddiwylliad mwy cyflawn—diwylliad *all round*. Ei efengyl ef yw Llenyddiaeth. Nid eisieu efengyl arall sydd arnom, ond eisieu rhoddi ein hunain i fyny yn fwy llwyr i ddylanwadau Efengyl Crist i'n puro a'n dyrchafu, ac i bob dylanwadau ereill fo yn is-wasanaethgar i'r un amcan. A dylem yn sicr, erbyn hyn, wedi yr holl wrando pregethau, holl addysg yr Ysgol Sabothol, a holl addysg llenyddiaeth yng Nghymrn, allu dangos rhyw ffrwyth gwell, mewn mwy o "*sweetness and light*," mewn diwylliad mwy aml-ochrog, yn cymeryd i mewn holl agweddau y ddynoliaeth a holl bwyntiau ei chyfarfyddiad â'r byd.

Yn ol ein manteision ni yng Nghymru, a'r ystyriaeth ein bod fel yr Atheniaid ymhob peth "yn dra chrefyddol," yr ydym eto yn llawer gormod o "bobl y wlad," yn ystyr Thackeray ac Arnold, yn llawer gormod o Philistiaid. Y mae wmbredd o Philistiaeth yn ein gwlad er

popeth. Os elfennwn y cas-beth hwn, ni a'i cawn yn gyfansoddedig o dair elfen—ffolineb, anwybodaeth, a gerwindeb. Diffyg synwyr, diffyg gwybodaeth, a diffyg tynherwch. Y ddau gyntaf yn ddiffyg yn y pen, a'r olaf yn ddiffyg yn y galon. Pen drwg a chalon ddrwg. Ac os yw y-ddau yma yn ddrwg, beth sydd wedi ei adael i fod yn dda? Pan y mae "y pen oll yn glwyfus," a'r "holl galon yn llesg," nid oes i'w ddisgwyl ond i holl weddill y corff fod yn weliau ac archollion.

Nôd sicraf "gwledigrwydd" neu Philistiaeth ydyw *gerwindeb*. Y mae natur dda, addysg dda, a chrefydd dda, yn cydweithio i ffurfio a meithrin yr addurn prydferth hwnnw ar ddyn nas gellir ei ddarlunio yn hollol mewn geiriau, na'i ddwyn yn hollol dan rés o reolau, ond sydd i'w adnabod yn ddiffaefl i bawb yn y presenoldeb neu y diffyg o hono—*boneddigeiddrwydd*. Dyna un deffiniad o hono: "Yr ansawdd hwnnw mewn dyn nad yw byth yn anghofio yr hyn sydd ddyledus i ereill, nac ychwaith iddo ei hunan." Y cyntaf yn ei gadw rhag trahauster, a'r olaf rhag gwaseidd-dra. Darnodiad da yw hwn i'n tyb ni. Yn ol eglurhad arall, hanfod moesgarwch yw *Dymuniad i foddhau*. Cynhygiwn ddarnodiad eto:—Gwroldeb a thynherwch mewn cyd-bwysedd priodol. Cadernid ac ystwythder, gras a gwirionedd. Eto: Meddiant gan ddyn o hono ei hunan, ac ystyriaeth o ereill.

Ond—mor brin yw y peth gwerthfawr hwn yn ein gwlad! Onid yw yn rhyfedd—megys y mae iaith cenedl yn fynegai i'w chymeriad—nad oes air da yn Gymraeg am *gentleman*? Os nad yw y peth gennym, nid oes eisieu enw arno. Nid yw bonheddwr yn cyfleu yr ystyr yn agos. Golyga y gair hwn un peth sydd yn fantais ddirfawr i, ac yn gyffredin ynglyn â boneddigeiddrwydd, er nad yw ei feddu yn sicrhau y peth, na bod hebdo yn sicrhau diffyg o'r peth,—haniaid o deulu urddasol, pen-defigaidd; bod o *ſôn* da, *cŷff* da. Y mae cyfoeth, yr addysg oreu, gwychder o amgylch, arferion llednais, cwmni coethedig, a'r holl deimladau uchelyw o anrhydedd, gwroldeb, tynherwch, hunan-aberthiad i ddibenion teilwng—y *chivalry* a fegir gan y pethau hyn, a'r cwbl yn cael eu graenio yn ddyfnach i'r cymeriad trwy drosglwyddiad am genedl-aethau, a thyfiant graddol hanes a thraddodiadau uchel o gwmpas y teulu,—y mae yr holl bethau hyn yn fantais mor bwysig i ffurfiad yr ysbryd uchelgoeth hwn, nes y mae iaith ei hunan yn tystiolaethu iddo. Megys y mae *bôn* yn y Gymraeg, y mae *gentle* yn Saesneg yn dyfod o *gens* a *genos*. Y ddau olaf o bosibl yn weddillion yr amser pan y cyfrifai y Groegiaid bawb ereill yn farbariaid, a phan y Rhufeiniaid mai bod yn ddinesydd Rhufeinig oedd yr anrhydedd uchaf. Y mae un syniad yn rhedeg trwy yr ieithoedd hyn—y *bôn*, y teulu, y genedl, yr hil. Ond y mae y gair Saesneg *gentle* wedi dyfod mewn amser i feddu ystyr gyfoethocach—i arwyddo peth sydd o hanfod y hyn a ddisgrifir, ac nid yn ddamweiniol iddo yn unig. Anhawdd yw cael dim un gair Cymraeg yn hollol gyfystyr â *gentle*. Y mae "tyner" yn air rhy gryf, yn myned yn rhy bell er yn yr un cyfeiriad: gwneir ei ystyr i fyny o amryw bethau:—arafwch, cymedroldeb, lledneisrwydd, parch, tynherwch—y dymher groes i'r un eithafol, unochrog, nwydywllt sydd yn croch-lefain, "Mi fynnaf fi fy hawlau!" Tebyg i *epieikes* y Apostol yn ei lythyr at y Philippiaid (iv. 5). "Bydded eich *arafwch* yn hysbys i bob dyn"; y dymher sydd uwchlaw caledwch deddf a chyfiawnder llythyrennol; ysbryd cwrtais, uchelyw, ardderchog. Dyma y *gentle man*—dyma y *gentle life*.

Prin y mae "boneddigaidd" yn cyfleu y syniadau hyn. Ac megys nad oes gennym ni yng Nghymru a'r da am y peth, nid oes gennym ychwaith air da i osod allan y diffyg o'r peth. Oblegid am nad yw y peth ei hunan gennym, nid ydym yn gweled y diffyg o hono; ac felly nid oes eisieu enw ar y diffyg. Y mae boneddigeiddrwydd fel daioni; rhaid ei feddu cyn teimlo fod y diffyg o hono yn ddiffyg. Ac felly nid oes gennym air o gwbl yn gyfystyr â'r gair *vulgar*. Mae y gair hwn ar yr un sail a'r geiriau o *gens*, &c., ac yn golygu yr hyn sydd werinol neu gyffredin, yn gyferbyniol i'r bôn a'r gwehelyth urddasol,—y garw, yr isel, yr anghoeth.

Llawer o erwindeb sydd yng Nghymru mewn cymdeithas. Y mae llawer tref a phentref fel crochan berweddig o foreu hyd nos, o Galan i Galan, yn berwi mewn *gossip* isel, mewn chwedlau am eu cymydogion, mewn enllib a chelwydd. Y mae yr ysbryd hwn wedi meddiannu ambell dref,—enwog am ei chrefydd, bid siwr, ac am ei chapelau; y mae fel pla neu haint echryslon; cedwir y bobl mewn clefyd parhaus am glywed rhyw newydd, ac os na bydd newyddion yn dyfod yn ddigon cyflym neu yn ddigon cryfion, gwneir y diffyg i fyny yn rhwydd mewn dyfeisio a dychmygu. Credwn fod lliaws o aelodau eglwysig wedi ymlygru cymaint yn y camwedd hwn, fel nas gellid eu dwyn i deimlo fod dweyd celwyddau o'r fath yn bechod o gwbl.

Mewn rhai cylchoedd eglwysig mewn gwlad a thref y mae gerwindeb yn ei lawn rwyg. Cewch weled weithiau ddyd garw o ysbryd a llais a geiriau, fel *bully*, ac yn tynnu hynny o ddrwg sydd yn yr eglwys ato yn naturiol, fel yr anafusion yn heidio i ogof Adulam, ac yn gwneyd plaid sydd yn felldith i grefydd, ac yn nychdod i'r achos yn y lle am flynyddoedd. Yn yr hyn a elwir mewn gwawdiaeth anymwybodol yn "gyfarfod brodyr" mewn llawer eglwys yn y wlad a'r trefi, y mae Philistiaeth yn teyrnasu. Y mae y "brodyr" yn cweryla hyd ymladd bron, yn ol y ddawn sydd ganddynt; a llawer o honynt yn waeth eu hysbryd a'u hiaith na'r cwmni a oddeffir mewn tafarnau parchus. Clywsom am un dref fawr, lle mewn un eglwys y mae gwr rhagorol, cyfoethog, yn cyfrannu symiau mawr bob blwyddyn at gynhaliath yr achos, ac yn un o'r dynion mwyaf tircn, gostyngedig, a chrefyddol, a'i galon yn llwyddiant yr achos yn y lle, a'i briod yn llawn mor haelionus ac ymroddgar ag yntau. Ond yr oedd yn rhaid i un o'r Philistiaid gael ei erlid am ei ddaioni trwy anfon ato lythyrâu dienw,—dyma anfadwaith eto budr a dirmygedig sydd yn anurddo ambell barth o Gymru yn neillduol, nad oes modd bod yn rhy *erwin* wrth son am dano!—i'w gyhuddo o fod yn orthrymwr, ac yn llywodraethu achosion yr Eglwys ei hunan. Gobeithio fod yr eglwys honno, er mwyn ei hanrhydedd ei hun, wedi mynnu d'od o hyd i'r Achan hwn, ac wedi ei fwrw allan o'r gwersyll. Ceir y gerwindeb hwn hefyd i raddau helaeth iawn yn nhôn ac ysbryd ac iaith llawer o aelodau ein heglwysi wrth son am eu blaenoriaid, ac wrth son am y pregethwyr, a'u beirniadu. Y maent fel pe byddai y gynneddf o barchedigaeth ar ol ynddynt. Y mae llawer yn grefyddol heb *reverence*—heb barch, gellid meddwl, i Dduw na dyn. Rhuthrant i le o addoliad fel i ystabl neu ffair. Cenedl o bobl *rough* ydym. *Rough* yw ein moesau, *rough* yw ein crefydd. Gwnai y diweddar Esgob Wilberforce nodiad yn ei ddyddyfr, wedi bod yn ciniawa mewn palas pendefig, ac yn ymddiddan am oriau gyda boneddigion a boneddigesau o waedoliaeth uchel oedd yno yn gwmmi ar y pryd,—fel yr oedd *real high breeding* yn

cynhyrchu moesgarwch mor ddymunol mewn dau beth : hunan-feddiant heb ddim cynnwrf na *fussiness*, ac ystyriaeth lednais barhaus o ereill. Nis gallwn ni gael y pethau hyn, bobl dldion, trwy *high breeding*. Ond gallwn a dylem eu dysgu, a chael yr ysbryd sydd yn eu cynhyrchu, trwy ddylanwad yr Efengyl, y Beibl, yr Ysgolion Sabothol, a'r addysg fydol sydd yn awr wedi dyfod at ddrysau y rhai tlotaf yn y tir. Y mae addysg yn boneddigeiddio ; ac uwchlaw y cwbl, y mae "y ddoethineb sydd oddi uchod yn foneddigaidd" ; tra y mae yr ysbryd Philistiaidd, gerwin, yr ysbryd di-ofn Duw a di-barch i ddyn, meddai Iago, yn "ddaearol, anianol, a chythreulig." "Canys lle mae cenfigen ac ymryson, yno y mae terfysg, a phob gweithred ddrwg." Y mae y *ruffian* crefyddol yn ei dwyllo ei hunan yn aml trwy alw ei dymer ddrwg yn "onestrwydd," ac yn "sêl dros y gwirionedd." Ow o'r gwirionedd, pe wedi ei adael yn nwyllaw y rhai hyn i gymeryd ei ofal ! Na, mældai Iago eto, y rhai sydd ganddynt "genfigen chwerw ac ymryson yn eu calon," ydynt "frostwyr a chelwyddog yn erbyn y gwirionedd."

Edrychwn eto ar ein llenyddiaeth mewn papurau newyddion a chyhoeddiadau cyfnodol. Os meiddia ysgrifenydd farnu yn wahanol i rywrai, a mynegi ac amddiffyn ei farn â rhesymau, gan nad pa mor bwylllog a boneddigaidd, dyma gawod o eiriau sarhaus a chabledd am ei ben ! Gresyn fod lliaws o weinidogion Cymru o natur a dygiad i fyny mor isel ; yr ychydig addysg a gawsant, nid yw ond barneisiad teneu yn cuddio *vulgarity* hanfodol eu natur, ac y mae yn ei amlygu ar y cyffyrddiad lleiaf. "Scratch a Russian and you find a Tartar." Diwygiwn !

GWLADGARWR.

YMWELIAD A LLYDAW, &c.

GADAWBOM brif dref Cantref Dinlleyn chwarter wedi saith o'r gloch bore y 15ed o Fedi diweddf, ac yn fuan cyflymem heibio i hen Eglwys Sant Cawrdaf, Abererch, yn ol Lewis Morris o Fôn, Berach, yr hyn i'n tyb ni sydd fwyaf cywir. Yn fuan wedyn yr oeddym yn gadael ar ein chwith yr Aberkin, lle y cyflawnwyd y fath gyflafan ofnadwy, gan un gangen o'r teulu ar y llall fel y penderfynodd Meredydd ap Ieuan (o'r hwn yr hanodd teulu Gwydir), ymadael a'i ardal enedigol a gwladychu yng nghymdogaethau Llanrwst, gan ddewis yn hytrach ymladd â herwyr, a lladron Carreg y Gwalch a'r amgylchoedd os byddai raid, nag a'i deulu ei hun. Achlysurwyd y brwydrau hyn yn ddiaon gan mwyaf, o herwydd yr ymbleidio adeg rhyfel y Rhosynau, y naill ochr dros deulu Caerwerydd, a'r llall dros deulu Caerfrog. Yn ganlynol cawsom ein hunain yng Ngorsaf Criccaeth. Edrychem ar yr hen gastell ar ein de, sydd wedi goroesi llawer rhuthgryrch a dryc-hinoedd. Bu Syr Hywel y Fwyall yn trigianu yma pan ei gwnaed yn Geidwad y Castell gan Harri y Trydydd, yn wobwr am y gwrhydri a gyflawnwyd ganddo yn Cressy, a Poitiers, yn Ffrainc, pan yn ymladd dan arweiniad y Tywysog Du, ac yr archodd y brenin ar i saig o fwyd gael ei ddwyn yn ddyddiol ar ei fwrdd a'i osod gerbron y Fwyall â'r hon y dywedid iddo wneyd y fath wrhydri, gyda gorchymyn hefyd ar fod i wyth o farchogion, y rhai

a alwyd yn farchogion y brenin, wasanaethu ar Syr Hywel, ac iddynt gael eu talu o gyllid y llywodraeth yn ol wyth geiniog y dydd. Wedi i Syr Hywel a'i farchogion gael eu diwallu, rhennid y gweddill o'r saig i drigolion y dref. Y mae'r fwyall yn ddios wedi myned ar ddfanecoll, ond y mae'n aros yn yr hen dref eirf nad yw'n ddiogel iawn i'r un ymosodwr ryfygu myned i ymrafael â'r bwrdeiswyr. Ychydig ymlaen gwelem hen breswylfod neu lys Syr Hywel, Bronyfoel, yn llechu yng nghesail Moel y Gest; ar y chwith i ni yr oedd Cefn y Meusydd, preswylfod y diweddar fardd Ellis Owen; ac yn uwch i fyny, Clenenev, hen balasdy Syr John Owen, yr hwn oedd yntau yn rhyfelwr gwych. Yn fuan wedyn yr oeddyd yng Ngorsaf Porthmadog, o'r hwn le, medd rhai, yr hwyliodd Madog ap Owain Gwynedd am yr America, os cymerodd y fath ymfudiad le hefyd. Nid awn i ymryson â'r haneswyr a fyddant mai o dueddau Abergele y cychwynodd. Wrth olwyno ar draws y traeth mawr, gwelem y morglawdd a adeiladwyd gan yr anturiaethwr, William Alexander Madocks, Ysw., A.S. dros Bolton. Trodd yr anturiaeth yn fendithiol iawn i Eifion, Meirion, &c., ond ni bu y buddiant iddo ef yn gymaint; digwyddodd gydag ef yn gyffelyb fel y bu cyn hynny gyda Syr Hugh Middleton, yr hwn a gyflenwodd Lundain a dwfr. Ar ol croesi yr afon Glaslyn, gwelem ar ein chwith y Plasnewydd, mangre preswylfod un o hen farchogion Cymru flynyddoedd yn ol; ac ar ein de yr oedd Castell Deudraeth, yr hwn a adeiladwyd gan y diweddar David Williams, Ysw., A.S. dros Meirion, ac odditau yn cael ei hamgylchu gan y traeth bach yr yswatiai Ynys Gifftan (*Chieftain*), yn agos i'r fan lle y daliwyd yr "Hwntw Mawr," llofrudd morwynig ddiniwed y Penrhyn Isaf. Ar ol croesi'r traeth, gwelem hen gartref y bardd tlws Robin Tecwyn Meirion; ac ymlaen deuai i'n golwg Las Ynys, palasdy Ellis Wyn, awdwr y "Bardd Cwsg," &c. Yna daethom i orsaf Harlech. Wrth ddyrchafu ein golygon tuag at y Castell, cofiem rhudag edmygedd am wroldeb y fintai fechan a barhaodd i wrthsefyll pob rhuthrgyrc'h yn llwyddiannus, hyd nes darfod i'r oll o hen gestyll Cymru syrthio i ddwyllaw y Normaniaid. Y mae'r drafodaeth rhwng Ceidwad y Castell, Dafydd ap Ieuan ap Einion, a Syr Richard Herbert, blaenor y gwarchodwyr, yn ddanghoseg o benderfyniad ac annibyniaeth meddwl y cyntaf, yn gystal ag o foneddigeiddrwydd a ffyddlondeb yr ail; taniai ein teimlad cenedlaethol at y naill, a'n parch tuag at y llall, o herwydd ei uniondeb tuag at ei frenin, a'i ffyddlondeb tuag at y gorchfygedig. Yn fuan drachefn gwelem hen Eglwys Sant Danwg, adgyweiriwyd yn ddiweddar; o'r blaen teimlem wrth edrych arni fod y dadgysylltiad rhyngddi hi, druan, a'i phlwyfolion wedi cymeryd lle cyn i hwrdd-beiriannau Cyngrair y Dadgysylltwyr ymosod arni. Ar y chwith gwelem Ddrws Ardudwy, a chofiem fod yn llechu odditau y Gerddi Bluog, hen anedde gysegredig yr Archddiacon Edmund Prys, yr hwn a gyflawnodd y fath wasanaeth i ni fel cenedl trwy droi y Salmaw ar gân, a chynorthwyo yr Esgob Morgan i gyfieithu yr Ysgrhythyr Lan i'r Gymraeg. Ychydig ymlaen yr oedd trigfan yr hen fardd William Philip, a'r Fychaniaid, o Gorsygedol, y rhai er eu bod yn Gymry twymgalon, oedd yn freniniaethwyr pybyr; nis gallent oddef y drychfeddwl o gael eu llywodraethu gan y Gwerinwr Cromwell. Deuai i'n golwg drachefn y Faeldre, cartref y diweddar Barchedigion Richard Humphreys ac Edward Morgan. Cyn hir, cyrhaeddasom yr Abermaw, y lle y derbyniodd yr ychydig Fethodistiaid o Leyn ac Eifionydd y fath

driniaeth chwerw wrth ddychwelyd adref ar ol bod yn gwrando Daniel Rowland Llangeitho. Y fath gyfnewidiad, onide, sydd wedi cymeryd lle mewn ychydig gyda chan mlynedd! Yn lle bod y trefwyr yn cyfodi i erlyn dilynwyr Crist, y maent bellach wedi adeiladu cyflawnder o addolai hardd a chyfleus i'w addoli. Ar ol croesi y Fawddach, a myned dros un o'r llanerchau mwyaf erchyll, yr oeddym yn gadael ar y chwith hen gladdfa gysegredig y Crynwyr, yn Llywngwrl, am y rhai yr ysgrifenwyd mor dda gan ein hanwyl gyfaill, Mr. Edward Griffith, Dolgellau. Ychydig ymlaen, pasiem "Ogof Owain," yr hon a'n hadgofiai am y gwladwr Owain Glyndwr, a'i ryfeloedd blinion. Yna gwelem Bron y Clydwr, preswylfod yr hen ddiwygiwr euwog Hugh Owen, enw yr hwn sydd yn berarogl yng Nghymru hyd heddyw, ac a fydd felly yn ddiau tra y parabolir yr iaith Gymraeg. Wedi gadael Towyn, yn gyfagos i'r hwn le y mae Peniarth, lle y ceir casgliad anferth o hen lyfrau a llawysgrifau Cymreig, cawsom ein hunain yn Aberdyfi, lle y cynhaliwyd cyngor rhwng mân dywysogion Cymru, pan ddigwyddent fod yn lled heddychol a'u gilydd, i'r hwn y daeth Llewelyn ap Iorwerth, Llewelyn Fawr, i geisio penderfynu terfynau tiriogaethau tywysogion y Deheubarth. Ceglir gan lawer oddiwrth y ffaith uchod, fod Llewelyn yn frenin Cymru oll. Yn ganlynol aethom heibio i Gors Fochno a'i chwedlau rhamantaidd ynghylch Taliesin, gan gyrraedd Machynlleth, y dref yn yr hon y cynhaliodd Owain Glyndwr senedd, ac er mai bychan oedd rhifedi y rhai a ddaethent ynghyd, yr oedd yn eu mysg, fel gyda'r disgyblion gynt, un bradwr ym mherson Syr Dafydd Gam ap Llewelyn ap Hywel. Gwyn fyd nas gallasem yn rhesymol hysbysu i'r oesau a ddel ddarfod i'r gosbedigaeth haeddiannol a ddiodefodd yr adyn hwn, fel Judas o'i flaen, fod yn foddion i lanhau ein gwlad oddiwrth y fath fryntwch. Ymhen ychydig funudau yr oeddym yn myned heibio i Mathafarn, hen balasdy Einion ap Seisyllt, a Gruffydd Llwyd ap Dafydd ap Einion, un o feirdd galluocaf ei oes, ac un a lwyf ymroddodd gyda'i gyd-fardd, Iolo Goch, i gynorthwyo Owain Glyndwr, a Harri y Seithfed ar ol hynny. Ac nid bychan oedd gallu y beirdd yn yr oesau hynny i gynorthwyo neu wrthweithio ymdrechion y tywysogion.

Aethom ymlaen hyd Lanbryn-mair, gan adael ar y dde un o lysoedd Owain Gwynedd, yr hwn a wnaeth y fath alanastra ar y Normaniaid, ac ereill, a safent ar ei ffordd. Cofiem am weithwyr a gwladgarwyr dewr ereill fu yn trigiannu yno, megys Lewis Ifan, Richard Tibbot, John Roberts, a'i feibion glew, a Richard Williams a'i wehelyth yntau. Ymladdodd y rhai hyn â gallu cryfach na'r Normaniaid, trwy wasgar goleuni Efyngyl Iesu Grist ymysg eu cydwladwyr, ac y mae sefyllfa foddol a chrefyddol yr ardal a'r wlad yn dystiolaeth o'r gallu dwyfol oedd yn cydfyned a'u cenadwri. Oddiyno cyrhaeddasom Garno, y ma', yn ol rhai haneswyr, yr ymladdwyd y frwydr waedlyd rhwng Gruffydd ap Cynan a Trahaern ap Caradog, ac nid yng Ngharno Mynuwy. Pa fodd bynnag cofiem gyda serchogrwydd am un a drigiannai yno yn ddiweddar, yr hwn a lafuriodd yn galed mewn amser ac allan o amser i ddyrchafu a gwella ei gydgenedl, nid o fewn cylch bychan ei sir, ond trwy holl siroedd Cymru, yr anwyl a'r diddan, y Parch. Joseph Thomas. Ychydig ymlaen, gadawem ar y dde olion hen gaerfa Cefn Carnedd, gerllaw palas y diweddar Mr. David Davies, A.S. dros Geredigion am flynyddau, yr hwn oedd yn un o feibion llafur mwyaf athrylithgar

Cymru, i'r hwn yn ddiau y dylai Maldwyn a Gogledd Cymru gyfodi cofadail deilwng i fynegi i'r oes a ddel am ei wrhydri masnachol.

Yn nesaf cyrhaeddasom y Drefnewydd, mangre preswylfod y Marchog Pryce Jones. Adgofiem am ymgyrch Harri y Trydydd ar y rhan hon o'n gwlad, a'i waith yn adeiladu Castell Maldwyn, ac yn ymdrechu cyflawni yr un gwaith yng Ngheri, ger y dref uchod, yr hon etifeddiaeth a berchenogir yn awr gan Mr. Edward Davies, Plas Dinam, yr hwn sydd wedi ei ddyrchafu i fod yn Uchel Sirydd ei wlad enedigol, serch ei fod yn Ymneillduwr. Gall boneddigion ieuainc a fegir ymysg yr Ymneillduwyr ddsygu gwerau effeithiol yn yr hanes hwn, yn gystal ag yn hanes Arglwydd Raglaw Môn, nad ydyw ffyddlondeb i'w gwlad ac i'w hegwyddorion crefyddol, yn rhwystr, erbyn hyn, iddynt gyfodi i lanw lleoedd pwysig yn y Llywodraeth. Aethom oddiyma i lawr hyd Drallwm, lle y bu y fath frwydrau a thywallt gwaed rhwng Owain Gwynedd, Llewelyn Fawr, Llewelyn ap Gruffydd, ac Owain Glyndwr, a'r Normaniaid, ac hefyd a rhai o dywysogion eu gwlad eu hunain, megys Gwenwynwyn, &c., y rhai olaf hyn yn ddiameu yn cael eu cymell a'u dwyn ymlaen gan Arglwyddi y Cyffindiroedd. Nis gallasem lai na themlo eiddigedd a digofaint yn llanw ein hysbryd wrth edrych ar y Castell Coch, a chofio am Arglwydd Cobham a'i ddiwedd, a'r dialedd a ddaeth i ran ei boenydwyr,—gan lawnychu hefyd am y cyfnewidiad daionus sydd wedi ei ddwyn oddiamgylch y blynyddoedd diweddaf yn nheimplad ac ymddygiad ei feddianwyr tuag at y Cymry.

Oddiyma aethom i lawr i dref hynafol yr Amwythig, ond yn rhy ddiweddar i allu myned ymlaen gyda'r trên am Gaerodor. Nis galleim lai na themlo eiddigedd o herwydd y difrod a'r galanastr a wnaed ynddi, ac yn ei chyffiniau ar ein hynafiaid, yr hyn a achlysuroidd ei throsglwyddo oddiwrthym ni, a'i chysylltu â Lloegr. Pe buasai gennym hamdden, ac mewn tymer briodol, carasem edrych o'n hamgylch am y llanerchau y mae gwylaf o hanes ynglyn â hwynt, yn neillduol yr hen lys, i'r hwn y gwyswyd cynifer o'n hen dywysogion i gyfarfod â'r brenhinoedd Normanaidd, i lawnodi cytundebau am gad-odiad, neu heddwch, a'r telerau ynglyn a'r cyfryw. Yma hefyd y diffoddodd y wreichionen olaf o obaith y Cymry am ryddhad odditan iau orthymus a thrahaus brenhinoedd Lloegr, pan y gorchfygwyd Iarll Northumberland, Hotspur, a Douglas, cyngreiriaid Owain Glyndwr, yn y flwyddyn 1403, yr hon fuddugoliaeth, mae'n ddilys gennym, a enillwyd oblegid i'r gwyr uchod orfod ymladd cyn i Glyndwr allu cyrraedd yno o Gaerfyrddin, ac nid o herwydd ei lwfrdra ef, fel y myn rhai Saeson i ni gredu. Wedi derbyn caredigrwydd mawr gan y Parch. Dr. Dickens Lewis a'i briod hynaws, cychwynasom am Henffordd, yr hon y torwyd ei chysylltiad â Chymru tua diwedd y drydedd ganrif ar ddeg. Wrth basio Croes Mortimer, adgofid ni am ryfel y Rhosynau, a'r frwydr yn yr hon y lladdwyd, ymysg lliaws o bleidwyr teulu Caerwerydd, yr hen farchog anrhydeddus Owen Tudur, o Benmynydd, Mon, o'r hwn yr hanodd ein pennau coronog hyd y dydd heddyw; ac oddiyma y dihangodd ei fab Jasper, Iarll Penfro, i noddi ac amddiffyn ei nai bychan, Iarll Rhismwnt, ac wŷr yr hen farchog o Benmynydd, Mon, a'r hwn wedi iddo gyrraedd oedran gwr, a wnaethpwyd yn frenin Lloegr, ac a lwyd yn Harri y Seithfed. Ar y dde i ni yr oedd Llwydlo, lle y cadwai Harri y Trydydd ei lys ar adegau, a'r man y trigai amryw o'r tywysogion brenhinol; ac yn fuan wedyn, yr oeddym yn cyrraedd gorsaf Henffordd, y ddinas gadeiriol, a'r man am ganrifoedd y cyn-

helid llys Arglwyddi'r Cyffindiroedd. Oddiyno aethom yn gyflym ar hyd dyffryn prydferth yr Hafren, gan adael Newport, a Chastell Caerleon-ar-Wysg ar y dde, a Chaerloyw ar y chwith, a than yr afon Hafren am Gaerodor, yr hwn le a gyraeddassom erbyn 8 o'r gloch. Bu raid i ni aros yno hyd 11 o'r gloch cyn cael tren am Weymouth; da erbyn hyn ein bod wedi ein bendithio a stoc helaeth o amynedd! Cerddassom ôl a blaen ar hyd ystrydoedd y dref, ond yr unig adeiladaeth a gaem ydoedd ystwytho ychydig ar ein cymalau. Buasem yn hoffi gweled yr hen Gastell y daliwyd Despenser, oedd wedi trawsfeddiannu cymaint o etifeddiaethau yr hen Gymry yn Browry, &c., a'r man y dihangodd ei feistr ehud Edward yr Ail, gyda'i Ganghellydd Baldock, a Despenser ieuanc, gan gyfeirio eu camrau i ymofyn cymorth i wrthsefyll ei farwniaid at y Cymry, y rhai a ddiodeffasant gymaint oddiwrth eu trais. Nid rhaid ychwanegu nad oedd yr hen Gymry, druain, yn ddigon ehud a phenchwiban i estyn iddo yr hyn a geisiai.

Daeth yr amser i ni gychwyn tua phen y daith, gan fyned trwy Gaer Baddon, hen ddinas y ffinhonnau, yr hon a ymddanghosai i ni yn llewyrch y lleuad a'r nwy yn brydferth iawn. Pe buasai i Linell Glannau'r Môr glustiau, credwn, yn ol yr hen ddywediad, y buasent yn bur ferwinllyd, gan faint a rhempiem arni o herwyddei diweddarwch yn cyrraedd yr Amwythig.

Aethom heibio i Dorchester, a newidiasom ein llinell yn Stow-bridge, ar hyd yr hon yr aethom i Weymouth, erbyn 2 o'r gloch bore yr 16eg. Ceisiasom roddi ein hunain yn yr agwedd briodol i fwynhau ychydig gwsg, a llwyddassom yn ein hymdrech am dymor byr, ond yr oedd y swm anferth ac annaeorol a ddeuai oddiwrth un o'n cymdeithion, yn ddigon trech na'n blinder a'n syrthui. Yr oedd ein hamgylchiadau mor wahanol i'r eiddo hen weinidog doniol o Fôn, fel nad allem obeithio cadw y cyfaill hwn yn effro, hyd nes y cawsem afael ar ein cyntun. Wrth neshau i borthladd Weymouth, clywem y gloch yn rhybuddio fod yr adeg i'r llestr gychwyn ar ben; yn fuan wedyn, clywem lais tyner boneddiges yn ein galw wrth ein henw, cyn diagyn o honom o'r cerbyd, ac mor ebrwydd ag yr oedd ein traed ar yr orsaf, clywem lais awdurdodol yn gwaeddi allan o'r tywyllwch, "Ym mha le yr ydych"? Penderfynasom os nad Llywydd Gweriniaeth Ffrainc ydoedd, fod yn rhaid ei fod yn wr o awdurdod mawr, ac ni siomwyd ni, canys Llywydd Cymdeithasfa y Gogledd ydoedd, newydd adael ei gadair lywyddol ym Mhwllheli. Yr oedd tynherwch a chydymdeimlad ei briod hoff yn llareiddio a thynheru llawer arno yntau, fel yr arweiniodd ni yn ddiogel i'r llestr, ac yno er ein boddhad, cawsom siglo llaw a'i frawd serchog Mr. Pierce Wheldon, yr hwn a fu'n gydymaith diddan i ni hyd Ddinas Malo. Yr oedd y "Llywydd" wedi sicrhau gorweddfau cysurus i ni; a dychmygem gael ymollwng yn dawel i freichiau cwsg, gan mor ludd-edig y teimlem wedi teithio tua 300 milldir; ond yma yr oedd baldordd a chrechwen un a alwn o barch i chwaeth dda eich darllenwyr yn *wr ieuanc*, yn gyfryw fel yr erfyniwyd arno ymatal; gwnaeth hynny ymhen ennyd gan gyfeirio ei gamrau i chwilio am gyfeillion mwy cydnaws a'i chwaeth. Mor fuan ag y digwyddodd hyn, galluogwyd y cydymaith oedd yn cyd-drafaelau a ni o Stowbridge, i ddechreu chwynnu yn enbyd, a daliodd ati hyd nes y ciliodd ein cwsg unwaith yn rhagor; a rhwng ooll cwsg, a phethau ereill, gorfodid ni i edrych dros ochr y llestr yn lled aml. Wedi morio tua 75 milldir, cyrhaeddassom am 6 o'r

gloch y bore Ynys Guernsey (yr Ynys Werdd). Glaniasom am ychydig amser ym Mhorthladd Pedr. Y mae'r dref, yr hon sydd agos yn hanner cylch, a'r tai yn ymddangos yn dda a phrydfferth, yn cymeryd ei henw oddiwrth yr hen Apostol. Galluogwyd ni yn rhyfeddol ar ein boreufwyd, i wneyd i fyny am y golled a ddiodefasem rhwng Weymouth a Guernsey; ond ni bu ein cydymaith diddan—Cynfaer Truro, oedd wedi cyfarfod a'r un colledion a ninnau, mor ffodus i'w gwneyd i fyny am a tro hwn o'r hyn lleiaf. Y mae i'r ynys hon hanes dyddorol iawn, y chan mwyafr yn ei gysylltiad â'n teyrnas ni; ond gan na chawsom ond yn brin gyffwrdd a'i daear, nis gallwn anrhegu y darllenwyr â'r manylion, rhagor na dweyd ei bod tua phedair milldir ar hugain ysgwâr o arwynebedd, ac yn un fil ar bymtheg o aceri, o'r hyn y mae tua'r drydedd ran wedi ei diwyllio yn dda. Yr unig dref o nemawr bwysigrwydd yn yr ynys ydyw'r un y glaniasom ynddi. Mae ynddi saith neu wyth o Eglwysi Esgobyddol Protestanaidd, ac un Eglwys Babaidd, a deg neu ddeuddeg o Gapelau Ymneillduol, o'r rhai y mae 5 neu 6 yn perthyn i'n brodyr y Wesleyaid, a'r gweddill rhwng yr Annibynwyr, y Bedyddwyr, a'r Presbyteriaid. Pa gyfrif roddir fod yr ynys hon, a'r rhai cylchynol iddi, mor Brotestanaidd, tra y mae'r Cyfandir, lle mae Pabyddiaeth yn ei rwysg, mor agos iddynt, ac wedi eu poblogi gan mwyafr gan y Normaniaid, nid ydym yn gwybod, os na chynrychwyd yn yr ynyswyr atgasrwydd angerddol at y Babaeth oherwydd llosgi ar heol y ddinas Catherine Cawches a'i dwy ferch briod, Perctine Massey a Guilemine Gilbert, adeg teyrnasiad y Frenhines Mari. Gan nad beth ddywedir am y Frenhines Elizabeth a'i hewyllys anhyblyg, y mae Guernsey, fel ein gwlad ninnau, dan rwymau i'w choffadwriaeth, canys adeiladodd ynddi Goleg, yr hwn sydd wedi bod o werth anrhaethol. Yma y dihangai llawer o'r rhai a erlidid oblegid eu golygiadau crefyddol, neu wladol, ac y mae y man lle preswyliai M. Victor Hugo i'w weled ynddi. Ynddi hi hefyd y mae'r hen Gastell Cornet, o'r hwn y galluogwyd y trigolion i amddiffyn eu hunain rhag ymosodwyr lladronllyd. Yn hwn hefyd y talodd mab i un o hen dywysogion Cymru, y pwyth i'r Brenin Edward y Cyntaf, oblegid iddo orchymyn llofruddio ei dad. Cafodd ei breinlen gyntaf gan yr anwadal, y Brenin John, a hynny, y mae'n ymddangos, heb ei argymhell a'i ddirwasgu gan ei ddeiliaid, fel y gwnaed ag ef yn Lloegr cyn llwyddo i gael y Freinlen Fawr; a dywedir ei fod wedi rhoddi un hynod o ryddfrydig iddynt.

Er mwyn yr anghyfarwydd, gwell i ni grybwyll ddarford i ni hwylio heibio amryw fân ynysodd cyn cyrraedd Guernsey; megys y Sark, Alderney, yr Herm a'r Jethou, a'r Gaskets, ar yr hon y mae Goleudy. Y mae trigolion lawer yn byw ar yr ynysodd hyn, yn neillduol y ddwy gyntaf, ac y mae ganddynt eu llywodraeth leol, dan nawdd Coron Lloegr. Y mae chwedl am y modd y cymerwyd un o'r ynysodd, Sark (os ydym yn iawn gofio) oddiar y Ffrancod, gan un o'r Fflemiaid, yn dwyn tebygolrwydd mawr i hanes cymeriad Caerdroia.

Gadawn ein hymweliad â Jersey a Llydaw hyd y Rhifyn nesaf.

Pwllheli.

ROBERT ROWLAND.

Y PROFFESWR LLEWELYN I. EVANS, D.D., A'R DDADL AR YSBRYDOLIAETH.

Biblical Scholarship and Inspiration. Two Papers by LLEWELYN I. EVANS and HENRY PRESERVED SMITH. Cincinnati: Robert Clarke & Co. 50 cents.

Inspiration and Inerrancy. Inaugural Address by C. A. BRIGGS, D.D., Professor of Biblical Theology in Union Theological Seminary, New York. *Together with Papers upon Biblical Scholarship and Inspiration*, by LLEWELYN I. EVANS, D.D., Professor of New Testament Exegesis in Lane Theological Seminary, Cincinnati, and HENRY PRESERVED SMITH, D.D., Professor of Hebrew in Lane Theological Seminary, Cincinnati; and *An Introduction* by ALEXANDER BALMAIN BRUCE, D.D., Professor of Apologetics and New Testament Exegesis in the Free Church College, Glasgow. London: James Clarke & Co. 3s. 6s.

Ffe ysgubodd cryn ystorn y llynedd dros gyfandir America, yr hon ar y pryd yr ofnid iddi wneyd hafog a dinystr. Yr oedd llawer o ddynion da wedi eu dychrynu ac yn ofni fod gwyr a lanwent sefyllfaeod tra phwysig fel Athrawon yn eu Colegau Duwinyddol yn gollwng eu gafael o'r athrawiaeth fawr o Ysbrydoliaeth yr Ysgrythyrau, ac felly yn agor y ffordd i ddiluw o ddiidwriaeth ddyfod dros y wlad. Mae yn ddiameu i hyn fod yn brofedigaeth lem i lawer ag yr oedd eu calon yn pryderu am arch Duw. Ac nid allai ereill, er heb weled y peryglon yr arswydai llawer rhagddynt, lai nag ymdeimlo â difrifwch y sefyllfa, gan ofni i deyrnas Dduw ddioddef colled oddiwrth y teimladau cynhyrfus a ffynnent yn y wlad. Ychydig cyn hynny buasai helynt dra blin, ac mewn cysylltiad â'r un mater, yn Eglwys Rydd Scotland. Yn y ddwy wlad fe deimlid yn fwy pryderus wrth weled fod golygiadau a ystyridd yn beryglus yn cael eu dysgu, nid mewn gwledydd ereill, a chan ddynion a wnelont ymfrost o'u penrhyddid, ond yn eu gwlad hwy eu hunain, a chan rai a broffesent fod yn gyfeillion ffyddlon i'r gwirionedd, ac yr edrychid arnynt gan liaws, ac yn enwedig o'r rhai y bydd fwyaf a wnelont ag addysgiaeth y dyfodol, fel merthyron yn dioddef dros wirionedd Duw. Nid dyma yr unig droion y mae profedigaethau o'r fath wedi cyfarfod â phobl dda, a pheri eu bod, gan fel y dellid hwy gan y niwl, yn methu adnabod eu gilydd, ac yn ymosod, fel ar elynion, ie ar eu brodyr goreu.

Mae yn dra hawdd i ddynion, ac i gyfundebau o ddynion, ymollwng i fath o uniongreddedd marw, a'u llesteiria i ymdeimlo ond yn dra amherffaith â'r geiriau sydd yn "ysbryd a bywyd," ac a'u ceidw mewn ystad anghymwys i ymwneyd â meddwl byw eu hamseroedd, gan eu gadael hefyd yn dra diymadferth yn wyneb unrhyw anhawsterau a allont gyfodi o'u hamgylch. Y mae wedi bod felly i raddau mawr gyda'r athrawiaeth o Ysbrydoliaeth. Dysgeidiaeth y Beibl ei hunan ar y mater ydyw bod "yr holl ysgrythyr wedi ei rhoddi trwy ysbrydoliaeth Duw," yn Dduw-ysbrydoledig, ac felly yn air Duw, ac yn air iachawdwriaeth. Fe ddysgir y ffaith fel y peth mwyaf diamheuol mewn bod, ond ni chynhygir ei hesbonio. Felly y derbynid ac y credid hi gan y Cristionogion boreuol, ac yn wir gan eu holynwyr trwy yr oesoedd. Teimlent fod yn ddigon iddynt fod y Gair o Ddwyfol awdurdod, heb drafferthu o gwbl i geisio deall pa fodd yr ydoedd felly. Ond wedi Cyngor Trent, pan oedd dadl y Diwygiad Protestanaidd yn erbyn Pab-yddiaeth yn gorffod wynebu yr haeriadau a wneid am draddodiad fel o awdurdod oedd yn ogyfuwch â'r Ysgrythyrau, fe deimlid nad oedd dim

i'w wneyd ond dal at yr Ysgrythyrau yn unig, a honni eu bod yn gwbl Ddwyfol, yn wir yn Ddwyfol yn unig, ac am hynny yn llythrennol anffaeledig. Pell fuasai y Diwygwyr cyntaf oddiwrth ddadleu felly; yn wir y mae Luther a Calvin yn dangos ehangder meddwl ar y mater yma a barasai i lawer o'u dilynwyr,—a ystyrient eu hunain, debygid, yn fwy uniongred,—deimlo temtasiwn gref i'w condemnio; ond ymddangosai i'r dynion llai oedd yn eu dilyn mai ar y tir yma o ysbrydoliaeth eiriol, lythrennol, a wnelai yr ysgrifenywyr sanctaidd yn beiriannau yn unig, a'r Ysbryd Glan i bob diben a bwriad yn awdwr y cyfan, y gallent wrthsefyll y dadleuon a ddygid ymlaen gan eu gwrthwynebwyr. Nid ymddengys fod y golygiad hwn wedi ffynnu ond ychydig y tu allan i'r cylch dadleuol y cyfeiriwn ato. Gan Grigionogion yn gyffredin, yr oedd y ffaith bod yr holl Ysgrythyr yn Dduw-ysbrydoledig yn ddigon, ac ni theimlid fod unrhyw angen am ymgwreinio i geisio deall y modd yr ydoedd felly. Yr oedd y ffaith iddynt yn iachawdwriaeth, ac ni feddyl-ient, mwy nag y meddyliai yr ysgrifenywyr sanctaidd eu hunain, am geisio esbonio ei hathroniaeth. Yr oedd duwinyddion Westminster yn feddylgar a ffyddlon, ond ymfoddlonent hwy ar ddweyd yn eu Cyffes Ffydd:—"Galiwn gael ein cymell a'n hysgogi gan dystiolaeth yr Eglwys i syniad uchel a pharchedig am yr Ysgrythyrau sanctaidd; ac y mae nefolrwydd y mater, effeithiolrwydd yr athrawiaeth, mawrhydi yr arddull, cysondeb yr holl rannau, amcan y cyfan (yr hyn ydyw rhoddi pob gogoniant i Dduw), y llawn ddatguddiad a wna o'r unig ffordd o iachawdwriaeth i ddyd, y lliaws rhagoriaethau anghymharol ereill, a'u perffeithrwydd hollol, yn rhesymau trwy ba rai y maent yn ddigonol yn eu profi eu hunain yn Air Duw; eto, er hyn oll, y mae ein llawn grediniaeth a'n sicrwydd o'u gwirionedd anffaeledig a'u Dwyfol awdurdod, yn codi o waith tumewnlol yr Ysbryd Glan, yn tystiolaethu gyda a thrwy y Gair, yn ein calonau." Drachefn:—"Nid all y Barnwr goruchaf, . . . yn nedfryd yr hwn yr ydym i aros, fod yn neb angen na'r Ysbryd Glan, sydd yn llefaru yn yr Ysgrythyrau." Y mae y datganiad a geir ar y mater yng Nghyffes Ffydd y Methodistiaid Calfinaidd, yr un modd yn eang a chatholig:—"Gair Duw yw yr holl Ysgrythyrau, sef llyfrau yr Hen Destament a'r Newydd. Oddiwrtho Ef y daethant; maent wedi eu llefaru gan eiddynion sanctaidd Ef, ac yn cynnwys datguddiad cyflawn, digonol, a pherffaith, o feddwl ac ewyllys Duw, am bob peth angenrheidiol i ni eu gwybod er ein hiachawdwriaeth, ac yn unig anffaeledig reol o ffydd ac ufudd-dod. Mae ehangder a dyfnder y gwirioneddau a gynhwysir ynddynt am Dduw, ac am berffeithiau ei natur, yn bethau nas gallasai neb eu datguddio ond yr Hwn sydd yn ei adnabod ei Hun yn berffaith; y mae duwioldeb, a hunanymwadiad yr ysgrifenywyr, purdeb a sancteiddrwydd yr holl wirioneddau a gynhwysir ynddynt, cysondeb eu holl rannau a'u gilydd, er eu hysgrifennu gan wahanol bersonau, ac mewn aesoedd gwahanol o'r byd, cynhaliad a chadwraeth barhaus yr Ysgrythyrau yn y byd, yn wnech ymosodiadau yr awdurdodau cryfaf ar y ddaear i geisio eu diddymu, a bod prif amcan yr Ysgrythyrau i osod allan fawredd a gogoniant Duw, yn brawf sicr mai Efe yw yr Awdwr o honynt. Y mae awdurdod ac effeithiau yr Ysgrythyrau ar galonau a bucheddau dynion, ynghyda rhagoriacth y cenhedloedd hynny a feddianasant yr Ysgrythyrau ymhob oes o'r byd ar genhedloedd ereill, mewn moesau, gwybodaeth, a phob peth arall ag sydd yn harddu y ddyndoliaeth, yn profi yn gadarn mai y Duw anfeidrol yw eu Hawdwr."

I bob diben ymarferol nid oedd eisieu dim angen nag a geir yn y fath ddatganiadau cryfion a goleu ag ydym wedi osod ger bron; ac y mae yn hyfryd meddwl mai mewn golygiadau o'r fath y mae saint yr oesoedd wedi bod yn tawel ymorffwys. Ond y mae rhai pethau wedi cymeryd lle a barodd i ddynion deimlo fod yn angenrheidiol iddynt ffurfio syniadau mwy pendant am natur yr ysbrydoliaeth a briodolent i'r Ysgrhythrau; ac wedi gwneyd hynny, y maent wedi cael eu temtio yn gryf i wneyd eu golygiadau yn rhwymedig ar ereill, a hyd yn oed i farnu eu brodyr yn ol eu gullu neu eu hanallu i seinio eu shibolet hwy. Yr ydym wedi cyfeirio at y ddadl gyda duwinyddion Trent, a'r golygiad am ysbrydoliaeth a wnelai ddefnydd o ddynion yn unig fel peiriannau, ond a drosglwyddodd trwyddynt ddatguddiad o feddwl Duw ag y byddai yn rhyfgy, os nad yn gabledd, i neb feddwl fod ynddo ddiffyg neu wrll o unrhyw fath. Pan gyhoeddodd Walton ei *Polyglott*, yr hwn a ddanghosai y lliosogrwydd o wahanol ddarlleniadau oedd i'w cael yn y gwahanol ysgriflyfrau o'r Ysgrhythrau, fe ymollyngodd gwr o ddysg ac ehangder meddwl y Dr. John Owen i gulni a thymér ddrwg oedd yn rhyfeddol o anghydweddol a'i urddas, gan haeru gydag anffaeledigrwydd na fynnai ei ameu nad oedd yn bosibl bod na diffyg na gwall o unrhyw fath yn yr ysgrifeniadau sanctaidd. Wedi hynny, gyda deffroad y gynneddf feirniadol, y darganfyddiad o ysgriifyfrau hŷn o lawer o'r Ysgrhythrau, oeddent wedi bod yn guddiedig am oesoedd lawer, y craffer a enillid wrth eu cymharu a'u gilydd, a thrwy astudiaeth fanol ac amyneddgar o'u cynnwys, yr oedd anhawsterau yn codi yn ffordd dynion nad oedd eu tadau erioed wedi cael yr un syniad yn eu cylch. Yr oedd llawer, trwy gymeryd golwg resymol ar yr anhawsterau hynny, ac yn enwedig trwy roddi ystyriaeth addas i'r pethau a deimlent fel amcanion mawrion y datguddiad, yn cael eu "tywys i'r holl wirionedd," ac yn ennill crediniaeth gyfoethocach na phe buasent o gwbl wedi cyfarfod ag unrhyw anhawster. Yr oedd ereill yn gorfod treulio amser maith mewn penbleth a phetruster, yn cael eu "curo yn nhrigfa dreigiau, a thoi drostynt â chysgod angeu." Ac yr oedd niferi, ysywaeth, yn cael eu gyrru i anialwech digysur rhesymoliaeth ac anffyddiaeth, ac yn "taro eu traed wrth y mynyddoedd tywyll." Ond yn wyneb hyn oll, nid oedd gan lawer o bobl dda ond un efengyl i'w phregethu,—Mae yr ysgrifen, ymhob iod a phob tipyn o honi, yn anffaeledig; mae yn bechadurus meddwl y gall fod ynddi na diffyg na gwall; rhaid ei derbyn i gyd, neu ei gwrthod i gyd. Ysgrifennai y Proffeswr Gausson o Geneva, yn ei *Theopneusty*, llyfr sydd ers dros hanner can mlynedd wedi bod yn golwg llawer mewn bri mawr:—"Mae yr Ysgrhythrau wedi eu rhoddi a'u hawdurdodi gan Dduw hyd yn oed yn eu geiriau. . . Nid yw yr Ysgrhythrau yn cynnwys yr *un gwall*; hynny yw, y maent yn dweyd yr oll a ddylent ddweyd, a dim ond a ddylent ddweyd. . . Os ydyw yn wir, fel y dywedir, fod datganiadau gwallus ac adroddiadau sy'n gwrthddweyd eu gilydd yn yr Ysgrhythrau Sanctaidd, rhaid rhoddi i fyny eu cyflawn ysbrydoliaeth. . . Addefwn yn rhydd, os oes unrhyw wallau anianyddl wedi eu llawn brofi yn yr Ysgrhythrau, nad allai yr Ysgrhythrau fod o Dduw. Ond bwriadwn ddangos nad oes yr un, ac anturiwn herio y gwrthwynebwy'r i ddwyn ymlaen yr un o'r Beibl oll. . . Nid oes yr un gwall anianyddl yn y Beibl, ac y mae y ffaith fawr hon, sydd yn dyfod yn fwy gogoneddus fel y mae yn cael ei hystyried yn fwy manwl, yn brawf tarawiadol o'r ysbrydoliaeth oedd

yn erchi i'r ysgrifenyddwr hyd yn oed dddewisiad eu geiriau lleiaf." Yn debyg y Dr. Charles Hodge:—"Ysgrifenyddwr yr holl Feibl dan y fath ddylanwad ag a gadwai ei awdwyr dynol *rhag pob gwall*, ac sydd yn ei wneyd i'r Eglwys yn rheol afafeledig ffydd ac ymarweddiad." Yn ddiweddarach fyth, a phan oedd y goleuni oedd yn llewyrchu ar y cwestiynau hyn wedi dyfod gymaint yn gryfach, yr ydym yn cael ei fab, Dr. A. A. Hodge, yn cyhoeddi Esboniad ar Gyffes Ffydd Westminster, ac mewn cysylltiad â'r Dr. Warfield, un arall o Broffeswyr Princeton, yn cyhoeddi erthygl yn yr ail gyfrol o'r *Presbyterian Review*, ac yn dysgu y golygiadau mwyaf caeth ar y cwestiwn pwysig o ysbrydoliaeth. Yn ol yr awdurdodau hyn, a berchid yn ddilys gan lawer:—"Yn ystod holl hanes duwinyddiaeth Gristionogol, mae y gair 'ysbrydoliaeth' wedi cael ei ddefnyddio i ddynodi naill ai rhai, neu yr oll, o weithrediadau Duw, yn cydweithio â'i hawdwyr dynol, mewn cynhyrchu yr Ysgrifur Lân. Dewiswn ni yn hytrach ei ddefnyddio yn yr un ystyr o waith parhaus Duw mewn arolygiaeth, trwy ba un—wedi rhagdybied ei gyfraniadau rhagluniaethol, grasol, a goruwchnaturiol—yr oedd Efe yn llywyddu dros yr ysgrifenyddwr sanctaidd yn eu holl waith o ysgrifennu, gyda'r amcan a'r effaith o wneyd yr ysgrifennu honno yn adroddiad di-wall o'r materion yr amcanai Efe eu datguddio, ac mewn canlyniad yn gwneyd y gyfrol oll yn ei holl rannau yn Air Duw i ni. . . Y mae llyfrau yr Ysgrifur, un ac oll, mewn meddwl a gair, mewn sylwedd a ffurf, yn gwbl yn Air Duw, yn trosglwyddo gyda manylwrwydd perffaith ac awdurdod Ddwyfol yr oll a feddyliai Duw am iddynt drosglwyddo, heb ychwanegiadau na chymysgiadau dynol. . . Mae yr oll a ysgrifenyddwr felly yn wir Air Duw, o wirionedd anfafeledig a Dwyfol awdurdod; ac y mae yr anfafeledigrwydd a'r awdurdod yma yn perthyn yn gystal i'r datganiad geiriol ymha un y mae y datguddiad wedi ei roddi, ag i fater y datguddiad ei hunan. . . Y mae wedi bod bob amser yn ffydd hanesyddol yr Eglwys fod yr oll a ddywed yr Ysgrifur, o bob math, pa un bynnag ai am athrawiaeth ysbrydol, neu ddyledswydd, neu ffaith anianyddol neu hanesyddol, neu egwyddor feddylegol neu athronyddol, heb unrhyw wall pan geir allan eiriau (*ipsissima verba*) yr ysgrifeniadau gwreiddiol, a phan ddehonglir hwynt yn eu hystyr naturiol a bwriadedig." Ac â y gwyr hyn mor boll a dweyd:—"Y mae gwall profedig yn gwrthddweyd, nid yn unig ein hathrawiaeth ni, ond hawliau yr Ysgrifur, ac felly ei hysbrydoliaeth pan yn gwneyd yr hawliau hynny."

Mewn addeg o farweidd-dra ac anfeddylgarwch gallasai dysgoidiaeth o'r fath ddisgyn ar feddyliau dynion yn ddiagon tawel. Ond mewn dyddiau fel y rhai hyn, pan y mae cynifer yn "cyniweirio a gwydodaeth yn amlhau," cynifer o grediniaethau yr ymorffwysai oesoedd ynddynt yn cael eu rhoddi o'r neilldu fel breuddwydion, a dynion ymhob cyfeiriad yn ymfyn gyda'r fath ddyhewyd am yr hyn sydd wir ac am yr hyn sydd iawn, ofer fuasai meddwl am i athrawiaeth mor uchel, ac athrawiaeth mor amddifad o gyfnerthion yng ngwybodaeth ac argyhoeddiadau pobl feddylgar, gael unrhyw effaith amgen na deffro y nerthoedd gwrthwynebol i fwy o weithgarwch, a "dychwelyd y rhyfel i'r porth." Pan benodwyd Dr. Briggs, un o Broffeswyr yr *Union Theological Seminary* yn New York, i fod yn yr Athrofa honno yn Broffeswr Duwinyddiaeth Feiblaidd—gwyddor ag y mae y TRAETHODYDD droion wedi cyfeirio ati fel disgyblaeth sydd yn perthyn yn arbennig i'n hamseroedd,—fe

ddewisodd fel testun ei Ddarlith Agoriadol y mater o "Awdurdod yr Ysgrythyr Sanctaidd." Yr cedd efe yn adnabyddus o'r blaen fel Athraw ac awdwr amryw weithiau galluog a dysgedig mewn duwinyddiaeth; ond dygodd y ddarlith fawr hon ef i lawer mwy o sylw. Daliai ei afael ynddi am ei fywyd yn Nwyfoldeb y Datguddiad a roddwyd i ni o feddwl Duw yn ei Air, a chredai yn ddiarnheuol yn ystrydoliaeth yr ysgrifenywyr sanctaidd; ond teimlai yr un mor sier am ddilysrwydd y darganfyddiadau a wnaed yn ddiweddar mewn beirniadaeth ac efrydiau ereill, y rhai, yn ei farn ef, sydd yn gwneyd yn amhosibl y golygiadau a fyntumir am ysbrydoliaeth lythrennol ac anwallusrwydd yr Ysgrythrau, ac sydd hefyd yn tueddu yn gryf i beri i lawer ymwrthod â hwynt o gwbl, heblaw eu bod yn rhwystr difrifol ar ffordd dynion i ymdeimlo yn ddyladwy a phwysaigrwydd y gwirioneddau mawrion a ddysgir i ni yn y Gair, a "chredu y dystiolaeth a dystiolaethodd Duw am ei Fab." Feallai fod tôn y ddarlith yn fwy anffael-edig nag oedd raid, a'i bod amryw weithiau yn delio yn rhy galed â'r rhai y gwahaniaethir oddiwrthynt, ac o bosibl yn gwneyd gormod o ddamcaniaethau nad ellir ystyried eu bod eto wedi eu llawn brofi. Ac y mae yn ddigon tebyg fod hynny i'w esbonio gan yr eithafion yr oedd dynion wedi myned iddynt yn y cyfeiriad cyferbyniol. Ond fe fu effaith y ddarlith hon yn rhyfeddol. Fel y dywed y Proffeswr Bruce yn ei Arweiniad i'r ail gyfrol a nodir uwch ben yr erthygl hon, "Gosodwyd Eglwys Bresbyteraidd America ar dân, fel y *prairie*." Yr oedd lliaws mawr o'r rhai oedd yn gorffwys yn dawel yn y golygiadau cllion, yn dychrynu yn ddifawr, ac yn pasio penderfyniadau cryfion i alw ar y Gymanfa Gyffredinol i wrthod cadarnhau penodiad Dr. Briggs fel Proffeswr, ac hefyd i'w wahardd rhag lledaenu y fath olygiadau. O'r ochr arall, yr oedd lliaws tra mawr, ac yn eu plith y rhai mwyaf galluog a dysgedig, yn teimlo, nid yn unig fod rhyddid barn a rhyddid ymofyniad mewn perygl, ond fod Cristion pur a chydwybodol yn cael eu drin gan ei frodyr fel merthyr. Dan yr amgylchiadau, nid rhyfedd fod y pryder a'r cynnwrf yn fawr iawn. Ac ymddengys fod cynhygiad wedi ei ddwyn ymlaen yn Henaduriaeth Cincinnati ar eu bod yn galw ar y Gymanfa Gyffredinol i ddangos ei hangymeradwyaeth, &c.; ond cyn pasio y cyfryw benderfyniad, fe farnwyd yn ddoeth cael gan y Proffeswr Thomas a Smith, o Athrofa Lane, y rhai yr edrychid i fyny atynt gyda pharch mawr yn yr Henaduriaeth, roddi datganiad o'u golygiadau ar y mater. Gwnaethant hwythau hynny mewn dull a adawodd yr effaith fywaf dymunol, a ffrwyth eu llafur ydyw y papurau meistrolgar a geir yn y llyfrau sydd o'n blaen. Da gennym ddeall iddynt gael darlleniad helaeth yn America, a'u bod wedi gwneyd llawer er sefydlu dealltwriaeth fwy clir am y mater pwysig yr ymdrinant ag ef, ac hefyd er adfer heddwch a theimladau da ymysg y rhai oeddent ar y pryd wedi eu tafu i'r fath brofedigaeth.

Y pwysicaf a'r mwyaf galluog ydyw papur ein cydwladwr teilwng, y Proffeswr Llewelyn Ioan Evans. Fe lawenha ein darllenywyr yn fawr fod un o'n cenedl wedi cyrraedd y fath safle ac ennill iddo ei hun y fath enw yn y Gorllewin pell. Y mae hefyd i nifer mawr o honynt yn fater o ddwfn foddhad ei fod yn awr wedi gwranddo ar gais y Cyfundeb y magwyd ef yn ei fynwes yng Nghymru, a'i fod yn dychwelyd i fod yn Broffeswr Hebraeg a Deongliadaeth yr Hen Destament yn Athrofa Dduwinyddol y Bala. Dymunwn o galon

iddo Dduw yn rhwydd! Ar gyfrif y dyllordeb dwfn a deimla lawer o'n darllenwyr yn y mater, ac yn Dr. Evans, mae yn ddiameu nad anghymeradwy ganddynt a fyddai cael syniad am y rhan a gymerodd a'r gwasanaeth rhagorol a wnaeth yn y drafodaeth ar Ysbrydoliaeth sydd yn ddiweddar wedi cael cymaint o sylw y tu draw i'r Werydd.

Ac yn gyntaf oll, y mae yn hyfyrd gweled y dyddordeb personol cryf a dwfn a deimla yn y mater. "Y mae yn gwestiwn," meddai, "sydd a fynno a'm galwedigaeth, fy ngwaith, fy mywyd ei hunan. Os oes dim ag y mae fy holl fod wedi ei gau i fyny ynddo, astudio a dysgu Gair Duw ydyw. Os oes dim ag yr wyf yn ei garu a'r cwbl sydd yn gwneyd i fyny fy holl galon, yr hen Llyfr bendigedig yna ydyw. Os oes dim, cyn belled ag yr wyf yn fy adnabod fy hun, ag y rhoddwn yn llawen fy mywyd drosto, mi a'i gwnawn er mwyn i'r Llyfr hwn gael ei adnabod a'i ddarllen trwy hyd a lled y byd fel arweinydd eneidiau colledig i'r nefoedd. Am fy mod yn credu yn y Llyfr hwn gydag argyhoeddiad a chariad sydd yn cynhyddu gyda phob blwyddyn yr wyf yn ei astudio, yr ydywyf yn cymeryd fy safle presennol. Ac am fy mod yn credu, er mwyn iddo yn gynt ac yn well gwblhau ei waith yn y byd, y rhaid ei godi o sefyllfa anaddas, a'i osod o flaen y byd lle y gesyd ei hunan, y dymunwn gynorthwyo mewn clirio ymaith y tramgwyddiadau y mae sel mewn amryfusedd wedi osod yn ffordd eneidiau ymofyngar, a chloddio i lawr trwy sugndraethau o ddeffiniadau gau a damcaniaethau nad ellir eu dal, at yr hyn a eilw Mr. Gladstone, mor wirioneddol ac mor rymus, yn *Graig anorchyggol yr Ysgrhythr Lan*."

Teimla fod yr adeg wedi dod i geisio dealltwriaeth fwy clir ar y mater; a hydera nad yw yn ormod iddo feddwl y gallai efe obeithio gwneyd rhywbeth tuag at ddwyn hynny oddiamgylch. Y mae yn deall y ddwy blaid yn y ddadl. Parcha yn fawr gydwybodolrwydd y rhai nad all gymeradwyo eu golygiadau, a chydymdeimla yn ddwfn â hwynt yn eu holl sel dros awdurdod oruchaf y Gair Sanctaidd. O'r ochr arall, y mae yn deall yn hollol y rhai a gymerant olwg wahanol ar y mater, a chreda y câ yng nghariad cyffredin y naill a'r llall at bethau mawrion y Llyfr da, sail i gariad a chydweithrediad a fydd yn fendith i'r oll.

Mae yn amlwg fod efrydiaeth ddyfal yn y Gair yn cael ei ddilyn gan gynnydd mewn dirnadaeth o'i bethau mawrion, ac fe ddylai hynny, tra yn gyfnerthiad i'n ffydd, feithrin ynom wylder a gostyngeddrrwydd pan yn cael ein tentio i gymeryd ein syniad ni am yr hyn a ddylai peth fod, fel rheol i farnu yr hyn ydyw. Mae yn eithaf naturiol i ddynion feddwl, os ydyw Duw wedi llefaru yr Ysgrhythrau, y rhaid fod y cyfan yn berffaith, ac nad ydyw yn bosibl fod ynddynt wall na diffyg o un math. Ymlaen llaw, mae yn debyg mai felly y meddyliai dynion yn gyffredinol. Ond a ydym yn rhwym o feddwl felly? Mae yn amlwg ei fod Ef yn gweled yn addas, er holl berffeithrwydd gogoneddus ei weithredoedd, a'u cymeryd yn eu cyfanrwydd, i adael lle mewn myrddiwn o wahanol ffyrdd, i'r hyn sydd ddiffygiol ac amherffaith. A ydyw yn amhosibl ei fod yn gwneyd peth tebyg yn y datguddiad a roddes o hono ei Hun yn ei Air? Mae y gweithrediadau Dwyfol, pan yn cael eu dwyn ymlaen dan amodau meidrol, yn parchu yr amodau hynny. Mae y mawredd, nid yn yr amodau, ond yn y Dwyfol nerth sydd yn gweithredu trwyddynt. Dyfynnir sylw prydfarth o eiddo Dr. Charles Hodge: "Pan y mae efe yn perffeithio moliant o enau plant bychain, rhaid iddynt lefaru fel plant bychain, onidê fe fydd holl nerth a phrydfarthwch

yr offrw m yn cael ei golli." A chan nad ydyw bloesgni eu lleferydd hwy yn amharu gwaith Duw pan yn perffeithio ei foliant o'n geneau, a ydyw yn amhosibl ei fod Ef yr un ffunud yn llefaru trwy amherffeithrwydd dynion, ac yn gosod ei drysor mewn llestri pridd, fel y byddai godidogrwydd y gallu o Dduw, ac nid o honynt hwy? Pe buasai un o dduwion yn cynysoedd wedi cael datguddio iddo yr hyn, ar bob tir arall, y buasai yn amhosibl iddo ei feddwl, sef y buasai Duw un diwrnod yn dyfod yn ddyn, mae yn sicr y buasai ei syniad am y ddynoliaeth a gai ei chodi i'r fath urddas gogoneddus yn dra dyrchafedig. Duw yn ddyn? Os felly rhaid ei fod yn ddyn ar ei oreu! Ac eto fe'i caed yn faban, mewn gwendid, iselder, a thlodi, yn "ddirmygedig a diystyraf o'r gwyr, yn ŵr gofidus a chynhefin a dolur," mewn annhraethol ing yn chwysu'r gwaed, yn dysgu ufudd-dod trwy ddiodeffiaid, ac o gaddug y tywyllwch mawr yn gorfod gwaeddi, "Fy Nuw, fy Nuw, paham y'm gadewaist." Os oedd y Duw cadarn, wedi ymddangos yn y cnawd, yn cael ei amgylchynu felly a'r fath wendid, a ydyw yn ddi-reswm meddwl y buasai yr Anfeidrol pan yn datguddio ei feddwl i'r byd trwy ddynion amherffaith, fel y defnyddiai eu holl ragoriaethau, yn goddef i'w gwendidau hefyd—mewn anghof, anghywirdeb, ac amherffeithrwydd—osod eu hargraff i fesur ar y gwaith, yn enwedig pan oedd Efe ei Hun yn gofalu fod y pethau mawrion yn cael eu gosod ger bron yn eu Dwyfol ogoniant, a ffordd y bywyd yn cael ei dangos mor glir fel nad oedd berygl i'r rhai a'i tramwyent, er iddynt fod yn ynyddion, gyfeiliorni? Beth bynnag a ddychmygem ni, ymlaen llaw, am y dull y gelid disgwyl i'r Duw mawr ei datguddio ei Hun, y mae yn amlwg nad ydyw wedi bod yn ormod ganddo Ef wneyd hynny mewn llawer ffordd a fuasai lawer yn is na'r cynllun perffaith, yr *ideal*, y buasem ni yn ei nodi fel yn deilwng o hono. Yr ydym ni yn barhaus am yrru Duw ymhell oddi-wrthym, ac felly ei fychanu; y mae Yntau am i ni gredu ei fod ymhob ffordd yn agos, yn anfesurrol nes nag yr ydym yn feddwl; ac yr ydym yn ymdeimlo a'i Fawredd i'r graddau yr ydym yn gallu credu hynny.

Ac fel pwnc o ffaith, rhaid i ni addef fod yr Ysgrhythrau ymhell o fod yn yr ystad uchel o anwallusrwydd ag y mae llawer o ddynion da wedi bod yn honni gyda'r fath ddyhewyd ar eu rhan. Mae y chwedlau Iuddewig am anwallusrwydd yr Hen Destament a'r modd y sicrhawyd ei ddygiad oddiamgylch, yn ffol a phlentynaid, ac yn tueddu yn beryglus, fel y ddysgidiaeth a ffynnai yn nyddiau Crist ac a gondemnid mor llym ganddo Ef, at osod mawredd ar bethau bychain a hollol ddibwys, tra yr oedd y pethau mawrion—"pethau trymach y gyfraith"—yn cael eu hesgeuluso, i.e. eu sathru dau draed. Mae ymdriniaeth y Proffeswr Smith yn yr ail o'r papurau hyn yn dra gwerthfawr ar y mater yma. Mae anghysondeb y testun Hebraeg â chyfieithiad y Deg a Thrigain yn anhawster parhaus, ac y mae yn ymddangos nad ydyw y testun Hebraeg presennol yn hŷn na'r ganrif gyntaf o'r cyfnod Cristionogol, ac fod ei symledd wedi ei sicrhau trwy ddinstrio yr holl gopiau ereill oedd ar gael. Gallwn yn rhesymol ddal fod llawer o gasgliadau y "Feirniadaeth Uwch," sydd mor weithgar yn ein dyddiau, am ffynonhellau, awduriaeth, ac amseriad llawer o lyfrau yr Hen Destament, eto ger bron y llys, ac heb eu cadarnhau. Ac fel y sylwai Mr. Gladstone yn ei lythyr o Biarritz i'r *Record*, y mae yr olwg a gymerir bellach ar ymosodiadau o gyffelyb natur a wneid ar ganiadau Homer, ac ar ran helaeth o Haues Rhufain, yn wers o

ochelgarwch gyda golwg ar y pethau a ddysgir i ni yn awr ar y materion hyn. Mae'n amlwg, fodd bynnag, fel y dywed yntau ymhellach yn ei lythyr, nad ydym i ddwyn nerth ein hargyhoeddiad na gwres ein teimlad i'r maes fel dadleuon, a'n bod i aros nes y bydd y Feirniadaeth y cyfeirir ati wedi traethu ei gair olaf, ac y caffom hamdden i gymharu hynny â'r ystyriaethau ehangach a berthynant i hanesiaeth, athroniaeth, a chrefydd yn gyffredinol. Ond a gadael hyn oll o'r neilldu, mae yr anghysonderau, fel y noda y Dr. Smith, sydd ar y wyneb yn yr Hen Destament, yn ddinystriol i'r ddamcaniaeth am ei anwallusrwydd. Yn Jos. xv. 13, 14, y mae Josua yn rhoddi Hebron i Caleb, ac yntau yn ei chymeryd, gan yrru oddiyno Sesai, Ahiman, a Thalmal, meibion Anac; ond yn Barn. i. 10 dywedir mai meibion Judah, wedi marwolaeth Josua, a aeth yn erbyn y Canaanaid oedd yn trigo yn Hebron, ac a laddasant Sesai, ac Ahiman, a Thalmal. Sut y fu hi? Yn 1 Sam. xvi. 18—21, y mae Dafydd ieuanc, heblaw ei fod yn medru canu, "yn rymus o nerth, ac yn rhyfelwr," ac yn dyfod ac yn sefyll ger bron Saul, "yntau a'i hoffodd ef yn fawr, ac efe a aeth yn gladydd arfau iddo ef;" ond yn 1 Sam. xviii. 38, &c., mae y "rhyfelwr" hwn yn ddirofiad ar arfau rhyfel, ac yn wynebu ar y cawr yn unig gyda'i garreg a'i ffon dafl. Pa un o'r ddau hanes yw yr un cywir? Yn 2 Sam. viii. 4, y mae Dafydd yn cymeryd oddiar Hadadezer 1,700 o farchogion, ac 20,000 o wyr traed; ond yn 1 Chron. xviii. 4, y mae yn cymeryd oddiarno 1000 o gerbydau, 7000 o wyr meirch, ac 20,000 o wyr traed. Yn 2 Sam. x. 6, y mae meibion Ammon yn cyflogi y Syriaid o Beth-rehob, a'r Syriaid o Sobah, 20,000 o wyr traed, a chan frenin Maachah 1000 o wyr, ac o Istob 12,000 o wyr; ond yn 1 Chron. xix. 6, 7, y mae Hanun a meibion Ammon yn anfon 1000 o dalentau arian i gyflogi iddynt gerbydau a marchogion, a chyflogasant iddynt 32,000 o gerbydau, a brenin Maachah a'i bobl. Yn 2 Sam. x. 18, fe laddodd Dafydd 700 o'r Syriaid oedd yn ymladd mewn cerbydau; ond yn 1 Chron. xix. 18, fe geir y nifer yn 7000. Yn 2 Sam. xxiv. 9, yr oedd yn Israel 800,000 o wyr grymus yn tynnu cleddyf, a gwyr Judah oedd 500,000; ond yn 1 Chron. xxi. 5, yr oedd holl Israel yn 1,100,000 o wyr yn tynnu cleddyf, a Judah oedd 470,000. Yn 2 Sam. xxiv. 24, fe brynnodd Dafydd lawr-dyrnu Arafnah am 50 o siclau arian; ond yn 1 Chron. xxi. 25, y swm a roddodd am dano oedd 600 sicl o aur wrth bwys. Yn y 1 Bren. iv. 26, yr oedd gan Solomon 40,000 o bresebau meirch; ond yn 2 Chron. ix. 25, nifer y presebau meirch ydyw 4,000. Yn 1 Bren. vi. 2, uchder teml Solomon oedd 30 cufydd; ond yn 2 Chron. iii. 4, yr oedd uchder y porth yn 120 cufydd. Yn 1 Bren. vii. 26, y swm a ddaliai y môr tawdd oedd 2,000 o bathau, "dwy fil o bathau a annai yndo;" ond yn 2 Chron. iv. 5, fe dderbynai ac fe ddaliai 3,000 o bathau. Ac yn debyg gyda phethau ereill. Mae "cysoni" pethau fel yma yn anobeithiol. Ac y mae yn ddyddorol gweled fel y mae y ffigyrau a nodwyd o'r Chronicl, yn unig gydag un eithriad—nifer presebau meirch Solomon,—yn fwy, a chan mwyaf yn fwy o lawer, na'r rhai a geir yn y llyfrau ereill. Dichon nad anhawdd esbonio hynny a chymeryd i ystyriaeth fod ysgrifenydd y Chronicl lawer yn ddiweddarach, a beth bynnag am wahaniaethau a allai fod yn ei ffynonhellau, nad oedd yn annaturiol iddo ddymuno rhoddi syniad dyrchafedig am ddyddian gogoniant Israel.

Yr un modd am yr engreiftiau a noda y Dr. Evans o'r Testament Newydd. Pa un ai dau ddeillion, yn ol Matthew (xx. 30), ynte un, yn

ol Marc (x. 46) a Luc (xviii. 35), a gafodd eu golwg gerllaw Jericho? A pha un ai pan oedd yr Iesu yn myned i Jericho (Marc a Luc), ynte pan ydoedd yn myned allan o honi (Matthew), y cyflawnwyd y wyrth? Pa un ai y canwriad ei hunan a ddaeth at yr Iesu yn achos ei was (Matthew viii. 5), ynte danfon henuriaid yr Iuddewon a wnaeth ato (Iuc vii. 3)? Pa un ai dau ddieffig a gyfarfu â'r Iesu yn Gadara, yn ol Matthew (viii. 28), ynte un, yn ol Marc (v. 2) a Luc (viii. 27)? Yn ol Matthew (iv. 18) a Marc (i. 16), Simon ac Andreas a ganfu yr Iesu yn pysgota, ac a alwodd i ddyfod ar ei ol, gan ddweyd y gwnelai hwynt yn bysgodwyr dynion; ond yn ol Luc (v. 1—11), fe welodd ddwy long, a Simon—heb son am Andreas—yn y naill, a Iago ac Ioan, meibion Zebedeus yn y llall, ac wedi y ddalfa o bysgod amneidiwyd arnynt hwythau i ddyfod i gynorthwyo; yr oeddynt yn gyfranogion â Simon; ac yr oedd y "braw" wedi disgyn arnynt hwythau, ac y maent hwythau hefyd yn "gadael pob peth ac yn ei ddilyn ef." Pa un ai wedi marw yr oedd merch Jairus pan ddaeth ei thad at yr Iesu, yn ol Matthew (ix. 18), ynte ar dranc, yn ol Marc (v. 23), neu yn marw, yn ol Luc (viii. 42)? A gellid gofyn yn debyg am lawer o achosion ereill.

Onid fe ddadleuir mai yr ysgrifau gwreiddiol oedd yn anffaeledig, a phe ceid gafaal ar y geiriau, y geiriau, yr *ipsissima verba*, a ddefnyddiwyd yn y rheiny, y symudid ymaith bob anhawster, ac y ceid y cyfan yn berffaith gyson. Pan ddywedir fod "gwall profedig yn yr Ysgrifthyrr yn gwrthddweyd, nid yn unig yr athrawiaeth am ysbrydoliaeth, ond hawliau yr Ysgrifthyrr, ac o ganlyniad ei hysbrydoliaeth pan yn gwneyd yr hawliau hynny," fe deimlir ar unwaith y rhaid bod diffyg andwyol wedi ei oddef ryw ffordd, yn rhywle, na fuasai pob copi o'r ysgrifau gwreiddiol yn berffaith gywir, a'u trosglwyddiad wedi ei ddiogelu i'r oesoedd yn y fath fodd fel ag y gallai dynion deimlo yr un boddlonrwydd am gywirdeb y copiau sydd yn eu dwylaw ag a deimlasent wrth ddefnyddio yr ysgrifau gwreiddiol eu hunain. Ond yn anffodus i'r ddamcaniaeth yma, y mae yr hen ysgrifysfrau a ddarganfyddwyd yn ddiweddar, y rhaf sydd wedi ein dwyn ganrifoedd lawer yn nes at yr ysgrifau gwreiddiol, yn dra phell oddiwrth gadarnhau y cyfryw olygiad. Yn wir fe geir mai tuedd y copiwyrr oedd llyfnhau pob gerwinder yn y testun, a'i wneuthur, hyd y gallent, yn gyson, bid sicr, ag ef ei hun; ond fe geir fod yr ysgrifysfrau hynaf, gyda gonestrwydd sydd yn dangos ar ran eu hysgrifenywyr, deimlad o'u cyrifoldeb, yn gadael yr anhawsterau fel y caent hwynt. A chyn belled ag y gall tystiolaeth yr ysgrifysfrau hynaf fyned, arweiniant ni i gasglu, pe buasai yn bosibl i'r fath ddamwain hapus ddigwydd ag i'r ysgrifau gwreiddiol eu hunain gael eu darganfod, y ceid yr un anhawsterau ynddynt hwythau hefyd. Sut bynnag, y mae y copiau hynaf yn dra phell oddiwrth roddi unrhyw wyneb i'r ddamcaniaeth am anwallusrwydd yr ysgrifau gwreiddiol. Hawdd fyddai nodi lliaws o engreifftiau sydd yn dangos hyn. Yn Marc i. 2, 3, darlennwn, "Fel yr ysgrifenyd yn y proffwydi, Wele yr ydwyf fi yn anfon fy nghennad, yr hwn a barotoa dy ffordd o'th flaen. Llef un yn llefain," &c. Mae yn amlwg y cyfeirir at Mal. iii. 1, ac Es. xl. 3, ac am hynny mae y darlenniad "yn y proffwydi" yn dyfod yn dra esmwyth. Ond mae yn amlwg bellach mai nid dyma y darlenniad cywir, ond fel y ceir ef yn y Cyf. Diwyg., "Fel yr ysgrifenyd yn Eesaias y proffwyd." Rhoddai y darlenniad gau anwallusrwydd; ond mae y gwir ddarlenniad o leiaf heb fod yn fanwl gywir, os nad hefyd yn awgrymu y gallai nad yw yr

enw Esaiah yn cael ei gyfyngu i'r un person a'i dygai. Yn Marc ii. 26, dywedir i Dafydd fyned "i dy Dduw dan Abiathar yr archoffeiriad." F'e welir yn 1 Sam. xxi. 1, mai Ahimelech oedd yr archoffeiriad ar y pryd. Mae'n wir fod Abiathar yn fab i Ahimelech, ac iddo yntau ddyfod yn archoffeiriad ar ei ol; teimla rhai eu bod yn hynny yn cael esboniad ar yr anhawster; ond y mae y darlleniad Diwyg. yn rhoddi yr ystyr, "pan oedd Abiathar yn archoffeiriad." Cywreiniar a fynner, ni ellid mewn achos o'r fath yma ddadleu anwallusrwydd. Yn Matt. xix. 17, dywed Crist wrth yr un a ddaethai ato i ofyn Pa beth da a wnafl, fel y cafiwyf fywyd tragwyddol, "Paham y gelwi fi yn dda? nid da neb ond un, sef Duw." Mae Marc a Luc yn rhoddi yr un atebiad, air am air, a chan belled a hynny y maent yn brydferth gyson. Ond erbyn e'drych fe geir mai y darlleniad yn Matthew, fel y ceir ef yn y Cyf. Diwyg. ydyw: "Paham y gofynni i mi am yr hyn sydd dda?"—yr hyn sydd yn dra gwahanol, ac yna dangos mor bell ydyw yr ysgriflyfrau hynaf o wneyd i ffrwrdd â'r gwhaniaethau sydd rhwng yr ysgrifenywyr sanctaidd. Cymerwech engraifft o'r Epistolau. Yn Gal. iii. 17, dywed Paul fod y ddeddf wedi ei rhoddi 430 o flynyddoedd ar ol y cyfamod ag Abraham. Ond yn ol Gen. xv. 13, Ex. xii. 40, ac Act. vii. 6, fe geir i Israel fod yn yr Aiff am 400 mlynedd, neu yn ol y gair yn Exodus, fel yn y Galatiaid, 430 mlynedd. At hynny rhaid chwaneu 200 mlynedd rhwng y cyfamod ag Abraham a disgyniad Jacob i'r Aiff; ac felly fe geir amseryddiaeth Paul yn Gal. iii. 17, yn llai o 200 mlynedd nag a ddylai fod. Ond mae yn sicr mai "430 mlynedd" ydyw y darlleniad cywir, ac y mae yn dra thebyg mai dyna a gawsid yn yr ysgrif wreiddiol, oblegid mae yn amlwg fod yr Apostol yma, fel y gwnelai yn gyffredin yn ei ddyfyniadau, yn dilyn Cyfieithiad y Deg a Thrigain, ac felly wedi syrthio i'r un camgymeriad. Dyfynna y Dr. Evans o Esboniad yr Profeswr Beet ar y gair yn y Galatiaid y sylw a ganlyn:—"Mae yr ymdriniaeth uchod yn ein rhybuddio i beidio ceisio penderfynu cwes-tiynau o feirmiadaeth hanesyddol yr Hen Destament trwy gyfeiriadau damweiniol yn y Testament Newydd. Mae pob ymgais o'r fath yn annheilwng o ysgolheigod Beiblaidd gwyddonol. Wrth wau ei eiriau i ddyn mewn ffaith hanesyddol, fe apeliai Duw at ddeddfau cyffredin crediniaeth ddynol. Mae y deddfau hyn yn cadarnhau gyda sicrwydd hollol ffeithiau mawrion Cristionogaeth. Ac ar y ffeithiau mawrion hyn, ac ar y rhai hyn yn unig, y gorffwysa ein ffydd yn yr Efengyl ac yn Nuw, ac awdurdod y Llyfr Sanctaidd. Mewn canlyniad . . . nid ydyw ein ffydd yn gofyn am gywirdeb hollol ymhob cofnodid hanesyddol yn y Beibl, ac ni aflonyddir arni trwy unrhyw wall mewn unrhyw gofnod neillduol a ellid gael yn ei dudalennau. Ar yr un pryd, y mae ein hastudiaeth o'r Beibl yn dangos ynddo gywirdeb hanesyddol a'n gwna yn araf iawn i gondemnio fel yn wallus hyd yn oed ddatgan-iadau amhwysig yr Ysgrityn Lan. Ac er gwaethaf unrhyw wallau posibl mewn cofnodiadau neu gyfeiriadau, y mae y Llyfr ei hun yn aros i ni—ar ei ben ei hun ac mewn ystyr anfeidrol ogoneddus—yn gorfforiad llenyddol o Lais a Gair Duw."

Ond ai nid ydyw hyn oll yn bradychu "golygiadau isel ar ysbrydoliaeth," ac felly yn peryglu awdurdod yr holl Ysgrityn, ac yn agor y ffordd i'r "gelyn ddyfod i mewn fel afon?" Wel, beth bynnag a allent olygu neu gynnwys, nid yw ond ofer i ni wingo yn erbyn y ffeithiau. Mae y diffygion y cyfeiriwyd atynt, a llawer ereill cyffelyb

iddynt—oll trwy drugaredd yn bethau bychain—yn aros, ac nid ydyw yn bosibl eu hesbonio ar y tir o anwallusrwydd anffaeledig yr ysgrifeniadau sanctaidd. Ac y mae yn gysur meddwl fod gan y gorrffennol rywbeth i'w ddweyd ar y mater yma a allai dawelu meddwl y rhai sydd yn pryderu am y pethau mwyaf. Unwaith fe gredid, os cydnabyddid fod yr haul yn ganolbwynt ei gyfundrefn, y byddai holl awdurdod y Beibl wedi darfod am dano; yn awr nid oes neb na edrychai ar olygiad o'r fath fel yn ffol a phlentynnaidd. Drachefn, fe ddychrynid rhag a ddysgid am y cyfnodau daearegol fel yn gwrthdweyd Moses, ac yn dymchwelyd yr Ysgrhythrau; erbyn hyn y mae y dychryn hwnnw wedi hen ddiplannu, a Genesis a'r cyfnodau yn cydorffwys mewn tawelwch. Yr un modd y mae y pryder a deimlai llawer gyda golwg ar y ddysg ddiweddarach am ddadblygiad yn cael ei leddfu, ac fe ddisgwylir yn dawel am ddadblygiad y ddysg honno ei hunan i'w llawn addfedrwydd, gan deimlo yn dawel nad all y gweithrediadau Dwyfol fod yn llai Dwyfol er cymeryd cyfnodau anfesuroi i'w dwyn oddiamgylch, na phe buasent yn cael eu gwneyd mewn munud awr. A'r un modd hefyd, gan fod Duw wedi defnyddio dynion i ysgrifennu ei Air, a'u defnyddio, fel y mae yn amlwg ei fod wedi gwneyd, fel dynion, ac nid fel peiriannau, nid ydym i synnu fod eu delw ar eu rhan brydol eu hunain o'r gwaith, fel y mae delw Duw ar y cyfan; ac felly, fel yr oedd llaw neillduol pob un o honynt yn ei ysgrifen, fod nodwedd eumeddwl ar eu harddull, ac mewn canlyniad fod lle ynddi i anghywirdeb a gwall, yn gystal ag i fyddlondeb a gonestrwydd amcan. Ac yr oedd yr amgylchiadau yn rhoddi digon o le i hynny. A chymeryd yr Efengylau, yr oedd eu mater yn cael ei lefaru mewn un iaith, yr Aramaeg, ac yn aros am flynyddoedd yn unig yng nghof y disgyblion; mewn amser, yr oedd "llawer" (Luc i. 1) yn ymgymeryd a gosod eu hadgofion mewn ysgrifen, a phob un, wrth reswm, fel yr ydoedd yn cofio, fel yr ydoedd wedi deall, ac fel yr ydoedd y pethau wedi aros yn ei feddwl; o'r diwedd fe ysgrifenydwyd pedwar adroddiad awdurdodedig, ac un o honynt, fel y dywed yr awdwr ei hunan, wedi iddo "olrhain pob peth yn ddyfal o'r dechreud" a chymharu y gwahanol "draethodau" oedd ar led. Ac fe wnaed hyn mewn iaith arall, yr iaith Roeg, fel y gosodid y pethau yng nghyrraedd y byd. Dan y fath amgylchiadau, er bod y Dwyfol allu yn sicrhau diogelwch yr holl bethau mawrion, a ydyw yn rhyfedd fod amryfuseddau wedi cymeryd lle, a mân wallau wedi dianc? Yn wir, dan y fath amgylchiadau, fe fuasai "cysondeb" llyfu, perffeithgwbl, rhwng y gwahanol adroddiadau, yr wrthddadl gryfaf oll yn erbyn eu hawdurdod hanesyddol!

Ac mor fychain, wedi'r cwbl, ydyw y gwallau,—yn wir mor gwbl ddiddym fel pethau ag y gellid meddwl am iddynt mewn unrhyw ffordd amharu ein crediniaeth yn y pethau mawrion y mae yr Ysgrhythrau yn osod o'n blaen! Y mae yn hyfryd meddwl hefyd mai felly, trwy yr oesoedd, yr oedd y dynion doethaf a goreu yn edrych arnynt, heb ddychmygu am amrantiad fod "gwall profedig" ynddynt mewn un modd yn myned dan wraidd eu hawdurdod. Er fod syniad Calvin ar y dechreu yn fwy caeth, eto yr ydoedd wrth ddyfod ar draws yr anhawsterau yn ei Esboniadau yn gallu cymeryd arnynt olwg eang a rhesymol. Mewn cyfeiriad at wyriad y Deg a Thrigain, fel ei dyfynnir yn Heb. xi. 21, "ac a addolodd a'i bwys ar ben ei ffon," oddiwrth y testun Hebraeg, Gen. xlvii. 31, "Yna Israel a ymgrymodd ar ben y gwely," dywed: "Nid yw yr Apostol yn petruso cymhwyso i'w amcan yr hyn a dder-

bnyd yn gyffredin. Ysgrifennai, yn wir, at yr Iuddewon; ond at y rhai, wedi eu gwasgar hyd amrywiol wledydd, oeddynt wedi newid eu hiaith genedlaethol am y Roeg. Ni a wyddom nad oedd yr Apostolion yn y fath achosion mor hynod o betrusgar. Yn y peth ei hun nid oes ond ychydig wahaniaeth." Ar Matt. xxvii. 9, "Yna y cyflawnwyd yr hyn a ddywedwyd trwy Jeremias y proffwyd," dywed: "Y mae y geiriau eu hunain yn dangos yn amlwg fod enw Jeremias wedi ei osod i lawr mewn camgymeriad yn lle Zecharias. Pa fodd yr ymlusgodd enw Jeremias i mewn, nid wyf yn gwybod, ac nid wyf yn trafferthu i ymfyn." Noda anghysonderau mewn amryw fannau ereill, ond trŷ oddiwrthyt fel pethau dibwys, gan nad ydynt yn ymyryd â sylwedd yr hanes. Cyhuddai y Lutheriaid ef am y pethau hyn o fod yn Iuddew-aidd; mewn adeg ddiweddarach dywedasiid ei fod yn Rhesymolwr; yn ein dyddiau ni mae'n debyg yr honnid ef fel arweinydd o'r Feirniadaeth uwch. Nid oes neb a amheuai uniongreddd awdwr anfarwol "Tra-gwyddol Orffwysfa'r Saint," ac ysgrifennai efe fel y canlyn ar y mater yma yn ei "Reasons for the Cristian Religion":—"Ond nid ydyw y dynion hynny a feddyliant fod yr amherffeithderau hyn o eiddo yr ysgrifenywyr yn cyrraedd ymhellach, ac y gallent ymddangos mewn brawddegau o amseryddiaeth neu hanes, nad ydynt yn perthyn i reol ffydd ac ymarweddiad, trwy hynny yn dinystrio yr achos Cristionogol. Oblegid gallasai Duw alluogi ei Apostolion i gofnodi a phregethu yn anffaeledig yr Efengyl, pob peth angenrheidiol er iachawdwriaeth, er iddo beidio eu gwneyd yn anffaeledig ymhob ymadrodd ac amgylchiad, mwy nag yr oeddent yn anniffygiol yn eu bywyd. Am y rhai a ddywedant, 'Ni allaf gredu un dyn mewn dim os yn camgymeryd mewn unrhyw beth, o leiaf, fel yn anffaeledig,' y maent yn siarad yn erbyn synwyr cyffredin a rheswm; oblegid gallai dyn fod yn anffaeledig gyd-nabyddus â rhai pethau nad ydyw felly â'r oll. Gallai hanesydd yn anffaeledig fy hysbysu fod brwydr wedi bod yn Lepanto, . . . er nad all ddweyd wrthyf ei holl hanes. . . . Nid wyf yn credu y gall un dyn brofi y gwall lleiaf yn yr Ysgrhythyr Lan, mewn unrhyw bwynt, yn ol ei gwir amcan a'i hystyr; ond pe gallai, fe allai yr Efengyl, fel rheol ffydd ac ymarweddiad mewn pethau angenrheidiol er iachawdwriaeth, er hynny gael ei phrofi yn anffaeledig trwy yr holl resymau a roddwyd o'r blaen." Ac yn ychwanegol at Baxter, fe ddelir golygiadau cyffelyb gan Tillotson, Doddridge, Warburton, yr Esgobion Horsley, Randolph, Whateley, Hampden, Thirlwall, a Heber, gan Dr. Pye Smith, Thomas Scott, y Deon Alford, a llawer ereill. Ac felly y golyga y dynion yr ymddiriedir fwyaf yn eu dealltwriaeth a'u barn yn ein dyddiau ni. Bydd yn dda gan ein darllenwyr fwynhau y dyfyniad a ganlyn o bapur Dr. Evans ar y mater yma:—

Danghosodd Cromwel ei ddyndod pan yn erchi yr arlunydd i osod yn ei ddarlun y ddaifaden oedd ar ei wyneb; oud pwy a freuddwydiad am faru Cromwel wrth ei ddaifaden? Beth yw yr anghywirdebau gwagsaw hyn mewn cymhariaeth i Faich y Llyfr? Os oes un o'r adroddiadau Efengylaidd yn amrywio oddiwrth un arall am *fanylion* gwyrtu, pa wahaniaeth a wna os ydyw y wyrth yn aros? Os oes anghydweddiadau israddol yn yr hanesion am ymddangosiadau Crist wedi ei adgyfodiad, onid yw *faith* ei adgyfodiad yn cael ei gwneyd yn fwy sicr fyth gan yr anghydweddiadau hyn? Os darfu i Paul—mewn cwmini pur barchus, hefyd—wneyd camgymeriad o dda gan mlynedd wrth osod ei ddadl o flaen y Galatiaid, beth sydd a fynno hynny â'r ddadl? A ydyw yn gwanhau i'r graddau lleiaf yr ordd-ddyrnod â pha un y lletha ddeddf-oldeb Iuddewig yn farw byth? Os ydyw Stephen yn traws-osod rhai o

ddigwyddiadau yr Hen Destament, neu yn cymysgu enwau neillduol, a ydyw hynny yn effeithio ar nerth argyhoeddiadol ei gyhuaddiad ofnadwy yn erbyn Israel wrthgiledig? Onid oedd nerth yr Ysbryd ũlan ymhob gair a ddywedai, hyd yn oed pan yn lleiaf cywir? Tybier fod un o'i wrandawyr wedi ymgymeryd ai ateb, yn dweyd: "Dywedaist fod Abraham wedi gadael Haran ar ol marwolaeth ei dad, Terah; tra, os astudi y ffigyrau yn Genesis, y cei y rhaid fod Terah wedi byw yn Haran hauner can mlynedd neu fwy wedi i Abraham ymadael. Camgymerai, hefyd, wrth ddweyd fod Abraham wedi prynnu y maes gan feibion Hemor yn Sichem. Os edrychi i'r mater ychydig yn fanylach, ti well mai Jacob wnaeth hynny, ac fod Abraham wedi gwneyd ei bryniad yn Hebron gan Ephron yr Hethiad." Ond a fuasai hynny yn distewi Stephen? Buasai y fath feirniadaeth ar y fath arareth fel taffu pluen i ddannedd corwynt.

Nid ydyw Duw wedi ofni gosod godidogrwydd ei drysor mewn llestri pridd. Nid yw yn pryderu rhag i wendid y llestr wneyd niwed i'r trysor. Nid yw wedi petruso anturio ei wirionedd ar draddodiadau, cyfleihiadau, ad-ygrifeniadau, a'r Æaledigrwydd sydd yn anocheladwy yn eu dilyn. Nid ydyw wedi pryderu rhag i'r camsyniadau poblogaidd am seryddiaeth o flaen Copernicus, neu ddaearog o flaen Lyell, neu lysysiaeth o flaen Linnæus, dywyllu ei ddatguddiad o hono ei Hun. Yr wyf yn diolch i Dduw mai felly mae. Yr wyf yn llawenau, tra mae y Llyfr yn Ddwyfol, yn Ddwyfol fel nad yw yr un llyfr arall, ei fod eto mor drwyadl ddynol; yn cael ei dreiddio mor brydferth gan ewyn-lin, meddwl, a theimladrwydd dynol; wedi ei wythiennu mor dlws gan redweliau porfforaidd gwaed, bywyd, a phrofiad. Yr wyf yn llawenhau, yn oruwchnaturiol fel y mae, yn oruwchnaturiol fel nad oes yr un llyfr arall, ei fod eto mor drwyadl naturiol, fod ei fywyd a i dyfiant llenyddol yn cydgymysgu mor gariadus ac mor gyson â bywyd a thyfiant y byd, fel y maent wedi eu dwyfol ordeinio. Yr wyf yn llawenhau fod Duw, pan lefarai yn iaith y ddaear a thrwy enau ei weision, yn dyfod mor isel i lawr fel nad yw gywilydd ganddo ddefnyddio iaith anramedegol, nad oes arno ofn barbariaith neu ymadrodd trwsgl, na chilia rhag hen-eiriaeth neu gamameriad, na ddiystyra oesod mewn dull cynddiluwaid o lefaru athrawiaeth y Greadigaeth a'r Cwmp, neu yr hyn a alwai gwyddonydd yn ffurf *Kindergarten* am wirionedd Rhagluniaeth a Barn. Nid yw yn crogi pethau tragwyddol ar fanlyon ydynt yn gymariaethol ddbiwys. Nid yw Efe wedi tafoli Craig yr Oesoedd yn y fath fodd fel y mae y Feirniadaeth ũwch neu Ia, gyda chaib neu drosol, gan gloddio allan anghywirdeb amseryddol yma, neu gael gafael ar wrthddywedriad hanesyddol acw, yn myned i'w dymchwelyd. Gallai fod y beirniad yn iawn, gallai fod y trosol yn iawn; ond y mae Craig yr Oesoedd yn iawn hefyd, a hi a saif yn ansigledig byth. Na fydded i chwi, yr wyf yn atolwg, oesod yn erbyn Duw y manylder coeg a wna gymaint o bridd y wadd ag o fynydd. Nid yw Duw yn malio am gael ei anrhyddedd yn y ffordd yna. Na ddarostyngwch Ef trwy geisio ganddo ymddangos o flaen ei blant daearol fel Coegathraw anoddefgar, os nad anoddefol, a fyn aros ar ei fân lythrennau gyda'r un egni a phenderfynolrwydd ag ar ei Ddwyfol Enw; ei "Glyw, O Israel"; neu ar ei dragwyddol AMEN: "Yn wir, yn wir, meddaf i chwi!"

Ac fel nad oes berygl oll mewn cydnabod yr amryfeddusau bychain, tra y daliwn ein gafael yn y gwirioneddau mawrion—"yr oll yn y Llyfr," fel y dywed Catecism Heidelberg, "sydd yn dweyd am bechod a iachawdwrriaeth; yr oll sydd yn arwain i Galfaria,"—y mae Dr. Evans yn talfynu ei bapur yn y geiriau pwysig a ganlyn, trwy ddangos mor fawr ydyw perygl y ddysgeidiaeth wrthgyferbyniol, ond yr hon a ddyrchafai ei llef mor groch fel amddiffynydd gwirionedd yr Efenngyl:—

Frodyr, ni all ein Heglwys fforddio myned tu hwnt i'r Ysgrhythyr, tu hwnt i'n Cyffes ein hunain, neu tu i'n chwaer eglwysi ar y mater hwn. Yr ydym yn clywed am "gyfeiliornadau peryglus," golygiadau a geiriau sydd yn tueddu at ansefydlu fydd. Gadewch i mi ddweyd i chwi ymhle y gorwedd a perygl, fel y mae yn fy nghyfarfod i yn fy ngwaith o fwyddyn i fwyddyn. Gorwedd mewn goeod y Beibl mewn saile ganu, mewn hawlio iddo yr hyn na hawlia iddo ei hun. Gorwedd mewn tybiaethau a ffurfi ymlaen llaw, a priori, am ysbrydoliaeth ac anffaelidigrwydd, y rhai na chadarnheir gan ffeithiau. Gorwedd mewn dal i fyny eich gosodiadau haiarn-wsg am ysbrydoliaeth eiriol ac anffaelidigrwydd

llythrennol yn erbyn y cynnydd a wneir gan ymchwiliad a beirniadaeth ostyngedig, ddefosynol, barchedig o'r Ysgrhythyr fel Gair Duw. Nid oes gennyf fi ddim i'w ddweyd ar ran natroliaeth foel, anwybodyddol faterol, neu am reasymoliaeth arglwydddaidd, fympwyol, sydd, gydag anffaeledigrwydd di-brawf, yn gwadu y goruwchnaturiol, yn bychanu neu yn difodi pechod a iachawdwriaeth, yn cau allan o hanesiaeth ddatguddiad Duw o hono ei Hun, yn mygdarthu allan o'r Beibl ei ysbrydoliaeth ysbrydol, yn torri i fyny ei gynnwys i ddarnau meirwon, ac yn ysgubo ymaith lyfr ar ol llyfr i affwys chwedl a thraddodiad. Pan geir fod Beirniadaeth Feibiaidd ein Colegau Duwinyddol ar waith gyda'r gorchwyl yna, pan ddaw i wrthdarawiad â hawliau y Beibl ei hunan i ysbrydoliaeth ysbrydol, yna fe fydd yn bryd swnio y larwm, yna fe fydd yn bryd gweithredu. Ond, ar y llaw arall, y mae athrawiaeth am ysbrydoliaeth ac am awdurdod yr Ysgrhythyr sydd, yn ei sel amryfus, yn gwrthod cydna od canlyniadau ymchwiliad, yn gwrthsefyll ysgolheigddod Beiblaidd mwyaf goleuedig, defosynol, a chrediniol ein dyddiau, yn gosod gwahardd ar bob ymofyniad na ymostynga i'w llythrennaeth a'i pheirianaeth anhyblyg hi, y mae y fath athrawiaeth yn ein hamser ni, beth bynnag a allasai fod yn y gorffennol, yn rhwystr i fydd, yn fgygythiad i undeb a heddwch yr Eglwys, yn atalfa yr gynnydd iachus gwyddor Cristionogol, ac yn faldod difrifol ar ddadddygiad rhydd, cadarn, cymesur o'r bywyd Cristionogol. Yr ydych yn protestio yn erbyn ansefydlu fydd. Da y gwneuch. Ond da y gwnant hwythau hefyd a brotestiant yn erbyn cadw i fyny atalfydd dianghenraid yn ffordd fydd. Yr ydych yn condemnio beirniadaeth sydd yn dinystrio crediniaeth yn yr Ysgrhythyrau fel gair Duw. Ond gwyliwch rhag cynnwys yn eich condemnriad y feirniadaeth a gynorthwya i wneyd y fath crediniaeth yn yr Ysgrhythyrau yn bosibl. Gellwch fod yn sicr, cyhyd ag y rhwymwch i fyny fydd yn y Beibl gyda fydd mewn ysbrydoliaeth fyddol, cyhyd ag y crogwech awdurdod anffaeledig yr Ysgrhythyr fel rheol fydd ar gywirdeb anffaeledig pob gair a brawddeg yn y Llyfr, cyhyd ag y dychwefwch y Beibl i'r un pinael o awdurdod mewn materion am y rhai y mae Duw mewn ffyrdd ereill wedi rhoddi datguddiadau mwy clir, llawnach, a maunlach, fel mewn materion am y rhai y mae y Beibl yr unig ddatguddiad, cyhyd a hynny y tydd y gwrthdarawiad anocheladwy rhwng ffydd a gwyddoniaeth yn myned ymlaen, ac y bydd gan Drapers a Whites y naill genhedlaeth ar ol y llall benodau newyddion i'w chwanegu at eu dadl. Fe fydd i bob darganfyddiad newydd mewn gwyrddor neu hynafiaeth sydd yn ymddangos fel yn gwrthdwydd rhyw air neillduol, beri dychryn. Fe duedda pob cynnydd mewn beirniadaeth at ansefydlu fydd rhywun ag y mae eich dysgeidiaeth wedi arwain i gamgymeryd y ffurf am y sylwedd. Wedi dysgu gennyh chwi fod y plisgyn yn rhan o'r cnewyllyn, a chael nad all gadw y plisgyn, fe derfyna trwy dafu ymaith y plisgyn a'r cnewyllyn hefyd.

Fel un, yr wyf fi yn bwriadu gwneyd fy rhan i osod terfyn ar y diffyniad amryfus hwn o'r Datguddiad Dwyfol. Mae llongddyrylliadau fydd yn aneirif wedi cael eu hachosi ganddo. Dyma yr unig beth, yn ol ei gyffes ef ei hun, a wnaeth anghredadyn o ysgolhaig disgleiriaf Ffrainc, feallai y byd yn awr, Ernest Renan. Dyma yr unig beth a yrrodd i anfyddiaeth amddiffynydd cryfaf anfyddiaeth boblogaidd yn Lloegr, a fu farw y dydd o'r blaen yn ei anghredaeth, Charles Bradlaugh. Felly y tystiolaethai ei frawd ef ei hun, sydd yn gredadyn. Oddieithr am hyn buasai araethyddiaeth amrywliwiog Robert Ingersoll yn y wlad hon, gyda'i "Gamgymeriadau Moses," yn mynd i lawr fel awyren wedi ei thyllu. Ni all Cristionogaeth ein dyddiau ni fforddio ymladd brwydr y Llyfr hyd y llinell yna. Ni all Presbyteriaeth ein gwlad fforddio gosod ei hun yn erbyn ysgolheigddod Cristionogol mwyaf goleuedig a mwyaf defosynol y dydd. Ni all fforddio gosod iau caethiwed i grair diawdurdod ysgolheigiaeth wedi y Diwygiad, ar gydwybodau ein gwyr ieuainc, sydd mor fyw i enillion efrydiaeth barchedig a gofalus o'r Llyfr, ac o angenrheidrwydd yn teimlo yn gymaint ddarostyngiad y fath gaethiwed. Ni all fforddio distewi y datganiadau Ysgrhythryol newyddion o wirionedd datguddiedig sydd yn anocheladwy yn dilyn dulliau rhagorach o ymchwiliad Beiblaidd. Ac ni all fforddio i wasgu unrhyw benderfyniad ar ein heglwysol, canlyniad sicraf pa un fydd meithrin drwgdybiaeth, gyru ymaith ysbryd cariad a chyflawnder, a chynhyrchu camdfealltwriaeth ac ymddieithriad rhwng ein caderiau addysgol a'n pulpudau a'n heisteddleoedd, a liedu yr adwy rhwng ymofyniad i onest a ffydd o ddifrif.

ADDYSGIAETH AMAETHYDDOL YNG NGOG-LEDD CYMRU.

YN y blynyddoedd diweddaf y mae addysg gelfyddol, *technical*, yn ei pherthynas ag amaethyddiaeth, wedi cael llawer o sylw gan y rhai a deimlant ddyddordeb mewn cynorthwyo llwyddiant yr alwedigaeth sydd eto y fwyaf o'n galwedigaethau cenedlaethol.

Mae yr argyhoeddiad wedi bod yn ennill tir fod rhai gwledydd tramor yn myned o'n blaen, nid yn unig yn y canghennau o amaethyddiaeth ymha rai y mae ganddynt fanteision naturiol digyffelyb, ond yn y rhai y gallen ni, pe yn meddu medr cyffelyb, nid yn unig gystadlu â hwynt, ond eu curo. Mae llywodraethau y gwledydd hynny y mae gennym i'w hofni yn gymaint mewn cydymgais, yn gwneyd addysgiaeth eu pobl yn y gwyddorau y mae a fynnon't fwyaf ag amaethyddiaeth, yn fater o'r pwysigrwydd mwyaf. Mae darganfod y ffaith hon, o'r diwedd, wedi peri i'n deddfwneuthurwyr ystyried ai nid allem ninnau hefyd wneyd rhywbeth tuag at ddyrchafu sefyllfa ein hamaethyddiaeth trwy dalu sylw i addysgiaeth ein hamaethwyr. Mae yn sicr yn amser i ni ym-ysgwyd yn y mater yma pan gawn fod hyd yn oed y gwledydd pa rai, o herwydd eu manteision naturiol, a allesid ystyried yn annibynnol ar y fath gynhorthwy, yn galw am help y medr goreu y gall gwyydonwyr ei estyn iddynt. Nid yw yn syn fod amaethu gwyydonol yng ngwledydd Ewrop, sydd wedi eu gorboblogi, yn dyfod yn amod angenrheidiol amaethyddiaeth lwyddiannus. Ond yr ydym bron yn rhyfeddu pan welwn Bwyllgor o Dy y Cynrychiolwyr yn yr Unol Dalaethau yn gwneyd adroddiad yn y geiriau a ganlyn:—"Mae y gwaith a wneir mewn gorsafoedd Ewropeaidd yr un mor angenrheidiol yn yr Unol Dalaethau, ac y mae eisoes wedi ei ddechreu, mewn ufudd-dod i alwad gyhoeddus nad ellid ei gadael o'r neilldu. Y mae adfeiliad amaethyddiaeth yn yr hen Dalaethau, dirywiad y tir yn y Talaethau newyddion yr ymsefydlwyd ynddynt gyntaf, y cymeryd i fyny cyflym sydd ar dir cyhoeddus, a chydymgais cynhyddol Rwsia ac India yn ymborth-farchnadoedd y byd, wedi cymeryd gafael gref yn y sylw cyhoeddus. Mae yr argyhoeddiad wedi dyfod yn gyffredinol y rhaid lleihau gwastraff a chwanegu ein cynnyrch." Y moddion o ymwared a argymhella y pwyllgor ydyw gorsafoedd arbrofiadol, i wneyd *experiments*, ac addysgiaeth amaethyddol well. Pan mae yr Americanaid ymarferol yn ceisio ymwared rhag cydymgais yn y fath fesurau, ni allwn ni, y rhai ydym yn dioddef gymaint oddiwrth yr un achos, fforddio esgeuluso y fath foddion i wella ein sefyllfa ag a ystyriant hwy yn werth iddynt ddefnyddio.*

Ond mewn amser pan y mae yn debyg fod y rhan fwyaf o'n hamaethwyr yn barod i addef yr angenrheidrwydd am addysgiaeth amaethyddol, fe fydd yn fwy pwipasol ymdrin â'r ffurf a ddylai y fath addysgiaeth gymeryd, yn hytrach na chynnyg unrhyw ddiffyniad o honi.

* Trwy Act o eiddo Deddfwrfa yr Unol Dalaethau a basiwyd yn 1889, fe wnaed rhoddod blynyddol o'r swm o 600,000 o ddoleri, neu 15,000 o ddoleri am bob Talaeth, at gynhaliad gorsafoedd arbrofiadol. Mae yn agos i hanner cant o'r cyfryw orsafoedd yn awr ar waith. Mae ganddynt oll nifer digonol o wyddonwyr, ac y mae y materion yr ymchwiliir iddynt yn perthyn i holl gy'ch amaethyddiaeth.

Beth a feddylir wrth addysg gelfyddol? Fel y cymhwysir hi at alwedigaethau ereill, mae yn anodd cael dau ddyn sydd yn cytuno am ei hamcan, neu am y dosbarthiadau y dylid ei chymhwyso atynt. Fe'i cyfyngai un hi at addysgiaeth yn y wyddor ar ba un y mae crefft neu waith yn seiliedig; un arall at y fath hyfforddiant ag a roddai i'r llygad a'r llaw y cyfynder a'r dehurwydd sydd yn ofynol ymhob galwedigaeth; tra yr estynai un arall hi at hyfforddiant yng ngwahanol rannau pob crefft neu waith. A thra y cyfyngai rhai yr addysgiaeth neu yr hyfforddiant i'r rhai sydd yn rheoli ac yn arolygu llafur y crefftwyr, fe'i dygai ereill hi i gyrraedd y crefftwyr eu hunain. Ond yn ei pherthynas ag amaethyddiaeth, yr wyf yn meddwl ein bod yn cytuno yn well am yr hyn a olygwn pan yn son am addysg gelfyddol.

Gyda golwg ar amaethyddiaeth, y mae gan addysgiaeth ddau orchwyl i'w gyflawni. Yn y lle cyntaf, y mae ganddi i hyrwyddo ei chynnydd trwy ddangos fel y gellid gwneyd defnydd o ymchwiliad gwyddonol er esbonio anhawsterau ymarferol mewn amaethyddiaeth; ac yn yr ail le, y mae ganddi i gynysgaeddu yr amaethwr â'r hyfforddiant a'r wybodaeth sydd yn angenrheidiol er ei gynorthwyo i gymhwyso dar-gwyddiadau gwyddor at ei waith cyffredin.

Yn y wlad hon y mae cynnydd amaethyddiaeth trwy foddion gwyddonol wedi cael darpar yn ardderchog ar ei gyfer trwy anturiaeth breifat. I ddangos y fath olwg a gymerir ar waith Syr John Lawes a Dr. Gilbert gan ddieithriad, yr wyf yn dyfynnu eto o adroddiad Pwyllgor Deddfwrfa yr Unol Dalaethau y cyfeiriais ato o'r blaen:—"Y mae Gorsafoedd Arbrofiadol wedi bod ar waith yn Ewrop ers dros ddeng mlynedd ar hugain, heb gynnwys yn awr sefydliad Syr John Lawes, o Rothamsted, Lloegr, yr hwn a dreuliodd lawer o'i fywyd a rhan helaeth o'i gyfoeth tywysogaidd mewn gwneyd arbrofion amaethyddol er budd i ddynolryw. Fe lawn sefydlwyd yr orsaf hon yn 1843, gyda Dr. Gilbert, un o fferyllwyr amaethyddol goreu Ewrop, yn ben arni, ac y mae yn debyg ei bod wedi gwneyd o waith o bwysigrwydd parhaus nag unrhyw orsaf arall yn y byd. Y mae Syr John Lawes wedi gwneyd trefniadau yn ei ewyllys er cario ymlaen yr orsaf y mae wedi sefydlu mor wych ar ol ei farwolaeth, trwy roddi digon o dir, a chyfrannu yn agos i hanner miliwn o ddoleri mewn arian."

Ond yn sicr y mae eisieu helaethu y gwaith rhagorol hwn. Ni all un sefydliad o'r fath fod yn ddigon i gyfarfod anghenion yr holl Deyrnas Gyfunol. Mae gan y gwahanol Dalaethau Germanaidd dros bedwar ugain o orsafoedd arbrofiadol, ac y mae gan bob Talaeth yn yr Undeb Americanaidd o leiaf un orsaf, wedi ei thrwyadl gyflenwi â phob moddion o ymchwiliad gwyddonol. Wrth ysgifennu ar gyfer darllennwyr yn y deyrnas hon nid oes eisieu dal ar bwysigrwydd ymarferol mawr y canlyniadau a gafwyd yn Rothamsted, ac mewn gorsafoedd cyffelyb. Mae pawb sydd yn gydnabyddus â hanes cynnydd amaethyddiaeth yn ystod y deng mlynedd ar hugain diweddar, yn gwybod fod bron yr holl welliantau mawrion a gymerodd le yn ystod y tymor yna—gwelliantau mewn gwrteithio, mewn porthi, ac yn nhriniaid y tir—wedi bod, o leiaf mewn mesur mawr, yn ffrwyth ymchwiliad gwyddonol. Syr Lowthian Bell, wrth ddarlithio mewn cyfarfod diweddar o'r *British Association* yn Newcastle ar "Ddylanwad Fferylliaeth ar Weithfeydd Haiarn a Dur mewn Blynnydoedd Diweddar," wedi talu teyrnged gyflawn i werth gwasanaeth y rhai oedd wedi gweithio mewn anwybodaeth o ddeddfau

natur ar ba rai y dibynnai eu gweithroliadau, a ddywedai: "Ar y llaw arall, ni ellir gwadu fod yr haiarn-feistri, er pan y maent wedi ymgynghreirio â'r fferyllydd, wedi gwneyd mwy o gynnydd mewn deng mlynedd ar hugain nag a wnelsai eu rhagflaenwyr mewn tair canrif." Rhoddwch amaethwr am haiarn-feistr, ac y mae sylwadau Syr Lowthian Bell yr un mor wir. Ac nid ydyw adnoddau gwyddoniaeth eto wedi eu dysbyddu.

Gall amaethwr y dyfodol obeithio medi dirfawr les, nid yn unig wrth gymhwyso yn fwy diwyd y wybodaeth sydd eisoes wedi ei hennill, ond oddiwrth ehangiad terfynau ein gwybodaeth trwy wasanaeth sefydliadau fel yr un yn Rothamsted.

Mi ddeuaf yn awr i ystyried yr ail orchwyl sydd i addysgiaeth gelfyddol yn ei pherthynas ag amaethyddiaeth. Am y math o wybodaeth â pha un mae yn ddymunol cynysgaeddu yr amaethwr, nid oes nemor o wahaniaeth barn. Fe ddylai wybod digon o fferylliaeth i'w alluogi i ddeall cyfansoddiad priddoedd, gwrteithiau, a defnyddiau porthiant; i ddeall adroddiad elfennydd, ac i ddilyn hanes arbrofion amaethyddol gyda dealltwriaeth; digon o lysieuath i wahaniaethu y gwahanol fathau o laswellt a wnant i fyny ei borfeydd, ac i ddeall anhwylderau cyffredin planhigion; a digon o wybodaeth am filfeddyginiaeth i fod yn alluog i drin afiechydon mwy syml ei anifeiliaid.

At yr holl wybodaeth wyddonol hon, dylid chwaneu rhyw gymaint o gydnabyddiaeth â chadw cyfrifon. Y mae cadw cyfrifon, yn ei berthynas ag amaethyddiaeth, mewn ystad dra amherffaith; ond fe'm hysbyswyd gan wyr o Denmarc—a siaradent gyda'r awdurdod uchaf—fod llwyddiant eu hamaethwyr hwy mewn rhan fawr i'w briodoli i'r gofal â pha un y mae eu cyfrifon yn cael eu cadw. Y mae yn hynod mai cadw cyfrifon ydyw yr eithriad, ac nid y rheol, gyda'n hamaethwyr ni. Ofer fyddai meddwl am roddi dyfnach gwybodaeth o wyddoniaeth i'r amaethwyr nag a awgrymwyd uchod. Mi glywais amaethwyr yn siarad fel pe buasent yn disgwyl y byddai i addysgiaeth arbed y taliadau a wnant yn awr i elfennydd. Nid ydyw hyn ond breuddwyd gwag. Ni ellir dysgu amaethwyr, fel corff, byth i elfennu gwrteithiau a defnyddiau ymborth iddynt eu hunain; ond fe ellid eu dysgu i wneyd defnydd deallus o'r wybodaeth a rydd elfennydd iddynt.

Pa un a ellid oreu rhoddi addysg mewn egwyddorion yn gyfunol â gwaith ymarferol, yntè ar wahan oddiwrtho, sydd bwynt dadleuol. Mae'n debyg y penderfynir y mater gan amodau y gwaith ei hun. Ac eithrio yr ychydig a allant fforddio rhoddi blwyddyn neu ychwaneg yn gwbl i astudio, fe gymer yr amaethwr ieuanc ei ran yng ngwaith y ffarm yn ystod y misoedd prysur, ac yn y misoedd nad oes gymaint i'w wneyd fe gymer fantais ar y fath addysgiaeth ag a aller osod o fewn ei gyrraedd. Dyma y ffordd ymha un y mae addysgiaeth yn cael ei threfnu yn Denmarc. Mae yr amaethwyr mwy cyfoethog yn anfon eu meibion i Goleg Brenhinol Amaethyddiaeth yn Copenhagen, tra y mae meibion yr amaethwyr tlotacl yn derbyn eu haddysgiaeth yn ystod misoedd y gauaf yn y "Land-bo-skole," neu ysgolion amaethyddol lleol, ydynt wedi eu gwasgar mewn helaethrwydd dros y wlad. Gallwn grybwyll yma fod yr ysgolion hyn yn cael eu cynnal bron yn hollol gan daliadau yr ysgolorion; ffaiha a wasanaetha i roddi rhyw syniad am y ffydd sydd gan yr amaethwr Danaidd ymarferol mewn addysgiaeth. Mae'n debyg y caiff

y owestiwn pa un a ddylid cysylltu addysgiaeth amaethyddol â gwaith ymarferol ai peidio, ei ateb yn gyffelyb yn y wlad hon.

Ond gyda golwg ar un gangen o amaethyddiaeth fe fydd yn angenrheidiol, os ydym i wneyd cynnydd cyflym, fod addysgiaeth ymarferol a gwyddonol yn myned law yn llaw. Mae y dulliau o ddwyn ymlaen waith laethdy, fel y maent yn cael eu harfer yn y wlad hon, mor amrywiol, ac y mae cynhyrchion y laethfa yn meddu mor ychydig o unfurfiaeth nodwedd, fel nad allwn byth obeithio dal ein ffordd yn wyneb cydymgais tramor oddieithr i ni ddefnyddio moddion i wneyd holl bŵllogaeth ein rhanbarthau sydd yn cynhyrchu laeth, yn ymarferol gydnabyddus â'r dulliau o'i drin sydd yn fwyaf cyfaddas i roddi cynnyrch o'r math goreu ac o ansawdd unfurf. Yn Denmarc fe gyrhaeddwyd rhagoriaeth uchel ac unfurfiaeth yn ansawdd ymenyn trwy gyfundrefn gywrair o brentisiaeth, a gychwynwyd ac a lywodraethid gan y Proffeswr Segelke, o Goleg Brenhinol Amaethyddiaeth Copenhagen. Pan gefais i yr hyfrydwch o wrando y bonheddwr hwn yn disgrifio ei gyfundrefn, nid oedd wedi pasio llai na 1,000 o ysgolorion trwy ei ddwyllaw. Yr ydym yn gobeithio y gellid cyrraedd cystal canlyniadau yn y wlad hon trwy y laeth-ysgolion—y *dairy schools*—a geir yn awr yn holl rannau y wlad. Os gall y laeth-amaethwr Prydeinig yn unig ddysgu gwneyd ymenyn o ansawdd unfurf, yn gystal ag uchel, mae y rhan fwyaf o'n hawdurdodau amaethyddol yn cytuno fod dyfodol mawr yn ei aros. Yn bresennol yr ydym yn dwyn i mewn i'n gwlad werth mwy na £15,000,000 o gynnyrch laethfa, y rhan fwyaf o'r hwn a ellid ei godi gartref. Mewn papur a gyhoeddwyd yn y *Fortnightly Review*, Mawrth, 1888, dywed Mr. Walter Maclaren, A.S.:—"Y mae galwad anferth am ymenyn a chaws da. Ni fu erioed y fath alwad. Nid yw yr hyn a gynhyrchir gartref ond yn hanner ei chyflenwi, ac y mae llawer o'r hanner honno yn ddrwg. Ni all amaethwyr mwyach dyfu gwenith i dalu, ond gwnant yn llawer gwell o gynnyrch laethfa; ac y mae'n debyg y gallent wneyd annill, pe byddent yn unig yn gwybod yr iawn ffordd i weithio."

Os ydym yn cytuno am yr hyn a olygwn wrth addysgiaeth amaethyddol, y mae gennym yn y lle nesaf i ystyried i bwy y dylid ei rhoddi. Am y presennol, sut bynnag, rhai i ni foddloni os gallwn ei gosod o fewn cyrraedd yr amaethwyr bychain, heb wneyd unrhyw ymgais i fynd i lawr at y llafurwyr. Yr unig ffordd at y llafurwyr ydyw trwy yr ysgolion elfennol, a nes y bydd nifer mawr o'r ysgolfeistriaid elfennol wedi eu hyfforddi yn egwyddorion amaethyddiaeth, mae y ffordd hon ynghanu. Ond os ein hamcan ydyw cynnydd amaethyddiaeth, yn hytrach na gwellhad y dosbarthiadau amaethyddol, fe'i cyrraeddwr os gallwn roddi addysgiaeth i'r rhai sydd mewn gwirionedd yn gyfrifol am gnydiad a gwrteithiad ffarm, ac am ofal ei hanifeiliaid. Nid wyf wrth hyn yn golygu na fyddai cael corff o lafurwyr wedi eu haddysgu yn well ac yn fwy deallus, yn help mawr at gael ffarmio da; ond yn awr nid wyf yn gweled unrhyw obaith o allu eu haddysgu. Hyd yn oed pe pesid y fath Fesur ag a ddygwyd i mewn dro yn ol i Dy y Cyffredin, fe arhosai yn llythyren farw o eisieu dynion a allant roddi yr addysg. Pe byddai i'r amser byth ddyfod pan fydd y llafurwyr eu hunain yn gyfrifol am drin tir, fe fydd yn angenrheidiol gwneyd erdynt hwy yr hyn a amcanwn yn awr wneyd er mwyn y ffarmwyr. Yn bresennol ni allwn wneyd gwell parotoad mewn rhagolwg ar hyn na lled-

senu gwybodaeth o amaethyddiaeth ymysg athrawon ein hysgolion elfennol.

Y prif anhawster yn ffordd pob cynllun o addysgiaeth amaethyddol a fwriedir i'r dosbarthiadau tlotaf o amaethwyr, ydyw nodwedd wasgaredig y boblogaeth yr ydys i ymwneyd â hi. Mae ein galwedigaethau llaw-weithfaol ac ereill yn cael eu cyfyngu i ychydig o ganolbwyntiau, ac y mae ysgolion yn y manau hynny yn darpar ar gyfer yr oll. Ond fe fyddai y draul o godi ysgolion parhaus i roddi addysgiaeth amaethyddol mewn nifer digonol i gyfarfod eisieu yr holl boblogaeth amaethyddol, mor fawr, fel nad ymgymerai yr un Lywodraeth â hi. Rhaid i waith addysgiaeth amaethyddol, gan hynny, gael ei wneyd mewn rhan gan ddarlithwyr symudol a chynorthwyr.

Mi amcanaf yn awr roddi hanes y gwaith a ddygwyd ymlaen yng Ngogledd Cymru yn ystod y blynyddoedd diweddaf, ynglyn â'r hwn y mae y rhan fwyaf o'r anhawsterau y cyfeiriwyd atynt wedi eu profi, ac fe obeithir mewn rhai achosion eu bod wedi eu gorchfygu.

Pan sefydlwyd Coleg Prifysgol Gogledd Cymru ym Mangor saith mlynedd yn ol, fe ddarfu i amaethwyr y siroedd gogleddol, oeddynt wedi tanygrifio yn helaeth at ei gyllid, yn y fan alw am fod y dosbarthiadau yn cael eu gwneyd yn wasanaethgar iddynt hwy yn eu galwedigaeth. Fe ofynwyd am gwrs o ddarlithiau ar Fferylliaeth Amaethyddol, i gael eu traddodi ym mhreif dref marchnad Sir Fon, a chaniatawyd hynny. Fe wrandewid y darlithiau gan lawer o brif amaethwyr y sir. Fe'u dilynid â chyfres o arbrofion yn y maes ar wrteithiad maip, yr hyn a roddai nodwedd ymarferol i'r dosbarth. Fe barhawyd y gwaith a ddechreuwyd felly, o bryd i bryd, am y pedair blynedd dilynol; ond, gyda'r moddion oedd y pryd hynny at wasanaeth y Coleg, yr oedd yn amhosibl ei estyn dros gylich eang, neu ei gario ymlaen yn barhaus. Fe ddaeth cyfieustra at waith ar raddfa helaethach pan fotiodd y Parlament £5,000 at gynnorthwyo llaeth-ysgolion ac addysgiaeth amaethyddol yn gyffredinol. Gwnaeth y Coleg gais am ran o'r *grant*, ac wrth ystyried y gwaith a wnaethai, ac ydoedd yn gyflawni pan wnelid y cais, fe ganiatawyd iddo £200. Yna cynhygiodd ysgrifenydd yr erthygl hon i Gyngor y Coleg eu bod yn ceisio gwsod addysgiaeth amaethyddol yng Ngogledd Cymru ar sail barhaus, a chysylltu â'r Coleg drefn a ddarparai ar gyfer anghenion chwe sir y gogledd. Yr un pryd fe osododd o flaen y Cyngor amlinelliad o gynllun o addysgiaeth, seiliedig ar y syniadau sydd eisoes wedi eu gosod ger bron yn y papur hwn. Yn y cynllun hwnnw cedwid yr egwyddorion canlynol mewn golwg:—

1. Fod addysgiaeth gelfyddol, cyn belled ag a fyddo yn bosibl, yn myned law yn llaw ag addysgiaeth gyffredinol, fel y gallu rhai fo'n ymbarotol ar gyfer gwahanol alwedigaethau dderbyn gymaint o addysg ag a fyddo yn bosibl yn yr un dosbarthiadau a chan yr un athrawon, ac felly gael eu cadw rhag y dylanwadau culhaol sydd yn anocheladwy i sefydliad nad oes iddo ond un amcan neilldupl.

2. Fod sefydliadau a chynorthwyon i addysg gelfyddol sydd yn bresennol ar waith, yn cael eu defnyddio i'r graddau eithaf fo yn bosibl.

3. Fod addysg yn cael ei hestyn i bob dosbarth o'r boblogaeth amaethyddol.

4. Fod yr addysg a roddir ymhob ardal yn cael ei chyfaddasu at anghenion neillduol yr ardal.

Fe gynhygiai y cynllun, yn y lle cyntaf, ddarpar cwrs cyflawn o addysgiaeth amaethyddol ochr yn ochr â'r addysgiaeth gyffredinol a roddid yn y Coleg,—cwrs cyfaddas i ben-gweision, goruchwylwyr tirol, a meibion yr amaethwyr mwyaf. Bwriedid i'r cwrs hwn gyfateb i'r hyn a roddir mewn Colegan Amaethyddol, ond yn cael ei ddarpar ar draul a ddygai am y waith gyntaf y fath addysgiaeth o fewn cyrraedd pobl o amgylchiadau pur gymhedrol.* Yr oedd y dosbarthiadau a gynhelid yn y Coleg eisoes yn ddarpar addysgiaeth yn y rhan fwyaf o'r materion a gynhwysir mewn cwrs amaethyddol; ac mewn trefn i'w wneyd yn gyflawn ni fyddai eisieu ond ychwanegu un neu ddau at nifer yr athrawon. Ar yr un pryd, fe fyddai *laboratories* a holl gyflenwad Coleg wedi ei drefnu yn dda, yn cael gwneyd defnydd o honynt er dwyn ymlaen waith arbrofiadol. Mewn gair, fe fyddai Coleg o'r fath a gynhygiai y *Departmental Commission* yn 1887—88, trwy wneyd defnydd o'r sefydliad oedd eisoes ar waith, yn cael ei ddwyn i fodolaeth ar draul gymhariaethol fechan. I gwblhau cyflenwad y Coleg at amcan ymchwiliad amaethyddol, fe gynhygid ymhellach i gysylltu gydag ef ffarm arbrofiadol fechan. Yn y lle nesaf, fe amcanai y cynllun at sefydlu ysgolion lleol ymhob un o brif ganolbwyntiau amaethyddol Gogledd Cymru, mewn cysylltiad a pha rai cynhygid cynnal dosbarthiadau, o bryd i bryd, dan un o ddarlithwyr y Coleg; ffurfio, mewn cysylltiad â'r *Science and Art Department*, ddo. barthiadau prydawnol mewn amaethyddiaeth, ac yn y gwyddoran cysylltiedig ag amaethyddiaeth; cario ymlaen arbrofiadau yn y maes; a darpar addysgiaeth yng ngwaith llaethfa, naill ai trwy laeth-ysgolion sefydlog, neu trwy laethfeydd symudol. Cynhygid fod yr ysgolion lleol yn cael eu cysylltu â'r Coleg, ond eu bod dan lywodraeth uniongyrchol pwyllgorau yn cael eu gwneyd i fyny o ddyinion fo yn drwyadl gydnabyddus ag anghenion pob rhan o'r wlad. Yn olaf, amcanai y cynllun at hyfforddi ysgolfeistri yn egwyddorion amaethyddiaeth, gyda golwg mewn amser ar ffurfio danynt ddosbarthiadau yn yr ysgolion mewn amaethyddiaeth, yn cael ei dysgu fel testun neillduol, neu ddosbarthiadau prydawnol dan y *Science and Art Department*, ac mewn cysylltiad â'r ysgolion lleol cysylltiedig â'r Coleg. Mae rhy ychydig o ddefnydd yn cael ei wneyd o'r cymbellion a gynhygiai y *Department* at ffurfio dosbarthiadau o'r fath. Nid ydyw yr ysgolfeistriaid heb wybod am y manteision ariannol a gynhygiai y *Department* iddynt; ac y mae rheswm da i greu, pe byddent hwy eu hunain yn meddu y cymhwyster angenrheidiol, y profent yn gynorthwyywyr ewyllysgar a gwerthfawr iawn mewn cario allan unrhyw gynllun o addysgiaeth amaethyddol.

Fe dderbyniwyd y cynllun a amlinellwyd fel yma, gan Gyngor y Coleg, a phenodwyd Pwyllgor i'w gario i weithrediad. Un o'r camrau cyntaf a gymerwyd gan y Pwyllgor hwnnw oedd apelio at y tiffeddianwyr sm gynhorthwy, ac fe ddarfu i'r parodrwydd a pha un y cyfarfyddwyd a'u hapel eu hargyhoeddi na fyddai y moddion yn eisieu i gario allan eu cynllun. Fe aed ymlaen ar unwaith, gan hynny, gyda sefydlu laeth-ysgolion lleol. Penodwyd y Trallwm, Dinbych, a Bangor fel y canolbwyntiau mwyaf cyfeus. Cymerwyd y symudiad i fyny yn galonnog gan y tiffeddianwyr a'r amaethwyr, ac yr oedd y cyllid oedd yn angenrheidiol yn fuan mewn llaw. Cyn i gynllun y

* Fe gytrifir nad â traul addysgiaeth ym Mangor, gan gynnwys ymborth a llety am y tymor, dros £80 neu £40 y flwyddyn.

Coleg gymeryd ffurf benodol, yr oedd Mr. Ralli o Liverpool yn garedig iawn wedi cynnyg £300 er cynorthwyo i sefydlu ysgol i siroedd Fflint a Dinbych. Darfu i bwyllgor Cymdeithas Amaethyddol Fflint a Dinbych, yn llaw pa un y gosodasid yr arian, gydsynio ar unwaith a'r cynhygiad o gysylltu yr ysgol â chynllun y Coleg, a chodwyd digon o arian yn fuan i gwblhau y swm oedd yn angenrheidiol at yr amcan. Agorwyd ysgol sir Drefaldwyn yn Sylfaen, yn agos i'r Trallwm, yn gynnar yn haf 1889; ysgol Fflint a Dinbych yn Llewenni, ger Dinbych, yn nechreu hydref yr un flwyddyn; ac ysgol Bangor yng ngwanwyn y flwyddyn ganlynol. Tra y mae yr ysgolion hyn yn annibynnol, a than lywodraeth cyfarwyddwyr y cwmnïau sydd yn eu meddiannu, y maent oll mewn cysylltiad uniongyrchol â'r Coleg, ac yn ffurfio rhan o gyfundrefn a fwriedir i ddarpar ar gyfer anghenion yr holl wlad. Fe ymgwymerir ag arholiad yr ysgolion gan y Coleg, a rhoddir tystysgrifau o gymhwyster i'r ysgolorion gan y Coleg. Mae y Coleg felly yn ddolen gydiol rhwng yr ysgolion, a chyorthwya i sicrhau unfurfiaeth yn y dulliau o addysgu, ac i ddal i fyny safon uchel o effeithiolrwydd. Y mae llaethfa symudol wedi ei chysylltu â phob un o'r tair ysgol, ac y mae arddangosiadau lliosog mewn gwneyd ymenyn a chaws wedi eu rhoddi yn ystod y tair blynedd diweddaf yn chwe sir Gogledd Cymru.

Tra y mae trefniad addysgiaeth yng ngwaith llaethfa fel yma wedi derbyn llawer o sylw, nid ydyw buddion rhannau ereill o amaethyddiaeth wedi eu hesgeuluso. Y mae cyfresau o ddarlithiau ar Ddyffrffosiad a Gwellhad Tir, Da Byw Ffarm, Gwaith Llaethfa, Pryfed Niweidiol i Gnydau, Afiechydion Cnydau, Planhigion Ffarm, Ymborth a Defnyddiau Porthiant, &c., wedi eu traddodi eisoes mewn mwy nag ugain o ganolbwyntiau amaethyddol pwysig, ac yn y rhan fwyaf o'r rheiny bu y darlithwyr yn alluog i gael ynghyd ddsbarthiadau o amaethwyr yn amrywio mewn nifer o 40 i 60. Fe obeithir y daw y rhai pwysicaf o'r canolbwyntiau amserol hyn, yn raddol, yn rhai parhaus; y bydd pob un yn abl i gadw darlithydd cyffredinol da at waith yng nghymdogaeth uniongyrchol y canolbwynt, ac felly, bob yn ychydig, y gellir dwyn addysg i bob pentref yn y wlad. Yn y canolbwyntiau eu hunain fe obeithir y rhoddir yn y dyfodol y fath gyfresau cydgysylltiol o ddarlithiau fel na fydd yr addysg mewn gwirionedd ddim ond yn ail, mewn amcan a gwerth, i'r cwrs cyflawn a roddir yn y Coleg ei hun.

Y mae Gorsafoedd Arbrofiadol yn awr wedi eu sefydlu mewn dim llai na deg o wahanol fannau yng Ngogledd Cymru. Yn y gorsafoedd hyn y mae arbrofion yn cael eu gwneyd i brofi gwerth gwahanol fathau o wrtaith a ddefnyddir at wahanol gnydau, a than amgylchiadau amrywiol o ran tir a hinsawdd. Prif amcan yr arbrofion hyn ydyw arddangos i'r amaethwyr effaith gwrteithiau neillduol, a'u harwain i feddwl drostynt eu hunain pa wrteithiau—a chymeryd i'r cyfrif y draul a'r effaith—fyddai oreu iddynt ddefnyddio dan amgylchiadau neillduol. Mae yr arbrofiadau yn cael eu cynllunio a'u paratoi gan un o athrawon y Coleg, yr hwn a ymwél â'r meusydd o bryd i bryd tra y mae yr arbrofion yn cael eu cario ymlaen, ac a ysgrifenna adroddiadau yn eu cylch.

Y mae dosbarthiadau athrawon mewn amaethyddiaeth wedi eu cynnal ym Mangor, Ffestiniog, Gwreccsam, Drenewydd, a Rhyl. Mae y dosbarthiadau hyn yn cael eu trefnu yn arbennig ar gyfer athrawon

trwyddedig mewn ysgolion elfennol, i'w galluogi i roddi addysg dan y *Code Newydd*, a chynnal dosbarthiadau dan drefniadau y *Science and Art Department*. Mae y dosbarthiadau yn cael eu cynnal ar ddydd Sadwrn, ac y maent yn rhad; ac mewn achosion neillduol, mae y Coleg yn talu rhan o dreuliau teithiol athrawon a ddymunant eu dilyn o bellder. Y mae yn llawer o glod i athrawon Gogledd Cymru fod niferi mawrion o honynt wedi eu cael yn ewyllysgar i aberthu eu gwyl wythnosol fel y gallent gymeryd mantais o'r addysg a ddygir fel hyn o fewn eu cyrraedd. Mae y Coleg yn awr yn rhoddi tystysgrif i athrawon a ddilynant y dosbarthiadau a benodir am ddwy flynedd, ac a basiant arholiad boddhaol. Ac fe wneir cais yn awr ar gael y *Science and Art Department* i gydnabod y tystysgrif yma fel yn cymhwyso athrawon, heb unrhyw arholiad pellach, i ennill taliadau y *Department*. Mae awdurdodau y Coleg hefyd wedi gosod rhesymau cryfion o flaen y *Department* er cael ganddynt awdurdodi cynnal arholiadau yn yr iaith Gymraeg, gan y teimlir fod ymgeiswyr mewn rhai parthau o'r wlad yn cael eu gosod mewn anfantais fawr o herwydd eu gwybodaeth amherffaith o'r Saesneg.

Mae casgliadau o fyrddau, darluniau, engreiffiau, a llyfrau i'w rhoddi ym menthyg, yn awr yn cael eu gwneyd yn y Coleg, er cynorthwyo athrawon mewn ffurfio dosbarthiadau yn eu hardaloedd. Eisoes y mae dosbarthiadau wedi eu sefydlu mewn llawer o rannau o Ogledd Cymru fel ffurwyth y symudiad ynglyn a'r Coleg, ac y mae pob lle i ddiagwyl y bydd eu nifer yn cyson gynhyddu nes y bydd anghenion y boblogaeth amaethyddol wedi llawn ddarparu ar eu cyfer.

O fewn y Coleg y mae cwrs cyflawn o addysg amaethyddol wedi ei drefnu, yr hwn, fe gredir, sydd mor gynhwysfawr ac effeithiol ag eiddo unrhyw Goleg Amaethyddol yn y wlad, tra y mae y draul i'r efrydwyr, fel y nodasom uchod, mor fach fel ag i'w osod yng nghyrraedd pawb. Mae clasfuddion, *exhibitions*, yn cael eu cynnyg gan y Coleg i gydymgais ymysg efrydwyr a ffridiant gymeryd y cwrs hwn, ac y mae Cyngor Sirol Mon yn ddiweddar wedi cynnyg clasfudd i'r un amcan.

Yn 1889 nid oedd athrawon amaethyddol neillduol y Coleg ond dau, y darlithwyr mewn Amaethyddiaeth a Difyniaeth Anifeilaidd. Yn awr, y maent yn bedwar, un o ba rai sydd yn drwyadl gydnabyddus â'r iaith Gymraeg yn gystal ag â'r Saesneg. Yn ychwanegol at y pedwar hyn, y rhai a roddant eu holl amser at waith y Coleg, y mae gwasanaeth achlysurol darlithwyr neu ddysgawdwyr mewn Meddyginiaeth Anifeilaidd, Arluniaeth Amaethyddol, Tir-Fesuriad, a Chadw Llyfrau, wedi ei sicrhau.

Gallai rhai ameu a ydyw symudiad a gychwynwyd fel yma o nodwedd barhaol. Pan fydd newydd-deb darlithiau a maes-arbrofion wedi myned heibio, a'i ni fydd i'r cyfan ddiifannu neu grybychu i ddinodedd? Y mae, mae'n ddiameu, beth perygl o hynny; ond nid oes, i'r rhai sydd wedi bod fwyaf ymdrechgar gyda'r gwaith, ddiffyg argoelion fod y dyddordeb a ddeffrowyd yn debyg o fod yn barhaol. I raddau helaeth y mae yn seiliedig ar yr argyhoeddiad y gall addysgiaeth wneyd rhywbeth at alluogi yr amaethwr Prydeinig i orchfygu yr anhawsterau sydd yn ei gylchynu. Amaethwyr Mon, y rhai oeddynt gyntaf i wneyd defnydd o'r Coleg ym Mangor saith mlynedd yn ol i amcanion addysgiaeth amaethyddol, oeddynt hefyd gyntaf i ddyfod ymlaen dair blynedd yn ol i gynorthwyo y symudiad er sefydlu laeth-

ysgol ym Mangor. Ac fe ddanghoswyd purdeb eu dyddordeb trwy y ffaith fod nifer tra mawr o honynt wedi tanysgrifio at y draul. Mae y gwaith wedi dal yn llwyddiannus brawf y saith mlynedd diweddf. Yn ystod yr amser yna y mae ei gynnydd wedi bod yn gyson; ac yn sicr nid oes yn bresennol un ymddangosiad o unrhyw leihad yn y dyddordeb a deimlir ynddo.

Rhaid priodoli y llwyddiant sydd hyd yma wedi dilyn y symudiad yng Ngogledd Cymru i amrywiol achosion. Ond, o flaen popeth arall, y mae yn ddyledus i ffydd y Cymry mewn addysgiaeth, ac yng ngallu addysgiaeth i hyrwyddo eu llwyddiant tymhorol. Rhaid ei briodoli hefyd i'r mesur helaeth o ddyddordeb y mae tîrfeddianwyr a gwyr cyhoeddus Cymru wedi gymeryd yn y gwaith. Y mae bron yr oll yr apeliwyd atynt wedi cyfrannu at y cyllid er cario y gwaith ymlaen, ac y mae llawer o'r tîrfeddianwyr wedi rhoddi esiampl ragorol i'w tenantiaid trwy y dyddordeb uniongyrchol a gymerasant yn sefydliad y llaethysgolion, ac yn ffurfiad y dosbarthiadau amaethyddol.* Y mae llwyddiant y cynllun yn ddyledus hefyd i ofal caredig y *Board of Agriculture*, yr hwn nid yn unig a roddes gynhorthwy mawr mewn arian,† ond sydd hefyd wedi bod yn barod ar bob achlysur yr apeliwyd ato gan awdurdodau y Coleg i roddi iddynt y budd o'i gyngor a'i brofiad.

Y mae yn rhy fuan eto i edrych am ganlyniadau ymarferol i'n gwaith; o leiaf i edrych am y fath ganlyniadau ag a'n galluogai i farnu am ei effeithiolrwydd. Ni all fod un ddaid, sut bynnag, nad yw yr addysg yng ngwaith llaethfa eisoes wedi dwyn ffrwyth. Fel cadarnhad o hyn dyfynnaf y geiriau canlynol o adroddiad Arolygydd y *Board of Agriculture* ar waith y tymor 1890—91, yr hwn oedd seiliedig ar dystiolaeth amaethwyr, masnachwyr mewn ymenyn a chaws, gwneuthurwyr offer amaethyddol, ac ereill, a gymerwyd yn ystod ei ymweliad swyddogol â Chymru yn Hydref 1890:—"Ar bob llaw fe geir adroddiadau ffatriol am ddaioni y gwaith. Y mae mwy o offer, gwres-fesuryddion, profiaduron hufen, ac offer trin ymenyn, &c., &c., yn cael eu pwrcasu yn awr, ac fe geir gwel prisiau gan y rhai sydd yn eu defnyddio yn briodol."

Dair blynedd yn ol, wrth ysgrifennu hanes ein gwaith i un o'r cylchgronau Amaethyddol, mi anturiais ddefnyddio y geiriau a ganlyn:—"Pe byddai i'n gwaith brofi yn llwyddiannus, gallai brofi o werth i gylich ehangach na Chymru, canys gallai wasanaethu i awgrymu y llinellau ar ba rai y gallai gwaith cyffelyb mewn rhannau ereill o'r wlad, gyda mantais gael ymgymeryd ag ef." Yn ei adroddiad am 1890—91, dywed Arolygydd y *Board of Agriculture*:—"Y mae wedi ei ddangos y gall y gyfundrefn gyflawnaf o addysgiaeth amaethyddol gael ei threfnu gan Goleg Prifysgol Gogledd Cymru, Bangor; un nid yn unig a gyflawna ei ddyledswyddau priodol ei hun yn chwe sir ogleddol Cymru, ond a ffurfia cynllun ar linellau pa un y gellid trefnu addysgiaeth amaethyddol reolaidd trwy y deyrnas oll."

J. J. DOBBIE.

* Mae y tanysgrifiadau yn awr yn agos i £800 yn y flwyddyn, y rhan fwyaf o'r hyn sydd yn cael ei sicrhau am bum mlynedd.

† £20 yn 1889—90, £400 yn 1890—91, £500 yn 1891—92.

Y PARCH. WILLIAM GRIFFITH, DISGWYLFA.

Fy ngwlad, dy gwynion sydd yn dod
Ar edyn awel leddf yn llu,
Am golli dy enwogion cu,
Ymddyrechent at y dwyfol nôd.

Atyniad nefoedd sydd o hyd
Yn denu dy wroniaid gwir
I yfed bywyd—awyr glir,
Trigfannau eang nefol fyd.

Dy WILLIAM anwyl—enw sydd
Yn llawn o swyn yn Arfon dir,
Ac enw yw a bery'n wir
I berarogli tra bo dydd.

Ei ddoniau a'i gymeriad glân
A bortréadaf ger dy fron;
Yng nghanol llif hiraethus don
Yr eiliaf farwnadol gân.

Fe dorrodd gwawr ei fywyd ef
Ar lannerch deg yn Arfon wlad;
A dyfal wyliai llygad tad,
Pan ddaeth yr anrheg hon o'r nef.

Y bachgen dyfai'n llon, a byw,
Yn llanc penfelyn llawn o swyn;
A chalon tad yn fyw i'w ddwyn
Yn gysegredig idd ei Dduw.

Ei feddwl ymagorai'n rhwydd
Fel toriad swynol wawr y dydd,
Ac yfai addysg, fel yr hydd
Yn yfed dyfroedd, yn eu gwydd.

Dynoliaeth ynddo oedd yn hardd—
Yn dal, a syth, ac eiddil iawn;
Ei dalcen uchel oedd yn llawn,
A llygaid bywiog dano chwardd.

Ei wên dynherol oedd bob pryd
Yn arlun o ddynoliaeth dda;
A'i hardd gymeriad oedd fel ha',
Yn fyw o riniau'r dwyfol fyd.

Ei wyneb llon, fel awyr lās
Dan wenau bywiol disglaer ddydd;
Ei galon welid ar ei rudd
Yn gwriddo dan belydrau gras.

Yn gynnar iawn yng ngwanwyn oes,
Ei dad urddasol gollodd ef;
Ei ysbryd hedodd fry i'r nef,
A theimlai hyn yn chwervw loes.

Y nef ofalodd am y llan:—
 A phwy sydd debyg iddi hi?
 Cyflawna'i gwaith mewn dwyfol fri,
 Er colli tad mewn ingol dranc.

Ei yrfa yn yr Ysgol fu
 Fel dringfa hyd fynyddoedd ban;
 Ymgollai yn ei awydd, gan
 Ymddyrchu'n eon gyda'r llw.

Yn nerth athrylith dringai'n hyf
 I fyny llethrau anhawdd dysg;
 A gwelid ef mewn hwyl ymysg
 Yr uchel wyr, yn llon, a chryf.

Yr Ysgolhaig o uchel nôd
 A gafwyd ynddo yn ei rin;
 Diferai'n loew oddiar ei fin,
 I weini Crist, a dyrchu ei glod.

Yn dringo'r ydoedd ef o hyd—
 Ymagor fwyfwy yn ei nerth,
 Ac ymddyrchafu yn ei werth,
 Pan alwyd arno i newid byd.

Fel toriad gwawr ar anian gu,
 Yn dlws dadblygai'i feddwl ef,
 O dan arddunedd gwawr y nef,
 Mewn symledd, ceinder, llawn y bu.

Dyhëad cryf oedd ynddo ef
 Am wybod dwfn feddyliau Duw;
 A dirnad eu hadnoddau byw,
 Gan ymddifyrru yng ngwawl y nef,

Darlennai'n eang—eang iawn
 Lenyddiaeth oreu, ucha'r byd;
 A llifai hufen hon o hyd
 I lanw'i feddwl, chwyddo'i ddawn.

Athronydd ydoedd ef with raid,—
 Yn dwfn ymchwilio hyd y gwraidd;
 Arhosai yno i syllu—traidd
 I waelod cudd y dyfnder gaid.

Ei dreimiad oedd gyrhaeddbell iawn,
 A dyfal fu ei ymchwil hyf;
 Ei grebwyll treiddiol oedd yn gryf,
 I ddirnad ystyr hyn yn llawn.

Ymddyrchai'n uwch, yn uwch o hyd,—
 Ymledu, a dyfnhau yr oedd,
 A'i fawr adnoddau âi ar goedd,
 Pan y gadawodd llyf y byd,

O, efenglydd tlws ei ddawn !
 Yn araf, araf llifai'n glir,
 Ei fyw feddyliau syml, gwir,
 Fel llanw'r mor yn gryf a llawn.

Mor syml oedd ei eiriau ef,
 Mor llawn o feddwl, ac mor goeth ;
 Ei eiriau oeddynt eiriau'r doeth,
 Ac arnynt ddelw bur y nef.

Fel huan mawr, a'i oleu can
 Yn llouni anian—felly ef,
 A'i ddoniau llawn o wawl y nef
 Yn llanw'r galon hyd y lan.

Cyhoeddai olud gras yn llawn
 Yn ei ehangder ; doniau'r Ior
 A chwyddai ynddo fel y môr,
 Yn nerth ymchwyddol doniau'r Iawn.

Adgofio'r ydym am ei nerth
 Yn dyrchu'n uchel hyd y nef ;
 Pryd hynny, rhoddai danllyd lef,
 Yng ngoleu claer eu rhin a'u gwerth.

O, gennad hedd y nef ; ei fryd
 A daniai gan ddymuniad gwir
 I ddwyn " y drefn " yn oleu clir ;
 Ei enaid deimlai hyn o hyd.

Y Cristion syml ynddo gawn
 Yn holl adnoddau'i feddwl mawr ;
 Arddunedd hwn a roddai wawr
 Nefolaidd ar ei swynol ddawn.

Dan wllith y nef o'i febyd bu
 Yn tyfu'n ir a llawn o swyn ;
 Yn gryfach, llawnach âi, gan ddwyn
 Delweddau cain y Ganaan gu.

Yn ieuanc dysgodd garu Duw,
 A threiddiai'n dlysi yn ei foes ;
 Yn falm i'w glwyfau yn ei oes,
 A nerth grymusol iddo i fyw.

Rhinweddau'r nef a roddent fri
 Ar fywyd, yn ei fywyd pur ;
 A pheraroglent dan bob cur,
 I roddi swyn i'w doniau hi.

Diblygion oedd, fel pob peth gwir—
 A'i wraidd yn ddwfn fel derwen gref,
 Yn yfed gwllaw a gwllith y nef,
 Yn addurn crefydd yn y tir.

Arddunol fywyd—bywyd Duw,
 Anadla'i ysbryd ef o hyd;
 Delwedda'i feddwl, llanwai'i fryd,
 A throai'n allu ynddo i fyw.

Ei enw saif o hyd heb graith,
 Yn gynllun gweithiwr caled iawn;
 Ymgollai mewn awyddfryd llawn,
 I lanw bywyd gyda gwaith.

Ymsyniai nad oedd dyn i fod
 Heb iddo amcan yn y byd;
 Yr hwn a lyncai'n llawn ei fryd,
 I gyrchu ato fel ei nôd.

Ei enaid ynddo oedd ar dân
 Am ryddid gwir ac iawnder llawn
 I ddyn fel dyn; yr hyn yw dawn
 Y nefoedd iddo'n ddiwahân.

Nid allanolion oedd ei nôd,
 Ond meddwl—dyrchu hwn a fu
 Yn amcan ganddo; codi llu
 I fywyd pur, i ras yn glod.

Ei fywyd fu fel huan têt
 Yn llanw'n dlws ei gylch o hyd;
 A'i rinoedd yn pureiddio'r byd,
 A'i ddwyn i garu Duw ei Nêr.

Ehangder ei gynlluniau sydd
 Yn rhoi esboniad ar ei waith;
 Y *sail osododd*—darfu'r daith,
 A'i haul fachludodd ganol dydd.

"Ei Noswyl" ddaeth yn gynnar iawn,
 Cyn cyrraedd i ganolddydd oes;
 Hyn iddo oedd yn chwerv loes:
 Ei *fwriad* oedd, cael gweithio'n llawn.

Fel gweithiwr gonest, cyson, pur,
 Ar derfyn dedwydd gwaith ei oes;
 Derbyniai'i wob—Duw a'i rhoes,
 I'w gynnal dan ei ingol gur.

Mae "noswyl" yn ei brofiad ef
 Yn dwyn i'w fynwes ddwyfol hedd,
 Sy'n diffodd ynddi ofn y bedd,
 Yn llewyrch pur oleuni'r nef.

Ymdaenai llenni'r nos yn dyn
 Am dano, pan yng nghanol gwaith;
 Yn araf y dirwynai'r daith,
 Arhosai'n hir ar lan "y glyn."

Oddiyno gwelai'n glir, trwy ffydd,
I fryniau hyfryd Canaan wlad;
A darfu ofn—yng ngwên ei Dad,
Try cysgod angeu'n oleu ddydd.

O ddedwydd Noswyl!—troai'r Glyn
Yn deg fynedfa i ddinas Duw;
Aeth drwodd i dragwyddol fyw,
A chanmol gras Calfaria fryn.

Adgoffon fyrdd am dano sydd
Yn creu o hyd hiraethus don;
Y cyfaill hoff, caredig, llon,
A'i galon fawr fel gwên y dydd.

Ei deulu anwyl, chwervw yw
Y golled enfawr iddynt hwy,
Am briod hoff, a thad, Ow glwy!
Pwy all ei wella ond ein Duw?

Yr eglwys deimla golled fawr
Am ei harweinydd cywir, doeth,
Oedd lawn o ddoniau melus, coeth:
Ond gwag yn wir ei le yn awr.

Ymdaena'r don dros Arfon fâd;
Ei gydlafurwyr sydd yn awr
Yn teimlo'r nos yn toi y llawr
A'i llenni tywyll—wyla'r wlad.

Ow! ber fu'r daith, a darfu'i ddydd!
Mor ebrwydd, ebrwydd daeth i'r pen;
Mor sydyn gwywodd iraidd bren—
Am dano'n hir adgoffon fydd.

O, Gristion hawddgar, gwyn dy fyd!
Nid yw'r Iorddonen mwy i ti,
I groesi ei hymchwyddol li',
Ond *bywyd*—bywyd fydd o hyd.

G. TECWYN PARRY.

RHESWM A DATGUDDIAD.

PA wlad sydd wedi ei breintio â manteision crefyddol fel Cymru? Nis gall amrywiaeth a phrydferthwch ei golygfeydd beidio arwain yr ystyriol at y Duw a'u ffurfioedd, ac yn yr Hwn y mae yr oll yn cydsefyll. Brithir ei bröydd ag addoldai, cysegredig i'r Arglwydd. Harddir ei dyffryn-oedd, a hyd yn oed lethrau ei mynyddoedd, gan adeiladau sydd yn cyfeirio y meddwl tuag i fyny, at yr ysbrydol a'r tragwyddol. Ar ei haelwydydd codir allorau, oddiar ba rai yr esgyn i'r nefoedd arogl peraidd gan Dduw. Prin y mae llannerch yng Nghymru nad yw ei daear yng ngolwg rhywun yn ddacar gysegredig. Dyma wlad gafodd ei bendithio â dynion sanctaidd a nerthol, anfonedig oddiwrth Dduw, cofadwriaeth y rhai sydd yn arcs, &c yn perarogli ei hawryglych hyd y

dydd hwn. Dyma wlad sydd heddyw a'i phulpuadau yn cael eu llanw gan ddynion wedi eu gwisgo a nerth o'r uchelder. Dyma wlad wedi ei breintio a rhieni sydd yn dal eu hunain yn gyfrifol i Dduw am ddwyn eu plant i fyny yn ei ofn a'i gariad. Dylanwadau crefyddol, gan hynny, sydd yn amgylchu y wlad hon o amgylch ogylech,—y mae ei daear, ei hawyr, a'i phreswylwyr wedi eu treiddio a'u meddiannu gan Ysbryd Duw.

Y cyfryw ydyw yr amgylchiadau y geair plant Cymru iddynt. Ymhell cyn iddynt gyrraedd ymwybyddiaeth eglur, mae yr awyr o'u hamgylch yn ymdonni dan gynhyrfiad hen alawon ac emynau Cymreig, gan gludo cerddoriaeth bér i'r glust hyd yn oed cyn i'r meddwl fod yn barod i'w hamgyffred. Ac allan o ddigwyddiadau y cyfnod pan ddechreuodd yr enaid fod yn ymwybodol o hono ei hun, un o'r pethau sydd wedi ei argraffu ddyfnaf ar feddwl y plentyn Cymreig ydyw llais ei fam yn dywedyd hanes un o'r enw IESU, ddaeth i lawr o'r Nef i'n daear ni, fu farw er mwyn i ni gael byw, ac sydd yn awr ar ddeheulaw ei Dad yn y Nefoedd yn eiriol dros bechaduriaid. Yn unol â greddf ei natur, derbynia y plentyn y gwirioneddau hyn, a chreda hwy, cyn belled ag y mae hynny yn bosibl iddo, yn unig ar dystiolaeth ei fam. Mae gweithredu ffydd yn naturiol i'r plentyn, yn enwedig pan mai ei gwrthrych ydyw ei fam. Cyn hir, fodd bynnag, arweinir ef i weled fod awdurdod uwch yn bod na thys iolaeth ei fam, ar yr hon yn wir y seilia hi ei holl addysg. Yr awdurdod derfynol hon ydyw llyfr, y LLYFR, allan o ba un, hwyrach, y dysgodd efe y wyddor, ac ar ol hynny y dysgodd sillebu a darllen. Dyma lyfr, fe ddywedir wtho, sydd wedi ei ysgrifennu gan ddynion sanctaidd Duw, megys y cynhyrfwyd hwy gan yr Ysbryd Glan. I'r graddau y mae yn gallu sylweddoli ystyr hyn, i'r graddau hynny y mae yn parchu y llyfr, yn ei garu, ac yn credu yr hyn a addysgir ganddo. Cyflwr y plentyn, gan hynny, ydyw un o ymddiriedaeth llywr yn ei Fam, ac yn y Llyfr y dysgwyd ef ganddi i edrych arno fel Gair Duw.

Ond nid hir y pery y cyfnod hwn o ymorffwysiad perffaith ar awdurdod arall, bydded berson neu bydded lyfr. Allan o'r plentyn fe gyfyd y llanc a'r dyn; ac un o nodweddion dyn ydyw ei fod yn sylwi, yn meddwl, ac yn darganfod yn rhinwedd ei alluoedd ei hunan. Nid tystiolaeth arall ydyw unig ffynhonnell gwybodaeth. Ar ol y cyfnod yn yr hwn y rhoddir ymddiried llwyr mewn arall, daw y cyfnod pan y gofynir y paham a'r pa fodd am bopeth y deuir i gyffyrddiad ag ef. Dyma gyfnod y darganfyddiadau gwreiddiol. Fel pob llyfr a phob peth arall, rhaid i'r gyfrol sanctaidd fyned o dan ymchwiliad manwl; oblegid, onid oes cenhedloedd ereill yn bod, sydd yn meddu llenyddiaeth yr edrychir arni gamddynt yn gysegredig ac o ddwyfol darddiad? Ac os ydynt hwy yn camgymeryd, pa fodd na ddichon ein bod ninnau yn gwneyd yr un peth? Gwir fod ein Beibl ni, yng ngwerth ei gynnwys, yn sefyll ar ei ben ei hunan ymysg llyfrau y byd; ond eto, onid oes ynddo hanes am yr Arglwydd yn gorchymyn ac yn awdurdodi rhai gweithredoedd nas gall natur wedi ei Christioneiddio lai na theimlo yn ofidus ac yn glwyfedig o'u herwydd? Ac ymbe'lach, onid oes ynddo bethau hefyd y ceisir dangos mewn rhai cylchoedd eu bod yn hollol groes i ddysgediaeth ddiamwys a diymwad gwyddoniaeth a hanesiaeth? Os ychwanegir at y pethau hyn yr anhawster o amgyffred y du¹¹ ymha un y gallai datguddiad goruwchnaturiol o wirionedd gymeryd lle, ceir syniad am y dylanwadau sydd yn prysur weithio eu ffordd i Gymru, gan ddechreu

siglo hen seiliau crediniaeth, ac syld yn rhwym o gael eu teimlo yn fwy grymus a dinystriol yn y blynyddoedd dyfodol nag y teimlir hwy ar hyn o bryd.

Nid cyflwr i'w ddymuno nac i aros ynddo yn hir, os bydd yn bosibl osgoi hynny, ydyw hwnnw pan y mae dyn wedi ymddyrysu, heb wybod pa beth i'w dderbyn na pha beth i'w wrthod, na pha reol i'w mabwysiadu er mwyn penderfynu y naill a'r llall. Ymddengys y gorffennol, yr hen bethau, fel yn hollol groes i'r presennol, y pethau newyddion. Gwrthryfela y rheswm yn erbyn gorthrwm awdurdod; ac ymwrola gwyddiant, gan gredu yn anghyfnawidoldeb ei hegwyddorion, i wrthwynebu honiadau datguddiad. O dan amgylchiadau fel yna, fel y dywedodd y bardd, y mae cyflwr yr enaid yn debyg i gyflwr gwlad fo'n cael ei rhwygo gan ymbleidiau ei phreswylwyr. Y canlyniad ydyw blinder, annedwyddwch, a hwyrach, ambell waith, anobaith. Ond nis gall y meddwl aros yn y cyflwr hwn yn hir. Chwilia am ryw egwyddor, neu ryw wirionedd ddaw a'r gwahanol bleidiau hyn i heddwch a'u gilydd. A phan yn chwilio am orffwysdra i'w ysbryd, a chraig i sylfaenu ei grediniaeth arni, nid annaturiol i ddyd fydd ceisio cael allan pa beth sydd gan hanes i'w ddywedyd gyda golwg ar syniadau dynion yn y gorffennol ynghylch yr hyn a ymddengys yn anghydfod rhwng rhai o brif gynheddfau ei enaid.

Pa beth, gan hynny, ydyw syniadau dynion wedi bod gyda golwg ar gysylltiad Rheswm ac Awdurdod, Gwyddiant a Datguddiad, a'u gilydd? A ddichon y pethau hyn gyd-sefyll, neu a ydyw yn angenrheidiol i un o honynt gilio o'r ffordd er mwyn gwneyd lle i'r llall? Pa beth ydyw lle Rheswm, a pha beth ydyw lle Datguddiad fel ffynhonnell a sail ein gywboadaeth am Dduw ac am y byd ysbrydol? Beth y mae hanes meddwl y byd yn ei ddweyd ynghylch crediniaeth dynion ar y pynciau hyn? Credwn ein bod yn cymeryd golwg gyflawn a chyfiawn ar y grediniaeth hon pan yn dywedyd ei bod wedi cymeryd o leiaf dair ffurf. Yn *gyntaf*: Creda rhai fod dyn wrth natur yn anffyddol, hynny yw, yn ei gyflwr naturiol nad oes ganddo allu i ddarganfod gwirioneddau a gwrthrychau ysbrydol. Yu y cyflwr hwn cyfyngir ei brofiad yn gyfangwbl i'r daearol a'r tymhorol. Ar y sylfaen hon, os priodol galw peth mor nacïol yn sylfaen o gwbl, adeiledir dwy athrawiaeth pur wahanol i'w gilydd. Dywed rhai fod dyn yn anffyddol wrth natur, a'i fod, o angenrheidrwydd, yn parhau felly am nad oes un gallu mewn bod a ddichon ei godi o'r cyflwr hwnnw. Heb yr un Duw y genir ni, ac heb yr un Duw y mae yn rhaid i ni fod. Dywed ereill fod yr hyn y mae dyn yn analluog i'w gyrraedd drwy ei gynheddfau naturiol, yn cael ei ddatguddio mewn dull goruwchnaturiol, ac fod dyn, i raddan, yn alluog, neu yn cael ei alluogi, i'w ddeall. Rhyfedd fod dwy athrawiaeth mor annbebyg i'w gilydd yn tarddu o'r un ffynhonnell! Yn *ail*: Bernir gan lawer fod dyn, hyd yn oed wrth natur, yn alluog, trwy ei Reswm a'i gydwybod, i ddarganfod gwirioneddau ynghylch yr ysbrydol a'r tragwyddol. Nid llawer ydyw nifer y gwirioneddau hyn, a theimla dyn nad ydynt yn diwallu holl anghenion ei enaid. Gwneir y diffyg i fyny gan ddatguddiad goruwchnaturiol. Trwy y cyfrwng hwn y daeth dyn i wybod am y Drindod Sanctaidd, am y Bwriad o Hedd oedd yn llochesu ym mynmes y Tad er tragwyddoldeb, ac am ei benderfyniad i anfon ei Fab i'r byd yng nghyflawnder yr amser, i weithio allan y bwriad hwnnw. Gwirioneddau ydyw y rhai

hyn sydd, nid yn groes i Reswm, ond uwchlaw Rheswm, ac ni buasai Rheswm byth yn gallu eu darganfod, er ei fod i raddau yn gallu eu di-ma'1 yng ngoleuni Dwyfol Ddatguddiad. Delir syniad ychydig yn wahanol i'r uchod gan rai, yr hwa, er hynny, y dylem gyfeirio ato yn y fan hon. Dywedir mai gwaith Datguddiad ydyw amlygu gwirioneddau y rhai na allai dyn ar y pryd eu darganfod, ond y gallai, pe rhoddid digon o amser iddo, ddod o hyd iddynt. Y mae y gwahaniaeth rhwng y syniad hwn a'r un blaenorol yn eglur; ond ar yr un pryd ymdebygant i'w gilydd yn hyn, sef eu bod ill dau yn dal fod gan Reswm a Datguddiad eu lle priodol fel moddion trwy ba rai y mae dyn yn cyrraedd gwybodaeth am Dduw a'r byd ysbrydol. Yn *drydydd*: Y mae dosbarth o feddylwyr yn dal, nid yn unig fod dyn yn alluog, trwy gynheddfau ei enaid, i ddarganfod gwirioneddau ysbrydol, ond mai trwy weithrediad y cynheddfau hyn y daeth i afael o'r holl wirioneddau ynghylch yr anweledig sydd yn ei feddiant. Canlyniad naturiol golygiad fel hwn, y mae yn berffaith eglur, ydyw gwneyd i ffwrdd yn gyfangwbl a'r angenrheidrwydd am Ddatguddiad goruwchnaturiol. Ni raid ond meddwl am y Rheswm yn gweithredu ar y gwrthrychau, gweledig ac anweledig, o'i amgylch, er mwyn rhoddi cyfrif boddhaol am yr holl wirionedd sydd yn gynwysedig yng nghredoau y byd. Danghoswch i ni, medd y meddylwyr hyn, pa beth sydd mewn dyn, ie mewn dyn wrth natur os mynnwch lefaru felly, a ni a ddanghoswn i chwithau fod yr hyn ydyw ac oedd dyn yn ddigonol i roddi cyfrif am yr oll a wnaeth a'r oll y mae yn ei wybod a'i gredu. Y mae y cyntaf o'r tri golygiad dan sylw, fel y gwelir, yn gwneyd y Rheswm yn analluog hollol i gyrraedd gwybodaeth am yr ysbrydol; y mae yr olaf o honnynt yn honi mai trwy Reswm yn unig y mae dyn wedi cyrraedd yr oll y mae wedi ei gyrraedd yn y cyfeiriad hwn; tra y mae yr ail olygiad yn dal fod gan Reswm a Datguddiad eu lle a'u gwaith yn nadblygiad gwybodaeth ysbrydol y byd. Pa beth bynnag ddywedir yn y dyfodol ynghylch y berthynas rhwng Rheswm a Datguddiad, nis gall, ni gredwn, fod yn ddim amgen na rhyw agwedd neu gilydd ar un o'r golygiadau hyn.

I Gymro Cymreig, ni all dim fod yn fwy dyddorol na chael allan beth ydyw syniadau meddylwyr goreu a dyfnaf ei wlad ef ei hunan ar y pynciau y bydd yn ceisio gwybodaeth yn eu cylch. Beth, gan hynny, ydyw barn duwinyddion Cymru wedi bod gyda golwg ar y mater sydd dan ein sylw, sef Cysylltiad Rheswm a Datguddiad a'u gilydd? Nid ydym yn gwybod am neb y gellir dywedyd am dano ei fod yn cynrychioli meddwl uchaf a dyfnaf Cymru yn y ganrif bresennol, os nad yn wir ymhob canrif, yn well na'r diweddar Barchedig Ddoctor Edwards o'r Bala. Efe yn ddiaw oedd yn ffurfio brig uchaf y don dduwinyddol a lifodd dros ein gwlad pan ddeffrodd o'r cysgadurwydd meddwl yr oedd wedi bod yn gorwedd ynddo am oesoedd. Dyddorol, gan hynny, fydd clywed beth ydoedd golygiadau Dr. Edwards ar fater mor bwysig a'r berthynas rhwng Rheswm a Datguddiad. Darllenasom ei draethodau gyda thri gofyniad o flaen ein meddwl:—(1). A ydyw yn bosibl i ddyn yn ei gyflwr naturiol gyrraedd unrhyw wybodaeth am yr ysbrydol? (2). A oes gwirioneddau yn bod na allasai Rheswm eu darganfod, ond sydd eto wedi eu datguddio mewn rhyw fodd goruwchnaturiol? (3). A oes gan Reswm ei le a'i waith mewn cysylltiad a Gair Duw? Ceisiwn roddi atebion Dr. Edwards i'r gofyniadau hyn, cyn belled ag y bydd hynny yn bosibl, yn ei eiriau ef ei hunan.

Yn *gyntaf*: A ydyw yn bosibl i ddyn yn ei gyflwr naturiol gyrraedd unrhyw wybodaeth am yr ysbrydol? Nid ydyw yr ateb a roddir i'r gofyniad hwn mewn un man, bob amser yn gyson â'r ateb a roddir iddo mewn man arall. Dywedir, "Y mae dynolryw wrth natur heb Dduw yn y byd. Nid yw Duw yn eu holl feddyliau. Dyma drueni cyflwr dyn." Rhed yr un syniad trwy eiriau y Doctor mewn man arall: "Ond a ydyw y rhyddid hwn [sef rhyddid yr ewyllys] yn ddigon i alluogi dyn i ymddyrchafu o hono ei hun at yr ysbrydol? Nac ydyw yn ddiameu; 'oddieithr geni dyn drachefn, ni ddichon efe weled teyrnas Dduw.' Ac y mae Paul yn dywedyd am y dyn anianol, nid y dyn cnawdol, ond y dyn uchaf mewn cyflwr natur, 'Nid yw yn derbyn y pethau sydd o Ysbryd Duw: canys ffolineb ydynt ganddo ef; ac nis gall eu gwybod, oblegid yn ysbrydol y bernir hwynt.' Yn y geiriau hyn, a lliaws o eiriau ereill, danghosir fod dyn wrth natur yn analluog i weled a gwybod yr ysbrydol, ac i garu sancteiddrwydd. Diau mai anallu moesol ydyw, sef anallu nad yw yn gynwysedig mewn diffyg cynheddfau. Ond nid yw yr anallu oblegid hynny yn llai, ond yn hytrach yn fwy. Er nad yw yr anallu hwn mewn un modd yn esgusodi y pechadur, eto y mae yn rhaid i ni gredu fod yma anallu gwirioneddol." Fe geisiodd Kant yn ei lyfr, "Beirmiadaeth y Rheswm Pur," ddangos nas gellir cael unrhyw brawf o gwbl o Fodolaeth Duw oddiwrth natur Rheswm ynddo ei hun, nac oddiwrth ei weithrediad ar y greadigaeth. Gyda golwg ar ei waith yn y llyfr hwn dywed Dr. Edwards: "Y mae Kant ar yr un pryd yn barnu nad yw Rheswm yn rhoddi gwybodaeth am wrthrychau; ac er ei fod yn ymgyrraedd at y tri undeb a grybwyllwyd [sef yr undebau sydd yn rhoddi y meddylddrychau am Dduw, am enaid, ac am fydsawsd], eto nad yw yn alluog i gael gwybodaeth sicr o honynt. Yn hyn mae yn ddiameuol ei fod yn gywir; oblegid nid â gwrthrychau y mae â fynno y Rheswm, ond â gwyddorion: a da fuasai pe ymfoddlonai ei olynwyr yr un modd i gadw rheswm o fewn ei derfynau priodol." Oddiwrth y dyfyniadau uchod galleisid meddwl fod Dr. Edwards yn dal fod dyn wrth natur yn ddi-fydd, hynny yw, nad yw yn meddu ar unrhyw allu o gwbl i ddarganfod yr ysbrydol a'r tragwyddol. Ond nid ydyw ein casgliad yn gywir, ac wrth fyned ymlaen ceisiwn dlangos hyn. I ddechreu, sylwer fod "gan bob dyn allu i feddwl am Dduw a byd ysbrydol; ac yn y dyn ysbrydol y mae y gallu hwn wedi ei ddeffro a'i ddwyn i weithrediad." Cymerer dyfyniad arall: "Mae yn ddiau na ddaw [dyn] byth i adnabod Duw nes ei oleuo gan yr Ysbryd Glan; ond nid ydym i feddwl, ac nid ydym yn arfer meddwl fod yr Ysbryd Gŵa'r yn rhoddi cynheddfau newyddion yn yr enaid; ac o ganlyniad, mae yn rhaid fod y gallu hwn yn perthyn i ddyn fel creadur rhesymol." Rhaid i ni, gan hynny, wahaniaethu rhwng adnabod Duw yn weithredol, a bod yn feddiannol ar y gallu i wneyd hynny. Y mae dyn wrth natur yn meddu ar y gallu i ymgodi uwchlaw y daearol a'r amserol, at yr ysbrydol a'r tragwyddol; ond nid yw yn meddu ar y gallu i roddi y gallu hwn mewn gweithrediad. Ond gofynir, ai gallu i ganfod yr ysbrydol yn unig sydd ym meddiant dyn yn ei gyflwr naturiol? Nage, yn sicr, yn ol Dr. Edwards ei hunan. "Y pwnc sydd yn annhraethol fwy pwysig i ni na phob pwnc arall ydyw yr un y mae mwyaf o dywyllwch o'i amgylch i olwg rheswm. Ac eto y mae rheswm, yn yr olwg ar waith y greadigaeth, yn dywedyd fod Duw; 'Canys ei anweledig bethau ef er creadigaeth y byd, wrth eu hystyried yn y

pethau a wnaed, a welir yn amlwg, sef ei dragwyddol allu ef a'i Dduwdod; hyd onid ydynt yn ddiesgus.' Dyma un gwirionedd mawr y gallwn fod yn sicr o hono heb gymhorth datguddiad; ac ar y defnydd a wnawn o'r gwirionedd hwn y mae ein hymddygiat at y Beibl yn debyg o ymddibynnu." Eto: "Y cyffro a baro¹l Hume oedd yr achos i Kant wneuthur ymchwiliad newydd i edrych pa beth sydd sicr, a pha beth sydd ansicr, a gosod y prawf am y Bod o Dduw ar sylfaen arall, sef ar egwyddorion moesol. Pa beth bynnag sydd amheus, y mae egwyddorion y ddeddf foesol yn sicr, ac nis gall bod deddf heb ddeddfroddwr. Nid yw hwn ond hen brawf mewn gwisg newydd; ond er nad oes ynom un amheuaeth am ei ddigonolrwydd, nid ydym yn gweled fod yr achos lleiaf i Kant roddi i fyny y prawf oddiwrth achos ac effaith." Ymhellach: "Pan ddaw dyn i ddechreu meddwl ac ystyried, y mae yn teimlo fod ganddo alluoedd fel creadur rhesymol sydd yn ei wneyd yn llywodraethwr ar y byd gweledig o'i amgylch, ac yn ei addasu i ddal cymundeb â gwirioneddau ysbrydol ac anghyfnawidiol. Ond y mae hefyd yn rhwym o deimlo yn fuan fod y galluoedd hyn yn dra therfynol, a'i fod ef ei hun dan lywodraeth rhyw Fod anweledig, ar yr hwn y mae yn ymddibynnu, ac i'r hwn y mae yn gyfrifol am ei holl weithredoedd. Oddiar undeb y ddau deimlad hwn y tardda pob crefydd." Yn y dyfyniadau olaf hyn, atebiad Dr. Edwards i'n gofyniad cyntaf ydyw, "Y nefoedd sydd yn datgan gogoniant Duw; a'r ffurfafen sydd yn mynegi gwaith ei ddwyllaw ef. Dydd i ddydd y draetha ymadrodd, a nos i nos a ddengys wybodaeth;" ac y mae dyn, hyd yn oed yn ei gyflwr naturiol, yn meddu ar allu gweithredol i weled yr Anweledig yn a thrwy y gweledig, i deimlo ei ymddibyniad arno, ac i gydnabod llais ei gydwylbod fel llais Duw yn llefaru wrth ei enaid.

Yn ail: A oes gwirioneddau yn bod na allasai Rheswm eu darganfod, ond sydd eto wedi ei datguddio mewn rhyw fodd goruchnaturol? Y mae golgiadau Dr. Edwards ynghylch y mater hwn yn bendant a chlir. Oes, y mae gwirioneddau yn bod na allasai Rheswm byth eu darganfod ac y mae y gwirioneddau hynny, neu o leiaf rai o honynt, wedi eu hamlygu i ddyn mewn modd goruchnaturol. "Ond er ein bod yn dadleu nad oes dim yn y drefn hon [sef y drefn i faddeu pechod] yn groes i reswm, yr ydym yn addef ar unwaith na fuasai rheswm byth yn alluog i'w ddarganfod heb ddwyfol ddatguddiad, mwy nag i ddarganfod yn o'r ser sefydlog heb y goleuni sydd yn dyfod o hono. Heb ddatguddiad ni fuasem yn gwybod fod Trindod o Bersonau yn y Duwdod; nac ychwaith fod yn bosibl i Fab Duw, y Gair tragywyddol, yr Hwn oedd gyda Duw, ac yn Dduw, gael ei wneuthur yn gnawd, a marw yn ein lle." Eto: "Y prawf cryfaf fod y Beibl, nid yn wir yn unig, ond yn ysbrydoledig, ydyw ei fod yn cyfateb yn berffaith i anghenion rheswm a chydwybod, ac eto fod y gwirioneddau mawrion sydd yn cyfansoddi sylwedd y llyfr yn gyfryw o ran arucheledd eu natur, fel na welodd llygad, ac na chlywodd clust, ac na ddaeth i galon dyn eu cyffelyb; ac am hynny, fod yr rhaid mai 'Duw a'u heglurodd i ni trwy ei ysbryd.'" Gwelir oddiwrth y ddau ddyfyniad uchod fod Dr. Edwards yn mabwysiadu y gwahaniaeth a wneir rhwng yr hyn sydd groes i Reswm a'r hyn sydd uwchlaw Rheswm. Nid ydyw cynnwys Datguddiad yn groes i Reswm, ond eto y mae uwchlaw Rheswm yn yr ystyr na allasai Rheswm ei ddarganfod, ac yn yr ystyr hefyd, i raddau, na all Rheswm ei amgyffred i berffeithrwydd hyd yn oed wedi iddo gael ei ddatguddio.

Yn *drydydd*: A oes gan Reswm ei le a'i waith mewn cysylltiad â Gair Duw? Ni chawn ddim anhawster i gael allan syniadau Dr. Edwards ynghylch y gofyniad hwn eto. Gan y Rheswm y mae yr hawl i benderfynu a oes rhywbeth wedi ei roddi trwy ddwyfol Ddatguddiad ai peidio; ac os oes, pa beth ydyw. "Nid oes hyd yn oed gan dadau naturiol ddim hawl na gallu i arglwyddiaethu ar reswm na chydwybod eu plant eu hunain. Ond er hyn, neu yn hytrach oblegid hyn, y mae gan bob person hawl i ymuno gyda phersonau ereill i gyd-broffesu yr hyn y mae ei reswm yn ddangos sydd wirionedd datguddiedig oddiwrth Dduw, ac i gydweithredu yn ol yr hyn y mae ei gydwybod yn dystio sydd ddyledswydd orchymynedig gan Dduw." A dywed Dr. Edwards ymhellach y bydd i ni gael, wrth chwilio y Beibl, ei fod, "ynddo ei hun, yn cynnwys profion digonol o'i ddwyfoldeb i roddi pob boddlonrwydd a sicrwydd i'r deall a'r rheswm." Ar yr un pryd, pan yn dwyn y meddwl uwch ben Gair Duw er mwyn ceisio cael allan a deall ei gynnwys, dylid cofio fod "cynorthwy wedi ei addaw i ddeall y Beibl nas gellir ei ddisgwyl wrth ddarllen unrhyw lyfr arall. Y mae Ysbryd Crist yn y wir eglwys ymhob oes yn ei thywys i bob gwirionedd." Gwelir oddiwrth yr ymdriniaeth uchod fod golygiadau Dr. Edwards ar y berthynas rhwng Rheswm a Datguddiad yn cydfyned yn hollol ag un o agweddau yr ail ddosbarth o syniadau y cyfeiriasom atynt mewn adran flaenorol. Cysylltir y syniadau hyn yn bennaf ag enw Leibnitz; a hwy oedd yn nodweddu y mudiad a elwir y Dadleni Meddyliol yn yr Almaen.

Er mor ddyddorol ac angenrheidiol ydyw gwybod golygiadau ereill ynghylch pynciau ein hymchwiliad, eto bydd ein crediniaeth yn llawer cadarnach os bydd wedi ei chyrraedd oddiar safle a thrwy foddion hollol annibynnol. Nid ydym ar hyn o bryd yn bwriadu gosod i lawr ein syniadau ein hunain ar y mater sydd dan sylw yn yr erthygl hon. Boddlonwn ar dynnu sylw, yn unig, at y ffordd yr ydym yn ceisio ei cherdded. Prin y mae neb yn y blynyddoedd hyn yn ddigon beiddgar i wadu fod yna gyfoeth dihysbydded o wirionedd yn y geiriau sydd yn gosod allan fod dyn wedi ei greu ar lun a delw Duw. Myned i mewn i feddwl ac ystyr y geiriau hyn ydyw gwaith meddylwyr goreu y bedwaredd ganrif a'r bymtheg. Po ddyfnaf y treiddir i'r enaid, a pho gywiraf y syniadau am ei weithrediadau, mwyaf yn y byd o Dduw sydd yn dod i'r golwg. Y mae unoliaeth y greadigaeth, hefyd, yn dangos ei fawr ddoethineb a'i allu; a holl gwrs hanes yn mynegi ei ras a'i gariad; ac nid ydyw y gydwybod yn dawel ac yn gallu gorffwys, oni cha orffwys yn Nuw. Dyma fydd drwy ba rai y mae Duw a dyn ymhob gwlad ac ymhob oes wedi dyfod i wyddod eu gilydd. Pe gadewid Cristionogaeth allan o ystyriaeth, a ellid dywedyd fod y moddion hyn yn ddigonol i roddi cyfrif am yr holl wybodaeth am Dduw a'r byd ysbrydol sydd yn gynwysedig yng nghrefyddau dynion, yn Iuddewon a Chenhedloedd? Neu, a ydyw hanes rhyw genedl neillduol yn gofyn am ffinhonnell amgen i'w gwybodaeth na'r rhai hyn, er rhoddi cyfrif boddhaol am dano? A ydyw rheswm, ynddo ei hun, yn ddigonol i esbonio y ffieithiau; neu a oes rhai o honynt na ellir eu hesbonio ond trwy gymorth dwyfol Ddatguddiad? Dyna y gyfres gyntaf o ofyniadau yr ydym yn gofyn i ni ein hunain am ateb iddynt. Yr ail ydyw, Beth ydyw ein syniad am Iesu Grist, am ei ddyndod, am ei Dduwdod, ac am berthynas y ddwy natur a'u gilydd yn ei Berson? Beth ydoedd ffinhonnell ei wybodaeth am Dduw, ei Dad? Ai gweled yr Anweledig yn a thrwy y gweledig yn

unig, yr ydoedd, neu a ydoedd yu cael mwynhan cymdeithas Duw heb yr un wahanlen rhyngddynt? A ydyw yn briodol defnyddio y geirian Rheswm a Datguddiad mewn cysylltiad a gwybodaeth Iesu Grist; ac os ydyw, ymha ystyr? Trwy ateb y gofyniadau hyn cawn gyrraedd yr ail orffwysle ar ein taith. Ond ni bydd y pen wedi ei gyrraedd hyd oni bydd gofyniad arall wedi ei ateb: Beth ydoedd y moddion trwy ba rai y cyrhaeddodd ysgrifenwyr y Testament Newydd eu gwybodaeth o'r hyn a ysgrifenwyd ganddynt; a beth hefyd ydyw y ffynhonnell o ba un y mae Eglwys Crist, ar hyd yr oesau, wedi derbyn y gredo sydd yn cael mynegiant yng Nghyffes ei Ffydd? A oes lle i Ddatguddiad goruwchnaturiol yn hanes yr Apostolion a hanes yr Eglwys, neu a ydyw Rheswm yn unig yn ddigonol i roddi cyfrif am dano? Daw hyn a ni i ben ein taith; ac efallai y caniateir i ni cyn hir draethu yr hyn a welsom pan yn ceisio teithio ar hyd y ffordd hon.

Rhydychen.

E. O. DAVIES.

DOS, AC NA PHECHA MWYACH.

Yng nghyntedd teml gysegredig Ion,
 Y safai gwraig yn ofnus, ac yn brudd;
 Mor fud, heb yngan gair, a'i dagrau'n fôr
 Yn araf lanw dros ei gwelw rudd;
 Cyhuddwyr hon a'i gwysient hi drwy drais,
 I'w heuog-farnu yno gan ei gwaelach;
 Tra ar ei chlust y torrodd tyner lais,
 Gan sibrd wrthi — "*Dos, na phecha mwych!*"
 A'i phen yn pwyso ar ei mynwes brudd,
 Mewn syn-fyfyrdod tremiai tua'r llawr;
 Fel prawf o ingol friw ei chalon gudd,
 Anobaith rithiai ger ei bron yn awr;
 I holl reolau mân y Ddeddf bob un
 Yr hawlid bywyd glân, a mil perffeithiach
 Ger bron y Ceidwad; gwridai'r Ddeddf ei hun,
 Pan fwyn ddywedodd—"*Dos, na phecha mwych.*"
 Plethedig oedd ei dwylaw ar ei bron,
 A'i thrwchus hirllaes wallt, fel hanner nos,
 Drosglwyddai brudd-der bedd i'w llygad llon:
 Ond torrodd gwawr—tywynodd heulwen dlos,
 Ar achos blin y wraig bruddglwyfus drist,
 Er bod euogrywyd arni'n gwasgu'n drymach:
 Diferiad "*diliau mêl*" dros wefus Crist,
 I'w chalon hi oedd—"*Dos, na phecha mwych.*"
 Dal sanctaidd bresenoldeb Mab y Dyn,
 Oedd ormod i fucheddau llawn ystaen;
 Ei brwt gyhuddwyr hi o un i un,
 Ddiflannent fel drychiolaeth oll o'i flaen
 I hil syrthiedig euog, arian rai,
 Mae gobaith etifeddu bywyd purach;
 I ninnau'n rhad maddeua Ef ein bai,
 A dwed yn raslon,—"*Dos, na phecha mwych.*"

Ystrad Rhondda.

NATHAN WYN.

HEN GERDDI Y CYMRY.

IX.

533. A NEW POEM, concerning the Happiness and Prosperity in Health, Wealth and Peace, of J. LLOYD WYNNŷ, Esq., of Coed Coch, on his coming to his 21st Year of his Age, March 30th, 1828 By Thomas Jones, Maes Gwerfyl, Llanefydd. Llanrwst: Printed by John Jones 1828. [t d 8.]

534. CERDD NEWYDD, neu Gwynfan yr Hwsmon, o achos y Trethi, a'r Degwm, Rhenti, a'r Cyflogau, y mae yn ei talu yn y flwyddyn. I'w chanu ar - *Heart of Oak*. (Hugh Jones, o Langwm, a'i cant). J. Jones, Argraffydd, Llanrwst. [1829.—t.d. 4.]

535. CAROL PLYGAIN, sef Cân am enedigaeth, bywyd, a marwolaeth, adgyfodiad, ac esgyniad Crist, am y flwyddyn 1830. Gan R. Williams, a T. Harris. Ar y mesur "Belisle March." Caernarfon, argraffwyd gan Peter Evanst. [t d 4.]

536. CAN NEWYDD, yn rhoddi hanes y Terfysg a fu yn Merthyr Tydfil. Y Gweithwyr yn sefyll allan am fwy o gyflog, ac am gael eu talu mewn ariau yn lle nwyddau yn y *Tommy Shops*, neu Shop y Cwmni. Gan Stephen Jones, Lanfaeryw.

Casglodd o Naw i Ddeng Mil yn nghyd. Danfonwyd am Filwyr i Abertawe, a chymmerodd y *Mob* eu harfau oddi arnynt, ac a'u troisant yn eu hol. Danfonwyd am fyddin arall o Aberhonddu, pa rai a laddasant un ar hugain o'r *Mob*, ac a glwyfasant lawer o honynt. Ni laddwyd un o'r milwyr, ond clwyfwyd rhai o honynt yn lled ddrwg. Dygwddodd hyn yn mis Mehefin, yn y flwyddyn 1811.

Llanrwst, argraffwyd gan J. Jones. 1831. [t.d. 4.]

537. GALAR GAN a gyfansoddwyd er Coffadwriaeth am Mr. John Hughes, o'r Fadog Frech, Llanfaethly Mon; yr hwn a fu farw, Mehefin 23in 1832, yn 63 mlwydd oed, wedi treulio y rhan ddiweddaf o'i Oes mewn fyddlondeb mawr yngwasanaeth ei Dduw, mewn undeb a'r frawdoliaeth yn Soar. Gan William Jones (alias Gwilym Maethly.) "Mwy dymunol yw enw da na chyfoeth lawer." DIAR. 22. 1.

Beaumaris: argraffwyd, Gan Enoch Jones. 1832. [t.d. 8.]

538. CAN NEWYDD, o hanes Dafydd Williams, o Swydd Benfro, yr hwn a gafodd ei argyhoeddi wrth weled Canwyll Gorph ei hun, bedwar mis cyn ei farw, yr hyn a fu Ebrill 1, 1833. Gan Dafydd Evans, Penbryn.

Llanrwst, Argraffwyd gan John Jones. [t.d. 4.]

539. CAN NEWYDD, yn rhoddi hanes am David Jonathan, yr hwn a gafodd ei Lofruddio, yn agos i'r Rhosmaen, yn mhlwyf Llandeilo Fawr. ar nos Fercher, y 12fed o Dachwedd, 1834. Gan T Griffiths. Ceuir ar y dôn—"Bryniau'r Iwerddon." John Jones, Argraffydd, Llanrwst. [t.d. 4.]

540. CAN NEWYDD, yn rhoddi hanes Dienyddiad Edward Jones, am Lofruddio Dafydd Evans, Gamekeeper, John Wynne Eytan, Esquire, yn agos i'r Wyddgrug, yr hyn a gyflawnwyd ar nos dydd Llun, Chwefror y 3ydd 1840. (R. Williams, a'i cant). Llanrwst, Arg. gan J. J. dros Ellinor Jones. [t.d. 4.]

541. CAN NEWYDD, yn rhoddi hanes Margaret Davies, o Gapel Garmon, plwyf Llanrwst, yr hon a Lofruddiwyd yn mis Mai, 1810, am yr hyn yr erys y llofrudd tybiedig, yn ngharchar Rhuthyn hyd ei brawf. Mesur "Diniweid-rwydd." [Ywain Meirion, a'i cant.—t.d. 4.]

542. CAROL PLYGAIN, a gymerwyd allan o Luc 2. 8. I'w ganu ar "God save the King." Yr hen ffordd.

Llanrwst, Argraffwyd gan John Jones. [t.d. 4.]

543. HYMNAU NEWYDDION, i'w harfer ar donau rhydd, neu rai o Ganiadau Seion; yn cynnwys myfyrdod ar amrywiol o destynau difrifol. Gan Samuel Jones.

Preswylied gair Crist ynoch yn helaeth ym mhob doethineb; gan ddsagu a rhybuddio bawb eich gilydd mewn PSALMAU, a HYMNAU, ac odlau ysprydol, gan ganu trwy rās yn eich calonnau i'r Arglwydd. Gal. 3. 16.

Pwllheli: Argraffwyd gan Robert Jones. 1829. [t.d. 12.]

544. CAN NEWYDD o Ddiolchgarwch i Dduw am y Cynhauaf, 1824. Gan John Roberts, Aberdaron, Lleyn. I'w chanu ar y mesur a elwir "Hyd y Frwynen las."

Caernarfon, argraffwyd gan Peter Evans Gwerth Ceiniog. [t.d. 8.]

545. GALAR GAN, neu Gan Porthgolmon; Testyn y Gân yw:—Tri o ddyinion a aethant gyda Llestr fechan o Borth Golmon i Filfordd, i ymofyn llwyth o Gwlm; wrth iddynt ddyfod adref, cyfododd yn dymestl, ac a'u suddodd na chlywyd dim son am y dynion na'r llestr byth mwy. Gan John Stephen.

D.S. Ni argraffwyd erioed o'r blaen mo y Gân hon; a thrwy fod cymmaint o alw am ei hargraffu, cymerais inau y drafferth a'r draul i wneyd hyn: Pwy bynnag a'i hargraffo heb fy nghaned a gospir. David Williams, wyr i'r awdwr. Pwllheli: Argraffwyd gan Robert Jones, tros y Cyhoeddwr 1829. [t.d. 8.]

546. CAN LLWYNOGOD Y RHIW. Cenir ar y mesur Banks of Ireland. (Y Gog a'i cant.)

Caer Cyffin: Argraffedig gan R. Jones, tros R. Jones. [t.d. 4.]

547. CAN NEWYDD, yn cynnwys anogaethau i fod yn ddiolchgar am y Trugareddau helaeth a dderbyniwyd y flwyddyn hon, y cnwd toreithiol a'r Cynhauaf cysurus; y'nghyd ag amryw bethau, y rhai sy'n dwyn mwy o berthynas a ni fel Crist'nogion sy'n byw tan oruchwyliaeth oleu yr Efengyl, ac yn gyffredinol fel cenedl a waredwyd oddiwrth y pethau gofidus, sef y barnau a ddisgynodd ar geredlaethau eraill. Ar y Mesur "Triban." (J. R. P. S., a'i cant.)

Argraffwyd gan R. Jones, Pwllheli [t.d. 8.]

548. MARWNAD er Coffadwriaeth am y diweddard Barchedig Robert Jones, gynt o'r Tybwlcyn, yn Lleyn, Sir Gaernarfon, yr hwn a orphenodd ei yrfa Ebrill 18, 1829. Gan William Williams, Pwllheli.

Caernarfon, argraffwyd gan Peter Evans, tros yr awdwr. 1829. [t.d. 8.]

549. GALAR GAN, er cof am y diweddard John Owen, yr hwn oedd Flaenor Capel yn y Pennant, Sir Gaernarfon. (William Powell, a'i cant.) Caernarfon: Argraffwyd gan Peter Evans. [t.d. 4.]

550. GALARGAN er coffadwriaeth am Mr. Richard Thomas, Tanllan, Tydweiliog, Lleyn. Yr hwn a ymadawodd a'r byd hwn Mai 15fed, 1857. (Robin Lleyn, a'i cant.)

Hughes a'i Gyf., argraffwyr, Pwllheli. [t.d. 4.]

551. CAN yn gosod allau Byrdra Eini es Dyn yn y byd hwn, ac yntau yn meddwl dim am y Byd Tragwyddol, nes yn y Farn y mac efe yn codi ei olygon ac yn canfod Mab y Dyn ar gymylau y nef, yn dyfod i'w gywir farnu, yna y gwaedda ar y creigiau a'r mynyddoedd i'w guddio. Ar y don,—“Hen Dderby.” [Ebenezer Thomas, Clynog, a'i cant. t.d. 4.]

Yn y diwedd, yn llawysgrifen Llyon Fardd, dywedir fel hyn:—“Nid wyf yn gwybod nac yn credu mai myfi a gyfansoddodd y gân uchod.

Clynog.

Ebenezer Thomas.”

552. MARWNAD y Parchedig John Jones, Talysarn, Arfon. Ganwyd Mr John Jones yn 1797, yn Nolydd Elen. Ordeiniwyd ef yn y Bala, 1829. Bu farw Awst 16eg, sef Sabboth, am 10 o'r gloch y bore. Claddwyd ef ddydd Gwener, Awst 21ain. Y nos cyn yr angladd pregethodd y Parch. R. Jones, Felinheli, oddiwrth Phil. 1 23. Cyn cychwyn y corff pregethodd y Parch. Wm. Roberts, Amlwch, oddiwrth Math. xiv. 12, a'r Parch. J. Philips, Bangor, oddiwrth Dat. xiv. 13; yna anerchodd y Parch. H. Rees y dorf cyn cychwyn i Lanllyfni, lle y claddwyd ef mewn gwir ddiogel obaith o adgyfodiad llawen. Gweinyddwyd ar yr achlysur gan y Parch. John Jones, A.C., person y plwyf. Yr oedd yn y gladdedigaeth o 400 i 500. Yn eu mysg yr oedd 65 o bregethwyr; 100 o flaenoriaid, a 200 o gantorion. Mesur—“Trymder.” (Owen Owens, Cefn, plwyf Meyllteyrn, Lleyn. a'i cant.)

Hughes a'i Gyf, argraffwyr, Pwllheli. [t.d. 4.]

553. GALARGAN ar ei Syr Love P. J. Parry, o Barc Madryn, yr hwn a fu farw ar y 23ain o Ionawr, 1853, yn 71 mlwydd oed. Mesur—“Diniweidrwydd.” (Owain ab Gwilym, Lleyn, a'i cant.)

Argraffwyd gan W. Edwards & Co., Heol Penlan, Pwllheli. [t.d. 4.]

554. **ADGOFION GALARUS** am y Llong Henry Catherine, o Nefyn, yr hon a aeth i lawr yn Mhorth Neigwl, er's ychydig wythnosau yn ol. Gan "Gwilym," o Bencaerau, Lleyn. [t.d. 4.]

555. **CERDD** a gyfansoddwyd ar yr achlysur o ddyfodiad Llong fawr, gan nerth tymhestl, i Borthneigwl; yr ochr ddeheuol i dir Lleyn, swydd Gaernarfon. Boddodd y Criw. Ei llwyth oedd Siwgwr, Tea, a Whiskey o'r Iwerddon. Fw channu ar y mesur "Glan Medd-dod mwyn." [Ieuan Lleyn, a'i cant - t.d. 4.]

556. **CAN** i ofyn Ffon Gan y diweddar Evan Prichard, o Frynccroes, neu Ieuan Lleyn. Tôn—"Dydd Llun y Boreu." [t.d. 4]

557. **CÂN** Diolch am y Ffon. Tôn—"Breuddwyd" (Ieuan Lleyn, a'i cant) Argraffwyd, gan L. E. Jones, Caernarfon. [t.d. 4.]

558. **CAN NEWYDD**, yn rhoddi llawn a gwir hanes am Lofruddiaeth Difyffelyb, yr hwn a gyflawnwyd gan Thomas Williams, Pen-y-Bryn, Gwreccsam: sef lladd ei Wraig a dau o'i Blant, un yn chwech a'r llall yn dair Blwydd oed; ar ol hynny fe a g'lymodd Gwd llawn o Gerrig am ei Wddi, ac a foddodd ei hun mewn Ffôs. Yr hyn gymmerodd le ar ddydd Iau 17eg o fis Mehefin, 1819, yn 32ain Oed. Gan Thomas Harries, Abertawe. Cenir ar "Anhawdd ymadael," neu Loath to Depart. L. E. Jones, Argraffydd, Caernarfon. [t.d. 4.]

559. **MARWNAD** neu ychydig o Ehediadau Meddwl a achlysurwyd ar farwolseth Robert Griffith, gwr ieuangc o Gymdeithas yr Independiaid yn Nolwyddelen, yr hwn a orphenodd ei yrfa yn gysurus ar y 4ydd o Fai, 1818, yn 21 mlwydd oed. Cenir ar Ddiniweidrwydd. (John Thomas, a'i cant.)

Trefriw: argraffwyd gan J. Jones. [t.d. 4.]

560. **MARWNAD**, o Goffadwriaeth am ei Huchel Fawrhydi y Frenines Siarlot, Gwraig y Brenin Sior y Trydydd, a fu farw Tachwedd 17, 1818, yn 75 oed. Y mesur "Cwynfan Brydain." J. Jones Argraffydd, Trefriw. [t.d. 4.]

Yn y diwedd, ceir dau englyn fel hyn:—

"Y Twysog enwog anian—fo angor
Y fyw 'Fengyl bur-lan
All Iorwerth, oleu-werth llan
Arall bryd reol Bryda'n.
Gwedi Sior, *r gwir da y sydd,—gu sad
Gosoder e'n ddedwydd
Boed arall yn bedwerydd
Gywiraf fawd, a gar fydd.

DAFYDD JONES, Rhuddlan, a'i cant."

561. **CAN**, sef hanes cydgynulliad Gwragedd a Merched i dai eu gilydd a d'wedyd CLECS y naill wrth y llall. [t.d. 4.]

562. **CAN HIRAETHLON** David Davies, (Dai'r Cantwr,) pan yn garcharor yn Nghaerfyrddin, am y terfysg yn amser Rebeca. Cenir ar y dôn—"Roslyn Castle."

563. **CERDD**, a gyfansoddwyd allan o freuddwyd Cymro yn Llundain. Cenir ar y dôn a elwir "Parson Paris." (Ywain Meirion, a'i cant.) Argraffwyd gan D. Jenkins, Aberystwyth. [t.d. 4.]

564. **CAN OFIDUS**, sef hanes teimlad Hen Ferch Weddw, yn methu cael Gwr. Cyhoeddedig gan John Pryse, Bookseller, Llanidloes. Cenir ar Nos Galan Newydd. [t.d. 4.]

565. **CANIAD** o sen i Glep a Chelwydd. Cenir ar "Nos Calan Newydd." (Ywain Meirion, a'i cant.)

J. M. Jones, Argraffydd, Llanidloes. [t.d. 4.]

566. **CAN NEWYDD** am Fachgen yn ymadael a'i enedigol wlad. Anerchiad i'r Protectionists. [t.d. 4.]

Yn y diwedd, ceir englyn, "Bedd-argraff Caeth-fasnach," fel hyn:—

Mae'r dreth fawr, mae'r dorth fach—Ow yn gorwedd
Dan gareg rhydd fasnach,
Rhad yw i ni—yr yd yn fach,
Digon o bedliad gawn bellach.

567. CAN NEWYDD, yn rhoddi hanes am Fargen Afwyddliannus, a fu r'hwng Gwraig a Gwerthwr Tea Cenir ar "Poor Jack" [t. d. 4.]

568. CAN NEWYDD ar ddull o ymddiddan rhwng Gwr a Gwraig oblegyd y Tea a'r Cwrw. Cenir ar "Belisle March" [R. Williams, Bardd Gwragedd, a u cant. - t. d. 4.]

569. CAN DAFYDD WYN. Can drwstan drosti, Dwl lince fraeth, dau lencyn fri, os ych am sport cenwch hi ar Dduwc o York. [t. d. 4.]

570. CAN NEWYDD, sef ymddiddan rhwng Dic y Goffd, a Shon Foddlon. [t. d. 4.]

571. CAN yn rhoddi Hanes fel y saethodd Ffowler Ebol bach yn lle Ceiliog du. Y mesur a elwir "Marwnad yr Heliwr." [t. d. 4.]

Gan fod gradd o ddigrifwch digon diniwed yn rhedeg drwy yr oll o'r Gân hon, tybiwn nad annoethineb ynom yw ei doddi ger bron darlennyddion y TRAEFHODYD, fel hyn :-

CYD nesed pob Cymro,
'N gywreindeg i wrando;
Mae'r testyn yn tystio,
I gofio am y ger,
Yr hwn a wna'n hynod,
Ei *Aesged* yn barod
I wneud y mawr drallod,
A syndod yn siwr;
Myn d i'r mynydd ufudd iaith,
I chwillo'r bore, goreu gwaith,
Am gelliog du, mewn gwiwlan daith,
A'i *canan* maith gwine;
Yspial rós a ffôs a phant,
A bryniau, heb gél, a bronydd gant.
Ni welai'r *ffowler*, fwynder fant,
Mewn ceunant 'run cono.

2. Wrth hir lygadrythu,
Ac edrych o'i ddeutu,
Fo welai beth gloyddu
Yn ymgrymu yn y grug;
Ac yno fe wardial,
I lawr ar ei lintiau,
Rhag gweled o'r cenan'
Fo blygal'n ddau blyg;
Ymgropio wnai fo, a llithro i lawr,
A thosio'n galed *scaged* fawr.
Gael saethu'r ceiliog enwog wawr,
Modd dirfawr, ar deryn;
Fe dro'i ei olwg yno ar dro,
Annuwlo fab, l'w 'nelu fo,
Fe saethai'r gwr, yn syth o'i go',
I daro'r aderyn.

3. Ar ol gollwng allan
Y cynnwrf o'r *canan*,
Fe gerddai yno'n fuan,
Neaf anian, at hwn
Gan dd'wedyd yn groyw.
Ca'dd chwareu go chwerau
Mi a'i gwarantaf fo'n farw,—
Peth garw ydyw gwn!
Fe gerddai'r gwr, mewn cynnwrf cry',
I gael dal y ceiliog du.
Pan ae fo'n agos, dyma a fu,
Adnabu din ebol:
Pan welai y llwdu yno'n llên,
Fe grial beth dan grafu ei ben,
Rhag ofn, yn siwr, gael garw sen,
Drwy gynnen drigiannol.

4. Pan glybu'r perchenog
Swn cryd tua'r fownog,
Fo gerddai'n afrywiog,
Wr tonog, o'r tŷ,
Fe welai fab *Blacen*.
Mewn golwg yn gelân,
Dechreuai fonlletain,
Blin fargen a fu;

Gofynai'r *ffowler* egr iaith,
 Ai chwi wnaeth hyn, trwy wyn, o waith!
 Saethu'r ebol moddol maith,
 Trwy farwaith yn farw?
 Attebai'r gŕr, mai rhydlle a fu;
 Mi dybiais i mai'r Ceiliog du,
 Fy mod yn gwled blaenau'i htu:—
 Bu'a ch wren rhy chwerw!

5. Fe ddwedai'r perchemog,
 Fod rhagor cynddeiriog
 Rhwng cefyl a cheiliog,
 Mewn mownog a maes;
 Un a phlu hyd-ddo,
 A'r llall a blew arno;—
 Dylasech *g. sidro*
 Cyn llywio mor llas:
 Fe wyddai dyn a'i ben mewn sach,
 Ragor mawr, os byddai'n iach,
 Rhwng ceiliog du ac ebol bach;
 Gwnai'n halltach dy hyllod.
 Mabi *Ficen* ir-wen wawr,
 Ac wyr i'r *Wineu*, a garial gawr,
 Or-wyr oedd i *Feni* fawr,
 Wr dirfawr, ar deryn.

6. Tad hwn oedd Ystalwyn
 A ddaeth o Barc Mostyn,
 Mor *guc* a'r aderyn,
 Mor sydyn a'r saeth;
 Tad hwnw, a'i daid hoenus,
 A ennillodd y *Race*
 Hyd ddolydd Llanberis,
 Yn fentrus dda i foeth;
 Nain i'r rhei'n oedd gaseg las,
 A fu dan *Cromuel* cwrnel cas,
 A seth a'r *Roundsaid*, wŕr di rás,
 O'n teyrnas, mewn taerni:
 Fo dalasai, ar ei hynt,
 Yn y fwyddyn ddeuddeg punt;—
 Mynaf gyfraith fel y gwynt,
 Faith helynt, i th holl.

7. Y *Fowler* attebai,
 'N ddi attal, fe dd'wedai,
 Wr tellwng, y talai,
 Os gallai fo gael
 Ei bardwn, yn burdeg,
 Am saethu cyw caseg,
 Na chwynai fo chwaneq,
 Hoff iawndeg, heb ffael;
 Cyttuno yno, a swnio heb sen,
 Y chwiwgi poeth, am chweugain pen,
 Yegwyd dwylo, a phwyntio a phen,
 Dan gymen ymgomio.—
 Dymunai'r *ffowler*, dynyr don,
 O foddau siwr na fyddai sôn,
 Mewn geiriau fyth, o *Gaer i Fon*,
 Rhwng dynion am dano.

572. CAN NEWYDD, yn dangos y niwed sydd mewn diodydd meddwawl: y'nglyd a lles, a buddioldeb, y Gymdeithas Ddirwestawl. (William Davies, a'i cant.) J. Jones, Argraffydd, Llanrwst. [t.d. 4.]

573. CAN NEWYDD, sef achwyniad Mari Rees Morgan, o herwydd Priodi hen Gybydd. Cenir ar "*Bold Irishman*." (Ywain Meirion, a'i cant.) Llanrwst: Argraffwyd gan John Jones. [t.d. 4.]

574. CERDD ARSWYDUS, o hanes Doctor Fauxtus, yr hwn a gytunodd a'r Cythraul am ugain mlynedd o Bleserau: ynghyd a'r diwedd ofnadwy a ddaeth iddo. Cenir ar "*Frynlau yr Iwerddon*." Caernarfon: argraffwyd gan P. Evans, Heol-y-Castell. Gwerth Ceiniog. [t.d. 4.]

575. CAN NEWYDD, yn rhoddi hanes y modd y Llofruddiwyd William Parry, Gwenfro, Llanbedr Goch, Swydd Fon, ar Ddydd Iau, Gorphenaf y 14eg, neu ryw ran o'r noson hono, yn *Llanegfni, Swydd Fon*, ac y clwyfwyd dau eraill o'i gyfeillion mewn modd tra arswydus, am yr hyn yr crys dau arall yn garcharorion yn Beaumaris, i'w proll yn y Frawdlys nesaf. Cenir ar y "*Don Fechan*." (Rich. Williams, a'i Cant.)

L. E. Jones, Argraffydd: Caernarfon. [t.d. 4.]

576. CAN NEWYDD, yn rhoddi cyflawn hanes Llofruddiaeth echryslon a gyflawnodd Samuel Thorley, ar gorff Mary Pemberton, gerllaw Northwich, yn Sir Gaerlleon, ar y 6fed o Ragfyr diweddaf; am yr hyn y mao yn aros yn y Carchar hyd y Sessiwn nesaf y: Nghaerlleon Cenir ar y "Dôn Fechan." (Richard Williams, Bardd Gwagedd, a'i cant.)

Llanrwst, argraffwyd gan J. Jones. [t.d. 4.]

577. CERDD HYNOD, sef hanes Gwaredigaeth a gafodd Eliza Wilson, o blwyf St. Michael, Sir Amwythig, rhag cael ei lladd a'i chladdu gan ei chariad. Cenir ar "Fryniau'r Iwerddon." (Ywain Meirion a'i cant.)

Llanrwst, Argraffwyd gan John Jones. [t.d. 4.]

578. CAN NEWYDD, yn dangos Llofruddiaeth ddychrynlyd a gymerodd lo yn Sir Faesyfed. Cenir ar y "Dôn Fechan." (Ywain Meirion, a'i cant.)

Llanrwst, Argraffwyd gan J. Jones. [t.d. 4.]

579. CAN NEWYDD, yn gosod allan y rhyfeddol waredigaeth a gafodd John Williams, trwy frâd ei Feistres, o achos ei ffyddlondeb i Mary Lloyd. (Thomas Haries, a'i cant.)

Llanrwst: argraffwyd, gan J. Jones. [t.d. 4.]

580. CAN NEWYDD, neu Ymddiddan rhwng Hên Wr a'i Ferch yn nghylch Priodi. Cenir ar "Billy o Rook is the Boy Sir." (R. Williams, Bardd Gwagedd, a'i cant.)

Llanrwst, argraffwyd gan John Jones. [t.d. 4.]

581. CAN NEWYDD, yn dangos y cyfnewidiad sydd yn Mrydain, oddiar pan y cafodd Rhagrith ei ffordd ar drigolion y wlad. Cenir ar y mesur "Queen Bees." (R. Williams, a'i cant.)

Llanrwst, argraffwyd gan J. Jones. [t.d. 4.]

582. PENNILLION mewn dull o ymddiddan rhwng Thomas Hughes, Ysppyty Evan, a'i Gyfeillion, wrth gychwyn i'r America. Gan William Williams, neu Gwilym Twrog. Cenir ar "Diniweidrwydd." Llanrwst, argraffwyd gan John Jones. [t.d. 4.]

583. GALAR-GAN, Coffadwriaeth am farwolaeth Robert Roberts, y Seryddwr, o Gaergybi, yr hwn a fu farw Awst yr 2fed, 1836, yn 58 oed. Tôn—"Diniweidrwydd." (Ael Hafarn Hir, dros Evan Watkins, a'i cant.)

Llanrwst Argraffwyd, gan John Jones, dros T. Griffiths, a Morris Williams. [t.d. 4.]

584. YMDDIDDAN rhwng Cymedrolwr a Dirwestwr. (Ieuan Dyffryn Conwy, a'i cant.)

John Jones, Argraffydd, Llanrwst. [t.d. 4.]

585. ANERCHIAD Robert Owen, Dinbych, pan oedd yn Llynlleifiad, at Robert Davies, Bardd Nantglyn. Cenir ar "Hyfrydwch y Brenin Sior." (Robert Owen, a'i cant.)

John Jones, Argraffydd, Llanrwst. [t.d. 4.]

586. CWYN DAFYDD EVANS, Caerynarfon, yr hwn a gollodd ei olwg yn Nghloddfa Matilda, ger Llanberis, drwy daniad ergyd, Medi 25, 1848. (G. C. a' cant.)

John Jones, Argraffydd, Llanrwst. [t.d. 4.]

587. CAN NEWYDD, o ymddiddan rhwng Cadi Sion Dafydd a'i Nain yn nghylch Priodi. (R. Williams, Bardd y gwagedd, a'i cant.)

Llanrwst, Argraffwyd gan J. Jones. [t.d. 4.]

588. Y FERCH O FEIRION. "Bony Bunch o' Roses o." (Ywain Meirion a cant.)

Cerdd Robin a Sian. "Rory o' More." J. J. Arg. Llanrwst. [t.d. 4.]

589. CAN NEWYDD, ar ddull Carwriaeth Mab Ieuan. Llanrwst, Argraffwyd gan John Jones. [t.d. 4.]

590. CAN NEWYDD, sef achwyniad hen fab gweddw o eisiau Gwraig; yn nghyd a'i adwyddiant wrth gynal Tŷ ei hunan. Cenir ar "Billy o Rook is the Boy Sir." (R. Williams, Bardd y Gwagedd, a'i cant.)

Llanrwst, Argraffwyd gan J. Jones. [t.d. 4.]

591. CERDD O GWYNFAN Merch Ieuanco o eisiau Gwr, ar y mesur, "Mallodod Doffelleu." Llanrwst: Argraffwyd gan J. Jones. [t.d. 4.]

592. CAN NEWYDD, yn rhoddi hanes Carwriaeth John Jones a Mary Morris, o Blwyf St. Peter, Swydd Faesyfed: yn nghyda'r modd y darfu i'r Fam (Martha Jones) fodd ei hun o falais, o herwydd eu priodas hwynt ar y dydd cyntaf o Fawrth diweddaf. (R. Williams a'i cant.)

L. E. Jones, Argraffydd, Caerynarfon. [t.d. 4.]

523. DWY O GANIADAU. Y gyntaf, Ymddiddan rhwng dau o wyr am eu Gwragedd. Yr ail, Hanes Llangc wrth garu a ganodd yn debyg i Geiliog, ac fel y cododd gwr y tŷ ac a dorold ben y Ceiliog a'r Iar. Cenir ar "Fryniaur Werddon." [t.d 4.]

Dodwn yr ail Gân—"Hanes Llangc wrth garu a ganodd yn debyg i Geiliog"—i lawr, er mwyn dangos i ddarlleneyddion y TRAEATHODYDD pa fath bynciau a gredid, ac a ddysgid i ieuentyd Cymru yn yr hen "amser gynt":—

HOLL fonedd a chyffredin,
Rwy'n erfyn ichwi'n awr,
I wrando hyn o stori,
Eleni a roed i lawr;
Mae ynddi hi ddirgrifwch,
Fel gwelwch o'i i gyd
Ynghyd a rhybudd buddol
I bobl yn y byd.

2. Roedd gŵr a gwraig ya gorwedd,
Yn llariedd ac yn l'on,
A morwyn dda'i chymeriad,
A chariad oedd gan hon;
A hwnw ddaeth ryw noswaith,
Fal mae gwybodaeth bur,
Fe gafodd yno ei gangen,
Hardd seren, yn ddi sur.

3 I mewn yr aeth yn union,
A gwentron gyd ag e':
Roedd yno 'nghyd a'i gangen,
Yn llawen lawn eu lle,
Heb ddim, yr wyf ya tybio,
I'w blino yn y blaen,
I'w rwystro i sôn am garu,
A gwau, a nyddu gwlan.

4. Fe ganodd hwn yn gefnog,
Fal ceiliog, yn ei glwyd:
Fe waeddal Sion ya union,
Ow! Sion i fynu cwyd,
Y Ceiliog sydd yn canu,
Rwy'n credu felly fod
Yn agos ar ein gwarthau,
Ry w ddyddiau drwg i dd'od.

5. Fe godai Sion i fynu,
Gan grynu yn ei groen,
A d'weddyd yn lled ofnog,
Caf'r ceiliog fyn'd o'i boen,
A'i ddal a wnaeth yn union;
Ond gwirlon oedd y gwaith,
A'i ben a gadd ei dorl,
Mewn difri, ar ei daith.

6. 'Rol hyny aeth at 'i ymgeledd,
I orwedd yno'n wir,
Ar fedr ei chysuro,
I huno oriau hir,
I'w wely'r aeth yn fuan,
Yn gytan, dyna'r gwir,
A'r ceiliog eilwaith canodd,
Fe setmodd yn ein Sir.

7. Dywedai Sion yr awron
Wrth Sion, yn ddigon sur,
Yr Iar a leddaist gynne,
Hai, brysis a'th fwgall ddu,
A dyro yn awr yn gelain
Y deryn aflan yw,
A brysis yma eto,
I gael in' weddio Duw.

8. 'Rol lladd yr Iar a'r Ceiliog,
Wr lliidiog, ar y llawr,
I'w wely'r hi dan grynu,
Gan wir ryfeddu'n fawr;
A gwaeddi ar yr Argiwydd,
Yn ufudd yno wnaen',
Am iddo eto symud,
Y blinfyd oedd o'u blaen.

9. Dywedat'n awr, 'rwy'n meddwl,
Yn gwbl fel y daeth,
Iawn hanes y llofruddiwr,
A'r mwetwr yno a wnaeth:
Y forwyn hefo i chariad
'Rwy'n syniad, hyn yn siwr,
Dywedat y gweithredoedd
Ar gyhoedd wnaeth y gŵr.

10. Cymerwch o SION GRUFFYDD
Bawb rybudd yn y byd,
I beidio lladd pob Ceiliog,
Yn gefnog yma, i gyd,
Rhag lchwyllyn' d yn flodau
Baledau plant y plwy,
Amen 'rwy yn dibenu,
I ganu a mydru mwy.

John Davies, Neuadd Fawr, a'i cant.

594. CAN NEWYDD, sef Cwynfan y Trigolion, o achos prinder gwaith ac arian, yn yr amser proseennol, ac yn dangos fod lle i'r amser wellhau heb Ryfel. Gan Stephan Jones Llanfaeryw. Cenir ar "Fryniau'r Werddon." Caernarfon: Argraffwyd gan Peter Evans. [t.d. 4.]

595. CAN NEWYDD, yn rhoddi hanes am Miss Mary Emmanuel, sef, Merch Fonheddig a golodd ei Morwyndod, ac a wnaeth y Gân ei hun, er Rhybudd i Feibion a Merched. I'w chanu ar y Dôn a elwir, "Mwynder Merch" Lloyd, Argraffydd, Caerdydd. [t.d. 4.]

MYRDDIN FARDD.

NODIADAU LLENYDDOL.

Yr Epistol at yr Hebraid, gyda Nodiadau Beirniadol ac Eglurhaol.
Gan y PARCH. JOHN MORGAN JONES, Caerdydd. Dolgellau: E. W. Evans.

CAWSOM yr hyfrydwch yn ddiweddar o alw sylw at amryw o lyfrau rhagorol a gyhoeddwyd at wasanaeth ein cydwladwyr ar yr Epistol at yr Hebraid. Mae yn wybyddus fod y rhan yma o'r Gair wedi bod am gryn amser yn faes llafur Ysgolion Sabothol un o'n cyfundebau crefyddol, a da iawn fod y cynorthwyo gwerthfawr hyn wedi eu paratoi ar gyfer yr athrawon ac ereill a ddymument lafurio er ceisio deall yn well y pethau mawrion a osodir o'u blaen. Ac y mae yn hyfryd meddwl eu bod oll, er i'w cyhoeddiad gael ei achlysuero gan y ffaith y cyfeiriwyd ati mewn cysylltiad ag un enwad, yn gwbl rydd oddiwrth bopeth a'u hangyfaddasai i fod yn wasanaethgar i holl lwythau ein Hisrael, ag y gallai pawb a garont gael help i ddeall y rhan bwysig yma o'r Ysgrhythyr eu hastudio gyda hyfrydwch a budd. Ac y mae yn bleser neillduol gennym groesawu y gwaith hwn eto, o eiddo Mr. Morgan Jones. Fe gyhoeddidd y Nodiadau o fis i fis yn y *Lladmerydd*; ond wedi iddynt ymddangos felly, a chael eu hastudio a'u mwynhau, mae'n ddiameu, gan lawer, "yn gywir neu yn anghywir," medd yr awdwr, "tybiais y teilyngent well triniaeth na chael eu gadael ar wasgar ar dudalennau cyhoeddiad misol, a phenderfynais eu hadolygu, a u diwygio, a'u crynhoi ynghyd yn ua llyfr. Yn awr gyflwynir hwy yn y wedd hon i genedl y Cymry." Da y gwnaeth, a hyderwn y gwna "cenedl y Cymry" a hi ei hun y caredigrwydd o roddi derbyniad helaeth ac astudiaeth ddyfal i'r llyfr a gyflwynir fel yma iddi. Yr ydym ni wedi ei ddarllen gyda mawr hyfrydwch. Nid ydyw yr awdwr wedi bodloni ar gynnwyl i w gydwladwyr offrrwm "rhad." Y mae wedi darllen yn helaeth lenyddiaeeh oreu ei destun, ac wedi astudio a ddarlennai gyda gofal a meddylgarwch. Ac er y parch a deimla i'r awdurdodau uchel yr

ymgynghorai â hwynt, y mae hefyd wedi dangos "glewder" neillduol wrth ffurfio ei farnau, ac wedi gosod ei olygiadau ger bron mewn ffordd ardded a chllir, ac mewn Cymraeg dillyn a thra darllenadwy. Nid ydyw yn osgoi yr anhawsterau, ac er y gesyd ger bron yr eglurhadau y mae yr esbonwyr goreu wedi eu cynnyg arnynt, fe wna ymdrech gydwybodol i farnu rhyngddynt, os nad hefyd i gael allan, yn annibynol arnynt oll, yr hyn a deimla efe fel yn dyfod agosaf at wir feddwl yr Ysgrifennydd. Ni wŷr pwy ydoedd, nac at ba gymundeb neillduol o Hebraeid yr ysgrifennai; ac y mae gyda'r cwestiynau hyn yn dangos diofalwch iachus am bethau dibwys, sydd yn wasanaethgar iddo trwy yr holl waith, ac yn fantais iddo grynhoi ei holl ymadferth wrth geisio egluro y pethau mawrion. Nid ydyw yn debyg y bydd ei ddarlennydd meddylgar bob amser yn cyd-synio â'r golygiadau a esyd ger bron, canys y mae llawer o'r cwestiynau y mae yn ymwneyd â hwy mor anhawdd, a gwahanol feddyliau yn naturiol yn cymeryd arnynt wahanol olygiadau; ond fe deimlir yn barhaus fod ei olygiadau ef yni eu meddwl mewn goleuni a mawr ofal, ac o'r safle a gymer eu bod hefyd yn rhesymol a theg. Prin y mae eisieu chwaneu fod ysbryd y gwaith yn barchedig a chrefyddol, ac yn dangos cydnawsedd neillduol â gwirioneddau dyfnaf a mwyaf ysbrydol yr Epistol.

Y Ty a'r Teulu. Gan S. M. M., Dinbych. T. Gee a'i Fab. 3s.

Mae yn rhyfedd ein bod wedi gorfod aros cyhyd heb lyfr o'r fath yma yn ein hiaith. Tra y mae llenyddiaeth ein cymdogion yn gyfoethog mewn ymdriniaeth ar y lliaws materion pwysig y mae a fynnon't a chadw ty a gofalu am y teulu, y mae yr eiddom ni wedi ei gadael yn hynod o dlawd. Mae yn rhyfedd yn wir fod cystal trefn ar liaus mawr o'n tai a'n teuluoedd. Ond y mae y gyfrol hon yn deilwng o dderbyniad helaeth a charedig. Gellid yn rhesymol ddisgwyl i ddarlleniad astud o honi agor llygaid lliaws mawr on chworiydd tirion yn enwedig, i weled llawer o bethau y maent hyd yma wedi bod yn bur ddifeddwl yn eu cylch, ond y cymaint a fynnon't a ffurfio y baradwys o gartref dedwydd, ac felly chwaneu yn gymaint at rinwedd a hapusrwydd a defnyddioldeb eu hanwyliad. Mae y Gymraes barchus sydd wedi ei hysgrifennu wedi gwneyd cymwynas i'w gwlad a werthfawrogi, ni a hyderwn, gan lawer iawn, ac nad all lai na phrofi o ddirfawr les. Y mae wedi darllen yn feddylgar y pethau goreu sydd wedi eu cyhoeddi yn Saesneg ar y mater; wedi cymeryd addysg dda gan fam a anrhydeddir gan lawer fel un o rai rhagorol y ddaear; wedi cael profiad helaeth ei hunan yn y pethau y sonia am danynt; ac wedi gosod ger bron ei chworiydd addedd ffurth y wybodaeth oreu a'r profiad mwyaf llawn, a hynny ar faterion ag y byddai yn dda gan lawer o honynt, mae yn ddiamen, gael eu hyfforddi yn eu cylch. Ac er nad yw meibion yn gyffredin, yn teimlo y gelwir arnynt hwy i dalu llawer o sylw i'r materion hyn, eto fe gaent hwythau fod y llyfr hwn yn agor o'u blaen faes o wybodaeth a doethinob nad allent lai na theimlo ynddo ddwfn ddyfodderdeb, ac a fyddai yn dra sicr o'u gwneyd yn well gwyr, yn well tadau, ac yn llawer mwy defnyddiol fel aelodau o gymdeithas. "Mae perffeithrwydd yn cael ei wneyd i fyny o bethau bychain, ond nid peth bychan ydyw perffeithrwydd." Gallai llawer o'r pethau yr ymdrinir â hwynt yma ymddangos i rai yn lled ddibwys; ond erbyn gweled fel y maent gyda'u gilydd "yn gwneyd 'y cartref' y llecyn mwyaf dymunol a hyfryd dan haul,"—y ty yn iach a glanwaith a syber; y goginiaeth, yn lle y "tê" tragwyddol sydd mewn llawer o'n tai, yn trefnu mewn ffordd radlawn amrywiaeth hyfryd o "fwyd blasus o'r fath a gâr" y teulu, ac a rydd iddynt dan fendith Duw iechyd a nerth; y dodrefn a'r dillad yn cael eu cadw yn lanwaith a hylaw ac mewn chwaeth dda; y llywodraeth a'r gymdeithas yn y teulu yn llawn o doethineb ac addysg a chariad,—erbyn cael y pethau hyn at eu gilydd, yn sicr y mae y

daioni yn dra mawr, ac yn werth yr ym'rech fwyaf dyfal er ei sicrhau. Ac y mae llyfr rhagorol "S. M. M." yn gyfraniad tra gwerthfawr er sicrhau y bendithion hyn.

Llawlyfr Dirwestol, yn cynnwys ymdriniaeth ar egwyddorion Llwyrymworth-odiad oddiw'rth Ddiodydd Meltwol, oddiar safle wyldonol, wleidyddol, a chymdeithasol. Gan T. T. ROBERTS, gyda Rhagdraethawd gan y PARCH. JOHN THOMAS, D.D. Dolgellau: E. W. Evans. 1s.

YMDDENGYS fod yr awdwr wedi ymgymeryd a pharatoi y Llawlyfr hwn gan fwriadu ei anfon i gystadleuaeth Eisteddfod a gynhaliwyd yn Llan-gefni y Pasg diwed'laf, ond iddo fethu ei gwblhau mewn pryd. Fe wuaeth yn dda wrth ei gyhoeddi a h derwn y caiff ddarlleniad mawr. Yn ychwanegol at yr olwg a geir ar y mater o'r safleoedd gywydonol, gwleidyddol, a chymdeithasol, ymddengys fod y pwyllgor wedi nodi yr un grefyddol hefyd. Mae yr awdwr yn gadael hynny o'r neilldu, am mai dyna y wedd ar y mater sydd wedi cael mwyaf o sylw yng Nghymru; a hefyd fel y gallai wneyd mwy o gyfiawnder, mewn llyfr a ellid gyhoeddi am swllt, ar y gweddau ereill arno, gyda golwg ar ba rai y mae ein llenyddiaeth hyd yma wedi bod yn dlawd iawn. Mae y mater yn ei holl agweddion wedi cael sylw mawr y blynyddoedd diweddaf yma yn Lloegr, ac y mae ei lenyddiaeth ymysg ein cymdogion wedi dyfod yn dra chyfoethog. Ac y mae Mr. Roberts wedi darllen yn helaeth arno, a darllen i bwrpas. Y mae hefyd wedi crynhoi y wybodaeth eang a enillai felly i gyloch cymhesur, ac wedi ei gosod ger bron mewn dull cyfleus, eglur, a darllenadwy. Da fyddai fod llawer yn darllen ei lyfr, ac yn gosod ei bethau o flaen y rhai y deuant i gyffyrddiad a hwynt, ac yn enwedig y rhai sydd yn ddigon ehad i gellwair gyda'r diodydd meddwol, gan ddychmygu fod ynddynt unrhyw allu i w lleshau. Mae teimlad Cymru ar hyn—trwy ras Duw, ac fel ffrywth ymdrech blynyddoedd o athrawiaethu ar y mater—wedi dyfod yn iach a chryf, yn gymaint felly fel y mae, mewn llawer o'n hardaloedd, yn barod i wneyd i ffwrdd yn gwbl, ond cael y gallu i hynny, a'r fasnach yn y diodydd peryglus hyn. Ond y mae diota a meddwolod, gyda'n liosogrwydd o dafarnau agored, yn parhau i ffynnu yn ein plith, ac i gynhyrchu y trueni sydd ymhob man ac yn anocheladwy yn eu dilyn. Y mae gan hynny yn dra phwysig ein bod, tra yn parhau i ymdrech am yr ymward a ddisgwyliwn o atal y fasnach, yn ddyfal hefyd i wneyd ein rhan,—trwy ddsygu a pherswadio ein cyd-wladwyr, ac yn neillduol trwy wreiddio y plant yn egwyddorion obrwydd,—tuag at gael Cymru oll yn Gymru sobr.

Cyfstyron y Gymraeg, sef y Casgliad Buddugol yn Eisteddfod Genedl-athol Gw. eesum, 1888. Gan GRIFFITH JONES (Gan Menai). Wrexham: Hughes & Son. 2s. 6c.

MAE llawer o ddiwydrwydd a medr wedi eu dangos ym mharatoad y gwaith hwn. Un o'r gwersi cyntaf mewn meddwl ydyw gallu ymdeimlo a nerth geiriau. Wrth edrych ar yr anferth gyflenwad o eiriau sydd mewn iaith, ni fyddai ryfedd yn y byd i'r ieuanc feddwl nad all fod ond i fesur mawr yn bwnc damwain pa fodd y defnyddir hwynt. Ac eto pan feddylia i bwrpas, fe ga fod rhyw eiriau neillduol yn angenrheidiol iddo er rhoddi datganiad priodol i w syniadau, ac fod detholiad y cyfryw eiriau yn dibynnu ar ddeddf uwch a manylach ei gweithrediad na hyd yn oed yr un sydd yn llywodraethu y farchnad arian. Mae meddyliwr manwl a gofalus, fel y pregethwr gynt, yn "chwilio am eiriau cymeradwy," a pherffeith-wydd arddul yuyw cael gafael ar y geiriau iawn a'u gosod ynghyd mewn ffordd syml a diodres. Byddai efrydiaeth o gyfstyron y Gymraeg fel y gosodir hwynt ger bron yn y gwaith hwn, yn llawer o help i'n pobl ieuainc a ddymunont allu gwneyd defnydd da o'r hen iaith,

pa un bynnag ai ar lafar ai trwy ysgrifen. Mae yr awdwr wedi gwneyd gwasanaeth da, nid yn unig trwy ddangos y tebygolrwydd sydd rhwng geiriau gwahanol, ond hefyd trwy ddangos y gwahaniaeth rhwng geiriau y tybir eu bod mor debyg i'w gilydd fel nad oes dim gwahaniaeth rhyngd'ynt, ac nad all eu defnyddio ynghyd wneyd dim amgen nag ychwanegu at y corff o swm mewn brawddeg, neu fod i'w esbonio trwy yr hyn y cymerir yn ganiatïol ei fod yn taffu cymaint o oleuni ar ymadroddion dyrys,—bod yn “dull o ddweyd.”

Profedigaethau Enoc Huws. Gan DANIEL OWEN, Awdwr “Y Dreffan,”
“Rhys Lewis,” &c. Wrexham: Hughes & Son. 3s. 6c.

LLYFR sydd yn hynod o ddifyr i'w ddarllen, a'i ddiffyrwch yn llawn tuedd i'wneyd argraff dda ar feddwl a chalon y neb a'i darlennu. Y mae yn lled ddiethr, fel y sylwa yr awdwr yn ei ragymadrodd, na fuasai y meddwl Cymreig, ac yn enwedig yn y “deffroad” yr ymfrostrir cymaint ynddo yn y blynyddoedd diweddaf hyn, wedi gwneyd mwy o ddefnydd o'r nofel. Mae y cenhedloedd o'n hamgylch yn anfon allan eu cynhyrchion yn y wedd yma mewn llawnder mawr, ac er fod llawer o'r rheiny yn sâl eu gwala, a llawer, ysywaeth, nad allant lai na gadael effeithiau gwenwynig ar eu darllenwyr, eto y mae llawer o'r meddyliau disgleiriaf wedi defnyddio y dull yma i osod eu pethau da at wasanaeth dynolryw. Ac y mae chwedloniaeth y Cymry yn yr hen amseroedd wedi bod yn gyfoeth i lenyddiaeth y byd. Mae y gwir yn fynych yn rhyfeddach na'r chwedl; ond y mae swyn neillduol yn y chwedl—wedi ei llunio yn dda a'i hadrodd yn ddeheuig—sydd yn deffro dyddordeb yn y fynwes ddydol, ac yn rhoddi cyfleustra neillduol i wneyd argraff arhosol er da neu er drwg. Cawn rai pobl ddoeth weithiau yn ein sicrhau na ddylai fod un amcan i chwedl ond peri difyrwch yn unig. Rhaid fod hynny ynte yn amcan; ond y mae i bopeth a ddaw felly o'n blaen ei nodwedd briodol, ac os na fydd hwnnw o duedd i ddyrchafu a choethi y darlennydd, fe all fod yn foddion i'w ddirywio. Y mae Mr. Owen wedi gwneyd gwasanaeth da yn y maes yma o'r blaen, ac fe ychwanega y gyfrol hon at ei enwogrwydd, ac at y teimladau caredig a goledda ei gydwladwyr tuag ato. Mae i'r chwedl ei chynllun, ac y mae hwnnw yn cael ei weithio allan mewn ffordd sydd yn cadw cywreingarwch y darlennydd ar lawr waith hyd y diwedd, ac yn y diwedd yn ei synnu ac yn ei foddhau. Mae y cymeriadau yn dyfod yn fyw o dan ein dwylaw, fel y teimlem na fuasem yn synnu nemawr weled Marged, a Jones y Plisman, a Dafydd Dafis, a Didymus y Reporter, ac ereill, ar yr heol, pe digwyddai i ni byth daro ar y llannerch lle y digwyddai y pethau rhyfedd a groniclir yma. Ac y mae yr holl waith yn crynhoi ei wersi mewn ffordd sydd yn ddiarwybod i'r darlennydd yn peri bod ei atgasrwydd at Capten Trefor yn wers iddo mewn moesoldeb; yn rhoddi iddo fawr hyfrydwch wrth weled Susi, o fod yn hoeden ffoent-falch a difeddwl, yn dyfod yn ferch ieuanc rinweddol, feddylgar, a chrefyddol; ac yn neillduol wrth weled y gwr ieuanc y mae y llyfr wedi ei ysgrifennu i roi hanes ei “brofedigaethau,” tra yn cadw ei ddiniweidrwydd a'i burdeb, eto yn dal ei ffordd ac yn ychwanegu cryfder, ac yn y diwedd yn cael ei wobrwyo mewn ffordd a lanwai ei galon a dwfn foddhad. Cyfarfyddasom â llawer o ddarnau o ddisgrifiadau da, o sylwadau meddylgar, o ysmaldod diddan, ac o ysgrifennu teimladol y buasai yn dda gennym eu gosod ger bron: ond gwasanaethed a ganlyn,—Ymson Susi Trefor y noswaith y bu ei mam farw:—

Iâ, cysga Kit, 'dwyt ti, mwy na minnau, wedi cael fawr o orffwys ers wythnosau, a 'rwy'ti'n haeddu cael llonydd heno. Ond sut na fedrwn i gysgu? O! mae'r distawrwydd yma yn y nghadw i'n effro. Mor ryfedd a diethr ydyw popeth! Mor wahanol oedd popeth yr adeg yma neithiwr!—y rhedeg i fynw ac i lawr, a mam druan efo ni yn fyw, ond yn sâl iawn. Mor ddistaw ydi hi heno!

Mor bell y mae hi wedi mynd! O dyn! mi feddylies 'i ohlywed hi 'r munud yma 'n deyd—"Dyro i mi lymed, y ngeneth bach i." Ai dychmygu 'roeddw i? Rvdw i bron yn siwr i mi ohlywed hi. Mi wrandawa ngore eto. Gwan ydw i— a ffansio. Mor anodd ydi credu na ddeyddiff hi byth yr un gar' eto! Roedd hi yma gyneu—heddyw'r prydnawn. Lle mae hi rwan? Ie, hi, achos does dim ond ei chorh yn y *room nesa*—lle mae hi? Yn y byd mawr tragwyddol! Lle mae'r byd tragwyddol? Ydio 'n mhell? Ydi hi wedi cyrraedd yno? Ddaru rhwfun ddot i'w nol hi, i ddangos y ffordd iddi? neu a ydyw ei hysbryd hi yn crwydro ac wedi dyrrysu mewn *space*? Fydd hi'n crwydro, tybed, am floedd o ffynddoedd cyn dod o hyd i'r byd tragwyddol? O! na buaswn i wedi aros eto hi hyd i'r munud dywaetha, yn lle mynd i ysgrifennu at Enoc Huws! Hwyrach y base hi yn deyd wrtho i os oedd Iesu Grist eto hi. Yr oedd hi yn adrodd yr adnod echnos—"Pan elych trwy y dyfroedd mi a fyddaf gyda thi." Ddaru o beidio 'i hanghoffo hi, tybed? Oedd O ddim eisio bod eto rhwfun arall *just* yr un amser? Mor wirion yr ydw i'n siarad! Ydw i'n peidio dyrrysu? Kit, ydach chi'n cysgu? O! mor unig ydw i! ac a fydda i. Does gynon ni ddim cyfeillion, a themlais i 'riod o'r blaen ryw lawer o angen am gyfeillion. Ond does gynon ni neb neillduol. Oes, y mae hefyd—mae Enoc Huws yn wir gyfaill—yr unig gyfaill sy gynon ni. Mor wirion fum i yn 'i wrthod o. Does dim gwell dyn na fo yn y sir, a mi wn y'n bod ni'n dibynnu 'n hollol arno ers talwm. Rwyf yn meddwl fy mod yn ei garu yn fawr, ac eto fedra i ddim dygymod a'r meddwl o'i briodi o. Pysae o'n cynnyg ei hun i mi eto, wrthodwn i mono Na! dydw i ddim yn meddwl y derbyniwn ei gynhygiad chwaith—mi lyna wrth y nhad O! na fase nhad yn dduwiol! Ond dydio ddim—waeth heb weniethio. Mae o'n siat i'r ddiod, ac yn rhagrithio bod fel arall, fel bydae hyd yn nod fi ddim yn gwybod. Fy nyledswydd, rwyf yn meddwl, ydi glynu wrtho hyd y diwedd O! Dduw, bendithia yr amgylchiad hwn er ei iachawdwriaeth. Mor chwith fydd bod heb yr un fam! Beth ddaw o hono i gyda'r fath dad! Mi geisias neyd fy nyledswydd ac ymddiried yn Nuw. O! fel yr ydan ni gyd wedi gadel y mam bach! Ei gadel ei hun yn y *room* dywell yna heb neb i gadw cwmpeini iddi, fel bydae ni ddim yn perthyn iddi O! mae o'n greulon, *mor fuan!* Rydw i'n gwirion—na dydw i ddim—rwyf yn siwr fod o'n galed, yn greulon ei gadael ar ei phen ei hun, a ui af i gadw cwmpeini iddi, fedra i ddim aros yma.

Y Gymdeithasfa: yn cynnwys Gweithrediadau Cymdeithasfa Chwarterol y Methodi'iaid Calfinaidd yng Ngogle'd Cymru, a'r Gymanfa Gyffredinol, ynghyd a'r Ordeiniadau Gweinidogaethol, a'r Arholiadau Cymdeithasfaol yn y Gogledd a'r Deheudir hyd y flwyddyn 1890. Gan EDWARD JONES, Bangor. 5s. 6c.

LLYFR a fydd i'r Methodistiaid, ac yn wir i bawb a deimlo werth doethineb a difrifwch uwch ben pethau mawrion teyrnas Dduw, o wasanaeth tra mawr. Yr oeddid bellach ers llawer o amser yn teimlo angen am waith o'r fath. Yn 1843 yr ydym yn cael cyfeiriad at waith y Parch. John Foulkes, y pryd hynny o Abergel, yn crynhoi "Casgliad o Benderfyniadau y Corff ar bethau ymarferol a disgyblaethol," a golygid y gallai ei lyfr "wasanaethu i ddangos y modd y cerddodd y Cyfundeb ymlaen hyd yn hyn, ac hefyd i fod yn rhyw fantais at unfurfiath cryfach mewn Disgyblaeth Eglwysig yn yr amrywiol ganghennau eglwysi." Ond ni ddaeth dim o hynny. Yn 1860, yng Nghymdeithasfa y Wyddgrug, "anogwyd Ysgrifenydd y Gymdeithasfa"—y Parch. Roger Edwards—"i gyhoeddi mewn un llyfr Ymdriniaethau a Phenderfyniadau y Gymdeithasfa am yr ugain mlynedd a eth heibio, wedi eu dethol a'u trefnu mewn modd hylaw a phriodol. Bernid y byddai y cyfryw lyfr yn wasanaethgar iawn i swyddogion ac aelodau eglwysig yn gyffredinol." Ni ddaeth dim o hynny chwaith. Yn 1871 ac 1872 cawn gyfeiriadau at genadwri o Leyn ac Eifonydd yn dymuno "cael gweithrediadau a phenderfyniadau Cymdeithasfaedd y Gogledd er 1826 wedi eu hargraffu mewn llyfr;" bu cryn siarad ynghylch hynny, ond ni wnaed dim. Yn 1884 penodwyd pwyllgor i gymeryd yr un mater i ystyriaeth; ond nid


ydyw yn ymddangos i hwnnw chwaith wneyd dim. Yn 1888, fodd bynnag, fe gaed fod brawd cymwys wedi ymgymeryd â'r gwaith o'hone ei hun, ac wedi bod yn llafurio yn ddyfal er ei gwblhau. Hysbyswyd yng Nghymdeithasfa Machynlleth o Gyfarfod Misol Arfon fod Mr. Edward Jones, Bangor, yn "casglu ynghyd Benderfyniadau y Cymdeithasfa oedd, llawer o ba rai sydd wedi eu bwriadu i fod yn fath o reolau a chyfarwyddiadau parhaol, ond hyd yn hyn yn gorwedd ar wasgar trwy y Cylchlythyrau." Penderfynwyd yn unfrydol, "Ein bod fel Cymdeithasfa yn llawenhau wrth glywed fod Mr. Edward Jones, Bangor, wedi cymeryd mewn llaw y gwaith o gasglu ynghyd Benderfyniadau y Cymdeithasfa oedd, a'u crynhoi i newn llawlyfr hylaw, a'n bod yn dymuno rhoddi iddo bob cefnogaeth gyda gorchwyl sydd yn sicr o fod yn un mor ddefnyddiol." Yr oedd yn ffodus iawn fod gwr o gymhwysder a hamdden Mr. Jones, wedi meddwl am y fath beth, ac yn neillduol ei fod wedi ymroddi i'r llafu o'i gwblhau gyda'r gofal a'r dyfalwch sydd wedi gwneyd ei waith yn gymaint llwyddiant. Soniai y cyfeillion am "lawlyfr;" ond y mae y gyfrol hon yn agos i bum cant o dudalennau, ac wedi ei hargraffu a'i rhwymo mewn ffordd a'i gwna yn hvyfryd ei hanrhydeddu fel un i gyfeirio ati yn fynych, ac i ymgynghori â hi am dymor maith. Mae trefniad ei materion hefyd yn eglur a hylaw, a'r holl waith wedi ei wneyd gyda gofal a manylrwydd na adawant nemor ddiffyg ag y gallai neb gwyno am dano. Wrth reswm yr oedd raid gadael o'r neilldu beth anferth o fater wrth chwilio i weithrediadau y Cymdeithasfa oedd, ond fe all y darllennydd deimlo yn lled hyderus fod y pethau y gellid eu hystyried o ddyddordeb parhaus wedi eu diogelu, ac yn cael eu gosod o'i flaen yn y llyfr hwn. Ac anhawdd fyddai i neb meddylgar edrych drostynt heb deimlo eu mawr werth. Fe wyddys fod ein barnwyr goreu, yn ychwanegol at eu hastudiaeth o'r deddflyfrau, yn gosod pwys tra mawr ar "yr achosion," y *cases*, a fyddont wedi eu dwyn ger bron i'w profi, ac ar "y barnau" a fyddont wedi eu rhoddi ar yr achosion hynny gan rai a eisteddant ar y fainc o'u blaen, ac a ystyrid yn enwog am eu pwyll a'u doethineb. Fe deimla y Methodistiaid yr un ffunud yn falch o'r Rheolau a'r Erthyglau a gasglodd doethineb eu tadau o'r Ysgrythyrau, gan eu gosod ger bron yn glir a hylaw at wasanaeth eu pobl; ond yma hwy gânt liaws o "achosion" a deimlid yn anhawdd, yn cael eu dwyn ger bron mewn cyngor, a "barnau" yn cael eu rhoddi arnynt, a hynny nid yn anfyndch fel ffrwyth ymgynghoriad pwylllog a difrifol gwyr ag y mae eu coffadwr-iaeth yn fendith i Gymru oll. Nid ydyw y barnau hyn i wneyd meddwl ac ystyriaeth pobl y presennol a'r dyfodol yn ddianghenraid; ond y mae yn berffaith sicr mai y rhai helacthaf eu pwyll a'u gallu a'u cydwobodolrwydd a deimlant fwyaf o werth ynddynt, ac a gânt fwyaf o hyfrydwch wrth ymgynghori â hwynt. Y mae cael allan yr hyn sydd iawn dan bob amgylchiad, yn fynych, yn beth mor anhawdd; ond wedi ei gael, y mae mor hardd a theilwng fel yr ymhyfryd a dyn da ynddo yn fawr, ac y bydd yn llawenydd ganddo geisio ei ddyngu i ereill. Ac fe deimlir fod astudio llyfr fel hwn yn help at gynydd yn y ddisgyblaeth uchel yma. Fe gaiff ei ddarllennydd meddylgar deimlo ei fod yn cael y fraint o gymeryd ei le yn "eisteddfod yr henuriaid," gwyr sydd bellach, liaws o honynt, wedi cyrraedd "cymanfa a chynulleidfa y rhai cyntafanedig," a cha fod eu doethineb a'u hysbrydlorwydd a'u "mawr ofal calon" am waith Crist yn ei ddyrchafu ac yn ei buro yntau, ac felly yn ei gymhwyso i uwch gwasanaeth yn y byd hwn, ac yn y diwedd i'r gwasanaeth perffaith yn y fuchedd dragwyddol. Dylai y gwaith fod yn llaw holl weinidogion a blaenoriaid y Methodistiaid yn neillduol; ac fel yr awgrymasom o'r blaen, gallai fod o fawr wasanaeth i bwy bynnag sydd yn ymgymeryd â "bugellio eglwys Dduw, yr hon a bwrcasodd ef a'i briod waed."

Allen & Hanburys' Castor Oil

Featureless. Pure. Active. Available everywhere at 6d., 1/1, 1/9 & 3/4.

Ymerir ef gan blant a rhai moed heb yr anhawsder lleiaf, y mae ei effeithiau ar y corph ddiagramheuol. Medda yr holl oriaethau a honir iddo.—*Lancet*.

SIX GOLD MEDALS AWARDED.
New Zealand, 1882; Calcutta, 1884; London, 1886; New Orleans, 1886; Southern States, 1886.



NON-MERCURIAL.

For more than Half a Century this Powder has sustained an unrivalled reputation throughout the United Kingdom and Colonies as the **BEST** and **SAFEST** Article for Cleaning **SILVER & ELECTRO-PLATE**. Sold in Boxes, 1s., 2s. 6d., and 4s. 6d. each.

MASNACHU DRWY'R POST.

POSTAL SHOPPING

H. PEASE & CO'S

SUCCESSORS

LADIES

WRITE FOR PATTERNS OF ALL THE LATEST NOVELTIES IN DRESS MATERIALS AT MILL PRICES

SPINNERS & MANUFACTURERS

The Mills **DARLINGTON**

Amfoned y Boneddigsonu am Fstrymau o'r Nwyddau Dresses diweddaraf.

DRESSMAKING IN ALL ITS BRANCHES.

Gwneuthurwyr y Gold Medal Merinos, Cashmeres a Cross Warp Serges. Anfpatrymau yn rhad drwy y llythydd ar gymeradwyaeth.

Allen & Hanburys'

"PERFECTED"

Cod Liver Oil

all y gwanaf ei gymeryd a'i dreulio. Dyma yr unig Oil nad yw ei archwaeth yn codi o'r stomog i'r genau. Ac am y rhesymau hyn, yr Oil yma yw y goreu a'r mwyaf effeithiol mewn arferiad.

Mewn blwch-botelau yn unig, am 1s. 4c., 2s. 6c., 4s. 9c., a 8s. Ar werth yn mhob man.

BYNIN LIQUID MALT sydd nwydd gwerthfawr i'w ddefnyddio gyda Cod Liver Oil. Wedi ei gryfhau a'i wneyd yn nwydd llesol. Gwerthfawr at gynorthwyo treulriad. mae hefyd yn bur ddefnyddiol mewn achosion o Ddarddedigaeth ac anhwylderau cyffelyb. (Lewn poteli, 1s. 9c yr un.

CADBURY COCOA

ABSOLUTELY PURE—THEREFORE THE BEST.
NO CHEMICALS USED.

"CADBURY'S COCOA has in a remarkable degree those natural elements of sustenance which give the system endurance and hardihood, building up muscle and bodily vigour, with a steady action that renders it a most acceptable and reliable beverage."—*Health*.

TO ALL WHO DRINK COCOA
"Cadbury's Cocoa contains, in a condensed and increased form, all the nutritive properties of the Cocoa bean. The perfect of prepared Cocoa, of absolute purity, and always alike in quality."—*The Analyst*.

"The name Cadbury on any packet of Cocoa or Chocolate is a guarantee of Purity."—*Medical Times*

Pear's
soap

The advertisement for Pear's Soap is enclosed in a decorative border with a Greek key pattern. The word "Pear's" is written in a large, elegant, cursive script, while "soap" is in a smaller, simpler font below it. The background of the advertisement is dark, making the white text stand out.

Y

TRAETHODYDD.

MAI, 1892.

CYNHWYSIAD.

	Tŷ DAL.
Y Parch. Daniel Rowland, Llangeitho. Gan y Parch. D. WORTHINGTON, Rheithor Llangeitho.....	165
Y Proffeswr Edward Caird ar Athroniaeth Kant. Gan y Parch. JOSEPH ROBERTS	172
Geiriau Cymraeg William Salesbury a William Morgan yn y Llythyr at y Galatiaid. 1567, 1588. Gan y Proffeswr HUGH WILLIAMS, M.A.	182
Charles Haddon Spurgeon. Gan y Parch. H. CERNYW WILLIAMS.	190
Ymweliad a Llydaw, &c. Gan ROBERT ROWLAND.....	204
Trem ar yr Ysgol Sabothol. Gan y Parch. J. OWEN JONES, B.A.	212
Rhai o Beryglon Presennol y Genedl Gymreig. Gan y Parch. O. L. ROBERTS.....	221
Pa fath Eglwyswr oedd John Wesley? Gan y Parch. WILLIAM HUGH EVANS.....	231
Nodiadau Llenyddol	241

CYHOEDDIE Y RHIFYN NESAF GORFFENAF Y 1af, 1892.

PRIS SWLLT.

CAERNARFON:

ARGRAFFWYD A CHYHOEDDWDYD GAN D. W. DAVIES & CO.

"NID OES GWELL BWYD YN BJD."—*London Medical Record.*

Dylid rhoddi cynnyg ar y Bwyd hwn yn lle bynnag y bydd lluniaeth arall wedi methu Wedi ei Goginio yn barod—nid oes eisieu ei ferwi na'i ystraeio. Gellir ei wneyd mewn myn.

Allen & Hanburys Infants' Food

Bwyd llesol wedi ei gyfaddasu i organau treuliol Babanod a Phlant Iennaf, yn cynnwys pob angenrheidiol i ffurfio cnawd calced ac esgyrn. Y mae effeithiau chyfeddol wedi dilyn ar ymeryd y Bwyd yma, yr hwn, ar ol ei gymeryd unwaith a gymerir o hyd. Tystiolaeth feddyg phob cyfarwyddyd gyda phob blwch.

Pris 6c., 1s., 2s., 5s. a 10s. Ar werth yn mhob man.

BIRD'S CUSTARD POWDER

Cyflenwa foethusfwyd dyddiol—Blasusfwyd mewn amrywiaeth diderfyn—Y dysgleidiau goreu o'r Custard goreu

HEB WYAU!

ARWYON DIWEDDARAF: Y Brif Wobr yn Paris, Melbourne, a Barcelona, a Thystysgrifau yn mhob lle yr arddangoswyd ef.

Tham's

DISGLAER
FEL
DRYCH

Polishing Paste

PRES. COPR. a
Gellir ei gael yn m.
2g. a 1c.

ddarpariaeth oren at lanbau
METAL, PLATINOID, &c.
au 6c. a 1s., neu Flychau

JOSEPH
LONDON

1 Gwneuthurwr,

& SONS, SHEFFIELD.

GE'S HOUSE, EASTCHEAP, E.C.

Y TRAETHODYDD.

Y PARCH. DANIEL ROWLAND, LLANGEITHO.

Y MAE sylfaeniad a chysegriad ein heglwysi yn ymrannu i dri o gyfnodau hanesyddol. I'r cyfnod cyntaf y perthyn y seintiau brodorol, i'r ailgyfnod y perthyn Sant Michael, ac i'r trydydd y perthyn y Santes Mair. Perthyna sylfaenydd a nawdd-sant eglwys Llangeitho i'r cyfnod boreuaf. Yr oedd Ceitho yn un o bum brawd, a daeth pob un o honynt, yn sant. Nid yn aml y mae tad a mam yn cael yr anrhydedd o fagu pump o seintiau. Yr oedd y brodyr santaidd hyn yn enedigol o blwyf Cynwyl Caio, sir Gaerfyrddin. Ac y mae lle yn y plwyf uchod sydd yn adnabyddus hyd yn bresennol wrth yr enw Pumpsaint, ac y mae plwyf yn yr un sir yn dwyn enw'r brodyr hyn, Llanpumpsaint. Yr oedd yn hen arferiad, ac y mae eto, yn ein gwlad i gysegru eglwysi i fwy nag un sant, megys—Llan-ddeu-sant, Llan-tri-sant, Llan-pump-sant, a'r Holl saint.

Enwau y pump sant oeddynt—Gwyn, Gwyno, Gwynoro, Celynin, a Ceitho. Meibion oeddynt i Gynyr Farfdrwch, mab Gwron ab Cunedd. Sefydlwyd eglwys St. Ceitho yn y bumed ganrif, neu yn gynnar yn y chweched. Yr oedd seintiau yr eglwys Brydeinig yn dra lliosog, ac feallai yn lliosocach na'r un gangen o'r Eglwys gyffredinol, yn ol ei maint. Gellid meddwl wrth rhyw ddosbarth o ddynion nad oedd ein gwlad yn meddu na hanes, na chrefydd, na Christionogaeth, cyn dyfodiad Ymneillduath yn y ddeunawfed ganrif, a'r ail ganrif ar bymtheg. Ond mewn gwirionedd Cristionogaeth sydd wedi rhoddi enwau ar ein plwyfi, megys—Llangeitho, Llanddewi, Llanybi, Llanfair, Llanbedr, Llansantffraid, Llanrhystyd. Nid oedd dim llai na saith o gapeli ym mhlwyf Llanddewi Brefi yn yr hen amseroedd : Cartheli, Capel Bettws, Capel Gwynfyl, Llanbadarn Odwyn, Maes y Bettws, a Llanddewi Abergwesin, Llanpenal. Ac nid ydyw yr eglwysi na'r capeli Ymneillduol yn lliosocach yn y plwyf hwnnw yn bresennol nag oeddynt yn yr amser gynt, er fod y boblogaeth wedi cynhyddu yn ddirfawr er hynny. Y mae cyfnod cysegriad ein heglwysi a rhaniad ein gwlad i Esgobaethau yn un o'r rhai pwysicaf yn hanes y genedl Gymreig oddiar pan y daeth drosodd o'r Dwyrain odandwysiad Hu Gadarn. Feallai mai hwn oedd y cyfnod mwyaf blodeuog a welodd ein hen genedl yn ei holl hanes hyd yn hyn, a gellid yn briodol ei alw y cyfnod euraidd gyda golwg ar ein llenyddiaeth. Yr oedd y Rhufeiniaid newydd ymadael â'n gwlad, a'r Sacsoniaid heb gymeryd meddiant o honi. Yr oedd yr eglwysi yn cael eu cysegru i'w seintiau brodorol, ac yn cael eu llywyddu gan ei hesgobion ei hun. Yn y tymor hwn y ganwyd Gildas, yr unig hanesydd eglwysig ; a saif Gildas fel hanesydd eglwysig, yn ei berthynas a'r eglwys Brydeinig, ar yr un tir ag y saif Bede yn ei berthynas a'r eglwys Sacsonaidd. Yn y cyfnod hwn y ganwyd Aneurin, Llywarch Hen, Myrddin, a Thalesin ben Beirdd. Dyma'r pryd yr oedd yr enwog Maelgwn yn teyrnasu yng Ngwynedd, a'r byd-adnabyddus Arthur yn y Deheudir, a St. Dewi yn esgob ar

ranbarth Dyfed. Dyma y cyfnod y gorlifodd y môr dros y rhan oren o Geredigion a elwid Cantre'r Gwaelod, tiriogaeth ffrwythlawn a gyrhaeddai o dref Aberteifi hyd Sarn Badrig. Dywedir mai prif ddinas y rhandir hwn oedd Caerwyddno, ar derfyn Sarn Cynfelyn, ac oddeutu deuddeng milldir o Aberystwyth. A Gwyddno oedd y tywysog, pan gymerodd y digwyddiad colledfawr le. Braidd na ellid ystyried dyddiau Arthur yn ddyddiau genedigaeth yr awen Gymreig.

Ar ol hyn yna o ragymadrodd awn ymlaen at wrthrych ein hysgrif. Y Parch. Daniel Rowland, Llangeitho, oedd offeiriad yn Eglwys Loegr, ac un o'r prif, os nad prif bregethwr Cymru yn y ganrif ddiweddat, yr hon oedd enwog am ei phregethwyr. Diameu fod Daniel Rowland yn uwch o'i ysgwyddau i fyny na holl bregethwyr ei oes, a safai yn ei berthynas a hwy fel y safai Williams, Pantycelyn, yn ei berthynas â holl emynwyr ei oes, sef yn tra rhagori arnynt i gyd. Ganwyd Daniel Rowland yn Pant y beudy, ym mhlwyf Nantewnle, yn y flwyddyn 1713, ac felly yr oedd flwyddyn yn hŷn na Howel Harris, a phedair blynedd yn hŷn na Williams, Pantycelyn. Yr oedd yn fab i offeiriad, a dygwyd ef ei hun i fyny i'r offeiriadaeth. Ar ol gorffen ei efrydiaeth yn Ysgol Ramadegol, Henffordd, cafodd ei urddo, pan oddeutu ugain oed, fel y gwelir ar y Register yng Nghaerfyrddin:—"Daniel Rowland a literate person (at a general ordination on Sunday 10th March 1733, English style, in Duke St. Chappel Westminster by Bishop of St. David's) was admitted Deacon and licensed to serve the cure of Llangeitho and Nantewnle with the yearly salary of ten Pounds." Ac ymhellach ymlaen, yn 1735, Awst 31, darlennwn drachefn: "Daniel Rowland ordained priest at Abergwili."

Beth a fu yn foddion ei dröedigaeth? Nid oes sicrwydd digonol. Ai dwys fyfyrddod wrth weled mor lleied yn dyfod i'w wrando i'r eglwysi, a bod cynifer yn myned i'r capeli Ymneillduol oedd o amgylch Llangeitho? Nid ydym heb lawer o seiliau dros gredu fod gan y pethau yna gryn lawer i'w wneyd gyda dwyn Daniel Rowland i gyhoeddusrwydd a phoblogrwydd. Byddai efe yn arfer pregethu ar y testynau mwyaf cyffrous y tymor cyntaf o'i weinidogaeth, megys y rhai canlynol:—"Ar yr annuwilion y gwlawia efe faglau, tan a brwmstan, a phoethwynt ystormus: dyna ran eu phiol hwynt." "Daeth dydd mawr ei ddigter Ef." "Y rhai hyn a ânt i gosbedigaeth dragrwyddol." Darfu iddo fyned o Bant y beudy, Nantewnle, i Llanddewi Brefi, lawn chwe milldir, gyda'r unig amcan o gael clywed yr enwog Griffith Jones, Llanddowror, yn pregethu, a chael gafael, os oedd yn bosibl, ar guddiad ei gryfder, a'r rheswm dros yr ymgyrru a fyddai ar ol Mr. Jones ple bynnag y digwyddai fod yn pregethu. Gwyddom fod llawer iawn o uchelgais yn Daniel Rowland, ac nad oedd yn gwbl amddifad o gryn fesur o hunanoldeb. Rhai! fod ynddo gywreinrwydd neu uchelgais, neu feallai bob un o'r ddau; ond nid ydym ni yn barod i gredu fod y naill na'r llall, na'r ddau ynghyd, yn ddigon i roddi cyfrif am ei waith yn myned chwe milldir o ffordd i wrando Griffith Jones yn y flwyddyn 1735, sef yn yr un flwyddyn ag y cafodd ei ordeinio yn offeiriad. Gwell gennym ni gredu ei fod wedi cael ei ddwys-bigo yn flaenorol, a bod marworyn oddiar yr allor sanctaidd wedi cyffwrdd â'i enaid, nes yr oedd ei fynwes yn llosgi gan dân o awydd angherddol i achub eneidiau; ac iddo, mewn canlyniad, fyned i glywed yr anfarwol Griffith Jones, er mwyn dysgu rhywbeth ganddo a fyddai o fantais iddo yn y pulpud.

Yr oedd yn Daniel Rowland ewylllys a phenderfyniad di droi yn ol; anaml, os byth, y gwnai gydnabod anhawsterau. Nid oedd ar y Daniel hwn, mw y na'r Daniel gynt, ofn llew; ac yr oedd llawer iawn o'r oen a'r tyner, yn gystal, wedi cyfarfod yn y naill a'r llall o honynt. Cafodd Daniel Rowland ei drwydded yn 1733 i guradiaethau Llangeitho a Nantcwnlle, o dan ei frawd, John Rowland, yr hwn oedd reithor y plwyf blaenaf oddiar 1730, oblegid i'w dad roi gofal y plwyf i fyfyr yn y flwyddyn honno; ac yr oedd yn ficer Nantcwnlle oddiar y flwyddyn 1731, sef y flwyddyn y bu farw y Parch Daniel Rowland, tad John a Daniel Rowland. Yr oedd Daniel Rowland, y tad, wedi cael ei wneyd yn ebrwyd Llangeitho a Nantcwnlle, ar yr ail ar hugain o Orffennaf, 1708. Dywed traddodiad lleol mai brodor o sir Gaernarfon ydoedd, a'i fod o linach y Gwyddelod. Trwy ddamwain, boddodd John Rowland yn y môr, ar draeth Aberystwyth, yn y flwyddyn 1760. Felly yr oedd Daniel Rowland wedi bod yn gurad yn Llangeitho oddiar 1733 hyd y flwyddyn 1760. Yr oedd y cyfnod yna o saith mlynedd ar hugain yn ysbaid lledfaith i unrhyw un fod yn gurad, ac i ddisgwyl yn bryderus am ddyrchafiad, a gadael allan o'n hystyriaeth un o ddoniau a phoblogrwydd Daniel Rowland. Y mae'n beth eithaf rhesymol, ac yn beth dynol hefyd, fod yr amynedd a'r gallu i ddisgwyl wedi darfod, neu y peth nesaf at hynny, ynddo. Mae yn dra thebyg fod llawer o offeiriad, hyd yn oed o amgylch Llangeitho, a rhai digon dinod ac anadnabyddus yn nheml enwogrwydd, wedi cael eu dyrchafu i fywoliaethau yn ystod y saith mlynedd ar hugain y bu y seraff Daniel Rowland yn disgwyl yn obeithiol ac yn amyneddgar. Buasai bod am y tymor maith yn ha heb gael ei weld na'i gydnabod gan urddasolion yr Eglwys, yn ddigon i ffino a chwerwi ysbryd dyn llai uchelgeisiol na Daniel Rowland. Ond yr oedd ei hoffder o'r Eglwys mor fawr, a'i gariad tuag ati mor gryf, fel yr oedd yn credu yn ddiysgog ynddi, ie, pan yn marw. Yr oedd yn llawn cymaint ag a allasai ddiodef i weled ei frawd diwaith a dinod yn cael ei ddyrchafu pan yn ddyn ieuanc, ac yntau yn cael ei esgeuluso er ei holl ymdrech a'i weithgarwch diorffwys, a'i oedran, oblegid yr oedd erbyn hyn yn saith mlwydd a deugain. Mae'n ddiau na chododd yr un amheuaeth erioed yn ei feddwl na chai gynnyg ar Langeitho a Nantcwnlle, ar ol marwolaeth ei frawd. Ond pwy gafodd ei ddyrchafu i fywoliaeth Llangeitho ond John, ei fab ef ei hun, a rhoddwyd Nantcwnlle i un o'r enw Isaac Williams, ac yn ddiameu er mawr syndod a siomedigaeth i Daniel Rowland. Erbyn hyn, nid oedd yn un rhyfeddod i gig a gwaed yr hen sant fethu dal, a digiodd yn aruthr wrth yr esgob, ond nid wrth yr eglwys, oblegid bu yn eglwyswr hyd ei fedd. Nis gallasai gymodi a'r syniad o fod yn gurad i'w fab ef ei hun, os yn wir fod eisieu ei wasanaeth ar ei fab, gan nad oedd ganddo ond Llangeitho yn unig.

Y mae llawer iawn o gamgymeriadau a chroes-ddywediadau gyda golwg ar ymddygiad Esgob Squire tuag at Daniel Rowland. Dywed rhai fod yr Esgob wedi galw yn ol ei drwydded i bregethu, ond y mae yn fwy na thebyg na chafodd ei drwydded i bregethu ei hadnewyddu o dan ei fab, y rheithor newydd, oblegid nid oedd ganddo ef ond Llangeitho yn unig. Pan gafodd John Rowland, mab Daniel Rowland, Old Abbey Church, yn Amwythig, 1764, yr ydym yn cael cofnodiad yn Register yr Esgobaeth am gurad yn cael ei drwyddedu i Langeitho; yr hyn sydd brawf ychwanegol nad oedd gan John Rowland ond Llangeitho yn unig, ac nad oedd arno angen am gynhorthwy ei dad. Ni chynhelid ond un

gwasanaeth yr adeg honno ar y Saboth yn eglwys Llangeitho. Dywed ereill mai ei wahardd i bregethu yn eglwysi yr esgobaeth a wnaed. Y mae hyna eto yn dra amheus, oblegid yr ydym yn ei gael ar ol hyn yn pregethu ymhob eglwys y cai ganiatâd. Felly, nid oes dim sicrwydd pa beth a wnaeth yr esgob iddo, os darfu iddo wneyd rhywbeth. Y mae'r ansicrwydd mwyaf eto gyda golwg ar y lle y gwnaed hynny. Dywed rhai mai yn eglwys Llangeitho yr ataliwyd Daniel Rowland i bregethu. Y mae yn fyw yn bresennol yn y plwyf hen wraig, pur graffus, mwy felly na'r cyffredin, a ddywed mai yn eglwys Llangeitho yr ataliwyd ef, gan ei fab John, ar foreu Saboth, ac i Daniel Rowland fyned allan o'r eglwys i'r ochr arall i afon Aeron, y tuallan i blwyf Ceitho, ac iddo bregethu ar y geiriau hynny o eiddo Dafydd, brenin Israel: "O fy mab Absalom, fy mab, fy mab Absalom! O na buaswn farw drosot ti, Absalom, fy mab, fy mab!" Dywed yr hen wraig iddi hi glywed yr hanes uchod gan ei mam lawer o weithiau, yr hon oedd yn bresennol yn y gwasanaeth y boreu hwnnw. Dywed ereill mai yn eglwys Nantcwnlle y gwnaed hynny, a'u bod wedi clywed hen bobl oedd yn bresennol yn adrodd fod dau offeiriad oddiwrth yr esgob wedi dod i fewn i'r eglwys ar ddydd Nadolig, ac iddynt fyned i ymddiddan a Daniel Rowland ar ol iddo bregethu. Dywed ereill eto, mai yn hen eglwys Llanddewi Brefi yr ataliwyd ef i bregethu, ac na chafodd, ar ol darllen y gwasanaeth, bregethu y boreu hwnnw. Mae yr un gaddug eto yn aros gyda golwg ar y cwestiwn pwy a wnaeth hynny. John ei fab meddai yn, dau offeiriad wedi cael eu danfon o Abergwili meddai yr ail, Oadben Davies Glanrhoca, a rhyw offeiriad, meddai'r trydydd, a'i gwnaeth. Y mae'r ansicrwydd sydd yn bodoli gyda golwg ar yr hyn a wnaed, y lle ei gwnaed, a chan bwy y gwnaed ef, yn ddigon i adael amheuaeth ar feddwl diragfarn ac amhleidiol a ydyw yr haeriadau uchod yn wirionedd o gwbl. A dweyd y lleiaf, gallwn ddweyd yn ddibryder fod yr oll yn gorwedd mewn tywyllwch, ac yn cael ei amgylchynu gan niwl tew. Fe fyddai yn fwy rhesymol i'r gwahanol bleidiau geisio cytuno a'u gilydd, a phenderfynu pa un o'r damcaniaethau sydd wirionedd, na gwneyd honiadau disail. Y mae cofnodau yr Esgobaeth yn hollol ddistaw ar y mater, a mwy na thebyg y buasai nodiaf o'r amgylchiad wedi cael ei wneyd yn un o honynt, pe buasai yn ffaith. Ni chafodd yr un bywgraffiad o Daniel Rowland ei gyhoeddi am hanner can' mlynedd ar ol iddo farw. Cyn hynny nid oedd yn y gymydogiaeth ond traddodiadau a chwedlau am dano, a gwyddom fod llawer iawn o bethau anhygoel yn cael eu hadrodd a'u credu gan ddynion ofergoelus am ein harwr. Pe buasai Daniel Rowland wedi byw amryw ganrifoedd yn gynt, buasai ei wyrthfau yn lliosocach na'r eiddo St. Dewi yn y plwyf sydd yn ymyl Llangeitho. Y mae pob dyn yn myned yn fawr, i raddau pell, ar ol iddo farw. Mae'r plentyn yn myned yn ddyn ar ol iddo farw. Po bellaf fyddo'r dyn, mwyaf oll yr edrychir arno ar ol ei ymadawiad. Rhaid myned i'r oesau gynt i gael gafael ar y cewri. Nid oes fawr o goel i'w roddi mewn traddodiad, neu fywgraffiad wedi cael ei ysgrifennu mewn blynyddau ar ol i'r gwrthrych farw. Cymerwn un engraffit er profi ein gosodiad nad oes fawr o grediniaeth i gofiantau o'r fath. Gwnaeth y diweddar Barch. J. R. Kilsby Jones y Puritaniaid a'r diwygwyr Methodistiaidd yn destyn ymchwiliad a myfyrdod, a bu yn ysgrifennu eu hanes i'r gwahanol wythnosolion, ac yn darlithio ar rai o honynt am flynyddau. Un o'r darlithiau goreu o'i eiddo, meddir, oedd yr un ar "Rowland, Llangeitho."

Dywedai Kilsby fel hyn yn ei ddarlith am Rowland:—"Rai Suliau ar ol i Rowland gael ei fwrw allan o'i eglwysi, yr oedd Mr. Llwyd, Cil-y-pill, yn myned heibio i eglwys Llangeitho, ar ei ffordd i weinyddu yn Llanddewi Brefi, ac wrth ganfod drws yr eglwys yn agored, trôdd i mewn i edrych iddi am funud, ond ni welai yno neb namyn y clochydd. Yr oedd y person yn guddiedig yn y pulpud dwfn." Y mae pob hanesydd ac ysgrifennydd ar Rowland yn dweyd mai yn y flwyddyn 1763 y cafodd ei droi allan o'i eglwysi. Yn y flwyddyn 1768 y cafodd Mr. Llwyd, Cil-y-pill, ei eni, bum mlynedd ar ol bwrw allan Daniel Rowland, a chafodd Mr. Llwyd ei urddo yn ddiagon yn y flwyddyn 1791, pan yn dair ar hugain oed, sef mewn blwyddyn ar ol i Daniel Rowland farw. Bu Mr. Llwyd farw yn y flwyddyn 1837. "Rai Suliau ar ol bwrw allan Rowland," meddai Kilsby; ond ni chafodd Mr. Llwyd ei eni am bum mlynedd ar ol y dyddiad uchod, na'i urddo am wyth mlynedd ar hugain ar ol y flwyddyn 1763. Ond y ffordd oreu a diogelaf i ddyfod o hyd i'r gwirionedd ydyw cymeryd bywyd dilynol Daniel Rowland yn eglurhad ar ei fywyd blaenorol, a'r amgylchiad dan sylw. Yn y flwyddyn 1760, penodwyd John Rowland ei fab, i reithoriaeth Llangeitho, a dyna y flwyddyn yr adeiladodd Daniel Rowland ei gapel cyntaf. Yn y flwyddyn 1763 y bwriwyd allan Daniel Rowland o'i eglwysi meddai yr haneswyr. Felly, mewn canlyniad i'w siomedigaeth yr adeiladodd ei gapel yn 1760, ac nid mewn canlyniad i'r bwrw allan fu arno yn 1763, fel y dywedir gan rai.

Adeiladodd Daniel Rowland ei gapel lle yr oedd hen gapel eglwysig, yn rhanbarth Gwynfyl, yr hwn oedd wedi syrthio tua chanol y ganrif flaenorol. Mae yn dra thebyg mai adfer yr hen gapel oedd ganddo mewn golwg, oblegid yr ydym yn cael fod capeli y rhanbarthau ereill perthynol i'r un plwyf yn sefyll, megys Gartheli, Bettws Leici, Llanpennal, a Llanbadarn Odwyn. Adeiladodd ei gapel mor debyg ag oedd yn bosibl i eglwys, a gosododd fwrdd y tu dwyreinioliddo; gelwid ef yn allor, a gosodwyd canllaw o'i amgylch, a gosododd y pulpud o'r tuallan i'r gangell, yr un fath a'r eglwysi. Ac adnabyddid yr adeilad ar yr adeg honno wrth yr enw "Eglwys Newydd." Fel hyn y gelwir enw un o'i lyfrau, a gyhoeddwyd yn 1772: "Tair Pregeth a bregethwyd yn yr Eglwys Newydd, gerllaw Llangeitho." Darllennai Daniel Rowland y Llyfr Gweddi yn yr Eglwys Newydd, yr un fath ag yr arferai wneyd yn yr hen eglwys. Gwisgai wisgoedd offeiriadol fel o'r blaen, a chadwai glochydd, yr hen Ddafydd Sisyllt, fel ag oedd ganddo yn eglwys y plwyf. Nid ydyw Daniel Rowland, yn ei lythyrau na'i bregethau nac yn ei ysgrifeniadau chwaith, wedi dwyn yr un cyhuddiad yn erbyn yr Eglwys. Dywed mewn un llythyr o'i eiddo ei fod wedi clywed fod un Mr. Phillips, o Builth, wedi ei roddi yn y Llys Eglwysig. A ydyw yn debyg, ie a ydyw yn bosibl na wnelasai Daniel Rowland gyfeirio, yn rhai o'i ysgrifeniadau at y bwrw allan a fu arno o'r eglwysi, pe buasai hynny yn ffaith, tra yn crybwyll am beth mor ddiwbys? Dywed yn un o'i lythyrau am weinidogion yr Ymneillduwyr, eu bod yn elynion i'w ddull o bregethu, ond eu bod wedi gorfod cyfnewid amser eu cyfarfod-ydd, oblegid fod y bobl yn dod ato ef. Er y byddai Daniel Rowland yn pregethu yn y prif-fyrdd a'r caeau nid ydym yn ei gael, un amser, yn pregethu mewn capeli Ymneillduol. Yr oedd Mr. Rowland ar y telerau mwyaf cyfeillgar â'r Parch. Thomas Gray, a byddai yr olaf yn pregethu yn aml yng nghapel y blaenaf, ond ni byddai Mr. Rowland byth yn

pregethu yng nghapeli Mr. Gray, ac ni chai Mr. Gray gynorthwyo Mr. Rowland i weinyddu'r cymundeb. Bu i Daniel Rowland dri o feibion, a dygodd ddau ohonynt i fyny yn offeiriad, sef John a Nathaniel; trodd Dafydd allan yn afradlon. Fel offeiriad yn Eglwys Loegr yr edrychid ar Daniel Rowland ar ol y flwyddyn 1763, oblegid cafodd gynnwg ar rai bywoliaethau, megys Trefdraeth, sir Benfro, gan Mr. Thorton. Nathaniel, ei fab, fu yn cyfryngu rhwng ei dad a Mr. Thorton, ac yn y flwyddyn 1749 y ganwyd Nathaniel, ac felly yr oedd braidd yn rhy ieuanc i weithredu ar ran ei dad gyda Mr. Thorton yn 1763. Ac yr ydym yn cael Daniel Rowland yn gaplan i'r Duke of Leinster yn 1778. Ac mewn rhai blynyddau ar ol 1763 y cafodd Nathaniel Rowland ei ordeinio.

Yr oedd Daniel Rowland yn cynnal Cyfarfod Cymunwyr am ddeuddeg o'r gloch ddydd Sadwrn, ac yr oedd y bobl yn dod iddo wrth y cannoedd, o bell ac agos, a byddent yn lletya yn nhai y gymydogaeith dros y Saboth. Ac am fod yr eglwys yn fach, a'r gynulleidfa yn fawr, yr oedd yr ymwelwyr hyn a'r wyl yn myned i'r gwasanaeth foreu Saboth ymhell cyn amser dechreu, ac felly nid oedd lle i'r plwyfolion yno. Goddefasant hwythau hynny am flynyddau, ond darfu eu hamynedd o'r diwedd. A phan ddaeth yr eglwys yn wag yn 1760, darfu i'r plwyfolion ddeisebu yr esgob yn erbyn penodiad Daniel Rowland, fel yr unig foddion i gael gwaredigaeth o'r diethriaid. Nid eu hamcan oedd ei niweidio ef. Nid oedd gweinidogaeth Rowland nac eglwys y plwyf o'r un gwasanaeth iddynt hwy. Ac ni wnaeth yr esgob ond caniatâu eu dymuniad i'r plwyfolion.

Y rhydd-ddeiliaid (*freeholders*) oedd a'r gallu i benodi rheithor i'r plwyf, rhyw ychydig o flynyddau cyn hyn, meddai Meurig yn ei *History of Cardigan*; a pha fodd yr aeth i ddwylaw yr esgob? Pa un ai trwy esgeulusdra, neu a ddarfu i'r plwyfolion roddi yr hawl i fyny yn wirfoddol o honynt eu hunain? Y mae yn eithaf tebyg mai yn amgylchiad Daniel Rowland y darfu iddynt drosglwyddo eu hawl i'r esgob, yn hytrach na chymeryd y cyfrifoldeb arnynt eu hunain o wrthod Daniel Rowland. Nid oedd ganddynt ddim yn neillduol yn ei erbyn, ond eu bod yn hawlio lle yn eglwys y plwyf. A'r tro olaf y gwelodd Nathaniel Rowland ei dad, rhyw ychydig amser cyn iddo farw, dywedodd fel hyn: "Yr wyf wedi cael fy erlid nes yr wyf wedi blino; ond fe gai di fwy o dy erlid; ond er pob peth glyna wrth yr Eglwys. Feallai na chai dy ad-dalu am hynny, er hynny glyna wrthi, ie, hyd anguen. Fe gymer diwygiad mawr le yn yr Eglwys, ac mi fydd hynny yn galonid mawr i chwi dros lynu wrthi." A gofynnodd y mab i'w dad, "A ydych chiwi yn broffwyd, fy nhad?" "Nac wyf," meddai'r hen wr, "na mab i broffwyd chwaith; ond y mae Duw wedi gwneyd hynny yn hysbys i mi, pan oeddwn ar fy ngliniau; ond ni fyddaf yn fyw i weled hynny." "A fyddaf fi fyw i'w weled?" gofynnai'r mab. Gyda hynny gosododd yr hen sant ei law dros ei lygaid, a dywedodd, "Ie, gellwch chiwi fyw i'w weled."

Yr erledigaethau y cyfeiriai Daniel Rowland atynt oedd fod llwaws o'r cynghorwyr yn ei feio am na fuasai yn caniatâu urddo lleygwyr i'r weinidogaeth, yn lle glynu wrth drefn yr Eglwys. A phroffwydodd hefyd cyn marw, y gwnai y gwenyn ddychwelyd i'r cwch. Ers amryw flynyddau yn ol, darfu i'r Methodistiaid osod Cofgolofn i fyny i Daniel Rowland, ac ynddi danghosir ef yn pregethu, a'r Llŷfr Gweddi wrth ei

ochr, ac yn dal y Beiblyn un llaw, ac yn estyn y llall tuag at yr hen eglwys, i gyfeirio y gwenyn i'r cwch, ac felly i gyflawni y broffwydoliaeth. Gwrthdystiodd Nathaniel Rowland, yn y naill Gymanfa ar ol y llall am flynyddau, yn erbyn i'r Methodistiaid urddo gweinigogion eu hunain. Ac yr oedd Daniel Jenkins, gwr Anne, merch Daniel Rowland, yn un o'r tri phregethwr a wrthododd gymeryd ei ordeinio gan y Methodistiaid yn y flwyddyn 1811. Gwrthododd cynulleidfa capel Llangeitho, hen ddisgyblion Daniel Rowland, gymeryd y Gymanfa yn 1811, blwyddyn yr urddiad cyntaf yn eu plith, a gorfu arnynt ei chynnal yn Llandilo Fawr. Yr adeg honno, yr oedd Sasiwn Awst yn cael ei chadw yn ddieithriad yn Llangeitho ers mwy na hanner can' mlynedd. Ar ol yr urddiad, ni chaniateid i weinigogion yr urdd newydd fedyddio neb, na gweinyddu y Cymun Bendigaid yng nghapel Llangeitho, ac nid oedd-ynt ddim amgen o hyd yng ngolwg y gynulleidfa na chynghorwyr. Trwy gyfrwystra a chyd-ddealltwriaeth rhwng y Parch. Ebenezer Richard (tad y diweddar Henry Richard, A.S.), a Dafydd Jones, Dolau Bach, bedyddiodd y cyntaf faban yr olaf, a dyna y tro cyntaf i un o'r urdd newydd ymwneyd â'r Sacrament yng nghapel Llangeitho. Yr oedd y gynulleidfa yn hollol anwybodus o'r hyn oedd i gymeryd lle. Ac ni chafodd y Cymun Bendigaid ei weinyddu ynddo am fwy na dwy flynedd gan neb o'r urdd newydd. Digwyddodd damwain i'r Parch. John Williams, Lledrod, trwy iddo syrthio ac ysigo ei glun, fel yr analluogwyd ef i fynd i Langeitho dros lawer o fisocedd; ac er bod rhai gweinigogion urddedig wedi bod yno yn y cyfnod hwnnw yn pregethu ar y Saboth, ni chaent weinyddu y cymundeb, o herwydd gwrthwyn-ebiad y stewardiaid. O'r diwedd, daeth cyhoeddiad y Parch. T. Charles, Bala, a John Roberts, Llangwm, i fod gyda'u gilydd yno ar y Saboth. Yr oedd Mr. Charles wedi ei urddo gan esgob, a John Roberts gan Association y Bala. Yr oedd John Roberts (tad y Parch. Michael Roberts, Pwllheli) yn bregethwr poblogaidd iawn, yn un o bregethwyr deg o'r gloch Association Llangeitho, ac felly yn llawn mor gymeradwy fel pregethwr a Mr. Charles. Ond pan ddarfu i'r stewardiaid hysbysu Mr. Charles nad oedd John Roberts i gael cydweinyddu gydag ef, gwrthododd Mr. Charles weinyddu y cymun ei hunan, a buwyd hebdo am ryw gymaint o amser ar ol hynny. Ni fyddai yr offeiriad Methodistiaidd byth yn cymuno yn y capeli Ymneillduol, a byddent yn wastad yn annog eu gwrandawr i wneyd yr un modd. Bu Llyfr Gweddî yr Eglwys yn cael ei ddarllen ar y Saboth yng nghapel Llangeitho am fwy nag ugain mlynedd ar ol i Daniel Rowland farw. Yr oedd yn llawn mor anhawdd gan gynulleidfa capel Llangeitho fod heb wasanaeth yr Eglwys ag oedd gan yr Iuddeuon dddiddymu y seremoniau Iuddewig. Ac nid oes gennym hanes yn y cyfnod sydd dan sylw am un offeiriad wedi rhoi i fyny ei fywoliaeth ac ymuno â'r Methodistiaid, dim ond curadiaid yn unig; ac nid oeddynt hwy yn gwneyd rhyw aberth mawr wrth hynny.

Yn y flwyddyn 1739, torrodd tân y diwygiad allan mewn sain cân a moliant gyntaf yng Nghymru. A hynny, nid pan oedd Daniel Rowland yn pregethu, ond pan yn darllen y Litani. "Trwy dy ddifawr ing, a'th chwys gwaedlyd, trwy dy grôg, a'th ddiodeffaint; trwy dy werth-fawr angy, a'th gladdedigaeth; trwy dy anrhydeddus adgyfodiad, a'th esgyniad, a thrwy ddyfodiad yr Ysbryd Glân." A phan adroddai y geiriau yna yr ail waith mewn llais tyner, toddedig, a nefolaidd,

ymunodd yr holl gynulleidfa ag ef ar unwaith. Yr oedd *tide* dwyfol gariad mor fawr wedi dod i mewn, fel yr oedd y llestri yn nofio heb deimlo'r gwaelod, ac yr oeddynt yn cael eu cario gan awelon Calfaria tua thir y bywyd.

Terfynwn ein hysgrif drwy ddyfynnu un pennill o farwnad W. Williams i Daniel Rowland:—

Mae ei holl ddaliadau gloyw
Mewn tair credo i'w gweld yn glir,
Athanasius, a Nicea,
Ynghyd a'r Apostolaidd wir;
Hen erthyglau Eglwys Loegr,
Catecis Westminster fawr,
Ond yn benna'r Beibl sanctaidd,
Dywynnodd arnynt oleu wawr.

Llangeitho.

D. WORTHINGTON.

Y PROFFESWR EDWARD CAIRD AR ATHRONIAETH KANT.

ARWYDDAIR Athroniaeth y dydd hwn yn yr Almaen, Lloegr, ac America ydyw, "Yn ol at Kant." Pwy oedd Kant? Y gwr a amcanodd sefydlu ei athroniaeth ar wirioneddau hunan-brofedig; ar osodiadau gwirebol; yr hwn a seiliodd ar y ddeddf foesol ddatguddiedig yng nghalon dyn, ffydd ddiffuant mewn Deddfrodwr Moesol, Cyfrifoldeb, ac Anfarwoldeb. Y cyntaf yn yr amseroedd diweddar hyn a amcanodd sefydlu y gwirioneddau yma ar sylfeini hollol wyddoregol oedd Immanuel Kant, yr hwn oedd yn ddisgynydd o'r Scotiaid a'r Almaeniaid.

Rhaid rhestru Kant ymysg yr ychydig hynny o feddylwyr—fel Plato, Aristotle, a Hegel—a lwyddasant i greu cyfnodan yn hanes athroniaeth. Yr oedd ei fawr nerth yn gynwysedig, nid yn ei allu i ddarganfod gwirioneddau newyddion y rhai na welsid gan ei ragflaenywyr yn y byd athronyddol, eithr yn ei allu i ddosrannu ac i drefnu ei feddyliau. Ei athroniaeth ef sydd wedi bod yn marchogaeth yn y cerbyd cyntaf, yn eistedd yn ei theyrngadair, ac yn llywodraethu y meddylwyr mwyaf goleubwyll ers can mlynedd, fel y bu athroniaeth Aristotle yn y Canol Oesau. Kant yw y meddylwr mwyaf ei ddylanwad yn ystod y ganrif ddiweddaf. Fe fu cyfundrefn uchaniauol Locke mewn bri mawr; ond darostyngwyd ei nerth ar y ffordd tua hanner canrif yn ol. Darostyngwyd hi o dan feirniadaeth lem; cafwyd ei bod yn esgeuluso rhai gwirioneddau cyffredinol ac angenrheidiol. Erbyn hyn y mae beirniadaeth wedi diosg ei uchaniaeth ef o'i dillad, fel y diosgodd y deddfrodwr yr archoffeiriad ar ben mynydd Hor, ac wedi ei chladdu, ac nid oes neb yn aberthu oen ar ei bedd. Onid yw Locke wedi ei adael heb un disgybl profsedig, ac heb ond nifer fechan o ddarllenwyr, er y cyfeirir ato yn barhaus? Ond nid felly am Kant. Pe yr ymgymerai gwr ieuanc a darllen a meistrolï yr holl lenyddiaeth a gyhoeddwyd o blaid neu yn erbyn Athroniaeth Kant yn ystod y can mlynedd diweddaf, nis gallai ddisgwyl gorffen ei waith mewn deng mlynedd ar hugain.

Ceir mewn rhai o'r gweithiau a gyhoeddwyd ar ei athroniaeth ef ganmoliaethau eithafol, fel y rhai canlynol:—"Dylem fod yn ddiolchgar am ein bod wedi ein geni yn yr oes hon i fwynhau drychfeddyliau Kant." Schiller. "Bydd i'ch athroniaeth," medd Jung Stilling yn ei lythyr at Kant, "gynhyrchu diwygiad mwy bendithiol, a llawer mwy cyffredinol, na diwygiad Luther. Rhaid, gan hynny, y bydd eich athroniaeth yn dragwyddol ac yn ddigyfnewid, ac y bydd i'w heffeithiau bendithiol ddwyn yn ol Grefydd Iesu yn ei phurdeb gwreiddiol." "Yr wyf yn meddwl mai Kant yw y meddwl mwyaf a gynhyrchwyd gan natur." Schopenhauer "Bydd i Athroniaeth Kant mewn amser ar-gysgodi yr holl hyl ddynol, a galw i fywyd genhedlaeth rymusach a theilyngach." Fichte. "Cyfundrefn Kant yw yr adwy trwy yr hon y mae pob peth sydd yn aflonyddu athroniaeth y byd yn myned ac yn dyfod er ei amser ef." Fortlage. "Y mae drychfeddwl ffrwythlawn Kant wedi newid cymaint ar arwedd y byd deallol, fel nad oes un cwestiwn mewn athroniaeth yn ein cyfarfod nad ydyw mewn arwedd newydd." Dr. Caird. "Y mae y bont o feddyliaid ac o welediad yr hon sydd yn rhychwantu holl hanes y byd Aryaidd, yn meddu ei bwa cyntaf yn y Veda, a'r olaf yn *Kritik Kant*."* Gall y mynegiadau hyn ymddangos yn eithafol i'r darllenydd; eto, prin y gall feddwl yn rhy uchel am ddylanwad Uchaniaeth Kant ar syniadau dynion. Cariodd y dylanwad grymusaf ar bob cangen o wyddoreg, ac yr oedd iddi ei phleidiwyr hyd yn oed ymysg y rhai hynny na arferent dalu sylw i gwestiynau athronyddol. Kant ydyw tad rhyddfeddyliaeth ddiweddar mewn gwyddoreg a chrefydd,—y duedd resymolaidd ddiweddar mewn duwinyddiaeth, a theyrnasiad amlwg yr ysbryd beirniadol mewn beirniadaeth ysgrythyrol. Ar ei sail ef yr adeiladwyd y cyfundraethau a ymddangosasant yn yr Almaen ar ol ei athroniaeth ef, y rhai a'i tafasant ef i'r cysgod am dro, a'r rhai yn ddiweddarach a gollasant eu huchafiaeth a'u poblogrwydd, i roddi lle i Kant yn ol,—fel yr eiddo Fichte, Schelling, Hegel, Herbart, Schleiermacher, a Schopenhauer. Rhaid deall Kant yn gyntaf cyn y gellir deall egwyddor gychwynol y rhai hyn oll. Fel hyn, Kant ydyw yr apostol sydd yn dal yr agoriad i bob ffurf o athroniaeth ddiweddar.

Dengys y gweithiau galluog a gyhoeddwyd yn y blynyddoedd diweddar yn yr Almaen, America, a Lloegr ar ei athroniaeth, fod ganddo afael gref ar y meddylwyr pennaf mewn athroniaeth. Cyhoeddwyd cyfieithiadau, esboniadau, a beirniadaethau ar ei athroniaeth gan wyr grymus fel y Dr. J. H. Stirling, Max Müller, y Doctoriaid Mahaffy a Bernard, y Prifathraw Watson, Canada, yr hwn sydd yn ddisgybl i Dr. E. Caird a Hegel, T. K. Abbotts, Leonhard Stahlin, yr Almaenwr, a gwrthwynebydd egniol i gyfundrefn Kant, ac yn ddiweddar oll, gan y Dr. Edward Caird, o Scotland.

Eistedda yr awdwr hwn yng nghadair yr hen Thomas Reid, eithr nid i ddsygu—yn ol a ddengys y ddwy gyfrol drwchus sydd ger ein bron, yn

* *Critique of Pure Reason : In Commemoration of the Centenary of its publication.* Translated by MAX MÜLLER, with Historical Introduction by LUDWIG NOIRE. 2 Vols., 1881.

Amcanodd Max Müller roddi gwell cyfieithiad na'r eiddo Heywood a Meiklejohn o'r *Kritik*. Nid wyf yn meddwl ei fod wedi llwyddo i dafu un math o oleuni newydd ar Kant trwy y cyfieithiad hwn. Heblaw hyn, dengys y gwaith a gyhoeddodd Max Müller yn ddiweddar ar Gysylltiad Meddwl ac Iait, ei fod yn llawer llai fel athronydd na'g fel ieithydd. Y mae rhagarweiniad Ludwig Noire ar hanes Athroniaeth oddiar safle Almaenaidd yu wir dda.

cynwys yn agos i bedwar cant ar ddeg o dudalenau—yr un athroniaeth ag a ddysgai ef. Rhedodd y gwaith blaenorol a gyhoeddodd Dr. Caird ar Kant allan o argraffiad, a 'deallid y bwriadai gyhoeddi gwaith helaethach, nid ar ran, fel y cyntaf, ond ar holl gyfundrefn Kant. Y tuallan i'r Almaen, tua deng mlynedd ar hugain yn ol, ychydig a deimlid oddiwrth ddyfanwad ei athroniaeth ef, am mai ychydig iawn oedd yn deall ei gyfundrefn yn yr oll o honi. Arweinai y gair Tragoriannol, *Transcendental*, rai ar gyfeiliorn trwy ei gymhwyso at ei gyfundrefn oll, ynghyd a chymeriad mewdol ei athrawiaeth am Amser a Lle, fel y tybiwyd yn lled gyffredin fod ei gyfundrefn yn fwy Platonaid nag Aristotelaidd, a'i fod yn dysgu fod hanfod pethau a natur gwybod-aeth ym myd y drychfeddyliau pur, a chanfyddiadau uwch-deimladol gwirionedd,—y fan, yn ol ei athroniaeth ef, sydd yn fyd llethrith ac o ymdrechadau annhymig y deall pan yn myned allan o'i derfynau naturiol. Dysga yn barhaus mai o fewn terfynau profiad yn unig y gallwn ddefnyddio ein galluoedd meddyliol. Gwnaeth Dr. Caird ei ran yn dda, ac uwchlaw neb a fu o'i flaen, i ddwyn y byd Seisnig i ddeall holl gyfundrefn Kant. Na feddylid y darlennydd fod yn ein bryd adolygu neu ail-gynhyrchu y gwaith mawr hwn; yr un pryd, gan mai dyma y cynnyrch meddyliol diweddfaf a gyhoeddwyd ar Kant, goddefer i ni ddweyd ychydig o'r pethau hynny am y ddwy gyfrol nad all fod dwy farn am danynt. Beth bynnag yw credo athronyddol y darlennydd, rhaid i bawb gydnabod hyn: mewn manylrwydd, cyfanrwydd, eglurder, nid oes un gwaith yn yr iaith Saesneg i'w gymharu ag ef ar Kant, ac nid yw yn debyg y daw yr un arall yn fuan ar ei ol. Traetha yn fanwl ar y tri Kritik—"Y Rheswm Pur," "Y Rheswm Ymarferol," "Beirniadaeth," a Chrefydd yn ei pherthynas a Rheswm. Dengys berthynas a chysylltiad y rhai hyn â'u gilydd yn Athroniaeth Kant. Nid cyfieithiad ydyw o Kant; nid esboniad arno. Y mae yn egluro Kant; yn ei am-ddiffyn; a mynnai wellhau Kant. Cymer i fyny ochr *ddelfrydol* ei athroniaeth, yn hytrach na'r ochr *agnosticaid*. Gwaith athronyddol ydyw ar Kant; neu athroniaeth Dr. Caird, sylfaenedig ar Kant, ac yn ehedeg yn gryf at Hegeliaeth. Math o grynhoed ydyw o'r holl syniadau Kanto-Hegelian. Gellir dweyd fod yr awdwr wedi dysbyddu holl gynhwysiad beirniadaeth meddylwyr fel Thomas Hill Green, eto yn sefyll ar ochr fwy penodol nag ef. Rhy brin y darfu i Green erioed ryddhau ei hun oddiwrth yr elfen nacïol yn Kant,—y drychfeddwl fod dychweliad dyn o'r byd iddo ei hun yn ymweithiad dansoddol, yn deilliaw yn y syniad o Ysbryd, i'r hwn y bodola sylwedd, ac am yr hwn, ynddo ei hun, nas gellir dweyd dim. Amcan y gwaith ydyw profi, yn ol egwyddorion Kant ei hun, fod symudiad o'r byd i'r meddwl, ac o'r ddau at Dduw, yn symudiad o'r rhannol i'r cyfanswm, o'r dansoddol i'r corfforedig, yn yr hwn y daw yr isaf yn weithredydd yn nghynnydd ysbrydol yr uchaf. Cario allan yr amcan hwn, nid fel egwyddor gyffredinol yn unig, ond mewn ymdriniaeth ar bob mater neillduol mewn athroniaeth, ydyw calon y ddwy gyfrol. Dengys Dr. Caird fod Kant wedi ail gyfansoddi deuaeth (*dualism*) flaenorol; ei fod yn gosod y meddwl yn erbyn y byd, mor bell ag i ddangos fod pob peth sydd yn bodoli yn bodoli i'r meddwl, i'r "myfi;" ond ei fod yn gwneyd hynny ar droellau y ddeuaeth ag y bwriadai ei dymchwelyd, a gwadai y gellid gwybod dim am y "myfi" hwn fel y cyfryw. Tra, hefyd, y mae y byd adnabyddus i'w adnabod yn ei undeb â'r meddwl yn unig, yr hwn nid yw

yn bod yn wirioneddol ond yn rhesymegol, nid oedd y cyfryw fyd i Kant ond arddanghosiad yn unig. Ceuir allan y byd sylweddol oddiwrth y deall.

Dichon y byddai yn well i ni sylwi, cyn myned ymhellach, ar y ddenaeth, neu y ddwy elfen anghytunol sydd yn Athroniaeth Kant, sef Sylweddoliaeth a Delfrydiaeth. Nis gall ei athroniaeth orffwys lle y gadawyd hi. Rhaid i'r hwn sydd yn dal y syniad o Sylweddiaeth roddi i fyny Ddelfrydiaeth. Tybiai Kant ei hun fod yn bosibl dal y ddau syniad, ond cysylltodd y ddau syniad ynghyd yn y fath fodd fel nad all un fod yn ddisgybl iddo heb ddal Sylweddiaeth, nac aros yn ddisgybl heb ddal Delfrydiaeth. Cynhwysa ei wahaniad sylfaenol o'r arddanghosol a'r mewnlol y ddwy elfen. Yn nechreu ei yrfa athronyddol, y mae yn amlwg fod Kant yn coleddu y syniad o Sylweddiaeth; ond yn 1772 trodd ei gefn arno a syrthiodd i'r dull Delfrydol, Athroniaeth yr arddanghosiad, yr hon a weithir allan yn llawn yn ei Kritik.

1. *Sylweddiaeth ydyw yr athroniaeth honno sydd yn dysgu y gall y meddwl, a bod y meddwl, yn adnabod sylweddau.* Saif Sylweddiaeth yn wrthgyferbyniol i Agnosticiaeth ac Ymddangosiadaeth, y rhai a'n dysgant nad all y meddwl adnabod dim ond ymddangosiadau. Prif orchest athroniaeth trwy yr oesau ydyw sefydlu y syniad o Sylweddiaeth; fod pethau yn sylweddau ac nid yn ymddangosiadau. Yr ydym yn adnabod Sylweddau, ac yn gwybod ein bod yn eu hadnabod, a hynny nid yn unig yn yr enaid, ond oddiallan iddo, fel pethau gwrthrychol yn ogystal a mewnlol. Yn unol ag ysbryd gwyddonol yr oes, yr ydym yn gwrthod yr athrawiaeth fod pethau ynddynt eu hunain yn anadnabyddus. Caniatawn mai y rhesymol sydd wirioneddol, eto yr ydym yn gweled y rhesymol yn yr arddanghosol, a thrwy'r arddanghosol yr hyn sydd yn bodoli. Yng nghanfyddiad y meddwl yr ydym yn adnabod gwirioneddau cyffredinol, ac yn eu hadnabod fel deddfau pob meddwl a gweithred. Y mae gan y meddwl ddrychfeddwl sylfaenol am wirionedd, unicndeb, perfeithrwydd, ac am ddaioni, yr hwn a fawrheir gan y rheswm fel y gwerth uchaf. Rhaid edrych ar y rhai hyn fel gwirioneddau cyffredinol, ac yn trawsnewid y person sydd yn eu gweled yng ngoleuni rheswm. Nis gall y rheswm eu gadael yn chwaledig ac heb fodolaeth sylweddol; rhaid eu hadnabod fel egwyddorion, deddfau, drychfeddyliau y rheswm hollol a chyffredinol. A phan y myfyriwn ar y greadigaeth, gwelwn ei bod yn datguddio drychfeddyliau—y gwir, yr uniawn, y perffaith, a'r da, y rhai a ganfuwyd gennym eisoes yng nghanfyddiad rhesymol y meddwl, ac yn ein cyfansoddiad fel bodau rhesymol. Fel hyn y mae rheswm yn canfod yn y greadigaeth, mewn natur, ac mewn dyn, bresenoldeb rheswm hollol a chyffredinol. Yn ffurfiau rheswm adnabyddir y greadigaeth fel y dibynna ar Dduw, ac fel datguddiad o hono. Y mae ein gwybodaeth wyddoregol yn anwahanol gysylltiedig â'n gwybodaeth am Dduw. Yn ei hanfod fel gwybodaeth wyddoregol, rhaid iddi, yn amlwg neu yn guddiedig, gyd-nabod Duw, y Rheswm Hollol, fel sylfaen y cydyd; ac ar hyn y gorffwys ei holl gasgliadau. Dyma ydyw Sylweddiaeth Resymol.* “Ein gwybodaeth am danom ein Hunain, fel bodau ymwybodol, a'n gwybodaeth am Nid-eiu-Hunain,—yr hyn sydd oddi allan, ydyw dechreuad pob gwybodaeth, . . . Y mae hon yn wybodaeth am bethau gwir-

* Harris, “*The Self-Revelation of God*,” p. 80.

ioneddol, ac y mae pob gwybodaeth a adeiledir arni yn gyfreithlawn a sylweddol hefyd.* Sylweddoliaeth resymol ydyw yr athrawiaeth sydd yn dysgu ein bod yn adnabod meddwl a mater, neu fod dau beth yn y greadigaeth—mater a meddwl, a'n bod mor sicr o hanfodiad y naill ag yr ydym o hanfodiad y llall. Ond y mae Sylweddoliaeth Ddelfrydol, fel yr hon a ddysgir gan Lotze, yn dysgu fod y ddau beth hyn yn bodoli, ond ein bod yn esbonio mater trwy y meddwl. Pa beth sydd y tu ol i fater? Nid yw mater ond egni gweledig. Y tu ol i fater, y tu ol i bob meddwl meidrol, yr ydym yn dyfod at Dduw, fel pan y cyffyrddwn â sylwedd ym myd natur neu feddwl, yr ydym yn cyffwrdd â Duw.

Yr Ail Elfen yn Athroniaeth Kant ydyw *Delfrydiaeth*; yr hon sydd yn gynwysedig yn yr elfennau mewnol a ganfyddir yn y synhwyrau yn amodau dealltwriaeth, a'r Rheswm Pur. Y rhai hyn ydynt Amser a Lle. Nid ydyw y rhai hyn yn bodoli—yn wrthrychol; nid ydynt yn ddim ond ffurfiau, y rhai a osodir gan y meddwl ar wrthrychau. Arddanghosiion ydynt yr unig bethau a welir o dan y ffurfiau hyn. Gwir fod yr arddanghosiion yn cynnwys bodolaeth pethau, ond y maent oll yn fewnol yn y meddwl, fel y mae pethau eu hunain yn adnabyddus. Fel hyn, yn ol yr elfen hon yn Athroniaeth Kant, difanna y byd sylweddol o'n gafael, ac ni adewir dim ond ffurfiau mewnol yn ein gafael, y rhai sydd yn tybio bodolaeth pethau, ond byth yn datguddio eu natur. Dechreuia y meddwl gydag arddanghosiion, ac nid sylweddau; a chan ei fod yn dechreu gydag arddanghosiion, nis gall byth gyrraedd sylwedd trwy resymeg. Bellach, nid ydyw yn golygu fod y meddwl yn penderfynu nac yn adnabod natur pethau. Dyma lle y cymerodd Kant ei gam cyfeillionrus cyntaf. Trodd ei gefn ar Sylweddoliaeth, gyda'r hwn y dylasai ddechreu, a rhaid iddo, o hyn allan, ddilyn Ffurfiau Delfrydol. Y cwbl a allwn ei weled yw arddanghosiion, ac nid yw y rhai hynny mewn bod ar wahan i'r meddwl. Y mae achos, sylwedd, mater, rhwngweithrediad, sef yr amodau yn ol y rhai yr ydym yn meddwl, yn bethau hollol fewnol. Nid oes yma un bont rhwng y meddwl a'r byd allanol: "dim ond gagendor mawr rhwng Meddwl a Bod nas gellir ei chroesi; nis gallwn feddwl os nad oes dim yn bodoli; a bod hollol, pethau ynddynt eu hunain, ydynt amod pob meddwl; ond pa beth sydd yn bodoli nis gallwn wybod."† Y mae y meddwl yn hunan-benderfynydd, ac yn hunan-gynhyrchu ei wrthrychau. Cariwyd yr elfen Ddelfrydol yn athroniaeth Kant hyd ei therfynau eithaf gan Fichte, gan yr athronydd barddonol Schelling, a chan Hegel.

Os sylwn ar reitdeg-res Kant, nyni a welwn mai y meddwl ydyw pob peth, a'i fod yn rhoddi bod i'w wrthrychau ei hun. Ymgymerodd Fichte a dangos pa fodd a phaham y dodrefna y meddwl ei hun â gwrthrychau. Dengys pa fodd y mae yr "y Myf" yn sefydlu ei hun, a pha fodd y mae yn rhaid iddo, mewn trefn i wneyd hynny, osod terfyn iddo ei hun; hynny yw, gynysgaeddu ei hun â gwrthrychau. Yn yr hunan-gyfead a'r hunan-derfynolrwydd hwn y mae Fichte yn canfod dechreuad y byd gwrthrychol. Os ydym i ddeall geiriau yn eu hystyr gyffredin, golyga Fichte fod y meddwl yn creu ei wrthrychau o hono ei hun, heb un math o gymhelliad oddi allan; yn wir, myn llawer o feirniaid Fichte ei fod yn greawdwr hollol ei greadigaeth ei hun. Yr oedd

* Dr. Mc. Cosh, " *Realistic Philosophy*, vol. i., p. 10—20.

† Dr. Otto Pfleiderer, p. 148. " *The Philosophy of Religion*."

Delfrydiaeth Kant yn arwain yn naturiol i'r syniad ynyfyd hwn. Ond nid ydyw y syniad wedi cyrraedd pen ei yrfa gyda Fichte; aeth ymlaen, gan ollwng y naill elfen ar ol y llall mewn Sylweddiaeth, nes y cyrrhaeddodd yng nghyfundrefn ddyrys Hegel y syniad o unoliaeth meddwl a bod, ac i dynnu y greadigaeth allan oddiwrth y syniad noeth o fodolaeth. Ac nis gallwn hyd yn oed ddal yr undeb tybiedig hwn heb nyddu geiriau allan o'u hystyr naturiol. Pan y dywedir mai Meddwl yw Bod, nid ydym i olygu meddwl fel syniad syml, oblegid byddai hynny yn ynyfdrwydd. Pe felly, ein meddyliau fyddai y bodau. Pe dewisem ddweyd mai meddwl pur yw Bod, byddai yn rhaid i ni ddeall wrth y meddwl pur hwnnw rywbeth mwy na chymharu, barnu, a thynnu casgliadau, yr hyn a olygir yn gyffredin wrth feddwl; nid Bod ydyw hynny, eithr gweithrediad y meddwl. Ac y mae yn rhaid fod y meddwl a gweithrediad y meddwl yn golygu meddyliwr. Yn ol elfennau cychwynnol athroniaeth Hegel, y meddwl ydyw pob peth; a phaham y defnyddir dau air—Meddwl a Bod? Hanfod sylwedd ydyw deddfau y meddwl, a dadblygiad y meddwl ydyw y greadigaeth. Na ddyweder, wele yma, neu wele acw, canys gallwn ddygu holl dirgelion y greadigaeth yn ein meddyliau ein hunain. Y ffaith ddyfnaf yn y meddwl ydyw y drychfeddwl, neu y syniad; ac wrth chwilio i mewn i'r drychfeddwl gallwn ganfod holl ddeddfau y greadigaeth. Pan y mynega mai meddwl yw bod, a yw yn golygu y gall meddwl fodoli heb feddyliwr, neu fod y meddwl yn gallu mynegi cynhwysiad bod? A yw yn uno syniad y meddwl â sylwedd, neu a ydyw yn golygu mai trefn a deddfau y meddwl ydyw trefn a deddfau bod, fel y mae yn rhaid i'r hyn a eilw y meddwl yn fod gael ei sylweddoli a'i amgyffred, a bod yr hyn a waherddir gan y meddwl yn amhosibl mewn ffaith? Pa fodd bynnag yr atebir y cwestiynau hyn, nid yw y gyfundrefn ei hun yn eu hateb. Nid yw y syniad am fod pur a syml yn penderfynu dim yn neillduol, er y cysylltir ag ef ychydig o amodau ac ansoddau, neu yn hytrach, y cesglir oddiwrtho—*a priori*—reitheg-resau sydd yn angenrheidiol i gadw y drychfeddwl rhag syrthio i ddi-ddymdra. Nid ydyw y drychfeddwl byth yn profi ei fodolaeth ei hun. Gwesgir arno gan ddeddfau rhesymeg lem, ond nid ydynt byth yn ufuddhau iddynt. Cyn y gellir gweithio oddiwrth y syniad at sylwedd, rhaid bod sylwedd yn y cynllun, a chysylltiad rhesymegol yn gysylltiad gallu gweithgar, y dirgelwch yr hwn sydd yn gwahanu meddwl oddiwrth beth. Pan y mae Hegel yn dangos fod rhesymeg y drychfeddwl neu y cynllun yn hawlio rhywbeth, anghofia yn hollol fod hawliau rhesymeg yn aros byth yn hawliau heb ryw weithredydd i'w cyflawni. Nid ydyw yn amcanu dangos o gwbl pa fodd y gall yr hyn sydd yn bodoli fel syniad yn y meddwl, gymeryd ei le fel *sylwedd* yn y byd. Ceir dosraniad ar gynnwys (*content*) y rheswm, neu o wirioneddau ffurfiol; ond ni cheir unoliad o feddwl a sylwedd. Nid ydym byth yn cyrraedd sylwedd, byth yn cael enw y gwrthrych sydd yn meddwl, ar wahan i'r hwn nad oes ystyr i wirionedd na rheswm. Y mae y person byw wedi diflannu a rhoddir i ni yn ei le gyfundrefn o ddrychfeddyliau. "Nid ydyw y Delfrydiaeth Hollol hon yn gallu rhoddi cyfrif dealladwy i ni am undod meddwl a bod, ac nid ydyw yn tynnu ei nodweddau gweithredol o gasgliadau y rheswm. Y mae canlyniadau a chasgliadau y rheswm mor ddiglyfnewid a thragwyddol â rheswm ei hun. Nid oes gan amser ddim i'w wneyd a gwirioneddau rhesymol, ond cydfodola y

naill a'r llall erioed. Y mae y gyfundrefn hon fel haul wedi sefyll, heb ynddi gynydd na dabblygiad.”*

Onid oedd y gwr y grymus uchod,—Fichte, Schelling, a Hegel,—cenhedlwyr Delfrydiaeth Hollol yr Almaen, yn honni eu bod yn ddiagyblion i Kant? Ac yn wir, onid yw pob ffurf sydd ar Ddelfrydiaeth Oll-dduwiad y'r oes bresennol yn honni ei bod, i raddau mwy neu lai, wedi deilliaw oddiwrth Kant? Ac os ydyw hyn yn wirionedd, onid yw yn awgrymu y rhaid fod rhyw ddiffyg yn ei Athroniaeth ef? Prin y gallwn feddwl y buasai Delfrydiaeth Hollol yr Almaen—y Ddelfrydiaeth sydd yn trochi ei chleddyf yn y nefoedd, ac wrth wneyd hynny yn peri i'r cleddyf ei hun a'r nefoedd hefyd ddiffannu, y Ddelfrydiaeth sydd yn suddo i Oll-dduwiad—yn honni ei bod wedi deilliaw oddiwrth Kant, pe na buasai rhyw ddiffyg pwysig yng ngwraidd ei gyfundrefn ef. Pan greodd Kant gagendor rhwng y mewol a'r allanol, rhwng y “Rheswm Pur” a'r byd oddi allan, rhaid oedd, naill ai gwadu y byd gwrthrychol yn hollol, neu ynte redeg i'r eithafion gwrthgyferbyniol trwy unoli y mewol a'r allanol, yr hyn yw gwreiddyn pob ffurf a'r Oll-dduwiad.

Dilynir Kant yn ffyddlaw gan Dr. Caird, yn enwedig yn egwyddor Ddelfrydol ei athroniaeth. Ceir ganddo sylwadau da a gafaelgar ar Achosion Terfynol, a Phrydferthwch, eithr y maent oll yn fewnol. Y ffaith yw hyn: pa wrthddadleuon bynnag sydd yn curo yn erbyn Kant-Hegelian, rhaid fod yr un wrthddadleuon yn curo yn erbyn Athroniaeth Dr. Caird sylfaenedig ar y ddau. Gallwn gasglu ei fod ar brydiau yn awyddus i dorri allan o hualau cyfyng Kant, ac addawa ddwyn i'r golwg ryw ddrychfeddyliau cysylltiol, y rhai sydd yn llywodraethu ac yn egluro syniadau Kant; ond nid yw yn llwyddo i gyflawni ei addewid.* Yn hytrach, arweinir ni ymlaen, o gam i gam, mewn dull tyner, llithrig, gwastad-lyfn a deniadol, os nad i Hegeliaeth gyflawn, eto i Ddelfrydiaeth yn ol ei chyffelybrwydd. Onid yw yr Almaen ei hun wedi troi ei chefn ar Hegeliaeth? Onid yw yr Almaen ei hun yn gwaeddi,—“Yn ol at Kant?” Bu y Ddelfrydiaeth Hollol a ddygwyd i'r ffurf fwyaf cyfundrefnol gan Hegel, yn llewyrchu yn yr Almaen fel seren y boreu; ond erbyn hyn y mae ei goleuni wedi diffannu yn nefoedd athroniaeth y wlad honno. Ond y mae yn amlwg oddiwrth y gwaith mawr hwn ar Kant, ynghyd a gwaith blaenorol ar Hegel, y dymunai Dr. Caird barhau goleuni y seren hon ar yr Ynsoedd Prydeinig. Onid yw yn beth dieithr, a dweyd y lleiaf, fod ysgolheigion ieuainc yng Ngholegau Scotland, ac efallai yng Nghymru, yn cael eu harwain i ganol “Anialwch Hegeliaeth,” tra y mae Colegau yr Almaen wedi troi eu gwelg arni? Os ydyw Dr. Caird wedi amcanu torri rhai o'i changennau a'i brigau, eto yr un yn hollol yw y boncyff a'r gwreiddiau. “Ac y mae gobaith o bren er ei dorri, y blagura efe eto, ac na phaid ei flaguraf a thyfu.” Y mae yn amlwg fod Dr. Caird yn edmygu yn fawr syniadau Kant ar Foeseg. Ond pa fodd y gall ddal hyd yn oed Cyfundrefn foedal Kant, yn gyson â'r Agnosticiaeth i ba un yr ydym yn cael ein cario gan ei Rheswm Damcaniaethol, nis gwyddom. Gan nad ydyw yr Amodau (*Categories*) yn ol y rhai yr ydym yn meddwl, yn ymwneyd â dim ond Arddangosiadau, ac nid pethau, pa fodd y gall, yn ei

* Borden P. Bowne, *Metaphysics*: p. 483.

* Vol. ii. p. 418.

gyfundrefn foesol, a bod yn gyson ag ef ei hun, gael pethau a sylweddau i gymhwyso atynt foesoldeb? "Yr oedd Kant yn awyddus i wneyd i ffwrdd a gwybodaeth mewn trefn i wneyd lle i ffydd." Gwir: dyma oedd ei amcan. Ond yn sicr, nid oes ganddo le i ffydd; cauwyd hi allan. Y mae holl wirioneddolrwydd ymwybyddiaeth foesol a chrefyddol wedi eu cau allan, ac wedi eu rhoddi o'r neilldu ganddo, yn egwyddorion ei Reswm Damcaniaethol, cyn dyfod at ei syniadau ar Foeseq.

Cyn terfynu yr erthygl hon gadawer i ni sylwi ar ddau fater, sef egwyddor gychwynol athroniaeth Kant gyda golwg ar ddechreuad gwybodaeth, a'r modd y mae wedi glanio mewn Agnosticiaeth.

1. Egwyddor gychwynol ei athroniaeth gyda golwg ar genesis ein gwybodaeth. Ei amcan oedd adeiladu athroniaeth ar graig ansigledig, ac heb wagder o dani. Amcan teilwng ac uchel. Ei gwestiynau cychwynol oeddynt: Pa beth yw perthynas y meddwl a'r byd allanol? Pa fodd y mae gwybodaeth yn bosibl? Pa mor llwyr yr ydym yn gwybod? Pa le y mae yr egwyddor ag y gellir penderfynu arni weithrediadau a therfynau y deall dynol? Yn ol Kant, genesis gwybodaeth ydyw profiad. "Nid ydyw gwybodaeth yn dechreu oddieithr mewn profiad." Y ddau weithredydd hanfodol ymhob act o wybod, ydyw y meddwl ei hun a phrofiad. Ond y mae yn rhaid i'r meddwl dderbyn i mewn cyn y gall feddu syniad am ddim; oblegid gwag hollol yw dirnadaeth heb y synwyr. Yn ol Kant, fe a'r meddwl fel olwynion melin, yn troi ond heb ddim i'w falu. Yn awr, dyma ein gwybodaeth yn dechreu mewn profiad. Pa beth a olygir wrth Brofiad? Golyga Profiad rywbeth pellach gan Kant na chan yr Ysgol Synwryddol o athronwyr. Nid ydyw byd y synhwyrâu fel synhwyrâu yn unig, ac ar ben eu hunain, ond cymysgedd afuniaidd a gwag, neu yn hytrach, os mynnir, y mater di-drefn o'r hwn y gwneir i fyny profiad; a'r meddwl ei hun ydyw y gallu sydd yn dwyn y tryblith afuniaidd a dderbynia trwy y synhwyrâu i drefn a phrydferthweh. Fel canlyniad cydweithrediad y mewnol a'r allanol, gwybodaeth ydyw y cynnyrch. Nis gall y meddwl greu yr allanol mwy nag y gall melin falu heb yd. Nid ydyw y meddwl yn hunan-weithredydd; rhaid iddo dderbyn i mewn; nis gall nyddu edeu gwybodaeth allan o'i gyfansoddiad ei hun heb dderbyn defnyddiau. Y defnyddiau hynny ydyw profiad. Meddylir ein bod wedi ein cyfansoddi yn y fath fodd fel pe byddai tonnau man yn symud dros arwynebedd ein meddyliau, a'r argraff a wneir gan y tonnau hyn ydyw dechreuad cyntaf ein gwybodaeth. Ond na feddylier fod y rhai hyn yn cyfansoddi profiad. Profiad ydyw y defnydd wedi dechreu ei weithio, wedi dechreu cael ei ffurfio a'i drefnu, a gorwedda yn ddyfnach yn nirnadaeth y meddwl na'r synhwyrâu. Ond nis gall fod profiad heb y synhwyrâu. Dyma, yn ol Kant, ydyw dechreuad gwybodaeth. Rhaid i undeb gymeryd lle rhwng y meddwl trwy y synhwyrâu a phrofiad, a'r byd allanol.

Ond y cwestiwn eto ydyw hwn: Pa fath undeb sydd rhwng y meddwl a'r byd allanol? A oes undeb rhwng y meddwl a sylweddau pethau? Yn ol Kant, yr unig undeb sydd yn bosibl rhwng y meddwl, a'r byd allanol ydyw undeb a ffurfiau, undeb ag arddanghosion, a'r rhai hynny yn greadigaethau y meddwl ei hun. Nid yw y meddwl yn alluog i ddeall dim ond ei weithgarwch ei hun. Nid yw yn adnabod pethau yn ddim pellach nag fel ei greadigaethau ei hun. Ond efallai y byddai yn well i ni adael i ddau o feirniaid Kant ateb y cwestiynau uchod. Dywed

Leonhard Stahlin fel y canlyn :—" Amcan Kant oedd amddiffyn y gwrthrychol mewn gwybodaeth ddynol, yn erbyn amheuaeth Hume. Tybiai fod hyn yn bosibl yn unig trwy un ffordd, sef trwy ddangos fod sail wrthrychol ac angenrheidiol i'n gwybodaeth am bethau i'w chael, nid yn y pethau eu hunain, ond yn y meddwl dynol. Felly, os amcan Kant oedd sefydlu gwirioneddolrwydd ein gwybodaeth yn erbyn amheuaeth Hume, trodd ei arfan yn ei erbyn ei hun nes llwyd ddymchelyd yr hyn yr amcanai ei amddiffyn. Tuedda y dull a fabwysiodd i gyrraedd yr amcan hwn i gadarnhau nad ydym yn deall dim ond arddanghosiad; nid gwirionedd, nid pethau ynddynt eu hunain. Pa beth yw y *phenomena* hyn? Arddanghosiad *mewnol* ac nid *gwrthrychol*; hynny yw, nid dwyn i oleuni bethau eu hunain, ond yn syml y dull a roddwn ar bethau, effaith ein synwyr, arweddiad ein hymwybodolrwydd, y rhai nid ydynt yn egluro dim ar bethau fel y maent ynddynt eu hunain." Dywed Kant, "Gwybodaeth wrthrychol, gwybodaeth am ddim sydd yn bod y tu allan ac yn annibynnol ar ein hymwybodolrwydd, nid yw yn bod." Gellir dweyd fod hyn yn wir, nid yn unig am yr hyn sydd oddiallan i ni, eithr am y meddwl ei hun; oherwydd dywed Kant yn fynych: "Nadydym yn adnabod ein hunain, ond yn unig fel yr ydym yn ymddangos i ni ein hunain."* Tebyg ydyw beirniadaeth Dr. J. H. Sterling. Mynega yntau yn eglur nas gallwn, yn ol Athroniaeth Kant, gyrraedd gwybodaeth am bethau ynddynt eu hunain. "Nid yn unig yr ydym yn analluog i adnabod gwrthrychau fel y maent ynddynt eu hunain, ond yn syml fel y maent yn ymddangos, eithr nid ydym yn gwybod hyd yn oed am ein meddwl ein hunain mewn un modd yn wahanol; y meddwl hwn, ein Myfi ein hunain, nid adwaenom ef fel y mae, ond yn unig fel y mae yn ymddangos."† Nis gall y byd allanol ein harwain at ei awdwr; cyn y gallai wneyd hynny, byddai yn rhaid i ni ddeall pethau ynddynt eu hunain, ac nid fel arddanghosiad wedi eu cynhyrchu gan y meddwl. Tystiolaeth synwyr cyffredin ydyw ein bod yn adnabod pethau ynddynt eu hunain, a thystiolaeth ein hymwybodolrwydd personol ydyw ein bod yn adnabod Duw. A yw yn beth tebyg, yng ngoleuni synwyr cyffredin, y gwna y meddwl ymfoddloni yn hir ar ddal cysgodion, a gollwng ei afael o sylweddau? Dyma wendid Athroniaeth Kant,—diffyg cydnabod gallu y meddwl i adnabod, derbyn, ac amgyffred pethau—creadigaeth, gwirionedd, a Duw, y tu allan iddo ei hun. Yn ol un o egwyddorion cychwynnol Descartes, myntumir fod gan y meddwl fel hanfod ysbrydol allu, yn y lle cyntaf oll, i amgyffred ei hun; ac yn ail, trwy amgyffred ei hun i ganfod yr hyn sydd oddiallan iddo ei hun. Nid ydym i olygu mai casgliad rhesymegol ydyw hunan-wybyddiaeth yr ysbryd oddiwrth ei ymwybodolrwydd; ond dyma lais yr ymwybodolrwydd ei hun. Nid casgliad ydyw hyn, ond cadarnhad o ffaith hunan-brofedig. Pe buasai Kant wedi dal ei afael yn yr egwyddor hon, ymddengys i ni na buasai wedi syrthio i'r camgymeriad o wahanu y *peth ynddo ei hun* a'r *ymddangosiad* oddiwrth eu gilydd. Trwy hyn, buasai y peth ynddo ei hun yn dyfod yn sylfaen i'r ymddangosiad, ac yn rheswm am ei fodolaeth. Y tu ol i'r peth ynddo ei hun y gorwedd achosion a rhesymau ei *fodolaeth*; ond y mae yr achosion a'r rhesymau yn ffeithiau ysbrydol. Pe buasai y peth ynddo ei hun gan Kant yn amgyffred ei

* *A Critical Examination of Kant, Lotze and Ritschl*, by T. STAHLIN, p. 106.

† *Text-Book to Kant's The Kritik of Pure Reason*, by J. H. STERLING, LL.D.

hun, buasai yn meddu rheswm am fodolaeth pethau oddi allan iddo ei hun. Fel hyn, yn ein hymwybodolrwydd personol yr ydym yn cyrraedd y pwynt ar yr hwn y difanna y pellder rhwng gwybodaeth a sylwedd. Y mae y "peth ei hun," a'r sylfaen resymol am ei fodolaeth yn cydgyfarfod yn amgyffrediad y meddwl. Gallwn dybied mai o'r cyfeiriad hwn y gellir gwella a gwneyd i fyny ddiffyg Athroniaeth Kant, ac nid trwy ei huno â Hegeliaeth, yn undod meddwl a bod, fel yr amcenir gwneyd gan Dr. Caird.

2. Y mae Agnosticiaeth yr oes hon yn cael ei chefnogi yn Athroniaeth Kant. Gan ein bod yn analluog i adnabod pethau ynddynt eu hunain, eithr yn unig yn y ffurfiau a dynnir o honynt gan y meddwl, yr ydym yn gweled pa fodd y galluogwyd Herbert Spencer i ffurfio ei Agnosticiaeth. Gwyddom fod pethau yn bodoli o'r tu allan i ni ein hunain; ein bod yn bodoli ein hunain; a bod Duw yn bod; ond nis gwyddom am natur y pethau hyn. Y maent oll ynddynt eu hunain yn anwybodadwy i ni. Dylid cofio fod gwahaniaeth pwysig rhwng Agnosticiaeth ac Amheuaeth. Gwadu gwybodaeth y mae y cyntaf, a gwadu crediniaeth y mae yr olaf. Gall yr Agnostic, yr hwn sydd yn gwadu posibilrwydd gwybodaeth o'r hyn sydd tu hwnt i'n synhwyrâu, gydnabod fod gennym sail i gredu eu bod. Ond nid ydyw yr Amheuwyr yn barod i gydnabod fod gennym sail i wybodaeth na chrediniaeth. Yr oedd Kant yn Agnostic, ond nid yn Amheuwyr. Tra nad ydyw ei athroniaeth yn ein cynysgaeddu â sylfaen *wyddoregol* i'r goruwchnaturiol, y mae yn ein dwyn i olwg craig i ffydd resymol i sefyll arni. Y prif ddiffyg o hyd ydyw, fel y nodasom, cydnabod gallu y meddwl i ganfod ac amgyffred sylweddau pethau. Yn ol athroniaeth yr Amgyffredwyr (*Intuitionals*), wrth adnabyddiad y golygir amgyffrediad y meddwl o'r gwirioneddol a'r sylweddol. Ac os awn i ddosrannu ein hadnabyddiad, gwelir ei fod yn ymrannu i ddwy act, sef gallu y meddwl trwy y synhwyrâu i ganfod gwrthrychau oddi allan iddo ei hun, a'i allu, trwy yr ymwybodolrwydd, i ganfod ei hun; neu a defnyddio y gair *Scotaidd*, Hunan-ymwybodolrwydd. Trwy y ddau lygad yma y galluogir ni i ganfod pethau fel y maent, a ni ein hunain fel bodau ysbrydol. Fel hyn, ar sail y syniad o hunan-amgyffrediad y meddwl, cawn sylfaen i wyddoreg am natur; ar sail ein hunan-ymwybodolrwydd cawn sail i wyddoreg am y meddwl, am yr ysbryd. Ond nid ydyw Kant yn *Intuitionalist*, hynny yw, yn dal gallu canfyddol uniongyrchol y meddwl. Defnyddia y gair *Anschauung*, mae yn wir, yr hwn a gyfieithir yn Saesneg yn *intuition*. Ond nid yw yn golygu canfyddiad y meddwl, oblegid, yn ol Kant, nid ydyw y meddwl yn canfod dim ond argraffiadau, y rhai sydd yn dyfod i gysylltiad ag ef trwy y synhwyrâu. A'r peth cyntaf a wneir gan y meddwl a'r argraffiadau cynwysedig hyn, ydyw eu trefnu, a'u gwisgo â'r perthynasau o *amser a lle*. Nid ydyw y meddwl yn ddim ond derbynydd a threfnydd. Gyda golwg ar yr argraffiadau, a'r hyn a orwedd tu hwnt iddynt yn y byd allanol a mewnlol, y maent yn hollol anwybodadwy i'r meddwl. Yn awr, y casgliad anocheladwy ydyw hyn,—gan nad ydym yn amgyffred ein hunain, ni feddwn wybodaeth am danom ein hunain, fel y mae y wyddoreg am yr ysbryd dynol yn ansylfaenedig. Bellach, gadawn y mater trwy nodi yn fyr y prif wrthddadleuon yn erbyn yr athroniaeth hon.

1. Yr ydym yn ymwrthod â chyfundrefn Kant am y rheswm nad ydyw yn defnyddio y dull goreu wrth chwilio allan egwyddorion cyntaf a sylfaenol y meddwl dynol. Defnyddia y dull beirniadol yn hytrach na'r casgliadol. Hwn ydyw y goreu. Dywed fod rheswm yn gallu barnu ei hun. Arweiniodd y dull hwn ef i ddilyniad annherfynol o feirniadaethau heb un safon neu ffaith brofedig i gyfeirio ati. Nid ydyw yn gyfundrefn naturiol, wedi ei sylfaenu ar sylwadaeth gasgliadol y meddwl, ond yn hytrach un gelfyddydol, wedi ei chyfansoddi a'i chyd-gysylltu gyda medrusrwydd rhyfeddol, gan feddyliwr rhesymegol gwir fawr.

2. Yr ydym yn ymwrthod â chyfundrefn Kant am y rheswm ei fod yn dechreu gydag arddangosiadau (*phenomena*), ac nid sylweddau. Gan nad ydyw yn cychwyn gyda sylwedd (*reality*), nis gall byth ei gyrraedd trwy reasmeg, heb syrthio i'r twyll o feddu mwy yn y casgliad nag yn y gosodiad.

3. Yr ydym yn ymwrthod â chyfundrefn Kant ac ag Athroniaeth Dr. Caird, sylfaenedig ar Kanto-Hegelian, am nad allant ganfod dim ond yn unig yn y ffurf a grewyd gan y meddwl ei hun ar bethau. Nis gallwn wybod dim am natur, neu bethau ynddynt eu hunain; gan hynny, os nad wyf yn gwybod dim am bethau ynddynt eu hunain, ar ba sail y gallaf dybied eu bod? Y cyfeiliornad hwn ydyw gwreiddyn yr ynyfyrwydd a elwir Agnosticiaeth, yr hon sydd yn myntumio fod pob peth, fel y Pegwn Gogleddol, yn dir tywyllwch fel y fagddu.

Minneapolis, Minn.

JOSEPH ROBERTS.

GEIRIAU CYMRAEG WILLIAM SALESBURY (1567), A WILLIAM MORGAN (1588), YN Y LLYTHYR AT Y GALATIAID.

MAE "At y darlleydd" yn "Yr Ymarfer o Ddywioledeb," a gyfieithiwyd i Gymraeg gan Rowland Vychan o Gaergai,* yn dywedyd fel hyn:— "Yr wyf yn gobeithio i mi arfer y geiriau sathredig a arferodd hen athrawon o'm blaen i, ac na chyfeiliornais o athrawiaeth Doctor Davies ynghyfieithiad y Bibl, yr hwn yw yr unig Plato ardderchog o'n hiaith ni." Gwelwn yma awgrym fod y Beibl Cymraeg cyn pen ychydig flynyddoedd wedi ei gyhoeddi, yn dyfod i gael ei ystyried fel safon iaith dda, ac hefyd fod hynny yn ddyledus i ddylanwad gwr na enwir o gwbl yn y llythyr cyflwyniad gan y Doctor Richard Parry i'r Brenin Iago. Efallai nad oedd weddus gwneyd hynny; efallai hefyd nad oedd raid. Eto gweddus yw i ni gael dwyn ar gof i ni mai † awdwr y Gramadeg Cymraeg a'r Geirlyfr, sef y Doctor Ioan Davies o Fallwyd, a roes i iaith y Beibl Cymraeg a arferir yn awr, y ffurf aruchel sydd wedi ennill iddo y warogaeth a delir gan bawb. Pan y daeth hwn allan, mewn enw, ac mewn rhan yn sier, dan olygiad Richard Parry, Esgob Llanelwy, ni wyddai yr Esgob parchedig pa un ai newydd ai hen i'w alw, pa un ai

* Ymddanghosodd yr argraffiad cyntaf yn 1630; o'r trydydd a gyhoeddwyd 1675 y dyfynnir y geiriau uchod.

† Et dicta sit difficile, nunc vetu an nova, Morgani an mea, dicenda sit versio. Llythyr Cyflwyniad 1620.

cyfieithiad Morgan ai yr eiddo ef ei hun. "Os hen ydyw," meddai wrth y Brenin ymbellach, "y mae yn eiddot ti wrth fraint etifedd; os newydd, ti a'i piau, wrth fraint perchennog." Diau na allesid dweyd yn well a chymhwysach. Yr oedd Beibl Parry yn *hen* am fod ynddo gymaint wedi ei gadw o'r un a gyhoeddasiid yn 1588, gan y Doctor William Morgan, dan deyrnasiad Elizabeth; yr oedd yn *newydd* yn rhinwedd y cyfnewidiadau helaeth a ddygasid i mewn dan law yr Esgob ei hun a'i gynorthwywr, Ioan Davies o Fallwyd.

Yn yr erthygl hon y nodwedd y cyfeiriwyd ati a rydd gyfleustra i ni wneyd nodiadau rhydd ar amryw ymadroddion a geiriau sydd eto ar ddalennau ein Beibl. Eir hefyd un cam ymbellach yn ol. Bydd y geiriau a ddeholir nid yn unig allan o'r rhan sydd hen ym Meibl Parry, fel gweddillion Beibl Morgan, ond hefyd fel geiriau a gawsai Morgan ei hun yn Nhestament William Salesbury, ac a gadwyd ganddo. Ni all neb ond y rhai sydd wedi darllen gyda gradd o fanyldeb y ddau waith—yr eiddo Salesbury a Morgan—gael syniad pa mor helaeth yw y cyfnewidiad a wnaeth Morgan wrth ddiwygio cyfieithiad Salesbury. Mae ol ei law gyfarwydd bron ar bob adnod; ond er hynny y mae llawer yn aros hyd y dydd hwn o'r hyn a ysgrifenydd mewn "gwir frys" gan y cyntaf o'n cyfieithwyr. Gan ein bod felly yn myned yn ol i 1567, nid amhriodol fyddai gwneyd rhai sylwadau rhagarweiniol ar y lyfr a ddaeth y flwyddyn honno i law y Cymry.

Un casgliad yr wyf wedi dyfod iddo ydyw, fod y Testament Newydd Cymraeg yn dwyn delw dau lyfr arall yn arbennig, un yn uniongyrchol a'r llall yn anuniongyrchol. Cyfieithiodd William Salesbury yr Ysgrhythyr i Gymraeg, gan ymgynghori â'r Groeg yn sicr, ond o'r *cyfieithiad Saesneg* a gyhoeddasiid yn Geneva yn 1560: yr oedd hwn wedi ei sylfaenu, i fesur helaeth, ar y cyfieithiad Lladin a wnaed gan Theodore Beza, ac a gyhoeddwyd gyntaf yn y drydedd gyfrol o Feibl Lladin Robert Stephanus (Geneva, 1557). Cyhoeddwyd yr un cyfieithiad gwych eilwaith gan Beza, ond wedi ei ddiwygio lawer, gyda'r Testament Groeg, ddwy flynedd cyn i waith Salesbury ymddangos, *ac yn yr amser yr oedd yn brysur gydag ef*. Beibl Geneva oedd Beibl y bobl ym Mhrydain, a Thestament Lladin Beza oedd un y Protestaniaid trwy Ewrob oll. Nid rhyfedd felly oedd i William Salesbury, yr hwn oedd ei hun yn Brotestant o'r Protestaniaid, osod ei hun dan gyfarwyddyd y ddau lyfr hyn. Yr oedd Salesbury cyn hynny wedi cyfieithu a chyhoeddi, dan y teitl "Kynnyver lith a ban," &c., y rhannau a ddarlennid yn yr Eglwys "pryd Commun y Sulieu a'r Gwylieu trwy'r flwyddyn." Wedi cymharu mor ofalus ag y gallwn yr oll o hwn ag sydd yn y copi amherffaith yn yr Angueddia Brydeinig â'i Destament, yr oeddwn yn casglu, bod yr olaf yn waith hollol newydd ar du yr awdwr. Yn y "Kynnyver lith a ban" hefyd y mae Salesbury yn ymddangos yn dilyn cyfieithiad Lladin Erasmus, ac nid oedd un Beza eto wedi gweled dydd. Ond pan yr oedd ef mewn mawr brysurdeb ar ol 1562 neu 1563, (yr adeg y gwnaed y ddeddf yr gorchymyn argraffu y Beibl yn Gymraeg, "i fod mewn arferiad yn yr eglwysy erbyn y dydd cyntaf o Fawrth 1566,") enillai Beibl Geneva ei le mewn poblogrwydd cyffredinol, ac ymddanghosodd Testament Groeg a Lladin Beza. Beth a wnai Salesbury yn well na defnyddio y rhai hyn? Mae yr "Argumentau" o flaen y gwahanol lyfrau yn ei Destament ef yn gyfieithiadau o'r rhai sydd ym Mheibl Geneva; ac heblaw hynny, y

mae "cynwysiad" y gwahanol bennodau drwy y llyfr yr un. Dyma ran o "Yr Argument" o flaen y Galatiaid:—

Y Galatieit gwedy ey haddyscu gan S. Paul yn gwirionedd yr Evangel, a dderbynieson yr apostolion feils, yr ei yn ol yddyn ddyvot i mewn, yn y absen ef a lygresont burdep dysceidaeth Christ, ac ddangosesont vot yn angenrhaid cadw ceremoniae y Ddeddyf, yr hyn y mae yr Apostol yn y resymu mor ddwys yn y erbyn.

A ganlyn yw yr un ym Meibl Geneva:—

The Galatians after they had bene instructed by Saint Paul in the trueth of the Gospel, gave place to false apostles, who entring in, in his absence corrupted the pure doctrine of Christ, and taught that the ceremonies of the Lawe must be necessarily observed, which thing the apostle so earnestly reasoneth against.

Gellid dwyn ymlaen lawer iawn o frawddegau sydd yn dangos fod Salesbury yn cyfieithu i Gymraeg o'r Beibl hwn. Gwasanaethed ychydig.

SALESBURY.

Pen. i. 10. Can ys yr owrhon ai precethu'r wyf athraweth dynion ai'r yddo Duw.

Pen. i. 22. Eithr clywed a wnaethent wy yn unic rei yn dywedyt.

Pen. ii. 9. Wy roesant i mi ac i Barnabas ddeau ddwyllaw cymdeithas, val y byddei i ni precethu ir Cenetloedd ac wy:teu ir ei or Enwaediat. gan rybuddio yn unic ar cod yni goffau 'r tloidon.

Pen. iii. 5. Yr hwn gan hyny sydd yn trefnu i chwi yr Yspryt, ac sy'n gwneuthur gwyrtbiau yn eich plith, a wna ef hyny wrth weithrededd y Ddeddyf, ai wrth glywet y ffydd gwedy hei phrecethu Nid amgen megis y credawdd Abraham i Dduw.

Ni roddir ond un engraifft eto:—

Pen. iv. 24. Wrth y petheu hyn y dyellir peth arall: can ys mamae hyn yw'r ddau Testament.

Oddiwrth y dyfyniadau uchod, a llu mawr o rai ereill, o eiriau a brawddegau, a alledid eu dwyn ymlaen, ymddengys i mi yn deg iawn i gasglu fod ein cyfieithydd cyntaf ni i Gymraeg, dan ddylanwad ei deimlad pybyr fel Protestant, a hefyd oherwydd y bri oedd i'r Beibl newydd Saesneg, a'r mawr awydd oedd i ddwyn y gwaith allan mewn byr amser, wedi cyfieithu, y rhan fynychaf a dweyd y lleiaf, o'r Beibl hwnnw. Cyfieithiad o'r Saesoneg a gafodd y Cymry yn 1567.

Pell fo'r meddwl o wneyd dim mewn ymdriniaeth o'r fath yma amgen na chwilio yr hanes, fel y gwypom y modd y cawsom y llyfr. Erys mawredd gwaith Salesbury yr un, a'i ragoriaeth hefyd, sef yr anhawdd waith o gyfleu, am y tro cyntaf, feddyliau yr Ysgrhythyr mewn iaith nad oedd ond i radd fechan yn barod i hynny. Yn raddol y tyfodd yr iaith yn berffeithwaith.

Yn awr, heb geisio ymholi ymhell yn ol i hanes geiriau, edrychwn ar rai o'r eiddo Salesbury a gadwyd gan ei ddau olynnydd, ac ambell un a newidiwyd gan y naill neu y llall. Yr wyf yn meddwl y ceir o leiaf ddyddordeb yn y gorchwyl, er fod yn ddrwg gennyf na buaswn fy

BEIBL GENEVA.

For nowe preach I mans doctrine or Gods.

But they had heard only some say.

They gave to mee and to Barnabas the right handes of fellowship that we should preach unto the Gentiles and they unto the Circumcision warning onely that we should remember the poore.

He therefore that ministreth to you the Spirite and worketh miracles among you doeth he it through the workes of the Law or by the hearing of faith preached yea rather as Abraham believed God.

By the which things an other thing is meant: for these mothers are the two Testaments.

hunan yn llawer mwy hyddysg yn iaith ysgrifenwyr y genhedlaeth agosaf at Salesbury, o'i flaen ac ar ei ol, yn enwedig y beirdd. Cyhoeddwyd *Athrauoeth Gristnogawl* Morys Olynoc, gydag "annerch" gan Gruphydd fab Rhobert, neu Griffith Roberts y Gramadegwr, o fewn blwyddyn i'r Testament Newydd, ac yn ei ddiwedd rhoddir y rhestr ganlynol o eiriau fel rhai "nid ydynt chwaith sathredig imisc y cyphredin o Gymru." Rhoddir yr eglurhad yn Lladin:—

Rhaglith ne Raglwybr, Ansoddfab (mab o fabwysiad), ennaint, einniaw, einniawg, mwynhau, galluedd, canllaw (cynhorthwy), gweddi fyfyrwyl, llefawli ne lleferawl weddi, gaudduwiaeth, ofergoel, cyfaredd (*remedium*, meddyginiaeth), gwirhau, deddfau (seremoniau), cyfrwng (*medium*), cyfryngwr, dirgeledd, annirgelu (datguddio), murfuro, pwyllledd, hygaredd (*pietas*), Crysmâ (couffirmasiwn,—("bedydd escob" oedd y gair cyffredin), fel y dengys dechreu y llyfr), rhinwedd theolygawl, tymheredd (cymedroldeb), grymhyssedd, gwâredig (addfwyn), goddefedd, ymaroserwydd (yr ydym ni yn fynych yn arfer "amynedd" am y ddau air), cymwynassedd, gwâredd (aidfwynder), cym-gadwriaeth ne ymattaliaeth, sagrafen (sacrament).

Mae amryw o'r rhai hyn wedi dyfod yn gyffredin i ni, er wedi newid eu hystyr; a gallwn ychwanegu atynt y gair *testament*, yr hwn, yn ol llythyr y Doctor Davies yn nechreu Testament Salesbury, oedd y pryd hynny yn anhysbys yn Gymraeg. Er hynny rhydd yr esgob ei hun ddyfyniad a ddwg *testament* i ni yn y Gymraeg yn y ffurf "estefn" [testefn], yn ol y rheol am *m* rhwng dwy lafariad yn cyfnewid *i f*.

Mae iaith yn aros, ac yn ei hanes yn dyst byw iawn i bawb a fynno ei hystyried, o feddyliau y naill oes ar ol y llall; i e o fwy na hynny, y mae yn dyst hefyd o'u dull o feddwl, ac o'u profiad. Nid heb reswm y gwelir geiriau yn newid eu hystyr neu eu ffurf, er hynodded fo y cyfnewidiad; ond y mae hynny, ynghyda lliosogiad geiriau, a choethder y defnydd o honynt, yn effaith rhyw gyfnewidiad yn y bobl. Ychydig o rydd sylwadau ar eiriau Cymraeg ein tri chyfieithiad a fydd yr hyn a ddilyna. Eto yr wyf yn lled obeithio y gwasanaethant o leiaf i ddangos maes ag y mae ynddo lawer o wybodaeth i'w gael am feddwl ac amgyffred ein cenedl yn ystod y tri chan mlynedd diweddaf.

CYTRO, "Ymarweddiad." Pen. i. 13. Fel hyn y ceisia Salesbury, trwy air sydd efallai yn un newydd, osod allan feddwl y gair Lladin a Saesneg oedd o'i flaen. Defnyddiasai yr hen gyfieithiad cyntaf i'r Lladin—a wnaed na w'yr neb yn sicr pa bryd, ond rhywle tua A.D. 150—y gair *conversatio*, a'r Vulgate wedi hynny, o'r hwn y caed y Saesneg *conversation* am yr un Groeg, yma, ac mewn manau eraill. Ystyr y rhai hyn yw rhodiad ol a blaen, y fath ag a welid ym mywyd prysur dinasoedd; ac ni buasai yn golled i ni o gwbl, yr wyf rywffodd yn teimlo, pe buasai y cyfieithwyr ereill wedi cadw hwn, fel ereill o eiriau Salesbury. Nid yw Morgan yn defnyddio enw neu sylweddair. "Pa wedd yr ymddugym i" a ddywed ef; ond yn 1620 dewiswyd gan Parry a Davies y gair rhagorol "ymarweddiad." Gwelir ystyr "arweddu" yn y geiriau a ganlyn: "Megis yr arweddasom ddelw yr un daiarol, felly yr arweddw'n ddelw yr un nefol." "Ac yna Arthur e hun a gymerth y Galaath ac ae harwedd-awdd y stavelle e hunan." (Saint Greal). Felly, y dull y mae dyn yn dwyn ei hun, yn cario ei hun mewn bywyd, yw ei ymarweddiad. Daw trwy y gair hwn i'n meddyliau ni yr un ystyr ag a rydd y gair Groeg, ond fod y ffigiwr sydd o dan eu priod-eiriau yn wahanol yn y ddwy iaith.

CIG A GWAED, adn. 16. Gair y Dr. Morgan yw hwn, gan na "crawd a gwaed" sydd gan Salesbury. Hynod fel yr ydym wed cynefino ag ef; "crawd" yw ein gair bob amser yn wrthgyferbyniol i "yabryd;" ond yn yr un ymadrodd hwn yr ydym yn dweyd "cig," ac nid gwaith bychan fyddai ein newid.

APOSTOLION, adn. 17. Y rhan fynychaf, dyma y ffurf a geir yn Salesbury, ac y mae yn unol â'i duedd i ddilyn ffurf Lladinaidd geiriau. Oherwydd y duedd hon dywed ef beunydd "eccles," "evangel," er fod *eglwys* ac *efengyl* yn hollol gynhefin yn yr iaith; a "discipl" neu "discipulon;" a'r un modd, ymhlith llu, "eleesen" am *elusen*. Y duedd hon yn ei ganlynwyr a barodd fod dull newydd ar eiriau ereill yn dyfod i mewn, megis "Moses" am *Moyesen*, er fod gennym yr ansoddair *moesenaidd*; a "Solomon" am *Selyf*, er yr ysgrifenna Salesbury ei hun, "deddyf Moyesen," "porth Selef." Cyfarfyddwn weithiau yn Nheustament 1567 â'r hen ffurf "yr Ebestyl a'r henafiait (Actau xv.), fel y darlennawn yn Rhyddmarch * air yr angel wrth Badrig, "Ti a fyddy obostol yn yr ynys a wely di." *Ebystyl*, yn fwyaf cyffredin, a geir yn y llyfrau Cymreig.

CYMBELL, ii. 3. Gall fod y gair hwn mewn arfer cyn adeg Salesbury; ond gydag ef ei unig ystyr yw, nid *annog*, ond *gorfodi*. Ymddengys ei fod wedi ei gael o'r Saesneg, *compel*, fel llawer o eiriau ereill yn rhyddiaith foreu ein hiaith: megis "tors" (*torch*), "ffeils vroder," "scwrs" (*scourge*), "tron y gras" (*throne*), "piler," "nasiwn," "y doethion a'r pruddion" (*prudent*), neu efallai hwn o'r Lladin yn ddiro, megis yn "gwr prudd" (*prudus*) am fynach. O dan y gair *cymhell* nid oes gan Dr. Davies yn ei Eiriadur ond geiriau yn golygu *gorfodi*,—*compellers*, *coge e*, &c. Dywedir *cymhell* dair gwaith yn y Galatiaid lle na all y Groeg feddwl dim ond *gorfodi*. "Os wyt ti, a thi yn Iudew, yn byw fel y Cenhedloedd, paham yr wyt ti yn cymhell [h.y., gorfodi] y Cenhedloedd i fyw yn Iudewaidd." "Y rhai hyn yw y rhai sydd yn eich cymhell [gorfodi] i'ch enwaedu." Fe newidiai yr ystyr yn rhyfedd i ni po coflem yn y manau a ganlyn mai yr un ystyr o osod gorfod sydd i'r gair:—"Ac yn mhob synagog yn fynych mi a u cosbais hwy, ac a'u cymhellais i gablu;" "Pob un, megis y mae yn rhag-arfaethu yn ei galon, felly rhodded, nid yn athrist na thrwy gymhell;" "Ac yn y man efe a gymhellodd ei ddisgyblion i fyned i'r llong." Teimlai Dr. Morgan nad oedd "cymhell" yn hollol gyfaddas yn 2 Cor. xii. 11., ac yn llo geiriau Salesbury,—“Ynfyd oeddwn ymfrostio, chwichwi am cypellowdd,”—y mae ef yn rhoddi i ni, "chwychwi a'm gyrrasoch," er mai gwell, hwyrach, fuasai "Chwi a osodasoch [osododd] orfod arnaf," neu "chwi a'm gorfododd."

Mae yn y Groeg ferf arall am orfodaeth a osodir gan lywodraeth, gan lywodraeth dreisiol fynychaf, ond yng Nghymraeg Salesbury, *cymhell* a ddywedir am hon hefyd. Felly y mae trais yn "cymhell" yn yr ymadrodd, "Pwy bynnag a'th gymhella un filldir, dos gydag ef ddwy," gan mai y meddwl yw, "Pwy bynnag a'th orfodo un filldir, dos gydag ef ddwy." Cyngor i rai dan erledigaeth, fe ymddengys, sydd yma. Gwys gweision llywodraeth sydd hefyd yng ngwaith y rhai y dywedir

* Rhyddmarch yw y furf arferol ar enw awdwr Buchedd Dewi Sant. Ai nid yw yr argraffad diweddaf o *Brut y Tywysogion*, gan Rhys ac Evans, yn awgrymu i ni y dylem ei newid i un arall tebycach i'r Lladin Ricemarcus. "Yn y viwyddyn honno (1096) y bu varw Rhydmarch ddoeth." ?

am danynt, "Hwn a gymhellasant [h.y., a orfodasant], i ddwyn ei groes ef."

ANSAWD, ii. 6. "Ny chymer Duw ansawd un dyn;" "Nid yw Duw yn derbyn wyneb dyn" sydd gennym ni ar ol Dr. Morgan. Yng Ngeiriadur Dr. Davies rhoddir *qualitas, status, conditio*, fel ystyr i'r gair hwn, a dyfynnir ganddo, "Naw ansawdd yr enaid, henaint, tlodi . . .," gan wneyd *ansawd* ac *ansawdd* felly yn un. Ar ymyl y ddalen y mae Salesbury yn gosod y Groeg *prosôpon*, a'r Lladin *personam*, ac ymddengys felly ei fod ef yn meddwl am gymeriad allanol a fo dyn yn wisgo yn ol hen feddwl y ddau air hyn ynglyn â'r drama. Defnyddia Tertullian y gair *persona*, ac fe ymddengys mai fel cyfieithiad o hwn y daeth *prosôpon* i iaith dduwinyddol y Groegiaid yn athrawiaeth y Drindod, mewn cysylltiad arall hollol, sef ynglyn â llys cyfraith. Gennym ni y mae yr arfer olaf hon yn aros yn "person y plwy," o *persona*, h.y., cynrychiolydd.

ANIAN. "Nyni y sawl ym Iuddewon wrth anian." Yma dywed Morgan, "o naturiaeth;" a Parry, "wrth naturiaeth," lle yr ydys yn doddi gair Lladin am un Cymraeg. Gwelwn y gwreiddyn *gan*, sydd hefyd yn *geni* yn y gair cyntaf, anian.

CROC, CROGI. "Im crogwyt y gyda Christ." "Eithyr na bo i mi ddim or ymhoffi, anyd yn croc ein Arglwydd Iesu Christ." Anaml y defnyddir "croes" gan Salesbury, er ei fod ganddo yn fynych ar ymyl y ddalen. Ceir hefyd, "Yr pan ddiodeffawdd Crist ar brenn y groc." Yr oedd *croes* yn ddigon cyffredin ochr yn ochr a'r ffurf hynaf. "Croes vawrdec a chroes bechan yn llaw bop un o'r lleill."—Seint Greal.

AMBOD, iii. 15. "Cyd na bo ond ambot dyn." Dyma air y Testament Newydd cyntaf am "gyfamod." Nid yw *cyfamod* o gwbl yn iaith Salesbury ac nid yw Dr. Davies ychwaith wedi ei roddi yn ei Eirlyfr. Heblaw *ammod*, am yr hwn y mae ganddo yn Lladin *fedus, conditio*, rhydd i ni hefyd *amfod*, fel ffurf hynach, yr un ag *ambot* Salesbury. Mae gan Salesbury ffurf arall eto chwe gwaith, sef *dygymbot*, a defnyddia y lliosog *ambodae* am y llall. Mae pawb yn cofio mor fynych y daw y gair *testament* i mewn lle y dylem ddarllen "cyfamod": yn hynny gwelir, mae'n debyg, heblaw dylanwad anuniongyrchol y Beibl Lladin, ddylanwad Beibl Geneva. Un waith yn Hebreaidd y dywedir "ambot," ac yn y fan honno y mae Beibl Saesneg y Puritaniaid yn rhoddi *covenant*. "Testament" sydd ym mhob man arall o'r llythyr hwnnw gan y Dr. Richard Davies, yn Nhestament Salesbury, ac ym Meibl Geneva. Er fod Morgan wedi ysgrifennu, "A chofio ei sanctaidd gyfamod," Luc i. 72; "A'r cyfamod yr hwn a wnaeth Duw a'n tadau ni," Actau iii. 25; "Efe a roddes iddo gyfamod yr enwaediad," Actau vii. 8; eto yn y Galatiaid, ac yn Ephes. ii. 12, dywed, "yn estroniaid oddiwrth amodau [cyfamodau] yr addewid. Gadawodd air ei ragflaenydd heb ei newid.

YMGLEDDWR, iv. 1. "Eithr y mae efe dan ymgeleddwyr a llywodraethwyr." Mae Morgan a Parry wedi cadw y ddau air hyn, gan eu deall mae'n ddiâu yn ystyr Salesbury. Yn lle "ymgeleddwyr," gosodir gan yr olaf ar ymyl y ddalen air Lladin, *tutorion*, a gair arall Cymraeg o hen arfer sef *arfedogion*. Yr un meddwl sydd i'r Lladin *tutor* ag i'r Cymraeg *arfedog*, sef, "ymddiriedolwr" neu "trustee." Yr oedd y ddeddf Rufeinig yn fanol iawn ei threfniadau gyda golwg ar y rhai hyn, ac o herwydd mai pan yn bedair ar ddeg oed y deuai etifedd yn feistr arno ei hun, yr oedd y cyfreithiau Cymreig yn gyffelyb iddi. "Rhaid i

fab," medd yr hen gyfraith yng Nghymru, "wrth arffedog hyd oni byddo yn bedair ar ddeg oed." Gwelir mai yr ystyr o ymddiriedolwr neu arffedog sydd i "ymgeleddwr" gan Salesbury, a hyn yw meddwl y Groeg. Wrth droi i gyfeithiad y Deg a thriugain o lyfrau yr Hen Destament i'r Groeg, cyfarfyddwn â'r gair a ddefnyddia Paul yn y fan hon, ac â'r un meddwl iddo. Ni bu llyfrau y Maccabëaid yn bod erioed yn Hebraeg; yn y Groeg yr ysgrifenydd hwy; ond yn 2 Mac. xi. 1, gwelir y gair "ymgeleddwr y brenin a'i gâr," lle nas gellir rhoddi unrhyw ystyr i'r gair gwreiddiol ond yr ystyr o ymddiriedolwr. Mae y geirlyfrau o ran hynny hefyd yn dwyn y dystiolaeth hon.

MABWYSIAD, iv. 5. Yn Rhuf. vii. 15, 23, ix. 4, defnyddia Salesbury y gair hwn, ond ar ymyl y ddalen, mae yn gosod fel geiriau cyfystyr "tadogaeth," "mab-gynwys," "cyn-wys." Yn Eph. i. 5, mae yr ymadrodd yn newid; "yr hwn a'n rac dervynawdd ni i *vabu iaith* trwy Iesu Christ;" ac yn yr Epistol at y Galatiaid, "braint mabwriaeth" a ddywedir. O droi i Eirlyfr Dr. Davies, mae yno dan *adoptio* i'w gael dri gair Cymraeg, "mabwys," "mabwysiad," "mab-gynnwys," tra nad yw yr un o'r rhai hyn yn ymddangos yn y rhan Gymreig o'r Geirlyfr.

Yn y llyfr y cyfeiriwyd ato o'r blaen, "Athrawaeth Gristnogawl," yr hwn a ddaeth allan y flwyddyn wedi Testament Salesbury, a than lygaid yr ysgolhaig Gruffydd Roberts, yr ydym yn cyfarfod a gair arall. "*Athraw*. Para oruchafiaeth, ne deilyngdawd a caiph dyn wrth i wneuthur yn Gristion? *Disg*. Ef ai gw'nair yn fab y bendith, yn *ansoddfab* Duw ag yn etifedd i deyrnas nef" (tudal. 6). Mae "ansoddfab," fel y gwelwyd, yn y rhestr sydd uchod o eiriau, a ystyrir gan yr awdwr yn rhai "nid ydynt sathredig imisc y cyphredin o Gymru." *Filius Adoptivus* yw ei eglurhad o hono; ac os ei waith ef ei hun ydyw, y meddwl debygwn yw, un yn nghymeriad mab. Nid Nid wyf yn gwybod, er chwilio, pa enw oedd yn y cyfreithiau Cymreig ar y fath un, neu ar y sefyllfa yr oedd ynddi; ond mae yn hynod fod gwr fel Gruffydd Roberts, gan iddo megys olygu y llyfr, heb air i'w awgrymu i'r awdwr. A oedd y meddwl am fabwysiad Duw wedi cael fuff yn iaith grefyddol Cymry y pryd hynny?

DEDWYDDWCH, iv. 15. Yn Rhuf. iv. 6, 9, y mae Salesbury yn ysgrifennu, "megis ac y datcan Daudi ddedwyddwch y dyn, yr hwn y cyfrif Duw iddo gyflawnder." "A ddaeth y dedwyddid hyn ar yr enwaediat yn unic." Dilynir ef trwy gadw y gair "dedwyddwch," megys hefyd y geiriau "dedwydd yw y rhai," "dedwydd yw y gwr," gan Morgan a Parry. Er hynny, "Gwyn ei byt y tlotion yn yspryt;" "Gwyn ei byt yr ei gwaredigenus," &c., a ddywed y cyfieithydd cyntaf ei hun yn y Bregeth ar y Mynydd, a gellid yn dda ddilyn ei awgrym gyda'r ansoddair trwy ddefnyddio "gwynfyd" yma fel enw. Mae yr "Athrawaeth Gristnogawl" yn dangos i ni arfer yr amser efallai trwy enwi "YR WYTH DEDWYDDWCH. Dedwydd yw'r tylodion o ysbryd cans hwyntwy pia teyrnas nefoedd. Dedwydd yw'r gwaredigion, cans y nhwy a feddianau y ddaear. Dedwydd yw rheini sy'n alar, cans y nhwy a gan i cysurio," &c. Mae y llyfr hwn yn ddyddorol am y ceir ynddo ddarnau o'r Beibl wedi eu cyfieithu i Gymraeg yn hollol annibynnol ar bawb o aelodau eglwys Brotestanaidd Cymru, yn yr adeg y daeth yr Ysgrhythyr allan trwy lafur Salesbury, Davies, a Huet.

ALEGORI, iv. 24. Nid yw Salesbury na Morgan yn defnyddio y gair hwn. "Wrth y petheu hyn y dyellir peth arall," yw cyfieithiad y cyntaf: "Y pethau hyn a arwyddocant beth arall," a ddywed yr aîl. Gair Dr. Davies yn y *Geiriadur* am *allegoria* yw "aralleg."

FFYDD, ADDFWYNDER, DIRWEST, v. 22. Yn Salesbury darlennwn,—

"Ffyddlondeb, gwârder, artempr."

Gan Dr. Morgan ceir,—

"Ffydd, mwynedd-dra, dirwest."

Gwelwn fod y gair canol yn wahanol gan y tri, ond nis gallwn yn awr sylwi ar hwn na'r cyntaf. Yr oedd gan yr hen Feiblau Lladin ddau air am yr olaf, a'r un modd am fwy nag un o'r rhai blaenorol, fel yr ydym yn cael yr hen lyfr y dyfynwyd o hono amryw weithiau eisoes, yn son am "ddeudddeg phrwyth yr yspryd glan," yn lle naw. Y ddau air Cymraeg yn yr "Athrawaeth Gristnogawl" yw "Cymgadwraeth, diweirdeb;" ond ffurfiodd Salesbury ei un ef yn ol y Saesneg *temperance*, neu y Lladin *temperantia*. Ystyr y Groeg yw hunan-reolaeth yn wyneb pob nwyd, ac nid da yr aeth Morgan i chwilio am "ddirwest" er gwella cyfieithiad ei ragflaenydd. Rhydd Dr. Davies i ni wir ystyr y gair "dirwest" yr adeg honnô, fwy na dau gan mlynedd cyn y "Diwygiad Dirwestol" yng Nghymru. "Bod yn hir heb fwyd," yw dirwest fel yr eglurir ganddo ef, yn ol disgrifiad llyfr yr Actau o fordaith yr apostol, pryd y bu "hir ddirwest" ar fwrdd y lloug. Nid am hyn y traethai Paul o flaen Ffelig wrth draethu am "gyfiawnder a dirwest," ond am yr olaf o ffrwythau y rhan ysbrydol o ddyn. Dyfynnir yng Ngeiriadur Dr. Davies eiriau Gutto'r Glyn: "Llu yn dirwestu drosto;" ac yn ol hyn gallai *ympryd*, yn ystyr gyffredin y gair, fod yn gyfystyr a *dirwest*. "Ac yna Dewi aë disgyblon a dirwestassant y nos honno hyt trannoeth." Buchedd Dewi Sant.

CREADUR, vi. 15. Dywedwn ni "yr hen creadur" am hen wr trist ei olwg, ac anhawdd yw ymddatod oddiwrth y syniad naill ai o ddyn neu anifail ynglyn â'r fath ymadrodd â "phob creadur yn cyd-ocheneidio," neu fod "y creadur wedi ei ddarostwng i oferedd." Ond daeth *creadur* i ni o'r Beibl Lladin yn y ffurf *creatur*. Ystyr *creatura* yn Lladin y Beibl oedd, ac yw, "creadigaeth," a hyn oedd meddwl y gair yn Gymraeg pan y dygwyd ef i mewn gyntaf ar ddalennau yr Ysgrhythyr. Dyma ei ystyr yn y manau y cyfeiriwyd atynt. Dylem felly yn awr, gan fod i'r gair gyfeiriad newydd, ysgrifennu a darllen "creadigaeth newydd," a deall mai "y greadigaeth," nid y creadur, sydd wedi ei darostwng i oferedd.

Mae llawer o bethau ereill y gellid eu nodi yn y Testament Cymraeg cyntaf hwn. Pan welwn Salesbury yn defnyddio y fath ymadroddion ag "y wrth Dduw" (lle mae y = i, yn gyfystyr ag "o"); "pan gigleu y dec"; "a oruc," "a orugant"; "nodae," "ymgeiniae," nid anhawdd casglu â pha lenyddiaeth yr oedd y gwr rhagorol hwn yn gynhefin, cyn iddo ddechreu ar y gwaith a ymddiriedwyd iddo. Cafodd ef ein hiaith yn barod iddo o ran termau eglwysyddol, a geiriau yng nglyn âg addoliad cyhoeddus, ac efallai hefyd o ran rhai a ddisgrifient fuchedd grefyddol gyffredin. Ond i gyfarfod â'r ffrwd o oleuni oedd yn dyfod o'r symudiad Protestanaidd, gan ddadlennu cynnwys y Beibl mewn

dyfnder a chyflawnder newydd, yr oedd y defnyddian at law Salesbury yn ychydig ac anghufaddas.

Gwelir yn y geiriau uchod beth o'r anhawser a'r modd y ceisiai ei gyfarfod. Eto nid yw hyn ond megys agor yr ymchwiliad. Fy nheimplad yw fod yma lawer ychwaneg i'w adrodd o hanes geiriau, a llawer yn sicr wedi ei adael allan yn yr hanes uchod. Wrth feddwl hynny tueddir fi i ddyfynnu dechreu "cynhwysiad" pen. vi.: "Mae ef yn eiriol arnynt vot yn voneddigaid wrth y gweinion, a dangos ei cariat broderawl ai cymesurdep."

HUGH WILLIAMS.

CHARLES HADDON SPURGEON.

DYWEDAI Thomas Carlyle, "Nis gallwn edrych ar ddyn mawr, pa mor amberffaith bynnag y gwnawn hynny, heb ennill rhywbeth oddiwrtho. Mae fel flynhonnell y goleuni byw, a da yw bod yn agos ato." Mae y dywediad yn wir, ac nid anfuiddiol fydd i ni ymdroi ychydig yng nghymdeithas y dyn mawr a da sydd a'i enw uwch ben ein hysgrif, yr hwn y mae y ddaear yn dlotach o'i golli, a'r nefoedd yn gyfoethocach o'i gael.

Ganwyd C. H. Spurgeon yn Kelvedon, yn sir Essex, Mehefin 19, 1834, ac yr oedd yn un o ddau ar bymtheg o blant. Enw ei dad oedd y Parch. John Spurgeon, yr hwn, ar adeg ei enedigaeth ef, oedd yn dilyn masnach ac yn pregethu; ond yn fuan wedi hynny ymroddodd yn llwyr i'r weindogaeth ymysg yr Annibynwyr, a bu yn gweindogaethu yn olynol yn Tollesbury, Cranbrook, Holborn, Fetter Lane, ac Islington, ac y mae eto ar dir y byw, yn trigiannu gyda'i fab yn Croydon. Yr oedd mam ein gwron yn foneddiges o Colchester, ac yn un nodedig am ei dealltwriaeth, ei challineb, a'i duwioldeb. Gosododd ei phlant ar ben y ffordd, a galleisid dweyd am ei mab iddo gadw "y broffwydoliaeth a ddysgodd ei fam iddo." Y fath fendith yw mam dda.

Dywedai ei dad, y Parch. John Spurgeon, wrth weinidog Americanaidd:—"Yr oeddwn wedi bod oddicartref lawer iawn, yn ceisio adeiladu cynulleidfaoedd gweiniaid, a theimlwn fy mod yn osgouluso hyfforddiant crefyddol fy mhlant fy hun tra yn llafurio er lles croill. Fel y dychwelwn adref gyda'r teimladau hyn, agorais y drws, a synnwn wrth welad nad oedd yr un o'r plant o amgylch. Gan fyned yn ddistaw i fyny'r grisiau, mi glywn lais fy ngwraig. Yr ydoedd ar weddi, a'r plant o'i hamgylch. Clywn hi yn gweddio drostynt bob yn un orbyn eu henw. Daeth at Charles, a gweddiai yn arbennig drosto ef, canys yr ydoedd o ysbryd uchel a thymer feiddgar. Gwrandawais nes iddi orffen gweddio, a theimlais a dywedais, "Arglwydd, mi âf ymlaen gyda dy waith Di. Fe ofelir am y plant."

Pan yn bedwar mis ar ddeg oed, cymerwyd Charles i gael ei fagu ar aelwyd ei daid a'i nain yn Stambourne. Yr oedd y taid hwn, y Parch. James Spurgeon, yn weinidog gyda'r Annibynwyr, ac yn gymeriad cydnorth; yn Galfin selog, yn ysgrythyrrwr cadarn, ac yn Buritan dirodres. Yr oedd rhyw hynodrwydd yn ein gwrthrych er yn dra ieuanc, gofynai gwestiynau tra anghyfleus i'w daid wrth ddarllen y bennod ar y gwas-

anaeth teuluaidd, ac yr oedd ei graffder yn ddjarhebol. Darlennai yn awchus a dysgai yn gyflym, nes tueddu llawer i ofyn, Beth fydd y bachgennyn hwn? Arferai dyn o'r enw Rhodes, un o aelodau yr eglwys yn Stambourne, fynychu y dafarn, yr hyn a barai fawr ofid i'r hen weinidog. Wedi clywed am hyn lawer gwaith, a meddwl y peth drosodd, dywedai Charles, "Mi laddaf Rhodes." "Beth wyt yn feddwl," meddai ei daid, "cymerir di i fyny gan yr heddgedwad os gwnei ryw-beth o'i le." "O," meddai yntau, "ni wnaf un drwg, ond mi a'i lladdaf, gewch chwi weled." Ymhen peth amser, daeth i'r ty gan ddweyd ei fod wedi ei ladd. Nis gallai ei daid ddirnad beth a feddyliai, nes y daeth Rhodes ei hun yno i adrodd yr hanes. Dywedai ei fod yn y dafarn yn mwynhau ei getyn a'i wydriad, pan y daeth y bachgen i mewn, gan ddweyd, "Beth a wnei di yma, Elias, yn eistedd gyda'r annuwiolion; chwi yn aelod o'r eglwys, ac yn torri calon eich gweinidog! Mae arna i gwilydd o honoch chwi! Ni thorrrwn i galon fy ngweinidog, yr wyf yn sicr." Ar y cyntaf teimlai yr hen bechadur ei natur yn cynhyrfu wrth gael ei geryddu gan blentyn diwybod felly; ond wedi adystyried, penderfynodd ddiwygio, a myued i ofyn maddeuant yr hen weinidog.

Digwyddiad rhyfedd hefyd oedd i'r Parch R. Knill, gweinidog enwog gyda'r Annibynwyr, ddyfod i Stambourne i bregethu ar Saboth dros Gymdeithas Genhadol Llundain, a phan glywodd wŷr ei letywr—yr oedd yn hoff o blant—yn darllen y Beibl gyda phwyslais dymunol, aeth ei galon at y bachgen, a chytunwyd rhyngddynt yr aent bore drannoeth o amgylch yr ardd cyn boreufwyd. Siaradent â'u gilydd lawer am Grist a'i wasanaeth, ac yn y man aethant ar eu gliniau ynghyd, a chan ymafael ym mreichiau eu gilydd yn y deildy, a gweddiodd gwr Duw yn daer dros ei gyfaill bachgennaidd. Cyn gadael y ty, galwodd y teulu ynghyd, a chymerodd y plentyn ar ei lin, a dywedodd, "Nis gwn sut y mae, ond mae gennyf rag-deimlad rhyfedd y bydd i'r plentyn hwn bregethu yr efengyl i filoedd, ac y bendithia Duw ef i eneidiau lawer. Mor sicr wyf o hyn, fel pan fydd fy nŷn bychan yn pregethu yng nghapel Rowland Hill, fel y gwna un diwrnod, mi garwn iddo addo i mi y rhydd allan yr emyn sydd yn dechreu,—

Trwy ddirgel ffyrdd mae'r uchel Ior,
Yn dwyn ei waith i ben."

Dywedir iddo roi chwe cheiniog yn llaw y bachgen am ddsygu yr emyn. Daeth ei air i ben, a chanwyd yr emyn pan bregethodd Mr. Spurgeon y tro cyntaf yng nghapel Surrey, ac yng nghapel cyntaf Mr. Hill yn Wooton-under-Edge.

Cafodd addysg dda ym moreu ei oes, a gwnaeth yntau ddefnydd ardderchog o'i fanteision. Yr oedd yn hyddysg mewn amryw ganghen-nau o wybodaeth, ac yn alluog i ddarllen Groeg, Lladin, a Ffrancaeg. Camsyniad dirfawr yw siarad am dano fel dyn diddysg, a dywed y rhai feddent y manteision goreu i wybod y gallasai gymeryd ei radd pan yn ddyn ieuanc pe yn ewyllysio. Ond wrth reswm nid oedd yn ewyllysio, oblegid buasai raid iddo adael ei Anghydfurfaeth o'r tu allan i ddrws y Brifysgol; nid oedd y pyrth yn agored y pryd hwnnw ond i'r rhai a arwyddent y namyn un deugain erthygl.

Cymerodd ei argyhoeddiad le pan oedd yn bedair ar ddeg oed yn Colchester, lle yr ydcedd wedi dyfod i ysgol un o'r enw Mr.

Henry Lewis. Cymro? Dyma ei ddisgrifiad ef ei hun o'r amgylchiad pwysig hwn:—

Mi ddwedaf i chwi sut y dygwyd fi fy hunan i'r aduabyddiaeth o'r gwirionedd hwn. Gallaf dweyd hynny ddwyn rhywun arall at Grist. Gwelodd Duw yn dda pan oeddwn yn blyntyn fy argyhoeddi o bechod. Yr oeddwn yn greadur truenus, heb obaith, heb gysur, yn meddwl yn sicr na wnaï Duw byth fy achub. O'r diwedd daeth y gwaethaf i'r gwaethaf. Yr oeddwn yn ddraenus; prin y gallwn wneyd dim. Yr oedd fy nghalon yn cael ei thorri yn ddarnau. Gweddiais am chwe mis,—gweddiais mewn ymdrech, a'm holl galon, ac ni chawn atebiad. Penderfynais y byddai i mi yn y dref lle'r oeddwn, fynd i bob lle o addoliad er mwyn cael hyd i ffordd iachawdwriaeth. Teimlwn yn foddlon i wneyd unrhyw beth a bod yn unrhyw beth, yn unig ond i Dduw fy achub. Cychwynais, gan benderfynu myned o amgylch i'r holl gapelau, ac mi aethum i'r holl leoedd o addoliad; ac er fy mod yn awr yn cariadus anrhydeddu y dynion a lanwent y pulpudau hynny ac y gwnawn felly ar y pryd, yr wyf yn rhwym o ddweyd na chlywais hwynt unwaith yn cyflawn bregethu yr Efengyl. Hyn wyf yn feddwl,—pregethent wirionedd, gwirioneddau mawrion, llawer o wirioneddau da, cymwys i lawer o'u gwrandawyr, pobl ysbrydol; ond yr hyn oedd arnaf fi eisieu wybod oedd, Sut y gallwn i gael madden fy mbechodan? Ac ni ddarfu iddynt o gwbl ddweyd hynny wrthyf. Yr oedd arnaf eisieu gwybod sut y gallaf pechadur tlawd, dan deimlad o bechod, gael heddwch a Duw; a phan aethum clywais bregeth ar "Na thwyller chwi, ni watwarir Duw," yr hyn a'm trallodai yn fwy, ond ni ddywedaf sut y gallwn ddianc. Aethum drachefn ddiwrnod arall, a'r testyn oedd rywbeth am ogoniant y rhai cyflawn; dim i mi druan. Yr oeddwn yn rhywbeth fel ci dan y bwrdd, na chai fwyta o fara'r plant. Aethum dro ar ol tro, a gallaf yn onest ddweyd na wn i mi o gwbl fyned heb weddio ar Dduw, ac yr wyf yn sicr nad oedd gwrandawr mwy astud yn yr holl le na mi; canys yr oeddwn yn hiraethu ac yn dyheu am ddeall pa fodd y gallwn fod yn gadwedig.

O'r diwedd, ar ddiwrnod eira,—yr oedd yn bwrw eira yn gymaint fel na allwn fynd i'r lle yr oeddwn wedi penderfynu mynd, a bu raid i mi aros ar y ffordd, ac aros bendigedig fu i mi. Mi welais stryd led ddinod, a throais ilawr ac yr oedd yno gapel bychan. Yr oedd arnaf eisieu mynd i rywle, ond ni wyddwn am y lle hwn. Capel y Primitive Methodists ydoedd. Yr oeddwn wedi clywed am y bobl hyn gan lawer, ac fel y canent mor uchel nes codi cur yn mhen pobl; ond doedd hynny ddim gwahaniaeth. Yr oedd arnaf eisieu gwybod sut y gallwn gael fy achub, a pha gur bynnag a godent yn fy mhen nid oeddwn yn gofalu. Felly, wedi eistedd i lawr, aeth y gwasanaeth ymlaen, ond nid oedd yr un gweinidog. O'r diwedd daeth dyn teneu iawn i'r pulpud ac agorodd ei Feibl, a darlennodd y geiriau hyn, "Trowch eich gwynebau ataf fi, holl gyrrau y dddear, fel y'ch achuber"—"Look unto me, and be ye saved, all the ends of the earth." Gan oed ei lygaid arnaf fi, fel pe buasai yn gwybod y cwbl am danaf, dywedodd, "Wr ieuanc, yr ydych mewn trwbwl." Wel, yr oeddwn, yn ddiagon aiwr. Ebal yntau, "Ni ddeuwch byth o hono oddieithr i chwi droi at Grist." Ac yna, gan godi ei ddwyliaw, gwaeddodd, fel nad all neb ond Primitive Methodist yr wyf yn meddwl wneyd, "Look, look, look! It is only look:" "Nid yw yn ddim o'i d edrych," meddai. Mi welais ar unwaith ffordd iachawdwriaeth. O, fel y llamwn gan lawenydd y foment honno! Nis gwn beth arall ddywedodd; ni chymerais fawr o sylw,—yr oeddwn wedi fy meddiannu yn gymaint gan yr un meddwl hwnnw, fel pan ddyrchafwyd y sarff bres na wnaent ond edrych ac iacheid hwynt. Yr oeddwn wedi bod yn barod i wneyd hanner cant o bethau, ond pan glywais y gair yna, "Look," y fath air hyfryd ydoedd i mi! O, mi edrychais nes y gallwn bron edrych fy llygaid ymaith, ac yn y nefoedd mi edrychaf o hyd yn fy llawenydd annhraethadwy. Yr ydyf yn awr yn meddwl fy mod yn rhwym o beidio pregethu pregeth byth heb bregethu i bechaduriaid. Yr wyf yn meddwl nad ydyw gweinidog a all bregethu pregeth heb gadrych pechaduriaid yn gwybod sut i bregethu.

Yn yr hwyr aeth i gapel y Bedyddwyr, lle pregethai y gweinidog ar y geiriau, "Yn gymeradwy yn yr anwlyd." Dywedodd y bachgen wrth ei dad droi droi at Grist y boreu hwnnw, a theimlo yn yr hwyr ei fod yn cael ei dderbyn. Edrychai ar y dydd hwn ar hyd ei oes fel dydd

bendigedig yn ei hanes, a mynych y cyfeiriai yn ei bregethau ei hun at eiriau y gŵr syml yn y capel Methodistiaidd yn Colchester. "Pwy a ddiystyrodd ddydd y pethau bychain?" Pwy a wŷr nad oes yn y gynulleidfa fach, yn yr addoldy gwledig, ryw Spurgeon neu Elias, neu C. Evans, neu W. Williams?

Yn y flwyddyn 1850, pan yn 16 mlwydd oed, yn ystod arhosiad byr yn Newmarket, argyhoeddwyd ef o ysgrhythroldeb bedydd trwy drochiad, ac felly bedyddiwyd ef yn Isleham Ferry, i'r hwn le y cerddasai wyth milldir o Newmarket, ar foreu dydd yr Arglwydd. Clywsom ef ddwy flynedd yn ol yn adrodd yr hanes, ac yn y *Sword and Trowel* am Ebrill, 1890, ceir darlun o'r fan. Ni ddanghosodd ei rieni, er eu bod hwy yn Annibynwyr, un gwrthwynebiad iddo gario allan ei argyhoeddiadau. "Mae yn dra hyfryd i mi," ysgrifennai mewn llythyr at ei dad, "mai y dydd y profesaf Grist ger bron y byd yw dydd pen blwydd fy mam. Bydded i'r naill a'r llall o honom, yn flaen-brawf o lawer o ddyddiau gogoneddus a hyfryd eto i ddyfod." Nid oeddylt, mae'n ddiau, wedi cyfrif ar iddo droi yn Fedyddiwr. "Ah, Charlie," meddai ei fam un diwrnod, "mi weddiais yn fynych, ar i chwi gael eich achub, ond erioed ar i chwi ddyfod yn Fedyddiwr." Ond ei ateb gwych ef oedd, "Mae Duw wedi ateb eich gweddi, fy mam, gyda'i raslonrwydd arferol, a rhoddi i chwi fwy nag a ofynasoch."

Yn fuan wedi hyn, yn 1851, symudodd o Newmarket i Cambridge, fel is-athraw i Mr. Henry Leeding, un o'i athrawon yn Colchester. Yno ymaelododd yn eglwys y Bedyddwyr fuasai yn mwynhau gweinidogaeth yr ewngion R. Robinson a Robert Hall.

Ymunodd a'r *Lay Preachers Association*. Dyma yr hanes a roddai efe ei hun am ei bregeth gyntaf:—

Yr oeddyd ym dydd Sadwrn wedi gorffen ysgol y boreu, a'r bechgyn oll yn mynd adref, pan ddaeth arolygydd y Gymdeithas i ofyn i mi fynd drosodd i Feversham y prydnewn Sul canlynol, am fod dyn ieuanc i bregethu yno nad oedd wedi arfer fawr a dwyn gwasanaeth ymlaen, ac fod yn bur debyg y carai gael cwmni. Brawddeg gyfrwys oedd honno, os ydym yn ei chosio yn iawn, ac yr ydym yn meddwl ein bod; caws ar y pryd, yng ngoleuni datguddiad y prydnewn Sul, troem hi yn ein meddwl, a dirfawr edmygem ei chywreirwydd. Buasai cais am fynd i bregethu ar unwaith yn cael ei wrthod; ond am ddim ond bod yn gwmni i frawd da na hoffai fod yn unig, ac feallai a ofynnai i ni roi hymn allan, neu weddio, nid oedd mewn un modd yn beth anodd, a chan ddeall y cais yn y wedd yma, cydaiwyd yn siriol. Ychydig a wyddai y llanc beth oedd Jonathan a Dafydd yn wneyd pan orchymynid iddo redeg am y saeth, ac mor ychydig a wyddem ninnau pan hyd-ddenid ni i fynd gyda dyn ieuanc i Feversham.

Yr oedd yr Ysgol Sul drosodd, a thê wedi ei gael, a chychwynasom trwy Barnwell a hyd New-market Road, gyda bonheddwr oedd ychydig flnyddoedd hŷn na ni. Siaradem am bethau da, ac o'r diwedd datganasom ein gobaith y cai efe bresenoldeb Duw wrth bregethu. Ymddanghosai yn dychryn, a sicrhaodd ni nad oedd erioed wedi bod yn bregethu, ac na allai gynnyg ar y fath beth; yr oedd efe yn edrych at ei gyfaill ieuanc, Mr. Spurgeon, am hynny. Yr oedd hyn yn olwg newydd ar y sefyllfa, ac ni allwn ond dweyd nad oeddwn yn bregethwr, a phe buaswn, fy mod yn gwbl amharod. Dywedodd yntau nad ydoedd *efe*, yn fwy fyth, ddim yn bregethwr; y cynorthwysai mewn unrhyw ran o'r gwasanaeth, ond na fyddai pregeth os na rown i un. Dywedodd os rhoddwn un o fy anerchiadau i'r Ysgol Sul y gwnai y tro i'r bobl dlodion, ac fod yn debyg y rhoddi iddynt fwy o foddhad na mater astudiedig duwinydd dyfnddyg. Teimlwn fod yn rhaid i mi wneyd fy ngoreu. Cerddais ymlaen yn ddistaw, gan ddyrchafu fy enaid at Dduw, ac ymddanghosai y gallwn yn sicr ddweyd wrth ychydig dlodion am anwylddeb a chariad Iesu, pethau a deimlwn yn fy enaid. Gan weddio am Ddwyfol gymorth penderfynais wneyd cais. Fy nhestyn fyddai, "I chwi gan hynny, y

rhai ydych yn credu, y mae yn urddas," ac ymdiriedwn i'r Arglwydd agor fy ngenau er anrhydedd ei anwyl Fab. Yr ydoedd yn anturiaeth fawr ac yn brofedigaeth ddirifol; ond gan ddbynnu ar nerth yr Ysbryd Glan, mi ddwedwn o leiaf ystori y Groes, ac ni adawn i'r bobl fynd adref heb yr un gair.

Aethom i mewn i ystafell isel yr hen fwthyn to gwellt, lle'r oedd ychydig lafurwyr amaethyddol syml ynghyda'u gwragedd wedi dod at eu gilydd; canasom a gweddiasom, a darllenasom yr Ysgrhythrau, ac yna daeth ein pregeth gyntaf. Pa mor hir neu fer ydoedd ni allwn yn awr gofio. Nid oedd yn hanner cymaint taeg ag yr ofnem y byddai, ond yr oedd yn ddageanym weled ein ffordd at derfyniad rhesymol, ac at roddi allan yr emyn olaf. Er ein cysur nid oeddem wedi torri i lawr, wedi gorfod stopio yn y canol, nac wedi bod heb feddylliau, ac yr oedd y porthladd a ddymunid yn y golwg. Terfynasom a chymerasom i fyny y llyfr, ond er ein syndod gwaeddai llais oedranus allan, "Bendith ar eich calon anwyl, beth yw eich oed?" Ein hateb difrifol oedd, "Rhaid i chwi aros nes y bydd y gwasanaeth drosodd, cyn gwneyd dim ymofyniadau o'r fath ym." Canasom, a datganodd y pregethwr ieuanc y fendith, a dechreuodd ymddiddan a arweiniodd i siarad cynnes, cyfeillgar, ymha un yr ymddanghosai fod pawb yn cymeryd rhan. "Beth yw eich oed?" oedd y prif gwestiwn. "Dan *sixty*" oedd yr ateb. "Ydych, a than *sixteen*," oedd ateb yr hen wraig. "Na ofelwch am fy oed, meddyliwch am yr Arglwydd Iesu a'i urddas," oedd yr oll a allwn ddweyd, wedi addaw dyfod drachefn os barnai y bonheddwr o Gaergrawt fy mod yn addas. Mawr a dwfn iawn oedd ein parchedigaeth i'r boneddigion hynny yng Nghaergrawt y dyddiau hynny.

Meddyliodd am fyned i athrofa i gymhwysu ei hunan ar gyfer gwaith y weinidogaeth, a gwnaeth apwyntiad i gyfarfod Dr. Angus, llywydd yr athrofa oedd y pryd hwnnw yn Stepney, ac sydd yn awr yn Regent's Park,—yn nhŷ Mr. Macmillan, y cyhoeddwr, yn Cambridge; ond trwy gamsyniad y forwyn a agorodd y drws, bu ef mewn un ystafell a Dr. Angus mewn ystafell arall am gryn ddwy awr yn disgwyl y naill am y llall, ac o'r diwedd ymadawsant heb weled eu gilydd. Aeth Spurgeon ieuanc i edrych ar y tro fel awgrym nad oedd i fyned i athrofa, a cheir llawer yn datgan eu barn mai fodus iawn ydoedd na chafodd goleg, gan y gallasai hynny ddileu rhan o'r arbenigrwydd cymeriadol a'i nodwedddai. Nis gallwn dderbyn y syniad hwn mewn un modd. Gwir fod tuedd mewn addysg ac ysgol i ddwyn gwahanol gymeriadau i raddau i wisgo yr un ddelw, fel y dryllir conglau ac y llyfnheir cerrig yr afon wrth iddynt ymrwbio yn eu gilydd, tra y ceidw cerrig ochrau y mynydd eu nodau gwahanedig a'u gerwindeb cynhenid. Ond os eir i ddadleu yn erbyn i bregethwr ieuanc fyned i athrofa dduwinyddol o herwydd y perygl hwn, ar yr un tir y dylid ymresymu yn erbyn pob addysg. Yr oedd ein gwron yn meddu ar ddiagon o rym athrylith fel y cadwasai ei arbenigion ei hun, er cymysgu gydag ereill mewn athrofa; ac heblaw hynny, yr oedd wedi cyrraedd dysgeidiaeth uwch nag y tybir yn gyffredin. Cafodd addysg elfennol a chlasurol dda, bu yn athraw cynorthwyol yn ysgol Mr. Leeding, ac ymddengys ei fod wedi cyrraedd gradd dda o ragoriaeth mewn gwahanol ganghennau o wybodaeth.

Pan tua dwy ar bymtheg oed, daeth yn weinidog ar eglwys fechan o Fedyddwyr yn Waterbeach, pentref yn cynwys tua dwy fil o drigolion, yn gorwedd yn nhawelwch y wlad, rhyw bedair milldir o Gaergrawnt. Bu yma am ddwy flynedd, ac ymgododd i boblogrwydd mawr. Darfu i'r gynulleidfau yn fuan orlanw yr hen gapel to gwellt, a thorrodd diwygiad mawr allan a ymdaenodd dros y gymydogiaeth. Daeth y bobl dlodion yn dra ymlyngar wrtho. Cododd yr achos fuasai yn hynod o fsel, i safle o ddylanwad, yr hwn a gedwir i raddau mwy neu lai hyd heddyw. Bu ei ddwy flynedd gweinidogaethol yn y lle hwn yn addysg

ragorol iddo. Cafodd fantais fawr i fyfyrïo y natur ddydol, o herwydd yr orfodaeth a osodid arno i ymdroi cymaint yn y teuluoedd yr ymwelai â hwynt. Dysgodd sylwi gyda manyldra ar goedydd, llysiau, blodeu, anifeiliaid a'u harferion, ac adar—eu lliw, eu llun, eu cân. Gallai ar hyd ei oes roddi disgrifiad o'r pethau hyn, a chafodd lawer o egluriadau hysod oddiwthyt i'w bregethau, ei anerchiadau, a'i ymddiddanion. Darllenner y gyfrol a elwir "Farm Sermons," a cheir prawf o hyn. Galwai y gymydogoeth yn "Little Garden of Eden." Pa ryfedd fod y lle yn meddu swyn iddo tra fu byw. Yr oedd y bobl yn syml a gwledig, ond yn llawn caredigrwydd diymhongar a diragrith, heb ddim o fursendod a choegni y dref, ac yntau, gan brofi y mwynhad a geir gyda gorchwylion cyntaf a drychfeddyliau gwawrddydd bywyd, yn cerdded tir gwyrlyf a theg. Nid oedd cyflog ei ragflaenydd yno ond £20, na'r eiddo yntau fawr ychwaneg. Ond yr oedd yn hynod o hapus yng nghariad y bobl. "Yr wyf yn teimlo yn fwyfwy llawen nad asthma i'r Coleg," meddai mewn llythyr at ei fam. "Mae Duw yn anfon y fath heulwen ar fy llwybr, y fath weniadau o ras, fel nad allaf ofidio os ydwyf er mwyn hynny wedi fforffedu fy holl ragolygon. Mi wn sut i beidio o gariad at Dduw a'i achos; a gwell gennyf fod yn dlawd yn ei wasanaeth Ef nag yn gyfoethog yn fy ngwasanaeth fy hun. Mae gennyf yr oll a allai calon ddymuno. Mae fy nghynulleidfa gymaint ac ror gariadus ag erioed. Yn ystod yr holl amser yr wyf wedi bod yn Waterbeach, bu gennyf dy gwahanol bob Saboth yn gartref i mi. Mae deuddeg a deugain o deuluoedd felly wedi fy nghymeryd i mewn, ac y mae gennyf chwech o wahoddiadau ereill eto heb eu derbyn. Son nad yw y bobl yn gofalu am danaf eu bod yn rhoi i mi mor ychydig! Mentrwn ddweyd wrth unrhyw ddydol dan y nefoedd ei fod yn gelwydd! Gwnant yr oll a allant. Aeth ein cylchwyll flynyddol heibio yn ardderchog; bedyddiwyd chwech, safai lluoedd ar luoedd wrth yr afon, ac yr oedd y capel wedyn yn orlawn at y tē a'r bregeth."

Ond nid oedd i aros yn Waterbeach. Yr oeddynt yno yn analluog i roddi digon at ei gynhaliacth, ac yr oedd y lle yn rhy gyfyng i'w alluoedd. Ni allasai y fath dalent fod yn hir yn guddiedig; areithiodd yng nghyfarfod blynyddol Undeb yr Ysgolion Sabothol yn Cambridge yn 1853, pryd y digwyddai bonheddwr o Essex fod yn bresennol, yr hwn a welodd yn yr areithiwr ieuanc ddefnyddiaid dyn uwchraddol a nodedig; a phan gyfarfyddodd hwnnw ag un o ddiaconiaid capel New Park Street, Llundain, anogodd hwy i anfon am Spurgeon ieuanc fel un fuasai yn sicr o godi yr achos adfeiliedig. Fel hyn, fel rheol, os bydd gallu nodedig mewn dyn, daw rhyw gyfleustra i ddwyn hynny i sylw. Cawod o wlaw taranau yn peri i far-gyfreithiwr galluog droi i mewn i'r eglwys i ochel, fu yn foddion i ddwyn Dr. Candlish i sylw. Os oes elfennau rhagoriaeth yn y darllennydd ieuanc, bydded iddo gyflawn gymhwyso ei hun erbyn disgyniad y gawod. Yn niwedd 1853 aeth Spurgeon i bregethu ar brawf i gapel New Park Street, capel mawr a ddaliai 1200, ond ymhell o fod yn llawn. Pregethodd yn y boreu i gynulleidfa o ryw 200 oddiar Iago i. 17: "Pob rhoddiad daionus, a phob rhodd berffaith, oddi uchod y mae," &c. Yn yr hwyr, yr oedd y gynulleidfa grym lawer yn lliosocach, a phregethodd yntau oddiar Dat. xiv. 5: "Canys difai ydynt ger bron gorseddafinc Duw." Dywed y Parch. G. D. Evans, Bristol, ei fod yn cofio yn dda ei dad yn dod i'r ty, newydd wrando'r bregeth, ac yn dweyd yn ei ddull swta ond arwyddocaol, "Fe wna'r tro." Yn nechreu 1854, sefydlodd yn ffurfiol fel gweinidog yr eglwys, yr hon a

sefydlwyd yn gynnar yn yr ail ganrif ar bymtheg. Cawsai wasanaeth amryw wroniaid ymysg y gweinidogion, megys Benjamin Keach, awdwr "Key to open Scripture Metaphors," "Parables," &c., yr hwn a garcharwyd ac a faeddwyd yn dost gan yr awdurdodau o herwydd ei anghydfurfiaeth; Dr. John Gill, yr Esboniwr enwog, a'r ysgolhaig Rabinaidd galluog, yr hwn sefydlodd yma tua 1720, ac a barhaodd yn y gwaith am dros hanner can mlynedd; Dr. Rippon, awdwr llyfr Tonau ac Emynau fu mewn bri am amser maith, yr hwn a fu farw yn 1836; ac yn 1837, dilynwyd ef gan Dr. Angus, yr hwn a fu yn hynod lwyddiannus yno am ddwy flynedd, pryd y symudodd i gymeryd ysgrifenyddiaeth y Gyndeithas Genhadol. Mae efe yn fyw eto, yn dirf ac yn iraidd yn ei henaint. Ar ol hyn, bu yr eglwys yn cael ei gwasanaethu gan amryw yn olynol, ond yr oedd yr achos yn graddol adfeilio,—fe ddichon yn byw ar ei *hanes*, ac heb feddu digon o rym *gobaith* i edrych yn llygad y dyfodol. Mewn cyflwr dirywiedig felly y cafwyd ef gan y gwr ieuanc o Essex ar ddechreuad ei weinidogaeth. Wedi ei ddyfodiad ef, ni chwynai y bobl mwy am Dr. Rippon na Dr. Angus. Ar ol y distawrwydd dyma lef proffwyd eto yn glywadwy, bywyd ymysg yr esgyrn sychion, ac ysbryd myned ymlaen yn meddiannu pawb. Aeth y capel oedd ar y dechreu yn rhy fawr, cyn pen y flwyddyn yn rhy fach i rif y gynulleidfa. Helaethwyd ef, ond aeth drachefn yn rhy fach. Awst 15, gosodwyd carreg sylfaen y Tabernacl gan Syr Morton Peto, Barwnig, aelod enwog yng nghyfundeb y Bedyddwyr. Ym Mawrth, 1861, agorwyd yr adeilad eang, digon helaeth i gynnwys eisteddleoedd i chwe mil o bersonau, ac agorwyd ef yn ddiddyled, er iddo gostio yn agos i £32,000. Pregethwyd ar yr achlysur gan Mr. Spurgeon, Dr. Brook, a'r Parch. H. Stowell Brown; a chymerwyd rhan mewn cyfarfodydd neillduol gan amryw weinidogion ac ereill. Tra yr oedd y cyfnewidiadau hyn yn myned ymlaen, bu y gweinidog yn pregethu yn y Surrey Music Hall. Cynhaliwyd y gwasanaeth cyntaf yno, Hyd. 16, 1856, pryd yr oedd yn bresennol yn agos i ddeng mil o bobl. Yn fuan wedi i'r gwasanaeth ddechreu, rhoddodd rhyw ddyhiriaid drygionus waedd dwyllodrus fod y lle ar dân, yr hyn a barodd i'r dorf ymwylltio yn ddychrynllyd, ac yn y cythrwfi lladdwyd saith, ac anafwyd wyth ar hugain ereill. Effeithiodd y trychineb hwn ar feddwl Mr. Spurgeon yn fawr, ac ni ymiachiodd byth yn hollol oddiwrth yr effaith. Pob amser wedi hynny pan bregethai mewn adeilad wedi ei orlenwi, byddai yr hen fraw fel cennad o'r gorffennol yn gwanhau ei emynau, ac yn ei atal i fod fel efe ei hun. Pan bregethai yn Portsmouth yn adeg Undeb y Bedyddwyr yn 1881, clywodd yr oriel fel yn rhoddi ffordd, ac ymdaenodd ias o fraw drosto; er iddo bregethu yn odidog, nid oedd yn ei fan goreu o herwydd y teimlad. Ni wyddys hyd heddyw o ba le y tarddodd y waedd yn y Surrey Hall. Y tebygolrwydd ydyw mai rhyw welch drygionus a geisient fantais i bigo llogellau, neu a godasant y cri yn unig oddiar ddireidi pechadurus, yn hollol anystyriol o'r canlyniadau dinystriol. Fodd bynnag gwnaeth y pregethwr gonest ei ran yn dda trwy y gwasanaeth yn yr adeilad hwn i beri i ereill ymhyfhau i bregethu Crist mewn lleoedd na enwid ef o'r blaen, ac i droi synagau gwagedd a themlau Satan yn bebyll trugaredd ac yn fannau i bregethu y cymod trwy ras.

Elai y pregethwr grymus ymlaen yn ei nerth, ac fel y goleuni llewyrchai fwyfwy. Traddododd bregeth i dros ugain mil o bobl yn y

Palas Grisial yn Hydref, 1857. Ynglyn â hynny y mae hanesyn tra dyddorol. Gan ofni nad oedd ganddo ddigon o lais i lanw y lle mawr hwnnw, aeth yno cyn diwrnod yr odfa, ac o'r man y bwriedid iddo bregethu adroddodd adnod, a boddlonodd ei hun y gallai y bobl ei glywed. Yr adnod oedd, "Gwir yw y gair, ac yn haeddu pob derbyniad, ddyfod Crist Iesu i'r byd i gadw pechaduriaid; o ba rai pennaf ydwyf fi." Ond yr oedd yn y palas ar y pryd ddy'n mewn dirfawr bryder am fater ei enaid, ac yn ei drallod wedi eistedd i lawr mewn cilfach neillduedig. Ond clywodd y geiriau a phrofasant yn iachawdwriaeth iddo. Bu farw yn Gristion diamheuol, a phriodolai ei achubiaeth i'r adnod—a lefarwyd wrtho o'r nef!—yn y Palas Grisial. Yn y flwyddyn 1860, bu Mr. Spurgeon yn pregethu ym mhulpudd Calvin yn Geneva, lle y cafodd groesaw mawr gan bregethwyr efengylaidd y wlad honno. Wedi agoriad y Tabernacl, cilioedd ofnau y rhai a dybient fod yr adeilad yn rhy eang, gan na byddai yn fynych yn ddigon o faint i gynnwys y torfeydd a hoffent ei wrando. Cafodd lawer beirniadaeth lem a chreulon yn y papurau, a thynnid pob math o wawdluniau o hono, a gosodid y gwyneb adnabyddus yn gysylltiedig â phob math o gorff. Proffwydai hyd yn oed rhai dynion da yn y byd crefyddol, nad oedd ond hudlewyn yn rhitholeuo am dymor, ac y syrthiai yn fuan yn ol i'r gors y tarddodd o honi. Ond yn union i'r gwrthwyneb y bu. Ymwelodd â gwahanol rannau y deyrnas, a phregethodd ym mhrif drefydd Lloegr, Ysgotland, a'r Iwerddon. Ymwelodd hefyd â Chymru, a phregethodd yn Rhiwabaon, Rhyl, Caergybi, a Llandudno, Abercarn, a manau ereill. Cofnoda y *Faner* iddo unwaith dalu ymweliad â Beddgelert, ac ar gais yr eglwys pregethodd yng nghapel y Methodistiaid, ar ol y Parch. William Herbert, Tanymaes.

Ac ni chyfyngodd ei lafur i'r pulpud, er cymaint oedd y llafur hwnnw. Yn 1854, apeliodd dyn ieuanc a fedyddiasid ganddo, sef J. W. Medhurst, am gyfarwyddyd ganddo gyda golwg ar ei gymhwyso ei hun ar gyfer gwaith y weinidogaeth. Penderfynodd Mr. Spurgeon roddi pob hyfforddiant galluadwy iddo, a dyna ddechreuodd y Coleg Bugeiliol. Yr athraw cyntaf yn y Coleg hwn oedd y Parch. George Rogers, gweinidog Annibynnol, rhwng yr hwn a Mr. Spurgeon y ceid cydarawiad nodedig. Yr oeddynt yr un farn am athrawiaethau gras, ac ar y pwnc o fedydd yn unig y gwahaniaethent. Rhesymau ein gwron dros gychwyn y Coleg, tra yr oedd cynifer o golegau yn flaenorol oedd, ei fod yn credu y dylesid gosod mwy o fri ar bregethu a bugeilio nag a wneid yn gyffredin, a hynny hyd yn oed ar draul esgeuloso rhan o'r addysg glasurol. Costiodd y sefydliad i Mr. Spurgeon am rai blynyddau tua £600 yn flnyddol, a bu ar hyd yr amser yn un o'r prif gyfranwyr ato, tra yn rhoddi ei ofal a'i lafur yn rhad ac am ddim. Tyfodd y sefydliad yn raddol, fel y bu ar un adeg dros 80 o fyfyrwyr yndo ar yr un pryd. Yn ol yr *Handbook* diweddaf, y mae traul flnyddol yr athrofa yn £6,352; nifer presennol y myfyrwyr yn 68; ac y mae yno bedwar o athrawon. Y mae dros 600 o'r hen fyfyrwyr yn weinidogion gyda'r Bedyddwyr yma a thraw ar hyd y deyrnas hon ac mewn gwahanol barthau o'r byd; a bu i nifer cymharol liosog o honnynt gychwyn eu gyrfa grefyddol yn y Tabernacl. Ymhlith ei hen fyfyrwyr, ceir amryw ydynt wedi cyrraedd safle anrhydeddus a dylanwadol iawn yn y weinidogaeth: megys A. G. Brown, eglwys yr hwn yn Bow, Llundain, a rifa

ddwy fil o aelodau; W. Cuff, yr hwn sydd yn alluog i lanw y Tabernacl eang yn Shoreditch; W. Williams, Lambeth; C. A. Davies, Reading; T. G. Tarn, Cambridge; E. G. Gauge, Bristol, a llawer ereill.

Cychwynwyd y Nawdd-dy i'r Amddifaid yn Stockwell mewn ffordd a ymddengys yn hollol ddigwyddiadol. Cyflwynodd un Mrs. Hillyard, yr hon oedd yn hollol anadnabyddus iddo ef, £20,000 iddo i gychwyn sefydliad o'r fath. Wedi dechreu, cafodd roddion tywysogaidd ereill o wahanol gyfeiriadau; cymerodd cymanfaoedd, eglwysi, trefydd, a phersonau unigol, at y gorchwyl o gasglu a chyfrannu. Erbyn hyn y mae pum cant o fechgyn a genethod yn cael cartref yn y tai rhagorol hyn, a rhoddir derbyniad i bob achos teilwng heb ofyn dim i ba enwad y perthynai y rhieni, neu beth bynnag os gofynir, ni bydd yr atebiad yn effeithio ar eu derbyniad i mewn.

Ni chaniata gofod i ni ond cyfeirio at rai o'r sefydliadau ereill cysylltiedig â'r Tabernacl. Dyna gymdeithas y Llyfrgludwyr, yn gwneyd gwaith mawr mewn lleoedd poblogaidd; cymdeithas yr Efengylwyr; a chymdeithas yr Achosion Newyddion, amcan yr hon ydyw cychwyn achosion newyddion perthynol i'r Bedyddwyr mewn lleoedd poblogaidd, ac mewn mannau a esgeulusir yn bresennol. Rhifa eglwys y Tabernacl 5,354 o aelodau, gyda 26 o orsafoedd cenha lol, a deg ar hugain o ysgolion Sabothol, gydag 8,513 o ysgolheigion. Perthyna i'r eglwys 9 o ddiaconiaid, a 20 o henuriaid.

Yn niwedd y flwyddyn 1888 ymneillduodd Mr. Spurgeon oddiwrth Undeb y Bedyddwyr, am na foddonai y Cyngor i fabwysiadu math o gyffes fydd ar seiliau credo y Cyngrair Efengylaidd. Ni adawodd yr enwad trwy hynny; perthynai ei eglwys ac yntau hyd y diwedd i Gymanfa Bedyddwyr Middlesex a Surrey. Dichon y dylid hysbysu rhai o'n darllenwyr mai sefydliad cymharol ddiweddar ydyw yr Undeb hwnnw. Ffurfiwyd ef yn 1832, a chynhelid y cyfarfod bob blwyddyn yn Llundain hyd 1863, pryd y penderfynwyd, o hynny allan, gynnal eisteddiad y Gwanwyn yn y brif ddinas, a'r eisteddiad Hydrefol yn rhyw ran o'r wlad; a byth er y cyfnewidiad hwn y mae bywyd newydd wedi ei anadlu i'w weithrediadau. Gwneir yr Undeb i fyny o eglwysi a phersonau a ddewisant gydymffurfio â'i reolau, cyfrannu at y treulion, a chydweithredu â'i amcan. Ni ofynir credo gan neb, ond fod pob un a dderbynir yn aelod o eglwys Fedyddiadol. Yr oedd gweinidog y Tabernacl yn ystod y blynyddau diweddar yn teimlo fod syniadau llac a phenrydd iawn yn fyfnu ymhlith pob enwad ar rai pynciau o an-nhraethol bwys—megys Ysbrydoliaeth yr Ysgrhythrau, natur yr Iawn, Personoliaeth yr Ysbyrd Glan, a Thynged yr annuwiol yn y byd a ddaw. Ysgrifennodd yn gryf iawn ar y pwnc hwn yn y *Sword and Trowel*, a disgwyliai y buasai Undeb y Bedyddwyr, a gynhelid yn Sheffield yn Hydref 1888, yn cymeryd sylw o'r mater, ac yn llunio rhyw fesurau i gau allan bersonau a ddalient syniadau amheus ar y pynciau hyn. Ni wnaed dim; ac felly, mewn canlyniad, aufonodd Mr. Spurgeon ei ym-ddiswyddiad at yr ysgrifenydd, Dr. Booth. Galwyd cyfarfod neillduol o'r Cyngor i ystyried y sefyllfa. Yr oedd ysgrifenydd y llinellau hyn yn bresennol yn y cyfarfod hwnnw, a byth ni anghofir y teimladau angherddol a amlygid ynddo. Ar un llaw, datgenid y parch dyfnaf at Mr. Spurgeon, fel cymeriad nodedig mewn purdeb a duwioldeb, mewn gallu a diwydrwydd, ac fel un a wnaethai le amlwg a helaeth iddo ei

hun ym mynwes yr holl frawdoliaeth; ond ar y llaw arall, teimlid yr un mor gryf nas gallesid gwneyd yr hyn a geisiai, heb drawsnewid yr Undeb yn gyfangwbl o'r hyn a fwriedid iddo fod ar y cychwyn, heb sangu ar hawliau cysegredig eglwysi a phersonau, ac heb gynnyg meddyginiaeth ar gyfer y drwg na wyddid a fuasai yn effeithiol; a phe buasai, fe deimlid y gallasai y feddyginiaeth droi allan yn waeth na'r afiechyd. Teimlid hefyd, yn gymysgedig a hyn, fod yr enwad wedi dioddef sarhad a cholled trwy yr ysgrifeniadau yn y *Sword and Trowel*,—mae'n ddealedig nad Mr. Spurgeon ei hun a ysgrifennodd y llythrau cyntaf,—y rhai oeddent bron yn awgrymu mai yn yr enwad hwnnw yn unig y ceid personau yn derbyn y slyniadau newyddion, pan mai y gwir oedd, fod y Bedyddwyr—a dweyd y lleiaf—mor geidwadol ar bynciau o'r fath ag unrhyw gyfundeb neu ddothbarth o bobl. Penderfynwyd anfon dirprwyaeth ato i geisio ganddo ail ystyried ei benderfyniad. Yn y diwedd cytunwyd ar gyfaddawd, sef i'r Undeb wneyd datganiad o'r pynciau a gredid. Daeth y dydd i ystyried hyn. Cynhaliwyd y cyfarfod yn y City Temple, trwy garedigrwydd Dr. Parker a'i eglwys. Ni anghofiaf byth frwdfrydedd a thrydan y dydd. Traddododd Dr. Clifford, y llywydd am y flwyddyn, anerchiad godidog ar "Gristionogaeth y Deugain Mlynedd," a gwnaeth waith na wna byth ei ragorach, ac ni allasai neb pwy bynnag ragori arno yntau. Derbyniwyd y cyfaddawd gan y Parch. J. A. Spurgeon, brawd Mr. Spurgeon, ac ereill o'r ochr honno, ac ni chododd ond rhyw saith eu dwylaw yn erbyn. Sut bynnag ni ddychwelodd Mr. Spurgeon i'r Undeb, a thybiai fod yr hyn a wnaed wedi ei wneyd er ei fwyn ef, yn hytrach nag oddiar deimlad o angenrheidrwydd. Ni amheuoedd neb o'r rhai na chydolygent ag ef ddiwyllledd a phurdeb ei amcanion, ac y mae yn dra sier mai nid human glod, nac unrhyw fantais ddaearol a'i hysgogai gyda'r gwaith, ond eél dros y gwirionedd, ac awyld didwyll am roddi atalfa ar ysbryd y cyfeiliorni. Ond yr oedd y safle anysgogol a gymerai ef yn rhwystr mawr i lwyddiant ei waith. Priu y credai fod angen gwneyd ymchwiliad o gwbl i'r profion o wirionedd y grefydd Gristnogol; edrychai gyda llygad amheus ar y rhai a dalent sylw i'r "testyn" gwreiddiol, awduriaeth ac amgylchiadau cyfansoddiad y llyfrau canonaid, i'e hyd yn oed pan ddychwelent o'r ymchwil yn argyhoeddedig o wirioneddolrwydd y traddodiadau blaenorol.

Ceir llawer yn gwrthwynebu pob ymchwiliad a phrawf oherwydd diogi meddyliol, neu ddiffyg gallu i feddu amgyffrediad i'r sefyllfa. Nid felly yr oedd ef; ni wyddai beth oedd diogi, ac yr oedd yn feddiannol ar feddwl craff a gafaelgar, yn abl i gymeryd pwnc i mewn mewn modd cyngreddfol bron. Ond ystyrai y dystiolaeth fod y Beibl yn wir air Duw wedi ei hen brofi. Gwyddai am flas y dyfroedd bywiol a lifent ar hyd y sianel hon, ac ni chredai fod angen am eu dadansoddi. Derbyniai ysbrydoliaeth eiriol yr Ysgrythyrau fel peth diymwad. Rhoddai bwys mawr ar dweyd fod y Beibl yn *Air Duw*, yn hytrach na dwyed ei fod yn *cynwys gair Duw*. Bu ei enciliad o'r Undeb yn ddyrnod drom i'r cyfarfodydd hyn; er mai ychydig a effeithiodd ar eu lliosogrwydd, ac er nad yw y brwdfrydedd cysylltiedig â hwynt yn ymddangos yn fymryn llai nag o'r blaen, eto teimlid fod y gwr a ystyrid yn gyflawn y gallu crefyddol cryfaf yn yr enwad yn absennol. Cafodd yntau ei human golled, a phe defnyddiasai ddull arall i gyrraedd ei amcan buasai ei ddyllanwad yn llawer ehangach.

Yn yr un ysbryd ymneillduodd hefyd yn ei flynyddau olaf oddiwrth Gymdeithas Rhyddhad Crefydd oddiwrth y Wladwriaeth, am fod y Gymdeithas honno yn caniatáu i ddynion digrefydd areithio yn ei chylch-wyliau, a chydweithredu, er o safbwynt gwahanol, er cyrraedd ei hamcanion.

Ond ei ddyddiau a nesasant i farw. Nid oes angen rhoddi hanes ei afiechyd yma. Bu am fisoedd yn y wlad hon yn hongian rhwng deufyd, ac yn hir yn anymwybodol o holl helyntion y fuchedd hon. O'r diwedd, adnewyddodd ddigon i fyned i Mentone, ei hoff encilfan auafol, a galluogwyd Mrs. Spurgeon, am y tro cyntaf, i fyned gydag ef. Ond hunodd yn yr Iesu Ionawr 31, 1892, cyn cyrraedd ei 58 mlwydd oed. Ond i ddyn wedi cyflawni y fath swm aruthrol o waith,—wedi pregethu yr efengyl yn yr addoldy mwyaf yn y byd, ac i'r gynulleidfa liosocaf ar y ddaear am yn agos i ddeugain mlynedd, wedi cyhoeddi yn agos i gant o gyfrolau o lyfrau, yn cynnwys 37 o gyfrolau o bregethan, ac Esboniad helaethfawr ar lyfr y Psalman, wedi cymeryd gofal am sefydliadau pwysig yn y fath fodd fel y deuai pob dydd ato gyda'i bwn newydd,—y syndod yw iddo fyw cyhyd. Mae ei enw eto yn deffro adgof, ac yn cynhyrchu ysbrydoliaeth; ac yn yr ystyr olaf hwn, fe barhâ yn un o nerthoedd y dyfodol.

Beth sydd yn cyfrif am y dylanwad digyffelyb a ennillodd? Dyna y cwestiwn a ofynir gan lawer, ac y rhoddir atebion amrywiol iddo. Gadawer i ninnau, yn ein ffordd ein hunair, wneyd rhyw sylw arno. Yn sail i'r dylanwad hwn cawn liaws o elfennau. Meddai ar ddyndoliaeth o'r fath oreu, ac athrylith amryddawn nodedig. Berwai drosodd gan arabedd, fraethineb, a nwyfiant, a dygai yr elfennau hyn i'w bregethau. Yr oedd yn feiddgar hynod yn y pulpud; dywedai yr hyn a ddelai i'w feddwl, heb ofni gwng na chardota fafar. Defnyddiai gymhariaethau na feiddasai ereill wneyd, a throai hwy i'r pwrpas goreu. Unwaith anogai bregethwyr a gweithwyr Cristionogol i fyned yn uniongyrchol at y nôd; ac i ddangos hynny, adroddai fel y gwelsai ddyn cryf ar yr heol yn cludo berfa olwyn. "Mae yn ddiwrnod poeth iawn gyfaiil," meddai wrtho. "Ydyw," meddai hwnnw yn ol, "a chwi yw y dyn tebycaf welais i heddyw i roddi rhywbeth i mi i'w yfed." Elai hwnnw yn syth at ei nôd, ond fod ei nôd yn un gwael; felly anogai yntau Gristionogion i'w efelychn yn eu gwaith yn gwylio pob cyfle i gyrraedd yr amcan. Mewn pregeth ar Farweiddiad yr Anian Bechadurus yn y Credadyn, sylwai mor gyndyn oedd yr hen ddyn i farw, a dywedai ei fod ryw dro mewn rhanbarth iach ynghanol y wlad, yn siarad ag un o'r trigolion. Dywedai wrtho, "Mae'n debyg nad oes neb yn marw mewn ardal iach fel hon." "Wel, nid llawer," meddai y pentrefwr, y maent yn treio popeth arall yn gyntaf; dyna'r peth olaf a wnant i gyd." Felly, sylwai yntau, fod yr anian bechadurus yn cynnyg popeth cyn marw. Rhydd hyn drem i ni hefyd ar elfen arall yn ei bregethu, sef y modd y gwisgai bopeth â phriodoleddau bywyd. Personolai yr anian lygredig, ac edrychai arni fel anghenfil yn ymladd yn rheyrnas Satan. Ond hyn wrth fyned heibio. Wrth bregethu ar Ofal Rheaglun-iaethol y Llywydd Mawr, ac annog pawb i fwrw eu holl ofal arno Ef, adroddai am ddyn gyda baich ar ei gefn yn cael ei oddiweddyd ar y ffordd gan gerbyd. Cynhygiai y cerbydwr iddo ddod i mewn. Aeth y blinedig, ond parhai i ddal y baich ar ei gefn. Gofynai y cerbydwr ei reswm dros hynny. "O," meddai yntau, "nid wyf mor hyf a disgwyl

i chwi gario fy maich a minnau." "Wel," meddai y cerbydwr caredig, "yr wyf yn gwneyd, pa un bynnag a gymrwch chwi ef ar eich cefn ai peidio." Defnyddiai hanesion a chwedlau fel hyn, ond gwisgai y cyfan mor ddestlus, a gyrrai y gwirionedd adref mor effeithiol fel mai anfynych iawn y teimlid fod chwaeth dda yn cael ei bradychu. Ni chlywid byth bregeth ganddo heb rywbeth cyffelyb i'w bywiogi. Yn naturiol, cynhyrchai pethau o'r fath wên, os nad chwertuin weithiau; ond os felly, nid hir y byddai y dagrau heb ddilyn. Dichon mai y tebycaf iddo o'r un a adwaenom yn y cyfuniad o'r nwyfus a'r difrifol, i gynhyrchu yr heulwen a'r gawod, yw ein cydwladwr athrylithgar, y Dr. Herber Evans, anerchiad yr hwn ar adeg yr angladd yn y Tabernacl a effeithiodd mor ddwys ar y gwyddfodolion.

Awyddfryd ei enaid oedd pregeth y'r efengyl, ac ni foddlonai heb fod pob pregeth yn gwneyd ei gwaith yn effeithiol i ddenu rhyw enaid at Waredwr. "Oh," meddai, "boddlonwn fyned i unrhyw ysgol i ddysgu, pe gwyddwn y ffordd fwyaf llwyddiannus i bregethu yr efengyl, fel ag i beri i chwi deimlo." Wedi argyhoeddiad y chwerauwr enwog, Sheridan Knowles, a'i fedyddiad gan Dr. Brock, dewiswyd ef yn athraw mewn rheitheg yng ngholeg Stepney; ond un diwrnod gofynai Knowles i'r dosbarth, "A glywsoch chwi y bachgen o Gaergrawnt? Os naddo, ewch i'w wrando bob un; mae ei areithyddiaeth yn berffaith, a bydd ei gymeryd ef fel cynllun yn well nag unrhyw wers allaf fi roddi."

Wrth ddarlenn ei bregethau, cawn ynddynt ryw ddyhënd am achubiaeth eneidiau. Er ei fod yn gredwr diysgog mewn prynedigaeth neillduol, credai mewn galw pawb. "Credwn," meddai, "fod Iau Crist yn annherfynol mewn gwerth, a phe buasai Crist wedi arfaethu cadw pob un a aned o wraig, ni fuasai angen iddo ddiodeff un ing yn fwy, yr oedd digon yn ei Iawn, pe buasai wedi ewyllysio felly, i achub yr holl hil ddynol. Credwn hefyd fod, trwy farw Crist, wahoddiad gonest a chyffredinol yn cael ei roddi i bob creadur dan y nef, mewn geiriau fel hyn, Cred yn yr Arglwydd Iesu Grist, a chadwedig fyddi." Gwelir yn y dyfyniad uchod beth oedd rhan o greddo dduwinyddol Mr. Spurgeon, ond gwelir hefyd ei lwyrineb i'r gwaith o bregethu. Pan adroddai ein cyfaill, y Parch. D. Davies, Brighton, wrtho am y gweinidog Cymreig, yr hwn a hysbyswyd yn dyner gan ei feddyg mai prin y gallai bregethu mwy, a atebai, "Pulpud neu fedd i mi,"—"Dyna yn hollol fy nheimlad innau," meddai Mr. Spurgeon. O'r 37 o gyfrolau o'i bregethau, testyn y bregeth gyntaf yw Mat. iii. 6, "Anghyfnawidoldeb Duw;" a thestyn y bregeth ddaeth allan yr wythnos gyntaf ar ol ei farwolaeth, ac a ddiwygiwyd i'r wasg gan y pregethwr ei hun ychydig ddyddiau cyn ei farwolaeth, yw Act. xiii. 36, "Canys Dafydd, wedi gwasanaethu ei genhedlaeth ei hun trwy ewyllys Duw, a hunodd."

Byddai Mr. Spurgeon yr un modd yn ei areithiau. Mewn anerchiad yng nghylchwyll flynyddol y Feibl Gymdeithas, darluniai undeb y credinwyr â Christ fel peth mor sylweddol nes y gallai y credadyn siarad am bethau Crist fel ei bethau ei hunan. I egluro ei bwynt, dywedai am ryw arglwydd flynyddau yn ol, pan yr arferai gweision fod yn weision, yn cael ei ddioryu yn fawr yn y modd y siaradai ei hen was. Gofynai y meistr, "Pwy bia y cerbyd acw, John?" "O, ni, fy arglwydd." "Ond mae rhyw rai ynddo?" "O, ein plant ni ydynt, fy arglwydd," atebai John, &c. Y tro diweddar y bu yr ysgrifenydd yn ei wrando yn y Tabernacl, ychydig wythnosau cyn ei gymeryd yn wael o'i

glefyd diweddaf, dyrnodiai yn llym y pregethwyr nad oeddynt yn gwahaniaethu digon rhwng cyfiawnder ac anghyfiawnder, nac yn siarad yn ddigon clir ar bynciau hanfodol, a dywedai am ryw ddyn yn dweyd wrth weinidog neillduol, "Cyn i mi ddod i'ch gwranddo chwi, ni ofalwn am Dduw na diafol; ond wedi eich clywed chwi, yr wyf wedi dod i'w caru ill dau."

Meddai gyfoeth o lais cryf a pheraidd. Gallasai drwyddo roddi arddanghosiad effeithiol i bob teimlad o'i fewn. Ar adegau, byddai yn gryf fel taran nerthol, bryd arall yn dyner fel awel hwyrddydd haf; ond bob amser yn llawn o fwisg, fel llais cariad yn canu yn dda. Derbynnid cymaint o fwynhad wrth ei wrandaw, ac edrych o gyfeiriad dynol yn unig, ag wrth wrando ar un o brif feibion neu ferched cerdd. Dywedai Macaulay am Pit, y clywid ei sibrydiad hyd gyrion pellaf Ty y Cyffredin. Felly clywid sibrdw Mr. Spurgeon trwy adeilad ehangfawr y Tabernacl. Yn hyn nid oedd neb o'i deulu yn gyffelyb iddo. Teimlem wrth wrando yr eneinidig bregethwr, Henry Rees, a'i frawd amryddawn, Hiraethog, mai llais o'r un ansawdd oedd gan y ddau. Felly hefyd wrth wrando y ddau frawd, Dr. Owen Thomas, a Dr. John Thomas. Ond meddai gwrthrych ein sylwadau lais nodedig, nad oes gan ei dad na chan ei frawd, er eu bod eu dau yn bregethwyr rhagorol, ddim tebyg iddo. Ni chlywais erioed yr un o'r ddau fab, C. Spurgeon yr hwn sydd yn weinidog gyda'r Bedyddwyr yn Greenwich, a T. Spurgeon, yr hwn sydd yn New Zealand, ac felly ni allaf ddweyd am danynt hwy.

Meddai bersonoliaeth gref, ac ewyllys anhyblyg. Credai mewn gweithio ei hunan, ac yn ei ffordd ei hunan. Yr oedd yn arweinydd wrth natur, a thrwy ymarferiad. Gallai orchymyn trwy edrychiad, a chynhyrchu ufudd-dod trwy ysgogiad ei law. Ei ewyllys gref a'i unigoliaeth oeddynt ei nerth a'i wendid yr un pryd. Ni feddai ffydd mewn pwyllgor ar unrhyw fater; neu, "os rhaid ei gael," meddai, "ceisiwch bwyllgor o dri, un o'r cyfryw yn wael yn ei wely, arhosed y llall gartref, gan adael y trydydd i wneyd y gwaith." Rhydd ddarnodiad o bwyllgor yn ei gyfrol a elwir "Salt Cellars," sef detholiad o ddiaarbheion,— "Committee, a noun of multitude, signifying many, but not signifying much."

Yr oedd ei dduwiolfrydedd yn nodedig, ac yn gwisgo ffurf Buritan-aid a thra annibynnol. Gallasai fwynhau difyrrwch a chwareu cystal ag unrhyw un; ond nid peth anghyffredin fyddai ei weled yn syrthio ar ei liniau i offrymu gweddi fer yng nghanol yr ymddiddan neu y chwareu. Ac yr oedd yn nodedig fel gweddiwr, ac mor effeithiol fel y cyfryw gyda'i deulu yn Westwood, gyda chyfeillion ar fynyddoedd Scotland, ag yn y Gymanfa fawr. Fel pregethwr, fe geid ereill yn ei enwad ef ei hun ac ymysg enwadau ereill, a ellid gymharu ag ef, ac a ragorent arno mewn *rhai pethau*, er ei fod, a'i gymeryd ymhob peth, ar ben ei hun fel y cyfryw. O blith y Bedyddwyr yr oedd H. Stowell Brown yn rhagori arno mewn dwyn egwyddorion crefydd i ddyllanwadu ar y faelfa a'r gwaith; Dr. Stanford yn myned tuhwnt iddo mewn dychymyg sancteiddiedig a phur; Dr. Maclaren mewn gallu i dreiddio i mewn i galon craig dragwyddol yr Ysgrythyrau, a dwyn metelau gwerthfawr i'r wyneb; Dr. Glover mewn rhyw swyn cyfriniol; a Dr. Clifford yn helaethrwydd ei wybodaeth gyffredinol, ei ddysgeidiaeth, a'i nerth i gyffroi cynulleidfia i frwdfrydedd. Ac o fysg enwadau ereill, yr oedd Dr. Punshon yn fwy blodeuog a barddonol; Dr. Parker yn fwy areith-

yddol a disglær; H. Price Hughes yn fwy tanllyd; Canon Liddon yn fwy dwfn a grymus, yn gymaint felly fel y teimlech bron eich bod yn gwrandaw ar un o fynachod y canoloesoedd wedi adgyfodi. Yr wyf yn nodi yn unig y rhai y bum fy huan yn eu gwrandaw, a'r argraff ar fy meddwl; ond ni chlywais neb erioed y buaswn yn ei ystyried yn myned tuhwnt i weinidog y Tabernacl yn ei rym gwirioneddol pan yn siarad â'i Dad nefol, nac yn wir neb i'w gymharu ag ef yn hyn. A siarad y byddai, yn y modd mwyaf cartrefol, eto dirodres, ac yn berffaith rydd oddiwrth hyfdra annaturiol. Yr ydym yn sangu ar dir cysegredig; ond pwy bynnag na chlywodd Mr. Spurgeon yn gweddio, a gollodd fraint na cheir mo honi yn fynych ar ein daear ni. Teimlech eich bod yn ei gwmni yn dringo i'r mynydd sanctaidd, a bod

Gwlith y nefoedd ar y profiad, adsain hyder yn yr iaith.

Yr oedd y dylanwad personol, yr ad-dyniad greddfol, y magnetiaeth byw ynddo i raddau helaeth iawn. Pwy bynag ddelai o fewn cylch y dylanwad personol hwn, ni ollyngid, ond tynnid ef at y canolbwynt, fel y tynnir deilen gan y llyn tro ar y Ddyfrdwy. Beth sydd yn cyfansoddi yr ad-dyniad personol hwn? Ai athrylith? Nage, ceir plant athrylith yn fynych yn amddifad ohono, a braidd yn wrth-yrriadol, fel Thomas Carlyle. Ai duwioldeb? Nage, ceir rhai dynion o gymeriad uwchlaw amheuaeth, ac o deimladau duwiolfrydig, yn sur a sarug, ys dywedai y diweddar Cynddelw, fel pe na thyfasai unrhyw lysiau ar fynydd Seion ond chwerwlys yr eithin. Beth ydyw ynte? Ai ysbryd hunan-aberthol sy'n gryfach mewn rhai, a hwnnw yn bwrlymu i fyny i'r wyneb, yn chwareu yn y llygad, yn tonni yn y llais, yn treiddio trwy'r ymddygiad, ac yn penderfynu sigliad y llaw? Mae yn anhawdd dweyd beth ydyw yn hollol, ond rhyw gydymdeimlad ydyw mewn rhai dynion sydd yn peri i chwi nesu atynt. Dichon mai cyfuniad o amryw ragoriaethau ydyw, fel priodas y lliwiau yn yr enfys, fel y mae yr effaith yn fendigedig. Mae yn sicr fod a fynno rhywbeth sydd yng nghalon dyn ág ef. Cariad sydd yn denu cariad, a dyddordeb sydd yn cynyrchu dyddordeb. Nid yw yr hwn sydd yn hunan-ddigonol byth yn arall-ddigonol. Yr oedd gan Mr Spurgeon, fel y dywedai Dr Parker, galon fawr iawn,—“*immense heart.*”

Rhaid i ni dynnu ein hysgrif i derfyniad, er na fynegwyd ond ychydig o ragoriaethau y dyn mawr hwn. Gofod a ballai i ddarlunio ei lafur o blaid llwyrwmwrthodiad, ei elusengarwch diarhebol, ei arferion personol, ei ragoriaethau fel priod a thad, ei ofal am ei eglwys, a'i serch at y plant bach amddifaid yn Stockwell, &c. Gofynir yn fynych, pwy a geir yr un fath ag ef i lanw ei le? Neb. Un cymeriad nodedig fel hyn a geir: un Luther, un Calvin, un Whitfield, un Wesley, un Bunyan, un John Penri, un Hall, un Howell Harris, un Daniel Rowland. Er yr holl gylchoedd y disgleiriai Mr. Spurgeon ynddynt, fel pregethwr y rhagorai yn ddirfawr, a gwnaeth ei ran i ddyrchafu delwedd y pulpud yn Lloegr, ac i beri gwelliant cyffredinol. Cwynai rhywun tua dechreu ei weinidogaeth ef yn Llundain, os oedd pregethwr y dydd yn codi y groes i fyny, ei bod yn wisgedig â'r fath gyflawnder o flodeu fel mai prin y gallai pechadur truan ei gweled. Ond danghosodd Mr. Spurgeon fod yn bosibl ennill sylw y miloedd trwy ddangos croes Crist yn ei sylwedd a'i grym, a dylanwadu i fywyd drwy ddal i draethu ar golledigaeth dyn trwy bechod, a'i gadwedigaeth drwy ddwyfol ras.

Enillodd filoedd lawer at y Ceidwad yn ei fywyd, a phery i'w hennill trwy ei eiriau wedi marw. Ond dichon mai angen mawr y dyfodol agos yw dyn mawr mewn cyfeiriad arall; ysgolhaig trwyadl, duwinydd dyfnddysg, ac eto yn caru y gwirionedd yn fwy na i enaid ei hun. Yn y dyddiau rhyfedd hyn o ysgwyd a chynhyrfu, o edrych cadernid y sylfeini, pan y ceir ysgolheigicn a gwyddonwyr, lawer o honynt, yn ceisio dwyn y trysorau gwerthfawrocaf oddiarnom, y mae angen am un a all gyfarfod â'r ymosodwyr ar ein crefydd heb ofni cael ei drechu yn yr ymgyrch, un a all ennill dynion ieuane meddylgar i'r ffydd. Wynebwn y dyfodol yn hyderus, gan greu y codir eto gewri nerthol o blaid y gwirionedd, ac na raid i ni ofni am dynged y Beibl. "Gair ein Duw ni a saif byth."

Corwen.

H. CERNYW WILLIAMS.

YMWELIAD A LLYDAW, &c.

II.

WRTH agoshau at borthladd St. Heliers, gwelem o'n blaen Gastell Elizabeth. Ar ran isaf yr ynys lle y safai, y mae cell yr hen feudwy crefyddol, St. Heliers, oddiwrth yr hwn y derbyniodd y dref ei henw. Y mae'r gell wedi ei chloddio mewn craig, yn gyffelyb i'r eiddo Robert Bruce yn Hawtherden, ond yn llawer llai ei maintioli. Bu yr hen feudwy druan yn y fangre hon am bum mlynedd, yn cosbi ei gorff ac yn ei ddwyn yn gaeth, a diau yr aethai trwy gyffelyb benydiau ac arteithiau corfforol yn llawer hwy oni buasai i un o'r haid ladronllyd, y Daniaid duon, â dyrnod ei fwyall gymeryd ymaith ei ben, heb reswm nac esgus, ond nas gallent oddef ei gynghorion a'i geryddon am eu hysbeiliadau a'u llofruddiaethau, megys y gwnaeth Herod ag Ioan Fedyddiwr.

Priodolir efengyleiddiad Jersey a'r ynysodd cylchynol i St. Heliers anffodus, ac ymdrechion cenhadol gwr o'r enw Samson, a ymfudodd i'r ynys yn y chweched ganrif. Nid ydyw'n wybyddus i mi fod neb wedi cael allan i foddlonrwydd pa un ai brodor o Gymru ynte o Gernyw oedd Samson, ac nid yw o bwys mawr, gan fod trigolion y naill wlad a'r llall o'r un cyff Celtaidd. Pa fodd bynnag fe'n hysbysir i'r ynys gael ei chyflwyno i'w ofal a'i arolygiaeth gan Childebert, un o ddisgynyddion yr hen frenin Clovis. Wrth sylwi a meddwl am ragoriaeth sefyllfa foesol a chrefyddol pobl Jersey a Guernsey y dyddiau presennol ar yr hyn ydoedd ganrifoedd yn ol, a chofio fod hynny wedi ei ddwyn oddi-amgylch trwy lafur ac ymdrechion eu hynafiaid, teimlem fod eu rhwymedigaeth i'r Arglwydd yn fawr, a pharod oeddym i'w cyfarch yng ngeiriau y proffwyd Esaiiah: "Cyfod, llewyrcha, canys daeth dy oleuni, a chyfododd gogoniant yr Arglwydd arnat, fel y byddo i'r cenhedloedd" ofergoelus cylchynol "rodio at dy oleuni." Wrth gymeryd cipdrem ar yr eglwysi a'r capelydd, tybiem fod o'r hyn lleiaf saith o bob deg o'r trigolion yn Brotestaniaid, a hanner y rhai hynny yn Ymneillduwyr. Hyderwn y saif yr ynyswyr ddyddiau y ddaear yn y rhyddid â'r hwn y rhyddhaodd Crist hwynt, fel na ddalier hwy drachefn dan iau caethiwed Pabyddiaeth.

Buasai'n hyfrydwch gennym frasgamu dros hanes y cyn-frodorion o ddyddiau'r Derwyddon, y Rhufeiniaid, y Normaniaid, y Sacsoniaid a'r Tuduriaid, hyd ein hamser ni, yn gystal a rhoddi braslinelliad o'u ffurflwyodraeth, ansawdd y tir, eu sefydliadau, a'u hynafiaethau, yn enwedig yr hyn sydd yn dal cysylltiad â Chymru; ond ni chawn hamdden gan y rhaid i ni hwylio yn ddi-ymaros am Lydaw.

Gwnaethom hynny ar brydnawn y 17eg o Medi. Yr oeddym bellach a'n hwynebaw ar y wlad ag yr oeddym er yn ieuainc gannoedd o weithiau wedi dymuno yn fawr ei gweled. Cynhyrchwyd y dyhead hwn ynom drwy ddarllen hanes cenadaethau y Bedyddwyr a'r eiddo y Methodistiaid Calfaidd, ac yn neillduol hanes ymweliadau y diweddar Barchedigion Henry Rees, Dr. Phillips, Dr Edwards o'r Bala, ac ereill, â'r wlad.

Cyraeddasom St. Malo, yn nhalaeth Ile-et-Vilaine, erbyn wyth o'r gloch. Yn hytrach na chymeryd hamdden fel yn St. Heliers, a gadael i genhedloedd ereill ein rhagflaenu, gwnaethom am y lan, a'n celfi gyda ni, gan gofio yr hen ddihareb, "Y cyntaf i'r felin gaiff falu." Yr oedd swyddogion y llywodraeth yn barod wrth y dollfa i archwilio ein paciau; aethom drwy'r oruchwyliaeth hon lawer yn gyflymach nag yr ofnem, a hynny am na chaed yn ein mysg un yn dwyn gydag ef eiddo tolladwy yn Ffrainc. Addefwn i ni yn ein gwendid bryderu yn yr rhag-olwg ar y prawf hwn, gan i ni glywed a darllen o dro i dro lawer o achwyn a rhempio ar y dosbarth yma o swyddogion. Yr ydym ni ar ol y profion a gawsom yn Llydaw, Belgium, a Harwich, yn ystod y daith hon, yn argyhoeddedig fod yr achos o'r anhwyldeb yn llawer mlynachach wrth ddrws y teithwyr na'r swyddogion, canys gwelsof rai dilynwyr i Achan yn dyfod i helbul am ddarn-guddio eiddo tolladwy.

Wedi yr oruchwyliaeth ymchwiliadol uchod, cawsom ein gwala o swm a baldordd y rhai a fynnent gludo ein celfi i'r ddinas. Gydag anhawstra mawr y cawsom wared o honynt, oblegid anallu yr aelod bychan a'n gwasanaethai yn lled ffyddlon gartref, i barablu y gymysgfa o Ffrancaeg, Normaneg, a Brythoneg—tafodiaith y rhanbarth yma o Lydaw. Arferasom arwyddion ac ystumiau corfforol, a defnyddiem y penelin a'r llaw wedi ei chau, ychydig yn fwy nag arferol, nes llwyddo i wneyd ein ffordd i gerbyd y "Grande Hotel-de-France." Deallasom drannoeth i ni letya yn y gwesty oedd wedi ei adeiladu ar y llecyn y safai tŷ Chateaubriand, un o'r gwyr mwyaf athrylithgar a fagwyd yn Llydaw, serch mai ynddi y magwyd Emile Souvestre, Lammais, Renan Le Gonidec Brizeux, ac ereill. Buasem ond odid, pe gwybuasem y ffaith uchod y noswaith flaenorol, wedi breuddwydio a dychmygu ein bod yn deffro ac yn cyfodi yn feirdd wrth fraint a defawd beirdd Ynys Prydain Fechan, os nad Prydain Fawr, fel y dywedid y digwyddai i'r neb a gysgai am noson yng ngwely Ceridwen yn yr oesoedd gynt.

Synnem weled mor anhawdd oedd dyfod o hyd i un allai siarad y Frythoneg yma ac yn y trefydd cyfagos. Argyhoeddid ni wrth hynny o ddoethineb y cam a gymerodd y Parch. James Williams, trwy adael Sant Servau a Pontivy, a sefydlu yr orsaf genhadol ym mhrif dref Finesterre, lle mae'r Frythoneg yn cael ei siarad yn llawer mwy cyffredinol. Derbyniodd St. Malo ei henw oddiwrth hen frodor o Forgannwg, o'r enw Maclovius, neu Maclove, a ymfudodd i Lydaw—neu Armorica fel ei gelwid y pryd hwnnw,—gydag ereill, yn y chweched ganrif. Tariodd ar y cyntaf yn Sant Servau, yr ochr arall i'r afon Rance o St. Malo; ond wedi ei benodi yn Esgob, symudodd i'r ddinas

olaf a nodwyd, yr hon sydd wedi ei hadeiladu ar ynys Aron. Nid oes odid lecyn ar yr ynys nad ydyw wedi cael adeiladu arno. Amgylchynir hi gan gaerau uchel a llydain, ar ben y rhai y mae rhodfa ysbelydd, oddiar yr hon y ceir golwg ar St. Michael, Dinard, Grand Bey, a Normandi. Y mae ar y cwr gorllewinol gastell eang a chadarn. Yn yr llyn y lletyir ac yr addysgir y milwyr. Yr oedd nifer llosgo o honynt yno adeg ein hymweliad. Y mae'r holl drefydd mawrion a chaerog yn Llydaw yn cael eu beichio â nifer mawr o'r milwyr, y rhai nid rdynt i'w cymharu â'n milwyr rheolaidd ni yn y deyrnas hon o ran llunioidd-dra eu cyrff na chwimer eu hysgogiadau. Mae y nifer fwyaf o honynt yn fyr eu corffolaeth, ac afrosgo eu symudiadau. Gallasem feddwl wrth edrych arnynt mai gwaith hawdd fuasai i dri chant o'r milwyr Prydeinig yrru tair mil o honynt ar fô. Ond nid wrth ei phig y mae prynnu cyfflog. Y mae'r milwr Llydawaidd yn wrthwynebydd anhawdd cael y trecha arno.

Pan ddeallasom fod cyfraith filwrol Ffrainc yn gorfodi pob gwr ieuanc, tlawd a chyfoethog, i ymuno â'r fyddin a mynd dan addysgiaeth filwrol am dair blynedd, nid oeddym yn rhyfeddu cymaint at ei hanwastadrwydd. Y mae'r gyfraith uchod yn infantais fawr i'r cenhadon gario eu gwaith ymlaen, oblegid pan enillir gwr ieuanc i goffeidio Prototaniaeth, y mae, yn yr oedran sydd mor agored i dderbyn argraffiadau, yn gorfod gadael ei gartref a gofal bugeiliol y cenhadwr, ac ymgymysgu â Phabyddion ofergoelus, a lliaws o wawdwy'r ac amheuwy'r, yr hyn sydd i wr ieuanc yn groes drom ac anhawdd ei dwyn. Mae'n dda goenym er hynny allu dwyn tystiolaeth i sefydlogrwydd a fydldondeb rhai o'r dychweledigion. Mae rhai o honynt yn cyflawni yr un gwasunath yn y fyddin ag a wnaeth Aristobulus yn llys rhieni (Claudia).

Cyfarfuom â dau o'r cyfryw y noswaith gyntaf yr aethom i Quimper yn nhy y Paroh. W. Jenkin Jones, y rhai oedd dan orfod i ail ymuno â'n cadrodau boreu drannoeth. Yr oeddynt yn wyr ieuanc gwybodus a chrefyddol iawn. Ar ol swper ac ymddiddan ychydig, darlennodd Mr. Wheldon rannau o'r Ysgrhythrau a gweddiodd, gan eu cyflwyno i ras ac amddiffyn yr Arglwydd. Dylem grybwyll ddarfod i ni cyn ymadael o St. Malo, fyned dros yr afon Rance i Dinard, tref fechan brydferth, ar fryn tua 100 troedfedd uwchlaw'r afon a'r mor. Hon, mae'n ymddangos, ydyw Llandudno y Ffrancwr. Wedi dychwelyd, aethom i weled "ynys y bodd," y fan lle mae gweddillion Chateaubriand wedi eu claddu mewn craig ithfaen uwchben y mor. Er nad oedd yno bererinion yn ymweled â'r bodd pan oeddym yno, hysbysid ni y gwneid pererindodau yn fynych i ymweled â'r lle. Cydnabyddir ef fel eu sant gan rai o'r werin-bobl.

Gadawsom St. Malo y prydawn am Dinan,—Dunant, meddai un gwr a ymwelodd â Llydaw; Dinan, difai, *without defect*, meddai Dr. Tregelles. Wrth fyned pasiem dref y mae llawer o hanes yn perthyn iddi, y Ddôl, poblogaeth yr hon sydd o bedair i bum mil. Yma yr ymsefydlodd Sant Samson am rai blynyddoedd, wedi iddo ef, Teilo, ac ereill, o Ddeheudir Cymru ymfudo yn adeg y pla dinystrïol a elwid y "Fâd Felen." Yr oedd Samson yn or-wyr i'r brenin Emyr o Lydaw, neu Armorica, ac yn berthynas agos i Sant Iltyd, gorrwyr Sant Garmon, a ddaeth drosodd i Gymru ac a sefydlodd Goleg Llanilltyd Fawr, ym Morgannwg, i wrthweithio, ond odid, gyfeiliornadau Pelagius, ac i addysgu ein cyndadau yn athrawiaethau

Cristionogaeth. Yr adeg yr arhosai Samson yn y Ddôl, cynhaliwyd Cyngor Paris, yn 557, a chymerodd yntau ran ffaenllaw yng ngweithred- iadau y Cyngor, yn neillduol y ddadl yn erbyn ymyriad y Pab a'r llywodraethwyr tymborol o bob gradd gyda gosod a sefydlu esgobion ac archesgobion yn y wlad, gan haeru yn gryf mai hawlfraint yr eglwysi ydoedd. Mae'n ddiameu ei fod ef yn wr o ddylanwad ac awdurdod mawr yn yr eglwys ar y pryd, cyn y cawsai gymeryd ei le mewn Cynghorfa o'r fath. Dywedir iddo gymeryd gydag ef yr Arwydd Esgobol o Gymru yr hwn a elwir gan yr awdurdodau eglwysig y *Pallium*, ac oblegid hynny nad oedd dan warogaeth i'r Pab, a chyfeirir at hyn gan Giraldus Cambrensis yn ei ymrafael â'r Pab, pan y gwrthodai fyned dan warogaeth ac awdurdod archesgobion Caergaint, trwy ddadleu fod cynifer a phump ar hugain o esgobion Llandaf wedi bod yn gweithredu yn annibynnol ar y Pab a Chaergaint, hyd amser Samson. Ymddengys i ni yn dra naturiol fod y pwnc uchod yn llawn cymaint o destyn dadl rhwng Awstin Fynach ac Esgobion yr hen Eglwys Gymreig ag ydoedd y Pasg a bedydd. Er mwyn y ffarmwr dylem grybwyll mai o St. Malo i'r Ddôl yr oedd y darn brasaf a mwyaf ffrwythlawn a welsom o'r rhannau yr aethom drwyddynt yn nhalaethau Cutes du Nord, Finesterre, a Morbihau.

Dinas gaerog ydyw Dinan, a chastell cadarn ar un ran o'i mur, fel St. Malo. Yma yr oedd y Dduces Ann o Lydaw yn trigiannu, yr olaf o'r teulu brenhinol, a gwraig y brenin Charles VIII. Y mae rhan o'r hen ddinas, a'r oll o'r darn diweddaraf o honi ar wastadedd o tua 300 troedfedd uwchlaw'r afon Rance. Yn ddiweddar adeiladwyd pont, Viaduct, wech drosti, yr hon sydd yn agos i hanner milldir o hyd, a thros 200 troedfedd o uchder, fel y mae yn bresennol dramwyfa o'r naill ochr i'r llall i'r dyffryn prydferth islaw. Boreu Saboth, am wyth o'r gloch, cyfeiriasom ein camrau i'r offeren yn yr eglwys, lle'r oedd cannoedd o bobl y wlad a'r ddinas yn adrodd eu paderau ac yn cyffesu eu pechodau i'r offeiriad. Ar ol myned trwy eu defosiynau, aent allan ar eu cyfer i'r farchnad a gynhelid heb fod yn nepell oddiwrth borth yr eglwys, i brynnu a gwerthu, fel y gwnaent ar ddydd gwaith. Golygfa bruddaidd i ni, wedi ein magu ar fronnau yr Ysgol Sabothol, oedd gweled y trueiniaid hyn, un foment yn dra defosiynol a chrefyddol yn nhy yr Arglwydd, a'r foment nesaf yn ymollwng i fasnachu a gloddesta yn y tafarndai. Am ddeg o'r gloch aethom yn ol i St. Malo-de-Dinan. Yr oedd yr adeilad eang a gorwyh wedi ei llanw gan wyr, gwragedd, a phlant, y rhai a ymddanghosent yn llawn o ysbryd addoli. Ni ddaeth i'n rhan o'r blaen fod yn llygad dyst o'r fath wychder allanol mewn addoliad crefyddol; yr oedd y gwisgoedd a'r addurniadau a'r canu yn peri i ni feddwl am deml Solomcn, a gresynem na buasai yn cael ei llanw â'r un gogoniant dwyfol ag oedd yn honno ar adeg ei hgoriad.

Yn y prydnewn yr oedd miloedd o'r dinaswyr a phobl y wlad yn mwynhau eu hunain wrth rodianna ar hyd Boulevard helaeth ar gyfer ein gwesty, yn cael eu difyrru gan y seindorf oedd ar esgynlawr ynghanol yr ysgwâr, yn chwareu eu halawon cenedlaethol. Yn y ddinas hon y magwyd ag y dygwyd i fyny y gwr athrylithgar hwnnw, Gweskelin, neu Gwesklen. Mae'n ddiaddad na chyfododd yn Llydaw, nac unrhyw wlad arall, neb galluocach i amddiffyn cestyll a threfydd caerog ei wlad, yn gystal ac i ddinystrio eiddo y gelynion, er ei fod wedi hanu o deulu tlawd, ac iddo dyfu i oedran gwr heb fedru darllen

nac ysgrifennu. Yr ydoedd mewn gwirionedd yn arwr mwyaf ei wlad yn y bedwaredd ganrif ar ddeg, hyd nes yr ymunodd i ymladd o blaid Charles-de-Blois, yn erbyn un o Dduciaid ei wlad,—De Montford, mab yr arwres Jeanne-de-Montford; o'r adeg yma machludodd haul ei boblogrwydd, a bu farw, ym marn ei gydgenedl, fel bradychwr ei wlad; ond yn y ganrif ddilynol, cyfododd goleuni ar ei amcanion a'i weithred-iadau a gyfnewidiodd farn a syniadau ei wlad am dano, ac edmygir ef o hynny hyd yn bresennol fel amddiffynnwr glewaf ei hen wlad o'r holl feibion a fagodd, ac y mae cofgolofn hardd wedi ei chodi er coffadwriaeth am dano yn ei ddinas ei hun, a'i galon yn cael ei chadw yn un o eglwysi Dinan.

Boreu Llun ymadawsom am Brest, gan fyned trwy Laenbella, pentref bychan a dinod, oddieithr am weddillion y Castell a'r Eglwys, y rhai sydd yn cario yr hynafieithydd yn ol i ddyddiau Count Penthierve a Cardinal Richelieu, gan godi cwr y llen oddiar ymrafaelion y gwyr lleyg a llen yn Llydaw, fel yn ein gwlad ninnau. Oddiyno llogasom gerbyd i Sant Brieux (Brioc), prif dref talaeth Côtes-du-Nord. Aeth Brioc i Lydaw tua'r un adeg â Samson a Theilo, o'r wlad hon, sef adeg y pla y cyfeiriasom ato, a gwnaeth ef yno yr un gwasanaeth ag a wnaeth St. Iltyd i Gymru trwy sefydlu Coleg i addysgu y Brythoniaid, ac ymddengys fod y ddinas yn cadw ar y blaen hyd heddyw yn ei chysylltiad a llenyddiaeth Frythonig. Anhawdd cael storfa o lyfrau yn iaith y Brython nes y deuir i Brieux.

Aethom oddiyno drachefn tua Brest, y dref yn yr hon y mae prif weithfeydd y Llywodraeth mewn cysylltiad â'r fyddin a'r llynges. Wrth fyned iddi, yr oeddym yn myned trwy, neu yn hytrach uwchlaw Morlaix, ar hyd Viaduct anferth ei maint. Bwriadem ar y cyntaf dreulio ychydig amser yno i ymweled â Mr. Jenkins, cenhadwr y Bedyddwyr, ond nid oedd amgylchiadau rhan o'r cwmni yn fforddio yr hyfrydwch hwn i ni. Sefydlwyd y genhadaeth hon yn y flwyddyn 1821, pan yr ordeiniwyd y diweddar Barch. William Rogers mewn cyfarfod yng Nghasnewydd i'r gwaith cenhadol. Bu dri diwrnod yn cyrraedd Jersey, a 13 diwrnod drachefn cyn cyrraedd Morlaix. O herwydd rhyw resymau anhysbys i ni, dewisodd wneyd ei arhosiad yn Roscoff, ac mae'n ymddangos iddo lwfrhau gyda'r gwaith mawr yr anfonwyd ef allan i'w wneuthur a gadael y maes, gan ddychwelyd yn ol i'w hen wlad. Ond profodd yr enwad parchus a'i hanfonasai allan nerth eu ffydd yn addewidion yr Arglwydd, ac heb laesu dwylaw ac ymollwng, er mor dywyll yr ymddanghosai y rhagolygon, anfonasant allan wr o'r un ysbryd penderfynol â hwythau, y diweddar Barch. John Jenkins, yr hwn y mae ei goffadwriaeth yn fendigedig hyd heddyw yn ei wlad fab-wysiedig, yn gystal ag mewn cylch helaethach o'r eglwys Gristionogol. Daeth efe i deimlo yn fuan mai angen mawr Llydaw oedd addysg, ac nad oedd nemawr obaith llwyddiant heb gael moddion i ddysgu y bobl i ddarllen, a thrwy hynny eu galluogi i farnu drostynt eu hunain yn annibynnol ar yr offeiriaid Pabaidd, canys tra y cedwid hwynt mewn anwybodaeth o air Duw, &c., nid oedd ond gwaith hawdd eu cadw yn llyftheiriaid tynion ofergeoledd, megys ag yr oedd yng Nghymru cyn dyddiau Salesbury, Dr. Morgan, ac yn neillduol y Parchedigion Griffith Jones, Llanddowror, a Thomas Charles, o'r Bala. Ymasfodd Mr. Jenkins yn y gorchwyl o sefydlu ysgolion dyddiol a Sabothol yn ddiatreg, pregethu ac ymweled â'r trigolion yn eu cartrefi, ac yn goron ar ei holl

lafur, diwygiodd gyfieithiad Le Gonidec o'r Testament Newydd i'r Frythoneg, ac mewn cysylltiad â'r cynhorthwy a estynwyd-iddo gan Carnhuanawc, a'r Parch. Dr. David Jones, o Goleg Lady Huntington yn Cheshunt, cafodd gan Gymdeithas y Beiblau ei gyhoeddi. Mor debyg, onidê, oedd yr amgylchiadau gyda chario'r gwaith hwn ymlaen i'r hyn ydoedd ar y dechreuad yng Nghymru. Yr oedd yr un diffygion yng nghyfieithiad Le Gonidec i'r Frythoneg, ag oedd yn yr eiddo William Salesbury i'r Gymraeg, cyn i Dr. Morgan a Dr. Parry ei ddiwygio. Bu Le Gonidec o ddirfawr wasanaeth i'w genedl trwy gyhoeddi geiriadur a gramadeg, megys ag y bu Salesbury, Dr. Griffith Roberts, o Milan, ac ereill, ganrifodd yn ol i Gymru. Y mae yr hun a wnaeth Le Gonidec, Pascal, Dr. Griffith Roberts, ac ereill yn profi eu bod yn wladgarwyr diledryw, ac fod yn bosibl i un feddiannu bywyd ysbrydol yng nghanol llawer o amherffeithrwydd a chyfeiliornad yn yr athrawiaethau a broffesir ganddo. Y mae Mr. Jenkins, y cenhadwr presennol, yn gweithio yn rhagorol ac ar yr un llinellau â'i ddiweddar dad. Y mae yntau, fel ei ragflaenydd, yn cael teimlo oddiwrth lid a malais y Babaeth mewn amryw ffyrdd. Un o'r rhai hynny ydyw cymeryd dalen o gynllun y Gwyddelod a *boycotio* y dychweledigion. Gwnaed hynny ag un o'r dynion goreu yn ei eglwys. Gwnauthurwr rhaffau ydyw, ond gwaredwyd ef rhag colled; a mwy na hynny, trwy i frawd Mr. Jerkins godi gwaith newydd a'i osod ef yn arolygwr arno; ac y mae y gwaith hwnnw yn llwyddo yn llawer mwy na'r un y bu raid iddo ei adael.

Ar ol troi megys o'r ffordd i draethu ar waith y genhadaeth, caniatâer i ni droi yn ol a hysbysu'r darlennnydd ein bod wrth deithio i St. Brieux yn pasio tref Roscoff, gwlad y cloron, y wynwyn, a'r garlleg. Llenwir yr awyrgylch am bellder o ffordd gan arogl y ddau lysieuyn olaf. Yn agos i Roscoff y llwyddodd y llynghesydd De Villegaignon, er pob ymdrech o eiddo llynges Prydain i'w atal, i lanio yr anffodus Mari, brenhines Scotland ar ol hynny, i'w dyweddio â'r Dauphin, wedi hynny Francis yr Ail, er nad oedd y Dywysoges ar y pryd ond pump oed. Mae traddodiad yn aros fod ol ei throed i'w weled, er yn aneglur, ar graig gerllaw, ac nid yw y chwedl hon yn llawer, os dim mwy anhygoel na'r chwedl am "Risïau Mair" ar ochr Uwchymynydd ar gyfer yr Ynys Enlli. Heb fod ymhell y mae St. Pol-de-Leon, lle mae eglwys anarferol ei maint wedi ei hadeiladu. Mesura 263 troedfedd o hyd, wrth 260 troedfedd o led. Mae'n ddiddadl mai Cymro oedd y Sant Paul hwn, wedi myned drosodd o Goleg St. Iltyd, gyda'r fintai a grybwyllwyd gennym eisoes. Ymddengys iddo ennill poblogrwydd mawr, a rhoddwyd gwaddoliad tir iddo gan Childebert, y soniasom am dano ynglyn â Jersey, ar yr hwn yr adeiladodd fynachdy helaeth, a bu yn alluog i gasglu cyfoeth anferth, am yr hwn y bu Ffrainc a Normandi yn ymgiprys ac yn ymladd. Meddai Paul, druan, y ddawn wyrthiol, fel esgobion ac archesgobion Beda yn Lloegr tua'r un adeg. Coffeir iddo waredu y wlad oddiwrth sarff danllyd, trwy dafu rhan o'i wisg am ei phen a'i gorchymyn i fwrw ei hun i'r mor, fel moch Gadara, —gyda'r gwahaniaeth fod y Gadereniaid yn grwgnach am eu colled, a'r lleill yn llawenyachu. Gelwir y llecyn yn *Toul ar Serpent*, Tull y Sarff. Mae traddodiadau cyffelyb mewn cysylltiad â'r eglwysi trwy'r wlad; a'r hyn sydd yn taro un yn hynod yw bod y Seintiau a adgyfododd rai o feirw oll wedi adgyfodi pump. Barna un ysgrifenydd fod hyn yn cyfodi oddiwrth y ffaith mai am bump y coffeir yn y Testament Newydd wedi

eu codi o feirw. Yn agos i Trequier y mae Eglwys *St. Jean-du-Doigh*, Ioan Fedyddiwr; yn yr hon y cedwir, fel crair, fys blaen yr hen Fedyddiwr, mewn blwch aur; ac y mae yno ffynnon, dyfroedd yr hon sydd yn ddigon rhinweddol i iachau pob un a ymylch ynddi, o ba glefyd bynnag fo arno. Adgofia hon ni o ffynhonnau Gwenffrewi, *St. Eilian, &c.*, y rhai yr ymwelid a hwynt gan Gymry a Gwyddelod yn nechreu'r ganrif hon, a chan rai hyd heddyw.

Yng nghyfeiriad Landerneau y mae Folgoet, Coed y Ffwl; lle y trigai yn y 15fed ganrif wr ieuanc hurt (*idiot*), o'r enw Salaun (Solomon), yr hwn a fu farw pan yn 40ain oed, ac a gladdwyd gerllaw ffynnon o'r hon y torrai ei syched. Ymhen ennyd wedi ei farw, canfu llygaid craff yr offeiriad Pabaidd lili wen brydferth, yn tyfu ar ei fedd, ac ar ei dail mewn llythyrennau euraidd, y geiriau "Ave Maria," y rhai a barablid yn fynych gan y trancedig; cloddiasant ut ei gwraidd, pryd y cawsant ei bod yn tarddu o enau "Salaun;" a'r un adeg, daethant i wybod fod rhinwedd yn nyfroedd y ffynnon i iachau clefydau, yr hyn ar unwaith a agorodd ddrws gobaith i gael pererinion i ymwled â'r lle, ac ni siomwyd yr offeiriad cyfrwys am ychwanegiad at eu cyllid.

Aethom oddiyno trwy Chateulin i Quimper,—Kemper, yn iaith y Llydawr,—yr hyn a olyga uniad yr afonydd Stheir a'r Odet, sydd yn rhedeg trwy'r ddinas. Ganrifoedd yn ol Kemper oedd prif-ddinas y rhanbarth o Lydaw oedd yn mynd dan yr enw Cournouaille, ac y mae yn bresennol yn brif-ddinas talaeth Finesterre. Cynhwysa tua 15,000 o drigolion. Y mae yn un o'r dinasoedd harddaf a glanaf yn Llydaw, ond nid yw hynny yn dweyd llawer. Y mae'r Eglwys Gadeiriol ynddi yn adeilad gwych ac eang iawn; ystyrir ei phinaclau, y rhai sydd tua 250 o uchder, y rhai gwychaf yn Ffrainc. Y mae ynglyn â hon chwedlau a thraddodiadau lawer am wyrthiau wedi eu cyflawni, o ddyddiau yr hen *St. Corentin* hyd ein dyddiau ni. Gwelsom ynddi amryw greiriau, ac yn eu mysg goesau, traed, a breichiau wedi eu hiachau yn wyrthiol trwy y *Santes Ann*. Ar gyfer yr Eglwys y mae Capel Cenhadaeth y Methodistiaid, a thy wrth ei ochr, wedi ei hadeiladu gan y *Parch. James Williams*, yr hwn a symudodd yno i fyw yn 1844. Llafuriodd efe yn egniol a ffyddlon, a thrwy anhawsterau fuasai yn ddigon i wan-galoni dynion cyffredin. Cyfodai ei anhawsterau oddiwrth gyfreithiau'r wlad yn fynych, ac yn llawer mynychach oddiwrth falais a llid yr offeiriad Pabaidd. Pan lwyddai i werthu traethodau neu Feibla, deuai yr offeiriad i wybod, a bygythient fyned â'r cyfryw ymaith a'u cau i fyny yn y gwallgofdai. Cyhoeddodd *Lyfr Hymnau*, a Thraethodyn mewn atebiad i *lyfr a ysgrifenywyd* gan un o lenorion galluocaf Llydaw, *Le Villemarque*, yn yr hwn y difriai *Brydain a'i Christianogaeth Brotestanaidd*; a dywedir gan farnwyr cymwys i farnu ddarof i'r hen genhadwr calon-agored o *Sir Gaerfyrddin* gael y trechaf o ddigon ar y gwr mawr.

Y mae ffrwyth ei lafur ef a'i ddiweddar briod yn y wlad i'w weled yn anlwg hyd heddyw, ac y mae coffadwriaeth y ddau yn fendigedig gan lu o'r Llydawiaid hyd y dydd hwn.

Yng ngorsaf Kemper, cyfarfyddwyd ni gan *Mr. Jenkin Jones*, y cenhadwr presennol, a'r ddau filwr y cyfeiriwyd atynt o'r blaen. Aeth rhan o'r cwmni i aros a chael eu harfolli ganddo ef, a'r gweddill i'r *Hotel-de-l'Epée*, yr hon sydd ar gyfer yr afon Odet. Drannoeth aethom i weled y capel, yr hwn sydd yn adeilad bychan a destlus, oriel ar un

pen iddo, a'r pulpud mor uchel â hen bulpudau Tremadog a Phwllheli. Yr oedd ynddo astell, ar yr hon yr oedd y Deg Gorchymyn a'r Catecism wedi eu hargraffu mewn llythyrennau breision. Y mae o bwys gwneyd hyn yn y gwledydd Pabaidd, am fod yr offeiriaid a'r awdurdodau Pabaidd wedi cymeryd arnynt dynnu allan yr ail orchymyn, ac i wneyd i fyny y rhif deg, wedi rhanu y degfed yn ddau, am nad yw'r ail orchymyn yn cyd-daro â'r delwau. Y mae yno eglwys yn rhifo tua 40, a chynulleidfa o tua 80. Dydd Iau aethom i Pont l'Abbé, lle mae Mr. Evan Jones yn llafurio gyda llwyddiant mawr. Buom mewn cyfarfod eglwysig yno y nos, pryd yr oedd 30 yn bresennol, heblaw'r dieithriaid. Yr oedd yr olwg arnynt yn addoli yn peri i ni deimlo yn gyffelyb i Barnabas pan yr aeth i eglwys Antiochia. Y maent yn hynod selog a brwdfrydig, ac yn ddirwestwyr aiddgar, er eu bod ychydig amser yn ol yn hynod am eu meddwdod. Y mae gweled y cyfnewidiad mawr sydd yn eu buchedd yn foddion i ddwyn y gwragedd a'r plant dan addysg y cenhadon. Cafodd rhai o honom y fraint o'u hannerch yn Gymraeg, a Mr. Jenkin Jones yn cyfieithu. Y mae'r Llydawr yn mwynhau'r Gymraeg yn fawr, er nad yw yn ei deall wrth siarad neu annerch yn y dull y gwnaem ni.

Aethom drannoeth trwy y Plwy Mawr i Llangwenoleu, a Phenmarch, —lleoedd y cartrefa nifer mawr o bysgotwyr. Rhanwyd nifer anarferol o draethodau gan y cenhadon a'r Beibigludwr y diwrnod hwnnw.

Dydd Sadwrn hwyliasom ein camrau am Dournenez, Dwfr yr Eneth. Pe buasai gofod yn caniatáu, carasem ddweyd ychydig ar y traddodiad ynglyn â'r lle hwn, yr hwn a'n hadgofiai yn fyw o'r traddodiad am Gantre'r Gwaelod. Yn y lle hwn y mae M. Groignec yn llafurio gyda llawer o lwyddiant. Y mae ganddo ysgoldy destlus, a chynhelir moddion yn gyson ynddo. Cawsom yr hyfrydwch o fod mewn dau gyfarfod yno, un nos Sadwrn a'r llall foreu Saboth. Treuliwyd y rhai hyn yn gyffelyb i'r modd y treuliwyd y cyfarfod yn Pont l'Abbé. Daeth amryw o'r dychweledigion i'n hebrwng i'r orsaf, yn gyffelyb i'r eglwysi apostolaidd. Y mae Vice Consul Norway a'i deulu yn aelodau o'r eglwys hon, ac yn gynhorthwy mawr i M. Groignec.

Dymunem, wrth derfynu ein hysgrif, goffau y geiriau yn Llyfr y Barnwyr wrth ieuenedid ein heglwysi a'n colegau :—"Cyfodwch ac awn i fyny arnynt; canys gwelsom y wlad, ac wele da iawn yw hi. Ai tewi yr ydych chiwi? Na ddiogwch fyned, i ddyfod i mewn i feddiannu'r wlad. Pan eloch, chwi a ddeuwch at bobl ddiotal, a gwlad eang; canys Duw a'i rhoddodd hi yn eich llaw chiwi." Canasom yn iach i Kemper foreu Llun ac aethom yng nghwmni Mr. Jenkin Jones,—caredigrwydd yr hwn, gydag eiddo y cenhadon ereill nis gallwn byth eu anghofio,—trwy Quimperle, Lorient, Hennebont, i Aury a Carnac. Y mae yr hanes sydd yn perthyn i'r tri lle olaf yn ddigon o destyn erthygl dda, ac feallai y ceir cyfeustra i'r gwaith ryw adeg i ddyfod. Arosasom y noswaith honno yn Rennes, ar derfyn Ffrainc briodol, ac oddiyno aethom i Paris, Belgium, gan ymwled a maes Waterloo, wrth gerdded yr hwn teimlem y dyddordeb mwyaf, yn neillduol wrth edrych ar y llanercchau y syrthiodd y prif arwyr.

TREM AR YR YSGOL SABOTHOL.

Am yr Ysgol rad Sabothol, Clod, clod i Dduw ;
Ei buddioldeb sydd annrhaethol : Clod, clod i Dduw ;
Ynddi cawn yr addysg orau,
Addysg berffaith Llyfr y llyfrau ;
Am gael hwn yn iaith ein mamau, Clod, clod i Dduw..

LLAWER a ganodd plant Cymru ar yr hen bennill uchod. A pha ryfedd ! Pwy fedr ddweyd faint yw dyled Cymru i'r Ysgol Sabothol ? Pwy fedr fynegi yn hollol ei rhinweddau hi ? Pwy, pan feddylia am y plygion o dywyllwch ac anwybodaeth y bu ein gwlad yn gruddfan danynt, a fedr lai na moliannu a chlodfori Duw wrth edrych ar y goleuni sy'n tywynnu arni yn awr ? Er gwaethaf teyrnas y tywyllwch a holl ystrywiau'r fall ac offeiraid digrefydd i gadw'r werin yng nghaethiwed anwybodaeth, gweithiodd yr Ysgol Sul ei hun i bob congl o'n gwlad, gan ddatod rhwymau caethiwed a'n dwyn i ryddid gwybodaeth Duw, nes ein gwneyd ni, Gymry, yn un o'r cenhedloedd bach mwyaf *typical*, mewn ystyr grefyddol, ar wyneb y ddaear. Erbyn hyn y mae'r Ysgol Sabothol wedi dyfod yn rhan o'n bywyd. Pa le bynnag yr ymsefydla Cymry, nis gallant synio am fywyd crefyddol ar wahân i Ysgol Sul. I ba le bynnag yr â syniadau Cymru am efengyl a phregethu, yno hefyd yr â yr Ysgol Sabothol. "Dy Dduw di fydd fy Nuw innau," &c.

Hyfryd, gan hynny, yw cael ychydig seibiant i gymeryd golwg ar yr Ysgol Sabothol fel y mae yn awr yn ein gwlad. Y fath le sydd iddi yn niwylliad ein cenedl ! Y mae yn cael gafael ar y miloedd pan y mae hawddaf effeithio arnynt er daioni. Ceidw yr afael honno arnynt ar hyd eu hoes. Yn ei meddiant hi hefyd y mae cyflawnder o'r ymborth sy'n gyfaddas i feddwl a chalon pob oed a gradd. Ynddi hi y mae llygaid meddwl y genedl yn agor ar fyd y gwirioneddau ysbrydol ; ynddi hi y maent yn parhau i edrych ac i graffu arnynt ; ac allan o honi hi yr ânt i fyd y pethau hynny i edrych arnynt fel y maent. Hi yw enaid bywyd meddyliol y werin. Pe collem hi o'n plith, amddifadid ni o'r holl fendithion hynny sy'n wastad yn dilyn cymdeithas meddyliau pur â'u gilydd. Tyn hi i'w mynwes dalentau disglair ein gwlad, gan fanteisio ar bob gwybod a chelf ; myn wasanaeth y diwinydd, yr esbon-iwr, yr athronydd, y gwyddonwr, y celfyddydwr, a'r bardd. Dwg y bobl i gyffyrddiad â phethau na fuasant yn gwybod dim am danynt oni buasai am dani hi. Daw a'r genedl i gydnabyddiaeth â meddyliau Duw fel y deallir hwy gan ddyinion goreu'r byd, tra nad oes ynddi ddim sydd sydd yn rhwystr i wreiddioldeb a meddylgarwch. Pan y mae'r bobl wedi bod ar hyd yr wythnos yn ymdrafferthu yn y byd, a miloedd o honynt yn gwneyd gwaith yn ol synwyr y fawd, dyma un awr, o leiaf, yn yr wythnos iddynt arfer *meddwl*. Ac y mae meddwl am un awr— yn enwedig meddwl am bethau pur a dwyfol— yn rhwym o adael ei ôl ar yr oriau sy'n ei dilyn. A phan y dygir cenedl i fyny o'i mebyd i arfer meddwl mewn rhyw gyfeiriad, nis gall na thyf honno, mewn amser, yn genedl feddylgar yn ei holl gysylltiadau. Ond y fath ddylanwad ar ei bywyd cymdeithasol a chrefyddol raid ddilyn troi ffrwd y meddylgarwch hwn i gyfeiriad môr mawr egwyddorion ysbrydol a thragwyddol ! Na ddyweder dim yn erbyn cyfarfodydd crefyddol ereill, yn enwedig y cyfarfod eglwysig. Nid oes i ni ran na chyfran â'r neb

a fynno wneyd hynny. Ac eto, onid gwir yw mai'r Ysgol Sabothol, yn ein dyddiau ni, sy'n magu mwyaf o ddynion nas gall ein gwlad eu hebgor—ein harweinwyr, yn flaenoriaid, athrawon, pregethwyr, a chenhadon? Hyn oll, a llawer mwy, yw y lle sydd i'r Ysgol Sabothol yn ein bywyd ni fel cenedl.

Y fath brydferthwch hefyd a welwn pan edrychwn ar ei bywyd mewnol hi ei hun! Dyna'i hathrawon a'i hathrawesau. Nid un o elfennau mwyaf dibwys cymeriad y rhai hyn yw eu hunan-ymwadiad. Treuliant ac ymdreuliant yn ystod eu horiau hamddenol i gasglu gwybod-aeth i'w chyfrannu i rai na fynnant eu hunain ymdrechu ond ychydig, neu ddim. Mynych y clywir hwy yn gofyn pa gynllun fyddai oreu i ddefro meddyliau eu disgyblion, ac i gyfrannu addysg yn fwyaf effeithio, iddynt. Prynnant lyfrau, lladratant beth o amser gorchwylion bywyd neu o amser cwsg, i'w darllen, a gweddiant am gyfarwyddyd Ysbryd y Goleuni. Y mae eto, trwy drugaredd, gannoedd o honynt yn teimlo yn ddwys eu cyfrifoldeb i Dduw ac i'w Eglwys, ac yn argyhoeddedig nas gall eu cariad at eu disgyblion ymlonyddu mewn dim ond mewn ymdrech barhaus i'w goleuo a'u hachub.

Eto i gyd, nid da pawb o honynt hwythau. Nid yn unig ceir yn eu plith lawer sydd yn dra dioglyd eu meddwl a diffrwyth eu hysbryd, ac heb eu deffro i ystyried eu cyfrifoldeb, ond ceir ereill hefyd nad yw cyfrifoldeb eu hafiwyddiant yn gorffwys yn gwbl ar eu hysgwyddau hwy eu hunain. Swydd o bwysigrwydd arbennig yw swydd yr arolygwr. O na bai modd perswadio yr arolygwyr a'r cyfarfodydd athrawon nad yw yn bosibl cymeryd gormod o bwyll ac arafwch ac ystyriaeth i chwilio am athrawon ac athrawesau cymwys. Y cwestiwn ofynnir yn rhy fynych o lawer ydyw, Pwy aiff, tybed, yn athraw ar y dosbarth acw? Yn hytrach, yr hyn ddylid ofyn yw, Pwy *unai oreu* yn athraw ar y dosbarth acw? Llenwi bwlch heb drafferth yw amcan y rhai blaenaf hyn, ond nid yw eu gwaith prysur nemawr gwell na gwaith y saer a deif unrhyw garreg i fwlch yn y mur, tra'n gwrthod un arall, yr hon, wedi ychydig dirio ati, a lanwai'r bwlch i drwch y blewyn. Cael ufudd-dod yw'r hyn yr amcenir ato yn rhy fynych o lawer. Da, yn ddiu, yw ufudd-dod; ond y mae rhagor rhwng ufudd-dod ac ufudd-dod mewn gogoniant. Cyfyd un math o ufudd-dod oddiar awydd am swydd; arall yw gogoniant yr un sy'n codi oddiar sêl heb wybodaeth; ac arall yw gogoniant yr un sy'n tarddu o rhyw feddalwch natur ac anallu i wrthod cais arolygwr taer; ond mwy o lawer yw gogoniant yr ufudd-dod hwnnw sy'n tyfu o ymdeimlad o ddyledswydd. I'r ufudd-dod hwn y mae gwaith cymell a pherswadio, ac eto hwn raid gael. Y mae golwg ar fawredd dyledswydd ac ymdeimlad o anallu i'w chyflawni, fel rheol, yn mynd gyda'u gilydd; a phe cofiai arolygwyr ein hysgolion hyn yn barhaus, byddai eu pybryrwrch yn fwy di-ildio wrth gymell rhai y gwyddant sydd yn gymwys i fod yn athrawon ac athrawesau. Byth na ddywedod neb, "O, nid yw o fawr bwys pwy fydd yn athraw am un prydawn fel hyn." Ydyw, y mae o bwys mawr iawn. Y mae'r un awr honno o fwy gwerth na'r un fu o'i blaen hi; ac wedi yr el heibio, nis gellir ei galw yn ol. Rhaid gwneyd drwg neu dda yn ei hystod; nid oes le canol i sefyli arno.

O ddiffyg talu ystyriaeth briodol i rywbeth tebyg i'r hyn ddywedir uchod, beth welir mewn llawer o ysgolion? Ceir rhai athrawon na wnant ddim ond siarad â'r dosbarth am ddiwyddiadau'r wythnos;

ereill na wnant ddim ond darllen yn ddibaid; ereill ddim ond gofyn yr hen hen gwestiynau yn nghylch yr "ef" neu'r "hi" sydd yn yr adnod. Adwaenom rai o honynt. Ofnant a chrynnant rhag colli eu swydd; o herwydd nis gallant ddygymod â'r syniad o ddisgyn eu hunain i gyflwr disgyblion, rhag y digwyddo iddynt orfod bradychu eu hanwybodaeth. Pa fodd i gael ymwared o'r cyfryw rai, nid eiddom ni yw dywedyd. Un peth sydd sicr, na ddylid meithrin rhyw or-dynherwch tuag atynt. Nis gall yr Ysgol Sabothol wneyd ei gwaith gyda hwy. Ond gwaeth na'r rhai hyn yw athrawon ereill a welir weithiau,—rhai ag y gŵyr eu dosbarthiadau yn dda nad yw eu cymeriad moesol yn bur a chymeradwy. Pa beth ddichon effeithio'n fwy dinystriol ar ddoesbarth o rai ieuainc nac athraw heb fod yn ddirwestwr? Neu pa les a wna dyn ag yr ystyrir ef gan bawb a'i hadwaenant fel dyn o ymadroddion llygredig, o arferion anwedus, o gymeriad anonest? A pha gysondeb sydd mewn gosod rhai nad ydynt eu hunain yn profesu eu bod wedi rhoddi eu hunain i Dduw, i addysgu dosesbarth yn y Gair sydd yn barhaus yn galw am holl galon a bywyd dyn? Y mae swydd athraw yn yr Ysgol Sul yn un rhy anrhydeddus a chysegredig i'w gosod yn nwyllaw dynion fel hyn. Ac eto hyn a welir: ond tra y parhao, rhaid yw i ddylanwad yr Ysgol Sabothol fod yn llai nag y dylai fod ar garitor y bobl.

Dichon mai prinder athrawon ac athrawesau cymwys yw un rheswm am hyn. Cwynir yn fynych o'r herwydd. Teimlo y mae llawer o'r rhai sy'n sylwi fwyaf, mai rhyw lu lled fawr sydd gennym o rai bron ar yr un lefel a'u gilydd—rhyw *dead level of mediocrity*; ac mai anodd iawn yw gwybod pwy sydd oreu. Ychydig sydd yn uwch o'u hysgyddau i fyny na'r gweddill. Yr ydym yn byw yn oes y pwyllgorau a'r cynlluniau; ond pa le y mae'r gwr neu'r gwyr a'n harwain ni o'r anhawster hwn? Paratoir athrawon ar gyfer pob math arall o ysgolion; a gofynnir yn fynych mewn athraw, nid yn unig am wybodaeth dda, ond hefyd am amryw gymhwysterau ereill. A raid i'r Ysgol Sul fod yn ol yn hyn? Ceir yn wir mewn rhai mannau yr hyn a elwir yn ddoesbarthiadau athrawon, a gwnant waith da. O'r rhai hyn daw yn aml ddyinion yn meddu gwybodaeth lled eang, yn ddiwinyddion lled gryfion, ac yn ddadleuwyr brwd a deheuig; ond nid bob amser, o angenrheidrwydd, yn athrawon gwych. Nid *bod yn athraw* yw yr hyn a gedwir uchaf yn y meddwl. Gwelsom lawer yn dod o'r dosesbarthiadau hyn nas gallant ofyn cymaint ag un cwestiwn mewn ffordd ddestlus a chllir, neu egluro anhawsterau i rai islaw eu cyrhaeddiadau hwy eu hunain. Pregethu am awr yw eu prif ragoriaeth. Oraclau ydynt yn fynych; ac nid oes gan y disgyblion, ar lawer adeg, ond credu yr oracl, ac aros yn y tywyllwch. Nis gallwn gredu nad oes ymhob ysgol ddigon o ddefnyddiau athrawon cymwys; ac ynghanol ein holl drefniadau gwych, sydd bron wedi cyrraedd perffeithrwydd, dylai "magu athrawon" bellach gael sylw mwy arbennig. Dyma'r broblem nesaf y gelwir arnom i ddadrys ei hiawnderau.

Cyfeiriasom at *drefniadau* yr Ysgol Sabothol. Y mae rhai o hyd a fynnant ddwyn ar gof i ni waith y tadau gynt. Mawr, yn ddiameu, a gwerthfawr iawn oedd y daioni a wnaethant hwy yn eu dydd. Ond edrycha eu canmolwyr gyda chil eu llygaid, ac weithiau'n gilwngus, ar ddwim i mewn i'r Ysgol Sul ddim o drefniadau a byd. Credant yn sicr, pe deuai yr Iesu i'n plith, y cymerai eto fflangell o fân reffynau ac y

bwriai y ffeidd-dra hwn hefyd allan o dy ei Dad. Ond goddef y pethau hyn y mae Efe; ie gwena ar ymdrechion ei bobl, gan eu bendithio a llwyddiant digamsyniol. Ac yn sicr, os oes gwerth, i addysg fydol, mewn safonau, mewn darllen yr un maes i rai o oedran neillduol, ac mewn arholi disgyblion, a'u hysbysu o'u diffygion a'u rhagoriaethau a'u gwobrwyo am ymrôad a dyfalbarhad, nid yw yn hawdd gweld pa raid gwrthod yr un fantais i'r Efyngyl. Ond y mae llawer o'r trefniadau presennol mor gymharol newydd fel na ddylid disgwyl iddynt gael derbyniad croesawgar na chyrraedd perffeithrwydd ymhob man am gryn amser. Y maent yn rhy dda i gael eu gwerth-fawrogi ar unwaith. Y mae rhywbeth yn geidwadol iawn yn yr hen stamp o grefyddwyr. Ymgroeswn rhag dweyd dim yn ddiraddiol am danynt; ond rhaid peri tipyn o boen a phryder iddynt er mwyn gwir lwyddiant yr Ysgol Sabothol. Anodd iawn yw perswadio rhai i gymeryd i fyny y maes llafur a bennir gan y Cyfarfodydd Misol, &c., neu gan ba awdurdod bynnag y pennir ef ymysg y gwahanol enwadau. Cawn eto, weithiau, y gwrthuni o ddoosbarth, heb ddysgu darllen yn iawn, neu o leiaf heb ddysgu meddwl dim, ac heb erioed eu harwain at hanes Iesu Grist a saint y Beibl, yn darllen yr Epistol at y Rhufeiniaid, neu yn carlamu trwy Lyfr y Datguddiad. Beth bynnag am ragoriaethau a diffygion y drefn bresennol, dylai pob arolygwr ei theimlo yn ddyledswydd arbennig arno i fynnu terfyn ar yr ynydrwydd hwn; oherwydd y mae yn rhwystr yn ffordd dysgu darllen, yn fagwrfa i ddiffyg meddylgarwch, yn achles i ddiogi athrawon a disgyblion, ac yn famaeth ffyddlon i ddifrawder ac i ddiffyg parch a hoffder at yr Ysgol Sabothol a'i Llyfr.

Soniasom am yr *arholiadau*. Gyda pharch a diolchgarwch y dylem edrych ar yr hyn sydd hen ac a fu o fawr werth, gan gofio nad yw fod peth yn hen yn un rheswm dros ei wrthod, mwy nag y mae fod peth yn newydd yn hawlio derbyniad iddo yntau. Gydag ofn a phryder difrifol y dylid derbyn peth fydd yn newydd, os bydd i gymeryd lle rhywbeth arall a wnaeth fawr les yn y byd. Nid oes odid ddim sydd yn fwy newydd yn hanes yr Ysgol Sabothol na'r arholiadau sydd ynglyn â hi, nac odid ddim ag y mae mwy o feio nac o ganmol arno. I lawer y mae gormod o sawr y byd hwn arnynt. Y maent o'r ddaear yn ddaearol, ac y mae delw ac argraff dyfais ddynol yn rhy ddwfn ynddynt. Prin, meddir, y mae'n gweddu gwneyd gair Duw yn fater cystadlu arno er mwyn gwobrwyon. Y mae tuedd yn hynny i wneyd y wybodaeth a'r fendith yn ail beth, a'r wobr a'r clod yn beth pennaf. Llawer o bethau ereill hefyd o gyffelyb natur a ddywedir. Dichon fod un sydd yn ymwneyd tipyn âg arholiadau wedi ei ddallu gan arferiad i'w diffygion, ac wedi ei lyncu'n ormodol gan ystyriaeth o'r gwerth sydd ynddynt; ond ar ol cymeryd pwyll i ystyried, rhaid i ni ddweyd na ddymunem weld yr Ysgol Sabothol yn ceisio gwneyd hebddynt.

Y mae gwerth mewn arholiad ynddo'i hun. Nid rhan ddibwys o'r gwerth hwnnw yw ei fod yn symbyliad i weithgarwch. Hoff yw clywed y plant a'r ieuentyd yn dweyd, "Yr ydym yn mynd i gael ein treio yn fuan." Y mae yn hynna don ymdeimlad o gyfrifoldeb i rywun heblaw hwy eu hunain; ac ar wahân i'r gwerth cynhennid sydd mewn cyd-ymgais ac mewn uchelgais o rywogaeth dda, y mae dwyn yr ieuainc i deimlo eu bod yn ddyledus i ereill yn rhan bwysig iawn o'u haddysg. Ddefny teimlad fel hyn awydd gweithio, a dysg yr ymgeiswyr i ddangos eu

goreu. Rhaid gweithio: yr ydym yn mynd i ddangos pa faint a wyddom, a pha faint na wyddom. Cyfyd awydd ynddynt am chwilio pob llyfrau da sydd yn eu cyrraedd, ac am holi eu gilydd, ac yn enwedig holi eu rhagorach. Ac o hyn y deillia dysgu meddwl yn drefnus, ac ysgrifennu yr hyn a feddylir. Dyma'r diffyg mawr a welir yn mhapurau yr arholiadau. Ceir cryn swm o wybodaeth; ond y maent yn dra amddifad o reol a threfn. Nid yw ysbyrd trefn wedi bod yn ymsymud uwch ben y tryblith afuniasidd hwn. Dywed ambell un beth hollol groes i'r hyn fydd yn ei feddwl: nid yw ei feddwl wedi ei ddisgyblu, na iaith wedi dod yn ufudd at ei alwad, na'i syniadau yn dod yn y drefn fwyaf naturiol. "Y cyntaf i'r felin gaiff falu." Dyger yr iuencetid i ysgrifennu eu meddyliau, ac i'w hysgrifennu o dan deimlad o rwymedigaeth i'w hathrawon yn gystal ag o awydd am lwyddo mewn cydymgais; yna dilyn hefyd yr holl fantesion a enwyd. Yn neillduol, deffry hyn y meddwl i stâd fwy bywiog nag erioed; pan y tefir ef am awr neu ddwy i dynnu tipyn allan o hono'i hun. Ac onid gwir mai y rheswm pennaf dros wendid meddwl llawer un ydyw, nid na byddant byth yn rhoddi dim yn y meddwl, ond yn hytrach na byddant byth yn ymdrechu dwyn dim allan o hono? Ond dysg arholiadau, fel y rhai yr ydym yn son am danynt, yr ymgeiswyr i wneyd y wybodaeth a gasglont yn eiddo iddynt eu hunain. Trwy hynny maga eu meddyliau nerth a gewynnau. Ac na thybier fod hyn, o angenrheidrwydd, yn gwrthryfela yn erbyn yr hyn elwir yn wreiddioldeb meddwl. Yn hytrach i'r gwrthwyneb. Wrth gwrs, os wrth wreiddioldeb meddwl y golygir yr hyn y mae rhai yn rhy fynych yn ei olygu, sef meddwl heb gymorth neb na dim yn cynhyrchu pethau na wybwyd mo honynt erioed o'r blaen, y mae hynny yn ambosibl. Ond y mae'n bosibl i ddyn, trwy fwyta meddyliau dynion ereill, a'u cael yn rhan o'i feddwl ei hun, eu hadgynhyrchu, a rhoddi arnynt ei ddelw ef ei hun. Ac nis gall fod gwreiddioldeb mwy gwir na hyn. Pa faint bynnag o swm o wybodaeth a gesglir, bydd i ddyn fagu yr arferiad hwn o werth amhrisiadwy iddo.

Hyn, a llawer mwy, a ddichon arholiadau ei wneyd, ond eu cadw o fewn terfynau priodol. Ond nid hyn, ie llawer llai na hyn, a gyrhaeddir trwyddynt, oni bydd yr ymdrech o du rhywun heblaw yr ymgeiswyr yn unig. Dichon na byddai yn hydra anfaddeuol pe dywedem beth a ymddengys i ni fel rhai o ddiffygion paratoadau ar gyfer arholiadau; ac wrth wneyd hynny, y mae ein llygaid yn bennaf ar y plant a'r dosbarth canol. Yn un peth, dylai yr athraw ei hun fod yn ymdrechgar. Dylai chwilio yn fanwl a chywir faes yr efrydiaeth. Nid yw yn ddigon iddo gredu ei fod yn gwybod mwy na'i ddisgyblion. Weithiau, gan y disgybl dylaf y ceir y cwestiwn goreu a chaletaf—cwestiwn bâr i'r athraw fradychu anwybodaeth o'r hyn y dylai fod yn ei wybod. Nis gall dim effeithio yn waeth na hyn ar ddsbarth. Dyledswydd yr athraw, yn ddia, yw paratoi ei hun, hyd y byddo yn bosibl, ar gyfer pob anhawster eill godi, a gofalu o leiaf y bydd yn hyddysg yn rhannau pwysicaf y gwaith, ac y bydd yn gyfarwydd â'r anhawsterau fydd yndo. O ddiffyg hyn, bydd llawer o fechgyn a genethod meddylgar yn edrych yn syn ac athrist ar gwestiynnau da ofynnir iddynt mewn arholiadau. Heblaw hyn, gellir nodi dau beth sydd yn codi o'r ffaith nad yw y maes llafur, fel rheol, yn rhy eang. Un peth ydyw, mai buddiol fyddai i athrawon, hyd y gellir, roddi i'w disgyblion bob wythnos ychydig gwestiynnau i ysgrifennu atebion iddynt gartref, ac

iddynt hwythau eu barnu yn y dosbarth dilynol. Cai yr ieuainc felly fantais i sillebu, i ddyysgu ysgrifennu eu meddyliau, ac i ddyysgu destlusrwydd; ac am ben hyn oll, argreffid y wers yn ddyfnach yn eu meddwl. Ac ynglyn â hyn, neu o leiaf yn niffyg hyn, peth tra buddiol fyddai arholiad ysgrifenedig yn awr ac yn y man. Gwyddom am ysgolion ymha rai y gwneir hyn; ac o'r rhai hynny y ceir y goreuon yn yr arholiadau cyffredinol. Yr ysgolion hyn sy'n magu'r bobl ieuainc gryfaf mewn gwybodaeth a meddylgarwch, a pha ddaioni bynnag y ceisir ei gyrraedd drwy yr arholiadau.

Y peth pwysicaf, yn ddiameu, ynglyn â'r Ysgol Sabothol yw "maes llafur." Nid heb reswm, yn sicr, y teimlir anhawster i benderfynu y maes hwn. Peth anhawdd iawn ydyw gwybod pa fodd i rannu yr ysgolheigion o ran oed, &c.; pa bryd y maent yn addfed i symud o'r naill faes i'r llall; a pha faes yw y goreu ar unrhyw adeg i'r gwahanol ddoesbarthiadau. Ond nid anfuddiol, efallai, fyddai cymeryd golwg gyffredinol ar y maes fel y mae.

Mai y maes *hanesyddol* yw y cymhwysaf i'r dosbarthiadau ieuangaf sydd uwchlaw ei ameu. Mynych y clywir rhai yn dweyd nad yw pobl ieuainc yr oes hon mor gyfarwydd yn hanesion y Beibl ag yr oedd ieuenticid flynyddoedd yn ol. Gresyn os yw hynny yn wir. Pan y mae'r cof yn ystwyth a'r meddwl yn dyner y gellir argraffu ffeithiau hanes fwyaf annileadwy arnynt; ac y mae pob hanes sydd yn yr Ysgrhythrau Sanctaidd yn werth i'w hargraffu felly. Ond nid ein bwriad ni, pe galleu, yw dadleu rhagoriaethau hanes fel maes efrydiaeth; yn hytrach edrych pa ddull a gymerir i hyfforddi rhai yn y maes hwn. Ac yn sicr gwneir hynny, fel rheol, mewn dull tra deheuig a meistrolgar. Dengys papurau yr arholiadau, a dengys yr ateb mewn Cyfarfodydd Ysgolion a Chymanfaoedd Plant fod addysg yr ysgol yn lled drwyadl yn y cyfeiriad yma. Ac eto, nid peth allan o le fyddai crybwyll rhai pethau ag y dylid sylwi arnynt, cyn y gellir gwneyd hanes yn beth *quir a byw* i'r ieuenticid. Pethau sych a marw iawn fydd dyddiadau, ffeithiau, ac enwau lleoedd a phersonau, os na fedrir eu cysylltu rywfodd â rhywbeth sydd bwysig, defnyddiol, ac adeiladol.

Clywsom rai yn dadleu, ac nid heb resymau lled gryfion, mai anfuddiol yw ymroi i ddefnyddio catecismau. Gwell, meddir, yw dysgu yr hanes o'r Beibl ei hun. Wrth gwrs, y mae i gategismau le mawr wedi bod, ac yn bod, yn addysg y byd a'r eglwys; ond myn y sawl a ddywedant yn eu hertyn mai eu tuedd yw gwneyd y wybodaeth a gesglir yn rhyw swp o fân ronynnau, a'r rheiny yn fynych yn dra anghysylltiol. Rhoddir arbenigrwydd ynddynt i'r hyn a ystyria yr awdwr sydd fwyaf pwysig, a gwneir hyn a hyn, fel hyn neu fel arall, yn ateb terfynol i ofyniad. Pan y gofynnir cwestiwn allan o gylch y catecism, teflir y plant oddiar eu llwybr cynhefn. Ar ol bod yn rhodio mewn gardd fechan drwsiadus, teimlant eu bod yn cael eu tafu yn sydyn i ganol anialwch diffaeth. Ni wyddant pa le y maent, ac nid hawdd yn aml yw dod o hyd i'r ffordd yn ol. Y mae drwg yn sicr mewn gwybodaeth fel hyn. Os gwybodaeth o ddarnau anghysylltiol fel hyn a gyfrennir, naill ai bydd yn dra arwynebol, neu ynte diflanna'n llwyr yn dra buan. Dichon fod y ddau yn wir am dani. A thrachefn: pan na fedd y catecismau hyn y rhinwedd o fod wedi eu britho â geiriau da ac ymadroddion destlus a chryfion y Beibl ei hun, ymddengys eu gwerth yn llai fyth. Pan y mae un yn ieuanc y mae oreu ei ddwyn i gyffyrddiad

â iaith dda, ac odid fawr nad da a phur a chref fydd ei iaith ar hyd ei oes. A phan y sylwn ar fanylrwydd a chywirdeb gwybodaeth y rhai a addysgir yn ol catecism, boed mor ragorol ag y bo, ac ar wybodaeth y rhai a ddarlennant y Beibl ei hun o dan arweiniad athraw da, nid hawdd yw canfod twyll yn ymresymiad y gwrth-gatecismwyr. O leiaf, hyn sydd sicr: wrth ddarllen y Beibl ei hun, gadewir yr argraff mai *â hanes y Beibl* y bydd a fynno'r dosbarth; ac nid oes gatecism byth a wnel y tro yn lle hynny. Y mae rhywbeth mwy yn hanes y Beibl nag y gellir byth ei roddi mewn catecism. Collir y cysylltiadau, a'r peth byw hwnnw sydd yn nodweddu pob gwir hanes. Dylai ystyriaethau fel hyn, a dweyd y lleiaf, ein cadw rhag syrthio'n rhy ddwfn mewn cariad â mân holwyddoregau.

Y mae edrych dros bapurau Arholiadau Sirol, &c., a gwranddo tystiolaeth y rhai sy'n parhau i wneyd hynny, yn rhoi mantais i weled pa bethau sydd na thelir digon o sylw iddynt wrth fynd trwy hanes gyda'r dosbarthiadau ieuainc. Ychydig, fel rheol, o sylw a delir i ddaearyddiaeth yr hanes; ac anghelfydd yn fynych yw'r ffordd a gymerir i'w egluro. Gwir nad ymhob man y ceir rhai fedr egluro mapiau; ond gwir hefyd y ceir mewn mwy o leocedd fod llai o ffydd nag o allu. Nid oes angen esgusawd am siarad yn ddfloesgri ar hyn. Digon gan lawer yw *dweyd* fod ugain milldir o un lle i le arall, ac fod un lle i'r dwyrain neu i'r gogledd o le arall, ac fod rhyw le arall yn sefyll rhyngddynt. Nid ydyw hyn yn ddigon. Dywed y rhai sydd wedi efrydu hanes lwyraf, na ddyry hynyna ddim gwir oleuni i blant—na ddyry byth yr un *reality* i hanes a phe dilynid y gwaith ar fap, neu pe cymerid rhyw ffordd arall a lefarai wrth y llygad yn gystal ag wrth y glust. Clywsom am un a gymerodd dodosbarth o blant i gae mawr, ac a fesurodd yno hyd a lled arch Noah, ac a wnaeth ddefnydd o'r coed tal oedd yno i ddangos uchder yr arch. Yr oedd gan y plant annhraethol well syniad rhagllaw tebyg i ba beth ydoedd yr arch o ran maintioli: ond nid yn fynych y ceir athrawon fel hwnnw. A thrachefn, peth nas gellir ei hepgor ydyw egluro'r gwahanol ddefodau ac arferion y digwyddo bod cyfeiriad atynt yn yr hanes. Gwnai hynny yr hanes yn llawer mwy dyddorol ac adeiladol; a byth ni cheir rhai ieuainc i ddyegu yn iawn os na ddygir hwy i deimlo plaser yn y gwaith. Y mae llawer o bethau eisoes o fewn cylch eu profiad ag y gellir eu defnyddio yn gyfryngau i egluro pethau ereill. Wrth ddarllen, er engraff, am godi *allor*, gymaint haws ei gofio, a chymaint mwy gwir, a fyddai'r hanes, pe cymerid ychydig o drafferth i egluro pa beth a olygir wrth *allor*, o ba ddefnyddiau, ac ymha fath leocedd, hyd y gwyddys, y gwneid allorau, a pha fodd yr eid trwy'r gwasanaeth o aberthu, &c. Onid oes cryn dipyn o hanes oes Jacob yn gorwedd yn y frawddeg fechan honno am Rahel, "oblegid hi oedd yn bugeilio?" Ac eto, pan gyda dosbarth o fechgyn o ddeunaw i ugain oed, syndod mawr oedd ar wyneb pob un o honynt pan ofynwyd iddynt pa reawm oedd rhoddi merch i fugeilio. Eto: ni ddylid, yn bendifaddeu, anghofo rhoddi pwys ar ystyron geiriau. Ni ddywed hanes ddim wrth yr ieuainc—na'r hen chwaith o ran hynny—ond i'r graddau y byddo'r geiriau yn ddealladwy iddynt. Ni synnwn gymaint pan gawn un o blant y mynyddoedd yn dweyd mai ystyr *hespin* yw "llwdwn hwrdd yn codi'n dair;" ac nid annerbiniol ydyw y deffiniad a welsom o *anner*, sef "buwch ieuanc, neu, yn ol yr *iaith sathredig, heifer*." Ond gellir disgwyl i athrawon wneyd ymdrech deg i roddi i'w disgyblion

syniad clir am ystyron geiriau y cyfarfyddir a hwy drachefn a thrachefn, drwy gydol y Beibl. Nis gall na ddel bendith annhraethol o barhau i wneyd hyn am ychydig flynyddoedd. Daw darllen a chofio a meddwl yn llai o faich, a gwybodaeth yn fwy clir, crynno, manwl, a sefydlog.

Y rhan arall o faes llafur yr Ysgol Sabothol yw yr hyn y gellir ei alw "y maes esboniadol." Penodir cyfran gymharol fechan o'r Ysgrythyr yn faes astudiaeth am yn agos i flwyddyn; a'r canlyniad ydyw fod y dosbarthiadau, fel rheol, yn yinroi i esboniadaeth fanwl.

Y mae i'r cyfryw esboniadaeth werth mawr. Un o'i effeithiau mwyaf amlwg yw ein dysgu i fod yn fanwl a chywir. Nid rhyw syniadau awyrol fydd gan gorff mawr y rhai a ymdafant i'r gwaith. Magant yr arferiad o ddwyn popeth i rhyw bwynt neillduol; ac hyd yn oed pan fethant foddioni eu hunain, mynnant wybodaeth lled fanwl o'r anhawsterau. Y mae rhoddi tŷn fel hyn i feddylgarwch yn beth pwysig iawn ynddo'i hun; oherwydd nis gall tuedd meddwl at fanlyrwydd a chywirdeb mewn un cyfeiriad, lai nag effeithio i wneyd dyn yn fanwl a chywir ymhob cyfeiriad. Yn y cysylltiad yma hefyd gwir yw y gair, "Haiarn a hoga haiarn; felly gwr wyneb ei gyfaill." Wrth fanwl chwilio i feddwl yr Ysgrythyr, y mae dyn yn barhaus yn derbyn ac yn cyfrannu rhywbeth; ac y mae bob amser yn cadw ei feddwl ei hun a meddwl yr hwn y bo'n ymddiddan âg ef mewn stâd o ddisgwyliad parhaus. Y mae'n effro a gochelgar. Daw yn raddol yn fwy abl i weled yn glir ei hun, ac i werthfawrogi gwahaniaeth lle bydd gwahaniaeth, ac i'w wrthod pan y ceisir ei wneyd lle na bydd. Ac fel y cryfheir yn awydd am wybodaeth glir, ehangir maes yr ymchwiliad. Rhydd dynion heibio eu mân ragfarnau eu hunain, a dysgant gymedroli eu hymddiried yn eu gallu eu hunain â pharch tuag at farn ereill. Ant i chwilio'r llyfrau goreu yn eu cyrraedd. A rhyfedd y darllen sydd wedi bod y flwyddyn hon, a hynny gan rai na fuasid yn ei ddisgwyl oddiwrthynt, ar esboniadau Dr. Owen, Delitzsch, Westcott, Davidson, Dr. T. Charles Edwards, Dr. Owen Thomas, ac ereill. Gyda gofal mawr y dylid dweyd dim yn erbyn trefn sydd yn foddion i ddwyn aelodau yr Ysgol Sabothol i chwilio a chymharu barnau dynion fel y rhai hyn. Peth o werth amhrisiadwy yw dwyn dynion i ymgydnabyddu â frwyth ymchwiliad goreugwyr Eglwys Dduw, tra, ar yr un pryd, yr argreffir rhannau helaeth o Air yr Arglwydd yn annileadwy yn eu meddwl. Gwneir meddwl Duw yn ei Air yn glir, a chedwir y meddwl hwnnw yn y cof yng ngeiriau yr Ysgrythyr Lan ei hun.

Ond y mae i'r cyfryw esboniadaeth fanwl ei pheryglon hefyd. Nid pawb sydd wedi eu cynysgaeddu â'r duedd, na'u bendithio â'r hamdden, i fynd i mewn yn fanwl iawn i'r gwaith. I lawer y mae gor-fanylwch yn flinder. Pan y mae miloedd o aelodau'r Ysgol Sabothol yn gorfod gweithio'n galed ar hyd yr wythnos, ac yn teimlo mai melus yw hun a gorffwys, lled anodd yw cael yr amser na'r galon sydd yn ofynnol i ddarllen llawer yn dda. Y mae darllen ychydig, a'i ddarllen yn weddol, yr gymaint ag a allant ei wneyd. Rhaid cofio hefyd mai ychydig, mewn cymhariaeth, yw nifer y rhai sydd a thuedd at ddarllen llawer ynddynt. Peryglus yw tarfu y rhai hyn; ac eto, dyma'r dosbarth ag y gelwir ar yr Ysgol Sabothol i'w hymgeleddu. Ar y llaw arall, y mae dosbarth o bobl ag y mae gorfanylwch yn ormod pleser iddynt; a pheryglus yw magu gormod o'r math hwn, trwy gyfyngu gwaith yr Ysgol Sul a'r Cyfarfodydd Darllen ganol yr wythnos i ddarllen cyfran gymharol fechan

o'r Beibl. Creu mwy o ddadwrdd nag o les a wna cwyndyn ddadlen ynghylch ystyron geiriau, mân gysylltiadau, a meddwl brawddegau na gall dysgeidion pennaf y byd gytuno yn eu cylch. Anodd yw peidio ameu doethineb gwaith nifer o bobl, gyffredin o ran eu cyrhaeddiadau a'u manteision, yn treulio tri neu bedwar o gyfarfodydd ar ryw un cwestiwn neu ddau allan o adnod, a'r rhai hynny yn gwestiynnau na byddant o gwbl yn dwyn y meddwl i gyffyrddiad a gwir neges yr adnod. Dichon fod hyn yn rhoi min ar y meddwl, ond nid yw o angenrheidrwydd yn golygu ychwanegu gwybodaeth fuddiol. Collir mater ac ysbryd yr Ysgrythyr naill ai mewn difaterwch yn y rhai nas gallant fwynhau y fath ymroad, neu mewn gorawydd i wneyd arddanghosiad o allu i ddadlau ac o swm gwybodaeth yn y lleill. Ac yn ddiau, amcan uchaf esboniad-aeth ydyw argraffu ystyr Gair Duw yn y meddwl, a cheisio plannu ei egwyddorion yn ysbryd dyn. Byth ni wna manylrwydd gwybodaeth na diwylliant meddyliol yn lle hyn. A sefydliad i ymgeisio at wneyd hyn yw yr Ysgol Sabothol. Hyn yw ei chenadwri at y byd—llyfr i'w gredu ac i'w fyw ydyw y Beibl.

Ychydig iawn o reswm, er hyn oll, sydd dros ofni i'r drefn bresennol wneyd yr oes yn feirniadol ond yn fâs ei gwybodaeth. Ni wna ysbryd beirniadaeth ddrwg o gwbl, os bydd wedi ei gyd-dymheru â gwybodaeth o radd ac ansawdd dda. Ond ni raid gwneyd esgusawd am anturio dweyd mai un o beryglon mwyaf y drefn bresennol yw gwneyd gwybodaeth deiliaid yr Ysgol Sabothol, nid yn fâs, ond yn *unochrog*. Nid yw pawb o'r un duedd meddwl; ac nid anfynech y clywir rhai yn dweyd nas gallant hwy gymeryd digon o ddyddordeb mewn mynd dros yr un peth ar y Saboth ac yn y Cyfarfod Darllen ganol yr wythnos, ac yn rhoddi hyn fel rheswm dros beidio dilyn y Cyfarfodydd Darllen. Nid mewn esbonio manwl y cânt hwy fwynhâd a bendith. Canmoler faint a fynner ar esbonio, rhaid addef hefyd fod rhywbeth yn eisieu heblaw esbonio. Y mae gwerth a phwysigrwydd mawr mewn astudio pynciau athrawiaethol yr efyngyl, ac ymddengys fel pe bai pethau yn gogwyddo yn awr at roddi rhy ychydig o sylw iddynt.

Annheg fyddai gofyn pa un bwysicaf ai esboniadaeth ai athrawiaeth. Y mae'r naill mor bwysig fel na ddylid ymroddi iddo mor lwyr fel ag i esgeuluso'r llall. Nid peth i'w gyfyngu i ychydig ddynion dysgedig yn yr Eglwys ydyw gwybodaeth o bynciau'r Efyngyl. Ar un olwg gellir dweyd fod athrawiaethau yr Eglwys wedi tyfu o'i bywyd mewnol, a'u bod yn rhwym o effeithio yn ol ar ei bywyd. Ffrydiau ydynt sydd yn rhedeg allan o ffynhonnell ein crefydd—o'n crediniaeth fod Duw yn bod, a'i fod Ef wedi rhoddi i ni trwy ddatguddiad wybodaeth ynghylch trefn cadw dyn. Dysgir ni yng Ngair Duw am faddeuant a chyfiawnhâd a sancteiddhâd, am iawn ac eiriolaeth; ac nis gall bywyd yr Eglwys byth fod yn fywyd cryf, dwfn, tra y dibynna ar wybod dim ond y geiriau. Rhaid iddi, hyd y gall, wybod cynnwys yr athrawiaethau hyn. Y mae cewri Crigionogaeth wedi treulio eu bywyd i'w hegluro, ac y mae ffurwyth eu llafur, mewn rhyw wedd neu gilydd, yn ein cyrraedd ninnau. Ond y gwyn yn fynych ydyw fod aelodau yr Ysgol Sabothol yn ein dyddiau ni yn llai diwinyddion o lawer nag yr oedd ei haelodau bymtheg neu ugain mlynedd yn ol. Llauer oedd y siarad ynghylch Offeiriadaeth a Pharhâd mewn Gras wrth ddarllen yr Epistol at yr Hebraid, ond ychydig iawn o sylw a roddid i ddysgeidiaeth y Beibl a dysgeidiaeth yr Eglwys ar yr athrawiaethau hyn. Yn ddiau nid ffolineb o gwbl yw

gwaith y rhai hynny sydd beunydd yn ein cymell i roddi mwy o le i'r Hyfforddwr, i erthyglau y Cyffes Ffydd, ac i weithiau Dr. Edwards o'r Bala, a llyfrau cyffelyb, sydd yn rhoddi i ni firwyth ymchwiliad goreu-gwyr yr Eglwys y dyddiau presennol. Y perygl yw i genhedlaeth o bobl godi na bydd ynddi ond ychydig iawn yn meddu syniad am bynciau sylfaenol a hanfodol ein crefydd, ond y syniadau a drosglwyddir am danynt o genhedlaeth i genhedlaeth. Y mae'r Eglwys yn barhaus yn derbyn datguddiad, a dylai ieuentyd ein hoes ninnau gael eu dysgu yn y datguddiad hwnnw. Os na wneir hyn, caiff gelynion crefydd fantais i'n dilorni a'n gwaradwyddo. A dylid yn sicr gofio mai nid yng ngallu dadlenol ei phrif feddylwyr y mae gallu yr Eglwys i ymosod yn erbyn gau-ddysgeidiaeth, ond yn yr effaith gaiff athrawiaethau crefydd ar feddwl a bywyd ei phroffeswyr. Hyn fydd yn angu i'r gelynion oddiallan, a hyn hefyd a ladd bob *canf*, a rhagfarn a rhagrith a ddichon fod yn yr Eglwys ei hun.

Na chyfynger y maes llafur, gan hynny, i eglurhadaeth Ysgrhythrol. Mynner hefyd gael gwybodaeth aelodau yr Ysgol Sabothol yn fwy crynno a chyflawn drwy ddsygu iddynt athrawiaethau crefydd.

Y Bala.

J. OWEN JONES.

RHAI O BERYGLON PRESENNOL Y GENEDL GYMREIG.

Papur a ddarllenwyd ger bron Cymdeithas Cymrodorion Caerdydd.

GAN Y PARCH. O. L. ROBERTS, FWLLHELL.

WRTH ddechreu hyn o bapur ar Rai o Beryglon Presennol y Genedl Gymreig, y mae dau neu dri o bethau y teimlwn yn rhwymedig arnom eu gwneyd yn glir, rhag gosod o honom ein hunain yn agored i gael ein camddeall, ac felly ein camesbonio. Yn gyntaf oll, y mae yn rhaid i ni gael gwadu pob perthynas o'r eiddom â'r dosbarth hwnnw o'n cydgenedl sydd yn cymeryd golwg bruddaidd a digalon ar sefyllfa presennol y genedl Gymreig, a hefyd ar ei rhagolygon am y dyfodol. Gwyddom y ceir rhai a broffesant eu bod yn wir genedlgarwyr, ac mewn gwirionedd mai hwynt-hwy yn unig sydd felly, a fynnant ein perswadio fod oes euraidd y genedl Gymreig yn ei chymeriad fel cenedl, yn gorwedd rhywle yn nhiriogaethau pell y gorffennol anadferadwy; ac o ganlyniad fod llwyddiant pawb o'i phlant, yn y dyfodol, yn dibynnu ar y graddau i ba rai y gallant lwyddo i impio eu hunain wrth bren praff a chryf y genedl Seisnig. Yn gwbl gyson â'u hargyhoeddiad, ni gawn y cyfeillion hyn yn gwneyd eu goreu i ddirmygu pob neillduolion a berthynai i'r genedl gynt, gan ddwyn eu plant a phawb ereill sydd yn eu cyrraedd, gan belled ag y gellir, dan ddylanwad addysg a syniadau y Saeson sydd yn trigo, beth bynnag am drigo yn ddiotal, yn eu hymyl. Nid oes ynom y petruster lleiaf i ddweyd ein bod ymhell iawn o fod mewn cydymdeimlad â syniadau y cyfeillion hyn. Yr ydym i'r gwrthwyneb yn credu, a hynny yn gryf, fod eu syniadau wedi eu ffurfio ar egwyddor sydd yn hollol gyfeiliornus; oblegid cyhyd ag y perthyna i bob cenedl ei

neillduolion ei hun, rhaid i'r genedl honno lwyddo neu aflwyddo yn ol natur y neillduolion hynny, ac yn ol y cyfleusterau neu y diffyg cyfleusterau fyddo er eu dadblygu. A'r hyn sydd wir am bob cenedl, sydd wir hefyd am y genedl Gymreig. Os ydyw y Cymro i fynd i lawr, y mae i fynd i lawr fel Cymro; os ydyw i ymgodi, y mae i wneyd hynny hefyd fel Cymro. Ond y mae y syniadau hyn hefyd yn milwrio yn erbyn ffeithiau syml a chryfion sydd yn dyfod i fwy o amlycrwydd y naill ddydd ar ol y llall. Wrth gymharu yr amgylchiadau y mae y genedl Gymreig yn cael ei hunan ynddynt heddyw, â'r amgylchiadau yr arferai fod ynddynt gynt, nid oes gronyn o amheuaeth yn ein meddwl wrth ddweyd na welwyd erioed gyfnod mwy gwir fyw ac addawol na'r cyfnod presennol yn ei hanes. Bellach dygir o fewn cyrraedd pawb o'i phlant y manteision addysgol goreu sydd yn ddichonadwy. Gwneir rhedegfa bywyd yn fwy rhwydd ac yn lletach ei phyrth nag erioed o'r blaen. Rhoddir mwy o fri ar dalent amrywiol ei phlant gan genhedloedd ereill nag a roddid o'r blaen mewn unrhyw gyfnod. Cysylltir urddas a bri newydd â gwybodaeth o'i hiaith a'i deifion, heblaw y llu bron dirifedi o fanteision ereill ellid enwi sydd yn gwneyd i ni gredu yn bur gryf fod dyddiau goreu Cymru eto i ddod, ac fod gogoniant "Cymry fydd" i fod yn rhywbeth llawer mwy llachar, llawer mwy eang, a llawer hwy ei barhad na dim a welwyd eto yn hanes "Cymry fu" na "Chymry sydd."

Peth arall y teimlwn yn rhwymedig arnom ei wneyd yn glir ydyw y ffaith nad ydym wrth alw sylw at rai o beryglon presennol y genedl Gymreig, yn golygu bod y peryglon hyn' oll yn amgen nag y gallir, gyda gofal ac ymdrech, eu gorchfygu a'u darostwng oll. Nid ein hamcan o gwbl wrth geisio tynnu y llen, megys, oddi ar y gelynlion arfog sydd a'u cleddyfau wedi eu tynnu allan o'r wain ac wedi eu paratoi i'r frwydr yn ein herbyn, ydyw dychryn neb o'n cydwladyr. Na y mae "codi bwganod" wedi bod yn waith llawer rhy boblogaidd yn ein mysg fel cenedl, a'u "rhoddi i lawr" yn gelfyddyd rhy anadnabyddus yn ein tir. Yr ydym fel cenedl orchfygedig wedi bod yn rhy barod i orfesur nerth a chryfder y gelyn, a bychanu ein nerth ein hunain, fel ag i ddigaloni a ffoi, yn hytrach na gwynebu y frwydr a chario'r dydd. Ni fuasem yn ymddangos ar esgynlawr y Gymdeithas hon heno i son yn y mesur lleiaf am beryglon presennol y genedl Gymreig, oni bai ein bod yn argyhoeddedig nad oes unrhyw beryglon—bydded eu mawredd y peth y byddo—yn anorchfygol i hiliogaeth ddewr "Llewelyn ein Llyw Olaf," ond iddynt yn unig eu gwynebu yn unol ac yn ffyddlon. Nid diffyg gallu a gwroldeb sydd yn esbonio methiantau y genedl Gymreig yn y gorffennol, ond yn hytrach ein diffyg undeb a'n hunanoldeb. Ac y mae hyn yn ein harwain i wneyd yn sylw arall, sef fod y peryglon gwaethaf sydd gan y genedl Gymreig i'w cyfarfod yn y presennol yn rhai sydd oll a'u tarddiad o'i mewn hi ei hun, ac nid yn dyfod oddiwrth ereill. Bu adeg pan yr oedd y genedl Gymreig yn fynych yn cael ei gosod mewn anfautais dybryd ym m'rwydr bywyd yn herwydd y rhwystrau a osodid ar ei ffordd gan genhedloedd ereill. Nid oes dadl na fu adeg pan yr oedd y Saeson yn gwneyd popeth oedd yn eu gallu i wneyd llwyddiant y Cymro ymhob cylch yn amhosibl. Nid yn unig cauid ei ffordd i ffyniant ac anrhydedd â drain yr ochr acw i glawdd Offa, ond gwneid hynny ag ef yn ei dir genedigol ei hun. Gwneid dringo i unrhyw safle o gysur, o gyfrifoldeb, a dylanwad yn amhosibl iddo. Yng Nghymru hefyd John Bull oedd yn teyrnasu, '

Cymry tlodion “y dwthwn hwnnw yn gymynwyr coed ac yn wehynwyr dwfr” i’w fawrhydi trahaus. Y Sais oedd yn llanw pob swydd o urddas ac anrhydedd yn yr holl wlad. Efe oedd yn cynrychioli, neu yn hytrach yn cam-gynrychioli syniadau y bobl yn Nhy y Cyffredin. Efe oedd yn penderfynu achosion o gamddealltwriaeth rhwng gwr a gwr yn y llysoedd gwladol. Efe oedd yn rheoli, yn arglwyddiaethu, ac yn byw yn fras ar ddegymau y werin yn llysoedd esgobol yr Eglwys Wladol. Efe oedd yn eistedd yn segur, ac yn cael byd da helaethwch beunydd ym mhalasdy yr Arlywydd Sirol, tra yr oedd y Cymro yn byw ar fara haidd a phosal dwr, yn ei fwthyn tlodaidd o furiau pridd a tho gwellt. Efe oedd yn llywodraethu yn y pwll glo, ac yn y chwarel lechi, tra’r oedd y Cymro diniwed yn codi yn fore, yn mynd yn hwyr i gysgu, ac yn bwyta bara gofidiau er cadw ei fawrhydi y Sais yn glyd ac yn foethus. Mewn gair, yr oedd ei leferydd ef yn ddeddf; y neb a fynnai a laddai, a’r neb a fynnai a gadwai yn fyw. Ond erbyn heddyw y mae baich mawr y camwri hyn ymysg y pethau a fu. Nid ydym am fynd mor bell a dweyd eu bod oll wedi darfod o’r tir. Na, ceir ambell i amgylchiad—fel apwyntiad Sais heb fedru gair o Gymraeg yn farnwr mewn llysoedd gwladol yn ein terfynau—fel pe i’n hadgofio nad ydyw yr Amaleciaid eto wedi llwyr adael ein broydd, na’u trais oll wedi ei ddiidymu. Ond er hyn oll, yr ydym yn dweyd, a hynny heb ofni ein bod yn camgymeryd, beth bynnag ydyw y mathau hyn o gamwri, y maent oll yn rhai sydd yn aros yn unig ac yn hollol trwy oddefiad a chydysniad—ymwybodol neu anymwybodol—y genedl Gymreig ei hun. Y mae bellach yn ddigon cryf ei llais, a’r manteision i wneyd y llais hwnnw yn glywadwy yn ddigon aml, fel mai wrth ei drws hi mwyach y gorwedd baich y cyfrifoldeb fod gorthwrwm yn cael aros am foment. Yn wir y mae eisoes fel “Cymry sydd,” heb son am “Gymry fydd,” yn ddigon cref, pe’r ymwregysai i’r gwaith, i wneyd camwri fel penodiad Sais heb wybod iaith y bobl yn farnwr yn ei llysoedd gwladol yn amhosibl. Beth bynnag am beryglon presennol y genedl Gymreig, peryglon ydynt ag mae hi ei hun yn gyfrifol am eu bodolaeth. Y maent yn codi o honi ei hun, ac nid o ddim o’r tu allan iddi. Ond, atolwg, beth ydynt y peryglon hyn?

Yr ydym yn ateb, yn gyntaf oll, mai un o beryglon mwyaf y genedl Gymreig heddyw ydyw colli golwg ar ein cyd-berthynas genedlaethol yn ein gwahaniaethau sectol a gwleidyddol.

Fod yn ein mysg wahaniaethau sectol a gwleidyddol sydd ffaith hunan-brofedig. Metha rhai weled yn hynny ddim ond drwg digymysg, tra y gwél ereill ynddo un o’r profion goreu o wir fywyd cenedlaethol cryf ac iach, yn mynnu lle i ymddad blygu yn yr holl amrywiaeth cyfoethog a’i nodwedda, yn y gwahaniaethau sectol a gwleidyddol hyn sydd yn ein plith. Ac eto, nid yw gwahaniaethau sectol a gwleidyddol yng Nghymru, efallai, mor fawr ag y buasid yn tybied ar yr olwg gyntaf. Y mae gwleidyddwyr Cymreig, er engraffit, yn boddloni i fod yn rhanedig i ddwy adran fawr yn unig, Rhyddfrydol a Cheidwadol; ac er fod y rhai sy’n perthyn i’r naill blaid a’r llall yn byw cryn lawer mewn syniadau mympwyol o’r eiddynt eu hunain, eto ar ddydd y prawf ceir eu gwleod oll yn cymeryd eu lle mewn gwleidyddiaeth dan faner y naill neu y llall o’r ddwy blaid a enwasom. Yr un modd gyda golwg ar sectyddiaeth grefyddol. Nid oes yma eto ond dwy blaid fawr, y Cydffurfwyr a’r Anghydfurfwyr. Gwir fod rhai perthynol i’r flaenaf yn meddu eu

lluman neillduol eu hunain, ac fod yr olaf i amcanion neillduol ac am resymau arbennig yn rhanedig i rhyw bedair adran fawr; eto, pan ddelo dydd y prawf, ceir eu gweled oll yn gallu suddo eu mân wahaniaethau yn yr un gwahaniaeth mawr a ysgara un blaid oddi wrth y llall. Nid ydyw yn perthyn i ni yn hyn o bapur i roddi ein barn ar ddoethineb neu annoethineb yr ymraniadau gwleidyddol a sectol hyn. Nid oes ynom awydd ymgymeryd â cheisio penderfynu pa un ai mantais ai anfantais, drwg ynte da, fuasai diddymiad rhannol neu gyflawn y gwahaniaethau sydd yn ein plith ar hyn o bryd. Ond y mae un peth y teimlwn yn berffaith sicr o hono, sef bod y gwahaniaethau hyn, o angenrheidrwydd, i fwyafrif mawr ein cenedl, yn faterion o egwyddor bwysig a difrifol, ac nid o fympwy gwag a di-ddaioni. A'r ystyriaeth o hynny yn unig, feddyliem ni, sydd yn ddiagonol i gyfiawnhau eu bodolaeth a'u parhad. Ond ein dadl yn awr ydyw, bod ymlyniad llw o honom mor gryf wrth ein hegwyddorion gwahaniaethol mewn gwleidyddiaeth a chrefydd, fel yr ydym mewn perygl o gollu golwg ar ein cyd-berthynas genedlaethol yn y gwahaniaethau. Nid ydym wrth ddweyd hyn yn golygu y dylem afael yn llacach yn ein hegwyddorion gwahaniaethol. Na, yn hollol i'r gwrthwyneb. Nid oes dim ag y teimlwn yn fwy dirmygu o hono nag ymlyniad llac ac arwynebol wrth egwyddor. Os yw egwyddor yn werth glynu wrthi o gwbl, y mae yn werth glynu wrthi trwy y teg a'r garw. O bydd dyn yn profesu Ceidwadaeth mewn gwleidyddiaeth, dylai ar bob cyfrif fod yn ffyddlon i'w egwyddorion yn hynny, ac hefyd fod yn barod i'w hamddiffyn yn ddewr ac yn wrol yn wyneb pob anhawster a gwrthwynebiad. Felly hefyd am y dyn sydd yn profesu Rhyddfrydiaeth; os yn ei phroffesu o gwbl, dylai yn bendifaddeu fod yn ffyddlon yn ei ymlyniad wrthi, ac nid cymeryd ei arwain gan bob awel ddsgeidiaeth, na'i brynnu gan bob rhyw "saig o fwyd" a ddigwydder ddwyn ger ei fron. Yr un modd mewn crefydd. O bydd dyn Eglwyswr mewn profes, bydded ffyddlon i'r broffes honno "er gwell ac er gwaeth"; ac o bydd yn Ymneillduwr, bydded Ymneillduwr, ie pe syrthiai y nefoedd. Dywedir fod rhai yn perthyn i'r gwahanol bleidiau mewn gwleidyddiaeth a chrefydd yng Nghymru, na wyddont ddim ar y ddaear fawr paham y digwyddodd iddynt fod yn gysylltiedig â hwynt, ond yn unig ddarfod iddynt gael "eu geni" i'r ffydd honno. Er anrhydedd "hen wlad ein tadau," hyderwn fod yr "had brenhinol" hwn yn mynd yn llai llai bob blwyddyn, oblegid rhai ydynt sydd yn wastad yn fwy o blwm wrth odrau cymdeithas nag o gymorth iddi fyned ymlaen. Os ceir hwy byth yn barod i bleidio Moses ac Aaron, ni cheir hwy byth yn barod i wrthwynebu Janes a Jambres. Rhai ydynt nas gellir byth gyfrif arnynt yn nydd y frwydr. Ond ar yr un pryd ni ddylid gadael i'n sel a'n brwdfrydedd dros blaid a sect fod yn gyfryw ag a'n gwna yn ddall ac yn ddibris o'n cyd-berthynas genedlaethol a'n gilydd. Ac eto, yr ydym yn gwybod y ceir engreifftiau bron dirifedi o hyn yn ein mysg yn barhaus. Cymerer golwg i ddechreu ar yr etholiadau a gymor le yn awr ac eilwaith i swyddogaethau cyhoeddus yn ein gwlad, ac onid ydyw yn ffaith fod pleidiaeth a sectyddiaeth yn mynnu dangos eu hunain, a hynny yn fynych mewn dull nodedig o drystfawr ynglyn â'r rhai hyn. Mewn llawer pentref yng Nghymru, nis gellir boddioni i apwyntiad swyddog i "gaslu treth y ffordd fawr," heb ymholi pa un ai Ceidwadwr ai Rhyddfrydwr fyddo o ran ei olygiadau gwleidyddol, pa un ai Cyd-ffurfiwr ai Anghydfurfiwr o ran ei olygiadau crefyddol,—fel pe byddai

rhywbeth a fynno hynny â chymhwyster neu anghymwyster dyni "gasglu treth y ffordd fawr"; a thra y byddys yn ceisio cael dealltwriaeth ar y cwestiynnau oll-bwysig hyn, daw y Sais neu yr Ysgotyn cyfrwysgall ymlaen, a meddianna y swydd a'i chyfflog megys dan ein dwylaw. Yn wir ymwithia y cwestiwn hwn i bob mater cyhoeddus. Rhaid iddo gael llais yn etholiadau ein Byrddau Ysgol, ein Cyngorau Sirol a Threfol, ac yn sicr yn ein Cynrychiolaeth Seneddol. Nis gellir mynd ymlaen i apwyntio athrawon yn ein hysgolion dyddiol, nac yn ein prifysgolion, heb fod yr aflonyddwr hwn yn mynnu cael ei le a'i lais. Wrth gwrs nid yn ei ddillad ei hun y bydd byth yn ymddangos. Na, mewn dillad benthg y'n ddeithriad y gwna ei ymddangosiad. "Teilyngdod eithriadol i'r swydd" fydd y wisg a gymer. Ni ryfagem awgrymu yr apwyntir neb i swydd yng Nghymru yn unig am ei fod yn digwydd bod mewn cysylltiad â'r blaidd neu yr enwad hwn neu arall; na, gwyddom mai yn ol teilyngdod a chymhwyster i'r swydd yn wastad y gwneir hynny. Ond y gwaethaf yw fod pobl yn dyfod i adnabod y "llais" yn aml serch i'r wisg fod wedi newid, ac yn dyfod i ddeall mai rhan fawr o'r "cymhwyster" i'r swydd ydyw bod yr ymgeisydd yn perthyn i'r enwad a'r enwad, neu y blaidd a'r blaidd. Nid ydym, cofier, yn chwennyech awgrymu bod unrhyw enwad neu blaidd yn fwy na'i gilydd yn y camwedd hwn; dibynna hynny yn aml ar ba enwad neu blaidd fyddo gryfaf yn yr ardal lle y gwneir yr apwyntiad.

Ond daw yr un ysbryd i mewn, nid yn unig ynglyn â'n hetholiadau i swyddogaethau cyhoeddus yn y Dywysogaeth, ond daw i mewn hefyd yn y teimladau angharedeg a goleddir yn aml gan y naill blaidd mewn gwleidyddiaeth a chrefydd tuag at y lall. Dywedir wrthym fod llawer mwy o'r peth hwnnw a elwir "undeb" i'w gael rhwng y gwahanol bleidiau yng Nghymru heddyw nag y bu. Nid oes gennym ond dymuno bod y ddamcaniaeth yn wir. O'n rhan ein hunain, amhéuwn yn fawr a ydyw y teimladau pleidgar yn rhedeg mor uchel mewn unrhyw ran o'r deyrnas ag y gwnant yng Nghymru. Mewn gwleidyddiaeth, er engraifft, ceir y Rhyddfrydwr yn edrych ar y Ceidwadwr fel gelyn i'w wylled a'i osgoi, a'r Ceidwadwr yntau yn edrych ar ei frawd y Rhyddfrydwr fel bradwr nwydwyllt sy'n sychedu beunydd am ddfrod a galanastras. Mewn crefydd drachefn, ceir yr Eglwyswr yn edrych ar ei frawd yr Ymneillduwr fel bod hollol ddirmygedig, ac anhaeddiannol o bob parch ac ymddiried; a'r Ymneillduwr yntau, yn ei dro, yn edrych ar yr Eglwyswr gyda chasineb bron na alwai ef yn "gas cyflawn." Ac y mae yr un peth yn wir mewn ffaith, os nad i'r un graddau, am y mân bleidiau y naill tuag at y lall. Ond tybed ai ni ellir diogelu ein ffyddlondeb i'n hegwyddorion gwahaniaethol mewn gwleidyddiaeth a chrefydd, ac ar yr un pryd ffarwelio unwaith ac am byth â phob cenfigen a malaie a drwg-deimlad sydd yn rhy fynych yn nodweddu ein perthynas y naill a'r lall? Nes y gellir gwneyd hynny, nis gellir disgwyl ond dyfodol cymylog a dilewyrch i genedlaetholdeb Cymreig. Y mae yn bryd i ni ddeall nad all y gwahaniaethau hyn mewn gwleidyddiaeth a chrefydd byth ddifodi ein perthynas genedlaethol, nac ychwaith wneyd i fwrdd â'r rhwymedigaethau sydd yn codi yn naturiol o'r berthynas honno. Yr ydym o flaen popeth yn Gymry. Mewn ystyr, "brodyr o'r un bru ydym." Ac nid oes gan ddim hawl i ddyfod ar draws y berthynas naturiol honno. Dywedir ein bod ar lwyfan yr Eisteddfod yn llwyddo i raddau helaethach nag yn unman arall i sylweddoli ein perthynas

genedlaethol, ac ar yr un pryd i anwybyddu ein gwahaniaethau. Y mae gallu gwneyd hynny i'r graddau amherffaith y gwneir am un wythnos mewn blwyddyn, yn dda; ond, paham, atolwg, nad ellir ei wneyd bob dydd? Nid ydyw ei sicrhau o gwbl yn golygu aberthu unrhyw un o'r egwyddorion gwahaniaethol a anwylir gennym; yn wir, hyd y gwelwn ni, y bobl sydd ffyddlonaf i'w hegwyddorion, ac yn yr ystyr oreu o fod yn ffyddlon iddynt, ydyw y rhai mwyaf rhydd oddiwrth bob culni a surni sydd fel caner difaol yn bwyta i fyny ein bywyd cenedlaethol. Hwn, ni gredwn, ydyw un o beryglon presennol y genedl Gymreig, ac y mae ein ffyniant dyfodol fel cenedl yn sicr o fod yn dibynnu llawer ar ein bod yn llwyddo i'w gael dan draed unwaith ac am byth.

Ond un arall o beryglon presennol y genedl Gymreig ag y dymunem alw sylw ato, ydyw, Colli golwg ar ein buddiannau cenedlaethol yn ein sêl a'n brwdfrydedd dros fuddiannau lleol a phersonol. Y mae hwn, ni addefwn, wedi bod yn un o beryglon y genedl Gymreig ymhob oes o'i hanes; ac y mae yn ofidus meddwl ei fod yn parhau yn un o'i pheryglon presennol. Yn yr oesau gynt deuai i'r golwg mewn mân gwerylon rhwng tywysogion y naill dalaeth a'r llall o'r Dywysogaeth, cwerylon na byddai rheswm pwysicach drostynt na'r drygioni a'r malais oedd yn cael ei achlesu ym mynwes y naill lwyth at y llall, a hwnnw, fynychaf, wedi cael bod yn anwybodaeth dybryd a chwbl anesusodol y naill a'r llall. Ond cwerylon oeddynt er hynny oedd yn bwyta mêt a braster ein cenedlaetholdeb; cwerylon ag y gorwedd wrth eu drws y cyfrifoldeb o oresgyniad ein gwlad gan y naill ar ol y llall o'r rhai a'i darostyngasant. Yr oedd gofal y naill dywysog mor fawr am ei fuddiannau personol ei hun, fel y methai weled fod cyfiawnder yn bosibl iddo ef ond trwy ddarostyngiad ei frawd. Tybid gan y Deheuwyr fod buddiannau y Gogledd yn parhaus fyned ar draws yr eiddynt hwy, a'r un modd y tybiai pobl y Gogledd am yr eiddynt hwythau; a chawn fod mwy o elyniaeth yn cael ei feithrin gan y tywysogion Cymreig y naill at y llall nag a goleddid ganddynt at eu gelyn cyffredin yr estron. Yn wir y fath oedd eu fflineb yn yr ystyr yma fel y cawn hwynt yn fynych, pan yn methu gwastatâu eu cwerylon eu hunain yn galw yr estron i gyflawni hynny o orchwyl, ac yntau, yn ol ei gyfrwystra arferol, yn ddiethriad yn chwareu rhan y llwynog â hwy, gan fwyta yr holl gaws ei hun. Nid ydyw hynny ychwaith i synnu ato, na'r olygfa mewn un modd yn un i feithrin mewn neb y cydyndeimlad lleiaf â'r tywysogion Cymreig yn eu trybini. Ond nid ein hamcan yn awr ydyw galw sylw at hyn fel yr oedd yn ffurfio rhan o beryglon y Cymry yn yr hen oesoedd, ond fel y mae hefyd yn un o brif beryglon presennol ein cenedl. Onid yw hawliau personol a hawliau cenedlaethol yn fynych yn dyfod i wrthdarawiad a'u gilydd yn ein mysg y dyddiau hyn, ac fel rheol yr olaf yn gorfod rhoddi ffordd i'r blaenaf? Ac onid ydyw yn ffaith fod hawliau lleol yn aml yn dyfod i wrthdarawiad â'r eiddo y genedl, gan beri weithiau ddaear-grynfâu mewn mannau, ac onid ydyw llawer o'r drwgdeimlad a fodolai gynt rhwng De a Gogledd yn aros o hyd, ac yn awr ac yn y man yn torri allan yn dân gwreichionllyd a pheryglus? Y gwir ydyw nas gellir symud ymlaen gydag unrhyw achos o bwysigrwydd cenedlaethol, heb dalu gwarogaeth, a honno fynychaf yn un ddrud iawn, i'r teimlad talaethol, lleol, a phersonol sydd yn ein mysg. Daw hyn i'r golwg yn arbennig ynglyn â'n prif sefydliad cenedlaethol, yr Eisteddfod.

Nis gellir penderfynu ar fan i'w chynnal, ar swyddogion, megis arweinyddion a beirniaid, i'w dwyn ymlaen, heb fod y teimlad lleol yn mynnu cael lle a sylw neillduol. Un diwrnod, ceir yr Orsedd, gyda'i rhwysgfawredd arferol, yn cyhoeddi mewn llais awdurdodol, yn wyneb haul a llygad goleuni, ac â sain udgorn, mai dim ond un Eisteddfod Dalaethol sydd i'w chynnal y flwyddyn honno yng Ngwynedd, a'i bod i'w chynnal, yn ol baint a defod Beirdd Ynys Prydain, yn ———; ond y mae pobl gall, ddoeth, a darbodol glan y môr, wedi penderfynu yn unfryd unfarn mewn cyfarfod hunan-etholedig o brif fasnachwyr y dreflan bwysig honno, y busasai yn fantais i fasnach y lle i gael Eisteddfod Dalaethol Gwynedd yno yn ol baint a defod; a pha wahaniaeth ganddynt hwy, y Philistiaid di-enwaededig, beth ddywedo rhyw "ffwlbrï" o gynhulliad fel yr Orsedd ar y mater? Mwy pwysig iddynt hwy o lawer fydd dwyn masnach y dref i sylw; ac os na ellir sicrhau daioni y genedl ar yr un llinellau ag y sicrheir eu daioni lleol a phersonol hwy, wel, aed y genedl a'r neb a'i caro i'r lle a'r man y mynnont. Y mae y mwyaf yn gorfod mynd yn aberth i'r lleiaf yn barhaus. Yn wir, daw yr un ysbryd i'r golwg ynglyn ag agos bob mudiad cyhoeddus yn ein gwlad. Cymerer y cwestiwn o addysg er engraifft; y mae y cwestiwn pwysig hwn wedi gorfod mynd yn aberth dro ar ol tro i'r teimlad personol a lleol a fodola yn ein plith. Y mae yn hawdd iawn gennym feio y Senedd Brydeinig am na fuasai manteision addysg ganolraddol ac uwchraddol wedi eu hestyn i ni flynyddau yn gynt; ond tyhed mai wrth eu drws hwy y gorwedd yr holl fai, ac ai nid mwy gwir a mwy gonest fyddai i ni gyfaddef fod hanner y bai, beth bynnag, yn gorwedd wrth ein drws ni ein hunain fel cenedl, a hynny am nad oeddym yn ddigon mawrfrydig ein syniadau i aberthu llesiant lleol a phersonol ar allor fawr addysg y werin? Onid yw hwn wedi bod yn ormod o asgwrn cynnen rhwng De a Gogledd, a rhwng Gogledd a De? Ac nid oes dadl nad ydyw y teimlad lleol, pentrefol, sydd yn ein mysg, wedi bod yn llawn cymaint o atalfa ar ffordd buddiannau Cymreig ag ydyw y teimladau personol. Y mae y pellder rhwng y De a'r Gogledd, er engraifft, wedi bod yn llawer rhy lydan, ac y mae yr adwy wedi ei chadw yn agored ar lawer adeg pan y galleid, a phan yr oedd popeth yn galw am iddi gael ei chau i fyny am byth. Y mae yn sicr o fod yn llawn bryd i'r geiriau "Hwntw," a "Northman," a phob malais a chenfigen sydd yn llechu yn y geiriau, i ddarfod o'n tafodiaith yn llwyr ac yn hollol. A hyd oni wneir hynny, nis gellir disgwyl gweled oes euraidd cenedlaetholdeb Cymreig. Tybed fod dyn yn llai o Gymro am ei fod yn digwydd byw yn y Gogledd yn hytrach nag yn y De, neu yn y De yn hytrach nag yn y Gogledd? Y mae y Cymro yn Gymro yn gyntaf, ac yna yn Ogleddwr neu yn Ddeheuwr, fel y damweinio fod, yn ail ac yn olaf. Y mae buddiannau ein cenedl i gael y faenoriaeth ar bob buddiannau lleol a phersonol. A dylem fod yn barod i aberthu ein lles a'n buddiant personol yn llesiant a buddiant y wlad a'r genedl. Ac yn ddiddadl, os ydyw codi yr hen wlad yn ei hol, yn nod ac yn amcan gennym, bydd yn rhaid i ni fod yn barod i wneyd llawer aberth. Yr ydym fel cenedl yn awr ar fin cael Prifysgol i Gymru; ond os ydyw i'w chael, bydd yn ofynol i ystyriaethau lleol, talaethol, a phersonol roddi ffordd i fudiad y genedl fel cyfangorff. Y gwir yw fod llu o honom yn rhy barod i dybied mai y drigfan ddedwydd honno a ddigwydda fod mor ffodus a gallu ein rhestru ni ymysg ei phreswylwyr, ydyw prif ddinas y byd Cymreig, ac fod yn rhaid i bob gwir

welliant i'r wlad a'r genedl gychwyn oddi yno. Arferai fod yn rheol gynt mai mewn amlder cynghorwyr yr oedd diogelwch; ond amheura yn fawr ai nid o amlder cynghorwyr Cymru y cyfyd ei pherygl. Nid oes brinder arweinwyr yng Nghymru, y maent braidd mor amau a'r tywod ar lan y mor sydd yn aneirif. Y perygl ydyw i ni oll fyndd arweinwyr, a neb i'n dilyn. Ond cyfyd hyn o'r pwsigwyddd diroswm fyddwn yn ei gysylltu yn rhy fynych a'n syniadau a'n teimladau personol ein hunain. Y cwestiwn y dylem fod yn barod i'w ofyn ydyw, nid beth sydd oreu i ni yn bersonal, ac nid ychwaith beth sydd oreu i'r dref neu y pentref y digwyddwn fod yn byw ynddo; ond beth sydd oreu i gorff ein cenedl? Ac yna gweithio i sicrhau hwnnw, deued a ddelo.

Drachefn, nid oes eisieu craffder mawr i ganfod mai un arall o beryglon presennol y genedl Gymreig ydyw, Anghosio ein rhwymedigaethau cenhedlaethol yn ein hawydd am ragori mewn cydymgais a chenhedloedd ereill mewn masnach a llwyddiant cymdeithasol. Fel yr ydym eisoes wedi awgrymu, nodweddir y blynyddoedd hyn yn ein hanes fel cyfnod o ddeffrôad. Y mae pob Cymro a Chymraes ieuanc deilwng o'r enw, wedi eu meddiannu gan awydd cryf a phenderfyniad gwrol i ragori yn y naill neu y llall o feunydd eang a chyfoethog llwyddiant. Itholdir ynni newydd ynddynt wrth ganfod rhai o'u plith eu hunain yn gwnoyd y fath orchestion ym myd celf a gwyddor. Ceir erbyn heddyw llawr o fochgyn a merched Cymru wedi cyrraedd y prif safleoedd ym mhirlf golegau y Deyrnas mewn gwybodaeth ac ysgolheigod. Ceir hwynt wedi dringo i'r lleoedd uchaf yn y prif ddinasoedd a'r trefydd mewn masnach a safleoedd cymdeithasol. Mewn gair, y maent i'w cael yn llu ymhob cylch o anrhydedd mewn gwlad a thref, tu yma a thu draw i foroedd. Ac un o brif fendithion y llwyddiant yma ydyw y dylunwdd cymdeithasol a adawa ar y rhelyw o'n pobl ieuanc i fynnu o honnynt hwythau ragori. Ond yn y posibilrwydd eithriadol yma o lwyddiant y genedl mae un o'n prif beryglon presennol fel cenedl, sef collu ein golygw ar ein dyled a'n rhwymedigaethau cenedlaethol.

Ceir yn ein mysg lawer sydd yn rhy barod i dybied fod bod allan o Gymru yn byw yn golygu bod yn rhydd o'u rhwymedigaethau i'w gwlad a'u cenedl. Yngysylltir hyd y mae yn bosibl a'r genedl Seisnig. Ni dderlloantir dim llynyddiaeth Gymreig; yr holl amser a roddir i ddarllen a raddir yn gyfanguwl i lenyddiaeth Seisnig, fel yr eir, ymhen ychydig flynyddau, yn anwybodus hollol am bopeth a berthyn i hawliau Cymru, Cymro, a Chymraeg. Y mae y llifeiriant Seisnig sydd yn dyfod dros ein gwlad, ni addotwn, yn cyfrif i raddau helaeth am hyn. Y mae y Busnæg yn laith masnach, ac oddi ar yr ystyriaeth honno ceir Cymry yn dwyn eu plant i fyw yn Saeson, heb wybod dim o iaith eu genedlgaeth. Cofior, yr un pryd, nad ydym yn dymuno awgrymu o gwbl y dylid poidio dysgu Saesneg; i'r gwrthwyneb, dywedwn, dysger Busnæg ar bob cyfrif i bob bachgen a geneth; na fydded neb yn cael ei oed mewn infantais yn herwydd anwybodaeth o honi; ond ein dadl ydyw, na ddylid dysgu Saesneg i blant Cymreig ar draul eu hamddifadu o wybodaeth yn ein hiaith ein hunain. Oddi ar safle Gymreig, ychydig iawn o gydyndeimlad a feddwn a'r cri mawr sydd mewn rhai rhannau o'n gwlad ymysg y gwahanol enwadau crefyddol, dros sefydlu achosion Seisnig. Nid ydym am ddweyd gair yn erbyn estyn i'r Saeson sydd yn byw yn ein mysg freintiau crefyddol yn eu hiaith eu hunain; ond y

mae hynny yn beth tra gwahanol i'r cri ffol sydd gan lawer o Gymry am ddwyn ymlaen eu gwasanaeth crefyddol yn yr iaith Saesneg. Gwyddom am gynulleidfaeodd yn perthyn i'r gwahanol enwadau yn cyfarfod â'u gilydd bob Saboth i gario ymlaen eu gwasanaeth crefyddol yn Saesneg, tra mewn gwirionedd, y bydd tri o bob pedwar o honynt yn deall Cymraeg yn llawn cystal a Saesneg, a dweyd y lleiaf am danynt. A cheir rhai o honynt a fynychant yr addoldai Cymreig eu hunain, ond a anfonant eu plant i'r gwasanaeth Saesneg er dyfod yn hyddysg yn yr iaith honno; ac wrth hynny y maent yn llythrennol wneuthur masnach o air Duw. Ond yr ydym yn nodi y pethau hyn i'n condemnio yn awr, nid oddi ar unrhyw safle crefyddol nac enwadol, ond yn unig oddi ar safle Gymreig, a hynny yn gwbl am y rheswm y credwn fod tuedd uniongyrchol yuddynt i beri i ni gollu golwg ar ein cyfrifoldeb i'n hiaith, ein gwlad, a'n cenedl. Dywedir am yr Albanwr, a hynny er anrhydedd iddo, nad ydyw byth yn darfod a bod yn Albanwr. Er gadael ei wlad, er colli ei iaith, er ymgymysgu â'r byd mawr llydan yn ei fasnach a'i gymdeithas, ac er rhagori agos ar bawb y daw i gysylltiad â hwynt mewn llwyddiant masnachol a chymdeithasol, eto erys o hyd yn wir fab y mynydd-dir, a'i gariad a'i fyddlondeb i wlad ei dadau mor fyw ag erioed. Ond yr ydym yn amheus iawn, oddiwrth engreiffitiau sydd ger ein bion bob dydd, a fedr y Cymro fforddio colli y pethau hyn, ac ar yr un pryd ddiogelu ei gariad a'i fyddlondeb i'w rwymedigaethau. Nid ydys am ddweyd nad oes i'w cael rai sydd yn estroniaid i Gymru o ran genedlaeth ac o ran iaith, ond sydd yn selog ac yn fyddlon i'w rhwymedigaethau cenhedlaethol er hynny. Gwyddom hefyd fod rhai sydd wedi gadael Cymru, ac wedi rhagori mewn llwyddiant, ac eto heb anghofio eu gwlad a'u cenedl. Ond ofnwn y rhaid i'r mwyaif hyderus o honom gydnabod mai eithriadau ydyw y rhai hyn, ac mai y rheol ydyw, pan gyll y Cymro y pethau a nodasom, ei fod hefyd yr un pryd yn colli ei gariad a'i gydymdeimlad cenedlaethol. Ond ac edrych ar y peth oddi ar safle naturiol a rhesymol, methwn yn lan a gweled paham y rhaid i un wedi ei eni o Gymru, ac heb gael y fantais o ddyfod yn hyddysg yn iaith y bryniau, fod ar gyfrif yr ystyr-iaethau hynny yn llai o Gymro o ran ysbryd a theimlad, ac o ran fyddlondeb i'w rwymedigaethau cenedlaethol, os yn Gymro o gwbl. Wrth gwrs y mae cenedlaetholdeb Cymreig wedi dyfod erbyn heddyw yn beth llawer mwy parchus nag yr arferai fod ychydig flynyddau yn ol, ac am y rheswm hwnnw y mae llawer yn honni perthynas gwaed â'r Cymry na fuasant amser yn ol yn arddel y ddeunawfed ach o'r cyfryw berthynas. Nid yn anfynych heddyw y clywir gan rai sydd yn llanw y cychoedd uchaf yn y deyrnas, eu bod hwythau hefyd yn "Gymry o waed;" ond tybed nad ydyw bod yn "Gymro o waed" yn golygu bod yn Gymro ymhob ystyr? Ai nid ydyw gwaedoliaeth Gymreig yn dwyn gydag ef bob cyfrifoldeb sydd yn perthyn i genedlaetholdeb Cymreig? Nid oes ond un ateb yn ddiau yn bosibl i'r fath ofyniad, ac y mae y dyn sydd yn honni "gwaedoliaeth Gymreig," ac ar yr un pryd yn anystyriol o'i rwymedigaethau cenedlaethol, pwy bynnag ydyw, yn fradwr hunan-gondemnidig. Yr ydym eto yn dweyd nad oes dim ag y teimlwn yn fwy llawen o'i blegid na'r deffrôad cenedlaethol presennol ynglyn ag addysg, a'r manteision eithriadol a ddyga hynny i gyrraedd ieuencid Cymru i ragori mewn cydymgais â chenedloedd ereill; yn unig dywedwn y rhaid bod yn wyliadwrs rhag cael ein cludo gan y llifeir-

iant hwn i anghofo ein dyled a'n rhwymedigaethau "i godi yr hen wlad yn ei hol;" ac ar gyfrif yr ystyriaethau hyn, meiddiwn awgrymu na ddylai unrhyw gyfundrefn o addysg gael derbynriad yn ysgolion elfennol, canolraddol, neu uwchraddol Cymru, ond a fyddo yn rhoddi lle priodol i hanes a llenyddiaeth Gymreig.

Ond ymhellach, yr ydym yn dweyd mai un arall o beryglon presennol y genedl Gymreig ydyw Efelychu cenhedloedd ereill yn eu gwendidau a'u ffaeiddau, ar draul colli meddiant o'r elfennau hynny sydd wedi gwneyd y genedl Gymreig y peth ydyw heddyw. Nid oes dadl nad ydyw y genedl Gymreig, ar ryw ystyriaethau, yn meddu safle eithriadol ymysg cenhedloedd gwareiddiedig y byd. Ond atolwg, i ba beth neu bethau y mae i briodoli y safle honno? Onid i'w chrefyddolder dwfn, a'i chwaeth gref at lenyddiaeth a cherddoriaeth? Nid oes ynom y petruster lleist i ateb mai i'r pethau hynny yn bennaf, os nad yn hollol, y mae i briodoli y cwbl. Ond y mae dyfodiad yr iaith Saesneg yn dwyn gyda hi i'n gwlad arferion oeddynt o'r blaen yn estronol i'n cenedl, ac yr ydym mewn perygl o efelychu y Saeson yn eu pethau salaf, a hynny ar draul colli gafael yn ein nodweddion rhagoraf ein hunain. Y mae y mur "dim Saesneg," a gadwodd lawer bwystfil allan o Gymru, bellach wedi ei dynnu i lawr, a rhaid cyfarfod â'r canlyniadau. Nid ydym, cofier, am awgrymu nad oes yn y Saeson a ddylifant i'n gwlad lawer o rinweddau ac arferion y byddai o fantais neillduol i'r Cymro eu hefelychu. Ond y gwaethaf yw, fod yn haws gan genedl, yn ogystal â pherson unigol, efelychu y peth sydd salaf mewn arall, na'r peth sydd oreu ynddo. Ac anffawd o'r fath ywyaf difrifol i'n cenedl fyddai syrthio i'r camwri hwn. Byddai rhoddi i fyny y Gymanfa Ganu, y Gymanfa Bregethu, y Cyfarfod Llenyddol, a'r Eisteddfod, er mabwysiadu hap-chwareuon, rhedegfeydd ceffylau, a chwareuon maswedd ereill y werin Seisnig, yn fargen rhy sâl i gael ei gwneyd gan fodau rhesymol a chyfrifol.

Ni chaniatâ amser i ni fanylu ymhellach ar yr un o nodau amrywiol ereill y perygl hwn. Yn unig dywedwn nas gellir fforddio bod yn ddibris a difater yn ei gylch. Y mae yn ddiddadl yn un o beryglon presennol y genedl Gymreig.

Ond yr ydym yn dychwelyd yn ol i'r man y dechreuasom hyn o bapur, ac yr ydym yn ei ddiwedd yn ail ddweyd yr hyn a ddywedasom yn ei ddechreu,—Beth bynnag ydyw peryglon presennol y genedl Gymreig, y maent oll yn rhai y gellir eu gorchfygu. Nid oes achos i ni ddigalonni na llwrfhau. Gellir dweyd am y tadau Cymreig, y rhai oeddynt wyr enwog gynt, os ydynt heddyw o ran eu cyrff yn gorwedd yn nistawrwydd y bedd, y maent o ran ei hysbrydoedd yn dal i gerdded rhagddynt o flaen "Cymry fydd,"—byddin sydd yn cael ei gwneyd i fyny o ddynion ieuaine a merched ieuaine goreu y genedl,—gan waeddi fod dyddiau gwell i ddod, dyddiau o wybodaeth ag addysg uchel, dyddiau o weithgarwch cyson a gwerthfawr, dyddiau o lwyddiant pur a pharhaol, dyddiau codiad haul megys o'r uchelder ar Gymru, Cymro, a Chymraeg!

PA FATH EGLWYSWR OEDD JOHN WESLEY?

DYWEDWYD lawer gwaith,—do, lawer a llawer gwaith hefyd,—fod John Wesley yn Eglwyswr—yn Uchel Eglwyswr o'r iawn ryw, mal y dylasai fod. Ac ynglyn â hynny, dywedid gydag awdurdod a phwyslais y dylai y Wesleyaid yn eu crynswth ddychwelyd i'r Eglwys yn ddioedi; neu, rhag eu cywilydd, beidio yngan hanner gair byth eu bod yn perthyn i John Wesley. Y mae hon yn hen stori, wedi ei dweyd lawer gwaith drosodd. Adroddwyd hi yng nghorff y deg neu y pymtheg mlynedd ar hugain diweddaf gan Gonfocasiwn a Chyngres, gan Dr. Pusey, a chan na wyddys pa nifer o Ddoctoriaid a gwyr mawr—a mân—ereill, gyda gonestrwydd a difrifwch mawr iawn. Cyhoeddwyd hi i'r Cyfundeb yn gyffredinol mewn areithiau ac erthyglau a phamphledau tu hwnt i rif. A chafodd y Gynhadledd ei gwybod yn benodol ac uniongyrchol. Bu adeg yr ymddanghosai yr Eglwys fel yn disgwyl i'r Gynhadledd basio penderfyniad yn unfrydol a brwdfrydig fod i'r Wesleyaid, fawr a mân, un ac oll, fyned ar eu hunion i'r Eglwys, ac na byddai na Chynhadledd na Chyfundeb Wesleyaidd mwych! Galleid meddwl y tybid nad oedd eisieu dim ond i'r Eglwys ddweyd y gair, dim ond i'r Wesleyaid wybod fod y fath beth â derbynriad i'r Eglwys yn bosibl iddynt, na buasent ar unwaith yn myned iddi, y Llywydd yn gyntaf, a phawb ar ei ol, fel gyr o ddefaid i gorlan. Rhoddid ar ddeall iddynt hefyd y pryd hwnnw y caent, os dychwelent, nid yn unig osgoi yr euogrwydd du a'r cyflwr sobr y mae y mae y "sismaticiaid" ynndo, eithr y caent eu cynysgaeddu â breintiau fil ac un yn y fargen. Delid gobaiith ordeiniad "awdurdod-edig" o flaen y "prif" weinidogion. Ac awgrymid y galleid, hwyrach, wneyd rhywbeth i'r rhengoedd; eu gwneyd yn weision gweision eu brodyr mewn rhyw fodd neu gilydd. Hanner addewid *compensation* o ryw fath iddynt ar gyfrif eu *life interest*. Mor ardderchog a fuasai hyn oll! Nis gellir bod yn sicr a ydyw tymor y rhagolygon disglair yma yn parhau ai peidio. Ni chlywir ar hyn o bryd ddim yn eu cych. Peth difrifol yw colli cyfleustra! Eithr pe buasai y Gynhadledd yn Notting-ham, yn lle bod yn fwy hyf i gyhoeddi y Cyfundeb yn Eglwys, yn penderfynu myned yn orymdaith i'r Eglwys Sefydledig, y mae yu bosibl y cawsai Dr. Bowman Stephenson y fraint fawr o gael ordeiniad Esgobol! Y fath anrhydedd a fuasai hynny iddo ef ei hun a phawb, hyd i'r aelod ieuengaf yn Ysgol Sul y Cyfundeb! A phwy wyr na chawsai Robert Jones, Cadeirydd parchus Talaeth Gogledd Cymru, ordeiniad a churadiaeth gan ei Wir Barchedig gymydog? Y mae pethau rhyfedd yn digwydd, wedi'r cwbl, yn y dyddiau rhyfedd presennol!

Dylid cadw mewn cof mai nid *undeb* rhwng y Wesleyaid a'r Eglwys a olygid yn yr adeg y cyfeiriwyd ati. Mae yn wir fod rhai y pryd hynny dros gael *undeb* ar delerau anrhydeddus gyda'r Eglwysi Rhyddion yn gyffredinol,—megys Deon Alford a Deon Stanley; ond nid oedd hynny ond syniad eithriadol. Yn ddiau, pe dyna fuasai y syniad cyffredinol, ni buasai y Wesleyaid yn ol o wneyd eu rhan tuag at ddwyn peth mor ddymunol i fod yn ffaith; canys y maent yn credu cymaint a neb mewn *undeb*; ac yn gwybod cytal a neb nad ydyw *undeb* yn rhwym o fod yn unfuriaeth. Eithr syniad hollol wahanol oedd yr un a ffynnai. Cyn-lun Pwyllgor Eglwysig 1856 gyda golwg ar y Wesleyaid, a siarad yn

blaen, oedd eu llyncu hwynt yn fyw, fel y bedd, ac yn gyfan, fel rhai yn disgyn i'r pydew. Ac nid oedd hynny ond rhan o gynllun ehangach. Nid oedd y Wesleyaid, i fod ond yn gyntaf o gyfres. Credai y Pwyllgor mai hwynt-hwy oedd yr hawddaf i'w llyncu; a'i reswm dros hynny oedd eu bod heb erioed roddi cyhoeddiad swyddogol eu bod yn Ymneillduwyr. Nid oes angen aros yma i egluro pa fodd na wnaed hynny; ond canfyddir ar unwaith pa mor arwynebol oedd yr ystyriaeth a roddodd y Pwyllgor enwog hwnnw i'r pwnc yr apwyntiodd ei hunan yn unswydd i'w drafod. Ond wedi llyncu y Wesleyaid, yr oedd yn y cynllun i fyned ymlaen i gael pob cyfoeth gwerthfawr trwy wneyd ysbail o'r Eglwysi Rhyddion ereill. Yr oedd cynllun y diweddar Ddeon Edwards, feallai, ychydig yn fwy rhyddfrydig, neu o leiaf yn fwy ystyriol. Yr oedd ef yn barod i ganiatau i'r enwadau barhau i gadw eu capeli i fod yn fath o synagogau yn y tir; ac felly, debygid, i'r gweiniogion Ymneillduol ddwyn ymlaen wasanaeth y synagogau hynny, bawb yn ei drefn ei hun; ond gofalu am gymuno yn Eglwys y Plwyf. Ond wedi y cwbl nid oedd hynny ond cwestiwn o fanylion. Yr oedd y Deon wedi ymdynghedu i "un wir Apostolig Eglwys," ond yr oedd ei galon garedig yn barod i ganiatau eu synagogau i'r Ymneillduwyr, er mwyn eu cadw yn ddi-ddig tra y byddid yn myned trwy y cwrs-weithrediad o'u llyncu.

Erbyn hyn y mae y cynllun byr a chryno a diseremoni o lyncu, hyd yn oed y Cyfundeb Wesleyaidd, yn ei gyfangorff, fel pe yn cael ei roddi heibio. Braidd na chydabyddir, er yn dra anewllysgar, fod y peth yn anymarferadwy. Ymddengys fod y Gynhadledd ddiweddar wedi diffodd gobaith olaf y *Church Times* o'r cyfeiriad hwnnw. Ac nid oes bellach ond ymwydnu ati i weithio allan y cynllun hŷn a mwy llafurus o broselytiaeth bersonol. Ac i'r pwrpas hwnnw y mae yr hen stori yn dal yn ei blas. Y mae y personiaid a'r curadiaid a'i hadroddant wrth y Wesleyaid, yn enwedig y rhai a dybir yn lleiaf eu gwyboethaeth a basaf eu hargyhoeddiadau, yn llw mawr. Y mae hynny yn un rhan o ddyledswyddau eu "hymweliadau bugeiliol" ar hyd a lled y wlad; a chyflawnant hi mor llithrig a phe buasai yn y *Common Prayer*. Y mae rhai o honynt, pan yn cyfarfod ag ambell hen gymeriad, yn ddigon grasol i gydnabod fod John Wesley ei hun wedi cael cam; fod yr Eglwys i'w beio am ei droi allan, a chau y drws i'w erbyn, a lluchio cerrig ar ei ol. Eithr chwanegir, nad oedd hynny ddim ond ychydig o gamgymeriad ag y dylid erbyn hyn edrych heibio iddo; fod yr ystorn drosodd, ac fod drws yr Eglwys yn llydan-agored i dderbyn ei ddilynwyr yn ol; ac os na ddychwelant y byddant yn euog o'r pechod ysgeler o sism, a'u cyflwr yn anobeithiol. Clywais hyn bron i'r llythyren, yn agos iawn i ddeugain mlynedd yn ol, gan gurad ieuanc oedd ar y cyntaf yn ymddangos yn hynod o awyddus i'm goleuo; ond pan welodd, mae'n debyg, fy mod yn anoleuadwy, efe a newidiodd ei dôn. Clywais, a gwelais "mewn print," bethau o'r un ystyr ac i'r un perwyl lawer gwaith ar ol hynny. Ac y mae yr un chwareu yn cael ei barhau. Dywedir yr hen stori yn ddi-daw a diddiwedd gydag awdurdod a rhwysg nad ydynt weddus i ddim ond gwirionedd! Diau fod rhai Eglwyswyr—clerigol a llyegol—yn ddigon anwybodus a diniwed i greu mai felly y mae pethau yn bod, ac felly um eu bod yn credu, yn llefaru. Ac y mae dosbarth arall o Eglwyswyr yn selog ryfeddol dros Eglwysyddiaeth John Wesley, sef y rhai a geisiant ei gwneuthur yn lloches ac amddiffyniad iddynt eu

hunain. Ni olygir y gwyr ieuaine sydd wedi "methu pasio" i'r weinidogaeth, ond wedi llwyddo i gael "bywoliaeth" yn yr Eglwys. Y mae rhai felly, ac y maent hwy, yn anad neb, yn gwybod pob peth am John Wesley, ond ychydig o sylw a gânt ac a deilyngant. At ddosbarth arall yr oeddwn yn cyfeirio: y lleygwyr hynny oeddynt unwaith yn Wesleyaid, neu yr oedd eu tadau a'u mamau felly, ond sydd wedi codi yn y byd, a chylch cymdeithas y capel wedi myned yn rhy isel iddynt, ac am hynny—ac weithiau am resymau llai diniwed—wedi "troi at yr Eglwys." Y mae rhai o'r dosbarth hwn yn Eglwyswyr ymroddol dros ben; wedi gwneyd yn union yn ol cyllun a dymuniad John Wesley, ac yn gofalu na chollant byth gyfleustra i gymell ereill i wneuthur yr un modd!

Eithr rhy brin y buasai yn werth ysgrifennu er mwyn y dosbarthiadau yna. Y mae lle i ofni fod eu hargyhoeddi yn orchwyl anobeithiol. Ar yr un pryd nis gall mynegi y peth fel y mae fod allan o le. Y mae llawer o Wesleyaid cywir a chydwybodol, y rhai ydynt mor gydwybodol a hynny yn eu hanghydffurfaeth â'r Eglwys Sefydledig am lawer o resymau, wrth gael eu hanner-fyddaru beunydd a byth ynghylch fod John Wesley yn Eglwyswr, yn cael eu tafu i anhawster. Braidd nad arweinir rhai o honynt i feddwl eu bod, wrth fod yn Wesleyaid, yn peidio a bod yn Wesleyaid: eu bod, trwy barhau yn Wesleyaid yn ol Wesleyaeth fel y mae, yn peidio a bod yn ddilynwyr John Wesley; a'u bod o dan rwymau cysondeb i droi cefn ar Wesleyaeth, neu wadu John Wesley. Ac y mae llawer o gyfeillion o enwadau ereill yn cael eu harwain i feddwl yr un fath. Clywais rai pobl gyfrifol o enwadau ereill yn siarad yn union fel pe buasai Wesleyaid y dyddiau hyn mor annhebyg i John Wesley ag ydynt i'r Esgob Edwards neu y Deon Owen. Y mae y ddau ddosbarth hyn yn ddiau yn agored i argyhoeddiad; ac iddynt hwy ni bydd y cwestiwn uwch ben yr ysgrif hon yn annyddorol na di-bwrpas.

Pa fath Eglwyswr oedd John Wesley? Y mae y cwestiwn yn cynnwys addefiad ei fod yn Eglwyswr. Yr ydwyf yn deall ac yn cydnabod hynny ar unwaith. Yr oedd tad a mam John Wesley yn Eglwyswyr cydwybodol a selog, er fod y naill a'r llall yn deilliaw o deuluoedd Puritanaidd; ac yn wir yr oedd tad a thaid ei dad wedi bod o dan erledigaeth oblegid eu bod yn Anghyddfurfwr. Modd bynnag, Eglwyswr mewn urddau oedd tad John Wesley, ac heb fod ganddo ormod o gariad na pharch at yr Anghyddfurfwr am y rhan fwyaf, beth bynnag, o'i oes. Ac yr oedd holl ddylanwadau addysg a dygiad i fywyd mab, a'i holl gylchyniadau gartref ac oddicartref, yn cyd-dueddu yn effeithiol i wneuthur Eglwyswr pybyr a selog, cul a rhagfarnllyd, o hono yntau. A dyna fu y canlyniad. Tra bu John Wesley yn Rhydychain yr oedd yn Uchel Eglwyswr; ac yn America, yn Uchel Eglwyswr Defodol penboeth. Addefir hyn ar unwaith, heb geisio gwadu na chelu nac esbonio. Yr oedd efe y pryd hwnnw yn onest, yn hollol onest; nid oes dim dadl am hynny. Byw yn dduwiol oedd ei amcan a'i nôd, am fod yn sanctaidd yr oedd ei awyddfyd a'i ddyhead. Eithr y camgymeriad mawr oedd ei fod yn ceisio hynny trwy "ymgyfiawnhau yn y ddeddf." Ac felly, megys yn achos Paul, a Luther, a phawb ereill a wnaethant yn gyffelyb, troes yr ymdrech allan yn fethiant. Cafodd yntau hefyd "wybod nad ydys yn cyfiawnhau neb trwy weithredoedd y ddeddf."

Gwyddys fod John Wesley yn dyddio ei ddychweliad—dechreuad gwirioneddol ei fywyd Cristionogol—ar y 14eg o Fai, 1738; fwy na thri mis wedi ei ddyfodiad yn ol o America. Yn y dyddiau hynny efe a gymdeithasai lawer â'r Morafiaid; a chafodd fantais arbennig o hynny, oblegid hwy a agorasant iddo ffordd Duw yn fanylach nag y gwyddai am dani o'r blaen. Ar gyfer y dyddiad uchod y mae yn ysgrifenedig yn ei *Ddyddlyfr*: "Yn yr hwyr aethum yn bur anewyllysgar i gymdeithas yn Aldersgate-street, lle yr oedd un yn darllen Rhagymadrodd Luther i'r Epistol at y Rhufeiniaid. Oddeutu chwarter cyn naw, pan ddisgrifiai efe y cyfnewidiad a weithreda Duw yn y galon trwy ffydd yng Nghrist, teimlais wresogiad dieithr yn fy nghalon. Teimlais fy mod yn ymddiried yng Nghrist, yng Nghrist yn unig, am iachawdwriaeth; a rhoddwyd sicrwydd i mi ei fod Ef wedi dileu fy mhechodau, ie, fy mhechodau i, a'i fod wedi fy rhyddhau oddiwrth ddeddf pechod a marwolaeth." Dyna yr hanes a ddyry John Wesley ei hun am y pryd a'r man a'r modd y cafodd efe yr Anwylyd. Yr oedd efe ar y pryd yn ymyl bod yn 35 mlwydd oed, ac wedi bod mewn cyflawn urddau am ddeng mlynedd, ac am ddwy o honynt yn genhadwr yn Georgia.

Erbyn hyn yr oedd Wesley yn ddyd newydd, yn gwneuthur ail-gychwyniad; ac o hynny allan, daeth cwrs a chymeriad ei fywyd yn hollol wahanol i'r peth ydoedd yn flaenorol. Mae yn wir na chyfnewidiodd ei olygiadau mor uniongyrchol a diatreg ag y cyfnewidicdd ei arferiadau. Dechreuodd ei arferiadau "afreolaidd," fel gwr Eglwysig, yn bur fuan. Anghenrhaid a osodwyd arno. Daeth effeithiau ei weinidogaeth mor ddiethr, oblegid y nerthoedd dwyfol oedd yn cydfyned a hi, nes bod gwarcheidwaid "*law and order*" mewn helbul a dyryswh; ac mewn canlyniad, yr oedd bron yr holl bulpudau Eglwysig wedi eu cau i'w erbyn cyn bod y flwyddyn allan. Am y tri mis cyntaf o'r flwyddyn ganlynol (1739), ni chafodd yr efenglydd newydd-eneiniedig, ag yr oedd y tân dwyfol wedi ei ennyn ynddo, lefaru â'i dafod o bulpud Eglwysig ond rhyw hanner dwsin o weithiau. Er fod ei Air Ef yn ei galon yn llosgi fel tân, wedi ei gau o fewn ei esgyrn, yr oedd yn rhaid iddo ymatal! Ond na; efe a fiinodd yn ymatal; nis gallai! Ar y cyntaf, efe a eglurai Air Duw mewn annedd-dai ac ystafelloedd. Eithr erbyn dechreu Ebrill, yr oedd wedi dechreu pregethu yn yr awyr agored; fel Julius Cæsar, yr oedd wedi croesi y Rubicon. Ar y 12fed o Fai gosodwyd carreg sylfaenol ei addoldy cyntaf, yn Bristol, a thua dechreu Tachwedd yr oedd yr hen *Foundery* yn Llundain wedi ei gwneyd—bu agos i mi ddweyd—yn Eglwys Gadeiriol at ei wasanaeth. Ac yn y cyfamser yr oedd John Cennick, ac yn bur fuan wedi hynny Thomas Maxfield, ac ereill, yn ei gynorthwyo fel pregethwyr. Ac felly yr elai Wesley rhagddo o'r naill "afreoleidd-dra" i'r llall, gan gael ei waradwyddo a'i enllibio; a'r "offeiriad" Eglwysig nid yn anfynech yn annog gwehilion y bobl, yn wir yn eu gosod ar waith, i wneuthur ymosodiadau personol arno. Ond yr oedd Duw gydag ef yn bendithio ei lafur, fel erbyn Medi 1741, yr oedd yn ei gymdeithas yn Llundain yn unig dros fil o aelodau.

Ond er mor bell yr aeth Wesley mor fuan yn ei "afreoleidd-dra" mewn arferiadau, aeth tuag wyth mlynedd heibio cyn iddo ollwng yr olaf o'i ddaliadau Uchel Eglwysig gyda'r gwynt. Yr oedd efe, fel y nodwyd, yn Rhydychain, ac yn enwedig yn Georgia, yn gymaint o Uchel Eglwyswr a neb o Uchel Eglwyswyr y dyddiau presennol oddi-

eithr mewn un pwnc. Nid oes dim i ddangos iddo erioed fod yn dal athrawiaeth Traws-sylweddiad; yn hytrach mae y tystiolaethau yn myned yn y cyfeiriad arall. Eithr ar yr 20fed o Ionawr, 1746, wedi iddo fod yn pregethu yn yr awyr agored am yn agos i saith mlynedd, wedi iddo sefydlu nifer lliosog o gymdeithasau eglwysig, wedi iddo adeiladu capelau mewn gwahanol fannau, wedi iddo dderbyn nifer o bregethwyr heb ordeiniad i'w gynorthwyo, ac wedi iddo gynnal dwy Gynhadledd, gollyngodd afael am byth o'r Olyniaeth Apostolaidd, ac o'r tair urdd yn y Weinidogaeth Gristionogol. Ar y dydd hwnnw ysgrifennodd yn ei *Dyddlyfr*: "Cychwynnais am Bristol. Ar y ffordd darlennais Arglwydd King ar yr Eglwys Gyntefig. Er gwaethaf rhagfarn angherddol fy nygiad i fyny, yr oeddwn yn barod i gredu fod yr arlun hwn yn deg ac amhleidiol; ond os felly, byddai yn canlyn fod Esgobion a Henuriaid (yn hanfodol) yr un urdd; ac yn wreiddiol fod pob cynulleidfa Gristionogol yn Eglwys annibynnol ar bob un arall."

Y mae Uchel Eglwyswr y dyddiau hyn yn bur gyfarwydd gyda llythyr neillduol a ysgrifennodd Wesley at ei frawd ynghyfraith, Westley Hall. Cyfeirir ato a dyfynnir o hono byth a hefyd i brofi ei fod yn Uchel Eglwyswr ardderchog: yn credu yr Olyniaeth a'r Tair Urdd gyda chysondeb unionged Uchel Eglwyswr teilwng o'r enw! Ac y mae yn rhaid cydnabod bodolaeth y fath lythyr: a mwy na hynny, rhaid cydnabod fod i'r Uchel Eglwyswr hawl ynddo. Ni wiw cynnyg eu hysbeilio o'r hyn sydd gyfreithlon iddynt. Ond pa werth "swch heb gylltwr"? Yr oedd Wesley wedi ysgrifennu y llythyr sydd yn gymaint cysur i'r Uchel Eglwyswr cyn iddo ddarllen llyfr y Canghellydd King. Ac er iddo fyw a llafurio ar ol hynny am bum mlynedd a deugain, ni ysgrifennodd air, ac ni wnaeth unrhyw awgrym ffafriol i'r Olyniaeth a'r Tair Urdd o gwbl. Eithr fe wnaeth sylwadau gwahanol i hynny fwy nag unwaith. Ym mis Chwefror 1761, ysgrifennodd ei fod yn gwadu yr Olyniaeth; nad oedd efe erioed wedi gweled ei bod wedi ei phrofi, a'i fod yn ddarbwylledig na chai weled hynny byth. Ac ymhen pedair blynedd ar hugain wedi hynny, efe a ysgrifennodd at ei frawd, Charles, am yr Olyniaeth ddifwlch, mai ffug-luniad ydoedd; nad oedd neb erioed wedi ei phrofi, ac nas gallai neb wneuthur hynny chwaith. Yn y flwyddyn 1756, yn wir, yr oedd efe yn datgan yn groew nad oedd efe yn credu fod y ffurfiywodraeth Esgobaethol wedi ei phenodi gan Grist, na chan ei Apostolion; na bod hawl Ddwyfol y ffurfiywodraeth hon wedi cael clywed am dani o gwbl yn yr Eglwys Gyntefig. Ei safle oedd, nad oes unrhyw ffurfiywodraeth Eglwysig wedi ei marcio allan a'i phenodi yn y Testament Newydd; ac ar y tir hwnnw nad oedd Esgobyddiaeth yn anysgrhythrol. Yn 1780 efe a ysgrifennodd ei fod yn credu mewn gwirionedd fod ganddo gystal hawl i ordeinio ag oedd ganddo i weinyddu yr ordinhad o Swper yr Arglwydd; ac ymhen pedair blynedd, yr oedd wedi gweithredu yn ol y grediniaeth honno; wedi ordeinio Richard Whatcoat a Thomas Vasey—i'r America. A'r flwyddyn ganlynol ordeiniodd dri ereill i'r gwaith yn Scotland; ac yng Nghynhadledd 1787, efe, gyda dau ereill yn ei gynorthwyo, a ordeiniodd dri ereill i weinyddu yn Lloegr. Dilynwyd ei ffydd gan weithredoedd.

Eithr tra yn cydnabod fod gan yr Uchel Eglwyswr hawl yn y llythyr hwn, a ysgrifennodd Wesley yn niwedd 1745, ni byddai allan o le i ofyn pa mor llwyr ydyw yr hawl honno. Gadawer i'r dyfyniad canlynol ateb y cwestiwn: "Yr ydym yn profesu, 1. Y bydd i ni

ufuddhau i holl ddeddfau yr Eglwys mor bell ag y gallwn wneuthur hynny gyda chydwybod ddiogel. 2. Y bydd i ni ufuddhau, o fewn yr un terfynau, i'r Esgobion fel gweinyddwyr y cyfryw ddeddfau." Gwelir oddiwrth hyn fod Wesley, hyd yn oed yn y llythyr sydd yn achlysur cymaint o orfoledd i Uchel Eglwyswyr y dyddiau hyn, yn gadael iddo ei hunan adwy ddiagon llydan i ddwyn i mewn yr holl "afreoleidd-dra" a hynododd ei oes am y pum mlynedd a deugain oedd yn ol o honi. Ni phroffesai gadw deddfau yr Eglwys nac ufuddhau i'w Hesgobion, ond yn unig mor bell ag y gallai wneuthur hynny gyda diogelwch cydwybod. Ac yr oedd efe ar y pryd yn egluro ei hun trwy nodi, os oedd cymeryd ei gynorthwyo yn ei waith gan bregethwyr heb dderbyn ordeiniad Esgobol yn groes i ddeddfau yr Eglwys, fod y ddeddf honno yn un nas gallai roddi ufudd-dod iddi gyda chydwybod ddirwysr. Cymered yr Uchel Eglwyswyr yr hyn oll a allant ei gael o'r llythyr at Westley Hall; y mae yn aros ynddo ar ol y cwbl fod Wesley yn meddwl mwy o "*safe conscience*" nag o *Rubrics* yr Eglwys a gweinyddiaeth ei Hesgobion.

"Gwaith Duw" oedd Trefnyddiaeth i Wesley o'r dechrenad. Felly yr edrychai arni pan yr ysgrifennodd yn 1739: "Yr wyf yn edrych ar yr holl fyd fel fy mhlwyf; fy meddwl ydyw hyn: ymha ranbarth bynnag y byddaf, yr wyf yn barnu ei bod yn briodol ac yn iawn i mi, ac yn ddyledswydd rwymedig arnaf, i gyhoeddi newyddion da yr iachawdwriaeth i bawb a fyddant yn ewyllysgar i wrando arnaf. Mi a wn mai dyma y gwaith y galwodd Duw fy iddo, ac yr wyf yn sier fod Ei fendith yn ei ddilyn." Yn yr un goleuni yr ysgrifennodd yn 1755, pan yr oedd y cwestiwn o ymadael o'r Eglwys neu beidio, yn bwnc y dydd: "Nid aethom un cam ymhellach nag yr oeddym yn argyhoedd-edig o'i bod yn ddyledswydd rwymedig arnom. Yn ddwfn argyhoedd-edig o hyn, yr ydym wedi (1) pregethu allan, (2) gweddio heb lyfr, (3) ffurfio cymdeithasau, (4) caniatáu pregethwyr heb ordeiniad Esgobol. A phe'n gwesgid i'r ochr hon, pe na chaniateid i ni ddewis dim arall, ny ni a'i hystyriem yn ddyledswydd rwymedig arnom i ymadael o'r Eglwys yn hytrach na rhoddi yr un o'r pwyntiau hyn i fynd. Gan hynny, os na allwn atal ymadawiad [o'r Eglwys] heb atal pregethu lleyg, y mae yr achos yn glir—nis gallwn ei atal o gwbl." Ac yn yr un goleuni ac o dan yr un argyhoeddiad yr ysgrifennodd efe at ei frawd, Charles, yn 1761, gan ddweyd, "Nid wyf yn meddwl (a dweyd i chwi gyfrinach) y bydd i'r gwaith byth gael ei ddinystrio, Eglwys neu ddim Eglwys." Ac yn gyson â'r un daliadau yr ysgrifennodd lai na blwyddyn cyn marw, nad ymadawai o'r Eglwys, ac eto ymhob achos o angenrheidrwydd yr amrywiai neu y gwahaniaethai oddiwrthi. Trefnyddiaeth fel Gwaith Duw oedd bob amser uchaf ar ei feddwl ac agosaf at ei galon—"Church or no Church."

Yn awr gan hynny daw y cwestiwn adref: Pa fath Eglwyswr oedd John Wesley? Rhaid cofio unwaith eto, ac o hyd, ei fod yn Eglwyswr; wedi ei fedyddio yn ol trefn yr Eglwys, wedi cael ei gonfirmio, wedi derbyn cyflawn urddau diacon ac offeiriad yn ol trefn reolaidd yr Eglwys, ac heb gael ei esgymuno na'i ddiswyddo. Y mae yn wir na chafodd, ac na cheisiodd, fath yn y byd o fywoliaeth Eglwysig wedi ei ddychweliad o America, ac na chafodd bregethu ond ychydig iawn o bwlpudau yr Eglwys wedi ei ddychweliad at Dduw. Nid oedd iddo le "cysegredig" na thrwyddedig, yn ol Eglwys Loegr, i bregethu trwy yr

holl dir. Addefir mai nid trwyraith a dedfryd y bu hynny, eithr yr un mor effeithiol. *Boycottio* John Wesley a wnaed, nid mewn enw ond mewn gweithred a gwirionedd, ac nid ei ddiarddel yn swyddogol; ac felly yr oedd efe yn gyfreithiol yn Eglwyswr mewn cyflawu urddau hyd ddiwedd ei oes, ac yntau ei hun yn dal ei afael yn hynny.

Ar yr un pryd y mae yn angenrheidiol cofio iddo droi allan i bregethu i'r awyr agored, ac nad oedd yn malio mewn terfynau na phlwyf nac Esgobaeth. Rhaid cofio iddo sefydlu Cymdeithasau, derbyn pregethwyr ac ordeinio rhai o honynt, a threfnu eu sefydliadau; iddo adeiladu capeli a gweinyddu yr ordinhad o Swper yr Arglwydd ynddynt, er iddynt fod heb gysegriad Esgobol; ac iddo sefydlu Cynhadledd, a gwneyd darpariaeth i'w pharhau wedi ei farwolaeth: mewn gair, ei fod wedi cymeryd cwrs iddo ei hun yn 1739, ac wedi ei ddilyn ymlaen am hanner can mlynedd, heb awdurdod na chyfarwyddyd na chefnogaeth yr Eglwys mewn un modd. Mewn gwirionedd, tra yr oedd Duw yn bendithio ei lafur ef a'i gynorthwyr i ddychwelyd eneidiau, ac yntau yn cymeryd cam ar ol can,—ond fel y dywedai yntau, heb gymeryd un cam ymhellach nag yr oedd yn argyhoeddedig o'i bod yn ddyledswydd rwymedig arno tuag at ddiogelu breintiau a hawliau y cyfryw,—yr oedd Cangen newydd gref a phwysig o'r Eglwys Gristionogol yn tyfu o'r tu allan i Eglwys Loegr, ac yn gwbl anibynnol arni. Y flwyddyn y bu Wesley farw yr oedd ym Mhrydain Fawr a'r Iwerddon 294 o bregethwyr teithiol, gyda 71,668 o aelodau yn perthyn iddi; heb son am yr 48,565 o aelodau oedd yn America ac Ynysoedd yr India Orllewinol. Dywedwyd weithiau, a dywedir eto o ran hynny, gan rai Eglwyswyr, mai rhyw fath o Gymdeithas yn yr Eglwys oedd Trefnyddiaeth yn nyddiau Wesley, ac wedi hynny, hyd nes y daeth yr oes ddiweddar hon i honni pethau mwy. Ond y mae hynny yn gamgymeriad. Ni bu gan nac Esgob nac Offeiriad, fel y cyfryw, erioed unrhyw awdurdod o gwbl nac o fath yn y byd yn y Gynhadledd nac mewn Rhestr-Gyfarfod, nac mewn unrhyw lys na chyfarfod arall yn y Cyfundeb. Ymunodd ychydig o wyr mewn urddau—llai na hanner dwsin yr wyf yn meddwl—â Wesley fel ei gynorthwyr, ond yr oedd yntau o dan ei reolaeth ef mor drwyadl â'r pregethwyr ereill.

Rhaid, gan hynny, fod Wesley yn Eglwyswr hynod o afreolaidd. Tra yr oeddwn yn ysgrifennu y paragraff blaenorol, daeth y *Methodist Recorder* i law, ac ynddo bapur gan y Parch. J. S. Simon ar "A oedd John Wesley yn Llydan Eglwyswr?" Darllennais y papur gyda dydd-ordeb, ond nis gallaf weled llygad yn llygad â'r awdwr yn ei gasgliadau. Beth bynnag am "*Fourth Parties*" a'u hanes mewn achosion ereill, nis gallaf amgen na gweled mai yn hwnnw y mae lle Wesley fel Eglwyswr. Nid oedd efe yn Uchel Eglwyswr, fel y dangoswyd. Yr oedd ei Arminiaeth, pe na buasai dim arall, ar ffordd iddo gael lle ymblith yr Isel Eglwyswyr. Ac nis gallaf weled fod Mr. Simon yn ennill dim wrth geisio gwneuthur Llydan Eglwyswr o hono; canys rhaid iddo fyned yn ol i'r ganrif o'r blaen am ddefiniad o'r Uchel Eglwyswr sydd yn gweddu iddo. Llawen cystal Pedwaredd Plaid a chael dau ddefiniad—un o'r ganrif o'r blaen ac un o hon—o Lydan Eglwyswr. Yr oedd John Wesley fel Eglwyswr yn gwbl ar ei ben ei hun. Credaf mai Dr. Rigg sydd yn iawn. Yr oedd ei anghysondeb a'i afreolaidd-dra fel Eglwyswr yn peri nad oedd neb tebyg iddo. Nid wyf yn dweyd fod Wesley yn anghyson âg ef ei hun: yr wyf yn credu ei fod yn gyson

ag ef ei hun; ond yr oedd y cysondeb hwnnw ag ef ei hun yn peri ei fod, yn anwedig yn yr oes yr oedd efe yn byw ynddi, yn eithafol o anghyson ac afreolaidd fel Eglwyswr. Wrth ystyried pob peth, nis gallaf fi lai nag edrych arno fel Eglwyswr bychan. Efe a gydnebydd ei hunan fwy nag unwaith fod rhagfarn ei ddygiad i fyny yn angherddol, ac nid oedd hynny heb ryw faint o ddylanwad arno dros ei oes. Yr oedd ei frawd, Charles, drachefn yn "chwareu yr andros," yn ei ffordd ddefosiynol ei hun, yn achos pob cam anghydfurfiol a gymerai. Ac nid oedd Charles heb ei ddylanwad drosto, nac heb arfer pob moddion i'w wasgu arno.

Eithr er hynny nid oedd John Wesley mewn gwirionedd ond Eglwyswr bychan. Yr wyf yn dweyd hyn ar wahan i'w "afreoleidd-dra." Mewn llythyr at Samuel Walker, gwr Eglwysig da a defnyddiol yn Cornwall, dyddiedig Medi, 1755, y mae efe yn gwneuthur cyfeiriad at y ddadl a fuasai yn y Gynhadledd y flwyddyn honno parth ymadael o'r Eglwys. Y cwestiwn a roddwyd yn y Gynhadledd oedd, A ddylem ni ymadael â'r Eglwys? Buwyd yn adleu arno hyd y trydydd dydd, a'r modd y terfynwyd oedd trwy gytuno,—os oedd yr ymadawiad yn gyfreithlon nad ydoedd yn fuddiol. Ac yn y llythyr dan sylw y mae Wesley yn dweyd am y rhai a ddadleuent dros ymadael, fod rhai ohonynt wedi bod yn pwysu y mater yn hir, yn ddwys, a gweddigar. Yna efe a rydd grynhodeb o'u rhesymau dros ymadael. Yr oedd y rhai hynny yn cynnwys anghymeradwyaeth i amrai bethau yn y *Llyfr Gweddî Guffredin*, ac yn y Canonau; a chyda hynny i fuchedd ac athrawiaeth llawer o weiddogion yr Eglwys. Yn awr sylwer beth a ddywed Wesley am y rhesymau hyn: "Yr wyf yn cydnabod yn rhwydd nas gallaf ateb y rhesymadau hyn i'm boddlonrwydd fy hun. Felly y mae fy nghasgliad, yr hwn nas gallaf eto ei roddi i fyny—ei bod yn gyfreithlon parhau yn yr Eglwys—yn sefyll, nis gwn pa fodd, bron heb ddim seiliau i gynnal ei bwysau." Yn ddiâu os nad Eglwyswr bychan oedd un a ysgrifennai fel hyn, nis gellir ar un cyfrif ddweyd ei fod yn un mawr.

Ac wrth ddarllen ei *Resymau* yn erbyn yr ymadawiad (1758), canfyddir yn union yr un peth. Nid cyfreithlondeb yr ymadawiad ynddo ei hun oedd y pwnc. Cydnabyddir yn y dechreu y gall fod hynny yn bwnc agored. Ymresymu yn erbyn buddioldeb yr ymadawiad ar y pryd yr oedd Wesley; ac y mae yn rhaid cydnabod fod llawer o rym mewn llawer o'i resymau o'r safle yr oedd efe o angenrheidrwydd yn edrych ar bethau yr amser hwnnw. Gall rhai o honynt ymddangos i ni yn bresennol yn lled ddibwys. Modd bynnag, nis gellir peidio mawrhau y dyn a ysgrifennodd yr wythfed Rheswm:—"Am y byddai ffurfio plan eglwys newydd yn gofyn annhraethol fwy o amser a gofal, a llawer mwy o ddoethineb, a meddwl dyfnach ac ehangach nag y mae neb o honom ni yn feistriaid arno. Gwelir yma nad oedd gan Wesley yr un bwriad i gynnyg "ffurfio plan eglwys newydd" ei hun, ac yn hyn yr ydym yn ei fawrhau. Eithr gwelir nad oedd efe yn ymwrthod â'r syniad o ddygiad eglwys newydd i fod fel peth anghyfreithlon ynddo ei hun; yr hyn a ddengys nad oedd efe, o safle Eglwys Loegr, mewn un modd yn Eglwyswr mawr. Y ffaith oedd fod eglwys newydd, mewn gwirionedd, ar y pryd yn tyfu: nid am fod dyn wedi "ffurfio plan" o honi, ond ei bod yn *tyfu* o dan arolygiaeth a bendith y Pen ers bron ugain mlynedd. Ac y mae yr un ysbryd aumhongar a di-uchelgeisiol i'w weled ynddo chwe blynedd wedi hynny, pan yr oedd efe, yn hen wr un a phed-

war ugain mlwydd oed, yn ei lythyr at Charles, yn ysgrifennu: "Rhaid i mi achub cynifer o eneidiau ag a allaf tra byddaf byw, a hynny a wnaef heb ofalu beth a ddichon fod [ymadael o'r Eglwys neu beidio] wedi i mi farw."

Peth arall a ddengys fod Wesley ymhell o fod yr Eglwyswr mawr y mynnir mor fynych ei osod allan oedd ei ryddfrydedd yn derbyn ei aelodau. Un amod yn unig a ofynnid ymlaen llaw: "Dymuniad i ffoi rhag y llid a fydd, a chael eu gwared oddiwrth eu pechodau." Ac amod eu parhad yn aelodau oedd eu bod yn parhau i ddangos dymuniad am iachawdwriaeth trwy ymwrthod â phob drwg, trwy wneuthur pob da, ac ymarfer ag ordinhadau Duw. Y canlyniad oedd fod yn ei gymdeithasau lawer o bobl dra gwahanol yn eu golygiadau a'u daliadau. Yr oedd ynddynt liaws mawr o Eglwyswyr cydwybodol; ac o'r tu arall, nifer liosog o Ymneillduwyr llawn mor onest ac egwyddorol a hwythau, y rhai na fynnent gydymffurfio â'r Eglwys ar gyfrif yn y byd. Ond yr oedd y nifer liosocaf yn rhai na ddaliant unrhyw berthynas ymarferol gydag unrhyw eglwys, ac nad oeddynt nemawr gwelid na phaganiaid nes i weinidogaeth Wesley a'i bregethwyr fod yn foddion i'w dwyn at Dduw. Ac yr oedd nifer liosog a chynhyddol o'r rhai hyn, er yn gynnar yn oes Wesley, yn hynod o'r hwyrffrydig i gydnabod unrhyw rwymedigaeth i Eglwys Loegr, nac i ddal unrhyw gymundeb gyda hi. Ond ni chyfyngid ar ryddid na braint neb oblegid eu daliadau. Yr oedd Wesley yn dra gofalus o'r dechreuad fod y pregethwyr yn dal athrawiaeth iachus, fel y byddent gymwys i ddysgu ereill hefyd. Eithr am yr aelodau, pa un bynnag a fyddent ai Eglwyswyr ai Ymneillduwyr, Presbyteriaid neu Annibynwyr, Bedyddwyr neu Grynwyr, Arminiaid neu Galffiniaid, tra y byddent yn parhau i ddangos eu dymuniad am iachawdwriaeth trwy bob ymdrech i fyw yn dduwiol, nid ymyrrid a'u credôau, ni chwestiynid hwynt am eu daliadau. "*They think, and let think,*" meddai Wesley am danynt; ac yr oedd iddynt bob croesaw a rhyddid. Athrawiaeth Wesley yn y cysylltiad yma, mal Goronwy Owen, oedd,

Gwyn fyd i'r diwyd a'r da,

yn anibynnol ar eu daliadau Eglwysig, ac hyd yn oed ar eu golygiadau Duwinyddol.

Yngwyneb hyn oll, Beth a ystyriai John Wesley yn ymadawiad o'r Eglwys? Y mae hwn yn gwestiwn naturiol a theg. Tra yr oedd efe yn gwahaniaethu cymaint oddiwrth yr Eglwys, a hynny mewn cynifer o bethau pwysig; a thra y gweithredai mor hollol ar wahan iddi, ac mor eithafol o anibynnol arni, ac eto i gyd y daliai nad oedd efe wedi ymadael o honi, y mae yn gyfreithlon gofyn, Beth yn y byd mawr a gyfrifai efe yn ymadawiad? Buasai penderfyniad ffurfiol i'r perwyl hwnnw gan y Gynhadledd, wrth gwrs, yn ymadawiad; ond ni wnaed yr un yn nyddiau Wesley, nac hyd heddyw. Ond credaf y gall ymadawiad gwirioneddol a thrwyadl gymeryd lle heb iddi ddyfod i hynny. Golygiad Wesley oedd mai ymadawiad o'r Eglwys oedd gwadu ei hathrawiaethau sylfaenol, neu wrthod ymuno yn ei haddoliad cyhoeddus. Gwelir hynny yn ei lythyr at Walker yn 1755, a llawer gwaith ar ol hynny. Tafodd Walker ef i ddyrswch trwy ddweyd fod hanfod Eglwys Loegr, fel y cyfryw, yn gynywedig yn ei threfn a'i deddfau, ac nid yn ei haddoliad a'i hathrawiaethau. Os golygiad Wesley oedd yn gywir, nid oedd wedi ymadael o'r Eglwys; eithr yr oedd efe wedi

ymadael o honi, os oedd deffiniad Walker o'i hanfod yn iawn. Credai Wesley yn iachusurwydd ei hathrawiaethau gwreiddiol, ac ym mhurdeb ac ysgrythyrolrwydd ei haddoliad, ar y cyfan. Eithr addefai nad oedd ganddo ddim i'w ddweyd dros lawer o'i threfniadau a'i deddfau, gan chwaneu: Os mai hanfod yr Eglwys fel y cyfryw oedd ei deddfau a'i threfniadau, fod gan y rhai a ymadawsent o honi gryfach dadl dros wneyd hynny nag yr oedd efe wedi tybio. Modd bynnag, ystyriai Wesley nad oedd efe wedi gadael yr Eglwys am nad oedd yn gwadu ei hathrawiaethau gwreiddiol, nac yn gwrthod ymuno yn ei haddoliad cyhoeddus; a daliodd y golygiad hwnnw hyd y diwedd. Ond er ei fod yn credu yn addoliad yr Eglwys "*in the main*," yr oedd y modd y dygid ef ymlaen yn fynych ac yn gyffredin ymhell o fod yn foddhaol ganddo. "Po hwyaf y byddwyf yn absennol o Lundain," ebai efe yn 1757, "a pho amlaf yr elwyf i wasanaeth yr Eglwys mewn lleoedd ereill, mwyaf argyhoeddedig ydwyf o'r fantais annhraethadwy a fwyneir gan y Trefnyddion—yr wyf yn meddwl, hyd yn oed gyda golwg ar addoliad cyhoeddus, ac yn neillduol ar ddydd^o yr Arglwydd." Ond nid yw hyn ond rhagymadrodd i lythyr yn dangos rhagoriaeth bendant yr addoliad cyhoeddus ymhlith y Trefnyddion ar yr hyn ydoedd yn yr eglwysi a welai efe ar hyd a lled y wlad. Buasai yn dda gennyf ddyfynnu y llythyr; ond rhaid ymatal—y mae yn rhy faith.

Edrycher ar yr hyn a ddywedodd neu a ysgrifennodd John Wesley, a chanfyddir fod ei Eglwysyddiaeth yn myned i le hynod o fychan: peidio gwadu ei hathrawiaethau gwreiddiol, a pheidio gwrthod ymuno yn ei haddoliad cyhoeddus. Edrycher ar yr hyn a wnaeth efe—edrycher ar Drefnyddiaeth fel yr oedd hi gant ac un o flynyddau yn ol—pan fu Wesley farw; edrycher arni wrthi ei hun fel Sefydliad, ac O, mor anhawdd meddwl am ei sylfaenydd fel Eglwyswr o gwbl! Nid oedd efe wedi rhag-gynllunio y fath sefydliad; ddim wedi dychymygu dim erioed yn debyg. Yn berffaith onest, golygai ei hun yn Eglwyswr. Ond gwyddai fod Duw wedi ei alw i bregethu yr Efengyl; ac nid oedd ganddo ond gwneyd hynny lle y gallai; ac yr oedd hyuny tu allan i furiau yr Eglwys. Bendithiodd Duw ei lafur i ennill miloedd o oneidiau at Grist; ac mewn canlyniad daeth y naill anghenraid ar ol y llall i alw am symudiad er eu mwyn, a phob symudiad yn ymadawiad oddiwrth yr Eglwys—oddiwrth ei threfniadau a'i deddfau. A thra yr oedd hyn oll yn myned ymlaen, yr oedd Wesley fel y dyn yn rhwyfo: a'i wyneb i un cyfeiriad, ond yn prysuro yn barhaus i'r cyfeiriad gwrthgyferbyniol. Efe a ddatganai nad oedd efe yn ymadael o'r Eglwys. Addefai ei fod yn amrywio oddiwrthi mewn rhai pethau, ond ddim trwch blewyn pellach nac y credai fod hynny yn briodol ac iawn, ac yn ddyledswydd rwymedig arno. Ac nid oes dim dadl am ei onestrwydd. Eithr o amrywiad i amrywiad—o wneyd y naill beth priodol ac iawn oedd yn ddyledswydd rwymedig arno ar ol y llall, yr oedd efe mewn hanner can mlynedd, yn ddjarwybod iddo ei hun, ond o dan yr arweiniad a'r amddiffyn Dwyfol, wedi adeiladu "eglwys newydd" gref o'r tu allan i'r Eglwys Sefydledig, ac yn gwbl anibynnol arni: un sydd yn aros hyd heddyw, ac heddyw yn gryfach a chadarnach nag erioed; a channoedd o filoedd o'i haelodau yn y deyrnas hon yn gallu dweyd fel y dywedodd Wesley wrth farw, "Y goreu oll yw y mae Duw gyda ni."

NODIADAU LLENYDDOL.

Llawlyfrau Undeb Ysgolion Sabothol y Methodistiaid Calfinaidd, dan Arolygiaeth Pwyllgor y Gymanfa Gyffredinol. *Yr Epistol at y Galatiaid: gyda Chyfieithiad Newydd, Arweiniad i mewn, a Nodiadau.* Gan y Parch. HUGH WILLIAMS, M.A., Athraw mewn Hanesiaeth Eglwysig yn Athrofa Dduwinyddol y Bala. 1s. 6c.

Beibl yr Ysgol Sul: sef Cyfres o Esboniadau ar Lyfrau yr Hen Destament a'r Newydd, at wasanaeth yr Ysgol Sul a'r Cyfarfodydd Darllen. *Y Llythyr at y Galatiaid: gyda Rhagarweiniad a Nodiadau Beirniadol ac Eglurhaol.* Gan y Parch. EVAN DAVIES. 1s. 6c.

Beibl y Teulu. *Yr Epistol at y Galatiaid: yn cynnwys Cyfieiriadau Ysgrhythrol cyflawn, Nodiadau Beirniadol, Eglurhaol, a Daearyddol, a sylwadau Ymarferol, ynghyda phedwar Cyfieithiad o'r Epistol; sef Cyfieithiadau W. Salesbury a Dr. Morgan, y Cyfieithiad Diwygiedig yn Saesneg, a Chyfieithiad o hono i'r Gymraeg; a Holiadau ar yr Epistol.* Dan olygiad y Parch. JOHN HUGHES, D.D. Dinbych: T. Gee a'i Fab. 2s.

Nodiadan Deonliadol ac Ymarferol ar yr Epistol at y Galatiaid. Gan y Parch. OWEN THOMAS, D.D., Liverpool. Wrexham: Hughes & Son. 2s.

Yr ydym droion lawer wedi bod yn galw sylw at gyfresau gwerthfawr y *Cambridge Bibles for Schools and Colleges*, a gyhoeddir gan y Cambridge University Press; a'r *Hand-books for Bible Classes*, a gyhoeddir gan y Meistri Clark o Edinburgh, ac yn gwynfydu na chawsid llyfrau cyffelyb yn Gymraeg ar rannau neillduol o'r Gair, wedi eu hysgrifennu yn dda, a'u cyhoeddi mewn ffordd a'u gosodai o fewn cyrraedd lliaws ein pobl. Mae y llyfrau uchod yn gwbl o'r fath a ddymunem weled yn amlhau yn ein plith, a llawenhawn yn fawr yn eu hymddanghosiad. Yr oedd un o'r papurau yn ei nodiad ar un o honynt yn ymddangos fel yn gweled dirywiad yn ymddanghosiad llaw-lyfrau o'r fath, wrth gofio am yr esboniad-cyflawn a gyhoeddid yn y dyddiau gynt. Pell ydym ni o deimlo felly. Mae y gweithiau hyn ar y rhan o'r Gair a gymerant i fyny yn anfesurwl well fel esboniadau, na dim a ellid gael yn y llyfrau hynny. Ac y mae yn gysur meddwl fod Ysgolion Sabothol y Methodistiaid yn ymgymeryd mor galonnog â'r maes llafur a osodir iddynt fel ag i alw am gynorthwyon mor werthfawr. Ond pa ddrwg a barai, tra y mae fel yma bedwar o lyfrau rhagorol ar y *Galatiaid*, nad oes yr un, cyffelyb i'r *Cambridge Smaller Bible for Schools*, wedi ymddangos ar *Exodus** Mae y rhai hyn, sut bynnag, yn deilwng o'r derbyniad mwyaf croesawu. "Llawer a gyniweiriant, a gwybodaeth a amlha." Cawsom yr hyfrydwch dro yn ol o gyflwyno i sylw ein darllenwyr Esboniad ar yr Epistol at y Galatiaid, gan y Dr. Roberts o Bontypridd, ac nid oes eisieu dweyd fod erthyglau y

* Wedi i'r uchod fyned i ddwyliaw yr argraffwyr, daeth i'n llaw Rhan. I., pris tair centiog, o *Llyfr Exodus, gyda Nodiadau at wasanaeth Deiliaid yr Ysgol Sabothol.* Gan y Parch. R. HUMPHREYS, Bontneywdd. Caernarfon: D. W. Davies & Co. Bwrledir ei gwblhau "mewn oddeutu deg o rannau misol." Y mae awdwr "Llyfr Genesis, gyda Nodiadau at wasanaeth Deiliaid yr Ysgol Sabothol," sydd yn awr yn ei bedwerydd argraffiad, wedi llawn brofi ei gymhwyster i ysgrifennu llyfr cyffelyb ar *Exodus* hefyd, a diameu y bydd yn falch gan llawis o Athrawon, yn gystal â "Deiliaid" yr Ysgol Sabothol, ac yn neillduol y rhai sydd yn awr yn dechreu llafurio yn y maes hwn, gael croesawu ei waith. Y mae, tu hwnt i bob cymhariaeth, y peth goreu a feddwn ar y llyfr.

Parch. Abel J. Parry ar yr Epistol yn y TRAEITHODD o werth tra mawr. Ceir nodiadau rhagorol ar yr un Epistol mewn amryw o'r misolion hefyd. Ac am y llyfrau hyn, fe fydd rhai yn mynnu un o honynt, a rhai un arall; a hawdd gennym feddwl y teimla aml un, gan y gall i'r sicrhau y pedwar iddo, ac felly osod o fewn ei gyrraedd y fath gyfoeth o'r esboniadaeth oreu ar y rhan bwysig yma o'r Llyfr sanctaidd, y bydd yn dda ganddo eu gwneyd yn eiddo iddo ei hun. Ac onid gwych fyddai i ddarbarthiadau fyddu y pedwar, a chael eu darllen ar gylich?

Mae cyfrol yr Athraw Williams yn ysgolheigaidd a meistrolgar, yn dangos mawr lafur ac ymchwiliad, ac yn crynhoi i gylich bychan, ac mewn ffordd gynod o glir, fater a ddylasai lanw cyfrol ddrudfawr. Y mae wedi gweithio ei bethau "o'r graig" ei hunan, a pho fwyaf dyfal yr astodir hwynt, mwyaf oll y teimlir eu gwerth. Dywed yn ei air at y darlennydd, "Yr oeddwn yn awyddus beunydd, wrth feddwl ac ysgrifennu, i deall geiriau yr apostol, tra yn ceisio pob cymorth arall, allan o honynt hwy eu hunain; mi a ymdrechais hefyd i ddarllen pob awdwr yr ymgynghorwn âg of yn ei waith ei hun, fel na byddai i mi gyfeirio at neb heb weled ei feddyliau yn eu cartref eu hun, ac megys ymddyddan âg ef wyneb yn wyneb." Mae yr awdurdodau yr ymgynghorodd felly â hwynt yn lliosog, ac o'r safle flaenaf ymysg y rhai sydd wedi cyfoethogi y byd a'u llafur a'u meddylgarwch. Ac y mae ein cydwladwr teilwng, ymysg y tywysogion, ei hunan hefyd yn dywysog. Pell ydyw o oraclu ei olygiadau ar ei ddarlennwyr fel pethau nad oes ganddynt ddim i'w wneyd ond eu derbyn a'u dysgu; gwna â hwynt gynwynas anafesurol uwch trwy eu dysgu i feddwl, a thrwy osod o'u blaen yn y modd mwyaf clir yr achosion y mae ganddynt i feddwl yn eu cylich. Dylasai gwaith mor ragorol fod wedi ei argraffu yn well, ac yn fwy cywir. Diau y gofelir am hynny yn yr argraffiadau dilynol, am y rhai y deallwn gyda llawenydd fod eisoes y fath alwad. Dyna y gwaith y gofalodd Pwylgor Undeb Ysgolion Sabothol y Methodistiaid am ei gael allan erbyn bod yr Ysgolion yn dechreu eu llafur yn y llythyr at y Galatiaid.

Ymddengys fod llyfr Mr. Evan Davies yn un o gyfres o Esboniadau a fwriedir gyhoeddi ar Lyfrau y Beibl, ac y mae ei ymddanghosiad yn amserol am yr un rheswm ag y cyhoeddwyd gwaith y Proffeswr Williams er ei fwyn. Nid ydyw mor ysgolheigaidd a'r eiddo Mr. Williams, nac yn cynnwys cymaint o ymchwiliad annibynnol; ond y mae yn ffrwyth astudieth lawn a meddylgar o'r esboniadaeth oreu ar yr Epistol, ac yn dangos gallu nodedig i osod ei bethau ger bron mewn Cymraeg da, ac mewn ffordd mor glir a dealladwy fel na ddylai fod yn anodd i ddarlennydd cyffredin allu ei ddilyn a'i fwynhau. Ni thrafferthir ef nonawr gyda'r manylion am hanes a beirniadaeth y golygiadau a osodir ger bron, ond fe gaiff yn y golygiadau eu hunain addfedd ffrwyth astudieth oreu sydd o fewn ein cyrraedd ar y materion a ddaw o'i flaen, ac ni all lai na theimlo ei fod o hynny yn fawr ar ei ennill. Ni osgoir dim o'r anhawsterau, ond ymdrechir yn onest i gael dehongliad arnynt a'u gedy yn eu lle priodol eu hunain fel rhan o'r cyfanwaith o feddwl ysbrydoledig sydd yn gwneyd i fyny y llythyr. Clywsom y byddai y pererin a'r cynghorwr da, Hugh Jones y Betws, fel llawer o'n tadau, yn dra hoff o ebonio yn ddonio a rhigl y rhannau o'r Beibl fyddai yn ddarllen yn yr odfeun, ac yn enwedig y rhannau nad oedd dim petruster a allai godi ym meddwl neb gyda golwg ar eu hystyr; ond pan ddeuai ar draws y pethau anodd, fe ddywedai yn onest a syml: "Wel, gyfeillion, dydw i ddim yn deall yn iawn beth ydi meddwl yr adnod yma; ond mi ddweda i chi beth ydi marn bersonol i am dani; fy marn bersonol i ydi,—fod rhyw feddwl i'r adnod yma hefyd." Chware teg i Hugh Jones y Betws! Go lew oedd gallu canfod bodolaeth yr anhawster; gwell fyth oedd gallu cydnabod hynny; a gwell wedyn oedd dal i gredu fod meddwl yn yr adnod, er ei fod

ef yn methu ei gyrraedd. Yr ydym yn ein hoes wedi bod yn ymgynghori â llawer o esboniadau oedd yn dangos gallu rhyfedd i lithro dros bob anhawsterau, a hynny heb gymaint a chymeryd hamdden i gydnabod eu bodolaeth. Mae esboniadaeth dda y dyddiau hyn yn dra gwahanol. Mae y gloewder, a'r gallu, a'r gonestrwydd sydd mor amlwg yn ei nodweddu, yn hawdd iawn i'w canfod yn y cyfrolau hyn; ac nid ydyw yn bosibl methu eu hadnabod yn llyfr Mr. Davies.

Mae Nodiadau y diweddar Dr. Owen Thomas—y cariadus, y cysegr-edig, a'r galluog, y mae hiraeth ei genedl am dano eto mor ddwfn ac mor fyw!—yn rhan o'r ychwanegiad y bu efe mor anffodus ag ymgymeryd â'i baratoi at ei gyfieithiad o "Feibl Darluniadol" Kitto. Yr oedd Kitto a'i Feibl Darluniadol yn burion; ond dirfawr gamgymeriad ydoedd i wr o ymadferthoedd a chymwysterau Dr. Thomas drafferthu gyda'i gyfieithu ac ychwanegu ato Nodiadau a ddylasent gael eu cyhoeddi fel gweithiau y buasai yn werth eu cyfieithu i unrhyw iaith. Dygwyd allan yr un modd ei Nodiadau ar yr Epistol at yr Hebraid, ond yn yr un plyg ac yn yr un llythyren a'r Beibl Darluniadol. Mae plyg y gyfrol yma yr un a'r ddwy ereill, ac felly yn llawer mwy hylaw; ond buasai yn fwy dymunol ei chael yn yr un llythyren a'r Beibl Darluniadol. Mae y llythyren hon yn rhy fân i lawer allu ei mwynhau, er y darlenna y rhai ieuainc hi gyda rhywddineb a phleser. Mae gwneuthuriad y gyfrol, fel y gallesid disgwyl, yn bobpeth allesid ddymuno, gyda'r eithriad yn unig na fuasai y geiriau, "Esboniaid at y Galatiaid," a geir mewn llythreniad prydfferth ar y clawr, wedi eu gosod ar ei chefn, fel y gallesid ar unwaith adnabod y gyfrol ar yr astell. Am allu Dr. Thomas i esbonio yr Ysgrythyrau nid oes angen i oddi Gymro am lythyr canmoliaeth. Fe ymroddodd yn gariadlaw'n i'r efrydiaeth yma yn foreu, a chyd a cynnydd mawr a wnelid yn ei ddydd yng ngwahanol ganghennau esboniadaeth, fe'i gwnaeth yn bleser ei fywyd i ddilyn y cynnydd hwnnw. Ni allai foddloni heb gael y llyfrau gwerthfawrocaf, fel y cyhoeddid hwynt, i'w feddiant; yr oedd y fath werth yn ei olwg mewn pob goleuni newydd ar bethau mawrion y Gair, a mwynhai y fath hyfrydwch mewn cael teimlo yn sicr, wedi dyfal ymchwiliad a myfyrdod, ei fod yn deall y gwir feddwl, ac felly, yn y drych clir, yn cael edrych ar ogoniant yr Arglwydd. Wrth wrando ei athrawiaeth a'i gynghor a'i apeliad yn rhannau olaf ei bregeth, prin y buasai dyn yn meddwl nad yn y pethau hynny yr ydoedd yn hanfodi; eto, wrth wrth wrando ei esboniadaeth yn y rhannau cyntaf, bron na phetrusid rhag bod amcan mawr pregethu yn cael ei beryglu gan lwyrdy yr ymdrech i esbonio y Gair, Ymdafiai yn gwbl oll i'r naill a'r llall. A gwerthfawr iawn ydyw cael ei waith fel yma ar y Galatiaid mewn ffurf ag y gall miloedd o'i gydwladwyr wneyd y fath ddefnydd da o hono.

Ac yn olaf, a phan ar fyned i'r wasg, dyma i'n llaw Esboniaid "Beibl y Teulu," ar yr un Epistol. Clywsom fod ychwaneg i ddod—"The cry is still they come." Mae gan y rhai y darperir yn briodol ar eu cyfer achos i lawenhau yn llawnder, yn gystal ag ym mawr werth y cynorthwyon a osodir fel yma o fewn eu cyrraedd. A diameu y bydd yn dda gan lawer ereill fyw'nghau llafur mor bur a da, yn enwedig pan y mae ei addferwydd y fath ag sydd yn ei godi uwchlaw pob shiboleth plaid, ac yn rhoddi iddo fynediad mor helaeth i mewn at gyfoeth y gwirionedd. Hapus iawn oedd y drychfeddwl o argraffu yn y llyfr hwn, mewn colofnau cyfochrog, y pedwar cyfieithiad. Dywedir fod defnydd helaeth yn cael ei wneyd yn y gwaith hwn o'r "Nodiadau Bcirniadol" rhagorol a ysgrifennwyd gan y Parch. Griffith Parry, D.D., y rhai sydd wedi ymddangos yn Nhestament yr Ysgol Sabothol." Buasai dyn yn meddwl, os oedd unrhyw ddefnydd, heb son am "ddefnydd helaeth" o waith y Dr. Parry i gael ei wneyd ym mharotöad y llyfr, y dylasai hynny fod yn cael ei wneyd gan y Dr. Parry ei

hun, fel y gallai y darllennydd wybod â phwy y byddai yn ymgynghori. Sut bynnag, fe wŷr pawb fod beth bynnag o'r eiddo ef sydd yn y llyfr yn dda; a faint bynnag sydd i w briololi i "olygiad" y Dr. Hughes, y rhaid fod hynny hefyd yn frwyth ymchwiliad helaeth, gallu diamheuol, barn addfed, a medr sicr i daro yr hoelen ar ei phen. Mae cynnwys y gyfrol, hyd y cawsom hamdden i edrych drosti, yn hynod o werthfawr, ac y mae o ran ei gwneuthuriad yn brydferth a chref. Gyda chynorthwyon na chafwyd erioed eu cyffelyb yn ein hiaith, hyderwn y bydd llafur yr Ysgolion Sabothol sydd yn awr yn gweithio yn y Galatiaid yn llawn o oleuni a bendith.

William Carey, D.D., a Chanmlwyddiaeth Cenhadaeth y Bedyddwyr. Gan y PARCH. H. CERNYW WILLIAMS, CORWEN. Pris 3c.

YMDANGHOSODD y traethawd hwn ar Carey yn y TRAETHODYDDAM 1886; ond yn y dyddiau hyn o ddeffroad gyda'r gwaith Cenhadol, da iawn oedd ei gyhoeddi fel yma ar wahân. Mae enw Carey yn ddisglauer ac yn gysegredig yn ei gysylltiad â Chenadaethau y ganrif hon, ac y mae ystori ei fywyd yn llawn addysg a bendith. Mae y bregeth a draddododd Mai 31, 1792 yn Nottingham, ar "Helaetha le dy babell," &c., a i rhaniadau: "1af, Y ddyledswydd o ddiagwyl pethau mawr oddiwrth Dduw; ac yn 2il, Y ddyledswydd o anturio pethau mawr dros Dduw," ynghyd a'r cwestiwn a ofynnodd ar ei hol i Fuller, gan ymaflud yn ei fraich, "A ydych chiwi wedi'r cyfan am orffwys heb wneyd dim," wedi profi, ac yn sicr o brofi eto o ddsioni annhraethadwy. Bu yn gychwyniad i ymdrech genhadol, nid yn unig ymysg y Bedyddwyr, ond ymhob rhan o'r eglwys Gristionogol, na phrofwyd ei chyffelyb er dyddiau yr Apostolion, ac y mae ei frwyth yn fendigedig y tu hwnt i amgyffred. Mae yr amlinelliad a chwanegir yma o hanes Cenhadaeth y Bedyddwyr o hynny hyd yn awr, yn baratöawl i'r ymdrech a fwriedir wneyd yn 1892 ynglyn â i chanmlwyddiant, yn ddyddorol a thra gwerthfawr. Er maint y darogan y byddai i'r ymdrech gyda'r gwledydd pell nychu y gwaith gartref, fe ddanghosir, tra nad oedd nifer eglwysi y Bedyddwyr yng Nghymru yn 1790 ond 46, eu bod erbyn hyn yn 820. "A ddyfrhao, a ddyfrheir yntau hefyd." Neu fel y dywed Mr. Cernyw Williams: "Agor dithau, ddarllennydd, ddrws dy galon i gyfrannu ac aberthu, a bydd i'r angel a gluda dy rodd ddychwelyd trwy yr un drws gyda thrysorau gwerthfawr a'th ddirfawr gyfoethogant."

Bara Beunyddiol, sef Trefniad at wasanaeth yr Undeb Ysgrythyrol Cymreig er darllen yr ho'l Feibl trwodd mewn tair blynedd. 1c.

YMDENGYS mai newydd ei ffurfio ydyw yr Undeb hwn, o leiaf yn ei wedd Gymreig, ac nid oes unrhyw ddadl nad yw ei amcan yn dda, neu nad ydyw y dull a drefna i gyrraedd yr amcan hwnnw yn un doeth a hylaw Dymunwn o galon iddo bob llwyddiant. "Bod yn Ysgrythyrrwr da ydyw bod yn Dduwinydd da"; a llawer mwy, y mae cysylltiad agos iawn rhwng cydnabyddiaeth helaeth a chariadlawn â'r Gair, a chynnydd mewn doethineb a sancteiddrwydd. Ysgrifennydd yr Undeb ydyw y Parch. Isaac Jones Williams, Llandderfel, a hyderwn y caiff dyrfa fawr o i gyd-wladwyr i ymuno ag ef.

Allen & Hanburys'


Castor Oil

Tasteless. Pure. Active.
Sold everywhere at 6d., 1/3 & 3/4

Cymerir ef gan blant a rhai
mewn oed heb yr anhawder lleiaf,
tra y mae ei effeithiau ar y corph
yn ddiambwael. Medda yr holl
ragoriaethau a honir iddo.—*Lancet.*

CHWE MEDAL AUB.

New Zealand, 1882; Calcutta, 1884; London, 1885
New Orleans, 1886; Southern States, 1886.



'DIM MERCURY.

Mae y Powdwr hwn er's dros Haner Canrif
wedi dal i fyny y cymeriad drwy yr Unol Dal-
eithau a'r Trefedigaethau o fod y defnydd goreu
a mwyaf diogel at lanhau Arian ac Electro Plate.
Gwerthir mewn Blychau 1s., 2s. 6c., a 4s. 6c. yr un.

MASNACHU DRWY'R POST.

POSTAL SHOPPING

H. PEASE & CO'S

SUCCESSORS

LADIES
WRITE FOR PATTERNS
OF ALL THE LATEST NOVELTIES
IN DRESS MATERIALS
AT MILL PRICES

SPINNERS & MANUFACTURERS

The Mills
DARLINGTON

Anfoned y Boncddigesen am Batryman o'r
Nwyddau Dresses diweddarat.

DRESSMAKING IN ALL ITS BRANCHES.

Gwnenthurwyr y Gold Medal Merinos, Cashmeres a Cross Warp Serges. Anf)
patrymau yn rhad drwy y llythyrdy ar gymeradwyaeth.

Allen & Hanburys'

"PERFECTED"

Cod Liver Oil

Gall y gwanaf ei gymeryd a'i dreulio. Dyma yr unig Oil nad yw ei archwaeth yn codi o'r stumog i'r
genau. Ac am y rhesymau hyn, yr Oil yma yw y goreu a'r mwyaf effeithiol mewn arferiad.

Mewn blwch-botelau yn unig, am 1s. 4c., 2s. 6c., 4s. 9c., a 9s. Ar werth yn mhob man.

BYNIN LIQUID MALT sydd nwydd gwerthfawr i'w ddefnyddio gyda Cod Liver Oil.
Wedi ei gryfhau a'i wneyd yn nwydd lleol. Gwerthfawr at gynorthwyo treulid.
Y mae hefyd yn bur defnyddiol mewn achosion o D.lart dedigaeth ac anhwylderau cyfelyb.
Mewn poteli. 1s. 9c yr un

COCOA

Cadbury

Hollol Bur, wedi ei wneyd yn Lloegr

Ni ddefnyddir Chemicals fel y gwneir yn Cocos a olwir yn rhai trwm.
Mae enw CADBURY ar unthyw sypyn o Cocos neu Chocolate yn ddigon
sicerwydd am bunleib.



SEBON

PEARS.

Y

TRAETHODYDD.

GORFFENAF, 1892.

CYNHWYSIAD.

	Tŷ DAL.
Nodweddion Gwers iawn. Gan Miss E. P. HUGHES, Prifathrawes Coleg yr Athrawesau, Caergrawnt	245
Sefyllfa Foesol Cymru. Gan FAER CAERNARFON.....	256
Codiad yr Haul. Gan H. ISGAER LEWIS	260
Athanasius. Gan y Parch. RICHARD HUGHES, B.A.	262
Y Brifysgol i Gymru. Gan Mr. W. LEWIS JONES, M.A.	273
Rheithor Llangeitho a'r Parch. Daniel Rowland. Gan y Parch. JOHN EVANS	280
Deddfwriaeth Ataliol yn yr Unol Dalaethau. Gan y Parch. DANIEL ROWLANDS, M.A.	291
Y Graig sydd Uwch. Gan J. GRUFFYDD HUGHES ..	304
Amddiffyniad yr Eglwys. Gan y Parch. J. MACHRETH REES.....	305
Nodiadau Llenyddol	317

CYHOEDDIR Y RHIFYN NESAF MEDI 1af, 1892.

PRIS SWLLT.

CAERNARFON:

ARGRAFFWYD A CHYHOEDDWDYD GAN D. W. DAVIES & CO.

"NID OES GWELL BWYD YN BJD."—*London Medical Record.*

Dylid rhoddi cynnyg ar y Bwyd hwn yn lle bynnag y bydd lluniaeth arall wedi methu. Wedi ei Goginio yn barod—nid oes eisieu ei ferwi na'i ystraeio. Gellir ei wneyd mewn mnyd

Allen & Hanburys' Infants' Food

Bwyd llesol wedi ei gyfaddasu i organau treulio Babanod. Mae'n cael Ieuanic, yn cynnwys pobrith angenrheidiol i ffurfio cnaud caled ac esgyrn. Y mae effeithlon rhyfeddol wedi dilyn ar ei gymeryd y Bwyd yma, yr hwn, ar ol ei gymeryd unwaith a gymerir o hyd. Tystiolaeth feddygys phob cyfarwyddyd gyda phob blwch.

Pris 6c., 1s., 2s., 5s. a 10s. Ar werth yn mhob man.

BIRD'S CUSTARD POWDER

Cyflenwa foethusfwyd dyddiol—Blasusfwyd mewn amrywiaeth diderfyn—Y dysgleidiau goreu o'r Custard goreu

HEB WYAU!

GWOBRWYON DIWEDDARAF: Y Brif Wobr yn Paris, Melbourne, a Barcelona, Bathodau Aur, a Thystysgrifau yn mhob lle yr arddangoswyd ef.

Needham's DISGLAER FEL DRYCH.



Medda gymeriad agos i ganrif fel y ddarpariaeth oren at lanbau PRES, COPR, TIN, BRITANNIA METAL, PLATINOID, &c. Gellir ei gael yn mhob man mewn Potiau 6c. a 1s., neu Flychau 2g. a 1c.

Polishing Paste

Dyfeiwyr i Gwenthurwyr,

JOSEPH PICKERING & SONS, SHEFFIELD.

LONDON OFFICE: ST. GEORGE'S HOUSE, EAST P. E.C.

Y TRAE'HODYDD.

NODWEDDION GWERS IAWN.

GAN MISS E. P. HUGHES,

Prifathrawes Coleg yr Athrawesau, Caergrawnt.

Y MAE addysgiaeth yn rhywbeth llawer mwy na rhoddi gwersi. Gallai athraw fod yn abl i roddi gwersi rhagorol, ac eto heb fod mewn un modd yn addysgydd rhagorol. Er hynny, y mae rhoddi gwersi yn rhan fawr o waith athraw ysgol, ac fe'i hystyrir yn gyffredinol fel un o'r pethau pennaf mewn addysgiaeth. Y mae, gan hynny, yn werth i ni grynhoi ein sylw ar hyn.

Un o'r arwyddion mwyaf gobeithiol mewn addysgiaeth ganolraddol yn ein plith y dyddiau hyn ydyw yr anfoddlonrwydd sydd yn chwyddo fwyfwy ymysg athrawon gyda golwg ar y lefel o fedr addysgol sydd yn awr wedi ei chyrraedd gennym. Nid ydym mewn un modd yn foddlon ar ein cyflawniadau fel rhai sydd yn rhoddi gwersi, ac y mae arnom eisieu dyfod yn fwy medrus. Y mae llawer o honom braidd yn ansicr am y modd y mae yr amcan hwnnw i gael ei gyrraedd, ac y mae y rhai y mae ganddynt syniadau lled glir ar y mater yn anghytuno â'u gilydd am y moddion goreu i'w ddefnyddio; ond, sut bynnag, y mae llawer o honom wedi cymeryd y cam cyntaf,—anfoddlonrwydd gogoneddus. Yn y dyddiau sydd yn prysur fynd heibio, yr oedd dau ddull parod a rhwydd a ddefnyddid yn helaeth i ennill medr mewn addysgu. Y cyntaf oedd mynd at ddosbarth a'i ddysgu cystal ag y gallech, nes y gallech ei ddysgu yn y ffordd iawn. Y mae nifer o athrawon wedi ennill eu medr yn y ffordd yma,—dull gwastraffus, gwastraffus mewn amser ac egni a methiant, i athraw ac i ysgolor. Dull arall, na ddefnyddid mor aml, oedd mynd a chlywed athrawon da yn dysgu. I hyn y mae dau anhawster amlwg:—(1) Y mae llawer o ysgolion eto wedi eu trefnu yn y fath fodd fel nad yw athraw byth yn rhydd ar adeg rhoddi gwersi; ac (2) y mae eto athrawon a wrthodant ganiatau i ereill eu clywed yn dysgu. Pa foddion ereill sydd wedi ei adael i ni? Y mae llawer, yr wyf yn meddwl; ond yn awr ni wnawn ond ystyried un,—ystyriaeth dawel o'r cwestiwn ei hun, y tu allan i'n dosbarth-ystafelloedd, ac yn y fath odd fel y byddo y canlyniad yn gadael effaith ar ein dysgu.

Y mae mantais amlwg mewn trafod y mater mewn dull mor *gyffredinol* ag y bo modd. (1) Y mae gwybodaeth gyffredinol yn llawer mwy amlwg, yn fwy tebyg i dynnu ein sylw ac aros yn ein cof, ac am hynny yn fwy tebyg i effeithio ar ein gwaith. (2) Y mae yn llawer o ddiogelwch i ddatgan gwybodaeth mewn ffurf mor gyffredinol ag y bo modd, oblegid ein bod yn fynyeh wrth wneyd felly yn canfod camgymeriadau. (3) Gwybodaeth gyffredinol ydyw y ffurf fwyaf cyfleus i gario

gwybodaeth, am ei fod y mwyaf cryno. Ar y llaw arall, po fwyaf dansoddol yr ystyriaeth, oddieithr bod gan un ddigon o esiamplau i'w egluro, lleiaf tebyg ydyw un i'w chymhwyso at fywyd ymarferol. Mi a ystyriaf y mater o'r ododi gwera mewn dull mor gyffredinol ag a fo modd, gan adael o'r neilldu wahaniaeth testyn, gwahaniaeth ysgolorion, a gwahaniaeth amgylchiadau. Wedi'r cwbl, y mae rhai elfennau ydynt bob amser yn bresennol ymhob gwera. Y mae bob amser athraw, bob amser ysgolorion, a phob amser destyn.

Mi nodaf ugain o nodweddion sydd yn ymddangos i mi yn hanfodol i wers o'r fath oreu, gwera iawn, *ideal lesson*.

1. Rhaid i'r athraw wybod beth y mae yn ddisgwyl ennill oddiwrth y wers; neu, y mae i wers iawn ddiben penodol. Mae hyn, yn wir, yn ymddangos mor amlwg fel yr wyf yn teimlo tuedd i ymesgusodi am ei ddwyn ymlaen; ond yr wyf yn gwneyd hynny am fy mod yn barhaus yn gofyn i rai sydd yn dysgu pa beth y maent yn geisio ennill, ac nid ydynt yn gwybod. Y mae addysgu yn dasg galed iawn. I'w gwneyd yn dda, rhaid i ni wario peth anferth o amser ac egni, ac felly ein hysgolorion. Yn sicr nid ydyw yn rhesymol i ni wario felly heb ystyried y diben a ddymunwn gyrhaeddyd. Nid wyf yn cydymdeimlo fawr ag athraw a gyffesai yn rhydd i mi y dydd o'r blaen,—“Fy niben i yw cael fy mechgyn i basio yr arholiadau. Mae eu rhieni wedi eu hanfon ataf i'r pwrpas hwnnw, a dyna fy niben.” Nid wyf yn cydymdeimlo ag ef, ond yr wyf yn gwybod mai y tebyg ydyw y cyrhaedda ei ddiben, oblegid fe w'yr beth sydd arno eisieu; ac y mae ei gwera yn rhesymol, os nad yn wych.

2. Rhaid bod i wers o'r fath oreu effaith drifflyg ar yr ysgolor: (1) cynnydd mewn nerth ysgogol iawn; (2) cynnydd mewn gallu dealltwriaethol; (3) cynnydd mewn gwybodaeth drefnus. Gosodais y trydydd yn olaf, am fy mod yn ei ystyried y lleiaf pwysig. Y mae yn fwy pwysig fod ar y bachgen sydd yn yr ysgol eisieu dysgu, a'i fod yn gwybod sut i ddsygu, na'i fod yn ei ddyddiau ysgol yn ennill dysg. Mae'n amlwg, fodd bynnag, nad ydyw y tri pheth yn groes i'w gilydd; yn wir, y maent wedi eu hagos gyd-gysylltu, os *dechreuwch yn y pen iawn*. Fe all un—ysywaeth!—ddechreu yn y pen chwith, ac yna nid oes gysylltiad sicr. Gallwn roddi gwybodaeth i fachgen yn y fath fodd fel ag i leihau, yn hytrach na chynhyddu, ei awydd am wybodaeth. Gallwn hefyd roddi gwybodaeth mewn ffordd mor ddrwg—er engraffit, defnyddio dull anghywir o ymresymu—fel yr ydym yn marweiddio, yn hytrach na daddblygu galluoedd bachgen. A siarad yn rhydd, mae hyn, yn ddiamaeu, yn cael ei wneyd; pe amgen ni fyddai gennym i ofidio, fel y gwnawn yn bresennol, am y diffyg o lawer o gariad at ddsyg yn ein hysgolion canolraddol. Dywedodd bachgen bach wrthyf y dydd o'r blaen, “Rwy i'n cashau gwera, ond mae yn dda gen i'r ysgol, am fod yno chwareu, a'r difyrrwch o fod gyda llawer o fechgyn, a cheisio gwneyd triciau efo'r meistriaid. Yr ydym yn rhoi i fyny efo'r gwera i'r mwyn y pethau ereill.” Yr wyf yn teimlo yn sicr nad ydoedd wedi bod yn cael gwera iawn. Os dechreuwn yn y pen iawn, y mae yr holl bethau da yn canlyn. Os amcanwn, o flaen popeth, i wneyd i'n hysgolorion garu dysgu ac awyddu dysgu, ac yna amcanu at eu dysgu yn y fath fodd fel ag i osod eu holl alluoedd ar waith, fe fydd y trydydd canlyniad—gwybodaeth fanol, drefnus—yn sicr o ddyfod. Y mae dysgu yn unig

yn mynd o'r ffsaiwn. Ac yr ydym yn siarad llawer yn awr am ddal-blygiad yr holl alluoedd; ond nid ydyw hynny yn ddigon. Nid oes arnom eisieu yn unig beiriant meddyliol da, galluog i waith rhagorol, ond y mae arnom hefyd eisieu ager i'w weithio. Nid wyf yn meddwl ein bod ni, athrawon, yn rhoddi digon o feddwl ac egni ar ddadblygu gallu ysgogol cryf ac iawn. Beth bynnag allo fod mater gwera, a beth bynnag yr amgylchiadau, fe gyrhaedda gwera iawn yr effaith driffllyg

3. Rhaid i wers o'r fath oreu fod yn gyflawn ynddi ei hun. Rhaid i ni gael dechreu, canol, a diwedd. Gwn fod hyn yn cael edrych arno fel mympwy athrawon, ond yr wyf yn teimlo yn sicr ei fod yn foddion cynnydd cyflym. Mae rhai gwera, mae'n amlwg, yn fwy ar wahân nag ereill; ond y mae pob cyfres o wersi, pa mor agos bynnag eu cyd-gysylltiad, yn llinyn o *gyfanion*. Pa nifer o athrawon sydd yn mynd ymlaen efo'u gwera nes y cân y gloch? A phe canasai bum munud yn gynt, neu bum munud yn ddiweddarach, ni fuasai yn effeithio ar unoliaeth cynllun y wers, oblegid nad oedd unoliaeth iddi. Yr wyf yn teimlo yn sicr fod yr athraw wedi ei adfywio ac yn gorffwys, o fynd trwy yr hyn a fwriadai wneyd, ac y mae y dosbarth hefyd yn cael ei fywiogi wrth weled fod y wers yn gyflawn a gorffonedig. Pan nad yw y rhaniadau yn amlwg yn cael eu hawgrymu gan y mater, dymunol ydyw defnyddio cynlluniau i wahaniaethu y gwahanol rannau. Yr wyf yn credu ei fod yn haws i bob dyn gymeryd ei ymborth bob yn llwyad, pa un bynnag ai naturiol ai meddyliol fyddo. Cymaint â hyn am fater pob gwera; dylai fod i fesur yn gyflawn ynddo ei hun.

Onid wrth ddadleu dros fod pob gwera yn gyflawn o ran cynllun, yr wyf yn golygu mwy na hynny. Yr wyf yn meddwl y dylai feddu dechreu a diwedd, yn gystal â rhan ganol glir ac amlwg. Ychydig iawn o honom all ymdafu ar unwaith, gyda'n holl nerth, i destyn y dewisa rhywun arall i ni ei astudio; weithiau ni a'i cawn yn anodd gwneyd hynny hyd yn oed pan ddewiswn y festyn ein hunain. Y mae, wrth reawm, yn llawer mwy anodd i blant wneyd dechreuad da a chyflym nag i rai mewn oed. Mae llawer gwera dda wedi ei handwyo am ei bod yn dechreu yn rhy fuan—h.y., cyn bod y plant wedi eu paratoi yn briodol i ddechreu, wedi eu paratoi o ran gwybodaeth ac ansawdd meddwl. Yr wyf yn cofio swyddog gwirfoddolwyr yn dweyd wrthyf unwaith ei fod ef bob amser yn treulio ychydig funudau cyntaf *drill* mewn siarad â'i ddynion. Fe wna hynny am eu bod wedi bod ar waith gyda gwahanol fathau o oruchwylyon yn ystod y dydd, ac yr oedd yn angenrheidiol i'w meddyliau gael eu dwyn oddiamgylch at y mater mewn llaw. Hefyd, nid oeddynt wedi lod yn gweithio ynghyd yn ystod y dydd, ac yn awr yr oedd arno eisieu iddynt weithio ynghyd fel un dyn. Mewn geiriau ereill, credai mewn gael arweiniad i'r wers, ac felly finnau. Nid ydyw gwera berffaith yn dechreu mewn gwirionedd nes y mae pawb yn y dosbarth yn barod i weithio ynghyd fel un, a nes y mae eu meddyliau wedi eu crynhoi ar yr hyn y maent yn mynd i'w ddysgu.

Rhaid i wers berffaith hefyd feddu diwedd priodol a chyflawn. A chymeryd yn ganiataol fod ein hysgolorion wedi ennill mewn nerth ysgogol, gallu, a gwybodaeth, y mae ein hymgyrch drosodd; gadewch i ni gyfri'r enillion. Er mwyn yr athraw, gadewch i ni weled beth y mae'r ysgolorion wedi wneyd; a hefyd, er mwyn y dosbarth, gadewch i ni ychwanegu eu dymuniad i ddysgu trwy beri iddynt weled beth y maent wedi ei nill mewn gwybodaeth a nerth yn ystod y wers.

4. Rhaid i'r wers berffaith fod mewn cersylltiad byw & chyfres o wersi. Y ffordd gyntaf i esgyn mynydd serth ydyw cymeryd nifer o gamrau bychain, *am y bob cam yn dweyd*. Mae yr athraw iawn yn mynd ymlaen yn araf, ond yn mynd ymlaen o hyd. Dywedai ysgolor i athraw enwog unwaith: "Yr ydym yn ymddangos yn gwneyd mor lleied ymhob rhan o'r wers, ac eto yn niwedd y wers yr ydym yn gweled mor bell yr ydym wedi trafaclu, ac yn niwedd y tymor mae un yn synnu wrth weled gymaint o wybodaeth a enillasom; ac eto yr ydym yn ymddangos fel wedi mynd ymlaen mor araf." Y mae llawer o athrawon yn dechreu gwaith tymor ac heb fod ganddynt un syniad cyflawn beth a fwriadant ddygu yn y tymor. Yn sicr, y ffordd iawn ydyw tynnu allan fras-gynllun o waith y tymor, ac y mae'n debyg, o waith y flwyddyn. Fe fyddai cynllun manwl feallai yn annymunol a llesteiriol; gallai ein rhwystro i gymeryd ein harwain yn ddigonol gan alluoedd y dosbarth, neu gan ein darllen newydd a'n meddwl. Y mae bras-gynllun yn gwneyd dysgu yn llawer mwy cyson a threfnus. Y mae yn arweiniad cyfleus i'n darllen a'n meddwl, a rhwystra ni yn fynych rhag rhoddi swm amhriodol o amser at ran neillduol o'r hyn a ddysgwn.

5. Rhaid i'r wers iawn gael ei rhagflaenu a'i dilyn gan waith preifat. Yr wyf yn gosod pwys mawr ar hyn. Rhaid i'n hysgolorion gael hamdden at waith preifat ac ar eu pen eu hunain, ac nid wyf yn golygu gwaith cof neu waith peirianyddol. Yn achlysurol y mae gwrs fel yma yn cael ei rhoddi. Mae y plant yn dyfod iddi heb wneyd unrhyw waith eu hunain. Rhoddir iddynt fath o ddarlith, y mae swm o wybodaeth gryno a syml yn cael ei ladlo allan iddynt mewn paragraffau. Mae y plant yn ysgrifennu nodiadau yn ystod y wers, ac weithiau ceir cwestiwn neu ddau. Ar ol y wers, y mae'r ysgolorion ambell dro yn ysgrifennu y nodiadau yn fwy cyflawn, a sut bynnag yn eu dysgu. Gallai hyn fod, ac fe allai ei fod y ffordd barotaf i baratoi at arholiad heb fod yn llym iawn; ond y mae yn baratoad sâl at y dyddiau pan y gobethiwn y gweithia ein hysgolorion drostynt eu hunain, heb help gan athraw na darlithydd. A ydym yn gwneyd yr oll a allwn tuag at brofi i'n hysgolorion ei fod gymaint yn twy hyfryd ac yn well, ennill gwybodaeth i ni ein hunain, na'i chael wedi ei rhoddi i ni? Onid ydym yn hytrach yn eu troi yn gardotwyr meddylol, sydd yn dibynnu ar ereill am wybodaeth? Onid ydym yn cynhyrchu dosbarth o efrydwyr sydd yn ei gael yn anodd efrynu dim oddieithr iddynt gael y symbyliad o gyfres o ddarlithiau? Ni chlywais i erioed am neb yn cael gwybodaeth drwyadl o unrhyw fater yn unig trwy ddarlithiau. Mae'n wir y gall athraw galluog roddi help o fath tra neillduol, ond y mae gwerth hynny yn fawr o herwydd y gall efe wneyd i ni yr hyn y metha llyfrau ei wneyd, a'r hyn na allwn wneyd i ni ein hunain. Gadewch i ni ddysgu ein hysgolorion o'r dechreu: "Bob amser, ceisiwch ennill gwybodaeth eich hunain cyn yr ewch at ereill am help; peidiwch byth a mynd i ddosbarth neu ddarlith heb wneyd yr oll a ellwch *chwi* cyn mynd; byddwch felly mewn ystad gymwys i ddysgu, ni wneir *chwi* yn gardotwyr, ond symbylir *chwi* gan yr help a dderbyniwch, ac y mae'n sicr y cynhyrfir *chwi* i weithio drosoch eich hunain ar ol hynny." Mae yn rheol dda bob amser i roddi i ddosbarth ryw waith i'w wneyd o flaen gwrs neu ddarlith, naill ai i gael defnyddiau y byddai raid heb hynny eu rhoddi iddynt, neu i adolygu hen wybodaeth y byddai ei heisieu, neu i arwain eu meddyliau at brif ddrychfeddwl y wers. Y mae llawer iawn o am-

rywiaeth, wrth reswm, yn bosibl yn y gwaith paratöawl hwn; er engraifft, y mae nofel hanesyddol yn arweiniad da i gwrs o hanes. Mae yn ddymunol fod yr ysgolorion yn edrych ar wers fel perl sydd yn gofyn ei osod mewn gwaith preifat. Fel y gwyddom oll, gwaith preifat sydd fwyaf pwysig i gynnydd dealltwriaethol, gwybodaeth, a gallu meddyliol. Gellir yn fynych brofi yn helaeth wir lwyddiant gwrs, trwy waith preifat yr ysgolor ar ol ei derbyn. Po hynaf fyddo, mwyaf, mae'n amlwg, y rhyddid a'r dewis sydd yn bosibl yn y gwaith preifat, a mwyaf yr alwad a ellir wneyd am feddwl gwreiddiol. Yr ydym yn clywed llawer o gwynion y dyddiau hyn am waith gartref, ac awgrymir weithiau na byddo gwaith gartref. Os ydyw i'w roi i fyny, mae'n amlwg y rhaid rhoddi rhan o'r amser yn yr ysgol i'w dreulio mewn gwaith preifat, a rhaid i ni gael oriau hwy. Ni allwn ddysgu ysgolorion heb y cynhorthwy hwn o waith preifat.

6. Rhaid i'r wers iawn fod mewn cysylltiad â bywyd y plentyn. Nid ydyw plant yn ein hysgolion dyddiol gyda ni ond am ychydig oriau bob dydd. Y tu allan i'r amser hwnnw y mae ganddynt ddyddorion ereill, angenrheidiâu ereill, amgylchiadau ereill. Yr wyf yn meddwl mai yr unig fywyd perffaith ydyw math o fywyd dwbl,—un dyddordeb mawr, a'r tu allan i hwnnw, llawer o ddyddorion creill. Er engraifft, y mae dyn busnes sydd yn ddyn busnes yn unig, yn fath truenus o ddyn. Y meddyg nad ydyw ond meddyg, fe *all* fod yn feddyg da, ond nid ydyw yn ddyn boddhaol. Mae y wraig sydd yn ben ei theulu, ond nad oes iddi ddyddordeb tu allan i'w chartref, yn fath isel o fod dynol. Nid yw yr eneth ysgol nad ydyw ond geneth ysgol, mewn sefyllfa foddhaol. Yr wyf fi yn cymeryd fod ysgol y plentyn yn cymeryd yr un lle yn ei fywyd â busnes i'r dyn o fusnes. Y mae yn waith penodol ag y rhaid ei wneyd; y mae, ac fe ddylai fod, yn ddyddordeb mawr ei fywyd ieuanc. Ond rhaid i ni, athrawon, wneyd yr oll a allwn i alluogi plant i arwain bywyd dwbl, i feddu llawer o ddyddorion tu allan i'r ysgol. Un ffordd sicr i ddwyn hynny o amgylch ydyw arwain y bywyd dwbl yma ein hunain. Ein gwaith ydyw, ac a ddylai fod, dyddordeb mawr ein bywyd, ac arno y rhaid treulio llawer o feddwl a llawer o egni; ond mae yn rhaid i ni gael llawer o ddyddorion byw y tu allan iddo. Drachefn, rhaid i ni ofalu na roddwn i'r plant gymaint o waith gartref fel na fydd ganddynt amser nac egni i feddu dyddordeb mewn pethau ereill. Rhaid i ni, hefyd, ymhob ffordd sydd bosibl, gysylltu bywyd ysgol y plentyn gyda'i fywyd allan o'r ysgol. Fe awgrymwyd y dylem ni, athrawon, gymeryd i fyny yr oll, neu yn bur agos yr oll, o ddyddordeb y plant yn ystod y tymor ysgol, ac yna y gallai rhieni gael eu dyddordeb yn ystod y gwyliau at bethau eu cartref. Ni all dim fod yn waeth paratöad at fywyd dyfodol y plentyn, pan y gobeithiwn y bydd ganddo, *ar yr un amser*, un dyddordeb mawr, ei fusnes neu ei alwedigaeth, a llawer o ddyddorion ereill,—cartref, cymdeithas, astudiaeth, dyledswyddau dinesig, &c., &c. Fe genfydd athraw galluog aneirif ddolennau rhwng bywyd ysgol y plentyn a'i fywyd allan o'r ysgol. Y mae dau brif reswm pam y dylai y cysylltiad hwn gymeryd lle. (1) Gallwn ddefnyddio bywyd y plentyn allan o'r ysgol i dafu goleuni ar ei waith yn yr ysgol. Llenyddiaeth, fe allai, ydyw y peth goreu i'w gymeryd i egluro hyn. Y mae bachgen ysgol deallus wedi gorfod dysgu llawer iawn am y natur ddynol cyn iddo gael yr un wers mewn llenyddiaeth. Y mae wedi gorfod astudio y bodau dynol gyda pha rai y

mae yn byw; y mae ei brofiadau wedi bod yn llysoeg ac anrhywiol, ac os gwyddom lawer am natur plentyn, ac os meddwn gydym leimlad a medr, gallwn ddefnyddio ei brofiadau yn fynych i dafu goleuni ar rai o'r syniadau a geir mewn llenyddiaeth. Byddaf weithiau yn clywed gwersi yn cael eu rhoddi sy'n ymddangos fel yn cymeryd yn ganiatâol nad ydyw y plant erioed wedi cael dim profiad y tu allan i ystafell y dosbarth, neu, yn wir, cyn dechreu y wers. (2) Os cysylltwn y wers iawn â bywyd y plentyn, yr ydym yn ei wneyd yn haws i'r plentyn ddefnyddio ei wybodaeth ysgol a'i allu ysgol allan o'r ysgol. Nid oes arnom eisieu i'r plentyn arwain dau fywyd, un yn yr ysgol ac un adref; ond yn hytrach un bywyd gyda dwy ochr, a'r ochrau hynny wedi ei cysylltu yn agos â'u gilydd. Mae yn cael ei baratoi yn yr ysgol at fywyd; a pho gyntaf a chyflawnaf y defnyddia a enilla yn yr ysgol yn ei fywyd y tu allan, cyflymaf a mwyaf boddhaol yr â ei addysgiaeth ymlaen.

7. Rhaid i'r wers iawn fod mewn cysylltiad â bywyd y byd. Yn ychwanegol at fywyd y plentyn, y mae gennym i ddelio â'r bywyd mawr sydd yn curo o'n hamgylch,—bywyd y byd, hanes heddyw. Ni allwn gyfrif un dyn wedi ei wir addysgu nad yw yn deall, i ryw radd, ei amgylchedd anianyddol; ac ni allwn ystyried un yn ddyn wedi ei addysgu, sydd yn farw i fywyd dwfn-ddyddorol y dydd hwn. Rhaid i ni wneyd i'n plant ymateb i fywyd y byd, ac yn y wers berffaith ni a gawn rhyw gysylltiad rhyngddi â'r olygfa bresennol yn nrama fawr y byd.

8. Rhaid i'r wers berffaith fod mewn cysylltiad â byd llyfrau. Un ffynhonnell fawr o wybodaeth, un moddion mawr o addysgiaeth, mae'n amlwg, ydyw y byd yma o lyfrau; ac yn ein gwersi, rhaid i ni yn barhaus ddefro yn ein hysgolorion ddymuniaid am gyfoeth llyfrau, trwy roddi iddynt engreiffiau priodol o hono, a'u dysgu hefyd pa fodd a phae i gael y trysorau hynny.

9. Rhaid i'r wers iawn fod mewn cysylltiad â gwybodaeth flaenorol y plentyn. Y gwahaniaeth mawr rhwng y dyn o addysg uchel a'r dyn o hanner addysg neu o addysg ddrwg ydyw, ein bod yn y dosbarth olaf yn cael gwybodaeth ddi-drefn, neu o drefn dra amherffaith, ac yn y cyntaf wybodaeth wedi ei threfnu yn dda. Os ydyw dyn sydd wedi ei addysgu yn dda yn dysgu ffaith newydd, y mae yn gweled ar unwaith ei harwyddocâd, h.y., y mae yn gweled ar unwaith y berthynas sydd rhyngddi â ffeithiau a deddfau ac egwyddorion ereill. Y mae fel y gwahaniaeth rhwng tŷn a chwareuir ar y piano ag un bys, a'r un dŷn yn cael ei chwareu gyda chordian. Am y dyn sydd wedi ei addysgu a'i wybodaeth mewn cyd-berthynas, y mae yn dwyn ynghyd rannau gwybodaeth sy'n taflu goleu y naill ar y llall, ac yn dwyn i'r wyneb wybodaeth newydd. Y mae swm bychan o wybodaeth wedi ei threfnu yn dda, o lawer mwy o ddefnydd, yn ymarferol ac yn addysgol, na swm mawr o wybodaeth ddi-drefn, neu wedi ei threfnu yn dra amherffaith. Y mae nodau tŷn a chwareuir ag un bys wedi eu cysylltu mewn un cyfeiriad, ac felly y mae ffeithiau neillduol teyrnasiad mewn hanes, a ddysgir mewn trefn amseryddol, gan ddyn o addysg ddrwg; ond y mae i'r dŷn a chwareuir â chordian lawer o gysylltiadau, ac felly y byddai i'r un teyrnasiad i ddyn o addysg dda. Fe fyddai iddo ef ei gyferbynu â llawer o gyfnodau ereill mewn hanes; fe welai ei bwysigrwydd politicaidd, ei arwyddocâd cymdeithasol, cyfansoddiadol, a llenyddol. Fe defid goleu newydd ar ei ystôr flaenorol o wybodaeth, a byddai iddi hithau, yn ei thro, egluro a dangos ystyr y cyfnod newydd a fydd yn cael ei gymeryd.

10. Rhaid rhoddi y wers iawn mewn paragraffau. Un o'r llawer o fanteision o baratoi ein gwersi yn bur drwyadl ymlaen llaw ydyw, fod paratöad gofalus yn gyffredin yn galluogi un i weled y gwahanol bwyntiau a ffurfiant yn briodol ganolbwynt paragraffau. Dylai fod yn bosibl i feirniad deallus wneyd allan yn hawdd gynllun gwers fo yn yn cael ei rhoddi; a golyga hynny baragraffau clir a phenodol, ac mewn cysylltiad rhesymegol â'u gilydd.

11. Rhaid i wers iawn gael ei phrif bwyntiau wedi eu gosod mewn arbenigrwydd clir. Esgeuluso hyn ydyw un o ddiffygion mwyaf cyffredin athrawon ieuainc. Mae yn anodd syniad nad ydyw yr hyn sydd yn ymddangos i ni yn drs phwysig, am ein bod yn gweled ei gysylltiad â phethau ereill, yn ymddangos felly i ysgolorion nad ydynt yn meddu ein gwybodaeth ni. Mewn trefn i gynhyrchu yr iawn argraff ar ddosbarth, rhaid i ni yn fynych roddi mwy o bwys ar bwyntiau nag sydd yn gweddu i'w gwerth rhesymegol. I athraw medrus y mae, wrth reswm, aneirif ffyrdd trwy ba rai y gall ddangos pwys pwyntiau neillduol,—siarad yn arafach a chyda mwy o bwyslais, ailadrodd, egluro, &c., &c. Yr wyf yn llawn gytuno ag athraw a ddywedodd unwaith, Pe byddai yn gwrando ar athraw estronol na ddeallai ei iaith, y dylai wybod yn fawr pa rai oedd pwyntiau pwysicaf y wers wrth ei ddull o'i rhoddi. Gadewch i ni fod yn gwbl sicr pa rai ydyw y pwyntiau pwysig, ac yna gadewch i ni beri iddynt sefyll allan mewn arbenigrwydd amlwg. Fe anghoïr llawer a ddywedwn yn ein gwersi, ond gadewer i ni eu trefnu yn y fath fodd fel y bydd y prif bwyntiau yn sefyll allan byth yn y cof, fel copïau Alpaid goruwch gwely o gymylau.

12. Y mae gwers iawn yn cynnwys o leiaf dri math o weithrediadau meddyliol. (1) *Cael gafael ar wirionedd.* I blant, o leiaf, y mae eisieu y symbyliad o gael rhyw wybodaeth newydd. Weithiau y mae athraw yn rhoddi gormod o wybodaeth newydd mewn un wers, ac feallai, am dair gwers neu bedair yn gorfod mynd dros yr hên drachefn a thrachefn. Y ffordd oreu, mae'n amlwg, fyddai cadw ychydig wybodaeth newydd at bob gwers. Gallwn gael gwirionedd mewn llawer o ffyrdd,—trwy gwestiyno natur, oddiwrth yr athraw, o lyfrau, trwy feddwl ein hunain. Y mae, wrth reswm, yn ddyxunol ymarfer yr ysgolor i gael y gwirionedd o'r holl ffynonhellau hyn. (2) *Rhoddi datganiad i wirionedd.* Nid ydyw yn ddigon gwybod, rhaid i ni fod hefyd yn alluog i ddatgan ein gwybodaeth. Gall un wneyd hynny mewn llawer o ffyrdd. (i) Mewn geiriau llafar neu ysgrifen, a'r geiriau llafar ydynt bwysicaf, am eu bod y ffurf fwyaf cyffredin o ddatganiad. (ii) Trwy arlunio, &c. Y mae bob amser yn ddoeth, pan y mae'n bosibl, defnyddio yr ysgrifennu mwyaf disgrifiol yma, y ferraf yma o bob llaw fer. (3) *Defnyddio gwirionedd.* Yr wyf yn credu ein bod yn treulio gormod o'n hamser gwers mewn cael gwirionedd, neu, yn well fyth, mewn helpu ein hysgolorion i'w gael iddynt eu hunain. Yr wyf yn meddwl ein bod weithiau yn gwneyd yn rhy fach o fawr werth yr ail beth,—rhoddi datganiad i wirionedd; ac yr wyf yn meddwl yn sicr ein bod yn fynych yn gwneyd rhy fach o'r trydydd. Nid ydym yn sylwi yn ddigonol mai prin y gellir amgyffred gwirionedd nes y byddwn, nid yn unig wedi ei ddatgan, ond hefyd wedi ei gymhwyso. Y mae yn rheol ymarferol dda, pryd bynnag y byddwn wedi helpu ein dosbarth i ennill gwirionedd newydd, y rhaid i ni ar unwaith roddi iddynt gyfleustra i wneyd defnydd o hono.

Os rheol mewn gramadeg, buddiol yw iddynt ei chymhwyso allan o law,—nid unwaith, ond lawer gwaith. Os ydynt wedi cael gafael mewn deddf wyddonol, rhoddwch iddynt ymofyniadau y gallant eu hesbonio trwy ei chynhorthwy. Mewn rhai gwledydd y mae dau fath o wersi,—yn y naill y mae yr athraw yn rhoddi gwybodaeth, neu yn arwain y dosbarth at wybodaeth; ac yn y llall y mae y dosbarth yn datgan, mewn rhyw ffordd neu gilydd, y wybodaeth fydd wedi ennill, ac yn ei chymhwyso. Yr wyf yn credu fod y wers iawn yn cynnwys y naill elfen a'r llall, ac mai gwell ydyw eu cael yn yr un wers.

13. *Ffurf* gwers iawn ydyw yr un ymddiddanol. Yr wyf yn golygu gwir ymddiddan, nid catecism, lle y mae un ochr yn gofyn cwestiynau a'r llall yn eu hateb, ond un lle y mae cwestiynau ac atebion yn dyfod o'r ddwy ochr. Ac nid ydyw hyd yn oed hyn yn dynodi fy syniad am ymddiddan iawn. Y mae yn rhywbeth mwy na chatecism dwyochrog, er ei fod yn hynny hefyd. Mewn gwir ymddiddan yr ydym, yn achlysurol, yn cael yr elfen o ddarlith yn cael ei dwyn i mewn. Mae un yn yr ymddiddan yn rhoddi i ni draethiad byr, nad ydyw nac yn gwestiwn nac yn ateb i gwestiwn. Feallai fy mod o'r diwedd wedi bras-ddisgrifio gwir ymddiddan,—traethiadau byrion wedi eu gosod ynghanol catecism dwy-ochrog. Yr wyf yn meddwl fod pob addysgwyr yn awr yn cytuno fod y ffurf o ddarlith yn hollol anghyfaddas i blant ysgol. Nid ydyw yn gyfaddas ond yn unig pan yn gyflenwadol i lawer iawn o waith preifat. Gall y darlithydd symbylu; yn achlysurol fe ddyry i chwi yr hyn na ellwch gael mewn llyfrau neu unlle arall; ond ni all ddysgu i chwi lawer; rhaid i chwi ddysgu eich hun. Eto, y mae y rhan fwyaf o addysgwyr yn wrthwynebol i gatecism un-ochrog, ymha un y dysga y plant ryw gymaint o lyfrau, ac y mae yr athraw yn eu holi i edrych a ydynt yn ei ddeall ac yn ei wybod. Yma nid yw yr athraw ond profydd, arholydd, prin yn athraw yn yr ystyr lawnaf. Mae yr athraw iawn yn arholydd, yn gateceisiwr, ac yn ddarlithydd, ond y mae yn rhywbeth arall yn ychwanegol.

14. Yn y wers iawn, y mae'r athraw yn arwain am ran o'r amser, ond y mae y plant hefyd yn arwain. Y mae gan y plant ddisgyblaeth ddeublyg. Yn gyntaf, *Y maent yn ufuddhau*. Y maent yn dilyn ymresymiad yr athraw, neu fe'u harweinir ganddo i ymresymu drostynt eu hunain, yn ol cynllun y penderfynodd efe arno ymlaen-llaw. Yn ail, *Y maent yn arwain*. Am ran o'r wers y mae ganddynt awyrgylch fywiocâol rhyddid. Mae yr athraw doeth bob amser yn edrych allan am ddysgu oddiwrth ei ddosbarth, i weled beth sydd yn tynnu ei sylw, pa ddulliau sydd fwyaf effeithiol, &c.; ond, yn ychwanegol at hyn, fe rydd yr athraw doeth hefyd i'r dosbarth ryddid i ddewis mewn rhai pethau. Mewn ysgol yr ymwelais â hi unwaith, yr oedd yn rheol i'r dosbarth benderfynu, o fewn terfynau, pa gyfeiriad a gymerai y wers am ran neillduol o'r amser. Esboniai y brifathrawes hynny trwy ddweyd ei bod yn meddwl fod cryn lawer o ryddid yn angenrheidiol i wneyd yr ysgolorion yn *gryffon*, a hefyd y dysgai yr athrawesau lawer mwy am y plant yn yr amser rhydd. Y mae gwers iawn mewn gwirionedd yn bartneriaeth, yn *joint-stock company*, cynwysedig o athrawon ac ysgolorion, ymha un y mae ganddynt oll hawliau a dyledswyddau sydd rywbeth yn gyffelyb. Rhaid i ni sydd yn dysgu fynnu ufudd-dod, a rhaid i ni roi rhyddid. Rhaid i ni ofyn cwestiynau, a rhaid i ni gael ein cwestiyno.

15. Mae y wers iawn yn rhedeg yn esmwyth o'r dechreu i'r diwedd. Y mae llawer o wahanol fathau o lesteiriad yn bosibl. Weithiau y mae athraw arall, neu ymwelydd, yn torri ar y wers. Yr wyf yn teimlo ei fod bron cyn waethed siarad ag athraw sydd ar y gwaith o ddsygu dosbarth, ag ydyw siarad â'r dyn sydd wrth y llyw neu *sentry* sy'n gwyllo, a gwyddom fod y rhain yn droseddau anfaddeuol. Prin byth y mae yn ofynol, hyd yn oed i brifathraw neu brifathrawes, lesteirio athraw wrth ei waith, er, wrth reswm, y gall achosion o angenrheidrwydd godi yn eu hamgylchiad hwy. Drachefn, y mae diffyg disgyblaeth yn fynych yn llesteirio gwers. Mae hyn bob amser yn ddiffyg yr athraw. Metha mewn un o ddwy ffordd: naill ai nid yw yn cyfrif yn ddigon yn ei ddsbarth, nid oes ganddo ddigon o nerth moesol i gael llywodraeth ar y bechgyn; neu nid ydyw yn gwneyd defnydd o'r oll o'r ffyrdd sydd yn bosibl iddo i adfer trefn neu i ragfaenu anhrefn. Nid oes dim yn dangos disgyblaeth wannach na thorri yn barhaus ar y dosbarth i siarad â rhai sydd yn camymddwyn. Weithiau fe dorri ar wers gan ymadawiadau oddiwrth y testyn ar ran yr athraw. Weithiau y mae yr ymadawiadau hyn yn werthfawr, ac y mae llawer o athrawon a symbylir yn gymaint gan eu dosbarth fel y maent yn cael syniadau awgrymiadol hapus yn ystod y gorchwyl o addysgu, na ddelent iddynt o gwbl yn eu hastudfa, tra yn paratoi eu gwersi. Gadewch i mi ychwanegu, sut bynnag, mai paratoi yn drwyadl ymlaen llaw,—am na fyddo y paratôad hwnnw yn ein beichio,—ydyw y cynllun tebycaf i arwain i awgrymiadau hapus yn ystod rhoddiad y wers. Drachefn, fe dorri weithiau ar wers gan gwestiwn amherthynol o'r dosbarth. Yn fynych fe genfydd athraw medrus ddolen rhwng y cwestiwn a'r wers; ond os na chanfyddir y ddolen, rhaid i'r cwestiwn ar y pryd gael ei adael o'r neilldu. Achos tra mynych o lesteiriad ydyw pan y mae athraw yn gofyn cwestiwn a heb gael ateb. Weithiau y mae toriad sydyn o'r fath yma, neu o leiaf ddau neu dri o honynt, yn peri i'r athraw golli gafael ar ei ddsbarth. Os na cheir atebiad, mewn naw deg naw o achosion o bob cant, bai yr athraw ydyw. Naill ai *ni all* y dosbarth ateb, ac y mae efe wedi disgwyl oddiwrthynt yr hyn ni allant; neu *ni wna* y dosbarth ateb, a thrachefn ei fai ef ydyw, am ei fod wedi methu sefydlu y berthynas iawn rhwng y dosbarth a'r testyn, neu rhwng y dosbarth ag ef ei hun. Beth sydd i'w wneyd? Mae yn debyg y gŵyr efe pa un ai achos o *anallu* ai o *anewylllys* ydyw. Os y cyntaf, gellir rhwystro i'r toriad fod yn ddifrifol. Trwy gyfres o gwestiynau hawdd, rhaid iddo gynorthwyo y dosbarth i gael y wybodaeth angenrheidiol i ateb, ac yna, gan ofyn yr hen gwestiwn gyda phwyslais, y mae yn cael yr ateb iawn, a rhed y wers ymlaen. Weithiau rhaid i'r athraw ateb y cwestiwn ei hun, gan deimlo, wrth reswm, ei fod wedi gwneyd camgymeriad wrth ei ofyn. Weithiau y mae athraw difrifol yn blino dosbarth, trwy geisio cael allan o honynt rywbeth nad ydynt mewn gwirionedd yn ei wybod, neu yn ceisio cael ganddynt ddweyd a wyddant mewn ffurf neillduol, nes y mae'r plant yn colli pob dyddordeb yn y wybodaeth. Y mae yn ddoeth peidio byth a rhoddi i'r plant yr hyn a allant hwy roddi i chwi, a chael atebion ganddynt wedi eu gosod mewn brawddegau, ac nid mewn geiriau unigol. Ond gofyna hyd yn oed reolau addysgol fel y rhai hyn, fedr a synwyr cyffredin yn eu cymhwysiad, ac y mae yn rheol llawer mwy sylfaenol i beidio colli sylw a dyddordeb y plant. Weithiau y mae yr annisgwyladwy yn digwydd. Torri ar

y wers trwy i'r bwrdd du syrthio, neu fod seindorf yn pasio y ffenestr, &c., &c. Gadewch i ni wneyd rhyw sylw, chwerrthin gyda'r plant, gwrando ar y band am funud gyda hwynt; ac yna, wedi arwain y dosbarth mewn gwirionedd yr holl amser, eu harwain yn ol, yn barod ac ar unwaith, at fatér y wers, a bod yn fwy dyddorol nag arfer am ychydig amser, fel ag i wneyd i ffwrdd â drwg effeithiau y llesteiriad.

16. Mewn gwerau iawn y mae yr athraw a'r plant yn hapus, ac y mae eu hapusrwydd yn codi o'r un ffynhonnell—y wers. Yr wyf yn dal yn bur gryf mai hapusrwydd yw yr awyrgylch oreu i addysgu ac i ddyysgu ynddi. Po fwyaf a feddylwyf am yr hyn sydd yn mynd ymlaen yn y naill a'r llall, po fwyaf ydwyf yn astudio natur athraw a natur plentyn, mwyaf argyhoeddedig ydwyf fod yn hollol bosibl cael yr awyrgylch yma yn ein dosbarthiadau mewn naw deg naw o bob cant o achosion, ac nid wyf yn sicr am y canfed. Ond fe ddywed rhai, Ni allwn wneyd pob dysgu yn hawdd, y mae rhai pethau a iaid i blentyn ddyysgu, raid fod yn anodd, ac nad ydynt i'w hennill ond trwy ymdrech galed. Mae'n llawen gennyf feddwl mai felly y mae, neu fe fyddai bywyd yn fuan yn ddwl, ac ni fyddai hapusrwydd yn helaeth iawn yn ein dosbarth-ystafelloedd. Nid oes neb o honom a ddringodd erioed fynydd Swissaidd serth, nad all dystio i'r mwynhad byw a geid yn ystod yr holl esgyniad; ac eto yr ydoedd yn ddiameuol yn ymdrech, ac yr oedd caledi i'w ddwyn. Yr wyf yn addef ar unwaith nad ydyw pob athrawon yn bresennol yn mwynhau eu holl addysgu, ac nad ydyw pob ysgolorion yn mwynhau eu holl ddyysgu; ond yr wyf yn meddwl fod hynny yn bennaf am y rhesymau a ganlyn:—(i.) Nid ydyw ein cwrs presennol yn ddigon eang nac yn ddigon hydwyth i gyfarfod â'n holl anghenion, nac ag anghenion pawb. (ii.) Nid ydyw amudau addysg bob amser yn gyfaddas i natur plant. (iii.) Nid ydym ni, athrawon, eto yn ddigon medrus. Mi osodwn bwys ar y ffaith y dylai y ddwy ochr—yr addysgydd a'r addysgedig—fod yn hapus. Byddaf weithiau yn gweld dosbarth lle y mae'r athraw yn bur hapus, ond nad ydyw y plant. Gallai yr athraw, yn gwbl ddiarwybod, fod yn siarad dros bennau y plant, neu yn rhy gyflym; yn tywallt allan ei ddysg, ac yn cael cryn bleser yn ei dywallt allan, tra y mae'r plant, mewn gofid a blinder, yn ofer yn ceisio ei ddeall. Mae'n gysur cofio fod natur plant y fath fel nad yw eu gofid yn debyg o bara yn hir. Fe baid eu hathraw yn fuan a bod yn berson pwysig yn eu byd. Tröant at eu desciau, eu pensils, eu cymdeithion, unrhyw beth heblaw eu hathraw; ond bydd ef wedi colli—ie, wedi tafu ymaith—gyfleustra ardderchog. Weithiau, drachefn, y mae'r plant yn drwyadl hapus, tra y mae'r athraw truan, blin, ac anhapus, yn ceisio ennill eu sylw. Y mae nid yn unig yn angenrheidiol i'r athraw a'r ysgolor fod yn hapus, ond hefyd fod eu hapusrwydd yn meddu yr un ffynhonnell, sef y wers. Yr wyf yn cofio unwaith weld athraw yn gwneyd argraffun ar y bwrdd du, ac yn ei wneyd yn rhagorol, ac yn ei gyflawn fwynhau, ac un o'r ysgolorion yn difyrro y gweddill o'r dosbarth trwy fras-ddarluniau gwych a ddaliai i fyny er eu difyrwrch, tra yr oedd yr athraw yn talu sylw i'w ddiagram. Yma yr oedd y ddwy ochr yn eu mwynhau eu hunain yn drwyadl, ond mae'n amlwg nad oedd hyn yn wers, ond yn hytrach, dau chwarae, gweddol lwyddiannus, yn mynd ymlaen yr un pryd ac yn yr un lle.

17. Yr wyf wedi cymeryd yn ganiataol fod y plant, yn y wers iawn, yn cael eu haddysgu. Mi gymeraf yn awr beth arall yn ganiataol,—

fod yr athraw hefyd, yn y wers iawn, yn cael ei addysgu. Yr wyf yn ystyried fod hyn yn fater o'r pwysigrwydd mwyaf. Ni wn a all cymdeithas byth gael ei threfnu yn y fath fodd fel y bydd pob gwaith yn addysgol i'r gweithwyr, ond yr wyf yn teimlo yn sicr y gall pob gwaith profeswriaethol gael ei drefnu felly. Ysywaeth, yr ydym oll yn adnabod athrawon y rhai ydynt yn dirywio yn ddealltwriaethol fel y mae'r blynyddoedd yn mynd heibio,—y maent yn mynd yn fwy pendew, yn fwy anffaeledig, yn fwy dwl, ac yn fwy ystrydebol; y maent yn colli, fel y rhaid i ni oll, newydd-deb brwdfrydig ieuencid, ac nid ydynt yn ennill, fel y gallem oll ennill, y newydd-deb brwdfrydig hwnnw sy'n codi o wybodaeth ddyfnach, cydymdeimlad ehangach, a medr mwy. Dylai addysgu gynhyrchu effeithiau gwahanol. Y mae athraw, mae'n amlwg, yn ennill mewn gwybodaeth wrth roddi gwers iawn. Y mae wedi gorfod edrych ar y mater o wahanol safleoedd, ac y mae pob anhawster a welwyd gan y dosbarth mewn gwirionedd yn achos o oleuni iddo ef. Y mae wedi bod mewn cyffyrddiad â llawer o feddyliau ieuainc bywiog, yn gwahaniaethu mewn llawer iawn o bwytiau; a mwyaf o ryddid a roddes efe iddynt, mwyaf y mae y gwahaniaeth hwnnw wedi cael ei ddangos. Y mae, mae'n amlwg, wedi ennill llawer mewn adnabyddiaeth o'r natur ddynol. Y mae wedi cael ymarferiad mewn datgan yr hyn a wya, ac mewn ei ddatgan mewn iaith a dulliau sydd gyfaddas i'r plant, ac am hynny nid y mwyaf naturiol iddo ef, ac am hynny y mae yr ymarfer meddyliol yma yn fwy anodd ac yn fwy addysgol. Y mae hefyd wedi gorfod deall datganiadau ereill. Uwchlaw'r cwbl, y mae wedi gorfod llywodraethu bodau dynol, un o'r mwyaf addysgol o bob math o waith, yn gofyn gwybodaeth fawr, cydymdeimlad eang, a medr diderfyn. Os nad ydyw gwers yn addysgu yr athraw yn gystal â'r ysgolorion, nid ydyw yn wers iawn.

18. Mewn gwers iawn y mae gwreiddiolder pob plentyn wedi cael ei ddadblygu. Nid oedd y plentyn yn un fath ar ddechreu y wers; fe ddylai fod y gwahaniaeth yn fwy nodedig yn y diwedd. Y mae o hanfod addysgiaeth dda i ddadblygu nodweddion personol pob un. Gallai y rhai sydd wedi eu haddysgu yn ddrwg, fod yn undonol gyffelyb; ond ymysg rhai wedi eu haddysgu yn dda, y mae llawer o wahaniaeth. Fe ofynai o leiaf hanner dwsin o bapurau i drafod y mater yma o wreiddiolder.

19. Mewn gwers iawn y mae gwreiddiolder yr athraw wedi ei ddadblygu. Addysgu drwg ydyw y peth mwyaf effeithiol y gwn i am dano i barlysu gwreiddiolder dyn,—y mae yn llawer gwaeth na dysgu drwg; ond ar y llaw arall, y mae addysgu da yn neillduol gyfaddas i ddadblygiad nodweddion personol. Yr ydym ni, athrawon, ambell dro yn cael ein cyhuddo o fod y mwyaf ceidwadol o bob gweithwyr profeswriaethol, ac y mae'n debyg y byddai nifer o athrawon aneffeithiol yn wrandawyr hynod o annymunol i ddiwygiwr addysgol. Ar y llaw arall, dylai athrawon fyw yn y dyfodol yn fwy nag un dosbarth arall o weithwyr, oblegid fod y dyfodol yn gymaint yn ein dwylaw. Mae yn gweddu i ni yn enwedig edrych ymlaen at y pethau da sydd yn dyfod, oblegid y bydd y plant ydym ni yn addysgu, dynion a merched y dyfodol, yn byw eu bywyd mewn byd newyddach na'r eiddom ni. Y mae gwreiddiolder yn dyfod yn fwyfwy gwerthfawr, yr ydym yn tynnu yn ol fwyfwy oddiwrth undonaeth; a gellid llon-gyfarch yr athraw da fod ei waith y fath fel y mae yn dadblygu gwreiddiolder.

20. Rhaid i'r wers iawn fod yn un na allasai neb arall, dan uu math o gyfuniad o amgylchiadau, ei rhoddi. Yr elfen bwysicaf mewn gwera ydyw—nid y testyn, er fod hwnnw yn bwysig; na'r dull, er fy mod yn gosod gwerth mawr ar ddull,—ond *yr athraw*. Yr ydym wedi dadlun llawer am ein cwrs o addysg; yr ydym wedi dadlun ychydig am ddull; mae yr amser eto i ddyfod pan ddadleuwn yn egniol pa fodd i gynhyrchu yr athrawon goreu. Dylai yr elfen bwysig yma, yr athraw, beri y fath effaith ar y wers iawn fel na allwn ddychmygu am neb arall yn gallu ei rhoddi. Rhaid i ni, athrawon, nid yn unig ddadablygu ein gwreiddolder, ond rhaid i ni ddysgu pa fodd i'w osod yn ein gwersi. Yr athraw dyddorol, yr athraw sydd yn cyfrif am lawer iawn, ydyw yr athraw gwreiddiol. Ond os ydym i fod yn wreiddiol,—(i.) Rhaid i ni gael ein talu yn dda, fel y gallom ddarpar ar gyfer y dyfodol, a chael gwylliau adfywicl, &c. (ii.) Rhaid i ni beidio gweithio am ormod o oriau bob dydd. (iii.) Rhaid i ni beidio colli cymaint o amser efo gwaith ysgrifenyddol, marciau, a math penodol o gywiriad peirianyddol. (iv.) Rhaid i ni gael paratöad trwyadl at ein gwaith pwysig.

Y mae bob amser dipyn yn ofidus son am y peth goreu, yr *ideal*, oblegid y mae un yn cael ei adgofio yn barhaus o'r hyn sydd yn bod—sydd gymaint yn is, o'r gwersi meirwon a roisom, ac o'n lliaws camgymeriadau. Eto yr ydym ni, yn gystal â'n hysgolorion, yn byw mewn byd lle y gallwn ddysgu, a dyfod yn ddoethach ac yn fwy medrus. Nid ydyw ein haddysgiaeth gyffredinol na'n haddysgiaeth broffeswriaethol wedi ei gorffen, a gallwn wella yn barhaus. Y mae trafod unrhyw broblem addysgol bob amser yn dwyn i arbenigrwydd ddwy ffaith,—mawredd ein gwaith, a'i ddirfawr anhawster. Y mae ein gwaith mor anodd, y mae yn werth llafur einioes; ac y mae mor fawr fel y mae yn deilwng o'n brwdfrydedd mwyaf byw, ein hymdrech fwyaf difrifol, a'n dyfalbarhad mwyaf di-ymollwng.

SEFYLLFA FOESOL CYMRU.

TUAG at iawn farnu sefyllfa foesol gwlad, y mae yn briodol edrych arni oddiar wahanol safleoedd; ac yn arbennig dylem edrych ar Gymru oddiar safle oes a manteision. Mae "amseroedd yr anwybodaeth" a'r tywyllwch dudew oedd yn gordoi y tir cyn toriad gwawr y Diwygiad Methodistaidd wedi cilio, a goleuni pur Haul y Cyfiawnder yn tywynu ar ein bröydd. Cymharer agwedd foesol ein gwlad yn awr â'r hyn ydoedd y pryd hwnnw, ac â sefyllfa cenedloedd adnabyddus i ni, a bydd gennym achosion lawer i ddiolch nad ydym ni fel dynion ereill. Ac eto, gyda galar a thristwch y dylem gydnabod, ein bod wedi dirywio yn ddirfawr mewn amryw gyfeiriadau, ac yn dra diffygiol mewn rhinweddau ag y tybia rhai fod ein cymydogion yn rhagori llawer arnom. Gallwn yn hawdd gytuno â hyn. Wrth ystyried ein profes a'n manteision yr ydym ymhell ar ol i'r hyn y dylem fod. Ond fel y mae ambell i wrthrych ar lechwedd bryn, yn llewyrch haul disglæer yr haf, yn ymddangos yn fwy ac yn amlycach nag yr ymddengys gwrthrychau o'r un maint allun ar y gwastadedd islaw, felly, o bosibl, y mae rhyw bechodau a warthruddant enw da ein cenedl, o edrych arnynt yng ngoleuni a manteision "gwlad y breintiau mawr," i'w

gweled yn llawer mwy nag ydynt mewn gwledydd ereill. Mae rhai o honom yn cofio "Brad y Llyfrau Gleision," sef yw hynny—Adroddiad dirprwywyr ei Mawrhydi a anfonwyd i lawr i chwilio i mewn i ansawdd cymdeithas ac addysg yng Nghymru yn 1847. Cynhwysent lawer o wybodaeth fuddiol, a thafent i'n gwynebau ambell i ffaith nas galleu, ac na fynem, ei gwadu. Ond y gwirionedd yw, yr oedd sail a ffynhonnell eu gyfodaeth hwy yn rhy ddiffygiol i'w galluogi i roddi barn deg ar yr hyn yr oeddynt wedi eu talu am chwilio i mewn iddo, ac yr oedd eu hadroddiad mewn canlyniad, nid yn unig yn anghyflawn, ond yn druenus o gamarweiniol. Ond y mae gennym ni, erbyn hyn, dystiolaeth sicrach ystadegau, a sylwadaeth gywirach ein profiad ein hunain, sydd yn ein galluogi i wneyd yr honiad nad ydym yn ddyfnach mewn troseddau cosbadwy nag ereill, er ein bod yn annhraethol islaw i'r hyn y dylem fod. Oddiwrth adroddiad Dirprwywyr Carcharau y deyrnas am y flwyddyn yn diweddau Mawrth 31, 1891, yr ydym yn cael mai nifer y Cymry a garcharwyd yn Lloegr a Chymru ydoedd, 4667; yng Ngharchar Liverpool yn unig bu 372 o Gymry, yn cael eu gwneyd i fyny o 155 o feibion, a 217 o ferched. Nifer y carcharorion yng Nghaernarfon—yn cynnwys troseddwr o Sir Fon yn ogystal—am yr un amser ydoedd 446, o ba rai yr oedd 123 yn Saeson, 278 yn Gymry, 5 yn Ysgotiaid, 29 yn Wyddelod, a'r gweddill yn dramoriaid. Mae yn deilwng o sylw, er hynny, fod nifer troseddau wedi lleihau yn ddirfawr trwy y deyrnas yn ystod yr ugain mlynedd diweddaf. Gellir cymeryd yn ganiataol fod yr un lleihad ar gyfartaledd wedi cymeryd lle yng Nghymru, er nad yw y cyfrif wedi ei ddostrarthu yn dalaethol. Yn niwedd Mawrth 1879, yr oedd preswylwyr ein carcharau yn 19,818; ond erbyn yr un mis y flwyddyn ddiweddaf, yr oeddynt wedi disgyn i 13,076, er i'r boblogaeth yn ystod yr un amser gynhyddu o ddwy i dair miliwn. Priodolir hyn yn gyffredin i gynnydd addysg, i gymdeithasau dirwestol, ac i sefydliadau dyngarol ein gwlad. Mae y ffaith a gofnodir yn destyn llawenydd, ac yn ddefnydd cysur i bob gwir ddyngarwr a Christian.

Dau brif bechod cyhoeddus Cymru ydyw *anniweirdeb* ac *anghymedroldeb*. Wrth gyfeirio flynyddau yn ol at adroddiadau cyfundebol y sir-oedd, yr ydym yn cael fod yr un drygau yn anrheithio ein heglwysy y pryd hynny, a'u bod yn parhau i'n drygu eto. Yn yr anerchiad rhagorol a geir yn nechreu "Ystadegau y Methodistiaid Calfinaidd yn Arfon am y flwyddyn yn diweddau Rhagfyr, 1891," gesyd yr ysgrifenydd ei fys ar y lleecyn duaf yn ein cymeriad cenedlaethol, a dywed am ddiarddeliadau y flwyddyn:—"Y gelyn sydd yn anrheithio fwyaf arnom yn y wedd yma ydyw anniweirdeb. Dymunem drwy hyn apelio yn ddirifol a charedig at bennau teuluoedd ein gwlad, yn gystal ag at yr ieuentyd eu hunain, ar fod i ni oll arfer pob gofal i feithrin ac i gadw purdeb yn y teuluoedd, mewn iaith ac arferion, rhag syrthio o neb o honom i waradwydd, ac i fagl diafol." Rhaid i ni eto wrth gymorth ystadegau cyhoeddus ein gwlad i'n galluogi i ffurfio barn deg am ffyniant y drwg hwn yn ein msysg. Yn yr adroddiad diweddaraf a gyhoeddwyd, fe geir fod cyfartaledd genedigaeithau plant anghyfreithlon yn Lloegr am y deng mlynedd diweddaf yn 48 y fil; yn Neheudir Cymru mae yn 45; yng Ngogledd Cymru mae yn 69; ond yn yr Iwerddon nid yw y nifer ond 30. Paham y mae y cyfartaledd yn llai yn Lloegr ac yn Neheudir Cymru? Diau fod llygredigaethau cyhoeddus y trefydd mawrion yn rhoddi rhyw gyfrif am hynny; ond gallasem feddwl y buasai cymeriad crefyddol ein

cenedl, lliosogrwydd ein haddoldai, a manylder ein rheolau disgyblaethol yn effeithiol i leihau rhyw gymaint ar anghyfartaletd gwaradwyddus y figyrau hyn. A pha beth bynnag all ein barn fod am sefyllfa grefyddol a chymdeithasol trigolion y chwaer ynys, mae yn ymddangos fod cymeriad diwair y Gwyddel uwchlaw gallu y Cymro i estyn bys ato a dywedyd, "Glanach ydwyf fi na thydi." Heb i mi fanylu, dyma broblem i eglwysi Cymru i'w dadrys. Nis gallwn ei hesbonio ymaith mor rwydd ag y buasem yn dymuno. Dylem sefyll i fyny yn ddirifol yn wyneb y drwg hwn, ac yn yr ymdeimlad o'n cyfrifoldeb amcanu yn fwy llwyr i buro awyrgylch foesol a chymdeithasol ein gwlad.

Am *feddwod* Cymru, nid oes gennyf ond parhau i ail adrodd yr hyn sydd yn cael ei ddyweyd drwy y blynyddau, ei fod yn uchel iawn ei ben eto yn y wlad. Ac er pob ymdrech a wneir drwy gyfrwng y wasg a'r pulpud, ac ar lwyfannau dirwestol, ofnaf mai parhau yn ei rwysg a wua, hyd nes y llwyddir drwy ddeddf Seneddol newydd, neu weinyddiad manylach o'r deddfau sydd gennym, i atal y fasnach mewn diodydd meddwol. Yn ol adroddiad swyddogol a gyhoeddwyd ychydig ddyddiau yn ol, yr ydym yn cael fod yn Sir Gaernarfon un dafarn ar gyfer pob 256 o'r trigolion; yn nosbarth ynadol Caernarfon y mae un ar gyfer pob 451; bwrdeisdref Caernarfon un i bob 172 o'r bobl; Bangor (dosbarth), 1 i bob 227; Conwy, 1 i bob 209; Nant Conwy, 1 i bob 243; Pwllheli, 1 i bob 309; Porthmadog 1 i bob 200. Ond y mae yn dda gennyf allu dweyd fod yn y sir 19 o blwyfydd, gyda phoblogaeth o 5,167, heb yr un dafarn o'u mewn. Cosbwyd am feddwi yn y sir hon yn unig, yn 1888, 556 o bersonau; 565 yn 1889; 580 yn 1890; a 517 yn 1891. Yng ngwyneb y ffeithiau hyn, ac ereill allesid nodi, meiddiaf ddweyd, nad oes yr un feddyg-inaeth effeithiol eto wedi ei darganfod rhag meddwod, ond llwyr-ymataliad hollol a thrwyadl oddiwrth yr hyn sydd yn meddwi. Mae mor wir ag unrhyw ffaith mewn natur neu osodiad mewn rhifyddiaeth—Peidiwch ag yfed chwi beidiwch a meddwi. A chofiw'n hyn, rhaid lladd y chwant, neu mae y chwant yn rhwym o'n lladd ni.

Cyhuddir ein cenedl hefyd o fod yn chwannog i *gelwydd* ac *anudoniaeth*. Wrth ymgymysgu â gwahanol ddsobarthiadau, ceir fod llawer iawn o ryw fath o'r hyn a elwir yn "fân gelwyddau" yn cael eu traethu yn ymddiddanion cyffredin y werin,—diffyg cywirdeb, a ffyddlondeb i'r gwirionedd wrth son am ddynion a phethau. Mae y Beibl yn crybwyll am bedwar math o gelwyddau—llunio, asio, clytio, a thraethu celwydd. Pedwar enw ar yr un peth ydynt, ac y maent yn blant o'r un tad—diafol. Arferir hwy i amddiffyn neu i ddyrchafu y naill a'r llall, ac yn aml iawn i guddio bai, neu i ddarostwng ereill. Nid ydym heb glywed Cymry parchus, ar ol hir fyw yn Lloegr, yn cydnabod fod y Saeson, ar y cyfan, yn fwy cywir, ac yn fwy gwyneb-agored na'u cydwladwyr. Ynglŷn a hyn y mae enllib, athrod, ac absen yn ffynnu i raddau mawr mewn cymydogathau, ac mewn canlyniad yn chwewri teimladau, ac yn ysu cymdeithas fel cancr. Pe byddem yn ddigon pur a gonest fel aelodau a swyddogion, nis gallaf lai na chredu y byddai mwy o ddiarddeliadau neu rai o dan gerydd yn ein heglwysi yn herwydd y drygau hyn nag y sydd. Mae rheol buchedd sanctaidd yn ddigon amlwg i'r hwn a redo allu ei ddarllen yng Ngair Duw:—"Heb gablu neb;"—"Heb absenu â'i dafod, heb wneuthur drwg i'w gymydog, ac heb dderbyn enllib yn erbyn ei gymydog." Yma ceir fod yr hwn sydd yn derbyn enllib lawn cyn waethed a'r dyn fyddo yn traethu enllib. Myn

rhai ei fod yn waeth. Mae yn sicr yn waeth yn yr ystyr o fod y dyn sydd yn derbyn eiddo lladrad yn waeth na'r dyn sydd yn lladrata. Ond clywsom fod un hen bregethwr yn dweyd yn ddiweddar yn ei ddull gwerinaidd ei hun,—O'i ran ef nad oedd yn gweled fawr o ddewis arnynt, yr hoffai ef weled crogi y traethwr a'r derbyniwr enllib—y naill gerfydd ei dafod, a'r llall gerfydd ei glust. Ni chaf amser i sylwi ar y gwahanol ddulliau sydd gan ddyinion i enllibio eu cymydogion. Ymfoddlonaf yn unig ar ddweyd na raid *traethu* enllib bob amser, mewn trefn iddo fod yn enllib. Y mae ysgwyd pen yn fynych yn niweidio cymaint ar gymeriad dyn a'r geiriau mwyaf enllibaidd; ac er i wlad o bobl greu nad oes dim mewn ystori a ddywedir weithiau am ambell i ŵr cyhoeddus, y mae yr hyn a ddywedir, fel malwoden, er ei lladd, yn gadael llysnafedd ar ei hol.

Gyda golwg ar *anudoniaeth* Cymru, mae yn bod i raddau cywilyddus iawn. Bu gennyf fantais flynyddau yn ol i ffurfio barn, trwy fod yn bresennol yn mrawdlysoedd Gogledd Cymru, yng nghyflawniad dyledswyddau neillduol, yr hyn a'm hargyhoeddodd fod fyngenedl yn olycnawd yn ddwfn iawn yn y camwedd hwn. Nid wyf yn dweyd ein bod yn ddyfnach ynddo nag ereill o ddeiliaid ei Mawrhydi; ond cywilydd wynebau a berthyn i ni nad allem dystio yn ddbetrus ein bod rhyw gymaint yn well na'n cymydogion, yn rhinwedd ein manteision gwell.

A gyhuidd fi o ddweyd gormod pe dywedwn fod *anonestrydd* a *thwyll* yn treiddio trwy gymalau cymdeithas ein gwlad, yn ein hym-drafodaethau masnachol? Dyna glywir eto mewn ffair a marchnad yn rhy fynych, "Drwg, drwg, medd y prynwr, a phan el o'r neilldu, efe a ymfrostia." Pawb fel hyn yn ceisio yr eiddo ei hun, ac yn ebargofi yr esiampl a'r anogaeth Ysgrythyrol o geisio yr eiddo ereill hefyd. Tra yn annog ein gilydd i gariad a gweithredoedd da, onid ein dyledswydd hefyd ydyw galw sylw ein haelodau y dyddiau hyn yn arbennig at y cyngor apostolaidd, "Na fyddwch yn nyled neb o ddim, ond o garu bawb eich gilydd"? Y mae miloedd, mae lle i ofni, yn ddiystyr hollol o'r boenedigaeth roddant i'w gofynwyr yn herwydd esgeuluso elfennau mwyaf ymarferol a symlaf darbodaeth a threfnidedd deuluaidd. Gwir fod yr amseroedd yn gelyd, y cyflogau yn fychain, a'r arian yn brin; ond er caledi yr amseroedd ac er bychander cyflog a phrinder arian, y mae rhai teuluoedd yn gallu byw uwchlaw rhoddi pryder na cholled i'r masnachwr, tra y mae ereill o'r un dosbarth yn eu hymyl, gyda'r un gyflog, a than yr un amgylchiadau, yn rhedeg yn ddwfn i lyfrau y siopwr, a hynny, ysywaeth, heb boeni dim arnynt, fel pe mai peth i fod fyddai hynny. "Fy mrodyr, ni ddylai y pethau hyn fod felly." Ni hoffwn ddweyd dim fyddo yn y graddau lleiaf yn esgus i grefyddwyr crintachlyd ein heglwysi brinhau yn eu cyfraniadau at achos yr Arglwydd; mae'r Nefoedd yn gwybod ein bod eisoes yn ddiagon prith yn y rhinwedd hwn. Ond tybed nad gonestach ynnom lawer gwaith fyddai dweyd wrth y dosbarth yma, Tâl dy ddyled yn gyntaf, ac yna tyred ac offrwm dy rodd? Ai nid cloff ydyw yr aberth sydd yn cael ei gyflwyno er mwyn ymddanghosiad, fel eiddo y dyn ei hun, tra nad ydyw ond eiddo ereill? Dysgir ni i roddi yn ol graddau ein llwyddiant—"yn ol fel y llwyddodd Duw ni:" os nad ydyw Duw wedi llwyddo dyn, y mae yn gorphwys rhwng ei gydwybod â'i Faruwr beth a pha faint a ddylai roddi.

Amser a ballai i mi fyned ar ol amryw ffurfiau ereill o anfoesoldeb sydd yn y dyddiau hyn yn codi eu pennau, ac yn darostwng cymeriad y genedl Gymreig: yr hyfdra annuwiol sydd yn meddiannu ein lliaws ieuentyd, y tyngu a'r rhegi, a'r iaith anweddu a glywir yng ngherbydau y rheilffyrdd ac yn y gweithfeydd, y gwamalrwydd a'r diffyg defosiwn yn yr addoliad dwyfol, &c. Mae yn amlwg hyn: cyn y gellir gwrthladd effeithiau niweidiol arferion drwg, rhaid symud ymaith yr achosion o honynt; ac, yn bendifaddeu, rhaid gwella a phuro yr eglwysi yn gyntaf. "Chwi yw halen y ddaear; eithr o diflasodd yr halen, a pha beth yr helltir ef?" Ond i'r eglwys gymeryd ei safle briodol ar y ddaear, fel y bwriadodd y Pen Mawr iddi wneyd—ie, yn "ddinas ar fryn," ac yn "oleuni y byd"—ni chymerai ond amser cymariaethol fyr iddi "yrru byddinoedd yr estroniaid i gilio." Esiampl berffaith yr Arglwydd Iesu rydd holl noddfeydd y celwydd ar dân, pa un bynnag ai yn y teulu, ai yn y byd, ai yn yr eglwys y byddo.

JOHN DAVIES.

CYFODIAD YR HAUL.

DRINGWN lethrau serth y Wyddfa,
 I gael gweld yr huan mawr
 Yn cyfodi o'i orweddfa,
 Fel cyhyrog enwog gawr:
 Er mor flin yw'r geirwon lwybrau,
 Er mor bell ei choryn ban,
 Ymwregyswn i groesawi
 Pob rhyw rwystrau all gyfodi,—
 Cawn y wobr yn y man!

Henffych, uchaf grib Eryri!
 Danom mae'r clogwyni certh,
 Fel yn portredu inni
 Fawredd Hollalluog nerth:
 Yma megys rhwng dwy nefoedd,
 Nefoedd dyn a nefoedd Duw,
 Y gorseddwn fel i wyllo
 'R nos, fel euog yn ymgilio,
 O flaen gwên yr huan gwiw.

Dacw'r seren ddydd yn colli
 Yng ngoleuni gwynnach gwawr;
 Dacw'r lloer yn gado'i gorsedd,
 Dacw wên yr huan mawr!
 O'r llawenydd sy'n llifeirio
 Hyd eithafoedd nefoedd draw!
 Bywyd ddawnsia mewn gorfoledd,
 Telynd anian dry'n gyfaredd,
 Dan ryw nefol ddwyfol law.

Wela'r nef yn porffor-wrido,
 Gwrid ei hanfarwoldeb yw ;
 Tra mae'r llachar deyrn yn dringo
 Grisiau aur i'w orsedd wiw ;
 Gwelwn donnau môr goleuni'n
 Golchi dros aur-draethau drud,
 Ac mae diluw o ogoniant
 Yn ymdorri yn llifeiriant,
 Ac yn gwawl-fedyddio'r byd !

Cymyl aur fel gosgordd nefol,
 Acw sydd wrth borth y wawr,
 Fel yn ffurfio'r ymdaith freiniol,
 Mawr yw rhwysg y teyrn yn awr :
 Llathra'i drem fel mellt ymsaethol,
 Ac o'i wên mae dydd yn dod ;
 Plethu enfys o'i belydrau
 I goroni'r ieuanc forau
 Gyda bri mae rhi y rhod.

Cân y bugail sydd yn deffro
 Adsain hên glogwyni gant,
 Ac mae'r awel yn ei chludo
 Acw draw i glust y nant ;
 Deffry'r dyffryn, lleda'i fynwes
 I groesawu heulwen hedd, —
 Hithau'r lon forwynig lanwedd
 Sy'n rhoi tafod i unigedd
 Ac yn dwyfoleiddio'i wedd !

Dacw yr amaethydd mwyngu
 Yn rhoi tro trwy'r wlithog ddôl,
 Ac mae mae blodau fyrdd yn saethu
 Serch-olygon ar ei ol ;
 O, mae'r bore glân mor ddwyfol,
 Gwisga liwiau nef yn awr ;
 Engyl myg y wig awenol,
 A thelynnau anian unol,
 Chwyddant foliant heulwen fawr !

Arlunydd cywreinddeg, a welaist erioed
 Olygfa yn trechu dy bwyntel,
 A'th enaid yn plygu o'i blaen yn ddioed,
 Mewn teilwng addoliad goruchel ?
 Os naddo, atolwg, tyrd yma
 Hyd asur greig-risiau y Wyddfa,
 A gwel y dydd-arwr, llywiawdwr nef gun,
 Yn llanw y byd â'i ddisgleirdeb ei hun.

Ti wadwr, a chablwr Creawdwr y byd,
 Tyrd yma i gysegr ei wyddfod ;
 Y dwyfol hyawdledd sydd yma o hyd
 Ar ryfyg rydd sel o fudandod ;

Cei brofi fflam drem yr haul tanbaid
 Yn llosgi amheunon dy enaid ;
 Os meiddi di wedyn byth wadu'th Ior cun,
 Ti elli'n hawdd wadu dy hanfod dy hun.

Mae'r morwr yn canu tra gwrida y don,
 Dan serchog gusanu yr heulwen ;
 Ysbrydion pryderon ddiplannant o'i fron,
 Dan wenau disgleiriach ffurfafen ;
 Ar fryniau ei wlad mae'r goleuni
 Yn llif o ogoniant yn torri,
 A llewyrch yr huan sy'n dangos y tir,
 Bu'i enaid am dan'o'n hiraethu yn hir.

O huan mawreddig, caredig ei wedd !
 Mae calon y byd yn dychlamu,
 Wrth yfed cysuron o eigion ei hedd,
 Na welir drwy'r oesoedd yn pallu ;
 O, fel mae ei arian belydrau
 Yn gemu hen gymoedd a bryniau,
 I ddangos y cyfoeth diderfyn sy'n stor
 Anfeidrol ei urddas yn nheyrnas yr Ior !

Porth Dinorwig.

H. ISGAER LEWIR.

ATHANASIUS.

Y MAE y bedwaredd ganrif yn meddu dyddordeb neillduol am mai dyma yr adeg y daeth yr Ymerodraeth Rufeinig a'r Eglwys i adnabyddiaeth uniongyrchol o'u gilydd. Fe derfynwyd o'r diwedd yr ymdrech maith rhwng yr Eglwys a'r Ymerodraeth trwy fuddugoliaeth yr Eglwys, a thrwy fabwysiad Cristionogaeth fel crefydd yr Ymerodraeth. Yr oedd y ddau sefydliad yma—yr Eglwys a'r Ymerodraeth wedi bod am dri chan mlynedd yn cystadlu am ufudd-dod y byd. Ar ddechreu yr ymdrech rhyngddynt, nid oedd dim yn fwy annhebyg nag y buasai i unrhyw allu orchfygu yr Ymerodraeth. Yr oedd wedi ei gosod ar seiliau mor gedyrn, yr oedd wedi ennill y fath swyn ar fywyd cymdeithas, fel yr oedd dynion wedi dod i gredu ynddi fel rhan o drefn dragwyddol y greadigaeth. Ond er fod y byd gwareiddiedig wedi ei ddarostwng i ufudd-dod i'r ddinas fawr ar y Tiber, yr oedd cenedloedd yn preswyllo ar derfynau yr Ymerodraeth nad oeddynt eto wedi eu goresgyn ; ac yr oedd ysgydwad wedi cychwyn eisoes ymhlith y cenedloedd hynny ag oedd, yng nghwrs amser, i lethu doethineb a gollu Rhufain, ac i greu cyfnod newydd ym mywyd Ewrop. A thra yr oedd y cenedloedd barbaraid hyn yn ymosod ar derfynau yr Ymerodraeth, yr oedd ei bywyd moesol hithau yn gwanhau ac yn ymlygru. Nid ar lannau y Rhine a'r Danube yn unig y penderfynwyd tynged Rhufain ; nid ar faes y frwydr yn unig y collwyd gwaed goreu ei deiliaid. Yn symrwydd a phurdeb yr hen werin-lywodraeth, gallasai Rhufain gael digon o adnoddau i wrthsefyll gwasgiad y cenedloedd dieithr yn y gogledd a'r dwyrain. Ond yr oedd y symrwydd hwn, erbyn hyn, wedi colli. Yr

oedd llygredigaeth yn cynhyddu yn barhaus mewn amrywiaeth a haerllugrwydd; yr oedd dirywiad cyffredinol i'w ganfod mewn cymeriad, moesoldeb, a gweithrediad. A'r hyn sydd yn syn yw, nad oedd doethineb a rhinweddau gwladweinwyr unigol yn ffynnu i atal dim ar y dirywiad. Yr oedd ffynonhellau y bywyd cymdeithasol wedi eu gwenwyno, ac nid oedd modd eu pureiddio. Yn y cyfamser, yr oedd gwasgiad y barbariaid yn cynhyddu fwyfwy. Nid yn unig fe welwyd fod posibilrwydd i lengoedd Rhufain gael eu gorchfygu gan luoedd y barbariaid ar faes y frwydr, ond yr ydoedd yn dod yn fwy amlwg yn barhaus fod y cenhedloedd gwyllt hynny yn colli y teimlad o ofnadwy-aeth ag oedd hyd hynny wedi eu meddiannu ym mhresenoldeb mawredd yr Ymerodraeth. Llitosog oedd y dyfeisiadau a wnaed i gyfarfod â'r peryglon hyn. Ymhlith y rhai mwyaf pwysig, yr oedd sylfaeniad prifddinas newydd ar lannau y Bosphorus, a rhaniad yr awdurdod rhwng dau neu ychwaneg o Ymerawdwr. O hynny allan, yr oedd cwrw yr Ymerodraeth yn annibynnol ar dynged Rhufain. Daeth y syniad am yr Ymerodraeth yn fwy cyffredinol, ac yn llai materol. Gallasai gogoniant y ddinas Italaidd ddifannu; gallasai rhwysg a mawredd gweledig yr Ymerodraeth golli eu dylanwad. Ond yr oedd syniad newydd o barth i'r Ymerodraeth yn ennill dylanwad fwyfwy,—y syniad am dani fel rhan angenrheidiol o drefn dragwyddol y greadigaeth, fel bron yr unig ffaith ysbrydolagoedd, yn y dirywiad cyffredinol, yn llywodraethu ac yn arwain rhan helaeth o ddynolryw. Dyma'r syniad a goleddid am yr Ymerodraeth Rufeinig pan y darfu i Cystenyn yn y flwyddyn 323, wedi iddo orchfygu ei wahanol gyd-ymgaiswyr, ennill meddiant o'r holl Ymerodraeth, a sefydlu sedd y llywodraeth yng Nghaerystenyn.

Ond ochr yn ochr â'r Ymerodraeth yr oedd crefydd newydd wedi codi yn y byd. Trwyddi hi, fe ddygwyd gobaith newydd i ddynion. Yr oedd ei dychweledigion i'w canfod ymhob talaeth. Yr oedd unoliaeth yr Ymerodraeth yn ffafriol i gynydd Cristionogaeth. Trwy erledigaeth fe wasgarwyd yr hadau yn fwy cyffredinol, a gorfodwyd yr Eglwys i berffeithio ei threfniadau er mwyn gwrthsefyll ei effeithiau. Yr oedd yr adgof, hefyd, o'i merthyron yn brawf sicr o nerth ei chrefydd, ac yn symbyliad parhaus iddi yn y gwaith o adgenhedlu cymdeithas. Ac nid ymhlith ei dychweledigion yn unig y teimlid ei dylanwad. Fe lwyddodd i ddyrechafu tŷn moesoldeb, ac i buro y syniadau am y natur Ddwylol ym meddyliau dynion a broffesent y dirmyg a'r gelyniaeth mwyaf tuag ati. Fe ddygodd i gyrraedd dynion ganolbwynt newydd i wrthweithio y llygredigaeth ag oedd yn bygwth dinystrio moesoldeb a rhyddid.

Y ddau allu yma—yr Eglwys a'r Ymerodraeth—a ddaethant i undeb a'u gilydd pan, yn y flwyddyn 312, y cofseidodd Cystenyn yr Enfengyl, ac y mabwysiadodd Cristionogaeth fel crefydd yr Ymerodraeth. Ymhlith y rhai a ddaethant i enwogrwydd a dylanwad yn y cyfnod pwysig hwn yn hanes Ewrop, y mae dau yn hawlio sylw arbenig,—Cystenyn ac Athanasius; y naill yn cynrychioli yr Ymerodraeth, a'r llall yr Eglwys. Yr oedd Cystenyn, er nad yw yn perthyn i'r radd uchaf o fawredd, ymhlith yr ychydig sydd, trwy gyd-syniad cyffredinol, wedi ennill yr aurhydedd o gael eu galw yn *Fawr*. Yr oedd Athanasius yn fawr, nid yn unig yn rhinwedd ei swydd uchel fel Esgob Alexandria, a'r enwogrwydd a ddaeth i'w ran yn amgylchiadau cynhyrfus yr oes; ond y mae, ar gyfrif ei alluceidd, ei ddylanwad, a'i waith, yn sefyll ger

ein bron fel duweinydd mwyaf ei oes, os nad, mewn rhyw ystyr, fel dau weinydd mwyaf yr holl Eglwys.

Y mae yn amlwg fod yr Eglwys erbyn hyn wedi dod yn allu gwladwriaethol cryf. Ac i'r bedwaredd ganrif yr oedd yr undeb a ffurfiwyd rhwng yr Eglwys a'r Ymerodraeth yn ymddangos y peth mwyaf naturiol oedd yn bosibl. Yr oedd traddodiadau Judea a Rhufain yn ffatriol i'r undeb. Yr oedd y wladwriaeth ymhlith yr Iuddeuon yn gorffwysu ar grefydd; ac ymhlith y Rhufeiniaid yr oedd crefydd yn ffurfio rhan hanfodol o'r cyfansoddiad gwladwriaethol. Y mae yn wir fod undeb o'r natur agos yma allan o'r cwestiwn yn y bedwaredd ganrif. Yr oedd yn amhosibl i'r Eglwys ymgolli yn yr Ymerodraeth, oblegid yr oedd ganddi ei threfniadau a'i llywodraethwyr ei hunan; ac felly, yn lle bod yn un â'r wladwriaeth, daeth yr Eglwys yn adlewyrchiad mewn pethau crefyddol o'r hyn oedd yr Ymerodraeth mewn pethau gwladwriaethol. A'r hyn sydd yn gosod arbenigrwydd ar ddadleuon y bedwaredd ganrif yw fod Ymerawdwr y byd y pryd hynny, am y tro cyntaf, yn cymeryd rhan ynddynt. Y mae yn ddiameu, fel y dywed Deon Stanley, fod Cystenyn yn edrych ymlaen at ei ddyledswyddau newyddion mewn cysylltiad â'r Eglwys gyda theimladau cyffelyb i eiddo teithiwr wrth fyned i mewn i wlad ddieithr,—gyda disgwyliaidau uchel, gyda chasgliadau brysiog, gyda siomedigaethau chwervon. O'r siomedigaethau hyn, nid oedd yr un mor lem â'r siomedigaeth a deimlodd pan y canfyddodd gyntaf fod y byd Cristionogol yn gystal â'r byd gwleidyddol yn cael ei rwygo gan bleidiau. Tybiai Cystenyn mai ei waith ef oedd dwyn y byd o dan lywodraeth un pen. Yn y Gorllewin yr oedd eisoes wedi dyfod i gyffyrddiad â dadleuon y Donastitiaid; ac y mae yn datgan y gobaith gyda pha un yr oedd yn troi at y talaethau Dwyreiniol, gan ddisgwyl y canfyddai yn y fan lle yn gyntaf y tarddodd y goleuni dwyfol, y tawelwch ag yr oedd yn ofer wedi ei geisio yn y Gorllewin. "Ond O! Ragluniaeth Ddwyfol a gogoneddus," meddai, "y fath glwyf sydd wedi syrthio ar fy nghlustiau—yn hytrach, ar fy ughalon." O'r diwedd fe welodd Cystenyn fod yn rhaid wrth ryw foddion newyddion tuag at ddwyn undeb i'r Eglwys mewn amgylchiadau mor neillduol. Ac o dan arweiniad ysbrydoliaeth nefol, fel y teimlai ef ei hun, fe benderfynodd alw ynghyd holl esgobion yr Eglwys i gymeryd i ystyriaeth y pwnc oedd mewn dadl, a'i benderfynu yn y fath fodd ag i ddwyn heddwch i'r Ymerodraeth ac i'r Eglwys. Yn unol â'r penderfyniad hwn y galwyd ynghyd y cyntaf o'r Cynghorau Cyffredinol, sef Cynghor Nicea, yr hwn a gynhaliwyd yn y flwyddyn 325. Ac yn y Cyngor hwn y daeth Athanasius i sylw neillduol yr Eglwys fel prif amddiffynydd yr athrawiaeth uniongred.

Ond y mae yr hanes cyntaf a gawn am Athanasius yn ein cymeryd i awyrgylch dra gwahanol i boethder dadleuon y Cyngor Cyffredinol. Pan y gwelwn ef am y waith gyntaf, y mae yn chwareu gyda phlant ereill ar lan y môr yn Alexandria. Wrth eu gweld y mae Alexander, yr Esgob, yn eu galw ato i ofyn iddynt beth oeddynt yn ei wneyd. Y mae y plant yn ateb fod un o honynt, sef Athanasius, wedi bod yn bedyddio y lleill yn y môr. Fe welodd Alexander fod y cyfan wedi ei wneyd yn unol â defodau yr Eglwys, ac fe benderfynodd fod y bedydd yn un gwirioneddol. Ac yr oedd golwg mor ddeallgar ar y bachgen oedd wedi bod yn cyflawni y swydd esgobol fel y cymerodd Alexander ef i'w deulu, ac yn nhy yr Esgob y derbyniodd Athanasius y gweddill o'i

addysg. Bu y ddau yn gyfeillion mynwesol tra y buont byw; ac fel arch-ddiacon i Alexander y daeth Athanasius i Gyngor Nicea.

Yr oedd Alexander yn llywodraethu Eglwys yr Aifft mewn adeg gynhyrfus yn ei hanes. Yn y bedwaredd ganrif, Alexandria oedd canolbwynt y dadleuon diwinyddol a afonyddent ar heddwech y byd Cristionogol. Un o'r rhai mwyaf hynod ynglyn â'r dadleuon hyn oedd Arius. Yr oedd Arius yn un o henaduriaid Alexandria, a thrwy ei fywyd pur a dichlynaidd fe enillodd barch cyffredinol. Y mae yn ddinameu fod Arius yn ddyn perffaith gywir; ei amcan yn y dadleuon hyn oedd amddiffyn hen athrawiaeth yr Eglwys yn erbyn dysgeidiaeth y Sabelliaid. Hyd yn hyn, yr oedd dwy gyfundrefn fawr o athrawiaeth wedi bod yn ffynnu yn yr Eglwys. Yn y gyfundrefn a goffeidid gan Eglwys y Gorllewin, rhoddid arbenigrwydd neillduol ar unoliaeth hanfod y Personau Dwyfol; edrychid ar y Mab fel yn sefyll ar wahan i'r holl greadigaeth, ond ni wneid ymgais i benderfynu y berthynas rhyngddo â'r Tad yn y Drindod. Yn y Dwyrain, ar y llaw arall, yr oedd dylanwad Origen yn ddwfn ac yn eang; a thra yr oedd efe yn dal fod gwahaniaeth hyd yn oed mewn hanfod rhwng y Mab a phob creadur, yr oedd ar yr un pryd yn credu fod yr athrawiaeth o *unoliaeth hanfod* rhwng y Mab a'r Tad, yn gwneyd i ffordd â'r gwahaniaeth rhwng y Personau Dwyfol. Y gyfundrefnu hon o eiddo Origen oedd yr un a dderbynid yn gyffredin yn Eglwys y Dwyrain hyd ddechreu y bedwaredd ganrif. Ond yr adeg honno, rhoddwyd cyfeiriadau newydd i'r golygiadau hyn gan Arius. Yn ol y safte a gymerwyd gan Arius, rhaid i ni naill ai tybied fod yn y Duwdod ddwy hanfod wreiddiol, heb ddechreu iddynt, ac yn annibynnol ar eu gilydd; neu addef fod dechreu wedi bod i'r Mab—"y bu moment pan nad oedd efe." Yn ol Arius, fe grëodd Duw y Mab gyda'r amcan o ddwyn yr holl greadigaeth i fod trwyddo ef. Er mwyn iddo ateb yr amcan hwn, yr oedd y Mab mor debyg i Dduw ag oedd modd i greadur fod; ond pa ogoniant bynnag oedd Crist yn ei feddu, pa rinweddau bynnag oedd yn prydferthu ei fywyd, fe'u derbyniodd fel gwobr gan y Tad, yr hwn oedd yn rhagweled y bywyd sanctaidd y buasai Crist yn ei ddilyn.

Fel y galleid disgwyl, ni allodd Arius goleddu y syniadau hyn heb ddod yn fynych i ddadleuon brwd gyda'r clerigwyr ereill. Am beth amser nid oedd Alexander, yr Esgob, yn ymddangos fel pe buasai yn gallu gwneyd ei feddwl i fyny ar y dadleuon hyn; ond o'r diwedd fe benderfynodd gondemnio y syniadau newyddion, ac mewn Gyngor yn Alexandria yn y flwyddyn 321, fe ddiswyddwyd Arius, a chauwyd ef allan o gymundeb yr Eglwys. Ond fe welid yn fuan nas gellid trwy esgymuno Arius ddwyn tawelwch i'r Eglwys. Fe anfonodd Alexander lythrau at esgobion mwyaf enwog y Dwyrain, i ddeisyf am eu cymorth i amddiffyn yr athrawiaeth am unoliaeth hanfod y Personau Dwyfol. Ceisiodd Arius hefyd arnynt gymeryd ei ochr ef; ac yn wir, yr oedd y rhan fwyaf o honynt o dan ddylanwad dysgeidiaeth Origen, ac oblegid hynny yn tueddu at ddaliadau Arius. Y mwyaf ei ddylanwad o'r esgobion hyn oedd Eusebius o Cesarea, ac fe wnaeth ef ei oreu i ddwyn y pleidiau i gymod a'u gilydd. Yr oedd Eusebius yn teimlo yn gryf y perygl o wneyd dirgelion crefydd yn destynau dadleuon cyhoeddus; ac erfyniodd yn daer ar i'r pleidiau yn Alexandria osod o'r neilldu eu gwahaniaeth mewn materion diwinyddol yn hytrach na pheryglu heddwech yr Eglwys, a gadael i nwydau gwyllt ym mhoethder dadleuon gymeryd ymaith y cysegredigrwydd hwnnw ymha un yn unig y mae yn

brïdol ystyried gwirioneddau yr Efyngyl. Ond bu ymdrechion Eusebius yn ofer; ymlodaenodd y dadleuon yn yr Aifft, a thrwy y Dwyrain; daeth yr athrawiaethau ynghylch unoliaeth hanfod y Personau Dwyfol yn destyn ymryson yn y ty, yn yr heol, yn y farchnad; ac ymhob man, wrth eu trin, fe gynhyrdd nwydau dynion hyd wylltineb.

Yn y sefyllfa hon yr oedd Eglwys y Dwyrain yn y flwyddyn 324, pan y sicrhaodd Cystenyn heddwch ac undeb i'r Ymerodraeth wedi ei fuddugoliaeth ar Licinius, ac y trodd at yr Eglwys gyda'r bwriad o ddwyn yr un bendithion i'w meddiant hithau. Y peth cyntaf a wnaeth Cystenyn er cyrraedd ei amcan, oedd anfon Hosius, Esgob Cordova, gyda llythyrau at Alexander ac Arius i erfyn arnynt gydnabod eu gilydd fel Cristionogion. Wedi i'r ymgais hon at heddwch droi yn fethiant, fe arweinwyd yr Ymerawdwr—yn ol ei dystiolaeth ef ei hun, gan ysbrydoliaeth Ddwyfol—i alw ynghyd yr holl esgobion i ystyried y ffordd i benderfynu y dadleuon diwinyddol yn y fath fodd ag i sicrhau urddas ac undeb yr Eglwys. Ac yn Nicea, yn Bithynia, yn y flwyddyn 325, y cynhaliwyd y cynhulliad hwn o'r esgobion a'r henaduriaid,—y cyntaf a'r mwyaf o Gynghorau Cyffredinol yr Eglwys Gristionogol.

Amhriodol mewn erthygl fel hon fuasai ceisio rhoi disgrifiad manwl o weithrediadau y Cyngor. Ond y mae un ffaith ynglyn â chyfansoddiad y Cyngor yn deilwng o ystyriaeth, sef bod tair plaid yn cael eu cynrychioli ynddo. Gallesid tybied oddiwrth rai ysgrifenywyr fod y blaid uniongred mewn mwyafrif mawr yn Nicea, ac mai yr unig wrthwynebwyr iddynt oedd nifer cymharol fychan o aeolodau a lynent wrth Arius. Ond y mae Neander wedi dangos yn eglur nad oedd nifer y blaid uniongred ond bychan, nad oedd canlynwyr Arius ychwaith ond ychydig, a bod y rhan fwyaf o aeolodau y Cyngor yn dal syniadau cyffelyb i eiddo Eusebius y Cesarea. O'r drydedd blaid hon y tarddodd, mewn amser diweddarach, y Semi-Ariaid. Deisyfiad y blaid hon yn Nicea oedd ar i'r Cyngor benderfynu yr athrawiaeth yn unig mewn ymadroddion cyffredinol o'r fath ag oedd hyd hynny wedi boddloni teimlad ac angen Cristionogion, ond tybient y dylid rhoi pob rhyddid i'r gwahanol bleidiau i ddeall yr ymadroddion hynny yn y dull a fyddai yn fwyaf cydweddol â'u golygiadau hwy eu hunain. Dygodd Eusebius ger bron y Cyngor Gyfnes Ffydd ag yr oedd eglwysi Palestina, meddai ef, wedi bod yn ei phroffesu er dechreu Cristionogaeth. Datganai y gyfnes hon ddwyfoldeb Crist mewn geiriau wedi eu benthycu, i raddau helaeth, o'r Beibl; ar yr un pryd, yr oedd modd esbonio y geiriau yn unol â golygiadau yr Ariaid. Amlygai yr Ariaid eu boddlonrwydd i fabwysiadu y Gyfnes, ac i alw yn ol yr ymadroddion o'r eiddynt ag oedd wedi achosi tramgwydd i'r Cristionogion ereill. Ond yr oedd y ffaith hon, ynddi ei hun, yn ddigon i brofi i blaid Alexander annigonoldeb y Gyfnes; ni foddlonent ar unrhyw Gyfnes na fyddai yn cau allan, mewn modd perffaith ddiamwys, ddaliadau cableddus Arius. Dadleuent mai yr unig air a fuasai yn gosod y gwirionedd am Berson Crist ar sail foddhaol oedd y gair *homo-ousion*. Yr hyn a olygid wrth y gair hwn yw *unoliaeth* hanfod y Mab a'r Tad, mewn cyferbyniad i *homoi-ousion*, neu *gyffelybiaeth* hanfod. Yn eu hymdrechion i osod y gair enwog hwn i mewn yn y Gyfnes, fe gynorthwyid plaid Alexander gan Hosius. Perthynai Hosius ei hun i'r blaid ganol yn y Cyngor, ond yr oedd ei duedd at athrawiaeth yr *homo-ousion*, fel yr oedd tuedd Eusebius at ddyseidiaeth Arius. Llwyddodd Hosius i ddwyn Cystenyn i fabwysiadu ei olygiadau ef; a throdd dylanwad yr

Ymerawdwr y fuddugoliaeth i blaid yr *homo-ousion*. Wedi llwyddo yn hyn, aeth y blaid hon ymlaen i ychwanegu brawddegau i gondemnio daliadau a phersonau yr Ariaid. Nid heb lawer o drafferth y llwyddwyd i gael yr aelodau i arwyddo y brawddegau hyn. Cytunodd Eusebius o Cesarea i'w harwyddo yn unig er mwyn heddwch. Gwrthododd dau o'r esgobion—Eusebius o Nicomedia a Theognis,—arwyddo y brawddegau oedd yn condemnio Arius; a diswyddwyd ac alltudiwyd hwy. Dau yn unig o'r esgobion a wrthodasant y Credo yn hollol.

Y mae yn amlwg fod undeb perffaith, o dân y fath amgylchiadau, yn amhosibl. Nis gallai y cytundeb lai na chynnwys hadau ymrysonau diddiwedd. Gorfodwyd yr esgobion i dderbyn y Credo trwy ddylanwad yr Ymerawdwr. Ychydig o honynt oedd yn gallu dirnad perthynas y ddadl â dysgeidiaeth gyffredinol yr Efengyl; ac yn y fan hon y daw mawredd Athanasius i'r golwg. Edrychai tadau Nicea gyda syndod ac edmygedd ar alluoedd y diacon ieuanc o Alexandria. Efe oedd prif wrthwynebydd yr Ariaid; a phrin y mae yn ormod dweyd mai efe oedd yr unig un oedd yn sylweddoli perthynas y ddadl ag athrawiaethau sylfaenol Cristionogaeth. Credai fod yr athrawiaeth am unoliaeth hanfod y Tad a'r Mab, yn rhan anhepgorol o'r efengyl; ac am yn agos i hanner can mlynedd, gyda chysondeb a gwroldeb diysgog, trwy erledigaethau a dioddefiadau, fe gysegrodd ei alluoedd i amddiffyn yr athrawiaeth. Yn unig yng ngoleu yr athrawiaeth hon, yn ol ei farn ef, y gallwn gredu fod iachawdwriaeth yr Efengyl yn un wirioneddol. "Os yr unig wahaniaeth rhwng Crist ac ereill"—dyma oedd ei ymresymiad—"yw mai efe yw yr unig creadur a gynhyrchwyd yn uniongyrchol gan Duw, tra y mae ei hanfod yn sefyll ar wahân oddiwrth hanfod Duw, yna nis gall ddwyn dyn i gymundeb â Duw; oblegid rhaid i ni ddechmygu am rywbeth rhyngddo ef, fel creadur, â'r hanfod Ddwyfol, rhyw fôd trwy ba un y gallai *efe ei hun* sefyll mewn cymundeb â Duw; a'r bôd hwn yw Mab Duw yn yr ystyr briodol. Yn unig ar y dybiaeth fod Crist yn Fab Duw yn yr ystyr yma, y gall efe wneyd creaduriaid rhesymol yn blant i Dduw." I feddwl Athanasius, nid pwnc i foddloni cywreinrwydd neu i sierhau llwyddiant plaid oedd unoliaeth yr hanfod, ond gwirionedd sylfaenol Cristionogaeth, y rhan honno o grefydd heb yr hon nis gallai datguddiad yr Efengyl fod yn gyflawn, nac iachawdwriaeth Crist yn wirioneddol. Yn ehangder ei syniadau, a'r eglurder gyda pha un y gwelai fod yr athrawiaeth hon yn blethedig â'r hyn sydd yn gryf ac yn fyw yn yr Efengyl, y mae arbenigrwydd dysgeidiaeth Athanasius yn gorwedd. Nid yn llai yn ei unigedd ymlith diwinyddion ei oes, nag yn ei wroldeb yng ngwyneb gallu yr Ymerawdwr, y mae yn sefyll ger ein bron fel "Athanasius yn erbyn y byd"—*Athanasius contra mundum*. Yr arbenigrwydd hwn yn ei safle sydd yn ei wisgo â'r fath ddyddordeb. Yn unig yng ngoleu yr ystyriaeth hon y gallwn ffurfio barn ynghylch ei waith, yn gystal a deall cwrs hanes eglwysig y bedwaredd ganrif. Gallem dybed oddiwrth rai ysgrifenyddwr fod plaid yr *homo-ousion* yn y mwyafrif yn Nicea, a bod yr Eglwys yn ddi-fwlch er dyddiau yr Apostolion yn derbyn yr athrawiaeth unionged. I gymeryd un engraifft o lawer, dadleua Dr. Liddon o blaid y golygiad hwn yn y chweched bennod o'i *Bampton Lectures*—y rhan leiaf foddhaol, fel yr ymddengys i mi, o'i waith godidog ar Ddwyfoldeb Crist. Ond yn sier, y casgliad naturiol y deawn iddo, wrth gymharu ysgrifeniadau Athanasius ac Eusebius, yw nad oedd y rhai a goleddent yr athrawiaeth

uniongred yn y Cyngor ond ychydig. Dyma yn wir yw yr hyn y buasem yn ei ddisgwyl oddiwrth duedd meddwl yn y Dwyrain; a'r golygiad hwn yn unig a rydd gyfrif am y dadleuon a rwygent yr Eglwys o berthynas i'r athrawiaeth hon am flynyddoedd lawer i ddo. Fe enillwyd y fuddugoliaeth yn Nicea, i fesur helaeth, trwy ddylanwad yr Ymerawdwr, yr hwn oedd a'i fryd ar heddwch. Yr hyn a ddaliai Cystenyn oddiar ddymuniaid am heddwch, yr oedd Athanasius yn ei amddiffyn fel sylfaen y ffydd Gristionogol. Wedi'r cwbl, yr hyn a ddysgir i ni yn hanes y bedwaredd ganrif yw, nid anffaeledigrwydd yr Eglwys, ond y dylanwad y gall un dyn mawr ei gyrraedd pan y mae ganddo afael ar wirionedd sydd wedi ei roddi iddo gan Dduw, a'r hwn y mae yn rhaid iddo ei amddiffyn, deued a ddelo. Y mae yn anhawdd peidio teimlo y swyn sydd yn y golygiad fod yr Eglwys ar hyd yr oesau wedi bod yn dal ac yn dysgu y gwirionedd yn ei burdeb; ond gwers hanes yr Eglwys yw, nid fod Duw wedi ymddiried y gwirionedd i gymdeithas weledig, ond y dichon i'r gwirionedd gael ei dywyllu gan yr Eglwys, a'i golli o olwg y byd, hyd nes y bydd i Dduw godi rhyw ddyd mawr i'w amddiffyn, dyn sydd yn teimlo ei fod mewn undeb byw â Ffynhonnell Gwirionedd, ac sydd yn cysegro ei alluoedd i wneyd y gwirionedd yn ddylanwad ar fywyd dynion. Dyn o'r fath yma oedd Athanasius. Y mae yn perthyn i'r radd uchaf o fawredd. Yr oedd yn ddigon mawr i ryddhau ei hun oddiwrth draddodiadau dysgeidiaeth y Dwyrain; a chyrraeddodd i amgylfrediad mwy eglur na neb arall yn ei oes o wirioneddau sylfaenol yr Efyngyl. Amddiffynnodd y ffydd ynghanol yr anhawsterau mwyaf. Treuliodd ei oes faith mewn ymdrech barhaus yn erbyn holl rym yr Ariaid. Pum gwaith y bwriwyd ef allan o Alexandria; treuliodd ugain mlynedd fel alltud neu fel foadur; a bu bron bob talaeth o'r Ymerodraeth yn dyst o'i ddiodefiadau.

Ein gwaith yn awr fydd olrhain symudiadau Athanasius fel prif amddiffynnydd y Ffydd Gristionogol. Ymhén ychydig fisoedd wedi iddo ddychwelyd o Nicea, gwnaed ef yn Esgob Alexandria. Trwy ei apwyntiad i'r swydd hon, nid yn unig fe helaethwyd ei ddylanwad yn yr Eglwys, ond daeth ei berson yn fwyfwy yn brif nod ymosodiadau yr Ariaid. Yr ydym eisoes wedi gweled fod buddugoliaeth y blaid uniongred wedi ei hennill yn Nicea, nid trwy argyhoeddiad gonest o wirionedd ei daliadau, ond am fod Cystenyn yn tybied mai yn unig trwy fabwysiadu y daliadau hyn y galleid dwyn tangnefedd i'r Eglwys. Nid oedd eisieu ond i'r Ymerawdwr newid ei olygiadau, er sicrhau y fuddugoliaeth i'r blaid wrthwynebol. Ni bu llawer o amser cyn i'r cyfnewidiad hwn yng ngolygiadau diwinyddol yr Ymerawdwr gymeryd lle. Yn y flwyddyn 327, bu ei chwaer Constantia farw. Yr oedd gan Constantia henadur Ariaidd yn athraw iddi, ac un o'i ddymuniaid olaf oedd ar i Cystenyn wrando ar ddysgeidiaeth yr henadur hwn. Cydsyniodd Cystenyn â'i chais; ac o dan ddylanwad ei athraw newydd, fe'i perswadiwyd nad oedd a fynnai y cwestiynau ynghylch unoliaeth hanfod y Personau Dwyfol ag anhepgorion Cristionogaeth o gwbl. Y canlyniad oedd, fod pawb a osodent allan y cwestiynau hyn fel pethau dibwys yn cael eu derbyn yn awr i ffafr awdurdodau yr Ymerodraeth. Ymhlith y rhai a deimlasant efaith y cyfnewidiad yn awyrgylch diwinyddol y llys, yr oedd Arius ei hun. Anfonodd yr Ymerawdwr i Athanasius orchymyn i dderbyn Arius yn ol i'w swydd yn Alexandria, gan fygwth ei alltudio os byddai yn anufudd. Heb foment o betruster, gwrthododd Athanasius

osod mewn swydd yn yr Eglwys ddyn ag oedd, yn ei farn ef, yn dysgu golygiadau oeddynt yn groes i hanfod yr Efengyl. Trwy ei wroldeb, enillodd edmygedd yr Ymerawdwr; ac er siomedigaeth i'w elynion, cafodd aros yn Alexandria. Aeth ei elynion ymlaen yn awr i daenu chwedlau yn ei gylch; gosodent ef allan fel gormeswr balch; dywedent ei fod wedi anufuddhau i ordeiniadau Nicea trwy wrthod canlynwyr Meletius; ei fod wedi fflangellu chwech o esgobion; ei fod wedi anafu dyn o'r enw Arsenius; a'i fod mewn un eglwys, yn agos i Alexandria, wedi torri'r cwpan sanctaidd. Gwysiwyd ef o flaen yr Ymerawdwr i ateb i'r cyhuddiadau hyn, gyda'r canlyniad iddo ennill y fath ddylanwad ar Cystenyn ag i beri iddo ei anfon yn ol i Alexandria gan ei alw yn "wr Duw." Ond yr oedd gweithgarwch a gwroldeb Athanasius yn rhoi digon o achlysuron newyddion i'w elynion i ddwyn cyhuddiadau yn ei erbyn. Yn y flwyddyn 335, cynhaliwyd Synod yn Tyrus; gorchymynodd Cystenyn i Athanasius ymddangos ger bron y Cyngor hwn. Dygwyd yr hen gyhuddiadau yn ei erbyn. Yr oedd yn gallu gwrthbrofi rhai o'r cyhuddiadau hyn i foddlonrwydd perffaith; dygodd Arsenius yn holliach ger bron y Cyngor; ac yn y fan lle y dywedid ei fod wedi torri'r cwpan sanctaidd, fe brofodd nad oedd nac eglwys na chwpan yn bod o gwbl. Ond yr oedd cyhuddiadau ereill eto yn sefyll. Anfonwyd dirprwyaeth i'r Aifft i wneyd ymchwiliadau yn eu cylch; ond cymerwyd gofal i beidio rhoi neb ar y Cyngor ond y rhai oedd yn elynol i Athanasius. Wedi i'r ddirprwyaeth ddychwelyd, cafwyd Athanasius yn euog; condemnwyd a diswyddwyd ef. Wedi iddo gael ei gondemnio, gwelodd Athanasius lestr ar fin hwylio o Tyrus i Gaerystenyn; neidiodd iddi, cyrhaeddodd Gaerystenyn, a thra yr oedd yr Ymerawdwr yn tybied ei fod o flaen y Cyngor yn Tyrus, ymddanghosodd Athanasius ger ei fron tra yr oedd yn marchogaeth trwy brif heol y ddinas. Trwy ei wroldeb a'i hyawdledd, enillodd y fath ddylanwad ar yr Ymerawdwr fel ag i beri iddo alw aelodau y Cyngor ger ei fron i gyfiawnhau eu gweithrediadau. Gwelsant ei fod yn amhosibl iddynt brofi eu cyhuddiadau i foddlonrwydd Cystenyn; a dygasant gyhuddiad newydd ymlaen, sef fod Athanasius yn bwriadu rhwystro llongau i ddod o'r Aifft gyda'r yd a arferid ei ddwyn oddiyno yn flynyddol i'r ddinas ymerodrol. Y mae yn anhawdd penderfynu a oedd Cystenyn yn credu y cyhuddiad hwn; ond y mae yn debyg iddo feddwl y byddai yn well, er lles heddwch yr eglwys a'r Ymerodraeth, i Athanasius fod yn absennol o Alexandria. O dan ddylanwad yr ystyriaeth hon, alltudiodd Athanasius i Triers, ond gwrthododd benodi Esgob yn ei le.

Wedi alltudiaeth Athanasius, adferwyd Arius i'w swydd. Ond torrodd terfysgiadau allan yn Alexandria, lle yr oedd y Cristionogion yn glynu gyda'r serch a'r brwdfrydedd dyfnaf wrth yr Esgob. Mewn canlyniad i'r cynnwrf hwn, gorchymynwyd i Arius ymddangos ger bron yr Ymerawdwr, yr hwn, wedi ei argyhoeddi o'i onestrwydd, a archodd i Alexander, Esgob Caerystenyn, ei dderbyn i gymundeb yr Eglwys. Ond tra yr oedd Alexander yn datgan ei ddymuniad i farw yn hytrach nag adferu yr heretic, terfynwyd y dadleuon am y tro trwy farwolaeth ddisymwth Arius.

Y flwyddyn nesaf, 337, bu Cystenyn ei hun farw, a rhannwyd yr Ymerodraeth rhwng ei feibion. Yn y Dwyrain, rhoddwyd y llywodraeth i Constantius; daeth yr Eidal, Affric, a gwlad Groeg i ddwyllaw Constans; tra y daeth y talaethau Gorllewinol,—Hispaen, Gallia, a

Phrydain, i ran Cystenyn II. Yr oedd golygiadau diwinyddol yr Ymerawdwr hyn yn gwahaniaethu. Ariad oedd Constantius, ond tueddai y ddau ereill, yn enwedig Cystenyn yr ieuengaf, at olygiadau y blaid unionfred. Yn ystod ei alltudiaeth yr oedd Athanasius o dan awdurdod Cystenyn; a thrwy ddylanwad yr Ymerawdwr hwn, adferwyd yn y flwyddyn 338, i'w esgobaeth. Ond yn fuan wedi hyn, bu Cystenyn yr ieuengaf farw; a thrwy ei farwolaeth ef, colodd Athanasius ei unig amddiffynnydd yn erbyn ymosodiadau ei elynion. Yr oedd yr Ymerawdwr Constans yn awr o dan ddylanwad Eusebius; ac yn y flwyddyn 341, llwyddodd yr Ariaid i gynnal Cyngor yn Antioch. Penderfynodd y Cyngor hwn nas gellid adfer Esgob oedd wedi ei ddiswyddo, gan unrhyw Gyngor nad ydoedd yn meddu awdurdod cyfatebol i eiddo y Cyngor oedd wedi ei ddiswyddo. Yn unol â'r penderfyniad hwn, cadarnhawyd condemnïad Athanasius; a 'phenodwyd Gregorius o Cappadocia i'w swydd, gyda'r gorchymyn i lywydd yr Aifft ddwyn holl adnoddau y dalaeth i gynorthwyo yr Esgob newydd. Y canlyniad fu i Athanasius am yr ail waith gael ei alltudio. Treuliodd y tair blynedd cyntaf o'i alltudiaeth yn Rhufain. Ymhen y tair blynedd, galwyd arno i ymddangos ger bron yr Ymerawdwr Constans ym Milan; a thrwy ymdrech Constans, cyfarfu Cyngor Sardica yn y flwyddyn 346. Yn y Cyngor hwn yr oedd nifer mawr o esgobion yn bresennol o'r ddwy Ymerodraeth; ond methwyd sicrhau cydwelediad rhyngddynt gyda golwg ar Athanasius. Yr oedd Constans erbyn hyn yn teimlo y fath frwdfrydedd yn achos Athanasius fel yr anfonodd llythyr at Constantius, i ddweyd y byddai iddo ef, os byddai raid, gynorthwyo yr esgob gyda'i fyddin a'i lynges. Mewn atebiad i'r llythyr hwn, rhoddodd Constantius addewid o'i nodded i Athanasius; ac anfonwyd gorchymyn i awdurdodau yr Aifft alw yn ol i'w swydd holl bleidwyr Athanasius. Yn y flwyddyn 349 dychwelodd Athanasius i Alexandria, lle y derbyniwyd ef gyda'r fath rwysg a brwdfrydedd nad oedd neb o'r trigolion yn cofio dim cyffelyb iddynt.

Yn y flwyddyn 350, bu farw Constans. Gwenwynwyd ef gan Magnentius; ac am dair blynedd rhwygwyd yr Ymerodraeth gan ryfel gartrefol rhwng Magnentius a Constantius. Yr oedd y ddwy blaid yn dra awyddus am gefnogaeth Athanasius. Ar un olwg, gallasem ddisgwyl y buasai parch i goffadwriaeth Constans yn arwain Athanasius i osod ei ddylanwad yn erbyn achos ei lofrudd. Ond, ar y llaw arall, yr oedd Athanasius yn teimlo mai yr unig ffordd i sicrhau digelwch iddo ef yn bersonol, yn gystal ag i'r wir athrawiaeth oedd, trwy gadw Constantius mewn amheuaeth gyda golwg ar yr ochr at ba un yr oedd ef yn tueddu. Pa fodd bynnag, ni roddodd Athanasius unrhyw gymorth i Constantius yn y cyfwng hwn; ac wedi iddo sicrhau llwyddiant yn y rhyfel, datganodd yr Ymerawdwr yn gyhoeddus ei fwriad i ddial ar Esgob Alexandria.

Y mae yn anhawdd cael prawf mwy eglur o'r dylanwad yr oedd Cristionogaeth wedi ennill ar fywyd cymdeithasol yr oes nag yn y gwyliadwriaeth a ddanghosai yr Ymerawdwr wrth geisio sicrhau condemnïad Athanasius. Y mae yn amlwg fod teimlad o drefn a rhyddid wedi ail ddefro yn y llywodraeth. Ni fuasai ond peth bychan i Constantius, gydag adnoddau'r Ymerodraeth at ei alwad, symud yr Esgob o Alexandria; ond yr oedd yn gweled y buasai yn gweithredu yn groes i deimlad yr oes pe buasai yn diswyddo Athanasius heb gydsyniad yr

esgobion yn gyffredinol. A'i ymdrech, o hynny allan, oedd dwyn esgobion y Gorllewin i ddatgan eu cydwelediad ag ordeiniadau Cyngor Tyrus. I'r amcan hwn galwyd hwynt ynghyd i Gynghorau Arles a Milan. Yn ystod y Cynghorau hyn, yr oedd gweinidogion y palas yn brysur ar waith yn ceisio ennill yr esgobion i olygiadau yr Ymerawdwr; nid oedd yn ormod ganddynt ddiagyn at lwgr-wobrwyon. Dalient mai yn unig trwy gondemnio Athanasius y gellid adfer tangnefedd i'r Eglwys. Ar y llaw arall, dadleuai cyfeillion Athanasius fod ordeiniadau Cyngor Tyrus yn weithredol wedi eu galw yn ol trwy orchymynion yr Ymerawdwr; fod esgobion yr Aipht yn gystal â Chynghor Sardica wedi profi Athanasius yn ddieugog; a dywedent y dylai yr Ariaid, cyn condemnio Athanasius, ymlanhau oddiwrth euogrwydd heresi. Ond gwan oedd y rhesymau hyn i wrthweithio dylanwad yr Ymerawdwr; ac o'r diwedd, yn y flwyddyn 355, fe gondemniwyd Athanasius gan gyngor o esgobion y Gorllewin yn Arles a Milan. Cosbwyd y rhai a wrthodent arwyddo y condemniad âg alltudiaeth: ymhlith y rhai a ddiodeffasant yr oedd Liberius, esgob Rhufain, Hosius o Cordova, a Hilari o Poitiers.

Wedi sicrhau cydsyniad esgobion y Gorllewin, anfonodd Constantius ddau gennad at Athanasius i orchymyn iddo adael Alexandria. Gwrthododd yr Esgob ufuddhau ar y tir nas gallai gredu fod yr Ymerawdwr mewn gwirionedd wedi rhoi gorchymyn oedd mor groes i'w addewidion o'i nawdd. Cododd y fath gynnwrf yn yddinas fel y bu gorfod i awdurdodau y llywodraeth roi addewid i'r bobl na wneid dim ynglyn ag ymadawiad Athanasius hyd nes y ceid gwybodaeth sicr o ewyllys yr Ymerawdwr. Ond yn y cyfamser, rhoddwyd gorchymynion cyfrinachol i swyddogion y fyddin yng ngwahanol barthau yr Aifft i ddwyn holl lengoedd y dalaeth yn ddireolaidd i Alexandria; ac ymhen tri diwrnod a'r hugain wedi'r cytundeb â'r trigolion, ymddanghosodd pum mil o filwyr ar hanner nos o flaen eglwys, lle yr oedd Athanasius ar y pryd yn cynnal gwasanaeth. Cymerodd Athanasius ei sedd ar y gadair esgobol y tu ol i'r allor, a gorchymynodd i'w ddiakon ddarllen Salm cxxxvi., lle y diwedda'r adnodau gyda'r geiriau, "Oherwydd ei drugaredd sydd yn dragywydd." Torrwyd y drysau; tarawyd y milwyr â syndod wrth swm y canu. Ond yn fuan, aeth yn ymdrech waedlyd rhwng y milwyr a'r addolwyr yn yr eglwys. Gwrthododd Athanasius symud hyd nes i'r rhan fwyaf o'r bobl fyned allan; o'r diwedd, ysgubwyd ef ymaith gan y dyrfa. Am bedwar mis yr oedd Alexandria wrth drugaredd y milwyr. Trwy awdurdod Cyngor Ariaid, apwyntiwyd Sior o Cappadocia i'r esgobaeth. Anfonodd yr Ymerawdwr lythyr cyhoeddus at y trigolion i'w llon-gyfarach ar eu gwar-edigaeth o law y gormeswr hyawdl a phoblogaidd, a datganodd ei fwriad i ddifetha ei ganlynwyr gyda chledd a thân. Defnyddiwyd byddinoedd cyfain i'w ddal. Cynhygid gwobrwyon am dano, yn fyw neu yn farw. Am chwe blynedd, o'r flwyddyn 356 hyd 362, bu Athanasius yn wrthrych i'r erledigaeth lem hon.

Treuliodd y blynyddoedd hyn yn anialdiroedd yr Aifft. Preswyliid yr anialdiroedd hyn gan filoedd o fynachod. Yr oedd mynachdai yr Aifft wedi eu gosod yn y manau mwyaf anghysbell, ar gopïau y bryniau, ac yn ynysoedd y Nilus. Ond er mor unig oedd eu preswyfeydd, yr oedd miloedd o honynt yn barod i gyfarfod mewn unrhyw fan, ar ganiad y Corn Sanctaidd. Y mynachod hyn oedd edmygwyr mwyaf brwdfrydig Athanasius. Yn ystod ei fywyd cynhyrfus, yr oedd eisoes wedi derbyn prawf o'u hymlyniad wrtho yn ei beryglon; ac yn awr, pan

ddefnyddid holl adnoddau yr Aifft i'w erlid, atynt hwy y trodd am amddiffyn. Ac fel yr oedd llengoedd yr Ymerodraeth yn ysgubo y wlad o un cwr i'r llall, estynai y mynachod hyn eu gyddfau yn dawel i'r milwyr, gan ei hystyried yn fraint i ddioddef hyd angeu er sicrhau diogelwch yr athraw a garent mor fawr. Yn y cyfamser, symudid Athanasius o'r naill loches i'r llall; ond tra yn ffoi oddiwrth y milwyr, yr oedd trwy ei lythrau yn cario ymlaen y rhyfel mor ddiysgog ag erioed yn erbyn yr Ariaid.

Terfynwyd yr erledigaeth trwy farwolaeth Constantius yn y flwyddyn 361. Yr Ymerawdwr nesaf oedd Julian, yr hwn a ddygwyd i fyny yn Gristion, ond wedi hynny a wadodd y ffydd. Yr oedd goruchafiaeth yr Ariaid yn awr am amser drosodd. Lladdwyd yr Esgob Sior gan drigolion Alexandria, a derbyniwyd Athanasius yn ol i'w esgobaeth ynghanol banllefau yr holl ddinas. Am wyth mis cafodd lonyddwch i gyflawni gwaith ei swydd uchel; ac yn ystod yr amser yma, edrychid i fyny ato fel y dyn mwyaf ei ddylanwad a'i awdurdod yn yr holl Eglwys. Ond cyn diwedd y flwyddyn 362, daeth yn wrthrych gelyniaeth arbennig yr Ymerawdwr. Yn fuan wedi ei esgyniad i'r orsedd, rhoddodd Julian orchymyn i alw yn ol y rhai oeddynt wedi eu halltudio gan yr Ariaid; ond dadleuai yr Ymerawdwr yn awr nad oedd y rhai hyn i gael ail-feddiant o'u heglwysi. Y mae yn ddiameu mai yn erbyn Athanasius yn arbennig y cyfeirid y gorchymyn newydd hwn; yr oedd Julian yn eiddigedus o'i ddylanwad, am fod rhai boneddigesau o'r radd uchaf wedi derbyn bedwyn Cristionogol yn bennaf trwy edmygedd o gymeriad Esgob Alexandria. Proffesai Julian ei syndod fod Athanasius wedi cymeryd meddiant o'i eglwys yn groes i'w orchymyn ef. Y canlyniad fu i Athanasius, am y bedwaredd waith, gael ei alltudio. Yn wyneb brwdfrydedd Alexandria o blaid yr Esgob, ofnai llywydd yr Aifft gario allan y ddedfryd; ac nid cyn derbyn llythyr cryf oddiwrth yr Ymerawdwr yr ufuddhaodd. Dywedai Julian yn y llythyr hwn,—“Yr wyf yn tyngu wrth Serapis fawr, fod Athanasius yn elyn i'r duwiau ac i mi. Nid oes dim ag y buaswn yn ei weled nac yn ei glywed gyda mwy o bleser nag alltudiaeth Athanasius o'r Aifft. Yr adyn ffaidd!” Gorfodwyd i Athanasius unwaith eto ddianc am noddfa i fynachdai yr anialwch.

Yn y flwyddyn 363 bu farw Julian; ac etholwyd Jovian yn Ymerawdwr. Cyhoeddodd Jovian fod perffaith ryddid i'w ddangos i'r paganiaid yn gystal ag i'r holl sectau Cristionogol. O dan ei deyrnasiad ef, nid yn unig fe gafodd Athanasius ddychwelyd i Alexandria, ond gwahoddwyd ef i gymeryd rhan bwysig yn y llywodraeth. Wedi marwolaeth Jovian yn 364, rhanwyd yr Ymerodraeth rhwng Valentinian a Valens. Yn y Dwyrain, o dan lywodraeth Valens, torrodd erledigaeth Ariaidd allan unwaith eto; a rhoddwyd gorchymyn i droi allan yr esgobion oeddynt wedi dychwelyd i'w heglwysi yn amser Jovian. Dywedir i Athanasius mewn canlyniad fyned i geisio noddfa ym meddrod ei dad. Ond yn unol â deisyfiad cryf trigolion Alexandria, cafodd ganiatad i ddychwelyd; ac arhosodd mewn meddiant tawel o'i esgobaeth hyd ei farwolaeth yn 373.

“Am chwe blynedd a deugain,” a defnyddio geiriau Hooker, “o amser ei gysegrriad hyd awr olaf ei fywyd, ni oddefwyd i Athanasius fwynhau cysur diwrnod o dawelwch. . . . Am Athanasius yn unig, o ddynion yr oes honno, y gellir dweyd na chafwyd dim ynddo ond yr hyn

oedd yn gweddu i ddyd doeth ei wneyd, ac i ddyd cyfiawn ei ddioddef. A dyma oedd sefyllfa yr amserau hynny; yr holl fyd yn erbyn Athanasius, ac Athanasius yn erbyn y byd. Treulio hanner can mlynedd mewn ymdrech amheus, pa un o'r ddau fuasai yn gorchfygu; pa un ai yr ochr yr oedd ganddi bob peth yn ei meddiant, ai yr un oedd heb un cyfaill ond Duw ac angeu,—y naill yn amdiffynnydd ei ddiwiweidrydd, y llall yn orffennydd ei drallodion."

Aberystwyth.

RICHARD HUGHES.

Y BRIFYSGOL I GYMRU.

Y MAE cael Prifysgol i Gymru wedi dyfod erbyn hyn yn un o bynciau y dydd, ac nid oes fater yn awr ger bron y cyhoedd ag y mae a wnelo yn fwy â dyfodol ein cenedl. Nid ydyw hwyrach yn gwestiwn o ddyddordeb mawr i'r lliaws; nid ydyw yn apelio mor rymus at eu dychymyg a'u teimladau ag ambell gwestiwn gwleidyddol y gellid ei grybwyll; eto nid oes dim ag y dibynna cymeriad Cymru Fydd yn fwy arno na'r addysg a ddarperir gennym ar gyfer ei phobl ieuainc. Y mae perygl i ni weithiau, ym mrawdfrydedd y deffrôad presennol yr ydym ynddo, anghofio nad o ddeddfwriaeth y mae y cyfan, nac yn wir y rhan fwyaf o fendithion y dyfodol i'w disgwyl. Nid ar wleidyddiaeth yn unig y bydd byw dyn,—y bydd byw hyd yn oed y "dyn newydd" sydd i'w eni o wewyr presennol ein bywyd cenedlaethol. Y mae addysg a chrefydd hwythau i gyfrannu i'w feithrin. Y mae dysgawdwyr gwlad, er yn aml yn gweithio o'r golwg, heb chwenychu cael eu gweled gan ddydion, yn cyfrannu cymaint, os nad mwy, o wir elfennau cryfder i gymeriad cenedl â'r rhai sydd wedi eu galw i'r areithfa a'r wladwriaeth. Prin y gall neb fesur dyled Lloegr i ddydion fel Dr. Arnold neu Faraday, T. H. Green neu Benjamin Jowett. Prin y gwyr Cymru eto faint ei dyled i'w hen "ysgolfeistri" ym mhob cylch, o Lewis Edwards, tywysog ei phrif-athrawon, hyd at y dysgawdwyr y ceisia Mr. Owen Edwards y dyddiau hyn eu hadfer o dir anghof. Y mae ffurfio addysg gwlad felly yn rhan o ffurfio ei chymeriad; ac ni fu gwaith mwy pwysig eto o flaen cenedl y Cymry na'r gwaith o gwblhau a choroni ei chyfundrefn addysg trwy sefydlu Prifysgol neu Brifathrofa. Mawr gan hynny ddylai fod ein gofal rhag ein bod, wrth adeiladu ar gyfer cenedlaethau fydd, yn sylfaenu ar dywod ac nid ar graig.

Y mae y gwaith o gynllunio ac o glirio'r ffordd eisoes wedi dechreu. Y mae y pwyllgor a benodwyd gan Gynhadledd yr Amwythig ym mis Tachwedd diweddar i dynnu allan Siarter i'r Brifysgol, wedi bod yn eistedd ac wedi gosod i lawr linellau cyntaf eu cynllun. Ymddengys fod dull y pwyllgor o weithredu, ac yn wir fod rhai o weithrediadau y gynhadledd a'i penododd, wedi achosi peth tramgwydd. Nid amcan yr erthygl hon ydyw cyfiawrhau na chanu clod y pwyllgor hwnn na'r sawl a'i dewisodd. Ni cheisir yma ond galw sylw at y pethau mwyaf hanfodol i'r ymdriniaeth ynghylch y Brifysgol Gymreig, "heb na digter na dadl." Nid oes a fynnof yma âg agweddu i'r mater sydd yn destynau ymryson ac ynrafael. Fe ddaw digon o destynau felly i'r golwg cyn bo hir, a chyfyd digon o ystoriwydd yn eu cylch. Y ffordd fwyaf effeithiol i leihau ac i leddfu y cynnwrf sydd yn ddiau o'n blaen

gyda rhai pynciau ydyw ceisio hyfforddi ein gilydd ynghylch y pethau ag y dylai pawb sydd am fentro dadlau ar gwestiwn fel hwn eu gwybod. Ymddengys cwestiwn y Brifysgol i lawer yn un hawdd siarad arno; ond nid mor glir yr ymddengys yr anghenheidrwydd am wybod *beth ydyw* Prifysgol, fel cymhwyster anheggor i roddi hawl i neb siarad arno. Y mae rhai eisoes wedi traethu eu barn yn hyf, a hwythau eto heb amgyffred, neu yn analluog i amgyffred, elfennau cyntaf y cwestiwn. Amcan yr ysgrif hon ydyw nodi rhai pethau ag y mae perygl i ni eu hanwybyddu, neu eu hanghofio, neu fod heb eu gwybod yn yr ymddriniaeth â'r mater.

Fel arweinid i mewn i'r pwnc tybiwn mai priodol fyddai cyfeirio at yr hyn sydd eisoes wedi ei wneyd gan y cynllunwyr ar gyfer y Brifysgol; a gallaf wneyd hynny gyda boddhad, am fod y camrau y maent wedi eu cymeryd yn ymddangos i mi fel, ar y cyfan, yn yr iawn gyfeiriad.

Yn gyntaf, gadawer i ni edrych ar waith Pwyllgor y Siarter. Rhag y gall rhai dybio nad ydyw aelodau y pwyllgor hwn yn cynrychioli barn a theimlad Cymru, yn ogystal â'i dysg a'i gwybodaeth, priodol fyddai dweyd gair am ei gyfansoddiad. Yn y gynhadledd yn yr Amwythig, ym mis Tachwedd diweddf, penderfynwyd fod Cyngor pob un o'r Colegau Cenedlaethol i ethol pedwar aelod, a Chydbwyllgorau Addysg Unedig Cymru hwythau i ethol pedwar aelod ar y pwyllgor. Naturol ydoedd i'r cynghorau ethol ar gyfer gwaith fel hwn ddynion trwyadl gyfarwydd ag addysg a'i threfniadau. Ymhlith yr un ar bymtheg a etholwyd, ceir nid yn unig awdurdodau ar addysg, megys Prifathrawon y Colegau Cenedlaethol, ynghydag o leiaf un Proffeswr o bob coleg, ond hefyd ddynion yn adnabod anghenion pobl Cymru, megys Mr. Thomas Ellis, A.S., y Proffeswr John Rhys, y Parch. J. Morgan Jones, Caerdydd, Mr. Morgan Lloyd, Q.C., Mr. R. A. Jones, a Mr. J. E. Powell. Yn ychwanegol at y gwyr a ddewiswyd gan y Cynghorau a'r Cydbwyllgorau Addysg, etholodd bwrdd llywodraethol Coleg y Gogledd, heb ei ofyn, bedwar atynt, er sicrhau sylw i benderfyniad a basiwyd gan y bwrdd ar Addysg Dduwinyddol i Gymru. Ymhlith y pedwar hyn y mae Deon Llanelwly a'r Proffeswr Ellis Edwards, a chawsant dderbyn- iad i'r Pwyllgor ar ei eisteddiad cyntaf yn yr Amwythig, ddydd Mercher, Ebrill 27ain. Ac edrych dros yr enwau uchod, prin y gall neb, wedi cymeryd i ystyriaeth y cymhwysterau angenrheidiol ar gyfer y gwaith, gwyno nad ydyw y pwyllgor yn deilwng o ymddiried pob plaid a dosbarth yng Nghymru. Arglwydd Aberdar, yr hwn sydd wedi cael cymaint profiad yn nhrefniant addysg Cymru, ydyw ei lywydd, a Mr. Ivor James, cofrestrydd Coleg Caerdydd, ydyw ei ysgrifenydd.

Gwaith cyfarfod cyntaf y pwyllgor ydoedd tynnu allan linellau cyfansoddiad bwrdd neu fyrddau llywodraethol y Coleg; a'r prif benderfyniad a fabwysiadwyd ganddynt ydoedd hwn:—"Fod o leiaf ddau gorff—un o natur boblogaidd, a'r llall o natur athrofaol—yn cael eu sefydlu trwy Siarter; fod y cyntaf o'r rhai hyn i gynnwys 13 o gynrychiolwyr y Goron, 26 o gynrychiolwyr y Cynghorau Sirol, 36 o gynrychiolwyr y Colegau Athrofaol, 13 o gynrychiolwyr efrydwy'r graddedig, a 12 o gynrychiolwyr y bwrdd addysg canolog." Dyna gyfansoddiad y bwrdd "poblogaidd" sydd i lywodraethu y Brifysgol, yn ol cynllun y pwyllgor. Nid oes eto ymddriniaeth wedi bod ar swydd a galluoedd y bwrdd hwn. Pan ddaw y pwyllgor i ystyried y pethau hyn, diau y cânt esgyrn cynnen lawer. Y mae cwestiynau dyrys ereill

o'u blaen. Y mae y gynhadledd a benododd y pwyllgor wedi pasio penderfyniadau ar rai o'r cwestiynau hyn. "Y rhai pwysicaf o honynt yw y rhai a ganlyn, a chyda'r penderfyniad uchod o eiddo y pwyllgor cyfansoddant swm y cwbl sydd hyd yn hyn wedi ei gynllunio yn ffafriol gogyfer a'r Brifysgol:—(1) Fod y Brifysgol i Gymru i fod yn Brifysgol yn cyfrannu addysg,—hynny yw, na roddir gradd i neb oddigerth ei fod wedi dilyn cwrs o efrydiaeth yn un o golegau y Brifysgol. (2) Mai colegau y Brifysgol fyddant Bangor, Aberystwyth, a Chaerdydd, a chyfryw golegau ereill a gymeradwyir gan fwrdd llywodraethol y Brifysgol. (3) Fod y Brifysgol i gael galluoedd i roddi graddau yn y celfyddydau ac mewn gwyddoniaeth, ac yn ddilynol mewn duwinyddiaeth, meddygaeth, gwybodaeth o'r gyfraith, cerddoriaeth, a chyfryw wybodaethau a gymeradwyir gan y Goron ar gais y Bwrdd Llywodraethol. (4) Mai dymunol fyddai bod trefniadau yn y Siarter gogyfer a lledaenu addysg athrofaol trwy ddarlithoedd y tuallan i'r colegau. (5) Fod y Brifysgol i gael gallu i wneyd trefniadau ar gyfer arolygu ac arholi yr ysgolion canolradd, a chyffelyb sefydliadau, ac i roddi tystysgrifau o deilyngdod yn y cyfryw arholiadau." Oddiwrth y penderfyniadau hyn o eiddo cynhadledd yr Amwythig a'i phwyllgor, gellir gweled yr hyn sydd eisoes wedi ei wneyd yn y ffordd o awgrymu a chynllunio gan y gwyr sydd yn enw y colegau a phwyllgorau addysg siroedd Cymru wedi ymgymeryd â chychwyn y mudiad mawr hwn.

Y cwestiwn cyntaf, fel y gwelir, y bu Pwyllgor y Siarter yn ei ysytied ydoedd Llywodraethiad y Brifysgol; ac yn ymarferol dyma drothwy y mater. Gwelir fod y gynhadledd yn y penderfyniadau a fabwysiadwyd ganddi yn caniatáu bodolaeth "bwrdd llywodraethol" o ryw fath. Y bwrdd hwnnw yn ol yr awgrymiadau, sydd i benderfynu pa golegau a gyfrifir yn "golegau cyfansoddiadol" yn y Brifysgol, ac i anfon ceisiadau at y Goron am estyniad yng ngalluoedd a chyfnewidiad yn nhrefniant y Brifysgol. Y mae y pwyllgor, drachefn, wedi penderfynu y dylai fod dau "gorff" neu fwrdd i lywodraethu y Brifysgol,—un o natur "boblogaidd," a'r llall o natur athrofaol; ac y mae wedi myned mor bell a phennu nifer aelodau y "bwrdd" poblogaidd, a phwy sydd i'w hethol. Y gwaith nesaf fydd nodi dyledswyddau a galluoedd y "bwrdd athrofaol." Wrth "fwrdd" neu "gorff athrofaol" y golygir corff a gyfansoddir o nifer o athrawon yng ngholegau y Brifysgol. Fel y gwyddys, yn y Colegau Cenhedlaethol, ar hyn o bryd, y "seneddau," neu y profeswyr yn eistedd mewn cyngor, sydd yn trefnu pob dim cysylltiedig â chynllun a chwrs addysg yn y colegau. Teimla y rhai sydd gyfarwydd â threfniadau athrofeidd a phrifysgolion, fod cael cyffelyb fwrdd neu gorff athrofaol yn hanfodol angenrheidiol er sicrhau llwyddiant Prifysgol Cymru. Gwaith y fath fwrdd fydd rheoli mewn materion athrofaol yn unig, er sicrhau fod safon deilwng yn cael ei chadw i fyny yn nhrefniadau y Brifysgol. Y mae athrawon y gwahanol golegau yn gryf dros fyynu eu hawliau yn y cyfeiriad hwn. Y mae rhai o'r farn y galleid gadael pob llywodraeth yn nwyllaw y corff "poblogaidd." Ond dylid cofio fod llywodraethiad mewnol Prifysgol, sef ei llywodraethiad mewn materion athrofaol, yn beth sydd yn gofyn gwybodaeth neillduol am drefniant athrofaol ac am hanfodion addysg. Buasai pawb ar unwaith yn cydnabod yr afresymoldeb o benodi bwrdd "poblogaidd," cynwysedig o ddynion heb wybodaeth neillduol o'r hyn yr etholid hwy i ofalu am dano, i lywodraethu y *Royal College of Surgeons*, neu ryw sefydliad

cyffelyb. Y mae perthynas Prifysgol â dysg a gwybod, yn gymwys yr un â pherthynas y Coleg Brenhinol a *surgery*; ac y mae ymyryd â rhyddid athrawon dewisedig a thrwyddedig y Brifysgol mewn materion athrofaol, yn sicr o fod yn niweidiol i fuddiannau uchaf dysg a deall. Ond hwyrach fod rhywun yn barod i ofyn, Oni lywodraethir ysgolion dyddiol gan fyrrdau poblogaidd, ac oni fwriedir i'r ysgolion canolradd gael eu llywodraethu gan y fath fyrrdau? Gwneir, ond dylid yn hyn o beth gadw dau wahaniaeth mawr a hanfodol mewn golwg. Yn gyntaf, nid ysgol elfennol na chanolraddol ydyw Prifysgol. Y mae Prifysgol, mae'n wir, i wasanaethu'r cyhoedd, ond i wasanaethu'r cyhoedd *trwy wasanaethu gwybod*. Cartef gwybod, cartref deall, ydyw Prifysgol i fod. Nid diben ei bodolaeth ydyw gwerthu graddau na "thrwyddedau" mewn addysg i'r sawl sydd yn eu ceisio. Yn ail, nid ydyw byrddau ysgol yn ymyryd â chwrs addysg yn yr ysgolion dyddiol. Ymddiriedir hynny i'r athrawon, yng ngoleuni eu doethineb a'u cyfrifoldeb i Arolygydd ei Mawrhydi. Bwrdd Addysg y Llywodraeth, trwy ei Arolygwyr, sydd, mewn effaith, yn rheoli ac yn trefnu addysg ein hysgolion elfennol. Y mae Prifysgol i fod uwchlaw arolygwyr. Y mae i sefyll neu i syrthio yn unig ger bron brawdle Gwybod, fel y'i cyrychiolir gan brofiad unedig Prif-athrofeydd y byd. Fe sylwir ar ac fe fernir Prifysgolion Cymru gan Brifysgolion yr Almaen—y rhai goreu yn y byd, a chan Brifysgolion Lloegr, a'r Alban, a'r America. Os gwel y sefydliadau hynafol a chlod-wiw hyn mai gwasanaethu amcanion bach, hunanol, a llëol, y bydd ein Prifysgol, fe fydd ei thynged wedi ei phenderfynu ar fyrder, a gollyngir hi yn syth allan o gylch anrhydeddus teg gartrefi Gwybod. Ar hyn y gorffwys yr angenrheidiwydd am fwrdd athrofaol ynghyd â bwrdd poblogaidd i lywodraethu y Brifysgol. A dyma'r anhawster mawr sydd o'n blaen,—sicrhau bodolaeth yr elfen boblogaidd yn ei llywodraeth, ac hefyd sicrhau perffaith ryddid i'r dysgawdwy'r mewn materion athrofaol. Y mae yn hawdd i ni gyda hyn gamddefnyddio y gair "poblogaidd." Prifysgol i'r bobl — yr ydym am fynnu hynny; ond i'r bobl ymha ystyr? Yn sicr, nid "i'r bobl," trwy roddi gallu i'r anwybodus i ymyryd â fyddlondeb athrawon i'w hegwyddorion. Prifysgol i'r bobl, debygaf fi, yw Prifysgol agored i bob mab a merch Gymreig, gan nad beth fyddo eu hamgylchiadau. Nid Prifysgol i'r uchel-radd a'r cyfoethog i'r "*classes*"—fel y mae Rhydychain a Chaergrawnt i raddau helaeth eto, ond Prifysgol i'r werin. Ond i ni sicrhau hyn, fe sicrhawn yr elfen boblogaidd yn ei llywodraeth, oblegid y mae llywodraeth Prifysgolion bron yn ddiethriad yn nwyllaw eu graddedigion. Ac fel y daw plant y werin i ennill y graddau, deuant i gael rhan ym mrentiant a galluoedd uchaf y Brifysgol. Felly, fe sicrhawn y ffurf oreu ac uchaf o lywodraeth boblogaidd, sef llywodraeth gwerin wedi ei haddysgu a'i goleuo.

Gan fod y cwestiwn o Lywodraeth y Brifysgol yn un mor bwysig, nid oes dim ag y mae mwy o angen goleuo y wlad yn ei gylch na threfn llywodraeth Prifysgolion ereill. Y mae y Proffeswr Rhys Roberts newydd gyhoeddi pamffled gyda'r amcan o hyfforddi y rhai sydd yn teimlo dyddordeb yng nghwestiwn y Brifysgol gyda golwg ar lywodraethiad Prifysgolion. *British Universities* y gelwir y pamffled, a chyhoeddir ef am y pris o un swllt gan Mr. J. E. Cornish, Manchester. Cynhwysa grynghodeb o ffeithiau ynghylch cyfansoddiad a llywodraeth holl Brifysgolion Lloegr, yr Almaen, a'r Iwerddon. Y mae amryw o aelodau senedd Coleg y Gogledd wedi cynorthwyo y Proffeswr Roberts i

gasglu y fleithiau hyn, ac ysgrifena ef ei hunan ragarweiniad i'r cyfan. Yn y rhagarweiniad ceir awgrymiadau ac addysgiadau gwerthfawr wedi eu tynnu oddiwrth drefniant Prifysgolion yr Almaen a'r America. Dylai pawb sydd heb fod yn gyfarwydd â'r fleithiau a gair ynddi, ac yn awyddus i gymeryd rhan yn yr ymdriniaeth ar bwnc y Brifysgol, brynnu ac astudio y gyfrol fechan hon. Diau mai y rhannau mwyaf dyddorol ac addysgiadol i ni yng Nghymru ynddi ydyw yr adroddiadau am Brifysgol Victoria, a Phrifysgolion yr Alban. Gellir dysgu llawer oddiwrth amgylchiadau Prifysgol Victoria, am fod honno yn un a sefydlwyd yn ddiweddar, ac a adeiladwyd megys ar sail tri choleg tebyg i dri choleg cenedlaethol Cymru, sef *Owen's College*, Manchester, yr *Yorkshire College*, Leeds, a'r *University College*, Liverpool. Derbyniodd y Brifysgol ei Siarter yn 1880. Llywodraethir hi gan dri chorff. Yn gyntaf, cawn yr *University Court*, cyfansoddedig o yn agos i drigain o aelodau, yn cynnwys y Canghellydd, yr Is-ganghellydd, deuddeg o bersonau a enwir gan y Canghellydd, pedwar a etholir gan y *Convocation*, y Llywydd, y Prifathraw, a chadeirydd cyngor pob un o'r colegau cyfansoddiadol, nid llai na dau na mwy na phedwar o bersonau a etholir gan seneddau y gwahanol golegau, ynghyd â nid llai na phedwar na mwy na deuddeg o bersonau a etholir gan fyrddan llywodraethol y gwahanol golegau. Yr *University Court* hwn a enwir yn "gorff llywodraethol" y Brifysgol. Iddo ef y perthyn gallu i ffurfio ac i gyfnewid deddfau (*statutes*) ar gyfer pob mater perthynol i'r Brifysgol. Y corff nesaf ydyw yr *University Council*, a'i nifer a'i swydd yn debyg i gynghorau ein Colegau Cenedlaethol ni. Hwn yw megys "pwyllgor gweithiol" y Brifysgol. Cyfansoddir ef o 31 o aelodau, sef y Canghellydd a'r Is-ganghellydd, chwech o aelodau yr *University Court* a enwir gan Lywydd Bwrdd Addysg, chwech aelod a etholir gan y *Court*, y llywydd, y prifathraw, cadeirydd cyngor y gwahanol golegau, a'r profesywyr sydd yn cynrychioli seneddau y Colegau ar y *Court*. Nid oes gan y cyngor hwn hawl i benderfynu pa golegau a dderbynir i'r Brifysgol, ac y mae gan unrhyw aelod hawl i apelio at y *Court* yn erbyn ei benderfyniadau ar unrhyw fater. Yn ychwanegol at y ddau fwrdd hyn, cawn hefyd y *Convocation*, cyfansoddedig o holl swyddogion a graddedigion y Brifysgol. Gwaith y corff hwn ydyw ethol y Canghellydd a nifer o aelodau i eistedd yn y *Court*, ynghyd a phasio penderfyniadau ar unrhyw fater cysylltiedig a'r Brifysgol. A ddarlleno, ystyriedd lawer uwchben cyfansoddiad y Brifysgol ieuanc hon, oblegid nid ychydig o gyfarwyddyd allwn ni ei dderbyn oddiwrth ei threfniadau.

Y mae Prifysgolion yr Alban o ddyddordeb neillduol i ni yng Nghymru. Ynddynt hwy y derbyniodd rhai o enwogion pennaf Cymru eu haddysg athrofaol. Pan oedd drysau Rhydychain a Chaergrawnt wedi eu cau yn erbyn Ymnëllduwyr, tua'r Alban y cyfeiriai y rhai sychedig am wybodaeth yng Nghymru. Y mae Prifysgolion yr Alban yn Brifysgolion "poblogaidd," yng ngwir ystyr y gair. Nid ydyw breintiau y Prifysgolion yno uwchlaw cyrraedd y rhai mwyaf cyffredin eu hamgylchiadau. Llywodraethir Prifysgol Edinburgh gan dri chorff: y *Court*, y Senedd a'r Cyngor Cyffredinol. Cyfansoddir y *Court* o ddeunaw o aelodau, sef y *Rector*, y Prifathraw, *Lord Provost* Edinburgh, aelod a enwir gan gorfforaeth Edinburgh, pedwar aelod a etholir gan y Cyngor Cyffredinol, pedwar a etholir gan senedd y Brifysgol, ac nid mwy na phedwar o gynrychiolwyr colegau a fabwysiedir gan y Brifysgol.

Prif waith y *Court* ydyw arolygu eiddo a chyllid y Brifysgol. Medda amryw alluoedd ereill sydd yn ei osod yn fwrdd i adolygu bron holl weithrediadau y Senedd, pe bai angen am hynny. Cyfansoddir y Cyngor Cyffredinol o aelodau y *Court*, y Senedd, a holl raddedigion y Brifysgol. Ar yr un llinellau bron yn hollol y llywodraethir Prifysgol Glasgow. Oddiwrth y ffeithiau hyn gwelir fod llywodraethiad y Prifysgolion y gallwn ni fanteisio fwyaf arnynt, yn hynod debyg i'n trefn bresennol ni o lywodraethu y Colegau Cenhedlaethol. Y mae angen rhoddi arbenigrwydd ar hyn, am fod syniad yn bod ymhlith rhai y gall un bwrdd mawr poblogaidd, wedi ei ethol gan y Cynghorau Sirol, a chan lawer corff arall nad oes a wnelo yn uniongyrchol ddim â Phrifysgol, wneyd yr holl waith o lywodraethu ac arolygu Prifysgol Cymru. Canlyniad sicr y fath beth a hynny fyddai darostwng ar unwaith safon y Brifysgol yng ngolwg dysgedigion. Y ffordd i ni osod nod uchel i gychwyn gyda'n Prifysgol ydyw gofalu fod ei llywodraeth yn nwylaw, nid yr uchelradd na'r cyfoethog, ond rhai gwir gyfarwydd â'r gwaith, rhai sydd wedi cael profiad o addysg athrofaol fel efrydwyr, disgyblion, neu weinyddwyr.

Y mae y cwestiwn yn ei holl ganghennau yn un rhy eang i ni wneyd dim tebyg i gyflawnder ag ef mewn nac un na dwy erthygl yn y *THAETHODYDD*. Nid ydyw yr hyn a ysgrifenydd ond awgrymiadau byr a brysiog ar rai agweddau a berthyn i'r pwnc; ac nid oes ofod nac amser eto ond i gyfeirio yn ddigwmpas at un neu ddau o wirioneddau cyffredinol ag y mae perygl i ni eu hanghofio. Y mae Prifysgol Llundain yn gyfrifol am un camsyniad mawr gyda golwg ar natur a hanfod Prifysgol ym meddwl llawer, ag y ceir peth traferth i'w symud. Y camsyniad hwnnw ydyw, mai amcan bodolaeth Prifysgol ydyw arholi a rhoi graddau. Yn awr, os Prifysgol yn yr ystyr yma a fynwn yng Nghymru, waeth i ni fod hebddi, oblegid ni fyddwn ond yn gwastraffu egni ac arian i wneyd gwaith a wneir, ar y cyfan, yn llawn mor foddhaol trwy arholiadau Llundain. Y gwir yw, nad oes gan Brifysgol Llundain, fel y mae yn bresennol, hawl gyfiawn i'r enw Prifysgol o gwbl. Nis gellir rhoddi yr enw ond i sefydliad sydd, nid yn unig yn arholi, ond hefyd yn cyfrannu addysg. Anfodlonrwydd gyda golwg ar holl drefniadau Prifysgol Llundain sydd yn cyfrif am yr ymdrechion a wneir yn awr i sefydlu *teaching University* i'r Brifddinas. Os ydym ninnau am Brifysgol, rhaid iddi fod yn *ysgol*, lle y bydd athrawiaethu a dysgu, yn ogystal ag arholi. Fel y gwelir, ffordd Cynhadledd yr Amwythig o sicrhau yr elfen hanfodol hon yn y Brifysgol Gymreig ydyw gwneyd cwrs o efrydiaeth yn un o golegau y Brifysgol yn amod anhepgorol o ymgeisio am radd. Gwrthwynebir hyn gan rai am ei fod yn cau allan yr efrydydd cartrefol, a rwystrir gan amgylchiadau i efrydu yn un o'r colegau. Diau fod grym yn y ddadl hon; ond er hynny, dylid cofio nad oes yn yr Almaen nac yn yr Alban—y gwledydd lle mae y trefniadau addysg yn fwyaf perffaith—unrhyw ddarpariaeth ar gyfer yr efrydydd o'r tuallan i'r colegau. Y gwir yw nad ydyw efrydu yn y colegau yn yr Almaen a'r Alban allan o gyrraedd neb o blant y werin. Y mae yr un peth yn wir am yr America. Yn yr athrofydd sydd o dan nawdd y gwahanol Dalaethau, nid yw graddio yn bosibl ond ar ol cwrs o efrydiaeth yn yr athrofa. Nid hawdd ydyw gwledd fod dim yn amgylchiadau Cymru yn galw am i ni beidio dilyn esiampl y gwledydd sydd ganddynt fwyaf o hawl i'n dysgu yn hyn o beth. Diau y dylid

ceisio cyfarfod amgylchiadau yr efrydydd cartrefol trwy bob moddion sydd deg a chyfreithlawn. Myn amryw wyr da a blaenllaw fod yn bosibl gwneyd llawer trwy ddarpariaethau yn y ffordd o ddarlithio y tu allan i'r Colegau, neu *extension lectures*, a theilynga bob cynilun yn y cyfeiriad yma ystyriaeth bwylllog a difrifol. Ar yr un pryd, y ffordd oreu i gyfarfod amgylchiadau y dosbarth yma o efrydwyr fydd gwneyd efrydiaeth yng ngholegau y Brifysgol mor rad a didramgwydd ag sydd bosibl. Gŵyr pawb sydd wedi cael profiad o fywyd colegol ac athrofaol, fod y manteision a dderbynir o fyw ac efrydu mewn cymdeithas ag athrawon ac â chorff o gyd-efrydwyr mor fawr fel ag y mae yn ddyledus ynom wneyd pobpeth yn ein gallu i ddwyn pawb sy'n arfaethu dringo llwybrau dysg i gyrraedd y fath fanteision. Corff o ddynion, meistriaid a disgyblion, yn cyd-ddysgu—*universitas magistrorum et scholarium*—dyna yw Prifysgol. Ac nid oes dim tebyg i'r symbyliad a geir o gymdeithasu a chydlafurio yn yr ymgais a'r ymchwil am wybodaeth.

Y mae llawer ymdrech a brwydr blin yn ein haros cyn y gwelir y gwaith mawr hwn wedi ei gwblhau. Ond ni fu gwaith erioed ag y mae galw arnom i fod yn fwy goddefgar a phwylllog gydag ef. Hwyrach y caniateir i mi, cyn terfynu, alw sylw at berygl ag y gall un o'n gwendidau cenedlaethol ein harwain iddo. Nid oes duedd fwy amlwg na mwy anhwyfryd ynom na'r duedd i ameu ein gilydd. Yr eiddigedd ffol sydd rhyngom fel enwadau crefyddol sydd gyfrifol am hyn i raddau helaeth; a phan y deuir i ymdrin ag un ran o gwestiwn y Brifysgol—sef y pwnc o addysg Dduwinyddol—y mae lle i ofni y ceir digon o achlysuron i ddangos eithafion ein culni enwadol. Ond y mae y culni enwadol hwn wedi esgor ar gulni arall—ar ddrwgdybiaeth o amcanion yr estroniaid sydd wedi dyfod i lafurio yn ein plith. Nid oes dim mwy peryglus yn y cyfwng hwn yn hanes addysg Cymru nag i ni fyned i ameu amcanion dynion a osodwyd gennym ni ein hunain, o herwydd prinder ymry teilwng, mewn safleoedd o ymddiried gydag addysg yn ein gwlad. Nid ydyw o un diben ceisio celu y gwirionedd ynghylch y peth hwn. Y mae gormod o duedd ynom ar hyn o bryd i achlesu rhagfarn yn erbyn Sais a all fod yn gweithio yng Nghymru, am mai Sais ydyw. Ni chaiff rhai o athrawon goreu y Colegau Cymreig eu cyfiawn barch a'u lle ym meddwl y cyhoedd, am fod dynion na chawsent erioed gyfleustra i'w hadnabod yn dweyd "gair bach" am danynt yn awr ac yn y man. Nid oes neb yn ymdrechu gwasanaethu dibenion uchaf addysg yng Nghymru yn fwy gonest ac egwyddorol na rhai o'r Proffeswyr nad ydynt wedi derbyn ond sen am eu llafur gyda chychwyn y symudiad am Brifysgol. Yr wyf yn teimlo mai dyledswydd arnaf, fel un sydd wedi cael cyffe i adnabod rhai o honydd yn dda, ydyw dwyn hyn o dystiolaeth i gywirdeb a chydwybodolrwydd yr athrawon hyn. Rhyfgyr ynof, yn wir, fuasai siarad fel hyn am ddynion na raid iddynt wrth ganmoliaeth na thystiolaeth un o'm bath i, oni bai am y duedd sydd mewn llawer o honom i absennu ein gwell. Gwasanaethu addysg, bod yn ffyddlawn i fuddiannau uchaf dysg, dyna yw amcan y rhai sy'n cynrychioli y Colegau Cenhedlaethol gyda'r mudiad hwn; ac yn sicr nid gormod ydyw credu y gŵyr dynion o'u bath hwy fwy am addysg a'i threfniadau na'r rhan fwyaf o honom. Ond diau fod gair ar hyn yn ddigon. Fe wŷr Cymru, wedi'r cwbl, sut i adnabod ac i anrhydeddu gwir deilyngdod, pan y rhoddir cyffe teg i'r genedl i farnu. Oddiwrth y rhai a geisiant gam-arwain y cyhoedd i ddibenion hunanol ac isel y mae y perygl. Ond er

y gallant darfu peth ar y gwaith da yn ei gychwyn, ni safant yn hir ar ffordd y goleuni a'r gwirionedd. Y mae gan Gymru gyfleustra ardderchog o'i blaen gydag addysg ar hyn o bryd. Nid oes ond eisien y Brifysgol i goroni ac i gwblhau yr adeilad sydd a'i muriau eisoes bron wedi eu gorffen. Boed i ni ofalu y bydd y Brifysgol yn ei goroni, trwy ei chynllunio ar linellau eang a theg.

Coleg y Gogledd, Bangor.

W. LEWIS JONES.

RHEITHOR LLANGEITHO A'R PARCH. DANIEL ROWLAND.

Yr oeddwn newydd glywed fod ysgrif ar y Parch. DANIEL ROWLAND yn y TRAEHODYDD am Mai, pan gyfarfyddais â'r Parch. D. Worthington, Rheithor Llangeitho, yr hwn yw awdwr yr ysgrif. Mewn claddedigaeth yn y lle hwnnw gofynodd Mr. Worthington i mi a welswn i y TRAEHODYDD diweddaf. Dywedais wrtho na welais, ond i mi glywed fod ganddo ef erthygl ynddo ar Daniel Rowland, ac y carwn ei gwled. Pan ddaethum adref, gwelais nodiad yn y *Goleuad* ar yr erthygl, ac ar ol hynny darllenais hi. Wedi ei darllen, nid wyf yn synnu dim at y nodiad hwnnw am dani, pan ddywed ei bod yn cynnwys "rhai pethau dyddorol, llawer o bethau digrifol, ac amryw bethau chwerthinlyd." Pe buasai yr ysgrif yn terfynu ar hynny, ni fuasai genhyf ond tosturio wrth aferwch a diffyg chwaeth yr ysgrifenydd; ond y mae ynddi, yn awr a phryd arall, haeriadau disail ac awgrymiadau hollol annheg, y rhai, mae yn amlwg, yr oedd yr awdwr yn eu gwneyd er cyrraedd rhyw amcan o'i eiddo ei hun fel Eglwyswr.

Yr ydym yn ddiolchgar i Mr. Worthington am roddi hanes urddiad Mr. Rowland yn ddiakon ac yn offeiriad allan o Gofrestrau yr Eglwys. Gwelir trwy y rhai hyn mai Rowland, ac nid Rowlands, oedd y ffurf y dewisai y diwygiwr enwog ysgrifennu ei gyfenw, yr hyn sydd yn derfyn ar y ddadl a fu yn amser cyfodiad ei gofgolofn. Mae yn rhoddi terfyn hefyd ar yr hyn a dybiai rhai o'i fywgraffwyr, sef iddo gael ei urddo yn ddiakon braidd yn ieuengach na phawb, sef pan yn 20 oed, ond na chafodd ei gyflawn urddau am flynyddoedd ar ol hynny. Danghosir yma fod y ddau urddiad o fewn ychydig fwy na dwy flynedd i'w gilydd. Mae gwaith yr awdwr yn cofnodi dyddiad y cyfnwidiadau ym mywiolaethau yr eglwysi hefyd yn wasanaeth gwerthfawr, a dylasai bywgraffwyr Rowland fod wedi eu cofnodi, gan eu bod yn taffu goleuni ar ei hanes. Caresem hefyd pe buasai Mr. Worthington wedi rhoddi dyddiad bedydd Mr. Rowland; buasai hynny, ynghyda'r cofrestriad am ei farwolaeth, yn gwneyd ei hanes yn ei gysylltiad â'r llywodraeth yn weddol gyflawn. Mae yn amlwg fod Mr. Worthington wedi llafurio cryn llawer i gael allan y manylion sydd wedi eu gosod i lawr; ond nid oes yn yr ysgrif fawr o newydd-deb pellach mewn dim i'r rhai sydd yn gyfarwydd â hanes y diwygiwr heblaw y pethau ydym wedi nodi, ynghyd a'r tybiaethau hynod o eiddo yr awdwr ei hun.

Yr oeddym wedi arfer edrych yn uchel ar Mr. Worthington fel Eglwyswr cymhedrol. Mae yn wir mai gyda'r Annibynwyr y dechreuodd

bregethu, a bod y rhai sydd yn troi felly, fel rheol—gan faint eu hawydd i ddangos i'w cyfeillion newydd wirioneddolrwydd eu troedigaeth!—yn fwy gelymol i Ymneillduaeth nag Eglwyswyr o ddygiad i fyny; ond ymddanghosai efe fel arall bron yn ei holl ymddygiadau. Ni ddymunem newid ein barn am dano eto; ar yr un pryd fe deimla pawb a ddarllenant yr erthygl hon nad ydyw yr awdwr yn gyfaill i Ymneillduwyr. Mae y frawddeg ysgubol sydd yn agos i'w dechreu, yn rhoddi digon o arwydd pa fodd y myn efe i bawb edrych ar Eglwysyddiaeth ac Ymneillduaeth. “Gellid meddwl,” meddai, “wrth ryw ddosbarth o ddyinion nad oedd ein gwlad yn meddu na hanes, na chrefydd, na Christionogaeth, cyn dyfodiad Ymneillduaeth yn y ddeunawfed ganrif a'r ail ganrif ar bymtheg. Ond mewn gwirionedd Cristionogaeth sydd wedi rhoddi enwau ar ein plwyfi, megys Llangeitho, Llanddewi, Llangybi, Llanfair, Llanbedr, Llansantffraid, Llanrhystyd.” Dyna i'r darlennydd ddigon o rybudd beth i'w ddisgwyl. Cododd Rowland, a'r Methodistiaid trwyddo, yn y ddeunawfed ganrif, a'r Tadau Ymneillduol yn yr ail ganrif ar bymtheg; ond yn ol awgrym Mr. Worthington nid oedd fawr o'u heisieu, gan fod yr eglwysi a Stwyd, ac ereill lawer, yma o'u blaen. Dywed ef fod “eglwys yn Ceitho wedi ei sefydlu yn y bumed ganrif, neu yn gynnar yn y chweched;” a myn i ni gredu bod y rhan fwyaf o glod am grefydd plwyf Ceitho, a'r wlad gylchynol, yn ddyledus i'r eglwys honno, ond “bod rhyw ddosbarth o ddyinion” yn meddwl a siarad nad oedd dim crefydd yno hyd gyfodiad Rowland yn y ddeunawfed ganrif. Ai tybed nad oedd fy nghyfaill Mr. Worthington yn gweled geudeb ymresymiad o'r fath? Gwyddai yn ddigon da fod canrifoedd yr “Oesoedd Tywyll” yn cyfryngu rhwng sefydliad eglwys St. Ceitho, a chyfodiad capel Ymneillduol Rowland, ynghyd a holl gapelau yr Ymneillduwyr oedd wedi eu cyfodi o'i flaen. Beth sydd a wnelo y ffaith fod crefydd yn y wlad yn y chweched ganrif & phrofi ei bod yma yn y ddeunawfed? Beth all fod mewn enwau eglwysi, er eu bod ar enwau seintiau, i brofi fod crefydd *wedi aros* yn y wlad? Mae enwau Cymreig yn britho Lloegwr, ond a ydyw hynny yn profi fod Cymry yn preswyllo yno yn awr? Nid wyf yn dweyd nad oedd crefydd yn y wlad pan gododd Rowland; ond yr wyf yn dweyd nad ydyw enwau eglwysi yn profi hynny. Mae hanes Rowland, ond sylwi arno yn ddiuedd, yn myned mor bell ag unrhyw hanes i ddangos mor fychan oedd crefydd yr Eglwys pan wnaed ef yn weinidog ynddi; a dyna sydd yn blino yr Eglwyswyr yn gymaint wrth feddwl a son am dano fel y gwna llawer o honynt eu goreu er tywyllu y goleuni a dafodd ar y wlad. Mae ereill yn addef fod ynddo ddaioni, ac iddo wneyd daioni; ond ceisant trwy bob math o resymau brofi mai Eglwyswr o ran barn a theimlad ydoedd hyd ei farwolaeth. Yr ydym yn gwybod mai eu hamcan yw bychanu Ymneillduaeth, a dyrchafu yr Eglwys yngolwg y werin. Ond y maent dan anfantais ddirfawr, gan mai Ymneillduwr oedd Rowland am y 27 mlynedd olaf o'i oes, ac iddo farw felly, a chan fod y capelau y dechreuodd roddi bod iddynt, ynghyd a'r enwad a ffurfiodd mor lliosog yn y wlad. Mae ffeithau yn bethau anhawdd gwneyd i fwrdd â hwynt.

Mae Mr. Worthington yn ceisio gwneyd llawer o'r ffaith na ysgrifenydd yr un bywgraffiad o Rowland hyd o fewn hanner canrif ar ol iddo farw; ac ychwanega:—“Cyn hynny, nid oedd yn y gymydogiaeth ond traddodiadau a chwedlau am dano; a gwyddom fod llawer iawn o

bethau anhygoel yn cael eu hadrodd a'u credu gan ddyrnion ofergoelus am ein harwr." Nid ydym yn gweled pethau fel yna yn ddim gwell na chabledl ar goffadwriaeth Rowland. I wneyd yr achos yn waeth, mae yn "cymeryd engraffit: i brofi ei osodiad" o ystori anwireddus a adroddai y Parch. Kilsby Jones yn ei ddarlith ar Rowland. Nid ydym yn gwybod a yw Mr. Worthington am i ni gredu mai stwff o'r fath oedd yn narlithiau poblogaidd y gwr fraethbert o Lanwrtyd ar y "Puritan-iaid a'r Diwygwyr Methodistaidd," yr un fath ag y dywed am y "pethau anhygoel" ynghylch Rowland. Yr oedd yr un ystori ag a adroddai Kilsby yn cael ei hadrodd wrthym ninnau er ys oddeutu blwyddyn yn ol, gyda'r ychwanegiad mai Mr. Williams, Lledrod, oedd y "person a ymguddiai yn y pulpud dwfn." Yr oeddym yn gwybod hanes Mr. Lloyd, Cilpill, a Mr. Williams, yn rhy dda i roddi coel i'r fath hanes, a throisom ef yn ol ar unwaith. Dylai Mr. Worthington gofio mai nid am Rowland y mae yr ystori; gall wasanaethu i ddangos gwagder eglwys Llangeitho ar ol ei droi ef allan o honi, ond nid am dano ef y mae. A pheth gwael oedd diraddio Kilsby wrth geisio diraddio Rowland; ond gellid meddwl nad oedd llawer o bwys yn hynny yn awr, gan fod Mr. Worthington wedi gadael yr enwad yr oedd Mr. Kilsby Jones yn perthyn iddo. Ond nid oes eisieu ofni coffadwriaeth Rowland na Kilsby oblegid yr hyn a ddywed ef am danynt, gan y gwel pawb yr amcan oedd ganddo mewn golwg, ynghyd a'i anghysondeb ag ef ei hun yn ei ymdrech i geisio ei gyrraedd. Y mae yn nechreus yr ysgrif yn gosod o'n blaen bethau y bumed a'r chweched ganrif fel gwirioneddau didwyll; ond am bethau dyn enwog oedd yn byw yn yr un ardal, ac yn dal yr un swydd ag ef yn y ganrif o'i flaen, "pethau anhygoel" ydynt. Pe byddai Mr. Worthington yn byw rhyw 12 canrif yn y dyfodol, mae'n debyg y llyncai yr oll a ddywedid am Rowland fel gwirioneddau digymysg, hyd yn oed pe byddai y "gwyrrthiau a briodolid iddo yn lluosocach na'r eiddo St. Dewi yn y plwyf sydd yn ymyl Llangeitho." Chwareu teg i Mr. Worthington, mae yr anghysondeb a'r annhegwch sydd yn ei ysgrif wedi eu gosod allan mewn gwedd rhy amlwg i wneyd niwed i neb.

Mae y rhesymau paham na chyhoeddwyd cofiant i Rowland yn gynt yn cael eu rhoddi yn y *Coffiad* am dano, gan y Parchedig John Owen, offeiriad Thrusington. Dywed ef fod yr Anrhydeddus Arglwyddes Huntington wedi casglu defnyddiau, ond wedi marw cyn cyflawni ei bwriad; a bod "gwr lleyg dysgedig a adwaenai Rowland dros flwyddau lawer" wedi casglu defnyddiau; ond pan aethpwyd i chwilio am y defnyddiau hynny, methwyd eu cael. A dalier sylw ar yr hyn a ddywed Mr. Owen ymbellach:—"Yr oedd hefyd deimlad o analluogrwydd i gyflwyno i'r byd draddodiad teilwng o offeryn mor hynod ac ardderchog. Ilyn, mae yn debyg, oedd yr achos na anturiodd y diweddard Barchedig Thomas Charles, o'r Bala, ysgrifennu cofiad am dano,—y mwyaf cymwys, efallai, o neb i gymeryd y fath orchwyl mewn llaw. Rhwystwyd yr ysgrifenydd presennol dros hir amser gan yr un teimlad o fod yn analluog i wneuthur iawnder i wr mor rhagoroll." Mae arnaf ofn, gan fod rhai mor enwog, ac hefyd rhai oedd a'r manteision goreu i hynny, yn methu ysgrifennu cofiant i Rowland am ei fod yn rhy urddasol yn eu golwg, y bydd llawer yn edrych yn isel ar Mr. Worthington a minnau am anturio ysgrifennu dim yn ei gylch, ac yn dweyd,

Fools rush on where angels fear to tread.

Buom lawer gwaith yn synnu na buasai rhagor o hanesion i'w cael am Rowland a'r Diwygiad Methodistiaidd. Dywedir pethau yn y swm o honynt, sydd yn dangos fod manylion rhyfedd, pe gallasid dyfod o hyd iddynt. Wrth ystyried hyn, a chofio fel y bu gynia'r defnyddiau a gasglwyd, yr ydym yn barnu fod "rhyw ragluniaeth ddirgel," fel y dywed Williams, Pantycelyn, wedi goruwchlywodraethu i guddio y pethau sanctaidd rhag eu llygru gan farn ddynol ac ofergoieidd. Yr oedd yn anhawdd i neb ysgrifennu dim yn amser Mr. Rowland, nac yn fuan ar ol, gan danbeidrwydd gogoniant y diwygiad. Yr oedd pawb

A'u bron yn rhy lawn i'w tafod lefaru,

pa faint mwy i ysgrifennu. Gweddio, gorfoleddu, a moliannu, oedd y pethau fyddai a mynd arnynt yn y dyddiau hynny. Yr oedd yn rhaid i'r taranau ddistewi, y daeargryn lonyddu, a'r ystorm fyned heibio, cyn y ceid hamdden i ysgrifennu. Oes arall, yn cael ei chynhyrfu gan adroddiad rhai fuasant yn y cynnwrf, a hynny ar ol iddo dawelu, allai ysgrifennu oreu. Beth bynnag, felly y bu; ac ychydig iawn yn y diwedd oeddynt yn allu sylweddoli o'r rhyfeddodau. Ond am y bywgraffiad o Rowland gan offeiriad Thrussington, gellir dweyd ei fod wedi ei gyfansoddi ar ol blynyddoedd lawer o ymchwiliad, a hynny gan un a gafodd ei fagu yn Abermeurig, o fewn pum milldir i Langeitho. Yr oedd ei dad a'i fam yn wrandawyr i Rowland. Cafodd ddefnyddiau y cofiant gan fab Rowland ei hun, ynghyda'r hen offeiriad fu yn cynorthwyo Rowland ar y cymundeb, heblaw gan lu mawr o bobl oreu ardaloedd Llangeitho. Yr ydym yn gweled hefyd arwyddion cofnodydd gonest yn y cofiant. Mae yn wir mai offeiriad yn Eglwys Loegr oedd Mr. Owen, a'i fod yn edrych ar Rowland a'r diwygiad o safle yr Eglwys; eto nid ydym yn gweled iddo wneyd llawer o gam âg Ymneillduaeth Rowland. Mae ychwanegiad gwerthfawr o lyfrau, a phethau ereill, perthynol i Rowland, yn y *Cofiant* diweddar, gan Mr. Morris Davies. Yr ydym yn dweyd cymaint am y cofiantau er mwyn dangos fod mwy o gyfleustra i gael ynddynt y gwirionedd am Rowland na dim a adroddir nac a ddychmygir gan ddynion y dyddiau hyn, oddieithr eu bod wedi dyfod o hyd i ffeithiau gwirioneddol allan o hen ysgrifeniadau nad oeddynt yn wybyddus i awdwyr y cofiantau.

Ymddengys fod Mr. Worthington o duedd amheugar, onide ni fyddai yn gweled lle i ameu nad trwy yr odfa fyth-gofiadwy o eiddo y Parchedig Griffith Jones, Llanddowror, yn Llanddewibrefsi, y cafodd Rowland droedigaeth. Yr anhawstra mawr sydd wedi arwain Mr. Worthington i ameu hynny yw, i Rowland fyned o Bantybeudy, pellder o chwe milldir, yno i'w wrando. Beth sydd yn rhyfedd yn hynny? Ond y mae mor ryfedd yngolwg awdwr yr ysgrif fel nad oes un cyfrif i roddi am dano heb ddweyd fod Rowland wedi ei "ddwys-bigo" cyn yr odfa yn Llanddewi. Ai tybed nad oedd annuwiolion ymysg yr "amryw gymydogion" yr aeth ef yno gyda hwy? Ac ai tybed nad oedd dynion annuwiol yn myned bellach ffordd nag o Bantybeudy i Llanddewi, i wrando gwr mor hynod a phoblogaidd â Mr. Griffith Jones? Ond, a rhoddi i fyny ymresymu fel yna, onid oedd John Rowland, ei frawd, wedi cael personiaeth Llanddewi, gan fod haneswyr yn dweyd iddo gael Llanddewi "yn fuan" ar ol Llanwnlle a Llangeitho? Neu, ai nid oedd ymgais am hynny? Ac os felly, yr oedd meddwl hefyd am gael y guradiaeth i Daniel Rowland. Dichon y gall Mr. Worthington gael

hyna allan o gofrestrau eglwys Llanddewi. Beth bynnag, gwell i ni gymeryd tystiolaeth unol pob hanesydd o bwys, mai trwy Griffith Jones y cafodd Rowland ei droedigaeth. A thrueni mawr fod Mr. Worthington yn synnu cymaint uwch ben peth mor hawdd ei egluro, ac ar yr un pryd yn myned at y "llawer iawn o uchelgais," a'r "cryn fesur o humanoldeb" oedd yn Rowland, i gael y rheswm am y daith bell—o chwe milldir!—i wrando gwr mor enwog a Griffith Jones; ac wedi'r cwbl, yn methu gweled fod "cywreinrwydd nac uchelgais, na'r ddau ynghyd," yn annibynnol ar dduwioldeb blaenorol, yn ddigon o reswm dros y fath drafferth. Camarweinir meddwl yr oes hon hefyd trwy ddangos fod Rowland yn pregethu ar destynau brawychus, megys "Yr annuwiolion a ymchwelant i uffern," "Canys daeth dydd mawr ei ddigter ef," a'r cyffelyb, a hynny *cyn* ei droedigaeth. Ysgrifenwyr diweddar sydd yn gwneyd hyn, a Mr. Worthington ar eu hol; ond y mae yr hen ysgrifenwyr yn rhoddi ar ddeall mai *ar ol* ei droedigaeth yr oedd yn cymeryd testynau o'r fath. Y mae fod yr hen weinidog Griffith Jones yn gweled y gwr ieuanc oedd o'i flaen yn "chwyddedig gan falchder, a dirmyg a gwatwar megys yn eistedd ar ei wedd," fel y gwediiodd yn "ddifrifol a thoddedig" drosto yn y diwedd, "gan erfyn ar Dduw am ei wneuthur ef yn benodol yn offeryn cymwys a defnyddiol er troi llawer o dywyllwch i oleuni," yn dangos yn eglur mai dyn annuwiol oedd ar y pryd, ac nad oedd yn meddwl am y fath destynau â'r rhai a nodir. Ond ar ol gweled ei gyflwr ei hun, yr oeddynt yn rhai cyfaddas iawn i rybuddio ereill trwyddynt. Pa fodd bynnag, nid oedd fawr o amser rhwng dechreuad ei bregethu a'i argyhoeddiad, dim ond dwy flynedd. Cadwer hyn mewn golwg, a bydd yr oll yn llawer mwy eglur.

Mae Mr. Worthington mewn tywyllwch dudew a dyryswech mawr ynghylch ymadawiad Mr. Rowland o'r Eglwys. Nid yw yn gwybod pa un ai cael ei droi allan a gafodd, ai ymadael yn siomedig o hono ei hun. Beth oedd yn ei feddwl wrth ymddangos mewn cymaint o amheuaeth ar hyn, wŷs? Beth bynnag, mae y feithiau canlynol yn ddigon i brofi mai ei droi allan a gafodd, a hynny trwy awdurdod a gorchymyn Dr. Squire, Esgob Tyddewi.

1. Dywed Mr. Owen yn y cofiant: "Dywedodd yr Esgob Burgess yn bendant wrth offeiriad cyfrifol a adwaenwn, mai annoethineb mawr yn ei ragflaenor [Esgob Squire] ydoedd troi allan Rowland o'r Eglwys, ac mai mawr niwed a wnaeth i'r Eglwys trwy hynny."

2. Dyma eto eiriau awdwr y cofiant: "Gan na wnai Rowland roddi i fyny yr arfer o bregethu yr efengyl oddiamgylch ar hyd y wlad, penderfynodd yr Esgob ei ymddifadu o'i eglwysi. Gwnaed hyn yn gyhoeddus ar y Sul yn Llanddewibref, yn ol yr hyn a glywais er ys ychwaneg nag ugain mlynedd yn ol, gan hen wr duwiol, trigiannydd yn y lle, yr hwn a gofiai am y digwyddiad. Daeth dau offeiriad i mewn rhwng y gwasanaeth a'r bregeth, a rhoddodd un o honynt, sef y Parchedig Mr. Davies, brawd Cadben Davies, Llanfechan, lythyr i Rowland, fel yr oedd yn myned i'r areithfan. Wedi ei ddarllen yn ddirgel wrtho ei hun, dywedodd wrth y gynulleidfa oedd yn bresennol y rhwystrid ef i bregethu. Yna disgynodd o'r areithfan ac aeth allan, a'r dyrfa liosog a'i canlynodd dan wylo, a gadawyd yr eglwys bron yn wag."

3. Mae Rowland ei hun yn dweyd iddo gael ei fwrw allan o Ystradffin, yn 1742, er fod Mr. Worthington yn gofyn, "A ydyw yn bosibl na

wnelsai Daniel Rowland gyfeirio yn rhai o'i ysgrifeniadau at y bwrw allan a fu arno o'r eglwysi, pe buasai hynny yn ffaith?" Geiriau Rowland am hyn ydynt: "I am suffered to be no longer at Ystradffin. I preached there my farewell sermon from Acts xx. 32. It reached their hearts. I believe such crying out was not heard in any funeral in the memory of man. Now I am to settle at Llanddewibrefi, which is a large church. It will contain several thousands of people. Several of my communicants at Ystradffin will join there and at Abergwesin, the end of the next month." Dywedodd Rowland drachefn, fel rheswm am godi y capel yn Llangeitho: "Ni chaf lonydd gan yr Eglwyswyr; ac yr wyf yn penderfynu gadael y Llan iddynt hwy, ond fe ddaw y bobl gyda fi." Dywedodd hyn pan yn dangos plan y Capel Mawr, yr hyn a brawf ei fod yn cynllunio ar gyfer ei ysgymundod, o'r hyn yr oedd argoelion mwy amlwg wedi i'w fab gael personiaeth Llangeitho. Dywedodd, pan yn cael ei fwrw allan o Llanconwle, gan ddau ddaeth yno i'r perwyl dros yr Esgob: "O, gallasai ei arglwyddiaeth gymeryd llai o boen arno na'ch anfon chwi yma i'm troi allan o'r Eglwys. O'm rhan i nid af byth o fewn ei muriau mwy; os mynnwch chwi caiff fod yn llety dyluanod; mae y bobl yn barod i ddyfod gyda fi."

4. Y mae tystiolaeth unol yr holl Eglwyswyr a'r Methodistiaid, o'r hen amseroedd hyd yn awr yn dangos yr un peth.

Y mae yn dywyll i Mr. Worthington hefyd beth sydd yn yr hanes iddo gael ei droi allan o'r tair eglwys. Os oedd y tair, oddiar farwol-aeth ei frawd, wedi cael eu rhoddi i wahanol bersoniaid, y rhai oedd yn caniatáu iddo ef hyd hynny gael pregethu ynddynt oblegid y bobl, yr oedd yn rhaid ei fwrw allan bellach o'r tair. Dywedir fod llawer o'r un personau yn ei ddilyn yn fynych i'r tair eglwys yr un Saboth; ac oblegid hynny eto, cymerid gofal nad oedd mwyach i gael myned i'r un o honynt, a gosodwyd ar wahanol bersonau, neu ar yr un personau, i wneyd esgymundod ffurfiol arno o bob un o honynt. Ni wyddom pa fodd arall y bu, gan fod tystiolaethau iddo gael ei fwrw allan o'r tair. Os nad oedd ei eisieu fel curad, yr oedd yn cael ei oddef er mwyn cael y tyrfaoedd i'r eglwysi. Ac os oedd y plwyfolion yn achwyn bod dieithriaid yn myned a'u lle yn yr eglwysi, ac nad oedd eisieu Rowland fel curad yn awr, cymerwyd mantais ar y pethau hyn i achwyn arno yn fwy, nes i'r Esgob benderfynu rhoddi ei fygythiad o'i fwrw allan mewn gweithrediad. Mae y ffaith nad oes son am y bwrw allan yn ysgrifeniadau Mr. Rowland ei hun, yn ol syniad ein cyfaill, yn mynd ymhell i brofi na chafodd ei fwrw allan. Ond nid yw hynny yn profi dim yn y mater, gan nad oes ond ychydig iawn o'i ysgrifeniadau ar gael. Mae y pethau a nodwyd yn ddigon o sicrwydd mai ei droi allan a gafodd; ac y mae ei lythyr at Mrs. James, Abergavenny, yn 1742, ar yr achlysur o'i drôad allan o Ystradffin, yn mynd ymhell i brofi iddo ysgrifennu llythyrau cyffelyb yn 1763, pan drôwyd ef allan o'r tair eglwys arall. Dywedir eto nad oes son am y bwrw allan yn y Cofrestrau Eglwysig. Dichon nad oes; ond a oes hanes yn y cyfryw am drôad allan Williams, Pantycelyn, Peter Williams, Williams, Lledrod, ac ereill?

Y mae yn gysur i Mr. Worthington hefyd mai *curadiaid* oedd yr oll a droisant at y Methodistiaid. Druain o'r curadiaid! Gan gofio, dichon mai eu bod felly oedd y rheswm nad oes crybwylliad am eu trôad allan yn y Cofrestrau. Dymunwn ofyn, A oedd rheolau yr Eglwys yn caniatáu troi allan reithoriaid a ficeriaid eglwysi, yr un fath a churadiaid?

Os felly, y mae peth lle i ymfroest; os i'r gwrthwynneb, bradycha Mr. Worthington ei anwybodaeth o reolau yr Eglwys y mae yn awr yn perthyn iddi. Daeth amryw o ficeriaid a rheithoriaid eglwys allan i gynorthwyo Rowland a'r diwygiad, ac i bregethu mewn lleoedd anghysegredig fel yntau; ac wrth bob tebyg, cawsent hwythan eu bwrw allan, oni bai am anallu yr awdurdodau i wneyd hynny. Onid yw Eglwys fel yma yn un ryfedd? Pe byddai rhai o'i swyddogion yn pregethu fel angylion, gellid eu rhwystro i bregethu mewn lleoedd cynogredig pryd y mynner; ond os bydd ereill yn - gwn mudiion heb fedru cyfarth," bydd eu bywoliaeth yn sicr, er bod yn enog o'r un pochodau, heblaw rhai ereill llawer gwaeth, yngolwg y gyfraith. Cadwyd Rowland trwy yr holl flynyddoedd heb eglwys, fel y gellid ei atal i bregethu, am ei fod yn enog o achub pob cyfneustra i lefaru wrth ei gyd-bechaduriaid. Dywed Mr. Worthington eto nad oedd yn *aberth mawr* i gurad adael yr Eglwys. Dichon nad oedd yn ei olwg ef, ond yr oedd yngolwg Rowland; oblegid nid pwnc o arian iddo ef, ond pwnc o gydwybod ydoedd aros yn yr Eglwys lle dygwyd ef i fyny, tra y cawsai aros a chael gwasanaethu Crist. Pe buasai yn edrych ar gyflog, buasai yn derbyn i fywoliaeth y cafodd gynnyg arni yng Ngogledd Cymru, tuag amaer yr ymraniad rhyngddo a Howel Harris; ond yr oedd ei ymlyniad wrth ei bobl yn rhy gryf, er nad oedd ei gyflog am eu gwasanaethu ond y nesaf peth i ddim oddiwrth yr Eglwys. Nid edrychaf efe fawr ar gyflog yr Eglwys, onide fe aethai yn ol iddi oddiwrth y Methodistiaid pan gynhygiodd Mr. Thornton o Lundain fywoliaeth Trefdraeth iddo. Na, pregethu Crist, ac achub eneidiau, oedd amcan mawr ei fywyd ef, a'r unig aberth iddo fuasai peidio gwneyd hynny, ac nid colli ei gyflog. Arwyddair Paul oedd arwyddair Rowland: "Canys er ein bod ni yn rhodio yn y cnawd, nid ydym yn milwrio yn ol y cnawd. Canys arfau ein milwriaeth ni nid ydynt gnawdol." Os na chaf chwarae tog i arfau y filwriaeth ysbrydol, fe gâi yr hyn oedd yn y cnawd, hualau culion awdurdodau a rheolau dynol, roddi ffordd!

Ni allwn lai na gwenu uwch ben y darn helaeth o'r erthygl sydd wedi ei roddi gan Mr. Worthington i ddweyd, ond yn hollol ddisail, fod Rowland yn "disgwyl yn bryderus" am fywoliaeth yn yr Eglwys; yn cael ei siomi a'i chweroi wrth weled ereill, llai nag ef ymhob ystyr, yn cael bywoliaethau, ac yntau yn cael ei adael yn ddisywlw; ac o'r diwedd wedi gwelod ei fab ei hun yn cael ei ddewis i'r fywoliaeth, yn digio yn aruthr wrth yr Esgob, ac yn y teimlad hwnnw yn ymadael! Ar yr un pryd cymerir gofali i ddweyd ei fod yn aros, er yr holl siomedigaethau, am oi fod yn "caru yr Eglwys mor fawr"; ac er ei fod wedi digio yn aruthr wrth yr Esgob, cymerir gofali i ddweyd "ond nid wrth yr Eglwys." Dichon fod y pethau yna yn wir am bregethwyr sydd yn awr yn gadael yr onwadau i fyned i'r Eglwys, ond nid yw yn wir am Rowland. Yr oedd ef yn gwybod y rheswm paham yr oedd yn cael ei adael heb ddyrchafiad. Yr oedd yr Esgob wedi ei rybuddio lawer gwaith os na roisai i fyny ei arferiad o bregethu mewn lleoedd anghysegredig, nid yn unig na chawsai ddyrchafiad yn yr Eglwys, ond y cawsai ei droi allan o honi yn llwyr. Gan mai dewis dilyn llais ei gydwybod yr ydoedd, gwyddai na chawsai eglwys iddo ei hun. Felly ffolineb yw dweyd fod Daniel Rowland yn disgwyl, yn cael ei siomi, ac yn digio.

Ond fe ddaeth Rowland yn Ymneillduwr, a ffurfiodd enwad y Methodistiaid Calfinaidd. Ac wedi iddo wneyd gwaith mor fawr, a

dyfod i'r fath enwôgrwydd, digrifol iawn yw gweled Phariseaid y dyddiau hyn yn gwyn-galchu bedd y proffwyd a fwriodd eu tadau allan! Mae awdwr yr erthygl yn ymdrechu ei oreu i wneyd Eglwyswr o hono ar ol ei droi allan. A ydyw trwy hynny, am i ni gredu mai Ymneillduwr yw yr holl bregethwyr sydd wedi troi oddiwrth yr enwadau i'r Eglwys? Os felly, dylai yr Esgobion a'r holl Eglwyswyr beidio mynwsu gormod arnynt! Ond beth bynnag am danynt hwy, yr ydym yn sier am Rowland ei fod ef yn rhy fawr i'r Eglwys. Yr oedd y Parch. David Griffiths, offeiriad Neferin, yn arfer dweyd ei fod ef, a Williams, Pantycelyn, yn "meddu galluoedd a chymwysterau digonol i drefnu ac i lywio teyrnas." Beth oedd terfynau plwyf bychan i ddynion felly? Ni wnaethent ond gwaeddi o hyd, "Byrrach yw y gwely nag y gellir ymestyn ynddo, a chul yw y cwrlid i ymdroi ynddo." Anfri o'r mwyaf yw dweyd fod Rowland a'i galon o hyd yn yr Eglwys. Pa reswm dweyd ei fod yn dal i garu Sefydliad na chawsai bregethu yr efengyl ynddo yn ol y Beibl? Mae yn dangos diffyg o rinweddau dynol, fod dyn yn dal i anwylo y bobl oedd yn ei ddiystyru &i wrthod am wneyd y peth y gwyddai mai daioni ydoedd, yn fwy na'r dynion oedd yn ei dderbyn ac yn ei werthfawrogi. Mae yn wir ei fod yn parchu yr Eglwys a'r Eglwyswyr, fel y mae pob dyn mawr a da yn parchu enwadau ereill, ond yn fwy anwyl o'r enwad y mae yn byw ac yn llafurio ynddo. Nid oedd Rowland yn ddyrn mor fychan a gwael a mynd i erlid a difrio yr Eglwys, er iddo gael ei wrthod ganddi; a digon tebyg y gellir dweyd mwy, sef ei fod yn tosturiu wrthi, am ei bod, yn ei hanwybodaeth, yn methu goddef y dynion a'r pethau a wnaethai fwyaf o les iddi. Nid ar yr Esgob yr oedd y bai am ei fwrw allan, gan iddo wneyd yn ol llythyren y gyfraith; ond ar yr Eglwys fel sefydliad gwladol, ac yr oedd Rowland yn gwybod hynny.

Meddylier am y rhesymau sydd gan awdwr yr erthygl dros ddweyd mai Eglwyswr ydoedd Daniel Rowland. Dyma hwy:—

1. *Cododd ei gapel cyntaf ar ffurf Eglwys.* Os do, Eglwyswr ydoedd ar y pryd, a doethineb ynddo oedd ei godi mor agos ag y gallai ar ffurf Eglwys. Ond nid yw cynllun y capel cyntaf, yn 1760, yn profi dim; cynllun yr ail gapel yr hwn a agorodd Rowland iddo ei hun fel Ymneillduwr, sydd yn profi, os yw ffurf capel yn profi rhywbeth yn y mater. Ni fynnai Mr. Worthington fyned at yr ail, gan fod hwnnw ar ffurf capel Ymneillduol; ond at hwnnw y dylasai fyned, neu beidio myned at gapel o gwbl i brofi ei osodiad. Y mae eto yn gwneyd camsyniad trwy ddweyd mai y capel cyntaf oedd yr "Eglwys Newydd," yn yr hon y traddododd Rowland y *Tair Pregeth*. "Ty Seiat" y gelwid y ty cyntaf, a chododd Rowland hwnnw ar gyfer yr hen gynghorwyr, ac nid er mwyn iddo ef gael pregethu ynddo. Gelwid yr ail yn Eglwys Newydd, ond Capel Gwynfil, neu Y Capel, gan amlaf, a hwn fu yr enw arhosol. Gadawu rhwng Mr. Worthington a phrofi fod yma gapel eglwysig wedi bod o'r blaen, a pha fodd y daeth y tir eglwysig yn feddiant i'r Methodistiaid.

2. *Bod Rowland yn gwisgo ei urddwisgoedd ac yn darllen y Llythiau yn y Capel fel yr oedd yn yr Eglwys.* Gwnelid hynny yng nghapel Woodstock, y Capel Newydd, Capel Twrgwyn, Capel Waunifor, ac amryw ereill. Yr oedd hynny yn cael ei wneyd hefyd gan yr hen offeiriaid ereill a drowyd allan. Yr oedd yn well gan yr hen gynghorwyr a'r gwrandawyr weled y gwahaniaeth hwn, & pha un yr oeddynt wedi ymarfer, ar y rhai

oedd wedi derbyn urddau eglwysig. Mae yr un peth yn cael ei wneyd hyd yn awr gan rai enwadau crefyddol; ond nid yw hynny yn profi mai Eglwyswyr ydynt. Nid cadw clochydd. fel math o angenrheidrwydd ffurfiol, yr oedd Rowland wrth gadw yr hen Ddafydd Sisyllt; ond dyfod allan gydag ef a wnaeth Dafydd o'r eglwys lle yr oedd yn glochydd. Darlennai y Llyfr Gweddï yn y capel yn fynych, gydag ereill, ond nid oedd yno yr un gloch iddo i'w chanu. Ni ddylid anghofio nad oedd Rowland ei hun, fel rheol, byth yn dyfod i mewn ond erbyn y bregeth; rhyw un o'r offeiriad neu y cynghorwyr fyddai yn gweddïo yn y dechreu bob amser. Y mae Eglwys Loegr yn talu sylw i'r gwasanaeth, fel ei gelwir, yn fwy na dim arall; ond nid ydym yn gallu gweled fod Rowland yn hyn yn llawer o Eglwyswr, onide fe fuasai yno bob tro erbyn y gwasanaeth. Ond yr oedd yn caniatáu iddo gael ei ddarllen yn y capel, oblegid nad oedd y bobl, oeddynt wedi cynefino cymaint âg ef, eto yn ddigon addfed eu syniadau am addoliad i weled ei fod yn gyflawn hebdo.

3. *Bod Rowland yn cadw oddiworth yr Ymneillduwyr oedd o'r blaen yn y wlad.* Cofied Mr. Worthington fod Rowland wedi bod yn Eglwyswr am 27 mlynedd; ac er ei fod y pryd hynny yn pregethu wrth dai annedd, ac yn y prif-ffyrdd a'r caeau, nid oedd yn gweled yn briodol iddo fyned i gapel Ymneillduol, ac felly yrru eiddigedd ar Eglwyswyr,— eiddigedd gwaeth na dim arall,— gan fod y capel mawr, sef y byd, yn agored o'i flaen. Nid ydym yn gwybod chwaith i neb o'r gweinidogion Ymneillduol ofyn iddo. Gwyddent y buasai hynny yn fwy o dramgydd i'r awdurdodau eglwysig na dim arall, ac ni charent iddo ddyfod i brofedigaeth. Pa fodd bynnag, dyna fel y bu mewn cysylltiad â'r Parch. Thomas Gray; nid oedd yn ceisio ganddo ddyfod i'r capel tra yn offeiriad, ond cydweithiodd i gael ty iddo am yr afon ag Abermeurig, lle y bu Rowland rai troion yn cadw seiat, fel y bu yn ysgubor Meidrim, ac yn y Ty Seiat yn Llangeitho. Yr oedd Gray hefyd yn nhy cwrdd Pentrofelin, yn ymyl Abermeurig, yn cadw seiat yn fynych. Nid oedd cisio i Gray gynorthwyo yn y cymundeb yn Llangeitho, gan y byddai yno ddigon o offeiriad i wneyd. "Pan ofynwyd i Rowland gan ei bobl ychydig cyn ei farw pwy a allent gael i lenwi ei le, ei ateb oedd, 'Thomas Gray.'" Peth rhyfedd na buasai yn dweyd, "Nathaniel fy mab." O, na, yr oedd Rowland yn Ymneillduwr go fawr, dywedod rhai both a fynnont.

4. *Yr ymddiddan rhwng Rowland a'i fab, y Parch. Nathaniel Rowland, ychydig cyn iddo farw.* "Yr wyf wedi cael fy erlid nes yr wyf wedi blino; ond fe gei di fwy o dy erlid; ond er popeth glyna wrth yr Eglwys. Feallai na chei dy ad-dalu am hynny, er hynny glyna wrthi hi, ie, hyd angou. Fe gymer diwygiad mawr le yn yr Eglwys, ac mi fydd hynny yn galondid mawr i ti dros lynu wrthi." Dyna y dywediad y mao a fynnem ag ef. Cafodd Rowland ddau fath tra amlwg o erlid: un gan erlidwyr professedig wrth bregethu ar hyd y wlad; a'r llall gan Eglwyswyr am bregethu allan o'r plwyfi, ac mewn lleoedd heb eu cysegru. Ond myn Mr. Worthington ac Eglwyswyr ereill, fod trydydd math o erlid wedi bod arno, sef y "Cynghorwyr Methodistaidd yn ei feio am na fuasai yn caniatáu urddo lleygwyr i'r weinidogaeth, yn lle glynu wrth drefn yr Eglwys." Nid ydym ni yn gwybod am rith o brawf dros yr haerid hwn. Os oes gan Mr. Worthington neu rai o'i frodyr ryw reswm dros ddweyd y fath beth, dylent ei ddwyn ymlaen. Nid ydyw neb o'r rhai sydd wedi ysgrifennu am y dyddiau hynny wedi

crybwyll o gwbl fod y cynghorwyr yn meddwl a'u gael eu hordeinio, ac nid oes air am hynny wedi dyfod i lawr yn y traddodiadau a goleddid mor barchus gan yr hen bobl am wr ag yr oedd popeth ei hanes mor gysegredig yn eu golwg. Ac y mae dau beth, yn neillduol, yn ein hargyhoeddi ni fod yn amhosibl i'r chwedl hon fod yn wir. 1. Pe *buasai* y fath deimlad wedi codi ymysg y cynghorwyr, mae yn anhawdd meddwl na *buasai* Rowland yn edrych arno gyda chymeradwyaeth, oblegid yr oedd ei enciliad ef o Eglwys Loegr yn fwy llwyr nag eiddo neb o'r bobl a'i dilynent. "Gallasai ei arglwyddiaeth," meddai wrth y ddau a ddanfonwyd i'w droi allan o'r eglwys, "gymeryd llai o boen arno na'ch danfon chwi yma; o'm rhan i, nid af byth o fewn ei muriau hi mwy; os mynnwch chwi, hi gaiff fod yn llety dyluanod. Mae y bobl yn barod i ddyfod gyda fi." Fe wyddys hefyd pa ateb a roddes i'r cenhaden a ddanfonwyd ato o eglwys y New Inn, yn Sir Fynwy, pan ymgynghorent ag ef gyda golwg ar eu hamddifadwydd o'r ordinhadau, tra yn y fath bellder o Langeitho, pan y cynghorodd hwynt i alw Morgan John Lewis, yr hwn yr oedd ei lafur mor gymeradwy yn eu plith, yn weinidog iddynt, a'i ordeinio eu hunain trwy ympryd a gweddi, gan ddatgan y "byddai i weddi y ffydd fod yn llawer mwy effeithiol na dwylaw un esgob dan haul." Yr oedd hynny yn 1756. Wedi yr helaethiad dirfawr a fu ar nifer y dychweledigion rhwng hynny a 1790, pan bu efe farw, ynghyda'r mawr anghyfleustra a brofid o ddiffyg gweinyddiad o'r ordinhadau, ac yn enwedig y gofid llym a achosid i gydwybodau tyner o herwydd aflendid a llygredigaeth lliaws o'r offeiriad yr oedd raid iddynt dderbyn yr ordinhadau o'u dwylaw neu fod hebddynt, y mae gennym bob lle i feddwl y *buasai* Daniel Rowland yn edrych gyda llawer o foddhad ar waith y Corff yn ymsymud mewn ffordd ddiffrifol a doeth, i neillduo brodyr cymeradwy i holl waith y weinidogaeth. 2. Ond fel pwnc o ffaith, yr oedd y bobl a'r cynghorwyr gyda hwynt, yn yr achos yma, yn *llawer arafach* nag ydoedd Mr. Rowland. Yn ystod y pedair blynedd ar ddeg a deugain, rhwng ordeiniad Morgan John Lewis a marwolaeth y diwygiwr, nid ydym yn cael fod neb wedi meddwl am ordeinio pregethwyr. Ac yn wir, fe dreiglodd un mlynedd ar bymtheg wedyn cyn i'r teimlad o blaid neillduo brodyr i'r holl waith ddefro ymysg y Methodistaid. Ni ddechreuodd y symudiad hyd 1806, ac ni chymerodd yr ordeiniad cyntaf le hyd 1811, *ugain mlynedd* wedi i Rowland farw, a *phedair blynedd ar ddeg a deugain* wedi iddo gynghori eglwys y New Inn i ordeinio Morgan John Lewis trwy ympryd a gweddi, gan eu sicrhau y "byddai i weddi y ffydd fod yn llawer mwy effeithiol na dwylaw un esgob dan haul." Y mae hyn oll yn profi fod lliaws yn amser Rowland, ac am flynyddoedd lawer wedyn, yn erbyn ordeinio, beth bynnag am dano ef. Y mae hanes yr ordeiniad pan chymerodd le yn ddigon o esboniad ar y cwbl. Mae yn amlwg mai nid yn Rowland ei hun yr oedd y bai na *buasai* wedi dyfod allan yn llwyrach fel Ymneillduwr ymhob peth, ond anaddfedrwydd y bobl i ymgymeryd â'r drefn Ymneillduol. Y mae son am dano yn cael ei erlid, ynte, am na chaniatâi urddo lleygwyr i'r weinidogaeth yn ynydrwydd. Am gyngor ei dad i Nathaniel, gellir cymeryd mwy nag un olwg ar hynny eto. Mae fod ei dad yn ei gynghori i aros yn yr Eglwys yn ddigon amlwg; ond mae y rheswm am hynny yn ambenderfynol. Cymer yr Eglwyswyr fod mwy o olwg gan Rowland ar yr Eglwys nag ar yr Enwad a sefydlodd ef ei hun; gallwn ninnau, yn sicr, ei gymeryd

i'r gwrthwyneb. Gwyddai Rowland y fath un oedd Nathaniel fel arweinydd, oddiar y disgyblu fu ar yr enwog Peter Williams, pan y dywedodd wrtho, "O, Nat, Nat, ti a ddisgyblaist dy well o ddiagon!" Mae yn debyg y gwyddai pe buasai yn aros gydag enwad oedd yn *Gorff*, y gwnelai lawer o bethau cyffelyb. A hanes rhyfedd a gwaradwyddus a fu iddo! Os proffwydodd Rowland am ddiwygiad yn yr Eglwys, wrth Nathaniel, rhagwelodd hefyd beth oedd oreu iddo yntau. Gresyn i'w fath ymlynu wrth y Methodistiaid cyhyd, gan honni awdurdod fel mab i'w sylfaenydd.

5. *Ei fod wedi codi dau o'i feibion yn Offeriaid.* Do, a danghoswyd iddo wneyd peth na ddylasai! Bu John yn achlysur, os nid yn achos i'w dafu ef allan yn hollol o'r Eglwys; a bu Nathaniel yn rhyw hanner yn hanner o Fethodist ac offeriaid, ac o'r diwedd yn ddim.

Mae llawer o fanylion yn cael eu nodi gan fy nghyfaill eto i ddangos fod Methodistiaid Llangeitho wedi bod yn eglwysaidd iawn, hyd yn oed ymhen blynyddoedd wedi marw Rowland. Do, yr ydym yn addef; yr oeddynt yn araf i dorri ar eu hen arfer; ond nid yw hynny yn profi ond yr hyn a ddwedais o'r blaen, sef mai y bobl oedd yn eglwysaidd, ac nid Rowland. Buasai yn llawer gwell i Mr. Worthington beidio a chyffwrdd â'r manylion hyn, os oedd am brofi mai Eglwyswr oedd Rowland. Nis gallai ef ymddangos yn llawer o Ymneillduwr oblegid fod mor anhawdd gan y bobl ymwrthod ag arferion eglwysig. Dad-blygu yn raddol iawn fel Ymneillduwyr y mae y Methodistiaid wedi wneyd. Ai oblegid fod Rowland, eu sylfaenydd, y fath Eglwyswr? Nage; ond y mae y peth i'w briodoli gan mwyaf i ddiweddarwch eu sefydliad fel sect ar ei phen ei hun. Ni fu hyn cyn 1811, gan mai y pryd hwnnw y cafodd weinidogion iddi ei hun. Ond, a oedd hynny i gyd o achos Eglwysyddiaeth eu sylfaenydd? Paham na buasai felly gyda John Wesley a'r Wesleyaid? Ffurfiodd ef enwad ar ei ben ei hun yn fuan, ac arhosodd ef ei hun mewn rhyw gysylltiad â'r Eglwys hyd y diwedd; ond daeth Rowland yn llwyr allan o'r Eglwys, a bu felly hyd y diwedd. Gosododd sylfeini yr enwad wrth sefydlu Cyfarfodydd Eglwysig, Cyfarfodydd Misol, a Chymdeithasfaedd; ordeinio gweinidogion yn unig oedd eisieu ymhellach, yr hyn a wnaeth John Wesley, er ei fod ef ei hun yn profesu ei fod yn Eglwyswr. Ac yr ydym yn casglu mai nid ar Rowland yr oedd y bai na buasai yntau yn gwneyd, wedi ei droi allan o'r Eglwys, gan na wnaeth ei gyfundeb hynny am 20 mlynedd wedi iddo ef fyned oddiar y ffordd. Os bu bai arno yn hyn, wrth sefydlu y cymdeithasau a nodwyd y bu, yn enwedig y Gymdeithasfa yn 1740. Pe buasai wedi gwneyd y pryd hynny, fel y gwnaeth John Wesley, dichon y gallasai y cyfundeb gerdded ei hunan well.

Dywed Mr. Worthington mai pobl Llangeitho wrthododd gymeryd Cymanfa yr Ordeinio, Awst, 1811, yr hon oedd wedi arfer bod yno am dros 50 mlynedd, gan awgrymu trwy hynny fod pobl Llangeitho yn rhy eglwysaidd i gymeryd y Sasiwn honno. Fel hyn y bu:—"Mewn Cyfarfod Misol a gynhaliwyd yn Blaenannerch, Ebrill y 30ain a Mai 1af, 1811, penderfynwyd fod Llangeitho i gael y Gymdeithasfa yn Awst, fel arferol, os bydd i'r cyfeillion roddi sierwydd i'r Gymdeithasfa yn Trecastell na bydd yno [sef yn Llangeitho] ddim cynnwrf i gymeryd lle." Yr oedd rhai o Llangeitho yn y Cyfarfod Misol yn gofyn y Sasiwn i'r lle; ond ymddengys iddynt fethu dyfod i fyny â'r amod

uchod, ac am hynny gwrthodwyd hi iddynt. Felly nid Llangeitho a wrthododd y Gymanfa.

Wrth derfynu, nis gallwn lai na mynegu ein syndod fod un o safle Mr. Worthington wedi gwneyd defnydd o ddywediadau digrifol gyda golwg ar drefn gosodiad Cofgolofn Rowland, sef "ei fod yn dal y Beibl yn un llaw, ac yn estyn y llall at yr hen Eglwys, i gyfeiro y gwenyn i'r cwch, ac i gyflawni y broffwydoliaeth." Dyna ddywed Eglwyswyr. Ond gall Ymneillduwyr ddweyd ei fod yn estyn ei law at yr hen Eglwys er mwyn cyfeirio y gwenyn o'r cwch, gan ei fod wedi gweled fod yno berygl, fel y mae mewn cychod gwenyn yn fynych, oblegid rhyw greaduriaid niweidiol, neu safle afiachus. Dywed Eglwyswyr i Rowland broffwydo y deuai diwygiad i'r Eglwys; mae Ymneillduwyr yn gweled fod y gofgolofn yn dal i broffwydo, ac yn dweyd wrth bob Ymneillduwr yn enwedigol: Gochelwch fyned i'r lle draw, mae acw ormod o gadwynau carchar, a gormod o feichiau gormes; daw diwygiad; ond y mae yr hyn a'm gormesodd, a'm herlidiodd, a'm bygythiodd, ac yn greulon a lliidiog a'm bwriodd i allan, yn aros acw eto. Daw dydd y rhyddhad, dydd bendigedig y dadsefydliad a'r dadwaddoliad, dydd y torrri y cysylltiad rhyngddi fel Eglwys Crist a'r Llywodraeth wladol. Mae y Beibl sydd yn fy llaw yn dweyd y daw. Ond gochelwch y fan acw hyd hynny.—Fel yna, os awn i ddechreu dychmygu am iaith llaw a wyneb y gofgolofn, cawn ddigon o le a digon o waith.

Buasai yn dda gennyf pe buasai Mr. Worthington wedi gadael allan rai brawddegau o'r erthygl. Mae y ganlynol yn cymysgu ffeithiau, ac yn dyrysu y darlennydd:—"Yr oedd yn llawn cymaint ag a allasai ddioddef i weled ei frawd diwaith a dinod yn cael ei ddyrchafu pan yn ddyd ieuanc, ac yntau yn cael ei esgeuluso, er ei holl ymdrech a'i weithgarwch diorffwys, a'i oedran, oblegid yr oedd erbyn hyn yn saith mlwydd a deugain." Yr oedd ei frawd yn hŷn nag ef, ac wedi bod yn y weinidogaeth am rai blynyddau o'i flaen. Mae yn rhyfedd hefyd i'r geiriau hyn gael eu rhoddi yn y cysylltiad lle maent am y fath un a Daniel Rowland:—"Y mae pob dyn yn myned yn fawr, i raddau pell, ar ol iddo farw. Mae'r plentyn yn myned yn ddyn ar ol iddo farw." Ond dyna ddigon.

Abermeurig.

JOHN EVANS.

DEDDFWRIAETH ATALIOL YN YR UNOL DALAETHAU.

Foreign Office Miscellaneous Series, No. 78. *Report on Liquor Traffic Legislation in the United States.* Issued during the Recess and presented to both Houses of Parliament by command of Her Majesty.

PAN mae y teimlad o blaid Dewisiad Lleol yn ffynnu yn gymaint dros y Deyrnas, ac yn enwedig pan mae rhyfel yr achos hwnnw am Gymru wedi cyrraedd y fath nerth, y mae yn ddyddorol i ni gael mantais i weled beth, mewn gwirionedd, ydyw yr effaith a gafodd Deddfwriaeth Ataliol yn America. Gwyddem beth a ddywedid gan gyfeillion soborwydd yn y wlad honno; ond haerid eu bod hwy yn dadleu dros eu mesurau eu hunain, ac er mwyn eu cyfiawnhau, yn dangos eu canlyniadau mewn lliwiau

llawer rhy ffatriol. O'r ochr arall, gwyddem hefyd beth a ddwyfodl gwa wrthwynebwyr ataliad, a chofiem nad oedd rhai o'r bomoddigion hynny wedi ei ystyried yn annheilwng o'u harddas i ymfrostaia i.e. ar lawr Ty y Cyffredin, fel yr oeddent, yn rhai o'r Talaethau, wedi bod yn ddigon cyfrwys i allu torri y gyfraith, ac heb gael eu carchara. Nid oedd prinder ychwaith am baragraffau yn y newyddiadau, y rhai, o bryd i i bryd, a gyhoeddent mor andwyol oedd methiant yr holl ddoddfas ataliol yn America, ac am hynny gyda'r fath arswyd y gwoddai i ni oll ymgroesi rhag amcanu at ddim o'r fath yn y wlad hon. Mae y darllawwyr ymysg pobl gyfoethocaf Prydain; "yn dywysogion yn yr holl dir;" hwynt-hwy, yn anad yr un dosbarth o'r boblogaeth, sydd yn cael eu gwneyd yn Arglwyddi, ac y maent, ynghyd a'u creaduriaid, yn allu mawr yn Nhy y Cyffredin. Y maent hefyd yn abl i dalu yn dda am gael eu gwasanaethu trwy y wasg. Ac y mae pobl ariannog ac ariangar yn ddiwoddar, wrth weled cwmnïau darllawol mawrion y wlad hon yn methu para i dalu eu llogau uchel, wedi bod yn rhoddi eu harian mewn darllawdai yn America. Gwelsom dro yn ol fod cymaint ag *eight millions* o bunnau o arian Lloegr wedi cael eu gosod mewn ychydig amser yn y darllawdai hynny; a dywed y *Brewers' Journal*, cyhoeddiad Americanaidd, am fis Mawrth diweddaf, fod cyfanswm yr arian Prydeinig a omodwyd yn narllawdai America, erbyn hynny, yn £18,311,698,—dros ddeunaw miliwn o bunnau! Ac wrth reswm, rhaid astudio beth a omodid ger bron fel hanes unrhyw ymdrech a wneid i gyfyngu dim yn y wlad honno ar fasnach y ddiod. Ac y mae yn America ddigon o ddyinion sydd yn barhaus mor elyniaethus i bob amcan o'r fath fel y maent yn gwneyd eu goreu i gael gan y byd greu fod pŵer mesurau ataliol mor bell o leihau ymyfed a meddwod, fel y mae, ymhob man, yn mwyhau y drygau hynny, a hefyd yn chwangu atynt ddrygau creill sydd yr andwyol i'r boblogaeth. Yngwyneb hyn oll, da oedd gwaith y Swyddfa Dramor, dan arolygiaeth Prifweinidog ei Mawrhydi, yn coisio Adroddiad Swyddogol gan gynrychiolwyr y wlad hon yn America, yn dangos beth ydyw y mesurau a gymerwyd er atal masnach y ddiod yn y Talaethau, a pha lwyddiant sydd wedi bod arnynt. A dyma yr Adroddiad hwnnw o'n blaen. Y mae yn cael ei gyflwyno i Arglwydd Salisbury gan Syr L. S. Sackville West, ein Llysohgwadwr yn Washington. Dywed ei fod wedi ei dynnu i fyny gan Mr. Edwardes, Ysgrifenydd y Gynrychiolaeth, *Her Majesty's Secretary of Legation*; ac ychwanega "y ceir bod yr adroddiad hwn yn dra dyddorol, ac wedi ei wneyd gyda gofal mawr." Dymunai hefyd alw sylw neillduol at y casgliadau y deuai Mr. Edwardes iddynt mewn perthynas i'r symudiad ymhlaid sobrwydd yn y wlad honno. A dywed Mr. Edwardes ei hun, wrth anfon ei adroddiad i Syr L. Sackville West, ei fod wedi ei gasglu oddiwrth hysbysrwydd llawn a dderbyniasai gan *Consuls* ei Mawrhydi, ac fod y barnau a ychwanegid yn eiddo rhai a lanwent swyddogaethau uchel, y rhai a roddai iddynt gyfleusterau da i fod yn farnwyr cywir ac amhleidiol ar y mater oll-bwysig y gelwid eu sylw ato. Mae'n amlwg, gan hynny, y gellid disgwyl i'r Adroddiad hwn fod yn un y gellid dibynnu arno i fesur mawr. Crybwyllwyd am dano yn y TRAEHODYDD o'r blaen, fel un y cyfeirid ato gan Mr. John Morley mewn araeth bwysig o'i eiddo, ac y dyfynid o hono gan Mr. Caine mewn erthygl yn y *Welsh Review*. Ond ar ol hynny digwyddodd iddo ddyfod i'm llaw, a chan ei fod, chwedl Cyn-

rychiolydd ei Mawrhydi yn Washington, mor ddyddorol, ac yn enwedig, fod y mater pwysig y mae yn ymwneyd ag ef, yn awr o ddyddordeb mor arbennig i Gymru, diameu y carai ein darllenwyr gael gwybod ychwaneg yn ei gylch.

Rhoddir ynddo hanes ymdrechion y gwahanol Dalaethau er atal anghymedroldeb blith draphlith, fel y deuant ger bron; ond feallai y byddai yn fwy cyfleus i ni edrych arnynt fel y maent yn ymrannu i dri dosbarth, ac yn dangos yr ymdrechion hynny yn y ffurfiau o Waharddiad, Dewisiad Lleol, a Thrwydded Uchel. Nid oes eisieu cyfeirio at y Talaethau lle y ffynna trwyddedau cyffredin, ac ni fyddai o nemawr ddiben galw sylw at yr engreiffiau o Ddeddfau Ataliol a phapurau cysylltiedig â hwynt, sydd yn cael eu chwanegu at rai o'r adroddiadau. Ar ol hyn, pan fyddwn yn barod yn y deyrnas hon i osod mesurau o'r fath mewn gweithrediad, fe fydd yn fanteisiol gweled y dulliau a gymerid gan ein cefndryd y tu draw i'r Werydd. Rhoddw'n y manylion am y gwahanol Dalaethau, mor agos ag y gellir, yng ngeiriau yr Adroddiad.

GWAHARDDIAD.

Dyma yr hyn a ddywedir am y Talaethau Gwaharddiadol:—

RHODE ISLAND (poblogaeth, 276,531). Mae y Dalaeth hon wedi bod o dan y "Drefn Ataliol" er Gorffennaf, 1886. Pwy bynnag a wertho ddiod feddwol, neu a gynhygio, neu a ganiatâo wneyd hynny, fe'i dirwyr am y trosedd cyntaf i 20 dolar (£4), ac fe'i carcherir yng ngharohar y sir am ddeng niwrnod; am yr ail drosedd, fe'i dirwyr 50 dolar (£10), ac fe'i carcherir yng ngharohar y sir am dri mis; am y drydedd waith, a phob tro yn ychwaneg y trosedd, fe'i dirwyr i 100 dolar (£20), ac fe'i carcherir yng ngharohar y sir am ysbaid o ddim llai na thri mis, na mwy na chwe' mis. A phwy bynnag, yn erbyn darpariadau y Ddeddf, a wnelo un math o ddiod feddwol, neu a wertho y cyfryw yn y ffordd gyffredin, a ddirwyr am ei drosedd cyntaf 100 dolar, ac a garcherir am 60 diwrnod; ac am yr ail, a phob trosedd ychwanegol, a ddirwyr 200 o ddoleri, ac a garcherir am bedwar mis. Ac y mae y swyddog sydd i gario allau ddyfarniad y Lllys mewn achosion o'r fath i ddinystrio y ddiod a geir yn y manau y cedwir hi, a dinystrio y llestri fo yn ei chynnwys; neu, fel y bo y llys yn cyfarwyddo, i werthu y cwbl, a throglwyddo yr arian i'r trysorlyd cyffredinol. Os gwna neb mewn ystâd o feddwod unrhyw niwed i berson neu eiddo un arall, fe fydd yr hwn a roddes ddiod iddo, os yn groes i'r Ddeddf, yn agored i'r un erlyniad gan yr hwn a niweidiwyd â'r dyn meddw ei hun, a gellir dwyn cynghaws yn erbyn y ddau ynghyd, neu yn erbyn y naill neu y llall. Ymbellach gall gwr, gwraig, rhiant, plentyn, gwarcheidwad, neu gyflogwr un sydd yn arfer yfed i ormodded, rhyddio person fo yn gwerthu, i beiddio rhoddi diod i'r cyfryw un; ac os bydd iddo, wedi ei rybuddio felly, ar unrhyw adeg o fewn dauddeng mis i'r amser y rhybuddiwyd ef, werthu neu roddi diod i un a fo yn y fath arferiad, gall y person a roddodd y rhybudd, mewn erlyniad a allo godi o'r achos, godi oddiar yr hwn a rybuddiwyd y swm a nodir fel iawn, a thybied fod cyflogwr a fo wedi rhoddi y fath rybudd wedi cael niwed yn ei berson, ei fusnes, neu ei eiddo. Gall gwraig briod ddwyn erlyniad o'r fath yn ei henw ei hun, a bydd pob arian a godir fel iawn yn eiddo iddi hi ei hun. Os bydd i'r naill neu y llall farw, fe crys yr erlyniad a hawl erlyniad i, neu yn erbyn, ysgutor neu gymun-weinyddydd.

VERMONT (poblogaeth, 332,286). Pasiwyd y Ddeddf yno yn 1852. Trwyddi gwaharddir gwneuthur na gwerthu diodydd meddwol, gydag ychydig iawn o eithriadau. Delir yn gyffredin fod anghymedroldeb wedi lleihau yn y Dalaeth hon er pan basiwyd y Ddeddf.

MAINE (poblogaeth, 648,936). Mae gwneuthur, gwerthu, a chadw ar werth ddiodydd meddwol yn waharddedig ym Maine trwy Ddeddf a basiwyd yn 1851, ac yn 1884 pasiwyd Gwaharddiad trwy fwyafrit mawr o bleidleisiau y bobl fel Ddeddf Gyfansoddiadol. Fe edrychir ar ganlyniadau Gwaharddiad yn y Dalaeth hon gan Waharddwyr fel yr hynod o foddhaol, ac nid oes dim son am ddiodyddau

y Ddeddf. Mae pob darllawdai a distylldai wedi eu rhoddi i lawr; mae masnach y ddiod wedi ei gostwng i'r ugeinfed ran o'i maintioli blaenorol. Mae tafarnau yn anadnabyddus yn y trefi bychain a'r pentrefydd. Fe ddywedir fod 12,000,000 o ddoleri (£2,400,000) yn cael eu harbed bob blwyddyn a fuasant yn cael eu gwario ar ddiod feddwol. Mae y cynnydd ar fasnach yn y Dalaeth yn cael ei briodoli gan rai i Waharddiad. Y mae, fodd bynnag, eto yn amhosibl rhoddi i lawr yn gwbl fasnach y ddiod yn y trefi mawrion; mae y cosbau am gadw diod ar werth, ac am droseddau ereill yn erbyn y Ddeddf, yn annigonol i rwystro i'r fasnach gael ei chario ymlaen er ennill.

Iowa (poblogaeth, 1,624,615). Daeth Ddeddf Waharddiadol y Dalaeth hon rym y 4ydd o Orffennaf, 1884. Ni chaniatâ i neb wneuthur na gwerthu, yn uniongyrchol nac yn anuniongyrchol, unrhyw ddiodydd meddwol, gyda rhai eithriadau. Goddefir eu gwerthu gan un a ddygo i mewn ddiodydd meddwol tramor, dan awurdod yr Unol Dalaethau, ond iddynt gael eu gadael yn y casgiau neu y llestri yr allforiwyd hwynt, a gellir gwneyd diod alcoholaidd i ddibenion celfyddydol a meddygol. Mae y ddirwy am y trosedd cyntaf yn 100 dolar (£20), neu 30 diwrnod o garchariad, a 200 dolar (£40), neu 60 niwrnod am yr ail drosedd yn erbyn y Ddeddf. Gall unrhyw berson, heblaw un yn cadw hotel neu dafarn, werthu neu brynu diod i ddibenion celfyddydol, meddygol, coginiol, neu sacramentaidd, wedi cael tystysgrif gan y mwyafrif o'r etholwyr, ac wedi rhoddi bond am 3,000 o ddoleri (£600) gyda meichiafon. Rhaid cadw llyfrau cofnodion o'r fath werthiant, a chyfyngir ennill y gwerthiant i 33 y cant. Gwaharddir gwerthu neu roddi diod i rai dan oed, neu feddwon, heb archiad gwarcheidwad, rhiant, neu feddyg teuluaidd.

KANSAS (poblogaeth, 996,096). Pasiodd y Dalaeth hon Ddeddf Waharddiadol yn 1881, ac ni ellir gwneyd na gwerthu ynddi ddiodydd meddwol o unrhyw fath, oddieithr fel y byddo eu heisien at ddibenion meddygol, gwyddonol, neu gelfyddydol. Dywedir fod y Ddeddf hon yn cael ei chario allan yn gyffredinol yn y Dalaeth, a'i bod yn gweithio er mantais fawr.

Dywedir hefyd fod un ranbarth, *congressional district*, o ALABAMA wedi cario allan Waharddiad, ac fod y lleshad i'r boblogaeth—mae y Negrôid yn bedwar o bob pump o'u nifer,—wedi bod mor fawr fel y mae gwrthwynebwyr blaenorol y Ddeddf wedi newid eu barn, ac yn awr yn cynorthwyo er ei chario allan. Dywedir fod troseddau yn llai o un ran o dair er pan y mae Gwaharddiad mewn grym.

DEWISIAD LLEOL.

Mae y drefn hon mewn grym yn y Talaethau canlynol:—

NEW YORK (poblogaeth, 5,082,871). Mae Dewisiad Lleol mewn grym yn y Dalaeth hon. Dani mae masnach y ddiod yn cael ei rheoli gan drigolion pob tref a bwrdeisiaeth. Gall unrhyw ddinas, tref, neu bentref, trwy fwyafrif, bleidleisio dros Waharddiad Lleol, ond nid oes ystadegau i ddangos i ba raddau y mae y dewisiad wedi ei wneyd yng nghyfeiriad Gwaharddiad. Ary cyfan, ni ellir dweyd fod plaid Waharddiad yn y Dalaeth hon yn cynhyddu yn fawr. Mae y duedd yn hytrach yn ffafr trefn y Drwydded Uchel, yr hon, tra heb niweidio y cyllid, yr edrychir arni fel ffordd sicrach o leihau drygau masnach y ddiod.

CONNECTICUT (poblogaeth, 622,700). Mae Dewisiad Lleol yn rheoli rhoddiad trwyddedau yn y Dalaeth hon. Nifer y trwyddedau a roddwyd yn yr wyth mis a derfynai Mehefin 30, 1886, oedd 2,656; ac yr oedd y swm a dderbynnid am danant yn 391,809 o ddoleri (£78,362). Y mae gwelliant ar y Ddeddf a gynhygiwyd yn Nhy y Cynrychiolwyr y tymor diweddaf yn "Gwahardd gwneuthur na gwerthu diodydd meddwol fel diod gyffredin,"—hyny yw, yn gwneyd Connecticut yn Dalaeth Waharddiadol. Cyftwynir y gwelliant hwn i'r Senedd y tymor nesaf, yr hon, trwy bleidlais o ddwy ran o dair, a all ei oed i lais y bobl, y rhai, trwy fwyafrif, allant ei dderbyn a'i wneyd yn rhan o'r ddeddf sylfaenol. Gwrthodwyd cynllun o Drwydded Uchel yn ddiweddar gan y Senedd.

MASSACHUSETTS (poblogaeth, 1,783,085). Trwy Ddeddf gyffredinol y Dalaeth hon, pleidleisia pob dinas a thref bob blwyddyn, trwy y balot, pa un a roddir trwyddedau i werthu diodydd meddwol ai peidio o fewn eu terfynau yn ystod y ffwyddyn ddilynol. Mae trwyddedau yn cael eu rhannu i chwe dosbarth—y pris yn amrywio i 1 i 1,000 o ddoleri; un dolar yw y swm a delir gan gyffer-

wyr am gael gwerthu y ddîod i ddibenion meddyginiaethol, celfyddydol, a fferyllol. Dywedir fod y rhai sydd o blaid Gwaharddiad ar gynnydd yn y Dalaeth hon, ond methodd cynhygiad i wneyd Gwaharddiad yn ddeddf gyfan-soddiadol a chael y ddwy ran o dair oedd yn angenrheidiol o fwyafrif.

VIRGINIA (poblogaeth, 1,512,565). Pasiwyd Dewisiad Lleol yma yn 1886. Fel rheol, yn nhrefydd mawriau y Dalaeth hon y mae Dewisiad Lleol wedi bod yn ffafr Trwyddedau; ond yn y trefydd llai ac yn y wlad, y mae y pleidleisiau wedi bod o ochr Gwaharddiad. Pe profid fod neb yn euog o werthu diod o fewn y terfynau lle mae Dewisiad Lleol wedi datgan o blaid Gwaharddiad, fe ddeuai yn agored i'r un gosb ag am werthu heb drwydded. Fe fernir yn gyffredin nad ydyw Gwaharddiad yma wedi bod yn ffafriol i sobrwydd, oblegid fod masnach y ddîod yn para er gwaethaf y Ddeddf Leol.

KENTUCKY (poblogaeth, 1,648,690). Mae cais am drwydded yma i'w wneyd trwy Farnwr Sirol, yr hwn a gymer fesurau i wled a ydyw Dewisiad Lleol o blaid ynte yn erbyn ei chaniatau. Gall trigolion rhanbarth alw am etholiad er mwyn cael fotio ar Waharddiad o fewn y dosbarth.

SOUTH CAROLINA (poblogaeth, 995,577) Mae Dewisiad Lleol yn cael ei gario ymlaen dan amryw ddeddfau a basiwyd, yr olaf yn gorfforiad o'r oill oedd wedi eu pasio o'r blaen. Mae y neb a droseiddo y gyfraith i gael ei garcharu am ddim llai na 30 diwrnod, na mwy na 12 mis, a'i ddirwyo fel y barno y Lllys yn addas. Os bydd mwyafrif yn fotio o blaid Gwaharddiad, y mae yr hwn sydd yn gofalu am y rheilffordd i gadw llyfr, yn yr hwn y mae i roi i lawr bob baril a llestr o ddiodydd meddwl a dderbynnir yn y stesion, y dyddiad, enw y neb sydd i'w gael, natur y ddîod, a'i swm, ac mae y llyfr hwnw i fod yn agored i'r cyhoedd. Os na wna hyn, ac os profir ef yn euog, fe fydd yn droseddwr, ac fe 'i dirwyr i swm heb fod dros 200 o ddoleri (£40) neu fe 'i carcherir am ysbaid heb fod dros ddau fis, neu fe 'i dirwyr ac fe 'i carcherir yn ol doethineb y Lllys. Os gwertha unrhyw gyfferiwr ddîod heb gyfarwyddyd ysgrifenedig meddyg fo yn gofalu am un, fe 'i carcherir nid am lai na 30 diwrnod, na mwy na 12 mis, ac fe 'i dirwyr yn ol doethineb y Lllys.

GEORGIA (poblogaeth, 1,542,180). Mae pob sir yn y Dalaeth hon i fotio pa un a yw diod i gael ei gwerthu ai peidio. Gellir cael etholiad ar hyn unwaith bob tair blynedd. Allan o 136 o siroedd yn y dalaeth, y mae 101 wedi fotio o blaid Gwaharddiad. Yn y siroedd lle y mae Gwaharddiad mewn grym,—a adwaenir yn gyffredin fel “siroedd sychion,”—dywedir fod yr effaith wedi bod yn ardderohog. Mae “trwydded uchel” wedi ei phrofi mewn rhai siroedd, ond gan nad ydoedd yr effeithiau yn rhoi boddlonrwydd, fe newidiwyd y drefn honno am Waharddiad.

TEXAS (poblogaeth, 1,591,749). Bu Dewisiad Lleol yn hir yn y Dalaeth hon, ond yn yr etholiad fis Gorffennaf diweddar gorchfygwyd plaid Gwaharddiad trwy fwyafrif mawr. Mae trwydded i werthu diod yn costio 600 o ddoleri (£120).

MISSOURI (poblogaeth, 2,168,380). Ni chaniateir trwydded i werthu diod feddwol yma ond ar ddeisebiad dwy ran o dair o'r trethdalwyr, ac i un o gymeriad da, a chyd *bond* o 2000 o ddoleri (£400), gyda meichiafon. Ar bob trwydded codir toll o ddim llai na 25, na mwy na 200 o ddoleri, am chwe mis, y swm i'w benodi gan y Lllys fo yn rhoddi y drwydded. Yn 1887 pasiwyd deddf o Dewisiad Lleol, a gellir galw am etholiad gan y ddeddf ran o'r trethdalwyr i benderfynu pa un a geir gwerthu diod trwy drwydded, ynte a waherddir hynny yn gwbl. Mae trwydded uchel hefyd yn y Dalaeth hon wedi bod yn llwyddiannus i chwaneu y cyllid ac i leihau nifer y tafarnau.

MINNESOTA (poblogaeth, 780,773). Gall Dewisiad Lleol reoli, caniatáu, neu omedd trwyddedau. Nid ydyw y drefn yma wedi bod ddigon hir mewn grym i ddangos sut yr effeithia ar y cyllid.

COLORADO (poblogaeth, 194,327). Mae Dewisiad Lleol yn rheoli y fasnach yn gwbl.

TRWYDDED UCHEL.

Mae y drefn yma yn ffynnu yn y Talaethau canlynol:—

PENNSYLVANIA (poblogaeth, 4,282,891). Mae y tâl am drwydded o'r dosbarth cymtaf a'r ail ym Mhennsylvania wedi ei wneyd yn 500 o ddoleri (£100). Disgwylir chwangediad mawr trwy hyn at gyllid y Dalaeth, ac y ceuir tafarnau isel. Yn

ninas Philadelphia (poblogaeth, 847,170), cyn pasio y ddeddf hon, yr oedd 600 o dai i werthu diodydd yn talu 300,000 o ddoleri (£80,000); ond dan y ddeddf newydd fe ddeuai y doll am yr un nifer o drwyddedau yn 300,000 o ddoleri (£60,000). Fe ellir cyfrif, sut bynnag, y bydd y chweched ran o'r yfed yn darfod o dan y drefn hon.

OHIO (poblogaeth, 3,198,062), MICHIGAN (poblogaeth, 1,636,937), INDIANA (poblogaeth, 1,978,301). Mae Trwydded Uchel hefyd yn fyfnnu yn y Talaethau hyn. Yn nhalaeth Michigan mae y cyllid oddiwrth drwyddedau i werthu diod bron wedi treblu er pan basiwyd deddf Trwydded Uchel yn 1875; ei swm yn y flwyddyn honno oedd 437,705 o ddoleri (£87,541); ac yn 1886 yr oedd wedi codi i 1,186,366 o ddoleri (£237,274). Yn 1887 gwrthodwyd cynhygiad o blaid Gwaharddiad cyffredinol yn y Dalaeth gan y bobl.

ARIZONA (poblogaeth, 40,440), a WASHINGTON TERRITORIES (poblogaeth, 75,116). Mae Trwydded Uchel mewn grym yn y Tirlogaethau hyn, a dywedir ei bod yn gweithio yn dda. Yn y rhaif olaf mae y cyllid oddiwrth y ddiod rhwng 35,000 o 40,000 o ddoleri (o £7000 i £8000) yn y flwyddyn. Mae deddfau Gwaharddiadol wedi methu pasio, ac ymosodir ar y gyfundrefn fel yn anghyfansoddiadol.

ILLINOIS (poblogaeth, 3,077,871). Yn y Dalaeth hon y mae Deddf 1883 wedi codi trwydded diod o 100 o ddoleri i 500, oddieithr diod frag yn unig, pan mae y swm yn 150 o ddoleri. A threfnir fod Dewisiad Lleol yn cael ei ganiatau pan y gellir gwahardd trwydded trwy bleidlais mwyafrif o'r trethdalwyr. Mae y Ddeddf hon yn gwahardd gwerthu diod yn siopau y grocers. Yn mhrifddinas y Dalaeth, Chicago (poblogaeth, 298,977), mae trefn y Drwydded Uchel wedi codi y cyllid blynnyddol o 200,000 o ddoleri (£40,000), i yn agos i 2,000,000 o ddoleri (£400,000). Y tâl o'r blaen oedd 52 o ddoleri yn y flwyddyn; y mae yn awr yn 500. Mae nifer y tafarnau wedi mynd i lawr o 5000 i 3900, er fod poblogaeth a masnach y ddinas wedi cynhyddu yn ddirfawr. Credir fod anghymedroldeb wedi lleihau, a golyga y trigolion, cyn belled ag y gall deddfwriaeth hyrwyddo sobrwydd, fod hynny wedi ei wneyd yn Chicago.

NEBRASKA (poblogaeth, 452,402). Dechreuwyd Trwydded Uchel yma yn 1881, y tâl am drwydded yn amrywio o 500 i 1000 o ddoleri (£200), heblaw bond o 5000 o ddoleri (£1000). Rhaid cael deiseb wedi ei llawnodi gan 30 o rydddalwyr gyda'r cais am drwydded, yr hon a ganiateir neu a wrthodir gan y Bwrdd Lleol. Os bydd teimlad y bobl yn ddigon cryf i ethol Bwrdd Trwyddedol a wrthyd ganiatau trwyddedau, mae y Ddeddf fel y mae yn dyfod yn Waharddiadol.

TIRIOGAETH MONTANA (poblogaeth, 39,159). Deddf Drwyddedol newydd ei phasio.

FLORIDA (poblogaeth, 269,493). Mae y tâl am drwydded yn 600 o ddoleri (£120). Rhaid i bob un fo yn ceisio trwydded, yn ol Deddf 1881, gael ei gais wedi ei llawnodi gan fwyafrif yr etholwyr cofrestredig.

Dyna y *ffieithiau* a osodir ger bron yn yr Adroddiad hwn. Y mae rhai cyfnewidiadau wedi cymeryd lle er pan gwblhawyd yr Adroddiad. Pump o'r Talaethau a nodir yma fel o dan Waharddiad; ond y mae y ddwy Dakota—Gogleddol a Deheuol—erbyn hyn wedi eu hychwanegu atynt, a Gwaharddiad wedi ei wneyd yn rhan o'u cyfansoddiad, fel nad yw y fasnach mewn diodydd meddwol i'w goddef mwy o fewn eu terfynau, oddieithr bod dwy ran o dair o'r etholwyr yn galw am hynny. Ac y mae y ddeddf fel yma yn *organic*, neu gyfansoddiadol, yn y Talaethau ereill. Mae poblogaeth y Talaethau Gwaharddiadol o America erbyn hyn yn *chwe miliun* o enediau. Dywedai boneddwr o America oedd yn y wlad hon y llynedd, heblaw fod *sraith* o'r Talaethau felly dan Waharddiad, bod *tair ar hugain* yn ychwaneg dan Ddewisiad Lleol.

Ond rhoddai ein Cynrychiolydd urddasol yn Washington bwys mawr ar y "casgliadau" y deuai Mr. Edwardes iddynt gyda golwg ar achos sobrwydd yn y wlad fawr honno. Yn ein bryd ni, y mae y *ffieithiau*

a osododd o'n blaen lawer yn bwysicach na'i gasgliadau. Nid ydyw mewn un modd yn sicr fod Mr. Edwardes wedi gallu ymgodi uwchlaw ei ragfarnau wrth dynnu ei gasgliadau, pa mor deg bynnag y gallai fod wrth osod ger bron y manylion a anfonwyd iddo gan y *Consuls* yn y Talaethau. Mewn llyfr a gyhoeddwyd yn ddiweddar ar "The Hospitals and Asylums of the World," dywed yr awdwr, Henry C. Burdett, wrth son am Wallgofdai:—"Mae rhai arolygwyr yn mynd mor bell a dweyd fod gwellhad wedi cymeryd lle yng nghyflwr y cleifion er pan y mae cwrw wedi ei atal oddiwrthynt. Dywedir eu bod yn haws eu trin, yn llai cynhyrfus, ac yn fwy ewyllysgar i wneyd rhywbeth." Galleid meddwl, os oedd y *superintendents* yn dweyd felly, eu bod hwy, oedd gyda'r cleifion yn barhaus, yn abl i roddi tystiolaeth y gallai pobl oddiallan ei derbyn yn lled ddi-betrus, yn enwedig pan y ceid fod nifer mawr o honynt yn tystiolaethu yn gyffelyb, ac heb fod unrhyw le i gasglu nad oeddynt mor eirwir â phobl ereill. Ond na, y mae Mr. Burdett yn gwybod yn well; fel yma yr ychwanega:—"Yn awr, gan nad oedd yr hyn a ganiateid yn gyffredin yn y wallgofdy yn ddim ond un peirnt yn y dydd, yn cael ei roi yn gyffredin gyda *lunch* neu ginio, rhaid ei fod yn amlwg i bawb nad allai atal hynny gael un effaith o gwbl, ac yn fwy neillduol am fod y cwrw a roddid o'r fath wannaf." Yr un ffund, y mae *pregeth* Mr. Edwardes, yn y feithiau a geir yn ei Adroddiad yn rhagorol; ond nid ydym mor sicr am ei *chymhwysiad*. Y mae efe yn ochri yn gryf at Drwydded Uchel. Dywed y rhaid addef fod Gwaharddiad mewn un ddinas y cyfeiria ati, "wedi ysguboymaith demtas-iwn y tafarnau agored; wedi darostwng y cymeryd i fyny am feddwod o 375 i 239; fod llai o bobl feddwon i'w gweled yn yr heolydd; fod nifer yr ymosodiadau a'r ymladdau yn llai; mewn gair, fod llawer o'r mân droseddau a ellir briodoli i'r cam-ddefnydd o ddioid yn llai eu nifer; fod yr arian parod a delir am nwyddau siopau gan deuluoedd gweithwyr yn fwy nag o'r blaen; ac yn ddiarnheuol fod y ddinas wedi bod yn dawelach a mwy trefnus dan Waharddiad na than drefn Trwyddedu." Gallai dyn feddwl fod pethau fel yna, a dweyd y lleiaf, yn werth eu sicrhau ar unrhyw delerau. Ond er y cwbl y mae Gwaharddiad, medd efe, wedi "peri i lawer werthu dioid yn lladradaidd na freuddwydient am hynny o'r blaen;" ac er "nad oes dafarn agored yn yr holl dref, ac na ellir gwerthu dioid ond gyda'r gochelgarwch mwyaf, eto y mae yn cael ei gwerthu, a hynny ymhob man; ac ni ellir cadw y fasnach i lawr ond trwy yr ymdrechion mwyaf egniol ar ran yr awdurdodau," &c. Am hynny, yn ol Mr. Edwardes, rhaid penderfynu yn ffafir *High License*. Mae honno yn "helpu achos sobrwydd ymlaen yn gymaint, ac i raddau pellach na Gwaharddiad, ac ar yr un pryd yn peri chwanegiad mawr at y cyllid."

Rhaid i ni addef fod y drefn yma o Drwydded Uchel yn dra phell o fod yn ei hargymell ei hun i ni fel y drefn oreu i beri ymwared rhag anghymedroldeb. Yr ydym yn cael, hyd yn oed oddiwrth Adroddiad Mr. Edwards, fod rhai o'r Talaethau, ar ol gwneyd prawf arni, wedi gorfod ei rhoi i fyny, a hynny yn ffafir Gwaharddiad. Ac y mae y "cyllid ychwanegol" y dadleuir ei bod yn ei ddwyn i goffrau y Llywodraeth, pan y mae y cyllid hwnnw mor amlwg yn "werth gwaed," yn rhywbeth nad all cydwybod Cymru, o leiaf, trwy râd Duw, ddim meddwl am dano ond gyda brawychdod. A phan y mae y fath afonydd o ddiodydd meddwol yn cael eu hyfed ag a alluoga ddynion i dalu am

drwydded i'w gwerthu bob blwyddyn £100, fel yn Pennsylvania a Chicago, a £120, fel yn Texas, a £200, fel yn Massachusetts a Nebraska, ni fyddai waeth son am reoleiddio'r daeargryn na meddwl am "reoleiddio" masnach o'r fath rhag profi yn felldith ac yn anferth ddifrod i'r trigolion.

Ac yn sicr y mae cryn lawer yn ychwaneg i'w ddweyd o blaid Gwaharddiad, pan yn cael ei ddwyn oddiamgylch trwy bleidlais mor gref â dwy ran o dair o'r boblogaeth, nag a fyn y "casgliadau" a osodir yma o'n blaen gydnabod.

Mae yn bur amlwg i ni fod fod y ffeithiau a ddyry Mr. Edwardes yn ei Adroddiad yn llawer cryfach na'i holl ddamcaniaethu. Heblaw hynny, a chymeryd Maine fel engrafft, onid yw yn rhyfeddol o arwyddocâol, tra nad oedd y bleidlais o du Gwaharddiad yno yn 1851, ac yn y ffurf o Ddewisiad Lleol, ond *dau am un*, fod y bleidlais yn 1884—wedi dros ddeng mlynedd ar hugain o brofiad ar fod heb dafarnau, a'r pryd hynny, nid yn y ffurf o Ddewisiad Lleol am dair blynedd, ond yn y ffurf o gyfnewidiad yng Nghyfansoddiad Llywodraeth y Dalaeth, ac felly i fod mewn grym nes y byddo dwy ran o dair o'r boblogaeth yn galw am ei ddiidymu,—fod y bleidlais honno, meddwn, yn 1884, *dros dri am un*? O blaid yr oedd 70,000; yn erbyn, 23,000; mwyafrif o blaid, 47,000! A dyma fonheddwr o Maine, sydd yn *Secretary of State* yn Washington, Mr. James G. Blaine, yn dweyd:—"Y mae anghymedroldeb wedi cyson leihau ym Maine er pan basiwyd gyntaf y Ddeddf Waharddiadol, nes yn awr y gellir dweyd mewn gwirionedd nad oes o fewn y byd gyntaf o bobl sydd yn siarad yr iaith Saesneg, ymysg pa rai y mae cyn lleiaf o ddiod feddwol yn cael ei hyfed ag ymysg trigolion Maine." Dyma wr pwysig arall o Maine, y Proffeswr F. C. Robinson, aelod o'r *State Board of Health*, wedi dyfod i Lundain i'r *Hygienic Convention* a gynhaliwyd fis Awst diweddar, ond wrth glywed pobl barchus yn siarad dan eu dwylaw am Maine, ac yn dweyd popeth ond oedd wir, am ei wlad yn ei pherthynas â'r Ddeddf Ataliol, yn methu ymatal rhag dweyd "y dymunai gywiro rhai camgymeriadau a glywsai yn y papurau a'r areithiau am Ddeddf Maine. 1. Dywedasiad y gellid gwerthu diod o wledydd tramor 'fel yr oedd wedi ei phacio gyntaf.' Nid ydyw hynny yn bod. Mae deddf ddiweddar y Congress yn cydnabod hynny yn hollol. 2. Dywedid fod y ddeddf yn fethiant, nad oedd yn cael ei gweinyddu na'i dal i fyny gan y bobl. Yr oedd pobl nad oeddynt wedi byw ym Maine ym dweyd peth felly yn gyffredin; ond âed unrihw yn sydd yn meddwl felly yno a cheisied werthu diod, ac fel newidiai ei feddwl yn bur fuan. Fel yr ydoedd efe wedi sylwi, ac yr ydoedd wedi cael cyfeusterau neillduol i wybod, y ffeithiau ydynt: yn y trefydd lleiaf a'r pentrefydd, nid oes dim diod yn cael ei gwerthu. Mae teimlad y bobl y fath fel y byddai cystal i ddyn ymgymeryd â bod yn lleidr pen ffordd â gwerthu diod feddwol. Mae plant yn tyfu i fyny yno *heb erioed ueled tafarn*. Ni ddywedai nad oedd neb yn yfed yn y cyfryw leoedd, oblegid gall dyn gael diod at ei wasanaeth personol trwy anfon i Dalaeth arall; ond fe edrychir ar y fath ddyn, er ei fod ar ystyriaethau ereill yn boblogaidd, ac feallai yn gyfoethog, fel yn cario dylanwad drwg, ac ni all ddisgwyl llanw swydd uchel yn y dref. Y mae sithriadau, ond dyna y rheol. Yn y dinasoedd, y mae pethau yn wahanol. Mae llawer sydd wedi dyfod o wledydd ereill—Ffrancod a Gwyddelod—heb ddim cydymdeimlad â'r Ddeddf;

ac yn ymdrechu ymhob ffordd i'w hosgoi; ac yn anffodus y mae rhai dineswyr brodorol yn eu cynorthwyo. A rhaid dweyd nad yw gwerthu mewn poteli, a siopau mewn strydoedd cefn, lle mae trwyth fileinig i'w chael, *wedi ei gwarantu i daro i lawr ar unwaith* bron, mewn un modd yn anadnabyddus, a dibynna eu nifer ar effeithiolrwydd y swyddogion. Yn awr y mae y nifer leiaf oll o'r cyfryw, a hynny o herwydd y Ddeddf newydd sydd yn gwneyd carchariad yn gosb am y *trosedd cymtaf*. Yn ninasoedd Portland a Lewiston—y rhai mwyaf yn y Dalaeth—ni fu y Ddeddf erioed yn cael ei chario allanystal, ac y mae yr anhawster i bwrcau diod feddwol yn fawr iawn. Y mae gweithgarwch cynhyddol dros yr holl Dalaeth, a phenderfyniad y caiff masnach y ddiod, er mor fechan ydyw, ei llwyr roddi i lawr. Nid wyf fi yn aelod o'r 'blaid Ddirwestol,' fel ei gelwir, nac yn 'weithiwr dros Ddirwest'; yn wir ni siaredais inewn cyfarfod Dirwestol ond unwaith yn fy oes, na'r pryd hynny ond yn unig i ateb yn broffeswriaethol gwestiynau am gymysgiad; ond ni allwn dewi pan wneid cyfeiriad—mewn cynhadledd yn Llundain—at fy Nhalaeth fy hun; canys yr wyf yn credu fod Deddf Maine yn ymgais gyfiawn a gonest i gyfarfod yr anhawster mawr o anghymedroldeb, ac wedi cyrraedd llwyddiant pell tu hwnt i grediniaeth gyffredin astudwyr deddfau iechyd."

Ni fyddai yn ormod yn ddiau i ni feddwl fod boneddigion o fath y rhai hyn yn gwybod hanes eu gwlad eu hunain yn llawnystal, a dweyd y lleiaf, â'r gwyr sydd yn gwibdeithio trwyddi o Loegr, ac yn dychwelyd i gyhoeddi wrth gorn gwlad nad ydyw Gwaharddiad ym Maine yn gwahardd. Y mae eu gallu, a'u cymeriad, a'u safle yn ddigon o foddlonrwydd am gywirdeb a gonestrwydd eu tystiolaethau. Ac y mae gennym gyflawnder o dystiolaethau o gyffelyb natur gan rai o'r wlad hon sydd wedi bod yn aros ym Maine, ac wedi cymeryd trafferth i chwilio i weithrediad ei Deddf Ataliol. Nid oes neb a amheuau allu nac a betrusai am onestrwydd Mr. W. S. Caine; ac ysgrifennai efe mewn erthygl o'i eiddo a ymddanghosodd fis Rhagfyr diweddfaf fel y canlyn:—"Yr oeddwn ym Maine ddeng mlynedd yn ol. Yr oedd y Consul Prydeinig ar y pryd, wedi gwneyd adroddiad ychydig cyn hynny fod y Ddeddf Ataliol yn Portland, i bob diben ymarferol, yn llythyren farw. Gelwais gydag ef. Sierhaodd fi y gallai fy nghymeryd i ddwsain o leocedd lle y gwerthid diod mewn cyflawnder. Dywedais yr awn gydag ef ar unwaith. Aethom. Cymerodd fi i'r hotel lle'r oeddwn i fy hun yn aros. Aethom i fyny trwy ddrws cefn, i lawr ryw risiau cerrig i fynedfa dywell mewn seler, ymhen draw yr hon y troisom i ystafell lle'r oedd bâr hir ac ansyber. Cerddodd y Consul yn hyf i fyny, a galwodd am lasiad o *lager beer*. Dywedodd y dyn oedd wrth y bâr yn barchus fod yn ddrwg ganddo nad allai ei roddi, am fod ei holl stoc wedi cael ei chymeryd y bore hwnnw, a dirwy drom wedi ei gosod arnynt. Dymunai y Consul arnaf fynd gydag ef i le arall; ond yr oeddwn i wedi cael fy moddioni. Yr oedd gwerthwyr diod wedi eu gyrru i'w tyllau fel llygod mawr, ac yr oedd yr awdurdodau wedi bod yn llwyddiannus i'w trapio."

A'r llynedd, yr oedd ein cydwladwr galluog a defnyddiol y Parch. Hugh Price Hughes, Llundain, yno, ac y mae ei dystiolaeth am a welodd o ddyddordeb tra mawr. Bydd yn dda gan ein darllenwyr weled ei eiriau. Dyma hwynt:—

Y mae Saeson sydd yn caru eu diod wedi ysgrifennu a dwyn adref y fath hanesion rhyfeddol am effaith Deddfau Gwaharddiadol yn America, fel yr oedd

yn dda iawn gennyf gael cyfleustra rhagluniaethol annisgwyladwy o ymweled â Phortland, yn Nhalaeth Maine, tref Gen. Neal Dow, prif orsaf y symudiad Gwaharddiadol yn yr Unol Dalaethau. Yr oedd fy nghwmni ar y daith, a minnau, yn cael ein synnu yn fawr gan brydferthwch rhyfeddol Portland. Gallasem fod ar lan ddeniadol y Canoldir, ar adeg brydferthaf y fiwyddyn. Y mae Portland yn ymdrochle hyfryd, gydag arfordir hardd, ac ynysoedd yn britho y mor, yr hwn, pan oeddym ni yno, oedd yn tawel olchi y lan. Ar y lan brydferth yma, lle yr oedd môr a thir yr un mor ddeniadol, y safai y ddinas decaf a welais erioed. Yr oedd yn gwbl rydd oddiwrth y gwrthuni a'r budreddi a welem ymhob man yn Lloegr. Ymddangosai pawb yn iach, llwyddiannus, a siriol. Fel yr elem trwy y ddinas, ni a deimlem ei bod gan mlynedd o flaen dim a welsem erioed yn Lloegr. Yn wir prin y meiddiem obeithio y byddai trefydd Seisnig ymhob can mlynedd mor rydd oddiwrth atfendig a thrueni ag ydyw Portland heddyw. Mae llawer o'r swyn yma, yn ddiameu, yn ddyledus i'w sefyllfa a'i hinsawdd hyfryd; ond mwy fyth ydyw effaith y feddyginiaeth drwyadl rhag meddwod a gymhwysodd Gen. Neal Dow lawer o fynyddoedd yn ol, a'r hon a wél yn awr yn ei holl nerth, mewn henaint tîrf o dair a phedwar ugain. Yn yr oed mawr yma y mae tad Gwaharddiad America yn llawn bywyd corfforol a meddyliol.

Er pan basiwyd Gwaharddiad ym Maine, nid ydyw y Siryddion bob amser wedi cario y Ddeddf allan yn egniol. Y maent weithiau wedi cau eu llygaid ar waith y di-egwyddor a'r drygionus yn ei hosgol. Ond hyd yn oed ar yr amseroedd gwaethaf, fe'n sicrhair na fu o gwbl ddim yfed agored, nac unrhyw demtasiwn agored i yfed. Y mae dynion difoes ac isel wedi gallu cael diod feddwol trwy ymostwng i bob math o driciau isel, ymlusgo o amgylch mewn selerydd tywyll, a gosod eu hunain, gyda mwy neu lai o lwyddiant, yn agored i gosbau y gyfraith. Ond os ydyw hynny i'w ystyried yn fethiant y gyfraith, rhaid i ni ddweyd fod y gyfraith yn erbyn lladrata yn fethiant yn Llundain, oblegid y mae miloedd o feibion a merched yn y ddinas hon yn barhaus, a rheolaidd, a phroffeswriaethol yn herio y gyfraith, yn ei hosgol, yn profi yn rhy gyfrwys i'r heddegdwaid, ac yn ysbeilio eu cyd-ddynion. Mae hyn yn wir i'r fath raddau fel y mae miloedd o honynt yn adnabyddus i heddegdwaid Llundain fel lladron a thal-dorwyr professedig, er mewn llawer o achosion fod yn anodd cael prawf cyfreithiol o'u gweithredoedd drwg. Eto y mae yn fantasia ein bod yn gwahardd lladrata a thorri tai. Pe diddymem y ddeddf waharddiadol yn erbyn lladrata am nad ydyw yn gwbl lwyddiannus ymhob achos neillduol, byddai Llundain yn amhrcswyladwy. Gallwn ddweyd fod y ddeddf yn erbyn masnach y ddiod bob amser wedi cael ei chario allan yn Portland o leiaf mor lwyddiannus ag y mae y ddeddf yn erbyn lladrad wedi cael ei chario allan yn Llundain; ond ei bod yn awr yn cael ei chario allan, ie yn fwy lwyddiannus nag y cariwn ni allan ein deddfau troseddol yma. Mae sirydd presennol Portland yn wr cydwybodol a w'yr pa fodd i wneyd ei ddyledswydd. Pan benodwyd ef i'w swydd daeth dirpwyaseth o wrth-Waharddwyr ato, i bwysio arno gario y Ddeddf allan "yn dyner." "Foneddigion," atebai, "mi a gymerais fy llw y bydd i mi weinyddu y deddfau hyn, ac yr wyf yn meddwl gwneyd fy nyledswydd." Y mae wedi cario allan y bwriad hwnnw. Yr wythnos cyn ein hymweliad ni â Phortland, rhoddwyd gwraig yng ngharchar am dair blynedd am werthu diod feddwol; yr oedd yn hen drosedd-wraig, ac wedi bod lawer gwaith o flaen y barnwyr am yr un trosedd, a dyna y rheswm am lymder cymhariaethol y ddeddfryd. Ar yr un achlysur, condemnwyd dau o'i pherthynasau, oeddynt yn cydweithredu â hi i dorri y gyfraith, i garchar am lai o amser.

Arhosem yn y brif hotel yn Portland, a hotel ardderchog ydoedd, deilwng o'i chymharu â'r sefydliadau palasaidd yn West End Llundain. Yr oedd yr ystafelloedd yn eang a gorwyc, yn cael eu goleuo â'r goleu trydanol, ac wedi eu cyflenwi â holl gyfleusterau gwareiddiad a gyddoniaeth. Ond nid oedd yr un diferyn o ddiod feddwol i'w weld yn yr hotel fawr a llawn honno. Yn hwyr y nos, meddyliodd un o'm cymdeithion y ceisiai wneyd arbrawf, ac aeth at yr hwn oedd yn edrych ar ei hol a dywedodd ei fod yn Sais, ac fod arno eisieu gwybod a fyddai yn bosibl iddo ryw ffordd gael ychydig o win. "Wel syr," ebe yntau, "mae'n bur ddrwg gennyf fethu eich boddhau, ond byddai y perygl yn ormod. Pe buaswn yn ceisio peth i chwi, byddai raid i mi dalu 100 o ddoleri (£20). Ni faliwn am hynny, ond cawn hefyd fy ngharcharu, ac ni allaf fynd dan y perygl o garchariad. Ni chaniateir i mi hyd yn oed i gael diod yn fy nhy. Mae gan yr heddegdwaid awdurdod i ddyfod yma neu i unrhyw dy arall, ac i gymeryd un-

rhyw ddiod feddwol a gânt yn unlla." Dywedodd y gallai fod chwech o leocedd yn y ddinas lle, dan berygl dirwy a charchariad, y gallai fod yn bosibl cael diod feddwol. Ond byddai raid i bwy bynnag a ddymunai ei chael gymeryd llawer iawn o drafferth, mynd allan o'i ffordd, gosod ei hun yn agored i ddarostyngiad a pherygl, a gosod unrhyw un a gydweithredai mewn torri y gyfraith yn agored i'r posibilrwydd o gael ei garcharu. —Yr wyf dan yr argraff nad oedd y rhai oedd yn barod i redeg y perygl o ddarpar diod yn Americanaid brodorol, ond yn estronaid. Fe'm tarawyd yn fawr iawn gan y ffaith fod y mwyafrif o werthwyr diod feddwol, hyd yn oed yn y Talaethau lle y mae trwyddedau yn cael eu caniatáu, yn Babyddion Gwyddelig. Oni bai am y boblogaeth dramor a Phabaidd, fe wnaï yr Americanaid, ymhob man, fyr waith ar fasnach y ddiod. Yr ymfudwyr dirywiedig o Ewrob sydd yn cadw yn ol oruchafiaeth y symudiad gwaharddiadol yn America.

Cawsom beth ymddiddan â gwahanol bersonau yn ninas Portland ynghylch y Ddeddf Waharddiadol. Datganai smryw o honynt y dymunent gael diod eu hunain, pe buasai yn bosibl; ond yr oedd hyd yn oed y rhai ag y buasai eu hawydd personol yn eu tueddu i beidio atal y fasnach, yn datgan yn y modd cryfaf na ddiddyment Ddeddf Gwaharddiad dan unrhyw amgylchiadau. Er bod ei pharhâd yn golygu peth aberth ar eu rhan hwy, teimlent fod yr ad-daliad yn llawer mwy na'r golled. Nid oes neb yn breuddwydio am ddiddymu Ddeddf Gwaharddiad. Mae rhai yn achlysurol yn siarad yn ei herbyn, fel yn ymyrraeth â'u hawydd a'u cyfleusterau hwy eu hunain; ond nid ydyw y syniad am wneyd i fwrdd â hi yn ymgynnyg i'w meddwl, yn fwy na'r syniad am wneyd i fwrdd â Phrawf trwy Reithwyr i feddwl Sais. Y mae prawf trwy reithwyr, fel Gwaharddiad, weithiau yn golygu anghyfleusterau personol; er hynny, y mae pawb o'i blaid. Felly y mae gyda Gwaharddiad. Y mae sefydliad cyhoeddus mawr yn Portland lle y mae digon o le i dywallt yr holl diod a gymerir yn y dref i'r môr. Dylwn ychwanegu y rhoddir nifer benodol o drwyddedau i gadw a gwerthu alcohol i ddiobenion fferyllol a meddyginiaethol a gwyddonol; ond gyda'r eithriadau amlwg hyn, y mae diod feddwol yn gwbl waharddedig. Nid oes gan neb un hawl i'w chael yn ei dŷ, ac y mae gan yr heddegidwaid, fel y dywedais, allu i fynd i mewn a'i chymeryd. Gallai hyn oll ymddangos yn ofnadwy iawn i feddyliau pobl Ewrob; ond fy argraff yw y byddai i unrhyw ddyw a ymwelai â Phortland yn Nhalaeth Maine, yn hawdd gael y goreu ar y teimlad o draws-arglwyddiaeth y mae y fath feithiau ar y dechreu yn awgrymu. Cymerwch ddim ond un ffaith. Yn Nhalaeth New York, a chau allan ddinas New York, mae nifer y troseddwyr yn un am bob pum cant o'r boblogaeth. Pe cymerid dinas New York i mewn, fe fyddai y cyfartaledd yn llawer iawn mwy. Ond a gadael dinas New York allan, ac felly roddi i'r Dalaeth y fantais fawr yna, ni gawn y cyfartaledd a enwyd. Ar y llaw arall, y nifer yn Nhalaeth Maine ydyw un am bob 1,600, llai o'r drydedd ran. Ac nid yw Gwaharddiad ym Maine yn chwaneu y marwolaethau; o'r ochr arall, y mae yn dra gwasanaethgar i iechyd yn gystal ag i lwyddiant cymdeithasol y bobl. Ni welais i erioed ddinas mor brydferth, mor iach, ac mor lwyddiannus â phrif orsaf Gwaharddiad. Dim cardotiaid hanner noethion yn y strydoedd; dim plant llwydion a newynog; dim meddwon yn honcian; dim cyrtiau budron; dim gwaith i'r heddegidwaid; ymddangosai bron fel pe buasem wedi myned i fyd arall. Mae yr holl ennill mawr yma wedi ei gael trwy yr aberthiad bychan o ddiod gref. Pa fodd y gall neb sydd yn profesu caru ei gydgreuduriaid, heb son dim am grefydd, betruso gwneyd yr aberthiad distadl hwnnw o hunan-fodddhad corfforol, nid wyf fi yn gallu dychmygu. Mae yn dda iawn gennyf gael y cyfleustra hwn i ddwyn fy nhystiolaeth bersonol gref i effeithiolrwydd a bendith Gwaharddiad.

Yn ddiweddarach gwelsom adroddiad ynglyn â chofrestriad,—"census bulletin,"—a gyhoeddwyd ym Maine, yr hwn a ddanghosai fod gwerth meddiannau, *real estate*, yn y Dalaeth, yn y deng mlynedd o 1880 i 1890, wedi dyfod yn fwy o £12,000,000,—cynnydd o 35 y cant; a bod gwerth eiddo personol, *personal property*, yn yr un cyfnod, wedi dyfod yn fwy o £12,000,000,—cynnydd o 21 y cant. Mae y ffigurau mawrion hyn yn siarad cyfrolau am y Dalaeth sydd wedi cael y synwyr a'r gwroldeb i ysgwyd ymaith y "fasnach ddieflig a dinystriol"—a ddefnyddio geiriau Arglwydd Randolph Churchill—mewn diodydd meddwol.

Ar un olwg, fe allai ymddangos bron fel pentyrru mynyddoedd, i ychwanegu dim at brofion sydd mor ddiameheul gedyrn am lwyddiant deddfwriaeth ataliol ym Maine. Ond gan fod yr arbrawf a wnaed yn y Dalaeth honno mor ryfeddol o bwysig, a bod y fath ymdrechion yn cael eu gwneyd i lanw y byd ag anwireddau mewn perthynas iddi,—dywedai Syr Wilfrid Lawson y dydd o'r blaen y dywedai gweinidog o America, oedd yn ddiweddar yn y wlad hon, "nad oedd y byd a'r cnawd a'r diafol erioed wedi dweyd cynifer o gelwyddau am ddim ag am Waharddiad Masnach y Ddioid,"—fe'n tueddir i ychwanegu un dystiol-aeth dra phwysig o eiddo boneddiges Seisnig sydd newydd ddychwelyd oddiyno, yr Arglwyddes Henry Somerset—boneddiges ag y mae ei chymeriad uchel, ei gallu, a'i hymgysegriad ardderchog i geisio dyrchafu y rhai sydd dan ormes y ddioid mor adnabyddus ar y naill ochr a'r llall i fôr y Werydd. Fel yma y dywedai wrth gydnabod derbyniad tra chroesawus a roddid iddi ar ei dychweliad mewn cyfarfod cyhoeddus mawr a gynhaliwyd yn Liverpool:—

Os ydwyf yn America wedi dysgu llawer, yr ydwyf hefyd wedi dyfod i'r penderfyniad y rhaid i ni, mewn trefn i wybod rhywbeth am fater, fyned ac ymofyn drosom ein hunain. Fe ddywedwyd wrthyf fod Gwaharddiad yn fethiant. Mi aethum i Maine i ymofyn i wirtonedd hynny drosaf fy hun. Lawer o flynyddoedd yn ol, pan yn ddim ond geneth, mi dderbyniais, yr wyf yn cofio, oddiwrth fy nhâd lythyr yn dweyd wrthyf fod Longfellow yn dyfod i ymweld â ni, a chan na byddai fy nhad adref fy mod i'w groesawu. Gan nad oeddwn yn ddim ond geneth, ac heb fy nghymeryd i gymdeithas, yr wyf yn addef fy mod beth yn ofnus. Wel, fe ddaeth yr hen wr anwyl, gyda'i wyneb ardderchog a'i ffyrdd serchog, caredig, ac y mae byth wedi byw yn fy nghalon fel côf prydfreth. Pan aethum i Portland meddyliais y buaswn yn hoffi mynd i weld y fan lle yr oedd yn byw. Ond mi aethum, nid yn unig i weled cartref Longfellow, gyda'i holl enwogrwydd llenyddol a'i ddylanwad ymhlith dynion, ond i weled ac i aros yng nghartref y Henwr Ardderchog hwnnw o America, General Neal Dow. Mi deimlais fy mod yno yng nghalon y cwestiwn hwn. Danghosodd General Neal Dow i mi gogolofn Longfellow; ond meddyliwn mai Portland, gyda'i heolydd disglair, yn y rhai nid oedd y ffenestri goleu sydd yn dweyd am droseddau a thrueni; Portland, gyda'i thrigolion yn ddedwydd a llwyddiannus, oedd yr unig gogolofn oedd yn eisieu i enwogrwydd y General. Dywedodd yr awdurdodau wrthyf eu bod ers tri mis wedi bod yn cadw y ddioid a gymerasant, fel y gallwn i weled ei thywallt i lawr y ceuffosydd. Ni allaf byth anghosio yr olygfa pan aethum i lawr i selerydd Neuadd y Dref. Yr oedd yno farilau wedi eu nodi fel rhai siwgr, yn cynnwys fflasgiau oeddnt i fynd o boced i boced. Yr oedd yno diniau wedi eu nodi fel tiniau laeth, a llestri olew, a phob dyfais allai cywreinerwydd dynol awgrymu, er mwyn smygio y peth yma i'r Dalaeth. Meddyliwn fod hyn, o leiaf, yn dystiolaeth pa un oedd Gwaharddiad wedi methu ai peidio. Y mae galw Gwaharddiad yn fethiant ym Maine, yr un peth a datgan fod cyfreithiau yn fethiant am fod eto ladron. Mi welais weithiad ymarferol y ddeddf pan ymwelais â'r carchar. Mi welais werthwyr y ddioid yno. Os ewch i'r cwestiwn hwn o ddirif, nid oes un radd o amheuseth am lwyddiant dirfawr Deddf Gwaharddiad yn America. Y mae llwyddiant rhanbarthau gwledig Maine yn siarad drosto ei hun. Ewch i un o ysgolion cyffredin Maine, a gofynwch i'r plant a welson nhw erioed ddyn meddw? Nid oes dim un llaw a godir i'fyny. Ond pan ddychwelais drachefn, ac y glaniais o'r *Teutonic*, ac yr aethum i ystrydoedd Liverpool, meddyliwn, gwyn fyf gan Dduw na fyddai rhywbeth tebyg yma. Mae y plant bychain carpiog sydd yn tyfu, yn waeth na phaganïad, y merchod truncus, y darostyngiad sydd ar gynyfer o wynebau, yn dweyd chwedl am y ddinas ryfeddol a llwyddiannus hon â pha un yr ydym yn rhy gynhefn. Y mae Gwaharddiad yn Kansas, ac ymhob man yn y Dalaeth honno y mae pobl siroli a llwyddiannus, sy'n rhydd i fwynhau y rhoddion da y mae Duw wedi dywallt ar y wlad freintiedig a dedwydd honno. Ond pan edrychwn ar yr holl drueni a'r darostyngiad sydd o'n hamgylch yma, pan welwn wronïad fel y Parch. Charles Garrett, a ddygasant bwys a gwres y frwydr

ofnadwy hon, gallwn ofyn i ni ein hunain pam, ar ol y fath ymdrech ysblennydd, pan y mae traed cynifer wedi gadael eu marciau ar dywod amser, gyda'r fath gymdeithasau ag sydd gennym ar waith, pan y mae dynion wedi myned ymaith oddiwrthym fel y diweddar Gardinal Manning, pan y mae cynifer sydd mewn gwahanol ffordd a chyda gwahanol olygiadau, yn ymestyn at yr un amcan mawr—pam y mae masnach y ddiod yma heddyw bron mor nerthol ac ofnadwy ag y bu erioed? Beth yw y feddygriaeth? Deddfwriaeth yw y feddygriaeth. Nes yr awn at wraidd y cwestiwn yma, nes y dilynwn yr holl drueni yma i fyny i'r ffynhonnell o ba un y tardda, nes y byddwn barod i roddi terfyn bythol ar yr hyn sy'n cynhyrchu y tlodi a'r trueni sydd mor helaeth yn ein gwlad; ni allwn atal y llifeiriant.

Mewn anerchiad arall dywedai yr un foneddiges ragorol nad oedd ym Maine, allan o boblogaeth o 50,000, wedi cael ond 90 yng ngharchar, a bod y drydedd ran o'r 90 hynny wedi eu carcharu am werthu diod feddwol!

Buasai yn hawdd chwanegu lliaws o dystiolaethau cyffelyb am y Talaethau Gwaharddiadol ereill. Rhoddwn un, yn unig, am Kansas. A chan mai iawn ydyw dysgu hyd yn oed gan elyn—“*fas est et ab hoste doceri*”—ac, yn wir, yn enwedig gan elyn, ni a gymerwn y dystiolaeth am Kansas o enau golygydd y *New York Times*, papur sydd yn wrthwynebol i Waharddiad:—“Y mae yn y dinasoedd a'r trefydd filoedd o fechgyn un ar bymtheg oed na welsant dafarn erioed, ac na wyddant ond trwy glywed i beth y maent yn debyg. Y mae yn ffaith fod y teimlad cyhoeddus yn gyffredinol o blaid y Ddeddf Waharddiadol, tra nad ydyw ond mewn ychydig fannau o blaid y dafarn. . . . Mae gwerthu diod, fel rheol, mor llechwraidd â lladrad, gyda chymaint o ofn y canlyniad os daw y peth i'r golwg.” Mae'n ddiameu nad oedd Syr Wilfrid Lawson yn mynd yn rhy bell pan ddywedai yn yr araeth ragorol a draddododd yn ddiweddar o flaen efrydwy'r Rhydychain yn yr *Union*: “Yr wyf yn meddwl y gallaf ddweyd, lle bynnag yn America y mae Gwaharddiad wedi ei brofi a'i gario allan—nid lle bynnag y mae wedi ei osod ar y Deddf Lyfrau ac heb ei gario allan; mae hynny yn beth tra gwahanol—ond lle bynnag y mae wedi ei brofi a'i gario allan yn onest gan yr awdurdodau, y mae wedi bod yn llwyddiant cyflawn a diamheuol.”

Mae'n ddiameu fod dynion drwg a dynion bârus yn torri y deddfau hyn. Ac fel y sylwa Mr. Price Hughes, nid ydyw, yn sicr, yn beth anghyffredin fod deddfau ein gwlad ni ein hunain yn cael eu torri. Dywedai yr hen bobl dda, Na wnaed deddf erioed ym Mhrydain nad â'i tarw rhuthrog trwyddi. Ond nid oes neb, o herwydd hynny, a freuddwydiai am wneyd i ffwrdd â deddfau, a gadael i ddrygioni gael ei rwyg nes gwneyd byw mewn gwlad yn amhosibl. Mae y torri sydd ar ddeddfau ataliol masnach y ddiod, mae'n ddiâu, yn beth blin, ie ac yn beth alaethus; ond nid ydyw i'w gymharu am drawiad amrant â'r melliethion sydd yn dyfod ar wledydd pan mae y fasnach andwyol hon yn cael ei llawn rwyg! Ac yn ddiameu y mae “adnoddau gwareiddiad,” bellach, yn ddigon i gadw gwastrodedd ar ddyhirod a fyynnant droseddu y deddfau hynny, yn gystal â deddfau ereill. Y mae yn hyfryd gweled hefyd mai yng nghyfeiriad gweinyddiad mwy effeithiol o'r deddfau hyn y mae pethau yn ymsymud. Heb son am yr hyn a wnaed mewn ffordd o atal masnach y ddiod yn y deyrnas hon,—ac y mae yn llawer,—y mae y profiad helaeth a gwerthfawr a gaed yng ngwlad fawr y Gorllewin yn dangos yn amlwg nad oes angen i ni betruso myned lawer pellach ymlaen yma hefyd yn yr un cyfeiriad. A hynny yn fwy o gymaint ag

nad oes neb yn y deyrnas hon yn cynnyg dadleu dros Waharddiad, ond yn unig dros *Ddewisiad Lleol*. Os byddwn ni yma, fel cynifer o'n ceraint y tu draw i'r Werydd, ar ol cael profiad mor hapus o weithredu felly, yn dymuno perffeithio ein gwaredigaeth trwy wneyd ein Dewisiad Lleol yn Waharddiad,—fe, trwy “Ddeodd Gyfansoddiadol,” a hyd byth bythoedd,—ni fydd dim yn neddfau y bydysawd yn erbyn hynny. Ond yn sicr nid oes dim yn awr yn erbyn gadael i *ddwy ran o dair* o drethdalwyr tref, plwyf, neu ranbarth, gael penderfynu pa un a ydyw masnach ag y mae ei pherygl a'i drygioni mor anfesurrol fwy na dim lles a all ddeillio oddiwrthi, i gael ei goddef i barhau yn eu plith. Ac yn enwedig yng Nghymru, lle y mae dymuniad mor gryf ac mor gyffredinol am gael gwared o honi, a hwnnw ymhob man yn cael ei deimlo ddyfnaf gan y rhai ag y mae hualau chwant y ddiod wedi ymgau am danynt yn fwyaf tyn. Nid oes ond pump allan o'r 34 sydd yn cynrychioli Cymru—gan gynnwys Sir Fynwy—yn y Senedd, nad ydynt yn deall hyu; ac y mae yr un peth yn wir i fesur tra helaeth am ein hymgeiswyr sydd yn dyfod ymlaen yn yr Etholiad Cyffredinol sydd wrth y drws. Gwelsom fod 400 o'r ymgeiswyr am aelodaeth Seneddol sydd yn y deyrnas hon yn awr yn bleidiol i Ddewisiad Lleol,—380 yn Rhyddfrydwyr, 10 yn Undebwyr, 8 na wyddys yn iawn beth, a 2 yn Doriaid. Gofaled y Cymry mwynion ymhob man nad elo yr Etholiad hwn heibio heb i'r *oll* o'r boneddigion parchus a ddyment gael yr anrhydedd o'u cynrychioli, ddeall fod eu teimlad ar y mater yma yn rhy ddwfn iddynt ei ddiystyru, ac yn rhy gysegredig iddynt feddwl am gellwair ag ef!

DANIEL ROWLANDS.

Y GRAIG SYDD UWCH.

“Arwain fi i graig a fyddo uwch na mi.”—SALM LXI. 2.

DAN faich o bryder odrist, f'enaid gwyw
Ymwyr; a gelynlion yn ymroi
I'm herbyn : minnau'n dru, heb fan i ffoi,
“O citha'r ddaear,” waeddaf, O fy Nuw,
Am “Graig sydd uwch.”

“Eu sail sydd yn y pridd.” Er hynny serth,
Ac uchel ydyw creigiau'r ddaear hon,—
Golud, anrhydedd, a mwynderau llon;
Ond y mae craig ar sylfaen dwyfol nerth—
Y “Graig sydd uwch.”

Is yw y rhai'n, er uched, na myfi,
I lawr y rhaid i'm edrych arnynt hwy;
Yr wyf fy hun, na'r un, na'r *oll*, yn fwy:
O, arwain fi i graig sydd uwch na mi,
Sydd uwch na mi!

Hiraetha'm calon am y Gwyn a'r Gwell,
Y Diderfynol a'r Diddiwedd Mawr;
Ochneidia'm henaid am Dragwyddol Wawr,
Gruddfanna'm hysbryd am y Pur a'r Pell,
A'r “Graig sydd uwch”!

Ymholi ac ymchwilio am dani'n syn
 Bu cenedlaethau yn y niwl, nes daeth
 Yr Haul i'w wasgar; yna cilio wnaeth,
 A gwelwn ei godreun erbyn hyn—
 “Y Graig sydd uwch.”

Y Graig sydd uwch na thymestl, gelyn, braw,
 O am gael llechu yn ei chysgod hi,
 A dringo ei hystlysau talgryf fry,
 Gan deimlo dylanwadau'r “byd a ddaw,”
 A'r “Graig sydd uwch.”

Wrth ddringo gwaedaf fel gwnaeth Iesu mawr,—
 Mae'r llwybr wedi ei ruddo gan ei waed;
 O gam i gam dilynaf ol ei draed,
 Nes cael fy hun ymhell goruwch y llawr,
 Ar “Graig sydd uwch.”

Ac O! olygfa heb ei bath erioed!
 Ymegyr o fy mlaen gyfandir gwyrdd
 Cyfoethog o nef-swynion fil a myrdd,
 A môr didrai yn golchi grisial droed
 “Y Graig sydd uwch”!

Gweld “afon ei hyfrydwch” Ef ei Hun,
 Afon ei Gariad, a phob ton yn râs,—
 Ac yn ei dyfroedd araf, gloew, glas,
 Caf weled dwyfol Haul yn tynnu llun
 “Y Graig sydd uwch.”

Fy enaid nerthol byth ni theimla'n fiin,
 Mi ddringaf byth—heb lithro, sicr yw,
 Mi ddringaf byth—*pob cam yn nes at Dduw*,—
 A chanaf nes adseinia'r Graig ei Hun,—
 “Y GRAIG SYDD UWCH.”

Prifysgol Gogledd Cymru.

J. GRUFFYDD HUGHES.

AMDDIFFYNIAD YR EGLWYS.

Daw yn fwy amlwg o ddydd i ddydd, fel y neshâ adeg yr Etholiad Cyffredinol, mai pwnc yr Eglwys fydd prif, os nad unig bwnc yr ymgyrch yng Nghymru. Nid o fodd caredigion y Sefydliad y bydd felly ychwaith. Ceisiant hwy gymysgu pethau trwy osod pynciau ereill, megys pwnc yr Iwerddon, pwnc y Mân Dyddynod, pwnc Oriau Llafur, pwnc y Blwydd-daliadau, pwnc y Cregin Gleision, a'r cyffelyb yn y ffyrnt. Mae o'm blaen yn awr Anerchiad Etholiadol Ymgeisydd Ceidwadol, lle y tefir pwnc yr Eglwys heibio gydag un paragraff byr. “Y mae pwnc y Dadgysylltiad a'r Dadwaddoliad,” meddai, “yn ymwithio ymlaen, ond gellir bod yn dra sicr na phenderfynir ef yn y Senedd nesaf.” Ac wedi brawddeg arall yn camddarlunio amcanion Datgysylltwyr, â yr Ymgeisydd ymlaen i sylwi ar “bynciau ereill o fwy pwys o lawer.” Ond tra

yn cydsynio yn galonnog â Rhaglen Newcastle yn ei holl adrannau, y mae arweinwyr y blaid Ryddfrydol Gymreig yn benderfynol o roddi Rhyddid a Chydraddoldeb Crefyddol ymlaenaf,—yn wir wrtho ei hun, ar ben y rhestr, ac am fynnu cael datganiad clir a diamwys gan y genedl Gymreig, pa un a ydyw yn awyddus neu beidio i gario Sefydliad Gwladol o Grefydd ar ei hysgwyddau yn hwy. Er fod Cymru wedi datgan ei barn ar y pwnc ymhob Etholiad er 1868, eto ymysg nifer o bynciau ereill y gosodid ef. Ni roddwyd iddo yr arbenigrwydd yr oedd ei bwysigrwydd yn ei hawlio. Y tro nesaf bydd yn wahanol. Cyn yr â mis arall heibio, bydd y ddedfryd wedi ei rhoddi naill ai o blaid neu yn erbyn yr Eglwys yng Nghymru. Nid i mi y perthyn rhagfynegu beth fydd y ddedfryd honno, ond teimlaf yn gwbl argyhoeddedig mai yn ol canlyniad yr etholiad hwn y sicheir neu y diddymir Crefydd Sefydledig yn fy ngwlad.

Er yn ceisio cymysgu pethau, nid yw pleidwyr y Sefydliad heb wneyd eu goreu i'w amddiffyn ar yr un pryd, ac yn yr amgylchiadau presennol nid annyddorol nac anfuiddiol fyddai galw sylw darllenwyr y TRAEETH-ODYDD at yr hyn sydd ganddynt i'w ddywedyd drosto. Rhai o'r prif resymau a ddygir ymlaen o blaid Datgysylltiad ydynt:—

1. Fod yr Eglwys yn Eglwys estronol yng Nghymru.
2. Fod ei chenhadaeth wedi bod yn fethiant.
3. Ei bod yn atalfa ac yn rwystr i lwyddiant crefydd yn y wlad.
4. Fod y cyllid a berthyn iddi yn eiddo yr holl genedl, ac y byddai yn gyfiawn ac yn llawer mwy buddiol ei gymhwyso at ddibenion cenedl-aethol.

Dyna y prif gyhuddiadau yn erbyn y Sefydliad yng Nghymru. Yr wyf wedi nodi yn unig y pethau sy'n dal cysylltiad arbennig ac union-gyrchol â'r genedl Gymreig. Nid wyf wedi crybwyll o gwbl yr egwyddorion sy'n gymhwysiadol at grefydd Sefydledig ymhob gwlad, ac ymhllith pob cenedl. Crêd Ymneillduwyr fod cysylltu crefydd a gwlad-wriaeth yn anysgrhythrol ac anghyfiawn, yn caethiwo ar ryddid yr eglwys, ac yn ormes ar y deiliaid; a bod cynnal crefydd trwy dreth orfodol yn hollol groes i ddysgeidiaeth bendant y Testament Newydd. Ond nid pwnc y ddadl yn awr yw, A ydyw crefydd Sefydledig yn Ysgrhythrol, yn gyfiawn, yn fanteisiol, ac yn angenrheidiol mewn rhyw wlad ac o dan rhyw amgylchiadau; ond A ydyw yn Ysgrhythrol, yn gyfiawn, yn fanteisiol, ac yn angenrheidiol yng Nghymru, ac o dan yr amgylchiadau presennol. Ofer i Eglwyswyr ddadleu mai yr un peth yw y naill a'r llall. Os yw yn iawn, meddant, datgysylltu yng Nghymru, y mae yn iawn datgysylltu yn Lloegr hefyd, a phaham nad ewch i mewn am fesur cyfiawn? Ond y mae amgylchiadau yn wahanol mewn gwahanol wledydd a thalaethau, ac y mae y trefniadau yn wahanol, neu o leiaf dylent fod yn wahanol i gyfateb i'r amgylchiadau. Mae yr hyn sydd yn ysgrhythrol a chyfiawn tuag at blentyn dan oed, yn anysgrhythrol ac anghyfiawn tuag ato wedi y cyrhaeddo oedran gwr. Mae yr hyn sydd yn fanteisiol ac angenrheidiol ymysg cenedl anwareiddiedig, yn anfanteisiol a dianghenraid ymysg pobl oleuedig a diwylliedig. Deallr nad wyf o gwbl yn addef mai amgylchiadau a ddylent benderfynu y cwestiwn, Pa un a oes crefydd Sefydledig i fod mewn gwlad ai peidio; ond galw sylw yr ydwyf at y gwahaniaeth rhwng crefydd Sefydledig o dan rhyw amgylchiadau, a chrefydd Sefydledig o dan bob amgylchiadau.

Nid yw Eglwyswyr yn eu hamddiffyniad i'r Sefydliad yn talu ond ychydig iawn o sylw i'r gwahaniaeth hwn, o leiaf anwybyddant ef yn eu hysgrifeniadau a'u hareithiau. Ymdrinant ag Ysgrhythroldeb a chyfiawnder a buddioldeb cyffredinol crefydd wladol, gan guddio o'r golwg neillduolrwydd y sefyllfa yng Nghymru. Digon o atebiad yw crybwyll nad oes odid neb o honynt yn dadleu dros ail ffurfio y cysylltiad yn Unol Dalaethau America, yn y Trefedigaethau, nac hyd yn oed yn yr Iwerddon; ac eto ar dir cyffredinol fel yna y ceisiant ddal i fyny y Sefydliad yng Nghymru. Ai ofn gwynebu y neillduol sydd arnynt? Fel pwnc neillduol a chenedlaethol y daw o flaen yr etholwyr, ac ofer fydd ceisio dallu y wlad trwy ei ddal i fyny fel rhan o bwnc ehangach a chyd-wladwriaethol.

Eu hunig atebiad i'r cyhuddiad fod yr Eglwys yn Eglwys Estronol, ydyw honni ei bod yn barhad o'r hen Eglwys Brydeinig. Ond y mae dau beth yn angeuol i'w dadl. Yn un peth, collwyd yr hen Eglwys Brydeinig yn llwyr am ganrifoedd yng nghanllif Pabyddiaeth; a hoffwn wybod pwy all olrhain y ffrwd loew drwy fudreddi pump neu saith canrif. Ac heblaw hynny, tybiaeth yn unig, a thybiaeth heb ddim tystiolaeth i'w chadarnhau, yw yr honiad mai Esgobaethol ydoedd yr Eglwys Brydeinig. Mor bell ag y mae tystiolaeth i'w chael, tystiolaeth i'r gwrthwyneb ydyw, tystiolaeth mai math o Henaduriaeth Gynulleidfaol ydoedd y ffurf-lywodraeth Eglwysig a flodeuai yn yr Ynys hon yn y cyfnod Cristionogol cyntaf. Yn ol lliaws o awdurdodau y gellir dibynnu mwyaf arnynt, Awstin, y Mynach Pabaidd, ddaeth ag Esgobaeth i Brydain gyntaf. Yn raddol enillodd y gyfundrefn honno yr holl Ynys. Daliodd Cymru allan yn hwy na'r un ran arall, oddigerth gorllewin a gogledd yr Alban. Ond bu raid i'r holl wlad ildio. Ni w'yr hanesiaeth Brydeinig resymol am Eglwys Esgobaethol, oddieithr yr un Babaidd, hyd ddyddiau Harri'r Wythfed. Yn wir pe byddai yn werth dadleu y cwestiwn, A oes yn y deyrnas hon barhad o'r hen Eglwys Brydeinig, fe ddanghosai y dystiolaeth gryfaf mai yn Ymneillduath Cymru ac Ysgotland y mae y parhad hwnnw. Ond gellir bod yn dra sicr mai nid ar bwyntiau hynafiaethol y penderfynir tynged y Sefydliad.

I'r cyhuddiad fod Eglwys Loegr wedi bod yn Fethiant yng Nghymru, ceisia ei charedigion roddi atebiad hawddach cymeryd gafael ynddo. Cydnabyddiaeth y rhan fwyaf o honynt mai methiant a fu hyd o fewn llai na deng mlynedd ar hugain yn ol, ond ei bod yn llwyddiant mawr y blynyddoedd diweddfaf. Gadawer i ni weled. Cymerwn yn ganiatäol fod y Sefydliad wedi ei osod i fyny i'r diben o oleuo a hyfforddi y bobl mewn pethau moesol ac ysbrydol; y ffiordd oreu i weled a lwyddodd yn ei amcan yw edrych pa beth yw sefyllfa a chyflwr y wlad sydd wedi cael ei wasanaeth. Rhag i neb gymeryd achlysur i'n cyhuddo o wneyd cam â hi, caiff y newyddiadur Eglwysig a Thoriaidd, y *Times*, ddwyn tystiolaeth. Mewn erthygl a ymddanghosodd yng ngholofnau y newyddiadur hwnnw yn ddiweddar, dyma fel y disgrifir Cymru:—"Gwlad dywell, y bobl yn orenwog am anwybodaeth dybryd a rhagfarn gwallgof, y wasg yn anfoesgar a chableddus, yn anfon allan erthyglau llawn o dân cyffröadol, ac yn cael eu harwain gan bregethwyr nas gellir eu galw yn angen na dysgawdwyr diegwyddor." Sylwer, y mae y Sefydliad wedi bod yng Nghymru er dyddiau Harri'r Wythfed, wedi rhannu y Dywysogaeth yn fan blwyfi, wedi gosod boneddwr dysgedig a Christionogol ymhob plwyf, ac wedi rhoddi i'r boneddigion hyn cydrhyngddynt, ryw

£300,000 bob blwyddyn. Ac eto ymhen 350 o flynyddoedd, y mae y wlad yn dywell, y bobl yn anwybodus a rhagfarnllyd, y wasg yn gabledus a chyffrôadol, a'r cyfan yn cael eu llywodraethu gan ddysgawdwyr diegwyddor. Pa angen am dystiolaeth arall fod y Sefydliad yn gwbl anghydnaws ag anianawd y genedl Gymreig? A glywyd erioed addefiad o fethiant mor druenus? Gyda'r ganfed ran o'r manteision, y cyfoeth, y dylanwad, a'r amser a gafodd yr Eglwys Sefydledig, galleisid disgwyl iddi wneyd gwell gwaith na hyn!

Cymer Eglwyswyr arnynt eu bod yn anfoddlon iawn i'r pwnc o lwyddiant neu afwyddiant y Sefydliad, gael ei benderfynu yn ol nifer yr addolwyr yn y llannau; ac eto ar yr un gwynt haera Esgob a Deon Llandwyllog fod yr Eglwys yn meddu hawl i gyfrif yn ymyl 50 y cant o drigolion Cymru ymysg ei deiliaid. Mynnant nad yw yn deg cyfrif heb roddi rhybudd o hynny, am fod cynifer o bobl esgeulus yn y wlad na throant i fyny heb rybudd arbennig. Y mae yn ymddangos fod chwip yn un o hanfodion sefydliad gwladol, pa un bynnag ai Seneddol ai Eglwysig. Ond ai ni ellid tybied fod esgeulustra yn debyg o effeithio yr un fath ar y cynulladau yn yr addolcái Ymneillduol? Os nad ellid, carwn wybod paham? Ai nid yw ein cyfeillion yn gweled fod y ddadl hon yn gyfystyr ag addefiad fod yr Ymneillduwyr yn well am fynychu eu haddoldai na'r Eglwyswyr? Ac onid yw hynny, drachefn, yn profi yr hyn a honnir gennym, fod y Sefydliad yn fethiant fel Sefydliad crefyddol? Yn sicr, y mae rhywbeth allan o le yn y gyfundrefn nas gall sicrhau presenoldeb ei phroffeswyr yn y gwasanaeth. Ymha Esgobaeth yng Nghymru y mae nifer y rhai a bresenolant eu hunain yn y gwasanaeth o Galan i Galan yn 15 y cant o'r boblogaeth? Ni chyrrhaeddant hynny yn Esgobaethau Llandwyllog a Llandáf, lle y mae yr Eglwys gryfaf; ac ni chyrrhaeddant 7 y cant yn Esgobaethau Bangor a Thyddewi. Nid oes ynom unrhyw awydd i ymfawrhau uwchben tloedi a noethder yr Eglwys, ond ofer iddi feddwl hawlio fel ei defaid y rhai nad ydynt i'w gweled un amser o fewn ei chorlannau.

Tra gyda matei yr ystadegau yma, y mae yn werth gosod ar gôf a chadw ffaith neu ddwy ynglyn â'r Cymry sydd yn byw tu allan i'w gwlad eu hunain. Ar yr 17eg o Hydref diweddaf, cymerodd y *Liverpool Daily Post* gyfrif o'r addolwyr yn yr holl addoldai o fewn terfynau y ddinas honno. Caed fod yno 2 Eglwys Esgobaethol Gymreig, a 23 o Gapeli Ymneillduol Gymreig. Yr oedd yn bresennol yn yr Eglwysi Gymreig y bore Saboth a nodwyd 71, yn y Capeli Ymneillduol Gymreig 4,430—mwy na 62 am bob 1. Gwnaed y cyfrif hwn heb fod neb yn gwybod ymlaen llaw ei fod i gymeryd lle. Cymerodd y *Cymro* gyfrif yn fwy diweddar, ac yn ol y cyfrif hwnnw, rhifai yr Eglwyswyr gryn lawer yn ychwaneg. Ond cafodd Ebrwyad yr Eglwys Gymraeg, ac efe yn unig, wybod rywfodd am y cyfrif hwnnw ymlaen llaw, ac anfonodd chwip allan, fel mai cyfrif y *Daily Post* yw yr un teg i fyned yn ei ol. Yn Unol Dalaethau America ceir cynifer a 469 o Gapelau Ymneillduol Gymreig, ond *dim un* Eglwys Esgobaethol Gymreig. Adeiladwyd dwy yno flynyddau yn ol, ond bu raid eu gwerthu i'r Cynulleidföolwyr, am nad oedd arian i'w gorffien. Y mae y ddwy ffaith hyn ynglyn â'n cydwladwyr yn Liverpool ac America, yn profi un o dri pheth: naïll ai fod mwyafrif aruthrol o bobl Cymru yng Nghymru yn Ymneillduwyr; neu fod personiaid yr Eglwys Sefydledig yng Nghymru yn gwneyd eu gwaith mor druenus o sâl fel y mae y bobl

yn cael digon ar yr Eglwys gartref, ac yn brysio i fyned yn Ymneillduwyr unwaith yr ant allan o'r terfynau; neu ynte, fod rhyw ddylanwad ar waith i ddiwreiddio Ymneillduaeth yng Nghymru a gyrru Ymneillduwyr allan o'r tir.

Dadleuir, yn enwedig gan swyddogion Eglwys Gadeiriol Llanelwys a Llandaf, fod yr Eglwys yn ennill tir yn brysur, a bod y gwahanol enwadau yn sefyll yn eu hunfan, os nad yn myned yn ol. Cyhoeldwyd fod lliaws o weinidogion Ymneillduol enwog yn curo yn barhaas am dderbyniad i'r gorlan Esgobol. Er gwneyd cais atynt eilwaith a thrachefn, gwrthodant roddi enwau y personau hyn, ac hyd nes y boddlonant i wneyd hynny y mae gan bob dyn hawl i ffurfio a choledd y syniad a fyuno am gywirdeb eu dywediadau. Nid yw yr honiad fod yr enwadau Ymneillduol yn colli tir yn wirionedd beth bynnag. Nid ydynt ychwaith yn aros yn eu hunfan. O 1886 hyd 1890, cynhyddodd y Cymunwyr perthynol i'r Methodistiaid Calffaidd 6,593. O 1882 hyd 1890, cynhyddodd y Cymunwyr perthynol i'r Annibynwyr 9,459. O 1886 hyd 1890, cynhyddodd y Cymunwyr perthynol i'r Bedyddwyr 7,631. Nid yw ystadegau y Wesleyaid wrth law gennyf. Y mae cynnydd y tri enwad a nodwyd mewn cymunwyr yn unig yn ymyl 24,000 mewn ychydig flynyddoedd. Yn ol yr ystadegau a gyhoeddwyd yng Nghymanfa Gyffredinol Machynlleth, yr oedd cynnydd y Methodistiaid mewn cymunwyr yn 1891 yn 1,364. Ymha le mae y myned yn ol?

Ond nid wyf am wadu nad yw yr Eglwys wedi cynhyddu yn ystod yr ychydig flynyddau diweddar. Y mae personiaid y dyddiau hyn yn llawer mwy effro a gweithgar nag ydoedd personiaid deng mlynedd ar hugain yn ol. Dyma un o fendithion Datgysylltu yr Eglwys yn yr Iwerddon. Ac fel canlyniad y deffrôad, y mae y gwasanaeth yn fwy bywiog, a'r cynulleidfaoedd mewn llawer lle yn llawer mwy lliosog. Ond cyn dod i'r casgliad fod y "diwygiad" hwn, fel y gelwir ef, yn rheswm dros adael y cysylltiad rhwng yr Eglwys a'r Wladwriaeth heb ei ddatod, y mae tri ymholiad i'w gwneyd. Yn gyntaf, ymha rannau o'r wlad y mae yr Eglwys wedi gwneyd cynnydd? Rhaid i bob Eglwyswr ateb mai yn y trefi yn bennaf, yng Nghaernarfon, Bangor, Dinbych, Gwreccsam, Abertawe, Caerdydd, Aberhonddu, &c. Ychydig, mewn cymhariaeth, yw y cynnydd wedi bod yn y parthau gwledig, ymhlith amaethwyr Mon, Aberteifi, a Phenfro, ac ymhlith chwarelwyr Arfon a Meirion. Ond beth sydd a fynno hynny a'r pwnc, medd rhywun. Llawer ymhob rhyw fodd. Yn y trefi y mae y bobl sydd yn ymgysylltu yn byw. I'r trefi y daw dylifiad o Saeson, ac y mae yn ffaith mai yn yr Eglwysi Seisnig yn y trefi a enwyd, y gwel yr Eglwys ei chynnydd mwyaf. Ac yn y trefi yr ymdebyga yr Eglwyswyr fwyaf i'r Ymneillduwyr. Nid oes ond ychydig o'r eglwysi trefol yn hen eglwysi plwyfol. Eglwysi ydynt a godwyd yn lled ddiweddar. Ni fedd llawer o honynt ond ychydig iawn, os dim degwm na gwaddol. Cynhelir yr achos ynddynt trwy gyfraniadau gwirfoddol yr addolwyr. A phan y cymherir nifer yr addolwyr yn y llannau a'r addolwyr yn y capeli Ymneillduol Cymreig, nid yw yn gwbl deg cymeryd yr eglwysi hyn i mewn i'r cyfrif. Nid yw yr Eglwysi Seisnig yn perthyn i'r genedl Gymreig, ac nid yw cysylltiad yr eglwysi diweddar â'r Sefydliad ond ffurfiol a rhannol. Yn rhinweddol y maent mewn llawer ystyr ar yr un tir â'r Eglwysi Rhyddion. Yn y parthau gwir Gymreig, nid yw yr Eglwys nemawr well allan nag ydoedd hanner can mlynedd yn ol. Mae noethder y wlad, yn yr ystyr

yma, wedi ei dadlenu mor ddiweddar ac mor effeithiol fel na raid i mi aros gydag ef. Goddefer crybwyll un ffaith. Ar adeg Sasiwn a gynhaliwyd y fiwyddyn hon yr oedd blaenor parchus o Bolton yn adrodd wrth nifer o gyfeillion ymddiddan a fuasai rhyngddo yn ddiweddar a chlerigwr parchus o'r dref honno a fuasai yn treulio ei wyliau yn Harlech. "Wel, Mr. —," meddai y clerigwr, "nid wyf yn rhyfeddu dim fod pobl Cymru mor gryf dros Ddatgysylltiad. Yr oeddwn y Sul diweddar yn Harlech, ac aethum i'r Eglwys yn y bore. Er fy syndod nid oedd ond pump o honom yn bresennol. Meddyliais y gallasai fod yn dra anghyfleus i bobl Harlech ddod yn y bore, a disgwyliwn gynnulleidfa lawn yn yr hwyr. Ond yn yr hwyr yr oeddym ddau yn llai nag yn y bore! Pe buaswn innau yn byw yng Nghymru, buaswn yn sicr o gymeryd yr un olwg ar bethau."

Yr ail ymholiad yw: Trwy ba foddion y mae y cynnydd yn yr Eglwys wedi ei ddwyn oddiamgylch? Ai trwy atyniad ysbrydolrwydd yn y gwasanaeth? Ai trwy bregethu hyawdl ac effeithiol? Ai trwy gynull i mewn i'r tŷ y rhai a arferent dreulio dydd yr Arglwydd i ddiogi, bwyta, a meddwi? Pe yn medru credu mai y pethau hyn, neu un o honynt, sydd wrth wraidd y llwyddiant, buaswn yn llawenhau ynddo, ac yn petruso cyn codi llaw na dweyd gair yn erbyn y Sefydliad. Ond ysywaeth, y mae ffethiau diymwad yn profi mai dylanwadau ereill sydd yn cyfrif am y llwyddiant. Nid symrwydd ysbrydol, ond rhwysgedd defodol yw nodwedd amlwg y gwasanaeth. Gydag ychydig iawn o eithriadau y mae holl weinidogion y Sefydliad, o ran hyawdledd ac eneiniaid efengylaidd, yn annrhaethol islaw pregethwyr cynorthwyl mwyaf dinod yr enwadau Ymneillduol. O ran hynny, onid dnyion wedi methu cael ffordd i'r weinidogaeth ymysg yr Ymneillduwyr, neu wedi methu cadw gweinidogaeth ar ol ei chael, ydyw lliaws mawr o honynt? Ac a oes llai o ystelcwr i'w gweled ar gonglau yr heolydd ac yn nrysau tai yn y parthau isaf o'r trefi lle y dywedir fod yr Eglwys yn flodeuog, nag a fyddai yn arfer bod? Ofnaf nad oes. Y gwir am dani yw, derbynny y gorlan Eglwysig yr ychwanegiadau at ei diadelloedd o blith pobl wedi casglu tipyn o gyfoeth, ac yn myned i'r Eglwys am fod mwy o "foneddigion" yn myned yno nag i'r capeli; o blith y rhai a gymerant dramgwydd am ryw achos neu gilydd, neu a esgymunir o'r eglwysi Ymneillduol oblegid eu bucheddau annheilwng; ac o blith y rhai sydd yn rhy wan a llwfr mewn ystyr foesol i wrthsefyll dylanwad bygythion a llwgrwobrwy. Gwn am balas dai yng Nghymru lle y gorfodir gweinidogion y tŷ a gweithwyr y buarth a'r gerddi i fyned i'r Eglwys unwaith o leiaf bob Saboth. Denir tlodion trwy elusennau ac "arian rhan," a rhoddir ar ddeall i fechgyn sychedig am wybodaeth y cânt bob mantais i'w diwallu, dim ond iddynt droi i'r Eglwys, dysgu y catechism, a derbyn bedydd Esgob. Trwy y pethau hyn "llygrir llawer," ac nid i Eglwyswyr y mae y diolch fod neb yn mynychu y capelau Ymneillduol. Dywedodd Horace Walpole fod "pob dyn yn brynadwy am ryw bris." Na, y mae yng Nghymru heddyw ugeiniau o filoedd tu hwnt i holl ddyfais Sefydliad Crefyddol y Llywodraeth i wneyd bargaen am danynt.

Y trydydd ymholiad ydyw: Beth yw effaith y cynnydd yn yr Eglwys ar fywyd moesol a chrefyddol y genedl? A ydyw yn fwy sobr, gonest, geirwir, diwair, a moesgar,—mewn gair, a yw y Deg Gorchymyn yn cael eu cadw yn well yng Nghymru er pan gychwynodd y "*Church Revival*" y sonir cymaint am dano? Er nad wyf yn un o'r rhai sy'n arfer cwyno fod y byd yn myned yn waeth, yr wyf yn mentro dweyd

nad yw bywyd y genedl mewn ystyr foesol a chrefyddol wedi myned rhagddo i'r un graddau ag mewn ystyr feddyliol, gymdeithasol, a gwleidyddol. A oes rhywun cyfarwydd â sefyllfa ein gwlad yn barod i sicrhau fod ymarweddiad y bobl a ymunasat â'r Eglwys yn ystod deng mlynedd ar hugain diweddf, yn well nag ydoedd cyn iddynt ymuno â hi? Onid yw y ffaith fod holl ragorfrentiau eglwys Crist yn cael eu cynnyg yn y llan i bob un o'r plwyfolion yn gwbl annibynnol ar greddo a buchedd, yn cynhyrchu syniad isel am werth y breintiau hynny? Onid yw yn ffaith ei fod yn llawer anhawddach disgyblu yn yr eglwysi Ymneillduol er pan y mae y curadiaid yn rhedeg o dŷ i dŷ i hysbysu pobl y byddant yn falch iawn o'u gweled yn yr eglwys, os nad yw pethau yn hollol gysurus iddynt yn y capelau? Ai nid y gefnogaeth agored a ddyry clerigwyr i fabol-gampau sy'n cyfrif dros fod y rhai hyn mor flodeuog mewn llawer rhanbarth, ac yn fwyaf blodeuog lle mae yr eglwys fwyaf blodeuog? Onid yw yn arferiad mewn lliaws o deulu-oedd eglwysig i fyned i'r eglwys ar foreu Sul, a threulio prydawn Sul i chwareu *lawn tennis* neu y bêl droed? Onid yw hap-chwareu wedi myned yn beth llawer mwy cyffredin a phoblogaidd yn y wlad yn ystod y blynyddoedd a gerddasant er pan gychwynodd y "diwygiad" eglwysig? Pa un ai yn erbyn arferion drwg, ynte yn erbyn heresi y pregethir am-laf yn yr eglwysi plwyfol? Dywedodd Mr. Osborne Morgan, A.S., yr hwn sy'n eglwyswr ei hunan, "fod clerigwyr cyflogedig y wladwriaeth yn Eglwys Sefydledig y wladwriaeth yn cael eu talu a'u dyrchafu, nid am bregethu Cristionogaeth, ond am ymladd ag Ymneillduwyr." Ac mewn ysgrif a ymddanghosodd yn y *Review of the Churches* am fis Mai, dywed yr Archddiacon Sinclair fod cyfaill iddo ef mewn ymdrochle yng Nghymru y flwyddyn ddiweddf, a'i fod yn mynychu yr eglwys yn rheolaidd tra yno, "ac yr oedd pob pregeth a glywodd yn ymosodiad ar Ymneillduaeth." Dymuna yr Archddiacon yn daer ar i'r "clerigwyr yng Nghymru bregethu yr Eféngyl, gwneyd eu gwaith gogoneddus fel gweinidogion, a gadael yr Ymneillduwyr allan o'u pregethau yn gyfangwbl." Pa faint o fendith ysbrydol i wlad all fod mewn gweinidogaeth fel yna? Ac os nad yw cynnydd *sefydliad crefyddol* yn profi yn fantais i grefydd, goreu po leiaf sonir am dano.

Yn wyneb y cyhuddiad fod y Sefydliad, nid yn unig yn peidio gwneyd gwaith crefyddol ei hun, ond hefyd yn Rhwystr ar ffordd pobl ereill i'w wneyd, yr unig amddiffyniad a glywir ydyw, mai pethau dychmygol hollol yw cwynion yr Ymneillduwyr. Mewn cyfarfod Amddiffynol a gynhaliwyd yn ninas Bangor ychydig wythnosau yn ol, dywedodd Arglwydd Penrhyn o'r gadair,—yr wyf yn dyfynu o'r adroddiad a ymddanghosodd yn y *Gwalia*,—"Fod y cydgord pennaf wedi bodoli yn y gorffennol rhwng Eglwyswyr ac Ymneillduwyr. O'i ran ei hun, edrychai ef ar y cwestiwn, pa un ai i'r eglwys ai i'r capel yr a'i dyn, yn un i'w benderfynu yn gwbl gan gydwybod y dyn ei hun. Heblaw hynny, yr oedd yn argyhoeddedig fod mwyafrif mawr tiffeddianwyr Gogledd Cymru yn cyfranogi o'r un teimlad ag yntau ar y pwnc dan sylw." Yn awr, y mae yn amlwg y rhaid siarad yn ddfloesgri ar y mater hwn. Ai tybed y gwyddai Arglwydd Penrhyn pan yn llefaru y geiriau a ddyfynwyd, fod cymdogaeth yn sir Gaernarfon lle y methodd enwad neillduol a chael tir i adeiladu capel am flynyddoedd, ac mai clywed fod hen bererin duwiolaf y lle yn gweddio am i'r Arglwydd agor drws iddynt rywfodd i gael lle i sylfaenu tŷ iddo, barodd i dirfeddiannwr ganiatau y cais?

Gwn i am gymdogaeth ymha un y cymerodd hynny le. Gwn am gymdogaeth arall, lle y gwneid cais am dir i helaethu capel, ac wedi disgwyl am fisoedd, dyma yr atebiad a gafwyd: "Being a churchman, I cannot conscientiously give nor sell any land for chapel purposes." Ychydig amser yn ol, yr oedd teulu gyda pha un y lletyai gwneidog i dair o eglwysi Ymneillduol bychain mewn rhanbarth gwledig, wedi ei dorri i fyny gan angeu. Disgwyliai y gwneidog gael llety yno gyda'r teulu a ddeuai nesaf i fyw i'r lle. Ond rhoddwyd adran yn y Cytundeb gyda'r tenant newydd nad oedd i letya pregethwyr yn barhaol nac achlysurol. Nid oedd gan y gwneidog ddim i'w wneyd ond troi allan i chwilio am lety arall. Ond ymhob tŷ, ar ddwy etifeddiaeth eang, dywedid wrtho na feiddient ei gymeryd i mewn, eu bod wedi eu rhybuddio gan y goruchwylwyr i beidio croesawu gwneidogion Ymneillduol, ac os gwnaent, y gallent ddisgwyl rhybudd i ymadael. Ai arwydd o "gydgord" yw pethau fel hyn? Ai dychmygol yw cwynion y bobl a drinir yn y modd yma? Dyma engrafft o gylch arall. Priododd merch a arferai fyned i'r eglwys gydag ysgolfeistr oedd yn Ymneillduwr. Yn fuan ar ol y briodas, aeth un o glorigwyr y dref honno i ymwleda a hi. Gofynnodd i ba le y bwriadai fferio i addoli? Atebodd hithau mai gyda'i phriod, am yr ystyriai mai dyna oedd weddus. "Wel," meddai yntau, "peidiwch disgwyl i mi fod yn gyfaill i chwi byth mwy, ac mi wnaif fy ngoreu yn eich erbyn chwi a'ch priod o hyn allan." A bu cystal â'i air. Nid yw y rhai yma ond ychydig o esiamplau o'r "cwynion dychmygol" a ddygir gan Ymneillduwyr Cymru yn erbyn y Sefydliad.

Y mae ambell Eglwyswr mawrfrydig, fel yr Archddiacon Sinclair, tra yn dadleu mai dychmygol yw y cwynion, eto yn barod, er mwyn "heddwch," i symud yr achosion tybiedig i rai o honynt. Honna ef, pe byddai i'r Frenhines dderbyn prif weinidogion yr Ymneillduwyr yn y Llys yr un fath ag y derbynia yr esgobion, pe gelwid llywyddion Undebau a Chynghorau yr Ymneillduwyr i eistedd yn Nhŷ yr Arglwyddi am y flwyddyn y byddent mewn swydd, a phe byddai i ysweiniaid eglwysig wahodd teuluoedd Ymneillduol i'w *garden parties*, &c., y diffoddi a cyffro am Ddatgysylltiad fel tân drain. Pob parch i'r Archddiacon am ei deimladau caredig; ond y mae yn hollol eglur nad yw yn gwybod dim am y sefyllfa yng Nghymru. Nid ceisio *cydraddoldeb ffafr*, nac yn y llys nac yn mhalasau ysweiniaid yr ydym; ond ceisio *cydraddoldeb cyfiawnder*. Ac ni fynwn ddim llai. Ac nid ydym cynnyg y naill yn lle y llall, yn ddim amgen nag estyn carreg i'r hwn sy'n newynu o eisieu bara.

Un o'r pethau mwyaf tarawiadol yn yr holl ymgyrch ydyw y duwioldeb defosiynol a arddanghosir gan amddiffynwyr y Sefydliad, a'u profes honedig o awydd angherddol am ddadleu y cwestiwn mewn ysbryd boneddigaidd a Christianogol. Yr wyf yn sicr nad oes yr un Ymneillduwr yn ewyllysio i'r frwydr gael ei nodweddu gan unrhyw ysbryd arall. Felly y mae ein harweinwyr wedi ei chario ymlaen o'r dechreu. Y diweddar Ddeon Edwards yn ei "araeth deirawr" yng Nghaernarfon, a ddechreuodd ddifrio a galw enwau drwg ar ei wrthwynebwyr, a pharhâ ei olynwyr, o Esgob Llanelwy i lawr hyd at Reithor Abermaw, i wneyd yr un peth. Yn y cyfarfod ym Mangor y cyfeiriwyd ato eisoes, dymunai Arglwydd Penrhyn "yn enw'r nefoedd am i'r ergydion yn y rhyfelawd fod yn gyfryw ag a fyddai yn deilwng barch. Bydded iddynt ddyrchafu tôn y ddadl gymaint ag oedd yn eu

gallu, yr hyn, fel yr ymddanghosai iddo ef, oedd yn ddiweddar wedi myned yn isel a diraddiol." Ar ol y fath apel, gallesid disgwyl i'r cyfarfod roddi esiampl deilwng o'i hefelychu yn y peth hwn. Ond dyma rai o'r enwau a osododd ei Arglwyddiaeth a'r siaradwyr ereill y noson honno ar bleidwyr Datgysylltiad,—yr wyf yn dyfynu eto o adroddiad y *Gwalia*,—"gelynion yr hen Eglwys anwyl," "cynhyrfwyr ystrywgar yn ceisio gosod dosbarth yn erbyn dosbarth," "dynion a'u hamcan i dynnu i lawr yr Eglwys Sefydledig," "rhai am ysbeilio yr Egiwys o'i meddiannau," cydfradwyr-mewn cyngor," rhai yn dweyd "digon o anwireddau plaen," "Ymneillduwyr penchwiban," rhai yn "apelio at nwydau eu gwrandawyr yn lle at eu deall," rhai yn cymeryd "eu syniadau, nid o'r Ysgrhythrau, ond o ben yr anffyddiwr Ffrengig Rousseau!" Ac wedi'r cwbl, rhaid cyfaddef fod cyfarfod Bangor yn gymhedrol a boneddigaidd, o'i gymharu â'r rhan fwyaf o gyfarfodydd Amddiffynnol. Hyd yma y mae ein hesgyrn wedi dal heb ddryllio o dan holl ruthriadau difriaeth glerigol, ac mi ddaliant dipyn eto. Ond o bopeth, yr hyn sy'n peri mwyaf o ofid a galar duwiol i'n hanwyl gariadus frodyr, yw ein bod yn cyfeirio at frychau yn mucheddau a chyflawniadau personiaid a churadiaid. Ond ni ddylai dynion sy'n galw enwau drwg ac yn priodoli gau-amcanion i'w gwrthwynebwy'r, ddisgwyl i'r gwrthwynebwy'r hynny beidio rhoddi cyhoeddusrwydd i feithiau all fod yn eu meddiant, serch i'r cyfryw feithiau fod yn annymunol i rywrai glywed amdanynt. Haera Deon Llanelwyr nad oes mwy o ddefaid duon yng nghorlan yr Eglwys nag yn y corlanau Ymneillduol. Ni cheisiaf benderfynu y cwestiwn ymha gorlan y mae mwyaf yn *duo*, ond yr wyf yn sicr o hyn, fod y rhai sydd *wedi duo* yn cael eu bwrw allan o'r corlannau Ymneillduol, tra y gadewir hwy yn y gorlan Eglwysig. Un rheswm a ddyru yr Archddiacon Sinclair, yn yr orthygl y cyfeiriwyd ati eisoes, am fethiant y Sefydliad yng Nghymru, yw,— "The notorious lack of discipline in past time in the Welsh Church, and the alleged need, even in the present day, in certain parishes, of stricter powers for the correction of irregularities." A chydnebydd pawb cyfarwydd â'r sefyllfa mai gwir yw y gair. Wrth ddweyd hyn, nid wyf am awgrymu o gwbl fod athrawiaethau a seremonïau Eglwys Loegr fel enwad crefyddol yn llai meithrinol i rinwedd a duwioldeb. Ond yr wyf yn dweyd yn ddi-floesgni fod ei chysylltiad â'r Llywodraeth yn ei gwneyd felly. Y mae annibyniaeth y clerigwyr ar y plwyfion, trwy fod y bywoliaethau yn sicr iddynt, yn tueddi i hynny. Ac y mae anallu y Sefydliad i ddisgyblu clerigwyr afreolus yn cario dylanwad dychrynlyd o niweidiol, trwy beri i ddynion llygredig ymhyffau yn eu drygioni. Un o ddrygau pennaf Sefydliad Gwladol o grefydd ymhob oes a gwlad ydyw ei fod yn rhoddi dynion mewn swyddau cysegredig heb ystyried a dydnt yn gymeriadau teilwng, ac yn eu hachlesu yno er gwaethaf pob ymgais i'w symud. Pryd yr esgymunwyd clerigwr Cymreig am anfoesoldeb, neu am esgeuluso ei ddyledswyddau? *Suspension* am ddwy, tair, neu bum mlynedd yw y gosb eithaf; a hyd yn oed yn ystod y tymor hwnnw, caniateir iddynt y rhan fwyaf o ragorfreintiau y swydd a'i safle. Ai tybed y dadleuir nad yw y troseddau a gyflawnant ddim yn galw am gosb drymach? Clywir yn aml iawn ar lwyfannau Amddiffynnol fod personiaid Cymru yn annhraethol uwchlaw i weinidogion yr Ymneillduwyr mewn moes a rhinwedd, yn ogystal ag mewn talent a gwybodaeth. Nid dyna farn y diweddar Ddeon

Edwards o Fangor beth bynnag. Ychydig flynyddoedd cyn ei farwolaeth yr oedd y Deon yn cyd-deithio ar y *steam-boat* o Liverpool i Menai Bridge gyda bonheddwr oedd mewn busnes yn Liverpool, ond yn meddu palasdy ym Mon, ac yn flaenor parchus gyda'r Methodistiaid. Aeth yn ymddiddan rhyngddynt, ac yng nghwrs yr ymddiddan trodd y Deon at ei gyd-deithiwr a gofynodd, "Pam na ddowch chi i'r Eglwys, Mr. E.? Ond tydio'n arw o beth fod gwr parchus a chrefyddol fel chwi yn cefnogi sism, ac yn rhwygo corff Crist." Cyfrôdd y cwestiwn Mr. E. yn fawr, ond dywedodd, "Wel, Mr. Edwards, gan eich bod wedi gofyn i mi, mi ddweda i chwi. Mi ges i fy magu yn ———, Sir Fon, ac yr oedd fy nhad a mam, Mr. Edwards, yn ofni Duw. Mae nhw yn y nefoedd, ac nid arnyn nhw y bydd y bai os na bydda innu yno. Mi ges i fagwraeth grefyddol gartre, ac yn hen gapel y ———, yn yr Ysgol Sabothol, ac yn yr odfeuon, lle yr oedd Duw, Mr. Edwards, yn aml yn amlwg iawn ymysg ei bobl. Ac wedi i mi ddwad i Liverpool, ymysg pobol debyg y ces i fy hun; a ddaru mi rioed *feddwl* am fynd i'r Eglwys, Mr. Edwards; a phe baswn i'n meddwl am hynny pan oeddwn i'n fachgen gartre, mi ddweda i chwi sut ddynion oedd yn yr eglwysydd o nghwmpas i ymhob man." Yna enwodd y plwyfydd oedd o'i gwmpas, gan ddweyd pa fath rai oedd y personiaid oedd ymhob un o honynt, ac mor amlwg a chyhoeddus oeddynt oll mewn pob annuwioledeb a drygioni. A gofynai, "Pe baswn i'n meddwl am fynd i un o'r eglwysydd, Mr. Edwards, pa ymgeledd i f'enaid allaswn i ddisgwyl efo dynion felly, fasa n gwneyd i fyny am gollu y breintiau yn yr hen gapel cynnes yn y ———?" Ond rhag y gallasai y Deon ydoedd: "*Nac ydi, yn ddim gwell yn Sir Fon.*" Nid un na dau oedd yn gwrando yr ymddiddan. Gwyddai y Deon fod y gwr a ymddiddanai ag ef yn dweyd y gwir, ac yr oedd yn ddigon gonest i gydnabod beth oedd y sefyllfa. A hawdd iawn fyddai dwyn *feithiau* i brofi nad oedd y Deon yn addef gormod. Oni yfodd dau o glerigwyr Mon eu hunain i farwolaeth yn ddiweddar, ac onid oeddynt hyd y diwedd mewn llawn awdurdod fel gweinidogion y Sefydliad? Onid yfodd clerigwr ym Meirion ei hun i ystad y bu raid ei gymeryd i'r gwallgofdy, ac onid oedd hwnnw mewn llawn urddau o hyd, a neb yn son am ei alw i gyfrif? Onid oedd clerigwr yn Arfon mor adnabyddus fel meddwyn, a gwaeth na hynny, fel y barnodd y Deon Edwards yn ddoeth i'w wylio, ac oni chafodd ef mewn tafarndy yng Nghaernarfon yn y cyflwr mwyaf difrifol? Ac oni chaniatawyd i'r burgyn hwnnw *resignio* ei fywoliaeth yn lle gweinyddu disgyblaeth arno? Ydyw, y mae y Sefydliad yn meithrin anfoesoldeb ac annuwioledeb, ac yn peri i ddynion edrych ar grefydd yn *farce* a rhagrith.

O'r holl ddadleuon o blaid y Sefydliad, y fwyaf beiddgar yw yr haeriad nad ydyw yr Eglwys yn ddim mwy cysylltiedig â'r Llywodraeth nag yw yr enwadau Ymneillduol. Os nad yw, pa fodd y gelwir ar y Penadur yn Llys y Coroniad i'w hamddiffyn, mwy nag i amddiffyn yr enwadau? Pa fodd y dywedai Mr. Gladstone yn ystod y ddamd ar ail ddarllenriad y *Clergy Discipline Bill*, "The right of a clergyman to his living was a civil right,"—yr un yn hollol a hawl yr heddegidwad, neu

y barnwr i'w le a'i gyflog? Er cymaint a ganmola Eglwyswyr ar yr arwr o Benarlâg am y rhan a gymerodd yn y ddadl honno, nid wyf yn meddwl fod achos i'r Ymneillduwyr ganmol dim llai arno. Yr oedd cael cadarnhad mor ddiamwys gan un o Eglwyswyr mwyaf selog a chydwybodol y deyrnas i'r hyn yr ydym wedi bod yn ei ddadleu trwy y blynyddoedd, o werth mawr, serch mai i amcan arall y llefarwyd y geiriau. Ac os nad yw yr Eglwys yn fwy Sefydledig na'r enwadau Ymneillduol, paham yr oedd angen am y mesur hwnnw o gwbl? A glywyd erioed son fod Cymdeithasfa y Methodistiaid, Cyngorfa y Wesleyaid, neu Eglwysi yr Annibynwyr a'r Bedyddwyr yn gorfed myned at Dy y Cyffredin am Ddeddf Seneddol arbennig i'w galluogi i droi ymaith weinidogion neu aelodau afreolus ac anghymwys? Yn sicr, y mae yn syndod fod dynion synhwyrol yn medru haeru peth sydd ar ei wyneb yn gyfeiliornad mor andwyol.

Y mae yn rhan arbennig o ddadlein cyfeillion fod Ymneillduaeth yn diflannu oddiar ddaear Cymru, ac am hynny, os ydyw y wlad i gael ei chadw rhag paganiaeth, fod yn anhepgorol parhau yr Eglwys Sefydledig ynddi. Nid yw yn ormod ganddynt ymostwng at ystrwiau o'r fath fwyaf dirmygedig er ceisio gwneyd hynny allan; ac er i'r rheiny gael eu dynoethi a'u haeriadau gael eu profi yn gwbl ddisail, parhant i'w cyhoeddi, gan deimlo yn hyderus eu bod, o herwydd eu sefyllfa urddasol, yn lled debyg o ennill clust y Saeson, ac na fydd nemawr amheuaeth na fydd eu cynffonwyr yng Nghymru yn dra pharod i wneyd â allant mewn ffordd o daeru dros yr hyn y maent hwy yn ddigon hyfion i'w osod ger bron. Ond nid oes nemawr berygl i bobl Cymru gael eu camarwain gan ystrwiau o'r fath. Yr oedd tric Deon Llanelwly yn y cyfarfod y cyfeiriasom ato ym Mangor er ceisio bychanu ei hen gyfeillion y Methodistiaid Calfniaidd, yn un annheilwng iawn. Mewn cyfeiriad at wrthddadl a dybiai gyda golwg ar yr egwyddor wirfoddol, dywedai fod yr Eglwys mor bell o fod yn erbyn yr egwyddor wirfoddol, fel yr ydoedd yn gwneyd llawer yn y ffordd honno. Yna dywedai fod Mr. Thomas Williams, cadeirydd Undeb yr Annibynwyr yng Ngwrecsam, yn dweyd fod cyfraniadau yr enwad hwnnw yn 1890 yn £120,000, a chanmolai eu haelioni yn fawr iawn. Tybiai hefyd fod cyfraniadau y Methodistiaid,—wedi tynnu allan ardreth yr eisteddleoedd, a chasgliad Jubili y Genhad-aeth, casgliad ardderchog oedd feallai tua £35,000,—yn £130,000; y ddau ynghyd yn £250,000, yr hyn oedd yn ardderchog iawn. Ond dywedai fod yr Eglwys yng Nghymru, yn yr un flwyddyn, fel y danghosai y *Church Year Book*, wedi cyfrannu £245,000,—sef o fewn £5,000), gymaint â'r ddau enwad lliosocaf ynghyd! Yn awr, ni fynnem am drawiad amrant fychanu dim ar ymdrechion gwirfoddol yr Eglwys yng Nghymru. Byddai yn dda gennym hefyd weled faint o'r swm yna gyfranwyd gan bobl Cymru, ar wahan oddiwrth gyfraniadau tirseiddianwyr a phendefigion Seisnig at adeiladau. Ond goreu po fywaf; ac yn sicr, y mae y ffaith fod Eglwys y cyfoethogion yn dechreu cyfrannu fel yna, yn cadarnhau yn ddiamheuol ein dadl y gallai yn hawdd ofalu am dani ei hun wedi ei datgysylltu, a'i gosod ar yr un tir ag eglwysi y werin a'r tlodion. Ond pam yr oedd eisieu i'r Deon, mewn trefn i fawrhau ymdrechion yr Eglwys, fychanu yn gymaint gyfraniadau ei hen frodyr, y Methodistiaid? “Wedi tynnu allan ardreth yr eisteddleoedd,” meddai; pa hawl oedd ganddo i dynnu allan ardreth yr eisteddleoedd? Onid at gynhaliath crefydd y mae pob dimai o'r arian hynny yn myned?

Dywedai hefyd ei fod yn tynnu allan gasgliad Jubili y Genhadaeth, yr hwn a ganmolai yn gymaint. Fe ddylasai wybod nad oedd *dim o'r casgliad hwnnw* yng nghyfrif 1890, am nad ydoedd yn y flwyddyn honno wedi dyfod i fewn. Yr oedd cyfanswm casgliadau y Methodistiaid am 1890 yn £202,707 9s. 1c. Ond er mwyn mawrhau yr Eglwys, nid oedd yn ormod gan y gŵr hwn, a fagwyd ac a dreuliodd y rhan fwyaf o'i oes gyda'r Methodistiaid, eu hysbeilio o £72,707, trwy ddweyd, a chan eu canmol yn gymaint am hynny, fod eu cyfraniadau am 1890 yn £130,000! Da gennym weled fod cyfanswm cyfraniadau y Corff parchus hwn am 1891 yn £237,718 19s. 9c. Mae hynny yn cynnwys £26,000 o gasgliad y Jubili, ond deallwn fod £11,000 yn ychwaneg o'r casgliad hwnnw wedi dyfod i law yn 1892, ond heb fod yn y cyfrif am 1891. Gan gofio hefyd, y mae rhodd Mr. Robert Davies, Bodlondeb, o £27,000 at y Genhadaeth, wedi dyfod i law yn 1891, yr hyn a wna y cyfanswm am y flwyddyn honno yn £264,718! Mae arnom ofn y bydd hyn yn anafesuol ddiiflas gan bobl urddasol Llanelwy, sydd mor awyddus i argyhoeddi y byd fod holl dasfennau cyfrifon y Methodistiaid o flwyddyn i flwyddyn yn myned yn llai lai,—oddieithr colofn cyfrifon dyled eu capelau, yr hon sydd yn cynhyddu, meddant, *by leaps and bounds!* “*Gyda gostyngsidd-rwydd calon,*” meddai yr Ystadegwyr, y Parchn. Joseph Evans a T. J. Wheldon, B.A., yn eu hadroddiad am 1891, “y dymunem gofnodi ein tybiaeth fod y figyrau hyn yn dangos rhywbeth tra gwahanol i wanychdod a darfodedigaeth yn ein Cyfundeb.” Gwir. Gwelwn fod y cyfraniadau yn 1890 yn fwy o £20,640 nag oeddynt yn 1889; ond yr oeddynt yn 1891 yn fwy o £62,011 nag yn 1890! Mae cyfrifon y Methodistiaid yn cael eu cadw a'u cyhoeddi yn fwy cyflawn nag eiddo yr enwadau ereill; ond y maent oll, trwy râs Duw, yn gweithio yn rhagorol, ac yn annhraethol bell o ddangos y difianiant y mae yr Eglwys yn awyddus am ei weled.

Apelïa yr amddiffynwyr at deimladau tyner a chrefyddol etholwyr Cymru am iddynt beidio gadael i'r Eglwysi cadeiriol a phlwyfol gael eu troi i wasanaeth anghysegregidig, a pheidio cymeryd oddiar yr Eglwys yr adeiladau a godwyd drwy gyfraniadau gwirfoddol ei phlant. Pwy sydd am wneyd hynny, carwn wybod? Yr wyf yn deall cryn dipyn am “gynllwynion” Datgysylltwyr; ond ni chlywais erioed son am droi yr Eglwysi i ddibenion angrhefyddol, nac ychwaith am gymeryd oddiar yr Eglwys yr adeiladau a berthynant iddi. Beth bynnag y gellir profi ei fod wedi ei adeiladu trwy gyfraniadau gwirfoddol, croesaw i'r Eglwyswyr ohonynt. A gallwn roddi fy ngair dros holl Ymneillduwyr Cymru, y byddant yn foddolawn i roddi adran yn neddf Datgysylltiad i sicrhau na bydd i unrhyw wasanaeth angrhefyddol gael ei gario ymlaen mewn nag Eglwys Gadeiriol na Phlwyfol. Ond ofer i Eglwyswyr ddiagwyl i ni wneyd anrheg iddynt hwy o'r hen adeiladau hyn. Codwyd hwy ganrifoedd cyn i'r Sefydliad gael ei eni, a chyn bod son am Esgobyddiaeth Brotestanaidd ym Mhrydain Fawr. Eiddo y genedl ydynt, ac i wasanaeth crefyddol y genedl yn gyffredinol y rhaid eu cymhwysu. Ac hyd yn oed pe troid hwy ambell waith,—yr hyn na fwriada neb ei wneyd,—i gynnal cyngerdd neu ddarlith, neu ddothbarth diwylliadol, ni byddai yn ronyn mwy o anghysegrïad arnynt na'r coeg-arferion defodol sy'n myned ymlaen mewn lliaws ohonynt ar hyn o bryd.

NODIADAU LLENYDDOL.

Cofiant y Parchedig William Evans, Tonyrefail: yn cynnwys ei Gymghorion Gweinidogaethol, Areithiau Dirwestol, Llythyrau, a Nifer o'i Bregethau.
Gan ei wŷr, y Parch. WILLIAM EVANS, M.A. Gyda Darluniau gan Mr. WILLIAM MORGAN, Pant, Dowlais. Newport, Mon.: W. Jones. 6s.

DA gennym weled cyfrol mor deilwng am y gweinidog hybarch o Don-
yrefail wedi ymddangos mor fuan, a diameu y bydd llawer o'n cydwladwyr
yn awyddus i'w chrosawu. Mae yn amlwg fod ei wŷr llafurus a theilwng
wedi bod am lawer o amser yn cadw ei lygad ar yr amcan o baratoi gwaith
o'r fath, ac yn casglu ac yn gosod o'r neilldu bob defnyddiau y gallai osod
ei law arnynt. Ac y mae y gyfrol yn gofgolofn deilwng i goffiadwriaeth
ag y teimla y genedl Gymreig ei fod yn fendigedig. Fe fu y Parchedig
William Evans yn amlwg iawn ymysg ei gydwladwyr am dymor maith.
"Efe oedd ganwyll yn llosgi, ac yn goleuo," ac yr oedd llawer iawn yn
"ewyllysgar i orfoleddu dros amser yn ei oleuni ef." Mae yr hanes
cyflawn a gawn yma am dano yn taflu goleuni gwerthfawr ar hanes ei
genedl, a hynny yn un o'r cyfnodau mwyaf dyddorol yn ei holl helynt.
Cawn gyfleusterau y gosodwn arnynt fawr werth i weled fel yr ymweithiai
y deffrôad bendigaidd a gynhyrchwyd gan yr Ysbryd Glan yng Nghymru,
yr hwn a gododd nifer mor fawr o ddynion o gyffelyb feddwl i Mr. Evans, y
rhai, yn nannedd pob anfanteision a gwrthwynebiadau, a ymgysgrent i
wasanaethu Duw yn yr efengyl, "heb wneuthur cyfrif o ddim, ac heb fod
yn werthfawr ganddynt eu heinioes eu hun chwaith, am y gallent orffen
eu gyrfa trwy lawenydd, a'r weinidogaeth a dderbyniasent gan yr
Arglwydd Iesu, i dystiolaethu efengyl gras Duw." Mae bron yn anhygoel
faint y llafur yr aent trwyddo; ac wrth feddwl am y dŵfn ymgysgriad
oedd yn fywyd i'w holl lafur, nid ydyw yn rhyfedd fod eu llwyddiant mor
fawr. A phwy all ddweyd faint ydyw rhwymedigaeth Cymru i lafur y
dynion hyn! Ar wahân oddiwrt h ei waith mawr, y mae yr olwg a geir
yma ar ddynoliaeth a chymeriad rhagorol y gweinidog enwog yn ddymunol
a gwerthfawr iawn. Rhaid fod ei gyfansoddiad corfforol yn gadarn a
gwydn, cyn y gallasai ddal yr anferth waith yr aeth trwyddo, heb son am
fyw i fod yn fab 96 mlwydd oed. Clywsom ein cyfaill Mr. Wheldon yn
dweyd ei fod yn cydgerdded ag ef o ryw gyfarfod ychydig flynyddoedd
cyn i'w nerth fethu, ac er fod ein cyfaill o ran heglau ac anadl yn lled
atebol i ymdrech, eto prin y gallai gadw i fyny ag ef, ac mewn ffordd o
ymesgusodi dros fod ar ol, mentrodd wneyd y sylw, "Mae'r ffordd yma
yn ddrwg iawn, Mr. Evans." "Ydi," ebai yntau ar drawiad, "ffordd
ffamws i'w gadael ar ol!"—a brasgamai ymlaen fel pe am wneyd hynny
gynted ag y gallai. Mewn egwyddor, teimlad anrhydeddus, a charedig-
rwydd, yr ydoedd yn foneddwr ac yn frawd anwyl a serchog. Ac yr
ydoedd yn "Israeliad yn wir." Atebai yn llawn i ddrychfeddwl y Dr.
Arnold o'r *Christian gentleman*. Yr oedd bywiogrwydd rhyfedd ei
feddwl, ei graffder, disgleirni ei athrylith, a'r dŵfn gydwybodolrwydd
ynghyd a'r eneniad hyfryd a orffwysai yn gymaint gogoniant ar y cyfan,
yn ei wneyd yn un ag yr oedd yn dra naturiol i bawb a'i hadwaenai
ei edmygu a'i garu. Fe fydd darllen ei hanes yn y gyfrol hon i'r rhai
oedd yn ei adnabod yn hyfrydwch o'r mwyaf; ac am y lliaws sydd bellach
yng Nghymru na chwasant y ffraind honno, gallwn eu sicrhau, os ydynt
yn rhoddi gwerth ar sawredd a daioni, nad all y llyfr hwn gael ei ddarllen
ganddynt heb roddi iddynt lawer o oleuni a mwynhad, ac heb fod yn dra
thebyg o'u gadael grynlawer yn well. Fe ymgysgrod Mr. Evans yn ieuanc
i'r gwaith o bregethu yr efengyl, ac yr ydoedd yn y gwaith mawr hwnnw yn
ŵr Duw ar hyd ei oes. Mae y disgrifiadau a roddir o hono yma fel
pregethwr, a hynny gan rai "wyddent goel" am yr hyn y siaradent yn

ei gylch, yn dra hynod. Dywed y Parch. John Jones, Ceinewydd, mewn cyfeiriad at ei bregeth yng Nghymdeithasfa y Bala yn 1829, ar "Ac Arglwydd y lluoedd a wna i'r holl bobloedd yn y mnydd hwn wledd," "Yr oedd fel udgorn arian yn galw ar bechaduriaid i gyfranogi o wledd-oedd yr efengyl." A'r Parch. Robert Hughes, y Gaerwen: "Yr wyf yn cofio eich taid yn myned drwy Sir Fon y tro cyntaf. Yr oedd ei weinidogaeth y pryd hynny yn defnyddu fel gwlaw, fel gwllith-wlaw ar irwellt, ac fel cawodydd ar laswellt. Ond y tro diweddaf ond un y bu efe drosodd, y tynnodd efe fwyaf o sylw. . . . Yr oedd yn pregethu yn y Gaerwen am 2 o'r gloch ddydd Llun. Testyn eich taid oedd Iago v. 20. Pregeth ryfedd, un o'r pregethau rhyfeddaf a wrandawais erioed. Diau iddi fod yn foddion i droi lliaws o bechaduriaid o gyfeiliorni eu fyrdd, ac i'w gwaredu rhag anghyfeirdd. Yr oedd y disgrifiad a roddai o *anghyfeirdd* yn ofnadwy. Yr oedd yr holl gynulleidfa megys eneidiau noethion heb gyrrff, yn llefain am eu cadw." Bu son am yr odfa honno am flynyddoedd lawer. Ao ebe y diweddaf Brifathraw Howells o Drefecca: "I have scarcely ever heard a finer voice than that of Mr. William Evans. Mr. John James's voice was a deep rolling bass, that of Mr. William Evans a fine rich tenor; and what was more, it was under proper control. He knew when to fire and when to whisper. Sometimes, when at its loudest pitch, he would suddenly descend to a conversational tone; which proves not only a thorough command of voice but an equal knowledge of human nature." Mae y cynlluniau o'i bregethau a geir yn y llyfr yn dda a meddylgar, ond mae yr ychydig a gofnodwyd wrth eu gwranddo—un gan y Parch. Roger Edwards, pan yn fachgen pedair ar ddeg oed!—yn rhoddi llawer gwell syniad am dano fel pregethwr. Fel y dywedai unwaith wrth ryw bregethwr ieucan oedd yn codi llawer o bennau ar ei bregeth, "Mae i chwi roesaw i gael cynifer a fynoch o fotymau ar eich côt, ond i chwi beidio eu rhoi," felly er ei fod yntau yn defnyddio amryw ffigyrau yn ei nodiadau er cadw y materion yn glir o flaen ei feddwl, eto yr oedd y bregeth mor lawn o fywyd a hoewder fel mai anaml yr oedd eisieu enwi y pennau. Y mae llythyr y Parch. Watkin Williams, yn rhoddi hanes y daith i'r Gogledd yn 1855, pan y cafodd yr hyfrydych o fod yn gyfaill i Mr. Evans, yn werthfawr a dyddorol iawn. Rhoddwn un engraifft; ei hanes yn bedyddio baban yn y Gatehouse:—"Ond ar y diwedd dyma fedydd; a chyda ei fod yn dechreu, dyma'r nefoedd fawr yn tywallt am ei ben. Yr oedd prydforthwch neillduol yn arfer bod arno yn bedyddio babanod, ac yr oedd y tro hwn gyda'r goreu yn ei fywyd. Yr oedd rhywbeth fel wedi disgyn ar y baban. Dyna ef yn gwenu mor gartrefol yn ei fraich, ac yn codi ei ddwyllaw bychain, gan ymdrafod mor naturiol â gwddf a chadach gwddf Mr. Evans. Yntau yn canmol Bugail Israel, gan roddi bloedd, 'O Fugail Israel;' yna yn canmol y Bugail a'r bobl yn gwenu ac yn wylu yn hidl. Bloedd fawr eilwaith, 'O Fugail Israel,' yn y cywair mwyaf nefolaidd, a'i wynepryd fel llen wen,—fel gwyneb angel.' Canmol y Bugail eilwaith, ei fod yn colledu y mamogiaid, ond yn dwyn yr wyn yn ei freichiau, yn ei fynwes, O Fugail Israel! Y mae yn ceisio y darfedig, yn dilyn ei chrywdriadau drwy'r anialwch i'r mynyddoedd a'r pellerau hyd onis caffo, gan ei dwyn hi adre ar ei ysgwyddau ei hun yn llawen, O Fugail Israel! Fel yna yr aeth rhagddo am wyth neu ddeg o weithiau, a phan dybiwn ei fod yn dibennu dyna efe yn dechreu brawddeg newydd, 'O bobl, dan y fugeiliaeth! O rieni plant, megwch hwynt dan y fugeiliaeth! O bobl ieucain, dan y fugeiliaeth! Fe'ch arwain trwy anialwch dyrys bywyd; y mae yn arwain Joseph fel praidd. Dan y fugeiliaeth! . . . O'r Bugail da; y Bugail da sydd yn rhoddi ei einioes dros y defaid. Fe fentrodd Dafydd ei fywyd, fe laddodd y llew a'r arth, ac achubodd yr oenig; ac y mae ambell i fugail wedi *collu* ei fywyd yn ei ymchwil ar ol y defaid; ond nid mentro na cholli sydd yma; Beth sydd yma? *Rhoddi*,

BHODDI, sydd yma,—yn rhoddi ei einios dros y defaid. O bobl anwyl, dan y fugeiliaeth !” Pan fe'tdyllir am yr eneiniaid rhyfedd oedd ar y gwasanaeth, rhaid ei fod yn ahmrisiadwy werthfawr.

Mae llawer o adgofion Mr. Evans am y tadau da y teimlai y fath barch ac anwylddeb tuag atynt wedi eu cofnodi yma; ac y maent yn drysorau gwerthfawr. Gwych o “Iantor Dyrnwr” yn y Cyfarfod Misol yn Sir Forganwg, dan lywyddiaeth Mr. Jones, Llangan, pan oeddid yn ymddiddan am ddyledion y capelau. “Ie, talwch nhw,” meddai. “Pa fodd, Ianto bach?” gofynai Mr. Jones. “Fel hyn,” atebai y dyrnwr, gan osod ei law yn ei loyled a thynnu allan bump hen gini, a’u gosod ar y bwrdd. “Dyna ti wedi ein maeddu ni yn deg,” meddai Mr. Jones. Cofhâi Mr. Evans gyda hyfrydwch sylw a glywsai gan rywun am Mr. Charles o’r Bala: “Nid oedd efe yn wr ysgythrog, eithr yr oedd yn *lanceo* yn ddwfn, ond yr oedd ei *lance* bob amser mewn olew.” “Mr. Evans,” meddai yr hen flaenor, William Jones o Ystradgynlais, “dyna amser braf oedd arnom ni yn y Sasiynau ers llawer dydd, pan yr oedd Mr. Charles, Caerfyrddin, yn taflu’r *lumps* i’r ford, a Mr. Ebenezer Morris yn eu cymeryd i fyny, ac yn eu dangos.” Y tro cyntaf yr aeth Mr. Evans i Lundain cafodd yr hyfrydwch o fod yng nghymdeithas y Parch. William Howells o Longane; a dyma a ddywedai y Cymro enwog hwnnw wrtho: “Maent yn son llawer am bregethwyr mawr Llundain, ac y maent yn fawr fel *swimmers*, ond y mae pregethwyr Cymru yn *divo* ac heb foddï. Dyna dri phregethwr nad oes eu cyffelyb,—David Charles ac Ebenezer Morris am eu gwreiddiolder, a John Elias trwy lafur ac arddeliad. Y maent yn pregethu fel tywysogion. John Elias yw y pregethwr mwyaf yng Nghymru, a’r mwyaf yn y deyrnas, ac feallai yn y byd.” Soniai Mr. Evans am far-gyfreithiwr a aethai o Aberafon i Gymdeithasfa Caerfyrddin i wrando Ebenezer Morris yn pregethu. “What do you think of him?” gofynai rhywun. Ei ateb oedd: “I have never heard such a man; he made me weep in spite of myself, though I did not believe a word he said.” Yr oedd yr hen flaenor, Thomas Dafydd, Pen-coed, yn cwyno ac yn dadleu fod y swm a osodid mewn Cymdeithasfa ar Sir Forganwg i dalu dyled oedd ar y Corff yn y Deheudir, yn ormod, a thueddai Ebenezer Morris i’w gefnogi. Ond pasiwyd y cynhygiad. “Beth wneuch chi yn awr, Thomas Dafydd,” gofynai Mr. Morris. Ond dyma ei atebiad gwych: “Beth sydd gennyf i’w wneyd, ond mynd adre a cheisio ei dalu.” Yr oedd William Jenkins, Ffynnon wen, yn trin achos dau frawd mewn eglwys oeddynt mewn anghydfod, a dyma fel yr heddychodd hwynt: “Yr oeddwn i yn meddwl eich bod chi eich dau yn mynd i’r nefoedd; ond mi welaf y bydd raid eich dwy nefoedd i chi.”

Ond dyna: ni wii i ni fynd ymlaen fel hyn. Diameu y gwel y darlennydd mai doeth fyddai iddo fynnu y gyfrol i’w feddiant, a rhoddi iddo ei hun y mwynhad a’r adeiladaeth o’i darllen a meddwl am ei phethau da

Yr Offeiriad Methodistaid, sef Cofiant a Phregethau y Parch. John Williams, Lledrod. Gan y Parch. JOHN EVANS, Abermeurig. Dolgellau: E. W. Evans. 1s.

MAE yn dda gennym groesawu y llyfr hwn ar Williams o Ledrod. Fe gyhoeddwyd erthygl o eiddo Mr. Evans arno ef yn y TRAEHODYDD yn 1871, a darllenwyd hi gyda llawer o hyfrydwch. Ymddengys iddo gadw o flaen ei feddwl yr amcan o osod yng nghyrraedd ei gydwladwyr syniad cyflawnach am Williams o hynny hyd yn awr; ac fe lwyddodd i gasglu cymaint o ddefnyddiau, ac i’w gosod ger bron mor ddeheuig, fel y dylai fod gan lawer bellach syniad da am gymeriad rhagorol a gwasanaeth gwerthfawr yr “Offeiriad Methodistaid.” Yr oedd efe yn un o sêr y Diwygiad. Pan ddeallid ei fod ar gael ei droi allan o Eglwys Loegr o herwydd ei fod yn rhy dda, aeth i Langeitho i ymgynghori â Mr.

Rowland, yr hwn a'i hanogodd i beidio myned i'r llannau o gwbl ar y Saboth y disgwyliad i'r peth gael ei wneyd, ond dyfod ato ef i Langeitho, fel na chaent yr hyfrydwch o'i droi allan. Felly fu, ac ni feddyliodd byth am droi ei wyneb yn ol. Ymddengys iddo gael cynnyg ar eglwysi Lledrod a Llanwnws wedyn, ac fod ei briod yn ffafriol iddo eu cymeryd, oblegid yr "haid plant." Ond ei ateb ef oedd, "Nis gallaf, nid dyna fy mhobl i; a phe bawn yn mynd yn ol atynt, os gallwn gael gwell bwyd i fy nghorff, nis gallwn gael heddwch cydwybod na chymeradwyaeth Duw." O hynny allan ymroddodd â'i holl egni i wasanaethu Duw ymysg y Methodistiaid. Fel gyda llawer o'i frodyr, yn enwedig o blith yr offeiriad, fe fu y symudiad ynglyn â'r ordeiniad yn 1811, yn brofedig-aeth fawr iddo. Ac mae yn dra dyddorol gweled nad ymddengys fod gwedd ysbrydol yr achos yn peri iddo nemor anesmwythyd; pryderai yn hytrach wrth ofni colli casgliad y Sul pen mis ynglyn â gweinyddiad Swper yr Arglwydd, yr hyn a brofai i'r offeiriad a lafurient ar y pryd gyda'r Methodistiaid yn gymorth sylweddol at eu cynhaliath. Dywedai, "Bum i mor ffol a bod yn anfoddlawn i ordeinio pregethwyr, hyd nes i Grist ei hun ddod i ofyn i mi, A fu arnoch eisieu dim? A gorfu arnaf ddywedyd, Naddo ddim, Arglwydd; ac ni ddywedais air byth yn ei erbyn drachefn." Dro arall: "Bum i yn pryderu beth a ddaethai o honof fi os ordeinid pregethwyr; ond fe lefarodd yr Hen a'r Newydd Destamentau wrthyf, nes yr aeth cestyll amheuaeth i lawr yn llarpiau. 'Canys yr Arglwydd dy Dduw a'th fendithiodd di yn holl waith dy law, gwybu dy gerdded yn yr anialwch mawr hwn, y deugain mlynedd hyn y bu yr Arglwydd dy Dduw gyda thi; ni bu arnat eisieu dim.' Dyna ddywedodd yr Hen wrthyf. 'Pan y'ch anfonais heb na phwrs, na chôd, nac esgidiau, a fu arnoch eisieu dim?' Dyna ddywedodd y Newydd wrthyf. Felly gorfu arnaf ddywedyd, Taw, taw, taw anghrediniaeth." Nid ymddengys fod y syniad o "sism," sydd yn llanw y fath le ym meddyliau Eglwyswyr y dyddiau hyn, wedi dyfod ar draws ei feddwl ef o gwbl. Ac y mae yn dra rhwymol casglu fod yr anhawsterau amgylchiadol a barent gymaint traferth i wr o'i ysbrydolrwydd ef, yn llanw lle mawr ym meddyliau y nifer o offeiriad a ddigiasant yn gymaint wrth y symudiad hwnnw fel y ciliasant oddiwrth y Methodistiaid yn gwbl. Nid felly Mr. Williams o Ledrod. Wedi iddo ef weled y peth ei hunan—ac fel y credai, trwy ddsygeidiaeth Iesu Grist,—fe anturiodd hyd yn oed i'w bregethu. Un testyn a gymerai oedd Hanes tawel y dymestl ar y môr; un arall, "Dymunwch heddwch Jerusalem." Ysgrifennai David Jones, Dolau bach, at y diweddar Barch. John Hughes, Liverpool, pan yn cyfansoddi *Hanes y Methodistiaid*:—"Clywais ef yn ymddadleu â hen flaenoriaid ag oedd yn selog dros yr hen drefn, ac yn eu dwrdio yn erwin. 'Ni fedraf ddeall,' meddai, 'beth yn y byd a'ch boddia chwi, y ffyliaid dylon: ni wna offeiriad *rheolaidd* mo'ch tro chwi, na gweinidog ymneilldudedig chwaith; hen offeiriad *ysgumunedig* a raid i chwi ei gael, onide ni chymerwch ef.'" Wrth reswm, yr oeddynt ar y pryd mewn sefyllfa lithriadol, ac nid oedd yn hawdd iddynt ei hymresymu. Ond yr oedd Mr. Williams wedi gorfod wynebu yr holl gwestiwn, ac ar y daith fythgofiadwy honno, pan yn uychwelyd gyda llythyr Cymdeithasfa y Gogledd at Gymdeithasfa y De, fe ddaeth i benderfyniad yn ei gylch a roes fythol derfyn ar ei betruستod, ac a'i galluogodd i lefaru yn ddi-floesgni yn ei gylch. Daliodd yn lew gyda i frodyr Methodistiaid i wasanaethu Duw hyd y diwedd. Fe'i perehid ac fe'i cerid yn fawr; ac yr oedd yntau yn ddiog grasol i fod fel y lleiaf o bawb ymhlith y rhai yr edrychaf arnynt fel disgyblion yr Arglwydd Iesu Grist. Dylai y llyfr dyddorol hwn o'i hanes gael ei ddarllen gan filoedd. Un dyfyniad:—

Gwneyd blaenor o Stanco yr ail was.—Pan yr oedd yn cynorthwyo yr eglwys yn y Ceinwydd i wneyd blaenoriaid, dywedai: "Pan oedd gwr a gwraig yn ein cymydogaeith ni ag eisieu gwas mawr arnynt amser calan gauaf, gofynai Evan i

Mary, 'Mari, beth wyt ti'n feddwl wnawn ni am was mawr y leni?' 'Wn i ddim,' meddai Mary, 'beth wyt ti'n feddwl?' 'Rwyf ti wedi meddwl am rywun mae'n debyg.' 'Wel ydw i,' meddai Evan, 'wedi meddwl am Sianco'r ail was. Mae Sianco yn un gofalus iawn; os bydd bwllch yn y clawdd, bydd Sianco yn mynd a'i gaib a'i raw i'w helpu yn union; os bydd rhyw glwyd yn agored, bydd Sianco yn debyg o'i gweled a'i chau; os bydd rhai o'r da yn torri i fewn i'r *clovers*, ac yn debyg o chwyddo, mae Sianco yn gweled y perygl ac yn rhedeg yn union am feddyginiaeth. Pan ddelo adref rywbryd yn y nos, a chlywed y ceffylau yn cicio eu gilydd yn y stabl, bydd ef yn sicr o'u tawelu cyn gorffwys. Os digwydd fod yn stormus, ac i'r helmi noethl, bydd Sianco a'i ysgol fach yn union yn rhoddi tusw yn ei lle.' 'Wel,' meddai Mary, 'yr w' i yr un farn yn gywir.' 'Beth pe byddem yn galw Sianco i'r ty, Mari?' Gwnaed hynny. 'Wel, Sianco,' meddai Evan, 'ryn ni wedi meddwl am danat ti yn was mawr y leni.' 'O, dw i ddim yn ffit meistr bach,' meddai Sianco. 'Ie, fe godwn ni yn dy gyflog di,' meddai Evan. 'O, rw i'n cael mwy o lawer nag wi'n haeddu nawr,' meddai'r gwas. 'A wyt ti'n blno yn ein gwasanaeth,' ebai Evan. 'Nac wyf, nac wyf, meistr bach, mi garwn fod yn eich gwasanaeth byth,' meddai y gwas. 'Wel,' ebai Evan, 'a wnei di ufuddhau i fod?' 'Gwna i, os ydych yn fy ngweled yn ffit, ac ond i chwil ddangos i mi beth i wneyd,' meddai y gwas. Chwiliwch chwithau am Sianco yma, fe wna flaenor rhagorol i chwil. Mae llawer o fylchau eisieu eu cau yn cglwys Dduw, a byddai yn dda cael gwas llygeidiog i'w gweled. Mae llawer o aftechyd eisieu ei drin, rhag i'r dynion farw yn eu pechodau." Aeth dros y cwbl a ddywedodd am Sianco, a dyna oedd yr araeth agoriadol i gyd. A dywedir i i Eglwys y Cei gael Sianco y tro hwn, os cafodd ef erioed, gan fod Mr. Solomon Williams wedi ei ddewis.

Caniadau. Gan ELFFYN. Yn cynnwys detholion o Awdlau, Cywyddau, a Chaneuon buddugol, &c., mewn gwahanol Eisteddfodau. 1s.

MAE Elfyn bellach yn dra adnabyddus fel bardd, ac wedi ennill lliaws o'n gwobrwyon eisteddfodol. Da y gwnaeth gyhoeddi y detholhad hwn o'i gyfansoddiadau. Mae yn ymddangos yn chwith hefyd na cheir yma, gan mwyaf o lawer, ond pigion o Awdlau, &c., am ba rai y derbyniodd wobrwyon, ac na chyhoeddwyd mewn un ffordd arall. Buasai dyn yn caru gweled y cyfansoddiadau yn gyflawn. Tybed nad yw ein cydwladwyr yn teimlo digon o ddyddordeb mewn barddoniaeth dda i hoffi ei darllen, heblaw i godi eu llef yn y gorau wrth roesawu y bardd buddugol pan yn esgyn i dderbyn y wobr a'r ysnoden ar lwyfan yr Eisteddfod? Sut bynnag, fe ddylai y llyfr yma gael derbyniad croesawu, derbyniad a ddywedo wrth Elfyn, "Melus, moes mwy." Mae yn feistr ar y cynghaneddion. Dyma Feddargraff o'i eiddo, buddugol yn Eisteddfod Pwllheli, 1889, i Dr. Edwards:—

Awdwr da'i sylwedd oedd Edwards olau,
Anfonedig y nef i eneidiau;
Athraw, Duwinydd, Doethawr, a doniau
Gwynfa ddi-halç yn ei feddyliau;
Carai'r gwir, ond curai'r gau,—a'r byd hwn
Ni wel y dwthwn a lwyda'i weithiau.

Ond yr ydym yn barnu fod y bardd yn fwy llwyddiannus yn ei ganiadau rhyddion, a thybiwn y byddai yn werth ei drafferth i grynhoi yr ymdrechion sy'n ofynol i wneyd gorchest mewn cywydd ac awdl, a'u gosod ar waith i gael allan gyfrinach awen mewn meddyliau dyrchafedig a theimladau pur, a'u canu yn y fath fodd ag a fyddo yn cyrraedd calon ei genedl. Mae ei Hwiangerdd yn brydferth a thyner, a charem glywed ei chanu gan ein mamau; yn wir ni gredwn nad oes eisieu ond iddynt ei gwybod na charai llawer o honynt wneyd.

Hwian babi, babi hwian,
Cyga mychan ar fy nglin;
Tra breuddwydi, minnau gasglaf
Felus fefus ar dy fin.

Lwli hwian, hwian lwli,
Am dy dlysi canaf gân;
Gwynion yw dy ddillad bychain,
Gwynach yw dy galon lân.

Hwian babi, babi hwian,
Perl dy dad a chariad mam;
Blentyn anwyl, cysga'n dawel
Ni ddaw atat unrhyw gam.
Lwli hwian, hwian lwli,
Cariad tada, gwerth y byd;
Dyna Iesu'n enwi'r engyl
Fyddant heno ger dy gryd.

Hwian babi, babi hwian,
Gwena f'anwyl yn fy nghôl;
A thra gweni di fel yna
Nid â'r engyl byth yn ol.
Lwli hwian, hwian lwli,
Cau dy lygad gloew, byw;
Paid ag ofni, mae yn d'ymyl
Fynwes mam a llygad Duw.

Gweithiau Ioan Mai. Wedi eu trefnu a'u golygu gan JOHN LLOYD PIERCE. Ynghyda Byr Gofiant o'r Awdwr, gan DR. JENKIN LLOYD. Caernarfon: A. Williams. 2s 6c.

LLYFR destlus a derbynol. Yr oedd Mr. John Williams, yn wr tra theilwng, yn fasnachydd parchus a llwyddiannus, yn bregethwr cymeradwy gyda'r Wesleyaid, yn llenor a bardd, ac yn un a adawodd ar ei ol goffadwriaeth peraroglaidd. Bydd yn dda gan liaws o'i gyfeillion gael y gyfrol hon i gofio am dano; bydd yn fantais iddynt eto i fwynhau ei gymdeithas a'i ddoniau. Ac y mae yn y gyfrol lawer o bethau a fwynheid yn fawr gan gylch llawer ehangach na chyfeillion personol Mr Williams. Dyma englyn da ar For-ladrad, a wnaeth pan yn bedair ar ddeg oed:—

Ai rhy dyner y geirw donnau,—crafanc
Cryfwynt, creig a thraethau?
Ai dyn at hyn fyn gryfhau
Ar lan dwr greulonderau?

Cymerodd gryn drafferth i geisio rhoddi syniad am Nodweddiion Barddoniaeth Gymreig yn yr iaith Saesneg, er nad yw yn sicr fod y chwareu yn werth y ganwyll. Dyma engraifft o englyn yn y Saesneg:—

Up the hill was Will's wise way—for a sport
Where free space was alway;
Thence to fling, from string to stray,
A model kite at Mid-day.

United Kingdom Band of Hope Union. *Report of School Scheme, April 1st, 1891, to March 31st, 1892.* Presented and adopted at Meeting of Council, held May 10th, 1892.

MAE y gwaith a wneir gan ddarlithwyr Undeb y Gobaithluoedd ar eu hymweliad ag ysgolion dyddiol y deyrnas, yn waith rhyfeddol o dda, ac y mae yn dwyn firwyth rhagorol. Nifer y darlithwyr sydd yn barhaus ar waith ydyw 7, ond eu bod yn cael eu cynorthwyo yn achlysurol gan 6 yn ychwaneg. Ymwelodd y boneddigion hynny yn ystod y flwyddyn a nodir uchod â 2,840 o ysgolion, lle yr oedd 283,297 o blant yn bresenol. Traddodaent yn yr ysgolion hynny 2,602 o ddarlithiau ar Effeithiau Alcohol ar y Cyfansoddiad Dynol, &c., a'r rheiny yn cael eu hegluro gan

olygfeydd a ddanghosid trwy y *magic lantern*; ac ysgrifenydd gan y plant 109,834 o adroddiadau o'r darlithoedd hynny, mewn lliaws mawr o ba rai y danghosid eu bod yn deall yn dda yr hyn a osodid o'u blaen, ac fod yr hyn a ddywedid wrthynt yn gadael argraff iachus arnynt. O'r 2,840 o ysgolion, yr oedd 1,652 dan Fyrddau, 713 yn rhai Eglwysig, 267 yn rhai Brytanaidd a pherthynol i enwadau, 53 yn *Training Ships* a Sefydliadau Erltannol, 116 yn ysgolion Uwchraddol, 34 yn Gynadleddu Athrawon, a 4 yn Golegau Athrawol. Ac y mae yn hyfryd deall fod y croesaw a roddir i'r darlithwyr, fel y maent yn para i gadw ymlaen gyda'u gwaith, yn dyfod yn fwy fwy, a'r gwrthwynebiadau a ddanghosir yn myned yn llai lai. "Yr ydwyf drachefn a thrachefn," ebai un o Arolygwyr ei Mawrhydi, "yn clywed am ganlyniadau da y gwersi hyn. Mae y Cynllun wedi ei drefnu yn hapus, ac yn cael ei weithio allan yn y modd mwyaf boddhaol. Mi a'i hystyriaif yn fraint i wneyd a allaf er hyrwyddo ei weithrediad yn y dosbarth sydd o dan fy ngofal." Cawn hanes yma am *Fanager* rhyw Ddarllawdy yn Swydd York yn ysgrifennu at y Cyngor Addysg i achwyn fod Bwrdd Ysgol York yn caniatáu darlithio ar yr hyn a alwent yn gymedroldeb, ond a gredai efe ydoedd yn ditotaliaeth noeth, ac yn disgwyl i'r Cyngor roddi atalfa ar y peth; ond nid oedd y Cyngor yn gweled eu bod yn cael eu galw i ymyrryd yn yr achos. Gwyr llawer o'n darllenwyr fod ein cyrdladwr, Mr. A. H. Trow, B.Sc., o Gaerdydd, yn un o ddarlithwyr yr Undeb, ac mor gymeradwy y mae ei waith wedi ei brofi ei hun mewn nifer tra lliosog o ysgolion Cymru. Y rhyfeddfod ydyw fod cymaint o waith da yn cael ei wneyd gyda rhyw £3,000 yn y flwyddyn. Drwg gennyf weled nad oes ond dau swm wedi eu derbyn o Gymru at hynny. Mae un oddiwrth Mr. John Cory, o £20, ac un oddiwrth Mr. Richard Cory o £50. Gwelwn fod un bonheddwr yn cyfrannu £150, a phedwar yn cyfrannu £100 ac uchod.

Golygiadau Diweddar ar Brofion Cristionogaeth. Gan GRIFFITH ELLIS, M.A., Bootle. Wrexham: Hughes and Son. 4c.

PAPUR a ddarllenwyd yng Nghyfarfod Gweinidogion Cymreig Liverpool a'r Amgylchoedd, yn Parkfield, Birkenhead, fis Mawrth diweddaf. Prin y mae eisieu dweyd ei fod yn dda, ac yn deilwng o astudiaeth. Y mae dadl y Profion o gyfnod i gyfnod yn amrywio yn ol fel y mae chwaeth a gogwydd meddyliau dynion yn amrywio; ond ymhob cyfnod y mae dynion da wedi gallu dangos fod ystori fawr yr Efyngyl yn dwyn gyda hi warantau sydd yn cyfarfod â chwilfrydedd y meddwl dynol, ac yn llanw â boddlonrwydd tawel y rhai sy'n ymofyn am y gwir. Ar adeg pan mae y gwrthwynebiad yn cyfodi o ryw un cyfeiriad arbennig, fe dueddir dynion i feddwl nad ydyw y pethau a roddent foddlonrwydd mewn adegau ereill yn werth eu cymeryd i'r cyfrif o gwbl, heb ystyried fod yr oll ynghyd yn gwneyd i fyny gadernid o Brofion sydd yn amgylchu dinas Duw o bob cyfeiriad, ac yn ei gwneyd yn anorchfygol. "Amgylchwch Seion, ac ewch o'i hamgylch hi; rhiwch ei thyrau hi; ystyriwch ei rhagfuriau, edrychwch ar ei phalasan; fel y mynegoch i'r oes a ddelo ar ol." Y mae Mr. Ellis yma yn dangos yn bur eglur beth sydd wedi ei wneyd yn y ffordd yma mewn blynyddoedd diweddar, ac mewn ffordd o gyfarfod ag ysbryd ac ymfofyniad meddylwyr y dyddiau hyn. Cyfoethoga ei bapur â dau ar bymtheg o ddyfyniadau,—rhai o honynt yn lled feithion, ac yn cael eu rhoddi yn Gymraeg ac yn Saesneg,—yn dangos yr olwg a gymerir ar y mater gan yr ysgrifenywr Seisnig goreu. Gobeithia "gyflwyno i'w gydgenedl rywbeth mwy teilwng ar y cwestiynau y cyffyrddir â hwynt yn y papur hwn." Mae'n debyg ei fod yn golygu rhywbeth mwy cyflawn; a da iawn fyddai iddo ymgymeryd â'r fath waith. Mae y papur hwn yn cynnwys defnyddiau rhagorol, ac yn dangos fod y mater wedi ei astudio mewn cyfeiriadau ag y carai y darllenydd wybod llawer mwy yn eu cylch, a chael y wybodaeth honno i'w feddiant mewn ffordd a roddai iddo syniad mwy clir am yr holl fater.

Llawlyfr Dirwestol: yn cynnwys ymdriniaeth ar Eguyddorion Llwyrym-wrthodiad oddiworth Alcohol, oddiar safle Wyddonol, Wleidyddol, Gymdeithasol, a Chrefyddol. Gan y Parch. JOHN LEWIS, Llangoed, Mon. Wedi ei adolygu a'i helaethu gan Dr. ROLAND WILLIAMS (*Rolant o Fon*), Caerdybi. 2s.

DYMA y traethawd buddugol yn Eisteddfod Llangefni, Llun y Pasg, 1891. Cyfeiriasom o'r blaen at draethawd rhagorol arall a ysgrifennwyd ar gyfer yr un gystadleuaeth, yn NHRAETHODYDD Mawrth y flwyddyn hon. Dylasai hwn fod yn ein llaw yn gynt, ond yr ydym wedi ei ddarllen gyda llawer o hyfrydwch, ac o galon yn dymuno iddo gylchrediad eang a darlenniad ystyriol. Mae yn dra gofidus gweled fel y mae ymyfed yn ffynnu yn ein gwlad, ac wrth reswm yn cynhyrchu ei effeithiau naturiol o ddiodi, a throseddau, a thrueni. Mae yn hyfryd gweled deffrôad Cymru y dyddiau hyn gyda golwg ar gael deddfwriaeth fwy boddhaol ynglyn a masnach y ddiod,—masnach, chwedl Mr. Gladstone yn nhy y Cyffredin, a chwedl Albert Barnes, yr esboniwr, hanner can mlynedd cyn hynny, sydd yn cynhyrchu drygau unedig y rhyfel, y newyn, a'r haint. Hyderwn yn fawr y rhydd Cymru lân ei llais ar y mater yma yn yr Etholiad sydd wrth y drws mewn ffordd nad allo neb ei gamsynied ac na feiddia neb ei ddiystyru. Gwyn fyd na cheid ein *pedwar ar ddey ar hugain* yn rhai a ddywedo yn Senedd Prydain Fawr y rhaid i bobl Cymru gael gallu i benderfynu pa un a yw y siopau peryglus hyn i gael eu parhau yn eu hardaloedd! Ond ar wahân oddiwrth hyn, y mae yn dra phwysig fod pwnc y ddiod o hyd yn cael ei athrawiaethu yn ein gwlad, fel y gwelo y bobl mor ofer ydyw eu dychymyg fod yn bosibl iddi wneyd iddynt unrhyw les, mor beryglus ydyw ei hudoliaeth, ac mor fawr ydyw y trychineb y mae yn anocheladwy yn ei achosi. Mae yn dda gennym ddwyed fod y ddadl, yn ei holl agweddau, yn cael ei gosod ger bron yn y llyfr hwn mewn dull medrus, clir, a chyflawn. Y mae yn gyfoethog o ddefnyddiau o arfogaeth; yn yr ystyr yma fel twr Dafydd,—“tariannau fil sydd yn crogi ynddo, i gyd yn estyllt y cedyrn.”

British Universities: Notes and Summaries contributed to the Welsh University. Discussion by Members of the Senate of the University College of North Wales. With a General Introduction, by W. RHYS ROBERTS, M.A., Professor of Greek in the University College of North Wales; late Fellow of King's College, Cambridge. 1s.

“CODER safon dysgeidiaeth yn uwch yng ngolwg y wlad.” Mae y geiriau ardderchog hyn o eiddo y diweddar Barchedig DDr. EDWARDS wedi eu hargraffu ar wyneb ddalen y llyfr hwn. Bu efe am lawer o amser yn pregethu yr athrawiaeth yma i Gymru pan nad ydoedd ond megys “llef un yn llefain yn y diffaethwch.” Erbyn hyn, sut bynnag, y mae ei ymdrech, ac eiddo yr ychydig a gydweithient yn yr un cyfeiriad, wedi dwyn canlyniadau o anfeasurol werth. Amcan y llyfr hwn, at ba un y cyfeiria Mr. W. Lewis Jones yn ei erthygl ragorol yn y Rhifyn yma o'r TRAEHTODYDD ar “Y Brifysgol i Gymru,” ydyw ein cynorthwyo i furfio syniadau addas am y Brifysgol ag y gellid meddwl ei bod bellach ar fin cael ei sefydlu yn ein gwlad. I'r diben yma rhoddir yn yr Arweiniad hanes cyfodiad Prifysgolion yn y Cyfandir, yn y deyrnas hon, ac yn America, a cheir cryn lawer o wybodaeth am eu gwaith a'r modd y maent yn cael eu dwyn ymlaen, at yr hyn hefyd yr ychwanegir Nodiadau sydd yn cynnwys llawer o hysbysrwydd, ac yn cyfeirio at awdurdodau a roddant bob gwybodaeth ychwanegol yn eu cylch. Yna cawn bob manylion am Brifysgolion Lloegr, Scotland, a'r Iwerddon, o ran eu llywodraethiad, eu cwrs o addysg, eu cyllid, &c. Feallai fod ambell un yn ddigon hyderus i dybed y gallai gyda llawer o rwyddineb drefnu y Brifysgol Gymreig; ond wedi darllen y llyfr hwn mae yn dra thebyg y teimlai fod y gwaith lawer yn anos nag y darfu iddo, o bosibl, erioed ddychmygu. Sut bynnag, y mae y wybodaeth a geir yma, sydd yn frifwyt ymchwilid tra mawr, ac wedi ei gosod gerbron mewn dull medrus a chlir, yn deilwng o syllw ac ystyriaeth.

CHWÈ MEDAL AUR.

New Zealand, 1882; Calcutta, 1884; London, 1885
New Orleans, 1885; Southern States, 1886.

Allen & Hanburys' A Castor Oil

Tasteless. Pure. Active.
Sold everywhere at 6d., 1/1, 1/9 & 3/4.

Cymerir ef gan blant a rhai
mewn oed heb yr anhawsder lleiaf,
tra y mas ei effeithiau ar y corph
yn ddiarnheul. Medda yr holl
ragoriaethau a honir iddo. — *Lancet*

Goddard's Plate Powder

DIM MERCURY

Mae y Powder hwn er's dros Haner Canrif
well dal i fyny y cymeriad drwy yr Unol Dal-
eithiau a'r Trefedigaethau o fod y defnydd goren
a mwyaf (logol) at lanhan Arian ac Electro Plate.
Gwerthir mewn Blychau 1s., 2s. 6c., a 4s. 6c. yr un.

MASSACHUSETTS DRURY POST.

POSTAL SHOPPING

H. PEASE & CO'S

SUCCESSORS

LADIES

WRITE FOR PATTERNS
OF ALL THE LATEST NOVELTIES
IN DRESS MATERIALS
AT MILL PRICES

SPINNERS & MANUFACTURERS

The Mills
DARLINGTON

Antoned y Bonoddigedd am Fatriyman o'r
Nwyddau Ddreses diweddarnaf.

DRESSMAKING IN ALL ITS BRANCHES.

Gwneuthurwyr y Gold Medal Merinos, Cashmores a Cross Warp Serges. Anf 3
patryman yn rhad drwy y llythyrdy ar gymedwyaeth.

Allen & Hanburys'

"PERFECTED"

Cod Liver Oil

Gall y gwanaf ei gymeryd a'i dreulio. Dyma yr unig Oil nad yw ei archwaeth yn colli o'r stumog i'r
gennau. Ac am y rhesymau hyn, yr Oil yma yw y goren a'r mwyaf effeithiol mewn arferiad.

Mewn blwch-botelau yn unig, am 1s. 4c., 2s. 6c., 4s. 9c., a 8s. Ar werth yn mhob man.

BYNIN LIQUID MALT sydd nwydd gwerthfawr i'w ddefnyddio gyda Cod Liver Oil.
Y well ei gryfhau a'i wneyd yn nwydd llesol, Gwerthfawr at gynorthwyo treulio.
Y mae hefyd yn bur ddefnyddiol mewn achosion o Ddarfa dedigaeth ac anhwylderna effeithyb.
Mewn poteli, 1s. 6c. yr un.

COCOA

Cadbury

Hollol Bur, wedi ei wneyd yn Lloegr

Ni dddefnyddir Chemicals fel y gwneir yn Cocous a elwir yn rhai tramor.
Mae enw CADBURY ar unrhyw sypyn o Cocoa neu Chocolate yn ddigon
sicrwydd am burdeb.



SEBON
PEARS.

Y

TRAETHODYDD.

MEDI, 1892.

CYNHWYSIAD.

Tŷ DAL.

Adnebydd dy Hun. Gan y Parch. J. J. ROBERTS, Porthmadog..	325
Yr Epistol at y Galatiaid. Gan y Parch. A. J. PARRY.....	332
Y Lleuad. Gan y Parch. JOHN JONES, F.R.H.S.	342
Melchisedec o Salem. Gan y Parch. H. BARROW WILLIAMS	348
Adgofon am Morgan Jones, Llundain. Gan MYNORYDD	352
Gallu y Pulpud. Anerchiad a draddodwyd yng Nghyfarfod Blynyddol Athrofa Dduwinyddol y Bala, Gorffennaf 7fed, 1892. Gan y Parch. ALEXANDER MACLAREN, D.D.	358
Yr "Euthyphron," neu Beth yw Duwioledeb? Un o Ymddiddan- ion Plato. Gan y Parch. WILLIAM GLYNNE, B.A.	363
Yr Ynadon a Dirwest. Gan WILLIAM GEORGE	376
Yr Ysgol Haf ym Mansfield, Rhydychain. Gan y Parch. J. PULESTON JONES, M.A.	382
"Yr Iesu a dawodd." Gan R. MON WILLIAMS	390
Dau Lythyr o eiddo y Parch. William Roberts, Amlwch	396
Nodiadau Llenyddol	398

CYHOEDDIR Y RHIFYN NESAF TACHWEDD 1af, 1892.

PRIS SWLLT.

CAERNARFON:

ARGRAFFWYD A CHYHOEDDWDYD GAN D. W. DAVIES & CO

"NID OES GWELL BWYD YN BOD"—*London Medical Record.*

Dylid rhoddi cynnyg ar y Bwyd hwn yn lle bynnag y byd i lluniaeth arall wedi methu. Wedi ei Goginio yn barod—ni loes eisieu ei ferwi na'i ystraelnio. Gellir ei wneyd mewn mynyd.

Allen & Hanburys' Infants' Food

Bwyd llesol wedi ei gyfaddasu i organau treulol Babanod a hysbysu ieuaine, yn cynwys pobpeth angenrheidiol i furfio enawd caled ac esgyrn. Y mae effeithlon rhyfeddol wedi dilyn ar ol cymeryd y Bwyd yma, yr hwn, ar ol ei gymeryd unwaith a gymerrir o hyd. Tystiolaeth feddygol a phob cyfarwyddyd gyda phob blwch.

Pris 6c., 1s., 2s., 5s., a 10s. Ar werth yn mhob man.

BIRD'S CUSTARD POWDER

Cyflenwa foethusfwyd dyddiol—Blasusfwyd mewn amrywiaeth diderfyn—Y dysgleidiau goreu o'r Custard goreu

HEB WYAU!

GWOBWRWYON DIWEDDARAF: Y Brif Wobr yn Paris, Melbourne, a Barcelona, Bathodau Aur, a Thystysgrifau yn mhob lle yr arddangoswyd ef.

Needham's

DISGLAER
FEL
DRYCH.



Polishing

Medda gymeriad agos i ganrif fel y ddarpariaeth oren at lanhau PRES, COPR, TIN, BRITANNIA METAL, PLATINOID, &c. Gellir ei gael yn mhob man mewn Potiau 6c. a 1s., neu Flychau 2g. a 1c.

Paste

Dyfeisiwyr i Gwneuthurwyr,

JOSEPH PICKERING & SONS, SHEFFIELD.

LONDON OFFICE: ST. GEORGE'S HOUSE, EASTCHEAP, E.C.

Y TRAETHODYDD.

ADNEBYDD DY HUN.

DYSGIR ni mai Thales, y Milesiad, a ddefnyddiodd yr ymadrodd uchod gyntaf. Ystyrid ar unwaith ei fod yn un nodedig o gynhwysfawr; ac wrth gael ei arfer yn fynych, a chyda chymeradwyaeth mawr, fe ddaeth yn raddol i feddu awdurdod oracl. Canfyddai dynion gymaint o ddoethineb ynddo fel y credent y rhaid ei fod wedi deilliaw yn wreiddiol oddiwrth Apolo; oblegid hynny ysgrifenasant ef, mewn llythrennau o aur, uwch ben porth ei deml yn Delphi. *Tybiai* y paganiaid fod yr ymadrodd hwn yn ddwyfol; *gwyddom* ni fod y syniad a gynhwysir ynddo yn ddwyfol; canys cyfarfyddwn ag ef droion yn y Beibl,—megys yn y manau canlynol: Salm xxvi. 2, lxxvii. 6, cxxxix. 23, Galarnad iii. 40, 1 Cor. xi. 28, 2 Cor. xiii. 5, Gal. vi. 3—4, &c. Gwelir oddiwrth hyn fod yr Ysgrythyr yn rhoddi cymaint o bwys ag a roddai Athroniaeth genhedlig ar hunan-adnabyddiaeth.

I. Cydnabyddir yn lled gyffredinol bwysigrwydd y mater hwn; a dichon mai doeth fyddai ystyried a chyfaddef hefyd mai gwaith *anhawdd* i bechadur ydyw adnabod ei hun. Nid yw ei bwysigrwydd yn lleihau ei anhawsterau, mwy nag y mae ei anhawsterau yn lleihau ei bwysigrwydd. Yn wir, y mae meddwl o gwbl—meddwl yn gyson a llwyddiannus,—yn gofyn am lawer o benderfyniad ac ymdrech oddiwrtho ef. Profwn hyn wrth olrhain a dadansoddi ymddangosiadau a sylweddau y greadigaeth. Cyfarfyddwn wrth drafod rhagluniaeth a hanesyddiaeth â rhwystrau newyddion; oblegid, tra y mae galluoedd anian yn gweithredu yn ol deddfau sefydlog, y mae ewyllys yn ymweithio yn elfen iddynt hwy; ac y mae pob ewyllys, i fesur mwy neu lai, yn ddeddf iddi ei hun. Yr un pryd, er mor anhawdd i ddyn ydyw deall ac esbonio y pethau a nodwyd, cyferfydd wrth geisio adnabod ei hun—adnabod ei feddwl ac ysbryd ei feddwl, a deall tueddiadau ei galon ac egwyddorion ei weithredoedd, wrth ymdreiddio at ffynhonnell ei ddymuniadau ac at wraidd ei amcanion—ag anhawsterau lliosocach a mwy. Gallwn grybwyll rhai rhesymau am hynny: uchelder a dyfnder ei natur, ei chyfuniad rhyfeddol o ddefnydd ac ysbryd, ei pherthynas ag amser ac â thragwyddoldeb; dirgelwch naturiol ei bersonoliaeth; lliosogrwydd galluoedd, amrywiaeth gweithrediadau, a chyfnewidioldeb gwas-tadol profiadau ei enaid; ei sefyllfa ddirywiedig trwy bechod; gwendid, dyrswch, ac ymrafaelion ei gynheddfau,—twyll ei galon, a'i amddifardrwydd o duedd i ymgynabyddu ag ef ei hun. Rhaid fod y pethau hyn yn rhwystrau difrifol ar ei ffordd i'w olrhain ei hun; a dichon y byddai yn ddoeth ymhelaethu rhywfaint ar y diweddaf ohonynt.

Gan fod pechadur yn dlawd, yn llygredig, ac mewn ymrysonfeydd ag ef ei hun, rhaid fod ei gymdeithas ef ei hun yn fynych yn boenus iddo. Y mae arno ofn ei hun, a gwell ganddo, lawer pryd, weled rhywun

a rhywbeth nag ef ei hun. Un o nodweddion ei fywyd ydyw ei ymdrech i osgoi ei hun; a defnyddia lawer moddion i geisio sicrhau hynny. Galluogi pechaduriaid i ollwng eu hunain dros gof ydyw un o ddibenion difyrion a chwareuon y byd. Nid o herwydd fod arno angen ymarferiad corfforol y rhodia y llanc yn ol ac ymlaen trwy y pentref ym mrig yr hwyr; canys y mae yn gweithio yn yr awyr agored bob dydd; ond oherwydd fod ei gymdeithas ef ei hun yn annioddefol iddo ef ei hun, a bod rhodio felly yn ei gynorthwyo i ddianc oddiaro ei hun. Am yr un rheswm, i raddau helaeth, y mae cyfeddach y dafarn mor felus ac mor boblogaidd—am ei bod, trwy foddï llais eu cydwybod, yn cymeryd oddiar annuwiolion eu profiadau naturiol o wagder a diflasod, ac yn peri i amser lithro heibio yn ddiarwybod iddynt. Dichon nad ydyw Duw a dyn yn gwahaniaethu mwy mewn dim nag yn hyn—mewn gallu i fyw ar eu pennau eu hunain; yn eu digonolrwydd iddynt eu hunain. Gall yr Arglwydd edrych iddo ei Hun heb weled terfyn arno ei Hun, a chwilio ei Hun heb ganfod dim annymunol ynddo ei Hun am byth; ac yr oedd unigedd tragwyddoldeb trwy hynny yn wynfydedigrwydd iddo Ef. Mor wahanol yw pechadur! Gweled y mae ef, os yw yn gweled o gwbl, wrth droi i mewn iddo ei hun, dlodi ac anhrefn, euogrwydd a llygredigaeth, ynfyrdrwydd a mympwyon; yn lle doethineb a gwirionedd, twyll a gelyniaeth; yn lle uniondeb a chariad, ymraffaelion rhwng rheswm a nwyd; a rhwng cydwybod a chwant, yn lle tangefedd a dedwyddwch. Nid yw, o ganlyniad, yn rhyfedd ei fod yn ei osgoi ei hun; ac os ydyw yn ei osgoi ei hun, pa fodd y gall ei adnabod ei hun?

II. Yr un pryd, er anhawdded i bechadur ydyw adnabod ei hun, nid ydyw hynny yn *annichonadwy* iddo. Gall trwy ymroddiad dyfal a sylwadaeth fanol, gyrraedd syniad lled gywir am ei natur ac am ei anghenion. Oferedd ydyw i ni obeithio am wybodaeth drwyadl neu anfaledig am danom ein hunain, mwy nag am rywbeth arall. Nid ydym yn deall dim—tywodyn na byd—yn berffaith. Gorfodir ni i ddygymod & dirnadaeth hanerog o bob peth. Yr ydym, yr un pryd, ymhell oddiwrth ymdawelu mewn anwybodaeth hollol. Mynwn, os nad allwn ennill y cyfan, sicrhau y rhan. Ac y mae rhywfaint o gyd-nabyddiaeth ag enaid yn werthfawr. Pa fodd y deawn i feddiant o honi? Caniateir fod hunan-adnabyddiaeth, fel rhyw gangen arall o wybodaeth, yn tybied mesur o allu a seibiant, o ymdrech, ac o awydd sefydlog am dani. Cydnabyddir hefyd mai mantais fawr i ddyw tuag at ddeall ei hun, fyddai ymglydnabyddu â dynoliaeth yn ei nhodweddion cyffredinol; oblegid y mae hi yn ei hanfodion yr un peth ymha'v. Gall wneyd hynny trwy sylwi ar weithredoedd ac arferion, ar fywyd ac ysbyrd ei gyd-ddynion; trwy efrydu y llyfrau a broffesant egluro ei natur yn anianyddol, yn feddyliol, ac yn foesol; trwy ddarllen hanes ei ryw mewn gwahanol wledydd ac oesoedd; a thrwy ystyried argyhoedd-iadau a phrofiadau prif gymeriadau y byd. Caiff lawer o gynhorthwy oddiwrth hyn; a gwel yn llewyrch yr eneidiau mwyaf a disgleiriaf ymhell i mewn iddo ef ei hun. Os ystyrir y cwrs hwn yn rhy eang, ac uwchlaw i nifer mawr o bobl, y mae un llyfr ag y gall pawb ei ddefnyddio; yr un hwnnw yw y Beibl. Ac efe, er mai fel datguddiad o Dduw yr edrychir fynychaf arno, yw yr eglurhad cyflawnaf a manylaf a gyhoeddwyd erioed ar galon ac ysbyrd dyn. Heb. iv. 12.

Yr un pryd, gan nad faint o gynhorthwy a gawn trwy y fath foddion ag a nodwyd, dylem gofio mai cynhorthwy i gyrraedd yr amcan, ac nid yr amcan ei hun, a dderbyniwn trwyddynt. Rhaid i ddyd, mewn trefn i adnabod ei hun, *ymwthio i mewn iddo ei hun*; gan nad beth arall fyddai yn fanteisiol iddo, y mae hynny yn hanfodol; a rhaid iddo mewn trefn i allu gwneuthur hynny, ymneillduo yn achlysurol oddiwrth bawb a phob peth arall. Cydnebydd pawb mai trwy olrhain ei natur y gall ddeall ei natur; trwy ddarllen ei gymeriad y gall farnu ei gymeriad; ac mewn unigedd a distawrwydd y gall wneuthur hynny oreu. Ni fydd yn angenrheidiol iddo droi yn feudwy, gan ymborthi ar wraidd a chysgu mewn ogofeydd; ond bydd yn haws iddo ymddiddan ag ef ei hun a holi ei hun yn llwyddiannus mewn ystafell ddirgel, mewn cwm tawel, nag ym merw masnach neu ddadwrdd cymdeithas. A gallwn trwy ddyfalwch ac ymarferiad & moddion pri-dol, er mor dywyll ydyw ein meddyliau, ymwithio i adnabyddiaeth lled gywir o honom ein hunain. Parhâ ein rheswm, gan nad faint ydyw ei ddirywiad, yn llygad; a gall, yn wahanol i lygad y corff, weled ei hun yn gystal a gwrthrychau oddiallan iddo ei hun. Gallwn wrth wylled gweithrediadau yr ewyllys, gyrraedd syniad gweddol glir am ei chymeriad. Wrth i ni ymwrando â ni ein hunain, daw ansawdd ein cydwybodau yn brofiad i ni. Er bod y galon yn wlad anadabyddus i ddiethriaid, gŵyr hi ei hun ei chwerwder ei hun, a mwyrhá ei llawenydd ei hun (gwel Job xxxii. 8, Diareb. xx. 27, 1 Cor. ii. 11). Eto, er y gall pechadur ddeall ei hun i ryw raddau, ac mai trwyddo ei hun y dichon wneuthur hynny, rhaid fod ei ddrygioni, ei dywyllwch, ei ymrysonfeydd, yn rhwystrau mawrion ar ei ffordd i sierhau yr amcan; a dyledswydd pob dyn ydyw erfyn, fel y Salmudd, ar i Dduw ei chwilio (cxxxix. 23, 24). Yng ngoleuni ein Creawdwr y gwelwn ni oleuni. Efe, yn anad neb na dim, a ddichon ddatguddio creadur iddo ei hun. Enillwn wrth ddarllen dymuniadau ein calonau, a dehongli awgrymiadau ein cydwybodau, yn ei lewyrch Efi, wybodaeth foddhaol am danom ein hunain. Deuwn, o dan arweiniad yr Ysbryd Glan, i adnabod ein hunain fel yr ydym yn cael ein hadnabod.

III. Fel creadur yr ymddengys dyn iddo ei hun gyntaf. A phriodol fyddai iddo ofyn rhai holiadau rhagarweiniol iddo ei hun yn y golygiad hwn; megys o ba le y daeth, ac i ba ddiben y dygwyd ef i fod. A ydyw yn ateb amcan ei greadigaeth, ac yn cyfiawnhau ei arhosiad ar y ddaear? Arweiniad y gofyniadau hyn ef i ystyried ei berthynas â Duw fel creadwr a chynhaliwr, ac i deimlo ei rwymedigaeth iddo. Wrth ofyn iddo ei hun i ba le y mae yn myned, caiff ei hun yn cyflymu ar hyd llwybr dieithr ac at amgylchiadau newyddion; a bydd i angeu a barn wasgu eu hunain ar ei fyfyrddau. A ddymunai efe farw yn ei sefyllfa bresennol? Pe gwnai, a fyddai tragwyddoldeb yn debyg o fod yn nefoedd iddo? Parai hyn iddo olrhain ei berthynas ag amser—i edrych yn ol ac ymlaen, i adolygu yr hyn a fu, ac i gynllunio gyda golwg ar yr hyn a ddaw, i wrando sibrydion ei oriau ymadawedig, ac i feddwl a ddichon y dull y treulia yr adeg bresennol effeithio arno fil neu filiwn o ganrifoedd ymlaen. Gallai ystyriaethau fel hyn gynhyrchu argyhoeddiadau difrifol yn ei galon, a dwyn oddiamgylch gyfnewidiadau bendithiol yn ei fuchedd.

Byddai yn naturiol iddo ymlithro oddiwrth hyn i ofyn iddo ei hun pa beth ydyw. Efe a wel wrth wneyd hynny ei fod yn *ddyn*; a gallai yr ymsyn-

iad ei fod yn ddyn, wrth gael croesaw yn ei feddwl, gario dylanwad iachus arno. Fel y cyfryw, y mae yn gyfansoddedig o ddwy ran—corff ac enaid, neu ddefnydd ac ysbryd; a chaiff, os yw o duedd chwilfrydig, wrth geisio deall pa fodd y mae dwy elfen mor annhebyg—mor amddifad o gydnawsedd—yn cydbreswyllo ac yn cydweithredu ynddo, lawer o hyfrydwch. Yn yr olwg ar ei gorff, ymddeffry ynddo lawer o holiadau dyddorol. Arweinir ef, er esiampl, i ystyried ei berthynas ag *anian*—ei ddibyniad ar ei helfennau, i ymfodyn pa fodd y daw cyrff creaduriaid ereill yn gnawd ac yn esgyrn iddo ef; a pha fodd y try llyisiau, awyr a goleuni, yn ynni yn ei gvhyrau, yn wallt ar ei ben, ac yn wrid ar ei ruddiau. Gwel *yn* ei gorff y fath gyfuniad o gwreinion byw—y fath olwynion yn troi trwy ysbryd y bywyd ynghanol olwynion, ag a bair iddo ryfeddu ac addoli.

Disgynned i lawr i'w enaid, ac ymgyr byd mawr a dieithr o flaen ei olygon. Caiff ei hun yn mhresenoldeb galluoedd aruthrol ac anghenion annherfynol; a gwel yn y cyfan addewid am barhad a chynnydd tra-gwyddol. Derbyniai fendith wrth eu holi am danynt eu hunain—am eu natur, eu cymeriad, eu hamcanion, eu gwaith. Dechreuod gyda nwydau cryfaf a theimladau mwyaf angherddol ei gyfansoddiad; bydd deall pwy ydyw yr arglwyddi, a phwy ydyw y gweision, yn fanteisiol iddo yn ei ymdrech i gyrraedd llywodraeth arno ei hun, ac i ennill iddo ei hun nodweddiad anrhydeddus. Ni ddylai orffwys ar hyn; ymgydnabydded ag ef ei hun fel creadur rhesymol a deallol, galluog i feddwl a gwybod, i gofio a dychmygu. Archwiliad ei hun fel bod moesol a chyfrifol,—meddiannol ar allu i ddewis a gwrthod, i garu a chashau. Sylwed ar dueddiadau ei ewyllys, a gwrandawed ar sibrydion ei gydwybod. Disgynned i ddyfnderoedd ei galon, a mynned adnabod ysbryd ei feddwl, bywyd ei ddymuniadau, ac egwyddorion ei weithredoedd. Tueddar ef yn ddiâu ar ol hynny i ofyn iddo ei hun, a ydyw yn deilwng o hono ei hun, a ydyw yn ymagweddu yn gyson â honiadau ac ag urddas ei natur. Os ydyw, caiff achos i lawenhaus; os nad ydyw, arweinir ef i ymdrechu diwygio; i geisio cywiro ei syniadau, llywodraethu ei deimladau, a dwyn ei hun o dan ddylanwad moddion a burant ei galon ac a weithiant ei fuchedd i gydymffurfiaid ag ewyllys Duw.

IV. Byddai yn naturiol i ddyn ystyried ei hun wedi hynny fel *pechadur*. A chaiff wrth gymharu ei hun yn y ddau olygiad gyfleustra i weled, i raddau, ddyfnder y dirywiad ac ehangder y dinystr sydd wedi cymeryd lle yn ei gyfansoddiad. Dichon y caiff lawer golwg arno ei hun a bar iddo arswydo ac anobeithio; ond ychwanegu y galanastra ydyw tuedd hynny. Ymwroled yn hytrach i fesur y trychineb ac i adolygu yr adfeilion; canys y mae y sawl sydd yn adnabod ei hun mewn sefyllfa i allu cydweithio â Duw yn ei adferiad ei hun. Gan fod y goleuni sydd mewn pechadur i fesur mawr yn dywyllwch, rhaid iddo mewn trefn i gyrraedd ei amcan, sylu yn fynych, yn hir, ac yn ddwys. Byddai yn ddoeth iddo ymdrechu gwahaniaethu yn ofalus rhwng *gwendidau* a *phechodau*, a rhwng *diffygion* a *beiau*. Ni fedd sail i achwyn arno ei hun oblegid ei fod yn amddifad o athrylith; gweddus fyddai iddo alaru oblegid ei fod yn amddifad o gariad. Nid oes achos iddo gywilyddio o herwydd tlodi ei rieni; o herwydd afrywiogrwydd ei dymer, grym ei genfigen, neu chwerwder ei athrodion, dylai gywilyddio Y

mae yn bwysig iddo hefyd sylwi yn graff ar afonydd mawrion ei fod, ac ar brif ffyrdd ei fywyd,—i ba gyfeiriad y rhedant. Mynned wybod pa rai yw tueddiadau llywodraethol ei natur, ei egwyddorion mwyaſ dylanwadol, ei gymelliadau dyfnaf, ei amcanion uchaf. Pa rai yw ei ragfarnau pennaf? Gan ba bechodau y mae yn fwyaf agored i gael ei amgylchynu? Daw trwy adnabod y rhai hyn, i adnabod y gweddill. Dichon y bydd yn rhaid iddo yn yr ymchwiliad hwn ymndaith dros fynyddau tanllyd o nwydau, ymweithio trwy lawer nos o dawch tew a gwenwynig yn ei feddwl; syllu ar lygredigaeth marwolaeth yn ei ewyllys; ac ymdreiddio trwy haenau o anwiredd a rhagrith, o genfigen a gelyniaeth yn ei galon. Yr un pryd, er gorfod edrych ar ei natur dan arglwyddiaeth gwylliaid rhyfygus, a chael angylion ei enaid yn ymguddio yn ddychrynedig mewn ogofeydd budron, na ddigalonned. Eled rhagddo i ollwng cymaint o oleuni ar ei anialwch ag a all, gan gredu mai mewn goleuni yn unig y daw hi yn baradwys. Afreidiol ydyw annog neb a ymgymer â hyn, i sylwi ar ddylanwad ei galon ar ei uchedd—i graffu ar dueddiadau drygionus yn torri allan mewn gweithredoedd drygionus, ac ar ddymuniadau hunanol ac amcanion annuwiol yn ymhyffau i greulondeb a thrais, ac yn ymfurfio yn warth a gwae. Caiff trwy wneuthur hynny gyfleusterau i ddinstrio y dderwen yn y cysen, ac i ladd y llew yn y cenaw; i atal pechodau a throseddau cyhoeddus trwy farweiddio tueddiadu llygredig ei natur. Diddymed ei weithredoedd llygredig trwy wenwyno yr ysbrydion llygredig a lechant yn ei galon. Adeiladed chwil-lys, a chyfoded arteithglwyd yn ei enaid; caiff gynhorthwy Duw at y gwaith. Yna ceisied losgi chwantau a dychmygion halogedig ei fod yn lludw, a rhoddi balchder ei ysbryd i farwolaeth heb drugaredd. Ymdreched boenydio ei ddaearoldeb a gwyniau ei gnawdolrwydd hyd angu. Cywilyddied ei dwyll a gwaradwydded ei lid ymaith o fod.

V. Medd miloedd o bobl yn y wlad hon fwy neu lai o le i gredu eu bod yn *saint*; a gallent dderbyn bendith wrth ystyried a chwilio eu hunain yn y golygiad hwnnw. Priodol fyddai iddynt wrth gael eu hunain mewn cysylltiadau crefyddol, ac yn ymwneyd ag ordinhadau crefyddol, ofyn iddynt eu hunain, a ydynt hwy mewn gwirionedd yn grefyddol? Byddai yn fantais i bob aelod eglwysig droi yn achlysurol ei olygon arno ac iddo ef ei hun, a mynnu gwybod pa rai yw ei brif ddifffygion, ei bechodau anwylaf, ei beryglon mwyaſ. Gofynnod iddo ei hun pa beth ydyw diben pennaf ei fod, amcan uchaf ei fywyd ar y ddaear. Ai ar y byd ai ar y nef y rhed ei serchiadau cryfaf? Ai amser ynte tragwyddoldeb yw gwrthrych ei fyfyrdodau pennaf? Eled i mewn i gysegr ei enaid i edrych pwy a addolir ynddo—y Creawdwr ynte y creadur? Os Duw, i ba raddau y mae yr addoliad yn bur? Caiff llawer credadyn wrth olrhain ei hun fel hyn, olwg ryfedd arnoei hun—golwg o reswm a nwyd, o ddiniweidrwydd a thwyll, o dangnefedd a therfysg. Y fatth gyfuniad o sancteiddrwydd a llygredigaeth, o gariad a gelyniaeth, o obaith ac ofn, a ymled o flaen ei olygon! Gwel fod ei galon ar unwaith yn deml i Dduw ac yn ogof lladron. Ymddengys ei natur iddo heddyw yn anrheithedig gan ragrith neu wae, ac yfory yn brydferth gan uniondeb a llawenydd. Gall cyntedd ei enaid fod yn dywyll gan bechod a marwolaeth, pryd y bydd ei gysegr sancteiddiolaf yn llawn o oleuni bywyd a chariad.

Oddiar yr egwyddorion gwrthwynebol hyn, ymgyfyd ynddo ymrfaelion ag y gweddai iddo dalu sylw manwl iddynt. Syllled ar y brwydrau a ddygir ymlaen rhwng y ddau ddyn—newydd a hen, rhwng deddf y meddwl a deddf yr aelodau, a rhwng cnawd ac ysbryd, oddifewn iddo. Byddai yn ddoeth iddo wylid y rhyfeleodd a gymerant le rhwng gwirionedd a chelwydd, sancteiddrwydd a llygredigaeth, bywyd a marwolaeth, yn nyfnder ei berson. Edryched ar lawenydd a thristwch, cariad a chas, buddiannau amser a buddiannau tragwyddoldeb, yn ymladd yn ei natur. Tueddar ef yn yr olwg arnynt i anturio yn fynych i ganol y tân, ac i ymdrechu gosod teyrnas ei enaid mewn trefn, gan fynnu uffudd-dod oddiwrth ei holl ddeiliaid. Gall trwy Ysbryd yr Arglwydd wneyd llawer mewn ffordd o feithrin dymuniadau nefol, cryfhau tueddiadau sanctaidd, mawrhau gwirionedd ac uniondeb, a pharchu pethau tragwyddol a dwyfol. Yn ol mesur ei lwyddiant yn y cyfeiriad hwn, galluogir ef i gywilyddio twyll a balchder, a darostwng cnawdolrwydd a daearoldeb ei natur. Byddai yn ddoeth iddo yn yr ymdrechion hyn ymdrechu ymweithio yn feunyddiol i grediniaeth bellach a dyfnach o wirioneddau yr Efengyl, ac aros cymaint ag a all yng nghymdeithas fywiocäol a phureiddiol ei Waredwr. Oblegid y mae myfyrio ar sylweddau ysbrydol a dwyfol yn cynhyrchu syniadau nefol a theimladau grasol; ac y mae meddyliau a theimladau grasol a sanctaidd yn cenhedlu geiriau a gweithredoedd cymeradwy a bendithiol. Caiff lawer o hyfrydwrth wrth ymdrechu fel hyn, ac wrth ymwrando ag adnodaau y Beibl ac olrhain eu heffeithiau ar ei gymeriad. Gwel hwynt ar ol ymweithio drwy y deall at ewyllys a chydwybod, a thrwy ei gôf i lawr i ddyfnderoedd ei galon, yn ymddyrchafu oddiyno yn ddylanwadau bendigedig ar ei ymarweddiad. Edryched ar fywyd Crist yn ymlid ymaith dueddiadau drygionus ei natur, ac yn arwain ei galluoedd i weithredu mewn addoliad ar y Personau Dwyfol. Derbynia fwyhad pur wrth syllu ar yr Ysbryd Glan yn meithrin ei grasusau, y rhai wrth ymgryfhau a alltudiant bob gwyniau pechadurus allan o honi. Fel y mae profiad o faddeuant yn troi yn faddengarwch, ac ysbryd newydd yn amlygu ei hun trwy fuchedd newydd, o flaen ei olygon! Mor hyfryd iddo fydd gweled anialwch ei lygredigaeth yn diflannu o flaen paradwys sancteiddrwydd!

VI. Ymddengys hunanymchwiliad o rai cyfeiriadau yn rhywbeth mor briodol a bendithiol, fel y byddai dwyn ymlaen *resymau drosto* yn mylly ar fod yn sarhâd ar ddynion. A all creadur moesol a chyfrifol ymgymeryd â gwaith gweddeiddiach na holi ei gymelliadau a barnu ei amcanion? A ddichon dyledswydd bwysicach neu amlycach, orffwys arnom nag ystyried ein gweithredoedd yn fanwl cyn ac wedi eu cyflawni? A ydym yn gwneuthur hynny? Y ffaith alarus, fel y mynegwyd, ydyw, nad oes odid i orchwyl ag y mae dynolryw yn fwy amddifad o duedd ato na chwilio eu hunain. Prin y gallaswn, yn flaenorol i brofiad o hynny, gredu fod unrhyw berson yn byw yn ddiotal yn ei glych ef ei hun, ac mewn anwybodaeth dybryd am dano ei hun. Pe nad hyn fuasai hanes y nifer fwyaf o bobl, buaswn yn galw y fath ymddygiad yn wallgofrwydd neu yn ysgelder. Oblegid hynny, gan ein bod wrth naturiaeth mor ddiethr i ni ein hunain, ac mor amddifad o duedd i chwilio ein hunain, priodol yn ddiâu fyddai ymdrechu dangos rhesymoldeb a phwysigrwydd ymgydnabyddiaeth â ni ein hunain. Rhaid

i mi, mewn trefn i ochelyd meithder, ymfoddloni y tro hwn ar *awg ymu* ychydig o ystiriaethau yn y cyfeiriad hwn.

Trwy i ddyn fyned i mewn iddo ef ei hun, fe ymagorai ei natur o flaen ei olygon. Ymlodai eangderau ei fod—byd mawr a dieithr ei feddwl, dyfnderoedd newynog a thruenus ei galon, wybrennau tywyll a thymhestlog ei gydwybod, ger ei frain. Arweinai hynny i ehangiad meddyliol ynddo ac i ddeffrôad ei anghenion tragwyddol. Deuai mewn canlyniad i ymdeimlo â chyfrifoldeb bywyd; ymlanwai â difrifwch; ymsefydlai ei fyfyrdodau ar wrthrychau teilwng; a derbynai ei amcanion ysbrydoliaeth a chyfeiriad newydd. Os felly, prin y gallwn feddwl am ddim pwysicach na hunanymchwiliad. Tra y byddai awydd ac ymdrech i'w ddeall ei hun yn weddus ymhob person, hynny ydyw un o ddyledswyddau cyntaf a phennaf pechadur. Dichon nad ydyw yn hanfodol i gynnydd a defnyddioldeb creadur sanctaidd, mwy nag y mae yn angenrheidiol archwilio corff iach. Yn wir, ystyrir rhyw fath o an-ymwybyddiaeth yn brawf o iechyd anianyddol. Os nad ydym yn derbyn unrhyw genadwri neillduol oddiwrth un aelod neu organ yn ein cyfansoddiad, meddwn sail i gredu fod y cyfan mewn sefyllfa foddhaol, ac yn cyflawni eu gwaith yn briodol. A phrawf rhagorol hefyd o sancteiddrwydd ysbryd ydyw fod y cyfryw ysbryd yn gallu anghofio ei hun yn addoliad a gwasanaeth Duw. Wrth i ryw ran yn y corff ddyfod yn afiach neu ysig, deawn yn ymwybodol mewn modd arbennig o honi; teinlwn wendid neu boen ynddi; ac yr ydym ar unwaith yn ei harchwilio, ac yn defnyddio moddion i geisio ei gwellhau. Yn gyffelyb, y mae enaid afiach a phechadurus yn gwasgu ei hun ar ein hystiriaethau. Dygir ni yn fynych, trwy ryw ffordd neu arall, i ymdeimlo & chydwybod euog a chalon lygredig. A byddai ymdrechu eu gollwng dros gof yn ffolineb a chreulondeb; oblegid byddem wrth lwyddo i wneyd hynny yn llwyddo i adwyo ein hunain—i gadw ein hunain rhag defnyddio moddion a symudai yr anhwyldeb ac a ddilëai ein trueni. Dylem, gan hynny, wrth deimlo anesmwythder neu ofid ysbrydol, yn hytrach na sionï ein natur â difyrwch halogedig, ymgyfeirio yn ddioed i ryw dir o neilldu-aeth, lle y caem lonyddwch i olrhain ein haftebyd ac i chwilio ein llygredigaeth, i agor ein calonnau ger bron yr Arglwydd, ac i erfyn arno ef ddiwallu ein holl anghenion ac iachau ein holl lesgedd.

Y mae adnabod ei hun yn bwysicach i ddyn na deall amgylchiadau teyrnasoedd neu wybod enwau y ser; oblegid trwy hynny y gall mewn gwirionedd adnabod ei Greawdwr. Dygir ef ar unwaith i ganfod ei bechadurusrwydd ac i ragweled ei drueni; dysgir ef i ymostwng ac edifarhau; a gelluogir ef i werthfawrogi Crist a threfn yr Efengyl. Derbynai iddo ei hun egwyddorion cariad a goddefgarwch, ffydd ac amynedd; a galluogir ef trwyddynt i lywodraethu ei ysbryd, yr hyn sydd yn waith uwch na rheoli byddinoedd neu lywodraethu mell. Wrth ymddiddan ag ef ei hun, caiff ei hun yn fynych yn ymddiddan & Duw, yr Hwn a egyr ei lygaid i weled pethau gogoneddus; trosglwydda iddo ras ysbrydol a ddeffry ynddo obeithion gwynfydedig. Nis gall weled dim yn briodol, nac adnabod neb yn iawn, nes y gwel ac yr adnebydd ei hun.

YR EPISTOL AT Y GALATIAID.

III.

Pen. II. 18—21. Pen. III.

Mae y sylwadau rhagflaenol yn dyfod a'r Apostol yn naturiol at ei drydydd mater, sef ei wrthdystiad i'r cyhuddiad ei fod wedi newid ei farn, a'i fod yn pregethu y pryd hwnnw athrawiaeth wahanol i'r hon a bregethasai ar adegau blaenorol. Ei ddatganiad arweiniol ar y pen hwn sydd fel a ganlyn :—

Eithr pe byddai i ni, neu i angel o'r nef, efengylu i chwi amgen na'r hyn a efengylasom i chwi, bydded anathema. Megis yr rhagddywedasom. felly yr ydwyf yr awrhon drachefn yn dywedyd, os efengyla neb i chwi amgen na'r hyn a dderbyniasoch, bydded anathema. Pen. i. 8, 9.

Ei fod yn cael ei gyhuddo o bregethu yr enwaediad sydd eglur oddi-wrth y cyfeiriad ym mhen. v. 11. Ac yr oedd hyn yn gyfartal i bregethu yr holl ddeddf (pen. v. 3). Ond yn yr adran hon, cyferfydd yr Apostol a'r cyhuddiad hwn. Gesyd gerbron dri o bethau er dangos mor ddisail oedd.

1. Gwnelai hyn ef yn euog o anghysondeb dybryd a chwithig.

Canys os wyf fi yn adeiladu drachefn y pethau a ddistrywials, yr wyf yn gwneuthur fy hun yn droseddwr. Adn. 18.

Buasai y cyfryw ymddygiad yn drosedd eglur ar bob cysondeb a synwyr.

2. Byddai, ymhellach, wrth ymddwyn felly yn gweithredu yn groes i feithiau dyfnaf ei brofiad.

Canys yr wyf fi, trwy y ddeddf, wedi marw i'r ddeddf, fel y byddwn byw i Dduw. Adn. 19.

Dyma ddau farw ynglyn â'r ddeddf,—marw trwyddi, a marw iddi. Yn y naill, mae y ddeddf yn *achlysur* y marw; ac yn y llall yn *amcan* y marw. Ac o'r ddau farw yma y deillia bywyd, “byw i Dduw.” Eglurir y tri pheth hyn eto ymhellach yn yr adn. nesaf, yr 20fed :—

Mi a groeshoeliwyd gyda Christ: eithr byw ydwyf; eto nid myfi, ond Crist sydd yn byw ynof fi; a'r hyn yr ydwyf yr awrhon yn ei fyw yn y cnawd, ei fyw yr ydwyf trwy ffydd Mab Duw, yr hwn am carodd, ac a' rhoddes ei hun drosaf fi. Adn. 20.

Eglurir y marw “trwy y ddeddf ac i'r ddeddf,” yn y “Croeshoelio gyda Christ.” Mae y credadyn, yn rhinwedd ei undeb a Christ, yn cyfranogi yn rhinweddol yng nghroeshoeliad Crist. Croeshoelir ef ym mherson Crist. Felly yr hyn ag oedd Croeshoeliad Crist iddo Ef, dyna yn hollol ydoedd hefyd i'r rhai a gredent yndo. Yr oedd y croeshoeliad i Grist, ym mlaenaf, yn farw trwy y ddeddf; hynny yw, yn farw dan ei mellidith. Yn y weithred hunan-aberthol hon yr oedd yn rhoi iawn i Dduw (gwel iii. 13). Ond wrth farw felly trwy y ddeddf, yr ydoedd yn marw iddi, hynny yw, yn dyfod yn rhydd o'i gafael. Cyfarfyddodd a'i gofynion, ac felly darfyddodd a hi. Ac yn rhinwedd ei undeb trwy ffydd â Christ, aeth Paul, medd ef, trwy yr un oruchwyliaeth ddeublyg gyda golwg ar y ddeddf. Fel Crist, ac ym mherson Crist, bu farw trwy neu dan fellidith y ddeddf: ym mherson Crist, rhoddodd iawn i'r ddeddf. Ac wrth farw drwyddi, bu farw iddi. Rhyddhawyd ef oddi-wrth bob rhwymedigaeth iddi (gwel Rhuf. vii. 1—4). Ond dilynwyd y marw trwy y ddeddf ac i'r ddeddf, yn achos Crist, gan adgyfodiad; felly hefyd yn achos Paul, a phob credadyn arall,—“fel y byddwn fyw i

Dduw." Y mae adnod 20fed, fel y gwelir, yn egluro y byw hwn i Dduw, fel yr eglura y marw i'r ddeddf. Dywed bedwar peth am dano. (1) Nad oedd ei achos ynddo ef ei hunan: "Eithr byw ydwyf, eto nid myfi." (3) Ei fod yn gyfansoddedig ym mhreswyliaid Crist ynddo: "ond Crist sydd yn byw ynof fi." (3) Fod y preswyliaid hwn yn cael ei sicrhau gan ffydd: "A'r hyn yr ydwyf yr awrhon yn ei fyw yn y cnawd, ei fyw yr ydwyf trwy ffydd mab Duw." (4) Mai ei ffynhonnell haeddiannol ydyw y marw dirprwyol: "yr hwn a'm carodd ac a'i dodes ei hun drosod fi."

Yn hyn oll, darlunio ei brofiad ynglyn â'r ddeddf y mae Paul,— profiad o gwbl ymwahaniaid oddiwrthi,—er dangos mor amhosibl oedd iddo ei phregethu drachefn.

3. Ei drydydd nodiad ar y pen hwn ydyw, y byddai ei waith yn gwneyd hynny yn ddirymiad o ras Duw. "Nid wyf yn dirymu gras Duw; canys os o'r ddeddf y mae cyflawnder, yna y bu Crist farw yn ofer." Pwynt y geiriau hyn, gallwn dybio ydyw, os oedd ef yn pregethu cyflawnder o'r ddeddf, yr oedd yn gwneyd neu yn dangos marw Crist yn beth cwbl afreidiol, ac wrth hynny yr oedd, o angenrheidrwydd, yn dirymu gras Duw, yr hwn a'i rhoddasai. Dengys y tafeniad dilynol yr ymresymiad ar y trydydd gosodiad arweiniol ar un drem.

III. GWETHDYSTIAD YN ERBYN Y CY-HUDDLIAD EI FOD WEDI NEWID EI FARN AM BETHAU YB EFENGYL.

"Eithr pe byddai i ni, neu i angel o'r nef, efengylu i chwi amgen na'r hyn a efengylasom i chi, bydded anathema. Mafis y rhag-ddyrchedasom, felly yr ydwyf yr awrhon drachefn yn dycedyd, os efengylu neb i chwi amgen na'r hyn a dderbynasoch, bydded anathema."

Ar y pen hwn dywed y byddai ei waith yn gwneyd hyn yn laf.—Yn ei wneyd yn drosoddwr yn erbyn pob cysondeb.

"Canys os wyf fi yn adelladu drachefn y pethau a ddirywias, yr wyf yn fy ngwneuthur fy hun yn drosoddwr."

21. — Gweithredai yn groes i ffeithiau dyfnaf ei brofiad.

"Canys yr wyf fi trwy y ddeddf wedi marw i'r ddeddf fel y byddwn fyw i Dduw. Mi a groes-hoeliwyd gyda Christ: eithr byw ydwyf; etto nid myfi, ond Crist sydd yn byw ynof fi: a'r hyn yr ydwyf yr awrhon yn ei fyw yn y cnawd, ei fyw yr ydwyf trwy ffydd Mab Duw, yr hwn a'm carodd, ac a'i dodes ei hun drosod fi."

Sydd.—Dirymai ras Duw trwy wneyd marw Crist yn beth afreidiol.

"Nid wyf yn dirymu gras Duw: canys os o'r ddeddf y mae cyflawnder, yna bu Crist farw yn ofer."

Cymer yr Apostol i fyny yn nesaf ei ail osodiad arweiniol, sef y ffurf lygredig o grefydd y llithrasai y Galatiaid iddi dan ddysgeidiaeth y rhai a'u hudasant.

At efengyl arall, yr hon nid yw arall, ond fod rhai yn eich trallodi chwi, ac yn chwennydd datroi efengyl Crist. Pen i. adn. 7.

Ymdrina yr Apostol â'r mater hwn ym mhen. iii. iv. 1—10; 21—31. Y mae perthynas yr adran hon o'r llythyr â'r mater a ddatgenir yn yr adnod uchod yn eglur, nid yn unig oddiwrth holl dueddnod yr ymresymiad, ond hefyd oddiwrth ddull, ysbryd a thymher y geiriau agoriadol.

O, y Galatiaid ynfyd, pwy a'ch llygad-dynodd chwi fel nad ufuddhaech i'r gwirionedd, i ba rai o flaen eu llygaid y portreiadwyd Iesu Grist wedi ei groeshoelio yn eich plith? Hyn yn unig a ewyllysiat ei ddysgu gennych; Ai wrth weithredoedd y ddeddf y derbynasoch yr Ysbryd, ynte wrth wrandawriad ffydd? A ydych chi mor ynfyd? gwedi i chwi ddechreu yn yr Ysbryd, a berffeithir chwi yr awr hon yn y cnawd? A ddiodeffasoch gymaint yn ofer? os yw ofer hefyd. Yr hwn gan hynny sydd yn trefnu i chwi yr Ysbryd, ac yn gwneuthur gwyrthiau yn eich plith, ai o wrandawriad ffydd y mae? iii. 1—5.

Y mae yr adran hon yn agor gyda chwestiwn, cwestiwn sydd yn awgrymu llawer mewn cylch bychan. Awgryma yn neillduol ddaun beth: 1. Eu hynfydrwydd yn cymeryd eu lithio. 2. Eu bod yn gwbl ddiessus am hynny yng ngwyneb yr eglurder a pha un y dodwyd Crist croeshoeliedig ger eu bron. Mae'n debyg mai at ei bregethu ef hun o Grist tra yn eu plith y cyfeiria yma, a phwysleisia yn y geiriau ar nod-wedd a mater ei bregethu. Ei fater oedd "Crist croeshoeliedig;" a'r dull oedd "portreiadu," gosod gerbron mewn dull eglur, disgrifiadol a digamsyniol, y ffaith fawr ganolog hon. Pwysleisia ar hyn er ei wneyd yn eglur iddynt ei fod ef yn ystyried nad oedd ganddynt yn ei bregethu ef rith o esgus dros eu ffolineb. Pregethodd iddynt Grist wedi ei groeshoelio, a hynny mor eglur a chywir a phe buasai wedi ei bortreiadu o flaen eu llygaid. Er hyn daeth rhyw rai heibio iddynt a llwyddasant i'w llygad-dynnu oddiwrth y darlun fel y collasant olwg arno. Cyfeiria yr Apostol mewn man arall yn y llythyr at eu parodrwydd unwaith i dynnu eu llygaid a'u rhoi iddo ef. Ond daeth rhai ereill heibio, y rhai a gyflawnasant yr *operation* hon arnynt gan dynnu eu llygaid, mewn ystyr arall, a'u gwneyd yn ddeillion i wirionedd pennaf yr efengyl—Iesu croeshoeliedig.

Etyb yr Apostol, fel y gwelir, ei gwestiwn cyntaf hwn â phedwar arall er dangos eu hynfydrwydd. Mae y pedwar cwestiwn atebiadol hyn yn galw sylw at bedwar o bethau ynglyn â'u gwrthgiliad.

1. Eu bod wedi gadael y gyfundrefn trwy ba un y cawsent yr hyn ag oedd ganddynt. "Hyn yn unig a ewyllysiat ei ddysgu gennych; ai wrth weithredoedd y ddeddf y derbyniasoch yr Ysbryd, ynte wrth wrandawriad ffydd?" Adn. 2. Gwrandawriad ffydd yn golygu yr un peth ag ufudd-dod ffydd (Rhuf i. 5; xvi. 26). Yr oedd cyfraniad yr Ysbryd y fendith bennaf, yn nesaf at y rhoddiad o Grist, a feddai yr efengyl. Y fendith aruchel hon a dderbyniwyd gan y Galatiaid yn atebiad i'w ffydd; eto gadawsent y ffydd a sicrhaodd y fath fendith iddynt, gan fabwysiadu cwrs o ymarferiadau na allent gyfrannu y cyfryw fendith.

2. Eu bod yn tybio fod modd perffeithio trwy y gwaelach yr hyn a ddechreuwyd trwy y rhagorach.

A ydych chiwi mor ynfyd? Gwedi i chiwi ddechreu yn yr Ysbryd, a berffeithir chiwi yn y cnawd. Adn. 3.

3. Fod eu hymddygiad hwn yn gwneuthur eu holl ddiodeff yn ofer a dibwrpas.

A ddiodeffasoch gymaint yn ofer? Os yw ofer hefyd. Adn. 4.

Y mae'n debyg fod eu derbyniad o'r efengyl ar y cyntaf wedi achlysuero iddynt lawer o ddiodeffaint trwy erledigaeth oddiwrth ddynion anhywaith. Eto dyma hwy yn dangos parodrwydd i ildio i fyny y peth a gostiasai gymaint iddynt.

4. Eu bod yn troi oddiwrth gyfundrefn ag oedd wedi rhoi prawf diymwad o'i dilysrwydd trwy ei gweithrediadau gwyrthiol.

Yr hwn gan hynny sydd yn trefnu i chiwi yr Ysbryd, ac yn gwneuthur gwyrthiau yn eich plith, ai o weithredoedd y ddeddf, neu o wrandawriad ffydd, y mae? Adn. 5.

Y mae yr Ysbryd yn yr adnod hon yn gwahaniaethu oddiwrth yr un y cyfeirir ato yn adn. 2il. Yno yr Ysbryd Glan yn ei doniau a'i ddylan-

wadau ysbrydol a feddylir; yr Ysbryd sydd yn argyhoeddi, fel ei darlunir yn Ioan xvi. 7, 8. Ond yn yr adnod hon, yr Ysbryd yn ei ddoniau gwyrthiol a olygir, yr hwn a gyfrennir i gredinwyr wedi eu dychweliad, fel ei darlunir yn 1 Cor. xii. 4—11. Felly, awgrymir fod y Galatiaid wedi derbyn yr arwyddion goruwchnaturiol mwyaf nerthol o ddilysrwydd yn efengyl a bregethasai Paul iddynt, ac y darbwyllwyd hwythau i'w derbyn. Galleid dweyd am danynt hwy, fel y dywedwyd am y Corinthiaid, "Megys y cadarnhawyd tystiolaeth Crist ynoch, fel nad ydych yn ol mewn un dawn," 1 Cor. i. 6. Er hynny, yng ngwyneb y cadarnhad hwn o ddiffuantrwydd yn efengyl, dangosasant brysurdeb rhyfeddol i'w gadael. Yr anghysondeb anghyfrifadwy hwn a gyfiawnhâi yr Apostol yn eu cyfarch fel *Y Galatiaid ymfyd a rheibiedig!*

Yn nesaf, daw yr Apostol at y prif fater dan y pen hwn, sef dangos nad oedd y gymysgfa o grefydd y perswadiwyd hwy gan y gau athrawon i'w dderbyn, yn ddim amgen na datrôad o'r efengyl. Tir y gau athrawon, fel y crybwyllwyd gennym eisoes, oedd, fod yn ofynol iddynt hwy, y rhai oeddynt genhedloedd, gymeryd eu henwaedu er mwyn bod yn gadwedig. Yr un ddadl a ddefnyddid gyda'r Galatiaid ag a ddefnyddid yn Antiochia: gwel Act. xv. 1. Rhaid i ni gasglu oddiwrth ddull ymresymiad yr Apostol beth oedd dadl y gau athrawon dros wasgu hyn fel dyledswydd hanfodol arnynt. Tybiwn fod yr adnod olaf yn y bennod hon yn ein cynysgaeddu â'r allwedd ofynol. "Ac os eiddo Crist ydych, yna had Abraham ydych, ac etifeddion yn ol yr addewid." Y ddadl fel yr ymddengys oddiwrth yr adnod hon oedd: 1. Fod yr addewid i blant Abraham. 2. Mai yr unig ffordd y gallent hwy, fel cenhedloedd, ddyfod yn blant i Abraham, oedd trwy gymeryd eu henwaedu. Nid ydyw yr Apostol yn cwestiyno y ddadl gyntaf, sef mai i blant Abraham yn ol yr addewid yr oedd y fendith. Ond gwada yr ail ddadl, sef mai trwy enwaediad yr oeddid i ddyfod yn blant i Abraham. Y llwybr a gymer yr Apostol i gyfarfod â'r ddadl olaf hon oedd, ymholi beth oedd yn gwneyd plentyn i Abraham. Hyn a wna ef yn yr adran 6—9.

1. Dengys y modd y daeth Abraham ei hun i feddiant o'r fendith—trwy ffydd.

Megis y credodd Abraham i Dduw ac y cyfrifwyd iddo yn gyfiawnder. Adn. 6.

2. Y mae yn canlyn felly mai y rhai a gredant, fel y darfu Abraham, ydynt ei blant.

Gwybyddwch felly mai y rhai sydd o ffydd, y rhai hynny yw plant Abraham. Adn. 7.

3. Mai mewn rhagolygiad o ddull Duw o gyfiawnhau y cenhedloedd ar dir ffydd y rhagddywedwyd wrth Abraham y bendithid yr holl genhedloedd ynddo.

A'r ysgrythyr yn rhag-weled mai trwy ffydd y mae Duw yn cyfiawnhau y cenhedloedd, a rag-efengylodd i Abraham, gan ddywedyd, Ynot ti y bendithir yr holl genhedloedd. Adn. 8.

4. Y casgliad, gan hynny, yw, mai y rhai sydd o ffydd, yn wrthgyferbyniol i'r rhai sydd o'r enwaediad, sydd yn dyfod yn gyfrannog o'r fendith Abrahamaid, y fendith a gafodd Abraham, ac a addawyd i'w blant.

Felly, gan hynny, y rhai sydd o ffydd a fendithir gyda'r Abraham ffyddlawn. Adn. 9.

5. Y mae yn canlyn ymhellach, os trwy ffydd y deuir i afael a'r felldith, fod y rhai sydd yn y tir gwrthgyferbyniol, sef tir gweithredoedd y ddeddf, dan felldith.

Canys cynifer ag sydd o weithredoedd y ddeddf, dan felldith y maent; i canys ysgrifenyd, Melldigedig yw pob un nid yw yn aros yn yr holl bethau a ysgrifennir yn llyfr y ddeddf i'w gwneuthur hwynt. Ac na chyflawnheir neb trwy y ddeddf ger bron Duw, eglur yw; oblegid, Y cyflawn a fydd byw trwy ffydd. A'r ddeddf nid yw o ffydd: eithr, Y dyn a wna y pethau hynny, a fydd byw ynddynt. Adn. 10—12.

Wrth yr ymadrodd, "cynifer ag sydd o weithredoedd y ddeddf," y golygir y personau hynny a ymlynent wrth seremonïau y ddeddf fel sail eu cymeradwyaeth ger bron Duw, y rhai a ddywedent, "oddieithr eich enwaedu chwi yn ol cyfraith Moses, ni ellwch chwi fod yn gadwedig." Yn lle bod yn dir o gadwedigaeth, tir o golledigaeth oedd hwn. Rhydd yr Apostol yn yr adran uchod ddau reswm dros hynny.

1. Amherffeithrwydd pob ufudd-dod i'r ddeddf. Os ydyw y ddeddf i gyflawnhau, nis gall wneyd hynny ond ar dir cyflawn cydymffurfïad â'r oll o honi. Yn brawf o hyn dyfynna yr Apostol o'r Hen Destament ddatganiad ar y pwynt: "Melldigedig yw pob un nid yw yn aros yn yr holl bethau a ysgrifennir yn llyfr y ddeddf i'w gwneuthur hwynt." Awgryma, gan nad beth fyddai eu hymlyniad wrth y ddeddf, nas gallent o angenrheidrwydd natur roddi yr ufudd-dod perffaith a hawliai, ac am hynny nid oedd cyflawnhad ar dir deddf yn bosibl.

2. Ei ail reswm dros fod tir y ddeddf yn dir o felldith, ydyw, nad oes yn y ddeddf le i ffydd. Yr unig lwybr posibl i gyflawnhau yr euog ydyw ffydd. Y mae ei anallu i'r gwir ufudd-dod a ofyna y ddeddf yn ei gau o angenrheidrwydd i ffydd; ond gorfodir ef i fyned o dir y ddeddf i weithredu ffydd, oblegid nid oes le i ffydd mewn deddf. Dyma felly y dyn heb yr ufudd-dod a ofyna y ddeddf, a'r ddeddf heb le i'r ffydd sydd yn bosibl i ddyn. Ufudd-dod a geisia y ddeddf o ffydd ydyw unig obaith dyn; ond gan nad oes gan y dyn mo'r ufudd-dod, na'r ddeddf mo'r ffydd, nid oes yn aros y rhai sydd dan y ddeddf, o angenrheidrwydd, ond melldith, yn ol tystiolaeth yr Ysgrhythrau. Ac yma y dengys eu hynfydrwydd hwy; eu llithriad i'r ddeddf yn symudiad o dir y fendith i dir y felldith.

Yn nesaf, eglura yr Apostol sail haeddiannol y cyflawnhad trwy ffydd,—gwaith iawrol Crist.

Canys Crist a'n llwyr brynnodd oddiwrth felldith y ddeddf, gan wneuthur ei hun yn felldith drosom: canys y mae yn ysgrifenedig, Melldigedig yw pob un sydd yng nghrog ar bren: Fel y delai bendith Abraham ar y Cenhedloedd, trwy Grist Iesu; fel y derbynïem addewid yr Ysbryd trwy ffydd. Adn. 13, 14.

Ynglyn â'r disgrifiad hwn o sail haeddiannol y cyflawnhad, ychwanega yr Apostol ddau beth arall:—

1. Tystia fod marw iawrol Crist yn sicrhau bendith Abraham i'r cenhedloedd. Yn y datganiad hwn ail adrodda yr Apostol ei osodiad cychwynol. Gwel adn. 6, 7.

2. Ei hunaniaeth ef ei hun a'r cenhedloedd. Llefara yn y person cyntaf, "Fel y derbynïem addewid yr Ysbryd trwy ffydd." Wrth ei osod ei hun ymlith gwrthrychau y fendith, dengys ei fod ef, er yn

Iuddew, yn derbyn bendith Abraham yn hollol yr un ffordd â hwy y cenhedloedd, sef trwy ffydd, ac nid trwy enwaediad; felly yn lle bod yn ofynol i'r cenhedloedd ddyfod yn Iuddewon er ei chael, yr oedd y rheid-rwydd ar yr ochr arall, sef i'r Iuddewon ddyfod yn genhedloedd, fel yr eglurir ym mhen. ii. adn. 17. Gwel y nodiad ar yr adnod.

Wels yr ymresymiad blaenorol wedi ei drefnu yn dafennol:—

- III. Y gosodiad arweiniol: sef y flurf lygreddig o grefydd y liithrasent-iddi.
- Dan y pen hwn sylwa:—
- i. Ar eu hanghysondeb anesgusodol.
 - ii. Eu dattroad o'r efengyl
 - 1af. Gadawsent y gyfundrefn trwy yr hon y cawsent yr hyn ag oedd ganddynt.
 - 2il. Tybient fod modd perffeithio trwy y gwaelach yr hyn a ddechreuwyd trwy yr hagogach.
 - Sydd. Fod eu gwrthgiliaid yn gwneyd eu ddiodes yn ddil-bwrpas.
 - 4ydd. Eu bod yn trol oddiwrth gyfundrefn ag oedd wedi rhoi prawt dymwad o'i dilyrwydd.
 - iii. Fod gwneyd derbynriad bendithlon efengyl yn ddibynnol ar enwaediad heb un sail iddo yn yr Ysgrthyrau.
 - 1af. Abraham wedi cael ei gyflawnhau drwy ffydd.
 - 2il. Mai credinwyr oedd gwir blant Abraham.
 - Sydd. Mai mewn rhagolygiad o'r drefn o gyflawnhau y cenhedloedd drwy ffydd y rhagfengyl-odd Duw i Abraham.
 - 4ydd. Y casglid yw mai credinwyr ydyw plant Abraham, pa un bynnag at Iuddewon at cenhedloedd fyddont.
- IV. Os mai trwy ffydd y deuir i afael y fendith y mae y rhai sydd yn yr tir cyferbyniol, tir gweithredoedd y ddedd dan feiddith am ddau reswm (a) yr amhosiblwydd i ddyfod i fyny a'i gofynion (b) am nad oes ynddi ie i ffydd.
- 5ed. Sall haeddianol cyflawnhâd trwy ffydd ydyw marw iawdol Crist.
- At efengyl arall: yr hon nid yw arall, ond bod rhai yn eich trallodi chwi, ac yn chwennych dat-trol efengyl Crist.
- O y Galatiaid ynyd, pwy a'ch llygad-dynodd chwi fel nad ufuddhâch i'r gwirionedd, i ba rai o flaen eu llygad y portreliadwyd Iesu Grist wedi ei groeshoelio.
- Hyn yn unig a ewyllysiaf ei ddyegu gennych; Ai wrth weithredoedd y ddedd y derbyniasoch yr Ysbryd, ynte wrth wrandawriad ffydd!
- A ydych chiwi mor ynyd! gwedi i chwi ddechreu yn yr Ysbryd, a berffeithir chwi yn y cnawd?
- A ddiodesafoch gymmaint yw ofer, os yn ofer hefyd
- Yr hwn gan hynny sydd yn trefnu i chwi yr Ysbryd, ac yn gwneuthur gwyrtiau yn eich plith, a'o weithredoedd y ddedd, neu o wrandawriad ffydd y mae?
- Megis y credodd Abraham i Dduw, ac y cyfrifwyd iddo yn gyflawnder.
- Gwybyddwch felly mai y rhai sydd o ffydd, y rhai hynny yw plant Abraham.
- A'r ysgrythyrr yn rhag-weled mai trwy ffydd y mae Duw yn cyflawnhau y cenhedloedd, a rag-fengylodd i Abraham, gan ddywedyd, ynot ti y bendithir yr holl genhedloedd.
- Felly, gan hynny, y rhai sydd o ffydd a fendithir gyd âg Abraham fyddawn.
- Canys cynifer ag sydd o weithredoedd y ddedd, dan feiddith y maent;
- Canys ysgrifennwyd, Melldigedig yw pob un nid yw yn aros yn yr holl bethau a ysgrifennir yn llyfr y ddedd, i'w gwneuthur hwynt.
- Ac na chyflawnheir neb trwy y ddedd ger bron Duw, eglur yw: oblegid, y cyflawn a fydd byw trwy ffydd. A'r ddedd nid yw o ffydd: eithr, Y dyn a wnel y pethau hyn, a fydd byw ynddynt.
- Crist a'n llwyr-brynodd ni oddiwrth feiddith y ddedd, gan wneuthur ei hun yn feiddith trosom; canys y mae yn ysgrifenedig, Melldigedig yw pob un sydd yng nghrôg ar bren; Fel y delai bendith Abraham ar y Cenhedloedd, trwy Grist Iesu; fel y derbyniem addewid yr Ysbryd trwy ffydd.

Yn nesaf, y mae'r Apostol yn cychwyn ar wedd newydd ar ei ymresymiad. Yma cyferfydd a gwrthresymau y canfyddai, gyda'i graffder arferol, a allent ymgodi ym meddyliau ei ddarlennwyr parthed rhai o'i osodiadau yn yr ymresymiad blaenorol. Y mae yma dri gwrthreswm. Cyferfydd a'r cyntaf yn yr adran o'r 15 hyd yr 18; ceir yr ail yn adn. 19; a'r trydydd yn adn. 21. Cymerwn y gwrthresymau hyn bob yn un. Nid ydyw y cyntaf yn cael ei ddweyd mewn cynifer o eiriau, ond awgrymir ef yn yr atebiad.

Y brodyr, dywedyd yr wyf ar wedd ddynol; Cyd na byddo ond amod dyn, wedi y cadarnhaer, nid yw neb yn ei ddirymu, neu yn rhoddi ato.

I Abraham y gwnaethpwyd yr addewidion ac i'w had ef. Nid yw yn dywedyd, Ac i'w hadau, megis am lawer; ond megis am un, Ac i'th had di, yr hwn yw Crist. A hyn yr wyf yn ei ddywedyd, am yr amod a gadarnhawyd o'r blaen gan Dduw yng Nghrist, nad yw y ddeddf, oedd bedwar cant a deg ar hugain o flynyddoedd wedi, yn ei ddirymu, i wneuthur yr addewid yn ofer. Cans os o'r ddeddf y mae yr etifeddiaeth, nid yw hayach o'r addewid; ond Duw a'i rhad roddodd i Abraham trwy addewid. Adn. 15—18.

Hyd ddiwedd yr adran sydd yn rhagflaenu yr uchod, y mae yr Apostol wedi bod yn sylfaenu ei ymresymiad dros hawl y ceuhedloedd i freintiau yr efengyl trwy ffydd, ar addewid Duw i Abraham. Ei ddadl ydyw fod yr addewid yn cynnwys y ceuhedloedd, a hefyd ei bod wedi ei rhoi i ffydd. Ond canfyddai y gallai y syniad ymgynnyg i feddwl ei ddarllenwyr, fod yr addewid a roddasid i Abraham wedi ei dirymu gan drafodaeth Sina, a gymerasai le 430 o flynyddoedd yn ddilynol. Atebiad i'r dybiaeth hon ydyw'r adnodau uchod. Y mae ganddo dri atebiad:—

1. Byddai dirymu amod, wedi unwaith ei chadarnhau, yn groes i bob arferiad ymhlith dynion. Adn. 15.

2. Fod yr addewid yn ymwneud a phartion gwahanol i'r rhai y rhoddwyd y ddeddf iddynt. Yr oedd yr addewid yn dal perthynas â Christ, a'r ddeddf yn ymwneud a'r genedl: y naill i had ysbrydol, a'r llall i had naturiol Abraham.

I Abraham y gwnaethpwyd yr addewidion, ac i'w had ef. Nid yw yn dywedyd, Ac i'w hadau, megis am lawer; ond megis am un, Ac i'th had di, yr hwn yw Crist. Adn. 16.

Y casgliad a dynna yr Apostol oddiwrth hyn yn adn. 17 ydyw, ei fod yn hollol anghywir i dybio fod yr hyn a wnaed â had naturiol Abraham i aneffeithioli yr hyn a wnaed ynglyn, a chyda golwg ar, ei had ysbrydol.

3. Ei drydydd pwynt ydyw, mai amod grasol yr addewid i Abraham ydyw yr etifeddiaeth, ac nid eiddo y ddeddf.

Cans os o'r ddeddf y mae yr etifeddiaeth, nid yw hayach o'r addewid; ond Duw a'i rhad roddodd i Abraham trwy addewid. Adn. 18.

Ei ail wrthreswm geir yn adn. 19: "Beth gan hyny yw y ddeddf?" Gan nad oedd yn newid trefn Duw, nac yn gwneyd i fwrdd a'r addewid, i beth y rhoddwyd hi? Pa bwrpas oedd yn ei wasanaethu? Yn atebiad i hyn dywed:—

Oblegid troseddau y rhoddwyd hi yn ychwaneg, hyd oni ddelai yr had, i'r hwn y gwnaethid yr addewid. Adn. 19.

Yn lle bod y ddeddf yn dirymu yr addewid, yr oedd mewn ystyr bwysig yn ei gwasanaethu. Ei chenadwri fawr oedd diogelu ac amddiffyn yr addewid hyd oni ddelai yr had, sef Crist. Nid ei dirymu ond ei sicrhau, neu ei chadw rhag myned ar goll yn niluw pechod oedd yn myned i draws-orchuddio y byd; cans dyma, ni fyntumiwn, ydyw ystyr yr ymadrodd, "Oblegid troseddau y rhoddwyd hi," ac nid fel y dadleuir gan liaws o esbonwyr, er atal troseddau. Teimlwn fod, *er atal troseddau*, yn eglurhad a gyrchir yn rhy bell o'r ymadrodd, "Oblegid troseddau." Hefyd nid ydyw y cyfryw esboniad yn gyson â ffeithiau. Ni ddarfu y ddeddf atal troseddau ond o fewn cylch bychan iawn, o'i gymharu â maes mawr rhwysg pechodau; cylch llawer rhy fychan i gyfiawnhau y gosodiad ei bod wedi atal pechod. Gyda'r eithriad o'r llygedyn bychan, gwlad Canaan, ni bu cyfuod yn hanes y byd pan y bu pechod yn fwy ei

rwysg, a throseddau yn amlach a mwy ffaidd nag yn ystod teyrnasiad y ddeddf. Ychwaith nid "eglurow troseddau" a feddylir, am y rheswm amlwg mai nid hynny ddywedir. Y mae yn eglur fod y gwasanaeth a briodolir i'r ddeddf yma yn rhywbeth ar ran yr addewid a'r had, ond yn cael galw am dano ryw ffordd gan droseddau. Beth a allai hwnnw fod ond amddiffyn yr addewid, a'i diogelu yng ngwyneb y perygl yr oedd ynddo oherwydd troseddau? Fel y crybwyllwyd, yr oedd y cyfnod o roddiad yr addewid i'r tadau hyd ymddanghosiad Crist, yn gyfnod o ddirywiad moesol ofnadwy. Yr oedd eilunaddoliaeth i orchuddio y byd fel diluw â'i lygredigaethau ffaidd. Gelwir y cyfnod gan Paul yn ei bregeth fawr yn Athen, yn "oes yr anwybodaeth a esgeuluswyd" gan Dduw (Act. xvii. 30); hynny yw, y cauodd Duw ei lygaid rhag ei gweled megys, gan ei gadael iddi ei hun i ymbalfalu yn y tywyllwch. Pa siawns oedd gan yr addewid i fyw dan amgylchiadau fel hyn? Yr oedd perygl y buasai yr addewid werthfawr a roddasai Duw o Waredwr, yn cael ei cholli yn y diluw llygredigaeth hwn. Darpariaeth ar gyfer hyn oedd y ddeddf. Ceisiwn ddangos gwasanaeth y ddeddf i'r addewid yng ngwyneb yr amgylchiadau hyn trwy gymhariaeth. Y mae yr *Atlantic Cable* erbyn hyn yn ffaith adnabyddus i bawb. Rhâff ydyw, o wneuthuriad celfydd, er diogelu y trydan sydd yn cael ei yrru fel negesgludydd ar hyd gwaelod y Werydd o'r ynys hon i gyfandir America. Ni fuasai yn ateb diben i roi y wifr drydanol yn noeth yn y dwfr, am ei fod yn natur y dwfr i sugno y trydan iddo ei hun. Felly, er ei amddiffyn a rhwystro i ddyfroedd y Werydd atal ei ddylifiad rhwydd i ben ei daith, gwnaed rhaff o saith gainc, a dodwyd y wifr drydanol oddifeuwn iddi. Dyma ydyw yr *Atlantic Cable*. Felly rhyw Werydd traws-orchuddiol oedd llygredigaeth y cyfnod y cyfeirwyd ato, ac nid oedd yn bosibl i'r addewid redeg ei chwrs drwyddo hyd gyflwnder yr amser yn ddiogel heb beryglu ei cholli. Felly er ei diogeliad a'i chadw rhag boddi megys yn rhyferthwy ysgubol oes yr anwybodaeth, cynlluniodd Duw raff gref o seremonïau, ordinhadau, a rheolau crefyddol, y rhai a orffwysent ar fwydydd a diodydd, ac amryw olchiadau a defodau cnawdol, ac a'i lapiodd am yr addewid er ei chludo yn ddiogel i lawr yr oesau, hyd oni sylweddolwyd hi yn ymddanghosiad "yr had, i'r hwn y gwnaethid hi." Dyma, ni dybiwn, ystyr yr ymadrodd, "oherwydd troseddau y rhoddwyd hi." Amllder traws-orchuddiol y troseddau, yn fwyaf neillduol, eilunaddoliaeth, a alwedd am dani, er mwyn diogelu bodolaeth yr addewid.

Wedi egluro amcan rhoddiad y ddeddf, noda yr Apostol ffeithiau hanesyddol ynglyn ag amgylchiad ei rhoddiad.

A hi a drefnwyd trwy angylion yn llaw cyfryngwr. A chyfryngwr nid yw i un, eithr Duw sydd un. Adn. 19, 20.

Crybwyllir yma dair ffaith. 1. Fod rhoddiad y ddeddf trwy gyfrwngwriaeth; "a hi a drefnwyd trwy angylion yn llaw cyfryngwr." 2. Nad oedd y gyfrwngwriaeth hon yn un sengl; "a chyfryngwr nid yw i un,"—yn fwy priodol, *Eithr yr hwn gyfryngwr nid yw o un*, hynny yw, nid oedd y gyfrwngwriaeth yn gynwysedig o un. Yr oedd yno ddau yn y drafodaeth, yr angylion a Moses. Defnyddiodd Duw angylion i weithredu rhyngddo a dynion; ond nid oedd hyn yn ddigon gan y bobl; mynnent Moses hefyd: "Llefara di wrthym ni," meddynt, "a ny ni a wrandawn: ond na lefared Duw wrthym, rhag i ni farw." Yr oedd

cymaint o ofnadwyaeth Duw o gwmpas yr angylion fel na allai y bobl wahaniaethu rhyngddynt a Duw ei hun; cymerent mai Duw oedd fyngo, ac ymwaredent rhag iddo lefaru wrthynt, a cheisient Moses i gyfyngu, a chaniatawyd eu cais iddynt. Felly nid ydoedd yn gyfyngwriaeth o un, ond o ddau. 3. Ond yn gyferbyniol i hyn, yr oedd Duw yn un, hynny yw, gweithredai Duw ei hunan yn rhoddiad yr addewid, yn uniongyrchiol a digyfrwng. Diau ei fod ym mryd yr Apostol wrth alw sylw at y pethau hyn, wasgu at ystyriaethau y Galatiaid gymaint gogoneddusach y rhaid bod yr addewid trwy yr hon yr oeddynt hwy, y cenhedloedd, yn dyfod yn etifeddion bendith Abraham, ragor y ddeddf; a hefyd yr annhebygolrwydd fod yr hyn a roddasid trwy ail a thrydydd law, sef trwy yr angylion a Moses, i fod yn lle yr hyn a roddasid yn uniongyrchiol gan Dduw ei hun. Yr ydym yn anturio yr eglurhad uchod ar yr ymadrodd dyrys hwn, serch ei fod yn ychwanegu un arall at y pedwar cant a deg ar hugain esboniadau y dywedir sydd eisoes arno. Myntum-iwn fod ei eglurdeb a'i gysondeb cyd-darawol â'r cysylltiadau yn rhyw gymaint o gymeradwyaeth iddo.

Y trydydd gwrthreswm:

A ydych chi ddeddf gan hynny, yn erbyn addewidion Duw? Adn. 21.

Gan fod yr addewid yn aros er rhoddiad y ddeddf, a chan fod y fath wahaniaeth yn amgylchiadau ei rhoddiad, a ydych chi hynny yn cynnwys fod y ddeddf yn erbyn addewidion Duw; yr addewidion a gynhwyseent yr egwyddor o gyfiawnhad trwy ffydd,—hynny: yw, a oeddynt yn ddau drefniad cystadleuol ynglyn â'r gwaith o gyfiawnhau yr euog? Mai dyma ystyr y gair yn *erbyn* uchod, sydd amlwg oddiwrth yr atebiad: "Na ato Duw. Canys pe rhoisid deddf a allasai fywchau, yn wir o'r ddeddf y buasai cyfiawnder."

Yr atebiad yw, nas gallai fod un gystadleuaeth rhwng y ddeddf a'r addewid, oblegid nid oeddynt yn gweithredu ar yr un clawr (*plane*); nid oedd yn natur y ddeddf wneyd gwaith a berthynai i'r addewid. Nid oedd yn ei gallu i roi bywyd i fywchau yr euog; pe buasai ganddi y cyfryw allu sicr yw y buasai yn cyfiawnhau; ond nid oedd yn ei natur nac yn rhan o'i chenadwri. Yr oedd y gorchwyl o gyfiawnhau wedi ei roddi, oherwydd natur pethau, i ffydd. "Eithr cyd-gauodd yr ysgrythyr bob peth dan bechod, fel y rhoddiad yr addewid trwy ffydd Iesu Grist i'r rhai sydd yn credu." Adn. 22.

Yn Rhuf. iii. 9—19 ceir esiampl o'r modd y mae yr ysgrythyr yn cyd-gau pawb dan bechod, sef trwy ei darluniad o ddrwg di-obaith dyn-olryw. Y mae y ffaith fod pawb dan bechod, yn eu gosod tu allan i bob posibilrwydd o gyfiawnhad gan y ddeddf. Cyfiawnhau y dieuog y mae deddf; ond y mae dynion, tuhwnt i bob posibilrwydd i'w wadu, yn euog. Ceuir hwy felly, o angenrheidrwydd, i geisio eu cyfiawnhad yn unig fel credinwyr yn Iesu Grist.

Ond er na pherthynai i'r ddeddf y gorchwyl o gyfiawnhau, meddai ei gwaith prifodol ei hun. Darlunir hwn yn Adn. 23 a'r 24.

Eithr cyn dyfod ffydd, y'n cadwyr dan y ddeddf, wedi ein cyd-gau i'r ffydd yr hon oedd i'w datguddio. Y ddeddf, gan hynny, oedd ein hathraw ni at Grist, fel y'n cyfiawnheid trwy ffydd. Adn. 23, 24.

Yn adn. 19 danghosir gwasanaeth y ddeddf i'r addewid yng ngwyneb amler troseddau, heb ei chadw a'i diogelu hyd ei chyflawniad yn nyfodiad Crist, at yr hwn y cyfeiriai. Yn yr adnodau hyn, fodd bynnag,

danghosir ei gwasanaeth i ddynion. Os na allai hi eu cyfiawnhau, meddai gymhwyster neillduol i'w cario at yr hwn oedd yn gallu cyfiawnhau, sef Crist. Fel y dangosom trwy raff y Werydd, yr oedd yn amgau yr addewid, gan ei chludo ymlaen trwy yr oesau hyd ymddanghosiad Crist. I ddynion eto, yr oedd yn gwasanaethu fel dau beth,—carchar a gwyliwr. Fel carchar yr oedd yn eu cau i mewn fel carcharorion euog, heb un drws dihangfa o hono, hyd nes yng nghyflawnder yr amser yr agorwyd un drws, sef drws ffydd. “Eithr cyn dyfod ffydd y'n cadwyr dan y ddeddf, wedi ein cydgau i'r ffydd.” Wedi dangos gwasanaeth y ddeddf i'r rhai oedd dani, drwy gymhariaeth y carchar, dengys yr un peth eto drwy gymhariaeth y pedagog: “Y ddeddf gan hynny oedd ein hathraw ni at Grist.” Y mae cyfieithu y gair *paidagogos* yn athraw, yn gam-arweiniol i'r darlennydd. Nid athraw ydoedd, ond yr oedd yn cyfateb i'r hyn a elwir yn ymgeleddwyr a llywodraethwyr ym mhen. iv. adn. 2. Ei orchwyl oedd, nid dysgu, ond gwylio dros y plentyn. Ei gadw dan reolaeth, a'i arwain i'r ysgol. Caethwas yn gyffredin oedd y pedagog. Yr oedd Israel, felly, yn blentyn dan oed, ac fel y cyfryw dan ofal gwyliwr, yr hwn a'i rheolai ac a'i cadwai mewn trefn, ac a'i cariai yn ei freichiau megys i'r ysgol at yr athraw. Y gwyliwr hwn oedd y ddeddf, a Christ oedd yr athraw at yr hwn yr oedd y ddeddf yn cario y plentyn. Felly y mae yn hollol anghywir dweyd fod y ddeddf yn athraw i'r genedl Iuddewig at Grist; gwyliwr yn gofalu am dani oedd, nes y daeth yr athraw, sef Crist, yng nghyflawnder yr amser.

Eithr wedi dyfod ffydd, nid ydym mwyach dan athraw [dan reolaeth gwyliwr, pedagog]. Canys chwi oll ydych blant [meibion] i Dduw, trwy ffydd yng Nghrist Iesu. Adn. 25, 26.

Dengys yr Apostol fod cyfnod y plentyntra wedi pasio, er ymddanghosiad yr Efengyl. Y maent yn awr yn feibion. Y mae y gair “plant” uchod yn gam-gyfieithiad ac yn gamarweiniol. Pwynt yr Apostol oedd dangos eu bod wedi peidio a bod yn blant dan ofal gwyliwr, ond eu bod wedi dyfod yn *feibion*, ac felly heb angen gwasanaeth pedadogaidd y ddeddf. “Chwi oll ydych feibion i Dduw,” yn gallu gofalu am danoch eich hunain. Y mae trefn ffydd wedi eich gwneyd yn feibion llawn dŵf ac addfedrwydd meddwl. A'r prawf eu bod yn feibion oedd eu gwisgiad o Grist yn eu bedyddiad iddi:

“Canys cynifer o honoch ag a fedyddiwyd yng Nghrist, a wisgasoch Grist.” Adn. 27.

Ar achlysur ei fedyddiad y dygodd Duw gyntaf dystiolaeth i fabolaeth Crist. “Hwn yw fy anwyl Fab yn yr hwn y'm boddlonwyd.” Boddlonwyd Duw yn ymostyngiad mabaidd Crist, fel yr arddanghosid ef ganddo yn ei fedyddiad. Gwisgo Crist o ran yr ysbryd mabaidd y mae y credinwyr wrth eu bedyddio. Rhydd y credadyn yn y weithred hon o ymostyngiad i ewyllys Duw engraifft, fel y gwnaeth Crist, o'u bod yn feibion i Dduw. Trwy ffydd yng Nghrist y daethant yn feibion; yn eu bedydd y dangosasant eu bod yn feibion iddo; ac wrth roi yr arddangosiad hwn o'u mabolaeth gwisgent Grist; dilynent ef, oblegid gwnaeth yntau yr un peth.

Canlyniad neu effaith y berthynas hon â Duw trwy Grist oedd dileu pob gwahaniaethau ar dir crefyddol. Hynny yw, gosod pob cenedl, dosbarth, a rhyw, ar yr un tir mewn ystyr grefyddol.

“Nid oes nac Iuddew na Groegwr, nid oes na chaeth na rhydd, nid oes na gwryw na benyw; canys chwi oll un ydych yng Nghrist Iesu.” Adn. 28.

Y mae yma lefelu cyffredinol wedi bod, ond ei fod yn lefelu i fyny, ac nid i lawr. Dwyn pawb i sefyll ar yr un tir ger bron Duw, ac i feddiannu, trwy y Mab mawr, yr un berthynas fabol ag Ef, beth bynnag all fod eu cenedl, neu eu safle gymdeithasol, neu eu rhyw.

Yn nesaf, tyn yr Apostol y casgliad oddiwrth holl gwrs yr ymresymiad yn y bennod hon: “Ac os eiddo Crist ydych, yna had Abraham ydych, ac etifeddion yn ol yr addewid.”

Fel y sylwyd eisoes, dadl y gau athrawon oedd, mai y ffordd i fod yn etifeddion oedd bod yn had Abraham, ac mai yr unig ffordd i'r cenhedloedd fod yn had Abraham oedd cymeryd eu henwaedu. Pwynt ymresymiad yr Apostol oedd dangos mai y ffordd i ddyfod yn had Abraham, cyn belled ag yr oedd a fynno hynny â'r addewid, oedd credu yng Nghrist, dyfod yn eiddo Crist trwy ffydd ynddo; felly y deuent yn had Abraham, ac felly yn etifeddion yn ol yr addewid.

ABEL J. PARRY.

Y LLEUAD.

MAE llu y nef, yn weledig ac anweledig, yn afrifed, yn amlach na'r dynion sydd ar wyneb y ddaear, ac yn fwy anhawdd eu cyfrif na'r tywod sydd ar fin y môr. Ond o'r holl afrifed lu, y ddau gorff sydd fwyaf gwasanaethgar a defnyddiol i'r ddaear a'i thrigolion ydyw yr haul a'r lleuad. Dyma ddau oleuad y teulu dynol, y goleuad mwyaf i lywodraethu y dydd, a'r goleuad lleiaf i lywodraethu y nos. Ymhlith holl wrthrychau y nef, yr haul a fedd y safle bwysicaf, gan ei fod yn ganolbwynt y gyfundrefn sydd yn dwyn ei enw, yn rhagori mewn maintioli, y planedau yn troi o'i amgylch, ac yntau yn ffynhonnell goleuni a gwres iddynt oll, a'r ddaear yn eu plith. Ond y nesaf i'r haul mewn gwasanaeth i'r ddaear ydyw y lleuad, ac y mae yn anhawdd penderfynu pa un o'r ddau sydd fwyaf anhepgorol iddi. Pe buasai raid i deulu y ddaear fyw heb un o honynt, pa un tybed, fuasai yr hawddaf ei hebgor? Dywedir fod dau Negro unwaith yn dadleu a'u gilydd, pa un ai yr haul ynte y lleuad oedd fwyaf o ddefnydd i'r ddaear, ac iddynt benderfynu y mater yn ffafr y lleuad, gan ei bod hi yn tywynnu yn y nos, tra nad oedd yr haul ond yn tywynnu yn y dydd pan nad oedd ei eisieu. Ond ni wyddai y Niger y ffaith na chawsid goleuni dydd heb yr haul, ac na buasai goleuni yn y lleuad chwaith i oleuo'r nos hebdo ef. Pan na bydd yr haul yn tywynnu ar ein rhan ni o'r ddaear, bydd yn tywynnu y pryd hwnnw ar wyneb y loer, a hithau trwy adlewyrchiad yn rhoddi y fantais o hono i'r ddaear a'i theulu, fel y gellir dweyd ei bod yn lamp oleu yn y tywyllwch. Er nad ydyw ond chwaer fechan, planed ddinod, y leiaf o'r gyfres, ac yn ddim amgen na llawforwyn, *satellite* i'r ddaear, eto y mae yn llawforwyn wasanaethgar a defnyddiol dros ben, a byddai yn amhosibl myned ymlaen heb ei llewyrch. Na chymharer hi am amrantiad â'r haul, yr hwn sydd fwy chwe chan miliwn o weithiau,

fel y byddai raid cael deg a deugain o leuadau i wneyd un ddaear Pe torrid y ddaear yn ddeg darn a deugain, a phe gwneid un o'r darnau hynny yn glôb, hi fyddai yn union yr un faint â'r lleuad. Hefyd o holl wrthrychau dirif yr ehangder, hi ydyw yr agosaf ei safle at y ddaear. Y pellder rhyngddynt ydyw 237,000 o filldroedd,—weithiau ychydig yn fwy ac ychydig yn llai, yn ol yr amrywiaeth yn llinell ei chylchdro. Yn ol safon y ddaear i fesur pellder, y mae hwn yn un mawr, yn ffordd hir, ac yn adwy lydan; ond yn ol safon yr ehangder a mesurau seryddol, nid ydyw ond megys dyrnfedd neu guffydd. Felly y lloer ydyw y gymydoges agosaf i'r ddaear; ac mwyach, nid ydyw ei hanes yn ddieithr, oblegid gall y seryddwr trwy gyfrwng ei ysbïenddrych, ei gweled a'i hadnabod, yn ei defnydd, ei thir-olygfa, a'i hamgylchedd. Gwir fod ar wyneb yr ynysig hon, lawer o wrthrychau nas gellir eu gwled â'r ysbïenddrych cryfaf, a hynny am eu bod yn rhy fychain. Y gwrthrych lleiaf ellir ei weled hyd yn hyn yn y lleuad ydyw un cyfartal mewn maintoli i eglwys St. Paul yn Llundain, a phob gwrthrych llai, yn anweledig i'r llygad dynol; ond eto daw y seryddwr gwyddorol i adnabod y gwrthrychau hynny trwy ymresymu, â thynnu casgliadau oddiwrth yr hyn sydd bosibl a thebygol, ac felly trwy uno yr hyn a welir â'r llygad â'r hyn a brofir drwy ymresymiad, ceir ddiog o wybodaeth am y lloer er gallu ffurfio iddi hanes cyflawn a gwyddorol. Ac erbyn hyn ceir *hand-book* ysgrifenedig am dani, a map cyflawn o'i holl wyneb, ac un llawer mwy cyflawn a gorffenedig nag ydyw map y ddaear. Mae hwnnw eto heb ei gwblhau a'i orffen, canys fe geir yng nghanolbarth Affrica ac yn rhandiroedd anghysbell Awstralia ddarnau mawrion heb eu harchwilio a'u llëoli, ac yn parhau yn *unexplored regions*. Ond er nad oes tramwyfa rhwng y ddaear a'r lloer, ac na fu traed dyn erioed yn sengl ei finiau hi, eto trwy gyfrwng a chymorth yr ysbïenddrych yr ydys yn gallu dyfod i wybod ei hanes a'i helyntion, a hynny yn llawer mwy cyflawn na'n cartref ein hunain.

Er fod y ddaear a'r lleuad yn amrywio yn fawr ac yn bur wahanol i'w gilydd mewn llawer o bethau, eto ceir hwy mewn rhai pethau yn debyg i'w gilydd. Mae y ddwy gymydoges yn perthyn i'r un gyfundrefn, yn teithio mewn cylch, yn cael eu cadw ar eu llinellau gan rym yr un gallu atyniadol, yn derbyn eu gwres a'u goleuni o'r haul, ac hefyd, fel y planedau ereill, yn cyd-deithio a'u hwynebau yn yr un cyfeiriad. Ac y mae y lloer yn meddu nos a dydd fel y ddaear, ond fod ei nos a'i dydd hi yn hwy o bedair gwaith ar ddeg. Mae oerni yn y lleuad fel ar y ddaear, ond ei fod yn y eithafol, yn gyffredinol, ac yn fwy gerwin nac yn manau oeraf y ddaear. Ac onid ydyw yn ffaith hysbys yn hanes cynnydd seryddiaeth fel gwyddor, mai hi roddodd y cywair, y *keynote*, i'w ffurfiad a'i dadblygiad fel y cyfryw? Trwy fedru deall ei gweithrediadau a'i deddf hi y daethpwyd i ddeall deddf a gweithrediadau yr holl gyrff nefol sydd yn britho y nen. Er bod rhagor rhwng seren a seren mewn gogoniant, eto yr un deddfau sydd i'r oll; ac felly y mae deddfau yr Anfeidrol yn meddu *sweep* diderfyn, ac yn llywodraethu yr holl ehangder maith. Wedi adnabod y lloer, daethpwyd i allu adnabod Mercher, Mawrth, Iau, Gwener, Neifion, y Ddaear, a'r Haul. Yr oedd hi yn agoriad i'r holl ddirgelwch.

Y mae pob sicrwydd wedi ei gael fod y lleuad wedi pasio ei hoes euraidd, mewn cyflwr o waethygiad a dirywiad, ac wedi cyrraedd gwaelod ei darostyngiad. Yn y benod gyntaf o Genesis, dywedir fod

yr haul a'r lleuad wedi eu creu a'u gosod i oleuo y ddaear ar y pedwerydd dydd, yr hyn yn ol cyfrif amser daearegol, a fyddai fliynau o fynyddoedd yn ol, ac yn niwedd y cyfnod carbonifferaidd. Diau fod yr haul a'r lleuad yn eu cyflwr gwreiddiol a chreadigol, yn ddwy belen wedi eu gosod yng nghanol yr ehangder yn wynias a hylosg, ac iddynt wrth droi a chylechdroi, ysgogi ac ymsymud, fwrw allan a cholli eu gwres nes oeri, ac ymfurfio ar y wyneb yn blisgyn, neu yn grawen galed ac anwastad, yn ol yr un *process* ag sydd i ymoeriad y colsyn glo llosgedig. Ymhen amser maith diweddidd y gweithrediad hwn yn llwyr ddysbyddiad y belen o'i gwres a'i grym. A'r ddeddf anianyddol ar hyn fyddai, i'r corff lleiaf ei faint ei ddysbyddu ei hun, ac ymoeri yn gynt na'r corff mwyaf. Tybier fod yr haul a'r lleuad wedi eu creu ar yr un adeg, ac wedi dechreu gweithio yr un pryd a than yr un amgylchiadau; byddai i'r lleuad dreulio ei hun allan a chyrraedd terfynau ei darfodedigaeth rai miliynau o fynyddoedd o flaen yr haul, am fod yr haul gymaint o fliynau o weithiau yn fwy na'r lleuad. Nid awn ar hyn o bryd i geisio penderfynu y cwestiwn, a ydyw yr haul yn gwaethygu; nac i geisio dadleu fod yr ysmotiau duon a welir ar ei wyneb disglær yn arwyddion o'i drancedigaeth; ac nid awn ychwaith i geisio proffwydo beth fydd diwedd y ddaear, gan ei bod hithau trwy ei hymdrech, a'i ffrwydriadau, yn prysur dreulio a dysbyddu ei hun o'i nerth a'i gwres. Nid awn ar ol y proffwydoliaethau hyn. Ond mae yn sicr fod y lleuad yn y cyflwr adfeiliol a dirywiol hwnnw yn awr,—cyflwr fel y bedd, heb na gwaith na dychymyg, a dyna farwolaeth. Ni cheir ynddi na gwllith na gwllaw, awyr na bywyd o un math, ac y mae yn dra gwahanol i'r ddaear yn y pethau hyn. Ac nis gallasai bywyd aros arni hi am anadliad, gan fod ei hamgylchiadau yn anghymwys ac anghyfaddas i'w faeth a'i gynhaliaeth. Pe plennid derwen daear yn ei gweryd, buan y crinai ac y darfyddai; a phe trawsfudid un o greaduriaid byw y ddaear iddi, buan y llesgâi ac y trengai. Nid ydyw yn fangre gymwys i fyw ynddi, oblegid fod ei holl fwynder wedi ymado, ac yn aros ynddi ond moelni, dirywiad, darfodedigaeth, a marwolaeth.

Nid ydyw yr hyn a adnabyddir gan y plant "fel y dyn a'r baich drain" ond dyffrynoedd dyfnion a mynyddoedd uchel yn taflu eu cysgodion tywyll yn gyfresi eang, a'r rhai hynny yn fynyddoedd llosg, pa rai fu unwaith yn rymus yn lluchio allan o'u genau ludw a lafa llosgedig, ond ydynt yr awr mewn cyflwr llonydd, diwaith, a diffoddedig. Dyma fel y disgrifiir yr olygfa gan un awdwr:—"Tybier ein bod wedi cyrraedd i'r lleuad, ac yn dechreu crwydro ar draws ei gwyneb, caem fwy o achos i ddechrynu nag i fwynhau. Canfyddem fynyddoedd o uchder ofnadwy, a chreigiau geirwon, eang, a llydain, wedi eu torri a'u dryllio, a'r meini mawrion yn gorwedd o amgylch eu sylfeini. Pe byddem yn esgyn i fyny i un o'r mynyddoedd hyn, yn fuan llethid ni gan syched blin, tarewid ein llygaid â dallineb gan danbeidrwydd goleuni yr haul, a thorrai a gwaedai ein traed a'n dwylaw. Ac wedi cyrraedd ei ben, gan obeithio canfod disgyniad mwy hyfryd, a gwlad fwy teg a ffrwythlon ar yr ochr arall, byddem yn cael ein siomi trwy ganfod golygfa fwy ofnadwy, mewn dyfnder dychrynlyd o rai miloedd o droedfeddi, a chanfod darn o dir wedi ei gylchynu gan greigiau anhawddgar, yn yr hwn nid oedd blodeuyn na gwelltyn na diferyn o ddwfr. Ar uchelfan fel hyn, ac yn edrych i lawr i'r tywyllwch dudew, trwy yr hwn nis gallai y llygad byth dreiddio; neu ynte yn edrych ar un o'i mynydd-

oedd tywyll, garw hi, yn y fangre gauedig, buasai y galon gryfaf yn crynnu." Dyna ddisgrifiad byr o anghyfanedd-dra y lloer, yr hyn a gadarnheir trwy y *telescope*.

Fel y dywedwyd, mae ei mynyddoedd hi yn llosgfynyddoedd diffoddedig, a cheir ynddynt yn aros yr hen grydau, yn ddyfnion a llydain, trwy ba rai, ar un adeg, y lluchid allan sylweddau poeth i bob cyfeiriad yn rymus ac ofnadwy,—fel y gwelir heddyw yr un peth ar raddfa lai yn cymeryd lle mewn rhai parthau o'r ddaear. Ar ei gwyneb ceir gwelyau dyfnion i foroedd, a galwai yr hen seryddwyr hwynt yn foroedd, ond y mae y dyfroedd wedi sychu a darfod. Hefyd gwelir arni diriogaethau llydain, a dyffrynoedd mawrion, toriadau, cawgiau, ogofâu dyfnion, a gagendorau mawrion, ond oll yn llonydd, llwm, a digyfnawid, ac yn cael eu cysgodi gan lenni o dywyllwch dudew. Mae hi yn arhosol yn ei darostyngiad, ac am ddim a ymddengys, yn dragwyddol yn ei melldith. Gan na cheir arni nac o'i hamgylch y gallu o ddsygrchiant, *gravitation*, yr hwn sydd mor gyffredinol a grymus ei waith ar y ddaear ac yn cadw pob peth mewn cydbwysedd, a phob tuedd at ddinystr o fewn terfynau—gan na cheir y nerth hwn yn y lloer, y mae ei gallu at ddifrod yn fwy dwys a chyffredinol. Er dangos y gwahaniaeth, dywedir nad ydyw pwys, sef un owns ar bymtheg ar y ddaear, ond dwy owns a hanner yn y lloer; ac am bob pum llath a neidiai dyn ar y ddaear, gallai yn y lleuad neidio pum llath ar hugain; ac felly byddai yr un egni bum waith yn fwy yn y lleuad er peri galanastra. Yn ol y dybiaeth hon, byddai i fynyddoedd llosg y lleuad dafu eu sylweddau poethion o amgylch am y pellder o bum milldir ar hugain, am bob pum milldir ar y ddaear. Ac fe esbonia hynny ehangder *scale* ei difrod a'i dinystr, paham y mae ei llosgfynyddoedd mor fawrion ac uchel, eu crydau mor ddwfn a llydain, ei thir-olygfa mor anghyfaneddol, a'i dinystr mor llwyr, llydan, a chyffredinol. Ac fe adnabyddir mynyddoedd y lloer bellach, fel yr adnabyddir mynyddoedd y ddaear, wrth eu henwau, enwau daear, ond enwau ar fynyddoedd y lloer er hynny, megys *Caucasus, Alps, Appenine, Caparthian, Cordillera, Rook, Leibnig*. Hefyd dyma enwau rhai o'r hen grydau diffoddedig a geir ynddynt, —*Posidonius, Liune, Aristotle, Aristellus, Copernicus, Kelper, Aristarchus, Friesnecker*, ac felly ymlaen, hyd yn naw ar hugain mewn nifer. Mae y mynyddoedd hyn o'u gwreiddiau i fyny yn mesuro 18,000 i 20,000 o droedfeddi, a cheir ynddynt holltau yn mesur o ddeg i fil o droedfeddi, a genau y crydau yn mesur o ddeg i gan milldir. Mae y dinystr nid yn unig yn llwyr, ond yn eang a chyffredinol. Bu y diweddar Barch. John Jones, Talsarn, ar un cyfnod o'i oes, yn cymeryd dyddordeb mewn Seryddiaeth. Astudiodd hi mor ddiwyd fel y daeth yn rhyfeddol o gyfarwydd yn ei hegwyddorion, ac yn enwedig wrth ystyried y prinder cyfryngau a geid yn yr iaith Gymraeg i'w hastudio. A bu hefyd yn myned oddiamgylch i ddarlithio ar y wyddor, a dywedid ei fod, gyda'i hyawdledd a'i wybodaeth eang o'r mater, yn gwefreiddio ac yn synnu y cynulleidfaoedd Cymreig. Pan yn darlithio ar hyn un tro yn hen gapel Brynrodyn, dywedai:—"Yn y lleuad y mae mynyddoedd *noble*: nid yw y Wyddfa ond fel marblen plentyn yn eu hymyl. Dyma i chwi le am chwarel iawn; ac y mae yn ddigon o le i dafu y rwbel—nid fel Nantlle, y lle wedi llenwi—ond dyffrynoedd a digon o le i'r rwbel am filiwn o fynyddoedd. Peth fyddai i ni dreio mynd yno i chwilio am chwarel?"

Ai tybed fod gan y lloer ddylanwad ar y tywydd? Fel y soniwyd eisoes, y mae ganddi ddylanwad ar lawer o wrthrychau daear—ar ddyfnion,

cans ceir dynion lloerig arni yn bresenol,—ar anifeiliaid, llyisiau, creigiau, ac yn enwedig ar y môr. Ond y cwestiwn ydyw, a oes ganddi awdurdod er rheoli y tywydd, fel y mae ganddi ar lanw a thrai y môr? Credai yr hen bobl hynny, ac y mae yn erthygl yng nghredo llawer eto yn ein dyddiau ni, cansys pan y bydd hir wlybaniaeth clywir hwynt yn dweyd yn hyderus, “Bydd y lleuad yn newid ymhen yr wythnos, ac yna cawn dywydd teg.” Hon draddodiad yn unig ydyw y dybiaeth, ac heb feddu cywirdeb gwyddorol. Er fod dyfroedd y môr dan ei dylanwad, nid ydyw yr hinsawdd ddim. Pan fydd y lloer yn newydd, ac yn ei safle yn union â'r haul, ceir y *spring tide*; ymhen yr wythnos, ceir y *neap tide*; ymhen y pythefnos drachefn, ceir y llanw mawr; a'r chwarter olaf y *nép*, ac felly yn ddiror a rheolaidd o fis i fis. Bydd ei gwahanol gyfnodau a'i hymddangosiadau yn peri yr un canlyniadau sefydlog, fel y mae grym deddf, i lanw a thrai. Ac felly effeithiau ei dylanwad hi ar y môr ydyw cyfnewidiadau cyfnodol, a'r rhai hynny yn olynol a pharhaol. Ac os ydyw yn dylanwadu ar y tywydd, rhaid i'r canlyniadau fod yn gyfatebol, rhaid ei gael yn gyfnodol ac unfurf fel y llanw, yr hyn nad ydyw fel mater o ffaith. Pe buasai y tywydd yn deg unwaith yn amser y lleuad lawn, buasai o anghenheidrwydd yn wastad felly; a phe buasai yn wlybaniaeth unwaith yn amser y lleuad newydd, buasai yr un peth yn digwydd yr un amser o fis i fis trwy yr oesau. Ond nid felly yr ydym yn cael pethau, gan y ceir gwahanol fathau o dywydd, a chymysged l o wlaw a hindda trwy holl gyfnodau amrywiol y lloer. Ac nid ydyw y lleuad ar unwaith ond yn llewyrchu ar un hanner y ddaear, ac felly os ydyw yn llywodraethu y tywydd, byddai yn wlybaniaeth, neu ynte yn deg ar un hanner i'r ddaear heb eithriad. Nid ydyw hynny yn ffaith, nac yn gyson a hanes y tywydd, cansys y mae yn amrywio mewn cylchoedd llawer llai na hanner y glôb, a llawer llai o amser na phythefnos. Ac nid yn unig ceir amrywiaeth tywydd mewn gwahanol wledydd, ond hefyd mewn gwahanol ardaloedd ar yr un adeg; mewn rhai ardaloedd ceir llawer mwy o wlaw nag yn y lleill, a'i fesur yn llawer mwy. Nis gall y lloer feddu rhan yn y tywydd, neu byddai mor reolaidd a chyson a'r llanw. Hi, er pob ymddangosiad o newidiadau, ydyw y gwrthrych mwyaf ceidwadol fedd natur. Ond hi ydyw *patron* mawr y llanw. Mae ganddi awdurdod ar y môr a'i ymchwydd. Mae yn cyffwrdd ynddo nes peri i'w ddyfroedd godi a chynhyddu yn llanw uchel nes lifo dros y glannau, cuddio y traethau, rhedeg i fyny i bob firwd, codi lefel pob afon, treiddio i bob cilfach a glan, ac ymweled â phob porthladd yn ddfiwch ddwy waith mewn pedair awr ar hugain, ac mor reolaidd fel y gellid rhagddweyd amser ei ymweliad â gwahanol fannau i'r eiliad, ac ni bydd byth yn tori ei gyhoeddiad nac yn methu yn ei neges. Bydd dyfodiad ac ymweliad y *tide* yn llawer mwy sicr a phrydlon na hyd yn oed amser y trên a'r postman.

Mae y llanw o wasanaeth mawr i'r ddaear. Y mae felly mewn ystyr iechydol; oblegid daw i mewn ac aiff allan dan olchi a glanhau afendid a budreddi. Fel mae'r haul yn cadw yr awyr yn bur trwy gyfrwng y gwynt, felly mae'r llanw yn cadw y môr a'r afonydd yn bur a pheraidd trwy lanhau y carthion a'r budreddi fydd wedi ceulo ac ymgasglu ynddynt, yr hyn allai dorri allan yn bla, a dibennu yn farwolaeth i laweroedd. Y mae yn *sanitary commissioner* ac yn *scavenger* i'r moroedd, yr afonydd, a'r *deltas* oddiwrth bob llaid a gwenwyn. Hefyd mae yn dra gwasanaethgar i drafnidiaeth a masnach. Nis gallai

gallai y *Liner* fynd o'r porthladd, a chroesi y bar i fyned allan i'w mor-daith heb y llanw. Ac oddiallan i'r bar y buasai yr hwyl-long ardderchog yn disgwyl byth am fynediad i'r porthladd, a mordaith lwyddiannus, oni bae am ddyfodiad y llanw i'w ebario i mewn. A pha sawl hen long a welwyd wedi suddo ar y traeth a'r môr wedi ei gadael, wedi cael *lift* gan y *spring tide* i nofio y don, ac i wneyd siwrneuron pell er elw i'w pherchennog? Ac onid yw yn gludydd, ac yn *tug*, nid yn unig i'r agerlong, a'r hwyl-long, ond i'r cychod pysgota, y rhwyflong, y *barge*, y fflat, y cludeiriau coed, a'r holl nwyddau a gludir ac a dynnir ganddo yn ol a blaen? Ac fe wna ei waith yn ddistaw, ac hefyd yn rhad ac am ddim.

Yr oedd gan ein hynafiaid ryw fath o syniad fod a fynno y lleuad rywbeth â'r llanw a'r trai, er nas gallent esbonio hynny, ac fe ddaeth hynny iddynt trwy brofiad a sylwadaeth. Wrth sylwi ar unoliaeth y gweithrediadau, y daethant i ddeall dylanwad y lleuad ar y llanw, er yn amherffaith. Tybier fod morwr yn yr hen amser yn arfer hwylio dros y sianel i un o borthladdoedd Ffrainc, ac yn gwneyd hynny yn rheolaidd am gryn amser. Ymhen ysbaid, trwy sylwi, daeth i wybod pa bryd y byddai yn ben llanw yn y porthladd hwn trwy y mis, ac hefyd i sylwi fod y lleuad yn llawn y pryd hwnnw, ac y byddai yn cymeryd lle yr un adeg. Ac efallai fod rhywun arall wedi sylwi ar yr un peth, a'u bod yn mynegi hynny i'w gilydd, nes y daeth y peth yn wybodaeth ymarferol, fel y gwyddai y morwr bellach pa fodd i drefnu ei fordeithiau, a pha bryd y gallasai fynd a'i long dros y bar. Ond wedi darganfyddiad deddf fawr *gravitation* gan Newton ac ereill, y daeth y wybodaeth hon yn *science*, ac yr esboniwyd y paham a'r pa fodd, ac y daeth yn wyddor sefydlog.

Mae y lleuad hefyd yn geidwad amser, yn *time-keeper* i'r ddaear, yn farc mewn amseryddiaeth, ac yn un o'r bysedd sydd ar amserydd mawr y nen, er gwasanaeth i deulu y ddaear, ac nis gellir perffeithio y Calendar hebddi. Mae'r diffyg, yr *eclipse* fu arni yn ddyddiad pwysig yn amseryddiaeth y ddaear, ac yn cadw mewn cof amgylchiadau pwysig, megys pa bryd y cafodd y frwydr ei hennill, y bu y brenin farw, ac y gorchfygwyd y deyrnas.

Yn y *Nautical Almanac* ceir tablau er dangos safle y lleuad o Greenwich yn ei chysylltiad â'r ser sefydlog, ar y drydedd awr nos a dydd trwy y flwyddyn. Yr oedd paratoi y tablau hyn yn gofyn gwybodaeth fesuronol helaeth, a sylwadaeth ddyddorol a manwl ar ei gweithrediadau am gryn amser. Ac y maent bron a bod yn berffaith, ac y maent felly i bob pwrpas ymarferol. A bellach trwy gymorth yr *Almanac*, y *Chronometer*, a'r lloer, gall y morwr ddeall ei safle, a gwybod pa le y mae ar ganol môr mawr llydan, gall fesur ei *latitude*, a'i *longitude*. Rhaid iddo gael *Chronometer*, a rhaid i hwnnw fod wedi ei roddi yn gywir cyn cychwyn y fordaith, yn ol amser Greenwich. Y mae yn bwysig fod yr offeryn hwn yn gywir, gan y buasai un radd o anghywirdeb yn gyrru y llong ar gyfeiliorn o'i llybryr gannoedd o filldroedd. A rhaid i'r cadben gael rhyw safon anffaeledig yr profi yr offeryn wrtho, a deall ei gyfrif. Y safon hwnnw ydyw gwynneb y nef, — y cloc mawr anffaeledig, yr hwn nad ydyw byth yn aros nac yn methu: ac fel pob cloc y mae ganddo wyneb a llaw. Dywed Dr. Ball nad yw cloc mawr Westminster ond dim yn ymyl hwn; mai y nefoedd yw ei wyneb, y sér ydyw y ffigyrau sydd arno, a'r llaw sydd yn ymsymud ar y wyneb ydyw y lloer. A

phan yr â y cadben i brofi cywirdeb y *Chronometer* y mae yn mesur y pelllder sydd rhwng y lleuad ag un o'r ser cyfagos. Yn ol yr Almanac ceir fod y seren Regulus dair o raddau oddiwrth y lloer, ac felly gall y cadben ddyfod o hyd beth fydd amser Greenwich, a'i safle ar yr eigion.

Un o'r pethau mwyaf dyddorol yn hanes y nefoedd uchod ydyw y diffygiadau, yr *eclipses* a ddaw o bryd i bryd ar y gwahanol gyrff nefol, dyfodiad pa rai a ellir eu rhagddweyd i'r manylder mwyaf, fel y gallir rhoddi i lawr yn yr almanac y dydd o'r mis, yr awr, y funud, a'r eiliad y cymer yr amgylchiad le. Nid yn unig y mae deddf i'r haul, i'r ser sefydlog, i'r planedau, ond hefyd i'r comedau gwylltion a'r diffygiadau, ac nid ydyw byth yn cael ei throsheddu. Sonir am ddiffyg ar yr haul, a diffyg ar y lleuad, ac am ddiffyg cyflawn a rhannol ar yr haul a'r lleuad, ac y mae hynny yn bod yn eu hanes. Fe gymer diffyg ar y lleuad le pan y bydd hi yn llawn, a phan yr â y ddaear rhyngddi a'r haul, nes cadw goleuni yr haul oddiwrthi, ac i'r ddaear dafu ei chysgodion tywyll arni. Pan y bydd y ddaear yn gyfangwbl yn mynd rhwng y lleuad a'r haul, bydd y diffyg yn hollol; ond pan yn rhannol, ni bydd y diffyg ond rhannol. Hefyd bydd y lleuad yn meddu rhan mewn peri diffyg ar yr haul, trwy fynd rhwng yr haul a'r ddaear, a pheri ei fod yn gwbl neu ynte yn rhannol, yn ol fel y byddo ei safle hi mewn cysylltiad ag ef. Ac fe roddir amser y diffygiadau hyn i lawr yn y dyddiadur, a byddant bob amser yn cymeryd lle yn ol y broffwydoliaeth. Ac y mae y seryddwr yn gallu rhag-hysbysu eu hamseriad, trwy sylwi ar symudiadau y lloer nid am un, dwy, na thair blynedd yn unig, ond am ddeunaw mlynedd, dyweder; a thrwy sylwi ar amseriadau y diffygiadau yn ystod yr amser hwnnw y mae yn gallu rhag-ddweyd y diffygiadau a'u hamseriadau yn y dyfodol, am amser maith. Dylid cofio y ffaith mai 6,585½ o ddyddiau ar ol un diffyg y gellir disgwyl un arall cyffelyb. Yn y flwyddyn 1881 fe gymerodd diffyg hollol le ar y lleuad; ac os cyfrifir yn ol 6,585 o ddyddiau, yr hyn wna ddeunaw mlynedd ac un diwrnod ar ddeg, deuir i'r dyddiad Tachwedd 24ain, 1863, a cheir fod diffyg cyffelyb ar y lleuad wedi cymeryd lle y pryd hwnnw. Hefyd bu pedwar o ddiffygiadau gwahanol ar y lleuad yn y flwyddyn 1881, ac os ychwanegir 6,582½ at bob un o honynt cymer y pedwar diffyg cyffelyb le yn y flwyddyn 1899 ar wahanol adegau. Dyma y modd y gall y seryddwr rag-wybod am helynt a symudiadau y lloer am amser maith i'r dyfodol.

JOHN JONES.

MELCHISEDEC O SALEM.

YN ddiweddar ysgrifenyddwyd erthygl ar y testun dyddorol uchod gan y Proffeswr Sayce, LL.D., sydd yn tafu goleuni newydd ar hanes "Brenin Salem." Cydnabyddir Dr. Sayce fel awdurdod uchel iawn ar gwestiynau Dwyreiniol ynglyn â hen hanes. Gŵyr lliaws o ddarllenwyr y **TRAEATHODYDD** am ei waith rhagorol ar Hen Ymerodraeth yr Hethiaid (*The Ancient Empire of the Hittites*);—un o'r llyfrau mwyaf dyddorol a ysgrifenyddwyd er ys llawer dydd.

Ac yn y dyddiau hyn, pan mae yr “*higher criticism*” yn honni pethau mawrion, ac yn “dymchwelyd ffydd rhai,” purion peth ydyw gweled gwŷr dysgedig mewn hanes yn dod ymlaen i gywiro damcaniaethau eithafol rhai beirniaid y mae “llawer o ddysg” wedi eu gwneyd “yn ynyd.” Y mae aml i ddarn o'r Hen Destament a wrthodid fel ffaith gan yr “uch-feirniadaeth” hon, erbyn hyn wedi ei phrofi yn hanes gwir gan raw y cloddiwr, a chan fedr dehonglwr cerfiadau y graig a'r garreg. Yr hyn a dynnai beirniadaeth i lawr, a osodai ymchwiliad i hynafiaethau yn ei le drachefn fel rhan o'r wir adeilad. Er engraifft, cymerer yr hanes ramantus yn nechreu y bedwaredd bennod ar ddeg o Genesis, rhyfel y pedwar brenin yn erbyn pump. Mynnai yr “*higher criticism*” mai chwedl, *myth*, oedd hyn oll. Ond yn awr, ceir y cofadeiliau Babilonaidd yn cyd-dystiolaethu â Genesis i wirionedd yr hanes; ac y mae y doethion beirniadol wedi eu dal “yn eu cyfrwystra.” Ond os amheuid dilysrwydd dechreu y bennod fel hanes, llawer mwy y darn olaf o honi,—am “Melchisedec brenin Salem,” “offeiriad y Duw goruchaf,” yn cyfarfod ag Abraham, ac yn ei fendithio. Hyd yn oed yn nyddiau y Salmydd yr oedd y brenin-offeiriad hwn wedi ei amgylchu â thywyllwch, ac yn ymddangos yn fwy o *myth* nag o ffaith. Rhaid fod yr hwn y talodd “Abraham yr Hebreid”—tad y genedl sanctaidd—ddegwm iddo, yn wr o bwysigrwydd anghyffredin; a rhaid fod y “Duw Goruchaf” yr oedd yn offeiriad iddo, yn Dduw o ddylanwad a bri mwy na'r lliaws duwiau. Ac eto daw y Duw a'r offeiriad i mewn i'r hanes yn sydyn ac annisgwyl-iadwy, a diflannant oddiarni yr un modd. Fel y dywed awdwr y llythyr at yr Hebreid, ymddengys Melchisedec “heb dad, heb fam, heb achau, heb fod iddo na dechreu dyddiau, na diwedd einioes.” Ymddanghosai enw ei ddinas, “Salem,” yn llawn amheuaeth. Dengys y frawddeg, “dyffryn y brenin” (Gen. xiv. 17), mai Jerusalem a feddylir wrth y ddinas. Ond paham y dywedir mai “Salem,” ac nid “Jerusalem” oedd ei henw?

“O,” atebai y beirniad craff, “chwedl ydyw, a ddyfeisiwyd ymhen canrifoedd ar ol marw Abraham, gan falchder cenedlaethol yr Iuddewon.”

Ond rhyfedd iawn,—pe rhyfedd hefyd,—y mae cywirdeb manylion yr hanes bellach yn brofedig trwy ymchwiliad hynafiaethwyr. Dair blynedd yn ol, gwnaed darganfyddiad o bwys yn yr Aifft uchaf. Ar lan ddwyreiniol y Nilus, hanner y ffordd rhwng trefi Minieh ac Assiout, y mae rhes o domenydd a elwir Tel-el-Amarna. Dynodant adfeilion dinas hynafol a fu am dymor byr yn brif-ddinas yr Hen Aifft. Ar derfyn y 18fed deyrnach (*dynasty*), tua 1400 cyn Crist, llywodraethid yr Aifft gan Amenophis y 4ydd, hanner Asiad o ran gwaed. Ymhen ychydig ar ol esgyn i'r orsedd, ymwrthododd efe a'r hen grefydd Aifftaidd, a chyhoeddodd ei ymlyniad wrth y grefydd Asiaidd,—addoliad yr haul-dduw, Baal, o dan y ffurf o haul. Ond methodd a throi ei ddeiliaid gydag ef; parhaent hwy, fel arfer, i lynu yn dyn wrth eu hen dduwiau. Gorfu i Amenophis adael Thebes, hen brif-ddinas y wlad, ac adeiladu prif-ddinas newydd ar y lle cyn y saif tomenydd Tel-el-Amarna yn awr. Llenwid y brif-ddinas newydd â dilynwyr y grefydd newydd; ac yr oedd y rhan fwyaf o honynt o waed Canaanëaidd. Tra bu Amenophis fyw, cafodd ryw fath o ufudd-dod swrth. Ond ar ei farwolaeth, torrodd allan ryfel cartrefol a chrefyddol. Galwyd yn ol flwyd yr Aifft o'r gorsafoedd ym Mhalestina a Syria, ac enillodd y

gwledydd hynny eu hannibyniaeth yn ol. "Dadsefydlwyd" crefydd yr haul; a chychwynwyd y bedwaredd deyrnach ar bymtheg o frenhincedd gan "frenin newydd," yn cynrychioli *hen* syniaidd Aifftaidd am grefydd a gwladwriaeth. Ymlidiwyd yr estroniaid Themiaidd o'r wlad, ac aeth prif-ddinas Tel-el-Amarna yn garnedd o adfeilion.

Yn yr hen adfeilion hyn y gwnaed y darganfuddiad pwysig y cyfeiriwn ato. Cafwyd yno rannau o "lyfrau Amenophis y 4ydd a'i dad. Y mae y "lyfrau" yn llechi o glai, a'r ysgrifen yn un Fabilonaid (*cuneiform*), a chan mwyaf yn yr iaith Fabilonaid. Ceir yma lythyrau a brys-negesau oddiwrth frenhinoedd Babilonia, Assyria, a Mesopatamia, ac oddiwrth lywodraethwyr Aifftaidd, ac is-frenhinoedd Syria a Phalestina. Prawf hyn fod y ganrif o flaen "Exodus" Israel o'r Aifft yn un uchel o ran llenyddiaeth trwy yr holl fyd dwyreiniol; ac mai yr iaith a ddefnyddid oedd un Babilon.

Ymhlith y llythyrau hyn, ceir amryw oddiwrth is-frenin Jerusalem. Ei enw ef oedd Ebed-tob; ac enfyn lythyrau maith a llawn dyddordeb. Taflant firwd o oleuni ar hanes boreuol Jerusalem; ac fel y ceisiwn ddangos, y maent yn egluro llawer ar hanes ryfedd Melchisedec. Haera Ebed-tob fod awdurdod Melchisedec yn ddeilliedig, nid oddiwrth frenin yr Aifft, na thrwy etifeddiaeth dreftadol; rhoddasid hi iddo, medd efe, gan "oracl" neu "broffwydoliaeth" y Duw y safai ei gysegr ar fynydd Moriah. Fel hyn y dywed:—"Ni rhaglaw mo honof, ond deiliad i'm harglwydd Frenin. Dywedaf mai cynghreiriad y brenin ydwyf; a thelais y deyrnged ddyledus i'r brenin. Nid fy nhad na'm mam a'm sefydlodd yn nhf fy nhad, ond oracl y Brenin Galluog." Eto: "Nid fy nhad na'm mam, meddaf, a'm dyrchafodd yn y lle hwn; proffwydoliaeth y Brenin Galluog a wnaeth i mi fyned i mewn i dy fy nhad."

Teitl Duw Jerusalem oedd "y Brenin Galluog." Ceir ei enw *priddol* yn un o lythyrau Ebed-tob. Yno darllenwn am "ddinas mynydd Jerusalem, dinas y Duw *uras*, enw yr hwn yno yw Salim." Duw Fabilonaid oedd Uras, yn cynrychioli haul y boreu; ac edrychid arno fel yr un a duw Jerusalem. Felly math o Baal (haul-dduw) ydoedd; ac addolid ef fel yr haul yn codi. Y mae ei enw *lleol*, "Salim," o ddyddordeb neillduol. Fel y gŵyr ein darllenwyr, ystyr "Salim" neu "Salem" yw *heddwch*; ac y mae o'r un cyfathrach â'r gair Assyriaidd "Tulmann," neu "Solomon," Duw heddwch. Y tebyg yw felly fod teml y duw hwn ar Moriah yn fan cyfarfod llwythau deheuol Palestina, yn lle cysegredig i gyfarfod ynddo heb na chweryl na swn arfau. Efe oedd duw cymod a heddwch. Ac yno hefyd yr oedd "oracl" a berchid hyd yn oed yn yr Aifft.

Y mae enw duw Jerusalem yn esbonio enw si ddinas. Dywed un o'r llechi clai wrthlym mai ystyr "Uru" yw dinas; felly "Uru-Salim" yw "dinas y Duw Salim," neu "ddinas heddwch." Par hyn i ni feddwl am eiriau Esaiah ymhen canrifoedd lawer wedyn, pan y dywed am Jerusalem: "Wele mi a estynaf iddi *heddwch* fel yr afon." Ac mor briodol oedd galw "Jedidiah," fab Dafydd, y brenin Israelaidd *cyntaf* a alwyd yn Jerusalem yn "Solomon," neu "Shelomoh," *yr un heddychlon*. (2 Samuel xii. 24 a 25).

Yn ol llythyrau Ebed-tob at frenin yr Aifft, nid "brenin" yn yr ystyr gyffredin oedd brenin Jerusalem; ond yn hytrach, offeiriad y duw a addolid yno. Yr oedd ei awdurdod i lywodraethu yn annibynnol ar osodiad dynol. Y duw ei hun, trwy ei "oracl" a'i gosodasai; ac fel

offeiriad y Duw hwnnw y llywodraethai. Onid yw hyn yn hollol fel y dywedir yn Genesis am Melchisedec? Yr oedd yntau hefyd, nid yn unig yn "frenin Salem," ond yn "offeiriad y Duw Goruchaf"; ac am hynny yr offrymodd "Abram yr Hebreadd" iddo ddegwm. Heblaw hyn, dengys y teitl, "brenin Salem," ei awdurdod offeiriadol. Gwelwn yn llythyrau Ebed-tob beth yw ystyr "Salem"; a gwelwn hefyd pahan y gelwir Melchisedec yn "frenin Salem," ac nid yn "frenin Jerusalem." Nid brenin Jerusalem mohono, ond brenin *dinas* y duw Salim; am nad oedd yn frenin yn yr ystyr gyffredin. Cyn belled ag yr oedd yn offeiriad y duw Salim yr oedd yn frenin,—“brenin Salim,” a thywysog tangnefedd.

Y fath gyfoeth o ystyr sydd i ni yn y teitl "Sar Salim," neu yr Hebraeg "Sar Shalôm,"—*tywysog tangnefedd!* Dyma enw'r Messiah gan y profwyd. Dengys llythyrau Ebed-tob fod yr enw wedi dod i lawr er dyddiau Abram, a chyn hynny efallai, fel enw offeiriad-frenin Jerusalem,—“offeiriad heddwch.” Yr oedd y ddinas hon er ys oesoedd yn noddfa heddwch, lle y cyfarfyddai y llwythau mewn cymod. Yr oedd "Abram yr Hebreadd," trwy orchfygu Cedorlaomer, brenin Elam, a'i gyd-ymosodwyr, wedi adfer heddwch i Ganaan; ac am hynny bendithid ef gan "offeiriad y Duw Goruchaf," cysegr yr Hwn oedd ar Moriah.

Gellir casglu oddiwrth Genesis xxii. 14, y gelwid y lle cysegredig hwn yn "fynydd yr Arglwydd" yn yr adeg yr oedd Jerusalem yn eiddo'r Iuddewon. Gallwn trwy y cofadeiliau Aifftaidd olrhain enw cyfystyr yn ol yn foreu iawn. Yr oedd Thothmes y 3ydd,—brenin mwyaf yr Aifft mae'n debyg,—yr hwn oedd y pedwerydd o flaen Amenophis, wedi goresgyn Palestina a Syria, a'u cysylltu a'r Aifft. Ar furiau ei deml yn Carnac, gadawodd ar ei ol restr o'r dinasoedd gorchfygedig yng Nghanaan. Yn eu plith y mae nifer o ddinasoedd o gwmpas lle a elwir "Har-el." Safent yn agos i Jerusalem. Ystyr "har" yw mynydd; felly "Har-el" yw "mynydd Duw." Ni enwir Jerusalem wrthi ei henw gyffredin; ond sicr yw ei bod yn lle o bwys yn amser Thothmes; ac o ganlyniad, eglur yw mai wrth "Har-el" y meddyllir "sanctaidd fynydd Duw," neu Jerusalem.

Y tebyg yw i offeiriad-frenin Jerusalem ymostwng i Thothmes yn ddiwrthwynebiad. Am hynny, caniatayd iddo ddal ei awdurdod grefyddol a gwladol. Yr oll a ofynid ganddo oedd teyrnged flynyddol, a derbyn i'w ddinas fath o lys-genad Aifftaidd. Enwir dau o'r llysgenhadau hyn gan Ebed-tob. Un yn Khapi, mab Miya Riya; neu Apis mab Mari Ra; a'i frawd ef, Amenophis, a gododd y ddelw enfawr yn Thebes, a elwir delw Memnon. Y llall a enwir yw Pa-uru, ŵyr Meri Ra. Caed ei ddelw ef yn ddiweddar yn adfeilion Mendes. Pan aeth Israel i Ganaan, ymhen tua chan mlynedd ar ol dyddiau Ebed-tob, yr oedd Jerusalem yn nwyllaw y Jebusiaid. A barhaodd yr offeiriad-frenhinoedd i lywodraethu yno, nis gwyddom. Ond wrth ddarllen 2 Samuel v. 7—9, tueddir ni i greu, er i Dafydd feddiannu "twr y Jebusiaid," neu "*amddiffynfa* Sion," na chymerodd y "ddinas uchaf," ond fod Arafnah y tywysog Jebusiaidd wedi ei adael yn ei awdurdod a'i swydd hyd ei farw. Oblegid dywedir yn 2 Samuel xxiv. 23: "Hyn oll a roddodd Arafnah *fel brenin* i'r brenin."

Yr oedd yr hen enw "Salem" yn glynu wrth y ddinas, o leiaf hyd ddyddiau Moses; oblegid un o enwau y dinasoedd gorchfygedig a enwir gan Ramses yr 2il yn Thebes yw *Sholam* neu "Salem."

Am ymgyrch Cedorlaomer a'i dri chynghreiriaid, nid oes bellach le i unrhyw amheuaeth. O ddyddiau Sargon a Chedorlaomer hyd y gairf o faen yr "Exodus," yr oedd Palestina yn agored i ymosodiad a a dylanwad Babilon. Pa mor gryf oedd y dylanwad hwnnw, gallir gwled oddiwrth y ffaith fod offeiriad-frenin Jerusalem yn ysgrifennu i'r Aifft yn iaith Babilon, ac yn galw ei dduw wrth enw duw Babilonaidd. Nid oes le i un o'r mudiolwyr Melchisedec allan i fendithio dinystrydd y gelyn o Babilon. Yr oedd y ddiinas wedi hen ddioldef oddiwrth allu y gelyn hwn.

Ni a ychwanegwn air neu ddau am ystyr yr enw "Melchisedec." Cyfieithir ef yn gyffredin yn "frenin cyflawnder." Ceir y gwreidd-air y tardd "Sedec" o hono, yn un o lythyllau Ebed-tob, er nad yw yn air Babilonaidd nac Assyriaidd. Dywed fod y brenin Aifftaidd yn "gyfiawn" (*tsaduq*) tuag ato. Fel hyn gwelir fod yr hanes am Melchisedec yn "frenin Salem," a "brenin cyflawnder," am ei fod yn "offeiriad y Duw Goruchaf," yn hanes credadwy, ac nid yn chwedl neu alegori.

Nid yw yr *higher criticism* ond ieuanc eto; ac fel popeth ieuanc, y mae yn lled hyf a hunan-hyderus. Daw yn gallach fel y daw yn hŷn a mwy profiadol. Nis gallir credu popeth a haera ar hyn o bryd. Mewn mwy nag un amgylchiad, mynnai "apelio at Cesar," ac wele "Cesar," yn yr hen gofodeiliau a'r hen ysgrifau cerrig yn tystiolaethu i'w herbyn, ac yn dweyd am hanes yr hen lyfr "y dystiolaeth hon sydd wir."

H. BARROW WILLIAMS.

ADGOFION AM MORGAN JONES, LLUNDAIN

GAN MYNORYDD.

"MEDDYLIWCH am eich blaenoriaid." Mae y frawddeg hon wedi ei dwyn i'n sylw yn ddiweddar yn Llundain trwy farwolaeth dau o'n blaenoriaid hynaf mewn cysylltiad ag achos y Methodistiaid Calffaidd yn y West End; ond ar hyn o bryd yr ydym yn bwriadu cyfyngu ein sylwadau at un o honynt yn unig, sef Mr. Morgan Jones, Pimlico, gynt o Bant-y-ceubren, Llanberis. Nid bywgraffiad a amcanwn roddi, ond Adgofion, ac yr ydys yn barnu y byddai yn ddyddorol i ddarllenwyr y TRAEHDYDD wybod am esiamplau o'i ddawn i siarad, ac yn fwy neillduol ei arabedd.

Dyn hardd ei gorff, tawel ei ymddygiad, urddasol bob amser oedd Mr. Morgan Jones; yr oedd yn ddirifol ei wedd hyd yn oed pan yn ddigrif a'i dafod. Yr ydys yn barnu fod y duedd i fod yn drymaidd a phruddaidd yn y sêr fawr yn rhy gyffredinol yn ein mysg, a chan fod y fath gawr a Spurgeon yn gallu defnyddio ei arabedd yn y pulpud, y mae hynny yn ddigon o drwydded i'r ddawn hon gael ei defnyddio, yn awr ac yn y man, yn y sedd swyddogol o dan y pulpud. Y mae hoewder naturiol ieuencyd yn disgwyl am ryw arwyddion cyffelyb mewn rhai hŷn, gan eu bod hwythau hefyd wedi bod yn ieuanc unwaith. Mae y

ddawn o arabedd yn rhodd oddiuchod, ac y mae yn bosibl rhoddi sêl y ddoethineb uchaf arni, wrth ei defnyddio yn iawn.

Ar agoriad capel Nassau Street, yn 1856, fe alwyd ar Mr. Jones i wneyd sylwadan pwrpasol i'r amgylchiad. Yr oedd ef wedi ei apwyntio gan Gyfarfod Misol Llundain i fod yn brif flaenor yr eglwys yn y West End pan y cyfanwyd y rhwyg a achlysurowdd llogi hen gapel Grafton Street. Yr oedd wedi bod yn dadleu yn gryf o blaid cael achos yn y West End pan oedd swyddogaeth Jewin Crescent yn gryf iawn yn gwrthwyn-ebu y drychfeddwl. Wel, fe alwyd arno, ac ymhlith yr hyn a ddywedodd fe adroddodd hanesyn:—

“Yr oedd rhyw blant yn chwareu ar y stryd, ac fe aethant i ganmol eu tai. Yr oedd un yn siarad am y dodrefn ardderchog oedd yn i dŷ ef, un arall yn canmol y ty braf oedd gan ei rieni yntau, un arall ryw ffurf arall o ragoriaeth; ond fe benderfynodd un fod ganddo le i dybed y gallai ragori arnynt oll, ac fe ddywedodd, ‘O, mae gennon ni rhywbeth gwell nag sydd gan yr un o honoch.’ ‘Beth yw hwnnw,’ ebe'r lleill. ‘O, y mae gennon ni *mortgage* ar ein ty ni.’ Wel,” meddai Mr. Jones, “y mae gennon ni yma dŷ hardd i addoli ynddo, y mae yn hynod o gyfeus ac yn rhagori cryn lawer ar yr hen Grafton aew; ond—y mae gennon ni *mortgage* arno! Ond nid ydym yn falch o hono mewn un modd, fel y bachgen hwnnw. O na, hoffem gael gwared o hono mor fuan ag sydd bosibl. A wnewch chwi, anwyl gyfeillion, ein helpu? Da chwi gwnewch hyd y gallwch, a byddwn yn dra diolchgar i chwi.”

Dro arall, yng nghapel Jewin Crescent, fe gynhaliwyd cyngherdd o gerddoriaeth gysegredig, ar ran y Gronfa Adeiladol. Ni ddefnyddiwyd capel Jewin erioed i gerddoriaeth arall. Gwyn fyd na bae capeli erei!l ein Cyfundeb mor ofalus ar y pwnc hwn ag yr oedd awdurdodau hen gapel Jewin,—a Jewin newydd hefyd o ran hynny. Fe alwyd ar Mr. Jones i gynyg diolchgarwch i'r cantorion am eu gwasanaeth, a bu raid iddo esgyn i'r pulpud i wneyd hynny. “Yr wyf yn cofio pan yn fachgen,” meddai, “i mi ddringo coeden, ac ar ol dringo, cefais ffloch rhwng dwy gangen i'r pren; eisteddais yn gomfforddus yno, a dywedais wrth fy nghyfaill, ‘Dyma le braf i hel cnau, *tasa nhw yma!*’ Wel, gallaf ddweyd heno, dyma le braf i roddi araeth, *tasa gen i un!*” Doedd dim eisieu araeth ar ol hyn,—yr oedd y *peth wedi ei wneyd yn yr apology* am beidio ei wneyd!

Yr oedd Mr. Jones yn gallu meddiannu ei hun mewn ffordd lwydd-iannus iawn. Yr oedd yn hynod hoff o gerddoriaeth, ac yn absenoldeb yr arweinydd canu fe lanwai y swydd. Yr oedd ei lais yn swynol ond nid yn gryf. Fe ddechreuodd dôn unwaith, ac fe dybiodd y gynulleidfa ei fod yn cychwyn *tôn arall*. Gwyddai ef yn dda nad oedd y dôn honno ar yr un mesur. Ar ol brawddeg neu ddwy, fe gododd ei law; ataliwyd y dôn, ac fe ddywedodd yntau yn ei ddull tawel: “Ddaw hi ddim ar y dôn sydd gennych chwi, fy nghyfeillion; nid y dôn honno oedd yn fy mwriad i; os gwnewch chwi sylwi ar fy arweiniad yn fwy craffus, cewch wybod mai *tôn arall ddylai fod.*” Ail gychwynwyd y dôn, ac fe aeth yn hwylus.

Bryd arall, pan oedd yr arweinydd yn bresennol, fe ddewisodd Mr. Jones dôn hoff iawn ganddo ef, sef “St. Garmon.” Ni chlywais fod yr arweinydd wedi digio o gwbl, yr oedd dealltwriaeth mor dda rhwng y

ddau. Hyd yn ddiweddar iawn, yr oedd yr arweinydd, nid yn unig wedi llwyr faddeu iddo, ond yr oedd hefyd wedi llwyr anghofio yr amgylchiad. Nid yn aml y mae hyn yn digwydd. Y mae yn bosibl maddeu, pan y mae yn amhosibl anghofio.

Yr oedd Mr. Jones yn awyddus iawn i gael offeryn cerddorol yn y gwasanaeth. Yr oedd ymhell o flaen rhai o'i gyd-flaenoriaid yn hyn. Yr oedd un o honynt yn dal mai yr unig gyfeiriad at offerynau cerddorol yn y Testament Newydd yw yr un yn yr epistol cyntaf at y Corinthiaid (xiii. 1): "Pe llefarwn a thafodau dynion ac angylion, ac heb fod gennyf gariad, yr wyf fel efydd yn seinio, neu symbol yn tincian"! Gofynai, "A oedd gan yr angylion *harmonium* pan yn canu uwch ben meusydd Bethlehem?" Mae yn debyg nad oedd y brawd ddim yn cofio am y "telynau aur" yn y Datguddiad, ac yn wir fe'i clywid yntau yn ymuno yn hyfryd yn y pennill,—

Hyd nes delo'r hyfryd foreu
Y caf *Annau'r* delyn fawr;

ac nid oedd yn petruso i ganu—

Ni bydd diwedd
Byth ar swm y delyn aur.

Cafwyd *harmonium* yn y capel at wasanaeth yr Ysgol Sul a'r cyfarfod-ydd canu. Nid oedd gan y brawd yr un gair yn erbyn defnyddio yr offeryn yn yr Ysgol Sul. Dywedai, "Gwnewch fel y mynnwch ag ef yn yr ysgol, nid ydwyf yn ystyried yr ysgol fel gwasanaeth neu addoliad!" Awgrymodd Mr. Jones ar fod i ni ddechreu defnyddio yr *harmonium* yn y gwasanaeth. Atebodd yr arweinydd canu, mai gwell oedd cael caniatâd yr eglwys yn gyntaf. "O, na," meddai yntau, "does dim angen; gwell peidio dweyd gair; y mae un gair yn arwain i un arall." Yr oedd Mr. J. H. Roberts, Caernarfon, yn efrydydd ar y pryd yn y *Royal Academy of Music*, ac fe ofynwyd iddo ef gymeryd yr offeryn, mewn ufudd-dod i gyngor Mr. Jones. Fe wnaeth, ond cododd gwrthryfel bychan a bygythiad ar ran un neu ddau. Dywedodd un hen chwaer dduwiol wrth yr arweinydd: "Arhoswch nes i ni, y rhai hên, fyned ymaith." Y mae y chwaer honno yn fyw hyd y dydd heddyw!

Mewn amser ar ol hynny fe osodwyd y peth o flaen yr eglwys. Yna fe gododd un brawd brwdfrydig,—nid y blaenor crybwylledig, yr oedd ef yn absenol,—ac a ddywedodd: "Y mae yn anghyfreithlon i ddwyn y ffurf newydd hwn o addoliad i mewn i'r eglwys heb ganiatâd y Cyfarfod Misol, os nad, yn wir, y Gymdeithasfa; ac y mae yn groes i reolau y Gyffes Ffydd." Hysbysodd y Parch. Griffith Davies, yr hwn oedd yn weinidog yr eglwys y pryd hynny, fod y Gymdeithasfa wedi pasio fod pob eglwys i benderfynu yn annibynnol ar y pwnc hwn, ac nad oedd gair yn y Gyffes Ffydd ar y mater! Mor hawdd yw canfod brycheuyn yn llygad brawd! Yr oedd y gŵr doniol hwn yn "fasnachydd Sabothol," ac eto yn amddiffynnydd y Gyffes Ffydd! Gwareded ni o law y fath gyfeillion. Ond fe gododd Mr. Jones i fyny ac a ddywedodd:—"Y mae yr achlysur hwn yn dwyn i'm cof hanes a ddarllenais am eglwys yn America, oedd yn sôn am gael *stove* i dwymno'r lle, ac yr oedd parti yno yn gwrthwynebu y fath beth. Yr oeddynt yn sier y byddent yn dioddef

anghysur oddiwrth y gwres a ddeuai o honi. Fe fu raid cymeryd pleidlais ar y peth, ac fe gafwyd fod y mwyafrif o blaid cael y *stove*. Y Sul cyntaf ar ol gosod y *stove*, fe deimlodd y rhai oedd yn ei herbyn anghysur oddiwrth ei gwres yn bur fuan, a dyna lle'r oeddynt yn pwffian ac yn ysgwyd eu hancesi i gael tipyn o wynt, ac i gael eu hanadl yn well. Ymhen ychydig amser ar ol hyn, fe aeth rhywun ymlaen at y *stove*, a dododd ei law arni,—*yr oedd yn berffaith oer*. 'Doedd dim tân wedi ei osod ynnddi o gwbl! Felly fy nghyfeillion," meddai Mr. Jones, "peidiwch a dychrynu na chynhyrfu wrth yr *harmonium* yma; y mae yn berffaith ddiniwed; wnaiff o yr un sŵn ond mewn ufudd-dod i'n hewyllys ni: ac os, ar ol i ni chwythu tipyn o wynt ynndo, y teimlwn ei fod yn gwneyd unrhyw nived i ni, gallwn roddi stop arno *mewn munud*."

Cafwyd mwyafrif mawr o blaid cael yr offeryn. Allan o 121 o bleidleisiau, 11 oedd yn erbyn. Fe chwareuwyd yr *harmonium* o hynny hyd y flwyddyn ddiweddar, pryd y cafwyd Organ ragorol i'r Capel newydd yn Charing Cross Road.

Yr oedd gan gallineb Mr. Jones yn trin achos yr *harmonium*, law bwysig yn yr oruchafiaeth hon.

Un teulu yn unig a adawodd Nassau Street o herwydd y cyflewid- iad,—sef teulu y brawd brwdfrydig, amddiffynnydd y Gyffes Ffydd, ac ydoedd ei hnanan y troseddwr pennaf o honi.

Mewn cyfarfod cystadleuol a gynhaliwyd yn y *Vestry Hall*, Chelsea, yn y flwyddyn 1870, gan yr Annibynwyr, yr oedd gwobr wedi ei chynnyg am y penillion goreu ar "Glefyd y Saboth." Pan gyhoeddwyd enw y buddugol, welo Mr. Morgan Jones yn myned ymlaen! Fe dderbyniodd y wobr, ond cyflwynodd hi yn ol tuagat y treuliadau. Mewn ychydig wythnosau ar ol hyn, fe gynhaliwyd Cyfarfod Blynyddol yn Nassau Street. Cafwyd amryw gorawdau, a chaneuon, a rhai adroddiadau; ac yn eu plith yr oedd Mr. Jones wedi ei ofyn i adrodd ei benillion buddugol. Yr oedd yr amgylchiad yn rhywbeth hynod,—prif flaenor y Methodistiaid Calfinaidd yn myned i adrodd barddoniaeth o'i waith ei hun. Ni chlywsid am y fath beth yn Llundain beth bynnag. Teimlodd Mr. Jones hyn ac fe wnaeth araeth fach fel rhagymadrodd. Dywedai: "Y nos o'r blaen, pan gyhoeddwyd fy enw yn fuddugol, teimlais yn bur syn; nid oeddwn yn ystyried fy hun yn fardd o gwbl; tybiais fod rhyw gamgymeriad yn bod; ond pan glywais sylwadau y beirniad, yn canmol fy mhenillion, parodd i mi gofio am hanes a ddarllenais am ryw ddyn wedi ei ddwyn i sefyll ei dreial am ladrata ceffyl. Fe logodd amddiffynnydd galluog; ac yn y diwedd fe lwyddodd hwnnw i gael dedfryd o ryddhad. Ymhen ychydig ddyddiau fe gyfarfyddodd â chyfaill, a dywedodd y cyfaill wrtho, 'Wel, hwn a hwn, hoffwn yn fawr gael clywed gennych chwi eich hunan, a ddarfu i chwi ladrata y ceffyl? Yr oedd yr achos yn ymddangos i mi yn hynod o anffafriol i chwi ar y pryd, ac yr wyf braidd mewn amheuaeth heddyw ar y pwnt. Dydi o ddim pwys yn y byd i chwi yn awr ddweyd y gwir am dano, beth bynnag yw, gan eich bod yn ddyn rhydd.' 'Wel,' atebai y llall, 'pan acthum i mewn i'r cwrt, yr oeddwn o dan yr argraff fy mod i *wedi ladrata y ceffyl*, ond pan glywais fy amddiffynnydd yn siarad mor ddoniol o'm plaid mi eis i ameu pa un a oeddwn yn euog ai peidio!' Felly finnau, wrth

glywed y feirniadaeth ar 'Glefyd y Saboth' aethum i ameu bron fy marn fy hun."*

Trwy gareidigrwydd Mr. Griffith Jones, brawd Mr. Jones, yr ydym wedi cael gafael ar y llinellau hyn, ac yng ngwyneb yr arwyddion am-rywiol o fodolaeth y clefyd hwn yn y dyddiau hys, efallai y byddant yn amserol. Dyma hwynt:—

CLEFYD DYDD SABOTH.

Buddugol mewn Cyfarfod Cystadleuol yn Chelsea, Llundain, 1870.

Fel rheol mae'r meddyg er deall y clefyd
Yn rhifo curiadau y galon yn rhes,
Gan dreio cael allan pa beth a'i hachosodd—
Ai prinder, ai gormod, ei oeddel neu wres:
Mae amryw glefydau yn awr yn teyrnasu,
Ond un sydd i alw ein sylw'r pryd hyn,
Sef nodi arwyddion o'r clefyd Sabothol,
Sydd fel y gwahanglwy'n troi'r blewyn yn wyn.

Mae clefyd dydd Saboth i'w 'nabod
Wrth amler esgusion y claf;
Mae'r gwynt yn rhy oer yn y Gauaf,
A'r hin yn rhy boeth yn yr Haf:
Nis gallaf fynd heddyw i'r addoldy,
Mae poen i'm haelodau bob un,
Rhaid gorwedd yn drymaidd ddidramwy,—
Ond codaf ben boreu dydd Llun.

Medd un, "Mae fy natur yn gwy wo,
Dydd Saboth rhof wibdaith i'r wlad;"
Ac arall dan effaith y clefyd,
"Af innau i ymweled a'm tad;"
Medd arall, "Mac'n rhaid im fod gartref,
Canys ataf mae cyfall yn dod,
Amcanaf ei wneyd yn a gysurus,
Rwy'n hoffi cael taenu fy ngh'od."

Un arall yn wamal wna amod
I gwrddyd a'i ddarpar cydfyw,
Gan chwaraeu fel march sydd borthiannus,
A thorri dydd sanctaidd Mab Duw.

* Clywom y diweddar Ddoctor Owen Thomas yn adrodd gyda blas ystori a ddywedasai Mr. Morgan Jones wrtho am ymddiddan a gymerasai le rhyngddo a bachgen doniol o Gymro a gyfarfuasai yn ei hen ardal, Llanberis. Yr oedd Mr. Jones wedi dyfod yno o Lundain, a chymerodd y llanc yn ganiataol y rhaid mai boneddwr o Sais ydoedd. "Spars, sir," meddai, "from Snowdon," gan eu dangos ar ei law yn y gobaiith o gael marchnad iddynt. "You have very fine mountains here," ebai y gwr bonheddig, tra yn edrych ar y spars. "Oh yes, sir. There is no mountain in the world like Snowdon," ebe y bachgen. "How did you get such a mountain here?" "Oh, the people of this neighbourhood made it." "Made it, how in the world could they get it together?" "Do you see that lake over there," ebe yntau, "that lake is very deep; the people here raised Snowdon all from that lake, and put it where it now stands." "They have a small mountain the other side too," ebe Mr. Jones, "how was that made?" Yr ateb parod oedd: "Oh yes, they have; the people on that side are always jealous of us on this side, and so they tried their best to get together a little mountain, but it is not to be compared with Snowdon; there is no mountain, sir, like Snowdon!" Edrychodd Mr. Jones yn graff arno, a dywedodd yn Gymraeg: "Wyddost ti beth, yr wyt yn fachgen drwg ofnadwy." Ar hynny dychrynodd y gwialch a dywedodd: "Bobol anwyl, Cymro ydach chi? Roeddwn i'n meddwl mai Sais oeddech chi; mi goelith y Saeson bob peth ddwedwn i wrthyn nhw!"

O fenyw ! rho glust o wrandawiad, —
 Paid gwrando ar adyn mor ffol,
 Ond cofia fod "rhai a gwŷr iddynt
 Fel hebddynt," medd Duw trwy 'i was Paul.

Gan ereill, ceir clywed eu cwynion
 Ns gallant hwy fynd i dy Dduw,
 Fod awyr y lle yn eu llethu
 Nes peri iddynt ofni cael byw.
 Nid awyr y lle sydd yn drymaidd
 Ond gormod o giniaw a gaed,
 A hynny'n troi'n glefyd y Saboth
 A'r rhoddwr yn cael y sarhad.

Un achos o'r clefyd Sabothol
 Yw meddwi nos Sadwrn ar *gin*,
 Neu rai o'r gwlybyroedd dinystriol
 Sy'n cael eu defnyddio'n ddirin ;
 Un gwydriad yn galw am chwaneig
 A'r oll yn troi'n wenwyn i'r gwaed,
 Nes gosod pob tuedd at rinwedd
 Fel rhiniog a fethrir dan d'raed.

Hwn glefyd a laddodd ei filoedd,
 Sydd heddyw mewn gwaeau yn byw
 Gan waeddi "Mae'r Haf wedi darfod,"
 Heb obaith cael heddwch â Duw :
 "Pa fodd y casheais i addysg ?
 Pa fodd na wrandawswn yn syn,
 Ar weision yr Iesu'n cyhoeddi
 Fod Ffynnon wna'r Ethiop yn wyn.

Nid poen yn y corff ydyw'r clefyd,
 Ond anhwylyd enaid yw hwn ;
 Pe clefyd y corff, fe gai orwedd
 Mewn beddrod na theimlid mo'i bwn :
 Ond enaid mewn clefyd, er syrthio
 Fe erys dan gol'arn deddf Duw,
 Er mwyn yn ingau'r ail angyd
 Byth bythoedd ei boen ef bydd byw.

Clyw ddydd sydd yn fyw, er dda'r glefyd,
 Mae'r triagl yn Gilead a gaed,
 Yn gwella pob pla ac aflechydd
 Ei rinwedd yw haeddiant y gwaed :
 O gado y gwag esgusodion,
 A thyred i gyntedd tŷ Dduw ;
 Mae'n galw, mae'n haeddu gwrandawiad,
 O tyred am nodded, ddydd, clyw !

Dydd Saboth rowd i ni gan Dduw
 I gael gwledd a hedd i'r galon ;
 Trwy dderbyn Crist yr Aberth llawn,
 Gwneir Duw a dyn yn foddlon.

Na foed i un esgusawd ffol
 Eich cadw'n ol o'r moddion ;
 Mae Duw o'i rās yn barod iawn
 I wella pla eich calon.

Ar yr awr weddi yn nhŷ Dduw
 Mae miloedd o angyllion ;
 Pe gallent wylo felly gwnaent
 Wrth weld eich lleoedd gweigion.

Mae'r Iesu ei Hun yn ol ei air
Ymrwymol yn dramwydd
Yn ei rodfeydd ar Saboth ddyd I,
O ddyd, tyrd tithau'n ebrwydd.

Gogoniant Duw, dedwyddwch dyn
Y Saboth sy'n bregethu,
A Christ yn gweld o'i lafur drud
Trwy gadw pawb sy'n credu.

Os credi'n enw Iesu Grist,
Y Saboth glefyd welir;
A'r esgusodion mawr eu rhi
Yn gyfan a wasgerir.

GALLU Y PŪLPŪD.

*Anerchiad a draddodwyd yng Nghyfarfod Blynyddol Athrofa Dduwinyddol
y Bala, Gorffennaf 7fed, 1892.*

GAN Y PARCH. ALEXANDER MACLAREN, D.D.

Yr oedd cyfaill i mi unwaith yn myned i gyfarfod tē i areithio, ac ar ei ffordd yno galwodd ar hen chwaer, ac ynghwrs yr ymddiddan dywedodd wrthi i ble yr oedd yn myned. Gofynnodd iddo ar beth yr oedd yn myned i siarad? Atebodd yntau, "Gallu y Pulpud; beth ydych chi yn feddwl am dano?" Dywedodd hithau, "Hym; gallu y pulpud; mae hynny yn dibynnu ar pwy sydd ynddo." Gyda'r gosodiad dwfn yna yr wyf yn hollol gytuno, ac oddiwtho gallwn y boreu hwn gychwyn fy sylwadau. Ond y mae arnaf eisieu cychwyn oddiwth bwynt arall, gwahanol i hwnyna. Wrth chwilio yn fy meddwl am fater y boreu yma, meddyliais am hen destyn i mi, a ddefnyddiais o'r blaen, er nas gwn yn y byd beth a ddywedais yn ei gylch, ac yr wyf yn meddwl nad allaf wneyd yn well na gofyn i chwi edrych gyda mi ar y braslun o'r hyn sydd hanfodol i effeithiolrwydd gweinidogaethol a osododd Iesu Grist ei Hun o'n blaen yn y gyfres fyw o gwestiynau â pha rai y galwai i feddwl yr Iuddewon y gallu oedd gan Ioan Fedyddiwr arnynt.

"Pa beth yr aethoch allan i'r anialwch i edrych am dano? Ai corsen yn ysgwyd gan wynt?" Nid ydyw dynion yn myned allan yn dorfeydd i rydau yr Iorddonen i weled y llafrwyn yn ymsymud yn y ffrwd, neu ar esgyniad y glaunau. Ni wna corsen sy'n ysgwyd gan wynt byth orchfygu y werin. "Pa beth yr aethoch allan i'w weled? Ai dyn wedi ei wisgo â dillad esmwyth?" Wel, chwi edrychweh am y rheiny yn llys Herod, nid yn ei ddaeargell; ac fe fydd dynion felly yn gwbl ddi-allu i gasglu torfeydd o'u hamgylch. "Eithr pa beth yr aethoch allan i'w weled? Ai proffwyd? Ie, meddaf i chwi, a mwy na phroffwyd." Os cewch argyhoeddiad i galon dyn fod cenadwri Duw gauddo i'w thraethu, fe dynna hynny ddynion o'i amgylch. Ond y mae yna beth arall eto. "Hwn ydyw efe am yr hwn yr ysgrifenydwyd, Wele, yr ydwyf fi yn anfon fy nghennad o flaen dy wyneb," a dyma amod ponnaf effeithiolrwydd a nerth gweinidogaethol,—bod, a gwybod fy mod yn gennad Iesu Grist. Carwn weithio allan y syniadau hyn.

Un elfen gref mewn effeithiolrwydd gweinidogaethol ydyw North Argyhoeddiad a Phenderfyniad Meddwl.

Mae y dynion sydd wedi meddu gallu ar y byd, a thrwy fendith Duw wedi bod o fendith i'r eglwys, wedi bod yn gyd-gasgliad mor amryfath o bobl ag a ellid yn hawdd dychmygu am danynt,—rhai o honynt yn ddoeth, a rhai yn ffol; rhai yn ddysgedig, a rhai yn anwybodus. Maent wedi gwahaniaethu yn eu nodweddion, mewn tymer, mewn credo, ac mewn dulliau o weithredu; ond wedi'r cwbl, y maent wedi bod yn ddynion o argyhoeddiadau angherddol, yn ddynion oeddynt yn dal gafael fel anghu ei hun yn y golygiadau oeddynt i'w cyhoeddi; ac mi a ofynnwn, Beth, yn enw synwyr cyffredin, y mae dyn yn broffwyd erddo, oddieithr ei fod yn credu fod tipyn o wirionedd ag y mae yn werth ei fod yn treulio ei holl fywyd i'w egluro ac i'w wasgu ar feddyliau dynion? Wrth reswm nid wyf yn anghofio nad ieuencyd a dyddiau efrwyd ydyw y dyddiau pan y mae sicrwydd pynciol i'w ddymuno. Y mae sicrwydd pynciol cyn-amserol yn sicr, neu o leiaf fe ddylai, derfynu mewn amheuaeth yn y diwedd. Mae y dyn sydd yn dechreu credu popeth heb ymchwiliad, yn fynych iawn yn dibennu mewn anghredu cymaint, a chyda chyn lleied, feallai, o ymchwiliad. Pan y mae dynion yn cael y pās a'r frech goch, ac anhwylderau babanaidd ereill yn eu hen ddyddiau, y maent bob amser yn llym, ac weithiau yn profi yn farwol. Felly y mae yr hen amheuwyr yn cael yr afiechyd yn llawer iawn mwy na'r un ieuanc yr ydoedd yn briodol i'w oedran. Am hynny nid oes arnaf eisieu eich gwneyd chwi, wyr ieuanc, yn berffaith sicr am bopeth, pan na ddylech fod yn sicr ond am ychydig iawn mwy na helaethrwydd mawr eich anwybodaeth eich hunain. Ond yr hyn sydd arnaf eisieu ei wasgu arnoch yw hyn,—Peidiwch a phregethu amheuon. Os nad ydych yn gweled eich llwybr yn glir, sefwich. Yswch eich mwg eich hun. Fe fyddai yr awyrgylch yn llawer cliriach yn ein holl eglwysi, fel y byddai yn ein holl ddinasoedd mawrion, pe byddai psiriant o'r fath yna yn cael ei osod i fyny ymhob pulpud. Wynebwich yr amheuon nes y byddoch wedi eu meistrolï, ac yna agorwich eich geneuau. "Credais, am hynny y lleferais." Y mae dosbarth o ddynion sydd yn meddwl ei fod yn edrych yn dda i bregethu mewn dull sydd yn awgrymu gafael lac a marw yn y pethau y siaradant yn eu cylch. Yr ollsydd gen i i'w dddweyd am y fath rai yw, fod eu pregethu fel burym, a'r lle goreu i'w gadw ydyw yn y seler, nes iddo eplesu a gwneyd ei waith. Ond, o'r ochr arall, y mae llawer o honom, ysywaeth, yn colli cryfder ein gafael yn y ffydd a bregethwn. Ah, fy mrodyr, y mae y fath beth a phregethu ymaith ein crediniaeth. Nid ydyw bob amser yn wir fod rhoddi datganiad i argyhoeddiadau neu deinladau yn eu dwyschau. Yr ydym yn cynefino yn gymaint ag edrych ar wirioneddau mawrion, difrifol, bendigaid ein hefengyl fel ein hystôr o nwyddan a'n moddion i ddylanwadu ar bobl ereill, fel yr ydym weithiau yn dueddol i anghofio eu defnyddio fel gwaed bywyd ein bodolaeth ysbrydol ni ein hunain. Y mae hynny yn dweyd bob amser ar bregethu dyn, ac y mae y tlyzni gwych yn myned, ac ni wŷr neb beth sydd wedi dyfod o hono. Mae ychydig wymon, cyhyd ag y mae yn cael ei gadw yn y tonnau, yn dadblygu ei holl bydferth ddaï, os gallaf eu galw felly, yn y dwf heurled; ond codwoh ef i fyny ac y mae yn myned y llaid di-liw, neu yn caledu i fymryn o ffon anystwyth. Felly y mae llawer gweinidog yn pregethu ymaith ei afael yn y ffydd, ac feallai byth yn gwybod ei fod, wedi iddo ddechreu yn yr ysbryd, yn myned ymlaen yn y cnawd. Ac nid oes un feddyginiaeth

i hynny ond llawer o ofal, llawer o fyfyrddod, agosrwydd mawr at Iesu Grist, a'r arfer o sylweddoli trwy brofiad, ac felly fywchau i sicrwydd, yr argyhoeddiadau y mae wedi ei osod i'w pregethu.

Y mae ochr arall i'r gwirionedd cyntaf hwn. Mae ein weithiau yn dueddol i ddychmygu mai nerth ydyw yr un peth angenrheidiol, ac mai yr un peth mawr ydyw ewylllys ddiwyro. Wel, y mae cryn lawer yn hynny. Mae arnom ni weinidogion, yn enwedig, eisieu cofio os na allwn ddweyd Nage, pan mae yr holl fyd yn gwaeddi Ie, ac Ie pan y mae pawb ereill yn grwgnach Nage, — na fyddwn yn gwneyd ond ychydig iawn o ddaioni. Y mae ein sefyllfa yn ein temtio i osgoi ochrau i wirionedd Cristionogol sydd yn anarferol ac amhoblogaidd. Mae ein sefyllfa yn maethu ynom yr arfer o geisio cymeradwyaeth y rhai y llefarwn wrthynt, ac yn ein gwneyd yn hynod o dueddol i wneyd ein hunain yn un a'r meddwl sydd yn ffynnu o'n hamgylch; felly y mae eisieu i ni gadw gwefus uchaf anhyblyg, fel y mae wedi cael ei galw; ac ymysg y rhinweddau llai y dylai gweinidog Cristionogol eu harddangos, nid y lleiaf ydyw annibyniaeth hollol a dewrder ac anhyblygrwydd ewylllys ac amcan sydd yn cymeryd eu gorchymynion oddiwrth Iesu Grist yn unig, ac na fydd yn was dyn yn yr ystyr o foddhau dynion, am y dymuna fod yn was iddynt yn yr ystyr o'u cynorthwyo. Yn unig gadewch i ni gofio y rhaid i'r nerth a'r cadernid fod yn nerth a chadernid fel eiddo yr Hwn oedd addfwyn a llariaidd, na waeddai, na ddyrchefai, ac na pharai glywed ei lef yn yr heolydd. Mae mwy o drydan, y maent yn dweyd wrthym, mewn cawod o wlaw, nag yn fflachiad gwylltfa meltlen; ac felly fe all fod mwy o wirioneddolrwydd nerth yn gysylltiedig â'r gwirioneddolrwydd arall o addfwynder, cydymddwyn, ac ildio, nag yn y pethau gwrthwynebol am ba rai yr ydwyf wedi bod yn son.

Awgrym arall ydwyf yn gasglu oddiwrth y geiriau y cyfeiriais atynt ydyw, mai ail amod gallu gweinidogaethol ydyw Symbledd ac Anfydolrwydd amlwg ym mywyd gweinidog.

Gallai ymddangos yn gwbl ddianghenraid siarad am hynny wrth ddoosbarth o ddynion y rhai, pe yn cael dylanwadu arnynt gan fydolrwydd, na fuasant byth yn dewis yr alwedigaeth a ddewisasant, neu yn aros ynddi; ac y mae arnaf eisieu ymwarchod rhag unrhyw dybiaeth fy mod yn cydymdeimlo â'r siarad a glywn yn fynych am hyn yn ei berthynas â'r weinidogaeth. Mae fy ngwaed yn codi pan glywaf ddynion a ysgubir ymaith gan ysbryd y byd eu hunain, yn siarad am fydolrwydd ofnadwy gweinidogion a fyddant wedi cael eu tueddol i dderbyn galwad gydag ychydig well cyflog, yn y rhagolwg o allu rhoddi i'w plant ychydig well addysg, ac ysgafnhau ychydig ar faich eu gwragedd dioddefgar. Os ydyw ein cyfeillion yn ein heglwysi mor awyddus am i ni fod yn anfydol, y ddyledswydd gysylltiedig â hynny ydyw eu bod yn darpar digon i ddyn fyw arno, a'i gadw uwchlaw gofalon pryderus bywyd; ac nid oes ganddynt hawl i gondemnio nes y bont wedi gwneyd hynny. Felly ni chamddeallwch fi fel yn perthyn i'r dosbarth yna o bobl. Ond, er hynny oll, mae arnaf eisieu argraffu arnoch y gwirionedd pwysig hwn, — fod edrychiad bydol, lletraws, i ba gyfeiriad bynnag y gallo fyned, yn angtuol i allu gweinidog, ac y mae drwgdybiaeth o hono bron mor angeuol. Unwaith y caffo dynion i'w pennau eich bod chwi a minnau yn pregethu am arian, neu ein bod yn gildio i'r llif nerthol o fydolrwydd mewn unrhyw gyfeiriad, mae y cwbl droscdd

am y daioni allwn wneyd; ac y mae llawer methiant gyda'r weinidogaeth heddyw nad ydyw am unrhyw a'hos ond fod dynion, mewn dull arafaid, wedi goldef i'r byd ymyrgar a honiadol gael ei ffordd i'w calonau. Nid oes un math o ymfodddhad sydd yn waeth na'r un yr ydym ni yn neillduol yn ddarostyngedig iddo. Nid oes neb yn ein rhwymyo i ddechreu ein gwaith ar awr benodol yn y boreu, a dal ato am oriau penodol o'r dydd. Nid oes neb i'n beio os gwastraffwn ein hamser mewn darllen di-amcan, neu os cymerwn y newyddiadur gyda ni i'r llyfrgell ar ol brewest, fel y gwna rhai; os gwibiwn oddiamgylch yma a thraw, yn lle cadw at ein gwaith; os awn i'r gwasanaeth yna neu y cyfarfod tē acw a allent fynd ymlaen llawn crystal heb lewyrch ein hwyneb,—ac felly esgeuluso y dyledswyddau trymion nad oes dim cynhyrfaid ynddynt, a throi oddiwrth y Beibl a'r geiriadur, a chymeryd y llyfr cyffredin yn lle ffrwyth gonest ein llafur caled ein hunain yng Ngair Duw yr hwn y profleswn ei bregethu. Y mae ymfodddhad o'r fath yma yn ofnadwy o gyffredin ymysg gweinidogion heddyw, ac i'w feio am lawer iawn o aflwyddiant gweinidogion yr efengyl. Y mae gan hynny angen am wyliadwriaeth barhaus i ymgadw rhagddo, a glynu yn agos wrth y Meistr, fel na bo i'r llygaid ydynt i edrych i'r pellder ac i weled y pethau sydd, gael eu serennu a'u dallu gan agoswydd salw pethau sydd yn ymddangos fel yn bod, ac nad ydynt ond yn ymddangos. Y mae holl arwyddluniau ein swydd y gwneir defnydd o honynt yn yr Ysgrhythyr yn golygu llafur caled.

Elfen arall o allu gweinidogaethol ydyw Ymwybodolrwydd o feddu Cenadwri Proffwyd.

Wrth reswm, nid wyf yn dymuno esbonio yr ystyr wyf yn roddi i hynny. Gallai nad oes ysbrydoliaeth oruwchnaturiol; ond os nad yw gweinidog yr efengyl yn ymwybodol o wir ysbrydoliaeth, gwell iddo atal ei dafod i dragwyddoldeb; oblegid y mae Duw yn gweithio ar lawer o ysbrydoedd heddyw mor wirioneddol, ac yn rhoddi iddynt eu cenadwri mor wirioneddol ag y gwnaeth erioed a'i weision ysbrydoledig gynt, yn unig nad ydyw yr ysbrydoliaeth yn cario gydag ef awurdod, ac nad ydyw ei gynhyrchion i apelio atynt fel yn anffaeledig. Ond os ydym i wneyd unrhyw wasanaeth i'r Meistr, rhaid i ni feithrin yr ymwybodolrwydd ei fod Ef yn llefaru ynom. Yr ydym oll yn dueddol i lithro i'r bai o gymeryd ein geiriau, ein meddyliau, a'n prif syniadau, ac felly ymlaen, oddiwrth ein cyd-ddynion, yn lle myned i'r ffynhonnell fawr, ac y mae llawer iawn o honom am ba rai y mae yn wir mewn ystyr wahanol i'r gwreiddiol, eu bod "wedi gadael ffynnon y dyfroedd byw," a myned i byllau traddodiadau dynol a syniadau pobl ereill. Ewch at Dduw drosoch eich hunain, ac eisteddwech wrth ei draed Ef nes y clywoch Ef yn llefaru, ac yna "Dyrchafa dy lef trwy nerth; dyrchafa, nac ofna; dywed Wele cich Duw chwi." Os nad oes gan ddyun unrhyw syniad uwch am bregeth na'i bod wedi ei gwneyd ddydd Sadwrn, os nad ydyw yn ddim ond ei feddwl ef am wirionedd yr efengyl, ni chaiff ond ychydig iawn o ddylanwad ar y bobl a'i gwrandawant. Ond os teimla fod Duw wedi rhoddi iddo y gair, fe fydd nerth yn ei lefaru na rydd dim arall. Fe fydd i'r ymwybodolrwydd hwnnw o genadwri proffwyd, roddi ei ddelw ar ei holl dduol o lefaru. Nid yw proffwydi yn ymresymu; maent yn dywedyd, "Fel hyn y dywed yr Arglwydd." Nid yw proffwydi yn ymesgusodi, ac nid ydyw proffwydi yn meddwl am danynt eu hunain chwaith; a dyma y pethau sydd yn gwneyd pulpud

yn nerthol. Y mae yn beth ofnadwy i'w ddweyd ym mhresenoldeb Profeswr Duwinyddiaeth, ond mi fynwn i fod gennym lai o athrawiaeth duwinyddol yn ein pulpudau, a mwy o osod allan y gwirionedd o'r hwn y mae duwinyddiaeth yn eglurhad cyfundrefnol, a hynny gyda'r holl gynherwydd a'r angerddoldeb a'r difrifwch sydd yn dyfod yn newydd oddiwrth Duw. Y mae llawer iawn o'n gweinidogion fel yn tybio, os ydynt yn cymeryd adran ddaearegol o'r mesurau carboniffer-aidd ac yn ei osod o flaen eu cynulleidfaoedd, y dylai y bobl gael eu cynhesu a'u cysuro yn fawr. Ond, frodyr, rhaid fod i'r ymwybodolrwydd y soniwn am dano ddisgyblaeth gyfatebol. Rhaid i chwi fod yn agos iawn at Dduw os ydych i glywed ei lais; ac os ewch allan i'r byd a gogoniant ar eich wyneb rhaid i chwi fyw ddeugain niwrnod ar y mynydd heb na bwyta nac yfed. Nid ydyw y fath ymwybyddiaeth, fodd bynnag, mewn un modd yn anghyson â'r diwylliad mwyaf gofalus. Nid ydyw ysbrydoliaeth a diwylliad yn wrthwynebol i'w gilydd; ond dylent gael eu cysylltu ynghyd. Yr oedd i'r proffwydi eu hysgolion. Os oes gennym air oddiwrth Dduw i'w lefaru, pa ddiwylliad o'r eiddom all fod yn rhy ofalus mewn trefn i ehangu ein meddyliau i amgyffred ei fawredd, i gyweirio ein lleisiau er adsain ei bereidd-dra ac adlewyrchu ei dynherwch? Os at hynny yr ychwanega Duw ei Ysbryd, yna "Pa un bynnag a wnelont ai gwrando ai peidio, eto cant wybod fod proffwyd yn eu mysg hwyt."

Y peth nesaf y dymunwn eich cyfeirio ato ydyw yr elfen honno o nerth gweinidogaethol heb yr hon y mae y lleill oll yn ofer; dyna ydyw, Bod a gwybod fy mod yn Gennad Crist.

Mae hynny yn beth y gallwn, pa mor annheilwng a phechadurus bynnag, anturio ymaflyd yuddo. Y mae effeithiolrwydd gweinidog yn gwbl mewn cyfartaledd i arbenigrwydd Iesu Grist ynddo. Ystori ei gariad a'i fywyd, ei farwolaeth a'i ogoniant Ef, ydyw yr unig allu a ddwg allan ac a sicrhâ y canlyniadau a amcanwn gyrhaeddyd. Mae llawer gogwyddiad mewn cyfeiriadau ereill heddyw. Yr ydym yn clywed llawer am yr efengyl gymdeithasol, a'r cyffelyb. Wel, pob llwyddiant i'r dynion sydd yn ceisio cymhwyso egwyddorion Cristionogaeth i dafu goleuni ar gwestiynau dyrys mewn cymdeithas a llywodraeth; ond yr wyf fi yn dal mai y peth goreu i'r rhan fwyaf o honom ydyw pregethu yr hyn y cyfyd pob goleuni felly o honno, a gadael i'r goleuni gyfodi mewn amser cyfaddas. Mae yr egwyddor fawr o ddostraniad llafur yn dyfod i mewn. Y mae gan Iesu Grist ynddo ei Hun bob gallu, ac fe fydd i'r efengyl sydd yn gynwysedig yn y geiriau, "Canys felly y carodd Duw y byd fel y rhoddodd ei uniganedig Fab, fel na choller pwy bynnag a gredo ynddo Ef," ymagor i bob gwirionedd am Dduw, am ddyn, ac am eu cyd-berthynas a'u gilydd; i holl athrawiaeth moeseg; i bob athrawiaeth gymdeithasol, ac yna i bob cyfiawnder a gwirionedd gwleidyddol. "Ynddo Ef y mae holl drysorau doethineb a gwybodaeth yn guddiedig," ac fe fydd ein gweinidogaeth yn llwyddiannus yn yr ystyr uchaf a mwyaf gwirioneddol i'r graddau y dyrchafwn groes Crist croeshoeliedig.

Ac y mae hyn yn fy nwyn at fy ngair olaf: fe fydd ein gweinidogaeth yn nerth yn union i'r graddau y Llawn Guddiwn ein Hunain ynddi.

Nid wyf yn gwybod fod dim mwy teimladol, mwy prydferth, a mwy arwraidd na'r amlinelliad a dynnodd Ioan Fedyddiwr yn ei barodrwydd arddunol, a'i hunanymwadiad ewyllysgar, a'i lawenydd o ymgolli yng

ngoleuni y Messiah a garai. Frolyr, yr ydych chwi a minnau i wneyd yr uu modd, os ydym i fod o unrhyw wasanaeth. Y mae tant telyn a darewyr i fwsig yn dirgrynnu i anweledigrwydd. Pan mae y tant yn anweledig yn unig y mae y nôd peraidd i'w glywed. Byddai yr hen arlunwyr mynachaidd yn arfer rhoddi darlun bychan o honyt eu hunain i lawr ar eu gliniau a'u dwylaw ymhleth, draw o'r tu cefn, yn edrych ar y croesholiad oedd eu brws wedi ei gynhyrchu, ac yn addoli. Dyna y lle i ni,—acw draw y tu cefn, i lawr ar ein gliniau, wedi ein bychanu i ddiodedd gan Grist a'i groes ym mlaen y darlun. Frodyr, bydded i ni wneyd ein gwaith yn yr ysbryd yna; ac yna, pa un bynnag a gawn yr hyn a alwant yn llwyddiant ai peidio, "A chwi yn gwybod nad ydyw eich llafur chwi yn ofer ya yr Arglwydd." Gallant hwy wneyd heb ganmoliaeth arall a gant ganmoliaeth ganddo Ef yn y dydd hwnnw, ac nid oes arnynt eisieu cynhyrriad arall, ond gallant ddweyd wrthynt eu hunain, "Am hynny hefyd yr ydym yn ymorchestu, pa un bynnag ai gartref y byddwn ai oddicartref, ein bod yn gymeradwy ganddo Ef."

YR "EUTHYPHRON," NEU BETH YW DUWIOLEDB?

UN O YMDDIDDANION PLATO, WEDI EI DROI I'R GYM-
RAEG GAN Y PARCH. WILLIAM GLYNNE, B.A.

CYMERIADAU YR YMDDIDDAN:—EUTHYPHRON A SOCRATES.

I. EUTHYPHRON. Wel, Socrates, beth sydd wedi digwydd fel ag i beri i ti roi fyny fynd i'r Lycæum, a bod yn ymdroi yn awr o gwmpas Porth y Brenin yma? Nid wyt ti wedi dy alw o flaen y llys fel myfi, tybed? Nid oes neb yn hawlio iawn oddiarnat ti, a oes?

Socrates. Nac oes, Euthyphron. Rwy'n meddwl mai nid hawlio iawn y geilw yr Aetheniaid yma y cyhuddiad, ond cyhuddiad o drosedd.

Eu. Beth wyt yn ddweyd? Mae rhywun felly, mi dybiwn, yn dwyn cyhuddiad yn dy erbyn? Oblegid nis gallaf feddwl am danat ti yn cyhuddo neb arall.

So. Wel, nid myfi sydd yn cyhuddo arall.

Eu. Arall yn dy gyhuddo di ynte?

So. Ie'n wir.

Eu. Pwy yw?

So. Ychydig iawn wn i am y gwr, Euthyphron. Mi fuaswn yn tybio mai rhyw un ieuanc a dibrofiad yw. Ei enw, rwy'n meddwl, yw Melitos. Mae'n perthyn i ranbarth Pit-theus, os gwyddost rywbeth am y fan honno. Gwr a gwallt tipyn yn hir, yw, barf deneu a thrwyn crwbi.

Eu. Nid wyf fi'n ei nabod, Socrates; ond beth yw y cyhuddiad a ddwg yn d'erbyn?

So. Beth yw'r cyhuddiad? Wel, nid un annheilwng iawn, mi feddyliwn. Nid yw y ffaith fod gwr mor ieuanc yn meddu gwybodaeth am fater mor bwysig yn beth i'w ddiystyru. Mae e'n gwybod, medd ef, pa fodd y dinystrir yr ieuencyd, a phwy sydd yn eu dinystrio. Y mae, yn wir, yn debyg i wr doeth. Ar ol sylwi ar fy anwybodaeth i,

ymddengys ger bron y ddinas, mam pob Groegwr, i fy nghyhuddo o lygru yr ieuentyd, ac i'm tyb i, efe yw yr unig un sydd yn dechreu llywodraethu yn yr iawn ffordd. Iawn yw gofalu yn gyntaf peth am y bobl ieuainc,—ar iddynt hwy gael eu troi allan yn y ffordd oreu; megys y mae yn naturiol i ffarmwr da ofalu yn gyntaf am ei blanhigion tyner, ac ar ol hynny am y gweddi. Ac felly y mae Melitos; mae am geisio cael gwared o honof fi yn gyntaf, am, medd ef, mai myfi sydd yr llygru yr ieuentyd ym mlodau eu dyddiau. Ac wedi hynny mae'n amlwg y bydd iddo, trwy ofalu am yr hen, fod o fendith amhrisiadwy i'r ddinas, fel y buasid yn disgwyl oddiwrth un yn dechreu llywodraethu fel efe.

II. Eu. Wel, mi fuase'n dda iawn gen i pe felly y buasai; ond rwy'n ofni y gwaethaf. Yn wir i ti, rwy'n meddwl mai dechreu drygu y ddinas y mae wrth geisio gwneyd unrhyw niwed i ti,—a hynny, gan ddechreu ar yr aelwyd. Dwéd i mi, beth wyt ti'n wneyd, medd ef, i lygru'r ieuentyd?

So. Yn wir, yr hen frawd, fe fydd yn syn gennynt glywed. Rwy'n creu duwiau, medd ef; a chyhudda fi o greu duwiau newydd a gwadu yr hen.

Eu. Rwy'n gweled. Felly, am dy fod yn dweyd fod y *daimonion** yn rhoddi cyfarwyddid i ti yn awr ac yn y man. Dwg y cyhuddiad hwn yn dy erbyn fel un sydd yn dwyn i mewn gyfnewidiadau crefyddol. Ac er mwyn dy gablu ymddengys ger bron y llys, gan wybod fod y cyfryw gyhuddiadau yn destynau cablu sydd wrth fodd y lliaws. Yr un modd, o ran hynny, yr ymddygant tuag ataf finnau pan yn dweyd gair am grefydd. Pan y byddaf yn proffwydo iddynt y dyfodol, chwerrhant am fy mhen fel un yn ynydu. Ac er na ddywedais anwiredd o gwbl wrth broffwydo, eto y mae ynddynt ryw genfigen tuag at bawb fel nyi. Eithr pa raid i ni betruso ynghylch hyn; yn awr at y pwnc.

III. So. Gwir, yr hen gyfaill, nid yw eu gwawd o bwys yn y byd. I'm tyb i, nid yw yr Atheniaid yn hidio fawr, hyd yn oed os meddyliant fod rhywun yn alluog, cyhyd ag y peidio gyfrannu ei wybodaeth i ereill. Eithr pwy bynnag a dybant yn ceisio gwneyd ereill yn debyg iddo'i hun, gwae fe. Cyfodant eu gwrychyn ar unwaith, un ai, fel y mynni di, o genfigen, neu am ryw reswm arall.

Eu. Nid oes dim brys arnaf i brofi eu hamynedd yn y cyfeiriad yna.

So. Feallai dy fod ti yn tybio mai gwell yw i ti ymneillduo o'r cyhoedd a gwrthod cyfrannu dy wybodaeth i arall; ond am danaf fi, rwy'n ofni fod fy nghariad at ddynolryw yn gyfryw ag y rhaid i mi ymddiddan a phawb. Gwelant fi bob dydd yn dysgu, nid yn unig heb erchi tâl, ond o barodrwydd calon, pwy bynnag a ddewisio fy ngwrando. Os, fel y dywedi di, y dewisant chwerrhain ain fy mhen i, fel y gwnant gyda thi, ni gawn dipyn o hwyl yn y llys wrth chwerrhain a chwareu. Eithr os o ddifrif y byddant, nid oes neb ond chwi, y proffwydi, all ddweyd pa beth fydd y diwedd.

Eu. Feallai na fydd dim o bwys. Fe gei di ymladd dy achos yn dy ffordd dy hun, ac felly finnau.

* *To daimonion*, Saes. *the daemon*, neu, *demon*; Cymr. yr ysbryd. Dywedai Socrates fod yr ysbryd oddifera iddo fel llais yn ei orchymyn i beidio gwneyd yr hyn oedd ddrwg.

IV. So. Beth yw'r achos sydd gen ti, Euthyphron; erlyn ynte amddiffyn?

Eu. Erlyn.

So. Pwy?

Eu. Un ag y tybia rhai fy mod yn ynfydu wrth ei erlyn.

So. Pam? Am fod ganddo adenydd?

Eu. Nage'n wir; mae ymhell iawn oddiwrth hynny; mae'n digwydd bod mai hen wr yw.

So. Pwy yw?

Eu. Fy nhad.

So. Dy dad, wr da?

Eu. Ie'n wir.

So. Am ba gyhuddiad?

Eu. Llofruddiaeth, Socrates.

So. Wel, yn enw'r nefoedd, Euthyphron, bychan wyr y lliaws am lwybr eu dyledswydd. Yn wir, nid bob dydd y cyfarfyddwn a gwr fel hyn. Rhaid ei fod ymhell uwchlaw y cyfredin mewn doethineb.

Eu. Rhaid yn wir, y nefoedd a wyr.

So. Pwy lofruddiodd? Rhywun o'r teulu? Ie, o ran hynny, beth wyf yn gofyn; mae hynny yn amlwg; oblegid fuasit ti byth yn ei erlyn am ladd dieithrddyn.

Eu. Mae'n syn gen i, Socrates, ei fod o un gwahaniaeth gen ti pa un ai perthynas ynte dieithrddyn lofruddiwyd. Dy ddyledswydd gyntaf yw edrych a oedd yn lladd yn gyfiawn ai nid oedd; ac os yn gyfiawn, gad ef yn llonydd; onide, erlyn ef, hyd yn oed pe byddai berthynas i ti, yn bwyta ar yr un bwrdd. Os wyt yn gwybod ei fod yn euog ac heb ei ddwyn o flaen ei well i glirio dy hun, yr wyt yn gyfrannog ag ef.

Un o'r gymydogeath acw oedd y trancedig. Pan oeddym yn llafurio ar y ffarm yn Naxos, yr oedd yntau yno yn gweithio wrth y dydd. Pan wedi meddwi, cwerylodd ag un o fy mberthynasau a lladdodd ef. Am hynny, daeth fy nhad a rhwymodd yntau draed a dwylaw, tafodd ef i'r ffos, ac anfonodd un o'r gweision i ymofyn â'r cyfreithwr pa beth i'w wneyd. Yn y cyfamser, anghofiodd ef; am ei fod yn meddwl ei fod yn llofrudd, ni chymerodd unrhyw ofal rhag iddo drengu; a threngu a wnaeth. Bu farw o newyn, oerni, a'r cadwynau, cyn i'r gwas ddychwelyd oddiwrth y cyfreithiwr. Y mae fy nhad a'r teulu yn ddig iawn wrthyf am i mi ei erlyn am ladd llofrudd. Mynnant hwy na ddarfu iddo ei ladd; ac hyd yn oed pe buasai wedi gwneyd, lladd llofrudd fuasai hynny; ac ni ddylaswn gymeryd sylw o'r peth; oblegid, meddant hwy, y mae yn annuwiol o beth i fab erlyn ei dad ei hun am lofruddiaeth.

Bychan wyddant, Socrates, am grefydd, beth sydd yn dduwiol a pheth yn annuwiol.

So. Wel, yn enw'r nefoedd, Euthyphron, a wyt ti yn meddwl dy fod yn meddu gwybodaeth mor fanol am grefydd fel, a thybio fod pob peth fel y dywedi, nad oes arnat unrhyw ofn erlyn dy dad, rhag i tithau fod yn gyfrannog o'r annuwioldeb?

Eu. Fuaswn ni yn werth dim heb hynny. Ni fuasai yr un gwahaniaeth cydrhwng Euthyphron a'r lliaws, pe na buaswn yn meddu gwybodaeth fanol am grefydd.

V. So. Felly ynte, gyfaill, y peth goreu i mi fydd dod i'r ysgol atat ti cyn ymddangos i ateb cyhuddiad Melitos; ac yna rhof her iddo fel hyn:—'Rwyf am gryn amser bellach wedi talu sylw manwl i

grefydd; ond gan fod Melitos yma yn dweyd fy mod yn pechu trwy siarad ar antur a dwyn i mewn gyfnewidiadau yn ein crefydd, 'rwyf wedi dod yn ddisgybl i ti. Ac af ymlaen i anerch Melitos:—Os wyt ti, Melitos, yn ystyried fod Euthyphron yn ddoeth ac uniongred, ystyria finnau felly, ac na ddwg fi i farn. Onide, adfesura ei fesur o gyfiawnder i'r dysgawdwr hwn, o fy mlaen i; am ei fod ef yn dinystrio nid yr ieuaine, ond yr hen bobl,—megs myfi a'i dad ef ei hun; myfi, trwy fy nysgu, a'i dad trwy ei geryddu a'i gosbi.

Os na chymer Melitos ei berswadio im gadael i yn llonydd a'th erlyn di, y peth goreu i mi fyddai hysbysu i'r llys fy mod wedi rhoddi yr her hon iddo.

Eu. Ie er mwyn pob peth, Socrates. Pe cynhygiai fy nghyhuddo i, danghoswn iddo ei fan gwan yn fuan, a throiswn y llys i drin ei achos ef yn gynt o lawer na fy un fy hun.

So. Wel, hen ffrynd, ar ol clywed hyn, 'rwyf yn dra awyddus i ddod i'r ysgol atat. 'Rwy'n gweled na bu i Melitos yma, na neb arall, gymeryd sylw o honot ti; eithr am danaf fi, pan y gwelodd ei lygaid craff fi, dygodd y cyhuddiad o annuwioldeb yn fy erbyn. Yn awr, er mwyn pob peth, eglura i mi yr hyn y mynni dy fod yn meddu gwybodaeth mor fanol o hono: beth yw duwioldeb ac annuwioldeb, pa le bynnag y maent,—ynglyn â llofruddiaeth, ynte rywbeth arall? Onid yw duwioldeb pob gweithred yr un peth, ac annuwioldeb yn beth hollol groes i hynny? Onid yw annuwioldeb pob gweithred yr un peth, h. y., fod yna ryw un egwyddor o annuwioldeb; a phob gweithred sydd yn unol a honno, y mae yn annuwiol?

Eu. Gwir iawn, Socrates.

VI. So. Dwéd wrthyf ynte, beth meddi di yw duwioldeb, a pheth yw annuwioldeb?

Eu. Gwnaf ar unwaith. Duwioldeb yw y peth 'rwyf fi yn awr yn ei wneyd,—erlyn un am anghyfiawnder, pa un bynnag ai llofruddiaeth, cysegr-yseiliad, neu ryw bechod arall cyffelyb,—hyd yn oed pe byddai y troseddwr yn dad neu fam, neu ryw berthynas arall; ac annuwioldeb fuasai peidio gwneyd hynny. Gwel, Socrates, y fath brawf sydd gennyf mai dyma y ddeddf,—fel y dywedais eisoes wrth ereill,—na ddylid gad-ael yn rhydd neb annuwiol, pa berthynas bynnag fyddo.

Mae fy nheulu i yn barod iawn i gydnabod mai Zeus yw y goreu a'r cyfiawnaf o'r holl dduwiau; eto credant iddo ef rwymo ei dad am iddo ddistrywio ei blant ar gam; ie, a chredant i'w dad (Kronos) ladd ei daid yntau (Ouranos), am reswm cyffelyb. Eithr am fy mod i yn erlyn fy nhad o herwydd ei anghyfiawnder, maent yn ddiogllawn wrthyf. Dengys hyn eu hanghysondeb; barnant y duwiau wrth reolau gwahanol i ddynion.

So. Yn wir, Euthyphron, mae'n debyg mai am hyn yr erlynir finnau, am nas gallaf yn fy myw gredu y chwedlau a daenir am y duwiau. Dyma y rheswm, debyg gen i, pam y dywedir fy mod i yn pechu. Ond os wyt ti, sydd yn gwybod mor dda am y cyfryw faterion, yn coleddu y syniad yna, rhaid i minnau, mi feddylw'n, gytuno â thi. Beth a ddywedaf yn amgenach, nag nas gwn ddim am danynt. Rwy'n apelio atat fel cyfaill Euthyphron; dywed wrthyf a wyt ti yn credu y chwedlau yna mewn gwirionedd?

Eu. Credu yn wir! Ydwyf, a chredu rhai llawer rhyfeddach na'r rhai yna, na wyr y lliaws ddim am danynt.

So. A wyt ti'n meddwl mewn gwirionedd fod y duwiau yn cweryla a'u gilydd, fod rhyngddynt elyniaeth a brwydrau, a llawer o bethau ereill cyffelyb, y rhai a ddisgrifir gan y beirdd, ac a baentir gan yr arlunwyr goreu? Yn wir y mae mantell Athena, yr hon a ddygir i fyny i'r Acropolis ar ddydd gwyl y Panathenæa, yn llawn o'r cyfryw ddarluniau. A wyt ti'n dweyd fod y cyfryw chwedlau yn wir?

Eu. Ydwyf; ac nid yn unig y rhai hyn ond, fel y dywedais o'r blaen, lawer ereill hefyd, y rhai, os dewisi a adroddaf i ti. Ac rwy'n sicr y synni eu clywed.

So. Ni fuaswn yn rhyfeddu dim. Eithr gwrandawaf arnat yn eu hadrodd ryw dro eto, pan fydd gennyf hamdden; ar hyn o bryd, fel y dywedais o'r blaen, eglurhad sydd arnaf eisieu. Nid oedd yr eglurhad a roddais yn foddhaol, pan ofynais i ti beth oedd duwioledeb; eithr dywedafst wrthyf ei fod yr un peth yn hollol ag yr wyt ti yn ei wneyd yn awr,—h.y., erlyn dy dad am lofruddiaeth.

Eu. Wel; mi ddwedais y gwir, Socrates.

So. Feallai; feallai. Ond, Euthyphron, ti a addefi er hynny fod llawer o weithredoedd ereill hefyd yn dduwiol.

Eu. Gwnaf ar unwaith.

So. Ti a gofi ynte, nad erchais i ti enwi un neu ddwy o'r lliaws gweithredoedd duwiol. Erfyniais arnat nodi yr egwyddor wrth yr hon y bernir pob gweithred dduwiol yn dduwiol. Ti a ddwedaist wrthyf fod un egwyddor yn bod wrth yr hon y bernir rhai gweithredoedd yn dduwiol, ac ereill yn annuwiol; onid wyt yn cofio?

Eu. Ydwyf; yr wyf yn cofio.

So. Dangos i mi yr egwyddor honno ynte, modd y gallaf edrych arni a'i defnyddio fel safon i farnu gweithredoedd pawb,—pa un bynnag ai dy weithredoedd di ynte eiddo arall,—a chyhoeddi un weithred yn dduwiol a'r llall yn annuwiol.

Eu. Os dyna dy ddymuniad, 'rwy'n barod iawn i ateb.

So. Ie'n wir, dyna fy nymuniad.

Eu. Beth bynnag sydd wrth fodd y duwiau, mae'n dduwiol; a phob peth croes i hynny yn annuwiol.

So. Campus, Euthyphron; 'rwyf yn ateb yn awr yn y ffurf a erchais. Pa un a yw yr ateb yn gywir ai nad yw, nis gwn eto; ond mae yn eglur y gelli di ddangos ei fod yn gywir.

Eu. Mae mor eglur a'r haul ganol dydd.

VIII. So. Tyrd ynte; gad i ni ddeall ein gilydd. Y mae y weithred a'r gwr sydd wrth fodd y duwiau yn dduwiol, a'r weithred a'r gwr sydd gas gan y duwiau yn annuwiol. Nid yr un peth yw duwioledeb ac annuwioldeb, ond dau beth hollol groes i'w gilydd. Ai dyna dy feddwl di?

Eu. Ie; dyna'm meddwl. Ac rwy'n tybied, Socrates, ei fod wedi ei fynegi yn dra eglur hefyd.

So. Ydyw, y mae felly. A thi ddwedaist ymhellach hefyd, Euthyphron, fod y duwiau yn cweryla a'u gilydd, a bod gwahaniaeth barn a gelyniaeth rhyngddynt a'u gilydd.

Eu. Do; mi ddwedais.

So. Beth sydd yn achosi y gwahaniaeth barn, yr elyniaeth a'r digofaint rhyngddynt? Er engraffit; tybia ein bod ni'n dau yn methu cydweled ynghylch dau rif,—pa un yw y mwyaf o'r ddau; a fuasai yr anghydwediad yn peri i ni fod yn elynion, ac yn ddigofus wrth ein

gilydd? Ynte, a fuasem yn gwneyd y sym ac yn cytuno ar unwaith?

Eu. Gwneyd y sym, siwr iawn.

So. Pe buasem yn anghydweled ynghylch maint dau beth, buasem ar unwaith yn symud yr anghydwelediad trwy fesur y naill a'r llall?

Eu. Gwir iawn.

So. A'r un modd gyda phwysau, torasem y ddadl trwy bwysu ar y clorian?

Eu. Pwy ni wnai?

So. Ynghylch pa beth y gallem fethu cydweled fel ag i beri i ni fod yn elynion digofus i'n gilydd? Feallai nad wyt yn barod i ateb. Gwrando arnaf fi ynte. Fuaswn i'n meddwl mai ynghylch cyfiawnder ac anghyfiawnder, harddwch a hacrwech, da a drwg. Ai nid dyma y pethau, pan y methwn gydweled yn eu cylch, a bâr i ni fod yn elynion i'n gilydd, pwy bynnag fyddwn, tydi, myfi, neu rhyw un arall o blant dynion?

Eu. Ie'n wir Socrates, dyna'r pethau.

So. Beth ynte, Euthyphron? Ai nid dyna'r pethau y mae gwahaniaeth barn yn eu cylch ymhlith y duwiau,—h.y., a thybio bod gwahaniaeth barn?

Eu. Mae yn rhaid mai ie.

So. Wel am y duwiau ynte, Euthyphron, wr da; yn ol dy osodiad di mae gwahaniaeth barn rhyngddynt am gyfiawnder,—rhai yn barnu fod y gweithredoedd yma yn gyfiawn, ac ereill weithredoedd ereill. A'r un modd hefyd am harddwch a hacrwech, da a drwg; oblegid ni buasent byth yn cweryla oni buasai eu bod yn gwahaniaethu ynghylch y pethau hyn. Ai nid felly y mae?

Eu. Ie; gwir bob gair.

So. Am hynny, beth bynnag a dybir gan bob un o'r duwiau yn gyfiawn a da, hynny a gâr, a phob peth croes i hynny a gashâ?

Eu. Ie.

So. Felly ynte, yn ol dy osodiad di, y mae rhai duwiau yn ystyried un peth yn gyfiawn, ac ereill yn ei ystyried yn anghyfiawn. Dadleuant ynghylch hyn, cwerylant ac ymladdant a'u gilydd; onid felly y maent?

Eu. Felly y maent.

So. Os felly, mae'n ymddangos fod yr un peth yn cael ei garu a'i gashau gan y duwiau; ac fod yr un peth yn wrthrych cariad a chasineb y duwiau?

Eu. Felly mae'n ymddangos.

So. Yn ol dy ymresymiad di ynte, y mae yr un gweithredoedd yn dduwiol ac yn annuwiol.

Eu. Wel, mae'n debyg iawn.

IX. So. Os felly, nid wyt eto wedi ateb fy nghwestiwn. Nid gofyn yr oeddwn pa beth sydd yn dduwiol ac yn annuwiol ar unwaith. Mae'n ymddangos fod yr hyn sydd hoff gan y duwiau ar yr un pryd yn wrthrych eu casineb. O ganlyniad, nid rhyfedd i ti, Euthyphron, wrth erlyn dy dad, weithredu wrth fodd Zeus, ond ti fyddi elyn gan Cronos ac Ouranos; byddi yn ffrynd gan Hephaistos, ond yn atgas gan Hera. A'r un modd gyda'r duwiau ereill sydd yn anghytuno a'u gilydd ynghylch y mater yma.

Eu. Ond, Socrates, nid wyf yn meddwl fod yr un o'r duwiau yn anghydweled â hyn: y dylai pwy bynnag a laddo arall roddi iawn am hynny.

So. Beth? A glywaist ti ryw un erioed yn ameu a ddylasai llofrudd neu unrhyw ddrwgweithredwr arall roddi iawn am ei drosedd?

Eu. Yn wir, dyma wneir o hyd ymhob man, hyd yn oed yn y llys yma. Ar ol cyflawni pob math o drosedd ceisiant osgoi rhoddi iawn trwy ddadleu.

So. A welaist ti rywun ynte, ar ol cyfaddef ei drosedd, yn gwadu na ddylai roddi iawn?

Eu. O naddo. Chlywais i neb yn gwneyd hynny.

So. Mae rhyw bethau na cheisiant ddadleu yn eu cylch. Er engrafft, ni feiddiant ddadleu nac ameu na ddylai drwgweithredwr roddi iawn; er hynny, gwadant y trosedd. Ai nid felly y gwnant?

Eu. Ie; gwir a ddywedi.

So. Nid oes neb, gan hynny, a wâd na ddylai drwgweithredwr roddi iawn. Ynghylch hyn, feallai, fe fydd amheuaeth,—pwy yw y drwgweithredwr? Beth yw ei drosedd? a pha bryd y cyflawnodd ef?

Eu. Gwir a ddwedi.

So. Felly ynte, y mae yr un peth yn wir am y duwiau. Os ydynt yn cweryla ynghylch cyfiawnder ac anghyfiawnder, yn ol dy osodiad di, y mae rhai o honynt yn dweyd fod rhywrai ereill wedi troseddu, tra y mae ereill o honynt yn gwadu hyn? Oblegid nid oes na duw na dyn a faidd wadu na ddylid dwyn y troseddwr i farn.

Eu. Gwir iawn, Socrates, o'r hyn lleiaf, mewn geiriau cyffredinol.

So. Ie, ond i'm tyb i, y mae y rhai sydd yn ameu yn ameu pob gweithred ar ei phen ei hun, pa un bynnag ai dynion ai duwiau fyddont,—h.y., os yw y duwiau yn dadleu. Os anghydweled ynghylch rhyw weithred neillduol wnant, yna dywed rhai ei bod yn weithred gyfiawn, a gwâd ereill. Felly y mae, onide?

Eu. O ie, Socrates.

X. So. Tyrd nawr, rhen gyfaill; gwna fi yn ddoethach; dangos i mi pa brawf sydd gennyf fod y duwiau oll o'r un feddwl, mai ar gam y rhoddwyd y dyn hwn i farwolaeth. Gwas ydoedd, yn euog o lofruddiaeth; wedi ei gadwyno gan feistr y trancedig; a bu farw o herwydd ei gadwynau cyn i'r hwn a'i rhwymodd dderbyn cyfarwyddyd y cyfreithiwr ynghylch pa fodd i weithredu. Dangos, meddaf, mai teg i ti, fel mab, erlyn dy dad a'i gyhuddo o lofruddiaeth dan y fath amgylchiadau. Tyrd yn awr; ceisia roddi prawf eglur i mi fod yr holl dduwiau yn ddi-eithriad o un feddwl yn ystyried mai cyfiawn y weithred hon; os egluri hyn i mi, ni thawaf byth a'th gannol am dy ddoethineb.

Eu. Yn wir, feallai mai nid gwaith hawdd iawn ydyw, Socrates. Er hynny, gallwn ddangos hyn i ti yn berffaith eglur.

So. Rwy'n deall. Meddwl yr wyt fy mod yn ddylach na hyd yn oed y barnwyr yma. Oblegid amlwg yw y bydd i ti brofi iddynt hwy mai anghyfiawn yw y weithred hon o eiddo dy dad, ac fod yr holl dduwiau yn cashau y cyfryw weithredoedd.

Eu. Rwy'n sicr y gwnaf Socrates, a hynny mor eglur a'r haul ganol dydd,—h. y., o'r hyn lleiaf, os gwrandawant ar fy erlyniad.

XI. So. Wel—y maent yn sicr o wrando, os byddi yn siarad synwyr. Daeth rhywbeth fel hyn i'm meddwl wrth dy glywed yn siarad: tybier y gallai Euthyphron brofi i mi fod yr holl dduwiau yn ystyried y cyfryw farwolaeth yn un anghyfiawn, beth a ddysgais ymhellach oddiwrth Euthyphron ynghylch duwioledeb ac annuwioldeb? A thybied fod y weithred hon yn atgas gan y duwiau, fel mae'n debyg ei bod; er hynny, nid

ymddengys ein bod wedi llwyddo i ddefinio duwioledeb ac annuwioldeb; oblegid fe ymddengys fod y duwiau yn caru a chashau yr un peth. O ganlyniad, Euthyphron, mi rof i fyny i ti fod y duwiau yn ystyried y weithred hon yn anghyfiawn, a'u bod oll yn ei chashau. Felly ynte, ni a gymerwn y definiad yma fel gwelliant: pa beth bynnag a gasheir gan yr holl dduwiau, mae yn annuwiol; a pha beth bynnag a garant, mae'n dduwiol; pa beth bynnag a gerir gan rai ond a gasheir gan ereill, nid yw y naill na'r llall. A wyt ti yn barod i dderbyn y definiad yna ar hyn o bryd?

Eu. Nid wy'n gweld dim yn rhwystr, Socrates.

So. O'm hochr i nid oes yr un rhwystr; ond edrych di ar d'ochr dy hun, Euthyphron. A yw y gosodiad newydd yma yn rhyddhau y ffordd i ti egluro i mi yr hyn a addewaist?

Eu. Wel,—dyma fy marn i: beth bynnag a gerir gan yr holl dduwiau, duwiol yw; ac o'r ochr arall, beth bynnag a gasheir, annuwiol yw.

So. O'r goreu; gad i ni ei brofi. Neu ynte a fyddai'n well i ni ei adael fel y mae, a'i dderbyn ar ein hawdurdod ein hunain, ac awdurdod pawb sydd yn cydweled â ni? A raid i ni ei brofi?

Eu. Na; profa ef. Rwy'n credu y deil i'w brofi.

XII. So. Wel, wr da, ni gawn weld hynny ar fyrder. Dyma'r cwestiwn ynte: a yw y duwiau yn caru gweithred dduwiol, am ei bod yn dduwiol; ynte a yw gweithred yn dduwiol am fod y duwiau yn ei charu?

Eu. Rwy'n methu dy ddeall, Socrates.

So. Gad i mi geisio gwneyd fy meddwl yn fwy eglur. Byddwn yn arfer gwneyd gwahaniaeth cydrhwng *symud* a *chael ei symud*, *arwain* a *chael ei arwain*, a rhwng *gweled* a *chael ei weled*. Rwy't yn gwybod am y gwahaniaeth hwn a pheth yw ei natur.

Eu. Rwy'n meddwl fy mod.

So. Rwy't yn deall felly beth yw *cael ei garu*, a pha fodd y mae hyn yn gwahaniaethu oddiwrth *garu*?

Eu. Nid oes neb heb ddeall hynny.

So. Da iawn; dywed wrthyf ynte am yr hyn sydd yn *cael ei symud*: mae yr hyn a symudir yn yr ystad o *cael ei symud*; ai am ei fod yn *cael ei symud* y mae felly, ynte am ryw reswm arall?

Eu. Nid am reswm arall; ond am ei fod yn *cael ei symud*.

So. Yr un modd ynte am yr hyn sydd yn yr ystad o *cael ei arwain*; mae felly am ei fod yn *cael ei arwain*. Ac am yr hyn sydd yn *cael ei weled*. Y mae yn yr ystad honno, am ei fod yn *cael ei weled*.

Eu. Mae hynny yn eglur.

So. Felly nid am fod y peth yn yr ystad o *cael ei weled*, am hynny y gwelir ef; ond yn hollol i'r gwrthwyneb, am fod y peth yn *cael ei weled*, am hynny y mae yn yr ystad o *cael ei weled*. Nid am fod y peth yn yr ystad o *cael ei arwain*, am hynny yr arweinir ef; ond am yr arweinir ef, am hynny y mae yn yr ystad o *cael ei arwain*. A'r un modd gyda'r hyn sydd yn *cael ei symud*. Mae yn dra amlwg erbyn hyn ynte beth wy'n feddwl, onid yw? Dyma fy meddwl: os oes rhyw beth yn *cael ei gyfnewid* neu ei brofi; nid am ei fod yn yr ystad o *cael ei gyfnewid*, am hynny y cyfnewidir ef, ond am ei fod yn *cael ei gyfnewid* am hynny y mae yn yr ystad o *gyfnewiad*. A'r un modd drachefn, os oes rhyw beth yn *cael ei brofi*; nid am ei fod yn yr ystad honno, am hynny y

profir ef,—ond am ei fod yn cael ei brofi, am hynny y mae yn yr ystad o brawf. Onid wyt ti yn cytuno â hyn?

Eu. Ydwyf.

So. Gan hynny ynte, beth am yr ystad o *gael ei garu* neu ei *gyfnewid*,—beth ydyw ond bod yn yr ystad o fod dan ddylanwad un arall?

Eu. Gwir iawn.

So. Felly, y mae yr un peth yn wir am hyn ag am y pethau ereill. Nid am fod un yn yr ystad o *gael ei garu*, am hynny y cerir ef; ond am y cerir ef, am hynny y mae yn yr ystad o *gael ei garu*?

Eu. Gwir iawn. Rhaid mai felly y mae.

So. Beth ynte am dduwioledeb, Euthyphron? Yn ol dy osodiad di, ai nid yw yr un peth â'r hyn a gerir gan yr holl dduwiau?

Eu. Ydyw

So. Pam y maent yn caru duwioledeb? ai am mai duwioledeb yw, ynte am ryw reswm arall?

Eu. Nage; ond am mai duwioledeb yw.

So. Felly; am mai duwioledeb yw, fe'i cerir; ac nid am y cerir, am hynny duwioledeb yw.

Eu. Mi feddylw'n hynny.

So. Ond y mae duwioledeb yn yr ystad o *gael ei charu*, am fod y duwiau yn ei charu, ac y mae yr hyn sydd wrth fodd y duwiau, wrth fodd y duwiau.

Eu. Pwy wad hynny?

So. Felly ynte, nid yr un peth yw duwioledeb â'r hyn sydd wrth fodd y duwiau; ond dau beth gwahanol.

Eu. Sut felly, Socrates?

So. Wel, fe gytunasom â'r gosodiad yma: fe gerir duwioledeb, am mai duwioledeb yw; ac nid duwioledeb yw am y cerir hi? Onide?

Eu. Ie.

XIII. So. Os felly, y mae yr hyn sydd wrth fodd y duwiau, wrth eu bodd am yr unig reswm fod y duwiau yn ei garu. Nid, y maent yn ei garu am ei fod wrth eu bodd.

Eu. Gwir a ddwedi.

So. Wel, gyfaill, os yr un peth yw duwioledeb â'r hyn sydd wrth fodd y duwiau,—h.y., os cerid duwioledeb am mai duwioledeb yw, fe gerid hefyd yr hyn sydd wrth fodd y duwiau, am ei fod wrth eu bodd. Eithr os buasai yr hyn sydd wrth fodd y duwiau, wrth eu bodd am eu bod yn ei garu, yna fe fuasai duwioledeb yn dduwioledeb am eu bod yn ei charu. Ti weli yn awr fod y ddau osodiad yn hollol groes i'w gilydd. Yn ol y naill, am y cerir hi y mae yn wrthrych cariad; yn ol y llall, am ei bod yn wrthrych cariad fe'i cerir hi. Pan ofynais i ti, Euthyphron, beth yw duwioledeb, nid oedditi yn ymddangos yn barod i egluro i mi beth yw ei hanfod, eithr enwaist un o'i nodweddion, sef hyn: fod yr holl dduwiau yn ei charu. Beth yw ei hanfod, ni ddywedaist eto.

Os nad oes gennynt wrthwynebiad, paid a chuddio hyn oddiwrthyf; dechreu yn y dechreu eto; dwed wrthyf paham y mae duwioledeb yn wrthrych cariad y duwiau, neu yn meddu unrhyw nodwedd arall. Ni wnawn gweryla ynghylch unrhyw nodwedd, cyhyd ag y byddost ti yn barod i ddweyd wrthyf beth yw duwioledeb ac annuwioldeb.

Eu. Wel, Socrates, nid wn i ddim pa fodd i ddweyd fy meddwl. Mae pob atebiad o'm heiddo rywfodd yn dod i'r un peth. Nid oes yr un

yn dal ei brofi. Maent fel pe yn symud o gwmpas, yn lle aros yn eu hunfan.

So. Maent yn debyg iawn i gerffdelwau Daidalos, un o fy nghyn-dadau. Yn wir, pe buaswn i yn ateb yr un fath a thi, mae arnaf ofn y buasit yn edliw i mi nad ellir tynnu dyn oddiar ei dylwyth, ac fod fy ngwaith innau wrth ymresymu fel gwaith Daidalos, yn ymddangos yn symud o gwmpas yn lle aros yn ei unfan. Ond dy atebion di ydynt; a thi, gan hynny, sydd yn teilyngu y gwawd. Yn ol dy gyfaddefiad di dy hun, gwrthodant aros yn eu hunfan.

Eu. Ydwyf yn wir, rwy'n haeddu'r gwawd; ond nid myfi yw yr achos nad yw fy atebion yn dal prawf. Ti yw y Daidalos sydd yn eu gyrru am dro. Cyn belled ag y mae a wnelof fi a hwy, maent yn aros eto.

So. Os felly ynte, gyfaill, rwy'n well celfyddydwr na Daidalos o gymaint a hyn: ei waith ei hun oedd yr unig un allasai ef beri symud, ond rwyf fi yn gallu peri i waith arall symud. Ac yn wir y peth mwyaf cain yn fy nghelfyddyd yw hyn: rwy'n alluog o'm hanfodd. Buasai yn well gennyf i'm holl osodiadau aros yn eu hunfan na phe rhoddid i mi gyfoeth Tantalos at gelfyddyd Daidalos. Ond dyna ddigon.

So. Rwy'n dy weled yn rhy foethus i ymegnio; ac rwy'n barod iawn i ddangos i ti pa fodd y gellit egluro i mi beth yw duwioddeb, ac ni raid i ti ofni fod yn flin ar ol gorffen. Fel hyn, gwél: a yw pob gweithred dduwiol yn gyfiawn o anghenraid, yn ol dy farn di?

Eu. Ydyw.

So. Os felly ynte, a yw pob gweithred gyfiawn yn weithred dduwiol? Neu ynte, y mae pob gweithred dduwiol yn gyfiawn: ond nid yw pob peth cyfiawn yn dduwiol. eithr y mae rhai felly, a rhai heb fod?

Eu. Rwy'n methu dilyn dy osodiadau, Socrates.

So. Ac eto rwyf yn ieuengach na mi, ac o gymaint a hynny yn alluocach. Ond, fel yr wyf yn dweyd, y mae gormod o allu yn dy wneyd yn ddiog. Yn awr, gyfaill, ymysgwyd: nid yw'n beth anodd i ti ddeall fy meddwl. Rwy'n dweyd rhywbeth tra gwahanol i'r bardd ysgrifennodd y llinellau hyn:—

Gwrthwyneb wyt i ddweyd yn hŷ
Am Iau Creawdwr ein byd ni;
Can's lle mae ofn, cywilydd fydd.

Rwy'n gwahaniaethu oddiwrtho ef; a gaf fi ddangos i ti pa fodd?

Eu. Cei; dos ymlaen.

So. Yn ol fy marn i, nid gwir yw y frawddeg ddiweddaf. Mi wn i am lawer iawn sydd yn ofni clefydau, tlodi, a llawer o bethau ereill cyffelyb, er nad oes ganddynt gywilydd o honynt. Mi wyddost tithau hefyd, oni wyddost?

Eu. Gwn yn wir.

So. O'r ochr arall, lle bynnag mae cywilydd, yno y bydd ofn. Oblegid, a oes undyn sydd yn meddu gradd o gywilydd, a'r nad yw yn ofni ac yn dychrynu rhag cymeriad drwg ar yr un pryd?

Eu. Nac oes neb: mae pawb yn ofni cymeriad drwg.

So. Nid cywir, gan hynny, dweyd "lle mae ofn, cywilydd fydd." Ond "lle bynag mae cywilydd, yno bydd ofn"; oblegid, yn ol fy marn

i, mae ofn yn ehangach na chywilydd. Un math o ofn yw cywilydd; megys nad yw rhif od ond un math o rif. Nid yw rhif od ymhob man lle y ceir rhif; ond y mae rhif ymhob man lle ceir rhif od. A wyt ti'n gallu fy nilyn?

Eu. O, ydwyf.

So. Dyma oedd fy meddwl wrth ofyn i ti, a yw duwioldeb ymhob man lle ceir cyfiawnder, ynte a yw cyfiawnder ymhob man lle ceir duwioldeb. Neu ynte, nid yw duwioldeb ymhob man lle ceir cyfiawnder, oblegid un math o gyfiawnder yw? A wyt ti yn cydweled â hyn?

Eu. Ydwyf. Rwyf yn ymddangos i mi yn gywir dy farn.

XIV. So. Edrych ynte beth yw canlyniad hyn. Os mai un math neu ran o gyfiawnder yw duwioldeb, rhaid i ni edrych allan pa ran. Pe gofynit i mi pa ran o rif yw rhif llyfn, a pheth yw natur y rhif hwnnw, dywedwm mai nid rhif di-hanner yw, ond rhif y gellir ei rannu yn ei hanner. Onid felly y mae?

Eu. Fwaswn i yn meddwl.

So. Bydd cystal a dangos i mi ynte, yn y dull hwn, pa ran o gyfiawnder yw duwioldeb, modd y gallwyf ofyn i Melitos beidio gwneyd cam a mi trwy fy nghyhuddo o annuwioldeb. Rwyf eisoes wedi fy nysgu gennyf beth yw duwiolfrydedd a duwioldeb, a pheth nid yw.

Eu. Dyma fy marn i ynte, Socrates. Duwioldeb yw y rhan honno o gyfiawnder,—gwasanaeth i'r duwiau; a'r rhan arall yw gwasanaeth i ddynion.

XV. So. Yn wir, buaswn yn meddwl dy fod yn ateb yn gampus. Ychydig o eglurhad pellach, a byddaf foddlon. Nid wyf eto yn deall beth a olygi wrth "wasanaeth." Yn sicr, nid wyt yn meddwl fod gwasanaeth i'r duwiau yn golygu gweini arnynt fel y gweinydda dyn ar bethau ereill? Er engrafft,—nid pawb all weini ar geffylau, ond *jockey* i'r gwaith hwnnw?

Eu. Gwir iawn.

So. Gan hynny, y mae gwaith y *jockey* yn wasanaeth i'r ceffylau.

Eu. Ydyw.

So. Yr un modd nid pawb all weini ar gŵn; gwaith y *keeper* yw hynny.

Eu. Ie; gwir iawn.

So. Felly, mae gwaith y *keeper* yn wasanaeth i'r cŵn.

Eu. Ydyw.

So. Felly hefyd am waith porthwr yr ychen.

Eu. Gwir iawn.

So. Ond beth am dduwioldeb? A wyt ti'n barod i edrych ar hyn yn yr un wedd?

Eu. Ydwyf.

So. Felly, yr un yw amcan pob gwasanaeth,—h.y., er daioni a budd i'r neb a wasanaethir, megys ag yr wyf yn gweled fod ceffylau yn derbyn budd a lleshad oddiwrth wasanaeth y *jockey*. Onid dyna dy farn?

Eu. Ie, dyna fy marn i.

So. Yr un modd am y cŵn dan ofal y *keeper*, a'r ychen dan ofal y porthwr, ac am bob anifail arall hefyd; oddigerth dy fod yn credu mai niweidio yw amcan gwasanaeth?

Eu. Yn enw'r nefoedd, nac wyf.

So. Er eu budd ynte?

Eu. Ie, ar bob cyfri.

So. Gan hynny, gan mai gwasanaeth i'r duwiau yw duwioddeb, ei hamcan yw bod o fudd i, ac yn foddion i wella y duwiau? A wyt ti yn golygu hyn: pa bryd bynnag y cyflawni weithred dduwiol, yr wyt yn gwneyd un o'r duwiau yn well?

Eu. Wel, nac wyf yn wir.

So. Nac wyt; roeddwn i'n meddwl mai nid dyna dy olygiad. Yn wir, rwy'n mhell iawn o feddwl hynny; a dyna fy amcan yn gofyn i ti beth a olygit wrth wasanaeth i'r duwiau, gan y gwyddwn mai nid dyna oeddit yn ei olygu.

Eu. Roeddit yn meddwl yn iawn, Socrates, nid dyna oeddwn yn ei olygu.

So. Da iawn. Pa fath wasanaeth i'r duwiau ynte, yw duwioddeb?

Eu. Yr un fath a gwasanaeth gweision i'w meistriaid.

So. Rwy'n gweld: gwaith am gyflog?

Eu. Ie.

XVI. So. A elli di ynte, ddweyd wrthyf beth yw amcan gwaith meddyg? Onid adfer iechyd?

Eu. Hynny fuaswn i'n feddwl.

So. Beth ynte yw amcan gwaith saer llongau?

Eu. Gwneyd llongau, wrth gwrs.

So. Amcan gwaith seiri meini yw adeiladu tai ynte?

Eu. Ie.

So. Dywed wrthyf, wr da, beth yw amcan gwaith y duwiau? Mae'n amlwg dy fod yn gwybod. Rwyf yn honni gwybod mwy na neb arall am grefydd.

Eu. Ac nid wyf yn honni ond y gwir, Socrates.

So. Dwéd wrthyf ynte, er mwyn popeth, beth yw y gwaith bendigedig hwnw a ddygir ymlaen gan y duwiau trwy ein defnyddio ni yn weision?

Eu. Mae'n cynnwys llawer iawn o weithredoedd da.

Wel; mae cadfridogion yn cyflawni llawer o'r rheiny; er fod yn hawdd dweyd mai y bennaf un ohonynt yw ennill buddugoliaeth yn y frwydr. Onid ydynt?

Eu. Nid oes neb wád hynny.

So. Yr un modd hefyd am y ffarmwyr. Buaswn i yn meddwl eu bod hwy yn cyflawni llawer o weithredoedd da; ond wedi'r cwbl, coron eu llafur yw cynnyrch y ddaear.

Eu. Gwir iawn.

So. Beth ynte? O holl weithredoedd da y duwiau, pa un yw y bennaf.

Eu. Onid wyf yn cofio i mi ddweyd ychydig o funudau'n ol mai peth anodd iawn yw cael gwybodaeth fanol am yr holl bethau hyn. Pa fodd bynnag, gallaf roddi i lawr reol gyfredinol: pwyl bynnag ar air neu ar weithred, trwy weddio neu trwy aberthu, sydd yn gwybod pa fodd i ddiolch i'r duwiau, y mae gweithredoedd hwnnw yn dduwiol. Y mae y cyfryw weithredoedd yn iachawdwriaeth i deuluoedd unigol yn gystal a'r holl wlad. Pa beth bynnag sydd groes i hyn, annuwiol yw, ac y mae yn dadyllaenu ac yn dinystrio pob peth.

XVII. So. Gallest, pe dewisit, enwi i mi y bennaf o weithredoedd y duwiau, ar lai o eiriau; ond rywfodd nid wyt yn barod i fy nysgu, mae'n amlwg. Pan yr oeddit bron ar ddechreu, dyma ti'n troi oddiwrth y pwnc. Pe buaset yn fy ateb, buaswn erbyn hyn wedi cael gwybod

beth yw duwioledeb. Yn awr ynte—canys mae'n rhaid i'r holwr ddilyn yr atebwr i ba le bynnag yr elo: Beth wyt ti'n ddweyd yw duwioledeb a gweithred dduwioledeb? Onid rhyw fath o wybodaeth am aberthu a gweddio?

Eu. Ie.

So. Beth yw aberthu; onid rhoddi rhoddion i dduw? A gweddio; onid erchi oddiar dduw?

Eu. Gwir iawn.

So. Yn ol dy osodiad di ynte, dyna yw duwioledeb,—rhoddi rhoddion i, ac erchi oddiar y duwiau.

Eu. Amlwg yw dy fod yn deall fy meddwl yn iawn.

So. Mae'n wir dda gennyf glywed, oblegid rwy'n awchu am dy wybodaeth, ac yn benderfynol na bo'r un o d'eiriau yn syrthio i'r llawr. Ond beth meddi di yw gwaith i'r duwiau? Erchi oddiarnynt, a rhoddi rhoddion iddynt?

Eu. Ie.

So. Gan hynny, y mae gweddio yn iawn yn golygu ein bod yn erchi oddiarnynt y pethau hynny y mae arnom eu hangen?

Eu. Gwir iawn; beth arall?

So. A'r un modd drachefn, y mae rhoddi rhoddion yn iawn yn golygu ein bod yn rhoddi mewn ad-daliad y rhoddion hynny a ofynir oddiarnom ganddynt hwythau? Oblegid amhriodol iawn fyddai i ni roddi i neb yr hyn nas gofynnodd am dano.

Eu. Gwir a ddywedi, Socrates.

So. Felly y mae duwioledeb yn rhyw fath o drafnidiaeth rhwng y duwiau a dynion?

Eu. Ydyw, os wyt yn dewis ei galw felly.

So. Nid wyf yn dewis ei galw yn ddim ond yr hyn sydd wir. Dwed wrthyf, pa fudd gâ y duwiau oddiwrth ein rhoddion ni? Y mae pob rhodd ddaionus yn dod oddiwrthynt hwy; a pha ddaioni sydd yn deilliau iddynt hwy oddiwrth ein rhoddion ni? Ynte, ai nyini yn unig sydd ar ein hennill trwy y drafnidiaeth hon, trwy dderbyn y cwbl a rhoddi dim?

Eu. Wel, beth wyt ti'n feddwl, Socrates? A yw y duwiau yn derbyn budd oddiwrth ein rhoddion ni?

So. Beth arall yn y byd yw amcan ein rhoddion ynte?

Eu. Pa fudd a olygir ynte, heblaw anrhydedd, parch, ac fel y dywed-aist ti eisoes, diolch?

So. Wel, Euthyphron, y mae duwioledeb yn dalu diolch i'r duwiau; ond nid yw yn fudd iddynt, mae yn anwyl ganddynt.

Eu. Ond rwyf fi yn meddwl mai hi yw y peth mwyaf anwyl o'r cwbl ganddynt.

So. Dyma ti drachefn yn dod i'r un fan. Duwioledeb yw yr hyn sydd anwyl gan y duwiau.

Eu. Gwir iawn. Beth yn well?

So. Pam rwyf yn synnu ynte fod dy atebion fel delwau symudol, yn mynd am dro, a'th fod yn peri i mi fod fel rhyw Daidalos yn eu gwneyd i symud o gwmpas; tra yr wyt ti yn llawer iawn galluocach na Daidalos i beri iddynt fynd am dro, a thro crwn iawn hefyd? Onid wyt yn gweld dy fod wedi dod yn dy ol at dy ateb cyntaf eto? Ti gofi, feallai, ddarfod i ni gytuno nad oedd duwioledeb a'r hyn sydd anwyl gan y duwiau yn gyfystyr, ond fod gwahaniaeth rhyngddynt; onid wyt yn cofio?

Eu. Ydwyf, rwyf yn cofio.

So. Ai nid wyt ti'n gweld mai dyna yw duwioldeb yn ol dy ateb di : Yr hyn sydd anwyl gan y duwiau. Onid yw hyn yr un peth yn union â'r hyn sydd wrth fodd y duwiau ?

Eu. Wel ydyw'n wir.

So. Un o ddau beth ynte: naill ai nid oedd y gosodiad y cytunasom arno yn gywir; neu yntw, mae y gosodiad hwn yn anghywir.

Eu. Felly, mae'n debyg, mae'n anghywir.

XX. So. Felly ynte, rhaid i ni ddechreu ein hymchwiliad yn y dechreu eto—Beth yw duwioldeb?—gan nad wyf fi'n barod i redeg i ffwrdd, fel llwfrddyn, heb gael gwybod. Paid a'm diystyru; ymro ati ymhob ffordd; dwed wrthyf y gwir yn awr beth bynnag. Os gwyr undyn beth sydd wir, fe wyddost ti; ac nis gollyngaf di ymaith, ac nis dihengi, fel rhyw Proteus, heb ddweyd wrthyf. Canys, pe na wyddit yn hollol sicr beth yw duwioldeb, mae yn amhosibl y buasit o herwydd gwas cyflog yn erlyn yr hen ŵr dy dad am lofruddiaeth; onide, rhaid y buasit yn ofni rhag rhedeg y rhyseidd o gyflawni gweithred anfad ger bron y duwiau, a buasai gennyf gywilydd yngwydd dynion. Yn awr ynte, rwy'n gwybod yn dda dy fod yn honni meddu gwybodaeth eglur am dduwioldeb; dwed wrthyf, Euthyphron, ŵr da, ac na chudd oddi-wrthyf dy wybodaeth.

Eu. Rhyw dro eto, Socrates. Rwyf ar frys gwyllt yn awr. Mae yn bryd i mi fynd.

So. Beth sy'n galw? Beth sy'n galw, gyfaill? A wyt am fy siomi fel hyn? Roeddwn wedi gobeithio dysgu gennyf beth yw duwioldeb, a pheth nid yw, modd y gallwn ateb cyhuddiad Melitos, a dod yn rhydd trwy ddangos iddo fy mod yn awr wedi fy nysgu ym mhethau crefydd gan Euthyphron, ac addaw iddo na byddo i mi mwyach yn fy anwybodaeth siarad ar antur na gwneyd unrhyw gyfnewidiadau mewn crefydd, ac am hynny y byddwn yn sicr o fyw bywyd gwell yn y dyfodol.

YR YNADON A DIRWEST.

Papur ddarllenwyd yng Nghymnfa Ddirwestol Llyn ac Eifionydd, a gynhaliwyd yn Nefyn, Mai 19, 1892,

GAN MR. WILLIAM GEORGE, CRICCIETH.

Y CWESTIWN cyntaf a gyfyd i'r meddwl pan grybyllir pwnc y papur hwn ydyw,—Pa gysylltiad all fod cydrhwng yr Ynadon a Dirwest? Yr Ynadon,—beth ydynt? Onid barnwyr a gweinyddwyr cyfiawnder ydynt hwy? Ger eu bron hwy y gwysir y neb a gyhuddir o fod yn droseddwr ar gyfraith ei wlad, a'i gondemnio neu ei gyfiawnhau ydyw eu gwaith hwy. Ond am Ddirwest, nid condemnio na chyfiawnhau troseddwr ydyw ei gwaith hi,—ond achub. Nid oes a fynno yr Ynadon a dyn nes y cyhuddir ef o fod yn droseddwr; ond *cyn* y trosedd, ac *wedi* y trosedd y mae prif gysylltiad Dirwest ag ef. Gyda'r amcan o gosbi'r troseddwr yr eistedd yr Ynadon mewn barn arno. Ond prif amcan Dirwest ydyw cadw dynion rhag myned yn droseddwyr. Gydag amcanion mor wahanol, pa gysylltiad a all fodoli cydrhwng y naill a'r llall?

Yn y lle cyntaf, y mae gan yr Ynadon a Dirwest i ymwneyd a'r un gwrthrychau. Y Ddiod Feddwol sydd yn achosi bodolaeth Dirwest-iaeth,—a'r un achos gan mwyaf sydd yn cadw yr Ynadon ar waith. Pe diddymid y ddiod feddwol, fe beidiai Dirwest a bod, yn y ffurf a'r ystyr bresennol o honi,—ac fe ddarfyddai o leiaf ddwy ran o dair o waith yr Ynadon yr un pryd!

Wel, gan fod cysylltiad mor agos cydrhwng y naill a'r llall â'r un gwrthrych, nis gall ymddygiad y naill a'r llall tuagat y cyfryw wrthrych lai na bod yn bwysig iddynt ill dau. Byddaf yn meddwl fod y dyddordeb a gymerwn ni fel Dirwestwyr yn yr Ynadon i'w esbonio yn lled debyg fel yr esbonia y *pilot* y dyddordeb a gymer efe yn symudiadau y lloer. Nid ydyw y lloer ynddi ei hun yn bwysicach i'r *pilot* nag ydyw i rywun arall. Ond y lloer sydd yn rheoleiddio y llanw—a'r llanw drachefn, gan mwyaf, sydd yn rheoleiddio bywyd y *pilot*, ac o ganlyniad y mae efe yn cymeryd dyddordeb neillduol yn ei symudiadau hi. Felly gellir dweyd am danom ninnau yn yr achos hwn. Ynddi ei hun nid ydyw yr Ynadaeth yn bwysicach i ni nag i bobl ereill; ond y mae'r ffaith mai ganddynt hwy y mae rheoleiddiad y Fasnach sydd yn ganol-bwnc ein holl ymdrech yn gwneyd eu syniadau a'u symudiadau o ddirfawr bwys i ni. Os newidiwn y gymhariaeth, gallwn ddweyd fod yr Ynadon i ni, yn hyn, yr un peth ag ydyw y Rheithwyr i'r gwahanol Ddadleuwyr mewn Llys Barn. Pan drafodir unrhyw achos o bwys mewn llys felly, fe'i ceir yn orlawn o bobl, ac y mae gan bawb eu barn ar yr achos dan sylw; ond nid yw barn y cannoedd all fod yn bresennol i'w chymharu mewn pwysigrwydd i farn y deuddeg Rheithwyr sydd yn y *box*, am mai ar farn y Deuddeg hynny yn unig y dibynna tynged y carcharor. Am hynny fe geir y gwahanol Ddadleuwyr yn defnyddio eu holl ymdrechion i argyhoeddi y Rheithwyr, gan anwybyddu am y tro bawb a phopeth arall. Yn awr, yn ein llysoedd trwyddedol fe roddir pob trwydded trwy'r deyrnas ar ei phrawf am ei bywyd, flwyddyn ar ol blwyddyn; ar un llaw mynnwn ni, fel Dirwestwyr, ei bod yn haeddu barn marwolaeth, tra y dadleua y Tafarnwr ar yr ochr arall fod ganddi hawl i fyw. A phwy yw y Rheithwyr sydd i farnu cydrhyngom, ac i benderfynu tynged y drwydded? Ar hyn o bryd yr Ynadon ydynt,—ac felly y deuir â ni fel Dirwestwyr i gysylltiad â hwynt.

A beth ydyw eu hagwedd hwynt tuagat y Fasnach Feddwol? Nis gallant lai na bod yn allu mawr ar y naill ochr neu y llall; a'r cwestiwn ydyw,—pa un ai drosom, ynte yn ein herbyn ni y maent?

Y peth cyntaf sydd yn ein taro ydyw y ffaith fod cysylltiad o gwbl cydrhwng yr Ynadon a'r Fasnach Feddwol. Ffaith dra arwyddocaol ydyw hon, ac un sydd yn ein harwain ar unwaith i ganol y pwnc. Paham y rhoddwyd y Fasnach Feddwol, mwy na'r fasnach dê, y fasnach mewn sebon, neu unrhyw fasnach arall o dan lywodraeth yr Ynadon? Gwyddoch mai hen enw yr Ynadon ydoedd "Ceidwaid yr Heddwch"—*Conservators of the peace*. Hwynthwy oeddynt i ofalu am heddwch yr ardal y trigent ynddi, a rhoddwyd awdurodd a gorchymyn iddynt i gadw pob therfysg a therfysgwr i lawr. Ond buan y gwelwyd mai ofer oedd yr awdurodd a'r gorchymyn hwn, heb roddi i'r Ynadon hefyd awdurodd ar achosydd mawr y therfysgoedd yn y dyddiau hynny, megys yn y dyddiau hyn. "Terfysgaidd ydyw diod gadain" bob amser, a deallwyd yn

ddiatreg yr angenrheidrwydd o roddi llywodraethiad y rhai oedd yn ei gwerthu yn nwyllaw "Ceidwaid yr Heddwch."

O herwydd hynny, yn y flwyddyn 1496—agos i bedwar can' mlynedd yn ol—fe basiwyd Deddf yn rhoddi llawn hawl i'r Ynadon i ddifodi tafarnau yn eu gwahanol ardaloedd, ac i gymeryd *meichiau* gan y sawl y gadawent yr eiddynt i fyny, am eu hiawn drefn. Y mae tair faith dra theilwng o'n sylw ynglyn a'r Ddeddf hon. 1. Y mae ei hamcan yn deilwng o ystyriaeth. Dyma y ddeddf gyntaf a luniwyd i roddi yr hawl hon yn nwyllaw yr Ynadon.—hawl sydd yn parhau yn eu dwylaw hyd y dydd heddyw. 2. Y mae ei *phenawd* yn werth ei gofio: "Deddf yn erbyn Crwydriaid a Chardotwyr"—*Vagabonds and Beggars*—y gelwir hi. Nid syniad gwyllt yn perthyn i'r bedwaredd ganrif ar bymtheg ydyw y syniad fod y Fasnach hon yn creu crwydriaid, yn heigio gwlad â chardotwyr, ac yn llenwi y tlotai. Na, y mae yn hen syniad—wedi ei eni a'i gofrestru ar Ddeddfyrfaau Prydain ers pedwar cant o flynyddoedd bellach. 3. Cynhwysa awgrym rhagorol i ninnau yn awr. Pe gorfodid pob tafarnwr i roddi meichiau dros iawn drefn ei dy yn y dyddiau hyn, buasent, gan amlaf, yn llawer mwy gofalus nag y maent. Gwneir hyn yn awr mewn manau yn yr Unol Dalaeathau, ac y mae y gyfundrefn yno yn gweithio yn ardderchog. Feallai y deun ninnau o dipyn i beth mor oleuedig a'n cyndeidiau, ac â'n cefndryd Americanaidd,—pwy ŵyr? Nid ydwyf yn awr yn bwriadu myned trwy y Deddfau a basiwyd o dro i dro sydd yn cysylltu yr Ynadon a'r Fasnach Feddwol. Ond dyma ddau gasgliad a dynnwn oddiwrthynt:—Yn 1af, Fod y wlad er's canrifoedd bellach wedi dyfod i'r penderfyniad fod y Fasnach Feddwol yn milwrio yn erbyn ei heddwch. Yn 2il, Mai i'r diben o gadw y rhai sydd yn ymwneyd â'r cyfryw fasnach o fewn terfynau heddwch y rhoddwyd ei llywodraethiad yn nwyllaw Ynadon Heddwch ein gwlad. Nid oes neb a amheua y gosodiad cyntaf, ond y mae llawer o amheuaeth pa un a ydyw yr Ynadon yn gwneyd eu rhan fel "Ceidwaid yr Heddwch" ynglyn a'r Fasnach Feddwol. Mae'n debyg fod y rhan fwyaf o honom ninnau ymysg yr *amheuwyr* hyn. Yr wyf fi fy hunan felly, o leiaf, a bydd y gweddill o'r hyn sydd gennyf i'w ddweyd yn ymgais i osod allan rai o'r rhesymau sydd gennyf dros geisio tynnu llywodraethiad y fasnach honno o ddwyllaw yr Ynadon, a'i gosod mewn dwylaw gwell.

Y peth cyntaf sydd gennym i'w wneyd ydyw dangos fod yr Ynadaeth fel gallu llywodraethol yn yr achos hwn wedi profi yn fethiant. Ni raid nodi ond dwy faith i brofi hyn. Y gyntaf yw, eu bod wedi gadael i rif y tafarn dai chwyddo hyd nes y maent ymhell y tu hwnt i anghenion y wlad. Cred llawer o honom ni nad oes ar y wlad wir angen am na thy thafarn nac *opium den* o'i mewn. Ond penboethiaid, *fanatics*, ydym ni, wrth gwrs! Modd bynnag, tuag ugain mlynedd yn ol, fe ffurfiwyd *Royal Commission* o bobl *gallaf* a mwyaf *cymhedrol* y deyrnas i edrych i mewn i'r cwestiwn dan sylw, a'r farn y daeth y Llywodraeth iddi ar ol darllen a llawn ystyried eu hadroddiad hwy ydoedd,—Fod un ty tafarn i bob 700 o'r boblogaeth yn eithaf digon. Ond pa beth yw sefyllfa pethau yn awr? Yn lle un tafarn dy ar gyfer pob poblogaeth o 700, cawn fod yn Sir Gaernarfon ei hunan un am bob 256 o'r boblogaeth! Ac ymhellach, cawn fod yng Nghymru a Lloegr y funud hon dros *gan mil* o dafarnau yn ormod, yn ol barn Llywodraeth Mr. Gladstone yn 1870. Wel, po fwyaf o dafarn dai fyddo mewn lle, anhawddaf yn y byd

fydd cadw heddwch a threfn a sobrwydd yn yr ardal honno; a phan gofiwn mai yr Ynadon sydd yn gyfrifol am fodolaeth pob un o'r tafarn dai hyn, nis gallwn lai na thynnu'r casgliad mai *methiant ydynt* fel gallu ataliadol a llywodraethol ar y fasnach feddwol. Nid ydynt yn cyflawni y gwaith er mwyn pa un y rhoddwyd hwynt mewn awdurdod.

Neu edrycher ar eu hymddygiad mewn gwedd arall. Dywedaf hyn, nid yn unig y mae yr Ynadon yn euog o egeuluso yn y modd mwyaf gwaradwyddus eu dyledswydd o gadw rhif y tafarn dai i lawr, ond y maent hefyd mewn ffordd arall yn euog o ddangos partiaeth ceryddol tuag at eu hoff-ddyn—y tafarnwr. Fel hyn: mewn un flwyddyn yn ddiweddar euogfarnwyd a chosbwyd 150,000 o bersonau am feddwi trwy Gymru a Lloegr. Yn awr, mewn naw allan o bob deg o'r achosion uchod, dylesid chwilio allan am, a chosbi, nid un ond dau droseddwr—y meddwyn a'r tafarnwr yr hwn oedd wedi ei feddwi. Ond pa sut y bu? Beth yw rhif y dirwyon yn erbyn y Tafarnwyr? Ai can mil? Nage, na mil chwaith, ysywaeth, ond cant a hanner yn unig! Ac fel y mae trwy y wlad yn gyffredinol, felly y mae yn ein Sir ninnau hefyd. Gwelaf oddiwrth adroddiad rhagorol Pwyllgor y Cyngor Sirol ar y mater hwn fod 532 wedi eu cosbi am feddwod yn y Sir hon yn y flwyddyn 1891. A phasaw! tafarnwr? Dim ond *triar ddeg!* Ymddygiad cywilyddus ydyw hyn mewn swyddogion sydd yn cymeryd llw i weinyddu cyfiawnder i bob dosbarth o ddeiliaid ei Mawrhydi yn ddibartiaeth. Ofer ydyw iddynt geisio ymryddhau o'r cyfrifoldeb, a dweyd nad oes a fynnon't a chwilio gwallau'r tafarnwyr hyd nes y gwysir hwynt ger bron gan yr heddeidwaid. Yr oeddwn yn P—y dydd o'r blaen; pan aethum i mewn i'r llys, gwrandewid cyhuaddid o feddwod yn erbyn bachgen ieuanc prydweddol. Wedi gwrando'r tystiolaethau, ymneillduodd yr Ynadon i ystyried yr achos, ac yn fuan daethant yn ol a datganasant eu bod yn cael y dyn ieuanc yn euog, a gosodasant ddirwy arno. Meddyliais, wrth gwrs, fod popeth ar ben; ond i'm mawr syndod, clywn y Cadeirydd yn gorchymyn i'r heddeidwaid roddi gwŷs i'r tafarnwr yn nhy yr hwn yr oedd y bachgen wedi cael y ddiod a'i meddwod. Felly y gwnaethpwyd, ac yn y llys dilynol cafwyd y tafarnwr yntau yn euog, a gosodwyd dirwy arno; ysgrifenyd yr euogfarniad ar gefn ei drwydded, a'r canlyniad yn ol pob tebyg fydd, os nad arferu y tafarnwr hwnnw lawer mwy o wyliaidwriaeth rhag llaw, y gwrthodir adnewyddu ei drwydded.

Wel, yr hyn a allodd yr Ynadon wneyd yn yr achos hwnnw, a allasant, ac a ddylasant hefyd wneyd yn y mwyafrif o achosion cyffelyb. Eithriadol fu eu hymddygiad y tro hwnnw, pryd y dylasai fod yn rheol ganddynt hwy, a phob Ynadon ereill trwy y wlad. A phan y gwelwn egwyddor ddylai fod yn *rheol*, wedi myned yn *eithriad*, onid ydyw yn llawn bryd dod i'r penderfyniad mai *methiant* ydyw rheolaeth yr Ynadon ar y fasnach feddwol? Ac ond i ni ystyried tipyn ar y mater gwelwn nas gall fod yn ddim ond *methiant*.

Yn un peth, y maent yn edrych ar y cwestiwn oddiar saf-bwynt anghywir, sef eiddo y tafarnwr, yn hytrach nag oddiar saf-bwynt y cyhoedd. Edrychant ar drwydded fel moddion cyfreithlon i dafarnwr i ennill bywoliaeth trwyddi, ac nid fel cyfleustra i'r cyhoedd. Ystyriant hawliau'r tafarnwr yn fwy na moesau a buddiannau y cyhoedd. Cyfrifant y drwydded yn fath o *eiddo*, ac fel y cyfryw daw i mewn am *hawliau eiddo*.

Yn awr, oddiar ba saf-bwynt y dylid edrych ar y cwestiwn hwn? Ai o saf-bwynt *eiddo'r tafarnwr*? Y mae y llysoedd uchaf yn y wlad wedi ateb y cwestiwn eisoes yn y *nacael*.

Ai o saf-bwynt anghenion y cyhoedd? Ie, yn ddiameu. Ond bet h a ystyrir yn anghenion y cyhoedd? Ai digonedd o "ddiod gadarn" i wneyd pob dyn, fyn fod felly, yn feddwyn, ynte digon i gario allan arch-ebion y meddyg? Dibynna'r ateb yn hollol ar ein syniadau ynghylch yr arfer o ymyfed. Barn llawer o honom ydyw fod arfer y diodydd meddwol, fel y gwneir yn gyffredin, yn niweidiol i gorff, meddwl, ac ysbryd dyn, ac mai'r meddyg ydyw yr unig Bâb all gyfreithloni yr ymarfer o honynt yn unol â'i *dispensation* ei hunan. Os felly, y mae ymwneyd a hwynt oddieithr trwy orchymyn meddygol, yn ddrwg moesol, ac os felly nis gall anghenion y cyhoedd ynglyn a hwy, fel rhyw physigwriaeth arall, fod ond cyfyngedig. Yn ol y golygiad yma "drygaw anghenrheidiol," *necessary evils*, ydynt ar y goreu. Ond, os ar yr ochr arall, nad ydyw diota ynddo ei hun yn ddrwg moesol, waeth mo'r llawer mesur yr angen am y ddiod wrth yr alwad am dani; ac fel mater o ffaith dyma fel y gwneir ar hyn o bryd. "Rhaid," meddai ynad wrthyf y dydd o'r blaen, "fod angen am bob un o'r tai hyn, onide ni fuasai'n talu i'r tafarnwr eu cadw." Nis gallai yr ynad siarad fel hyn pe buasai'n credu yn nrygedd y fasnach ynddi ei hun. Oddi wrth hyn gwelir mai ar y farn a ffurfir am foesoldeb neu anfoesoldeb yr ymwneyd â'r ddiod, y penderfynir y cwestiwn o anghenion y cyhoedd ynglyn a hi. Dywed Mazzini am bob cwestiwn mawr cymdeithasol, mai cwestiwn *crefyddol* ydyw yn ei wraidd. Ac felly'r cwestiwn dirwestol yn arbennig. Ond,—a dyma'n cwyn yn eu herbyn ar hyn o bryd,—ni fyn yr Ynadon ddim son am hyn. Gwrthodant yn bendant edrych ar y cwestiwn oddiar y saf-bwynt hwn. Soniwc'h wrthynt am y pechod a'r trueni y mae'r fasnach yn eu achosi drwy'r wlad, crybwyllwch wrthynt am eu cyfrifoldeb ynglyn â hi, a gofynwch iddynt yn enw deddf cariad gofio am eu brodyr gweiniaid, a pheidio agor dorau temtasiynau a dinystr yn ddianghenraid o'u blaen, ac odid fawr na ofynant gyda gwen ddirmygus am i chwi brysuro at y pwnc; neu os byddant wedi eu breinio â mwy o fonedigeiddrwydd nag sydd gyffredin yn eu mysg ar achosion o'r fath, gadawant i chwi gasglu oddiwrth eu wynepryd eu bod yn dyheu am i chwi orffen eich baldordd a dod at rywbeth mwy sylweddol a pherthynasol. Gallaf roddi engraffit i chwi i brofi mai fel hyn yr edrych ein Meinciau Ynadol ar y mater. Yn y Llys Trwyddedol cyn y diweddaf yn Mhwillheli, cefais yr anrhydedd o wrthwynebu adnewyddiad trwydded neillduol, ac fel math o ragymadrodd i'm hanerchiad cychwynais ddweyd ychydig eiriau ar effeithiau cyffredinol y fasnach feddwol ar y wlad ynghorff y fiwyddyn oedd wedi pasio. Ond cyn i mi allu dweyd nemawr o frawddegau ar yr agwedd hon o'r pwnc, dyma lais ceryddol o'r Fainc yn fy rhybuddio i beidio gwastraffu eu hamser hwy a minnau trwy draethu ar foesoldeb cyffredinol y cwestiwn. "Yr hyn sydd arnom ni eisieu ei wybod," meddai, "ydyw pa resymau neillduol sydd gennych dros i ni am-ddifadu y tafarnwr hwn, mwy na rhyw dafarnwr arall, o foddion cyfreithlawn ei gynaliaeth?" Yn awr meiddiaf ddweyd na chawn byth gyfiawnder oddi ar law yr Ynadon tra y parhant fel hyn i anwybyddu hanfodion y cwestiwn, ac edrych arno oddiar saf-bwynt mor anghywir.

Ond y gwaethaf ydyw,—a dyma'r unig reeswm pellach ydwyf am ei roddi dros fynd â'r awdurdod ynglyn â Thrywddedu oddi arnynt,—nid yn unig y maent yn edrych ar y cwestiwn o safle anghywir yn awr, ond y mae eu hamgylchiadau y fath fel nad oes gobaith iddynt byth ddiwygio. Y mae yn hen gwyn yn eu herbryn nad ydynt yn gwneyd eu dyledswydd yn y mater hwn. Yn y flwyddyn 1602—agos i dri chant o flynyddoedd yn ol—rhoddwyd gorchymyn i'r Barnwyr elent trwy'r wlad i ymholi faint o dafarndai oedd wedi eu diddymu gan yr Ynadon, yn unol a'r awdurdod oedd yn eu dwylaw, er mwyn i'r Frenhines, meddid, wybod a gwobrwyo y rhai da, a chosbi y rhai drwg o honynt,—ac y mae lle i ofni fod y rhai drwg yn llawer mwy lliosog na'r rhai da yr adeg honno fel yn awr. Ond megys yr oedd yn y dechreu y mae yr awr hon, ac y bydd, yn ol pob tebyg, tra y pery amser yr Ynadaeth. A'r rheswm am hynny ydyw, fod ganddynt hwy eu hunain fuddiant personol mor fawr yn y fasnach. Y mae gan fwyafrif pob mainc Ynadol yr wyf fi yn gwybod am dani *interest* uniongyrchol neu anuniongyrchol yng ngwerthiant y ddiod feddwol, er fod hynny yn hollol groes i ysbryd y gyfraith. Pasiwyd deddf 450 o flynyddoedd yn ol yn gwahardd i Ynad werthu diod tra y parhai tymor ei Ynadaeth. Gresyn fod yr hen ddeddf ragorol hon wedi myned yn llythyren farw er's cymaint o amser. Buasai yn anhawdd cael Mainc yn aml ar hyn o bryd, pe buasai pob aelod sydd yn dal cysylltiad â'r fasnach feddwol yn gwrthod eistedd. Yr wyf yn cofio un tro, ym Mhorthmadog, i mi wrthwynebu i Gadeirydd y Fainc eistedd am fod ganddo *interest* uniongyrchol yn y drwydded yr oeddwn yno i'w gwrthwynebu. Ymneillduodd wrth gwrs, a gwrthodwyd y drwydded. Ymhen ychydig wedi hynny daeth trwydded arall ger bron. Yr oedd yr Ynadon wedi meddwl erbyn hyn fod perygl iddynt eistedd ar gwestiwn trwyddedol o gwbl os oedd ganddynt unrhyw *interest* yn y fasnach feddwol. Y canlyniad oedd iddynt i gyd wrthod eistedd, a gorfod gohirio'r achos hyd nes y cawsant foddlonrwydd nad oedd eu perchenogaeth o dafarndai ereill yn rhwystr iddynt drafod achos y tafarndy hwnnw. Yr un fath ym Mhwellheli,—y mae mwyafrif yr Ynadon yno yn dal cysylltiad â'r fasnach mewn rhyw fodd neu gilydd. Ac edrycher trwy rhestr enwau perchenogion tafarndai Sir Gaernarfon, a cheir ei bod wedi ei britho ag enwau Ynadon. Pa fodd, gan hynny, y dichon iddynt roddi barn gywir ac amhleidiol ar y mater? Hyd yn oed pan nad oes fuddiant personol mewn tafarndai neu gwmniau yn gwerthu diod, y maent i gyd braidd yn perthyn i'r un dosbarth a'u gilydd. A welsoch chwi erioed mor barod ydynt i sefyll i fyny y naill dros fuddiannau y llall! Ond hyd yn oed pe buasant heb berchenogi yr un dafarn cydrhyngddynt, buasant eto yn anghyfaddas i arfer yr awdurdod hon, am eu bod yn perthyn i ddosbarth sydd yn edrych yn uwch ar *hawliau eiddo* nag ar les cymdeithas yn gyffredinol. Waeth beth ddywedo na Thy'r Arglwyddi nac unrhyw dŷ arall, y mae'r Ynadon yn parhau hyd heddyw i edrych ar drwydded fel math o *eiddo* yn llaw ei pherchen. Gofynnodd Ynad oddiar y Fainc i mi y dydd o'r blaen, A oeddwn yn disgwyl iddo ef edrych ar gais am adnewyddiad trwydded yn yr un goleuni a phe buasai'n gais am drwydded newydd? Atebais innau nad myfi oedd yn disgwyl iddo wneyd hynny, ond Thy'r Arglwyddi; ond parhai yr Ynad yr un mor ddiystyr o'r cais a phe buasai yn sylfaenedig ar fy meiddgarwch i yn unig. A'r rheswm ydoedd, am ei fod ef a'i frodyr wedi arfer edrych

ar drwydded fel *eiddo*. A gwyddys yn dda mai *motto* y dosbarth hwn ydyw, "Marwed pawb, ond bydded byw *eiddo*." Pe na fuasai reswm arall, y mae hwn ynddo ei hun yn ddigon o reswm dros i ni fyned â'r awdurdod hon o'u llaw.

Wel, ein cwyn ni fel Dirwestwyr, gan hynny, yn erbyn yr Ynadon ydyw hyn:—Y mae'r wlad wedi ymddiried iddynt hwy i reoli'r fasnach feddwol; ond y maent hwythau, yn lle ei rheoli hi, yn cymeryd eu rheoli ganddi. Y mae'r wlad ers llawer o amser bellach wedi rhoddi awdurdod iddynt i leihau nifer y tafarn dai, ac wedi galw arnynt i arferyd yr hawl honno er lles y cyhoedd. Ond y maent hwythau, yn lle eu lleihau, wedi gadael iddynt gynhyddu hyd nes y maent yn awr *dros gan mil* uwch ben y cyfartaledd priodol.

A y maent yn ymddwyn fel hyn am eu bod yn anwybyddu pob ystyriaeth o foesoldeb y fasnach, ac yn edrych oddiar safbwynt anghywir hollol ar y cwestiwn,—saf-bwynt eiddo'r tafarnwyr, ac nid saf-bwynt lles y cyhoedd. Ac ymhellach eto, y maent yn myned yn naturiol i edrych arno fel hyn ar gyfrif yr *interest* personol mawr sydd ganddynt hwy a'u cyfeillion yn y fasnach, yn ogystal ag ar gyfrif syniadau Toriaidd y dosbarth y perthynant iddo am gysegredigrwydd hawliau eiddo.

Ar y cyfrifon hyn i gyd, dywedwn ei bod yn hen bryd myned â'r ymddiriedaeth y mae yr Ynadon wedi ei bradychu yn gymaint o'u dwylaw, a'i rhoddi yn nwyllaw y bobl er mwyn pa rai y golygir fod y fasnach yn cael ei chario ymlaen, a chan ba rai, am hynny, y dylai bod yr hawl i benderfynu ei thynged.

YR YSGOL HAF YM MANSFIELD, RHYDYCHAIN.

AR y deunawfed o fis Gorffennaf daeth ynghyd i Rydychain ryw dri-chant a hanner o weinidogion, yn cynrychioli amryw o brif enwadau Cred. Annibynwyr a Phresbyteriaid oedd y rhan fwyaf; ond yr oedd rhestr y mân enwadau yn ddyddorol. Yn eu mysg gwelid gair fel hyn,— "Disgyblion Crist, UN." Eu neges yno oedd cael rhyw ddeng niwrnod o astudio duwinyddiaeth. Fel y gwelir wrth yr hanes yn y newyddiaduron, yr oedd pedair darlith bob dydd, weithiau bump. Pan na byddai pump, byddai cynhadledd yn yr hwyr ar ol cinio. Cafodd coleg Mansfield fenthyg neuadd Wadham a neuadd Exeter at y ciniawau, a neuadd Balliol at rai o'r darlithiau a'r cynadlleddoedd. Nid yn aml y gwelwyd yn Rhydychain gymaint o brydlondeb a chymaint o raib, os goddefir gair felly, am ddarlithiau. Dywedai priod un o athrawon y lle, na welodd hi'r fath ruthro yn ei dydd i ddarlith. Wel, nid caritor drwg i gynifer o bregethwyr oedd eu cael yn gystal gwrandawyr. Peth arall, gwerth ei grybwyll,—dywedai un o weision y colegau, tua therfyn y deng niwrnod, na welsai efe erioed sobrach cynhulliad o ddynion. Go dda, onide, a hwythau i gyd oddi cartref.

Ddydd Mawrth y 19eg, ar ol dechreu gwaith y diwrnod trwy ddarllen a gweddio, y cyntaf a ddechreuodd ei gyfres ddarlithiau oedd y Dr. Marcus Dodds. Ei bwnc ydoedd Dysgeidiaeth Iesu Grist. Nid

yw addysg yr Iesu, o ran ei dull, yn gyfundrefnol: prin y gallasai hi fod. Nid yr un rhai fyddai ei wrandawyr o dro i dro. Pregethai y rhan amlaf yn yr awyr agored. Y penawd hwylusaf i drefnu ei ddysgeidiaeth dano fyddai "Teyrnas Dduw." Sonia am dano ei hun fel Brenin fwy nag unwaith; eithr ychydig a ddywed Efe ei hun am dano ei hunan fel Mab Duw,—ychydig yn uniongyrchol, er ei fod o hyd yn cymeryd ei Dduwdod yn ganiataol, a'i fod yn goddef i ereill ei gydnabod fel Duw. Dichon mai un rheswm paham y mae Efe mor gynnil o draethu am ei berson ei hun, ydyw ei fod mor ymroddedig i'w neges a'i waith fel Mab. Dangos ei fod yn cynrychioli y Tad, a bod hawl ganddo felly i sefydlu'r Deyrnas, yw pwnc mawr Iesu Grist. Peth arall i'w gadw mewn golwg o hyd ydyw hyn, fod y datguddiad a ddyry yr Iesu o Dduw yn nyddiau ei gnawd, i gyd yn dyfod trwy ei ymwybyddiaeth ddynol. Nid cywir esbonio ei anwybodaeth, dyweder, pa bryd y bydd y dydd diweddf, trwy ddweyd y gwyddai Efe mewn un ystyr, ac mewn ystyr arall na wyddai Efe ddim. Trwy ymwybyddiaeth y dyn Crist Iesu y datguddiodd y Gair tragwyddol ei hun. Prin y mae eisieu dweyd, nad yw hyn yn cymylu dim ar ei Dduwdod, tra y mae yn rhoi ystyr wirioneddol i'w ddarostyngiad.

Yr oedd yn y gyfres hon o eiddo'r Proffeswr Dodds ddarn nodedig o dda ar y gwyर्थiau. Yng ngoleuni ei waith fel cynrychiolydd Duw y mae y rhai hyn i'w deall. Pe daethai i gyffyrddiad â dioddef heb ei liniaru, â chlefydon heb eu hiachau, ag angen heb ei ddiwallu, ni buasai yn cynrychioli Duw yn deg.

Ond atolwg, er profi y gwyर्थiau, beth y mae y gwyर्थiau eu hunain yn ei brofi? I ba beth y mae gwyर्थiau da? Tuedd i'w bychanu sydd yn nysgeidiaeth yr Iesu ei hun. Myn rhai na wnaeth Efe wyrthiau i brofi ei hun yn Fessiah, ond i foddio yr awydd am wyrthiau yn ei wrandawyr. Y gwir yw, mai siomi'r awydd yma oedd tuedd yr Iesu. "Cenhedlaeth ddrwg a godinebus sydd yn ceisio arwydd." Y mae'n eithaf gwir, ar wyneb yr hanes, mai nid er mwyn profi ei Fessiaeth y cyflawnodd Efe ei wyrthiau; ond dyna yn union paham y mae y gwyर्थiau yn profi Ei Fessiaeth. Os gwna dyn unrhyw weithred dda gyffredin yn fwriadol er mwyn profi ei gymeriad, y mae honno ar unwaith yn peidio a bod yn brawf o gymeriad o gwbl: bod dyn yn rhoi heb feddwl cael ei weled, yn gwneyd ei weithredoedd da o wirfodd ei galon heb ofal am y canlyniadau, dyna sydd yn rhoi gwerth ar ei weithredoedd. Diffyg bwriad i'w gwneyd yn brawf o garitor, sydd, er gwaetha'r dyn, yn ei wneyd yn brawf. Yr un fath yn y fan yma, naturioldeb difwriad gwyर्थiau yr Iesu sydd yn eu gwneyd yn brofion o'i Ddwyfol arfoniad ac o'i Dduwdod. "Gwel na fynegych i neb," oedd ei arwyddair wrth eu cyflawni. Y maent yn ei ddangos Ef y peth ydyw, yn union am nad yw Efe yn ceisio dangos ei hunan trwyddynt.

Nid oedd y Dr. Dodds lawn mor foddhaol ar yr Iawn; eto ar hyn hefyd fe osododd yr holl dir ger bron gyda thegwch ac eglurder anghymharol; ac y mae eglurhad goleu ar beth na byddwch chwi ddim yn llwyr gytuno ag ef yn ddeg gwell na datganiad niwliog cymysglyd, na wyddoch chwi ddim pa un ai cytuno ai anghytuno y byddwch. Yr anhawster, mor bell ag y mae dysgeidiaeth yr Iesu ei hun yn mynd, yw fod yr Arglwydd Iesu yn dweyd fod yn rhaid iddo farw, ond heb ddweyd paham. Buasai eglurhad llawn ar ystyr ei farwolaeth, cyn ei farw, yn annealladwy. Os yw y gair "prijwerth dros lawer" i'w ddeall yn

ystyr Iuddewig y gair a gyfieithir "pridwerth,"—yr ystyr sydd iddo yn y LXX.,—rhaid i ni olygu fod marw Crist yn ol ei ddysegeidiaeth Ef, yn sail maddeuant. Y mae llawer i'w ddweyd, bid siwr, dros y syniad diweddar am aberth fel y ffordd oreu i wella dynion; ond y mae mwy na hynny yn y syniad Iuddewig; a'r tebyg yw fod yr Iesu yn bwriadu i'r syniad gael ei ddeall fel y deallid ef yn naturiol gan ei wrandawyr Ef. A rhyw swm felly sydd yn ei eiriau: "Hwn yw fy ngwaed i o'r Testament Newydd, yr hwn a dywelltir dros lawer er maddeuant pechodau." Gallwn gasglu hyn yma, beth bynnag am chwaneb: yr oedd yn rhaid wrth anghyngroes er mwyn dau beth o leiaf,—er mwyn deffro edifeirwch yn y pechadur, ac er mwyn mawrhau y gyfraith trwy ddangos drwg pechod. Mewn geiriau ereill, yr oedd yr aberth hwnnw yn angenrheidiol i gyfaddasu dyn i dderbyn maddeuant, ac i rwystro i faddeuant Duw gael cam. Nid diogel maddeu i ni ond yng nghysgod y groes. Yn awr, ni a ddylem addef fod elfen bwysig o wir yn yr athrawiaeth yna, a hwnnw yn wir y byddai yn dda i dduwinyddiaeth Cymru roi mwy o bwyslais arno, sef mai nid yr Iawn sydd yn gwneyd Duw yn faddeugar. Y mae Efe yn faddeugar eisoes. Datguddiad o'i faddeugarwch, a'i ffordd Ef i faddeu ydyw yr Iawn. Eithr gwendid yr athrawiaeth yw gadael heibio wirionedd sy'n sail angenrheidiol iddi. Ni buasai yr Iawn ddim yn mawrhau y gyfraith, nac yn deffro edifeirwch, oni bai ei fod yn angenrheidiol er mwyn i bechod gael ei faddeu. Fel y dywedai y Dr. Dodds ei hun ar bwnc y gwyrthiau, na buasai gwyrthiau er mwyn dangos dim; felly yn union ni buasai aberth er mwyn dangos drwg pechod ddim yn dangos hynny. Am fod yn annichon maddeu heb aberth y mae yr aberth yn dangos drwg pechod. Mewn sylw arall ar yr un pwnc rhoes y darlithydd ei hun le i'r syniad ddarvoud i Grist ddiweddef cosb pechod. "Y mae y dioddef sydd yn ganlyniad pechod—pa un bynnag ai y pechadur ai rhywun arall oherwydd ei berthynas â'r pechadur fyddo yn dioddef—y mae yn ei natur yn gosb." Eithr nid oedd y Dr. Dodds yn priodi y ddau syniad, y syniad am yr aberth mawr fel cosb pechod, a'r syniad am dano fel ffordd i faddeu i'r euog. Onid yn y cyfeiriad yna y mae y cyflawn wir i'w gael? Onid dyma hanfod aberth, y cyflawn dros yr anghyflawn, y maddeuwr yn dioddef cosb y troseddwr? Hwyrach y cawn air eto ar hyn, pan ddown ni at sylwadau y Dr. Fairbairn ar yr un mater.

Dibennodd cyfres darlithiau y Dr. Dodds dan ei choron. Yr oedd yr olaf o honnynt gystal a'r un o'r chwech. Dysgeidiaeth yr Iesu ar "Ddiweddedd pob peth" oedd y testyn. Ceir yr Iesu yn son am o leiaf dri pheth fel dyfodiad Mab y dyn; yr ymweliad barnol â'r genedl yn ninystr Jerusalem, ei ddyfodiad yn ei deyrnas, a'i ddyfodiad yn niwedd y byd. Y canol yna sy'n bwysig iawn i ni graffu arno i fedru dadrys rhai clymau ynglyn â'i ddysegeidiaeth ar y pwnc. Dichon mai y dyfodiad gwastadol hwnnw yn ei frenhiniaeth sydd ganddo Ef mewn golwg lawn amlach nag y byddwn ni yn tybied. "O hyn allan," dyna'r Cyfieithiad Diwygedig, "O hyn allan y gwelwch Fab y dyn yn eistedd ar ddeheu-law y gallu, ac yn dyfod ar gymylau y nef." Dyna'r adnod fawr ar y mater; a rhaid mai nid at ryw un dyfodiad penodol y cyfeirir ynddi. O'r seithfed o lyfr Daniel y cymerodd yr Iesu,— "Un megys Mab y dyn yn dyfod gyda chymylau y nefoedd." Yn awr, pe buasai "dyfod gyda chymylau y nefoedd" yn y fan yna i'w ddeall yn llythrennol, rhaid fuasai deall y môr y mae y bwystfilod yn dyfod

i fyny o hono yn llythrennol yr un modd; ac ni feddylodd neb am ddeall hwnnw'n llythrennol. Brenhinoedd ydyw y bwystfilod, neu freniniaethau; ac nid o'r môr yn llythrennol y daw y rheiny. Felly nid cymylau llythrennol a feddylir chwaith, yng ngeiriau Daniel nac yn nyfyniad yr Iesu. Fe gamgymerodd y disgyblion ar y cyntaf y dyfodiad oedd i ddechreu rhag blaen, cyn yr elai y genhedlaeth honno heibio, am ddyfodiad diweddf Mab y Dyn. Digon o brawf na chamgymerodd Efe ei hunan ddim yw ddarfod iddo rybuddio ei ddisgyblion rhag y camgymeriad; "ni ddaw y diwedd yn y man" (Luc xxi. 10). Ond beth, atolwg, am y ffigyrau cryfion a arferir ganddo,—yr haul yn tywyllu, ac yn y blaen? Gellid meddwl ei fod yn nodi yr arwyddion yna weithiau, beth bynnag, gyda golwg ar bethau a ddeuent i ben yn yr oes honno. A oes modd i'r ymadroddion hynny gyfeirio at ryw beth llai na diwedd y byd? Ni a wyddom fod y proffwyd Esaiah, er engraifft, yn son am ddinystr y mân genhedloedd oedd o amgylch Israel o dan ffigyrau pur gyffelyb, i ddangos llwyredd y dinystr y sonir am dano, fel pe buasai'r byd yn ymddatod. Yn iaith gynhefin proffwydoliaeth, darlunir unrhyw gynhyrfaid mawr yn hanes gwlad, ac yn enwedig yn hanes crefydd, dan ffigyrau y dymestl a'r daeargryn; a gwelai Petr gyflawniad o broffwydoliaeth Joel,—“Yr haul a droir yn dywyllwch, a'r loer yn waed . . .” yng nghyngyfrifiadau ysbrydol dydd y Pentecost. Paham, ynte, na allai yr Arglwydd Iesu hefyd arfer cynhyrfiadau dieithraf anian yn ddamhegion am gynhyrfiadau ysbrydol?

Darn rhagorol o dda oedd y darn ar “Dragwyddol Gosb.” Dywedai y Profeswr fod cryn lawer yn ysbryd yr efengyl a allai beri i ni obeithio am adferiad i bawb, ond dim yng ngeiriau Iesu Grist ei hun. Trinodd olygiadau y Dr. Cox a'r Archddiacon Farrar yn ddiarbed, ac eto'n berffaith deg; nid mewn ysbryd dadl o gwbl, ond dan chwilio yn ddiwyll am y gwir. Dyma un engraifft:—Dywed Cox mai puro, ac nid dinystrio, oedd gwaith y pryf a'r tân yn nyffryn y celaneddau, y peth y cymerwyd y ffigyrau yna oddiwrtho. “Ie,” meddai Marcus Dodds yn ateb, “ie, puro; ond puro pa beth? Puro'r awyr, yn ddiaddad, puro cymdeithas; nid puro y celaneddau a ysid gan y tân a'r pryf; dinystrio'r rheiny, yn bendifaddeu.” Dywedai mewn cynhadledd un o'r nosweithiau, yn ateb i gwestiwn, nad oedd efe ei hun wedi gwneyd ei feddwl i fyny ar y pwnc; y gallai fod yr Arglwydd Iesu heb ddefnyddio rhyw bethau a fuasai yn newid ein syniad am gosb yr annuwiol mewn ffyrdd nas gallwn ni eu dychmygu; eithr nid oedd dim a gashai yn fwy na'r dull yr oedd rhai wedi ystumio a gwyrdroi geiriau plaen Iesu Grist. Nid dyna'r ffordd, beth bynnag, i sefydlu unrhyw athrawiaeth.

Yr wyf wedi ymdroi yn o hir gyda'r darlithiwr cyntaf, nes dechreu meddwl mai “Darlithiau Marcus Dodds,” dylsw'n i roi uwchben fy ysgrif; eithr teg i minnau gael dweyd fy rheswm. Yn un peth byddaf yn meddwl yn wastad mai gwell cael hanes,—pan fydd raid i'r hanes fod yn fyr,—mewn siampl neu ddwy, hawdd eu cofio, nag mewn braslun a amcanai gynnwys y cwbl. Peth arall, fe gyfrifid y darlithiau hyn,—hyd y gellais i ymwranddo â'r farn gyffredin,—gyda'r rhai goreu o'r cwrs i gyd. A pheth arall fyth, yr ydys yn lled sicr y ceir, gyda bendith, a hynny yn o fuan, sylwedd amryw o'r cyfresi ereill mewn llyfrau o waith y gwahanol awdwyr. Dywedodd Bruce, fod llyfr iddo eisoes yn llaw

yr argraffydd, yn cynnwys deunydd ei ddarlithiau ef. Lled-addawodd Fairbairn hefyd, gyhoeddi ei rai yntau mewn rhyw ffurf. Ac y mae si pur gredadwy y ceir gan y Principal Edwards esboniad eto, beirniadol, ar yr Epistol at yr Hebraeid, yn cynnwys sylwedd ei ddarlithiau ef. Ond nid oes cyffelyb sicrwydd, hyd y gwn i, am ddarlithiau Dodds. Dyna'r pahan y rhois i gymaint, yn ol hyd fy ysgrif, o le iddynt.

Swynwyd pawb rhag blaen gan ddull syml, dirodres, a di-gwmpas y gwr hwn o ddweyd ei feddwl; ac y mae ei ysbryd llednais wrth drin y rhai a feirnielir ganddo a'i ddull parchus o son am danynt, yn eithaf patrwm i'r rhai sydd yn ei feirniadu yntau. Fel llefarwr y mae wedi gwella'n ddirfawr er pan glywais i ef o'r blaen, ryw naw mlynedd yn ol, er ei fod y pryd hwnnw ynghylch hanner cant oed. Yr oedd ei ddull y tro hwnnw yn rhyfeddol o'r dibwyslais. Y mae erbyn hyn, nid yn unig wedi magu pwyslais, ond hefyd wedi llithro ar ryw fannau yn y frawddeg i dinc ddoniol, hanner chwareus, rhywbeth rhwng synnu a chwyno. Rhwng pobpeth yr oedd y darlithiau hyn o eiddo Marcus Dodds, o ran eu dylanwad ar y dosbarth, yn well na llawer pregeth, a hynny heb amharu dim arnynt fel darlithiau.

Y nesaf a ddechreuodd oedd y Principal Cave. Tair darlith ar "Athroniaeth Synwyr Cyffredin yn Sail pob Duwinyddiaeth." Yr oedd hwn, ac arfer gair gwlad, y deydwr goreu o honynt oll, ond fod ganddo lai i'w ddweyd na neb o honynt. Teimlech wrth ei wrando, eich bod yn gwranddo llawer o bethau buddiol a da yn eu lle, a llawer o ddawn gwisgo wedi ei wario arnynt; ond pan aech i'w hystyried yngwryneb prif neges y darlithydd, rhaid addef eu bod yn mynd i le go fychan. Parai un peth ynddo i mi gofio am yr Archddiacon Farrar. Y dyfynion yn ei ddarlithiau o awduron creill,—ac yr oedd y dyfynion yn llawer,—oedd y pethau goreu o ddim rheswm. Dyn wedi darllen peth anghyffredin ydyw y Dr. Cave, a chanddo arddull lithrig, ond termog ryfeddol, fel, erbyn i chwi dynnu ei ddywediadau o'u plygion yr oeddynt yn eich siomi.

Gallai fod eisieu gair o eglurhad ar bennawd y darlithiau hyn. Arferir y gair "synwyr cyffredin" yma yn ei ystyr athronyddol wrth reswm, ac nid yn ei ystyr boblogaidd o gwbl. A dyna feddylir mewn athroniaeth wrth athrawiaeth synwyr cyffredin, yr athrawiaeth fod ymhob canfod ymwybyddiaeth drifflyg: ymwybyddiaeth o'r canfyddiad, o'r canfyddwr, ac o'r peth a ganfyddir. Pwnc arall yw, pa briodoldeb sydd mewn galw hynny yn athrawiaeth synwyr cyffredin; ond beth bynnag am hynny, dyna hi. A gosodiad y darlithydd oedd, mai y ddysgeidiaeth athronyddol yna yw sail pob duwinyddiaeth. Danghosai trwy hanes meddwl crefyddol y byd, fod athroniaeth pob cyfnod wedi effeithio yn ddwfn ar ei dduwinyddiaeth,—peth na wii i neb ei ameu; ac yn wir fe gafwyd ar hynny gryn lawer o wybodaeth ddyddorol iawn. Ond wedyn, beth y mae hyn yn ei brofi ar brif bwnc y darlithiau? Un peth yw dweyd fod athroniaeth oes yn effeithio ar ei duwinyddiaeth; peth gwahanol iawn yw dweyd fod unrhyw athroniaeth neillduol yn sail pob duwinyddiaeth. Ai ar athroniaeth o gwbl y dylai duwinyddiaeth orffwys? Y mae athroniaeth yn help mawr i drin duwinyddiaeth, ac yn bwysicach, fe allai, at drin duwinyddiaeth nag at yr un o'r gwyddorau ereill; a diameu fod rhai cyfundrefnau athronyddol, megys materolaeth, yn gwneyd duwinyddiaeth yn amhosibl; ond er fod rhyw fathau ar athroniaeth yn fwy cydwedd â duwinyddiaeth na'u gilydd,

gall duwinyddiaeth fod o ran ei sail yn annibynnol ar athroniaeth. Syniad ynghylch natur gwybodaeth yw yr hyn y chwilia yr athronydd am dano; chwilio am wybodaeth ar bynciau neillduol y mae duwinydd. Yn awr, nid oes bosibl na all dyn chwilio am wybodaeth ar bynciau neillduol yn annibynnol, i raddau, ar ei syniad ef am natur gwybodaeth yn gyffredinol. Bwriwech fod athronydd yn gwadu nas gallwn ni gael sicrwydd fod byd oddi allan i ni. Dyna un o'r tri anhepgor a nodwyd ar ol gan hwnnw. Nid wyr efe ddim i sicrwydd, ond ei fod ef ei hun, ac iddo ef bod rhyw bethau yn ymddangos fel a'r fel. Ni fyddai raid iddo ef ddim gwadu y bod o Dduw; oblegid er i ni addef er mwyn ymresymiad, nad yw ymwybyddiaeth dyn yn datguddio byd oddi allan i ddyn, y mae yn gwestiwn er hynny, ai nid yw ymwybyddiaeth yn datguddio Duw, fel nad oes dim rhaid i ddyn gael y tri yna yn ei syniad am wybodaeth,—y canfyddiad, y canfyddwr, a'r peth a ganfyddir,—er mwyn cael lle i Dduw yn ei gredo. Yn nysgeidiaeth y Dr. Cave, y mae y coel sydd i'w roi ar ein hymwybyddiaeth o Dduw a'r byd ysbrydol, yr un fath â'r coel a roddir gennym ar ein hymwybyddiaeth o fyd y synhwyrau. Y gwir am dani hi yw, hyd yn oed pe gellid profi mai breuddwyd yw ein gwybodaeth o'r byd materol oddi allan, ni phrofaei hynny ddim wedyn na all fod ein gwybodaeth am Dduw a'r byd ysbrydol yn wirionedd. Nid yw canfod yn y byd gweledig, a chanfod yn y byd anweledig, ddim yn hollol ar yr un tir. Y mae, ar y naill law, mewn pethau ysbrydol fwy o le i gamgymeryd, ac, y llaw arall, fwy o sicrwydd hefyd. Y mae yn anos i ddyn fod yn sicr o'i ganfyddiad a'i ddarganfyddiadau; y mae llai o help i'w gael yn y cylch culaf oddi wrth brofiad dynion ereill; ond wedi iddo unwaith gael sicrwydd, y mae yn anos ei daeru allan o'i argoeddiadau nag a fuasai ei daeru o'i gred fod y byd oddi allan yn bod. Er mai hollol wir yw fod dyn wedi ei ddonio â llygad ysbrydol i weled yr anweledig mor wirioneddol ag y mae ganddo lygad o gnawd i weled o'i amgylch, nid yw y ddau lygad yr un fath ym mhopeth. Nis gellir bob amser ymresymu yn ddifêth o'r naill at y llall.

Nid oes lle i ymhelaethu ac i roi braslun o'r tair darlith. Swm y cwbl a glybuwyd yw hyn,—fod coel ar ein gwelediad ysbrydol mor wirioneddol ag ar ein gwelediad cyffredin. Ni ddywedwyd erioed well gwir; ond nid y ddadl a ddygwyd yn y darlithiau hyn dros ei gredu yw y ffordd ddiogelaf i'w gadarnhau.

Yr oedd darlithiau y Canon Driver yn dda wrth gwrs; eithr nid oedd ei bwnc yn un hawdd ei drin mewn darlith i gynulleidfa liosog. Pwnc dosbarth yn fwy na phwnc darlith ydoedd esbonio y Proffwyd Hosea o adnod i adnod. Nid yw Driver yn llefarwr medrus chwaith. Y mae rhyw ebwch a rhyw ysgytiad yn ei ddull o barablu. Ni fyddai ddim rhyfedd i'w nodiadau yntau gael eu cyhoeddi; ac os cant, bydd eu darllen yn wledd. Fel y maent, o'u clywed unwaith, byddant yn werthfawr dros ben. Daw y cof am danynt i fyny yn fyw iawn, wrth ddarllen y Proffwyd Hosea yn hamddenol gartref. Ond nid dim byd o beth yw fod gwr eglwysig o safle y Canon, ac un arall, mor adnabyddus ag yntau yn ei faes ei hun, y Dr. Sanday o Goleg Exeter, wedi darlithio i gynulleidfa a wneid i fyny bron i gyd o bregethwyr Ymneillduol.

Un o'r pethau goreu a gafwyd o gwbl oedd tair darlith y Proffeswr Francis Brown, o'r America, ar "Saerniaeth Llyfrau Hanesyddol yr Hen Destament." Dywedid gan y rhai a honnont wybod,—ni wn i

ddim,—fod llawer o'r pethau a ddywedodd efe i'w cael yn llyfr y Canon Driver ar yr Hen Destament; ac awgrymai y Proffeswr ei hun rywbeth tebyg. Ond waeth pa'r un am hynny; yr oedd o'n dweyd ei bethau mor ddi lol, mor glir, ac mewn ysbryd mor ragorol, fel yr oedd ei addysg yn hawdd ei gwrandao ac yn hawdd ei choſio. Aeth yn fras dros y llyfrau hanesyddol bron i gyd, gan ddangos mai dodi y cofnodion y codid yr hanes o honynt wrth eu gilydd fel yr oeddynt, heb geisio eu cydweu yn gyfanwaith cyson, oedd dull cyffredin yr haneswyr. Yr unig eithriad o bwys yw dau lyfr y Cronicl. Y mae yr hanesydd yno wedi trefnu a chysoni ei ddefnyddiau yn debycach i'r fel y gwna hanesydd diweddar, a chanddo ddiben penodol mewn golwg, sef hyfforddi a chadarnhau y genedl mewn ffyddlondeb i ddefodau y Deml, pan yr oedd y defodau hynny wedi cyrraedd eu llawn dwf. Dan ddylanwad y gyfundrefn offeiriadol addfed yn y dyddiau ar ol y gaethglud yr ysgrifennwyd y Cronicl. Oddieithr y Cronicl, y mae y llyfrau ersill, at eu gilydd, y peth a alwech chwi yn llyfrau cyfansawdd. Ac yn lle tynnu oddiwrth eu gwerth, fel y buasad ar yr olwg gyntaf yn tybied, ychwanegu at eu gwerth fel llyfrau hanes y mae hynny. Gwaith da iawn, erbyn hyn, na amcanodd yr haneswyr, at eu gilydd, ddim at lunio cyfanwaith llenyddol; canys at fedru profi dilysrwydd yr hanes yn ol rheolau beirniadaeth, y mae y dull a gymerodd yr haneswyr Beiblaidd yn well. Y maent wedi dodi y defnyddiau ynghyd heb guddio'r gwniadau; ac felly y mae hyd yn oed y mân anghysonderau a geir rhwng gwahanol ddarnau yr un llyfr, yn wasanaethgar i brofi i sicrwydd, weithiau, o ba le y codwyd yr hanes. Am hynny gallwn ni fod yn bur dawel am ddilysrwydd yr hanes, hyd yn oed pan y mae y llyfr dan sylw yn llyfr diweddarach o lawer na'r digwyddiadau a gofnodir ynddo. Ceir arwyddion amlwg fod yr awduron yn fynych, pa fo yr hanes a gofnodant wedi digwydd cyn cof iddynt hwy, yn codi o hen lyfrau, cyfamserol bron, o bosibl, a'r digwyddiadau. Cyfeirir at rai o'r llyfrau hyn dan eu henwau,—“Llyfr Jaser,” “Llyfr Cronicl Brenhincodd Judah,” nid yr un un a llyfr y Cronicl sydd gennym ni. Fel hyn gallwn fyned yn ol i ymyl y digwyddiadau a goffeir. Pa bryd bynnag yr ysgrifennwyd llyfr y Barnwyr yn ei ffurf bresennol, y mae rhyw ddarnau o hono,—Cân Deborah yn enwedig,—yn dwyn arwyddion, yn yr iaith a'r cwbl, o'u bod yn hen iawn. Felly am lyfrau Moses. Pa un bynnag a goaliwn ni y Dr. Brown ai peidio, yr oedd ei ddull difrif, goleu, a gwir dduwiol-frydig, o drin ei bwnc, yn hawlio edmygedd pawb. Buasai ei ddarlithiau ef ei hunan yn ddigon o ddeunydd erthygl hwy na hon. Yr wyf yn eu gadael gyda hynyna o sylw, am eu bod yn rhai nodedig o anodd gwneyd tegwch â hwy mewn cwmpas byr.

Cafwyd un ddarlith ar un o'r nosweithiau gan y Dr. Briggs. Mawr oedd y chwilfrydedd am ei glywed, wedi bod cymaint o son am ei enw; ja mawr y siom o'i gael yn llai galluog dyn nag y disgwyliem ei gael. Siom anhyfryd ryfeddol yw cael merthron unrhyw oes yn ddyinion go gyffredin, rai o honynt, wedi'r cwbl. Ac un o'r merthron ysbryd beirniadol yr oes hon ydyw y Dr. Briggs. Perthyna i'r un ysgol o feirniad â Brown; ond y mae dirfawr wahaniaeth rhwng y ddau ddyn. Peth sy'n sicr o greu rhagfarn ddianghenraid, a rhagfarn heb fod i gyd ar fai, ydyw trin pethau difrif mewn rhyw ddull hanner smala, fel dyn heb deimlo yr anhawsterau. Rhyw ddarlith ddel, daclus, oedd gan Briggs. “Llyfrau o waith Dychymyg yn yr Hen Destament.” Y mae

rhyw dri o honynt ar gân,—Llyfr Job, Cân y Caniadau, a Llyfr y Pregethwr; a thri mewn rhyddiaeth,—Jonah, a Ruth, ac Esther. Ychydig o honom ni, Gymry, sy'n ddigon o ysgolheigion i farnu pa faint o hyn a ddylem ni goelio. Y mae y prafw o hono yn troi ar bethau sydd, cyn amled a pheidio, o'n cyrraedd ni,—megys oed yr iaith, ac yn y blaen; ond pe gallai dyn goelio pob gair, ni fyddai meddwl dyn fawr uwch o'r Dr. Briggs fel un o apostolion syniadau beirniadol yr oes. Nid oedd ei ddull *dogmatic* o daraw peth yn ei ben, fel pe buasai wedi ei benderfynu am byth, a'i duedd gref i liwio ei arddull â ffigyrau newyddiadurol cryfion,—er gwneyd pob cyfrif teg o'i neillduolion fel Americanwr,—ddim yn ennill ein cydymdeimlad.

Oni bai am y dull papur yna o drin pynciau difrif, buasai y darn ar Jonah yn dda iawn. Danghosai mai rhyfeddod annhebyg iawn i'r cyffredin o wyrthiau y Beibl oedd cadw Jonah yn fyw cyhyd ym mol y pysgodyn, a rhyfeddod heb unrhyw ystyr ysbrydol ar y pryd iddo. Y mae gwyrthiau y Beibl, yn wastad braidd, mewn rhyw gysylltiad byw, pwysig, â'r hanes, ac fel rheol yn gwasanaethu y datguddiad yn uniongyrchol. Ni wn i ddim, chwaith, a ydyw hynny yn ddigon o brawf mai gwaith dychymyg, mai dameg er mwyn addysg, yw llyfr Jonah, ai peidio; ond yr oedd gan y Dr. Briggs beth arall. Nid oes dim gair o son yn llyfr y Brenhinoedd am daith Jonah i Ninefeh, er fod enw Jonah yn cael ei grybwyll, na gair o'i hanes fel proffwyd gartref yn cael ei roi. Ond y peth goreu i gyd, am a wn i, oedd ateb y darlithydd i'r ddadl gryfaf o bosibl ynghyfrif rhai, yn erbyn cymryd "Jonah" yn waith dychymyg, sef bod yr Arglwydd Iesu yn gwneyd defnydd o'r stori. "Paham," ebai y Dr. Briggs, "na allai yr Iesu ddefnyddio hanes dychmygol o'r Hen Destament," ac yntau yn arfer hanesion dychmygol beunydd ei Hunan yn ei ddamhegion?" Nid wyf yn sicr eto fod y pwnc wedi ei brofi; ond fel ateb i wrthddadl y mae y sylw uchod yn un da iawn. A gwrthddadl ydyw honyna y byddai'n burion bellach cael darfod a hi. Pan ddywedodd dyn mor fawr a'r diweddar Ganon Liddon, ddarfod i'r Arglwydd Iesu Grist "roi sel anffaeledig ei gymeradwyaeth wrth bob rhan o'r Hen Destament, y mae yn bryd i ni adgoffa ein gilydd, nad yw y dull y defnyddir llyfrau'r Hen Destament gan yr Iesu, ddim yn torri pob dadl feirniadol yn eu cylch." Bum yn meddwl lawer gwaith peth mor arwyddocaol yw gwaith yr Iesu yn defnyddio, mewn un amgylchiad beth bynnag, hanes y gwyddai ei wrandawyr am dano,—hanes Herod yn nameg y punnoedd, ac yn chwaneu rhai pethau at yr hanes fel y ceir ef mewn llyfrau ereill, er mwyn ei gyfaddasu at ddibenion y ddameg, a phawb, debygid, yn deall ei fod yn gwneyd hynny. Yn awr os mentrodd yr Iesu newid hanes er mwyn gwneyd dameg o hono,—pa mor ychydig bynnag oedd y newid,—pa faint tebycach y defnyddiai Efe hanesion fel y ceid hwy yn yr Hen Destament, heb na gwadu na chadarnhau gwirionedd yr hanesion fel hanesion, na dilysrwydd y llyfrau chwaith. Pan ddefnyddir hanes fel dameg, ar yr addysg, ac nid ar yr hanes, y mae y pwys i gyd.

Mi adawaf y darlithiau a'r darlithwyr ereill, ynghyd a'r cynhadleddau, —rhan bwysig iawn o'r Ysgol Haf,—hyd DRAETHODYDD Tachwedd. Ni a glywsom athrawiaethau amryw, ac o bosibl *rhai* diethr. Cawsom agoriad llygad ar feusydd pwysig a newyddion. Teimlid trwy y cwbl fod y gwirionedd fel y mae yn yr Iesu yn cael tegwch, a chalonnau gweinidogion y Gair, yn gystal a'u deall, yn cael eu hadnewyddu

trwyddo. Mi wn fod rhai dynion da a garent gelu dadleuon beirniadol oddi wrth y werin. Y Deon Church, onidé, oedd yn gresynu na fuasai modd trin pynciau fel y rhai hyn yn Lladin, rhag ansefydlu meddyliau dynion diwybod. Ni welwn i yn fy myw ddaioni o hynny; a bydd clywed ein cyngori ni i hynny yn peri i mi feddwl am eiriau Job,—“A ddywedwch chwi anwiredd dros Dduw? a ddywedwch chwi dwyll er ei fwyn Ef? A dderbyniwch chwi ei wyneb Ef? a ymrysonwch chwi dros Dduw?” Nid oes ar y gwirionedd ddim eisieu ffafraeth na dyfais i'w gadw ar ei draed. Nid ydyw celu'r gwir, er i hynny gael ei wneyd ymhlaid y gwir ei hunan, ddim yn lles. Eto fe synia'r darlennydd fod rheswm da dros y peth a ddywedwyd gan y Dr. Fairbairn, cyn i ni ganu yn iach â'r lle:—“Peidiwch a defnyddio dim o'r pethau a glywsocch chwi yma nes i chwi eu gwneuthur yn feddiant llwyr i chwi eich hunain.”

J. PULESTON JONES.

“OND YR IESU A DAWODD.”

I.

“Yr Iesu a dawodd,” dyna ffaith ryfeddol:
 Yr Hollalluog Dduw! Y Gair tragwyddol!
 Yr Hwn o'i fawr ddoethineb pan aeth allan
 Mewn creadigaeth i amlygu ei Hunan
 Yn y dechreuad, dorrodd ar ddistawrwydd
 Y chaos gwreiddiol yn ei ddwfn gysgadwrwydd.
 Fel Duw trwy'r dim melltennai'r BYDDED dwyfol—
 Goleuodd wyll y tryblith anfesuro!;
 Anadlodd gân yng ngenau sér y bore,
 A chrogodd fydoedd fyrddiwn yn y gwagle;
 Cynheuodd heuliau trwy y maith wybrenfyd,
 A threfnodd lwybrau y comedau ffamlyd:
 Ac yn yr oll, ymchwyddai ei foddineb
 Yn donnau mawl ar draethau tragwyddoldeb.

“Yr Iesu a dawodd.” 'Roedd ei lais ar Sinai
 Fel swn taranau; trwyddo'r mynydd grynai,
 A chenedl gyfan megys coedwig siglai
 Gan faint ei dychryn, pan ei ddeddf gyhoeddai.

Tra'n rhodio daear yn y cnawd, y gwyrtbiau
 Ddisgwylient ddiferyniad gair o'i enau;
 Ei eiriau oeddynt wirioneddau dwyfol,
 Tywalltent ar y byd sancteiddrwydd nefol.
 Llefarai ymaith heintiau a chlefydon,
 A dychryn i galonau drwg-ysbrydion.
 Llefarai osteg i gynhyrfus donnau,
 Ac adgyfodiad i gaethweision angau;
 Ond er y gwyrtbiau gyda'i air gyflawnodd,
 Amlygai fwy o'i Dduwdod pan y *tawodd*.

II.

O'r uwch-ystafell, wedi'r Swper ola,
 A chanu hymn, fel cân telynuau Gwynfa,
 Aeth Iesu allan gyd a'i brudd ddisgyblion,
 I hedd-unigedd gardd, dros afon Cedron.
 O fyth-gofiadwy nos! Pwy all ddarlunio
 Yr Iesu yn ei ingoedd yn gweddio!
 O ddyfal daerni! Y mae'n llefain allan:—
 “Os ydyw hynny'n bosibl, aed y cwpan
 Hwn heibio; ond d'ewyllys Di a wneler,
 Nid fy ewyllys i; do, daeth fy amser:
 Rho nerth, O Dad, i sefyll yn y frwydr
 I *deu*, fel cyflawner pob Ysgrhythr.”

Ar hanner nos tra y'mreichiau cwsig yr esmwyth hunai'r
 Yn effro a phryderus, ymgasglai Cyngor brâd; [wlad,
 Henuriaid Pharisëaidd, Ysgrifenyddion câs,
 Gelynion anghymodlawn i rinwedd pur a gras;
 Cenfion front a malais a ffyrnig ragfarn ddall,
 Gynhyrfai'r llys yn barod at greulawn waith y fall.
 Y lliidiog Archoffeiriad, Caiaphas aflan fryd,
 Flaenorai'r glymblaid waedlyd i ladd Gwardedwr byd;
 Y bradwr cyflogedig oedd allan y pryd hyn,
 A'r fyddin arfogedig, mawr fintai'r cledd â'r ffyn,
 Yn dal y cyfiawn Iesu drwy rym bradwriaeth erch;
 O gusan melldigedig a'r wefus Dwyfol serch!
 Fel mellt mewn cyffion fflachio wnai eu lanternau hwy,
 Ond yn eu trem dialedd a fflachiai lawer mwy;
 Daeth “gallu y tywyllwch” i'w cynorthwyo'n llon,—
 Yn ofer fflamiai Uffern y nos fyth-gofiol hon.

Ynghanol cyffrawd enbyd y dygwyd dan ei boen,
 O flaen ei hyf elynion, yn fud yr addfwyn Oen;
 Yn llwfr a dychrynedig ffoes ei ddisgyblion cŵn,
 Yn nwyllaw ei lofruddwyr gadawsant Ef ei hun,
 Mor ddürmygedig ydoedd, tra'i chwys drwy 'i wisg yn waed,
 Ar ol ei ymdrech yn yr ardd ddefnynnai wrth ei draed;
 Mor welw a marwolaeth, gan ei gyfyngder mawr,
 Mewn newyn, ing a syched, bron syrthio ar y llawr;
 Er hynny, mawredd dwyfol ordöai'i wyneb cu,
 Fel goleu haul wrth fachlud yn curo cwmwl du.

Edrychai'r Cyngor haerllug mewn gwawd ar Dwysog Iôr,
 Crychferwai ei ddigofaint fel tonnau'r berwawg fôr;
 Aeth aeliau y cableddwyr yn orseddfeinciau gwag;
 Mor wâg oedd eu calonau ag ydyw nef o ddrwg,
 O bob tosturiol deimlad; mor llawn o wyniau brad,
 Ag ydyw yr afagddu o boenau a sarhâd.

Cenhadon anghyfiawnder gyniweirient,
 Am gau-dystiolaeth yn ei erbyn chwiliant;
 Gau-dystion lawer, bythol warth i'n daear,
 A ddaeth o'r diwedd, anudonwyr beiddgar;

Yn llunio twyll, ac yn gwyrdroi'r gwirionedd,—
 Rhyw ymgawdoliad oeddynt o anwiredd :
 A'r Iesu'n fud, tra'n gwrandaw swn rhaiadrau
 Dichellion dieifl yn llofo o'u geneuau.
 Ei dawedogrwydd droes y llys i synnu ;
 I'w holi Caiaphas falch gyfodai fyny,
 Y pryfyn distadl ! Safai'n hyf yngwyneb
 Yr Hwn â'i drem oleuai dragwyddoldeb ;
 Yr Hwn ganfyddai 'i galon i'w gwaelodion,
 Fel llyfr agored yn ei holl ddirgelion ;
 O law yr Hwn 'r anadlai ei fodolaeth,
 Ffynhonnell darddiol bywyd creadigaeth.
 " Ai ni atebi ddim," gofynai iddo ;
 " Mae'r tystiolaethau'n gryf, yn dy gondemnio ;
 Terfysgwr ydwyf, ac mae dy ddysgeidiaeth,
 Yn aflonyddu heddwch y wladwriaeth :
 Oes gennyf eglurhad, neu air i'w ofyn,
 Cyn rhoddir dedfryd *euog* yn dy erbyn ?"—
 Yr Iesu'n dawel ar ei farnwyr sylodd,
 Ac megys oen diniwed, do, fe dawodd !

I mewn i'r llys trwy ganol y gelynyon,
 Ymwithodd Pedr yn ofnus a digalon ;
 Awyddai " weld y diwedd," gwneyd ad-daliad
 Am ffoi a gadael ei anwylaf Geidwad ;
 Amheuwyd ef o fod yn ddisgybl iddo,
 A llygadrythai'r dorf mewn digter arno ;
 Fel cennad Satan daeth rhyw lances heibio,
 " Iw ganlyn tithau oeddit," ebai wrtho ;
 Daeth ereill i'w gyhuddo ; yntau grynnai
 Fel deilen yn y gwynt, a'i Arglwydd wadai.
 Ei reglyd lwon fel picellau suddodd
 I galon dyner Iesu,—ond fe dawodd.

Y dwyrain wridai,—haul gyfodai'n llachar,
 O ddydd anfarwol byth yn hanes daear ;
 Yn llyfrau'r nef, hwn ydyw'r dydd cyflawnaf
 O bwysig waith : mae'n fwy na'r Farn Ddiweddaf.

Dan farn condemniad y Sanhedrim, arwain
 Y cyfiawn Iesu wnaent at Raglaw Rhufain ;
 Ynghanol cyffrawd oedd yn chwyddo fwy-fwy,
 Fel môr tymhestlog yn ei chwyra ryferthwy.
 O erch olygfa ! O orymdaith ddigllawn,—
 Eridwyr, milwyr, a cholffarnwyr creulawn ;
 A'u bloedd gableddus gwawdient y Dihalog,—
 Sychedent am ei waed fel eirth newynog :
 Ac yntau'n unig, yn y rhwymau tynion
 Yn mynd ymlaen, heb yngan gair—yn foddlon.

O flaen ei farnwr, safai'r Iesu tirion
 Yn ddistaw, gostyngedig, a heddychlen ;
 Tra crebwyll dyn a diafi ar egni eithaf,
 Yn llunio i'w erbyn y celwyddau bryntaf.

Edrychai Pilat arno yn bryderus,
 Rhyfeddai,—teimlai yn ei wydd yn ofnus :
 Canfyddai ar ei wedd ryw ddwyfol fawredd,
 Ac ni chai ynddo fai, nac unrhyw gamwedd ;
 Y wallgof dorf yn ol i'w wyneb daflodd
 Mewn gwawd ei dedfryd : “ Ond yr Iesu a dawodd.”

Ymsyniai Pilat, yn ei ddwys gyfyngder
 O herwydd dirfawr gyffro'r dorf, nad ofer
 A fyddai anfon Crist at Herod hefyd
 I dderbyn cynghaws a therfynol ddedfryd.
 Fy Iesu anwyl, gyrchwyd tua'i balas
 Trwy ganol berw gwyllt yr orlawn ddinas,
 Gan haid o bagan-filwyr arfog, hyfion,
 Yn ddrych i grechwen dynion ac ellyllon,
 Tra Herod lawenhâi ; bu yn chwenychu
 Ers talm, o wag gywreinrwydd, weld yr Iesu.
 Diagwyliai'n ffol, y llofrudd brwnt hunanol,
 Ei weled yn cyflawni gwyर्थiau nerthol
 O flaen ei wyneb. Hawdd gallasai'r Duw-ddyn
 A gair ei enau droi ei wawd yn ddychryn,
 A gwneyd ei balas llon yn gartref galar,
 Yn lle difrifol megys llys Belsassar.
 Yn sarrug holai Herod ddrygfoes, ddiffaeth,
 Yr Iesu am ei waith a'i weinidogaeth :
 A'r Archoffeiriaid, mewn rhith gwir sancteiddrwydd,
 Yn haerllug a'i cyhuddent, gyda chelwydd ;
 Ond nid atebodd ddim. Y brenin ffromodd,
 Ei natur i'w gwaelodion a gynhyrfodd ;
 Ymunai gyda'i filwyr i'w warthruddo,
 A thafent glaerwen wisg mewn gwawd am dano.
 Yn ddistaw fel y bedd yr Iesu safai—
 “ Fel y tau dafad ger y rhai a'i cneiffai.”

Rhyddhawyd Barabbas y llofrudd cyndyn,
 Fu'n lliwio'i gledd ym mhorffor waed ei gyd-ddyn ;
 Tra'r Iesu cyfiawn ddygwyd i'r Dadleudy
 I'w waradwyddo a'i ryfygus gablu.
 Mor dlawd ei agwedd,—mor drist ei edrychiad,
 Tra iddo'n eiddo holl drysorau'r cread !
 Ei wisg ddiosgai'r milwyr gyda dichell,
 A gwaedai'i sanctaidd gefn dan bwysau'r fflangell ;
 A chan ei boenus watwar a'i gernodio,
 Er gwarth dodasant borffor-wisg am dano ;
 O gylch ei ben plethasant ddrain yn goron,
 Gan wasgu'r pigau i'w arleisiau tlyision,
 Nes ffrydiai'r gwaed ar hyd ei sanctaidd wyneb,
 Ac arno poerent wedyn ! O greulondeb !
 Nid digon hynny ; na, er chwyddo'r ambarch,
 Hwyr roddent gorsen yn ei law, gan gyfarch
 Eu “ Henffych well, O Frenin yr Iuddewon ! ”
 A phlygent lin o'i flaen mewn cellwair cyson.

Ond distaw ydoedd. O ryfeddol Berson,—
 Yn ufuddhau'n wirfoddol i'w elynion !

Yn lleeg a gwan, ger bron y llu terfysglyd,
 Er ceisio toddi eu calonau celyd ;
 Y dygai Pilat Grist unwaith yn rhagor,
 Yn dwyn y goron ddrain a'r wawdwisg borffor ;
 Gan bwysau gwaed pob deilen oedd yn plygu,—
 Defnynnai ar ei wisg, a'r llawr o'i ddeutu :
 O flaen y dorf fel delw fud y safai,
 Ac O pa galon graig yn llyn na thoddai ?
 Llefarai Pilat : " Wele y dyn ! Tosturier."
 Crochfloeddiar dorf : " Croeshoelïer Ef, Croeshoelïer " !
 Dyrchafai'r waedd, ac ychwanegai'r cyffro ;
 Y dorf orffwyllog, nwydwyllt, wancus honno
 O ysbrydoliaeth uffern oedd mor lawned
 A'r gwagle mud o wyll cyn gwawl y Bydded :
 Yn y fath storm o warthrudd, gwawd, a bryntni,
 Ni allasai neb ond Duw anfeidrol *deu*.

Fw olaf ing, cychwynai y Messiah,
 Yn ddistaw megys oen yn mynd i'r lladdfa ;
 Yn gorfod cario'i groes, tra'i gefn yn friwiau,
 Ac ol ei draed ruddgochai gwaedlyd ddfafnau ;
 Y drystio dorf grechwennai—ddyrchai'i chabledd,
 Gan hyrddio'r Iesu ymlaen yn ddidrugaredd.
 Ond dioddefai'r baich a'r gwarth, o'i wirfodd :
 Tra'n syrthio dan ei groes, " Yr Iesu a dawodd."

Ymdyrrai'r dorf ar ffrwst i'r dienyddle,—
 I gario'r groes, daeth Simon o Cyrene,—
 A'r Iesu ddeuai ynghwmni euog ladron,
 Fel oen di fai, yn fud er eu melldithion :
 Yn wrthrych dirmyg, athrod, a chondemniad,
 Cymanfa o wehilion isaf créad.

Felldigaid Groes, ! Eithafbwynt creulonderau,
 Hi dafwyd ar y bryn fel cennad angau ;
 Cwynfannai'r lladron, gwaeddent yn eu cynni,
 Tra'r Iesu'n ddistaw a orweddodd arni.
 O'i fodd estynai 'i draed a'i ddwyllaw sanctaidd,
 I dderbyn hoelion llym y milwyr ciaidd ;
 Ar hyn y Groes gyfodent, gan ei hyrddio
 I'r twll oedd yn y ddaerar wedi 'i gloddio.
 Pwy all ddarlunio llymder ei arteithiau,
 Yn hongian wrth ei ddrylliog gorff am oriau ?
 Diferai 'i waed i lawr yn freision ddfafnau,
 Nes mwydo'r llawr a lliwio'r geirwon greigiau.
 Ond tawel ydoedd,—dioddefai'r loesion,—
 Gweddïai am faddeuant i'w elynion !

Ymronnai yr edrychwyr gylch y crogbren,
 Ac ysgyrnygent yn ei wyneb addien ;
 Ysgydwai ereill ben wrth fyned heibio,
 Gan watwar, herio, cablu, a difrio :

Edliwient iddo 'i sanctaidd ymadroddion
 Mewn cam esboniad, nes trywanu 'i galon.
 Ar eiliad wrth ei air, ffoi yn frawychol
 Dros ddibyn ianfod i ddiddymdra bythol
 A wnaethai'r groes a'r bryn. Angherddol gariad,
 Nid hoelion dur, a ddaliai yno'r Ceidwad!
 Yn ddwyfol ddistaw, safai arno 'i hunan,—
 Gwynebai holl alluoedd byd a Satan.

Y Greadigaeth deimlai, gweld yr Iesu
 Yn marw'n dawl, tra yn cael ei faeddu;
 Gofynai'r haul i'w Grewr am awdurdod,
 I losgi'r annuwlion am eu pechod;
 Gwaharddwyd ef, ymwelwodd ei belydron
 A throes ei wyneb draw i wyllo 'i galon.
 Fel mewn gresyni, holltai'r celyd greigiau,
 A chyrrf y meirw rodiai'n fyw o'r beddau;
 Dirgrynnai'r ddaear, fel mewn pangfa enbyd,—
 Ond safai'r Groes fel Gorsedd Duw heb syfyd.

Y dorf gynhyrfus, giliai mewn euogrwydd,
 Gan adaw'r Iesu yn y dwfn ddistawrwydd;
 Ar hyn i'w Dad, cyflwynai 'i sanctaidd Ysbryd,—
 Gan grymu ei friwiog ben i'w fynwes waedlyd,
 Ac â'i anadliad olaf uchel floeddiodd,
 GORFFENWYD! O'r gorfoledd daran-folliodd
 Drwy'r nef a'r ddaear! Gan y mawr foddineb
 Adseiniai bryniau pellaf anfarwoldeb.
 Gorffennodd iachawdwriaeth gyflawn ini.
 Hosanna mwy: byth ni raid iddo DEWI.

III.

Pan yn creu y disglair fydoedd, ddifyr nofiant fôr y nen,
 Duw lefarai, yna dawnsient o flaen ei orseddfainc wen:
 Ond wrth osod sylfaen gobaith iachawdwriaeth byd i lawr,
 Y tragwyddol Fab sy'n *lewi*, yn ei ddarostyngiad mawr.

Cymyl stormydd llygredigaeth, döai wybren damniol fyd,
 Tafalai cysgod angeu brudd-der dros ei bleser goren 'i gyd;
 Ond fy Ngheidwad pan y *tawodd*, yn nioddefaint marwol glwy,
 Roddodd enfys yn y cwmwl,—hindda i'r pechadur mwy!

“Gwaed,” dolelai deddf doredig, ffachiai mellt cyfiawnder llym,
 A tharanau y digofaint Dwyfol ruai'n fawr eu grym;
 Ond yr Iesu'n neddfle'r euog *dawodd* mewn ufudd-dod llawn,
 A distawodd y taranau ym mheroriaeth Nef trwy'r *LAWN*.

Fel mae'r nos yn ei distawrwydd yn arddangos heuliau fyrdd,
 Olion bysedd yr Anfeidrol drwy y maith ehangder gwyrdd;
 Y mae tawedogrwydd Iesu yn ei ddiodefrol nos,
 Yn arddangos wybren oleu 'i Dduwdod mawr yn ddwyfol dlos;
 Gwelir Cariad, Hunan-aberth, ac Amynedd yn gytân,
 Megys heuliau nad oes machlud iddynt tra bo Duw ei hun.

Do fe dawodd, o dan bwysau camwedd byd,—anfeidrol bwn ;
 Draw, er dyddiau tragwyddoldeb hen gyfamod ydoedd hwn ;
 Cosb ein heddwch ni oedd arno ; pe heb DEWI yn ddilyth,
 Dwyfol gerbyd iachawdwriaeth fuasai wedi sefyll byth.

Ni buasai y Sanhedrim, na byddinoedd Rhufain gref,
 Ond fel mânllwch y cloriannau o flaen ei anadliad Ef ;
 Ond fe dawodd, fel y rhoddai'i einioes dros y byd i lawr,
 Bywyd i farwolion pechod sy'n nistawrwydd Iesu mawr.

Trwy y *tewi* ar y ddaear yn y gwarth, agorodd Ef,
 Ffordd i eiriol dros bechadur, oedd yn fud, wrth Orsedd Nef ;
 Miwsig ydyw cŵyn yr euog, yn haeddiannau'r Dwyfol Waed,
 Trydar enaid mewn cyfyngder gwyd y nefoedd ar ei thraed.

Os mai croesau a gwaradwydd, a chystuddiau yw dy ran,
 Os yw cefnfor gorthrymderau megys pe heb iddo lan,
 Paid a grwgnach, Gristion ; cofia fel y *tawodd* Iesu cun,
 Tra'n dioddef Uffern myrddiwn yn ei sanctaidd gorff ei hun.

Gwawd a deflir ar yr Iesu eto gan annuwiad byd,
 Sethrir ei orchmynion sanctaidd, gwedir gwerth ei Aberth drud ;
 Ail-groeshoelir Aer Gogoniant trwy ei wrthod a'i sarhau ;
 Tra dialedd iddo'n eiddo, *tewi* mae, a thrugarhau.

Ond, rhaid eto ei gyfarfod yn y Farn,—ofnadwy ddydd,
 Gan ddisgleirder ei ogoniant, heuliau'n ffoi drwy'r gwagle fydd ;
 Amgylchynir ei orseddfainc fawr, gan urddasolion Nef,
 Pawb arddela ei lywodraeth, pwy a saif i'w wawdio Ef ?
 Crynna, gwelwa ei elynion, mewn mudandod ger ei fron,
 Uffern fydd ei bresenoldeb iddynt hwy yr adeg hon ;
 Y gair EWCH o enau'r Barnwr, megys corwynt arnynt chwyth ;
 Hyrddir hwynt i wae tragwyddol, lle mae Duw yn TEWI byth.

Caer gybi.

R. MON WILLIAMS.

DAU LYTHYR ODDIWRTH Y PARCH. WILLIAM ROBERTS, AMLWCH.

Ymysg papurau y diweddar Mr. Griffith Davies, Bangor, cafwyd yn ddiweddar y ddau lythyr canlynol oddiwrth y Parchedig WILLIAM ROBERTS, yr hwn oedd yn brïod â modryb i Mr. Davies. Fe welir fod Mrs. Roberts yn bur wael ei hiechyd pan ysgrifennai y llythyr cyntaf, ac yntau o'r herwydd mewn dwfn brofedigaeth. Mae y papur ar ba un yr ysgrifennydd yr ail ag iddo ymylau duon,—ei brïod ddoeth, hawddgar, a rhinweddol, erbyn hynny, wedi ei chymeryd oddiwrtho, a'i feddwl yntau, fel y dywed, "yn angori yn barhaus" yn ei ddwfn alar. Y mae peth arall yn gosod dyddordeb neillduol ar y llythyr hwn ; mae Mr. Davies wedi ysgrifennu ar ei gefn : "Hwn yw y llythyr olaf a ysgrifennodd yn ei fywyd." Mae llawer iawn o'r Cymry yn teimlo parch difesur i goffadwriaeth Mr. Roberts, a llawer ereill wedi eu dysgu i'w fawrhau er heb erioed gael y fraint o'i weled na'i glywed. Bydd yn dda ganddynt oll gael cyfle i ddarllen y llythyr hyn, y rhai, er mewn gohebiaeth gyffredin, ydynt dra nodweddiadol o'r urddas, y caredigrwydd, y synwyr da, a'r duwioldeb uchel oedd yn gwneyd William Roberts,

Amlwch, mor barchedig ac anwyl gan bawb a'i hadwaenai, ac sydd yn gwneyd ei enw i'w genedl yn berarogl parhaus.

Amlwch, Ion. 8, 1854.

My Dear Friend,

Bwrledais lawer gwaith cyn hyn anfon llinell atoch i hysbysu ein hamgylchiad profedigaethus, ond hyd hyn heb wneuthur.

Gobeithiaf eich bod chwi yn iach a chysurus, ond mae eich Modryb ymhell oddiwrth fod felly. Bu ddechreu'r wythnos yn hynod o boenus, ond y mae hi y dyddiau hyn lawer yn esmwythach; ond er hynny yn gwanychu bob dydd. Ond trwy ras Duw y mae ei meddwl yn dawel, er ystyried bod ei hymddatodiad yn agoshau. Ond mae yr ofnad o hynny yn peri trallod dirfawr i fy meddwl i. Ond er pob peth, dylwn ymestwng dan y llaw alluog sydd yn llywodraethu hyn fel pethau ereill, canys cawsom dymor hir gyda ein gilydd, a llai o brofedigaethau na llawer ereill, fel y mae gennyf achos fel Job i ddywedyd, "Oni dderbyniwn yr hyn sydd ddrwg?" Ond mae yn alarus i mi gofio na chysegrais fy hawdd-fyd i ogoniant fy Ngwaredwr mawr ond i radd amherffaith iawn. Dywedai fy anwyl wraig y boreu heddyw, "Pe buasai fy chwaer Kitty [mam Mr. Griffith Davies] yn fyw, buasai yn fawr ei phryder am danaf yn awr."

Mae Sarah ac Elizabeth gyda ni, a thrugaredd fawr yw hynny.

Yr ydym wedi treio pob Doctor yma. Bu Dr. Jones o'r Graianfryn yma ncthiwr, ond ychydig a all neb wneuthur.

Yr ydym oll yn ymuno mewn cariad atoch chwi a'ch plant.

Ydwyf, anwyl Griffith, yr eiddoch yn wir serchog,

W. ROBERTS.

Amlwch, Chwef. 10, 1854.

Fy Anwyl Gyfaill,

O herwydd i chwi ofyn i mi anfon llinell atoch yr wyf yn ymafiyd yn fy sgrifell, ac nid o herwydd fy mod yn alluog i roddi un cyfarwyddyd i chwi yn yr achos a grybwyllasoch. Ar yr un pryd nid wyf yn ystyried fod genym ddim heblaw mater ein heneidiau ein hunain mor bwysfawr a'n rhwymedigaeith i'n plant. Ac nid y peth pennaf yw casglu cyfoeth iddynt, canys gallant gyrhaeddyd eithaf dedwyddwch y bywyd hwn heb lawer o hynny, a gallant fod y mwyaf miserable dan haul er bod yn gyfoethog. Tyst yr olwg sydd heddyw ar y byd. *Twyll* cyfoeth sydd yn tagu amcan at wir hapusrwydd. Y ffordd i fod yn hapus yw, "Heb roi eich meddwl ar uchel bethau." Dysgwch i'ch plant holl egwyddorion y ddeuddegfed bennod o'r Rhufeiniaid, a byddwch ar ganol y ffordd i ddedwyddwch. Nid y gorsu chwaith yw moethau a meluswedd buchedd, er ein bod yn dueddol i ymhyfrdu ynddynt. Gostyngyddrwydd sydd *ingredient* ymhob rhinwedd, a gallwn ddisgwyl i *education* da, yn enwedig crefydd dda, effeithio felly. Darllenais yn ddiweddar y nodiad prydferth a ganlyn:—"A man of dignity will excuse in his inferiors what he would condemn in himself, and give them his good wishes after they have forfeited his esteem." Pe bawn i yn myned yn ol i'r sefyllfa y bum ynddi, tybiwn y gwaethawn bob ymdrech er rhoddi ynghyrraedd fy mhiant bob mantais i gyrnaedd pob addysg fuddiol, yn enwedig yr un Gristionogol; a chymerwn radd o drafferth i ddangos y gwrthuni o ymfalchio arni, a threiwn ddangos iddynt mor glafus yr ymddengys hyd yn oed *boneddwr balch*.

Eto ychydig allwn wneyd heb fendith ddwyfol ar ein llafur. Nid â y rhyw o gythreuliaid sydd dueddol i'n natur ni allan, ond trwy weddi ac ympryd. Gobeithiaf y cewch fyw i weled adeg ag y bydd eich plant yn dewis cydmariaid eu bywyd. Byddwch gynghorwr iddynt, ond nid gorthrymwr.

Hawdd i chwi weled yn fy null gwael o sgrifenu mai anhawdd i mi gael fy meddwl oddiwrth yr hyn y mae'n angori wrtho'n barhaus. Ond nid gwiw bellach ceisio ond ufuddhau i'r alwad fawr honno, "Peidiwch, a gwybyddwch mai myfi sydd Dduw," &c.

'Rwyf yn llwyr allan o dymer sgrifenu. Maddeuwch, a chofiwch fi at eich anwyl blant. Cefais heddyw ddau lythyr caredig o'r Bala a Llanfawr. Mae Betsy gyda mi y dyddiau hyn.

Ydwyf, anwyl Griffith, yr eiddoch yn gywir,

W. ROBERTS.

NODIADAU LLENYDDOL.

The Test of Experience, or the Result of Disestablishment in America and the Colonies. Liberation Society. 4c.

Y MAE achos mawr cydraddoldeb crefyddol, o leiaf mor bell ag y mae a fynno â Chymru, yn fuan bellach yn debyg o gael ei benderfynu. Mae ein cyfeillion o'r Sefydliad yn ymdrechu yn dra egniol i bellhau y dydd drwg, ac yn defnyddio moddion i wneyd hynny na allant hwy eu hunain, ar ol hyn, lai na chywilyddio a gofidio o'u plegid. Gwelwn fod Esgob Llanelwy, yn ei awydd i geisio gwrthweithio y teimlad cryf sydd yn ffynnu yn Lloegr o blaid Dadsefydliad i Gymru, wedi bod yn areithio yn ddiweddar yng Nghaergrawnt, ac yn dweyd pethau na fuasai ond hollol ofer iddo geisio eu dweyd yng Nghymru. Mynnai gan ei wrandawyr gredu nad oes ond hanner poblogaeth Cymru yn Ymneillduwyr, gan eu gadael dan yr argraff fod yr hanner arall yn Eglwyswyr. Gwnai hefyd lawer iawn o'r 90 o blwyfydd, sydd, medd efe, o fewn ei esgobaeth, heb un gweinidog Ymneillduol o'u mewn; gan adael y Saeson dan yr argraff eto fod y plwyfydd hynny heb unrhyw weinidogaeth Ymneillduol, ac felly oddieithr sicrhau iddynt wasanaeth yr Eglwys, na fyddai dim i'w hatal rhag suddo i baganiaeth. Drachefn, ymfrostitai fod yr Eglwys wedi cadw y Beibl yn yr ysgolion dyddiol, pan oedd yr Ymneillduwyr am eu cau allan, ac felly eto yn gadael y rhai a'i gwrandawent dan yr argraff mai yr Eglwyswyr yn unig sydd yn parchu y Beibl yng Nghymru, ac y rhaid fod Ymneillduwyr y wlad yn rhai tra annheilwng i ymddiried iddynt addysgiaeth y genedl ieuanc; a hynny heb gymaint ag ynnau gair mewn ffordd o ddangos na fuasai yr un enaid yng Nghymru wedi meddwl am gyfyngu yr ysgolion cyhoeddus at addysg fydol oni bai am ymdrech benderfynol yr Eglwys i orfodi y plant i ddysgu ei chatecism sectol, a gwneyd ei hysgolion yn offer proselytiaeth; ac heb son dim ychwaith am ymdrechion mawrion a chanmoladwy yr Ymneillduwyr mewn ffyrdd ereill i addysgu y plant ym mhethau mawrion y Llyfr Sanctaidd, na chymaint a chrybwyll fod lliaws o'n bwrdd ysgolion, bellach, wedi dychwelyd at yr hen drefn dda a fyddai yn yr ysgolion Brytanaidd o ddysgu y Beibl, ond ar wahân oddiwrth bob neillduolion enwadol. Mynnai yr Esgob hefyd gan ei gyfeillion Seisnig gredu na oddefa y Methodistiaid Calfinaidd i neb fod yn aelodau yn eu plith oddieithr iddynt fod yn abl i gyfrannu at gynhaliath yr achos, ac felly y dylid parhau yr Eglwys er mwyn y tlodion, a dywedai fod ei brofiad plwyfol ef ei hunan wedi gwneyd hynny yn wybyddus iddo. Mae y Methodistiaid, fel y dangoswyd lawer gwaith, yn cyhuddo yr Esgob o'u hathrodi yn hyn, ac yn ei herio i ddwyn ei brofion. Dywedai hefyd fod yr Eglwys yn ei esgobaeth wedi cyfrannu yn ystod y deugain mlynedd diweddaf filiwn o bunnau at adeiladu eglwysydd, persondai, ac ysgoldai; ond fod yr Ymneillduwyr yn awr am fyned a'r holl eiddo yna oddiarni! Mae yn anhawdd iawn meddwl fod gwr sydd wedi talu cymaint o sylw i ddadl Dadgysylltiad, heb wybod fod dywediad fel yna yn gwbl ddisai; ac os ydoedd yn gwybod hynny, beth ydym i feddwl o'i waith yn dweyd y fath beth? Ond wedi i'r Esgob ddweyd ei bethau mawrion yng Nghaergrawnt, dyma ei Archddiacon—gwr yn dwyn yr enw, Yr Hybarch Archddiacon Watkin Williams,—yn dangos ei allu yntau ar waeddi ac ysgrechain yn eglwys y plwyf yn Llanelwy. Dywedai y gallai y Senedd, trwy ddadsefydlu a dadwaddoli yr Eglwys, dafu gwareiddiad Cymru ganrif yn ol; peri anferth niwed i'r tlodion, a phrysuero y di-boblogiad ar ardaloedd gwledig y profesai gwladweinwyr o bob pleidiau y fath bryder am ei ddal yn ol; ac ymhellach, er dwyn i Gymru y tlodi a'r dinystr ymysg tyddynwyr a mân fasnachwyr y darlennent gymaint am dano yn yr Iwerddon! Pa ryfedd os oedd yr hen wragedd yn dychryn rhag y fath drychineb, ac os oedd rhai o'i wrandawyr yn teimlo yn gyffelyb i'r

hen lencyn yn Llangernyw y soniai y Proffeswr Henry Jones am dano, yr hwn wedi maith ymddiddan wrth dan y simdde fawr amy perygl i "Boni" lanio, o'r diwedd a ymwregysodd mewn dirfawr wroldeb, ac a ddywedodd wrth yr hen ferch ei chwaer, a eisteddai yn gwau yn dawel ar y stól dri-throed gerllaw: "Wel, sà di yn rŷch, Mari, mi safu inna!" Y mae braidd yn anamgyffredadwy sut y gallai dynion sydd wedi cael addysg, siarad pethau mor wylltion. Ond yr ydym wedi clywed siarad mawr o'r fath yma o'r blaen, a hynny laweroedd o weithiau. Dywedai Macaulay fod Eglwys Loegr yn ei ddyddiau ef, wedi bod am hanner can mlynedd yn elyn i ryddid y bobl. Ac y mae wedi parhau felly. Y mae wedi gwrthwynebu rhyddhad y caethion, rhyddfrefniant y Pabyddion a'r Iuddewon, masnach rydd, pob helaethiad ar yr etholfraint, agoriad y prifysgolion i Ymneillduwyr, agoriad y mynwentydd, y balot, pob helaethiad ar addysg y werin na chedwid yn gwbl o dan ei rheolaeth hi, pob cyfyngiad ar y fasnach feddwol, a phob peth arall a dueddai i estyn i'r bobl yr hawliau oedd ddyledus iddynt fel deiliaid y wladwriaeth. A'r hyn sydd dra dyddorol i feddwl am dano gyda golwg ar yr amcanion sydd o'n blaen y dyddiau hyn,—y mae gwrthwynebiad yr Eglwys i'r holl bethau da a grybwyllwyd wedi bod yn llawn o ddaroganau cyffelybi eiddo yr Hybarch Archddiacon Watkin Williams yn y geiriau mawrion a ddyfynasom. Ymhob amgylchiad, fe'n sicreid, os dygid oddiamgylch y cyfnewidiadau y sonid am danynt, y byddai y diluw yn dyfod arnom yn anocheledadwy. Ac wele, nid ydyw y diluw eto wedi dyfod; ond y mae y cyfnewidiadau wedi cymeryd eu lle yn y fath fodd fel mai y syndod bellach ydyw na fusant yn bod eriood; y dyfal ymdrechir i anghofio, os nad i wadu iddynt gael eu gwrthwynebu o gwbl; ac yn wir yr honnir, ie i'r rhai a ymdrechasant hyd yr eithaf yn eu herbyn, y clod a'r gogoniant o fod wedi eu dwyn oddiamgylch! Y mae yn bur sicr nad oes achos i'r Esgob Edwards, na'r Hybarch Archddiacon Watkin Williams, na'u cyfeillion, frawychu nac aneamwytho o gwbl wrth y cyfnewidiad y maent yn awr yn cael fod ei "gysgod ar eu hamrantau." Mae y ffaith fod Ymneillduaseth Cymru, fel y dywedai diweddar Esgob Bangor, wedi darpar digon o addoldai ar gyfer poblogaeth Cymru pe bai holl eglwysydd y Sefydliad sydd o'i mewn yn cael eu cau, yn sicrwydd lled foddhaol na adewid i'r hen wlad suddo i baganiaeth; ac y mae yn dda gennym sicrhau yr Esgob a'i Archddiacon, ynghyda'u holl frodyr sydd yn profwydo pethau mor echrhydus, fod gennym anfesuroel well meddwl o honynt nag y gallwn dybied am funud na wnaent unrhyw ymdrech er llechau ac achub eu cydwladwyr, er i'r Eglwys Sefydledig gael ei gosod ar yr un tir a'r canghennau ereill o Eglwys Crist yn ein gwlad. Ac os oes eisieu rhyw foddlonrwydd pellach ar hyn, y mae i'w gael mewn cyflawnder mawr yn y pamffled rhagorol sydd o'n blaen. Yma fe geir *Profad* ar y mater, ac fe welir fod Dadsefydliad a Dadwaddoliad, ymhob man, mor bell o ddwyn gyda hwynt y trychinebau y mae ein cyfeillion parchus yn ddarogan, fel y maent, yn ddiethriad, wedi bod yn gyfoethog o'r canlyniadau mwyaf bendithiol. Fely dywedai Mr. Gladstone: "Y mae, bron trwy yr holl fyd gwarediddiedig lanw, yn araf ddyfod i mewn yng nghyfeiriad ysgar yr Eglwys oddiwrth y Wladwriaeth." Ac wrth edrych yn ol hanner can mlynedd, fe welai fod llawer mwy o gynhorthwy nag yn bresennol yn cael ei roddi o ffynonhellau gwladol tuag at ddwyn ymlaen waith crefydd. "Ond yn y dyddiau hynny," ychwanegai, "nid ydyw yn ormod dweyd, mai effaith y gyfundrefn honno o gynhorthwy gwladwriaethol oedd nychu gwaith yr Eglwys; a dallu llygaid dynion i'r cyllid anferth y gallant dynnu arno yng nghyfoeth ffydd Cristionogol a chariad Cristionogol." A dyna y ffaith ogoneddus y mae Profiad ymhob man yn tystiolaethu iddi. Yr oedd pobl dda gwledydd ereill, fel y mae ein cyfeillion yng Nghymru yn awr, yn teimlo dirfawr bryder ac ofn pan besid mesurau o Ddadsefydliad a Dadwaddoliad yn eu gwledydd. Dywedai Dr. Lyman Beecher, gyda golwg ar yr amser y gwnaed hyn yn New England: "Yr ydoedd yn un o'r dyddiau tywyllaf a welais erioed. Yr oedd y niwed a

wneid i achos Crist, fel y tybiem y pryd hynny, yn anfeddyginiaethol. Am amryw ddyddiau mi ddioddefais fwy nag a all tafod adrodd. Ac eto," ychwanegai, "dyna y peth goreu a ddigwyddodd erioed yn Nhalaeath Connecticut. Torrodd yr eglwysi oddiwrth gynhaliaeth y Wladwriaeth, a thaffodd hwy yn gwbl ar eu hadnoddau eu hunain ac ar Dduw. Dywedent y byddai i weinidogion gollu eu dylanwad, ond mewn gwirionedd enillasant." A thebyg ydyw effaith rhyddhad crefydd oddiwrth bob cynhaliad a phob ymryiad o eiddo y wladwriaeth dros y byd. Pwy bynnag a ewyllysio weled yr achos yn cael ei osod ger bron yn gyflawn a goleu, ac oddiar yr awdurdodau mwyaf dyls, ni allai wneyd yn well na mynnu iddo ei hun y llyfryn hwn. "Ni wna grotan," ebai Goronwy, "na'm dwyn na'n gadael." Fe roddai y rotan a werid ar y pamffled hwn lawer o wybodaeth werthfawr a thra dyddorol, a hynny ar fater sydd i ni yng Nghymru y dyddiau hyn, yn arbennig, yn "wirionedd presennol," ac yn wirionedd hefyd sydd yn rhyfeddol o bwysig.

Canon and Text of the Old Testament. By Dr. FRANTZ BUHL, Ordinary Professor of Theology at Leipzig. Translated by Rev. JOHN MACPHERSON, M.A., Findhorn. Edinburgh: T. & T. Clark. 7s. 6c.

Y MAE awdwr y gwaith hwn, ar ol bod am rai blynyddoedd yn Broffeswr Duwinyddiaeth ac Ieithoedd Dwyreiniol yn Copenhagen, ei dref emedigol, yn awr yn eistedd yng nghadair y Dr. Delitzsch yn Leipzig, lle y penodwyd ef ar farwolaeth y gwr enwog hwnnw yn 1890. Y mae hynny ynddo ei hun yn dystiolaeth dra uchel i'w ddysg a'i gymhwysterau. Ac y mae y llyfr hwn yn deilwng o'r farn uchel a goleddir am dano. Ymddengys iddo gael ei gyhoeddi ar y dechreu yn y Danaeg, ac wedi hynny gael ei helaethu a'i berffeithio a'i gyhoeddi yn y Germanaeg, o ba ffurf arno y gwnaed y cyfieithiad hwn. Y mae yn gynnyrch anferth lafur, ac yn dangos dysg ac ymchwilid tra mawr. Mae yn amlwg fod yr awdwr am lawer o amser wedi byw i'w amcan, ac y gallai ddweyd fel y bardd ei fod ynddo yn gwbl,—"et omnis in hoc sum." Ac y mae yn hyfryd gweled ei fod, tra yn llawn o ffyddlondeb ei ragflaenor enwog i wyddor ei broffesiaeth uchel, yn llawn hefyd o'i gariad a'i barchedigaeth at wirionedd Duw. Y mae yn gosod ger bron yr oll sydd o fewn ein cyrraedd mewn perthynas i'r Testun,—ei hanes, ei sefyllfa bresennol, a'r rhagolygon a allwn golodd am ei adferiad i'w burdeb cynhennid. Mae ei feirniadaeth ar gyfieithiad y LXX yn hynod o werthfawr, ac yn dangos ei fod i'w farnu, nid yn ol canonau beirniadaeth y dyddiau hyn, ond yn ol amcan y cyfieithwyr o wneyd yr Hen Destament yn ddealladwy i'r cenhedloedd ac i'w cydwladwyr nad allent ei ddarllen ond yn yr iaith Roeg. Mae yn ddiau fod llawer o ddiffygion ynddo nad oes reswm i'w roi am danynt o gwbl oddieithr esgeulustra neu anwybodaeth y cyfieithwyr; ond y mae yr ystyriaeth a grybwyllwyd yn rhoddi cyfrif boddhaol am lawer o'r pethau a deimlid yn anhawsterau mawrion yn eu gwaith. Mae ei ymdriniaeth a'r Canon hefyd, er nad mor lawn, eto yn glir a meistrolgar. Nid ydyw efe yn ymyrraeth â'r cwestiynau y mae y Feirniadaeth Uwch y dyddiau hyn yn ymdrafferthu cymaint yn eu cylch; ond gwna wasanaeth o ddirfawr werth trwy osod ger bron y *defnyddiau* y rhaid i'r Feirniadaeth honno weithio arnynt, ac y disgwylir iddi dymnu oddiwrthynt gasgliadau addfed a theg. Rhoddwn un engraffft. Wedi ymdriniaeth oleu ar y Llyfrau Apocryffaid yn eu perthynas â'r Canon, ac mewn cyfeiriad at y llyfrau Canonaidd, dywed:—

Pa mor amherffaith bynnag allai fod y dull a gymerwyd gan yr adysgrifwyr wrth ymwneyd â'r ysgrifeniadau hyn, fe'u harweinid o leiaf gan y teimlad cywir fod y llyfrau yma, yn ol eu hanfod mewnol, yn ddatganiadan gwir a dilwgr o ysbryd yr Hen Destament, yr hyn hefyd a gadarnheir gan bob gwir ymchwilid gwyydonol. Y mae gan hynny yn rhagoriaeth arbennig yr Eglwys Brotestanaidd, o'i chymharu â'r Eglwys Rhufeinig a Groegaidd, ei bod wedi gosod o flaen ei haelodau y llyfrau canonaidd yn bur a heb unrhyw gymysgiad. Y llyfrau hyn

yn unig sydd yn rhoddi i ni wir ddarlun o fywyd ysbrydol yr Hen Gyfamod a alwyd i fod gan ddatguddiad ac arweiniad gwyrthiol; a hwy yn unig sydd yn dangos y proffwydoliaethau cynwysedig mewn geiriau a gweithredoedd proffwydol, cyflawniad a pherffeithiad y rhai ydyw Iesu Crist. Ac felly hefyd yn y Testament Newydd, y mae prawf Ysgrhythrol yn cael ei gymeryd yn unig o'r "Gyfraith a'r Proffwydi a'r Salmau." Mewn pullder mwy neu lai oddiwrth y cylch yma, ar y llaw arall, y saif yr ysgrifeniadau anghanonaidd. Yn wir, mewn rhai o honynt y mae bywyd yr Hen Destament, sydd mor ryfeddol o swynol, yn curo gyda chryn nerth; i.e., ni fyddai yn iawn gwadu ein bod yn cyfarfod ag ysbryd cyfoethocach ac uwch yn Llyfr Doethineb nag yn Llyfr Esther neu Llyfr y Cronicleau, ac nad oes feallai ddim yn yr Apocryffa mor draungwyddus yn ei gymhwysiad crefyddol uniongyrchol a'r Pregethwr. Ond eto, hyd yn oed gyda hwynt, fe gadarnha ymchwilid trwyadl farn Iuddewon Palestina, ac arweinia i'r casgliad y rhaid i'r llyfrau anghanonaidd hyn, un ac oll, gilio o'r neilldu, os ydym i gael gwir ddarlun o ddatguddiad yr hen Destament, gyda'i gwrs neillduol o ddaedblygiad, a'r ffurfiau o fywyd a alwyd trwy hynny allan. Ar y llaw arall, mae yn hawdd deall fel y gallai yr Eglwys, yr hon a ymwrthododd a'r ffurfiau hynny er mwyn cymeryd i'w mynwes holl ddynolryw, goledd caredigrwydd at rai o'r ysgrifeniadau hyn, a barnu yn well am yr ysbryd a'u llanwai nag y gwnaethai pobl Palestina; a chyn belled a hynny gall dyn gymeradwyo yr hyn a wnaeth yr hen Eglwys Groegaidd a Lutheraidd wrth barchu yr arfer draddodiadol, a chadw yr ysgrifeniadau hyn yn eu cyfeithiadau o'r Beibl.

Ond er cymaint y gallai un o'r safie yma gydnabod y dull a'r modd y darfu i'r Eglwys i aenyd benderfynu cwestiwn y canon, y mae eto bywynt arall ymha un na lwyddodd Luther a'r rhai a'i dilynent i ymyrddhau oddiwrth ddiffyg a ddaeth i'w rhan. Yn y Beiblau Alexandraidd fe arweiniodd dygiad i mewn yr Apocryffa i'r canlyniad yma hefyd.—fod dosbarthiad y canon i dair rhan wedi ei roi i fyny, er ei fod yn chwareu rhan mor bwysig ymysg Iuddewon Palestina, ac o gymaint atwyddocad er iawn farniad y gwahanol ysgrifeniadau. Yn awr, er i Luther a chyfeithwyr Protestanaidd ereill y Beibl osod yr ysgrifeniadau anghanonaidd o'r neilldu, a rhoddi iddynt le ar ol y canon priodol, ni ddarfu iddynt ddwyn i mewn drachefn y dosbarthiad i dair rhan. Ac eto y mae'n amlwg na ellir ein cyflawnhau wrth dderbyn awdurdod Iuddewig ar gwestiwn y canon, oni fyddwn yn barod i gymeryd i fyny yn gyflawn olygiad yr Iuddewon mewn perthynas i'r casgliad a chyd-berthynas y llyfrau canonaidd a'u gilydd. Yn wir, yr ydym yn cael fod y Testament Newydd yn benodol yn rhoddi arbenigrwydd ar y dosbarthiad i dair rhan fel yn dwyn perthynas neillduol i chynnyws a chyrrhaeddiad Canon yr Hen Destament. Camgymeriad ydyw cyfyngu y wybodaeth o'r rhaniad yma i efrydwr duwinyddol, ac yn ddiacw fe fyddai yn gam pwysig ymlaen pe byddai y drefn a'r rhaniad gwreiddiol yn cael eu dwyn i mewn eto i'n cyfeithiadau o'r Beibl. Pe gwneid hyn, fe wasanaethai yn helaeth er dwyn o flaen y bobl amryw o ganlyniadau ymchwilid i'r Hen Destament, ac er dangos fel y mae y canlyniadau hynny yn cael eu cyflawnhau gan hanesyddiaeth.

Nid ydyw yr eglurhad uchod, yr hwn yn amlwg a âd heb ei gyffwrdd, bwysigrwydd gwyddonol uchel a diamheuol yr Apocryffa, yn cau allan y ffaith y cyfod yma a thraw gwestiynau ynghylch y llinell deryn. Fe dlywedwyd eisoes fod Mab Sirach wedi ennill cylchrediad lled eang ymysg pobl Palestina. Yn y fath achs gan hynny, yr adysgrifwyr yn unig a benderfynasant, yn ol rhyw egwyddor ddealedig, pa un a oedd y llyfr i'w dderbyn i'r casgliad ai peidio. Pa fath egwyddor ydoedd,—diweddarwch yr adeg yn ystod pa un yr oedd yr awdwr yn byw, ynte nodwedd eilraddol neu fenthyciol y Diarhebon, ni ellir yn awr benderfynu i un radd o sicrwydd. Mae y tir ar ba un na dderbyniwyd Llyfr Cyntaf y Maccabéaid yn fwy amlwg. Ni ellir gwadu fod y disgrifiad o deyrnasiad hapus Simon (pen. xiv.) yn cael ei roddi mewn cynifer o ymadroddion diamheuol Fesianaidd, fel yr oedd yn rhaid i'r rhai a'i darlennent dderbyn yr argraff fod yr awdwr wedi gweled yn y llywodraeth Faccabéaidd gyflawniad gobaith Israel, yr hyn gan hynny a osodai y llyfr y tu allan i gylch yr Hen Destament.

Ymysg yr *Hagiographa* a gydnabyddid yn ganonaidd, "Y Ganiad" yn unig sydd yn peri dim anhawster o bwys. Am y golygiad mai mewn cyfnod tra diweddar y derbyniwyd hi i'r casgliad, nid yn unig nid ydyw yn cael ei gadarnhau gan brawf hanesyddol, ond y mae ynddo ei hun yn gwbl an-hanesyddol. Yn fwy nag am ddim un ysgrifen arall, mae yn rhaid i ni am y llyfr neillduol yma

rag-dybied cylchrediad boreu a derbynriad cyffredinol; pe amgen ni fnessai un Pharisaeid byth yn meddwl am ei ystyried yn ganonaidd. Y mae ei fod wedi cadw ei le yn ddiameu i'w briddoli i'r dehongliad alegoriaidd, pa un bynnag a awgrymwyd ef gan R. Akiba, neu rywun arall. Ond ar y llaw arall, mae yr ymosodiadau ar ei ganonrwydd, debygid, yn dangos yn amlwg nad oedd y dehongliad alegoriaidd yma yn cael ei dderbynu yn gyffredinol, ac felly mae yn aros o leiaf y posibilrwydd ei fod mewn amseroedd boreuach, gyda dealltwriaeth syml o hono, wedi cael ymysg y bobl gylchrediad éang.

Letters of James Smetham, with an Introductory Memoir. Edited by SARAH SMETHAM and WILLIAM DAVIES. With a Portrait. London: Macmillan & Co. 7s. 6c.

MAE y llyfr hwn yn un ag y mae ei ddarllen yn orchwyl tra hyfryd, ac y mae yr argraff a edy ar y meddwl yn iachus a bendithiol. Nid oes ond ychydig i'w ddweyd am hanes ei wrthrych, heblaw ei fod yn fab i weinidog Wesleyaidd, ac iddo yntau ddyfod yn flaenor, neu *class teacher* yn y cyfundeb y ganwyd ac y magwyd ef ynddo; ei fod wedi dangos yn foreu hoffder neillduol at arluniaeth, a dyfod yn addysgydd arluniaeth yng Ngholeg Athrawol Westminster; iddo arlunio cryn lawer; priodi a magu nifer o blant; a marw yn 1889, yn 68 mlwydd oed, gan adael gweddw ac amddifaid, a lliaws mawr o gyfeillion i alaru am ei ymadawiad. Ac eto yr oedd ei bersonoliaeth yn allu, a'i fywyd yn fendith. Yr oedd llawer iawn i'w wahaniaethu oddiwrth y lliaws ag y teinla y byd fod mor hawdd iddo eu hanghofio. Yr oedd yn wr o athrylith; o natur hynod o garuaid; ac yr oedd ei fyddlonddeb i Dduw a'i achos yn ddwfn ac yn ddiambheuol. Ymddengys iddo ragori yn fawr fel arlunydd, yn gymaint felly fel ag i ennill uchel gymeradwyaeth a chyfeillgarwch cynnes gwŷr fel John Ruskin a Dante Gabriel Rossetti; ond yn anffodus nid ydoedd yn ddigon call yn ei genhedlaeth i droi ei ragoriaeth yn y wedd yma i'r fantasia a deilyngai yn y farchnad. Ac ychydig o ddim a ysgrifennodd a ymddanghosodd trwy y wasg. Ond yr ydoedd i'w gael oll i'w gyfeillion, ac yr oedd pawb gafodd y fraint o ddyfod i'r berthynas honno ág ef yn ei werthfawrogi ac yn ei anwylo yn ddifoesur. Yn dra ffodus hefyd, yr oedd yn hoff o ysgrifennu llythyrau at ei gyfeillion, ac ymddengys fod rhywbeth yn ei lythyrau a barai na feddyliai neb am dafu yr un o honynt i'r tân. A'r llythyrau hynny, y gosodid y fath werth arnynt gan y rhai a'u derbynient, wedi eu casglu at eu gilydd, gyda braslinelliad o'i fywyd, sydd yn gwneyd i fyny y gyfrol ddymunol hon. Mae arfer dda dyddiau ein tadau, pan oedd y llythyrdoll yn uchel a bywyd yn fwy hamddenol, o ysgrifennu llythyrau llawnion, erbyn hyn,—gyda'r doll geiniog, y cerdyn dimai, a ffwdan prysurdeb,—wedi cilio ymaith i fesur mawr. Ond yr oedd gan Mr. Smetham olwg uchel ar ysgrifennu llythyr. Yn llawn o gariad, fe osodai fawr werth ar gariad ei gyfeillion, a chyfrannai iddynt, nid yn unig y tipyn neges a ddi-gwyddai, neu y mân-newyddion, ond ei "enaid ei hun hefyd." A themlai ei fod i wneyd hynny yn ei lythyrau atynt, yn gystal ag yn ei gymdeithas bersonol â hwynt. Yn wir, fe gai weithiau fod yn haws gwneyd felly yn hamdden a thawelwch y llythyr, gan y byddai y gymdeithas ambell dro, i'w natur lednais, braidd yn rhy gyffrous. Ysgrifennai unwaith at gyfaill:—

Os palla eich diwydrwydd mewn ysgrifennu ataf gan eich bod yn ofni bod yn rhy bersonol, deallwch eich bod yn llafurio dan gamgymeriad. Nid wyf fi byth yn gadael i hynny fy atal i pan yn ysgrifennu atoch chwi, ac nid wyf yn meddwl am wneyd. Gallai na byddai yn dda llusgo gormod o'r Myfi i lyfrau a ysgrifennir i'r byd; ond yr wyf fi wedi meddwl y mater o gyfeillgarwch personol, ac yr wyf yn deall mai un o'i hanfodion melusaf ydyw tywallt y nail i'r llall, yn ddiwahardd, y nwydd peryglus "erlynia'r galon lesg, ac na ád iddi orffwys:" deuaudau yn Salm Bywyd. Mae un éos yn telori yn y ceuant loergan—fel y cybu Keats un yn telori—yn ddwys, hir, ddirifrol, a threiddiol, fel Ardel yn

gwaeddi ar y gwyntoedd o dan ganghennau y winwydden; a phan mae y gân ar y pryd ar ben, y mae dolysteiniad pell yn dyfod o lwyn dyfnach. Dechreuau, "A minnau hefyd—hefyd - hefyd—," ac y mae ysgeifn fwiseig-donnau adseiniol yn dymchwel yn erbyn y creigiau ariannaidd, ac yn diferynnu ymaith ym mwrllwm y ffrwd guddiedig.

Y ffordd yma o "feddwl yn uchel" yw yr unig un y gallaf fi fynd rhagof gyda *chyfeillion*, ac nid oes arnaf eisieu ac ni fynnaf gyfeillion gyda pha rai nad allaf wneyd felly. Yr wyf wedi canfod yn ystod yr ychydig flnyddoedd diweddar mai "lladd neu fendio" ydyw. Mae rhai nad allant ei ddal. Y maent hwy eu hnnain wedi dysgu y gelfyddyd o fod yn ofalus a mesuredig, ac yn ei ystyried yn dra diraddicl i urddas dyn i chwareu y bachgen ysgol, a thyngu ac addunedu a thafu eich hun ar drugaredd pobl ereill. Ni ddywedant lawer wrthyhych am weithrediad eu calon a'u bywyd eu hunain, ond gofynant a ydych wedi darllen *Silas Marner*. a rhoddant arno feirniadaeth fer, nid hanner cystal ag a allech gael mewn adolygiad,—pan y dylech gael llythyr byw oddiwrth gyfaill byw.

Mae yn ddiameu mai i'r ffaith ei fod ef yn gallu gwneyd yn wahanol y rhaid priodoli y gwerth a osodai ei gyfeillion ar ei lythyrau, a'r mwynhad a pha un, bellach, y darlennir hwynt gan liaws mawr na chawsant y fraint o'i adnabod. Y maent yn cymeryd i mewn gylch èang o faterion, y cyfryw ag y teimlid dyddordeb ynddynt gan ysbryd galluog a llednais, o wybodaeth eang, chwaeth bur, a chydymdeimlad byw a'r oll ymhob cyfeiriad sydd wir, a hardd, a hawddgar. Mae ei syniadau bob amser yn ddyrchafedig, ond yn cael eu gosod ger bron gyda chymaint o far-ddoniaeth, o ysmaldod nawsaidd, a naturioldeb, fely mae ei ddarlennnydd yn cael ei gadw bob amser yn effro a phob amser wrth ei fodd. Pa un bynnag ai yn traethu doethineb ar y cwestiynau mawrion, ai yn beirniadu yn feistrolgar orchest-weithiau celfyddyd, ai yn datgan yn syml ei deimladau crefyddol, ai yn cydymdeimlo a'i gyfeillion yn eu profedigaethau, ai yn lolian fel plentyn am bethau bychain a barent ddifyrwrch iddo, fe deimlir yn barhaus ei fod yn frawd, ac fod ei gymdeithas yn llawn o fwynhad, ac yn llawn o adeiladaeth. Nodasom wrth ddarllen y llyfr lawer o bethau da y carasem eu gosod ger bron ein darllenwyr, ond "caeth ar ddyd pan gaffo'i ddewis," ac y mae dethol o'r fath gyflawnder ag a geir yma, a chyda gofod prin, yn anhawster neillduol.

Dyma ddyfyniad o lythyr o'i eiddo at Ruskin, a ofynai air o'i hanes, ac anaml y ceir mewn unrhyw ohebiaeth ei gyffelyb:—

Fy neffrôad cyntaf i ymwybyddiaeth, cyn belled ag yr wyf yn cofio, oedd mewn dyffryn yn swydd York, y tuallan i lidiard gardd ty fy nhad, pan yn ddwy flwydd oed. Mae gennyf gof clir am y perlewyg â pha un yr edrychwn ar lesni pell y brynau ac y gwelwn y llawryf yn ysgwyd yn y gwynt ac y teimlwn ef yn codi fy ngwallt. Yma yr wyf yn cofio meddwl mai fy mrawd hynaf oedd un o'r bechgyn gwycha'n fyw, am ei fod wedi tynnu ceffyl a chi mewn dwtfr-liwiau; ac hefyd pan yn bedair, fy mod yn rhedeg ymaith ar y grug—yn Nantwich, sir Gaer—ac yn ymhyfrydu yn y llynau bach, a elwid pyllau. Pan yn wyth, yr wyf yn adgoïo noswaith loergan, pan oedd effaith goleuni y lloer fel swyn-gyfaredd arnaf, ac y gwrandawn yn ddistaw ar seiniau y nos. Dechreuais arlunio tua'r un amser gyda blwch o ddwfr-liwiau a ddylasai gostio grôt, ond yr hwn, am fy mod yn fynych yn gofyn ei bris, y darfu i'r wraig dda adael i mi gael am dair ceiniog.

Dyma drem i'w natur oreu:—

"Cadw enaid": nis gallaf rywfodd sylweddoli y drychfeddwl y gallwn i gael fy anrhydeddu yn y fath fodd gan Dduw. Cadw fy enaid fy hun, a dal y:rwyr faith heb gollu fy nghoron, ac heb ddwyn gwaradwydd ar achos Crist,—dyma a ymddanghoai fel eithaf fy ngobaith. Gallaf fynd ymlaen i weithio; gallaf hau ychydig; gallaf ychwanegu fy llafar at y pentwr mewn gobaith y gallwn, yu:ysg ymdrechion ereill, helpu yn hytrach nag atal gwaith Crist. Ond prin y mae "cadw enaid," fel canlyniad uniongyrchol fy ymdrech uniongyrchol i, erioed wedi dyfod i fy meddwl. Bydd yn dda gennyf os bydd i'r hwn sydd yn hau a'r

hwn sydd yn medi lawenyochu ynghyd. Eto rhaid bod "mab yn yr efengyl" yn berthynas hyfryd.

[Yr oedd yr uchod wedi ei ysgrifenu ganddo yn 1861; noda ei weddwr ei bod wedi ei adysgrifennu foreu yr 8fed o Awst 1889, ac ychwanega: "Prydnawn heddyw galwodd Mrs. S. Dywedodd, 'Ni chefais erioed y pleaser o adnabod Mr. Smetham, ond mi glywais gymaint am dano er pan ddaethum i Stoke Newington fel yr wyf yn teimlo fel pe byddai yn gyfall personol. Nid oes braidd gyfarfod yn cael ei gynnal yn Green Lane na chrybwyllir ei enw. Mewn Cariad-wledd brydnawn Saboth ychydig wythnosau yn ol, dywedodd bonheddwr, "Mi ffoliannaf Dduw i dragwyddoldeb am i mi erioed gael fy arwain i ddoesbarth Mr. Smetham; yr wyf yn ddyledus am yr holl ddaioni a feddaf i'w addyag a'i ddylanwad."]

Dyma eto dameidiau blasus:—

Mae aros ar unrhyw fater o efrydiaeth yn hynod o esmwythïol. Yr wyf i'n awr ar yr Epistol at yr Hebraid. Y gwahaniaeth mawr rhwng y fath fater a phopeth arall ydyw bod holl fuddion Amser a Thragwyddoldeb wedi eu cau i'fyny ynddo. Nid ydyw archwilio gweithred o hawl i £100,000 yn y flwyddyn, yn ddim iddo. Sut y gallai fod? A oes Crist? A ydyw Efe yn etifedd pob peth? A wnaed Ef yn gnawd? A offrymodd Efe yr oll-berffaith aterth? A gymerodd Efe le yr hen urdd o offeiriad? A ydyw Efe yn Gyfryngwr Cyfamod newydd a gwell? Beth yw telerau y Cyfamod hwnnw? Nid oes dim cwestiynau fel y rhai hyn. Y maent, wrth eu harchwilio, yn dyrchafu yr holl enaid i'r Uchelder. Y mae pob buddion ereill yn ymddangos yn isel, cyffredin, dibwys, a diflanedig. Mor angenrheidiol chwilio yr Ysgrhythrau i weled "a ydyw y pethau hyn felly!" Yn sicr ni ddymunna Duw gwirionedd i ni dderbyn dim nad ydyw yn gyson a'r rhesymol cliraf, na rhoddi dim ond "rhesymol wasanaeth." Yr wyf yn synnu, hefyd, at dôn awdurdodol yr Epistol hwn, a'r elfen o ddirmyg sanctaidd at y rhai a wrthodant fyned i'r cwestiynau mawrion hyn yn ofalus. Ymddengys y Llef yn ysgwyd y nefoedd a'r ddaear, mewn trefn i sefydlu yng nghalonau y rhai ufudd y deyrnas nad ellir ei hysgwyd.

Ni ellir dangos allan yn ddigonol efaith astudiaeth fwy neillduol o'r fath Epistol. Y mae fel y gwahaniaeth rhwng corff lliniaidd ond di-anadl, prydferth, a chryf, a'r un corff pan mae anadl bywyd yn dyfod iddo. Y mae yn syllu, yn siarad, yn ymaysud, gyda rhwyddineb, slymledd, a gallu; y mae yn gynnes, yn fyw, yn ddeniadol, ac o ddylanwad trwyddo oll. Mae yn nerthol trwy Dduw. Mae yn codi ac yn sefyll ar ei draed. Yn awr nid oes neb all ddiagrifio y gwahaniaeth rhwng anfywdrwydd a bywyd, ond y mae yr holl natur yn ei adsain yn uchel. "Am fy mod i yn fyw," ebai yr Archoffeiriad Mawr, "byw fyddwch chwithau hefyd."

Cymerais i lawr Tennyson; tremiais ar y ddalen wen—"J. Smetham, 1843." Man gan y llyfr yma swyn i mi na fedd dim ond y Beibl. Y mae fel lloer-lewyrch a miwsig a glannau rhamant hen a'r "goleu erioed na fu ar dir na mor." Yr ydwyf yn medru megys trwy gof byw bob llinell o'i farddoniaeth. Mae dyddiau fy iuenctyd wedi eu goblygu yn eu harogl, fel y mae arogl y violets yn guddiedig yn y gwyrdlesni. Mae fy nghof yn cynneu uwch eu pen; rhed fy ngwaed yn gyflmarch; mae fy ngewynnau yn gwefru, ac y mae cariad a llawenydd, ie trwy y cysgodion tywyll sydd mewn mannau yn crogi dros y gorffennol, yn cael eu had-alw. Mae y gorffwylledd am Tennyson wedi mynd heibio gyda'r cyhoedd, ond y mae wedi cymered ei sedd anfarwol ymysg y beirdd.

Y mae pob credadyn yn sylweddoli trwy brofiad mai Crist yw yr unig gydymdeimlydd perffaith. "Nid wyf yn cael fy neall yn iawn," a ddywed pob un bron. Ond os wyt yn gredadyn, fe'th ddeallir yn berffaith. Crist yw yr unig un na ddisgwyllia byth i ti fod yn ddim ond *ti dy hun*, a geayd o'r neilldu bopeth nad yw yn debyg i ti. Cymer Efe dy olwg di ar bethau, ac ni sonia am ddim arall. Cymer olwg yr hen wraig ar bethau wrth y twb golchi, ac y mae ganddo ddyddordeb mawr mewn sebon da; golwg Syr Isaac Newton ar bethau, ac ehêd gydag ef ymlith y ser; golwg yr arlunydd, a bugellia ymysg y lili; ciddo y cyfreithiwr, ac â i mewn gydag ef i gyflawnder pethau. Ond nid ydyw byth yn chwaredu y cyfreithiwr neu yr athronydd neu yr arlunydd gyda'r hen wraig. Y mae Efe uwchlaw bychandra felly.

Allen & Hanburys'


Castor Oil

Tasteless. Pure. Active.
Sold everywhere at 6d., 1/1, 1/9 & 3/4.

Cymerir ef gan blant a rhai mewn oed heb yr anhawsder lleiaf, tra y mae ei effeithiau ar y corph yn ddiarnheuol. Medda yr holl ragoriaethau a honir iddo.—*Lancet*.

CH WE I DAL AUB.

New Zealand, 1882; Calcutta, 1884; London, 1885; New Orleans, 1886; Southern States, 1886.



DIM MERCURY.

Mae y Powdwr hwn er's dros Haner Canrif wedi dal i fyny y cymeriad drwy yr Unol Dal-eithau a'r Trefedigaethau o fod y defnydd goreu a mwyaf diogel at lanhau Arian ac Electro Plate. Gwerthir mewn Blychau 1s., 2s. 6c., a 4s. 6c. yr un.

M.A.S.N.A.CHU DRWY'R POST.

POSTAL SHOPPING

H. PEASE & CO'S

SUCCESSORS

LADIES

WRITE FOR PATTERNS
OF ALL THE LATEST NOVELTIES
IN DRESS MATERIALS
AT MILL PRICES

SPINNERS & MANUFACTURERS

The Mills
DARLINGTON

Antoned y Boneddigesau am Batrymau o'r Nwyddau Dresses diweddaraf.

DRESSMAKING IN ALL ITS BRANCHES.

Gwneuthurwyr y Gold Medal Merinos, Cashmeres a Cross Warp Serges. Anfonir patrymau yn rhad drwy y llythyr ly ar gymeradwyaeth.

Allen & Hanburys'

"PERFECTED"

Cod Liver Oil

all y gwanaf ei gymeryd a'i dreulio. Dyma yr unig Oil nad yw ei archwaeth yn codi o'r stumog i'r genau. Ac am y rhesymau hyn, yr Oil yma yw y goreu a'r mwyaf effeithiol mewn arferiad.

Mewn blwch-botelau yn unig, am 1s. 4c., 2s. 6c., 4s. 9c., a 9s. Ar werth yn mhob man.

BYNN LIQUID MALT sydd nwydd gwerthfawr i'w ddefnyddio gyda Cod Liver Oil. Wedi ei gryfhau a'i wneyd yn nwydd llesol. Gwerthfawr at gynorthwyo treulïad. Mae hefyd yn bur ddefnyddiol mewn achosion o Ddarfeddigaeth ac anhwylderau cyffelyb. Mewn potell, 1s. 9c. yr un.

COCOA

Cadbury

Hollol Bur, wedi ei wneyd yn Lloegr.

Ni ddefnyddir Chemicals fel y gwneir yn Cocos a elwir yn rhai trwm.
Mae enw CADBURY ar unrhyw sypyn o Cocos neu Chocolate yn ddis-
slerwydd am burdeb.



SEBON

PEARS.

Y

TRAETHODYDD.

 TACHWEDD, 1892.

CYNHWYSIAD.

	Tc DAL
Gweddï a Bywyd o Ddauwioledeb. Gan yr Hybarch Archddiacon HOWELL, F.S.A.	405
Yr Epistol at y Galatiaid. Gan y Parch. ABEL J. PARRY	411
Eglwys Fyw: Anerchiad a draddodwyd o Gadair Undeb Cynulleid- faol Lloegr a Chymru, yn Bradford, Hydref 11eg, 1892. Gan y Parch. E. HEBBER EVANS, D.D.	421
Rhyddid y Rhyw Fenywaidd. Gan Mrs. M. OLIVER JONES.....	437
Yr Apostol Paul: Ei Brefiad a'i Athrawiaeth. Gan y Parch. JOHN HUGHES, D.D.	447
Hen Gerddi y Cymry. Gan MYRDDIN FARDD.....	459
Ymson uwch Bedd. Gan ISALLT	464
Yr Ysgol Haf ym Mansfield, Rhydychain. Gan y Parch. J. PULSTON JONES, M.A.	465
Nodiadau Llenyddol	474

CYHOEDDIR Y RHIFYN NESAF IONAWR 1af, 1893.

 PRIS SWLLT.

CAERNARFON:

ARGRAFFWYD A CHYHOEDDwyd GAN D. W. DAVIES & CO.

"NID OES GWELL BWD YN BOD"—*London Medical Record.*

Dyllid rhoddi cynnyg ar y Bwyd hwn yn lle bynnag y byddi lleusth arall wedi mudo. Wedi ei Goginio yn barod—nid oes ddaen ei ferwi na'i ystrudain. Gellir ei wneyd mewn myn.

Allen & Hanburys' Infants' Food

Bwyd lleol wedi ei gyfaddasu i ornnau trwmol Babanol a Phlant Ieuenc. yn cynnwys pobol angherddiol i ffurfio cnawd caled ac osyrru. Y mas offidol... dyfodol wedi ddiro ar y cynnyg y Bwyd yma, yr hwn, ar ol ei gymeryd uwch a grynwr a hyd. Tystiolaeth hefyd phob cyfarwyddyd gyda phob blwch.

Pris 6c., 1s., 2s., 5s. a 10s. Ar werth yn mhob man.

BIRD'S CUSTARD POWDER

Cyflenwa foethusfwyd dyddiol—Blasusfwyd mewn amrywiol diderfyn—Y dysgleidiau goreu o'r Custard goreu

HEB WYAU!

GWOBRRWYON DIWEDDARAF: Y Brii Wobr yn Paris, Melbourne, a Harod... Bathodau Aur, a Thystysgrifau yn mhob lle yr arddangoswyd et.

Needham's DISGLAER FEL DRYCH.

Polishing Paste

Modur cynnyg agos i ganrif fel y ddiarwrioneth oren at lanhu PRE, COPR, TIN, BRITANNIA METAL, PLATINOID, &c. Gellir ei gael yn mhob man mewn Potiau 6c. a 1s., neu Ffyciau 2g. a 1c.

Dyfeiwyr i Gwneuthurwyr,
JOSEPH PICKERING & SONS, SHEFFIELD.
 LONDON OFFICE: ST. GEORGE'S HOUSE, EASTCHEAP, E.C.

Y TRAETHODYDD.

GWEDDI A BYWYD O DDUWOLDEB.

GAN YR HYBARCH ARCHDDIACON HOWELL, B.D., F.S.A.

Y MAE *duwioldeb* yn air cryf, o'r hen ffasiwn, yr hwn sydd yn ein codi ar unwaith i gyffyrddiad â Duw. Golyga *duwioldeb* gyffelybrwydd i Dduw, neu fod fel Duw. Dyma ein bywyd perffaith. Dyma y bywyd i ba un yr ydym oll yn ymrwymedig trwy sacrament difrifol ein Bedydd Cristionogol,—bywyd o dduwioldeb. "Bywyd," meddwn. Nid cyffrawd achlysurol. Nid pang o edifeirwch yn awr a phryd arall. Nid crefydd-older Sabothau a dyddiau gwyl yn unig, ond *bywyd* o dduwioldeb. Y fath nod uchel i gyrchu ato!

I'r bywyd yma o dduwioldeb y mae Gweddi yn help neillduol. Ni fyddai ond ofer cyfeirio at y gwrthddadleuon yn erbyn gweddi a wnaed yn fynych, ac a atebwyd mor fynych. Yr ydym ni yn credu yn Iesu Grist, yr hwn a weddiodd drosto ei Hun, a weddiodd dros ereill, ac a ddysgodd ereill i weddio. Ni ddylai neb sydd yn credu yn yr Ymgnawdoliad deimlo anhawster pynciol mewn gweddi. Hyd yn oed pe byddai pob gweddi yn wyrth, fe fyddai i'r wyrth fwy gynnwys yr un lai. Yr ydym yn Gristionogion, ac fel y cyfryw y mae esiampl ein Harglwydd yn ein rhwymo i fywyd o weddi.

Ond beth yw gweddi? Ai "mynegi ein hanghenion i Dduw" yn unig, fel y dywed Paley; cydnabod ein dibyniad ar Dduw—darostwng ein hewyllys i ewyllys Duw—ymbil am fendith Duw? Y mae yn hyn oll, ond y mae yn ychwaneg na hyn. A ydyw yn gyffyrddiad ysbryd ag ysbryd—yn ddirchafiad ein dymuniadau a'n syniadau i wastadedd uwch o brofiad—yn ymestyniad am gyraeddiadau yr ydym yn ymwybodol nad ydym yn awr yn eu meddu—yn ymagoriad teimladau goreu ein natur foesol i ddylanwadau y byd ysbrydol, bron fel yr ymgyr blodeuyn i belydrau yr haul? Ai dyna weddi? Dywed rhai mai dyna ydyw. Ynte ai cri enaid ydyw, yn ymwybodol o'i enogrwydd a'i ddrygedd, yn atolwg am gael arbed y gosb y gwyr ei fod yn ei haeddu, ac yn ceisio dyhuddo Duw â hunan-ddarostyngiad oblegid ei bechodau? Dyma y mae rhai wedi tybied ei bod. Ond ai dyma weddi Cristion? Oni fyddai hyn oll yr un mor gymwys am weddiâu Deistiaid crefyddol, neu Iuddewon, neu Fahometaniaid? Ai ni fuasai gweddi yn yr ystyr yma mor wirioneddol pe na buasai yr Ymgnawdoliad erioed wedi cymeryd lle? Y cwestiwn yw, Beth yw gweddi Gristionogol,—gweddi fel y mae wedi ei datguddio i ni yn addysg, esiampl, a chyfryngdod ein Harglwydd Crist?

Yn awr y mae i weddi rai egwyddorion elfennol, am ba rai, mi dybiaf, yr ydym oll yn cytuno. Yn un peth, y mae yn rhaid fod teimlad o bechod, a dymuniad am ras. Rhaid hefyd fod ffydd fyw yng nghyfyngdod ac eiriolaeth ein Harchoffeiriad, oblegid ni all un weddi esgyn i'r drugareddfa oddieithr ym mwg y pech-aberth mawr. Rhaid

hefyd fod fydd gref a bywiol ym mharodrwydd Duw Dad i dderbyn ein hymbiliau yn enw y Duw Fab, fel y maent yn cael eu cynhyrchu gan ysbrydoliaeth Duw Ysbryd Glan. Y mae gweddi wedi cael ei dynodi nid yn amhriodol fel "anadl Duw mewn dyn yn dychwelyd at ei enedigaeath." Yr wyf yn cymeryd mai y rhai hyn ydyw egwyddorion cryfaf gweddi Gristionogol. Ond, ymhellach, y mae y sicrwydd am allu gorchfygol gweddi yn dyfod i ni o'n hundeb ag Ef yn enw yr Hwn yr ydym yn gweddio. Ein hundeb â'n Harchoffeiriad mawr yng ngwaith y prunedigaeth, ac yn ei waith presennol fel Eiriolwr troesom, yw yr hyn sydd yn rhoddi i ni sicrwydd hollol na wrthodir ein gweddian. Yr oedd y gwirionedd hwn yn cael ei osod gerbron drachefn a thrachefn yn nyddian olaf ei weinidogaeth Ef ar y ddaear. "Os arhoswch ynof fi, ac aros o'm geiriau ynoch, beth bynnag a ewyllysioch, gofynnwch, ac efe a fydd i chiwi." Mewn geiriau ereill, cedwch mewn undeb â mi, ac fe fydd eich gofyn chiwi yn ofyn o'r eiddod fi. "A pha beth bynnag a ofynnoch yn fy enw i, hynny a wnaf, fel y gogonedder y Tad yn y Mab. Os gofynnwch ddim yn fy enw i, mi a'i gwnaf." Yn awr os oes ystyr i eiriau oll, y mae yn sicr fod llwyddiant ein gweddian yn dibynnu ar ein perthynas â Christ. Yr ymwybodolrwydd o'n perthynas â Christ sydd yn rhoddi i ni sicrwydd y gwrandewir ein gweddian; ac i'r graddau y bydd yr ymwybodolrwydd hwn yn ddwfn a chllir, y bydd ein fydd yn north gweddi. "Yr ydwyf fi yn fy Nhad, a chwithau ynof fi, a mi ynoch chiwi. Megys yr wyt ti, y Tad, ynof fi, a minnau ynot ti, fel y byddont hwythau un ynom ni." Mae y gwirionedd yma am ein hundeb â Christ, a thrwyddo Ef â'r Tad, yn gorwedd wrth wraidd pob golygiadau priodol am weddi. O edrych arni yn y goleuni yma, y mae pob gwir weddi mewn ystyr yn oruwehnaturiol. Yng Nghrist yr ydym uwchlau natur; ac y mae hyn yn distewi pob ceuru am unfurfiaeth deddf naturiol, oblegid yr ydym yn un â'r Deddfroddwr. Gweddi ydyw effaith a chyflawniad bwriad Duw; ac y mae Duw yn Dduw moddion yn gystal ag yn Dduw gwyrtiau. Fe welir felly fod sail gweddi Gristionogol yn gwbl ansigledig. Gorweddau yn Ymgawdoliad Duw, addewidion Duw, cymeriad Duw, rhagluniaeth Duw (fel "dehonglydd ei ewyllys a'i air"), preswyliaid Ysbryd Duw, ac yng nghorfforiad holl etholedig bobl Dduw yng Nghrist, y rhai dynt mor wirioneddol a hanfodol ynddo Ef ag y mae y goleuni yn yr haul: "wedi eu croesholio gydag Ef," "wedi cyfodi gydag Ef," "wedi esgyn gydag Ef," ac yn awr yn ei berson Ef yn teyrnasu ar orsedd y greadigaeth.

Gan mai y fath ydyw natur gweddi Gristionogol, fe ofynir yn naturiol, Ym mha ffordd y cynorthwya ni oreu i fyw bywyd o dduwioldeb? Mae esiampl ein Harglwydd yn rhoddi i ni atebiad triffygl, fel y dilynawn ei gamrau mewn gweddi gyhoeddus, breifat, ac eirioliadol.

Yr oedd Efe, fel y gwyddom, yn arfer dilyn gwasanaeth cyhoeddus yr Eglwys Iuddewig, pa un bynnag ai yn y Deml ai yn y Synagog. Ac y mae Eglwys Loegr yn cymeryd yn ganiatâol fod ei phlant yn dilyn ei Threfn o Weddi Gyhoeddus Ddyddiol, lle bynnag y gellir. Yr wyf yn gwybod yn dda am yr anhawster i wneyd hynny, yn enwedig yn ein Heglwys anwyl yng Nghymru, lle, nid yn anfynych, y mae Eglwys y Plwyf ymhell oddiwrth yr offeiriad a'r bobl. Yr wyf yn gwybod yn dda am yr anhawster sydd yn codi oddiwrth brysurdeb bywyd yn y dyddiau hyn, ac amgylchiadau llawer o deuluoedd. Yr wyf yn gwybod fod llawer iawn heb fod awdurdod ganddynt ar eu hamser. A dyna y ffaith ychwanegol

fod addoliad teuluaid, ar yr hwn y mae yn amhosibl rhoddi gormod o bwys, yn awr yn cael lle ym mywyd crefyddol y genedl, yr hyn nad ydoedd yn bod ddwy neu dair canrif yn ol; a phrin y mae eisieu i mi ddweyd na ddylai y gwasanaeth dyddiol yn yr Eglwys byth gymeryd lle addoliad teuluaid, nac addoliad teuluaid le gweddi ddirgel. Fe wna gweddi deuluaid, yn enwedig pan wedi ei uno â mawl teuluaid, bob cartref Cristionogol yn wir Fethel. Duwioledeb gartref ydyw un o brif angenrheidiau ein dydd. Os yw duwioledeb gartref yn wan, effeithia ar weddïau yr eisteddle, a phregethu y pulpud; canys duwioledeb dyn mewn gwirionedd—pa un bynnag ai llen ai lleyg a fyddo—ydyw yr hyn ydyw gartref. Y mae *Crefydd yr Aelwyd* wedi bod bob amser yn nodwedd arbennig ein hanwyl Gymru, a hir y parhao felly; canys crefydd deuluaid ydyw gwreiddyn pob crefydd genedlaethol. Yr wyf yn rhwydd yn caniatâu hyn oll; ond nid ydwyf yn llai dwfn argyhoeddedig o ddymunoldeb a bendith gweddi gyhoeddus ddyddiol yn yr Eglwys. Gallai nad ydyw ond ychydig i ddweyd yr aiff rywfaint at symud ymaith y syniad ffol sydd eto yn rhy gyffredin, mai yr offeiriad ydyw yr unig ddyn yn y plwyf sydd yn gweithio ddim ond un diwrnod yn yr wythnos. Ond y mae eto yr ystyriaeth lawer uwch fod y gwasanaeth dyddiol yn gyfarfod gweddi plwyfol dyddiol, fod y cylch o lithiau yn gwneyd yr Undeb goreu sydd yn bosibl er darllen y Beibl, fod y fath gynhulliad yn dystiolaeth ddyddiol dros Dduw, ac yn gyflenustra dyddiol i weddio dros ereill, pa un bynnag ai ychydig ai llawer ddelo ynghyd; fod hyd yn oed swm cloch y llan yn wrthdystiad yn erbyn materolaeth oes rŷ brysur a rhy gynhyrfus; ac uwchlaw popeth arall, fod genym ymrwymiad ac addewid benodol, "Lle mae dau neu dri wedi ymgynnull yn fy enw i, yno yr ydwyf yn eu canol hwynt." Yr wyf yn ddwfn argyhoeddedig nad ydym yn gwneyd dim tebyg i'r defnydd a ddylem o'n llannau, ac fod nerth gweddi unedig yn wirionedd nad ydyw yr Eglwys eto wedi ei ddysgu ond yn amherffaith. Yn bresennol, er mai prin yr addefir hynny, ymddengys yr Eglwys fel yn ystyried sicrhâd mawr ein Harglwydd ar y pwynt yma fel bron yn felylu ar ormodiaeth. Dyma ei eiriau Ef ei Hun, mor newydd a chynnes a di-amodol a phan y daethant dros ei wefusau Dwyfol Ef ei Hun yn agos i bedair canrif ar bymtheg yn ol:—"Os cydsynia dau o honoch ar y ddaear am ddim oll, beth bynnag a'r a ofynnant, efe a wneir iddynt gan fy Nhad yr hwn sydd yn y nefoedd." Yn awr a oes i'r geiriau hyn eto wir ystyr? Os nad yn yr ystyr lythrennol, ymha ystyr y maent i'w deall? Pa mor bell y maent wedi ei bwriadu i fod yn egwyddor weithredgar ym mywyd yr Eglwys? A ydynt yn ddeddf sydd wedi mynd allan o arferiad, neu yn un sydd eto yn fyw, ac yn nerth ysbrydol sydd ar waith yn llywodraeth foesol Duw? Yr wyf yn dweyd eto fod gan yr Eglwys eto i ddysgu beth ydyw nerth gweddi unedig; ac onid ydyw yn warth i ni nad ydyw cysegrleoedd Duw, ddydd ar ol dydd, yn adsain gan erfyniadau taerion unedig ei bobl gyfamodol?

Onid mae yn rhaid i weddi gyhoeddus, er iddi fod yn nerth ysbrydol effeithiol, fod yn ffrwyth gweddi breifat barhaus; a rhaid i weddi felly fod yn rhywbeth mwy na'r weithred reolaidd o weddio, pa mor barchedig bynnag y cyflawner hi. Llai fyth y mae yn gynnwysedig mewn arfer draddodiadol, ymha un "y mae y meddwl yn breuddwydio ei ffordd trwy dafodiaith o eiriau meirwon, ac yn nofio ar lif o eiriadaeth ystrydebol." Y mae hanfod gwir weddi yn gorwedd yn fwy mewn ystad nag mewn

gweithred, yn fwy yn agwedd wastadol yr enaid nag mewn gweithred o ddefosiwn. Ni chyrhaeddir nerth mewn gweddi ond gan un sydd ei hunan yn byw mewn gweddi. Mae effeithiolrwydd gweddi yn dibynnu i fesur helaeth ar ysbrydolrwydd y neb sydd yn gweddio. Nis gall dyn anysbyrdol mewn gwirionedd weddio, canys y mae allan o gydymdeimlad â Duw. Y mae mynediad sydyn o ystâd oer, gnawdol, fydol, i nerth mewn gweddi, neu mewn pregethu, yn ambosibl. Ni all ddyfod ond yn unig o gysegriad parhaus yr enaid i Dduw. "Y bywyd Cristionogol," ebai Origen, "sydd un weddi barhaus." "Nid yw dyn yn debyg o wneyd llawer o weddi," ebai Phylip Henry, "os nad ydyw yn gwneyd gweddio yn orchwyl parhaus." Fe ddywedid am y diweddar Charles Higgins, "mai gweddio oedd gwaith ei fywyd." Mae yn sicr nad oes un ffordd arall i nerth ysbrydol; ni all ddyfod ond fel frfyrth bywyd o weddio. "Dyddiau ac wythnosau cyfain," ebai efenglydd mawr y ganrif ddiweddar, George Whitfield, "a dreuliais ar fy hyd ar y llawr, mewn gweddi ddistaw neu ar lafar." Ac yr wyf yn deall ar awdurdod un ag oedd yn dra chydabyddus ag un oedd yn allu mawr yn y Dywysogaeth ychydig flynnyddoedd yn ol, ei fod nid yn anfynych yn treulio nosweithiau cyfain ar ei lliniau mewn ymdrech gyda Duw. Mor wir ydyw yn chafodd neb erioed ddylanwad ysbrydol mawr nad ydoedd yn aml, ac yn hir, ei hunan gyda Duw. "Y mae dawn," ebe Goethe, "yn ymfurfio mewn distawrwydd, ond cymeriad yn nherfysg y byd."

Ond tra fel yma y gosodwn y pwys mwyaf ar hyn fel amod anhepgorol pob gweddi lwyddiannus, nid ydwyf yn cydnabod yn llai bwysigrwydd amserau, prydiau, a lleoedd i weddio yn y dirgel. Ni a wyddom am Bwy y mae yn ysgrifenedig, "A'r bore yn blygeiniol iawn, wedi iddo godi, Efe a aeth allan, ac a aeth i le anghyfannedd, ac yno y gweddiodd." Am ardd Gethsemane, chwi gofiwch y dywedir, "Mynych y cyrchasai yr Iesu a'i ddisgyblion yno." A gwyddom Pwy a ddywedodd, "Ond tydi, pan weddiech, dos i'th ystafell, ac wedi cau dy ddrws, gweddia ar dy Dad yr hwn sydd yn y dirgel." Mae y paratôad yma i gymundeb personol â Duw o'r pwysigrwydd mwyaf sydd yn bosibl. Yr oedd yn arfer gan Esgob Hall i sefyll yn llonydd am ychydig amser cyn y penliniai. "Astudiwch eich gweddiau," oedd cyngor un o ddynion sancteiddiolaf y ganrif hon; "mae rhan fawr o fy amser i yn cael ei gymeryd i fynd i gael fy nghalon i dymer gweddio." Mae brys ac esgeuluo myfyrdod yn anghueol i wir weddi. Mae penlinio mewn prysurdeb, dechreu siarad â Duw heb rag-fyfyrdod, a thywallt allan lif o eiriau, heb eu teimlo na'u sylweddoli, yn fagl ofnadwy i lawer yn yr oes brysur a chythryblus hon. Y mae ysbryd gweddi yn colli yn fuan yn ein siaradach crefyddol; ac y mae amserau pan y gweddiwn fwyaf pan y dywedwn leiaf. Sefyll yn llonydd dan ymwybodolrwydd bywiol o bresenoldeb Duw—atal pob gweithrediad o feddlw a theimlo, a sylweddoli yn syml ein bod yn Nuw, a Duw ynom ninnau—dal ein hanadl, megys, dan deimlad o agosrwydd ofnadwy Duw—y mae hyn weithiau wedi ei brofi yn foddion mwy gwirioneddol ac uwch o gymundeb â Duw nag unrhyw weithrediadau ffurfiol o ddefosiwn, canys yn sicr y mae yn well cael calon heb eiriau, na geiriau heb galon. Mae gweddi yn foddion nid yn unig i gael yr hyn sydd arnom eisieu, ond uwchlaw y cwbl, i gael ein heneidiau i gyffyrddiad â Duw, pa un bynnag a gawn yr hyn sydd arnom eisieu ai peidio. Y mae dyhêadau annhraethadwy o

eiddo y galon am Dduw, i ba rai y mae geiriau ambell dro yn rhwystr yn hytrach na help. Ond tra y mae prin yn bosibl gosod gormod o bwys ar hunan-feddianiad a thawelwch sanctaidd yn yr enaid fel parotôad i weddi, rhaid peidio anghofio fod rhai o feistriaid enwocaf bywyd defosiynol yu argymell defnyddio geiriau defosiwn, yn cael eu llefaru yn barchedig, fel o'r cynhorthwy mwyaf yn ein hymwneyd dirgel â Duw. Fe geir defnyddio geiriau yn gynorthwyol mewn crynhoi a sefydlu ein meddyliau, oblegid a oes rhywbeth mwy blin i enaid defosiynol na meddyliau crwydredig mewn gweddi?—mewn sylweddoli yn ein hymwybyddiaeth ein bod yn llefaru wrth Dduw personol, oblegid onid yw ansefydlogrwydd breuddwydiol yn fynych yn fagl i weddi?—mewn trefnu a definio ein deisyfiadau, oblegid onid yw “cyffredinolion yn angu i weddi”?—mewn cyffroi ein dymuniadau i daerineb sanctaidd, oblegid “y mae deisyfiadau oerion yn galw am eu nacau,” ac y mae “esmwythder dymuniad,” fel y dywed Jeremy Taylor wrthym, “yn elyn mawr i weddïau dyn da”—a hefyd mewn cadw teimlad byw o wioneddolrwydd difrifol yr hyn sydd yn cymeryd lle rhwng ein heneidiau a Duw, oblegid “y fath anweddeidd-dra anferth ydyw,” fel y dywed yr un Esgob sanctaidd, “i ddyd siarad wrth Dduw am beth nad yw yn werthfawrogi”? Canys y mae Duw yn ateb, nid ein geiriau, ond ein dymuniadau; nid yr hyn y dylai fod arnom ei eisieu, ond yr hyn y gwyddom ac y teimlwn fod arnom ei eisieu; a mynych y dylem ofyn i ni ein hunain y cwestiwn, a ydym mewn gwirionedd yn barod i ateb Duw i'n gweddiâu? I fanylion gweddi ddirgel ni allaf fynd—pa un a ddylai fod yn ein geiriau ein hunain, neu yng ngeiriau ereill—pa un a ddylai fod yn hir neu yn fer—a pha un a fywehir yr enaid oreu, fel ei weithred effro gyntaf, gan damaid peraidd o Air Duw, ynte trwy adrodd, fel y gwna rhai, bennill sanctaidd o hymn. Materion personol ydyw y rhai hyn, y rhaid eu gadael at anghenion amrywiol dynion. Yr hyn ydyw yn ddal ydyw, fod gweddi ddirgel yn anghenrhaid mor anhepgorol i'r enaid ag ydyw anadlu i'r corff; na ddylid gwneyd dim yn esgus dros ei hesgeuluso, neu osod dim yn ei lle; y rhaid i'r fath weddi, i fod yn effeithiol, fod yn rheolaidd, parchedig, pwylllog, penodol, a disgwyliadol; ac fod cyflawniad brysiog o honi yn galw am ad-daliad sicr mewn basder, gwendid, sychder, a marweidd-dra enaid. “Mae anadl gweddi yn codi o fywyd ffydd;” ac nid oes arnom un amser eisieu gweddi yn gymaint a phan ydym leiaf tueddol i weddi. O un peth gallwn fod yn sicr, nad oes amser a ellir dreulio yn fwy enillfawr nag mewn cymundeb agos, ymddiriedgar, a “chalon-ddwfn” â Duw mewn gweddi. Ac onid ydyw Duw yn galw am fwy o amser gan bawb o honom? Gwyddom oll y dywedïad mai “gweithio yw gweddi,” ond nid gweithio fel peth yn lle gweddi, ond yn unig gweithio yn ysbryd, ac fel ffrwyth gweddi. Mae S. Bernard o Clairvaux yn dweyd wrthym ei fod ef “yn cael mai ar y dyddiau y trenlïai fwyaf o amser mewn gweddi, ac mewn astudio yr Ysgrythyrau, yr oedd ei lythyrau yn cael eu hysgrifennu gyflymaf ac yr oeddynt fwyaf darbwyllog; yr oedd ei waith cyffredin yn cael ei wneyd gyntaf a mwyaf llwyddiannus; ac yr oedd ei gynlluniau ef ei hun yn cael eu behangu neu eu colli ym mwriadau mwy Duw: yr oedd pryder yn cael ei leddfu, a gallu yr Ysbryd Glan, i'r Hwn yr agorasai ei galon, yn cael ei deimlo ymhob gair a ddywedai, a hyd yn oed yn ei bresenoldeb a'i edrychiad.”

Ond fel y rhaid i weddi gyhoeddus, i fod o ddim gallu, ddyfod allan o weddi breifat wastadol, felly mae yn rhaid i weddi breifat, i fod yn iachus a nerthol, gael llifo allan yn gyson mewn gweddi dros ereill. Y fath wirionedd rhyfeddol ydyw hwn am allu eiriolaeth! Yn yr olwg ar ei ddifawredd, fe'n hanner tueddir ni i ddweyd am dano, fel y dywedodd Tertulian am wirionedd arall, "Yr wyf yn ei gredu, am ei fod yn amhosibl"—wrth yr hyn y golygai y gellid, yn holl weithredoedd Duw, ddisgwyl am yr hyn a elai tu hwnt i'n syniadau ni am yr hyn sydd debygol, neu bosibl. "Arglwydd, anghwanega ein ffydd!" Y mae llawer gormod o hunanoldeb yng ngweddïau y rhan fwyaf o honom. Mae ein deisyfiadau yn troi mewn cylch tra chul. Nid ydyw ein cydymdeimlad ond yn anfynych yn myned oddi cartref. Yn hyn, fel ymhob peth arall, mor fawr y gwahaniaeth rhyngom a'n Harglwydd Dwyfol! Mae bron ei holl weddïau yn yr Ysgrythyr yn weddïau dros ereill. Ac un o'r geiriau olaf a ddaeth dros ei wefusau pan yn marw, ynghanol tywyllwch Calfaria, oedd weddi dros y rhai oedd ar y weithred o'i lofruddio. Mor gyfoethog ydyw yr Ysgrythyr Sanctaidd ar y mater yma o eiriolaeth! Mor orlawn ydyw Epistolau St. Paul o "ddeisyfiadau a thalu diolch"—a'r fath restr a ellid roddi o faterion deisyfiadau yr Apostol! Mor dyner ydyw ei gyfeiriad at Epaphras "yn ymdrechu yn wastadol mewn gweddïau" dros Gristionogion Colossa. Yn nesaf at y dymuniad o glywed ein Harglwydd ei Hun yn y weithred o weddio, fe ddymunai un fwyaf, mi dybiaf, glywed ymdrechion y cawr ysbrydol hwnnw, St. Paul, fel y gwarchaeai ar galon Duw! A'r hyn oedd wir am dano ef a fu mewn mesur yn wir am fyrdiynau wedyn. Dywedir fod Esgob Andrewes yn treulio pum awr y dydd mewn gweddi eirioliadol. Ac am un o saint ein dyddiau ni, y sanctaidd Esgob Hamilton, fe ddywedir, wedi iddo gael ei hysbysu fod ei anhwyldeb yn debyg o derfynu yn farwol, iddo o hynny allan dreulio dwy awr bod dydd mewn gweddio dros ei esgobaeth. Yr ydym oll yn gwybod fel y dilynai y General Gordon ei fechgyn o Woolwich, o le i le, gyda'i weddïau taerion, ac fel y darfu i swyddog ieuanc yn y fyddin, trwy ddamwain, weled ei enw ar restr eirioliadol Gordon, ac fel y darfu i'r darganfyddiad ei fod yn cael gweddio drosto, pan na weddïau drosto ei hun, anfon saeth argyhoeddiad yn ddwfn i'w enaid Mae un sydd yn sefyll yn uchel iawn am ei allu mewn gweddi,—sylfaenydd Amddifadai Ashley Downs,—yn dywedyd wrthym yn ei adroddiad diweddfod dros £800,000 wedi eu rhoddi iddo at gynhaliath dros 8,000 o amddifaid, fel ffrwyth gweddio ar Dduw, heb fod neb yn cael apelio ato am ddim,—gwaith y dywedodd amheuw'r unwaith ei fod yn dyfod yn nes at brofi gwirionedd Cristionogaeth na dim a welsai efe erioed o'r blaen. Dyma allu y mae Crist wedi ei osod yn nwyllaw ei Eglwys, yr hwn, o'i iawn ddefnyddio, a elai ymhell at glirio awyrgylch foesol y byd syrthiedig hwn. Yr ydym weithiau yn siarad yn ddiystyr am benarglwyddiaeth Duw, fel pe yn golygu fod iachawdwriaeth dynolryw mewn rhyw ffordd yn cael ei chadw yn ol gan yr arfaeth Dwyfol. Ond yr ydym yn cael cyfyngu arnom gan ein diffyg ffydd ein hunain, ac nid yn ewyllys da Duw at eneidiau dynion. "Y mae llawer o addewidion Duw," meddai y gwr hynod yr oedd ei ymadawiaid dro yn ol yn cynhyrfu myrdd o galonau Cristionogion, "fel clwm agoriadau y gof gwyn—yn bur rydlyd, am eu bod yn cael eu defnyddio mor anaml." Ai felly y mae? Ai felly y mae? Yna ar ein gliniau, fy mrodyr yn y weinidogaeth! Ar eich gliniau, fy mrodyr y llyegwyr! Ar eich glin-

iau, feibion a merched ein mam Eglwys yng Nghymru, ar eich gliniau bawb "sydd yn meddwl am ei enw Ef!" Llawer, mawrion, a phwysig ydyw anghenion ein Tywysogaeth hoff. Ond hyn, uwchlaw y cwbl: dynion nerthol mewn gweddi, dynion o fydd gawraidd mewn gweddi eirioliadol, dynion yn fyw gan ynni hollalluog Duw Ysbryd Glan, dynion yn dadleu addewidion Duw fel gwirioneddau bywiol, ac yn dweyd gyda'r Patriarch gynt, "Ni'th olyngwn, oni'n bendithi." "Y rhai ydych yn cofio yr Arglwydd, na ddistewch, ac na adewch ddistawrwydd iddo hyd oni sicrhao, ac hyd oni osodo Jerusalem yn foliant ar y ddaear."

YR EPISTOL AT Y GALATIAID.

IV.

Pen. IV., V., VI.

Y MAE allwedd yr ymresymiad sydd yn dilyn, yn adn. 26ain ym mhen. iii.

Canys chwi oll ydych feibion [y Cyt. Diw] i Dduw trwy fydd yng Nghrist Iesu.

Fel *meibion* yr oeddynt wedi cyrhaeddyd oedran ac addfedrwydd a'u gosodent uwchlaw rheolau caethiwus priodol i stad o blentyndod, y cyflwr yr oedd y rhai oeddynt dan y ddeddf ynddo. Yr oedd y Galatiaid felly, wrth geisio myned dan y ddeddf, yn ceisio myned i gyflwr o blentyndod. Nid yw yr Apostol ond braidd wedi crybwyll y gwirionedd oll-bwysig hwn yn yr adnod uchod. Ym mhen. iv. cymer ef i fyny eilwaith er ei egluro ymhellach a'i bwysleisio, ac er dangos yn arbennig wrthuni y cyfrw gwrs.

A hyn yr wyf yn ei ddywedyd; dros gymaint o amser ag y mae yr etifedd yn fachgen, nid oes rhagor rhyngddo a gwas, er ei fod yn Arglwydd ar y cwbl; eithr y mae efe dan ymgeleddwyr [gwarchodwyr] a llywodraethwyr, hyd yr amser a osodwyd gan y tad. Felly ninnau hefyd, pan oeddym fechgyn, oeddym gaethion dan wyddorion y byd; ond pan ddaeth cyflawndor yr amser, y danfonodd Duw ei Fab, wedi ei wneuthur o wraig, wedi ei wneuthur dan y ddeddf; fel y prynai y rhai *oedd* dan y ddeddf, fel y derbynem y mabwysiad. Ac o herwydd eich bod yn feibion, yr anfonodd Duw Ysbryd ei Fab i'ch calonnau chwi, yn llefain, Abba, Dad. Felly nid wyt ti mwy yn was, ond yn fab; ac os mab, etifedd hefyd i Dduw trwy Grist. Eithr y pryd hynny, pan oeddych heb adnabod Duw, chwi a wasanaethasoch y rhai wrth naturiaeth nid ydynt dduwiau. Ac yn awr, a chwi yn adnabod Duw, ond yn hytrach yn adnabyddus gan Dduw, pa fodd yr ydych yn troi drachefn at yr egwyddorion lleeg a thlodion, y rhai yr ydych yn chwennych drachefn o newydd eu gwasanaethu? Cadw yr ydych ddiwrnodau, a misoedd, ac amseroedd, a blynyddoedd.

Y mae yn amlwg oddiwrth eiriau agoriadol y paragraff uchod, fod y mater a gynhwysai yn un difrifol-bwysig yng nghyfrif yr Apostol. Geilw sylw arbennig at y ffaith ei fod yn myned i'w drafod, "A hyn yr wyf yn ei ddywedyd." Yr oedd eisoes wedi ei grybwyll fel y dangoswyd uchod. Ond y mae yn galw sylw at ei fod yn myned i'w ail ystyried a'i egluro yn fwy manwl a helaeth. Cynllun ei ymresymiad sydd fel a ganlyn:—

1. Cyfeiria eu sylw at arferiad a ffynnai ymhlith dynion,—arferiad, mae'n ddiau, oedd gynhefin i'r Galatiaid, o osod mab yn ystod tymor

ei fachgendod, dan ofal a rheolaeth gweision neillduol,—rhai heb fod eu hunain, yn fnych, yn ddim amgen na chaethweision. A thra yn y cyfiwr hwn, nid oedd y plentyn, er yn wreiddiol yn arglwydd ar y cwbl, yn ddim amgenach na gwas, heb ganddo ewyllys o'i eiddo ei hun, na gallu i weithredu yn annibynnol. Cedwid ef dan lywodraeth fanol a llem.

2. Tystia yn nesaf mai stad gyffelyb i hon oedd eiddo y rhai oeddynt dan y ddeddf; un yn sefyllfa y bachgen, dan reolaeth gaethiwus a blin. oedd yr Iuddeu, dan y ddeddf. Yr oedd yn was i “wyddorion y byd,” i elfennau cnawdol neu faterol. Fe elwir y ddeddf yn “gyfraith gorchymyn cnawdol”—seremonïau ac ordeiniadau o natur faterol. Yr oedd yr Iuddeu yn gaeth i'r pethau hyn. Teimlai hwy yn bethau beichus a blinderus, fel y dengys Pedr: “Yn awr, gan hynny, paham yr ydych yn temtio Duw, i ddodi iau ar warrau y disgyblion, yr hon nid allai ein tadau ni ei dwyn?” Act. xv. 10. Er y gelwir y ddeddf yn “wyddorion y byd,” yn “elfennau llesg a thlodion,” eto nid ydym i dybio nad oedd ganddi ei gwasanaeth pwysig ac angenrheidiol, oblegid safai yn yr un berthynas â'r genedl Iuddeuig ag y safai yr ymgeleddwr a'r llywodraethwr â'r bachgen; felly, tra y bu, gwasanaethodd i ddibenion pwysig.

3. Yn nesaf, dengys mai fel y trefnai y tad cyffredin adeg benodedig pan y deuai gofal a rheolaeth yr ymgeleddwr a'r llywodraethwr i ben, felly y trefnodd y Tad Dwyfol adeg pan yr oedd y genedl Iuddeuig i gael ei dwyn o gaethiwed y “gwyddorion bydol,” “cyfraith y gorchymyn cnawdol,” y seremonïau materol, y rhai a “safent ar fwydydd a diodydd ac amryw olchiadau a gwyliau ac amserau.”

Onid pan ddaeth cyflawnder yr amser, y danfonodd Duw ei Fab, wedi ei wneuthur o wraig, wedi ei wneuthur dan y ddeddf; fel y prynnu y rhai oedd dan y ddeddf, fel y derbyniem y Mabwysiad. Ac o herwydd eich bod yn feibion yr anfonodd Duw Ysbryd ei Fab i'ch calonnau chwi yn llefain Abba Dad. Adn 4—6.

Daethant hwy o gaethiwed y ddeddf trwy oruchwyliaeth arbennig. Nid oedd dim yn achos y plentyn yn y gymhariaeth yn cyfateb iddi. Felly mae y gymhariaeth yn pallu yma. Nid oedd yn ofynol cael cyfryngiad neb i effeithio rhyddhad y bachgen oddi tan lywodraeth yr ymgeleddwr i ofal yr hwn yr ymddiriedasid ef. Ond yr oedd achos y rhai oeddynt dan y ddeddf yn gyfryw ag a ofynai y fath gyfryngiad. Am hynny trefnodd Duw i'w Fab ei Hun ymgymeryd â'r gorchwyl. Ymgymhwysodd yntau ato trwy ymgnawdoliad,—“ei wneuthur o wraig;” a'i ddyfodiad yn Iuddeu—“ei wneuthur dan y ddeddf.”—hynny yw, cymerodd natur y rhai oeddynt yn gaethion, ac aeth i'w sefyllfa; ac felly gosododd i lawr sail eu rhyddhad, sef eu pryniad. Gwneyd meibion o honynt oedd yr amcau mawr. Ond i gyrraedd hynny, yr oedd yn ofynol gwneyd dau beth ar eu rhan. 1. Eu mabwysiadu. 2. Rhoi anian meibion ynddynt. Ond y cam cyntaf tuagat hyn oedd eu prynnu. Felly dyma yr oruchwyliaeth yn ei holl raddau:—prynnu o'r caethiwed; mabwysiadu i'r teulu; adgenhedlu i'r anian fabaidd; gwaddoli â'r etifeddiaeth. Rhaid manylu ychydig ymhellach ar y pedwar.

(1). Y prynnu. Wrth ryddhau y bachgen oddiwrth reolaeth gaethiwus y gwarchodwyr, nid oedd angen ei brynnu, oblegid nid oedd yn wir gaethwas. Yr oedd yn gaeth, ond nid fel gwas, ond fel plentyn dan oed, ac felly yn analluog i ofalu am dano ei hun. Eithr am y rhai oedd

dan y ddeddf, er yn genedlaethol yn blant, eto yn ysbrydol yr oeddynt yn wirioneddol gaethion, ac yr oedd yn ofynol eu prynnu, a rhoi pridwerth am danynt fel am gaethion.

(2). Mabwysiadu. Yn achos y bachgen yn y gymhariaeth, yr oedd ef yn blentyn gwirioneddol; felly nid oedd ei ryddhad odditan ofal ei lywodraethwr yn cael ei ddilyn gan fabwysiad. Gan ei fod yn wirioneddol fab eisoes, nid oedd angen ond cydnabod ei gyrhaeddiad o'i gyflawn oed. Ond yn achos yr Iuddew, gan mai caethwas oedd i'r ddeddf, nis gallai ddyfod yn fab ond trwy fabwysiad. Nid ydyw mabwysiad yn beth priodol yn achos mab, ond yn achos estron. Fel caethwas fe'i prynwyd; fel estron fe'i mabwysiadwyd.

(3). Adgenhedlu. "Ac am eich bod yn feibion [trwy fabwysiad wrth gwrs], yr anfonodd Duw Ysbryd ei Fabi'oh calonnau chwi, yn llefain Abba Dad." Golyga "Ysbryd ei Fab" yr Ysbryd Glan. Rhoddwyd ef i'r Mab yn ol yr addewid, Act. ii. 33. Daeth yn Ysbryd y Mab fel yr oedd at ei wasanaeth arbennig Ef i sicrhau dibenion mawrion ei deyrnas. Y mae ei ddanfoniad i galonnau y credinwyr yn golygu y gweithrediadau hynny o'i eiddo ynddynt sydd yn cyfateb i'r ailenedigiaeth. Beth ydyw yr ailenedigaeth, ond cynhyrchu ynddynt y teimlad mabaidd? Yn Rhuf. v. 5, sonir am yr Ysbryd Glan yn *tywallt cariad Duw yn y galon*. Beth ydyw hyn eto ond cynneu y serch mabaidd yn anian y credadyn, a'i wneyd, nid yn fab mewn safle, trwy fabwysiad, ond trwy blaniad anianawd fabaidd hefyd ynddo? Y mae yr anian fabaidd a gynheuir gan yr Ysbryd Glan, yn dyfod yn beth mor gynghreddfol ynddo nes y mae yn ei ddangos ei hun yn yr iaith dyneraf a'r dyhead mwyaf ymllynol: "yn llefain Abba Dad."

(4). Y Gwaddoliad. "Felly nid wyt ti mwy yn was ond yn fab; ac os mab, etifedd i Dduw trwy Grist." Mewn darlenniadau cywirach gadewir "trwy Grist" allan, a newidir "i Dduw" am "trwy Dduw." Ond prif bwynt yr Apostol yma ydyw pwysleisio y ffaith o'u mabolaeth. "Felly," am ddau reswm,—eu mabwysiad, yn ol adn. 5, a'u hadgenhedliad, yn ol adn. 6—yr oedd cwestiwn eu mabolaeth fel pe dywedasai wedi ei setlo; ac am eu bod yn feibion di-os, yr oeddynt yn etifeddion trwy Dduw; trwy Dduw, fel yr Hwn a'u mabwysiadodd ac a gynhyrchodd ynddynt yr anian fabaidd, trwy blaniad neu dywalltiad ei gariad ei Hun yn eu calonnau trwy yr Ysbryd Glan yr hwn a roddwyd iddynt. Rhuf. v. 5.

4. Wedi egluro trefn rhyddhad yr Iuddew odditan y ddeddf, & ymlaen yn nesaf i egluro achos y Galatiaid fel rhai yn ceisio myned i'r cyflwr o'r hwn y rhyddhawyd yr Iuddew.

Eithr y pryd hwnnw, pan oeddych heb adnabod Duw, chwi a wasanaethbasoch y rhai wrth naturiaeth nid ydynt dduwiau. Ac yn awr, a chwi yn adnabod Duw, ond yn hytrach, yn adnabyddus gan Dduw, pa fodd yr ydych yn troi drachefn at yr egwyddorion lleag a thlodion, y rhai yr ydych yn chwennych drachefn o newydd eu gwasanaethu. Adn. 8, 9.

Gwelir fod dull dygiad y Galatiaid, fel Cenedloedd, i ryddid meibion Duw, yn wahanol i ddull dygiad yr Iuddew i'r tir hwn. Nid oes son am brynnu y Galatiaid, oblegid nid oeddynt hwy dan y ddeddf, nac felly yn gaethion dani. Darlunir yr oruchwyliaeth adferol yn eu hachos hwy yn y ddau "adnabod" yn yr adnod uchod—"adnabod Duw," ac "adnabyddus gan Dduw." Awgryma yr Apostol mai eu hadnabyddiad hwy gan Dduw oedd y cam cyntaf yng ngoruchwyliaeth

eu hadferiad. Y mae, mewn ffordd neillduol, yn pwysleisio hyn. Wedi galw sylw at eu hadnabyddiad hwy o Dduw, "a chwi yn adnabod Duw," y mae megis yn sefyll ac yn cywiro ei hun,—“yn hytrach yn hadnabyddus gan Dduw.” Golyga fod eu hadnabyddiad gan Dduw wedi rhagflaenu eu hadnabyddiad hwy o Dduw. Golyga eu hadnabyddiad hwy gan Dduw eu gwneyd hwy, fel Cenhedloedd, yn ddeiliaid gweinidogaeth yr Efengyl, eu derbyniad i gyfranogiad o freintiau yr oruchwyliaeth newydd. Saif yr *adnabyddiad* hwn yn gyferbyniol i'r agweddiad o gwbl *anwybyddiad*, y gwelodd Duw yn dda ei wisgo tuagat y byd cenhedlig, cyn belled ag yr oedd gwneyd unrhyw ddarpariadau crefyddol ar ei gyfer yn myned. Darlunia yr Apostol yn ei araeth fawr yn Athen y cyfnod hir o Abraham hyd “gyflawnder yr amser,” fel *amseroedd yr anwybodaeth a esgeuluswyd* gan Dduw; hynny yw, fod Duw wedi edrych dros ben (yn ol y Cyf. Diwyg.) y Cenhedloedd, yn yr ystyr o beidio rhoi datguddiad o'i ewyllys iddynt. Cyfyngodd ei weithrediadau, yn yr ystyr hwn, yn hollol i'r Iuddewon; iddynt hwy, yn unig, yr ymddiriedwyd am ymadroddion Duw. Cwbl anwybyddwyd y Cenhedloedd; gadawyd iddynt hwy geisio yr Arglwydd ac ymbalfalu am dano (Act xvii. 27) oreu gallent, trwy help eu rheswm eu hunain a goleuni natur. Ond ni ddarfu eu holl ymbalfalu ond eu tiriw mewn dygn dywyllwch parthed Duw a'i gymeriad. At y dygn dywyllwch hwn y cyfeiria yn adn. 8: “Eithr y pryd hwnnw” pryd yr anwybyddiad, “pan oeddych heb adnabod Duw, chwi a wasanaethasoch y rhai wrth naturiaeth nid oeddynt dduwiau.” Felly y cam hanfodol cyntaf tuagat eu hadferiad, oedd eu cydnabyddiad gan Dduw. Hyn a wnaeth Efe trwy estyn iddynt oleuni Efengyl. Yna dilyna yr ail gam yn yr oruchwyliaeth, eu hadnabyddiad hwythau o Dduw. Yng ngoleuni yr Efengyl daethant i adnabod y Duw byw, a'i drefniadau grasol ar eu cyfer.

Ond er gwaethaf hyn oll, eu cynysgaeddiad â goleuni llachar Efengyl, a'u dygiad trwy hynny i ryddid gogoneddus meibion Duw, ceir y Galatiaid, er syndod gofidus i Paul, yn troi o dir eu rhyddid hwn i dir caethiwed y ddeddf; y cyfiwr o gaethiwed i'r egwyddorion llesg a thlodion y gwaredwyd yr Iuddew o hono, dyma hwy yn ewyllysis myned iddo! Gwaredwyd yr Iuddew o stad y plentyndod yr oedd ynddo dan y ddeddf, i stad o fabolaeth dan yr Efengyl; ond dyma y Galatiaid yn gadael y stad o fabolaeth er mwyn y stad o blentyndod. Dyma yn ddiaw bwynt adnodau'r 8 a'r 9. Chwencyhent drachefn o'r newydd wasanaethu “egwyddorion llesg a thlodion.” Yn y gair o *newydd* awgryma yr Apostol fod y Galatiaid trwy eu troedigaeth oddiwrth baganiaeth, wedi gadael *hen* egwyddorion llesg a thlodion; ond yn ei llithriad i Iuddewiaeth yn llithro i egwyddorion *newydd*, ond yr *un mor lesg a thlawd* â'r hen rai a adawsent.

Y mae y wedd anghyson a chwithig hon ar eu hymddygiad yn enbyn teimladau duwiol-ddigofus yr Apostol, nes y mae yn sefyll ac yn ymatal yn ei ymresymiad er cael cyfle i roi iddynt arllwysiad eiriasol a di-arbed.

Y mae arnaf ofn am danoch, rhag darfod i mi boeni wrthych yn ofer. Byddwch fel fyf, cans yr wyf fi fel chwi, y brodyr, atolwg i chwi: ni wnaethoch i mi ddim cam. A chwi a wyddoch mai trwy wendid y cnawd yr efengylais i chwi y waith gyntaf. A'm profedigaeth, yr lon oedd yn fy nghnawd, ni ddiystyrasoch ac ni ddirmygasoch; eithr chwi a'm derbyniasoch megis angel Duw, megis Crist Iesu. Beth, wrth hynny, oedd eich

delwyddwch ohwi? Canys tystio yr wyf i chwi, pe buasai bosibl, y tynasech eich llygaid, ac a'u rhoisech i mi. A euthum i, gan hynny, yn elyn i chwi, wrth ddywedyd i chwi y gwir? Y maent yn rhoi mawr serch arnoch, ond nid yn dda; eithr chwennyoch y maent eich cau chwi allan, fel y rhoddoch fawr serch arnynt hwy. Eithr da yw dwyn mawr serch mewn peth da yn wastadol, ac nid yn unig tra fyddwyf bresennol gyda chwi. Fy mhlant bychain, y rhai yr wyt yn eu hesgor drachefn, hyd oni ffurfier Crist ynoch. Ac mi a fynwnn pe bawn yn awr gyda ohwi, a newidio fy llais; o herwydd yr wyf yn ameu o honoch. 11—20.

Nid yn fynych y ceir crynhoad i gylch mor fyr o gymaint o deimladau cymysg o watwareg, o ddigllonedd, o gydymdeimlad, o apeliadau tynner, &c., ag a geir yn y paragraff hwn. Amlwg yw fod ffolineb a gwrthuni anghysondeb y Galatiaid yn cythruddo ei ysbryd yng ngwaethaf ei holl ymdrech i feistrolï ei hun, a'u darbwyllo mewn tiriondeb, yn hytrach na chyda thoster. Gellir crynhoi cynnwys y paragraff i'r pethau canlynol:—

1. Datganiad o'i bryder yn eu cylch a'i ofn fod eu hachos yn anobeithiol. Adn. 11.

2. Apel atynt i ddilyn ei esiampl ef: "Byddwch fel fyfi, canys yr wyf fi fel chwi, y brodyr, atolwg i chwi." Yr un syniad sydd gan yr Apostol yma ag a draethir ganddo ym mhen. ii. 17, lle y dywed fod y credinwyr Iuddewig wedi myned yn bechaduriaid; hynny yw, i'r un tir â'r Cenedloedd yn eu rhyddhad oddiwrth y ddeddf. Felly yma, dywed yr Apostol ei fod ef wedi myned i'w tir hwy fel Cenedloedd; hynny yw, wedi tafu ymaith rwymau beichus y ddeddf; felly gofynnai iddynt hwy oeddynt fel Cenedloedd, eisoes yn rhydd oddiwrthi, i aros yn y tir hwnnw. Yn sicr, oes oedd yn briodol iddo ef, yr hwn oedd Iuddew, gymeryd y safie o geneidl-ddyn ynglyn a'r ddeddf, yr oedd hefyd yn briodol iddynt hwy aros yn y safie honno.

3. Gwada mewn modd pendant fod yr amlygiad hwn o deimlad, o'i du ef, yn codi oddiar ddim rhyngddo a hwy yn bersonol. Nid am un cam personol a wnaethent ag ef yr ysgrifennai mor gryf, ac y ceryddai hwy gyda'r fath lymder. I'r gwrthwyneb, fel arall y bu; dangosasant tuag ato y caredigrwydd mwyaf eithafol. Adn. 12—15.

4. Awgryma fod cyfnewidiad mawr wedi cymeryd lle yn eu teimladau tuag ato,—o'i ystyried fel angel Duw, daethant i'w ystyried yn elyn. Ai o herwydd ei onestrwydd yn dweyd y gwir wrthyt y daethent i'w ystyried yn elyn? Ni wyddai am un sail arall i'w golygiad ei fod yn elyn iddynt ond hwn. Nis gallai fod yn elyn iddynt, oddieithr bod dweyd y caswir yn golygu gelyniaeth.

5. Priodola i'w wrthwynebwy, y gau athrowon, ddibenion gwael a hunangeisiol yn eu hymyriad; ddim amgen na throi serch y Galatiaid oddiwrth Paul atynt eu hunain. Adn. 17.

6. Terfyna y gwyrriad apeliadol hwn atynt trwy gyffyrddiad o dynherwch teimlad gwahanol i ddim a ddangosasai yn yr Epistol o'i ddechreu hyd yma. "Fy mhlant bychain, y rhai yr wyf yn eu hesgor drachefn, hyd oni ffurfier Crist ynoch; ac mi a fynwnn pe bawn yn awr gyda chwi, a newidio fy llais; o herwydd yr wyf yn ameu o honoch." Adn. 19, 20. Y mae y termau hyn o anwyldeb tadol,—yn hytrach mamol,—yn y rhai y cyfarcha hwy, wedi'r dôn lem, ddwysfeiol, sydd wedi bod mor amlwg o ddechreu y llythyr, yn hynod o darwiadol, nid yn unig o'r sefyllfa, ond hefyd o'r dyn. Yng ngwyneb hyn, hawdd ydyw deall pa mor wir oedd y dywediad y carasai fod yn bresennol gyda hwy,

a chael achos i newid y dôn feius, yn yr hon yr oedd wedi bod dan orfodaeth i ysgrifennu.

Wedi y datganiad difloesgni hwn o'i deimlad ar fater eu hymddygiad anghyson a chwithig, ail ymaffa yn ei ymresymiad yn adn. 21. Gailw sylw y rhai a chwenychent fod dan y ddeddf, mewn modd pwysleisiol a phendant, at ddysgidiaeth arbennig y ddeddf ei hun i'r cyfryw.

Dywedwch i mi, y rhai ydych yn chwennych bod dan y ddeddf, onid ydych chwi yn clywed y ddeddf. Adn. 21.

Y mae yn eglur bod y term "deddf" yn yr adnod hon, yn cael ei ddefnyddio mewn dau ystyr gwahanol; y cyntaf yn golygu y ddeddf ag oedd mewn dadl, y ddeddf Fosenaid; a'r ail yn golygu yr Ysgrhythrau, —ystyr a rydd yr Apostol yn fynych i'r gair deddf. Y mae ganddo bwynt neillduol, gallwn dybio, wrth ddefnyddio y gair deddf am yr Ysgrhythrau; sef eu cyfeirio am hyfforddiant ynghylch natur y ddeddf yn ei hystyr gyfyngaf, at y ddeddf yn ei hystyr ehangaf. Fel pe dywedasai: Sylwch chwi sydd yn ceisio myned dan iau y ddeddf fach, gul, beth a ddywed y ddeddf fawr eang wrthyh; yn bendifaddeu dylech wrando dysgeidiaeth y mwyr parthed y llai.

Canys y mae yn ysgrifenedig, fod i Abraham ddau fab; un o'r wasnaethferch ac un o'r wraig rydd. Eithr yr hwn oedd o'r wasanaethferch, a aned yn ol y cnawd; a'r hwn oedd o'r wraig rydd, trwy yr addewid. Yr hyn bethau ydynt mewn alegori: canys y ddau hyn ydynt y ddau destament; un yn ddiau o fynydd Sina, yn cenhellu i gaethiwed, yr hon yw Agar: canys yr Agar yma yw mynydd Sina yn Arabia, ac y mae yn cyfateb i'r Jerusalem sydd yn awr; ac y mae yn gaeth, hi a'i phlant. Eithr y Jerusalem honno uchod sydd rydd, yr hon yw ein mam ni oll. Canys ysgrifenedig yw, Llawenha di, yr amlantadwy, yr hon nid wyt yn epilio; tor allan a llefa, yr hon nid wyt yn esgor: canys i'r unig y mae llawer mwy o blant nag i'r hon y mae iddi wr. A ninnau, frodyr, meigs yr oedd Isaac, ydym blant yr adewid. Eithr megis y pryd hynny, yr hwn a anwyd yn ol y cnawd a erlidial yr hwn a anwyd yn ol yr Ysbryd, felly yr awr hon hefyd. Ond beth y mae yr Ysgrhythr yn ei ddywedyd? Bwrw allan y wasanaethferch a'i mab; canys ni chaiff mab y wasanaethferch etifeddu gyda mab y wraig rydd. Felly, frodyr, nid plant i'r wasanaethferch ydym, ond i'r wraig rydd. Adn. 22—31.

Y mae yma gyfres o gyferbyniadau yn cael eu gosod ger bron.

Agar	Sarah
Y cnawd	Yr Ysbryd
Ismael	Isaac
Sina	Y Jerusalem uchod
Y Jerusalem sydd yn awr }	

Y mae Agar yn cynrychioli ffaith,—caethiwed. Yr oedd yn gaethferch, ac fel y cyfryw yn cenhedlu i gaethiwed. Yr oedd Ismael, ei mab, yn gaeth. Ymhellach, yr oedd Agar fel caethferch, yn cenhedlu i gaethiwed, yn alegori neu gysgod o Sina, neu y ddeddf a roddwyd ar Sina. A thrachefn, yr oedd y ddeddf yn cael ei chorffori yn Jerusalem, neu y genedl Iuddewig; mewn geiriau ereill, yr oedd Agar, yn y ffaith ei bod yn cenhedlu i gaethiwed yn ol y cnawd, yn gysgod o'r ddeddf, yr hon hefyd a genhedlai gaethion trwy orchymynion cnawdol. Yr oedd Ismael, plentyn caeth Agar, yn gysgod o Jerusalem, hiliogaeth gaeth y ddeddf. Sylwer fod tri pheth yn cael eu nodi yn arbennig am Ismael:—1. Ei fod yn gaeth. 2. Ei fod yn erlidwr. 3. Ei fod yn cael ei fwrw allan o'r etifeddiaeth. Yn y tri-pheth hyn yr oedd yn gysgod o Jerusalem, neu y genedl Iuddewig. Yn gyferbyniol i Agar y saif Sarah, yr hon a gynrychiola

yr egwyddor o ryddid. Yr oedd hi yn gysgod o'r Jerusalem nefol—yr Efengyl. Ac yr oedd i genhedlu i ryddid; ac yn yr ystyr hwn yr oedd i fod yn *fam* firwythlon iawn. Er dangos hyn y dyfynnir o'r proffwyd, yn adn. 27, eiriau a awgryma fod ei hiliogaeth i fod yn lliosog iawn. Cyagod o'r hiliogaeth hon ydyw Isaac. Saif Sarah am y Jerusalem nefol, yr Efengyl; saif Isaac, ei mab, am hiliogaeth yr Efengyl, rhai wedi eu geni o'r Ysbryd, plant yr addewid. Felly y mae yr Apostol yn tynnu casgliad pwysig; sef fod y credinwyr, Iuddewon a Chenhedloedd, yn blant ysbrydol y wraig rydd, sef y Jerusalem nefol, ac felly yn etifeddon, ac fel y cyfryw yn dyfod yn wrthrychau erledigaeth plant y gaethferch, sef y ddeddf, y rhai o herwydd hynny sydd yn cael eu bwrw allan. Ceir engraifft darawiadol o'r bwrw allan hwn yn Act. xiii. 44—52. Y mae yn deilwng o sylw fod yr Apostol yn tynnu yn hollol yr un casgliad yma oddiwrth yr alegori ag a dyn oddiwrth yr ymresymiad clos a weithia allan mor fedrus yn pen iii., ceir y casgliad hwnnw yn adn. 29. Yr unig wahaniaeth yw, ei fod, yn y cyntaf, yn profi fod y credinwyr yn blant Abraham; ac yn yr ail, yn dangos eu bod yn blant Sarah. Dodwn y ddwy adnod ar gyfer eu gilydd:—

Ac os eiddo Crist ydych, had Abraham ydych, ac etifeddon yn ol yr addewid. iii. 29.

Felly, frodyr, nid plant i'r wasanaethferch ydym, ond i'r wraig rydd. iv. 31.

Wel, yr oedd, yn ddiâu, yn bwynt pwysig i brofi fod y credinwyr yn dyfod o fewn cylch y gwir hâd, plant yr addewid. Nid digon i hyn oedd profi eu bod yn hiliogaeth Abraham, rhaid hefyd oedd profi neu ddangos eu bod yn hiliogaeth Sarah. "Oblegid yn Isaac y gelwir i ti had." Ni fuasai ymresymiad yr Apostol parthed fod y credinwyr yn blant yr addewid, yn gyflawn yng nghyfrif yr Iuddew, heb ddangos eu bod yn hiliogaeth Sarah yn ogystal ag Abraham.

Y mae yr adran nesaf, yn dechreu gyda pen. v., y mae'r Apostol yn cymeryd i fyny fater ei ddatganiad arweiniol cyntaf, sef yr un parthed ffaith eu gwrthgiliad.

Y mae yn rhyfedd gennyf eich symud mor fuan oddiwrth yr hwn a'ch galwodd i ras Crist. i. Adn. 6.

Nid oes eisieu, er canfod perthynas yr adnod uchod a'r adran sydd yn dechreu yn pen. v., ond sylwi fel y cyfateba geiriau ac ymadroddion yr adnod â themau ac ymadroddion yn yr adran. Yn yr adnod gyntaf o pen. v., geilw arnynt i "sefyll"; mor darawiadol y cyfateba hyn i'r ffaith o'u "symudiad" yn y datganiad arweiniol. Anogaeth wir briodol i rai yn "symud" ar y goriwared oedd iddynt "sefyll." Eto, canfyddir fod syniadau y datganiad arweiniol yn cael eu hail adrodd bron yn yr un geiriau yn adnodau y 4 a'r 8. Dodwn y ddwy adnod ar gyfer y datganiad arweiniol,—

Y mae yn rhyfedd gennyf eich symud mor fuan oddiwrth yr hwn a'ch galwodd i ras Crist.

Chwi a sethoch yn ddi-fudd oddiwrth Crist . . . chwi a syrthiasoch ymaith oddiwrth ras.

Y cyngor hwn nid yw oddiwrth yr hwn sydd yn eich galw.

Cymaint a hyn ar egluro ein rheswm dros olygu yr adran hon yn draethiad pellach gan yr Apostol ar ei ddatganiad arweiniol cyntaf.

Nid ydym yn meddwl ein bod wrth olrhain y dolennau cydiol hyn yn nhrafodaeth yr Apostol o'i faterion, yn rhoi mewn un wedd gredyd iddo am gywreinerwydd na fedda. Yn ein bryd ni, y mae Epistolau Paul yn

dryfrith, yn neillduol y rhai mwyaf ymresymiadol o honynt, o'r cywreinder hwn.

Y mae yr adran sydd dan sylw yn cymeryd yr oll o'r gweddill o'r Epistol, ond ei fod yn ol natur ei fater yn ymrannu yn ddwy ran: y naill ran, sef y 13 adnodau cyntaf o pen. v., yn delio â ffaith eu gwrthgiliad, fel y nodwyd; a'r gweddill, o'r adnod hon hyd ddiwedd yr Epistol, yn delio â gwedd ymarferol y bywyd Cristionogol, fel y mae yn cael ei awgrymu gan eu sefyllfa neillduol hwy.

Y mae dull yr ymresymiad fel a ganlyn. Rhydd ddwy anogaeth iddynt—y naill yn gadarnhaol, "Sefwch gan hynny yn y rhyddid a'r hwn y rhyddhaodd Crist ni;" a'r llall yn nacäol, "ac na ddalier chwi drachefn dan iau caethiwed."

Yn ein nodiad ynglyn a datganiadau arweinïol yr Apostol, cyfeiriasom at ei ddull, pan yn gwneyd mwy nag un gosodiad, o egluro neu helaethu ar y cyfryw yn y drefn o'r olaf ymlaenaf. Dangosom mai yn ol y rheol hon y mae wedi trefnu neu gynllunio holl *argument* y llythyr. Yn ol y cynllun hwn y mae yr adran sydd dan sylw yn bresennol, yr olaf yn y llythyr, yn ymhelaethiad ar y datganiad cyntaf o'r gyfres o chwech sydd ganddo yng nghychwyniad y llythyr. Yr ydym yn galw sylw at hyn oblegid y mae ymresymiad yr adran sydd mewn llaw yn bresennol yn cael ei chario ymlaen ar y cynllun hwn. Ceir yn yr adnod gyntaf ddwy anogaeth, fel yr ydys wedi sylwi—un yn gadarnhaol a'r llall yn negyddol. Cymerir yr anogaethau hyn i fyny yn yr ymdriniad dilynol yn y drefn o olaf ymlaenaf, yn ol fel y dangosir isod.

- | | | |
|---|---|---|
| 1 | { | Sefwch, gan hynny, yn y rhyddid a'r hwn y rhyddhaodd Crist ni: ac na ddalier chwi drachefn dan iau caethiwed. Adn. 1. |
| 2 | { | Wela, myfi Paul wyf yn dywedyd wrthy, os enwaedir chwi, ni lesha Crist ddim i chwi. Ac yr wyf yn tystiolaethu drachefn i bob dyn ar a enwaeder, ei fod ef yn ddyledwr i gadw yr holl ddeddf. Adn. 2, 3, &c. |
| 2 | { | Canys i ryddid y'ch galwyd chwi, frodyr yn unig nac <i>arferwch</i> y rhyddid yn achlysur i'r cnawd, ond drwy gariad gwasanaethwch eich gilydd. Adn. 13, &c. |
| 1 | { | |

Ceisiwn egluro y ddwy anogaeth i ddechreu. "Sefwch, gan hynny, yn y rhyddid a'r hwn y rhyddhaodd Crist ni." Y mae yma ddau ryddid: y rhyddid i, neu er mwyn, yr hwn y rhyddhaodd Crist ni. Sierhaodd Crist iddynt ryddid a warantai iddynt ryddid arall. Y rhyddid cyntaf oedd eu gwaredigaeth o gaethiwed eu hen gyflwr paganaidd; yr ail ryddid a sierheid iddynt trwy y cyntaf, oedd rhyddid oddiwrth ymrwymadau Iuddewiaeth; rhyddid o'u caethiwed blaenorol fel eilunaddolwyr, yn gwarantu rhyddid oddiwrth y caethiwed newydd y ceisiai y gau athrawon Iuddewig ei osod arnynt. Yn y rhyddid olaf hwn yr anoga yr Apostol hwy i sefyll. Nid eu hannog y mae i sefyll yn eu rhyddid oddiwrth gaethiwed eu paganiaeth blaenorol, oblegid nid oeddynt yn tueddu at lithro yn ol i hwnnw. Ond eu hannog y mae i sefyll yn y tir o *exemption*—nis gallaf foddloni fy hun â gair Cymraeg am hwn—a feddent oddiwrth gaethiwed Iuddewiaeth. Oblegid yma y gorweddai eu perygl, at y tir hwn o gaethiwed yr oedd eu tueddiad. Mai hwn oedd y rhyddid y galwai arnynt i sefyll ynddo, a ymddengys oddiwrth yr anogaeth ddilynol—"ac na ddalier chwi drachefn dan iau caethiwed."

Yna cyflwynna ger eu bron nifer o ystyriaethau difrifol er eu cymell i ymarfer y gochelgarwch hwn.

1. Dywed wrthynt mai y canlyniad o iddynt beidio sefyll yn eu rhyddid hwn, fyddai iddynt golli y budd o'u rhyddid cyntaf. Byddai yr oll a gawsent trwy eu gwarediad odditan iau paganiaeth yn cael ei golli, os lithrent wedi hynny i Iuddewiaeth. Dyma yn ddiau bwynt yr adnodau o'r 2 i'r 6. Dengys y byddai myned yn Iuddewon yn gwneyd holl waith Crist ar eu rhan yn ofer a diles iddynt.

2. Cydnebydd eu bod wedi rhedeg yn dda yn y cychwyn, ond daeth rhyw un ac a'u rhwystrodd. Pwy oedd? Yr oedd yn bur sicr nad efe, Paul, ydoedd; "ni ddaeth y cyngor hwn," y berswadiaeth hon, "oddiwrth yr hwn a'ch galwodd."

3. Fel prawf nad efe, Paul, a'u rhwystrodd, trwy eu cynghori i fynnu eu henwaedu, noda y ffaith ei fod ef yn cael ei erlid. A pha gysondeb oedd ei erlid ef, os oedd yn pregethu yr enwaediad! Adn. 11. Ychwanega mewn gwatwaredg finiog, "Mi a fynwn, ie, pe torrid ymaith y rhai sydd yn afonyddu arnoch." Adn. 12. Yr hyn sydd gyfartal a phe dywedasai, Gwyn fyd na byddai i'r rhai sydd mor selog dros enwaediad yn enwaedu eu hunain yn llwyr oddiwrthyach, fel na flinont chwi mwy.

Yn adnod y 13 dychwel yr Apostol yn ol at ei anogaeth gyntaf yn adn. 1.

Sefwch, gan hynny, yn y rhyddid a'r hwn y rhyddhaodd Crist ni. Canys i ryddid y'ch galwyd chwi, frodyr; yn unig nac arferwch y rhyddid yn achlysur i'r cnawd.

Yr oedd yr Apostol, fel y gwelir, wedi pwysleisio y ffaith o ryddid y Galatiaid crediniol, ond yma rhydd ocheliad pwysig iddynt. Nid oedd y rhyddid i'r hwn y rhyddhaodd Crist hwynt, yn benrhyddid, yn eu gadael yn agored i gyflawni pob rhysedd. Rhyddid oddiwrth ddeddf oedd, mae'n wir, ond deddf seremonïau, deddf a elwir yn "gyfraith gorchymyn cnawdol." Nid oedd y rhyddid hwn oddiwrth seremonïau materol, yn golygu mewn un wedd ryddid oddiwrth egwyddorion moesoldeb a rhinwedd. Rhyddid yr Ysbryd oedd. Os oeddynt eu rhyddhau oddiwrth y ddeddf, yr oeddynt wedi eu rhwymo i'r Ysbryd. Y mae yr Apostol yn pwysleisio y ffaith olaf yn arbennig, oblegid cawn ef yn ei chrybwyll hi bedair gwaith yn y paragraff dilynol: sef yn adnodau 16, 18, 22, a'r 25. Y mae ei ymdriniad o'r mater hwn eto yn ol y drefn wrthdrofegol, yr olaf ymlaenaf.

- | | | |
|---|---|--|
| 1 | { | Canys i ryddid y'ch galwyd chwi frodyr yn unig nac arferwch y rhyddid yn achlysur i'r cnawd, |
| | | 2 { Ond trwy gariad gwasanaethwch eich gilydd. |
| | | 2 { Canys yr holl ddeddf a gyflawnir mewn un gair, sef yn hwn : Car dy gymydog. Os cnoi a thraffynco eich gilydd yr ydych, gwyliwch na ddiffethir chwi gan eich gilydd. |
| | | { Ac yr wyf yn dywedyd, rhodiwch yn yr Ysbryd, ac na chyflawnwch drachwant y cnawd. Canys y mae y cnawd yn chwenuychu yn erbyn yr Ysbryd, a'r Ysbryd yn erbyn y cnawd: a'r rhai hyn a wrthwynebant eu gilydd, fel na alloch wneuthur beth bynnag ewyllsiwch. Ond os gan yr Ysbryd y'ch harweinir, nid ydych dan y ddeddf. Hefyd amlwg yw gweithredoedd y cnawd, tor-priodas, godineb, afendid, &c. |
| 1 | { | { Eithr firwyth yr Ysbryd yw, cariad, llawenydd, tangnefedd, &c. Yn erbyn y cyfryw nid oes ddeddf. A'r rhai sydd eiddo Crist, a groeshoeliasant y cnawd, a'i wyniau a'i chwantau. Os byw yr ydym yn yr Ysbryd, rhodiwn hefyd yn yr Ysbryd, &c. |

Canfyddir fod yr Apostol yn dra gofalus i osod yr Ysbryd ar gyfer y cnawd a'r ddeddf. Ei bwynt arbennig ydyw gwasgu ar feddwl y

Galatiaid mai yr unig ffordd effeithiol i ddirymu y cnawd oedd rhodio yn yr Ysbryd, ac nid cydymffurfio â'r ddeddf. Nid seremonïau oddi allan, ond yr Ysbryd oddi mewn ydyw yr unig feddyginiaeth rhag ymosodiadau trachwantau y cnawd.

Yr unig adran o'r paragraff uchod a ofyna sylw neillduol ydyw adn. 17eg.

Canys y mae y cnawd yn chwenychu yn erbyn yr Ysbryd, a'r Ysbryd yn erbyn y cnawd: a'r rhai hyn a wrthwynebant eu gilydd fel na alloch wneuthur yr hyn a ewyllysioch.

Ynglyn â'r frawddeg olaf y mae y dyryswch, "fel na alloch wneuthur y pethau a ewyllysioch." Y cwestiwn ynglyn â'r geiriau yw, pa un a ydyw "fel na alloch" i'w gymeryd fel mynegiad o ffaith, ai o amcan. Ymddengys i ni fod natur yr amgylchiadau, ac yn neillduol, dysgeidiaeth yr adnod ragflaenol, yr 16, yn gofyn i ni gymeryd y geiriau fel yn dynodi amcan. Fel hyn: Y mae yr Ysbryd yn gwrthwynebu y cnawd i'r amcan o'ch rhwystro i wneyd yr hyn ydych yn ei ewyllysio pan o dan gynhyrifiadau y cnawd; ac y mae y cnawd yntau yn gwrthwynebu yr Ysbryd i'r amcan o'ch atal i wneyd yr hyn ydych yn ei ewyllysio pan dan gynhyrifiadau rhagorach yr Ysbryd. Felly y mae y naill egwyddor yn amcanu eich rhwystro i wneyd yr hyn ydych yn ewyllysio pan fwyaf dan ddylanwad yr egwyddor arall. Felly y mae yn ymddibynnu pa un o'r egwyddorion hyn sydd yn meddu y dylanwad cryfaf arnoch. Yng ngoleu yr eglurhad hwn o'r geiriau y canfyddir grym anogaeth yr adnod o'r blaen. "Rhodiwch yn yr Ysbryd, ac na chyflawnwch drachwant y cnawd." Y darlleniad a fabwysiedir fwyaf cyffredin ydyw, "Rhodiwch yn yr Ysbryd ac ni chyflawnwch drachwant y cnawd." Rhodio yn yr Ysbryd a'ch rhwystra yn effeithiol i gyflawni trachwant y cnawd; oblegid bydd rhodio ynddo yn ychwanegu ei ddylanwad arnoch er dirymu ewyllysiau y cnawd ynnoch. Os dodwn adnod 16 ar ol yr 17, o leiaf y frawddeg olaf o honi, fe welir y cysylltiad yn eglurach.

A'r rhai hyn a wrthwynebant eu gilydd, fel na alloch wneuthur pa beth bynnag a ewyllysioch. Rhodiwch (gan hynny) yn yr Ysbryd ac na [ni] chyflawnwch drachwant y cnawd.

Gan fod amcan yr Ysbryd i'ch rhwystro i wneyd ewyllysiau y cnawd, rhodiwch yn yr Ysbryd; gan mai amcan y cnawd ydyw eich rhwystro i wneyd ewyllysiau yr Ysbryd, osgowch y cnawd. Apel ydyw y geiriau ar iddynt roi eu hunain yn drwyadl a hollol yn llaw yr Ysbryd, fel y byddo i'w ddylanwad gryfhau arnynt, a'u gwneyd yn goncwerwyr ar drachwantau y cnawd.

Nid ydyw pen. vi. ond parhad o'r anogaethau ymarferol. Y mae, yn yr adnodau cyntaf o'r bennod, fel pe yn ail gydio yn ei anogaethau yn pen. v., adnodau 13 (rhan olaf), 14, a'r 16, i ymarfer a chariad brawdol.

Y brodyr, os goddiweddur dyn ar fai, chwychwi y rhai ysbrydol, adgyweiriwch y cyfryw un mewn ysbryd addfwynder; gan dy ystyried dy hun, rhag dy demtio dithau. Dygwch feichiau eich gilydd, ac felly cyflawnwch gyfraith Crist. Oblegid os tybia neb ei fod yn rhywbeth, ac yntau heb fod yn ddim, y mae efe yn ei dwyllo ei hun. Eithr profed pob un ei waith ei hun; ac yna caiff orfoledd ynddo ei hun yn unig, ac nid mewn arall. Canys pob un a ddwg ei faich ei hun. A chyfranned yr hwn addysgwyd yn y gair a'r hwn sydd yn ei ddyegu, ym mhob peth da. Na thwyller chwi: ni watworir Duw: canys pa beth bynnag a hauo dyn, hynny

hefyd a fêd efe. Oblegid yr hwn sydd yn hau i'w gnawd ei hun o'r cnawd a fed lygredigaeth: eithr yr hwn sydd yn hau i'r ysbryd, o'r ysbryd a fêd fywyd tragywyddol. Eithr yn gwneuthur daioni na ddiogwn: canys yn ei iawn bryd y medwn oni ddiffygiwn. Am hynny, tra yr ydym yn cael amser cytaddas, gwnawn dda i bawb, ond yn enwedig i'r rhai sydd o deulu y fydd.

Nid oes dim yn dywyll ac aneglur yn y paragraff hwn; felly gallwn ei basio heibio heb ond nodi y gwirioneddau a'r grasusan a gymhella.

1. Anoga hwy i arfer tiriondeb tuag at eu gilydd mewn achosion o ddisgyblaeth am amryfuseddau. Adn. 1.

2. Anoga hwy i arfer cydymdeimlad cyd-gynhorthwyol tuag at y naill a'r llall. Adn. 2—5.

3. I ofalu am anghenion tymhorol eu hathrawon. Adn. 6.

4. I ystyriaeth ddirifol o'r sicrwydd di-os y dilynir pa gwrs bynnag o fywyd a arweinwn, gan ganlyniadau cyfatebol. Adn. 7—10.

Yma y terfyna anogaethau a dysgeidiaeth ymarferol y llythyr. Ond nid yw yr Apostol fel pe yn foddlon i derfynu y llythyr heb roi un ergyd ymadawol i'r bobl oedd yn hud-lithio ei blant ysbrydol, ac yn ei ofidio yntau mor erwin. Ceir yr ergyd ddiweddol hon yn adnodau 13—17. Yma ailadrodda gyda phwyslais arbennig yr egwyddor fawr y mae wedi bod yn ei gwasgu eisoes o ddechreu y llythyr, ac mewn iaith mor gref a chyda'r fath ddwyyster ysbryd; sef nad oedd seremonïau a ffurfiau allanol, yn cael eu gweinyddu ar gyrff, o ddim budd tuag at waredu dyn o'i bechod; nad oedd enwaediad yn ddim mantais, na dienwaediad yn unrhyw anfantais i un yng Nghrist; mai yr ymgais mawr ddylai fod, oedd bod yn greadur neu greadigaeth newydd, ac mai ei ymfrost ef oedd Crist, Crist fel yr oedd yn offeryn oll-efeithiol yng nghynhyrchiad y cyfryw greadigaeth.

Gan ein bod wedi addaw cwmpasu ein nodiadau o fewn cylch pedair ysgrif yr ydym wedi gorfod rhedeg yn fwy bras dros y rhannau olaf o'r llythyr, pennodau v., vi., nag y dymunase. Yr un pryd teimlwn yn ddiolchgar am gymaint o ofod gwerthfawr y TRAETHODYDD i draethu ein llên ar yr Epistol godidog hwn. Cynnyrch ein paratôadau ar gyfer ein Dosbarth Beiblaidd ydyw y nodiadau, a hyderwn nad ydyw eu cyhoeddi wedi bod yn gwbl ddi-fudd i ddarllenwyr deallgar y TRAETHODYDD.

ABEL J. PARRY.

EGLWYS FYW.

Anerchiad a draddodwyd o Gadair Undeb Cynulleidfaoel Lloegr a Chymru, yn Bradford, Hydref 11eg, 1892.

GAN Y PARCH. E. HERBER EVANS, D.D.

FY ANWYL FRODYR.—Yr ydym yn cael y fraint o gyfarfod yn un o'r ychydig drefydd sydd wedi rhoddi i'r Undeb hwn groesaw calonnog a derbyniad caredig am y drydedd waith. Yn ystod ei ail ymweliad yn 1876 y siaredais gyntaf oddiar ei esgynlawr; ac felly yr wyf yn dyfod fel pysgotwr gyda rhagddisgwyliad hyfryd at lyn lle y cafodd amser da o'r blaen, ac yn cael fy nghalonogi drachefn i'ch annerch yn Bradford.

Pan yn amhenderfynol am fy nhestun, yr oeddwn rhyw ddau fis yn ol yng nghyfarfod chwarterol Undeb Cynulleidfaoel Arfon, ac yn y Gynhadledd gwnaed apêl am gael dosbarthiad o fy anerchiadau ym Mai a Hydref ymysg yr Eglwysi Cymreig. Wrth weled y byddai i'r amcan hwnnw gael ei gario allan, mi ofynais ar unwaith i mi fy hun, A oedd gennyf genadwri deilwng o'u hystyriaeth feddylgar? Nid wyf yn bwriadu eich annerch ar Eglwys Crist. Yr ydwyf yn llydan eglwyswr, digon llydan i gredu ei bod yn cael ei gwneyd i fyny o "bawb sydd yn caru ein Harglwydd Iesu Grist mewn purdeb;" i lawnychu "nad ydyw Duw dderbyniwr wyneb, ond ymhob cenedl, y neb sydd yn ei ofni Ef, ac yn gweithredu cyfiawnder, sydd gymeradwy ganddo Ef." Ie, digon llydan i gredu yng "nghymanfa a chynulleidfa y rhai cyntafanedig, y rhai a ysgrifennwyd yn y nefoedd," ac a gynorthwyr gan eglwysi bychain a mawrion ar eu ffordd yno.

Mae yr Eglwys yma o eiddo Crist lawer yn lletach nag Eglwys Rhufain, sydd yn cau cymaint o Grêd allan; yn lletach nag Eglwys Scotland, sydd yn gwneyd y Frenhines yn ymneilldu-wraig mewn un ran o'i theyrnas, tra yn ben yr Eglwys mewn un arall; yn rhywbeth teilyngach o Fab y Dyn nag Eglwys esgymunol Lloegr, yr hon yr honna un o'i thair sect mai hi ydyw "yr unig gorff yn y deyrnas hon sydd yn Eglwys." a'r esgymundod hwn ar ein harweinwyr, ein gweinidogion, a'n diwygwyr mwyaf sydd wedi llidio Cymru yn erbyn y Sefydliad. Mae arnom eisieu clywed mwy am Gristwyr yr holl Eglwysi, a llai am Eglwyswyr un sect.

Mae y ddadl fod tair urdd o weinidogion ag y dywed y Llyfr Gweddi wrthym iddynt fod yn yr Eglwys Gristionogol er dyddiau yr Apostolion—esgobion, offeiriad, a diaconiaid—yn awr yn cael ei rhoddi i fyny gan yr esbonwyr dyfnaf ymysg yr Esgobion Seisnig, a chan bawb oddieithr y rhai a fynnant ddarllen i eiriau eglur y Testament Newydd syniadau offeiriadol amseroedd diweddarach. Ac a all fod rhywbeth yn fwy annheilwng o Gristionogion na gosod geiriau ysgrythyrol ar y glwyd a'u gorfodi i ysgrechain allan ystyron ymha rai y mae gan offeiriadaeth y dyddiau hyn fuddiant personol?

Yr ydym yn cwyno ac yn gofidio fod ein pobl weithgar bybyr, fel dosbarth, allan o'r Eglwysi. Nid oes gan Eglwys hawl i gwyno eu bod allan, nes y bydd y rhai sydd i mewn yn amlwg onest ac uniawn, yn eu credo yn gystal ag yn eu cymeriad. Fe ddywedir wrthym yn barhaus fod pob Eglwysi dan ddedfryd. Yr wyf yn addef eu bod yn cael eu "pwyso yn y cloriannau," ond y mae yr arweinwyr yn dyfod gymaint yn ddoethach a mwy cyfoethog mewn synwyr cyffredin, fel yr wyf yn teimlo yn sicr na cheir hwy "yn brin."

Rhaid i bob atalgaer sydd yn gwahanu, gael ei llosgi ymaith gan wybodaeth a gogoniant Ysbryd Crist, fel y byddo "un gorlan ac un bugail."

Y mae Grindelwald, gyda'i chynulladau digyffelyb a'i haduniad awelog ymysg y bryniau, yn proffwydo ei ddyfodiad. Mae y croesaw calonnog a roddir i weinidogion Wesleyaidd a Bedyddiol i fod yn fugeiliaid dwy o'n heglwysi blaenaf yn Llundain yn dweyd ei fod yn ymddangos yn y dyfodol agos.

Rhaid i mi addef fod un o arwyddion yr amserau sydd yn ymddangos yn llawn o berygl, a hynny ydyw y parodrwydd a ddanghosir gan lawer o ddynion da a merched brwdfrydig i gynorthwyo unrhyw gymdeithas,

brawdoliaeth, cynhadledd, byddin, neu fudiad, os heb fod mewn cysylltiad ag unrhyw Eglwys Gristionogol. Ac mewn llawer o lyfrau yn ddiweddar, yn enwedig y nofelau gydag amcan, y mae tuedd i ysgrifennu gyda llawer o lithrigder am yr eglwysi a'u gwaith. Yr wyf yn gwybod i Carlyle ddweyd, ers llawer o flynyddoedd, "Llyfrau ydyw ein Heglwys;" ac fe ddywedwyd wrthym yn fynych wedyn, mai y newyddiadur ydyw ein pulpud, a'i olygydd ein pregethwr.

Goreu po fwyaf o lyfrau teilwng o'r enw Eglwys; ac o galon yr wyf yn dweyd, bydded i newyddiaduron a golygwyr, parod i gynorthwyo y pulpud, gael eu lliosogi yn gan mwy: ond, os felly, rhaid i ni gael llai o golofnau yn llawn o hanes gamblo ar redegfeydd ceffylau, ac o ddisgrifiadau o fudreddi llysoedd ysgariaeth, a chyffelyb newyddion am droseddau. Rhaid rhoi mwy o le i hanes pob dynion a merched rhagorol, a'u dioddefaint yng ngwasanaeth dyn, yr hyn iddynt hwy sydd yn wasanaeth Duw.

Mae arnaf eisieu i chwi ddwys-ystyried y cwestiwn hwn: Pam y mae cynifer o bobl dda yn barod i aberthu eu hamser, eu harian, eu hegri, a'u dylanwad personol i helpu ymlaen y cymdeithasau hynny, ar yr un amod na byddont mewn cysylltiad ag unrhyw Eglwys Gristionogol?

A ydyw yr Eglwys wedi methu, neu a ydym ni, ei haelodau? Yr wyf yn meddwl mai yr hyn sydd wedi profi ein methiant mawr ydyw diffyg bywyd. Bywyd ydyw y peth mwyaf ymosodol yn y byd, a marwolaeth ydyw y lleiaf ymosodol. Fe all popeth all dyfu ddirywio. Yn saith eglwys Asia—ac yr wyf wedi meddwl lawer gwaith ein bod yn y rheiny yn cael darluniau dwyfol, gyda'u goleu a'u cysgod, o bob eglwysi sydd yn bosibl—fe arlunir un eglwys farw; mae rhai yn meirw, ond disgrifir ereill yn llawn o fywyd, ac felly yn llwyddo. Ac fe fyn Godet fod eglwysi llwyddiannus y dyddiau boreuol hynny yn aros hyd heddyw, ond fod y rhai meirw a'r rhai oedd yn marw wedi myned heibio am byth.

Ac y mae hyn yn rhan o fy nghanadwri: Yr ydym oll yn aelodau o Eglwys; gofynned pob un iddo ei hun, A ydwyf fi yn aelod o Eglwys farw, o Eglwys yn marw, ynte o Eglwys lawn o fywyd ysbrydol?

Eglwys farw sydd allor heb dân, corff heb enaid, ac y mae yr heresi waethaf.

Nid ydyw Duw Dduw y rhai meirw, ond y rhai byw. Fe ddaeth Crist i roddi bywyd a bywyd yn helaeth, ac ni all Eglwys farw fod wedi ei huno ag Ef. Ac am llwyddo, pwy a fynnai ymuno & chymdeithas o rai meirw? Bywyd ydyw unig amod llwyddiant. Os mynnem ennill y byd, rhaid i ni ddangos iddo rywbeth gwell, rhagorach, uwch; nid mynd i lawr i'w lefel ef, ond codi at bethau uwch. Ni allwn fwrw allan gythreuliaid ond yn unig trwy feddu mwy o Grist. Ni allwn fwrw allan fyddolrwydd—mellidith yr oes—ond yn unig trwy feddu bywyd ysbrydol dyfnach. Ni allwn ennill y byd i'r Hwn y mae yn gyfiawn iddo, ond yn unig trwy wneyd pob Eglwys yn gartref, yn fyw gan gydymdeimlad, cariad, a llawenydd. Pan mae y tân sanctaidd hwn yn cynneu ymhob Eglwys i Grist, ac yn llosgi yn ddisglaer, fe fydd ar y rhai sydd oddi-allan eisieu dod i mewn, pe am ddiem ond i gael gwared o'u rhyndod eu hunain. Gadewch i ni bob amser ymuno i weled fod mwy o oleuni a chariad o fewn i bob Eglwys nag a all fod oddi-allan, ac ni allwn fethu achub eneidiau, ac felly gynorthwyo i ddwyn i mewn yn y "ddaear newydd" yr amser gwell i'r holl bobl.

Y mae perygl i ni gynefino â gweled ffaelectedau pobl ac Eglwysi ereill yn fwy eglur na'r eiddom ein hunain. Mae arnaf eisieu eich cynorthwyo i weled eisieu presennol yr holl Eglwysi, yr eiddom ein hunain yn eu plith, fel y mae yn ymddangos i mi. Y mae darllen yn iawn arwyddion yr amserau yn anhawster ag y gelwir pob oes i'w wynebu; dychymyg y Sphinx ydyw, peidio deall yr hwn ydyw marw.

Cyd-ddygwch â mi, ynte, tra yn eich annerch ar

EGLWYS FYW.

I.

Mae ein trefn ni wedi cael ei galw yn drefn gweinidogaeth un dyn. Fel llawer o ddywediadau crynno, nid ydyw yn hollol gywir. Ond y mae digon o wir ynddo i gadw y sylw yn fyw; ac fe fyn rhai, po fwyaf gweithgar fyddo yr un dyn, mai llai egniol ydyw ereill o'i amgylch. Y mae yn ddigon gwir, sut bynnag, i mi ddechreu trwy ddweyd y rhaid, mewn Eglwys fyw, fod bywyd yn y Pulpud. Rhaid i'r pregethwr, nid yn unig wybod ei fod wedi myned trwodd o farwolaeth i fywyd am ei fod yn caru y brodyr, ac fod "beth bynnag sydd yn lladd cariad yn lladd bywyd," ond rhaid iddo hefyd gredu mewn ffynhonnell bywyd uwchlaw iddo ei hun. Goreu po fwyaf o ddiwylliad, o wybodaeth o hanes, gwyddoniaeth, duwinyddiaeth, beirniadaeth Feiblaidd, ac athroniaeth,—yn unig ar iddo beidio bod yn hollwybodol; oblegid y mae pob pregethwyr a adnabum i wedi eu cael dan ddwy faner,—y naill yn dwyn yr arwyddair, "Yr ydym yn gwybod digon," a'r llall, "Y mae ychwaneg i'w wybod:" gall pob un ddewis y faner a fynno, ond rhaid fod bywyd.

1. Mewn trefn i gael bywyd yn y pulpud, rhaid i'r pregethwr gael rhywbeth i'w ddweyd ag y mae yn drwyadl gredu. Fe ddywedodd y Profeswr Drummond yn wir, "Y dyn yw y cenhadwr." Ie, a'r dyn yw y pregethwr. Mae y dyn y tu cefn i'r bregeth yn dweyd mwy na'r bregeth. Ni all bregethu gyda nerth oddieithr fod ganddo argyhoedd-iad dwfn o fawredd a phwysigrwydd ei genadwri. Y pregethwr sydd yn meddu profiad personol fod yr Efengyl wedi ei achub, a'i lanw â chariad a bywyd newydd, sydd yn cyhoeddi heb ddim amheuaeth mai "gallu Duw yw hi er iachawdwriaeth, i bob un a'r sydd yn credu."

Ac fel y sylweddola yn fwy fwy beth y mae iachawdwriaeth yn arwyddocau, rhaid iddo garu yr Efengyl; ac y mae y cariad yma yn gogoneddu ei gwirioneddau, heb eu cyfnewid, ac yn gogoneddu yr hyn a ddywed yntau i'w hargymhell. Dywed Erasmus: "Amod cyntaf llwyddiant mewn perswadio ydyw caru yr hyn a argymhellwn."

Ni all dyn bregethu yn dda bregeth na feddylia fawr o honi, ac felly nad yw yn garu. Mi wn beth ydyw ceisio pregethu pregeth gyffredin gyda chryn swn os nad gyda llawer o nerth; ond cymaint y cywilyddiwn o'r gwaith fel yr arhoswn yn y pulpud nes gweled yr olaf o'r gynulleidfa wedi mynd allan; yna deawn i lawr gan benderfynu paratoli rhywbeth gwell y tro nesaf. Rhaid i ni addef na all un dyn bregethu yn dda bob amser. Y mae organ bob amser yn rhoddi i chwi yr un nodyn, yn ateb i'r un cyffyrddiad; ni all dyn wneyd hynny am mai dyn ydyw, ac nid peiriant.

Y mae dau beth y rhaid i bregethwr bob amser gadw yn fyw ynddo ei hun: cariad at Grist a'i efengyl, sydd yn sicrhau duwioldeb personol

—yr un peth na all dyn ei ddysgu oddiwirth arall, ac na ellir ei dros-glwyddo; a chariad at ddynion a'u lles tragwyddol, sydd yn ei wneyd yn wir ddyn-garwr Cristionogol. Fe wna y ddau beth hyn, o'u gwylio a'u maethu, bregethwr byw, dyddorol, os nad un hyawdl. Y mae pregeth-wyr anefeithiol, fel rheol, yn ddiffygiol mewn un o ddau beth,—naill ai mewn gwir argyhoeddiad personol, neu mewn dyddordeb diffuant yn lles eu cyd-ddynion yn awr ac ar ol hyn. Ac os ydych yn ameu fod pregeth-wyr heb unrhyw ddyddordeb yn eu cyd-ddynion, darlennwch yr hysbys-iadau lle y mae bywoliaethau Eglwysig yn cael eu cynnyg ar werth. Yr argymhelliad olaf yr arhosir yn fynych arno, wedi disgrifio yr olygfa hyfryd, y ficerdy helaeth, llyn yr ïogiaid, a bron yr absenoldeb hollol o Ymneillduwyr, ydyw *nad oes yno ond hyn a hyn o drigolion yn y plwyf*. Ie, “argymhelliad” nad oes dim pobl i drafferthu gyda hwynt. Dim pobl i'w caru, i'w hachub, i'w hadeiladu; ac y mae y fywoliaeth yn cael ei phrynnu gydag awch! Beth well a ellid wneyd â phregethwr, bydded ef Gyddfurfwr neu Anghyddfurfwr, os nad ydyw bodau dynol, gyda'u profedigaethau a'u tynged dragwyddol yn ddim ond trafferth iddo, na'i gladdu yn fyw mewn ardal heb bobl? Ond gadewch i mi ddyfynnu brawddeg o eiddo Eglwyswr enwog o ysbryd cwbl wahanol, Dr. Arnold: “Yr hyn a wyddwn ac a garwn, ni allwn lai na'i gyfrannu.” Os mynwn fod yn bregethwyr byw, rhaid i ni fod yn rhai cariadlawn, rhaid i ni edrych yn uchel ar ein cynulleidfaoedd, a gweled yn y dynion, y merched, a'r plant o'n hamgylch, y rhai y rhoddes Crist ei Hun drostynt, a'r cymeriadau gogoneddus y gall Efe beri iddynt fod. Mae yr hyn a ddywed Emerson am hyawdledd nid yn unig yn wir, ond yn dra awgrymiadol: “Araeth oreu yr enaid goreu ydyw.” Y fath alluoedd ychwanegol, y fath gynnydd o ddylanwad a agorir o flaen pob un o honom wrth wneyd ein pregethu yr araeth oreu, yn llawn o'r perswadio tynheraf, o orlifiad cariad mawr, a'r “enaid goreu” o'r eiddom yn dweyd ar ein meddyliau, ein geiriau, a hyd yn oed dôn ein llais.

Y fath “dir i'w feddiannu” a agorir o'n blaen, mewn dylanwad newydd cyfreithlawn, ar y naill ochr, a'r llall—“Araeth oreu yr enaid goreu”!

Y peth hanfodol ac ardderchog cyntaf mewn pregethu nerthol ydyw cywirdeb! Rhaid i ni ein hunain garu a chredu yn gryf, cyn y gallwn ddeffro cariad ac argyhoeddiadau mewn ereill. Y mae i gywirdeb mewn pregethu ei sain briodol ei hun ag y mae dynion yn adnabod. Mae argyhoeddiadau crefyddol cryfion yn heintus, ac y mae pregethu nerthol o'r dechreuad wedi bod yn ffrwyth argyhoeddiadau dyfnion.

Yr oedd yr Eglwysi cyntaf yn sicr yn rhai byw, ac yr oedd y pregethwyr cyntaf yn ddynion mor argyhoeddedig o allu bywiol yr Efengyl fel na allent fod yn ddistaw; ie, ac ni ellid eu distewi gan erledigaethau pa mor greulawn bynnag, gan garcharau nesaf i mewn pa mor aflan ac annioddefol bynnag, na chan yr un gallu ond marwolaeth ei hunan.

Mae yn ddigon tebyg fod iddynt eu dyddiau tywyll o amheuaeth fel y rhan fwyaf o honom; ond pregethent eu hargyhoeddiadau, ac nid eu hamheuan. Yr oeddynt yn dystion o ffeithiau; yr hyn a wyddent, hwy wyddent heb ddim amheuaeth. Nid dadleuydd ydyw y pregethwr; y mae efe yn cyhoeddi gwirioneddau pendant crefydd y rhai a gyfnerthir gan yr argyhoeddiad, “Fel hyn y dywed yr Arglwydd.” Y mae y pregethwr wedi bod, ac y mae yn addysgydd crefyddol y bobl, un o

amcanion yr hwn ydyw deffro a dadblygu y teimladau crefyddol, ac yn yr addysgiaeth foesoel yma y mae hyd yn hyn heb ei gyffelyb.

2. Mewn trefn i'w gael bywyd yn y pulpud rhaid fod gan y pregethwr rywbeth ffresh i'w ddeydw. Arferai Mr. Ward Beecher ei adgofio ei hun bob dydd Llun fod yr anifeiliaid yn dyfod at borthiant *ffresh*, nid at wellt wedi ei hen ddyrnu; ac fod dynion yn dra thebyg iddynt. Mae y pregethwr yn gennad Crist, a dylai cenadwri bob amser fod a rhywbeth ynddi. Y mae Paul, cyn dweyd wrthym beth a bregethai, yn dweyd beth ni phregethai. "Canys nid ydym yn ein pregethu ein hunain, ond Crist Iesu yr Arglwydd." Buasai y testun cyntaf a grybwyllir yn fuan yn cael ei ddysoyddu ac yn dyfod yn bur ddiflas, i'e yn nwyllaw Paul. "Nid ydym yn ein pregethu ein hunain." Ond yr oedd "Crist Iesu yr Arglwydd" yn destun anhysbyddadwy, llawn o brydferthwch dwyfol ac amrywiaeth, gyda gwllith y boreu bob amser yn loew ar rai o'i ddail. Pan welaf beth y mae Count Tolstoi ac efrydwyr difrifol ereill yn gael yng Nghrist a'i eiriau, a'r fath chwyldröadau mewn bywyd ac ymarweddai y maent yn ddwyn oddiamgylch, yr wyf yn teimlo yn argyhoedd-edig fod dyfnderau mawrion o ystyr nad ydynt eto wedi eu darganfod yn ei eiriau Ef. Y mae un dywediad i Crist yn fynych fel mesen, sydd yn cynnwys coedwig ynddi ei hun. Nid ydyw "Goleuni y byd" eto wedi tywynnu arnom, fel y mae i wneyd cyn bo hir; yna fe fydd "Goleuni Asia" yn gwelwi yn fwy nag y mae yn awr, i'e yn nisgrifiad y bardd, o'i gymharu ag Ef, goleuni yr Hwn sydd i dorri allan fely boreu, gan ei brofi ei Hun yn haul cyflawnder Duw trwy yrru ymaith dywyllwch o galonnau a dioddefiadau dynion, o feddau a dagrau y rhai trallodedig. Rhaid i dywyllwch chwalu o faen goleuni ymdaenol Goleuni y Byd. CRIST IESU YR ARLGWYDD: y fath amrywiaeth y mae yr un testun hwn yn agor o'n blaen! Fel y mae y seryddwr yn chwilio ffurfafen Duw am rywbeth newydd, ac nid yn ofer, felly i bob efrydydd difrifol y mae gwirioneddau newyddion, neu arweddau o wirionedd yn barhaus yn llewyrchu oddiwrth Grist a'i ddatguddiad. Ac yn awr y mae ei eiriau yn cael eu hegluro trwy bob math o wahanol wersi oddiwrth Natur, Rhagluniaeth, a Hanes. Dysgu y gelfyddyd o weled gwerth pethau vdyw help pennaf pregethwr, "y gelfyddyd o ganfod sut i gael meddyliau o lyfrau, o bethau, ac o ddynton." Ie, o lyfrau; arferai Thomas Binney ddweyd "Na fydd gan yr hwn nad yw yn darllen ond ychydig i ysgrifennu yn ei gylch, ac na fydd i'r hwn nad yw yn ysgrifennu ond yn anfynych siarad yn dda." Ond yr anhwarter gyda llawer o weinidogion wyf fi yn adnabod ydyw, Pa fodd i gael llyfrau i'w darllen; a phe bai ein llyegwyr ddim ond yn gwybod yr ysbrydoliaeth sydd mewn torri dalennau llyfr newydd, yr wyf yn teimlo yn sicr yr anfonent i'w gweinidog lyfr, i'w hysbrydoli at waith y Saboth, yn fynych.

Ni fydd ar bregethwr, os ceidw ei feddwl, ei lygaid, a'i glustiau bob amser yn agored, byth ddiffyg am awgrymiadau o bob math o ffynonhellau. Nid oes dim carreg athronydd a drŷ gynifer o bethau iddo yn feddyliau euraidd fel sylw cyson. Y mae syniadau newyddion—drych-feddyliau ffresh—yn dyfod yn barhaus i'r hwn sydd yn edrych am danyn, ac yn sylwi yn ofalus ar bethau a digwyddiadau o'i amgylch. Dywed Goethe fod ei feddyliau goreu ef yn dyfod iddo fel adar yn canu, rhyddion blant Duw, gan sefain "Dyma ni."

Y fath faterion i'w trafod a awgrymir yn fynych gan hanes un dydd, fel ei ceir yn y newyddiaduron,—pethau alaethus mewn tenlucodd,

plant truenus, dinystr ar fywydau ieuainc, cymeriadau wedi eu handwyo, meddyliau wedi eu gwallgofi, poenus dristwch a llawer o hunanladdiadau. Fel y gallasai yr holl fywydau du hyn gael eu newid a'u bendithio, pe buasai yr holl eglwysi ddim ond yn rhai byw, a'r holl aelodau yn myned allan fel Job i chwilio am y riai truenus a diswcur, ac yn dweyd wrthynt nad ydynt yn blant amddifaid a esgeulusir; nad ydyw eu cwynofain yn gywir "nad oes neb yn gofalu am danynt;" fod Tad sydd yn eu gwrandao ac a'u cynorthwya pan alwant arno!

A'r fath wynebaw sydd o'n hamgylch ymhob man, yn dwyn arwyddion amlwg fod arnynt eisieu help nad all neb ei roddi ond Iesu, — "y brawd a anwyd erbyn caledi." Merched a wnaethant yr un camgymeriad yn y cychwyn, a byth wedyn ydynt yn cario bywydau wedi eu mallu i'r diwedd trist; dynion yn suddo wedi eu llethu gan lwythau o ofid dirgel, nad allant wneyd yn wybyddus i neb, ac felly yn llusgo bywyd blin, nes y maent yn torri i lawr dan faich rhy drwm, na fwriadwyd iddynt erioed ei gario eu hunain heb help yr Un Mawr sydd yn rhoddi gorffwysdra, yr Un Mawr sydd yn dwyn ein beichiau, yr Hwn a ddaeth i lawr gyda'i gymorth cryf a pharod i gynnal y rhai sydd yn suddo dan flinderus ofalon bryniau anhawdd bywyd, — a hyn oll o ddiwyg Cristionogion byw i chwilio am danynt, ac i ddweyd wrthynt am Grist a'i "Ddeuwch ataf fi a gorffwyswch."

Nid ydyw bywyd yn ddigon hir i hysbyddu Crist fel Boddlonwr mawr holl eisieu dynion. Dywed perthynasau Henry Ward Beecher wrthym fod ei ymwelydd olaf o Loegr, rhyw wythnos cyn iddo farw, wedi datgan gobaith y byddai iddo orffen ei "Fywyd Crist;" ond wedi iddo ymadael, dywedai y pregethwr mawr, gan ymgrymu yn ei gadair freichiau, ei wyneb yn goleuo, ac fel pe buasai yn meddwl yn uchel, "Gorffen bywyd Crist! Gorffen bywyd Crist! Pwy all orffen bywyd Crist? Ni ellir ei orffen." Yr oedd y rhain yn eiriau proffwydoliaethol, yn cael eu dweyd ar drothwy tragwyddoldeb, pan ar fyned i mewn i'w "weled megis ag y mae," ac i fod byth "yn gyffelyb iddo." Y mae yn troi yn ol, megis, i gysuro pregethwr ieuainc pob oes sydd yn ofni y bydd testunau yn pallu iddynt, a dywed, "Gorffen bywyd Crist! Ni ellir ei orffen."

3. Mewn trefn i gael bywyd yn y pulpud, dylai y pregethwr wybod pa fodd i draddodi yr hyn sydd ganddo i'w ddweyd. Gallai dyn fod yn feistr ar ei bwnc, ond yn siaradwr truenus, ac felly fethu cael gwrandawyr. Traddodid darlithiau cyntaf Hunter ar ddiffyniaeth, *anatomy*, i esgyrn dynion, *skeletons*, am ei fod wedi methu cael rhai byw i wrando arno. Nid John Foster oedd y pregethwr olaf a draddododd ei feddyliau mawrion i eisteddleoedd gweigion. Dywedodd y Dr. John Thomas wrthyf yn bur ddiweddar, pe buasai ei fywyd ganddo i'w fyw drosodd drachefn y buasai yn cymeryd gwersi mewn siarad yn gyhoeddus gan yr athraw goreu y cawsai afael arno.

Mae rhai o honom a dreuliasom bum mlynedd yn ein hathrofeydd enwadol ac na chawsom erioed yr un wers ar siarad yn gyhoeddus. Myn rhai nad ydyw y fath ddarlithiau yn gwneyd dim lles. Y mae siarad yn gelfyddyd, a gall y mwyaf aneffeithiol yn gystal a'r mwyaf addawol ennill tir uwch yn hon fel ymhob celfyddyd arall. Mae llawer o ynydrwydd wedi ei siarad a'i ysgrifennu ynghylch un wedi ei eni yn areithiwr, ac un wedi ei eni yn fardd. Yn ddiameu mae yn rhaid i'r areithiwr a'r bardd gael eu geni i ddechreu, ond nid oes un bardd yn dyfod yn fawr heb astudio prif gynhyrchion gwledydd ac oesoedd

ereill. Gall y pregethwr fod wedi ei eni yn areithiwr, ond ni all byth gyrraedd y rhagoriaeth uchaf sydd yn bosibl heb ddiwyllio ei ddoniau o dan yr addysg oreu. Y fath gymhwyster a gallu i lefaru sydd yn barhaus yn colli o ddiffyg yr hyfforddiant yma. Mae yr oes hon mor llawn o fywyd ymhob cyfeiriad fel nad all oddef dylni, pa mor urddasol bynnag, yn y pulpud. A thra y mae brwdfrydedd yn y senedd, celfyddyd ar yr esgynlawr, bywyd wrth y bar, pam y dylem ni fod yn ddwl? Pam y dylai fod raid i ni grefu gan bobl ein gwrando, pan y gallem siarad fel ag i'w gorfodi i'n gwrando? Pam y dylem ni fod at drugaredd pob cynulleidfa am nad allwn fod o ddyddordeb iddynt, pan y mae yn bosibl i ni fynnu eu parch a'u sylw trwy ddyfod yn siaradwyr dyddorol, os nad nerthol? Y mae holl waith y pregethwr yn ofar, os nad all ennill a chadw sylw ei wrandawyr.

Mae yn wir ei fod yn gofyn llawer o boen a gwaith caled i ddyfod y pregethwr goreu sydd yn bosibl i bob un o honom. Ond onid oes eisien llawer o ddyfalbarhâd a hunan-aberth i ddyfod yn gelfyddwr, yn gerddor, neu yn awdwr llwyddiannus, i'e yn llamedydd llwyddiannus? Y mae yn drwm ac yn ofidus os nad ydym ni yn barod i roddi yr amser a'r llafur i'n perffeithio ein hunain yn yr alwedigaeth uchaf hon, pan y mae ereill yn rhoddi, i'e eu bywydau, i gyrraedd nod sydd lawer yn is. Yr ydym wedi adnabod pregethwyr a wnaent mor dda yn y pulpud fel y gofdiem na wnensent y goreu ag oedd yn bosibl iddynt cyn myned iddo trwy fyfyrnod, nac ynddo trwy draddodiad. Y mae rhai fel yn meddwl y dylai rhagoriaeth mewn pregethu ddyfod iddynt mor naturiol a chysgu, neu y gallu i roddi ereill i gysgu.

Maddeuwch os siaredais yn rhy hyf ar y mawr angen o fywyd yn y pulpud. Yr wyf fi yn dyfod o Gymru, lle y mae pregethu wedi gwneyd mwy i'r bobl na dim gallu arall. Addefa pawb fod pregethwyr Cymreig mawrion wedi bod. Fe ddywedir wrthym yn fynych nad oes yr un yn awr. Y mae yn hen arfer i gymeryd i fyny esgyrn y pregethwyr a fu, i guro â hwynt y pregethwyr sydd! Yr oedd yr hen bregethwyr a wrandewid rhwng bryniau Cymru yn broffwydi Duw. Disgwyliant wrtho, nes y gwelent weledigaethau gogoniant yr Arglwydd. Fe'u hysbrydolid gan Dduw i esbonio a phregethu y Gair ysbrydoledig. Yr ydym wedi anfon i'n cyfeillion Seisnig engraifft yn awr a phryd arall: yr hyawdl Ddr. Vaughan, y proffwydol Ddavid Thomas o Fristol, y barddonol Domas Jones, heb enwi yr un o'r llu byw sydd yn cymeryd meddiant o Loegr, i'e ac o Scotland a'r Iwerddon. Nid ydyw plant Cymru wedi cael uchelgais uwch am oesoedd na dyfod yn bregethwyr Efengyl fendigaid Duw. Ymhyfyrdant mewn gwrando meistriaid y gynulleidfa yn gorchfygu y torfeydd cyn iddynt o gwbl freuddwydio am ddyfod yn bregethwyr eu hunain. Ac i blant Cymru ni allai fod nfoedd fwy hyfryd na chlywed eto ein pregethwr yn pregethu. Fy mrodyr, y mae yn waith ardderchog, yn deilwng o'r dyn goreu, ac ar ei oreu.

II.

Mewn Eglwys fyw y mae yn rhaid fod bywyd yn y Ddiaconiaeth. Mae y gair *diacon* yn y Testament Newydd yn cael ei ddefnyddio yn yr ystyr ehangaf i ddynodi unrhyw weinidogaeth, a chymerai i mewn "weinidogaeth y Gair." Yr oedd Phylip, un o'r saith cyntaf, yn efenglydd,—yn wir, y cenhadwr tramor cyntaf. Yr oedd Stephan yn

un arall, a'r merthyr cyntaf yn yr Eglwys Gristionogol. Yr oedd rhai o'r dynion goreu a adnabum i erioed yn ddiaconiaid. Nid oedd dim aberth yn rhy fawr, dim llafur yn rhy galed iddynt; yr oeddynt yn byw i wasanaethu Crist a'i Eglwys, bob amser yn bur i'w gweinidog, yn ei sirioli yn ei waith trwy eu cydymdeimlad, eu calonogiad, a'u cymorth. A'r fath help a all, ie un diacon ei roddi!

Mae y syniad yn ffynnu yn ormodol y rhaid i ddyn fyled i'r pulpud mewn trefn i wasanaethu Duw a'i genhedlaeth. Ond yr wyf fi yn adwaen llawer o ddiaconiaid y rhai a wnaethant i'n heglwysi a'n henwad y fath wasanaeth ysblenydd fel yr wyf yn edrych arnynt gyda dwfn barch fel hunan-aberthwyr annhaledig dros Grist.

Dywedodd y diweddar Mr. Samuel Morley wrthyf lawer gwaith mai ein heisieu mawr oedd *ffordd allan o'r weinidogaeth*; ein bod yn rhy barod i greu, "pregethwr unwaith pregethwr byth." Y ffordd oreu allan a adwaen i, i ddyn difrifol sydd yn teimlo nad ydyw wedi ei fwriadu ar gyfer y pulpud, ydyw dyfod yn ddiacon, yn enwedig os na welodd yn ystod ei weinidogaeth ddiacôn a allai gammol. Deued i lawr a gosoded o flaen pawb esiampl well.

Ni fu erioed amser y gallai ein diaconiaid roddi mwy o gymorth i'n gweinidogion a'n heglwysi nag yn y dyddiau hyn o gynifer o alwadau. Nid yn unig y mae y pulpud yn galw am fwy o amser i ddarllen, meddwl, a pharatoi ar ei gyfer, ond y mae galwadau ereill, parhaus a blinderus, na w'r neb ond gweinidog ffyddlon am danynt. Ac yn enwedig yn y dyddiau hyn pan y mae curadiaid yn ymweled ac yn proselytio, y rhai sydd yn ymddangos fel heb bulpudau i baratoi ar eu cyfer, ac felly a'r holl wythnos ganddynt i ymweled & chartrefi y bobl. Yr wyf fi weithiau wedi bod yn cefngennu wrth y rhai a allant roddi yr holl wythnos i ymweled am nad oedd arnynt eisieu gweledigaeth erbyn y Saboth. Ond y mae yn dyfod yn fwyfwy angenrheidiol fod bugail pob diadell, neu ei ddiaconiaid, yn galw yn fuan ar ol yr ymwelwyr hyn, rhag i'r w'n gael eu harwain ar gyfeiliorn.

A Duw yn unig w'r fel yr ydym yn diolch iddo ac yn ei fendithio am yr help a'r gwasanaeth parod a meddylgar a roddir gan ddiacôn ffyddlon. Y mae efe yn adwaen pob teulu sydd yn perthyn i'r gynulleidfa, fe'i croesawir i'w cartrefi oblegid iddo, mewn amseroedd aethant heibio, fyled i mewn i'w llawenydd a'u tristwch, mae y plant yn ei garu ac yn disgwyl am ei wên. Efe oedd eu hathraw yn yr Ysgol Sabothol. Mae ganddo lyfr bob amser yn barod, gyda gair o gyngor cariadus i bob un pan yn gadael yr hen gartref a'r hen gysegr i ymladd brwydr bywyd. Mae y gweinidog yn achlysurol yn derbyn parsel di-enw, llawer gwell na llythyr di-enw; ond fe w'r megis wrth reddf o ble y mae y llyfrau newyddion neu yr anrheg brydferth i'w briod yn dyfod. Y fath fendith ydyw yr un diacon yna i'r gynulleidfa,—yn sirioli cartref adfydus yma heddyw, yn helpu teulu wedi eu hamddifadu draw yfory, a thrennydd yn peri i galon un o'i ddisgyblion yn yr Ysgol Sabothol wedi myned oddi-cartref lawenyddu yn ei ymdrech yn erbyn anonestrwydd mewn pethau bychain, trwy dderbyn llythyr, gyda rhywbeth ynddo i felysu y cyngor da.

Y mae rhai wedi eu siomi yn y rhan fwyaf o eglwysi am na chawsant eu gwneyd yn ddiaconiaid cyn iddynt wneuthur unrhyw wasanaeth fel aelodau,—gan beri i ddyn feddwl am ddywediad Oscar Wilde am y coegyn, y *dandy*, "yr hwn a geisiai fod yn rhywun yn hytrach na gwneyd rhywbeth."

A'r perygl o golli dyn fel yr un da a ddisgrifiwyd o'r ddiagonaeth, ydyw fy nadl gryfaf i yn erbyn ail-etholiad parhaus ar ddiagonaidd. Fe ddadleuir yn fawr dros hynny gan enwad arall yng Nghymru yn awr. Yr wyf yn addef fod llawer i'w ddweyd drosto. Y mae gan eglwys, meddir, lawer ffordd i newid ei gweinidog; a pham nad ei diaconiaid? Ac ychwanegant ei fod yn dyfod yn argyhoeddiad dwfn fod Senedd o saith mlynedd yn rhy hir, ac y rhaid i ddynion ddyfod i'r bleidlais yn fynychach; fod hynny yn iachus, ac yn creu brwdfrydedd newydd; ac fod ffordd hir wastad heb drôad ynddi yn hynod o flinderus.

Yr un ddaicl a allaf fi weled o'i blaid ydyw, bod diacon, wedi ei etholiad, yn fynych yn blino ar y gwaith, os nad ar y swydd, ac y rhoddai ail-etholiad iddo ffordd barchus allan o'r sefyllfa. Onid yw y cri yn dyfod yn rhy gyffredin y dylai pob diacon fod yn ddyn o fusnes, fel pe buasai pob eglwys yn rhedeg siop grefyddol? Gadewch i ni gael dynion o fusnes, yn sicr, os ydynt yn meddu cymhwysterau y diaconiaid cyntaf—"gwŷr da eu gair, llawn o'r Ysbryd Glan a doethineb." Rhaid i ddynion o fusnes beidio cael eu llyncu i fyny i'r fath raddau gan fusnes, fel ag i esgeuluso galwadau yr eglwys arnynt. Ac os mynnwn i'n heglwysi fod mewn cydymdeimlad a'r bobl, rhaid fod diaconiaid o blith y dosbarth gweithiol. Yng Nghymru y maent gennym ymhob eglwys, a'r gweithwyr ydyw asgwrn cefn ein cynulleidfaoedd.

Ymron yn yr holl eglwysi Cymreig y mae sedd diaconiaid gerllaw, o amgylch y pulpud. Fe gychwynwyd hynny mae'n ddiau ar yr eglwyddor o gael y gwrandawyr goreu o dan lygad y pregethwr; fe gredid fod yr hyawdledd, nid yn unig yn y gwrandawyr, ond yn y rhan honno oedd nesaf at y pulpud. Rhaid i mi addef nad ydyw bob amser yn gweithio yn dda. Weithiau y mae *non-conductors* yn sedd fawr y diaconiaid, yn gwrando gyda llygaid cauedig, ac heb roddi dim ymatebiad oddieithi; ambell i ddylyfiad gŕen, ymatebiad na ysbrydolodd erioed eto unrhyw siaradwr.

Pan mae y dilyfwr yn amlhau, yr wyf bob amser yn meddwl mai y drefn Seisnig yw yr oreu, sef chwalu y *non-conductors* ymblith y gynulleidfa, yn lle bod o flaen llygad y pregethwr. Y mae rhywbeth arwyddocaidd yng ngeiriau Crist, mai yr unig had y mae yr hauwr goreu yn hau, sydd yn dwyn ffrwyth, yw yr hyn sydd yn disgyn ar ddaear "calon hawddgar a da." Ni ddylai yr un dyn heb "galon hawddgar a da" fod yn agos i'r pulpud, rhag iddo rwystro i'r dylanwadau bendigaid gyrraedd y gynulleidfa. Mae y gwaith mor fawr yn ei amcan, mor ogoneddus yn ei ganlyniadau, fel y mae llwyddiant pob ymdrech arall yn mynd yn ddim mewn cymhariaeth iddo. Y mae yn rhy fawr i'r mwyaf ymrodde dig ar ei oreu heb weddïau a chydymdeimlad pawb sydd o'i amgylch. Paul, yr hwn a wyddai ei fod wedi ei alw i'r weinidogaeth gan Grist ei Hun, na flinid ef un amser ac na phetrusai byth am y gwirioneddau mawrion oedd yn gwneyd i fyny yr Efengyl—Paul a ysbrydoliodd i ysgrifennu epistolau am Grist a'i waith na edy y byd byth iddynt farw—ac eto gwelwch fel ymhob epistol y mae yn erfyn am weddïau pob eglwys. Yr oedd y posibilrwydd o fethiant mor ofnadwy! Yr oedd achub un enaid yn beth mor aruthrol fel yr oedd clychau y nef yn canu, ac yr oedd llawenydd yng ngwydd angylion Duw am fod un wedi ei achub i fywyd tragwyddol.

III.

Rhaid i Eglwys Fyw gael ei gwneyd i fyny o Aelodau byw. Dylai fod mor lawn o fywyd fel y byddo pob aelodau nad ydynt yn gynorthwy-

wyr yn ei gwaith, yn syrthio ymaith yn naturiol fel dail meirw oddiar goeden fyw. Fe ddywedwyd gan gadeirydd blaenorol i'r Undeb hwn, Dr. Eustace Conder, "Nad ellir symio i fyny egwyddor sylfaenol Annibyniaeth yn fwy cyfiawn nag yn y wireb yma, Rhaid i Eglwys fyw gael ei gwneyd i fyny o Gristionogion byw."

Y mae pob Cristion yn was i Grist, yn gweithio drosto Ef; ac os nad ydyw yn weithiwr, sut y gall fod yn was? Un o'r pethau mwyaf tarawiadol mewn cysylltiad â'r eglwysi cyntaf oedd y bywyd a ymddanghosai fel yn meddiannu pawb oedd mewn cysylltiad â hwynt. Nid oedd neb yn llusgedig, yr oeddynt oll yn fyw. Yr oedd eglwys yn y ty, cynulliadau i addoli ar ochr y bryn, ac o amgylch y cychod ar y llyn; a dilynent esiampl y Meistr o brynnu cyfleusterau a gwneyd gwasanaeth ar ochr y ffordd. Yr oeddynt oll yn wneuthurwyr ac yn weithwyr.

Dylai drychfeddwl y Cyfandir o fod pob dinesydd yn filwr, fod eto yn arwyddair Eglwys Fyw! Ac ai nid dyma ddirgelwch llwyddiant Byddin Iachawdwriaeth?

Onid ydym wedi bod yn rhy barod i edrych ar wasanaeth Cristionogol fel dyledswydd ychydig o aelodau ymroddgar?

Y mae eglwys o gant o weithwyr yn llawer mwy effeithiol er daioni nag eglwys o dri chant, gyda dau gant o rai heb fod yn gweithio, neu bartneriaid cwag. Y mae pob aelod segur yn creu awyrgylch ddwrwg sydd yn ymddangos fel yn cynhyrchu segurwyr ereill, ac yn gefnogaeth i syniad cyfeiliornus am ystyr aelodaeth mewn eglwys. Dywedai y sylwedydd craff, Mr. John Stuart Mill, unwaith: "Nid oes ar ddyinion drwg eisieu dim mwy i ddwyn oddiamgylch eu hamcanion na bod dynion da yn edrych, ac yn peidio gwneyd dim." Ac mor boenus o liosog ydyw y dynion da ydynt "yn edrych" ar yr holl anghyfiawnder, meddwdod, dioddefaint, tlodi a diaffyddiaeth sydd o'u hamgylch, ac yn gwneyd dim. Gynifer o eglwysi sydd, fel eglwys Sardis, a chanddynt "ychydig enwau," ond llawer o aelodau! Yr "ychydig enwau" yn gweithio dros Grist, a'r llawer o aelodau yn eu cadw eu hunain! Yr Ysgol Sabothol, y cyfarfod gweddi, y *band of hope*, a'r gwahanol gymdeithasau, oll wedi eu gadael i'r "ychydig enwau," tra mae y llawer o aelodau yn tawelu eu cydwbybodau trwy dalu tanysgrifiad, a hwnnw yn un pur annheilwng. Rhaid i ni wyllo rhag y perygl o droi ein heglwysi yn glybiau comfforddus, lle y gall aelodau fwynhau eu plëserau meddyliol, ac anghofo y byd oddi-allan, a'u dyledswyddau at y trueiniaid a esgeulusir. Rhaid i'n haelodau beidio meddwl eu bod fel teithwyr ar ein hager-longau mawrion—unwaith y cymeront docyn am y fordaith, nad oes ganddynt ddyledswyddau i'w cyflawni, ac os gofynir am eu help y gallant ateb, "Nid wyf fi yn un o'ch dwylaw, *passenger* ydyw fi." Ond y mae ar Iesu Grist eisieu dwylaw a chalonnau. "Pa beth bynnag yr ymaffo dy law ynddo i'w wneuthur, gwna a'th holl egni." Nid oes arnom eisieu *passengers* yn unig yma, ond oll yn ddwylaw, ac â'u holl nerth yn gweithio dros Grist. Dywed y proffwyd Micah wrthym am weision pechod yn ei ddydd ef, ac y mae lawn mor wir yn yr eiddom ni, "Eu bod yn gwneuthur drygioni â'r ddwy ddwylaw yn egniol." Nid gydag un llaw, nid gyda'r ddwy law yn ddiffater, ond gyda'r ddwy law yn egniol. A sut y gallwn ddisgwyl ennill y byd yma yn ol i Grist trwy aelodau gyda dwylaw segur a breichiau plethedig, gan adael pob ymdrech Gristionogol i'r "ychydig enwau," yr "eglwys o fewn yr eglwys"?

Dyma ydyw ein gwendil yr amser presennol, fod cynifer yn ein heglwysi sydd wedi addunedu ffyddlondeb i Grist, ond yr oll wedi terfynu yn yr adduned o'r broffes Gristionogol. Clywsom yn fynych un o'r aelodau hyn yn gwneyd addewid fawr o ffyddlondeb yn y dyfodol, ond yna bob amser y terfyna, gan ein hadgofio am yr agerlong fechan honno y darllenasom am dani a feddai y fath anferth chwibaniad fel y treuliai ei holl ager pan chwibanai, ac yna y byddai raid iddi sefyll. Onid ydych yn adnabod y dyn? Adduneda heno y dilyna Grist pe bai bawb yn ei adael, ie hyd angen; ac yn y man chwi a'i cewch yn ymdwymno wrth ochr y tân, wedi gadael Crist pan ar ei brawf,—yr oll wedi mynd yn y chwibaniad.

Ac onid oes aelodau o'r fath yn ein holl eglwysi, yn addaw ffyddlondeb mawr i Grist a dynoliaeth, a'r oll yn terfynu yn yr addewid? Os ydyw y rhai hyn yn Gristionogol,—nad ydyw eu crefydd yn costio dim i'w pocedi, eu meddwl, neu eu hamser,—yna beth yw rhai fel Moffat, Livingstone, a John Williams, a aberthasant hyd yn oed eu bywyd dros Grist?

Pa fodd y gallwn gydrestru dan yr enw Cristion yr un na wna un aberth o gwbl dros ereill, a'r un sydd yn ei roddi ei hun, ei fywyd, dros ereill? Mae yn amhosibl. Nid yw y cyntaf yn eiddo Ef, oblegid y mae heb "Ysbryd Crist."

Rhaid i'r gwaith mawr a gogoneddus hwn o gyfnewid dynion, a Christioneiddio y paganiaid o'n hamgylch, gartref ac oddicartref, ddyfod yn uchelgais pob Cristion professedig. Rhaid i bob aelodau ymuno â'r "eglwys o fewn yr eglwys," a gweithio "â'r ddwy ddwyllaw yn egniol." A rhaid iddo ddyfod yn *waith* yr eglwys, ac nid rhan fechan o'i gwaith.

Y fath alluoced cuddiedig sydd, ie yn awr, yn y rhan fwyaf o'n heglwysi, pe yn unig y gwnaem ddefnydd o honynt! Y fath dalentau na alwyd allan sydd ymysg ein pobl ieuaine! Mor araf ydym wedi bod mewn gofyn i'r *chwiorydd* ein cynorthwyo, er ein bod yn darllen am ddiaconesau yn yr Eglwys foreuol, ac er nad ydym yn darllen am yr un ferch oedd yn angharedig neu yn anffyddlon i Grist tra yma ar y ddaear. Yr oedd dynion yn ddieffig yn eu creulondeb tuag ato Ef, ond ni ddarfu i un ferch ei fradychu, ei watwar, ei adael, na phoeri i'w wyneb. Darfu i lawer o honynt ei siuoli pan ar ei ffordd i'r groes, gan olchi ei draed â dagrau cyn i ddynion yrru hoelion iddynt, gan eneinio ei ben â'r perarogl gwerthfawr o flaen y drain â'r rhai y darfu i ddynion ei goroni Ef. Wylent gydag Ef ar ei ffordd i Galfaria, ac yr oeddynt yn ffyddlon iddo hyd y diwedd. Ac onid ydynt yn ffyddlon a phur iddo Ef eto?

Pam, ynte, y buom ni cyhyd yn galw am eu gwasanaeth?

A dywed rhai wrth ein pobl ieuaine ein bod yn gofyn gormod oddi-wrthynt; fod y nód yn rhy uchel. Na chredwch hwynt, ond codwch a chynorthwywch ni yn y gwaith mawr hwn. A phe chwarddent pan aberthwch bleser i ddyledswydd, ac y profwch eich cariad at Grist trwy eich cariad at ddynion, na ofelwch. Yr ydych chwi yn perthyn i eneidiau profwydol y gorfennol, yr ydych yn credu gyda hwynt mewn amser gwell i ddyfod,—anser heb drosedd ac eisieu, heb anwybodaeth ac anghymedroldeb. Yr ydych wedi cymeryd eich lle yng ngorymdaith ardderchog y rhai a roddasant eu bywyd er dwyn i mewn yr oes well, a bydd tragwyddoldeb yn eiddo i chwi i lawenyachu gyda hwynt. "A byw fyddwch chwithau" oedd addewid y Gwaredwr wedi adgyfodi i bob un sydd wedi dyfod yn un ag Ef, nid fel y gangen wywedig heb firwyth ac

yn syrthio oddiar y goeden; ond "a byw fyddwch chwithau" fel y mae y gangen yn fyw sydd yn dal wrth y winwydden, sydd yn anadlu ymhob deilen, sydd yn plygu dan bwysau ei ffrwyth, ac yn ddigon isel i'r plentyn dynnu ei gwerthfawr rawnwin. Gadewch i ni gael eglwysi byw wedi eu gwneyd i fyny o aelodau byw, ac fe ddywed hynny ar ein holl genadaethau; fe rydd i ni weithwyr Cristionogol byw, cenhadon i gymydogeath pob eglwys; a pheth y mae eglwys da os nad ydyw, fel ffynnon, yn fendith i'r fan lle y mae? Fe ddiogela y bywyd yma i ni gyfraniadau digonol at holl amgylchiadau yr eglwys a'i gwaith mawr. Yna fe fydd cymwynasgarwch yn mwy na dal ei thir yn erbyn rhyseidd. Y mae Duw wedi cyflawni ei ran Ef trwy roddi helaethrwydd o foddion i Gristionogion, ac nid oes arnom eisieu yn awr ond y bywyd ysbrydol i fyned i lawr—i lawr o'r pen i'r galon, i lawr o'r galon i boced pob dynion ariannog, fel ag i beri iddynt roddi eu harian yn y banc diogelaf a goreu yn y byd, gwneuthur daioni i bawb.

IV.

1. Pa fodd yr ydym i sierhau y bywyd hwn? Os ydyw yr eglwysi yn colli eu gafael ar gynifer y dyddiau hyn, y mae yn dyfod ein dyledswydd gyntaf i chwilio allan y rheswm am hynny. Pa bethau sydd yn atal llifiad mwy llawn o fywyd dwyfol i'n heglwysi? Y mae perffeithrwydd eglwys Gristionogol, fel rhan o deyrnas Dduw, yn cael ei ddangos gan Paul yn ei Epistol at y Rhufeiniaid, ac ni ellir gwella arno. Mae ei haelodau i fyw i *gyfiawnder*, *tangnefedd*, a *llawenydd*. A ddywed Esgob Westcott mai cyfiawnder, tangnefedd, a llawenydd, ydyw y thriad Cristionogol o gydraddoldeb, rhyddid, a brawdgarwch, ymha un nad oes dim o'r hen wirionedd yn cael ei golli, ac y mae yr oll yn cael ei weddnewid. Yr hyn sydd wedi llesteirio dylanwad a chynnydd Cristionogaeth yn y gorfennol ydyw diffyg sêl dros gyfiawnder, dros dangnefedd, a thros lawenydd.

Rhaid i bob Eglwys ydd yn dymuno bod yn allu byw ddweyd dros *Gyfiawnder*. Rhaid i'w haelodau wneyd yr hyn y mae Duw yn gymeradwyo, a dysgu ufuddhau iddo Ef, a gwneyd yr hyn sydd iawn. Y mae rhywbeth ymhob dyn sy'n ymateb i'r apêl. Gwnewch yr hyn sydd iawn. Gwnewch eich dyledswydd. Mae gan yr oes yr ydym yn byw ynddi lawer o ddiffygion, ond y mae ganddi yr un rhagoriaeth hwn, ni all oddef ffug. Y mae yn tynnu ymaith y mwgwd, a myn weled y peth sydd islaw. Ymogonedda mewn ffeithiau, ac ni wna ond chwertthin am ben eglwysi sydd yn gwneyd haeriadau mawrion, ond heb ddangos ond ychydig neu ddim sêl dros gyfiawnder. Y mae yn gwawdio crediniaethau hanerog a seremoniau gweigion. Y mae yn profi pob peth, ac yn dal yn unig yr hyn sydd dda. A rhaid i eglwys fod yn dda i rywbeth mwy nag i ddarlunio bywyd fel pererindod trwy anialwch yma i Baradwys draw, a gadael y byd hwn i'r diafol a'i wasanaethwyr. Mae yr eglwys yma i gyfnewid y byd hwn yn Baradwys, cael gwared o'i ddeddfau anghyfiawn, cyfnewid ei arferion niweidiol, clirio ei heolydd o bob ffeidd-derau sydd yn llygru. A pha fodd? Trwy droi i ymarferiad yr hyn y proffwydodd Duw y byddai ei Eglwys, "Dy bobl a fyddant gyfiawn oll."

Tybieir fod aelodau pob eglwysi Cristionogol wedi amcanu at wneyd hyn, dyweder am yr hanner can mlynedd diweddaf; y fath gyfnewidiad wnelsai mewn hanes Eglwysig! Yn lle hanes cweryla ac erledigaeth,

fe fuasai yn hanes uu gymdeithas yn gweithredu er cyfiawnder rhwng dyn a dyn ymhob cyfeiriad, teilwng o'r enw Teyrnas Dduw,—yn ddadl fyw, anwrthwynebol i argyhoeddi pawb fod y Crist Byw yn cyflawni ei addewid, “Wele yr wyf fi gyda chwi bob amser.” Yr wyf yn credu fod llawer camwri mawr i'w unioni, a diwygiadau mawrion i gael eu dwyn oddiamgylch cyn diwedd y ganrif hon. Fel aelod o Gyngor Sirol am dair blynedd, yr wyf yn teimlo yn argyhoeddedig pan fydd yr heddeidwaid yr gwbl dan lywodraeth y Cynghorau hyn y bydd meddwdod cyhoeddus a phuteindra cyhoeddus wedi eu gyrru o'n heolgydd. Ac yn sicr y mae hawliau llafur a chyfalaf i'w setlo mewn rhyw ffordd fwy Cristionogol na rhuthro i arfau a thywallt gwaed, fel y gwnaed yn ddiweddar yn America. Y mae mân ryfeloedd cartrefol fel y rhai hyn yn gwatwar ein Cristionogaeth. Pe byddai i'n holl eglwysi ond yn unig ymuno i beri eu bod yn dweyd dros gyfiawnder am yr hanner can mlynedd nesaf, fe fyddai i hynny dafu yr hanner can mlynedd diweddar yn gwbl i'r cysgod.

Cyfiawnder, Tangnefedd. Rhaid i ddiffyg tangnefedd beidio amddifadu yr eglwys o'i bywyd. Hi wnaeth yn ysblenydd yn nyddiau erledigaeth, er bod ystormydd oddiallan, am fod perffaith dangnefedd oddimewn. Ond ni ddarfu iddi erioed gyflawni ei chenhadaeth pan oedd ymraniadau, cynhennau, ac ymrafaelion oddimewn. Y mae ein gelyn cyfrwys yn deall yn dda y drefn o “wahanu a gorchfygu.” Nid yw y gwllith oddi uchod byth yn disgyn mewn ystorm, ac y mae pob ymrysoniadau yn gyrru ymaith y golomen nefol. Ni ddylai fod byth yn haws arwain bywyd crefyddol y tu allan i'n heglwysi nag o'u mewn; ond y mae yn haws pan nad all aelodau gadw danodd eu hysbryd o gythrudd-der, o fymrwylon, ac o or-deimladrwydd, er mwyn heddwch yr eglwys. “Nyni a wyddom ddarfod ein symud ni o farwolaeth i fywyd, oblegid ein bod yn caru y brodyr.” Prawf y “bywyd” ydyw “cariad,” ac os na all unrhyw un gadw danodd ei ddigter er mwyn cariad tangnefedd, y mae heb fywyd. Ac yn ei wreiddyn y mae bywyd yn arwyddo cariad. Dywed George Macdonald “Nad ydych yn gyflawn at unrhyw ddydd oddiwrth yr hwn yr ateliwch eich cariad.” Yr wyf yn addef fod yn dra anhawdd caru yr oll o rai Cristionogion annymunol. Nid wyf fi byth yn ceisio. Nid wyf ond yn ceisio caru yr hyn sydd dda ynddynt—ac y mae bob amser ryw dda ymhob Cristion—ac yr ydwyf yn ysgwyd llaw â'r “ychydig ddaioni ynddynt,” ac yn gweddio am i'r cyfan ddyfod fel yr ychydig hwnnw.

Cyfiawnder, Tangnefedd, a Llawenydd! Y mae arnom eisieu mwy o ysbryd llawenhau y Cristionogion boreuol yn ein heglwysi. Lawned yw epistolau Paul o alwadau i lawenydd ac i “lawenhau yn yr Arglwydd.” Beth a olyga? Hyn. Fe wyddai Paul, fel pob arweinydd mawr, y rhaid i ddynton gael eu calonogi i fuddugoliaethau mawrion. Golygai llanw eu calonau ag ofn a gwan-obaith gollu i frwydr. Yr oedd y Cristionogion boreuol hyn yn llawenhau mewn gorthrymder, yn canu yn y carchar nesaf i mewn, nes yr oedd hyd yn oed y muriau yn dawnsio i'w cân; ac wedi colli y cwbl, llawenhaent yn yr Arglwydd, fel yn meddu yr oll ac am byth, ynddo Ef. Yr oedd y fath grefydd, lawn o obaith a llawenydd calon, yn ei hargymell ei hun i filoedd o'u hamgych, ac fe'i hychwanegid i'r Arglwydd ac i'w eglwys. Dywedodd un o weinidogion mwyaf llwyddiannus ein hamser Fod ei eglwys ef yn eglwys oedd yn canu. Ai ni allem ni wneyd yr eiddom ninnau yn eglwysi fo yn canu ac yn llawenhau?

Fe olygai hyn edrych yn fwy fwy at Iesu, oblegid y mae llawenhau yn amhosibl wrth edrych i ni ein hunain. Yr oedd yr hen Gristionogion yn sicr yn llawenhau, ond nid am ddim a welent ynddynt eu hunain. Llawenhaent yn yr Arglwydd. Yr oedd Efe wedi dileu y gorffennol tywyll, yr oedd y cymylau wedi myned, a gallent hwythau ymddigrifo yn heulwen ei bresenol 'eb Ef. Yr oedd y presennol yn llawn o help; Efe ydoedd "eu braich bob bore;" ac yr oedd eu dyfodol yn llawn o obaith ac o etifeddiaeth y saint yn y goleuni.

Y mae dynion ymhob man yn edrych am yr hyn a alwant yn hapus-rwydd. Danghosed pob eglwys, pob Cristion iddynt, fod y bywyd gwynfydedig a'r ysbryd llawen i w gael mewn ymddiried yn yr Arglwydd Iesu Grist a'i wasanaethu Ef.

Nid oes lawenydd i'r hunanol. Ni allai brawd hynaf yr afradlon fwynhau y wledd, y llawenydd, a'r llonder. A wyddoch chwi pam? Am nad aeth erioed allan i edrych am ei frawd, ac i'w ddwyn yn ol. Pe buasai ddim ond wedi mynd i'r wlad bell i chwilio am dano a'i ddwyn adref drachefn, fe fuasai yn dawnsio yn y wledd, ac yn gwneyd i'r hen gartref adsain gan ei lawenydd, ac fe fuasai wedi ei lanw, uwchlaw y cwbl, & llawenydd yr Arglwydd.

2. Mewn trefn i'n Heglwysi fod yn rhai byw, rhaid i ni gredu yn un ffynhonnell bywyd ysbrydol,—gallu bywhaol Ysbryd Duw. Nid ydyw y dyn hunan-ddigonol byth yn ei dderbyn, nid ydyw yr eglwys hunan-foddlonol byth yn ei gael. A'r nerth yna o'r uchelder sydd arnom eisieu fwyaf oll y dydd hwn. Mae yr Eglwys yn gyfoethocach mewn dynion a moddion nag y bu erioed; y mae ganddi drefniadau mwy ardderchog, mwy o ddysg a diwylliad nag a fu ganddi o gwbl. Nid ydyw y pethau hyn ond y peirianwaith; mae arnom eisieu nerth i ysgogi y cwbl; mae arnom eisieu digon o fywyd i wneyd i'r dynion meirw o'n hamgyleh yn fyw i Dduw ac i ddyledswydd. Heb hyn nid yw yr Eglwys ond cwbl ddinerth, am ei bod heb *ei gwir fywyd ei hun*.

Yr ydym yn sôn am amseroedd apostolaidd a thânau Pentecostaidd; ond a oes unrhyw reswm pam na chaem ddylanwadau mwyaf nerthol yr amseroedd hynny drachefn? Mae yn sicr nad ydyw y gallu wedi ei ddysbyddu, ac nad ydyw y tân wedi diffodd.

Yr wyf fi yn dyfod o wlad y diwygiadau, ac er ein bod yn edrych at y Senedd yn awr i'n gwared oddiwrth ymryson rhyfelocdd y degwm a Sefydliad anghyfiawn a gorthrymus, yr ydym yn edrych yn uwch na St. Stephen am fywyd a nerth i'n heglwysi i gyfarfod yr argyfwng sydd o'n blaen.

Y fath amcan ardderchog yr ydym yn gweithio er ei gyrraedd. Un eglwys gyffredinol i Grist, eglwys cyfiawnder, tangnefedd a llawenydd, a llawr o'r Ysbryd Glân! Dyma yr Utopia gyntaf a mwyaf gogoneddus. Pwy na chlymerai ei safle wrth ochr Crist i'w dwyn i mewn? A gogoniant Crist a'i Efengyl ydyw, eu bod yn galluogi yr isaf i wneyd yr hyn nad all ond arwr wneyd hebddynt. Edrychwch ar y glowyr acw yn Nyffryn Ogmores, fel y rhoddent eu bywydau er mwyn achub eu cyddynion. Y maent bron i gyd yn aelodau o eglwysi Cristionogol, ac y maent wedi eu gwneyd yn arwr trwy ddylanwad Iesu a'i groes. Oblegid, wedi'r cwbl, fel y dywed Father Didon: "Iesu Grist ydyw enw mawr hanes. Y mae ereill er mwyn pa rai y bu dynion farw; Efe yn unig a wasanaethir gan *bob pobl*, ymhlith yr holl genhedloedd, a phob amser.

Fy anwyl frodyr, ni allaf derfynu fy anerchiad heb gyfeirio yn bur fyr at y brodyr enwog, ein harweinwyr yr ymddiriedem ynddynt, a gollasom er ein cyfarfodydd ym mis Mai.

Un prawf mawr, sut bynnag, bod ein henwad o Dduw, ydyw y gwŷr anrhydeddus a ddyry i ni i wasanaethu ein heglwysi, y rhai ydynt barod i fyw, dioddef, a marw er helpu i ddwyn i mewn deyrnas ogoneddus Crist.

Y pregethwr "Undeb" cyntaf a glywais i oedd Dr. Eustace Conder, yr hwn, am wyth mlynedd a deugain, a lanwodd sefyllfa o ddylanwad enwog yn ein heglwysi; gwŷr o graffder ysbrydol nodedig a diwylliad mawr, a gweithiau cyhoeddedig yr hwn a ddarlennais yn dda byth er pan glywais y pregethwr. Yn swydd York, lle y treuliodd un mlynedd ar ddeg ar hugain o'i fywyd defnyddiol, ni raid i mi ddweyd ychwaneg; gwyddoch am ei wasanaeth, a pha fodd i gadw ei goffadwriaeth yn fythol wyrdd. A Henry Simon, rhodd arall o Gymru i'r eglwysi Seisnig; gweinidog duwiol ac ymroddedig, traethiadau yr hwn oedd mor awgrymiadol fel yr agorent ffyrdd hyfryd i'r dychymyg grwydro ymhellach na dim a ddywedai. A Dr. John Thomas, yr ail o'n Cyn-Gadeirwyr, wedi ei alw adref mewn llai na chwe mis, yr hwn a roddodd y rhan oreu o'i fywyd i ddylanwadu er da ar ddinas Seisnig Liverpool. Nid oes neb yma a wŷr yn well na mi, oeddwn yn aelod o'i eglwys am flnyddoedd, mor bureiddiol a dyrchafedig oedd y dylanwad hwnnw.

Yr oeddwn yn sefyll o flaen St. George's Hall yn Liverpool pan oedd y dyfroedd cyntaf o Lyn y Fyrnwy yng Ngogledd Cymru yn rhuthro i mewn, gan neidio i fyny yn y ffynhonnau o flaen y Neuadd. Mi feddyliais am y geiriau nodedig hyn o eiddo Theodore Parker:— "Y mae eglwys neillduol yn ffodus os gall gael gwŷr crefyddol enwog fel ei dysgawdwr,—gwŷr o athrylith, cymeriad mawr, a bywyd mawr. Y mae fel cael llyn mawr i redeg trwy fil o bibellau i heolydd ac ystrydoedd dinas fawr; dwfr y mynyddoedd yn byrlymu i fyny i drigleoedd budreddi ac afiechyd." Meddylw'n am y pregethwr a ddygasid o'r un wlad i bulpu oedd gerllaw a ddylanwadai ar, ac a lanhai filoedd o fywydau, gan wneuthur hoender ieuencid yn ddiaglaer a siriol, a fydd yr oedrannus yn gryfach yn ei gafael ar Iesu; yn gwneyd bywydau pawb yn gyfoethocach iddynt eu hunain ac i ereill, gan lanw eu cartrefi â "phrydferthwch sancteiddrwydd" a'u troi tua'r nefoedd, fel y byddai pob cartref daearol yn wynebu ar gartref tragwyddol Tad yr Iesu. A thra y bydd y ffrydiau pur grisialaidd yn rhedeg i mewn o'r bryniau, felly y bydd i ddylanwad y fath fywydau ddweyd ar yr oll o'r dyfodol, gan wneyd y ddaear yma yn etifeddiaeth gyfoethocach a mwy ardderchog.

Y mae wedi bod i mi yn awgrymiad melus o eiddo rhyw esboniwr fod yr enwau a roddir i'r Gwardwr gan Esaiiah—"A gelwir ei enw ef Rhyfeddol, Cynghorwr, y Duw Cadarn, Tad Tragwyddoldeb, Tywysog Tangnefedd"—i gael eu harddangos a'u hegluro yn hanes yr eglwys, nid oll ar unwaith, ond enw newydd ar gyfer pob cyfnod newydd.

Ar unwaith yr oedd ei enw yn "Rhyfeddol,"—rhyfeddol yn ei berson ac yn ei fywyd o gymwynasgarwch; Mab y Dyn yn dwyn i mewn frawdoliaeth pob dyn, a'r ddaear newydd ag oedd i fod; ac oll-ryfeddol yn ei farwolaeth a'i adgyfodiad buddugoliaethus, gan ddwyn i'r golwg y nefoedd newydd. Yna fe ddaeth ei ail enw o "Gynghorwr," a'i ganlynwyr a elent i bob man, gan gynghori pawb "i lynu wrth yr

Arglwydd." Yna y mae yn ymddangos fel y "Duw Cadarn," gan gynnal ardderchog lu y merthyri yn y deng erledigaeth greulawn. Ac yn awr yn ein dydd ni y mae y "Tad Tragwyddol" yn cael ei ddatguddio, ei bregethu, a chredu ynddo yn fwy nag erioed. A dywedodd Maurice yn wych "Nad oes brawdoliaeth heb yr un yn Dad iddi." Ond y mae y pumed enw i gael ei weithio i hanes y dyfodol: "Tywysog Tangnefedd"—tangnefedd rhwng dyn a Duw, tangnefedd rhwng dyn a dyn, rhwng meddwl a chydwybod. Mwy na hynny, "Ac ni ddysgant ryfel mwyach." Ac mor sicr a bod y geiriau yn llyfr Duw, fe fydd i Dywysog Tangnefedd eu gwneyd yn wir. Ac fel y mae Mr. Greg, yn ei "Enigmas of Life," yn nodi, Fel y gwna hyn i ffwrdd â "phoblogaeth anferth" o ddynton segur ar for a thir, ac felly â phuteindra a meddwod, a'r holl ddrygau sydd yn eu dilyn. Ac y mae yn dyfod. Fe fydd i eglwysi byw brysuero y dydd. Fe fydd darganfyddiadau gwyddoniaeth y fath fel y daw offer dinystr yn rhy ofnawly i unrhyw genedl "ddysgu rhyfel mwyach." Felly gadewch i ni weithio ymlaen,

Nes na churir mwy ddrwm rhyfel, ac na ledir baner gwŷd
Yn senedd-dy dynolryw, yng nghynghreiriad mawr y byd.

"Yna y seithfed angel a udgana gan ddywedyd, Aeth teyrnasoedd y byd yn eiddo i'n Harglwydd ni, a'i Grist Ef, ac Efe a deyrnasa yn oes oesoedd."

RHYDDID Y RHYW FENYWAIDD.

Rhyddid! yw fy arwyddair,
Trwy y byd gwynfyd a gair;
Rhyddid i holl ryw Efa,
Rhyddid, O Rhyddid barhâ!

GAIR bendigedig yw y gair Rhyddid; gair sydd yn peri i ni feddwl am y pysgod yn chwareu yn y môr mawr llydan, a'r adar yn ehedeg yn yr awrygylch ddiderfyn. Ond y mae yn air, ysywaeth, na bu a wnelai y Rhyw Fenywaidd nemawr ag ef am oesoedd lawer. Erbyn hyn, o fawr drugaredd ein Tad Nefol, y mae yr Efengyl wedi estyn rhyddid i'r rhyw fenywaidd.

Yn ol y rhyddid a fwynha y merched mewn teyrnas, y mae barnu maint gwareiddiad y deyrnas honno. Y mae hyn yn amlwg ond taflu golwg ar y byd. Y fath wahaniaeth a welir yng nghyflwr gwledydd y gorllewin, ragor y rhai dwyreiniol; rhwng Lloegr a Phersia! Yn y flaenaf, lle y mae y merched yn rhydd a pharchus, y mae addysg yn uchel, masnach yn cynhyddu, crefydd yn ffynnu, a thôn cymdeithas yn bur a diwylliedig. Yn yr olaf, lle mae y merched yn gaethion, y mae gwareiddiad yn isel, a phob ymgais at wella cymdeithas yn cael ei gaethiwo megis gan ryw allu anweledig.

Trwy ddylanwad distaw y mae benyw yn gweithio, a gall hi edrych yn hamddenol ar ferw bywyd cyhoeddus dyn. Y mae yntau, drachefn, yn cario allan yn ddiarwybod yn ei fywyd y dylanwad a dderbynia yn nistawrwydd ei gartref. Gan hynny, os ydyw dylanwad y rhyw fenywaidd yn effeithio ar ac yn treiddio trwy holl fywyd y meibion, os bydd yn

ddaionus fe fydd effeithiau daionus yn canlyn. Yn wir dan bob amgylchiadau, y rhyw fenywaidd sydd yn llywodraethu moesoldeb cenedl. Felly y bu, felly y mae, ac felly y bydd, gan ei fod yn canlyn fel achos ac effaith nas gall dyn ddiraddio y fenyw heb ar yr un pryd ei ddiraddio ei hun; ac ni all ei ddyrchafu ei hun heb ddyrchafu y ferch hefyd. Rhaid gwella cymdeithas trwy ddylanwadu ar egwyddorion y galon, a llef gdistaw fain dylanwad iachusol, crefyddol y rhyw fenywaidd, ydyw y gallu cryfaf i sierhau hynny.

Cyn y gall y fenyw ddylanwadu er daioni, rhaid iddi fod yn rhydd. Prin yr ydym ni sydd yn byw yn y ganrif hon yn gwybod ystyr y gair gorthwrwm,—ni sydd yn mwynhau rhyddid bron yn ei fan uchaf. Ond nid fel hyn yr ydoedd erioed; na, planhigyn bychan iawn ar y dechreu ydoedd y rhyddid hwn sydd wedi cynhyddu yn bren mor fawr. Dyddorol fuasai dilyn hanes rhyddid y rhyw fenywaidd trwy yr oesau, ond llanwai hynny gyfrol faith. Fe'i ceir fel tonnau y môr ar y traeth, weithiau yn uchel ac weithiau yn isel; ond pob ton yn cyrraedd yn nes i ben llanw na'r un flaenorol. Isel iawn ydoedd wedi'r cwmp, ac yn ystod yr oes batriarchaidd, ond codai ychydig dan yr oruchwyliaeth Foenaidd. I lawr dan yr Ymerodraeth Bersiaidd a'r un Fabiloniaidd, ac yn uchel dan yr un Aifftaidd. Yr oedd yn cilio yn ol yn Groeg a Rhufain, i godi yn uchel yn sylfaeniad Cristionogaeth. I lawr drachefn trwy Babyddiaeth a thywyllwch y canol oesoedd, ac yn codi yn raddol o'r Diwygiad Protestanaidd hyd yn awr.

1. Y cyfnod Patriarchaidd.

Gan Efa ym Mharadwys, cyn y cwmp, yr oedd rhyddid gwirioneddol, rhyddid na all hyd yn oed yr eiddom ni ddal i'w gynharu ag ef. Rhyddid oddiwrth bechod, a chan hynny rhyddid oddiwrth boen a galar; rhyddid oddiwrth gaethiwed arferion cymdeithasol a gormes ffasiwn. Nid oes gennym le i gasglu fod Adda yn arfer unrhyw awdurdod feistrolgar arni; pe amgen, buasai yn gwneuthur ymdrech i'w rhwystro rhag syrthio yn ysglyfaeth i dwyll y sarff. Na, sefyll yno yn dawel heb yngan gair wnaeth Adda, ac felly "ei fwyta gadd yr afal," a thrwy y weithred honno gwerthodd Efa ymaith ei rhyddid ei hun a rhyddid ei rhyw.

Nid oes nemawr o son am Efa wedi y cwmp,—beth oedd ei hoedran yn marw, neu pha le y claddwyd hi, a dim gair am ei merched; yn wir, ni chofnodir enw un ferch a fu fyw yn ystod yr amser o Efa hyd Lamech. Ceir enwau gwragedd Lamech, ond yn eu hanes hwy gwelir fod sefyllfa y rhyw wedi myned yn is drachefn, trwy yr arferiad croes i reswm ac Ysgrythyr o amlwreiciaeth. Llygrodd yr arferiad yma gymaint ar foesau y hyd fel y bu raid ei foddî â dyfroedd y diluw. Wedi myned heibio i Adah a Zillah, ni cheir enw benyw wedi ei gofnodi am ganrif-oedd, yr hyn a brofa mor israddol oedd y rhyw y pryd hyn. Yn y bumed bennod o Genesis ceir rhestr o achau y patriarchiaid, ac felly yn y ddegfed, ond heb un enw benyw yn eu plith. Ni enwir gwraig Noah, ein hail fam, na gwragedd ei feibion, nac un ferch arall hyd nes y deunw at hanes Sarah a Milcah. Pan ystyriwn fod y cyfnod o Efa hyd Sarah yn cynnwys y drydedd ran o'r amser o'r greadigaeth hyd yn awr, y mae yn rhyfedd na cheir ond enwau pump o ferched wedi eu cofnodi yn ystod y canrifoedd hynny. Y mae ychydig o oleuni yn llewyrchu ar ein

cyflwr yn hanes Sarah—y wraig rydd, eto rhyddid nacöol iawn ydoedd; a theimlai pawb, pob merch o leiaf, wrth ddarllen hanes Sarah, Rebecca, Rahel, ac ereill o ferched yr Hen Destament—cymeriadau prydferth y rhan fwyaf o honynt—fod rhyw gaethiwed anesboniadwy yn eu hamgylchu, ac yn pylu eu disgleirdeb.

Cyflwr cyffredin y fenyw yn yr oes batriarchaidd ydoedd un o gaethiwed. Merched o sefyllfa uchel yn agored i gael eu cipio ymaith a'u gwerthu yn gaethion; yn cael ymddwyn tuag atynt yn waeth nag anifeiliaid direswm; heb un llais mewn perthynas i unrhyw amgylchiad, na sefyllfa sicr yn nhai eu gwŷr. Yr oedd gorchwylion y merched yr adeg hon yn ddiraddiol; allan yn gwylid y praidd, yn tynnu dwfr, ac yn gwneyd y rhan fwyaf o galedwaith a ystyrir yn awr yn rhan arbennig y meibion. Fel yr oedd sefyllfa y rhyw fenywaidd yn isel a chaethiwus, felly yr oedd moesau y cenhedloedd oeddynt yn byw ar y ddaear y pryd hynny yn llygredig a barbaraid.

Ymhlith yr Hebraeid, yr oedd sefyllfa merched a gwragedd yn fwy hapus. Gellir casglu hyn oddiwrth y gorchmynion gosodedig yn neddfau Moses sydd yn dwyn perthynas â'r rhyw fenywaidd; ac y mae yn debyg fod y disgwyliad cyffredinol am y Messiah yn peri i'r merched dderbyn y parch dyladwy oddiar law y meibion, rhag mewn un modd iddynt yn ddiarwybod amharchu y fenyw a fyddai yn fam y Gwareder. Byddai y merched perthynol i lwyth Lefi yn gwasanaethu yn yr addoliad, ac am hynny disgwyliid iddynt fod yn hynod bur a dilychwin eu cymeriadau, a chosbedigaeth lem a oddiweddi y fenyw a syrthiai i bechod. Dau beth oedd yn tynnu oddiwrth sefyllfa y merched Hebraeid, sef amlwreiciaeth a chyfraith yr ysgariad.

Un o weddillion llygredig arferion paganaidd heb gael ei lwyr ymlid ymaith gan y wir grefydd, ydoedd yr amlwreiciaeth a geid ymhlith yr Hebraeid, ac y mae y ffaith fod Jacob a Moses yn euog o hono yn profi nad oeddynt yn ystyried y drwg oedd ynddo. Ond os nad oedd dyn yn ewyllsio priodi mwy nag un wraig ar yr un adeg, yr oedd y gyfraith yn rhoddi hawl iddo ymadael a hi os na byddai wrth ei fodd, trwy yn unig roddi llythyr ysgar iddi a'i danfon ymaith. Y mae yr Efengylwr Marc yn rhoedi hanes y Phariseaid yn tentio Iesu Grist trwy ofyn iddo ynghylch cyfraith ysgariad, ac yn dwyn gorchmyn Moses i mewn i brofi eu dadl. "Moses," meddant, "a ganiatäodd ysgrifennu llythyr ysgar, a'i gollwng hi ymaith." Digwyddai hyn yn aml am achos lled ddibwys, y serch wedi oeri, neu unrhyw beth a ystyrir yn ddigonol ganddynt hwy eu hunain. Ond y mae Iesu Grist, wrth ateb, yn dangos mai o herwydd drygioni y tadau y rhoddwyd y gorchmyn hwn gan Moses. "O achos eich calon-galedwech chwi yr ysgrifennodd efe i chwi y gorchmyn hwnnw." Ac y mae yn dangos nad cyfreithlawn ysgaru ond am un pechod mawr,—anfyddlonddeb.

Yr oedd y gyfraith yn tafu ei haden dros y weddw ac yn ei hamddiffyn mewn modd neillduol; a phan oedd y genedl wedi dirywio yn amser yr Arglwydd Iesu, y mae Efe yn eu cyhuddo o esgeulusu cyflawni eu dyledswydd yn y cyfeiriad yma, ac yn cyhoeddi gwae uwch eu pennau. "Gwae chwi, ysgrifenyddion a Phariseaid, ragrithwyr: canys yr ydych yn llwyr-fwyta tai gwragedd gweddwon."

Ar y cyfan gellid edrych ar sefyllfa y merched ymhlith yr Hebraeid fel Gosen oleu ynghanol byd o dywyllwch a thrueni.

2. Edrychwn ar eu hanes yn yr Ymerodraethau Paganauidd.

Yn ol barn ein cyd-wladwr Syr William Jones, yr hynafiaethydd, Persia yw y fwyaf hynafol o holl ymerodraethau mawrion yr hen amseroedd. Yr oedd mewn bod cyn sylfaenu Ninifeh a Babilon, a pharhaodd am flynyddoedd i lywodraethu ar y rhan fwyaf o wledydd y dwyrain."

Y mae y Persiaid wedi hynodi eu hunain fel gorthrymwy'r y rhyw fenywaidd. Nwyddau perthynol i'r etifeddiaeth oeddynt yn eu golwg; gellid eu gwerthu, eu benthyca, eu rhoddi yn anrheg, a'u lladd yn ol ewyllys eu perchennog; a dywed un hanesydd fod treth o fil o wryfyon yn flynyddol yn cael ei dalu i un o Ymerawdwr Persia gan deyrn arall.

Yr oedd amlwreiciaeth yn fyfnu yn y wlad, ond yr oedd yno hefyd arferiad, mwy diraddiol i'r fenyw na hyd yn oed amlwreiciaeth, sef gorfod priodi ag aelodau o'r un teulu. Y mae hanes yn llawn o esiamplau o briodas brawd a chwaer, tad a merch yng nghyfraith, a mab a mam yng nghyfraith. Dywed Herodotus i Ymerawdwr Persiaidd o'r enw Choroës gael ei ladd gan un o'i feibion, ac i'r mab hwnnw fyned yn llaw-ruddiog i wydd Shirene, yr Ymerodres brydferth a rhinweddol, hoff wraig ei dad, a gorchymyn iddi ddyfod yn wraig iddo ef, gan fod ei dad wedi marw. Gofynnodd Shirene yn gyntaf am weled corff ei gwŷr, a phan arweiniwyd hi i'r fan lle y gorweddai, rhoddodd gyllell yn ei chalon a syrthiodd yn farw wrth ei ochr.

Y mae y darlun a roddir yn Llyfr Esther yn dangos ymha sefyllfa yr oedd y rhyw fenywaidd yn Persia. Y fath gosb a gafodd Fasti druan am ymddwyn yn unol â chyfreithiau ei gwlad yn lle mympwy y brenin; a'r fath ofn oedd ar Memuchan, cynghorwr Ahasferus, rhag i'r merched gymeryd mantais oddiwrth esiampl Fasti i gymeryd mwy o hydra ar eu harglwyddi nag oedd yn ddymunol. Yr oedd yn rhaid gwneuthur esiampl o honi ar unwaith, er mwyn i'r merched trwy'r deyrnas wybod eu lle. Nodweddidd merched Persia gan greulondeb barbarauidd. Anaml y darlennir hanes un wlad lle y mae cymaint o son am fenywod yn cyflawni gweithredoedd anfad,—megis lladd eu rhieni, eu gwŷr, eu plant, ac yn enwedig gwragedd ereill eu gwŷr. Fel esiampl o greulondeb, y mae Herodotus yn cofnodi hanes amgylchiad ym mywyd y Frenhines Amestris, gwraig Xerxes. Pan wedi cyrraedd oedran teg, gorchymynnai gladdu pedwar ar ddeg o blant yn fyw,—plant pendefigion y deyrnas,—er mwyn datgan ei diolchgarwch i'r duwiau am hir oes. Y mae lliaws mawr o engreifftiau cyffelyb a mwy erchyll ag y gellid cyfeirio atynt i ddangos creulondeb merched Persia, a'r sefyllfa isel ymha un yr oeddynt yn byw.

Da ydyw cael esgyn ychydig o bant isel barbarauidd Persia i fryn bychan gwaraiddiad yr Aifftiaid. Ychydig yn well, mae'n wir, ydyw sefyllfa y rhyw, eto y mae beth. Yr ydym yn darllen yn y Beibl am "ddoethineb yr Aifft," ac y mae yn wybyddus eu bod yn enwog am eu gwybod-aeth a'u celfyddyd yn fere iawn, ymhell cyn bod son am ddysgedigion Groeg na doethion Athen. Ac yr oeddynt, nid yn unig yn ddysgedig, ond yr oedd safon eu moesau yn uchel; parchent y rhyw fenywaidd, ac nid oedd y seithfed gorchymyn yn cael ei dorri ond yn anaml iawn, a'r toriad o hono yn cael ei ddilyn gan gosbedigaeth lem. Yr oeddynt hefyd yn wŷr un wraig, ac y mae y ffaith hon, ynddi ei hun, yn ddigon i brofi fod sefyllfa y merched Aifftiaid yn un lled gysurus. Y mae

Herodotus yn rhoddi disgrifiad manwl o honynt, a gellir casglu oddiwrth hanes Moses yn Exodus ac yn Josephus, eu bod yn mwynhau rhagorfreintiau na ddaeth i'w rhan o amser Efa hyd yr adeg honno ar oes y byd.

Darfu i Thermuthis, merch Pharaoh, fabwysiadu Moses y funud y gwelodd ef yn y cawell, heb ofyn caniatâd neb, ond gweithredu yn hollol annibynnol; ac yr oedd y benywod pendefigaidd a fynychent lys y brenin yn rhydd i ddatgan eu barn mewn achosion pwysig a fyddai yn dwyn perthynas â'r llywodraeth. Coronid gwraig y brenin yn frenhines, ac eisteddai ar yr orseddfainc gydag ef, yr hyn yn y gwledydd dwyreiniol oedd yn arwydd, nid yn unig o barch, ond hefyd o gyd-allu. Cymerid rhan bwysig gan y merched yn eu gwasanaeth crefyddol, a byddai y boneddigesau yn cymdeithasu, yn ymweled, yn rhodianna gyda'u gilydd, ac yn myned gyda'u gwŷr i wleddeodd. Mwynhaent ryddid oddiwrth orchwylion anaddas a chaled, a'u prif waith ydoedd nyddu, gwnïo, chwareu offerynau cerdd, a gofalu am y gerddi blodeu, am ba rai yr oedd yr Aifft yn enwog.

Ond prudd ydyw dweyd y darfu i'w coel-grefydd o radd i radd lygru eu moesau; diraddiwyd y fenyw, a daeth amlwreiciaeth i arferiad. Eto, er i foesau ddirywio, bu dysgeidiaeth a breintiau cymdeithasol yn aros yn hir wedi hynny, oblegid darlennwn fod Cleopatra, brenhines yr Aifft, er ei holl ddrygioni, yn alluog i ymddiddan mewn saith o wahanol ieithoedd, ac yn hynod o hoff o lenyddiaeth. Ond gwaethygu wnaeth sefyllfa y merched a moesau y genedl, hyd dymchweliad yr Ymerodraeth.

Cyd-amserol a'r Aifft ydoedd yr Ymerodraeth Assyriaidd neu Fabilonaidd. Ei sylfaenydd ydoedd Nimrod, "yr heliwr eiddarn," yr un ag Assur, yr hwn a adeiladodd ddwy o ddinasoedd mawrion, sef Ninifeh a Babilon; dinasoedd ag oeddylt, yn enwedig yr olaf, yn ddyledus am eu mawredd a'u gwycheder i ddyfais ac uchelgais merch, —Semiramis, gwraig Nimrod. Y mae y gweithredoedd a briodolir i'r fenyw hon bron yn anhygoel. Wedi llwyddo i gael y llywodraeth i'w dwylaw ei hun, adeiladodd ddau balas enfawr yn Babilon, un o bobtu i'r afon, ac un o honynt yn wyth milldir o hyd; teml ardderchog i'r eilun dduw Belus; a'r gerddi crogedig y mae cymaint o son am danynt. Yr oedd ei phenderfyniad yn anorchfygol; arweiniai ei milwyr i'r rhyfel, a byddai ar y blaen ym mhoethder y frwydr. Un tro dywedir fod y gelyn yn dod i'r rhyfel gyda gyr o eleffantiaid; dyfeisiodd hithau eleffantiaid ffug, a rhoddodd gamelod oddi mewn iddynt; hudwyd y lleill gan yr olaf, a dryswyd cynllun y gelyn, ac yn y diwedd enillodd Semiramis y frwydr. Pan gymerodd ei mab y llywodraeth o'i llaw, ac iddi hithau weled bod ei dylanwad yn colli, gwnaeth i'r bobl ei haddoli megis duwies am weddill ei hoes. Ond nid ydym i gymeryd yn ganiatïol oddiwrth hanes Semiramis fod cyflwr y merched Assyriaidd yn gyffredinol yn un o ryddid; na, ychydig iawn o wahaniaeth oedd rhwng eu sefyllfa a'r eiddo y merched yn Persia, caethion a gorthrymedig iawn. Ac fel y nodweddid merched Persia gan greulondeb, felly nodweddid merched Babilon gan lygredigaeth. Y mae darllen dalennau yn hanesydd yr hwn a ddisgrifia eu harferion lygredig a'r chwareuon y gorfodid hwy i gymeryd rhan ynddynt yn yr addoliad ynglyn a theml Gwener, yn ddigon i beri i'r dyn mwyaf aflednais eu ffeiddio. Yn Babilon hefyd yr oedd yr arferiad o briodi trwy arwerthiant. Dygid merched ieuainc unwaith yn y flwyddyn i'r farchnad, a gwerthid hwy yn gyhoeddus, ar yr amcd i'r hwn a'u prynnai eu priodi. Wrth gwrs y

rhai mwyaſ prydweddol a gai y flaenoriaeth a'r prisiau uchel; a defnyddid yr arian a geid am y merched hardd fel cynysgaeth gyda'r rhai anolygus, er mwyn iddynt hwythau hefyd gael gwŷr. Yr oedd bywyd y merched o bris bychan iawn yn Assyria. Pan ddarfu i Darius warchae ar Babilon, lladdwyd yr holl fenywod oedd o'i mewn er mwyn i'r ymborth barbaw yn hwy; ond daeth dinystr buan ar y dynion creulon am eu hanfadwaith; ni lwyddasant i gadw y ddinas o law eu gelynon, ond syrthiasant yn aberth i'w cynddareidd, a chwmpodd Babilon y ddinas fawr, byth i gyfodi mwy.

Ar ol i Persia, Babilon, a'r Aiffſt weled eu dyddiau goreu, cododd dwy weriniaeth fawr, Groeg a Rhufain,—gweriniaethau sydd wedi cael eu dal i fyny fel cynlluniau o ryddid a chyfiawnder. Ond os ydyw rhyddid yn golygu parch, iawnderau, cyfeillgarwch, cyfiawnder, ac am-ddiffyniad, nid oedd hanner trigolion Groeg a Rhufain yn rhyddion. Rhennid y boblogaeth i ddwy ran; yn y dosbarth cyntaf yr oedd y meibion oeddynt ddinasyddion, ac a gyfansoddent y wladwriaeth; yn yr ail ddosbarth, yr oedd y gweithwyr, y merched, y plant, a'r caethion. Dyma sefyllfa merched yn Groeg,—yn yr un dosbarth a'r caethion. Dywed Aristotl fod gwahaniaeth naturiol rhwng y merched a chaethion, ond yn eu perthynas â'r wladwriaeth yr oeddynt yn hollol yn yr un dosbarth,—y caethion yn rhoddi eu gwasanaeth i'r wladwriaeth, a'r merched yn dwyn plant a fyddent yn ddinasyddion, ac felly yn gwasanaethu at gynnydd a pharhad y wladwriaeth. Gwir fod rhai o ferched Groeg yn mwynhau math o ryddid, ac nid rhyddid yclwaith ond penrhyddid yn hytrach; nid oeddynt gymaint caethion o ran eu cyrff â'r merched Babilonaidd neu Bersiaidd; ond yr oeddynt yn gae'rhion i arferion, nwyd, a chwant. Yr oedd dysgedigion Groeg yn edmygu prydferthwch y rhyw deg ac yn talu gwarogaeth iddo; galwent ef yn "rhadrodd y duwiau;" ac yr oedd gan y fenyw oedd wedi ei breintio ag ymddanghosiad prydweddol a chorff lluniaidd, ddylanwad mawr tra y parhâi ei swynion, ac nid oedd islaw urddas gwŷr mawr y wladwriaeth dalu gwarogaeth iddynt. Byddai ty Sappho brydferth a thalentog yn llawn o athronwyr ar adegau, y rhai a swynid gan ei phrydferthwch, ac a fyddent wedi eu tanio gan ei barddoniaeth. Er hynny nid oedd gan Sappho feddiant arni ei hun, ac y mae pawb a ddarllenno ei hanes yn troi ymaith gyda siomiant: mae yn gweled ysbryd o dan iau gormes yn deisyfu am ryddid, ond yn methu canfod yr iawn lwybr i'w gael, ac am hynny yn suddo yn ddyfnach fyth i drueni. Y mae gwaith Homer yn anfarwoli enw Helen o Troia yn yr Iliad yn brawf fod moesau yn isel ymhlith y Groegiaid. Yr oedd cyflwr y menywod cyffredin yn galed ac anhyfryd, ac er bod Aristotl yn canmol ei gydwladyr am beidio eu gwneyd yn gaethion yn ystyr fanylaf y gair, fel y dwyreinwyr, eto bod, ac nid *byw*, yr oedd y ferch yn Groeg. Yn wir mor ddiwerth oeddynt fel y byddai plant menywaidd yn cael eu gadael mewn lleoedd anghyffannedd i'w llarpio gan fwystilod neu farw o newyn, os byddai perygl i ormod fod yn yr un teulu: ac y mae Plato yn cymeradwyo yr arferiad yma. Dengys hanes Groeg nad ydyw dysgeidiaeth a doethineb, ynddynt eu hunain, yn abl i wella dynoliaeth. Yno y cafwyd dysgeidiaeth aruchel yn gydblethedig a dynoliaeth isel.

Felly hefyd wedyn yn Rhufain; nid oedd sefyllfa merched yn ddim uwch. Yr oedd gan dad hawl i ymddwyn at ei ferch fel y mynnai; ei churo, ei gwerthu, ei lladd, heb un gyfraith i ymyrryd ag ef. Yr oedd-

ynt yn dal at yr hen arferiad o brynnu eu gwragedd, yn ol yr hon nad oedd gan y merched lais yn newisiad eu gwyr. Ac nid oedd y ffaith fod merched a elwid *Vestals* yn gwasanaethu ym mhrif seremonïau eu crefydd, yn profi fod gan y Rhufeiniaid barch iddynt, gan fod eu hymddygiadau beunyddiol yn profi i'r gwrthwyneb. Curiad gwaed y corff cymdeithasol ydyw dylanwad y rhyw fenywaidd mewn gwlad; os bydd y gwaed yn amhur, y mae yr holl gorff yn afiach, ac yn fuan yn marw. Felly y bu gyda'r Ymerodraethau hyn. Dymchwelasant, ac nid oes yn awr ar gael ond olion gweiniaid i brofi eu bri cyntefig.

3. Deuwn ymlaen at adeg sylfaeniad Cristionogaeth.

Hyfryd ydyw, wrth adael Groeg a Rhufain, weled y niwl yn cilio a haul Cristionogaeth yn siriol wenu, a rhyddid y rhyw fenywaidd yn esgyn yn uwch nag erioed. Beth sydd wedi achosi y cyfnewidiad? Pwy ydyw yr ysgogydd? Baban wedi ei eni mewn ystabl ym Methlehem!

Dwyn wnai gwraig dan ei gwregys
Y Duw mawr i lawr o'i lys!

Cristionogaeth yn unig sydd wedi gosod y fenyw mewn sefyllfa y mae y graig o dan ei thraed. Rhoddodd ergyd farwol i holl allu caethiwed trwy ddatgan fod merched yn gyd-etifeddion â'r meibion o holl freintiau yr efengyl. "Nid oes nac Iuddew na Groegwr, nid oes na chaeth na rhydd, nid oes na *gwryw* na *benyw*; canys chwi oll un ydych yng Nghrist Iesu." O hyn allan y mae rhyddid y rhyw fenywaidd yn ffaith sefydledig sydd yn ymehangu yn barhaus. Mewn canlyniad i'r rhyddid hwn, darfu i'r merched ymroddi i weithredoedd da trwy weini ar yr Arglwydd Iesu, ac wedi hynny trwy nerthu dwylaw yr Apostolion a "chymeryd poen" drostynt, ac ar ran yr achos mawr.

"Dechreuodd yr Apostolion eu gweinidogaeth mewn cariad trwy ddyrchafu y fenyw," medd Dr. Schmidt. Ond nid oeddynt yn disgwyl gweled llwyddiant mewn byr amser, gan fod cyflwr y merched paganaidd mor isel, ac felly yn ei wneuthur yn waith araf i gyrraedd safle uwch. Ystyriant y fferch yn llestr gwanafr, fel y gwnelai y paganiaid, ond yr oeddynt yn ei chyfrif yn gydradd mewn ystyr ysbrydol; dysgent y rhinweddau hynny sydd yn gwneuthur y fenyw yn ddymunol;—addfwynder, gostyngaidrwydd, purdeb; rhinweddau sydd yn hawlio parch gan y meibion, ac yn ei wneuthur yn ambosibl i'r fferch fod yn degan i'w nwydau. Y mae yr athrawiaeth a bregethent yn sancteiddio priodas, sydd yn gysgod o undeb Crist a'i Eglwys, ac yn condemnio ysgariad. A hyn ydyw prydfferthwech rhyddid yr Efengyl; tra y mae ar un llaw yn estyn rhyddid, y mae ar y llaw arall yn condemnio pob tuedd at benrhyddid. Pan y gwelir ambell fferch yn ceisio ymddwyn yn ddynol,—yn dynwared y meibion mewn meddwl, gair, a gweithred; pob ysgogiad o'i heiddo fel pe yn dywedyd ei bod yn rhagori arnynt; pan y gwelir un fel hyn, yr ydym yn canfod un yn camarfer ei rhyddid trwy gamu dros y cylch a fwriadodd Duw iddi. Y mae cymeriadau fel hyn yn ddirmyg ar ein rhyw! Pinacl anrhydedd benyw yn Rhufain gynt ydoedd meddu nodweddau *tebyg* i ddyn,—deall fel dyn, a dewrder fel dyn; yr oedd yn colli ei hunan yn hollol wrth gael ei chymharu a'r dyn. Nid oes ar fenyw rinweddol eisieu *ynudebygu* i neb na dim, ond *bod* yn gymeriad benywaidd perffaith. Rhyddid yr Efengyl ydyw rhyddid ysbrydol, rhyddid y rhan oreu o honom; rhyddid ewylllys, meddwl, a barn. Y mae Cristionogaeth yn cynysgaeddu merched â'r meddwl

hwnnw sydd yn ymestyn at bob perffeithrwydd, a thrwy hynny yn eu gwneuthur yn wrthrychau sydd yn teilyngu parch; ac os bydd y merched yn teilyngu parch, ni fydd y meibion yn ol o'i dalu iddynt.

Ymhen rhai blynyddoedd wedi sylfaenu Cristionogaeth, daeth twyll Pabyddiaeth i mewn fel lli, yr hyn a roddodd atalfa ar ryddid y rhyw fenywaidd am beth amser. Fel pob peth da ar ei ymddanghosiad cyntaf, dioddefodd yr Efengyl oddiwrth wrthwynebiadau o bob cyfeiriad. Yr oedd y byd mor faterol, mor gnawdol; a'r Grefydd Newydd mor ysbrydol, fel nad allai y bobl ei deall. Yr oedd pob crefydd a fuasai yn y byd cyn hyn yn cynnwys pethau y gellid ymwneyd â hwy trwy syn-hwyrâu y corff,—megis eilunod y pagan ac aberthau yr Iuddeu. Dywedir mai Helena mam Cystenyn Fawr a welodd y *diffyg* hwn, ac a gymerodd arni estyn meddyginiaeth. Gorchymynnodd gladdu croes yn ddirgeiaidd y tu allan i furiau Jerusalem, ac yna cyhoeddodd ei bod wedi cael datguddiad gan Dduw mewn breuddwyd ymha le yr oedd y groes y dioddefodd Iesu Grist arni. Anfonodd archwilwyr i'r fan, ac wrth gwrs cawsant bob peth fel y dywedasai Helena. Daethpwyd a'r pren i Ewrop, a rhannwyd darnau o hono trwy'r gwledydd i'w haddoli; sefydlwyd Pab yn olynnydd Petr, a chollwyd ysbryd pur yr Efengyl trwy ei darostwng at y bobl, yn lle eu codi hwy ati hi. Pab sanctaidd, anffaeledig yn wir! Mae'n rhaid fod gan y Pabyddion ystyron i'r geirian gwahanol i'r hyn sydd gennym ni. Dywedir fod merch ar un adeg wedi eistedd yn y gadair Babaid, ac yn derbyn y parch a'r gwarogaeth a delid i olynnydd Petr. Y mae y Pabyddion yn gwadu i'r fath sarhad erioed gael ei roddi ar y swydd Apostolaidd; ac mae yn sicr mai distawrwydd ydyw y goreu, yn enwedig pan gofir ar ba amgylchiad y daeth rhyw y Pab yn wybyddus. Yr oedd sefydliad Lleiandai yn andwyol i'r merched; a chaniatau bod y merched a breswylent ynddynt yn rhinweddol, yr oedd eu dylanwad ar ereill yn colli yn llwyr. Ac yr oedd y rhwyddineb a pha un y gellid cael maddeuant pechodau, yn gwneuthur pechu yn ddibwys yng ngolwg y meibion a'r merched. Fel effaith o'r llygredd cyffredinol, dilynwyd twyll Pabyddiaeth gan yr hyn a elwir yn gyfnod yr Oesau Tywyll, pan oedd y wlad, dan iau Eglwys Rhufain, wedi myned yn ol bron i sefyllfa farbaraidd. Yr oedd llenyddiaeth ac athroniaeth Groeg a Rhufain wedi myned i ebargofiant, ac mor ddygn oedd yr anwybodaeth fel y dywedai rhai "fod Crist a'i seintiau yn cysgu." Cyfnod o gaethiwed ysbrydol ydoedd y canol-oesoedd. Ond fel canwyll yn llewyrchu yn wanniaidd yn y tywyllwch dudew, gellir cyfeirio at y sefydliad a elwir Marchwriaeth, *chivalry*. Er y gall rhai ddirmygu a dywedyd mai gwag iawn ydoedd amcan y marchogion hyn, sef sefyll yn uchel yn fafr ac ennill llaw a chalon rhyw fenyw deg trwy eu gwrolwaith, eto yr oedd eu harferion, trwy ddyrchafu moesau a dylanwad y rhyw ar y pryd, yn iachusol iawn. Feallai mai rhyw eginyn bychan o ryddid yr Efengyl heb ei lwyrr golli ydoedd y parch a delid i'r rhyw gan yr urdd hon. Fodd bynnag yr oedd eu drychfeddwl yn uchel; dewrder, hunan-aberthiad, sefyll dros y gwir, ac ymladd dros y gwan, ydoedd y prif nodweddau.

Ond ni pharhaodd yr arferion hyn ond am ychydig flynnyddoedd, ac aeth sefyllfa y merched yn ol i raddau drachefn. Rhyfedd ydyw canfod mai pan y dechreuodd yr Adfywiad ar Addysg y syrthiodd cyflwr y fenyw yn ol. Yr oedd y meibion wedi cael rhywbeth gwell i ddangos

eu gwrhydri na chwifio y waeywffon a marchogaeth i chwareu-gampau. Yr oedd Addysg, yr hon a fuasai gladdedig am dros bedwar cant o flynyddoedd, yn codi ei phen, a dynion yn moesyngrymu o gylch ei gorsedd, ac yn derbyn o'i breintiau. Yn hyn oll nid oedd gan y merched ran na chyfran, ond eisteddent mewn tywyllwch a chaethiwed anwybodaeth. Yr oedd tywysogesau yn analluog i ysgrifennu eu henwau; ac at yr anwybodaeth ychwanegwyd llygredigaeth, yr hwn a gyrhaeddodd ei bwynt isaf yn nheyrnasiad Charles yr Ail, llys yr hwn oedd mor lawn o afendid ag eiddo pennaeth dwyreiniol. Yr oedd eithriadau hapus i'w cael hyd yn oed yn y cyfnod tywyll hwn, megis y frenhines Elizabeth a'r Lady Jane Grey.

4. Ond yn gyd-amserol a'r Adfywiad ar Addysg, dechreuodd gallu cryf arall ymysgwyd o'i gadwynau, gallu oedd i wrthweithio effaith y blaenaf ac i estyn llaw gynorthwyol i'r rhyw fenywaidd. Y gallu olaf hwn ydoedd y Diwygiad Protestanaidd. Fel y buasai Addysg yn gladdedig am ganrifoedd, felly hefyd yr oedd ysbyrd pur crefydd Crist wedi ei guddio o dan bentwr o ofergoeldd pabyddol. Ond yn yr unfed ganrif ar bymtheg, yr oedd y ddau allu mawr yma yn cydweithio, y naill yn dyrchafu y rhan ddealltwriaethol o ddyn, a'r llall y rhan foesol; y naill yn fwy arbennig ymhlith y meibion, a'r llall yn neillduol ymhlith y merched. Effeithio ar foesau, y galon a'r serchiadau, yr oedd dylanwad y Diwygiad Protestanaidd, ac felly yr oedd tuedd ynddo i wneuthur mwy o argraff ar y merched na'r meibion. Yn yr adeg hon yr hauwyd yr had oedd i ddwyn y ffrwyth toreithiog a welir yn awr; ac y mae y cynnydd sydd wedi cymeryd lle yn rhyddid y rhyw fenywaidd, ymhob cyfeiriad, mor fawr yn ystod Teyrnasiad Victoria, fel y mae yn rhaid edrych arno o wahanol gyfeiriadau cyn y gellir ffurfio barn gywir am dano.

Rhyddid Cymdeithasol. Mewn un ystyr nid oes nemawr wahaniaeth yn rhyddid cymdeithasol y dyddiau hyn rhagor yr hyn ydoedd pan esgynodd Victoria i'r orsedd. Y wraig ydoedd canolbwynt y cartref, cerid a pherehid hi gan ei gŵr, ac ufuddheid iddi gan ei phlant, ac yr oedd yn rhydd i fyned i mewn ac allan fel y mynnai. Eto y mae poth gwahaniaeth; nid ydyw y meibion yn awr yn dal yn eu barn gul mai gartref, ac nid yn unman arall, y dylai y wraig fod; ac o ganlyniad, y mae mwy o ferched yn myned i ymdeithio i'r Cyfandir a gwledydd tramor, yr hyn sydd wedi ehangu eu syniadau am bobl a phethau. Hefyd, y mae amryw weithredoedd seneddol wedi eu pasio sydd yn ffafriol i'r rhyw. Gall gwraig sydd wedi bod mor anffortunos a chyllymu ei hun wrth ŵr brwnt, hawlio rhyddhâd trwy gyfraith oddiwrtho, ac hefyd foddion i'w chadw ar yr un pryd. Can arall ymlaen ydoedd Mesur Eiddo Gwragedd Priod, yr hwn sydd yn sicrhau i'r wraig berffaith hawl yn ei heiddo personol, i'w gadw, a'i ewyllysio i'r neb y mynno; ac y mae pob dyn teilwng o'r enw, yn cymeradwyo y mesur fel un teg a chyfiawn.

Gwailth. Y mae cynnydd mawr wedi cymeryd lle yn y cyfeiriad hwn, ac amryw fesurau doeth wedi eu pasio gan y Senedd er gwella cyflwr y dosbarth o'r rhyw fenywaidd ydynt yn gorfod gweithio i ennill eu bywoliaeth. Er engraifft, y mae yn waharddedig i ferched weithio yn y pyllau glo. Yr oedd cyflwr truenus y merched hanner noethion yn y pyllau glo, wedi cynhyrfu teimlad o dosturi trwy y wlad tuag atynt, fel y bu raid cael deddf seneddol i wahardd iddynt fyned i lawr. Y mae oriau llafur hefyd ymhob cangen wedi eu lleihau, ac y mae y meistr

a gaethiwo y merched yn hwy na'r amser gosodedig, yn gosod ei hun yn agored i r gyfraith.

Tra y mae nifer y merched sydd yn gweithio mewn rhai canghennau wedi lleihau, y mae y cynnydd mewn canghennau ereill yn gymaint arall. Yn ol Dr. John Mill, y mae mewn cyfnod byr o ddeng mlynedd, 10,000 yn llai o ferched yn gweithio mewn glofeydd, ffermydd, &c. Ac o'r ochr arall, y mae rhyddid wedi agor drysau galwedigaethau mwy cydnaws â'u natur, megis y Llythyrdy, y Pellebyr, ac Ysgrifenyddiaeth; a gwelir amryw enwau benywaidd ymysg Meddygon ein teyrnas.

Y mae yn amlwg bod y cyfnewidiad sydd yn cymeryd lle, yn rhyddhau y rhyw fenywaidd oddiwrth lafur caled, i'r hwn yr oeddynt yn hollol anghymwys, ac yn fynych yn rhy weiniaid i'w dilyn, ac yn eu gosod ar dir mwy anrhydeddus i ennill eu bywoliaeth.

Dysgeidiaeth. Cynnydd mawrsydd wedi cymeryd lle yn y rhan hon eto yr hanner canrif ddiweddar. Nid yn unig y mae yr ysgolion a fynychir gan ferched yn rhoddi addysg ehangach, ac yn cymeryd i mewn i'w rhestr canghennau a arferent fod yn gyfyngedig i'r meibion, ond y mae amryw goglegau wedi eu sefydlu yn unig i'r merched i roddi iddynt addysg uchel.

Yn y flwyddyn 1866 agorwyd drysau arholiadau Rhydychain a Chaergrawnt i'r merched gael mynediad i mewn. Dilynwyd hwy gan brifysgol St. Andrews yn rhoddi y teitl o L.L.A. i'r merched a fyddai yn llwyddiannus i'w ennill. Yn y flwyddyn 1880, daeth prifysgol Durham ymlaen i ganiatau yr un fraint; ac yn 1883, tafodd prifysgol Llundain ei theitlau yn agored i ferched ymgeisio am danynt; ac ni bu ein rhyw yn ol o wneyd defnydd rhagorol o'r rhyddid hwn. Y mae yn awr yn ffaith brofedig nad ydyw merched yn israddol i'r meibion o ran galluoedd meddyliol, ac yn ddiweddar cawsom achos i ymfalchio yn llwyddiant merch ieuanc a enillodd y lle uchaf yn un o'n prifysgolion enwocaf. Y mae gennym achos fel Cymry hefyd i ddwfn lawenhau wrth weled nifer mor fawr o'n merched ieuanc yn ein Colegau Cenedlaethol yn gwneyd yr un gwaith ac yn yr un dosbarthiadau â'r meibion, ac yn fynych yn peri iddynt deimlo y rhaid iddynt ofalu am eu hurddas. Ac ni cheir er hynny eu bod mewn un modd yn anghofio eu hunain, nac o gwbl yn anffyddlon i'r hyn sydd yn gosod y fath addurn ar eu rhyw. Mor brydferth ydyw gweled merch ieuanc ddysgedig yn cofio mai benyw ydyw, ac yn gallu cyfuno dysg a dyledswyddau cartref, heb ymfalchio yn ynyd.

Gwleidyddiaeth. Cynhyddu yn raddol y mae ein rhyddid yn yr ystyr yma hefyd, a disgwyliwn bethau gwell yn y dyfodol. Yn bresennol ceir fod merched yn pleidleisio ac yn cael eu dewis ar Fyrddau Gwarcheidwaid a Byrddau Ysgolion, ac y mae rhyddid iddynt pleidleisio yn etholiad y Cyngor Trefol. O gam i gam fe ddaw y bleidlais seneddol i'n meddiant. Y mae mesur felly wedi bod o flaen y Senedd mewn rhyw ffurf neu gilydd yn ystod yr ugain mlynedd diweddar dros ddeuddeg o weithiau, ac y mae iddo gefnogwyr selog o bob plaid. "Peth chwithig," meddai Mrs. A. Dilke, "ydyw meddwl am foneddiges yn perchen ystad eang, yn analluog i bleidleisio i'r Senedd sydd yn gwneyd cyfreithiau fydd yn dwyn perthynas â'i hetifeddiaeth, tra y mae ei gwas mwyaſ distadl, os yw yn dal ty, yn meddu y fraint." Gallwn ddymuno hyn heb fod yn aelodau o'r urdd a elwir y *Shrieking Sisterhood*, y rhai sydd trwy eu gor-sêl wedi gwneyd mwy o ddrwg nag o lês iddynt eu hunain.

Crefydd. Yr un ydyw rhyddid yr Efengyl yn awr ag ydoedd gan mlynedd yn ol, ond fod y maes i weithio gyda chrefydd wedi ehangu yn

fawr; a gosodir gwerth ar wasanaeth merched trwy eu galw i wneyd gwasanaeth pwysig mewn gwahanol rannau o'r maes. Ymysg y rhai hyn gellid enwi, y Beibl-Wragedd sydd ar y meusydd cenhadol; y Cenadesau; Cenhadaeth Feddygol Zenana a Delhi, heb son am y cannoedd merched sydd yn gweithio yn ein gwlad ein hunain fel Athrawesau, Arolygesau, ac Ysgrifenyddion yn yr Ysgolon Sabothol; a rhai yn eu sêl yn esgyn y pulpudau i gymell pechaduriaid i edifarhau a dilyn buchedd newydd. Nid ydym am ddweyd nad ydyw pregethesau yn eu lle, eto bydd geiriau Paul yn rhedeg trwy ein meddwl bob tro yr ydym yn clywed son am ferch yn pregethu.

Gwelir nad amcan bodolaeth merch ydyw simera; cenhadaeth bwysig sydd ganddi, a dylanwad di ben draw. Bydded i Dduw beri i ni deimlo difrifoldeb yr ymddiriedaeth, fel y byddom yn gwneuthur defnydd priodol o honi, ac yn derbyn gwobr am ein llafur yn y diweddd.

Birkenhead.

M. OLIVER JONES.

YR APOSTOL PAUL: EI BROFIAD A'I ATHRAWIAETH.

Darlithiau Esboniadol ar yr Epistol at y Galatiaid; gan y PARCH. RICHARD JONES (*Glan Alaw*): Caernarfon: W. Gwenlyn Evans. 2s. 6c.

MAE y rhai y gellir rhoddi unrhyw bwys ar eu barn yn barod i gydnabod y budd a dderbynia y byd crefyddol oddiwrth feirniadaeth ddiweddar. Fod ffrwyth y feirniadaeth hon yn ddaioni digymysg, sydd fwy nag a ellir ddywedyd: yn hytrach, eglur yw fod nifer o'r beirniaid diweddar, gan nad beth ellir ddweyd am ehangder eu dysg a thrylwyredd eu hymchwiliadau, yn dra amddifad o farn a chymesuredd, yn gaethion i'w rhag-syniadau eu hunain, ac yn ddiffygiol o ddangos y parch sydd yn ddyledus i'r Ysgrhythrau Sanctaidd, pe na bai am ddim uwch ynddynt na'u rhagorion llenyddol a moesol. Ceir rhai o'r beirniaid, yn enwedig yn yr Almaen, yn rhy ymlyngar wrth eu damcaniaethau eu hunain i allu bod yn ymchwilyr rhydd a theg: ymddengys eu bryd yn ormodol ar ddywedyd rhyw newydd, neu ar sefydlu rhyw dybiaeth na thywynnodd ar feddwl neb o'r blaen. Gellir colli'r gwirionedd trwy ddibrisio credôau traddodiadol, yr un mor hawdd â thrwy lynu yn wasaidd wrthynt. Ond er fod hyn yn wir am rai, nid yw felly am bawb o'r beirniaid diweddar; a gellir dweyd hyd yn oed am y rhai mwyaf eithafol, fod ffrwyth eu hymchwiliadau yn drysor o werth i'r sawl a all ddidol yr us oddiwrth y gwenith. Un o'r rhai pennaf o'r dosbarth olaf oedd Baur, yr hwn a ddododd argraff ei feddwl ar esbonwyr o bob math, y rhai unionged fel y rhai an-unionged. Rhaid cydnabod ei fod fod yn feddyliwr o'r fath ffrwythlonedd ac yn ymchwiliwr o'r fath fanylder, fel nad doeth i neb pwy bynnag a fynno ddeall Cristionogaeth yr oesoedd boreuaf ei adael heb ei efrdy. Ei ragoriaeth oedd ehangder ei ddysg a thrylwyredd ei ymchwiliad; ei fai oedd ymlyniad ystyfnig wrth un neu ddwy o dybiaethau ar draul esgeuluso rhoddi lle dyladwy i'r ffeithiau a ymddengys i'r diragfarn yn anghyson â hwynt. Gellid tybied ddarfod iddo ymlaenllaw wneuthur ei feddwl i fyny, yn bennaf dan ddylanwad athroniaeth

Hegel, na fu y fath beth yn hanes Cristionogaeth â gwyrrh, ac nad allasai fod: aeth uwchben yr hanes gyda'r gred fod gwyrrh yn amhosibl. Nid oedd gan hynny le yn histori Sylfaenydd ein crefydd i'r Ymgnawdoliad nac i'r Adgyfodiad. Nid oedd ymddanghosiad yr Iesu ar y ddaear yn angen na ffrwyth neu ganlyniad naturiol y dadblygiad o'r blaen—cynnyrch angenrheidiol tueddiadau oedd ar waith yn y byd, yn enwedigol yn Israel; ac nid oedd Cristionogaeth y ganrif gyntaf yn cynnwys un elfen nad ellir rhoddi cyfrif am dani trwy ystyried y dylanwadau goreu oedd ar y pryd yn ymweithio yn Ymherodraeth Rhufain. Mae y cyfryw olygiad ar darddiad ein crefydd yn siampl dda o ddull Baur o feddwl. Ceir olion dysg ac ymchwiliad mawr yn ei ymdriniaeth: nis gellwch lai nag edmygu y gallu a ddanghosir ganddo; argyhoeddir chwi hefyd ei fod yn credu yr hyn a lefaru, a'i fod yn ymfynydd awyddus am y gwir. Ond yn y diwedd syrthia ei gasgliadau yn fyr o ganmol eu hunain i'r meddwl diragfarn. Ac nid oes eisieu degwm o'i ddysegeidiaeth ef i'w dadymchwel; un neu ddwy o'r ystyriaethau hynny sydd yr un mor amlwg i ddynion o synwyr a barn ag ydynt i'r mwyaf dysgedig, sydd yn ddigon i chwalu yr holl adeil-waith. Pa fodd y daeth Cristionogaeth i fod? A yw yn greadigaeth newydd ymysg dynolryw, yr hon y rhaid ei holrhain at gyfryngiad neillduol yr Hollalluog fel ei hachos? Nac ydyw o gwbl, ebe Baur; nid yw namyn dadblygiad angenrheidiol o'r elfennau naturiol oedd yn bod o'r blaen; canfyddir eisoes yn ymweithio yn y byd Rhufeinig nerthoedd digon grymus i'w dwyn i fodolaeth; allan o amodau a darpariadau yr oes y deilliodd Cristionogaeth Paul a'r eglwysi boreuol, yr un mor naturiol a'r digwyddiad mwyaf cyffredin. Cymerwch i ystyriaeth rai o'r feithiau cyfoesol. Un ydyw, ehangder a chyffredinolrwydd gallu Rhufain, yr hyn a dueddai i wrtaweithio y rhagfarnau culion oedd yn ffynnu ymysg gwahanol genhedloedd. Un arall oedd y sectau Iuddewig, a nodweddid gan ddwysfyfyr a neillduad meudwyaidd. Y drydedd oedd athroniaeth buraf yr Ymerodraeth. Yn awr, meddyliwch fod y cyfryw dylanwadau yn cydymuno ac yn gweithio yn yr un cyfeiriad, a'r ffrwyth yw Cristionogaeth a'r Eglwys. Ond y mae damcaniaeth o'r fath, er yr holl ddysg a werrir er ei chadarnhau, ymhell o ganmol ei hun i'r meddwl ystyrbywll. Ymddengys ar unwaith allan o gynghanedd â hanes yr oes—ac at hanes y mae yr ysgol hon yn apelio. Rhy brin y rhydd Baur ddisgrifiad teg o agweddau meddwl y byd ar y pryd: ond pe caniateid fod ei ddarluniad yn gywir, y mae yn annrhaethol ball o rodidi cyfrif am gyfodiad Cristionogaeth yn y fath wlad a Phalestina. Pa ddylanwadau bynnag oedd yn cydymuno yn Rhufain, nis gall neb feddwl eu bod yn cydgrynhoi yn Jerusalem. Prifddinas Iuddewaeth oedd y lle olaf yn y byd i ddisgwyl y fath beth ynddi. Os oedd y syniad a'r awyddfryd am ryddid ac ehangder yn nodweddu trigolion Rhufain ac Alexandria, gwyr pawb mai rhagfarn a chulni oedd yn hynodi meddwl Jerusalem. Nid oedd ynddi ddim yn ei thueddu at y cyffredinolrwydd sydd yn perthyn i grefydd Crist. Yn Alexandria, yn anad yn ddinas, y cawn ehangder a rhyddfrydigrwydd; ac eto nid yn yr un o ysgolion y ddinas honno, nac ymysg ei hathronwyr a'i hareithwyr, y cyfododd y grefydd sydd yn difodi pob gwahaniaeth rhwng cenedloedd a graddau, ond o fewn y ddinas lle yr oedd coledd rhagfarnau culion yn cael ei gyfrif yn rhinwedd yn hytrach nag yn fai, ac yn un o nodau-angen y sect uchaf ei bri a'i dylanwad.

Mae y ffaith fod crefydd o'r fath ehangrwydd, a'r ehangrwydd hwnnw yn unol a'r purdeb manylaf, wedi cyfodi a gwreiddio yn y ddinas gulaf ei chydymdeimlad, yn rhyfeddod mewn gwirionedd. Os dywedir i hynny gymeryd lle yn unol â chwrs natur, yr ydym yn mhresenoldeb ffaith nas gellir byth ei hesbonio. Mae cyfodiad Cristionogaeth yn gwbl ddealladwy yng ngoleuni cyfryngiad goruwchnaturiol; ond os haerir mai naturiol oedd y dylanwadau a'i dygodd i fodolaeth, dywedwn ninnau fod y naturiol yn ymddangos yn fwy annaturiol nag ydyw gwyrrth. Wrth briodoli cyfodiad Cristionogaeth i dueddiadau naturiol, hysbys mewn hanes, gofynna Baur oddiwrthym beth anhawddach na chredu holl wyrthiau yr Efengylau; ceisia ein darbwyllo i olrhain Cristionogaeth a'r Eglwys at weithrediad natur: ond byddai credu y fath haerid yn wadiad ar ein natur ein hunain. Nid yw gwyrrthiau yr Efengylau o gwbl yn anhygoel, oblegid cysylltir hwynt â rheswm a ymddengys yn foddhaol, ac olrheinir hwynt at achos y rhaid ei gyfrif yn ddigonol. Rhoddir atebion llawn i'r ddau ofyniad, Paham a Pha fodd. Ond y mae y posibilrwydd i Gristionogaeth gyfodi yn y modd y dywed Baur iddi gyfodi, yn annirnadwy. Mae yr esboniad a ddyry o safbwynt y naturiol, y mwyaf annaturiol a ddichon fod. Mae gofyn i ni gredu y fath beth yn sarhad ar ddeddfau ein meddyliau. A meddwl wedi ei wyrdroi a'i gamystumio yn unig a ddichon dderbyn ei dybiaeth. Nid yw y cyfuniad o ddylanwadau a ystyria fel achos bodolaeth ein crefydd yn ddigonol i gynhyrchu yr effaith; oblegid mae yn y cynnyrch lawer mwy nag oedd yn y galluoedd y dywedir iddynt ei achosi. Syrthia Baur i amryfusedd pwysig wrth edrych ar Gristionogaeth fel dabbygiad naturiol o'r tueddiadau blaenorol. Gwna y tueddiadau a'u cynnyrch yn rhy debyg i'w gilydd, trwy fwyhau y cyntaf neu ddodi atynt, a thynnu oddiwrth yr olaf; ac y mae yn amlwg ei fod dan anghenraid i wneuthur rhywbeth o'r fath, mewn trefn i gyflwyno y tueddiadau fel achos digonol o'r grefydd. Gwna y dylanwadau blaenorol yn burach a chryfach nag oeddynt mewn gwirionedd, tra y darostynga Gristionogaeth i safte llawer is nag a haedda. Gellid meddwl nad oedd ganddo syniad addas am wirioneddau arbennig ein crefydd; oblegid dywed mai ei hanfod ydyw y pwyslais a ddyry ar ansawdd y galon, a'r datganiad a wna o'r posibilrwydd i ddyn yn ei nerth ei hun ennill ffafr Duw. Mae yr haerid cyntaf yn gamsyniol, a'r olaf yn ddieithriol gyfeiliornus. Neillduolrwydd y ddeddf, yn hytrach, ydyw rhoddi pwys ar ansawdd y galon; mae yn wir fod yr efengyl yn cydfyned a'r ddeddf yn hyn fel trefn sydd yn ei chadarnhau; eto mae'n beth i synnu ato fod neb yn gallu meddwl mai hynny yw hanfod yr efengyl. Mae yr haerid olaf yn wrthun o gyfeiliornus; nid yw Cristionogaeth yn dysgu dim o'r fat beth a bod dyn yn alluog o hono ei hun i ennill ffafr Duw; y gwrthwyneb yn hollol yw ei thystiolaeth, sef fod Duw o'i ras yn adfer pechadur, pan heb ewylls na gallu i ddychwelyd ato, megis y mae y bugail yn dwyn y ddaefal golledig i'r gorlan na ddeuai iddi byth o honi ei hun. Ond yr oedd dyrchafu y dylanwadau paganaidd ac Iuddewig, a darostwng Cristionogaeth i safte is trwy ddiosg ymaith ei gwirioneddau gwahan-iaethol, yn fater o anghenraid, er mwyn cyflwyno y naill fel achos digonol o'r llall. Gallwn sylwi ymhellach mai mewn nifer bach o bwyntiau y canfyddir cynghanedd rhwng y sectau Iuddewig, yr Essen-iaid er engrafft, â chrefydd Crist. A'r un modd am y Stoiciaid ymysg y cenhedloedd. Gwir fod eu moes-ddysg hwy yn uchel a phur

o'i chymharu âg addysg ysgolion ereill, a bod buchedd rhai o'i dysgawdwy'r yn ddisglaer ar gyfer dŵch erchyll llygredigaeth yr amseroedd; yr un pryd, yr oedd ysbryd y credo hwn mor wahanol i ysbryd Cristionogaeth fel nas gellir meddwl am funud fod y Stoiciad yn barod i dderbyn y grefydd a'r foesoldeb newydd yn y fan y cynhygid hwy i'w sylw; yn hytrach, efe oedd eu gwrthwynebydd mwyaf penderfynol. Gwrthodedig oedd yr efengyl yng nghyfrif un o'r fath ucheldrem a hunan-ddigonedd; nid allai dderbyn ei haddysg ar ddrygioni a gwendid dynoliaeth dan bechod, nac archwaethu graslonrwydd ei darpariaeth. Yr oedd ei datguddiad o ras a thrugaredd mor anghymeradwy yng ngolwg y Stoiciad a ymogoneddai gymaint yn ei nerth ei hun, ag oedd ei phurdeb i'r Epicuriad masw. Nid ydym wrth ddweyd hyn oll, yn gwadu y ffaith fawr fod y byd yn cael ei baratoi trwy yr oesoedd i'r Efengyl—trwy ddoethineb Groeg, yn gystal a thrwy Iuddegiaeth Palestina; ond peth arall yw haeru fod y paratoad yn gyfryw ag i wneuthur cyfryngiad dwyfol arbennig yn afreidiol. Dichon, yn wir, mai elfen gryfaf y paratoad oedd ystad ddiobaith y byd, a'i ymwybyddiaeth gynhyddol o'i sefyllfa. Cyffes y rhai mwyaf ystyriol ar y pryd oedd fod pla dynoliaeth yn anaele—fod ei chyflwr yn dirywio o ddrwg i waeth; a'r ymdeimlad neu'r ymwybod hwn o anallu, oedd y paratoad pennaf i ymddanghosiad yr Iachawdwr yn y byd, a'r fantais fwyaf i ledaeniad yr Efengyl. "Crist, pan oeddym ni eto yn weiniaid, mewn pryd a fu farw dros yr annuwiol." Ond y mae addef hyn yn dra gwahanol i'r haerid fod Cristionogaeth wedi ymfurfio trwy gyd-grynhoed yr amryw nerthoedd oedd ar waith yn Ymerodraeth Rhufain. Yn ol esboniad Baur a'i ysgol, ystyr y paratoad, a'r brif elfen ynddo, oedd y cyfoeth o dueddiadau moesol oedd i'w gael ar y pryd; cyd-gasgliad y goludoedd hyn ydyw crefydd Crist. Y gwir olygiad yw, mai y prif beth yn y paratoad, oedd deffrôad ymwybyddiaeth yn meddwl y byd o'i dlodi a'i wendid. Mae y ddau esboniad yn hollol groes i'w gilydd.

Ond er holl ddiffygion yr ysgol hon o feirniaid, teg yw cydnabod y symbyliad a ddaeth oddiwrthi i ymchwiliadau Beiblaidd a Duwinyddol. Heblaw ffrwyth ei hymchwiliadau ei hun, parodd ddeffrôad ar feddyliau mwy cydnaws â'r ysbrydol a'r goruwchnaturiol: ac nid hynny yn unig, ond bu hefyd yn offerynnol i gywiro lliaws o gamsyniadau traddodiadol parth cyfansoddiad rhannau o'r Ysgrhythyr. Hyn, efallai, ydyw ei phrif wasanaeth. Mae yn wan mewn duwinyddiaeth briodol; yn llenyddiaeth y Beibl y mae yn gref. Trwy roddi yr holl bwys ar y naturiol a'r hanesyddol, y mae wedi galw sylw ereill atynt yn fwy nag o'r blaen, eto heb lwyddo i'w dieithro i'r elfen ddwyfol yn yr Ysgrhythyrau. Nid all fod dim yn fwy anfodddhaol nag esboniad Baur o droedigaeth Paul, a'i gais i gau allan y goruwchnaturiol o hono. Nid oedd yn achosi y cyfnewidiad ddim heblaw dylanwadau naturiol. Yr oedd yn Saul y Pharisead, feddyliau amryfal yn ymweithio; cynhyrfid ai ysbryd ganddynt; un hawdd ei gyffroi ydoedd; cymerai ei syniadau feddiant llwyr o hono; dyn ydoedd o ewyllys gref, o serchiadau tanbaid, ond o gorff egwan, ac yn tueddu at lewygfeydd; ac yn un o'r llewygfeydd hynny y dychymygodd weled yr Iesu a chlywed ei lais yn llefaru wrtho. Ond nid oedd y fath esboniad yn boddloni Baur ei hun, a phrawf o'i onestwrydd ydyw yr addefiad a wna yn ddiweddarach fod troedigaeth yr Apostol yn amhosibl ei ddeall yng ngoleuni y naturiol.

Yr un prydy mae y feirniadaeth hon, er ei hymwrthodiad â'r gwrthiol, wedi estyn i ni gynorthwyon gwerthfawr i ddeall yr Apostol a'i ysgrifeniadau. Dichon mai ei phrif ddiffyg—ei chyfeiliornad mawr—ydyw yr achos o'i rhagoriaeth. Pâr ei gwadiad o'r gwrthiol iddi roddi mwy o sylw i'r naturiol a'r hanesyddol. Dengys fwy o gyfarwydd-der â hanes cyfoesol y byd yn dymhorol a chrefyddol. Dealla amgylchoedd yr Apostol yn well. Sylwa yn fanylach ar ddylanwad ei addysg Pharisaeidd ar ei ddysgeidiaeth Gristionogol, ac olrheinia y berthynas rhwng ei athrawiaeth a'i brofiad. Mae gan y Saeson dri gair yn dynodi prif arweddau y feirniadaeth ddiweddar, y rhai nad oes gennym yn Gymraeg eiriau dealladwy am ddau o honynt,—*inductive, historical, psychological*. Credwn fod mwy o'r gras o ostyngeddwrwydd yn *ysbryd* yr hen feirniadaeth; ond y mae mwy o hono yn *null (method)* y feirniadaeth ddiweddar. Gwelir hyn yn arbennig mewn cysylltiad â chwestiwn ysbrydoliaeth a datguddiad. Yn y dyddiau o'r blaen, cyrhaeddid y casgliadau arno, nid yn gymaint trwy chwilio y Beibl ei hun, ond trwy ymresymu oddiwrth ragsyniadau, y rhai a anrhydeddid a'r enw *egwyddorion*. Dwydedid, a hynny yn hollol wir, fod yr Ysgrhythrau Sanctaidd yn honni iddynt eu hunain awdurdodiad dwyfol; yna prysurid at y casgliad fod yr un purdeb ag a hawlir i Air Duw yn perthyn i'r ysgrifeniadau sydd yn cynnwys ac yn trosglwyddo y Gair hwnnw. Ymresymid ymhellach oddiwrth gymeriad a phriodoliaethau Duw, at gyffelybrwydd yn y llyfr i'w Awdwr yn y pethau hyn. Duw gwybod-aeth yw Duw; naturiol, gan hynny, yw edrych am adlewyrchiad o'r wybodaeth ddwyfol berffaith yn y llyfr a ysbrydolwyd ganddo. Megis y mae awdwr natur yn deall gwaith ei ddwyllaw yn berffaith, felly hefyd y ceir yn ei Air rag-dafliadau o'r pethau a ddarganfyddwyd mewn oesoedd diweddar gan wyddoniaeth. Y mae awdwr datguddiad yn Fod sydd yn meddu ar y perffeithrwydd uchaf; oddiwrth hyn ymresymir y rhaid i'r Ysgrhythrau feddu ar berffeithrwydd o'r un natur, heb ystyr-ied mai yr unig berffeithrwydd a ellir ddisgwyl yng ngwaith Duw yw addasrwydd digonol i'w swydd a'i amcan. Erbyn hyn, fodd bynnag, addefir fod y dull hwn o drin y mater ar unwaith yn annheg a rhyfygus. Nid ydym yn addas i farnu pa fath y rhaid i ddatguddiad fod. Yr ydym yn bostio tu hwnt i'n mesur wrth wneuthur felly; ein lle fel creaduriaid o ddirnadaeth gyfyng mewn pethau dwyfol, ydyw myned at y Beibl ei hun—ei chwilio yn fanwl mewn gostyngeddwrwydd—rhoddi ei lle dyladwy i bob ffaith—a ffurfio ein syniad am ei ddatguddiad a'i ysbrydoliaeth oddiwrth dystiolaeth unedig y ffeithiau a gynhwysa, yn hytrach na sefyll uwch ei ben gyda meddyliau llwythog o ragsyniadau, a dweyd fod yn rhaid i ddatguddiad ac ysbrydoliaeth fod yn gyson a hyn neu'r llall. Pell ydym o feddwl fod lliaws o'r syniadau diweddar yn gywir; yr un prydy y mae yn null yr ymchwiliad lawer o nodweddion canmoladwy. Heblaw yr hyn a nodasom, rhoddir ystyriaeth i'r egwyddor o gynnydd, nid yn unig wrth edrych ar yr Ysgrhythrau fel cyfan, ond hefyd yn ei pherthynas a'r ysgrifenydd unigol. Nid yn unig canfyddwn gynnydd o gymharu y Sallwyr neu'r Proffwydi a'r Pum Llyfr, neu yr Apostolion â'r Proffwydi; ond hefyd, wrth gymharu epistolau yr un Apostol mewn adegau gwahanol ar ei fywyd.

Mae yn sicr fod ymchwilwyr yr oes hon ar dir mwy manteisiol i ddeall epistolau Paul nag oedd beirniaid yr oes o'r blaen. Yn un peth, mae ymchwiliadau diweddar i'w amseroedd a'i amgylchoedd yn ein

galluogi i sylweddoli ei bersonoliaeth i raddau helaethach. Nid offeryn neu gyfrwng datguddiad ydyw i ni mwyach; yr ydym yn adnabod y dyn; gallwn gysylltu ei athrawiaeth â'i hanes, ac edrych arni fel datguddiad Iesu Grist iddo trwy ei brofiad ei hun. Nid oedd ei droedigaeth yn ei ddatod oddiwrth ei fywyd blaenorol yn llwyr; er ei fod yn rhoddi iddo gyfeiriad ac amcan cwbl wahanol, eto yr oedd yn dwyn i'w apostolaeth bethau goreu ei amaethiad Phariseaidd. Yr hen olygiad ar ei addysg foreuol oedd, ei bod yn cyfuno yr un Rabbinaidd a'r un Roegiaidd—ddarfod iddo yn ei febyd yn Tarsus yfod yn helaeth o wybodaeth oreu y Paganiaid; ac ystyriai rhai fod y dyfyniadau a wna o'r poetan yn Athen yn gadarnhad o'r cyfryw dyb. Mae llenor mor ddiwyd a deallus a Schaff yn barnu fod ei areitheg a'i resymeg yn dwyn delw clasuron goreu Groeg. Ond nid oes braidd neb yn coledd y golygiad hwn yn awr. Mae yn wir y gwahaniaethir am raddau ei wybodaeth o'r ddoethineb genhedlig. Mae yr hen olygiad a gynhygid gan Schrader, fod yr efrydydd ieuanc wedi paratoi ei hun trwy amaethiad Groegiaidd i lafurio fel cenhadwr Iuddewig ymysg y cenedloedd, i broseltytio y dienwaediad i grefydd ei dadau—hwb neb i ddweyd gair o'i blaid. Barna Meyer fod yn debygfod ganddo wybodaeth arwynebol o lenyddiaeth Groeg, am nad allai un o'r fath athrylith fywiog ddyfod i gyffyrddiad â Groegwyr yn Tarsus ac â Helenistiaid yn Jerusalem, heb iddi osod rhywfaint o'i hargraff ar ei feddwl. Mae ereill, fodd bynnag, yn anfoddlon i fyned can belled, ac yn barnu nad oes dim o'i holion i'w canfod ar ei ddull o feddwl. Nid oes dim o'r dillynder clasurol yn ei arddull; ei eiddo ei hun yn gwbl ydyw; yn Hebraeg y byddai yn meddwl yn hytrach nag yn y Groeg; ac nid oes un sail i feddwl iddo gymeryd Demosthenes neu Thucydides fel cynllun, nad oedd grym ac angerddolebei reitheg ond y grym a'r angerddoldeb oedd yn codi o danbeidrwydd ei ysbryd ei hun, ac nid yn y mesur lleiaf oddiar ddyllanwad ereill ar ei arddull. Nid oes un awgrym y bu o gwbl yn efrydydd dyfal o ddoethion Groeg. Cafodd ei wybodaeth am lwgr y byd Paganiaidd trwy ei sylwadaeth, nid trwy efrydiaeth o'r llyfrau sydd yn disgrifio ei gyflwr moesol. Er ei fod yn Helenistiaid, "Hebrewro'r Hebreaid" y geilw ei hun; h.y., Iuddew ydoedd ymhob ystyr, o ran chwaeth, amaethiad, cydymdeimlad, yn gystal ag o ran cenedl. Nid oedd yr ysgol Rabbinaidd, o'r hon yr oedd Gamaliel yn brif ddysgawdwr, yn gwarafun efrydiaeth o'r prif awduron Groegiaidd i'w disgyblion, er mai ei ganiatau a wnai, yn hytrach na'i annog; ac yr oedd Gamaliel ei hun yn ddyon o feddwl eang a rhyddfrydig. Ond yr oedd Saul yr efrydydd o feddwl gwahanol i'w athraw. Mewn un ystyr, nid oedd mor eang: beth bynnag am ei alluoedd naturiol, yr oedd ei ynni a'i ddirifwch, ei ymgysgriad trylwyr i un peth, yn peri math o gyfyngiad arno, o leiaf yn anfantais i'r ehangrwydd a nodweddi feddwl yr athraw. Er fod yr oll a wyddom am Gamaliel yn adlewyrchu anrhydedd arno, eto yr oedd ei ehangrwydd a'i gymesuredd mewn undeb ag argyhoeddiadau llai meistrolaidd nag eiddo Saul. Pe buasai ei argyhoeddiadau yn ddwysach, tebyg yw y buasai ei gymesuredd a'i degwch yn llai; o leiaf gyda mwy o anhawster, fel canlyniad ymdrech mewnol, y gallasai ddangos cymaint o bwyll a thegwch yn y gynghorfa pan oedd achos yr apostolion ger bron. Ar y llaw arall, un yn cael ei feddiannu yn llwyr gan un drychfeddwl oedd y disgybl. Tybiodd y rhaglaw ei fod yn ynfydu; ac ni buasai ef ei hun yn gwneyd y dybiaeth, "Os amhwylio yr ydym" (2 Cor. v. 13), oni buasai fod lliaws yn cyfrif ei frwdaniaeth a'i

sêl yn arwyddion o orffwylledd. Ac yr oedd yr un peth yn amlwg ynddo pan yn Pharisead. Yr oedd yn Zelotiad—yn ei eiriau ei hun, “yn fwy awyddus” na'i gyfoedion i draddodiadau ei dadau. Yr oedd ei gredo yn ei feddiannu, yr hyn, efallai, nid ellir ei ddweyd am neb arall o'r Phariseaid cyfoesol. Ac y mae yn sicr fod yr henuriaid call a gwagelog yn cael eu blino gan ei sêl ddiorffwys. Yr oedd yn annrhaethol fwy tanbaid nag oeddynt hwy—y rhai a ddymunent aros yn llongydd a gadael pethau fel yr oeddynt. Yr oedd y fath drylwyredd yn perthyn i'w feddwl a'i gymeriad, fel y mynnai weithio ei gredo allan i'w gantlyniad eithaf. Nid oedd y fath sêl yn gymeradwy gan rai mwy pwyllus, tebyg i Gamaliel, neu mwy oer ac ystrywgar, tebyg i Annas, llywydd y y Cyngor; a phan aeth Saul at yr archoffeiriad i ddeisyf ganddo lythyrâu i Damascus at y Synagogau, mae yn hawdd gennym gredu fod yn dda ganddo eu rhoddi iddo, nid yn gymaint er mwyn cosbi y disgyblion ag er mwyn cael gwared o Saul: gwell ganddo i'r fath un anghyfeus, aflonydd, fod ymbell yn Damascus nag yn Jerusalem yn agos ato. Mynych y sylwir nad oes un awgrym yn ei epistolau fod Paul yn edmygydd mawr o brydferthion natur; ac y mae yr un peth yn wir am rai o enwogion yr Eglwys ar ei ol, Calvin, er engraifft. Cyfrifa rhai am hyn trwy ddweyd nad oedd ganddo lygad i weled anian: ni ryfygwn ni i farnu felly am ddyn o'r fath; mwy cywir, efallai, yw dweyd fod y moesol a'r ysbrydol wedi llyncu ei fryd mor llwyr iddynt eu hunain, fel nad allai gymeryd hamdden i droi ei feddwl at ddim arall; a phe buasai yn llai trylwyr yn ei ymroddiad iddynt hwy, y cawsem yn ei ysgrifeniadau gyfeiriadau mynych at ddilynion natur a chelfyddyd.

Barna Sabatier fod addysg foreuol yr Apostol yn gwbl Iuddewaidd. Dichon fod yr ysgrifennydd hwn yn myned yn rhy bell yn y cyfeiriad yma, fel yr aeth ereill yn y cyfeiriad gwrthwyneb. Ond tueddir ni i feddwl fod sylwedd ei olygiadau ar y mater yn gywir. “Y mae cyffelybrwydd nodedig yn ei arddull i'r eiddo Thucydides; ond ni phrofa hyn ddim mwy na chydnewseidd naturiol eu hathrylith. Nid yn ysgolion y Sophistiaid a'r areithwyr y dysgodd ei ddull o ymresymu; mae yn dwyn mwy o ddelw y Talmud a'r Rabbinaid nag eiddo Plato ac Aristotl. Er mai yn iaith Groeg yr oedd yn ysgrifennu, yn yr Aramaeg yr oedd yn meddwl. Nid ymddengys iddo fenthycu ddim o'r Groeg ond geiriau. O'r elfennau allanol hyn, creodd iaith iddo ei hun, o nodwedd angherddol a gwreiddiol fel ei athrylith. Nid dinesydd Tarsus, ond efrdydd Jerusalem, a rydd gyfrif am apostol y cenhedloedd.” Mae yn dra thebyg mai byr oedd ei arhosiad yn Tarsus, ac iddo symud yn foreu i Jerusalem, lle yr oedd iddo berthynasau; y tebyg yw ei fod yn lletya yno yn nhy chwaer, yr hon oedd yn hŷn nag ef (Act. xxiii. 16). Dywed mai “yn y ddinas hon” sef Jerusalem, y meithrinwyd ef, er iddo gael ei eni yn Tarsus, yn Cilicia (Act. xxii. 3). Gosodwyd ef yn foreu dan addysg Gamaliel, un o awdurdodau uchaf ysgol Hillel; ac y mae olion yr addysg hon yn hawdd eu canfod ar athrawiaeth yr Apostol, ei sylwedd yn gystal a'i dull. Dyfynna Derenbourg rannau o'r dduwinyddiaeth Rabbinaidd, yn y rhai y gwelir pa mor debyg y mae yr Apostol yn trin ei fater i'w hen athrawon.

Ni ddarfu Luther ar ol torri ymaith oddiwrth eglwys Rhufain, ymwrthod â'r cyfan o'r hen gredo,—yr oedd ei dduwinyddiaeth briodol, ei athrawiaeth am Dduw, am gyfiwr dyn, ac am Berson Crist, yn aros

yr un; felly hefyd ni pheidiodd Paul a bod yn Pharisead mewn rhai pethau pwysig. Tra yn gyfrwys yn ei ymwneyd â'r pleidiau yn y Cyngor, nid ymadawai â'r gwir wrth ddweyd, "Pharisead wyf fi, mab i Pharisead" (Act. xxiii. 6). Yr oedd gwreiddiau y rhan fwyaf o'i syniadau Cristionogol yn ffydd ei febyd, yr hyn nid yw yn cynnwys mwy na phe dywedid fod Cristionogaeth yn barhad o Iuddewiaeth. Iuddewiaeth oedd sylfaen ei dduwinyddiaeth. O'r Hen Destament y cai egwyddorion sylfaenol ei athrawiaeth—ei ddrychfeddyliau am y Duw byw, ei sancteiddrwydd a'i gyfiawnder; am berthynas Duw â dynolryw yn gyffredinol, ac a'r Eglwys yn neillduol. "Duw Paul ydyw Duw yr hen gyfamod; Duw Abraham, Jacob, Moses, a'r proffwydi; Efe yw yr unig wir Dduw, yr Hwn sydd Dduw eiddigus; Efe yw Creawdwr pob peth. Yr oedd Efe yn Dduw i Israel mewn modd neillduol, am ei fod mewn cyfamod â hwynt, ac wedi ymddiried iddynt am ei ymadroddion. Ar y cyfrif hwn mae yr Hen Destament yn parhau mewn awdurdod fel datguddiad dwyfol; datguddiad yw o'r Duw sanctaidd, â'r Hwn nis gallwn fod mewn heddwch heb galon bur. Oddiyma y cafodd Paul ei ddrychfeddwl dyrchafedig am gyfiawnder, a'i ddrychfeddwl cyfatebol am bechod; a'r ymyronfa rhwng y ddau ym mynws yr Apostol oedd cychwynfan ei holl ddadblygiad ysbrydol." Yr oedd hyn oll yn gynwysedig yn ei greddo fel Pharisead, yr hyn a drosglwyddodd i'w fywyd newydd. Yr un olwg â'r Phariseaid a gymerai ar y byd cenhedlig: "rhai nid adwaenant Dduw" ydynt, ac yn "gwasanaethu y creadur yn hytrach na'r Creawdwr"; rhai "diffydd" a "diddeddf;" a "phechaduriaid" o'u cymharu â'r Iuddewon (Gal. ii. 15). A'r un modd y mae ei ddysgeidiaeth am angylion a chythreuliaid, dylanwad pennaeth y cythreuliaid ar fydd dynolryw, perthynas y Daimoniaid ac eilunaddoliaeth, gwasanaeth yr angylion yn rhoddiad y ddeddf ar Sinai, yn unol â chredo ysgol Hillel. Nid yw hyn oll yn gwneyd ei droedigaeth a'r datguddiad a dderbyniodd yn llai. Yr oedd ei droedigaeth y cyfnewidiad mwyaf trwyadl y gellir meddwl am dano: yr un pryd, nid oedd yn addatodiad hollol oddiwrth ei fywyd o'r blaen. Newidiad ar gyfeiriad y meddwl a'r bywyd ydoedd. Mae yn cadw y rhan hon o'i hen greddo am ei fod yn wir; ymwrthod y mae â'r ysbryd cul, hunan-ddigonol, a berthynai iddo; trwy ei droedigaeth y daeth i beidio ymddiried yn y cnawd ac i obeithio yng Nghrist Iesu, ac yr ymddyrchafodd o diriogaeth y ffurf a'r llythyren i fydd newydd rhyddid a gwirionedd ysbrydol.

Os oedd sylfeini athrawiaeth Cristionogol yr Apostol yn gorwedd yn ei greddo Iuddewig, mwy o lawer yr oedd perthynas rhwng ei brofiad presennol fel credadyn a'i athrawiaeth fel Apostol. Os oedd perthynas rhwng dwy adran ei fywyd, y rhai oeddynt ar un olwg mor groes i'w gilydd, haws yw olrhain y cysylltiad rhwng profiad y sant a gwybodaeth y dysgawdwr yn yr un tymor ar gyfrif cydnawsedd y naill a'r llall. Dichon fod rhai o'n darllenwyr yn coledd math o syniad am ysbrydoliaeth sydd yn gwneyd ei ddylanwad yn gyfareddol, ac felly yn ei ddatod oddiwrth bob gweithrediad naturiol o eiddo y meddwl. Yn ol y cyfryw olygiad, mae ysbrydoliaeth neu ddatguddiad yn dyrchafu ei berchen ar unwaith i binael, oddiar ba un y gwel holl fydd gwirionedd ar unwaith megis ag un drem. Mwy unol o lawer â deddfau y meddwl dynol, ac â threfn y gweithrediau dwyfol, ydyw golygu y dylanwad yn gweithio yn raddol, ac felly yn ymddibynnu i fesur mawr ar ewyllys y dyn ysbrydoledig ei hun; fel dawn ag y gellir ei hyrwyddo neu ei llesteirio

yn ei gweithrediad trwy brofiad, llafur, a gras ei derbynydd. Onid oes gyfatebiaeth yn hyn rhwng holl ddylanwadau yr Ysbryd? Mae y pechadur, trwy gredu yn derbyn yr Ysbryd Glân, ac yn ei dderbyn i breswyllo ynddo, nid yn unig yn cyfranogi o'i ddylanwadau megis oddi allan. Eto trwy flynyddoedd o lafur diwyd, o ymdrech yn erbyn pechod, o dduwiol fyfyr a defosiwn, trwy fywyd o ufudd-dod cyson i Dduw, y mae yr Ysbryd hwn yn treiddio trwy ei natur yn oleuni, yn ras, ac yn dangnefedd; "o ogoniant i ogoniant" y newidir ef i'r unrhyw ddelw, megis gan Ysbryd yr Arglwydd. Nid yw y Gweithiwr nefol yn cyflawni ei waith hebddo, ond trwyddo; trwy weithio ynddo ewyllysio a gweithredu o'i ewyllys da Ef. Yr un modd am waith yr un Ysbryd mewn datguddiad. Dywedir fod Pedr yn llawn o'r Ysbryd Glân ar ddydd y Pentecost; ac er fod y ddawn hon yn ei gymhwyso i gyflawni gwaith pwysig y dydd hwnnw mor berffaith ag oedd bosibl, eto nid ydym i feddwl ei fod ar y pryd yn deall holl gyngor Duw. Yr oedd y ddawn yn ei gymhwyso yn gyflawn at waith mawr y dwthwn hwnnw. Nid oedd ynddo un diffyg. Yr oedd yn llawn o wroldeb a nerth, o ddoethineb a gras; traddodai gyda hyfdra y cwbl a ofynnai yr adeg a' gwrandawr; eto, nid oedd yr Ysbryd yn oedd yn llawn o hono eto yn ei oleuo am bethau y byddai angen cyfarwyddyd arnynt ar ol hyn. I'r Iuddewon yn unig y mae yn pregethu; i Israel y dywed fod Crist wedi ei ddyrchafu yn dywysog ac yn iachawdwr i roddi edifeirwch a maddeuant pechodau; pan yn cyhoeddi fod yr addewid "i bawb ymhell," ni feddyliai am rai can belled â'r Cenhedloedd, ond am Iuddewon ar wasgar o'u gwlad eu hunain; neu os meddyliai am danynt hwy, nid oedd yn credu y gallent ddyfod i'r eglwys heb fod yn gyntaf yn broseltyiaid i'r grefydd Iuddewig.

Yr un modd, yn raddol yr oedd goleuni datguddiad yn llewyrchu ar feddwl Apostol y Cenhedloedd. Os darlennwn ei epistolau gyda'r amcan o wybod ei deall yn nirgelwch Crist, tarewir ni yn fuan gan faint y gwahaniaeth rhwng ei epistolau boreuaf, y rhai at y Thessalonïaïd,—a'r epistolau diweddarach, y rhai at y Corinthiaïd, y Rhufeiniaïd, a'r Galatiaïd; ac wrth ddarllen ei lythyrau at yr Ephesiaïd, y Philipppiaïd, a'r Colossiaïd, cawn ein hunain drachefn mewn awyrgylch mwy nefol. Yr oedd hyd yn oed Paul yn dyfod i weled ymhellach ac yn gliriach, trwy fyfyrïo, teimlo, gweithio, a dioddef dros Grist, fel pob Cristion arall; nid oedd yn hyn o beth yn eithriad; yr oedd ar yr un tir â'r ho'l saint, gan nad beth oedd ei fantais oddiwrth ddawn ysbrydoliaeth.

Yn y modd yma y mae y goruwchnaturiol yn nysgeidiaeth yr Apostol yn cael ei uno â'r naturiol, ei ysbrydoliaeth a'i brofiad. Nid athronydd ydoedd, yn dirwyn ei gyfundraeth o'i feddwl ei hun mewn neillduaeth; nac offeryn goddefol yn llaw yr Ysbryd, heb gydweithrediad ei reswm a'i galon â'r gweithredydd Dwyfol. Ei "dywys" a gai i'r holl wirionedd; ac yr oedd ei fyfyrnodau dwysion, ei deimladau angherddol, gweithrediad ei reswm ar ddyfnion bethau Duw, a'i lafur cenhadol, yn amodau angenrheidiol y tywysiad hwnnw. Cynhyddai ei ddirnadaeth o'r gwirionedd yn gyfatebol i angenrheidiau yr adeg. Dadblygid ei ddoniau ymresymiadol gan gyfodiad heresiau yn yr eglwysi oedd wedi eu sefydlu ganddo. Ni fu ganddo fwriad i ffurfio cyfundraeth o gwbl: yn hytrach, yr oedd yr hyn ellir olygu fel agoshâd i gyfundraeth yn ymfurfio yn raddol heb un cais at hynny, trwy ddylanwad amgylchiadau. "Fel cenhawr y dylied edrych arno, yr hwn a gyfaddasai bob peth at ei waith.

Yr oedd yn dysgu trwy addysgu. Ymhob argyfwng ar ei fywyd, edrychai am arweiniad oddiwrth Dduw. Mewn gweddi y ceisiai esboniad ar gwestiynau dyrys; a deuai yr atebion weithiau fel fflachiad o olenni, ac weithiau fel canlyniad myfyrdod dwys, ond bob amser yn ei olwg ef fel datguddiad oddiwrth Dduw. Talai sylw dyfal i ddiogydd-iadau; myfyriai ar ei brofiadau blaenorol; derbyniai fudd oddiwrth ddarlenn a thrwy deithio. Yr oedd pob peth, mewn gair, yn darpar defnydd meddwl iddo, a chyfeusterau i gael allan berthynasau ymarferol neu bynciol y ffydd a bregethid ganddo mor ddiball. Yr oedd ei feddylgarwch yn cydfyned â'i weithgarwch allanol; a hawdd ydyw canfod dylanwad y naill ar y llall yn holl yrfaeodd ei fywyd apostol-aidd."

Blynnyddoedd o bregethu fel cenhadwr oedd cyfnod boreuaf ei fywyd apostolaidd. Cawn adroddiad o'i anerchiadau yn y cyfnod hwn yn yr Actau—ei bregeth i'r Iuddewon yn Antiochia Pisidia (pen. xiii.); ei bregeth i'r Cenhedloedd yn Lystra (xiv.); ac i'r Cenhedloedd yn Athen (xvii.). Mae nodweddion ei bregethiad yn amlwg yn y rhai hyn. Nid oedd yn amgen na chyhoeddiad syml mewn dull hanesyddol, cyffelyb i bregeth Pedr ac i amddiffyn Stephan, o'r "pethau ynghylch Iesu o Nazareth." Profai mai yr Iesu yw y Crist, a chyhoeddaï faddenant yn ei enw. Mynegi ffeithiau y mae, yn hytrach nag ymresymu athrawiaeth. Yr oedd yr un symlwrwydd, eglurder, a chyfeirioldeb ynddo ag yn yr apostolion ereill. Ar broffwydoliaeth y sylfaenai ei brif ddatl. Ei arfer oedd "ymresymu allan o'r Ysgrhythrau, gan egluro a doddi ger bron mai rhaid oedd i Grist ddiodeff, a chodi oddiwrth y meirw;" ac "mai hwn yw y Crist Iesu, yr hwn yr wyf fi yn ei bregethu i chwi" (Act. xvii. 2, 3). Ac megis yr apeliai at yr Hen Destament wrth annerch yr Iuddewon, felly hefyd, wrth bregethu i'r Cenhedloedd, y cyffyrddai a'u cydwybodau, gan geisio ail-ennyn yr ychydig wreichion o wybodaeth a dyhëad am y gwir Dduw oedd heb lwyr ddiffodd yn eu mynwesau. Hyn a wnâi yn Lystra ac Athen.

Yn y cyfnod cenhadol yr ysgrifennodd ei ddau lythyr at y Thessalon-iaid. Gan nad oedd un heresi wedi ymddangos eto yn yr eglwys i blanesid ganddo, nid yw y ddau epistol yma yn cynnwys mwy nag oedd yn ei bregethau. Mae eu mater a'u harddull yn debyg. Nid oedd yn ansawdd yr eglwys ddim i gyffroi ei ddeall i'w ddyfnderoedd, ac i alw allan ei ddoniau rhesymiadol. Hynodir hwynt gan absenoldeb pwnc a dadl. Ymarferol yn hytrach na phynciol yw ei ymdriniaeth ynddynt ar ddyfodiad yr Arglwydd. Wrth lefaru fel hyn nid ydym yn cydfarnu â'r rhai a fyddant eu gwneyd yn gyffelyb i lythyrâu doffion rhai o'r Tadau Apostolaidd. I'r gwrthwyneb, y maent, fel y dywed un, yn bendant, yn llawn o ysbrydiaeth a theimlad, o fywyd a gobaith. Yr un pryd, yn ofer yr awn atynt am y nerth a'r ynni meddyliol, y gallu ymresymiadol, y canfyddiad ysbrydol dibafal, yr ehediadau uchel, a geir yn y llythyrâu diweddarach. Yr oedd yr ymdrech rhwng yr Iuddew a'r Cenedldd yn ar gwestiwn mawr y ddeddf a'r enwaeddiad, eto heb ddechreu; ac felly ysbryd rhagorol y cenhadwr a'r pregethwr a amlygir yn y llythyrâu hyn. "Dyfodiad yr Arglwydd" ydyw yr unig bwnc yr ym-ymdrina âg ef—a hynny i ddibenion ymarferol; ac eglur yw mai yr un yw ei olygiad hyd yn hyn ar y mater â chredo a disgwyliad Cristionogion yr adeg. Mae yn datgan ei obaith o fod mysg y rhai byw pan ddelai Crist ar y cwmwl. Yn ei lythyrâu olaf, yr un at y

Philippiaid, er engraifft, y mae yn datgan ei awyddfyrd yn hytrach am fod gyda Christ. Yr ydym yn credu fod y lle ddylid roddi i'r egwyddor o gynnwdd a dablygiad yn nuwinyddiaeth yr apostol, yn well esboniad ar ei eiriau am y Dyfodiad, na'r golygiad cyfriniol a roddir gan Olshausen ac ereill; sef, fod ysbrydoliaeth yr Apostol yn ei alluogi i edrych ar amser oddiar safle tragwyddoldeb. I Dduw y mae mil o flynyddoedd fel un dydd; felly hefyd i ryw raddau i'r proffwyd a'r apostol sydd yn edrych ar fyd ac amser yng ngoleuni yr Arglwydd. Addefwn nas gellir gwadu hyn, oblegid y mae ffydd yn gystal ag ysbrydoliaeth yn meddu ar y gallu i wneuthur y pell yn agos, a'r dyfodol yn bresennol. Ond gellir gofyn, pa fodd y rhoddir cyfrif am y ffaiith mai yn ei epistol boreuaf, ac nid yn yr un o'r rhai diweddaraf, y rhoddir cymaint o arbenigrwydd ar athrawiaeth y Dyfodiad yn y ffurf oedd yn unol â disgwyliad y Cristionogion boreuaf?

Mae amryw o'r sylwadau yn y dyfyniad o'r llyfr y nodasom ei enw uwch ben ein hysgrif, yn dangos fod yr awdwr yn cydnabod cynnydd ac ehangiad yn y wybodaeth a dderbyniodd yr Apostol trwy ddadguddiad. Dywed mai un o amcanion ei drigias yn Arabia oedd "derbyn dadguddiad pellach o'r Efengyl."

Fe dderbyniodd ef hanfod ei ef. ngyl yn uniongyrchol yn adeg ei droedigaeth, yr hyn a brofir gan ei waith yn ymgymeryd ar unwaith a phregethu yn y synagogau yn Damascus mai yr Iesu oedd y Crist, mab Duw. Tywynnodd y gwirionedd hwn gydag eglurder dwyfol i'w feddwl, yr hwn a gynhwysai ynddo ei hun gnewyllyn cyfoethog yr holl efengyl, a'r hwn hefyd a barhaodd i gael lle arbennig yn ei weinidogaeth a'i ysgrifeniadau. Nis gellir dweyd trwy ba foddion y derbyniodd ef yr ychwanegiadau o'r datguddiad a roddwyd iddo ar y cyntaf. Mae yn bosibl nas gellir cymeryd ddarvoud i Grist roddi amlygiadau gweledig o hono ei hun iddo yn nhir ei neillduaeth, a'i ddysgu yn fanylach, fel athraw yn dysgu ei ddisgybl, yng ngwirioneddau yr efengyl. Ni bu yno gymdeithas wyneb yn wyneb o bosibl, fel yr un rhwng yr Arglwydd a Moses, gan na fuasai hynny yn nodweddiadol o ysbrydolrwydd uchel yr oruchwyliaeth newydd. Mwy cydweddol a'r drefn bresennol yw meddwl i hynny ddyfod iddo trwy gyfrwng ei ffyrdodau personol ei hun. Gweithredai ei feddwl yno yn ddiaar ei ymddangosiad Crist yn y cnawd, ar ei berson, ei fywyd, ei angeu, ac ar ei adgyfodiad gogoneddus; yr hwn a brofwyd mor ddiamaheuol iddo yn ymddangosiad yr Iesu ar y ffordd; a gweithredai hefyd ar yr egwyddorion mawrion a ddalient berthynas a'r oll; a derbyniai oleuni newydd a chyflawn arnynt oddiwrth Grist a thrywyd ei Ysbryd. Beth bynnag oeddynt o ran eu natur, yr oeddynt yn gyfryw ag yr oedd Ef yn berffaith ymwybodol o'u gwirionedd, ac yr oedd yr un mor ymwybodol hefyd eu bod yn ddigonol iddo, fel nad oedd yn ofynol wrth unrhyw ychwanegiad atynt oddi wrth ddyinion. Mae rhagoriaeth y modd y cymerodd yr oll le yn cael ei awgrymu yn ei eiriau: "Yn y fan nid ymgynghorais a chig a gwaed, ond mi a aethum i Arabia." Aeth i ymgynghori a rhai annrhaethol uwch, a phroffod hynny yn ddigonol iddo. Fel llestr etholedig gan Dduw i ddwyn enw ei Fab ger bron y byd cafodd yno ei lanw a phob goleuni a chymhwyster oeddynt yn angenrheidiol arno.

Derbyniai y gwirioneddau yn berffaith gyson ag egwyddorion ei feddwl ei hun, ac o honynt ffurfiodd iddo ei hun gyfundrefn o athrawiaethau sydd yn dwyn yn amlwg ddelweddau ei feddwl a'i ysbryd. Diau mai ffrwyth ei ffyrdodau yng ngoleuni y datguddiad a dderbyniodd y pryd hwn ydyw ei Epistolau at y Rhufeiniaid ac at y Galatiaid, yn y rhai y ceir yr efengyl mewn gweddau ydynt yn cyfateb yn neillduol i deithi ei feddwl ef. Yr ydym mewn modd amlwg yn cael ynddynt olwg ar yr ymeangiad a gynerasall ei feddwl gydag olwg ar ddynoliaeth yn gyfrindol mewn cyferbyniad i had Abraham, ac am ryddid yr efengyl o'i gymharu a chaethiwed y ddoddf. Daeth i weled mawredd gras a doethineb Duw hyd yn oed trwy gwmp alaethus ei gygdenedl, mor bell ag yr oedd hynny yn agoriad drws i Dduw i drugarhau wrth bawb a dwyn pawb i gymod ag ef ei hun. Mae yr hyn a ysgrifennai at yr Ephesiaid yn dal perthynas mor amlwg a'r hyn sydd gennym mewn llaw yma, fel nas gallwn lai na'i ddodi i mewn: "Er mwyn hyn, myfi

Paul, carcharor Iesu Grist drosoc'h chwi, y Cenhedloedd: os clywsoch am oruchwyliaeth gras Duw, yr hwn a roddwyd i mi tuag atoch chwi mai trwy ddatguddiad yr hysbysodd efe i ni y dirgelwch (megis yr ysgrifennais o'r blaen ar ychydig eiriau, wrth yr hyn y gellwch, pan ddarllenoch. wybod fy neall i yn nirgelwch Crist) yr hwn yn oesoedd ereill nid eglurwyd i feibion dynion, fel y mae yr awr hon wedi ei ddatguddio i'w sanctaidd Apostolion a'i broffwydi trwy yr Ysbryd, y byddai y Cenhedloedd yn gyd-etifeddion, ac yn gyd-gorff, ac yn gyd-gyfranogion o'i addewid ef yng Nghrist, trwy yr efengyl: i'r hon y'n gwnaed i yn weinidog, yn ol rhodd gras Duw yr hwn a roddwyd i mi yn ol grymus weithrediad ei allu ef. I mi, y llai na'r lleiaf o'r holl saint, y rhoddwyd y gras hwn i efengyl ymysg y Cenhedloedd anchwilidwy olud Crist; ac i egluro i bawb beth yw cymdeithas y dirgelwch, yr hwn oedd guddiedig o ddechreuad y byd yn Nuw, yr hwn a greodd bob peth trwy Iesu Grist, fel y byddai yr awr hon yn hysbys i'r tywysogaethau ac i'r awdurdodau yn y nefolion *leoedd*, trwy yr eglwys fawr amryw ddoethineb Duw, yn ol yr arfaeth dragwyddol, yr hon a wnaeth efe yng Nghrist Iesu ein Harglwydd ni: yn yr hwn y mae i ni hyffra a dyfodfa mewn hyder, trwy ei ffydd ef."* Mae y datguddiadau roddwyd iddo y pryd hwnnw yn amlygu eu hunain yn ogoneddus yn yr ymadroddion grymus a chyfoethog hyn.

Yr oedd yr Epistol at y Galatiaid yn cael ei ysgrifennu gan yr Apostol ym mhoethder y ddadl rhwng caethiwed y ddeddf a rhyddid yr efengyl: a chyffroid ysbryd yr Apostol i'w ddyfnderoedd gan ddichellion y blaidd Iuddewig ymhob lle, ac yn arbennig gan lwydd eu heresi yn eglwysi Galatia; ac yr oedd y cynhyrfaid hwn ar ei ysbryd, ei ddwfn siomiant yn achos ei blant ysbrydol, a'r eiddigedd tuag at yr athrawon a'u harweiniasant ar gyfeiliorn, yn galw allan ei holl allu rhesymiadol. Yr Epistol hwn, gan hyunny, yw y datguddiad goreu o deithi ei bersonoliaeth; yr ydym wrth ei ddarllen yn ei weled ac yn ei glywed yn holl nodwedddion ei natur gyfoethog. Yma y canfyddwn pa mor sydyn oedd cyfnewidiadau ei deimlad. Mynych y mae "yn newidio ei lais;" tra y mae ei eiddigedd sanctaidd yn enynnu y funud hon, ac yn argraffu gwg ar ei ael wrth arllwys ei feddyliau yng nghlust ei ysgrifydd, cawn ef y funud nesaf yn toddi gan faint ei serch at y Galatiaid ynyfyd. Rhwng pob peth, yr Epistol at y Galatiaid ydyw yr arlun goreu o'r penaf o'r apostolion, a'r mwyaf o Gristionogion yr holl oesoedd; ac nid yw yn syn ddarfod iddo wneuthur y fath argraff ar feddwl a chalon Luther. Y prawf goreu o'i ddilyrwydd yw ei gynnwys amrywiol, a chydolygwn a'r syniad fod y sawl a amheuo ei ddilyrwydd yn profi ei hun yn gwbl amddifad o gymhwyster beirniadol.

Mae yn hysbys fod erbyn hyn nifer da o gynorthwyon yn ein hiaith ni ein hunain i ddeall yr epistol hwn; eto nis gall neb ddweyd fod *Y Darlithiau Esboniadol* a nodir uwch ben yr erthygl hon yn afreidiol. Y maent yn llanw lle o'r eiddynt eu hunain. Medda eu hawdwr gymhwysterau mawrion i esbonio a phregethu; ac y mae y *Darlithiau* yn gyfuniad medrus o'r esboniad a'r bregcth. Nid yw y naill a'r llall yn cael eu hysgar yn ol yr hen ddull—y pregethwr yn gyntaf yn agor ei destun, ac yna "yn ymollwng i lefaru." Yn hytrach cyfunir hwynt mewn dull tra deheuig. Mae yn eglur fod yr awdwr wedi ymglydnabyddu a'r prif esbonwyr, hen a diweddar, ond wedi gallu "cylla-dreulio" yr oll a ddarllenodd, a doddi arno argraff ei feddwl ei hun; ac y mae wedi llwyddo i fynegu ei feddyliau mewn arddull seml a dilyn, sydd yn gwneyd darlenniad o'r llyfr yn bleserus yn gystal ag yn fuddiol. Hyderwn y caiff y gwaith y derbyniad a haedda oddiar law cenedl y Cymry.

JOHN HUGHES.

* Ephesaid iii. 1-12.

HEN GERDDI Y CYMRY.

X.

596. CAN NEWYDD, o hanes Thomas Morton Williams, o Dref Wellington y 'Ngwlad yr Haf: yr hwn a laddodd ei gariad Harriet Wilson, o'r un lle, ynghyd a'i llawforwyn, mewn modd truenus ac a gladdodd y ddwy yn 'r un bedd, fis Mehefin diweddaf; ac yn ganlynol efe a laddodd ei hun yn y carchar. (Morris Roberts, a'i cant.) Caernarfon, argraffwyd gan P. Evans. [t.d. 4.]

597. CAN DDIDDANOL, sef Cwynfan Serchiadol y Gwr Ieuangc wrth ei Gariad. Caernarfon: argraffwyd gan Peter Evans, yn Heol y Castell. [t.d. 4.]

598. CAN NEWYDD, am Lango Ieuangc a Laddodd ei Blentyn. [Mary Roberts, a'i cant.—t.d. 4.]

599. CAN NEWYDD, o hanes Amrywiol Droion y Byd, sef Twyll, Cynfigen, Ymfroest, &c. Cenir ar "Poor Jack." Caernarfon, Argraffwyd gan Peter Evans. [t.d. 4.]

600. CAN am Ddull y Byd yn yr amser presenol, a'r rhagor oedd y dyddiau gynt. Gan Richard Williams, Bardd Gwagedd Cenir ar "Hob y Deri danno." Llanrwst, argraffwyd, gan J. Jones. [t.d. 4.]

601. CAN NEWYDD, yn gosod allan Ddarostyngiad a Dioddefaint Iesu Grist. J. Jones, argraffydd, Llanrwst. [t.d. 4.]

602. CAN DDIDDANOL, sef Breuddwyd Llangc Ifangc. Llanrwst: argraffwyd gan John Jones. [t.d. 4.]

603. CAN NEWYDD, yn rhoi hanes cyflawn am Gyffesiad Dafydd Evans, am Lofruddiaeth ei Gariad Hannah Davies. Y Llofruddiaeth hon a gyflawnodd ar nos Sadwrn, Mehefin 13, 1829, ar Fynydd Pencareg, ac am ba un ei dienyddwyd yn Nghaerfyrddin, ar yr 21ain o Fedi canlynol. Wrth esgyn o hono y tro cyntaf i'r grogbren, syrthiodd rhyw bethau perthynol iddi, a chwmpodd i lawr, pryd y gwridiodd ei wyneb, ac yr haerai yn ddirifddwys, *nad oedd crogi ddwywaith am yr un trosedd*; eithr bu gorfod arno ail-esgyn i'r pren dyoddef, ac yn fuan trosglwyddwyd ef i dragywyddoldeb. Gan ttephan Jones, Llanfaeryw. Llanrwst: Argraffwyd gan John Jones. [t.d. 4.]

604. CERDD o hanes amgylchiad trwstan rhwng Ffarmwr a Gwraig ei Weithiwr. Cenir ar "Poor Jack." Ywain Meirion, a'i cant. Llanrwst: Argraffwyd gan John Jones. [t.d. 4.]

605. CAN NEWYDD er annogneth i bawb i feindio ei fusnes ei hun. Tôn "Vulcan's Cave." Richard Williams, Bardd Gwagedd, a'i cant. J. Jones, Argraffydd, Llanrwst. [t.d. 4.]

606. DWY GAN: Y gyntaf, Cerdd Ddigrif, am Deulu a golodd rifedi yr Wythnos. Yr ail, Penillion Dyddanus, &c. &c. John Jones, Argraffydd, Llanrwst. [t.d. 4.]

607. CAN NEWYDD, am ddysgwyliaid daionus i'r Cymry, trwy wneuthuriad Ffyrdd Haiarn, trwy y wlad. Gan Ywain Meirion. Mesur, "Belisle March." Llanrwst; Argraffwyd gan John Jones. [t.d. 4.]

608. CAN NEWYDD am y Ffordd Haiarn, o Gaerlleon i Gaerdybi. Cenir ar "Parson Paris." Ywain Meirion, a'i cant. Llanrwst, Argraffwyd gan J. Jones. [t.d. 4.]

609. CAN NEWYDD, sef castiau Robin Dwyllwr. Cenir ar "Rhedwch i'r Odyn." Richard Williams, Bardd y Gwagedd, a'i cant. J. Jones, Argraffydd, Llanrwst. [t.d. 4.]

Yn y diwedd, ceir englyn, fel hyn:—

Dall ydwyf, eto mi dwyllaf,—i gael
Ganddynt goelio d'wedaf,
Dilys myfi a dalaf,—
Ond coeliwch fi'n wir ni wnaaf.

610. CAN DDIGRIF, o ymddiddan rhwng dwy chwaer, sef Sian a Neli, yn nghylch eu gwŷr,—un wedi priodi Oferddyn a'r llall Gybydd. R. Williams, Bardd Gwagedd, a'i cant. Llanrwst, Argraffwyd gan John Jones. [t.d. 4.]

611. CAN o waith awen wyth oed. Ffarwel mab ieuangc idd ei Wlad a'i Gariad. Llanrwst, argraffwyd gan John Jones. [t.d. 4.]

612. CAN y GELTYNEN. Cerdd o hanes Merch i Esquire, yn ymadael â'i gwlad, am na chaf briodi Gwas lifrai ei Thad. Llanrwst, Argraffwyd gan J. Jones. [t.d. 4.]

613. CAN NEWYDD, yn rhoddi hanes Llong ddryllad yr Agerdd-long, neu'r Steam Packet a elwid Rothsay Castle, yr hon aeth yn ddarnau ar y Dutchman's bank, y'nghulfor Menai, ar ei mordwyaeth o Dref Liverpool i Beaumaris, Swydd Fon, borau dydd Iau, y deunawfed o fis Awst, 1831, ac ar ei bwrdd y'nglych chwech ugain a deg o bobl, ac a foddasant oll ond 21ain, pa rai trwy gymmorth Duw a dynion, gobeithio, ydynt yn fyw heddyw. Gan Richard Williams. Ar y Mesur "Diniweidrwydd." Caernarfon, Argraffwyd gan P. Evans. [t.d. 4.]

614. MARWNAD RICHD. WILLIAMS, Dic Dywyll. Neu Bardd Gwagedd. (Goronwy a'i cant). L. E. Jones, Caernarfon. [t.d. 4.]

615. GALAR BACHGEN DALL, o'i enedigaeth, am ei olygon, ynghyd a'i fawr hiraeth am gael gweld rhyfeddodau y greadigaeth. Gan John Evans, Treforys. Caernarfon; argraffwyd gan P. Evans. [t.d. 4.]

616. CERDD ar ddull Marchnad Caernarfon. Mesur—"What will Old England come to." R. Williams, Bardd Gwagedd, a'i cant. Caernarfon, argraffedig gan Peter Evans. [t.d. 4.]

617. DWY GAN NEWYDD. Yn gyntaf, Clod i Ferch Ifangc, sef Jessy o Dumblaine. Yn ail, Sylwiad ar Bleserau pob math o bobl, i'w chanu ar y mesur Rodney's March. Caernarfon: Argraffedig gan Peter Evans, tros Richard Williams. [t.d. 4.]

618. CAN NEWYDD, sef ymddiddan rhwng dwy gymmydoges, un am brioddi a'r llall am beidio; bob yn ail Pennill, sef Gwen a Mari. Gan Richard Williams, Bardd Gwagedd. Cenir ar y mesur elwir "Belisle March." Caernarfon, argraffwyd gan Peter Evans. [t.d. 4.]

619. CERDD NEWYDD, yn datgan Breintiau Trigolion Brydain, y'ngwyneb tywyllwch y Paganiaid. Mesur—"Diniweidrwydd." (Richard Jones, a'i cant). Caernarfon, argraffwyd gan P. Evans. [t.d. 4.]

620. CERDD NEWYDD, o rybudd i Blant Anuffydd, sef hanes Herbert Jones, yr hwn a laddodd ei Dad a'i Fam, ac a dreisiodd y Forwyn gyflog, ac wedi hyn, efe a dorodd ei phen, yn Henffordd; hefyd ei ffôdd i Amsterdam, yn Holland, lle lladdodd ei Feistres, yr hwn a'i dygodd ef i'r crogbren. J. Thomas, a'i cant. Caernarfon: Argraffwyd gan P. Evans, dros Owen Parry. [t.d. 4.]

621. CAN SYLWEDDOL, sef Myfyrdod mewn Mynwent, yn nghyd a Dychymyg am ddull y Meirw yn y bedd. Argraffwyd gan John Jones. Llanrwst. [t.d. 4.]

622. CERDD NEWYDD, sef cyngor y Prydydd i'w Gyfaill, yr hwn oedd wedi bod yn hir yn glaf, ac wedi cael ei ddwyn i'w gynefin iechyd; trwy ei alw i ystyried ei Glefyd ac i ddiolch i Dduw am ei arbed, pan oedd Angau yn cymeryd ei berthynasau o'r un Tŷ. Mesur "Bryniau'r Iwerddon." Caernarfon: Argraffwyd gan Peter Evans. [t.d. 4.]

623. CAN NEWYDD, yn rhoddi hanes am y modd dychrynlyd y darfu Elizabeth Whitehouse, a John Whitehouse, ei Mhab, amcanu torri tŷ Edward Wilding, Yswain, Musnachwr enwog gerllaw Manchester, a bwriadu lladd Mary Spencer, yr hon oedd yn ei wasanaeth, ar nos Iau, yr 28 o Ebrill, 1831. Am hyn eu Dihenyddiwyd boreu ddydd Mawrth, yr 2 o Awst, 1831. Cenir ar "Bryniau yr Iwerddon." R. Williams a'i cant. J. Jones, Argraffwyd, Llanrwst. [t.d. 4.]

624. CAN NEWYDD, yn rhoddi hanes Jane Francis yr hon a ddihenyddiwyd yn Nhref Reading, Berkshire, ar ddydd Sadwrn, Mawrth y Pedwarydd, am lofruddio dau o blant ei merch, sef Ann Francis, ar nos Wener y 10fed o fis Chwefror diweddaf Cenir ar "Bryniau'r Iwerddon." R. Williams a'i cant. T. Price, Argraffwyd, Merthyr. [t.d. 4.]

625. YMDDIDDAN Rhwng Robert a Begi. Cenir ar Triban. [t.d. 2.]

626. CAN NEWYDD, am Wraig a wnaeth ginio o Geiliog, gan ei ferwi heb dynu ei berfedd, na theri ei draed. Cenir ar fesur Cerdd y Gelynen. Glân ei galon a'i cant [t.d. 2.]

627. CAN o ddiolchgarwch i'r Arglwydd am y waredigaeth o ddwyllaw y Ffrancod, pan diriasant yn Mhencaer, Sir Benfro. A gyfansoddwyd gan y Parch Ebenezer Richard. (Gynt gweinidog y Methodistiaid, Tregaron.) Pan yn 15 mlwydd oed. Caergybi: Argraffwyd gan William Jones. [t.d. 8.]

628. CAN NEWYDD, yn gosod allan rai o gastiau dirgelaidd y Titotalls. "Pray what will old England come to." R. Williams, bardd Gwagedd, a'i cant. [t.d. 4.]

629. CAN NEWYDD, yn gosod allan ychydig o lawer o gastiau Llwynogod y Graig Ddrwg. Ioan Glan Prysor, a'i cant. J. Jones, Argraffwyd, Trefriw. [t.d. 4.]

630. CAN NEWYDD, a wnaed gan un a golodd ei arian o boced ei glos. [t.d. 4.]
631. CAN NEWYDD, yn gosod allan y gwahaniaeth rhwng dull y bobl yn eu gwsgiatadau y dyddiau hyn, rhagor y dyddiau gynt. David Jones, Llanybydder, a'i cant. [t.d. 4.]
632. CAN, toriad fy nghoes. Y Dioddefydd a'i cant. [t.d. 4.]
633. CAN NEWYDD, sef dull y Gyfraith yn y Work-Houses newyddion. Cenir ar "Sweet Richard Bach." Richard Williams, Bardd Gwagedd, a'i cant. [t.d. 4.]
634. CERDD NEWYDD, yn rhoddi hanes am Ddynes a achubwyd, mewn modd rhyfeddol, o ddwyllaw rhyw ddihiryn oedd wedi amcanu ei dibennu, trwy ei thafu i *Blackmere*, Pwll o ddwfr dwfn: barna rhai nad oes iddo waelod; mae ynghylch tair Milldir o Leek, yn Staffordshire. Yr hanes a gyfansoddwyd o'r Bedwaredd Gyfrol ar ddeg o'r Eurgrawn, tudalen 159. Cenir ar "Fryniau'r Iwerddon." Ianto Cadfan, a'i cant. [t.d. 4.]
635. CAN NEWYDD, yn gosod allan ychydig o lawer o gastiau Merched Yspytty a Festiniog. I'w chanu ar "Person Paris." [t.d. 4.]
636. Can Newydd, sef, y Newyn Anheimpladwy. Gan W. Bateman. J. Jones, Argraffydd, Llanrwst. [t.d. 4.]
637. CYFFES AC YMYRROST Syr John Heidden. Willam Edwards sef (Gwilym Padarn,) a'i cant. J. Jones, Argraffydd, Llanrwst. [t.d. 4.]
638. CAN NEWYDD, sef achwyniad Shon Morris Griffith, o herwydd iddo briodi gwraig anhrefnus. Cenir ar dôn,—“The Bold Irishman.” R. Williams, Bardd y Gwagedd, a'i cant. John Jones, Argraffydd, Llanrwst. [t.d. 4.]
639. CAN NEWYDD, yn rhoddi hanes am Ficar Llanwyndaf, mewn ymrafael a'i Blwyfolion am ddegwm Bytatws, &c. Cenir ar "Queen Bess." R. Jones, neu Gwyndaf Eryri, a'i cant. [t.d. 4.]
640. CAN NEWYDD, yn rhoddi hanes y modd y darfu Margaret Edwards, o Norwich, amcanu dwyn John Morris, ei gwas, yn enog o ladrad, am na buasai yn ei gael yn briod iddi; am hyn y condemnwyd ef i farw yn y Sesswn ddiweddar; a'r modd y gwaredwyd ef o'i drallod ofnadwy ar y Sed o Fedi. Cenir ar y mesur a elwir "Bryniau'r Iwerddon." Richard Williams a'i cant. Merthyr, Argraffwyd gan T. Price. [t.d. 4.]
641. CAN NEWYDD, am Wr a Gwraig, o Gymru, a gawsant eu barnu i'w dihenyddio am lofruddiaeth a wnaethai un arall ynghyd a hanes dihenyddiad y llofrudd. Caernarfon, argraffwyd gan P. Evans. [t.d. 4.]
642. CAN NEWYDD, yn rhoddi hanes am John Pülpot, yr hwn a laddodd ei Gariad, Mary Jones, a'r modd y parhaodd ef i wadu hyd nes daeth angau ato. Cenir ar "Fryniau'r Iwerddon," Caernarfon: Argraffwyd gan L. E. Jones. [t.d. 4.]
643. CAN NEWYDD, er Coffadwriaeth am Ferch i Ffermwr enwog, yn King's Court, o Blwyf Headland yn swydd Gaerangon, ynghyd a'r Forwyn gyflog, yr hon a gafodd ei denu trwy rym nerthol aur ac arian, yr 28 o Fis Mawrth yn y flwyddyn 1828, a'r Ferch Ieuango a ga's ei dwyn i fyny dan ofal ei Rhieni tirion, heb na chosp na cherydd, o blegid mai hi oedd yr ieuengaf o un ar ddeg o blant. Hithau yn impen ieuengc wyllt o ll hyd yn 17eg oed, yn hollol allan o bob cyngor ei Rhieni, anwyl, nes yn y diwedd iddi feichiogi, a chweddi hyny marw mewn mawr gystudd. A'r Forwyn gyflog, wedi gwasanaethu 5 mlynedd yn y Teulu, a gafodd ei Dienyddio, am losgi yn y tân, Blentyn newydd eni y Ferch Ieuango. Llanrwst: argraffwyd gan J. Jones. [t.d. 4.]
644. YMDYDDAN rhwng dwy Dafarnwraig. I'w chanu ar y Dôn a elwir "Llef Caerwynt." Llopanwr a'i cant. Caernarfon, argraffwyd gan P. Evans. [t.d. 4.]
645. CAN SYLWEDDOL, sef annogaeth i Brydain Fawr i iawn ddefnyddio ei Breintiau Gwladol a Chrefyddol, ac i edifarhau am ei beiau gwaeddfawr. Cenir ar "Bryniau'r Werddon." P. Evans, argraffydd, Caernarfon. [t.d. 4.]
646. Cerdd Newydd, yn rhoddi hanes am ryfeddol ddamwain a ddigwyddodd i Wraig Weddw oedd yn cadw Turmpike, yn Micheldean, yn Sir Gaerloyw; sef y modd y gwaredodd yr Arglwydd ei bywyd trwy ei rhybuddio o'i pherygl mewn breuddwyd. Cenir ar y "Dôn Fechan." Caernarfon: Argraffwyd gan P. Evans. [t.d. 4.]
647. DWY O GANIADAU. Y gyntaf, yn rhoddi hanes am Wragedd a Feldwodd ar Frandi mewn Tea. Yn ail, Can o ymddiddan rhwng Mab a Merch, bob yn ail Penill. John Jones, argraffydd, Llanrwst, [t.d. 4.]

648 CERDD DODREFN TY. I'w chanu ar "Monday Morning." J. Jones, Argraffydd, Llanrwst. [t.d. 4.]

649. CAN Y PRDWAR HEN LANC Cerdd Elen. Mesur—"Loath to depart." [t.d. 4.]

650. DWY GAN NEWYDD, Y Gyntaf, am Gyflawnder Duw. Yr Ail, am Drugaredd Duw. L. E. Jones, Argraffydd, Caernarfon. [t.d. 4.]

651. Can Newydd, yn rhoddi hanes Carwriaeth Joseph Edmunds, ac Anne Morton, o dref Warwick, ynghyd a'r modd dychrynlyd y darfu iddo amcanu ei lladd, a'r hynod waredigaeth a gafodd ef ar ei llaw hi, a'r modd y priodasant ar ddydd Sadwrn, y pedwerydd dydd ar bymtheg o Fedi, yn y flwyddyn 1829. Cenir ar y dôn a elwir, "Parhaed cariad ffyddlon." R. Williams, a'i cant. Llanrwst, argraffwyd gan J. Jones. [t.d. 4.]

652. YR OFERDDYN A'I WRAIG. Cerdd yr Aderyn Du. Llanrwst: Argraffwyd gan J. Jones, dros Catherine Edmund [t.d. 4.]

653. Can Newydd, yn gosod allan. Euedigaeth, Bywyd pur, a dyben dyfodiad ein Harglwydd a'n Hiachawdwr Iesu Grist i'r Byd. Cenir ar y "Dôn Fechan." Richard Jones, Llaullechyd, a'i cant. J. Jones, Argraffydd, Llanrwst. [t.d. 4.]

654. CERDD, yn rhoi hanes am ddau Goliar, brodyr yn sincio, neu yn agor Pwll Glo, yn y Rhos, Plwyf Rhiwabon; wedi iddynt fyned oddeutu deuddeg llath, caodd y Pwll arnynt hyd i'r top. Ewauw y ddau oedd John a William Hughes. Gan Dafydd Jones, Bardd, Rhosllanerchrugog. Llanrwst: argraffwyd gan John Jones 1844. [t.d. 4.]

655. CAN NEWYDD, yn gosod allan flinder Merched Cymru o achos y Militia. [t.d. 4.]

656. CAN yn cynnwys hanes Merchant o Newfoundland, yr hwn roesai ei serch ar Ferch i Farchog, y'nghyd a'r amrywiol helyntion a fu arnynt. Cenir ar y "Dôn Fechan." Caernarfon: argraffwyd gan Peter Evans, tros John Williams. [t.d. 4.]

657. CERDD BRENIN GWLAD SCOTLAND. Cenir ar "Rodney March." Llanrwst; Argraffwyd gan J. Jones. [t.d. 4.]

658. CAN NEWYDD, yn gosod allau deimladau Mab mewn cariad a Merch. Llanrwst: argraffwyd gan John Jones, dros Owen Meirion. [t.d. 4.]

659. CAN, yn rhoi ychydig o hanes yr Ystorm a'r Llif dychrynlyd, yn nghyd a'r Colled o fywydau a meddiannau, a gymerodd le yn siroedd Ceredigion a Meirion, yn niwedd Gorphenaf a dechreu Awst, 1814. Gan Ywain Meirion. John D. Jones, Argraffydd, Llanfyllin. [t.d. 4.]

660. GALAB GERDD er cof-nodi dinystr di-gymar y Llong Ocean Monarch, ar ei mordaith o Lerpwl i Boston, America, Awst 24, 1848, pan y collwyd 178, ac yr achubwyd 218. Cenir ar "Fryniau'r Iwerddon." Ywain Meirion a'i cant.

Dau feistr oedd a duaf wedd,
Gerwin, a di-drugaredd;
Y môr hylig mawr allan,
O'i mewn i'w mysg, terfysg tan.

Treffynon: Argraffwyd gan William Morris, Heol Fawr [t.d. 4.]

661. CAN ALARUS, yn rhoddi hanes y Llofruddiaethau a'r Hunan-laddiad, a gyflawnwyd ar y dydd Iaf o Fai, 1849; yn mhlwyf Llanwenog, sir Aberteifi; gan ddyn o'r enw Thomas Davies, yr hwn wedi lladd ei wraig a'i blentyn 12 mis oed, yn y modd mwyaf barbaraid, a osododd derfyn ar ei fywyd ei hun. [t.d. 4.]

662. CAN NEWYDD, yn rhoddi hanes alarus am Dafydd William a Mari Dafydd; o blwyf Dreletet, yn sir Benfro, pa rai a ddaethaut i ddiwedd truenus yr 20fed o Fawrth diweddfaf: a gyfansoddwyd ganddo ef ei hun, yn y carchar. L. E. Jones, Argraffydd, Caernarfon. [t.d. 4.]

663. Cerdd o Ymddiddan, rhwng hen Wr a Merch ieuanc, bob yn ail odl: Y Mab yn Bedwar Ugain, a'r Ferch yn ugain oed. "Malltod Dolgelleu" Caernarfon: Argraffwyd gan Peter Evans. [t.d. 4.]

664. CAN YSGRYTHYROL, o attebiad i'r Taenllwyf Babanod, mewn Traethiadau a ysgrifenasant, mewn dull o enllib a geiriau celyd am y bobl sy'n myned yn ol gair Duw a'u cydybodau dan yr enw Bedyddwyr, trwy gymeryd Iesu Grist yn siampl, a'i sir yn rheol yn mhob ymarferiad crefyddol; ac nid hên draddodiadau cyfeiliornus Pabyddiaeth. (D. W. a'i cant.) Aberystwyth: Argraffwyd gan James a Williams, dros D.A.—1810.—Pris Ceniog. [t.d. 8.]

665. DRYCH Y BUGAIL DRWO, ar y Mesur Breuddwyd ar ei byd. [1815.—t.d. 4.]

666. GALAR GAN, er coffadwriaeth am un ar ddeg o Bysgodwyr a foddodd ar gyffiniau Aberteifi; pedwar o Landydoch, a saith o Aberporth. Aberteifi, ar-graffwyd gan Evan Jones.—1815 [t d. 4.]

Yn y diwedd, ceir "Englyn i'r Môr," fel hyn:—

Canaf anrhegaf yn rhagor,—un englyn
O anglod i'r ce'nfor,
Hyllt erwyn, a hallt oror
Chweta i mi, chwerau môr.

SION GLANTREPI.

667. DWY GERDD NEWYDD. Yn gyntaf; Hanes Carwriaeth a fu rhwng Mab tlawd, a Merch gyfoethog. Y Mab a Dransportwyd, ac a bressiwyd, ac a ddaeth yn iach adref; creulondeb ei Thad a rwystrodd y garwriaeth, a'r ddaau a dorrasant eu calonnau, ac felly y buont feirw. (Cenir ar Charity Mistress)

Yn ail; Yn gosod allan gyflwr yr Annuwiol a fo'n marw yn ei bechod, (Cenir ar Fryniau'r Iwerddon.)

Caernarfon: Argraffwyd gan L. E. Jones. 1816. [t d. 8.]

668. SESSIWN FAWR CAERNARFON, LLUN Y PASG, 1819. Y gwir yn erbyn y byd: sef hanes fel y ceisiodd Stiwardiaid yr Anrhydeddus P. R. D. Burnell, *Drausfeddiannu, ar gau dystiolaeth*, ran o dir Pencraig, a elwir CEFN LLECHWEDD, oddiar ei gyflawn Aer. Gwrthwynebwyd eu hymgais, gan William Owen, Esq., yr Aer presennol. Ac anudonwyd eu Tystion. Cenir ar Fynediad i'r Tir teg (*Bellisle March*.) Caernarfon: Argraffwyd gan Peter Evans.—1819. [t d. 8.]

Yn y diwedd, ceir dan o "Englynion Unodl Union, i'r unrhyw," fel hyn:—

A welai achau* William—ap Owen,
O! pwy ond llygadgam
Wyar gi, gorgi gwyrgam,
A feiddiai,—a geisiai gam.

Er llid llym, GWILYM a'i gywely—hael
F'o hwylys on'd hyny:—
F'wlys, bod eu hill felly
Tra rhed gloyw dduw'r croyw cry'.

P E ARG.

669. MARWNAD er coffadwriaeth am ymadawiad y Parchedig DAFYDD JONES, LANGANA; yr hwn a hunodd gyda'i Dadau Awst 12, 1810, ac yn 75 o oedran. DIAR. 12, 3. *Onid goraidd y cyflawn nid ysgoga*. Esa. 3. 19. *Dywedwch nas da fydd i'r cyflawn, &c.* A gyfansoddwyd gan y Parchedig John Davies, Conwyl. Caerfyrddiu: Argraffwyd ac ar werth gan Jonathan Harris, yn y Porth-Tywyll, 1811. [t d. 8. Nid yr un yw'r Farwnad hon a'r Farwnad dan rhif 415.]

670. MARWNAD, neu Goffadwriaeth y Brawd Robert Roberts, o Sir Gaernarfon; yr hwn a ymadawodd a'r Byd hwn *Tachwedd* 28, 1802. Yn llawn 40 Mlynedd Oed: Wedi bod yn pregethu'r Efengyl 25 Mlynedd. *Coffadwriaeth y cyflawn sydd fendigedig*. S Lleyrn, a'i cant. Caernarfon: Argraffwyd gan T. Roberts. [t.d. 8.]

671. GALAR GERDD er cof am long ddyrylliad y llong haiarn TATLEUR of Liverpool, a gollwyd ar ei mordaith gyntaf, *Ionawr* 21, 1854 ar greigiau Lambay Island 13 milldir o DUBLIN a 3 o RUSH, pan foddodd 420. Achubwyd 250. Cenir ar "Fryniau'r Iwerddon." Caernarfon, Argraffwyd gan L. E. Jones. Ywain Meirion, a'i cant. [t.d. 4.]

672. Coffadwriaeth am y diweddar WILLIAM DANIEL, gerllaw Capel y Nant, yn mhlwyf Llangian, yn Lleyrn, yr hwn a fu farw Ionawr 27, 1814, yn 66 oed. Gan Richard Jones, Caerau, yn Lleyrn, Athraw Ysgol Sabothol. Cenir ar Ddiniweidrwydd, neu Hyd y Frwynen Lâs. I. Davies, Argraffydd, Trefriw. [Y mae'r "Coffadwriaeth" hwn yn cael ei ddilyn â phenillion cyfleithiedig o'r Seisnag ar y testyn "Llywodraeth ac Arfaeth Duw."—t d. 8.]

673. MARWNAD, er coffadwri eth am y Parch. John Griffiths, PREGETHWR DIERENTER, y' Nghaernarfon; yr hwn a ymadawodd a'r byd hwn, mewn llawn obaith o adgyfodiad llawen, Chwefror 13, 1818. Gan Richard Jones. Caernarfon: Argraffwyd gan R. a W. Williams. Gwerth Dwy Geiniog. [t.d. 12.]

674. CAN NEWYDD, yn gosod allan am y ddamwain ryfeddol a galarus hynny a gymerodd le yn gwaith glo PENTRE 'B FRAM, plwyf Gwrecsam, Medi 27, 1819. Cenir ar y mesur a elwir Diniweidrwydd. [t.d. 4.]

* William ap John a John ap Owen ap Thomas ap Owen ap William ap Owen ap Hugh ap Ieuan ap William Probert, a ddaeth i'r lle yn y Bedwaredd gan'f ar ddeg.

675. CAN am Lwyddiant yr Efengyl, ymhlith y Paganiaid, yn nghyd a Dymuniad am Gwypm GAUDDUWIAETH. *Iw chanu ar y mesur "Mentra Gwen."* Llanrwst: Argraffwyd gan J. Jones. 1830. [t.d. 4.]

676. CAN AM Y FARN DDIRWEDDAR. Cauys daoth dydd mawr ei ddigter ef; a phwy a ddichon sefyll? . . . DAT. vii. 9. (Z. Davies a'i cânt.)

Aberystwyth, argraffwyd gan James a Williams. 1809. [t.d. 8.]

677. CAN DDUWIOL; sef Damneg y Gwr Goludog a Lazarus y Cardotyn. Dafydd William a'i cânt. Aberystwyth: Argraffwyd gan James a Williams, dros D. Amos. 1810. [t.d. 4.]

678. CERDD Y WINLLAN: Allan o Mat. xx. 6. "Pa'm y sefchwch chwi yma ar hyd y dydd yn segur?" Gan Robert Evans, Meifod. Pris Ceiniog. Aberystwyth, Argraffwyd gan James a Williams 1811. [t.d. 8.]

679. CAN DDUWIOL, am Ddychweliad y Mab Afradlon; er annogath i ddychwelyd at Dduw. Gan Dafydd Jones, o Gayo. Aberystwyth, Argraffwyd gan James a Williams. 1811. [t.d. 4.]

680. MWRDAD Y MEISTR A'B GWAS, yn Sir Mwythig. S. Williams, Argraffydd, Aberystwyth. 1813. [t.d. 4.]

681. MARWNAD, er coffadwriaeth am y Parch. John Jones, Gweinidog yr Efengyl yn Nebo a Hebron, swydd Caernarfon, yr hwn a fu farw Medi 3ydd, 1827. Caernarfon, argraffwyd gan Peter Evans. [t.d. 4.]

682. Gwyrthiau ein Harglwydd Iesu Ghrist wedi eu troi ar Gân, ar y Dôn a arferir mewn Eglwysi. [t.d. 8.]

683. PEDWAR O GANUEU AR amryw Desdunion. Y cyntaf yn erbyn rhyw WR annuwiol. Yr ail, yn dadgan beieu'r Byd. Y trydydd, i'r un Defnydd. Y Pedwerydd, yn adrodd gwaeau yn erbyn amryw Bechaduriaid.

Adrodd y Gwir, drwy Dduw gaf,

Ar y byd; ni arbedaf.

Ar y Gwir mae rhagoriaeth:

O'm lleddir am Wir, ba waeth?—Ieuan Tew.

Conscius ipse sibi de se patet omnia dici.

Printiedig yn Llundain, yn y Flwyddyn, M, DCC, XVIII [t.d. 16.]

684. TAIB O GERDDI DIDDANOL A DIGRI. Yn Gyntaf, Cwynfan Gwr a golodd i gloxig, gida gweddi fer i'r rhai ai heudde ar Gini Windsor. Yn Ail, Cerdd Ddigrî ar y Byd yn troi ei droed i fynu. Yn Drydydd, Cerdd o fawl i Frenin Prwsia. [t.d. 4.]

MYRDDIN FAEED.

YMSON UWCH BEDD.

CLOCHYDD, agorydd gweryd—ar ei waith

Goffhâ'r wers anhyfryd:

"Yma ninnau mhen ennyd

Dan y llaid down—llêd a hŷd."

Twrw'r lem big yn torri—annedd bridd,

A hwb y rhaw'n codi

Y rhydd farl, a ngyrrodd fi

I ystyried fy stori.

Byw ydym mewn anwybodedd—o'r dydd

A'r awr daw ein diwedd,

Na'r eiliad try marwoledd

Adre bawb drwy adwy'r bedd.

Dyn a'i fer oes, eda wan frau—ydynt,

Bob adeg yn ddiau;

Ond rhynged *nwyd* yr Angau,

Tro yn ei ddwrn tyr hi'n ddau.

Y *fyw* ran, at Ef a'i rhoes—e a âd
 Ehedeg i'w heiloes ;
 A'r *farw* ddarn o'r fêroes
 Gêl tan y clai—tÿn y'i cloes.

Yng ngraiian maes os llwgr anmhûr—yw rhan corff,
 Er hyn cawn y cysur,
 Na etyl fferyll Natur
 Ddod i'r bedd i'w droi i bur

Filfyw uniad elfennol,—wna rhyw waith
 Mewn rhyw wêdd dymhorol,
 Nes pob darn i'w lÿs barnol
 Fo i law Naf hel yn ol.

Terfyn ar y daearol—yna geir,
 A'r hen gorff anianol
 Newidir yn gorff ysprydol,
 Ar amnaid ag enaid i'w gôl.

Ar un ac oll udgorn a gân,—olaf
 Alwad Duw ei Hunan ;
 Ofer mwy i fawr a mân
 I gael aros o'i glorian.

A chlorian teg ei fantol—y ceir hwn,
 A'r Pwysydd craff Dwyfol—
 Uniawn ei waith—rydd ini'n ol
 Ein haeddiant o'r stâd dragwyddol.

Oll eneidiau'n llawn hyder,—wyl agwedd,
 Lewygant gan bryder,—
 Ai aswy ai dê, pan bwysr,—
 Eu rhan a â ynghlorian Ner ?

Awr dywell! er gwell er gwaeth,—awr i ddweyd,
 Un o'r ddwy ddedfrydaeth—
 Ai gwynfyd hyfryd di-aeth,
 Ai eiloes lawn o alaeth !

ISALLT.

YR YSGOL HAF YM MANSFIELD.

II.

Y MAE hanner y darlithwyr eto heb eu crybwyll.

Darlithiau da ymhob ystyr, cryno, a hawdd eu gwrandaw, oedd tair darlith y Proffesor Massie ar Hanes Beirniadaeth y Testament Newydd. Ac os tybia rhai mai ar grwydr y mae beirniadaeth yr Hen Destament ar hyn o bryd, fe gytunai pawb, tybed, mai ar y ffordd adref y mae beirniadaeth y Newydd. Ymddengys fod beirniaid mwyaf eithafol y Cyfandir, bellach, yn prysur gasglu, lle y bu eu blaenoriaid chwarter canrif yn ol yn gwasgaru. Yn yr Almaen, yn bennaf, fel y gwyddys, y mae hanes beirniadaeth y Testament Newydd. Nid oes dim llawer o newid wedi bod ar farn y beirniaid Seisnig yn y maes hwn. Hwyl sydd

wedi bod, trwy'r blynyddoedd, yn geidwaid yr athrawiaeth; ond y syndod yw, gweld yr Almaenwyr yn dyfod yn ol yn lled llwyr, bron i'r un fan a hwythau. Y mae Harnac a Weiss wedi hen adael tir Baur; ac y mae Pfeiderer yn llacio ei afael ar syniadau ysgol feirniadol Tubingen. A phob tro, braidd, y newidia y dysgawdwy'r hyspiau barn ar amseriad ac awduriaeth y llyfrau, odid fawr nad yng nghyfeiriad barn gyffredin Cred y symudant.

Ni ddywedodd y Proffesor fawr ddim am Efengyl Ioan. Y mae y pynciau mewn dadl ynghylch honno heb en llwyr benderfynu. Am yr Efengylau ereill, yr ydys yn awr yn rhoi'r ddiweddaraf o honynt,—heb fod yn gwbl gytûn pa un ydyw honno,—rywle tua'r flwyddyn 80 O.C., lle y byddai llawer, bum mlynedd a'r hugain yn ol, yn eu rhoi i gyd tua chanol yr ail ganrif.

Dyma'r farn gyffredin am eu deunydd a dull eu cyfansoddiad. Rhowd rhyw ffurf ar hanes Iesu Grist yn fore iawn, ar lafar, o bosibl, ond yn llawer tebycach mewn ysgrifen. Y mae hwnnw gennym ni, at eu gilydd, yn Efengyl Marc; ac nid oes ym Marc, oddieithr y deuddeng adnod olaf, ond ychydig iawn heblaw y traddodiad cyntefig a gydnabyddid yn bur gynnar gan y disgyblion fel un cywir. Ond ysgrifennwyd llyfrau ereill yn lled gynnar hefyd,—rhai o honynt, beth bynnag, gan lygad-dystion (Luc i. 1). Un o'r rheiny oedd y wedd wreiddiol ar Efengyl Matthew, llyfr Hebraeg, yn cynnwys ymadroddion yr Iesu, ynghyda rhyw linyr o hanes, yn dangos y cysylltiadau. Dyna, fel y tybir, y llyfr coll a elwir y *Logia*, neu yr "Ymadroddion." Cyfieithwyd hwnnw, gyda rhyw ychwanegion, i'r Groeg. Dyna Efengyl Matthew, fel y mae hi gennym ni. Y mae y cyfieithiad yn un cynnar iawn. Nis gall fod yn ddiweddarach nag O.C., 80. Y mae y gwreiddiol bymtheg neu ugain mlynedd yn hŷn. Syniad y beirniaid ar hyn o bryd yw, mai hwnnw sy'n waith Matthew ei hunan, a'r cyfieithiad yn waith rhywun arall, ond rhywun perffaith gydnabyddus â'r amgylchiadau ac â'r tystion cyntaf. Tybir i Luc ddefnyddio y *Logia*, ynghyda'r llyfr oedd yn gyfystyr â chorff yr Efengyl yn ol Marc,—nid o angenrheidrwydd yr Efengyl honno fel yr ysgrifennwyd hi gan Marc,—y llyfr hwnnw y rhan amlaf; canys â Marc y mae Luc yn cytuno amlaf air am air. Ond rhaid fod gan Luc ddefnyddiau ereill at ei law, oblegid y mae darn mawr ynghanol ei Efengyl ef, heb fod yr un darn cyfan, o ddim maint, yn ateb iddo ym Matthew na Marc; a chytuna hyn yn gwbl ag awgrym Luc ei hun, ddarfod iddo wneyd defnydd o bob peth oedd yn ei gyrraedd. Nid oes neb yn ameu nad Luc, cydymaith Paul, a ysgrifennodd y llyfr sy'n dwyn ei enw; ac y mae hynny cystal ag addef fod y llyfr yn un pur gynnar. I'r fan yna y mae beirniaid Germany wedi gallu dyfod yn lled gytûn, trwy gymorth dyfynion o'r Tadau, ond yn enwedig trwy gymharu yr Efengylau â'u gilydd. Y mae y mân wahaniaethau fyddai'n blino yr hen gysonwyr, yn fiasus fwyd gan y rhain, o herwydd fod y mân anghysonderau hyn yn rhoi modd iddynt fynd at wraidd yr hanes, a gwybod yn ddiameu pa goel sydd arno. Yn awr pa mor groes bynnag i deimlad yw eu gwaith yn trin yr Efengylau fel yna, nis gall yr un driniaeth fod yn fwy o ogoniant i'r Efengylau eu hunain yn y pen draw.

Yr un tro, fyth, fu ar feirniadaeth gyda golwg ar yr Epistolau. Bu adeg pryd yr oedd beirniaid y blaidd newydd i gyd yn dal na ysgrifennodd Paul ddim ond Epistolau y Ddadl: Galatiaid, Rhufeiniaid, 1 Corinthiaid, 2 Corinthiaid. Nid oedd y lleill yn dargos digon o lymder at y gau

athrawon Iuddewig, i fod yn waith Paul; fel pe mai nid plannu, ond lladd chwyn, fuasai gwaith mawr bywyd yr Apostol. Bellach, ymhen tipyn gydag ugain mlynedd o amser, y mae y to presennol o feirniaid, yn yr ysgol newydd ei hunan, yn tueddu yn gryf i briodoli y cwbl i gyd sydd dan ei enw, i Paul, oddi eithr yr Epistolau Bugeiliol, a'r Epistol at yr Hebreaid, wrth gwrs. Ac am yr Epistolau Bugeiliol hefyd, tybir fod darnau helaeth o'r rheiny yn waith Paul. Er engraifft, dyna'r unig ddau ddarn o'r Epistol at Titus, a ddyfynnir yn fynych iawn heddyw ar bynciau o athrawiaeth,—diwedd yr ail bennod a dechreu y drydedd,—yn waith Paul tu hwnt i ddadl; ond fod rhywun, yn ol y dyb yna, wedi eu gwau i mewn i epistol diweddarach o'i waith ei hun. Felly dyna fyssedd y cloc wedi mynd yn ol, bron iawn, i'r lle yr oeddynt hanner canmlwydd yn ol.

Byddai yn anfaddeuol mynd heibio heb rywfaint o sylw ar ddarlithiau y Dr. Sanday, y pump cyntaf ar Ddadblygiad Duwinyddiaeth Paul. Nodai ryw bedwar cyfnod. Y cyfnod Iuddewig oedd y cyntaf,—erlid yr eglwys. Wedyn y cyfnod ynghylch ei droedigaeth, pryd y rhoddodd bethau yr hen grefydd ar y cyfan i fyny. Eithr mawr bwys y cyfnod hwn yw, mai dyna'r adeg y ffurfiwyd ei syniadau cyntaf fel duwinydd efengylaidd. Yn awr yr oedd rhai o'r rheiny yr un ag oedd ganddo o'r blaen fel Iuddew. Er esiampl, y mae ôl addysg y Rabbiniaid ar ei ddull o ddefnyddio ac esbonio yr Hen Destament. Ceir mwy nag un engraifft o hynny yn y drydedd bennod o'r Epistol at y Galatiaid. Y pennaf o'r cwbl yw y trydydd: cyfnod yr Epistolau at y Thessalonïaidd, y Galatiaid, y Rhufeiniaid, a'r Corinthiaid, pryd y ffurfiwyd y rhan fwyaf o'r golygiadau a nodwedant ddysgeidiaeth yr Apostol. Yr oedd gan y darlithydd ddarn hir ar y pen yma, go debyg i'r *Hyfforddwr*, darn led elfennol fel y cwynai rhai; eithr dylid cofio ddarfod i'r darlithydd ei hun roi rhybudd mai felly y byddai hi. "Mi wn," eb efe, "y byddwch chwi yn siarad am y pethau yma lawn cyn amled a minnau; ond chwi faddeuwch i mi am fynd dros y tir er mwyn bod yn gyflawn."

Yr oedd rhyw gysur—hunanol o bosibl, ond sylweddol yr un pryd,—gael clywed gan ysgolhaig, gyda'r goreu yng Ngroeg y Testament Newydd, fod Protestaniaid ar y cyfan wedi iawn ddeall prif syniadau yr apostol Paul; fel y rhaid i'r sawl a wado athrawiaeth maddeuant mewn lawn, ac amryw o'r pethau a greidir yn ddiameu yn ein plith, fod yn barod i wadu awdurdod Paul fel dehonglydd Efengyl Iesu Grist. Wrth gwrs, nid yw hynny yn ddigon i brofi mai ni sydd yn ein lle, a hwythau o'u lle. Y cwbl y mae yn ei brcfi yw, mai ni sydd yn apostolaidd; neu mai ni, a siarad yn fanwl, sy'n dilyn Paul. Ond wedi'r cwbl, rhaid i baw addef, ar wahan i unrhyw syniad am ysbrydoliaeth, fod barn Paul yn annrhaethol bwysig ar y gwirionedd fel y mae yn yr Iesu.

Yn y cyfnod diweddaf,—cyfnod yr Epistolau at y Philipiaid, yr Ephesiaid, y Colossiaid, Philemon, Timotheus, a Thitus,—nid oes dim llawer o ddim newydd, namyn ymagoriad addfed y syniadau oedd gan yr Apostol o'r blaen. Y peth mwyaf newydd, fe allai, yn y cyfnod hwn yw y syniad am yr Eglwys. Am yr "eglwysi" y sonnir o hyd yn y llythyrau boreuaf, ond am yr "Eglwys" yn y rhai diweddaf hyn.

Aeth y Dr. Sanday trwy y maes yn gynt nag y lluniasai fynd, a gorfennodd ar bum darlith. Trwy fod y chweched darlith yn rhydd ganddo i'r peth a fynnai, rhoddodd i ni fraslun hynod o gryno o hanes

Beirniadaeth Ysgrifau y Testament Newydd. Dywedodd wrthym y mentrai efe siarad hon, yn lle ei darllen yr un fath a'r lleill,—peth, eb efe, na byddai byth braidd yn ei wneyd, ond ei fod ar hynny o dro wedi ennill digon o ymddiried yn ei gynulleidfa i allu anturio. Dyma'r ddarlith fwyaf newydd drwyddi, a mwyaf dyddorol o'r chwech.

Y syniad fyddai, fod lliaws yr ysgrifau, pan gytunent â'u gilydd, yn torri pob dadl. Gwnaeth Tischendorf ar y Cyfandir, a Thregelles yn y wlad yma, lawer o waith mewn casglu a chymharu yr ysgrifau hynaf; ond i Westcott a Hort y mae y clod o ddisgyn ar drefn hwylus i fynd ynghylch y gwaith. Tra mai Ellmyniaid sydd wedi rhoi mwyaf o lawer o symbyliad i feirniadu deunydd y llyfrau, dau Sais sydd ar y blaen mewn chwilio hanes yr ysgrifau. Cael hanes yr ysgrifau oedd y pwnc mawr ganddynt hwy, at benderfynu faint o goel i'w roi arnynt. Nid yw fod lliaws o ysgrifau yr un ffordd yn profi dim byd; oblegid gall fod yr ysgrifau hynny oll yn gopïau o'r un un. Y tebyg yw fod yr ysgrifau hen iawn yn o'ychydig. O herwydd hynny y mae yr ysgrifau sydd yn ein cyrraedd ni—nid yw y rhai hynaf, ar gael,—yn ymrannu, o'u chwilio a'u cyferbynnu, yn deuluoedd. Tri chýff o bwys sydd o honynt: y Syriaidd, yr Alexandriaidd, a'r Lladinaidd, yr hwn a elwir felly, nid o ran fod dim Lladin yn yr ysgrifau, bid siwr, ond am mai ymysg yr eglwysi Lladinaidd, yn ol pob tebyg, y lledaenwyd hwy fwyaf. Nodwedd y dosbarth Lladinaidd yw, natur egluro ac ymhelaethu, yn lle copïo yn fanwl. Er mai'r Gorllewin bia'r dosbarth hwn o ysgrifau, danghosant gryn gydnabyddiaeth â'r Hebraeg ac â daearyddiaeth gwlad Canaan. Hynny yw, lle mae'r ysgrifau hyn yn gadael y testun tebycaf o fod yn gywir, y maent yn gwneyd hynny er mwyn unioni gair Hebraeg, neu awgrymu rhyw fanylion daearyddol na farnai yr ysgrifenywyr yn angenrheidiol eu rhoi. Am y dosbarth Alexandriaidd, drachefn, natur newid mân bethau sydd ynddynt hwy, er mwyn cywirdeb gramadegol. Y mae yr ysgrifau Syriaidd, wedyn, yn deithol newidiau o'r Lladinaidd a'r Alexandriaidd, yr hyn sy'n awgrymu fod y rheiny, o ran eu gwreiddyn, yn hŷn na'r rhai Syriaidd, er fod y copïau sydd ar gael cyn hyned ymysg y rhai Syriaidd ag ymysg y lleill.

Ond pa fodd y gwybyddir i ba ddosbarth y mae ysgrif yn perthyn? Nid yw'r man y cawd hyd iddi, goel yn y byd; canys bu llawer iawn o symud ar lyfrau yn yr hen amseroedd. Tri choel sydd gan Westcott a Hort; hen gyfieithiadau, dyfynion gan y Tadau Eglwysig, ac yn bennaf oll testun yr ysgrif ei hunan. Y gwallau sy'n rhoi mwyaf o oleu. Nid yw fod adnod wedi ei chopïo yn gywir mewn amryw ysgrifau yn profi dim perthynas neillduol rhwng yr ysgrifau hynny; ond pan y mae adnod wedi ei *cham*-gopïo mewn amryw, a'i chopïo yr un fath ynddynt i gyd, dengys hynny eu bod yn perthyn i'r un cŷff. Yr un fath am y Tadau a'r cyfieithiadau; bwriwch fod dyfyniad gwallus, neu gyfieithiad sy'n tybio testun gwallus, dyna brawf fod y testun hwnnw yn hysbys ac arferedig yn y gymdogaeth honno.

Y mae rhyw ychydig o adnodau eto na ellir cwbl sicrhau pa beth yw y testun cywir am danynt; ond ar ol yr holl fanwl chwilio, ni a allwn fod yn bur dawel fod y Testament Newydd gennym, yn gyfan o fewn dim, fel yr ysgrifenydd ef gyntaf.

Wel, rhaid canu yn iach ar hyn o dro i'r Dr. Sanday, un o'r athrawon mwyaf gostyngedig a hynaws a geir yn un man. Efe a Driver, debyg, ydyw y ddau Offeiriad gyntaf yn hanes Rhydychain sydd

wedi darlithio i gynulleidfa o Bregethwyr Ymneillduol; a gellid meddwl arnynt, fod pob un o'r ddau yn ei chyfrif hi yn fraint. Y fath newid! Nid oes fawr er pan oedd Rhydychain yng nghau rhag Ymneillduwyr, oddieithr iddynt droi yn Eglwyswyr.

Yr oedd tair darlith y Principal Edwards gyda'r rhai mwyaf ysgolheigaidd o'r darlithiau oll. Fel y dywedwyd y tro o'r blaen, yr ydys yn ei basio ef a Dr. Bruce yn lled ysgafn, heb roi iddynt y lle a haeddai y ddau ddyn a'r ddau bwnc, o ran fod y ddau yn hwylio cyhoeddi ffrwyth eu hymchwiliad rhag blaen.

Yn y ddwy ddarlith gyntaf, nid oedd y Principal ddim cystal ag ef ei hun. Llefarai yn lled gyflym a di-bwyslais, peth mor annhebyg iddo ef. Heblaw hynny, yr oedd y mater braidd yn dameidiog,—esbonio yma ac acw yn yr Epistol at yr Hebreaid. Nid oes eisieu dweyd,—ac nid oedd dwy farn yn Rhydychain ar hynny,—fod y darlithiau yn rhai da dros ben; eithr pe buasai y Principal, nid ar ei oreu, ond fel y bydd efe yn gyffredin, buasai, mewn rhyw bethau, yn rhagori yn hawdd ar y dysgawdwyr oll. Ar wahân i'r cyffro a'r tân a fydd ynddo ar brydiau, y mae efe yn ei gywair tawelaf yn meddu dawn na fedd ond ychydig mo honi, i beri i ddwyser ei argoeddiadau o'r gwirionedd effeithio yn uniongyrchol ar ei ddull o lefaru.

Yn ei ddarlith ddiweddaf, pa fodd bynnag,—y ddarlith ar Pwy oedd awdwr yr Epistol,—yr oedd y darlithydd llawn cyfuwch & yniadau ei wrandawr am dano; ac y mae hynny yn ddweyd go fawr. Buasai honno, ymhob ystyr, yn llwyddiant perffaith, oni bai ddyfod rhyw dynnwr lluniau yno, a dyrysu'r drefn. Aeth hwnnw a'r amser, fel, erbyn i'r ddarlith ddechreu, yr oedd y dynion yn dechreu chwalu, a llawer o honynt yn gorfod hwylio adref, am ei bod hi'r diwrnod olaf o'r Ysgol Haf. Dyma'r peth goreu a glywais i yn unlle ar gwestiwn yr awdwr-iaeth. Nid oedd y Dr. Edwards yn rhoi barn bendant ar y pwnc. Y mae y profion oddi allan yn gogwyddo yn gryf at Barnabas, ond y profion oddi mewn at Apolos. At Apolos y mae gogwydd y darlithydd ei hun fwyfwy o hyd; ond y cwbl y gellid bod yn bur sicr o hono yw, mai nid Paul a ysgrifennodd y llythyr.

Ond beth, meddai llawer Cymro, beth well ydym ni o benderfynu mai nid Paul yw yr awdwr, yn enwedig os na allwn ni benderfynu pwy? Yr ateb i hynny oedd hyn, ac y mae yn eithaf digon o ateb, nid yn unig ar y pwnc yma, ond ar lawer pwnc cyffelyb: Y mae y golygiad nacäol, heb ddim pellach, yn werth dyfod iddo, er mwyn rhwyddhau'r ffordd i egluro geiriau ac athrawiaethau y llyfr. Llawer camsyniad sydd wedi llechu yng nghysgod y gred fod y llyfr yn waith Paul. Nid oedd dim amser mewn ddarlith i fynd ar ol y mater; ond daeth i'm cof wrth wrandaw, rhag blaen, rywbeth o waith y Principal ei hun ar y mater. Clywais ef yn dweyd mewn pregeth dro yn ol, mai un rheswm cryf dros feddwl mai rhywun heb law Paul oedd yr awdwr, ydoedd hwn, Fod y llythyr yma yn defnyddio termau duwinyddol mewn ystyr wahanol i'r un a roddir iddynt gan yr Apostol Paul. Er engraifft, wrth "sancteiddio" yn y llythyr at yr Hebreaid, y golygir glanhau ar dir cyfraith, clirio, maddeu. Neu, cymerwch esiampl arall, o'r Esboniad. Am a wn i nad y Principal Edwards sydd yn torri'r ddadl oreu o neb, yn y darn dyrys hwnnw o'r chweched bennod, a dyna ei eglurhad ef: Nad yw yr awdwr yno yn cadarnhau nac yn gwadu yr athrawiaeth o barhad mewn gras. Nid oedd y cwestiwn hwnnw ddim wedi codi yn ei feddwl. Yn awr

beth sydd wedi pəri i bawb, braidd, feddwl y rhaid fod a fynno yr adnodau yna ag athrawiaeth nad oes a fynno'r adnodau, yn uniongyrchol felly, ddim yn y byd a hi? Dim yn ol y dyb mai Paul yw yr awdwr. Gan fod Paul yn dysgu parhad mewn gras yn yr Epistol at y Rhufeiniaid, naturiol oedd disgwyl cael yr un athrawiaeth, dan y wyneb os nad ar y wyneb, yn yr Epistol hwn hefyd, os Paul oedd yr awdwr. Felly y mae aml i bwnc tebyg i bwnc yr awduriaeth, a allai edrych yn rhywbeth cywrain, a dim arall, yn dyfod, o'i chwilio, yn un ymarferol iawn.

Gan y Professor Bruce cawd chwe darlith ar "Fonedd Cristnogaeth," *Christian Origins*. Aeth dros rywfaint o'r un tir â Marcus Dodds. Ymdrinai â'r cychwynion cyntaf y tyfodd Cristnogaeth o honynt,—hanes Iesu Grist, ei honiadau fel Messiah, ei farw, ei adgyfodiad, a syniad y disgyblion boreuaf am dano. Atebai wrth-ddadleuon Rhesymolwyr ac ereill yn erbyn dilysrwydd yr hanes, a phriodoldeb y lle a roddir i berson a gwaith yr Arglwydd Iesu yn syniadau duwinyddol Cred. Gwnai hyn, bob gafael, yn finio ac yn fedrus. Un o'i hoff ddulliau o drin y gwrth-ddadleuon oedd dangos, mai symud, ac nid diddymu yr anhawster y mae yr esboniad a ddyry gwrthddadleuwr ar yr hanes.

Y mae rhai o'r ymosodwyr yn addef fod yr Iesu yn ddi-bechod, ond yn gwadu ddarod ei eni Ef o forwyn. Nid yw hyn, meddai y Dr. Bruce, ond addef y wyrth foesol, er mwyn gallu gwa'u y wyrth naturiol. Y mae y wyrth yn aros, ond fod ei lle a'i nodwedd hi wedi newid; canys pa un ryfeddaf, y geni o forwyn, ynte'r cymeriad perffaith ddi-bechod ar wahan i'r enedigaeith honno? Nid yw yr esboniad newydd ddim yn esbonio'r rhyfeddod mwy na'r hen.

Yr un fath am esboniad Keim ar adgyfodiad yr Iesu,—un o'r amryw esboniadau a gynhygiwyd o bryd i bryd i osgoi credu mewn adgyfodiad llythrennol,—nid yw hwnnw yn diddymu yr anhawster. Y mae ei syniad ef mor anodd ei gredu â'r syniad cyffredin. Dyna syniad Keim, mai yr Iesu ei Hun a barodd yr argraff ar feddyliau y disgyblion eu bod yn ei weled Ef, ond mai nid ymddanghosiad llythrennol mewn corff oedd hynny. Math o delegram o'r byd ysbrydol oedd ymddanghosiad yr Iesu iddynt, tebyg i'r cymundeb rhyfedd yr honna ysbrydegwyr ein dyddiau ni ei sefydlu rhwng y naill ddyn a'r llall; peth llawn mor anodd ei goelio â'r hanes plaen, ac anos hefyd, o gymaint a'i fod yn groes i'r Efengylau.

Darn da iawn oedd y darn ar y modd yr enillid dynion i gredu yng Nghrist yn yr oes apostolaidd,—credu yn ei fywyd a'i gymeriad iddechreu, ac wedyn yn ei adgyfodiad ac yn rhin ei angen. At eu gilydd, nid ar unwaith, ond yn raddol yr addfedai ffydd dynion ynddo fel Gwardwr. Fel yna y rhaid iddi hi fod yn aml eto. Rhaid i gynnwys ffydd dyn addfedu trwy gyd-dyfu â'i adnabyddiaeth o'r person. Y mae ffydd anaddfed, egwan, ac anghyflawn, yn llawn tebycach o gadw dyn, na'r ffydd sydd yn gynwysedig mewn credu'r cwbl rhag blacn, rhag ofn marw yn annuwiol.

Gwr yn dechreu heneiddio yw y Dr. Bruce, addfed iawn ei olygiadau, llawn teimlad hefyd, ond fod y teimlad yn ei bethau, yn fwy na'i ddull. Mae yn torri geiriau yn dlws ryfeddol; digon o acen gynbefin ei wlad i roi min ar ei barabliad, a dim chwaneg. Gyda hyn, y mae ei arddull yn ystywyth, lifeiriol, ac eto yn chwyn; ei ddywediadau yn fyw o graffder trwyddynt, a rhyw naws ddirgrif, weithiau, yn llechu ym môn ei lais. Yr oedd y darlithiau hyn yn fwy dwysedig nag y bydd ei bethau ef yn

gyffredin. Natur son ar y mwyaf am beth cyn ei ddywedyd fydd ynddo ef weithiau; ond nid oedd dim o hynny y tro hwn; a'r tro hwn, fel bob amser, disgynnai yn bur noeth ar ei bwnc wedi dyfod ato. Cyfrifid ei ddarlithiau ef, yn bur sicr, mwyaf y rhai goreu o'r darlithiau oll.

Nid oedd y Dr. Fairbairn mor glir ac olrheinadwy â Dr. Bruce. Ei glud a lwythid yn drwm. Amcanai fynd dros lawer o dir, ac ymhyfyrdai, fel arfer, mewn gosodiadau cyffredinol. Osgöai ddweyd peth yn yr un geiriau ddwywaith, er dweyd peth i'r un perwyl lawer gwaith. Bwriwch ei fod yn rhannu ei bwnc, ac wedyn yn trin yr adraunau bob yn uu; un o ddeg y bydd iddo enwi pen yn yr un geiriau yr ail waith ag oedd ganddo yn nodi y pen y tro cyntaf. Y mae hynny yn burion mewn ysgrif, i osgoi beichio'r darlennydd â gormod o ail-adrodd; oblegid mewn ysgrif gall y darlennydd droi'n ol i edrych pa le mae'r ymresymiad yn sefyll; ond mewn araeth, dylid gwneyd y gwaith hwn dros y gwrandawr trwy ail-ddweyd yn fynych. Yr oedd cryn synwyr, wedi'r cwbl, yng ngeiriau llanw yr hen bregethwyr,—“I beth ydech chi'n deyd peth fel yna, meddai rhywun?”—ac yn y blaen; helpent gof y gwrandawr i ddal gafael ar llythrennau yr ymresymiad. I'r un diben fe ddylid, wrth iarad, nodi'r symudiadau yn bur groew. Pawb ei ddull ei hun at hynny; ond rhaid ei wneyd. Dull Joseph Thomas fyddai gollwng ei lais i lawr gyd a mymryn o oslef, yna, wedi sefyll moment neu ddwy, ei godi yn sydyn ac yn iach,—“Ond i mi adael hwna,

.....” Ni raid wrth hyn wrth ysgrifennu, am y gall y darlennwr weld ar unwaith pa le y mae'r paragraff yn terfynu. Yn awr nid oes gan Fairbairn unrhyw glawdd terfynu ond y geiriau “Mark you,” neu “Mark this.” Y mae ei lais yn galed ac undônog, yn grymuso heb ystwytho, ac yn twynnno heb doddi; ond fe gaiff y Doctor trwy'r cwbl, at ddiwedd ei araeth, weithiau, ryw bum munud o wir hyawdledd. Y pryd hwnnw bydd tinc o hyfrydwch buddugoliaeth yn ei bwyslais miniog, swm brathu gafael, fel pe bai wedi torri grym yr anhawsterau, swm y teimlad hwnnw fydd dyn yn ei gael wrth gerdded mynydd, wedi cefnu gwahaniad y dwr. Y mae ei frawddegau miniog, weithiau, yn glynnu yn rhyfeddol yn y cof. Y mae y glec o gyferbyniad sydd ynddynt yn help mawr i hynny. Am ei ddoniau athronyddol, nid oes eisieu son. A oes rhyw wr o Brydeiniwr wedi llwyddo cystal ag ef, neu yn agos i gystal, mewn cymhwyso yr athroniaeth oreu,—nid at dduwinyddiaeth, y mae llawer wedi gwneyd hynny, ond at hanes duwinyddiaeth. Mewn duwinyddiaeth hanesyddol, nid oes yn Rhydychain yn sicr mo'i gydradd. Rhwng popeth, rhaid rhoi Fairbairn fel darlithydd,—ac nid yn unig am mai Fairbairn ydyw, ac am mai efe yw dyfeisydd yr Ysgol Haf,—ond fel darlithydd, yn yr un rhenc â Dods a Bruce, er addef ei fod yn llai o feistr ar y grefft o ddarlithio na hwy.

“Lle Crist mewn Duwinyddiaeth Ddiweddar,” oedd ei bwnc. Danghosai fel y mae duwinyddiaeth yr oes yma wedi ei thywys yn ol at ddyseidiaeth Crist. *Duw yn Dad* ydyw y syniad mwyaf nodweddiadol o'i ddyseidiaeth Ef. Yn ol y datguddiad a ddygodd Efe i'r byd, dylsid egluro llywodraeth Duw ar y byd yng ngoleuni Ei Dadolaeth. Yn lle hynny, edrychwyd arno gan Dadau Eglwys y Gorllewin braidd i gyd, fel llywodraethwr yn unig. Yn eu mysg hwy cododd syniad newydd am ddeddf, a dehonglwyd y gair Groeg am ddeddf yng ngoleuni y gair Rhufeinig. *Dysgu* oedd swydd deddf yn ol ystyr y gair Groeg; *rhwymio* yn ol ystyr y gair Lladin. Ar ol hynny, pan ddaethpwyd i fyfyrfo ar

athrawiaeth yr Iawn, trwy fod y syniad am ddeddf wedi newid, newidiodd y syniad am foddloni deddf.

Disgyblaeth fuasai yn boddloni y ddeddf, fel yr oedd Paul yn ei deall hi; a dyna oedd yn gydweidd a Duw fel Tad. "Y ddeddf yw ein hathraw ni." Ond cosb yn unig a'i boddlonia hi, yn yr ystyr Rufeinig a rowd iddi. Adfer trefn a chadw anrhydedd y llywodraeth yw y pwnc i gyd yn ol y syniad hwnnw. Rhaid mynd yn ol, gan hynny, am syniad priodol ar yr Iawn, at y meddwl am Dduw fel Tad. Yng ngoleuni hwnnw, gwella'r plentyn ydyw amcan eithaf y drefn. Ond er mwyn hynny, nid digon oedd rhoi y plentyn ei hunan dan ddisgyblaeth. Wrth faddeu i ddyn a'i wella, y mae y Tad hefyd yn dioddef. Nid aberth estronol oddi allan sy'n boddloni'r Tad, ond aberth ag y mae Efe ei Hun yn gyfrannog ynddo. Dyna'r paham y sonia y Testament Newydd am aberth Iesu Grist fel aberth o eiddo'r Tad,—“Yr hwn nid arbedodd ei briod Fab.” “Duw a ddanfonodd ei Fab,” ac yn y blaen. Golyga hyn, wrth reswm, mai nid y marw ar y groes, fel digwyddiad ynddo ei hunan, yn unig yw hanfod yr Iawn; ond fod yr Iawn, fel y dysgai y diweddar Ddoctor Edwards, yn aros yn y person; a chwanneg na hynny, fod yr aberth yn ffaith dragwyddol yng nghariad Duw, ac felly yn natur Duw, er fod y datguddiad o honi mewn hanes ym mywyd ac angu y Duw-ddyn. Y mae Duw yn dioddef wrth fod yn iachawdwr dyn, am nad all Duw ddim edrych ar y pechadur fel pe buasai pechod heb fod. Dyna ddrychfeddwl y Dr. Fairbairn am yr Iawn; a hwn ynghyd a dau beth arall,—pregeth o eiddo Mr. William James, Aberdâr, ac araeth y Principal Edwards yng Nghynadledd Saesneg Lerpwl,—sydd wedi rhoi mwyaf o orffwysdra i fy meddwl i ar hyn o bwnc. Eithr ymddengys i mi fod un man gwan yn athrawiaeth Fairbairn. Os deallais i yn iawn, ywedai mai y sicrwydd y byddai i'r Dwyfol ddiodeffaint ateb y diben, yw yr unig foddlonrwydd y gall Duw ei ddymuno yn niodeffiaidau'i gariad. Os fel yna y golygai y Doctor, onid oes yn y fan yna berygl i ni lithro i'r golygiad, mai am fod yr Iawn yn ffordd i wella dyn y mae yr Iawn yn ffordd i Dduw faddeu? Oni fyddai sail maddeuant, fel yna, yn y rhagolwg ar wellhad y pechadur? Onid fel arall yn union y dylem ni olygu,—maddeuant yn sail gwellhad?

Dyna fras grynhodeb o un adran fechan yng nghyfres ddarlithiau y Dr. Fairbairn; eithr ni raid i ni ymdroi rhagor arnynt yn awr, oblegid clywais un o'r dyddiau diweddat, fod y llyfr sydd i gynnwys sylwedd y chwe darlith eisoes yn y wasg: “Christ in Modern Theology.”

Dyna ben ar y darlithiau. Cafwyd un Saboth yng nghorff y dyddiau y buom yno. Nos Sadwrn bu Cyfarfod Gweddî dan lywyddiaeth Arnold Thomas. Pregethwyd drannoeth gan R. F. Horton a Thomas Charles Edwards; a gweinyddwyd yr ordinhad o Swper yr Arglwydd ar ddiwedd odfa'r bore. Dechreuïd bob dydd trwy ganu, a darllen, a gweddio. Y gweinidogion a ddaethent yno i'r Ysgol oedd yn arwain yn y gwasanaeth hwnnw. Yn eu mysg yr oedd mwy nag un Americanwr, un hynafgwr o fynyddoedd y Pyrenees, ac un Cymro, nid amgen John Williams o Gaer.

Mi ddylwn son gair am y Cynadleddau. Ar ol ciniaw y byddai y rhai hyn, o wyth dan ddeg; ac er hynny, neu am hynny,—nis gwn i pa 'r un,—yr oedd rhai o honynt yn llewyrchus iawn.

Go wan oedd y gyntaf. Ashley o'r America, athraw mewn *Political Economy*, yn traethu ar beth na wyddai ond ail i ddim am dano,—dyledswydd pregethwyr gyda golwg ar bynciau cymdeithasol; a'i hen gyfaill

Horton, yn berwi o natur dda, yn ei ateb yn ffiniog ac yn ddoniol dros ben. Yr un modd Reason o Fansfield House, Llundain, yn traethu'n o ddiwied ar waith ymysg Tlodion y brifddinas. Yr oedd un peth yn y gynhadledd hon, yn wir werth ei roi ar gof a chadw,—araeth Raleigh, y llywydd, yn crynhoi ar y diwedd. Araeth fer oedd yr araeth; ond nid yn aml y dywedwyd cymaint o wir mewn cyn lleied o amser. Cyfreithiwr o Goleg *All Souls* ydyw Raleigh, a gwr sydd yn araf ddringo i amlygrwydd fel gwladwr; a phan gofion fod ei Radicaliaeth uwch law ei hameu, y mae ei sylwadau ar ddyledswydd yr eglwys gyda golwg ar bynciau cymdeithasol y dydd, yn rhai iachus a gwerthfawr iawn. "Camsyniad," meddai, "yw meddwl fod y symudiadau yma o blaid llafur ac yn erbyn golud, i gyd yn grefydd. Y mae y cynnwrf ymhlaid y gweithwyr yn burion peth, bid siwr; yn wir, yn beth da iawn; ond da hunanol ydyw llawer o hono yr un pryd. Pan oedd y pendefigion mewn awdurdod yn y wladwriaeth, deddfent hwy, yn naturiol ddigon, er eu budd eu hunain. Pan gafodd y dosbarth canol, wedyn, y llaw uchaf, gwnaent hwythau yr un modd; a ffrwyth eu hymdrechion hwy ydyw masnach rydd. Yn awr dyma'r pen praffa i'r ffon yn llaw y werin, a hwythau, yr un fath a'r lleill, yn defnyddio eu dylanwad yn eu plaid eu hunain. Pwy wel fai arnynt? Ond cofier mai nid teimlad efengylaidd i gyd yw yr hyn sydd yn eu gweithio hwy i'r fan yna."

Eto: "Gyda golwg ar y cri y dylai pregethwyr gymryd rhan mewn materion gwladol, digon gwir; ond cofier yn wastad fod llinell derfyn rhwng gwaith y gwladwr a gwaith gweinidogion y Gair. Rhaid i'r gwladwr drin pethau *drwyddynt*, fel y bo'r byd yn fforddio; cymryd pethau fel y maent, ac nid fel y dylent fod; edrych beth all o gario, a pheth wedi ei gario, y gellid ei weithio yn hapus gyda'r cyffredin o ddynion, a u cymryd o'u cyrrau. Ond â'r pigion o ddynolryw, â'r gorenon, â'r 'ethol eneidiau' y mae a fynno y gweinidog. Rhaid i'r naill foddloni ar safon gymhedrol, tra mai gwaith y llall yw codi dynion trwy ddal y safon yn ddi-ostwng."

Eto: "Gwir a ddywedwyd, y dylai pregethwyr gefnogi anniddigrwydd ymysg y werin; eithr dylent annog pob dosbarth o bobl, gwreng a bonedd fel eu gilydd, i droi m'n eu hanniddigrwydd arnynt eu hunain."

Dyna rai tameidiau o'r araeth.

Cafwyd cynhadledd hefyd ar bregethu; nid cystal,—fel y sylwodd un o'r ysgrifenywyr ar yr Ysgol Haf,—nid cystal ag aml i gyfarfod pregethwyr mewn Sasiwn.

Bu un arall, well o lawer, ar waith bugeiliol. Y Parch. R. F. Horton oedd y llywydd, ac ni fu gwell llywydd erioed mewn cadair. Ar ol agor y mater, ceuid pawb braidd i dri munud. Dyna ran bwysig o waith llywydd wedi ei gwmpasu ar unwaith,—rhwystro y rhai sydd am siarad gormod; ond beth am y rhan arall, codi y rhai na fynnant siarad dim? Rhyw fân daffiadau fel hyn oedd gan y llywydd i ddyfod i ben a hynny. Yr oedd o wedi digwydd son am y Wesleyaid, nad oedd ganddynt hwy, o'u cyferbynnu a'r enwadau ereill, ddim cymaint o waith bugeiliol; a dyna res o Wesleyaid, rhag blaen, yn codi, y naill ar ol y llall, i ateb yr awgrym, nes y tybid mai hwy wyddai fwyaf o lawer am y gwaith. "Mi welaf bellach," ebai'r llywydd, "y flodd i gael pobol ar eu traed. Y mae arna i eisieu cael gair gan rai o'r Americanaid yma. Dyma'r Wesleyaid wedi codi'n llu, am i mi eu tynnu nhw yn fy mhen; ac os na chwyd rhai o'r Americanaid yn ddioedi, mi ddechreuaf eu difenwi hwythau."

Dywedwyd llawer ar ddyledswyddau bugail, a hynny o bob cyfeiriad. Dywedai Horton ei hun, ei fod ef, o herwydd amledd galwadau i wasanaethu eglwysi ereill, y bugail salaf yn Llundain; a'i fod yn cael gan aelodau ei eglwys wneyd llawer o'r bugeilwaith drosto,—megis cadw cyfarfod y bobl ifainc, ymweled ag esgeuluswyr, ac yn y blaen. Yr unig gyfarfod y gofalai efe ei hun fod ynddo bob tro oedd cyfarfod y plant. Yr oedd gwahanol farnau wedyn beth oedd yr ymweliad bugeiliol i fod. Cytunai pawb mai nid galw noeth, i gael dweyd fod dyn wedi galw. Mynnai rhai y dylai fod darllen a gweddio, a thipyn o seiat gyda phob teulu; ereill, fod hynny'n rhy ffurfiol, ac mai gwell ceisio gwau tipyn o seiat i mewn i'r ymgom gyffredin. Dywedai un,—athraw ar un o golegan y Wesleyaid, os wyf yn iawn gofio,—na fyddai ef, pan yn fugail, ddim yn mynd a'i Feibl i edrych am y cleifion, ond adrodd rhannau o'r Gair cyn mynd i weddi, rhag gwneyd y peth yn ormod o ddefod. Dywedai David Hunter, Glasgow, ddarfod iddo ef ddsygu smocio yn unswydd er mwyn cael mwy o hwyl ar ddal pen rheswm â bechgyn ieuainc ei eglwys; ac iddo rai gweithiau fod yn dipyn o help i rai a flinid gan amheuron, trwy ymdroi yn hamddenol i ddadleu gyda hwynt dan un o'r gloch y bore. Ai nid yw yn bryd, mewn difrif, i enwadau crefyddol Cymru gymryd pwnc y gwaith bugeiliol i ystyriaeth, a chynnal aml i gynhadledd uwch ei ben? Sier yw fod digon o dywyllwch yn ei gylch ymysg y rhai ddylai wybod. Y mae ein pregethwyr ni, at eu gilydd, yn well pregethwyr na'r Saeson, ond yn wannach bugeiliaid.

Rhaid i mi adael y gynhadledd oreu i gyd heb gymaint a braslun o'i hanes, honno yr oedd Fairbairn a Bruce a Dodds ynddi yn ateb holiadau a yrasid iddynt gan eu gwrandawyr. Pe dechreuwn i ar honno, fe âi hyn o ysgrif yn llawer rhy hir. Os bydd Ysgol Haf eto, gobeithio y ceir amryw o gynadleddau fel hon, er gorfod hepgor rhai darlithiau er eu mwyn.

Mewn cyfarfod o Gymry,—yn cynnwys amryw o'r tu allan i wlad eu tadau, a rhai enwogion adnabyddus fel Mr. Eynon Davies a Mr. Justin Evans,—pasiwyd yn unllais, Fod gofyn i'r Principal Edwards, heb ymguro â phwyllgor na pheth, godi Ysgol Haf yn y Bala, neu yn rhywle arall a fernid yn gyfleus. Addawodd yntau ystyried y pwnc.

J. PULESTON JONES.

NODIADAU LLENYDDOL.

Life of Howell Harris, the Welsh Reformer. By HUGH J. HUGHES, Author of "Memoir of David Howell." Newport, Mon.: William Jones. London: James Nisbet & Co. 5s.

LLAWER o ddiolch i Mr. Hughes am ei lafurus gariad yn paratoi y gwaith hwn. Y mae enw Howell Harris mor fawr ac mor fendigaid i Gymru, fel mai gresyn fyddai i'w fywyd a'i weithredoedd nerthol fod yn anadnabyddus i unrhyw genhedlaeth o'i gydwladwyr; ac yn wir byddai yn fendith bod ei hanes yn cael ei efrydu gan gylch llawer changach. Fe gyhoeddwyd dau fywgraffiad iddo yn Saesneg o'r blaen,—un gan Bulmer, a'r llall gan Morgan o Syston. Ond mae y ddau bellach bron yn anadnabyddus, ac yr oeddynt mor anghyflawn fel mai prin y buasai yn werth eu hail gyhoeddi. Fe ddeallid hefyd fod cyflawnder mawr o ysgrifeniadau Harris yn Nhrefeca, a theimlid awydd cryf am fod rhywun yn ymgymeryd â'u chwilio, a gosod ger bron eu cynnwys. Yr oedd tameidiau o honnynt

wedi eu rhoddi ym *Methodistiacth Cymru*, ac yr oeddynt yn "felus moes mwy." Ond yr oedd y papurau hyn mewn llaw-ysgrifen mor fân, ac yr oedd y fath helaethrwydd o honynt—sonia Mr. Hughes am danynt yn llanw tua 17,000 o dudalennau,—fel mai anodd oedd cael neb i wynebu ar y gwaith o fyned trwydynt. Carasem yn fawr i Mr. Hughes, mewn ffordd o arweiniad neu ragymadrodd i'r gwaith yma, roddi hanes lled gyflawn am y papurau hyn, a da fuasai iddo ddangos i ba raddau y mae wedi gwneyd defnydd o honynt yng nghorff y gwaith. Mae yn amlwg, fodd bynnag, ei fod wedi eu hastudio i raddau helaeth, ac fel ffrwyth hynny yr ydym wrth ddarllen y llyfr yn cael cymdeithasu bron yn ddidor â Howell Harris ei hunan. Yr oedd yr Arglwyddes Huntington yn un o'i llythyrâu ato, yn cyfeirio at yr anhawster a deimlai Harris i ysgrifennu. Ni fu haiach un amser fwy o gamgymeriad. Mae yn amlwg fod ysgrifennu yn beth oedd yn dra naturiol iddo, onidè ni fuasai,—yn ychwanegol at yr aneirif lythyrâu a ysgrifennai, a llawer o'r rheiny yn feithion a da,—byth yn gallu ysgrifennu mor helaeth yn ei gofnodion. Ac yr oedd yn gallu gwneyd hyn oll ynghanol traferthion fuasent yn fwy na digon i lanw holl amser cryn nifer o ddynion, er iddynt fod yn rhai egniol a gweithgar. Y mae Mr. Hughes wedi tynnu ar y cyfoeth mawr o fater oedd at ei wasanaeth gyda barn dda a chwaeth bur, ac y mae ei lyfr, nid yn unig yn llawer gwell na'r un arall a ymddanghosodd ar y testun, ond yn deilwng o'i wrthrych enwog, ac yn gyfoethog o addysg a bendith i bwy bynnag a'i darlennu. Diameu y caiff dderbyniad da ym marchnad y llyfrau ymhob man; ond yng Nghymru yn neillduol, fe ddylai gael derbyniad helaeth a charedig iawn. Cawsom yr hyfrydwch dro yn ol o gael ein cymeryd i stesion rheilffordd ym Mon mewn cerbyd a yrrid gan ddyn ieuanc oedd yn was ffarm yn y lle yr oeddem wedi bod yn aros, yr hwn a soniai gyda hyfrydwch tra mawr am y boddhad ydoedd, yn gael wrth ddarllen y cyfrolau ar *Methodistiacth Cymru*. Nid oedd wedi cael cymaint o bleser mewn dim a ddarllenasai yn ei holl fywyd, a siaradai am y pethau a brofent o gymaint dyddordeb iddo mewn dull oedd yn dangos ei fod yn deall yn dda ac yn gwrthfawrogi yn briodol yr hyn a ddarllennai. Ni allem, tra yn calonnog gydlawenhau ag ef yn ei fwynhad llawn a phur, lai na gofidio na fai llawer ychwaneg o'n cydwladyr yn gwybod am y mwngloddiau cyfoethog sydd o fewn eu cyrraedd, o ba rai y gallent ennill cymaint, nid yn unig mewn addysg a doethineb, ond hefyd mewn plaser a mwynhad. Ac y mae y llyfr hwn yn ychwanegiad tra gwrthfawr at ein cyfoeth yn yr ystyr yma. Nid oes neb ag y mae ein cenedl dan fwy o rwymanau i'w anrhydeddu na Howell Harris, ac nid oes eisieu i ni oll ond gwybod mwy yn ei gyloch na fyddem yn ei edmygu ac yn ei garu, ac na ddiolchem â'n holl enaid am i'r fath broffwyd mawr gyfodi yn ein plith, a chael y fraint o'n deffro fel cenedl i fywyd newydd. Mae y gyfrol hardd hon, sydd dros 400 o dudalennau ac wedi ei hargraffu yn dra phrydferth, mor lawn o fater dyddorol fel y mae yn anodd cyfeirio at rannau neillduol o honi. Dyma a ddywedai Whitfield am dano:—

Wedi i mi ddisgyn, fe'm llounid yn fawr wrth weled fy anwyl frawd Howell Harris, yr hwn er nad adwaenwn o ran ei berson, yr ydwyf yn hir wedi bod yn garu yn ymysgaroedd Iesu Grist, ac yn teimlo fy enaid yn cael ei dynnu allan mewn gweddïau ar ei ran. Y mae efe wedi bod yn ganwyl yn llosgi ar yn goleuo yn y parthau hynny,—yn wrthglawdd yn erbyn anghrefydd ac anfoesoldeb, ac yn lledaenydd diffino ar Efengyl bur Iesu Grist. Tua thair neu bedair blynedd yn ol, tueddodd Duw ef i fyned oddiamgylch gan wneuthur daloni. Y mae yn awr tua phump ar hugain mlwydd oed. Y mae wedi ceisio ddwywaith, ac efe ymbob fiordd yn gymwys, am Urddau Sanctaidd; ond gwrthodwyd ef dan yr egusion gau ei fod dan oed, er ei fod y pryd hynny yn ddwy flwydd ar hugain a chwe mis. Tua mis yn ol fe geisiodd drachefn, ond fe'i trowyd o'r neilldu. Ar hynny penderfynodd, ac y mae yn penderfynu mynd ymlaen gyda'i waith; a sêl ddiffino a ddanghosodd yng ngwaith ei Feistr. Am dair blynedd, fel y dywedodd wrthef â'i enau ei hun, y mae wedi pregethu ddwywaith bob dydd am

dair neu bedair awr yn olynol; nid mewn awdurdod fel gweinidog, ond fel m anghyhoedd yn cynghori ei frodyr Cristionogol. Y mae wedi bod, yr wyf yn meddwl, mewn saith o siroedd, ac y mae wedi ymgymeryd â mynd i wylmab-santau, i droi pobl oddiwrth y fath ofereidd celwydd. Y mae llawer o dafarnwyr, ffidleriaid, telynwyr, fel Demetrius, yn gwaeddi allan yn ei erbyn am ei fod yn andwyo eu bywoliaeth. Y mae wedi cael ei wneyd yn destun llawer o bregethau, ac wedi ei fygwth â chyfraith; y mae cwntablaidd wedi eu hanfon i'w ddal. Ond y mae Duw wedi ei fendithio â dewdrd anhyblyg; y mae nerth ar unwaith wedi ei roddi iddo oddi uchod, a pharhâ i fynd ymlaen o orchfygu i orchfygu. Y mae o'r ysbryd ehangaf, yn caru pawb sydd yn caru ein Harglwydd Iesu Grist, ac am hynny fe'i gelwir gan benboethiaid yn Ddiassenter. Fe'i condemna'r gan bawb sydd yn caru melus chwant yn fwy nag yn caru Duw; ond y mae Duw wedi bendithio yn fawr ei ymdrechion duwiol. Mae llawer yn ei alw ac yn ei gydnabod fel eu tad ysbrydol, ac yr wyf yn credu y rhoddent eu heinioes drost. Pregetha yn gyffredin mewn cae, oddiar wal neu fwrdd, neu ryw beth arall, oed brydiau ereill mewn ty. Y mae wedi sefydlu yn agos i ddeg ar hugain o gyn-deithasau yn Neheudir Cymru, ac o hyd y mae maes ei lafur yn ehangu o ddydd i ddydd. Y mae yn llawn o ffydd, ac o'r Ysbryd Glan.

Pan welais ef gyntaf fe glynwyd fy nghalon yn dŷn wrtho. Yr oedd araf eisiou cael peth o'i dân, a rhoddi iddo ddebeulaw cymdeithas â fy holl galon. Wedi i mi ei gyfarch, a rhoddi cyngor cynnes i nifer mawr o bobl oedd wedi ein dilyn i'r gwesty, treuliasom y gweddill o'r noswaith mewn melus gydymgyngori, a dweyd y naill wrth y llall beth a wnelasai Duw i'w heneidiau. Yr oedd fy nghalon o hyd yn cael ei thynnu allan ato yn fwy fwy. Ymddanghosai fod cydymdeimlad dwyfol a chryf rhyngom, a phenderfynais ei gynorthwyo a'm holl nerth. Mewn canlyniad cymerasom gyfrif o'r gwahanol gymdeithasau, a chytunasom ar y cyfryw fesurau ag a ymddanghosent fwyaf tebyg i hyrwyddo achos cyffredin ein Harglwydd. Bendigedig fyddo Duw, mae yn ymddangos fod ysbryd ardderchog wedi mynd allan i Gymru; ac yr wyf yn credu yr ymddengys cyn hir, ychwaneg o'i frwyth. Yr hyn a'm tuedda yn gryf i feddwl felly yw, fod canolfur dallbleidiaeth a sêl plaid yn cael ei dorri i lawr, a bod gweinidogion ac athrawon gwahanol gyfnudebau yn ymuno o un galon ac un meddwl i gario ymlaen deyrnas Iesu Grist. Gwnaed Duw yr holl fyd Cristionogol o gyfelyb feddwl! Oblegid nes y gwneir hyn, yr wyf yn ofni y rhaid i ni anobeithio am unrhyw ddiwygiad mawr yn eglwys Dduw. Wedi llawer o ymddiddan cyurus a chalonogol y naill gyda'r llall, aethom ar ein gliniau a gweddiasom, a rhyngodd bodd i Dduw roddi i mi lawer o ehangder calon yn y ddyledswydd honno. Wedi hynny, cymerasom ychydig swper, ac yna wedi canu emyn aethom i'n gwely, gan foli a bendithio Duw am iddo ein dwyn wyneb yn wyneb. Nid amheurn na chenfigennai y diafol wrth ein dedwyddwch. Ond yr wyf yn gobeithio, trwy gymorth Duw, y gwnawn i'w deyrnas ysgwyd. Mae Duw yn caru gwneyd pethau mawrion trwy offerynnau gweiniad, fel y byddo y gallu o Dduw, ac nid o ddyinion.

Yr oedd Harris yr un modd yn llawn o serchogrwydd pur, a diamen bod hynny, i fesur mawr, yn enwedig pan dan y fath "eneiniad oddiwrth y Sanctaidd hwnnw," yn cyfrif am fagnetiaeth ei ddylanwad ar bawb a ddelen o fewn ei gyrraedd. "O feluster y meddwl," meddai mewn llythyr at Daniel Rowland yn 1743, "o dreulio tragwyddoldeb gyda chwi." Cododd camddealltwriaeth rhyngddynt ar ol hynny,—a achlyseurid ar y naill law gan ymollyngiad teimlad angherdol, ac ar y llaw arall, feallai, gan ormod culni mewn uniongredd,—yr hwn a barodd fawr flinder; ond hyfryd yw gwelod i'r brodyr enwog gael y ffordd i fynwesau eu gilydd drachefn yma, cyn myned i'r pur fwynhad o "dreulio tragwyddoldeb" gyda'u gilydd. Yr oedd yr anwylded a fyynnai rhwng Harris a'r ddau Wesley, ynghyda llawer ereill yn Lloegr, yr un modd yn brydferth iawn. Fe'i profid i gryn fesur gan anghydwelediad ar rai o athrawiaethau yr Efengyl, ac yr oedd gor-sêl dynion llai a gwaelach, ymhlith eu canlynwyr, yn tueddu at wneyd y brofedigaeth yn fwy; ond mae yn hyfryd gwelod fel yr oedd "rhwymyn perffeithrwydd," er y gwahaniaethau, yn eu cadw yn hanfodol un; a diamen eu bod yn cywilyddio erbyn hyn na fuasant yn deall fod Efengyl Crist yn cynnwys yr oll o'r pethau a fawrheid gan y

naill ochr a'r llall, ac fod eu gwahaniaethau yn llai nag y meddyliant. Yr oedd ehangder a chatholigrwydd Harris yn rhyfeddol. Ysgrifennai at Charles Wesley yn 1745 fel yma :—

O y fath ddyfnderoedd o anwiredd sydd yn llechu o fewn fy nghalon. Ond bendigeiddig fyddo Duw fy mod yr hyn ydwyf. Yr wyf yn cael ei fod wedi ei roddi i mi i lawenhau yn llwyddiant pawb ereill yn gymaint, os nad mwy nag yn yr eiddod fy hun; hefyd i hiraethu yn y modd mwyaf pryderus am i'r rhai sydd yn caru ein Harglwydd gael eu dwyn i garu eu gilydd. Yr wyf yn credu fod gwaith mawr a gogoneddus wedi ei ddechreu ar y ddaear. Mae yr Arglwydd yn wir wedi myned allan. Er, i ryw ddoeth ddibenion, fod ychydig o wahaniaeth eto yn aros yn ein hymadroddion, ac etallai yn ein syniadau am bethau, yr wyf yn credu mai ewylllys yr Arglwydd ydyw ein bod yn cyd-ddwyn a'n gilydd mewn mawr dynlerwch; fe ddwg hynny ogoniant i'w enw Ef, ie pan fyddwn ni yn y llwch. Col. iii. 1, 2; 1 Petr. i. 22. Yr wyf yn credu fod gennym oll achos i ymestwg ger bron Duw, ac i ffeiddio ein hnnain na fuom yn fwy tyner o'n gilydd, ac yn fwy gofalus i ochel tramgwyddiadau o flaen y byd. Sut bynnag, yr wyf yn credu y bydd i'r Arglwydd olchi ymaith ein camweddau, a'n dwyn ynghyd mewn amaer. Am y presennol, godedwch i ni gyd-ddwyn mewn mawr gariad, a chyfnerthu a chryfhau dwylaw ein gilydd gymaint ag y bo modd. Fe fyn pob un ei ffordd neillduol ei hunan o feddwl, ac o amlygu ei feddwl; ond dylai pawb sydd yn llwyr llynu wrth y Pen a'r Ffynnon—Crist, a Hwnnw wedi ei groehoelio—roddi a chymeryd rhyddid brawdol; peidio tramgwyddo, na rhoddi y dehongliad gwaethaf ar ereill; ond ymdrechu deall yn llawn beth a feddyliant. Yr wyf yn caru ac yn anrhydeddu y rhai hynny, o ba enwad bynnag y gallont fod, sydd yn ymestwg wrth draed y Gwaredwr, ac wedi adnabod trwy ei ysbryd Ef rinwedd ei waed, er y gallai fod llawer o bethau yn ddiffygiol ynddynt. Pan welaf fod yr Arglwydd wedi datguddio ei Fab ynddynt, a rhoddi iddynt wir a bywiol fydd ynddo Ef, yr wyf yn disgwyl, gan fod yn sicr yr ychwanegir popeth arall.

Dyma drem ar ei lafur yn 1748, mewn llythyr at Mr. Baddington :—

A ydych yn synnu at fy nistawrwydd? Pe cymerech ond tro gyda mi am ddau neu dri mis, a gwelod fy llafur a'm treialon, ac yn enwedig pe gallech ond cymeryd tro trwy fy nghalon, fe fyddai eich syndod yn llai. Sut bynnag, mi ddwedaf i chwi. Y mae yn awr tua naw wythnos er pan ddechreuais fyned trwy Dde a Gogledd Cymru, a'r wythnos hon daethum adref o'm taith olaf o amgylch Gogledd Cymru. Mi ymwelais yn yr amser yma a thair ar ddeg o siroedd, a theithiais tua chant a hanner o filldroedd bob wythnos, a leferais ddwywaith bob dydd, ac weithiau deirgwaith a phedair gwaith. Ac yn y daith olaf yma ni ddioegais fy nillad am saith noswaith, a theithiais o un boreu i'r pryd-nawn dilynol heb orffwys am dros gan milldir, gan bregethu ganol nos, neu yn bur fore, ar y mynyddoedd, gan orfod cyfarfod y pryd hynny i ochel erledigaeth. Gorfu i un dyn yr wythnos cyn i mi fynd yno dalu £20, gerllaw Gwreccsam i Syr W. W. Wynne; amryw o'r gwrandawr bum swllt, ac un ddeg swllt, yr hwn oedd wedi gorfod talu o'r blaen; yr oedd y tro yma y trydydd i'r bobl dlodion gael eu trin felly yn y gymydogiaeth hon am ymgynnul ynghyd. Y tro olaf nid oedd ond un o'r brodyr wedi mynd i weddio gyda rhai cymdogion yn y teulu; cafodd Syr William fuddugoliaeth ar y bobl dlodion a dywedodd, "Yr ydym wedi anfon am gyfraith yn eu herbyn," ond ni allai gael cyfraith. Arglwydd, ateb yn dy achos dy Hun, ac ymddangos yn dy achos dy Hun. Mi gefais mewn lle arall, yn agos i dref y Bala, lle dro o'r blaen y buwyd agos a fy lladd, ddyrnod ar fy mhen oedd bron yn ddigon i hollri fy mhenglog yn ddau; ond ni chefais niwed. Ni welais erioed y fath gynulliadau yn dyfod i wrando, na nwy o ogoniant ymhlith y bobl; y mae llawer o galonnau a drysau yn ddiweddar wedi cael eu hagar. Gwyddom am amryw sydd wedi cael eu deffro yn ddiweddar, ac y mae yr Arglwydd yn ymddangos fel yn troi ei wyneb at y cyfoethogion; y mae amryw o honynt yn ystod y daith hon wedi bod yn fy ngwrando i ac amryw yn ychwaneg yn siarad yn garedig am ddyfod i wrando Mr. Whitfield pan y del.

Ac yn 1849 dywedai :—

Ac yma rhaid i mi godi fy Ebenezer. Yr ydwyf pan yn ysgrifennu hyn yn y flwyddyn 1749, yn bymtheng mlwydder ar hugain oed, un ar hugain o ba rai y dreuliais mewn oferodd a'r pedair blynedd ar ddeg olaf fe'm galwyd gan yr

Arglwydd, a dilynais Oen Duw. Fe roddodd yr Arglwydd daionus i mi, fel y dywedais eisoes, heb ragfyrdod y goleuni angenrheidiol, gallu i lefaru, a nerh corfforol ar y funud, pryd bynnag y byddwn i bregethu. Fe'm galluogodd am saith mlynedd i wneyd hyn, gan mwyaf allan, ar bob tywydd, bob dydd, gydag ychydig iawn o eithriadau, yn gyffredin dair neu bedair gwaith, ac yn ffrwyd bum waith; i farchogaeth o wyth i ugain o filldroedd Cymreig (20 o ba rai sydd gyfartal i 30 o filldroedd Seisnig) a throsodd, dros fryniau a lleoedd peryglus, trwy lifogydd, rhew, ac eira; ac Efe a'm cadwodd fel na dderbynais unrhyw niwed pwysig, er i mi yn ffrwyd syrthio oddiar fy ngheffyl.

Nid rhyfedd fod diwedd y fath un yn ddwfn dangnefedd a'i gladdedigaeth yn rhywbeth ardderchog. Parhâi i ysgrifennu ei deimladau tra y gallodd, ac yr oeddynt yn dra nefolaidd.

Yr oedd Mr. Harris yn awr wedi ei gaethiwo gan ei anhwyldeb i'w wely, ac yn analluog i ysgrifennu; ond eto parhâi i roddi ei dystiolaeth. "Bendigedig fyddo Duw," meddai, "mae fy ngwaith ar ben, ac mi wn fy mod yn myned at fy anwyl Dduw a Thad, oblegid Efe bia fy nghalon, ie, fy holl galon. Er y caiateir i'r gelyn boenydio fy nghorff, bendigedig fyddo yr Arglwydd, ni oedd iddo ddyfod yn agos at fy ysbryd." Yn ffrwyd iawn adroddai gyda llawenydd y geiriau, "Gogoniant i Dduw, mae anghu heb ei golyng." A thrachefn tenni allan, fel yn llawn o ffydd a sicrwydd, "Y mae yn fwy amlwg i mi mai Duw yr fy nhragwyddol Dad, ac y câf fyned ato yn fuan." Drachefn a thrachefn dangnai mor rhyfeddol o anwyl a gwerthfawr oedd y Gwaredwr ganddo, a dywedai, "Dyma ddilyn yr Iesu; yr ydym wedi dyfod i fynydd Seion. Mi welais ffrwyd ogoniant o'r blaen yn y Duw-Ddyn Iesu, ond dim wrth yr hyn wyf yn weled yn awr yddo." Dro arall, pan ddeffrodd o hŷn, trwy benn arteithiol ei gorff, a'i ysbryd yn llamu o'i fewn fel carcharor yn dyfod o ryddid, gan feddwl mai dyma y ddyrnod olaf, gwaedda, "O Iesu, dyma fi yn dyfod, dyma fi yn dyfod ataf Ti." . . . Llawer o ddywediadau duwiol ereill a ddaethant oddiwrtho ychydig cyn iddo ymadael, na chymerwyd i lawr, trwy ba rai y tystiai i'w fawr gariad dros eneidiau gwerthfawr, a'r gofal a deimlai yn eu cych.

Pan ledaenydd y gair fel tân trwy yr holl wlad fod Mr. Harris wedi marw, ymddanghosai fod y wiad yn galaru â galar mawr. Teimlai pawb fod gwr mawr wedi syrthio, ac yr oedd y wlad o gylich eang yn gyrru allan ei thrigolion, y rhai oeddent awyddus am fod yn bresennol yn y diwedd. Mae yr Arglwyddes Huntingdon yn cofnodi ei hargraffadau o'r amgylchiad yn y geiriau canlynol:—"Ar y diwrnod y claddwyd Mr. Harris ni gawsom adegau hynod o ddwyfald dylanwad ar rai dychweledig ac annycheledig yr un modd. Diwrnod na eidd ei anghosio ydoedd, ond yr wyf yn meddwl y dylid ei goffo gyda rhyfeddod sanctaidd a diolchgarwch gan bawb oedd yn bresennol. Nid oedd dim llai nag ugain mil o bobl wedi ymgynnull ar yr achlysur difrifol hon; yr oedd genynn lawer o efrydwyr yn y Coleg, a'r holl weinidogion a'r cynghorwyr oedd wedi ymgasglu o amrywiol barthau i dalu eu teyrnged olaf o barch i weddillion gwr mawr. Yr oedd genynn dair o egyptoriau wedi eu codi, a thraddodwyd naw o bregethau i'r tyrfacedd mawrion, cannoedd o ba rai oedd yn wylu yn hidl. Yr oedd pymtheg o offeiriad yn bresennol, chwech o ba rai a udganaasant udgorn yr Efengyl gyda nerth a rhyddid mawr. Er ein bod wedi mwynhau llawer o bresenoldeb grisol Duw yn ein cynulliadau o'r blaen, eto yr wyf yn meddwl na welais erioed gymaint ar unrhyw walsar a'r diwrnod hwnnw. Yn enwedig pan oedd Swper yr Arglwydd yn cael ei weinyddu, fe dywalltodd Duw ei Ysbryd mewn modd rhyfeddol. Dywedodd llawer o hen Gristionogion wrthyf na welent erioed gymaint o ogoniant yr Arglwydd a golud ei ras Eif, ac na theimlasant gymaint oddiwrth yr Efengyl o'r blaen.

Hyderwn yn fawr y bydd llawer iawn o ddarllen ar y gyfrol werthfawr hon, yn enwedig ymysg y Cymry ymhob man. Ac onid gweddus ac angenrheidiol iawn ydyw cael cyfrol o'r fath yn Gymraeg? Mae yn dra chwith fod y bobl y rhoes Howell Harris ei einioes i'w gwasanaethu, mor amddifad o unrhyw gyfleustra teilwng yn eu hiaith eu hunain, a'r unig iaith a ddeallir yn briodol gan filoedd lawer o honant, i allu ymddydd yn y gynysgaeth o fendith sydd wedi ei gadael iddynt yn hanes ac ysgrifeniadau gwr ag mae ei enw mor fawr yn eu golwg, a'i goffadwriaeth ganddynt mor fendigedig.

Welsh Pictures. Drawn with Pen and Pencil. By J. E. LLOYD, M.A., W. LEWIS JONES, M.A., J. MORRIS JONES, M.A., A. N. PALMER, E. FOULKES, O. M. EDWARDS, M.A., D. TYSSIL EVANS, M.A., D. LLEUFER THOMAS, B.A., Rev. H. ELVET LEWIS, and Rev. DAVID DAVIES. Edited by RICHARD LOVETT, M.A., Author of *Norwegian Pictures*, etc., with seventy two illustrations. London: Religious Tract Society. 8s.

Y MAE Cymdeithas y Traethodau bellach wedi cyhoeddi cryn nifer o gyfrolau prydfferth fel *Pictures* o wahanol wledydd, sydd yn gyfoethog o'r darluniau goreu o'u golygfeydd mwyaf hynod, ac yn cynwys crynhodeb o'u hanes a disgrifiadau o honynt gan ysgrifenywyr galluog a phroffedig. Ac nid ydyw y gyfrol wech yma am Gymry yn ol i'r un o honynt. Yr oedd yn dda iawn gennym weled ei chyhoeddi, a chawsom hyfrydwch mawr wrth ei darllen ac edrych ar ei darluniau. Y mae diethriaid lawer erbyn hyn yn dyfod drosodd i ymweled â'n gwlad, ac yn cael adnewyddiad a mawr hyfrydwch wrth syllu ar ei golygfeydd; y maent hefyd yn dechreu cael ar ddeall fod llawer o ddyddordeb yn ei hanes, ac fod bywyd ei phobl yn rhywbeth llawer uwch nag yr arferent ystyried. I liaws o rai felly, fe fydd y gyfrol hon o werth tra mawr. Bydd yn arweiniad o'r fath oreu iddynt ar eu hymwel- iadau â Chymru; ac wedi dychwelyd, bydd yn dda ganddynt trwyddi gael cymdeithasu drachefn â golygfeydd a roddodd iddynt gymaint o foddhad, a'u dangos a dweyd eu hanes wrth eu ffrindiau. A diameu y bydd llawer o ddar- llenwyr y TRAEHODYDD yn flaenllaw i wneyd y llyfr yn eiddo iddynt eu hunain, ac yn cael o hono lawer o hyfrydwch. Byddai yn anodd hefyd iddynt feddwl am ddim gwell i'w roddi fel anrheg i'w hanwyliaid. Mae'n arw fod pobl yn dyfod o eithaf y ddaear i weled tlysmi ac arddunedd a manau hanesyddol Cymru, a'i phobl hi ei hun heb feddwl ac heb wybod ond ychydig iawn yn eu cych; ac y mae yn dra chwith fod ein plant, bellach, yn ymwneyd â hanes â golygfeydd, ac a phethau dyddorol yr holl wledydd, ond heb gael nemawr fantais i ymgynabyddu â'r cyfoeth o bethau gwych sydd yn eu hymyl. Rhoddai y gyfrol hon fantais dra gwerthfawr iddynt i ddyfod i wybod am eu gwlad eu hunain, ac mewn canlyniad i deimlo wrthi ymlyniad mwy dwfn, a meithrin awydddfryd mwy pur i wneyd eu rhan, hwythau hefyd, mewn ffordd o'i gwasanaethu. Mae enwau ei hysgrifenywyr yn ddigon o warant am y dull boddhaol y maent wedi gwneyd eu gwaith. Yr oedd y golygydd wedi cael llawer o brofiad ar weithiau o'r fath o'r blaen, ac yn gallu dangos iddynt y llinell oeddynt i'w dilyn. Ond pa ddrwg a barodd iddo osod "*The Old House at Llandloes*" o dan y darlun prydfferth o'r *Old Hall*, yr enw yn briodol a roddir arni yn erthygl Mr J. E. Lloyd, "*From Aberystwyth to Llangollen.*" A thrwy ryw amryfusedd y mae wedi gadael i enw ein cyfaill Mr. W. Lewis Jones, M.A., ymddangos yn yr amlen bapyr ac yn yr hysbysiadau yn D. Lewis Jones. Mae yr ysgrifennydd rhagorol hwn hefyd wedi camgymeryd tipyn wrth son am "*The Normal College of the British and Foreign School Society*" ym Mangor, gan nad ydyw yn fwy o Goleg y Gymdeithas honno nag ydyw o Goleg Cymdeithas y Traethodau, er ei fod yn cael ei gario ymlaen ar yr un egwyddor anenwadol â Cholegau y *British and Foreign School Society*. Yr ydym yn meddwl hefyd fod Mr O. M. Edwards yn ei erthygl dra dyddorol ar Sir Feirionydd yn gosod y lliwiau braidd yn gryfion pan ddywed, "The secular education which has been given to Wales hitherto has been comparatively inefficient and useless, being given to Welsh speaking children in indifferent English; but the Sunday Schools, with their gifted teachers and perfect organisation, have made the Welsh a nation of students." Yr ydym ni wedi bod yn dadleu y dylai addysg ein hysgolion dyddiol fod yn cael ei chario ymlaen o'r dechreu ar yr egwyddor o fod plant Cymru yn dysgu Cymraeg ynddynt, ac yn cael deall yn eu hiaith eu hun yr oll a ddysgir iddynt yn Saesneg, ac y dylai arolygiaeth yr ysgolion hynny ar ran y Llywodraeth gymeryd y llafur arbennig hwnnw i'r cyfrif; a chredwn y byddai eu cynnydd, ie mewn gwybodaeth o'r iaith Saesneg, yn dyfod trwy hynny yn llawer mwy. Ond mae y disgrifiad a ddyry Mr Edwards o

aneffeithiolrwydd addysg ein hysgolion dyddiol yn gwyro cryn lawer yn ormod i'r ochr chwith, fel yr ydym yn ofni fod ei ddiagrifiad o waith ein Hysgolion Sabothol yn mynd yn ormod i'r ochr dde. Ac nid ydyw yr hyn a grybwyllir fel clod i gymdogaeth y Bala—fod dyddiau gwyl yn cael eu defnyddio i amcanion llenyddol, a miloedd o'r werin yn eistedd am oriau i wrando cydymgeisïon llenyddol a beirniadu traethodau—ond yr hyn, yn ffodus, sydd wir am liaws mawr o gymdogaethau Cymru. Ond,

Byr achos nodi brychau,
Lle nad oes ond llai na dau.


Mae y gyfrol drwyddi yn werthfawr iawn. Mae y darluniau,—deuddeg a thrigain mewn nifer,—yn rhai da ragorol. Mae y detholiad o lecoedd i'w darlunio wedi bod yn ddoeth, a'r darluniau eu hunain yn gelfydd a hynod o brydferth, y fath ag a'n dēna i sylu arnynt yn hir, a pho fwyaf a syllir arnynt mwyaf o'u rhagoriaeth a ddaw i'r golwg. Ac y mae yr erthyglau ar Gymru Gynt, O Ben y Gogarth i Enlli, Mon, Y Gogledd Ddwyrain i Gymru, Rhanbarth y Wyddfa, O Aberystwyth i Langollen, Meirionydd, Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin, Gower, Caerdydd a Llandaf, a Morganwg, yr rhai a dalant yn dda am eu darllen a'u hastudio. Rhoddant wybodaeth werthfawr a dyddorol am rannau o'n gwlad sydd yn ddiethr i lawer o honom; ac wedi eu hysgrifennu gan rai sydd yn meddu "llygad i weled anian," galluogant lawer i edrych gyda dyddordeb a gwerthfawrogiad newydd ar lawer rhan o Gymru y meddyliant eu bod yn gwybod y cwbl yn eu cych. Ac y maent wedi eu hysgrifennu gan wŷr ieuainc o'r gallu a dysg a rhinwedd ag a wna eu cenedl yn falch o honynt, ac y disgwyliwn oddiwrthynt yn y dyfodol lawer o wasanaeth gwerthfawr a dyrehafol.


Llawlyfr Dirwest i'r Ieuainc. Gan CHARLES WAKELY. Cyfieithwyd, ar gais Cymdeithas Ddirwestol Meirion, gan DR. R. T. JONES, G.S., a MR. W. H. REES JONES. I'w gael gan y Cyfieithwyr, neu y Parch. S. Owen, Tanygrisiau, ac R. J. Williams, Bowydd, Blaenau Ffestiniog. 2c.


MAE Y *Temperance Handbook for the Young*, a gyhoeddwyd gan y *Band of Hope Union*, wedi cael lledaeniad mawr yn Saesneg, ac wedi gwneyd llawer mewn addysgu lliaws mawr o bobl y dyfodol am effeithiau anianyddol y dyfodydd alcoholaidd ar y cyfansoddiad dynol, y rhai o herwydd hynny a fyddant ar dir llawer mwy cadarn i wrthsefyll eu hudoliaeth wedi tyfu i fyny. Gwaith da iawn oedd ei gael allan yn Gymraeg, a gwych gennym weled fod y cyfieithiad yn gywir a naturiol, a'r argraffwath, gan gynnwys y darluniau, yn gwbl yr un fath ag yn y llyfr Saesneg. A cer fod y llyfr am ddwy geiniog—yn enwedig ac ystyried y darluniau rhagorol o wahanol rannau y corff, &c.,—yn hynod o rād, eto y mae y Gymdeithas dda sydd wedi ymgymeryd a'i gyhoeddi,—gan faint ei hawydd i'w weled yn cael ei ddarllen a'i addysgu mor gyffredinol ag y bo modd mewn cyfarfodydd Plant a chynulliadau Dirwestol,—yn barod i'w werthu am swllt y dwain. Dylai ledaenu yn ein gwlad wrth y degau o filoedd. Nid oes dim sydd yn rhoddi cymaint o allu i demtasiwn y ddiol feddwol ar ddynion a'r syniad ei bod, o'i chymeryd yn gymhedrol, mor fanteisiol i iechyd a nerth. Hyd yn oed pe buasai felly, y mae yr arglwyddiaeth a enilla ar ddynion, a'r difrod alaethus y mae trwy hynny yn achosi, y fath ag a ddylai beri i bawb o honom ystyried yn ddirifrol ai ni ddylem ymwrthod hyd yn oed â'r daioni, er mwyn ceisio gosod rhyw atalfa ar ddrwg mor fawr. Ond erbyn edrych, y mae gwyddoniaeth ei hunan yn ein dysgu nad ydyw y dychymyg a goleddir gan gynifer am lēs y cyfodydd hyn, ond *cwbl ddisail*. A dyna a ddysgir ac a osodir ger bron

Mor oleu â'r haul ar hanner dydd,

a thrwy awdurdod meddygon enwocaf y deyrnas, yn y llyfr hwn. Fe geir ynddo fod alcohol yn wenwyn; ei fod yn lleihau nerth gewynol; yn lleihau y galluoedd meddyliol a moesol; yn atal tyfiant iachus; yn rhwystri dreulïad y bwyd; yn gorweithio y galon; yn arwain i afiechyd a marwolaeth.









This book should be returned to
the Library on or before the last date
stamped below.

A fine of five cents a day is incurred
by retaining it beyond the specified
time.

Please return promptly.

Widener Library



2044 090 288 697